
600027191Q

2017. d. 89



GWLAD
SIBERIA
RHWS
MOR OCHOTSK
MOR TAWEL Y GOGLEDD
PERSIA
Ispahan
ARABIA
TIBET
GWLAD CATAI
Canton
BRO IND
SIAM
Borneo
MOR Y DWYRAIN
MOR
GORYNYS DEAU
St Paul
Amsterdam
MOR TAWEL Y DEAU
Cylch Cyfddeau
Pwnc Deau

384 3/6 a/-

# DAEARYDDIAETH,

YN RHODDI HANES AM YR AMRYWIOL

## WLEDYDD, TEYRNASOEDD AC ARDALOEDD

Y SYDD YN

## Ewrop, Asia, Affrica, ac America,

HEFYD

Y MOROEDD, LLYNAU, AFONYDD, MYNYDDOEDD, YNYSOEDD, &c. SYDD, AR YR HOLL DDAEAR.

YN CYNNWYS:

I. Cydsafiad y Byd yn ol trefn Newton, yn nghyd a sylwiadau cywir o berthynas i'r ddaear yn ei gorsaf amgylchynol, yn nghyd a phethau ereill a arwain i wybodaeth o Seryddiaeth, gan fod yn angheurheidiol gwybod prif-ansoddau, a threigladau sêr y Nefoedd, i egluro yr achos o lanw a thrai y môr, diffygiau yr haul a'r lleuad &c.

II. Cyntefigaeth a hanes cenhedloedd, dull eu llywodraeth, eu crefydd, eu lliosogrwydd, eu cyfreithiau, eu cyfoeth, eu trethi ac eu gallu byddinawl.

III. Ardymeriad wybren eu broydd; hanes eu tir o berthynas i bob ansoddau anianol a damweiniol, eu hanifeiliaid, bwystfilod, pysgod, adar, ac ymlysgiaid.

IV. Eu moesau, defodau, ac arferion gwladol, eu hagweddau corfforol, ac eu gwisgoedd, hefyd eu hieithoedd, eu celfyddydau a'u gweithfaoedd.

V. Y prif ddinasoedd, trefydd, a'u hydred a'u lledred.

VI. Talfyriad o egwyddorion pob enw o grefydd gristionogawl; yn nghyd a sylw ar y dûll o addoli sydd gan eulunaddolwyr, mahometaniaid ac iuddewon.

AT YR HYN Y CHWANEGIR

Cofnodau amseryddol, yn mynegi am y pethau mwyaf hynod a ddigwyddodd yn mhob oes, sef Cynllun o Hanesyddiaeth y Byd o'r Greëdigaeth hyd y flwyddyn 1816.

HEFYD,

Taflen yn cynnwys rhifedi trigolion holl gantrefydd a phlwyfydd Cymru, yn ol cyfrifiad y llywodraeth arnynt yn 1811.

Y CYFAN GWEDI EU CASGLU YN OFALUS

GAN ROBERT ROBERTS, O GAERGYBI.

CAERLLEON,

ARGRAFFWYD GAN J. FLETCHER, DROS Y CYHOEDDWR.

1816.

BODLEIAN
1907
LIBRARY

TO HIS ROYAL HIGHNESS

*GEORGE PRINCE OF WALES,*

REGENT OF THE UNITED KINGDOM,

The Munificent Patron of the Fine Arts,

*THIS SYSTEM OF GEOGRAPHY,*

IN THE LANGUAGE OF A PEOPLE

WHO EXULT IN CONTEMPLATING HIM AS

THE DEPOSITORY OF THEIR ANTIENT HONOURS,

IS INSCRIBED

BY HIS ROYAL HIGHNESS'S MOST DEVOTED, HUMBLE SERVANT,

*ROBERT ROBERTS.*




# RHAGYMADRODD,

*Yn nesaf i'n cyflwr ein hunain, mae gwybodaeth am ansawdd a hanesyddiaeth y Byd yn dra angenrheidiol, yr hyn ni ellir ei gyrhaedd ond trwy fyfyrdod dwys yn y gelfyddyd y sydd weithian dan sylw. Mae myfyrio yn y gelfyddyd hon yn peri addysg a difyrwch, ac ar yr un pryd yn greddfu ynom egwyddorion gwybodaeth, buddiol i bob dyn fod yn gyfarwydd ynddynt.*

*Mae ein hamgyffrediadau yn ehengu yn ol rhifedi y gwledydd yr ydym yn adnabyddus ynddynt; wrth olygu effeithiad yr amrywiol hinsoddau ar nwydau dynol ryw; wrth ystyried y cyfnewidiadau chwyrn yn llywodraethau a threfnidiaeth amrywiol wledydd, wrth olygu codiad a gostyngiad teyrnasoedd eang; a dirnad agwedd ac ymarferion ein cyd-greaduriaid a ramrywiol amserau, yr ydym yn casglu trysor helaeth a gwerthfawr o wybodaeth: ac y mae ein hamgyffrediadau megys yn ymhyfrydu yn y golygiad hudolus; a thrwy wrthosod moesau ac arferion cenhedlaethau gwâr ac anwar yn nghyd, mae y darllenydd yn yml awenhâu yn newisiad y blaid oreu.*

*Yn oed y deugain mlynedd diweddaf nid allwn lai na rhyfeddu wrth synied ar gynnyddiad ein gwybodaeth am barthau eang o'r ddaear a ddaethant i'n golwg fal bydoedd newydd yn tarddu o gaddug tragwyddol; ac y moddion penaf o beri hyn o wybodaeth ydoedd weddus eu sylwi.*

*Mae y Gymdeithas er cyfarwydd yd yn* ASIA *yn gyffredinol, yn nghyd a chenadwyr neillduol i* CHINA, TIBET, AVA *ac* INDOSTAN, *gwedi rhoddi goleu newydd ini ar wledydd ëang y dwyreinfyd. Y gymdeithas er chwilio gwledydd* AFFRICA, *trwy gynnorthwy teithiau* PARK, BARROW, BROWN, GOLBERRY, *a* VALENTIA *y sydd gwedi cyfranu gwybodaeth helaeth am barthau mawrion yn yr han hono o'r hŷd, y rhai oeddynt lwyr anadnabyddus ini gynt. Gogledd-leoedd* AMERICA *sydd wedi eu hamlygu yn nheithiau* HEARN, MACKENZIE, WELD, *ac ereill. Môr mawr y deau, ac ei ynysoedd lliosog a olrheiniwyd yn fanwl gan* COOK, LA PEYROUSE, VANCOUVER, TURNBULL, *ac ereill. Cymdeithas cenadwri yr Efengyl, hefyd, trwy ei diwydrwydd mewn bröydd anadnabyddus, y sydd gwedi arddangos pethau rhyfedd am lawer o genedloedd tywyll a phellenig. Hefyd, y mae y cyfnewidiadau arswydus y sydd y prŷd hyn ar drô yn Ewrop yn deilwng o syniad difrifol, lle y gwelwn fwrw i lawr hên deyrnasoedd ardderchog, ac ar y boncyffion rhai newyddion yn tarddu ac yn lledu eu canghenau oddiamgylch.*

*Ond er yr holl ragorion a syniwyd am danynt, mae y gelfyddyd hon yn anghyflawn o berthynas i barthau ëang o'r ddaear; ac nid oes nemawr o obaith yr olrheinir rhai gwledydd yn fanwl tros oesoedd lawer. Y gwallau mwyaf ydynt am hanesion o barthau tufewnol Affrica, a rhanau ëang amrywiol yn Asia, hyd yn nod Persia, Arabia, a Thwrci ddwyreiniol; parthau gorllewin gogledd-barth Am·rica, a·sefydlfeydd yr Yspaeniaid yn y ddwy America. Ychydig a wyddis am Holland newydd, a llawer o diroedd breision y sydd eto heb eu holrhain yn Mor mawr y de, yn enwedig ardaloedd eang Guni newydd, a mandu cyfagos ereill. Hyd yn nod yn Ewrop mae Daearyddiaeth Yspaen a Phortugal ac ymerodraeth y Twrc yn dra amherffaith, ac felly y gellir crybwyll am ryw ranau o wledydd ereill yn agos atom.*

*Gellir ystyried hefyd megys yn ganmoliaeth i'r oes hon, bod yr awydd am wybodaeth fuddiol yn hanesyddiaeth y byd, a cheinciau ereill o'r celfyddydau megys yn dyfod rhagddynt ar gynnydd; ond nid rhyfedd yw bod y cyfryw duedd mewn grym, pan ystyriom nad oes unrhyw ddyn nad yw yn fwy neu lai yn ymgyfranogi ynddynt; a bod yr amrywiaeth y sydd yn y gelfyddyd hon yn addysgu neu yn difyru dynion o bob cymmeddfau. Mae yr* HANESYDD *yn ehangu ei wybodaeth wrth ddarllen am sefyllfa, maintioli, a chylchynoedd gwledydd; y* CYFARWYDD MEWN GWLADWRIAETH *wrth wybod eu hansawdd, ac agwedd gyffredin y trigolion, sydd yn gallu ateb am y cyfnewidiadau y sydd yn digwyddo ynddynt, ac oddiwrth yr effeithiau, yn gallu olrhain yr achos; yr* ATHRONYDD *ac yr* ANIANYDD *ydynt yn gwellhau eu celfyddydau wrth fyfyrio*

*yn ardderchogrwydd y bydoedd fry, a thrwy olrhain amrywiaethau anifeiliaid, llysiau, a mwnau amrywiol wledydd; yr* HYNAFIAETHWR *sydd yn ymloni wrth ddarllen am weddillion ardderchogrwydd adeil dau yr oesoedd gynt; y* TREFNIDIWR *sydd yn cael gwybodaeth am y farchnad oreu i brynu neu i werthu ei dda, ac y sawl a ddarlleno er difyrwch yn unig ydynt yn cael eu boddio yn yr hanes am foesau, arferion, gwisgoedd, ac agweddau amrywiol genedlaethau y ddaear.*

*Ond tu hwnt i wybodaeth am ansawdd a thrafod y ddaear, mae ein hamgyffred yn cael ei ehengu yn fwy pan yr olrheiniom ardderchogrwydd yr eangder diderfyn y sydd yn ei chylchynu, a'r bydoedd tramawr y sydd yn ymdroelli ynddo. Trwy hyn mae y darllenydd yn dyfod yn adnabyddus o anian a symudiad y planedau y sydd yn rhoddi goleuni ini; o'r* GWRES *yr ydym yn ei deimlo; o'r* AWYR *yr ydym yn ei anadlu; o'r* GORUCHION *yr ydym yn eu canfod; a thra mae tymhorau y flwyddyn yn cael eu hegluro gan adchwylfeydd y goruchelion fydoedd, nis gallwn lai na rhyfeddu ardderchogrwydd gwaith gogoneddus y Creadwr, ac nad allai onid Llaw hollalluog eu llunio.*

*Yn ddiweddaf, mae yr awdur yn chwennych crybwyll, bod yn ddrwg ganddo bod rhai gwallau gwedi ymddangos yn y gwaith hwn o berthynas i darddiad ac aberoedd rhai o fân ffrydiau Cymru. a phethau cyffelyb. Pellder yr argraffwasg oddiwrtho a barodd y cyfryw annrhefn. ac y mae yn hyderu y bydd i'r Cymro caredig ddiwygio y cyfryw fân wallau, ac hefyd y gwallau o berthynas i boblogaeth trefydd a phlwyfydd yn hanes Cymru oddiwrth y daflen yn niwedd y gwaith, yr hwn a dynwyd yn ofalus o gyfrifiad y Llywodraeth ar y trigolion yn* 1811.

Llundain, Awst 12, 1816.

## Eglurhad yn Saesneg o rai geiriau a ymddangosant yn anghyfiaith yn nghorff y gwaith.

| | |
|---|---|
| Adnoddau | Resources |
| Albanau | Equinoxes and Solstices |
| Amaethyddiaeth | Husbandry |
| Arddrych | Hemisphere |
| Ardalyddiaeth | Marquisate |
| Arweddiad | Discipline |
| Athronyddiaeth | Philosophy |
| Clawr | Plane |
| Cyfandir | Continent |
| Cyfseryddiad | Constellation |
| Cyffddeau, cyfogledd | Antarctic, arctic |
| Cylafareddwyr | Negociators |
| Cyseidn | Primary |
| Dinas ymherodrol | Imperial city |
| Dirprwywyr | Proxies |
| Etholyddiaeth | Electorate |
| Gormesdeyrn | Usurper |
| Gwenith-faen | Granite |
| Gwregys ardymherol | Temperate zone |
| Lledred a hydred | Latitude and Longitude |
| Llifnod | Fluid |
| Llostlydan | Beaver |
| Llychlynigion | A general term for the nations which border on the Baltic |
| Marmor | Marble |
| Miswrn-wledd | Masquerade |
| Moel danllyd | Volcano |
| Offeren | Mass |
| Pan-flew | Fur |
| Peddyd | Infantry |
| Pedrogl | Square |
| Peiriannau | Engines |
| Penadur | Cardinal |
| Priodoriaeth | Margraviate |
| Priordy, meudwydy | Convent, hermitage |
| Rheieidr & rhaiadrau | Cataracts |
| Tân-dyniad | Electricity |
| Tremynfa | Observatory |
| Trum | Ridge, chain |
| Terfyngylch | Horizon. |

### DIRECTIONS TO THE BINDER.

*The Map of the World, to face the Title-Page, and the others, to face their respective parts of the World. The Astronomical part, to follow the Introduction and List of Subscribers.*

## SUBSCRIBERS' NAMES.

Those that have Asterisks before them are dead since the opening of the Subscriptions.

ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y GWYNEDDIGION, 25 LLYFR.

A

The Most Noble the Marquis of Anglesey—6 copies.
The Most Noble the Marchioness of Anglesey—2 copies.
Right Hon. the Countess of Arran
Capt. Anwyl, Bryn Adda.
Mr. John Anwyl, Holyhead.
Mr. O. Aubrey, Llanerchymedd.

B

Right Hon. Lord Bagot.
Right Hon. Earl of Blessington.
Right Hon. Lord Blaney
Right Hon. Lord Viscount Bulkeley
Right Hon. Sir Joseph Banks, Bart. P. R. S.
Mr. T. Benbo, Llanfechan, Montgom.
Mr. H. Brereton, Pentraeth, A.
Mr. Robt. Bulkeley, Liverpool.

C.

Right Rev. Lord Bishop of Chester.
Sir John Cotgreave, Mayor of do.
Gen. Sir W. H. Clinton, K. B.
* Rev. Thos. Charles, Bala—2 copies.
Mr. T. R. Charles, Bala—6 copies.
Mr. John Charles, Fuller, A.
V. Corbet, Esq. Ynys y maengwyn.
Mr. Geo. Cote, Holywell.
Mr. Crewe, Tabacconist, Chester.

D.

His Grace the Duke of Devonshire.
Her Grace the Duchess of Devonshire
Gabriel Davies, Esq. Bala.
Rev. H. Davies Rector of Aber.
R. L. Davies, Esq. Holyhead.
John Davies, Esq. Bronhanlog.
Mr. Richard Davies, Llanrhuddlad.
Mr. John Davies, Ty'n y lôn, Holyhead.
Mr. John Davies, Cardigan.
Mr. Edw. Davies, Brynbanon.
Mr. D. Davis, Macclesfield-st. Soho.
Mr. W. Davies, Macclesfield-st. Soho.
Mr. D. Davies, Mansfield-street.
Mr. D. Davies, Tooley-street
Mr. P. Davies, Blackfriars'-road.
C. Dibdin, Esq. Saddler's-wells
Mr. D. Davies, currier, Bala.
Mr. John Davies, Llanligan.
Mr. Thos. Davies, Llanwyddyn.
Rev. D. Davies, Towyn, Meir.
Mr. Richard Davies, Llangefni.
Mr. Fonlk Davies, Liverpool.
Capt. Llwelyn Davies, Albion.
Mr. William Davies, Cydfryn, A.
Mr. John Davies, Dol fawr, Meir.
Mr. Peter Davies, Rhos Esmor.
Mr. J. Davies, King George.
Mr. John Dew, Llanerchymedd.
Mr. D. Davies, Deptford
Mr. J. Davies, Plas, A.
Mr. Robt. Davies, Llandyfrydog.
Mr. T. Davies, Holiday yard
Mr. W. Davies, Macclesfield-street
Mr. D. Davies, Thorney-street
Capt. L. Dedwith, Harmony, Abermaw

E.

J. Edwards, Esq. Guilford-street.
Mr. David Edwards, Bala.

A. is an abreviation for Anglesea, Meir. Mont. &c. for Merioneth, Montgomery, &c.

Mr. David Edwards, baker, Bala.
Mr. Robt. Edwards, Llandderfel.
Mr. Robt. Edwards, Ty isa', do.
Mr. Evan Edwards, Beaumaris
Mr. Edw. Edwards, Corwen
Mr. Edw. Edwards, Dolgelle
Mr. Griffith Edwards, Bodafon
Mr. Rowl. Edwards, Bodneithior
Mr. J. Edwards, Bodafon
Mr. Rich. Edwards, Llechog
Mr. John Edwards, Tre'r dryw
Mr. William Edwards, Chwaen wen.
Mr. Edw. Edwards, Gwynfryn
Capt. W. Edwards, Abermaw
Mr. Thos. Edwards, Gerrard-street.
Mr. Owen Edwards, Lothbury
Mr. Edwards, Basinghall-street
Mr. J. Edwards, Maenaddwyn
Mr. Thos. Edwards Llangollen—9 cop.
Mr. G. Edwards Bishopsgate-street
Mr. Griff. Edwards, Clafdy
Mr. H. Edwards, Penmynydd
Mr. J. Edwards, Taldrwst
Mr. W Edwards, Druggist
Mr. W. Edwards, Glanygors ddu
Rev. John Elias, Llanfechell
Mr. W. Elias, College-green, Dublin.
Mr. Edw. Elias, Llanerchymedd
Mr. Thos. Elias, Plas y glyn
Mr. John Elias, do.
Mr. John Ellis, saddler, Llanrwst
Mr. Robt. Ellis, Tymawr, Meir.
Mr. R. Ellis, organist, Beaumaris
Mr. John Ellis, Garn, Dolbenmaen
Mr. Thos. Ellis, Ty'n twll, Abergele
Mr. Thos. Ellis, Mate, Holyhead
Mr. Hugh Ellis, do.
Mr. David Ellis, jun. do.
Rev. T. Evans, Rector of Trewalchmai
Hugh Evans, Esq. Henblas.
Capt. H. Evans, Holyhead
Mr. J. Evans, brewer, do.
Mr. Thos. Evans, Tyddyn bach, Meir
Mr. Edw. Evans, Gwyddelwern
Mr. Edw. Evans, liquor-merchant
Mr. Daniel Evans, School, Bala
Mr. Robt, Evans, School, Mont.
Mr. W. Evans, Ynys yr bwch, A.
Mr. W. Evans, grocer, Bala
Mr. Thos. Evans, Post-office, Dublin
Mr. John Evans, smith, Liverpool
Mr. J. Evans, printer, Caermarthen
Capt. W. Evans, Liverpool
Mr. Morris Evans, Wrexham
Mr. Edw. Evans, Abergele
Mr. Hugh Evans, Hendre wrien
Mr. Rich. Evans, Glasaber, Meir.
Mr. Thos. Evans, Adwy 'r clawdd
Mr. Peter Evans, Trefriw—6 copies
Mr. W. Evans, Weaver, A.
Mr. Evans, Rhosbadrig
Mr. Robt. Evans, Tyddyn llwyn

F.

W. D. Fellows, Esq. Bath
F. T. Foster, Esq. London
Mr. Mes. Forsyth, Llanerchymedd
Mrs. Foulkes, Machynllaith
Mr. E. Foulkes, Southwark
Mr. O. Foulkes, Bryn y neuadd
Mr. J. Foulkes, Graig, Denb.
Mr. J. Furnival, Llanymynech

G.

J. Gilbert, Esq. Chester—2 copies
N. M. Goddard, Esq. Holyhead
Mrs. Goodman, Porthamel
Mr. Goodman Goodman
Mr. W. Glynne, Llanfechell
R. Griffith, Esq. Agent for H. M.'s Packets, Holyhead
Mr. R. Griffith, surgeon, do.
Rev. Dr. Griffith, Beaumaris
Holland Griffith, Esq. Gareg lwyd.
Mr. Rich. Griffith, Tyddyn Watkin
Mr. John Griffith, Clynnog
Mr Robt. Griffith, Newboro'arms, do.
Miss M. Griffith, Aungier-str. Dublin.
Mr. Robt. Griffith, Liverpool
Mr. Hugh Griffith, do.
Mr. Rich. Griffith, Sinnai wen
Capt. W. Griffith, Abermawr
Mr. Rees Griffith, March ynys
Mr. John Griffith, Denbigh
Rev. E. Griffith, Meifod, Mont.
Mr. W. Griffith, Trefdraeth, A.
Mr. Ev. Griffith, Grygoermawr
Mr. H. Griffith, do.
Mr. T. Griffith, Tal y bon
Mr. W. Griffith, Cefn y cwmwd
Mr. W. Griffith, Bull's Head, A.
Mr. Humphrey Gwalchmai

H.

Right Hon. Lord Visc. Hawarden
Mr John Harris, Beaumaris
Mr. Rich. Hinds, Liverpool
Mr. Edw. Howels, Bwlch y ciban
* Rev. E. Hughes, Kinmel
Rev. Thomas Hughes, Liverpool
Mr. John Hughes, Chapel-yard, do.
Mr. Reynold Hughes, do.
Mr. Wm. Hughes, Cornhill, do.
Mr. John Hughes, Barter-street, do.
Rev. M Hughes, St. James, London
Mr. Robt. Hughes, Carey-street
Mr. Rich. Hughes. Holten-str. Soho
Mr. —— Hughes, Gravel-st. Hatton-Garden
Mr. T. Hughes, Pont Robert Oliver
Mr. John Hughes, Llanerchymedd
Mr. J. Hughes, Gwaredog uchaf, A.
Mr. Rich. Hughes, Bodgadfa, A.
Mr. John Hughes, Felin bach
Mr. David Hughes, Ty'n y coed
Mr. W. Hughes, Ty'n y pwll, Holyhead
Mr. Robt. Hughes, Hengourt, do.
Mr. John Hughes, chandler, do.
Mr. J. Hughes, Llanarmon
Mr. J. Hughes, Maes y gadfa
Rev. J. Hughes, Llangadvan Welshpool

Rev D. Hughes, R. of Llanfyllin
Mr. H. Hughes, Llanddderfel
Mr. W. Hughes, Clymwr, A.
Mr. R. Hughes, Llanidan, A.
Mr. Rich. Hughes, Tai cochion, A.
Mr. Robt. Hughes, Ty'n y cae, A.
Mr. Robt. Hughes, jun. do.
Mr. Thos. Hughes, Tyddyn cywarch
Mr. Thos. Hughes, Bodhedd
Mr. Morris Hughes, Ynys grees
Mr. Hugh Hughes, Abergele
Mr. Hugh Hughes, engraver, London
Mr. W. Hughes, Ty'n y felin, A.
Mr. J. Hughes. Perth y gwenyn, A.
Mr. H. Hughes, Fferam, A.
Mr. H. Hughes, Bala
Mr. H. Hughes, Pwll melin, A.
Mr. O. Hughes, Ty newydd, A.
Mr. Edw. Hughes, Dyrnawy, A.
Mr. Rich. Hughes, Llansaintffraid
Mr. Rich. Hughes, Llanwnda
Mr. Ev. Hughes, Macclesfield-street
Mr. Francis Hughes, Newborough
Mr. J. Hughes, Glanygors
Mr. J. Hughes, Joiner
Mr. Nathan Hughes, Arthur-street
Mr Michael Hughes, Treferwydd
Mr. O. Hughes, Penrhyn
Mr. Robt. Hughes, Llys wen
Mr. T. Hughes, Flax-dresser
Mr. D. Humphrey, Factory
Mr. Robt. Humphrey, Botwnog
Capt. E. Humphrey, Dolgelle
Mr. L. Humphrey. do.
Mr. D. Humphrey, Rhos esmor
Mr. R. Humphrey, do.

I.

J. Jackson, Esq. Essex street, Dublin
Jared Jackson, Esq. Llanfigael
Mr. D. Jenkins, Swansea
Rev. H. W. Jones, Rector of Aberffraw
T. Ll. Jones, Esq. Holyhead
Mr. John James, turnpike, do.
Rev. T. Jones, Syrior
W. Jones, Esq. New Bond-street
Mr. Hugh Jones, Nant uchaf
Mr. Rowland Jones, Bryn hyrddin.
Mr. O. Jones, Elusendy
Mr. Benjamin Jones, Holyhead
Mr. O. Jones, Minffordd, A.
Mr. Rich. Jones, Abergele
Mr. Thos Jones, Nant, do.
Mr. Robt. Jones, Park, St. George
Mr. T. Jones, Cae'r clawdd, Denb.
Mr. Rich. Jones, Llanfaethlu
Mr. Edw. Jones, Tyddyn Lewis
Mr. J. Jones, sawyer, Liverpool
Mr. Daniel Jones, James-st. do.
Mr. J. Jones, Brownlow-hill, do.
Mr. H. Jones, Myrtle-street, do.
Mr. W. Jones, cabinet-maker, do.
Mr. J. Jones, broker, do.
Mr. H. Jones, chandler, do.
Mr. H. Jones, sawyer, do.
Mr. J. Jones, joiner, do.
Mr. W. Jones, Bardd Môn—6 copies
Mr. W. Jones, shipwright, Abermaw
Mr. J. Jones, do. do.
Mr. O. Jones, Cwyrt, A.
Mr. L. Jones, Gelliniog goch, A.
Mr. R. Jones, Tyddyn sawdwr, A.
Mr. W. Jones, Bodlew, A.
Mr. J. Jones, Llanol, A.
Mr. J. Jones, Pant y coli, A.
Mr. J. Jones, Clegyrog blas, A.
Mr. J. Jones, Fferam uchaf, A.
Mr. W. Jones, Betws Coedana, A.
Mr. O. Jones, Lligwy, A.
Mr. O. Jones, Gwernygenen
Mr. O. Jones, Amlwch port
* Theophilus Jones, Esq. Amlwch
Mr. Edw. Jones, Bodynolwyn
Mr. Evan Jones, do.
Mr. I. Jones, Llanddansant
Mr. Meredith Jones, *alias* Bedo Beuno
Mr. E. Jones, Bala
Mr. Hugh Jones, Tyddyn Eden, A.
Mr. W. Jones, Cemmaes, A.
Mr. T. Jones, Ysgubor fawr.
Mr. James Jones, Rhos Esmor
Elias Jones, Esq. Gorswen
Mr. Enoc Jones, Llanerchymedd
Mr. Joseph Jones, Amlwch
Mr. Edw. Jones, Gorslwyd, A.
Mr. Griffith Jones, Llanerchymedd.
Mr. Griffith Jones, Cleifiog
Mr. J. Jones, Mutian mawr A.
John Jones, Esq. Beaumaris
Mr. John Jones, School, do.
Capt. H. Jones, Lady Bulkeley, do.
Mr. Hugh Jones, Bardd, Llanwnda
Mr. Robt. Jones, Llain ôg, A.
Mr. Robt. Jones, Llwyn griffri, Meir.
Mr. Griff. Jones, Harlech
Mr. I. Jones, Bryn wydwn
W. Jones, Esq. Llysmeirchion
Mr. Abr. Jones, Llanfyllin
Mr. Thos. Jones, Rhos pen bwa
Mr. Thos. Jones, Bala
Mr. William Jones, do.
Mr. David Jones, do.
Mr. William Jones, Penybont do.
Mr. W. Jones, Nant y frân—2 copies
Mr. W. Jones, Ffrydau bach
Capt. W. Jones, Hope, Aberdovey
J. Jones, Bard, Glanygors
Capt. T. Jones, Alert, Pwllheli
Capt C. Jones, Waterloo, do.
Robt. Jones, Esq. Giltspur-street
Mr. H. Jones, glazier
Mr. H. Jones, Bryn melyn
Mr. J. Jones, Ty 'n y bryn
Mrs. Jones, y Gelli
Mr. Philip Jones, do.

Rev. —— Jones, Llanuwchllyn
Mr. Thos. Isaac, do.
Mr. D. Jones, Cysegrwyd
Mr. Robt. Jones, Llechwedd ystrad
Mr Robt. Jones, Wrach ddu, A.
Mr. J. Jones, Blaen y cwm
Mr. J. Jones, Llandrillo
Mr. Robt. Jones, Tai draw, Meir.
Mr. J. Jones, Llandderfel
Mr. J. Jones, Plas isaf, do.
Mr. D. Jones, School, Llangower
Mr. T. Jones, Llanuwchllyn
Mr. J. Jones, y Fron goch.
Mr. E. Jones, Llechwedd y cefn
Mr. Robt. Jones, Ty du, Me.
Mr. O. Jones, Llanerchymedd
Mr. J. Jones, Shop, do.
Mr. J. Jones, School, St. Asaph
Mr. W. Jones, Whelpol
Mr. Hugh Jones, Llanidloes
Mr. Thos. Jones, y Foel ucha'
Mr. Robt. Jones. Bala
Mr. Robt. Jones, Dolgellau—6 copies
Mr. E. Jones, Croesvaen Llangwm, 3 co.
Mr. J. Jones, late of Caeddafydd
Mr. H. Jones, do. do.
Mr. O. Jones, do. do.
Mr. O. Jones, Ty crwn
Mr. Thos. Jones, Bodwrdin
Mr. Hugh Jones, Bwlan
Mr. Rich. Jones, Pontfaen
Mr. Rich. Jones, Ty pigin
Mr. Henry Jones, Ty'n llan
Mr. Hugh Jones, y Feisdon
Mr. Hugh Jones, Bodrwyn
Mr. J. Jones, Ddrydwy
Mr. H. Jones, Hen dai
Mr. J. Jones, Gallt y Rhedyn
Mr. J. Jones, Bronhaulog—2 copies
Mr. Rich. Jones, Smith
Mr. W. Jones, Ty hen
Mr. L. Jones, Saddler
Mr. Hugh Jones, Llangefni
Mr. J. Jones, Bodffordd
Mr. J. Jones, Joiner
Mr. Robt. Jones, Cefn gwern
Mr. Wm Jones, y Ddol
Mr. J. Jones, Tai bach
Mr. J. Jones, Bryn cenedloedd
Mr. L. Jones, Penybryn
Mr. Daniel Jones, Rhyd Spardun.
Mr. O. Jones, y Frogwy.
Mr. Jones, Llanddyfnan
Mr. D. Jones, Llwyn pren teg, Card.
W. Johnson, Esq. Trin. Col. Dublin
R. Judd, Esq. Holyhead
Rev. E. James, Stepney

K.

Mr. Evan Kinsey, Llanddinam

L.

Right Hon. Earl of Liverpool—2 cop.
Rt. Hon. Countess of Liverpool—2 co.
Mr. D. Lewis, Bishopgate within
Rev. John Lewis, Llandrygan
Mr. Rich. Lewis, Gwaredog
Mr. H. Lewis, Tre wyn A.
Mr. Robt. Lewis, Cae mawr
Mr. W. Lewis, Caw, A.
Rev. D. Lewis, Twickenham
Mr. Thos. Lewis, Tan y llan
Mr. Thos. Lewis, Ty mawr
Mr. Robt. Lewis, Mason
W. P. Lloyd, Esq. Llwydiarth, A.
Rev. W. Lloyd, Rector of Ffestiniog
* Rev. E. Lloyd, R. of Aberffraw
Rev. J. Lloyd, R. of Llanallgo
Mr. Rich. Lloyd, Bodedern
Mr. D. Lloyd, Rhos Esmor
Mr. Robt. Lloyd, do.
Rev. Rich. Lloyd, Beaumaris
Rev. T. Lloyd, Paley, Meir.
Mr. Thos. Lloyd, Abergele
Mr. Hugh Lloyd, Dolgellau
Hugh Lloyd, Esq. Chester
Mr. Evan Lloyd, Cae Nest, Meir,
Capt. W. Lloyd. Abermaw
Mr. D. Lloyd, Bwlch y Ven
Mr. W. Lloyd, Llangefni
Mr. Henry Lord, Chester
Mr. Rich. Llwyd, Chester
Mr. Josiah Lewis, Llangwm
Capt. O. Lewis, Liverpool
Mr. Griffith Lewis, Tailor, do.
Mr. T. Lewis, Clock-maker, Bala
Capt. J. Lewis, Abermaw
Mr. E. Littler, Hart-st. Cov.-garden

M.

Sir Joshua Meredyth, Bart.
Mr. Rich. Meredyth, Ty'n llan
Sir Thos. Mostyn, Bart. M. P.
W. A. Maddocks, Esq. M. P. 2 copies.
O. Morris, Esq. Holywell-street
Mr. R. Morris, y Ddraenen, A.
Mr. Owen Morris, Smith
Mr. W. Morris, Arianws
Mr. T. Morgan, Panton-street

N.

Sir George Nugent, Bart.
Edw. Nash, Esq. Fulham

O.

W. G. Oakley, Esq. Tan y bwlch
Rev. E. A. Owen, C. of Holyhead
* Rev. T. E. Owen, R. Llandyfrydog
Mr. R. Owen, School, Llansaintffraid
Mr. H. Owen, Nailor, Denbigh
Mr. Rowl. Owen, Liverpool
Mr. O. Owens, Druggist, do.
Mr. J. Owen, Moel y creia
Mr. R. Owen, Clynnog
Mr. W. Owen, Havod y llin
Mr. Rich. Owen, Amlwch
Mr. John Owen, Dwygir
Mr. W. Owen, Dolgelle
Mr. W. Owen, Penterfyn

Mr. W. Owen, Chwaen wen
Mr. L. Owen, Perth bêr
Mr. M. Owen, Plas Llangaffo
Mr. J. Owen, Fferam isaf
Mr. D. Owen, Bodelwa
Mr. Owen Presaddfedd
Mr. Michael Owen, Ffridd
Mr. D. Owen, Newborough
Mr. Rich Owen, Pen siri
Mr. Rowl. Owen, Mason
Mr. W. Owen, Llangefni
Mr. W. Owen, Bryn gwyn
Mr. W. Owen, Ty gwyn
Mr. Hn. Owen, Prys Iorwerth
Mr. O. Owens, Glyn.

P.

Right Hon. R. Peele
Rt. Hon. W. W. Pole
Hon. B. Paget, M. P.—2 copies
P. Panton, Esq. Plas gwyn
W. P. Poole, Esq. Pencraig
Mr. E. B. Parry, Surgeon, Holyhead
Mr. Owen Parry, Oxford-street
Mr. J. Parry, Bookseller, Dublin
Mr. J. Parry, do. Chester
I. Parry, Esq. Lower Thornhaugh st.
Capt. Parry, Appolonia, Carnarvon
Mr. Robt. Parry, y Frigan—2 copies
Mr. H. Parry, Bryn golen
Mr. R. Parry, Plas yn byrdre
Mr. H. Parry, Clegyrog uchaf
Mr. Rich. Parry, Llanerchymedd
Mr. H. Parry, Bwlch, Llanfechell
Mr. W. Parry, Llwyn, A.
Mr. W. Parry, Glyn hafod, Clynog.
Mr. J. Parry, Penybryn, do.
Mr. R. Parry, Llanwchllyn
Mr. T. Parry, do
Mr. L. Parry, Gwenfro
Mr. W. Parry, Ty'n 'r onen
Mr. W. Parry, Weaver
Mr. W. Parry, Newborough
Mr. Rich. Parry, Llangwyllog
Mr. J. Parry, Fferam
Mr. E. Peters, Caergwrle
Mr. Robt. Peter, Hên dy
Mr. R. Pierce, Ty'n yr ardd
Mr. W. Pierce, Tai hirion
Mr. T. Pierce, Abergele
Mr. H. Pierce, Bodysgaw
Mr. J. Pierce, Cefn
John Price, Esq. Caernarvon
R. W. Price, Esq. Rhiwlas
Mr. J. Price, Tan yr allt, A.
Mr. D. Price, Llangwm.
Mr. Shem Price, Plas Winter
Mr. W. Price, Sawyer, Liverpool
Mr. D. Price, Walbrook
Mr. Robt. Price, Redwharf
Mr. John Prichard, Tydweiliog
Mr. J. W. Prichard, Plasybrain
Mr. J. Prichard, Llantrisant
Mr. E. Prichard, Penmôn
Mr. H. Prichard, Clynog
Mr. R. Prichard, Blochdy
Mr. E. Prichard, Penysarn
Mr. W. Pritchard, Tyn y gongl
Mr. Dav. Prichard, Mason
Mr T. Prichard, Lively
Mr. J. Pritchard, Pen rhyd
Mr. W. Prydderch, Ynys bach
Mr. D. Prythero, Supervisor
Mr. R. Prydderch, Cerrig gwyddel
W. O. Pughe, Esq. Tan y gyrt
Rev. Mr. Pugh, Pabo
Mr. H. Pugh, Coed

R.

His Grace the Duke of Richmond
J. Radley, Esq. Fleet-street—2 copies
J. Robson, Esq. Thames-street
W. Rogers, Esq. Holyhead
* Rev. S. Rice, Rector of Llanllyfni
Mrs. Marg. Rees, Gwnodl.
—— Read, Esq. Beaumaris
Rev. J. Richards, Llanerchymedd
Rev. Thos Richards, Trevin—2 copies
Mr. Thos. Richards, Newtown
J. Richards, Esq. Lincoln's inn
Evan Roberts, Esq. Brixton
Rev. J. Roberts, V. Dymerchien
Mr. R. Roberts, Maesanod
Mr. Thos. Roberts, Colwyn
Mr. Rich. Roberts, Liverpool
Mr. Robt. Roberts, Sawyer, do.
Rev. M. Roberts, Pwllheli
Capt. E. Roberts, Abermaw
Capt. H. Roberts, do.
Mr. Thos. Roberts, Llwyn rhudol
Mr. W. Roberts, Clynog
Mr. D. Roberts, Tanyrallt, do.
Mr. W. Roberts, Llanerchymedd
Mr. J. Roberts, Currier, Holyhead
Mr. Edm. Roberts, Tanner, do.
Mr. W. Roberts, Joiner, do.
Mr. Robt. Roberts, Mason, do.
Mr W. Roberts, Countess of L. do.
Mr. R. Roberts, Dymchwa
Mr. H. Roberts, Dolgellau
Mr. D. Roberts, Currier, Abergele
Mr. Edw. Roberts, Shop, do.
Mr. Robt. Roberts, Nant, do.
Mr. Thos. Roberts, Smith
Mr. Robt. Roberts, Tyn y cae
Mr. J. Roberts, Ceidio
Mr. Thos. Roberts, Pentre, Me.
Mr. Thos. Roberts, Cilken
Mr. J. Roberts, Joiner, Bala
Mr. J. Roberts, Penydref, do.
Mr. J. Roberts, King-street, Soho
Mr. I. Roberts, King's-arms-buildings
Mr. Edw. Roberts, Bettws
Mr. Edw. Roberts, Llangower
Mr. Robt. Roberts, Drewgoed
Mr. J. Roberts, Esgair fawr

Mr. J. Roberts, Carrier, Bala
Mr. W. Roberts, Storehouse wen
Mr. J. Roberts, Hersedd
Mr. R. Roberts, Cwm carrog
Mr. W. Roberts, Llangefni
Mr. G. Roberts, Cefn du, A.
Mr. R. Roberts, Jerusalem coffee-house
Mr. Benj. Roberts, Gwalchmai
Mr. Moses Roberts, Maes y castell
Mr. Ev. Roberts, Llechan
Mr. O. Roberts, Ty'n y graig
Mr. O. Roberts, Bwlan
Mr. H. Roberts, Rhyd yr arian
Mr. O. Roberts, Ty'n y lon
Rev. H. Rowlands, R. of Newborough
Mr. W. Rowland, Denbigh
Mr. D. Rowlands, Liverpool
Mr. Rich. Rowland, Beaumaris
Mr. R. Rowland, Penrhos, Holyhead
Mr. W. Rowland, Mynydd yr eithyn
Mr R. Rowland, Llanddona
Mr. J. Rowland, Ty fry
Rev. Mr. Rowlands, Aberffraw
Mr J. Rowland, Newborough
Mr. W. Rowland, Fferam
Mr. J. Rowland, Dyffryn
Mr O. Rowland, Shamber wen
Mr. Rice Rowland, Gwalchmai
Mr. H. Rowland, Clegyr mawr
Mr. J. Rowland, Cadnant, A.
Mr. W. Rowland, Hen shop
Mr. R. Rees, Round-court, Longacre

S.

Right Hon. the Earl of Sheffield
* Lady Stanley, Holyhead—6 copies
Sir John T. Stanley, Bart.
Sir Charles Saxton, Bart.
Rev. E Stanley, R. of Alderley
J. M. Skinner, Esq. Holyhead
J. A Stevens, Esq. do.
Isaac Smith, Esq Dublin
Mr. Thos. Smith, Ty cro
Mr R Saunderson, Bala—12 copies
Bodychen Sparrow, Esq. Gr. Geo.-st,
Robt Spooner, Esq. Corn Hill

T.

Hon. Corporation, Trinity House, 2 co
Mr. W. Taylor, Anglesea-st. Dublin
Capt. O. Thomas, Holyhead
Mr. W. Thomas, Stone-cutter, do.
Mr. D Thomas, Bardd, Eryrio.
Mr. D. Thomas Nantyr, Llymister
Mr. Rich. Thomas, Liverpool
Mr. Edw Thomas, Tyddyn du
Mr. Daniel Thomas, Clynog
Mr. E. Thomas, Erware
Mr. Rich. Thomas, Smith
Mr. H. Thomas. Tyddyn y waen
Mr. S. Thomas, Tanner, Bala
Mr. W. Thomas, Talybont
Mr. Rowl. Thomas, y Wrach ddu
Mr. Gabriel Thomas, Penbryn
Mr. Rich. Thomas, Olgre fawr
Mr. W. Thomas, y Bwth
Mr. J. Thomas, Pen yr orsedd
Mr. W. Thomas, Coast-waiter, A.
Mr. Rees Thomas, Church street, Soho
Mr. O. Thomas, Gwalchmai
Mr. H. Thomas, Cefn gwyn
Mr. Robt. Thomas, Ty'n y llan
Mr. O. Thomas, Tyddynodd
Mr. Rich. Thomas, Cerrig mawr
Mr. O. Tibbot, Caer mawr

V.

Sir R. W. Vaughan, Bart. M. P.—2 co.
Colonel Vaughan, Rûg.
W. Vickers, Esq. Holyhead
* Mr. Row. Vaughan, Llanuwchllyn

W.

Sir W. W. Wynn, Bart. M. P. 6 copies
Sir Rt. Williams, Bart. M. P. 2 copies
Sir W. Wynne, Isle of Wight
C. W. W. Wynn, Esq. M. P.
C. W. G. Wynne, Esq Voelas
R. P. Western, Esq. Holyhead
Rev. E. Williams, R. of Rhoscolyn
Rev. J. Williams, R. of Llanddeusant
Owen Williams, Esq M. P.
Rowland Williams, Esq. Beaumaris
* J. Williams, Esq. Grafton-st. Dublin
O. Williams, Esq. Crampton-court, do.
T. Williams, Esq. Sackville-street, do.
Henry Williams, Esq. Tre Iarddur
D. Williams, Esq. Penybont, Bala
Mr. W Williams, Hafod y rhisg
Mr. W. Williams, Pentref Iago, A.
Mr. Thos. Williams, Glasinfryn
Mr. Owen Williams, Bryn glas
Mr. W. Williams, Beaumaris
Mr. W. Williams, Penrhos, Holyhead
Mr. D. Williams, Penybont
Mr. J. Williams, Cae pant
Mr. H. Williams, Llangwm
Mr. Cadwaladr Williams, A.
Mr. J. Williams, Ty'n y rhos
Mr. R. Williams, Pen llain wen
Mr. T. Williams, Pwll yr hwyaid
Mr. H Williams, Ysgubor fawr
Mr. H. Williams, Tre Ifan
Mr. W. Williams, Gwyddfryn
Capt. R. Williams, Abermaw
Mr. Rich. Williams, Pont y cim
Mr. D. Wilson, Carrier, Liverpool
Mr. R. Williams, do.
Mrs. G. Williams, Elbow-lane, do.
Mr. E. Williams, Sawyer, do.
Mr. W. Williams, do. do.
W. Williams, St. John's Col. Cam.
Mr. W. Williams, Newcastle-street
W. Weld, Esq. New Bond-street
Mr. R. Wynne, Perth, Den.
Mr. E. Williams, Grocer
Mr. J. Williams, Geo. & Dragon, A.
Mr. R. Wynne, Llanerchymedd

Mr. W. Williams, Draper, do.
Mr. T. Williams, Dolgellau
Mr. R. Williams, Cwyrt.
Mr. R. Williams, Sarn fadog
Mr. O. Williams, Neuadd wen
Mr. O. Williams, Llanfihengel
Mr. W. Williams, Carnangoch
Mr. O. Williams, y Gaerwen uchaf
Mr. Jos. Wellins, Holyhead
Mr. D. Williams, Smith, Bala
H. Williams, Esq. Dean-street
John Williams, Esq. Wapping-wall
J. Williams, Esq. Tregarnedd
Mr. Morris Williams, Newboro'
Mr. Rich. Williams, Miller
Mr. Rich. Williams, Tre ryffydd
Mr. T. Williams, Ty'n y llan
Mr. T. Williams, Ty'n llwydan
Mr. Benjamin Williams
Mr. W. G. Williams, Cefn cwmwd
Mr. H. Williams, y Frondeg
Mr. O. Williams, Nant fadog
Mr. H. Williams, Gaerwen
Mr. O. Williams, School, Llanrwst
Mr. Robt. Williams, Pandy
Mr. Robt. Williams, Tyddyn du
Mr. Robt Williams, Talybont
Mr. Hu. Williams, Bod Idda
Mr. Hu. Williams, Cefn du
Mr. Rowl. Williams, Cefn cae'r fôr
Mr. Rich. Williams, Tan y lôn
Mr J. Williams, Clark
Mr. Hugh Williams, Newborough
Mr. D. Williams, Llangefni
Mr. W. Williams, Bron y gader

# ARWEINIAD

I WYBODAETH O

# SERYDDIAETH.

## DOSBARTH I.

*Am Seryddiaeth yn gyffredinol.*

SERYDDIAETH sy gelfyddyd yn egluro maintioli, symudiad, pellder, a rhodfëydd y sêr. Addefir hi yn mhob oes yn odidocaf o'r holl gelfyddydau y sy gwedi bod tan sylw dynol ryw, yn gymmaint a bod yr ëangder sydd yn perthyn iddi yn mwyâu ein hamgyffrediadau, yn ein dysgu i fod yn ostyngedig, ac yn ein cynnorthwyo i ddirnad ychydig am fawredd, doethineb, a gallu y Creawdr.

Wrth y gelfyddyd hon yr ydym yn gwybod dull y ddaear, ei maintioli; sefyllfa, ac helaethder ei gwledydd; hefyd trwyddi hi mae y llongwr yn gallu olrhain ei daith dros y dyfnder dilwybr, nos fal dydd, i gyfnewid däoedd gwledydd a'u gilydd.

Wrth Seryddiaeth hefyd yr ydym yn dirnad y moddion neu y deddfau, sy gan y Creawdr mawr o fyned a goruchwylion rhyfeddol y greadigaeth yn mlaen. Trwyddi mae rhyfeddodau y dyfnder mawr yn dyfod i oleuni, godidogrwydd y nefoedd serenog yn cael ei dilènu, tymhorau y flwyddyn yn cael eu nodi, amser yn cael ei ddosbarthu yn rhanau, &c. Felly pan ystyriom fod torf aneirif o fydoedd anferth o faintioli yn llenwi gwyneb y ffurfafen ddifesur, a chyfbell y naill oddiwrth y llall ac ydym ni oddiwrthynt hwy, pa mor annirnadadwy i ni raid bod yr ëangder mawr sydd yn cynnwys y cyfan. Nid rhyfedd oedd i'r Psalmydd lefain, "Y Nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw; a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwylaw ef." Ac mewn man arall: "Pan edrychwyf ar dy nefoedd, gwaith dy fysedd: y lloer a'r sêr y rhai a ordeiniaist. Pa beth yw dyn i ti i'w gofio, a mab dyn i ti i ymweled ag ef?"

A

## DOSBARTH II.

### *Am Grynöad y ddaear.*

GAN fod y ddaear yr hon ydym yn ei phreswylio yn fwy hysbys i ni nag unrhyw o fydoedd ereill y greadigaeth, ceisir egluro ychydig o berthynas i'w dull a'i symudiad, cyn olrhain pethau mwy dyrus. Barnid y ddaear am oesoedd lawer yn faes ëang estynedig o amgylch i bellder diderfyn, a llu disglaer y ffurfafen yn lled agos gwedi eu creu yn unig i'w gweinyddu a'i hadduruo. A chan fod amryw hyd heddyw yn fwy tueddol i gredu y cyfryw chwedlau o flaen gwirionedd eglur, rhoddir rhesymau teg i brofi i'r gwrthwyneb, gwedi yn gyntaf ddywedyd ychydig am y dull sydd arni.

Y Ddaear sy gorff cyfrgrwn megys pêl, a phob rhan o'i gwyneb yn gyfbell o'i phwnc cymherfedd, neu ei chanol, heb i'r bryniau a'r pantiau sydd yn anwastadau ei gwyneb effeithio mwy ar ei chrynöad nag ydyw y mân gnapiau yn effeithio ar ddull hirgrwn yr ŵy. Ei holl drigolion ydynt a'u traed yn cyfeirio at y pwnc canol, yn gystal y rhai oddiarni ag y rhai oddidani, pe byddai rhyw leoedd yn deilwng o enwau felly arnynt. Pe tröid pêl wlyb mewn tywod, byddai y gronynnau isaf arni yn nglyn fal y rhai uchaf, felly mae trigolion Daear yn llenwi ei gwyneb o bobtu.

Y rhesymau i brofi y crynöad hyn ydynt y canlynol:—

1. Pan y byddom yn sefyll ar y lan, mae y môr yn ei gwr pellaf i'n golwg (sef yr ymyl sy megys yn ei uno â'r awyr) yn grwn.

2. Pan y byddo llong yn dynesu atom, yr ydym yn canfod ei hwylbreni cyn canfod ei chorff; a'r un modd pan elo llong oddiwrthym, ei chorff sy gyntaf yn myned o'r golwg, ac yna yn raddol yr ydym yn colli golwg ar ei hwyliau hefyd: pan y byddo morwyr yn nesu at dir, y mynyddoedd sy gyntaf yn ymddangos, yna tyrau, coed, tai, ac yn ddiweddaf y tir isel: pe gwastad fyddai gwyneb y môr, fe gydddeuai llong a'i hwylbreni ar unwaith i'r golwg, ac a gyd-ddiflana wrth fyned o'r golwg; hefyd fe ganfyddai llongwyr wrth nesu at dir, y tai isaf mewn dinas gan gynted â'r clochdai uchaf ynddi.


3 Prawf arall a ellir ei gymeryd wrth sylwi ar ddiffyg ar y lleuad. Mae yn hysbys bod y ddaear rhwng y ddau oleuad mawrion sydd yn llywodraethu nos a dydd, pan y byddo y lloer dan ddiffyg, ac fal y mae pob corff tywyll a ddangosir i'r goleuni yn taflu cysgod y tu ol iddo, felly canfyddir cysgod y ddaear yn mhob diffyg yn ymddangos yn fwäog, peth na allai fod pe na byddai y ddaear yn gyfrgron.

Y 4 rheswm sydd hefyd yn brawf cadarn, sef, bod y mordwywyr a enwir yn ganlynol, ac amryw ereill, ar amrywiol amseroedd, gwedi troi allan i hwylio o amgylch y byd, ac iddynt gyfeirio i'r gorllewin drwy ystod eu taith, a chyrhaedd y porthladd y cychwynasant o hono heb newid ei rhedfa, yr hyn ni allesid ei gyflawni pe na buasai y ddaear yn gyfrgron.

Y cyntaf a roddes gais i amgylchu y ddaear oedd Magellan yn 1519, yr hwn gwedi myned heibio i benrhyn deheuol Affrica, ac ar draws y môr tawel, a laddwyd mewn bicre â thrigolion ynysoedd Phillipine. Yn 1577, anturiodd Drake tros y môr tawel, a dychwelodd o'r dwyrain gwedi bod 2 *flynedd*, 10 *mis*, a 14 *dydd* ar y daith. Yn 1586,

cyflawnodd Cavendish y daith mewn 2 *fl.* 1 *m.* 8 *d.* Yn 1615 aeth Le Maire heibio i Affrica dros y môr tawel a dychwelodd yn mhen 2 *fl.* a 18 *d.* heibio i benrhyn dëau America. Yn 1740, anturiodd Anson tros y môr tawel heibio America ddeheuol, lle y cyfarfu â thymhestloedd trymion, ac y collodd un o'i longau, ac amryw o'i forwyr: dychwelodd heibio Affrica gwedi bod oddi cartref 3*bl.* ac 8 *m.* Yn 1764, aeth Byron, trwy gulfor Magellan i'r mor tawel, ac heibio i Affrica yn ol i Loegr mewn 22 *mis.* Yn 1766, aeth Bouganville o'i hamgylch heibio i America mewn 2 *fl.* a 5 *m.* Yn 1768, aeth Cook i chwilio ansawdd môr y dê, a gwedi darganfod Holland newydd a lleoedd amrywiol ereill, dychwelodd yn 1771, gwedi y daith fwyaf lwyddiannus o gylchynu y ddaear a ddygwyddasai o'r blaen: yn ei drydedd mor-daith o amgylch y byd y collodd Cook ei fywyd mewn bicre â thrigolion ynys Owhyhee, un o ynysoedd Sandwich. Yn 1785, anturiodd Peyrouse heibio America, ond gwedi iddo olrhain arfordiroedd gorllewin-barthau America, Tartari, a lleoedd ereill, daeth tymhestl â llong-ddrylliad arno, a chollodd ef, ac ei wŷr eu bywyd, ond ni wyddis pa le, gan na chlywyd byth am danynt. Yn 1790, cylchynodd Vancouver y ddaear gwedi mwy na phedair blynedd o forio. Ac yn ddiweddar danfonodd Alexander o Russia dair llong i roddi tro o'i hamgylch, y rhai gwedi tair blynedd o forio ydynt newydd ddychwel.

LLUN I.




*Eglurhâd.* Bydded y ddarn gylch A B C yn gosod allan gyfran o'r ddaear, mae yn eglur fod y llong B yn weledig i'r syllydd yn C, ond y mae y gwrym A B C yn ormod iddo ganfod y llong A.

Amrywiol resymau ereill ellid eu henwi, ond yr hai hyn ydynt y mwyaf cyffredin, a thybid eu bod yn ddigon eglur i bob ymofynydd diduedd. Mae yn hysbys bod rhai o'r hen dadau yn y cynamseroedd yn barnu y dyn yn haeriedydd brwnt a hònai fod gwrth-draedwyr mewn bod, sef pobl yn byw ar y tu arall i'r bêl ddaearol. Dyma a ddywed awdur enwog am danynt. "Hwy a gymerasant eu gwrthddadl o ryw ranau o'r ysgrythyrau, y rhai a ddarfu iddynt eu cam ddeall, neu eu gwyrdroi yn ol eu tyb eu hunain; oherwydd eglur yw bod yr ysgrifenyddion sanctaidd yn dywedyd am bob peth fal ac yr oedd pethau yn ymddangos yn gyffredinol, heb ofalu cymmaint am ein dysgu mewn gwybodaeth anianol, ag a oeddynt am egluro pethau o dragwyddol bwys a sylwedd: fal hyn, pan y mae Joshua yn dywedyd am yr haul a'r lleuad yn sefyll, tra yr oedd yr Israeliaid yn ymddïal ar eu gelynion; a Job yn dyfalu y ddaear megys yn ymorphwys ar golofnau, yr oeddynt yn arfer y dull cyffredin o lefaru, heb ymflino ynghylch addasrwydd lythyrenol yr ymadroddion: un sydd adroddiad hanesiol, a'r llall yn gyfansoddiad dynwaredol, yn mha rai y mae y cyfryw ddull o lefaru yn oddefol."

Felly gallwn gasglu oddiwrth yr hyn a ddywedwyd mai nid maes ëang fal bwrdd, megys y dywedai yr hen ddynion gynt, neu fal corff trolynog, fal y dywedai Anaximander, nag ychwaith fal tabwrdd yn ol Aristotle ydyw y ddaear, ond corff cyfrgrwn yn sefyll megys ar ddiddymdra yn yr ehangder mawr.

## DOSBARTH III.

*Am symudiad y ddaear.*

GWEDI profi trwy resymau têg ddull y ddaear, ceisir yma egluro ychydig o berthynas i'w symudiad: ac i'r dyben o fod mor eglur yn y peth ag y gellir, cymerir ychydig sylw ar y grëadigaeth yn gyffredinol, yn enwedig y rhan o honi a eilw seryddion Dosbarth yr haul. Wrth y grëadigaeth yr ydym i ddeall yr holl fyd o gwr eithaf ffurfafen y bydoedd frŷ i'r cwr arall. Ac wrth ddosbarth yr haul yr ydym i ddeall yr haul, y planedau, ac eu lleuadau, ac y ser gwîb, yr hon ddosbarth y mae yr haul yn bwnc cymherfedd iddi, yn rhoddi goleuni a gwres i'r lleill i droi o'i amgylch, i lunio eu tymhorau ac eu blynyddoedd.

Pe gallem amgyffred y dull y mae ein daear ni yn ymysymud, hawdd fyddai dirnad dull symudiadau y lleill, ac yn ganlynol gwybod trefn yr holl ddosbarth. Gwelwn fod yr haul a'r sêr yn ymddangos o fod yn ymsymud yn feunyddiol o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn dychwelyd i'r un lle yn y ffurfafen bob 24 awr: wrth hyny mae yn rhaid eu bod hwy yn symud fal y maent yn ymddangos, neu yr ydym ni yn newid ein lle, canys amlwg yw, nad all dau beth amrywio eu sefyllfäoedd heb i un o leiaf ymsymud.

Os yr haul a'r sêr y sydd yn ymsymud, rhaid bod eu cyflymder yn ddiamgyffred, gan y gwybyddir yn bresenol wrth reolau teg ac hawdd eu profi trwy y rhesymau mwyaf cadarn, bod y nesaf o'r bydoedd frŷ mor bell ac y byddai iddo trwy roddi tro o gylch ein daear bob 24 awr, symud tros gan mil o filltiroedd bob munud. Er nad oes dim yn ddiallu i'r Bod a grëodd y bydoedd, eto chwedl ysgrifenydd enwog, "Gan nad yw anian byth yn dewis agwedd ddyrys i un fwy hawdd, mae yn rhesymol i'r newidiadau hyn gael eu gwneuthyr trwy drofa y ddaear ar ei hechl, yn enwedig pan y bydd y cyfryw symudiad yn tueddu i olrhain yr ymddangosiadau wybrenol yn well."

Dadl arall y sydd yn cael ei harfer yw bod yr haul o leiaf yn filiwn o weithiau yn fwy na'r ddaear, a bod rhai o'r sêr y sydd yn llunio canol-bwnc eu dosbyrth o gymmaint maintioli; felly haws yw amgyffred bod y ddaear wrth roddi tro ar ei hechl mewn 24 awr yn arddangos pob rhan o'i gwyneb iddynt hwy, nag i'r fath gyrff anferth ymsymud o'r naill gwr i'r llall gyd â'r fâth gyflymder diamgyffred.

Mae yn hysbys nad yw ein bod ni yn methu canfod y symudiad hyn yn unrhyw wrthddadl yn erbyn bod y ddaear yn troi. A chan nad ydyw symudiad llong a fyddo yn hwylio yn gyflym ar fôr llyfn yn ddirnadadwy i'r teulu a fyddo ynddi; llawer mwy felly raid bod corff mawr fal y ddaear yr hon sydd heb unrhyw wrthwyneb yn ei harfod ar ei thaith.

Yn yr un modd gellir gwrth-ddywedyd dadl arall y sydd yn erbyn y rhesymau hyn. Dywedir os yw y ddaear yn symud, na ddisgynai careg a fwrid o ben mur uchel wrth y sylfaen, gan y byddai y mur gwedi myned yn mlaen tra byddai y gareg ar ei thaith. Hyn sy gamsyniad; canys gwybyddir wrth brofiadau têg y bydd i gorff a ymdaflo o gorff arall a fyddo yn ymsymud gyd-gyfranogi o'r un symudiad. Felly careg a fwrir o ben hwylbren llong a fyddo dan hwyl, a syrth yn yr un man ar ei bwrdd a phe byddai wrth ei hangor heb ymsymud.

Y symudiad hyn o'r ddaear ar ei hechl, yr hyn a brofwyd trwy y rhesymau uchod a elwir y symudiad beunyddiol, sef yr hyn ag sydd yn peri dydd a nos, ac yr holl ymddangosiadau wybrenol. Ond y mae symudiad arall yn perthyn iddi a elwir symudiad blynyddol, yr hyn sydd yn peri tymhorau y flwyddyn. Profir hyn wrth resymau llêd gyffelyb i'r lleill: canys fal y mae yr haul yn ymddangos o fod yn ymsymud o'r dwyrain i'r gorllewin mewn diwrnod, yr hyn sy'n ddiau yn hanfodi oddiwrth drofa y ddaear ar ei hechl; felly mae yr haul yn ymddangos o fod ganddo symudiad blynyddol yn y ffurfafen, trwy godi a machlud yn wastadol mewn rhanau amrywiol o honi, yr hyn sydd yn ddiammeu yn deillio oddiwrth symudiad beunyddiol y ddaear yn ei rhôd o gylch yr haul i lunio ei blwyddyn.

Nad ydyw y ddaear yn ganol-bwnc y symudiadau wybrenol sydd hawdd ei olrhain wrth agwedd y planedau sydd yn perthyn i'r ddosbarth, canys eglur yw pa le bynag y byddo yr haul, bod rhod y blaned gwener yn ei gyflawn gylchynu; canys canfyddir hi weithiau y tu uchaf neu y tu draw i'r haul; dro arall y tu isaf neu rhwng yr haul a ni: ond nis gwelwyd erioed moni gyferbyn â'r haul, sef yn y gorllewin, pan y byddai yr haul yn y dwyrain, yr hyn a fyddai raid fod weithiau pe byddai ei rhôd o gylch y ddaear, fel y mae y lleuad. Merchyr hefyd gan ei ddysgleirdeb sydd yn nes i'r haul na gwener; felly gan nad yw byth yn ymadaw â phelydrau yr haul, nid yw ef yn weledig heb gynnorthwy drychau dâ; felly oddiwrth hyn, eglur yw bod rhôd Merchyr o fewn rhôd Gwener, ac ei fod fal honno yn golygu yr haul yn bwnc cymherfedd iddo.

Y gor-blanedau a elwir Mawrth, Iou, Sadwrn, ac Uranus, gan eu pellderau ar amseroedd amrywiol oddiwrth yr haul, yn gystal ag eu hagweddau gorsafol a gwrthgrwydrol, sydd eglur mai yr haul, ac nid y ddaear, yw eu canol-bwnc. Oddiwrth hyn ymddengys bod y ddaear ei hunan yn troi o'i gylch, canys yn ol ei lle yn y ddosbarth mae Merchyr a Gwener ar y tu nesaf i'r haul iddi, a Mawrth, Iou, Sadwrn ac Uranus, ar y tu arall, a chan eu bod hwy mae yn debyg o ddefnydd cyffelyb, cyson yw dirnad symudiadau cyffelyb iddynt.

Profion amrywiol ereill a ellid eu nodi, ond tebyg pe byddent mor oleu a'r haul ar ganol dydd y ceid gwrthwynebwyr iddynt, fal yn mhob oes o'r byd. Cafodd Aristarchus o Samos ei farnu yn häeriedydd am amddiffyn yr egwyddorion hyn; ac o fewn llai na 300 mlynedd yn ol, galwyd Galileo i'r chwil-lys i'w fygwth ag angau poenus, os na alwai yn ol ei ysgrifenadau o fod yr haul yn sefydlog yn y man y rhoddes y Creawdr ef, a bod y ddaear ac y planedau yn troi o'i gylch i lunio eu blynyddoedd, eu tymhorau, ac eu dydd a nos.

## DOSBARTH IV.

*Am yr amrywiol ddosbarthiadau a luniwyd gan Ptolomy, Tycho, Newton, ac ereill.*

### DOSBARTH PTOLOMY.

Y DDOSBARTH hon a gyfansoddwyd gan Claudius Ptolemeus o Pelusium, dinas yn yr Aipht ar un o aberoedd afon Nile, yr hwn fu farw yn O. C. 161.

Yr oedd y ddosbarth hon yn dysgu bod y ddaear yn ganol-bwnc y greadigaeth, a bod y lleuad, merchyr, gwener, yr haul, mawrth, iou, sadwrn, &c. yn troi o'i chylch bob 24 awr, a bod y ddosbarth gwedi ei hamwregysu gan ffurfafen y ser, yna gan ddwy rôd risialaidd a chan y *primum mobile*,* yr hwn oedd brif achos symudiad yr holl gyrff nefol. Yr oedd dosbyrth Aristotle,† Hipparchus, ac ereill, agos fal hon, a hyny oesoedd cyn Ptolomy.

Parhaodd y ddosbarth hon mewn grym gantoedd o flynyddau: cyfieithwyd traethawd arni o'r Arabaeg i'r Lladin yn 1230; ond o'r diwedd collodd ei chân ar ymddangosiad dosbarth Tycho.

### DOSBARTH TYCHO.

Y drefn hon a ddyfeisiwyd gan Tycho Brahe, gwr boneddig o Denmarc. Gorsaf ei fyfyrdodau oeddynt ar ynys Huena yn agored y Llychlyn, yn agos i Copenhagen, lle yr adeiladodd dremynfa wych a elwid Uranibourg yn 1580. Bu farw yn 1601.

Yr oedd y ddosbarth hon yn golygu y ddaear yn sefydlog yn nghanol y greadigaeth, ac yr haul yn ei chylchynu bob 24 awr; y planedau merchyr, gwener, mawrth, iou, sadwrn, &c. yn myned o gylch yr haul yn eu hamseroedd priodol, a chyd ag ef o gylch y ddaear bob dydd.

Er bod y ddosbarth hon mewn rhan yn wir, nis cafodd dderbyniad gyffredinol; canys yr oedd hyd yn nod rai o ddisgyblion Tycho yn honni bod gan y ddaear symudiad ar ei hechl, felly, ymddiflanodd y ddosbarth yn llwyr ar adgyfodiad dosbarth Pythagoras,‡ yr hon a adferwyd gan Copernicus|| ac a eglurwyd gan yr enwog ac y dysgedig Newton.

### DOSBARTH NEWTON

ADNABYDDUS WRTH YR ENW

### DOSBARTH YR HAUL.

Yr haul gyd a'r planedau ac y sêr gwib y sydd yn troi o'i gylch fal pwnc cymherfedd, sydd yn cyfleu dosbarth yr haul. Y planedau ne-

* *Primum Mobile* prif symudydd, mewn hen seryddiaeth oedd y nawfed rhôd, yr hwn oedd yn cynnwys ynddo ffurfafen y sêr, a rhodfeydd y planedau, ac mai ei orchwyl oedd cadw cerddediad yn mhlith y cyrff nefol. Nis arferir y gair weithiau mewn seryddiaeth er y defnyddir ef am unrhyw achos symudol, &c.

† Yr oedd Aristotle yn byw o ddeutu 300 mlynedd cyn crêd.

‡ Ganwyd Pythagoras yn Sidon o ddeutu y flwyddyn 590 cyn crêd: bu farw yn 90 mlwydd oed. Barnid ef yn odidocaf o ddysgedigion yr oes.

|| Copernicus, a anwyd yn Thorn yn Prussia yn 1472: cyhoeddodd amryw lyfrau ar seryddiaeth yn yr iaith Lladin, y rhai fu gynnorthwy i'n gwladwr Syr Isaac Newton i egluro godidogrwydd y gelfyddyd.

saf i'r haul ydynt nid yn unig yn gorphen eu cylchdeithiau yn nghynt ond maent yn symud yn gyflymach nag y rhai pellaf oddiwrtho. Ei symudiadau oll sydd o'r gorllewin i'r dwyrain mewn cylchoedd agos cyfrgrwn. Eu henwau, pellder, maint, a'u trofeydd, sydd fal y canlyn.

Yr haul, anferth fyd o dân, sydd wedi ei osod yn nghanol y ddosbarth, ac yn troi ar ei echl mewn 25 dydd â 6 awr, yr hyn sydd amlwg wrth symudiad y brychau y sydd ar ei wyneb. Ei dryfesur sydd 763,000 o filltiroedd, a chan dynfeydd y planedau y sydd yn troi o'i gylch, rhaid (wrth brofion a enwir eto) bod ychydig symudiad ganddo yntau o gylch pwnc cymherfedd cyd-dueddiad bydoedd y ddosbarth.

Wrth y gair echl yr ydym yn dychymygu llinell wastad trwy ganol unrhyw fyd, ac ei dwy eithafnod megys yn begynau iddo droi arnynt.

Ond i ni ddychymygu rhod y ddaear yn wastadfa deneu yn dosbarthu yr haul trwy ei ganol, ac yna ei hestyn i ffurfafen y sêr, hi a noda lwybr yr haul, yr hwn a elwir yr heulrawd. Mae y cylch mawr hwn yn cael ei ranu yn 12 rhân o enw arwyddion; pob arwydd yn 30 rhan o enw graddau; pob gradd yn 60 rhan o enw munudau, a phob munud yn 60 rhan o enw ailiad, &c. Gwna hefyd lenni teneuon rhodfeydd y planedau ddosbarthu yr haul trwy ei ganol, ond nis byddai eu cylchoedd er eu hestyn i'r ffurfafen finfin â'r heulrawd, ond byddai haner pob cylch ar y tu gogledd iddo, a'r haner arall ar y tu de: felly y lle y mae rhodfeydd y planedau yn croesi yr heulrawd a elwir nôd y blaned: y man lle mae y blaned yn myned i fynu a elwir y nôd esgynol, ac y lle mae hi yn myned i lawr a elwir y nôd ddisgynol.

Merchyr, y byd nesaf i'r haul, sydd yn ei gylchynu mewn 87 dydd a 23 awr agos o'n hamser ni, yr hyn yw hyd ei flwyddyn. Nid yw hysbys hyd ei ddydd a nos, gan mai anaml y canfyddir ef, trwy ei fod gan ei agosrwydd, bob amser yn mhelydrau yr haul. Ei bellder oddiwrth yr haul sydd 32 miliwn o filltiroedd, ei dryfesur neu ei led ar ei draws sydd 2600, ac yn ei daith o'i gylch mae yn symud 95,000 milltir bob awr. Mae y goleuni a'r gwres y sydd yn deillio o'r haul i merchyr yn saith mwy nag yw i ni, felly rhaid bod yr haul yn ymddangos seithwaith cymmaint. Nid ydyw gwres anaele y byd hwn unrhyw ddadl yn erbyn bod trigollon ynddo, gan y gallasai y Creawdr addasu cyrff i'r cyfryw wrês cystal ag yr addasodd ninneu i hinsoddau y ddaear.

Mae y blaned hon yn ymddangos trwy ddrychau dâ fal y lleuad, sef weithiau yn fwy ac weithiau yn llai, ond nid yw byth yn llawn, gan nad yw ei wyneb goleu un amser tu ag atom ni, ond y pryd y byddo yn rhy agos i'r haul i unrhyw ddyfais ddynol ei ganfod. Ei bellder mwyaf yw o ddeutu 56 waith lled yr haul oddiwrtho.

Ei rôd sydd yn gogwyddo 7° i'r heulrawd, ac y mae ei rôd esgynol yn 16° o arwydd y tarw, ac y llall yn 16° o arwydd y sarph, sef y lleoedd y bydd y ddaear ynddynt Tachwedd 7, a Mai 5: felly rhaid ar y prydiau hyn neu o fewn ychydig ddyddiau iddynt; fod merchyr mewn undeb â'r haul i ni, sef ei fod y tu cefn iddo, neu yn ddotyn bychan du ar ei wyneb.

Gwener, y nesaf mewn trefn sydd 49,000,000 o filltiroedd oddiwrth yr haul, ac yn ymsymud yn ol 69,000 milltir yn yr awr: hyd ei blwyddyn yw 224 dydd a 17 awr o'n hamser ni, ac ei thryfesur yw

7,906 milltir. Wrth sylwi ar ei bechl-dro, 9½ o ddyddiau a nosweithiau yw hyd ei blwyddyn, ond mae y rhain bob un cyhyd â 24¼ o'n dyddiau a'n nosweithiau ni. Felly rhaid i'r chwarter diwrnod hyn wneyd pob pedwerydd flwyddyn yn gwener yn flwyddyn y naid, fal efo ninnau.

Mae rhôd gwener yn amgae ar rôd merchyr, canys canfyddir hi yn ei phellder mwyaf oddiwrth yr haul yn 96 gwaith lled y goleuad hwnw oddiwrtho, yr hyn sydd agos ddwy waith lled pellder merchyr. Ond mae ei rhôd o fewn cylch y ddaear, canys pe ni byddai, gwelid hi mor fynych gyferbyn a'r haul, ac yw hi mewn cyfundeb ag ef.

Pan y byddo gwener o'r tu gorllewin i'r haul, mae hi yn codi o'i flaen, ac yna yn cael ei galw *seren foreu*; a phan y byddo i'r dwyrain iddo, mae hi yn tywynu gwedi ei fachludiad, ac yn myned tan yr enw *seren hwyrol* gan gadw yr enw 290 diwrnod bob tro.

Echl gwener sydd yn gogwyddo 75° i echl ei rhôd, yr hyn sydd 51½° yn fwy na gogwyddiad echl y ddaear i'r heulrawd, felly rhaid bod ei thymhorau yn amrywio llawer mwy na chyd â ni: rhaid bod pelydrau yr haul yn tywynu yn syth yn ei holl ranau yn eu tro, o fewn 15° i un pwnc hyd at o fewn 15° i'r pwnc arall, ond ei fod heddyw megys ar ganol dydd yn 12½° o uchder, ac erbyn haner dydd dranoeth gwedi chwanegu i 48¾°, sef cymmaint o ragoriaeth yn ei uchder mewn deu-ddydd ag sydd efo ni mewn tri mis.

Mae rhôd gwener yn gogwyddo 3½° i rôd y ddaear, ac y mae ei nodau yn 15° o'r Gefeilliaid, a 15° o Scythydd, felly o ddeutu 15 o Mai a Tachwedd mae gwener y tu draw i'r haul neu yn ddotyn du ar ei gwyneb. Ond y tu draw iddi mae hi yr amserau hyn oddieithr dwy waith neu dair bob canrif. Profwyd yn ei thraws symudiad tros wyneb yr haul yn y blynyddoedd 1761 a 1769 gan ddynion gwedi eu hanfon i bedwar chwarter y byd i'r amcan o syllu arni, i'r dyben o wybod pellder y lleill, nad oes lleuad yn gweinyddu iddi, gan rhaid y buasai ei chanfod yn ngherff y 6 awr y bu y blaned ar wyneb yr haul.

Y DDAEAR yw y nesaf i wener yn y ddosbarth. Ei phellder oddiwrth yr haul sy 95,000,000 o filltiroedd, ac hyd ei blwyddyn, sef ei thro o unrhyw orsaf o'r heulrawd i'r un drachefn, ac a elwir blwyddyn orsafol yw 365d. 5a. 49m. 57a. &c.; ond o unrhyw seren sefydlog i yr un drachefn, ac a elwir blwyddyn serenol, 365d. 6a. 9m. Mae hi wrth lunio ei blwyddyn o gylch yr haul yn teithio yn ol 58,000 milltir bob awr, yr hyn er iddo fod chwech ugain gwaith cyflymach na pelen o wn mawr, sydd onid ychydig ychwaneg na haner cyflymder merchyr yn ei rhedfa! Tryfesur y ddaear yw 7970 milltir, ac wrth iddi droi ar ei hechl o'r gorllewin i'r dwyrain bob 24 awr, mae hi yn peri dydd a nos i'w hamrywiol ranau. Rhaid bod y symudiad hyn yn gwneyd i drigolion y cyhydedd symud 1042 milltir bob awr, a thrigolion Cymru o ddeutu 580, heblaw y 58,000 bob awr o'i thro blynyddol a enwyd, yr hyn sydd gyffredin i'w holl ranau.

Mae echl y ddaear yn gogwyddo 23½ i echl ei rhod, ac y mae ei phegynau bob amser yn cyfeirio at yr un sêr sefydlog, pa gwr bynag o'i chylch y byddo ynddo, yr hyn sydd yn peri cysondeb y tymhorau fal yr eglurir yn mlaen.

Mae yr haul yn ngrâdd cyntaf yr afr, sef lledred 23½° deheuol bob dydd byraf, sef o ddeutu Rhagfyr 22 ac yna yn dyfod rhagddo gan groesi y cyhydedd tua Mawrth 21 hyd at râdd cyntaf y cranc yn lledred 23½° gogleddol o ddeutu Mehefin 21, yr hyn yw eangder e

daith: felly tra y byddo o'r tu de i'r cyhydedd, mae hâf yn rheoli yr arddrych honno, gan wneyd y dydd o 12 awr o hŷd yn nghymydogaethau y cyhydedd, hyd at 24 awr o hŷd yn mîn y cylch rhewlyd deheuol; ac oddiyno i'r pwnc, o 24 awr i chwe mis o hyd.

Y moroedd a pharthau adnabyddus y ddaear ydynt yn cynnwys 160,522,026 o filltiroedd arwynebol; y rhanau trigianol yn 38,990,569: Ewrop yn 4,456,065: Asia yn 10,768,823: Affrica yn 9,654,807: ac America 14,110,874. Y cyfan yn 199,512,595 o filltiroedd arwynebol, yr hyn yw mesur gwyneb yr holl belen ddaearol.

Y lleuad sy fyd bychan yn gweinyddu ein daear ni, gan droi o'i chylch o newid i newid mewn 29d. 12a. 44m, a chyd â'r ddaear o gylch yr haul bob blwyddyn. Ei thryfesur yw 2180 milltir, ac ei phellder o ganol-bwnc y ddaear yw 240,000 o filltiroedd. Mae hi yn rhoddi cyflawn dro yn ei rhôd mewn 27d. 7a. 43m. gan symud yn ol 2290 milltir yn yr awr, ac mae hi yn rhoddi tro ar ei hechl yn yr un amser ag y mae hi yn rhoddi tro o gylch y ddaear, yr hyn yw'r achos o fod yr un wyneb iddi yn wastadol tu ag atom ni. Felly mae ei dydd a nos cyhyd a'n mis leuadawl ni.

Corff tywyll ydyw y lleuad fal y ddaear, heb unrhyw oleuni yn perthyn iddi ond a belydra arni oddiwrth yr haul: felly tra byddo ei hanner nesaf i'r haul yn oleu mae yr hanner arall yn dywyll. Dyna fal y mae hi yn anweledig ar y newid, sef pan y byddo hi yn union rhyngom a'r haul, ond pan elo hi ychydig o'r neilldu, yr ydym yn canfod ychydig o'i hymyl goleu, yr hwn sydd yn mwyâu yn feunyddiol am bythefnos hyd y llawn lloaid, yr hyn ni all ddigwydd ond y funud y byddo hi yn union gyferbyn ag ef, ac yna yn lleilai drachefn hyd ei newid.

Mae echl y lleuad yn cyfeirio yn union at yr heulrawd, felly ni all fod gwahaniaeth rhwng hâf a gauaf ynddi. A pheth sy ryfedd, un hanner o honi sydd yn derbyn pelydrau goleuni y ddaear fal lleuad iddi, tra mae yr hanner arall a phythefnos o ddydd a phythefnos o nos bob yn ail yn rheoli. Os oes trigolion ynddi, ni all preswylwyr yr hanner pellaf oddiwrthym un amser weled y ddaear, mwy na ninnau begwn y de onid awn gyfbell a'r cyhydedd i'r perwyl. Mae y ddaear yn newid ac yn llawn yn ei thro i'r lloer, ond bod ei maint a'i goleuni yn 13 mwy nag yw y lleuad a'i phelydrau i ni, felly rhaid i'r lloerolion haeru mae hi yw y fwyaf yn y greadigaeth.

Nid oes awyr, ac felly na chymylau na gwlaw yn perthyn i'r lleuad, yr hyn a brofir wrth fod pob seren a ddigwyddo fod yn ei harfod, yn cadw yr un dysgleirdeb hyd ei chyflawn orchuddiad ganddi, yr hyn ni allai fod pe byddai awyr yn ei hamwregysu fal ein daear ni, canys pe amgen, cyfnewidiau lliw y seren, neu byddai yn fwy neu yn llai, neu ymddangosai ei symudiad yn fwy cyflym neu yn fwy araf tra y byddai yn gyfagos i'r cyfryw gorff.

Felly gan nad oes awyr-gylch am y lleuad, rhaid nad oes na gwynt, na gwlaw, na chymylau yn perthyn iddi, gan nad allai y cyfryw fod, heb le addas yn noddfa iddynt. A chan mai awyr-gylch y ddaear sydd yn mwyâu y goleuni a dywyno arni, rhaid bod pob rhan o ffurfafen y lleuad yn dywyll, ond y man y byddo yr haul ynddo, felly onid i loerogiad droi ei gefn hanner dydd at yr haul, gwel y sêr yr un funud mor ddysglaer ac y gwelwn ninnau hwynt ganol nos.

Gan y cyduna seryddwyr mai ceunentydd rhwng mynyddau teir-

gwaith uwch nag ein rhai uchaf ni, yw y mànau tywyll a welwn yn y lleuad, rhaid bod ein tiroedd, moroedd a'n hynysoedd ninnau yn ymddangos iddynt hwythau, ond weithiau gan gymylau a tharth yn fwy anamlwg. Wrth hyn gall y lloerolion wybod trofa y ddaear, a mesur eu hamser wrth ei symudiad. A chan fod yr haul iddi hi bob amser yn ei chyhydedd, ac felly dim rheol o fesur ei blwyddyn, mae yn debyg mai nodi y dydd y dechreua un pegwn o'r ddaear ddyfod i ddydd, a'r llall i nos, yw y drefn oreu a all fod ynddi o fesur ei blwyddyn.

Mawrth yw y nesaf mewn trefn. Mae hwn yn 125 miliwn o filltiroedd oddiwrth yr haul, ac yn symud yn ol 47,000 milltir yn yr awr: try o gylch yr haul mewn 686*d*. a 23 *a*. o'n hamser ni, a 667½ dydd o'i amser yntau, sef 40 munud bob dydd a nos ynghyd yn hwy, yr hyn yw hyd ei flwyddyn. Nid yw ei oleuni ac ei wres onid hanner cymmaint ag ydym ni yn ei fwynhau; ac felly mae yr haul yn ymddangos yn llai o'r hanner iddo.

Mae Mawrth o liw coch, ac wrth ei ddynesâd at rai o'r ser sefydlog canfyddir bod awyr dewglyd yn ei am-wregysu. Ymddengys weithiau yn grothog, ond nid byth fal y lleuad newydd yn gorniog, yr hyn sydd yn dangos bod ei rôd y tu allan i'r ddaear, ac nad yw ei oleuni o hono ei hunan.

I mawrth ymddengys ein daear ni a'r lleuad fal dwy loer fechan a mawr, yn newid lleoedd yn wastadol, weithiau yn ½ neu ¾ maint ond byth yn llawn, nag byth yn mhellach oddiwrth ei gilydd na lled y lleuad i ni, er bod y pellder yn 240,000 milltir.

Ymddengys y ddaear i fawrth agos cymmaint a gwener i ninnau, ond byth yn mhellach na 48° oddiwrtho: ambell dro gwêl y trigolion (os oes yno rai) y ddaear ar wyneb yr haul fal y gwelwn ninnau merchyr. Ei echl sydd yn cyfeirio i'r heulrawd, a'i rôd sydd yn gogwyddo iddo 1° 50', felly ychydig yw y gwahaniaeth sydd yn ei dymhorau.

Iou, y mwyaf o'r holl fydoedd sydd yn perthyn i'r ddosbarth sy 426,000,000 o filltiroedd oddiwrth yr haul, ac yn ymsymud yn ei rôd o ddeutu 25,000 milltir bob awr. Hyd ei flwyddyn, sef cyflawn dro o gylch yr haul yw 11*bl*. 314*d*. 12*a*. o'n hamser ni Er bod Iou yn 1000 o weithiau yn fwy nag ein daear ni, eto try ar ei echl gyflawn dro mewn 9*a*. 56*m*; felly mae o ddyddiau yn ei flwyddyn 10,470. Wrth y fâth gyflymder rhaid bod ei barthau cyhydeddol yn symud tros 25,000 milltir bob awr, yr hyn sydd agos 1000 o filltiroedd yn fwy na symudiad ein cyhydedd ni mewn 24 awr.

Cylchynir Iou â rhyw fâth o sylwedd lled oleu, fal gwregysau iddo: weithiau yn lletach ac yn gulach yn eu tro, dro arall ymddangosant yn gynnifer o ddarnau. Nid yw seryddion yn dëall y dyben o honynt, oddieithr gan bellder yr haul eu bod gwedi eu trefnu y dynu gwres iddo.

Mae echl Iou mor union-syth i'w rôd nad oes unrhyw newidiad tymhorau ynddo. Pe digwyddasai bod ysgogiad o ychydig o raddau rhyngddynt, buasai cymmaint o râddau o'i begynau tros 6 blynedd yn eu tro heb lewyrchiad yr haul arnynt.

Nid ydyw yr haul yn ymddangos i Iou ond tu a'r un faint ag yw y seren leiaf i ni, ac nid yw ei oleuni a'i wres ond cyfartal i hyny. Mae 4 lleuad yn gweinyddu iddo, rhai yn fwy a rhai yn llai nag ein daear

ni. Y nesaf ato sydd yn troi o'i gylch mewn 1*d* 18*a*. 36*m*. o'n hamser ni: ac yn 229,000 milltir o bellder o'i ganol bwnc. Yr ail sydd yn ei gylchynu mewn 3*d*. 13*a*. 15*m*. ac yn 364,000 milltir o bellder, y drydedd mewn 7*d* 3*a*. 59*m*. a 580,000 milltir oddiwrtho. Ac y bedwerydd mewn 16*d*. 18*a*. 30*m*. ac yn fil o filoedd o filltiroedd oddiwrth ei bwnc cymherfedd.

Mae y tair lleuad nesaf i Iou yn myned i'w gysgod bob tro yr elont o'i gylch, felly maent tan ddiffyg bob newid, ond mae gogwyddiad y bedwerydd yn peri iddi fod ddau dro o bob chwech heb ddiffyg Wrth y diffygiau hyn mae seryddion yn gwybod cyflymder pelydrau y goleuni, ac wrthynt hwy mae y wybodaeth o hydred lleoedd ar eiu daear ni berffeithiaf.

Rhôd Iou sydd yn gogwyddo i'r heulrawd 1° 20'. Ei nôd esgynol sydd yn 8° o'r cranc, a'i nod ddisgynol yn 8° o'r afr.

Sadwrn sy 780,000,000 o filltiroedd oddiwrth yr haul, ac yn symud 18,000 milltir bob awr yn ei rôd i lunio ei flwyddyn o gylch yr haul, yr hon sy 29*bl*. 167*d*. 5*a*. o'n hamser ni. Mae y blaned hon yn 600 gwaith mwy nag y ddaear, ac yn cael ei chylchynu gan gorff goleu fal math o fodrwy, o led a phellder oddiwrthi o ddeutu 21,000 milltir. Ond gan nad oes unrhyw frychau yn ymddangos arno, ni wyddis ei drofa ar ei echel; felly anadnabyddus hyd yn hyn yw ansawdd ei dymhorau, ac hyd ei ddydd a nos.

Nid yw yr haul o ran maint, goleuni a gwres i sadwrn ond y 90 fed ran ag yw i ni, ond mae iddo 7 o leuadau yn troi o'i gylch o 2 ddydd i 100 o'n dyddiau ni, ac o bellder o 140,000 i 100,000,000 o filltiroedd oddiwrtho.

Mae yr haul yn tywynu am 15 o'n blynyddoedd ni ar un tu i fodrwy sadwrn heb fachlud, ac yna yr un tu yn dywyll gymmaint amser, tra byddo y llall yn cael ei goleuo, os yw ei hechl heb unrhyw ogwyddiad i'r fodrwy. Eithr os oes gogwyddiad cymmaint a chyhydedd y ddaear i'r heulrawd, rhaid bod ardaloedd ei phegynau 15 o'n blynyddau ni heb belydr goleuni yn gwawrio arnynt.

Rhôd sadwrn sydd yn gogwyddo 2½° i'r heulrawd neu rôd y ddaear, ac mae ei nôdau yn yr 22° o'r cranc a'r afr, ac felly o fewn 14° i rôd Iou.

Uranus, yr hon hefyd a elwir *Georgium Sidus*, a ddarganfuwyd gan Herschell yn 1781, ac a gyfenwid felly o barch i'w fawrhydi George III, yw y byd pellaf yn y ddosbarth. Mae hwn er iddo deithio 7000 o filltiroedd bob awr, 83*bl*. 140*d*. 8*a* o'n hamser ni yn rhoddi tro yn ei rôd o gylch yr haul. Ei bellder oddiwrtho yw 1,800,000,000 milltir, a'i dryfesur yw 35,000: felly yn ychwaneg na 400 o weithiau yn fwy na'r ddaear.

Gan na chanfuwyd hyd yn hyn unrhyw frychau ar wyneb y blaned hon, mae sefyllfa ei hechl yn anadnabyddus, ac felly anhysbus yw hyd ei dydd a'i nos.

Mae yr haul yn ei oleuni a gwrês i'r blaned hon yn llai 363 o weithiau nag yw i'r ddaear. Ac os oes trigolion ynddi, rhaid nad ydynt yn canfod unrhyw o fydoedd y ddosbarth, onid yw eu llygaid yn well nag ein llygaid ni. Wrth yr un rhêol mae yn hysbys mae iou yw yr unig blaned a welir o sadwrn; a sadwrn yr unig un a welir o iou; felly onid oes drychau tra rhagorol, braidd y gwyr trigolion y tair planed hyn fod y cyfryw a daear mewn bod.

Barnid wrth ddirnad nad yw goleuni yr haul i Iou ond 28 rhan, i Sadwrn 90, ac i Uranus 363 o weithiau yn llai nag i ni, mae anneddau yn nghyffiniau gorsafoedd tywyllwch ydynt. Ond gwelwn i'r gwrthwyneb wrth eu dysgleirdeb y nos, fod pelydrau yr haul yn gryf arnynt. Mae dysgedigion gwedi sylwi pan fyddo cyflawn ddiffyg ar yr haul bod goleuni cryf yn deillio pan ymddangoso onid y min lleiaf o hono; felly wrth ystyried dywediad Smith bod goleu yr haul yn fwy i ni 90,000 na goleuni y llawn lloaid, er y pellder diamgyffred a enwyd, rhaid bod goleuni Iou 3000 o weithiau, Sadwrn 1000, ac Uranus o ddeutu 4 gwaith mwy na goleuni y llawn lloaid i ni.

Sêr gwib ydynt gyrff tywyll sylweddol, a chynffonau dysglaer yn tarddu o honynt ar yr ochr pellaf oddiwrth yr haul, yr hwn y maent yn ei gylchynu mewn rhodau tra hirgrwn, a chan y gwrês y maent yn ei oddef yn eu hagosrwydd mwyaf iddo, mae yn rhaid eu bod o ddefnydd mwy durfing nag ein daear ni.


Mae cryn ymraniadau gwedi bod o berthynas i'w buddioldeb yn y ddosbarth. Yn y cynamseroedd barnid eu bod yn rhagflaenu digwyddiadau echrys oedd i ddyfod ar wlad neu genedl, ac yn yr oesoedd diweddar, honai rhai mai eu dyben oedd cydgysylltu amrywiol ddosbyrth y grëadigaeth a'u gilydd: ereill a heurant mai eu gorchwyl yw cludo cynud i'r haul, yr hwn meddant sy raid iddo dreulio wrth fwrw o hono gymmaint o oleuni a gwres i fydoedd y ddosbarth, ac amrywiol ddychymygion ereill Dywedodd Syr Isaac Newton fod y seren wîb a ymddangosodd yn 1680, yn ei hagosrwydd mwyaf i'r haul yn 200 o weithiau yn boethach na haiarn yn eirias wyn: a chan y byddai pelen haiarn modfedd o drwch a boethid felly awr yn oeri, byddai corff o faintioli ac o ddefnydd y seren wib honno 50 mil o flynyddoedd yn cwbl oeri!! Yr oedd y seren hon yn ei phellder mwyaf oddiwrth yr haul yn 11,200,000 o filltiroedd, ac yn ei phellder lleiaf o'i ganol-bwnc yn 49,000, yr hyn yw o fewn llai na chweched rhan ei dryfesur iddo. Yn y cwr nesaf o'i rhôd i'r haul symudai yn ol 880,000 milltir bob awr, ond yn arafu wrth ymbellhau oddiwrtho. Mae gwrês anaele y bydoedd hyn yn nghyd a'u hawyr-gylch tarthog ar yr olwg gyntaf, yn eu harddangos ini yn anneddau anaddas i unrhyw fywolion, a llawer mwy felly i greaduriaid rhesymol, yr hyn mae yn debyg a barodd y dychymygion gwag oedd mewn bri yn oesoedd anwybodaeth o'u bod yn anneddau i'r damnedigion i'w poeni yn nwy eithafnod gwrês ac oerni.

Y seren wib ddiweddaf a ymddangosodd oedd yn 1811, yr hon gwedi bod fisoedd yn y golwg yn ei thaith o'r gogledd i'r heulrawd, a aeth o'r diwedd mor bell nad ellid ei chanfod trwy y drychau goreu. Er bod ansawdd y cyrff mawrion hyn yn anadnabyddus i ni, eto nid all meddwl ystyriol lai na rhyfeddu mawredd y Creawdr wrth ddirnad yr eithafoedd diamgyffred y sydd yn perthyn i'w taith.

I'r dyben o gynnorthwyo ein hamgyffred am bellder dirfawr yr haul, y planedau a'r sêr, bydded ini ddychymygu i beth gael ei daflu o'r haul gyd a chyflymder pelen o wn mawr, yr hyn yw yn ol 480 milltir bob awr; byddai i'r cyfryw beth gyrhaedd rhôd merchyr mewn 7 mlynedd 221 dydd; rhôd gwener mewn 14*bl.* 8*d.*; y ddaear mewn 19*bl.* 91*d.*; mawrth mewn 29*bl,* 85*d.*; iou mewn 100*bl.* 280*d.*; sadwrn mewn 184*bl.* 240*d.*; uranus mewn 371*bl.* 342*d.*; y seren wib 1680, yn ei phellder mwyaf oddiwrth yr haul mewn 2000*bl.*; ac i'r nesaf o'r sêr feydlog mewn 7,600,000 o flynyddau!!!

Rhaid addef mai ynfydrwydd yw i ni ddychymygu y bydoedd hyn yn anneddau trigolion, er bod rhesymau egwan yn tueddu i feddwl felly; sef bod lleuadau yn gweinyddu y rhai pellaf yn y ddosbarth, ac nad yw y rhai nesaf i'r haul, gan ei fod yn rhoddi iddynt gyflawn oleuni, mewn meddiant o yr un. Y casgliad goreu a allwn wneyd wrth sylwi arnynt, yw rhyfeddu doethineb, gallu, daioni, anghyfnewidioldeb, a goruchwyledd y BOD MAWR y sydd yn llywodraethu y cyfan; a chrynu yn dduwiol yn ein lle, wrth ystyried y byddwn ar gael, ac yn dystion byw, pan y byddo y rhai hyn oll, a myrddiwnau o fydoedd ereill anadnabyddus eto i ni, yn ymddryllio ar unwaith o fôd, i angof didranc, ar udganiad yr udgorn mawr, a fyddo yn dannod dyfodiad y Barnwr i alw meirwon a bywolion byd ger ei fron.

LLUN 2.



*Eglurhâd.*—Pwnc canol cylchoedd *Llun* 2, sydd yn dynodi yr haul: y cylch nesaf ato yw rhôd merchyr; yna rhôd gwener, a thrachefn rhôd y ddaear a'r lleuad. Y nesaf yw mawrth; yna iau a'i 4 lleuad; gwedi hyny sadwrn a'i 7 lleuad, a'r pellaf o fydoedd y ddosbarth ydyw Uranus* a'i 6 lleuad, rhôd yr hwn sydd yn llunio ymyl nesaf allan y darluniad. Y ddarn gylch hirgrwn sydd yn cyfeirio o gwr uchaf y darluniad trwy rodau y planedau, ac o gylch yr haul, sydd yn dangos rhôd seren wib.

Mae 4 planed fechan a enwir Ceres, Pallas, Juno a Vesta, a ddarganfuwyd yn yr oes hon, a'u rhodau oll rhwng Mawrth ac Iou.

---

* Yr hynaf o dduwiau y cenhedloedd: dychymygid mai ef a Terra oeddynt rieni Sadwrn, Oceanus, Hyperion, a lliaws ereill.

## DOSBARTH V.

### *Am y Sêr sefydlog.*

Y Sêr sefydlog a elwir felly am y golygir hwynt yn mhob oes yn cadw yr un pellder y naill oddiwrth y llall, trofa y ddaear ar ei hechl yn unig sydd yn peri eu symudiad beunyddiol. Maent yn ymddangos i lygad noeth o gryn faintioli, am fod pelydrau miloedd ereill yn cyd gyta'r fod yn nghanwyll y llygad, ond po fwyaf fyddo gallu y drych yr edrychir arnynt trwyddo, lleiaf yr ymddangosant, yr hyn sy brawf bod eu pellder agos yn ddiamgyffred, ac hefyd mai nid goleuni benthyciol sy ganddynt. Pe na byddent gyrff goleu fal yr haul, byddent mor anweledig heb ddrychau ag ydyw lleuadau iou, canys canfyddir y rhai hyny trwy ddrychau (er eu bod yn anweledig i lygad noeth) o fwy maint nag unrhyw o'r sêr sefydlog.

Gan fod goleuni y lleuad yn llawer mwy ysplenydd na goleuni yr holl sêr ynghyd, ynfydrwydd tybiai bonni iddynt gael eu creu i'r unig amcan o daflu llewyrch egwan ar wyneb daear, yn enwedig gan fod miloedd o honynt yn anweledig heb gynorthwy drychau da. A chan fod yr haul yn gylchynedig gan gyrff tywyll i droi o'i amgylch i lunio eu blynyddoedd, eu tymhorau ac eu dydd a nos, paham nad cyson dywediadau amryw enwogion, mai hauliau cymmaint neu fwy nag ein haul ni ydynt, i roddi goleuni a gwres i fyrddiynau o fydoedd (anweledig er unrhyw ddyfais ddynol i ddaearolion) sydd yn troi o'u cylch? Dywedai Syr Isaac Newton yn ei sylw ar ëangder y grëadigaeth, ei bod mor ddiamgyffred, na byddai i lygad a allai ganfod y cwbl, golli mwy pe difodid holl ddosbarth yr haul, nag a gollai syllydd ar lan y môr pe dygid un gronyn o dywod oddiyno. Wrth hyn pa iaith sy ddigon ardderchog i gynnwys geiriau addas i osod allan y tyb lleiaf am y fath ëangder mawr? Gofynodd ysgrifenydd y llinellau hyn i seryddwr enwog, a oes terfyn i grëadigaeth Duw? Yr ateb oedd, "Pe na byddai terfyn, nid amser fyddai enw addas y gyfran o'r grëadigaeth yr ydym yn ei phreswylio, ond tragywyddoldeb."

Mae seryddion i'r dyben o wahaniaethu rhwng seren a seren, gwedi rhanu holl ffurfafen y sêr yn dair rhan, sef y sidydd, ac yr arddrych ogleddol a deheuol; ac y rhai hyny drachefn yn amrywiol ddosbarthau adnabyddus wrth yr enw cyfseryddiadau.

Y sidydd, gwregys sydd yn cynnwys ynddo holl rodau y planedau, sydd yn ymestyn 8° o ddeutu yr heulrawd, sef y llwybr y mae yr haul yn ymddangos o fod yn ymsymud ynddo. Rhenir hwn yn 12 rhan o enw arwyddion: y rhanau hyny yr ymddengys yr haul yndd ynt yn y gwanwyn, pan y byddo diadelloedd yn cynnyddu, a elwir Hwrdd, Tarw, Gefeilliad. Y nesaf ydyw y Cranc, yn arwyddocau gwrthrodiad yr haul gwedi y dydd hwyaf: yna y Llew, yn dynodi gwres tanbaid yr hâf, a thrachefn y Forwyn a'i hysgyb wenith yn arwyddo y cynhauaf. Y seithfed ydyw y Fantol, yn arddangos cyfartal dydd a nos: y nesaf ydyw y Sarph, yn arddangos gwenwyn ardymherau yr hin ar gwymp y dail, yna y Saethydd yn dangos y tymhor hela, a thrachefn yr Afr, yr hon wrth ddringo gelltydd sydd yn arwyddo bod yr haul ar y dydd byraf yn dechreu ymgodi yn y sidydd. Y Dyfrwr ydyw dynodydd dyfodiad y tymhor gwlyb, ac y Pysg yr olaf o'r 12, sydd arwydd o dymhor pysgota.

Cyfseryddiadau yr arddrych ogleddol gynt oeddynt 21, ac y rhai deheuol 15, ond weithiau mae seryddion gwedi eu dosbarthu yn nifer mwy. Y ser dysgleiriaf a elwir sêr y maint cyntaf, yna yr ail, &c hyd y chweched maint, y rhai ydynt braidd yn weledig i lygad noeth.

Gan fod yr *Arth mawr*, yr hwn a elwir hefyd *llong foel, aradr*, &c. bob amser goruwch y terfyngylch yn Mhrydain, addas oddiwrtho ef ydyw ceisio dynodi prif sêr y cyfseryddiadau ereill. Mae hwn yn hynod am fod pedair o sêr hynod ar ddull petrual yn llunio ei gorff, a thair ereill yn llunio y gynffon: y nesaf o'r gynffon i'w gorff a elwir *Aliath*, ac yr olaf yn y gynffon *Benetnach*. Y ddwy flaenaf yn y corff a elwir y cyfeiriaid, am i linell trwyddynt ddangos y pwnc gogleddol: y nesaf i'r pwnc o'r ddwy a elwir *Dubhe*.

Yn agos i lwybr y cyfeiriaid, ac agos 5 gwaith y pellder rhyngddynt, o *Dubhe* mae seren y pwnc, yr hon sydd yn mlaen cynffon yr *Arth bychan*, yn yr hwn mae 7 seren yn darlunio cyfseryddiad tebyg i'r Arth mawr, ond yn llawer llai. Llinell ddychymygol o Dubhe trwy y seren sydd yn groes gongl gyferbyn a hi yn y petrual, a â yn agos i *Cor. Caroli*, calon Charles: ei phellder o'r olaf yn agos ddwywaith cymmaint a'r eangder rhyngddynt. Aliath, Cor Caroli a *Vindemiatrix* yn y Forwyn, ydynt yn llunio agos linell wastad: pellder Cor. Caroli o Vindemiatrix, yn ychydig mwy nag 1¼ pellder Aliath o Cor. Caroli. Rhwng Cor Caroli â'r Forwyn mae *Coma Berenices*.

Benetnach, Cor Caroli a *Deneb* yn nghynffon y Llew ydynt agos yn llinell wastad, pellder y ddwy olaf yn agos ddwywaith cymmaint a'r ddwy flaenaf. O ddeutu 25° i'r gorllewin o Deneb mae *Regulus*, calon y Llew, yr hon sydd seren o'r maint cyntaf. Rhwng y Llew a'r Arth mawr mae *Leo minor*, y Llew bychan.

O ddeutu 35° i'r dwyrain o Deneb mae *Arcturus*, seren o'r maint cyntaf yn *Bootes*, y rhai gyd a *Spica* yn y Forwyn tua'r de, ydynt yn llunio triongl cyfochrog. O ddeutu 18° o Spica rhwng y de a'r gorllewin mai *Algorab*, seren o'r trydydd maint yn *Corvus*, y frân; ac o ddeutu 40° i'r de, mae pedair seren yn y *groes*, y fwyaf deheuol o honynt yn seren o'r maint cyntaf.

Llinell o Vindemiatrix trwy Arcturus a â i *Alphacca*, seren o'r ail maint yn *Llys Don*: pellder y ddwy olaf agos gymmaint a phellder y ddwy flaenaf. Llinell o Regulus trwy Spica a â i *Antares*, seren o'r maint cyntaf yn llunio calon y Sarph. O ddeutu 46° i'r dwyrain o Spica, a rhwng y Forwyn a'r Sarph mae y Fantol, ac i'r de o'r Sarph mae cyfseryddiad *Lupus*.

Llinell o Arcturus trwy Lys Don, a dwywaith, y pellder rhyngddynt a thu hwnt i Alphacca mae *Vega*, seren o'r maint cyntaf yn *Nhelyn Arthur*. Mewn llinell yn cysylltu Vega a chyfeiriaid yr Arth bychan, ac o ddeutu 15° oddiwrth y flaenaf, mae *Rastaban* seren o'r trydydd maint yn mhen *Draco*; a 34° yn y cyfeiriaid gwrthwyneb o Vega mae *Altair*, seren rhwng y maint cyntaf a'r ail yn *Aquila*, sef yr eryr. O ddeutu 14° i'r gogledd ddwyrain o Altair mai pedair seren ar ddull petrual anghyfartal yn llunio *Delphinus*, ac i estyn y llinell 35° yn mlaen a ddengys *Scheat*, seren o'r ail maint yn Pegasus, yr hon sydd un o'r pedair sydd yn llunio petrual Pegasi.

Llinell o Scheat 45° heibio Markab a â i *Fomelhaut*, seren o'r maint cyntaf yn y *Pysg deheuol*. O ddeutu pedwerydd ran y cyfwng rhyngddynt, ac i'r de o'r llinell mae y Pysg. I'r gorllewin o linell

yn cysylltu Pysg y sidydd â'r Pysg deheuol mae y **Dyfrwr**. Llinell o α Cygni 41° trwy Markab a â i ϛ *Ceti*, seren o'r ail maint. Llinell o Delphinas 60° heibio i Markab a â i Menkar, seren o'r ail maint yn ngên y *Morfil*. 37° i'r gogledd o Menkar mae Algol, 27° ϛ Andromeda, ychydig i'r deo linell o Markab iddi mae *Almaak*, seren o'r ail maint, ac agos yn y canol rhwngddynt mae *Mirach* yn ngwregys Andromeda. Ychydig i'r gogledd o'r un llinell, o bellder 42° mae Algenib yn *Perseus*. Mae y tair seren Almaak, Algol ac Algenib yn llunio triongl, a chongl Algol yn betrual

Rhwng Mirach a Menkar a 17½° o'r flaenaf mae *Arietis*, seren °o'r trydydd maint yn yr **Hwrdd**. a llinell o Almaak trwyddi am 27' a gyrhaedd *oC eti*. 26 ° i'r dwyrain o Menkar mewn llinell trwyddi o • Ceti mae *Aldeboran* seren o'r maint cyntaf yn y Tarw. Rhwng Aldebaran a Musca, cyfserydddiad bychan 10° i'r dwyrain o'r Hwrdd mae y *Twr Tewdws*. Llinell o Aldebaran trwy Algol a â i *Schedar* yn Llys don, cyfserydddiad yn cynnwys ynddo 5 neu 6 o ser o'r un maint mewn llinell ac o bellder cyfartal o ganol yr Arth mawr trwy y pwnc i'r ochr arall.

O ddeutu 22° i'r de ddwyrain o Aldebaran, mae tair seren* o'r ail maint yn llunio gwregys *Orion*, ac o danynt mae sêr o lai maint yn llunio ei gleddyf: goruwch y rhai hyn mae dwy seren ddysglaer yn llunio ei ysgwyddau; yr un orllewin a elwir *Bellatrix*, ac y llall *Betelgueux*; ac o'r un bellder oddiwrth y gwregys, ar y tu isaf mae *Rigel*, seren o'r maint cyntaf yn llunio troed de Orion. Rhwng Rigel a'r Pwnc, a 54° oddiwrth y flaenaf, mae *Capella* seren o'r maent cyntaf yn *Auriga*

Llinell o Aldebaran trwy y cyfwng rhwng Bellatrix â gwregys Orion a 30½° o Bellatrix a â i *Sirius*, seren o'r maint cyntaf yn nghyfserydddiad y *Ci mawr*. O ddeutu 26° i'r dwyrain o Betelgueux a'r un bellder o Sirius mae *Procyon*, seren rhwng y maint cyntaf a'r ail yn y *Ci bach*. Llinell o Procyon δ i Ci mawr, seren o'r trydydd maint 3½° i'r de orllewin o Sirius, ac o ddeutu 28° o honi a â i *Canopus*, seren o'r maint cyntaf yn *Argo*; ac agos mewn llinell wastad rhwng Fomelhaut a Canopus mae *Achernar*, seren o'r maint cyntaf yn *Eridanus*, O ddeutu 40° o ganol gwregys Orion trwy Rigel mae *Castor*, seren rhwng y maint cyntaf a'r ail yn y **Gefeilliaid**: *Pollux* o'r ail maint sydd 4½° i'r de ddwyrain o honi.

Procyon, Regulus a Deneb ydynt yn yr un llinell, ac o ddeutu 21° o Procyon ynddi mae *Aruhens*, seren o'r trydydd maint yn y **Cranc**. Llinell o Aliath trwy Regulus 23½° a â i Alphard yn *Hydra*. Rhwng Fomelhaut a phegwn y de, mae cyfserydddiadau *Grus*, *Toucan*; ac i'r de o Achernar mae *Hydrus*.

Caer arianrod, y galaeth neu y *llwybr llaethog*, a elwir felly oddiwrth wynder ei liw: gwelwyd gwedi dyfeisio drychau da mai myrddiynau diamgyffred o sêr yn eithafoedd y greadigaeth y sydd yn ei lunio: yr un defnydd ydyw â'r sypynau niwlog y sydd mewn amryw ranau ereill o'r ffurfafen, megys yr un yn mhen Orion, yn llaw dde Perseus, yn llygaid y Saethydd, yn nghefn y Cranc, ac hefyd y sêr mân sydd yn llunio cymylau Magellan yn mharthau pegwn y de.

---

* Gelwir y tair hyn yn Nghymru yn Llathen Fair.

## DOSBARTH VI.

*Am y Cylchau, Gwregysau, &c.*

CYN dirnad nemawr am Seryddiaeth na Daearyddiaeth, rhaid bod yn dra hysbys o'r cylchoedd dychymygol y sydd yn perthyn iddynt; y rhai ydynt ddeg o rifedi: chwech yn gylchau mawr, a phedwar yn gylchau bychain. Wrth gylchau mawr yr ydys yn deall y cyfryw ag a ranai y ddaear neu unrhyw o'r bydoedd ereill yn ddwy ran gyfartal; ac wrth gylchau bychain yr ydys yn deall y rhai sydd yn eu rhannu yn ddwy ran anghyfartal.

Y 6 cylch mwyaf ydynt y cyhydedd, yr heulrawd, y paladr canol-ddydd, y terfyngylch, y cylch gorsafol, ac y cylch cyhydeddol. Y 4 cylch lleiaf ydynt trofeydd yr Afr, trofeydd y Cranc, y cylch cyfddëau, ac y cylch cyfogledd.

Y *Cyhydedd* sy gylch yn dosbarthu y ddaear, &c. yn ddwy ran gyfartal, ac sydd yn ei holl ranau yn gyfbell oddiwrth y pwnc deau ac y pwnc gogleddol. O'r cylch hwn y cyfrifir lledred pob lleoedd yn raddau, munudau, &c. hyd onid elir i'r pwnc, y man pellaf oddiwrtho, yr hyn yw 90° i'r de neu i'r gogledd, sef y bedwerydd ran o gylch mawr.* Dangosir y wyneb nesaf atom o'r cyhydedd yn llun 3 wrth y llythyrenau c A *h*.

Yr *Heulrawd*, sef y llwybr y mae yr haul yn ymddangos o fod yn ymsymud ynddo, sy gylch yn gogwyddo agos 23½° i'r cyhydedd: ei gwr mwyaf gogleddol ydyw trofeydd y cranc, gorsaf yr haul ar y dydd hwyaf, a'i gwr mwyaf deheuol yw trofeydd yr afr, lle yr haul ar y dydd byraf. Mae y cylch hwn gwedi ei rannu yn 12 rhan gyfartal o enwau arwyddion, y rhai a elwir Hwrdd,† &c, a phob arwydd yn 30 rhan o'enw graddau, a phob gradd yn 60 rhan o enw munudau, &c. Ac o hono tua'r gogledd neu y de y mesurir gogwyddiad yr haul,‡ hefyd lledred y lloer, sêr, a'r planedau; ac o'r arwydd cyntaf o hono hyd yr olaf y mesurir eu hydred. Dangosir hwn wrth y llythyrenau *s* A *r* llun 3.

*Paladr canol-ddydd* sy gylch mawr yn cyrhaedd o'r naill begwn o'r byd i'r llall, gan groesi y Cyhydedd yn ei gwr uchaf a'i gwr isaf, ac felly yn dosbarthu y byd yn ddwy ran gyfartal, y rhai a elwir yr arddrych ddwyrain a'r arddrych orllewin. Pan ddelo yr haul i'r cylch hwn bydd yn hanner dydd yn yr holl ardaloedd a fyddo dano, ac felly pan ddelo unrhyw o'r cyrff nefol ereill iddo, byddent yn y man uchaf goruwch y terfyngylch y gallent fod. O baladr canol-ddydd rhyw

---

* Gwelir yn narluniad Ewrop, bod y llin 60 yn myned trwy Petersburg, yr hyn yw lledred y ddinas hono: gwelir hefyd bod Cymru o ddeutu 2½ gradd ar y tu gogledd i llin 50, yr hyn sydd yn gwneyd lledred canol Cymru o ddeutu 52½° &c.

† Dyma hen englyn i'r deuddeg arwydd a ysgrifenwyd gan I. W. Prisiart o Blasybrain o un o ysgrif-lyfrau y Plas hên yn Eifionydd.

Hwrdd[1] trwy gyfwrdd Tarw,[2] Gefell,[3]—yn llaw Cranc[4]
Llew[5] Morwyn[6] ddïell;
Sarph,[7] Fantol,[8] Seithydd[9] saithwell,
Gafr,[10] Defrwr,[11] Pysg[12] o for pêll.

‡ Pan fyddo yr haul ar y Cyhydedd tua Mawrth 21 a Medi 23, nid oes unrhyw ogwyddiad ganddo, ond fal yr elo rhagddo i'r gogledd neu'r de, mae'n cynyddu hyd onid elo i'r Trofëydd, sef 23½°, yr hyn yw ei ogwyddiad mwyaf,

lleoedd penigol megys prif ddinasoedd, &c. y mesurir hydred holl barthau y ddaear, ac arno o'r cyhydedd i'r pegynau y mesuri'r eu lledred.* Dangosir ei wyneb nesaf atom yn llun 3 wrth y llythyrenau *d* A *p*.

Y *terfyngylch* sydd yn dosbarthu y byd yn ddwy ran gyfartal, sef yr arddrych uchaf a'r arddrych isaf: mae hwn yn myned tan ddau enw, sef y terfyngylch gweledig, a'r terfyngylch cyffredinol. Y gweledig yw y cylch y sydd yn derfyn i'r golwg, yr hwn sydd yn dynodi ini godiad a machludiad y cyrff nefol; y llall sy gylch yn dosbarthu y ddaear trwy ei chanol, ac yn ymestyn i eithafoedd y ffurfafen, ac felly yn gwneyd y nen-nod sef y man uchaf, a'r is-nod ar gyfer hyny yn begynau iddo. Rhenir hwn yn 32 rhan, y rhai a elwir yn byncian'r cwmpas, a dangosir y terfyngylch cyffredinol yn llun 3 wrth y llinell sydd yn ymestyn o'r naill ochr i rôd y lloer trwy ganol-bwnc y ddaear i'r ochr arall.

Y *cylch gorsafol* sydd yn cyrhaedd o'r naill begwn i'r llall, ac yn croesi yr heulrawd ar un tu trwy y gradd cyntaf o'r cranc, sef sefyllfa yr haul y dydd hwyaf, ac ar y tu arall trwy y gradd cyntaf o'r afr, sefyllfa yr haul y dydd byraf, gan wneyd graddau cyntaf yr hwrdd a'r fantol yn begynau iddo. Dynodir ef yn llun 3 wrth y llythyrenau *p e m n d n a o*.

Y *cylch cyhydeddol* sy gyffelyb i'r gorsafol, ond ei fod yn estyn o begwn i begwn trwy raddau cyntaf yr Hwrdd a'r *Fantol*. Dangosir ei wyneb nesaf atom wrth y llythyrenau *p a d*.

*Trofeydd yr afr*, cylch yn dosbarthu y ddaear, &c. yn ddwy ran anghyfartal, sydd agos 23½ o raddau i'r de o'r cyhydedd: yn hwn mae yr haul yn ymddangos ar y dydd byraf. Dangosir hwn wrth y llythyrenau *a r* llun 3, neu *f g* llun 4.

*Trfeydd y cranc* sydd ar y tu arall i'r cyhydedd, a chyfbell oddiwrtho, ac felly yn oraaf yr haul ar y dydd hwyaf. *s m* yn llun 3, neu *c d* yn llun 4 sydd yn dynodi hwn.

Y *cylch cyfddëau* ydyw *n n* yn llun 3, yr hwn, sydd 23½ o raddau oddiwrth begwn y de; ac felly *o e* y cylch cyfogledd yr un bellder oddiwrth y pegwn arall.

Y *Sidydd* sydd megys gwregys yn cynnwys ynddo y 12 arwydd: mae hwn yn 18 gradd o led, ac yn ei ganol mae'r heulrawd *s* A *r* sef y llwybr y mae'r haul yn ymddangos o fod yn symud ynddo. Mae hwn yn cynnwys holl rodau y planedau.


Y *gwregysau* ydynt bump o rifedi, sef dau rewlyd, dau gymhedrol, ac un llosg. Y ddau rewlyd ydynt y gwregys cyfogledd a'r gwregys cyfddëau, y cyntaf yn ymestyn o'r cylch cyfogledd *o e* i'r pegwn *p*, ac y llall yn cyrhaedd o'r cylch cyfddeau *n n* i'r pegwn *d*. Y gwregys cymhedrol gogleddol yw yr holl eangder sy rhwng Trofeydd y cranc a'r cylch cyfogledd, a'r gwregys cymhedrol dëau yw'r eangder rhwng Trofeydd yr afr a'r pegwn deheuol. Y gwregys llosg yw yr holl gyfwng sy rhwng Trofeydd y cranc a'r afr, a thrwy ei ganol mae y cyhydedd *c* A *h* yn ymestyn.

---

* Gellir dychymygu rhif aneirif o'r cylchoedd hyn, canys os elir yr ychydig lleiaf o'r neilldu iddo, byddis dan baladr canol-ddydd arall; ac felly am y llinellau lledred, canys y mae y symudiad lleiaf i'r de neu'r gogledd o unrhyw ledred yn ei newid i fwy neu lai, sef yn ol y nesir at, neu y pellheir oddiwrth y cyhydedd.

Yr *Hingylchoedd* ydynt debyg i gylchoedd lledred, ond y dychymygir hwynt yn amwregysu'r ddaear mewn 24 man, rhwng y cyhydedd a'r cylchoedd rhewlyd, sef y cyfryw bellder y naill oddiwrth y llall, ag y byddo y gwahaniaeth yn nghodiad a machludiad haul yn gyfartal i hanner awr yn y parthau yr elont trwyddynt. Yn y moroedd rhewlyd, maent yn amwregysu y parthau hyny ag y byddo hir-ddydd hâf, neu hirnos gauaf yn amrywio mis cyflawn, hyd onid elir i'r pwnc, y man nad oes ynddo onid un dydd ac un nos mewn blwyddyn gyfan.

Llun. 3.




*Eglurhâd,* Mae y llun hwn gyd â dysgrifio y cylchoedd, &c. fal y crybwyllwyd eisus, yn danges llanw a thrai y môr, a diffygiau yr haul yr lleuad: y gwrym *c s o* sydd yn dynodi cyfran o'r môr, yn cael ei godi gan gyd-dyniad yr haul a'r lleuad, ac y gwrym *n r h* sy gyfran arall gyferbynol, fal yr eglurir yn mlaen. Y llecyn du a nodir *v* ydyw cysgod y lleuad *L* yn syrthio ar y ddaear, ac felly yn peri diffyg ar yr haul, a'r lleuad *Ll* yn myned trwy gysgod y ddaear sydd yn dynodi diffyg ar y lleuad.

## DOSBARTH VII.

### *Am ddefnydd a symudiad.*

Mae defnydd o hono ei hunan yn llonydd, ac yn ddiduedd i na symudiad na gorphwysiad. Pob corff marw a erys yn ei unfan byth, hyd oni symuder ef gan ryw achos allanol; a phob corff symudol a barhâ felly yn wastadol, oni ddigwydd i arall darfu ei rwysg. Felly pan y gwelom unrhyw gorff yn ymsymud, gwyddom fod yn rhaid i ddefnydd arall fod gwedi rhoddi y symudiad iddo, a phan y gwelom unrhyw gorff symudol yn ymorphwys, yr ydym yn hysbys bod yn rhaid i arall fod gwedi ei atal.

Mae pob symudiad, o anian yn union linellog. Symudai pelen a defiid â llaw neu a saethid o ddrull ar gyfer y nôd y dechreuodd gyrchu ato, pe na byddai i unrhyw gorff arall ei rhwystro. Gan hyny, hysbys yw bod unrhyw gorff a fyddo yn crymu yn ei daith, a dau allu yn gweithredu arno; un yn ei annog yn mlaen ac arall yn ei ddenu i gyfeirio ffordd arall.

Pwys a thyniad ydynt y deddfau anianol y sydd yn tueddu y naill gorff at y llall: pwys y gelwir y reddf hon yn y lleiaf, ond tyniad yn y mwyaf. Fal hyn y mae tuedd yn mhob corff a fyddo yn agos i wyneb y ddaear i'w chanol-bwnc; ac yr un modd hefyd am unrhyw arall a fyddo o fewn rhôd ei thyniad, megys y lleuad, yr hon wrth geisio cadw ei symudiad union linellog a dderbyniodd gyntaf, ond tan lywodraeth tyniad corff mwy yn gorfod gogwyddo ato, sydd felly rhwng ei symudiad cyntaf a thuedd i syrthio i'r ddaear, yn rhoddi tro crwn o'i hamgylch, a deddf gyffelyb sy raid fod rhwng yr haul a'r planedau, a rhwng y planedau a'r lleuadau y sydd yn eu cylchynu.

Mae pwys a thyniad yn perthyn i holl ranau unrhyw ddefnydd, ond bod y corff mwyaf yn effeithio ar y lleiaf yn ol y gwahaniaeth a fyddo yn eu maintioli. Po nesaf fyddo y naill gorff at y llall mwyaf fydd y cyd-dyniad rhyngddynt, a pho pellaf lleiaf fydd. Gellir dirnad ychydig am gyd-dueddiad y naill gorff a'r llall yn nghydiad dwy long a'u gilydd: mae'n eglur os bydd rhaff yn cyrhaedd o long i arall ddwywaith mwy ar ddwfr na byddo awyr, &c. yn effeithio arno, ac i ddyn mewn un o honynt dynu y llall ato, y nesbâ y llong leiaf ddwywaith cyflymach at y fwyaf, na'r fwyaf ati hi. Pe byddai llestr fawr hefyd yn nglyn wrth gwch bychan, ac i ddyn yn y cwch dynu y llong ato, rhaid os byddai y llong yn ddeng-mil trymach, i'r cwch ddynesu deng-mil o fodfeddi at y llong am un fodfedd o ddynesâd y llong at y cwch. Ac onid ini ddirnad dyn arall yn y cyfryw gwch yn ei wthio yn wysg ei ochr tra y byddai y llall gyd a'r un gallu yn ei dynu yn mlaen, gallwn wrth grymder taith y cwch, ddirnad ychydig am daith flynyddol y ddaear a'r planedau o gylch yr haul.

Gan mae'r haul yw y corff mwyaf yn y ddosbarth, rhaid ei ystyried megys peniaeth y bydoedd y sydd yn ei gylchynu, ond bod rhai o honynt o raddau uwch ag is na'u gilydd, megys y ddaear, iou, a sadwrn, y rhai ydynt megys is-bennaethiaid dano ar y lleuadau y sydd yn troi o'u hamgylch. Ond y mae yn rhaid i'r pennaethiaid hyn er rhoddi deddfau i'w deiliaid wyro ychydig o'u canol-bwnc, gan ddeddfau cyd-dueddiad y naill gorff at y llall. Felly pan ystyriom bod

pob un o leuadau sadwrn yn gobwyso at y pump ereill, a'r pump ereill at y chwechfed; y cyfan hefyd at sadwrn, a sadwrn gyd a'r cyfan at yr haul, rhaid addef bod y deddfau pwys a thyniad y sydd yn perthyn i anian agos yn ddiamgyffred i ddyn eu hiawn ddosbarthu. Ond gwelwn i dreiddiad Syr Isaac Newton i ddirgeledigaethau trefn y bydoedd fry eu dad-ddrysu; a thrwy brofion teg, ond dyrys i amgyffrediadau cyffredin eu harddangos yn eglur.*

## DOSBARTH VIII.

### *Am Lanw a Thrai y môr.*

GWEDI dangos ychydig am ddeddfau pwys a thyniad yn y ddosbarth olaf, ceisir yma olrhain ychydig yn mhellach arnynt yn eu heffeithiau ar ddyfroedd y mor. Ni allai ein hynafiaid ddirnad mewn un modd yr achos o fod y mor yn llenwi ac yn treio: dywedir i Aristotle pan oedd yn India gyd ag Alexander fawr, chwennych dilyn y trai i edrych pa le yr elai, ac iddo am fethu cyflawni ei amcan ymfwrw iddo a boddi. Chwedl wyrgam gyffelyb sydd am Kepler, yr hwn er ei fod yn enwog mewn ceinciau ereill gwybodaeth a honai mai corff byw oedd y ddaear, ac mai cyrchiad ei hanadl oedd y llanw a thrai, &c. Ond Newton gwedi olrhain deddfau pwys a thyniad, oedd y cyntaf a welodd mai y lleuad oedd y prif achos o'r cyfryw gyfnewidiad, fal ag y ceisir egluro wrth fyned yn mlaen.

Mae'n hysbys bod y môr yn gorchuddio ychwaneg na hanner y bêl ddaearol, a'i fod yn llenwi ac yn treio yn rheolaidd ddwy-waith mewn ychydig ychwaneg nag un dydd a nos, sef o ddeutu 11 munud gyd a 6 awr yn llenwi, ac o ddeutu yr un faint o amser yn treio. Felly os yw yn orllanw heddyw yn unrhyw le ar hanner dydd, bydd yn ddistyll o ddeutu 11 munud gwedi 6 o'r prydnhawn, ac wedi dau gyfnewidiad ychwanegol, bydd yn orllanw drannoeth o ddeutu tri chwarter awr gwedi hanner dydd; y dydd canlynol o ddeutu hanner awr gwedi un, a thrannoeth tua chwarter gwedi dau; ac felly yn mlaen am 30 niwrnod pan y canfyddir y gorllanw ar hanner dydd, yr un modd ac ar y dydd y gwnaed y sylw cyntaf. Mae y gwahaniaeth hyn yn cyfateb i symudiad y lleuad: gwyddir ei bod yn codi o ddeutu tri chwarter awr hwyrach bob dydd na'i gilydd, ac felly yn rhoddi cyflawn dro o gylch y ddaear, sef o newid i newid mewn agos 30 niwrnod.

I'r dyben o egluro yn mhellach, bydded gorllanw yn unrhyw le am 3 o'r prydnhawn, ar ddydd newid y lleuad, yna bydd yn orllanw drannoeth dri chwarter awr gwedi 3: y dydd canlynol hanner awr gwedi 4; ac felly yn mlaen hyd y lleuad newydd nesaf, pan y digwydd y gorllanw yn union 3 o'r prydnhawn fal o'r blaen. Ac wrth sylwi yn wastadol ar y llanw a thrai yn yr un lle, gwelir hwynt yn dilyn yr un rheol: y gorllanw bob tro y newidio y lleuad yn digwyddo ar yr un awr: ac yn hwyrach beunydd o ddeutu tri chwarter awr y dyddiau canlynol.

---

* Nature and Nature's laws lay hid in night,
God said, let Newton be! and all was light.

POPE.

Bydded L (llun 3) yn dynodi y lleuad, A yn ganol-bwnc y ddaear, ac *o p e m h*, &c, yn rhanau o'i gwyneb: ac i'r dyben o fod yn eglur, bwriwn bod yr holl ddaear yn orchuddiedig â dwfr: yna, gan mai tuedd pob elfen ffrydiol yw ymroddi i unrhyw wagiad a fyddo arni, eglur yw bod tynfa y lleuad *L* yn croni y dyfroedd oddi dani yn wrym megys y dynodir wrth *c s o*; ac hefyd ar yr ochr bellaf oddiwrthi megys *n r h*, gan adael yr ochrau *x a c*, *e p o* heb unrhyw dyniad arnynt. Mae yr holl ddyfroedd sydd ar yr arddrych uchaf *a o s*, &c, o dan rwysg tyniad y lleuad, ond y prif gynnullfan sydd yn uniongyrch oddi-dani, ac yn ei dilyn felly oddiamgylch gan lenwi wrth fel yr elo rhagddi. Yr arddrych isaf *n d n*, &c. sydd hefyd gan ei phellder oddiwrth gyd-dueddiad canolbwnc y ddaear a'r lleuad yn ymgasglu i *n r h*, gan wneyd y llanw yno yn llawn mor uchel ag yn y llall. A thyna fal y mae y llanw a thrai yn digwyddo ddwy waith bob dydd.

Mae yr haul hefyd yn gystal a'r lleuad yn effeithio ar y llanw a'r trai, ond gan ei bellder oddiwrth y ddaear, mae ei dynfa yn deirgwaith llai na thynfa y lleuad: pan y byddont yn cyd-dynu megys ar y newid a'r llawn, mae y llanw yn uchaf a'r trai yn isaf, ond pan fyddo y lleuad yn chwarter neu 3 chwarter oed, sef ar hanner y ffordd o'r ddeutu rhwng y newid a'r llawn, mae yr haul yn tynu ato y dyfroedd a fyddo dano, a'r lleuad yn gwrthdynu mewn cwr arall yn peri y marw-ddwfr. Y llanw uchaf sydd yn digwyddo pan y byddo yr haul a'r lleuad yn y cyhydedd, sef yn Mawrth a Medi: mae agosrwydd neu bellder y lleuad hefyd i'r ddaear yn ei rhod hirgrwn yn effeithio ar faintioli y llanw a'r trai.

Rhaid ystyried yn mhellach nad yw y rheolau a grybwyllwyd am y llanw a thrai yn gyffredinol i bob-man, ond yn unig i'r cefn-for êang, y lle nad yw na chyfandir nag ynysoedd yn tarfu rhwysg y dyfroedd. Mae amryw rwystrau mewn cul-foroedd, ac aberoedd afonydd, yn gofyn gwyro oddiwrth y rhëol gyffredin. Fal hyn y gwelwn y gorllanw yn Plymouth ar y chweched awr; yn ynys Wyth ar y nawfed awr; ac yn Llundain ar y bymthegfed awr gwedi yr elo y lleuad heibio y paladr canol-ddydd. Mae hefyd amrywiaethau yn uchder y gorllanw yn ol sefyllfa y glenydd môr, neu yn ol culni y lleoedd y tramwyont trwyddynt. Nid oes braidd godiad na gostyngiad ar ddyfroedd y Llychlyn, na Mor y canoldir, am nad yw eu haberoedd yn ddigon êang i'r dyfroedd dramwyo trwyddynt, ac hefyd am nad oes agored iddynt o'r dwyrain, o'r lle y mae'r lleuad yn ymddangos o fod yn teithio.

Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, gwelir bod yn angenrheidiol gwybod y pethau canlynol cyn y gellir olrhain yn dêg y pryd y digwydd y gorllanw neu'r distyll, sef lledred y lle, gogwyddiad y lleuad, ei thraws-fudiad heibio y paladr canol-ddydd a'i chyfnewidiad terfyngylchol*; hefyd yr amser o'r flwyddyn, ac o orllanw ar ddyddiau y newid a'r llawn.

Yma y canlyn dau ddull o wybod amser y gorllanw mewn lleoedd y sydd ag amser y pen llanw ar ddydd y newid a'r llawn yn hysbys ynddynt.

---

* Y cyfnewidiad terfyngylchol neu yr *Horizontal Parallax* yw y pellder rhwng y gwir a gweledig le unrhyw o'r cyrff nefol wrth sylwi arnynt o'r ddaear.

# DULL I.

## I WYBOD AMSER GORLLANW YN UNHRYW LE ADNABYDDUS.

### RHEOL.

Ceisiwch y mis a'r diwrnod yn nhaflen II, rhan I; yna ar gyfer y diwrnod a than y flwyddyn yn rhan II o'r daflen, mae oed y lleuad: N yn sefyll am newid, ac Ll am y llawn.

Gwedi hyn, cysylltwch amser y gorllanw ar y newid a'r llawn at y rhif sydd gyferbyn ag oed y lleuad yn nhaflen V, a'r swm fydd amser y gorllanw.

Os digwydd i amser y llanw fal hyn fod yn fwy na 12 awr, ac yn llai na 24, lleihewch y swm o 12 awr, yn nghyd a'r gweddill rhwng y rhif sydd yn nhaflen V yn cyfateb i oed y lleuad a'i hoed gwedi ychwanegu 12 awr ato. Os bydd y swm yn fwy na 24 awr, tynwch 24 awr yn nghyd a'r gwahaniaeth rhwng y rhifedi sydd yn cyfateb i oed y lleuad ar y dydd nodedig a'r dydd canlynol o'r swm, a'r gweddill fydd y gorllanw yn mhrydnhawn y dydd dywededig.

Siamplau.

I.

*Pa bryd bydd gorllanw yn Nghaergybi Ion.* 1, 1816?

| | | |
|---|---|---|
| Oed y lleuad wrth daflen II sy 2 dydd; ar ei gyfer yn nhaflen V mae | 1*a* | 11' |
| Amser gorllanw ar ddydd y newid a'r llawn yn Nghaergybi ...... | 9 | 45 |
| *Gorllanw yn Nghaergybi Ion.* 1*af*, 1816. ................ | 10 | 56 |

II.

*Pa bryd bydd gorllanw yn Abertawe Ebr.* 10, 1830?

| | | |
|---|---|---|
| Oed y lleuad wrth daflen II yw 18; ac ar ei gyfer yn nhaflen V mae ............ | 13*a*. | 54' |
| Amser gorllanw ar y newid a'r llawn yn Abertawe ........ ...... | 6 | 0 |
| Swm | 19 | 54 |
| Lleihewch y swm o 12 awr, a'r gwahaniaeth rhwng y rhifedi sydd yn cyfateb i 18 dydd, a 18*d*. 12*a*. sef, ........ ............ | 12 | 18 |
| *Gorllanw yn Abertawe Ebr.* 10. 1830 .................. | 7 | 36 |

III.

*Pa bryd bydd gorllanw yn Nghaernarvon Awst* 12, 1841?

| | | |
|---|---|---|
| Oed y lleuad wrth daflen II sy 25; ac ar gyfer hyny yn nhaflen V mae .............................. | 20*a*. | 31' |
| Amser gorllanw ar ddydd y newid a'r llawn yn Nghaernarvon .... | 8 | 30 |
| Swm | 29 | 1 |
| Lleihewch y swm o 24, a'r gwahaniaeth rhwng y rhifedi sydd yn cyfateb i 25 a 26 dydd, sef 39' ........................ | 24 | 39 |
| *Gorllanw yn Nghaernarvon Awst* 12, 1841 .................. | 4 | 22 |

Gan nad yw y dull uchod bob amser yn gywir, oherwydd y cyfrifir y lleuad yn ddiwrnod oed weithiau pan na byddo onid teir-awr neu lai, sef pan y byddo ei newidiad yn hwyr y dydd o'r blaen, ceisir yn ganlynol olrhain amser y newid a'r llawn yn fwy manwl tu ag at ddeall dull llo gaffael y llanw a thrai yn unrhyw le yn fwy cywir.

### Rheol I.

At epact y flwyddyn o daflen III, cysylltwch epact y mis o daflen IV: y rhagoriaeth rhwng hyny a misgylch y lleuad sef 29d. 12a. 44'

fydd amser y lleuad newydd yn ol ei chanolig symudiad. Amser y llawn blaenorol neu ganlynol a ellir ei gael wrth leihau o'r ateb neu ychwanegu ato hanner y misgylch, sef 14d. 18a. 22'; a'r chwarteri yn yr un modd y gellir eu cael wrth gymwyso chwarter y misgylch sef 7d. 2a. 11'.

### Siampl.

Ar ba amser yn mis Hydref 1896 bydd y lleuad yn newid, yn llawn, ac yn ei chwarteri yn ol ei chanolig symudiad?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Epact 1860, taflen III. | 16d. | 23a. | 24'. |
| Epact Hydref, taflen IV. | 7 | 5 | 24 |
| Swm | 24 | 4 | 48 |
| Lleihau o hono un misgylch | 29 | 12 | 44 |
| Y newid (canolig symudiad) yn Hydref | 5 | 7 | 56 |
| Hanner misgylch -\|-* | 14 | 18 | 22 |
| Y llawn | 20 | 2 | 18 |
| Chwarter misgylch —a-\|- | 7 | 9 | 11 |
| Chwarter cyntaf | 12 | 17 | 7 |
| Chwarter olaf | 27 | 11 | 29 |

### Rheol II.

At epact y flwyddyn o daflen III, cysylltwch epact y mis o daflen IV, yn nghyd a'r amser rhoddedig gan ei gyfrif o'r canol-ddydd rhagflaenol. At hyn chwanegwch yr hydred gwedi ei droi i amser,† os bydd y lle i'r gorllewin o Greenwich, ond lleihewch os bydd yn ddwyreiniol, ac os bydd y swm neu'r gweddill yn llai na misgylch, dyna fydd oed y lleuad; ond os mwy, rhaid tynu 29d. 12a. 44' o hono i gael ei boed: rhaid cofio hefyd yn Ionawr a Chwefror yn mlwyddyn y naid o leihau y cyfryw ateb o un dydd.

### Siampl.

Beth fydd oed y lleuad Ebrill 14, 1860, am 5a. 24m. o'r prydnhawn yn aber afon Amazonia, lledred 50,° G.?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Epact 1860, taflen III | 7d. | 20a. | 53'. |
| Epact Ebrill, taflen IV. | 1 | 9 | 48 |
| Yr amser rhoddedig 5a 24'-\|- 14d. | 14 | 5 | 24 |
| Swm | 23 | 12 | 5 |
| Hydrod yn amser | | 3 | 20 G. |
| Oed y lleuad yn afon Amazonia | 23 | 15 | 25 |

Pe digwyddasai i'r ateb fod yn fwy na 29d. 12a. 44' buasai rhaid lleihau hyny o hono i gael oed y lleuad; a phe digwyddasai yn Ionawr neu Chwefror gan bod 1860 yn flwyddyn y naid, rhaid fuasai tynu un diwrnod cyfan o'r ateb fal y soniwyd.

* Y nod -|- sydd am gysylltiad, — am leihâd; yn yr un modd arferir X am liosogi, ÷ am gyfranu, &c.

† I droi graddau i amser, dywedir fal mae 360 grâdd i 24 awr; neu fal y mae 15 gradd i 1 awr, felly mae graddau a munudau hydred y lle, i oriau a munudau yr amser cyfatebol.

## DULL II.

I wybod amser gorllanw yn unrhyw le adnabyddus.

RHEOL.

Ceisiwch oed y lleuad am ganol-ddydd y dydd a'r lle rhoddedig wrth y rhēol olaf, a chysylltwch y rhif gyfatebol iddo o daflen V at amser y gorllanw ar y newid a'r llawn. a'r swm fydd amser y llanw yn lled gywir. Chwanegwch at hyn oed y lleuad, a thrachefn cymerwch rif cyfatebol y swm o daflen V, yr hwn gwedi ei gysylltu at amser gorllanw ar y newid a'r llawn a ddyry yr awr a'r munud y digwydd y llanw. Os bydd y swm tros $12\frac{1}{2}$ awr, lleihewch o hono y dogn am lanw a thrai o daflen V; os bydd y swm tros 25 awr, rhaid tynu dogn dau lanw, &c. o hono.

I.

*Pa bryd y bydd gorllanw yn Lisbon Hyd.* 1, 1856?

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Epact 1856, taflen III | 23*d.* | 9*a.* | 35' | | | |
| Epact Hydref. taflen IV | 7 | 5 | 24 | | | |
| Dydd y mis | 1 | 0 | 0 | | | |
| Swm | 31 | 14 | 59 | | | |
| Hydred Lisbon yn amser | | 0 | 36 | G. | | |
| | 31 | 15 | 35 | | | |
| Mis-gylch y lleuad | 29 | 12 | 44 | | | |
| Oed y lleuad | 2 | 2 | 51 | | | |
| Gorllanw ar y N. a'r Ll. | | 2 | 15 | | 2*a.* | 15' |
| Rhif cyfatebol i 2*d.* 2*a.* 51'. taflen V. | | 1 | 15 | | | |
| Amser y gorllanw agos | | 3 | 30 | | | |
| Swm oed y lleuad a'r gorllanw | 2 | 6 | 21 | rhif. cyf. tafl. V. | 1 | 19 |
| Amser gorllanw yn Lisbon Hydr. 4, 1856 | | | | | 3 | 34 |

II.

*Pa bryd bydd gorllanw yn Mhenrhyn gobaith Mai* 14, 1838?

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Epact 1838, taflen III. | 4*d.* | 4*a.* | 34' | | | |
| Epact Mai, taflen IV. | 1 | 21 | 4 | | | |
| Dydd y mis | 14 | 0 | 0 | | | |
| Oed y lleuad han. dydd yn Greenwich | 20 | 1 | 38 | | | |
| Hydred yn amser | | 1 | 13 | D. | | |
| Oed y lleuad yn Penrhyn gobaith | 20 | 0 | 25 | | | |
| Gorllanw ar y N. a'r Ll | | 2 | 30 | | 2 | 30 |
| Rhif cyfatebol i 20*d.* 0*a.* 25' tafl. V. | | 15 | 11 | | | |
| Amser y gorllanw agos | | 17 | 41 | | | |
| Swm y gorllanw ac oed y lleuad | 20 | 18 | 6 | rhif. cyf. taf. V. | 15 | 44 |
| Amser y gorllanw y boreu canlynol | | | | | 18 | 14 |
| Lleihewch 12*a.* + gwahaniaeth rhwng rhif cyfateb i 20*d.* ac 20*d.* 12*a.* | | | | | 12 | 22 |
| Amser gorllanw yn Mhenrhyn gobaith Mai 14, 1838 | | | | | 5 | 52 |

Dylid sylwi yn mhellach bod rhôd y lleuad yn ol y dulliau dywededig yn cael ei chyfrif yn hollol gyfrgrwn, a chan mai hirgrwn yw, nis gall ein casgliadau fod yn llawn mor gywir a phe cymwysid dyfodiad y lleuad i'r paladr canol-ddydd, ei pharallax neu ei chyfnewidiad terfyngylchol, ei phellder yn ei rhôd o ganol-bwnc y ddaear &c. yr hyn sydd ry faith i'w egrhain yn y gwaith hwn.

## TAFLEN I.

Yn dangos lledred a hydred rhai lleoedd hynod yn Mhrydain fawr a pharthau ereill; ac hefyd yr awr a'r munud o ben llanw'r mor ynddynt ar y Newid a'r Llawn.

| *Enwau lleoedd.* | *Gwledydd.* | *Lledred.* | | *Hydred.* | | *Gorllanw* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdeen | Ysgotland | 50° | 39 G. | 2° | 17 D | 11a. | 45' |
| Abertawe | Cymru | 51 | 40 | 4 | 30 G | 6 | 0 |
| Arbroath | Ysgotland | 56 | 34 | 2 | 37 | 1 | 40 |
| Arclow | Ywerddon | 52 | 42 | 6 | 5 | 9 | 30 |
| Baltimore | Ywerddon | 51 | 16 | 9 | 30 | 4 | 30 |
| Belfast | Ywerddon | 54 | 43 | 5 | 57 | 10 | 0 |
| Berwic | Ysgotland | 55 | 47 | 2 | 5 | 2 | 30 |
| Brighton | Lloegr | 50 | 50 | 0 | 12 | 9 | 50 |
| Bristol | Lloegr | 51 | 28 | 2 | 35 | 6 | 40 |
| Caergybi | Cymru | 53 | 19 | 4 | 45 | 9 | 45 |
| Caernarvon | Cymru | 53 | 6 | 4 | 30 | 8 | 30 |
| Castell Carisbrook | Lloegr | 50 | 41 | 1 | 18 | 9 | 45 |
| Penrhyn Clear | Ywerddon | 51 | 18 | 9 | 26 | 4 | 30 |
| Penrhyn Dewi | Cymru | 51 | 55 G | 5 | 27 G | 6 | 0 |
| Deal | Lloegr | 51 | 13 | 1 | 24 D | 11 | 15 |
| Dover | Lloegr | 51 | 8 | 1 | 18 | 11 | 50 |
| Dublin | Ywerddon | 53 | 21 | 6 | 6 G | 10 | 15 |
| Edinburg | Ysgotland | 55 | 58 | 3 | 12 | 2 | 20 |
| Exeter | Lloegr | 50 | 44 | 3 | 34 | 10 | 30 |
| Falmouth | Lloegr | 50 | 8 | 5 | 2 | 5 | 20 |
| Pen Flambro' | Lloegr | 54 | 11 | 0 | 19 D | 3 | 40 |
| Glasgow | Ysgotland | 55 | 52 | 4 | 15 | 11 | 30 |
| Greenwich | Lloegr | 51 | 20 | 0 | 0 | 2 | 40 |
| Harwich | Lloegr | 52 | 11 | 1 | 13 D | 11 | 15 |
| Hull | Lloegr | 53 | 48 | 0 | 33 G | 6 | 0 |
| Kinsale | Ywerddon | 51 | 32 | 8 | 50 | 5 | 15 |
| Limeric | Ywerddon | 52 | 22 | 9 | 53 | 4 | 30 |
| Liverpool | Lloegr | 53 | 24 | 3 | 12 | 11 | 10 |
| Llundain | Lloegr | 51 | 31 | 0 | 6 | 3 | 0 |
| Milford | Cymru | 51 | 45 | 5 | 21 | 5 | 15 |
| Nore | Lloegr | 51 | 28 | 0 | 46 D | 1 | 0 |
| Orffordness | Lloegr | 52 | 5 | 1 | 35 | 9 | 45 |
| Plymouth | Lloegr | 50 | 22 | 4 | 16 G | 6 | 0 |
| Portland | Lloegr | 50 | 31 | 2 | 36 | 7 | 30 |
| Portsmouth | Lloegr | 50 | 47 | 1 | 6 | 11 | 15 |
| Ramsgate | Lloegr | 51 | 20 | 1 | 25 D | 10 | 30 |
| Rye | Lloegr | 50 | 55 | 0 | 44 | 11 | 15 |
| Sandwich | Lloegr | 51 | 19 | 1 | 15 | 11 | 30 |
| Scarborough | Lloegr | 54 | 21 | 0 | 18 G | 3 | 45 |
| Sligo | Ywerddon | 54 | 15 | 8 | 49 | 5 | 30 |
| Tinmouth | Lloegr | 55 | 3 | 1 | 22 | 3 | 0 |
| Torbay | Lloegr | 50 | 33 | 3 | 42 | 6 | 15 |
| Yarmouth | Lloegr | 52 | 37 | 1 | 44 D | 9 | 0 |
| Aber afon Amazon | America D. | 0 | 30 D | 48 | 0 G | 9 | 0 |
| Archangel | Russia | 64 | 34 G | 38 | 58 D | 6 | 0 |
| Botany bay | Asia | 34 | 0 G | 151 | 23 D | 8 | 0 |
| Cadiz | Yspaen | 36 | 31 | 6 | 12 G | 3 | 30 |
| Calcutta | Indostan | 22 | 35 | 88 | 29 D | 3 | 5 |
| Flushing | Holland | 51 | 27 | 3 | 33 | 0 | 45 |
| Penrhyn gobaith | Affrica | 34 | 29 D | 18 | 23 D | 3 | 0 |
| Halifax | America G. | 44 | 46 G | 63 | 27 G | 7 | 30 |
| Rio Janeiro | America D. | 22 | 54 D | 42 | 44 | 4 | 30 |
| Lisbon | Portugal | 38 | 42 G | 9 | 10 | 2 | 15 |
| Philadelphia | America G. | 39 | 57 | 75 | 15 | 3 | 0 |
| Senegal | Affrica | 15 | 53 | 19 | 21 | 10 | 30 |

| MISOEDD. | | | | | | | | | BLYNYDDOEDD. | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion. | Ebr. Chw. | Maw. | Mai | Meh. | Gor. | Awst | Hyd. Medi | Tach Rhag | 1800<br>1819<br>1838<br>1857<br>1876 | 1801<br>1820<br>1839<br>1858<br>1877 | 1802<br>1821<br>1840<br>1859<br>1878 | 1803<br>1822<br>1841<br>1860<br>1879 | 1804<br>1823<br>1842<br>1861<br>1880 | 1805<br>1824<br>1843<br>1862<br>1881 | 1806<br>1825<br>1844<br>1863<br>1882 | 1807<br>1826<br>1845<br>1861<br>1883 | 1808<br>1827<br>1846<br>1865<br>1884 | 1809<br>1828<br>1847<br>1866<br>1885 | 1810<br>1829<br>1848<br>1867<br>1886 | 1811<br>1830<br>1849<br>1868<br>1887 | 1812<br>1831<br>1850<br>1869<br>1888 | 1813<br>1832<br>1851<br>1870<br>1889 | 1814<br>1833<br>1852<br>1871<br>1890 | 1815<br>1834<br>1153<br>1872<br>1891 | 1816<br>1835<br>1154<br>1878<br>1892 | 1817<br>1836<br>1855<br>1874<br>1893 | 1818<br>1837<br>1856<br>1875<br>1894 |
| DYDDIAU. | | | | | | | | | OED Y LLEUAD. | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1 31 | 29 | 30 | 28 | 27 | 26 | 25 | 23 | 21 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 |
| 2 | 30 | 1 31 | 29 | 28 | 27 | 26 | 24 | 22 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 |
| 3 | 1 | 2 | 30 | 29 | 28 | 27 | 25 | 23 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 |
| 4 | 2 | 3 | 1 31 | 30 | 29 | 28 | 26 | 24 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 |
| 5 | 3 | 4 | 2 | 1 | 30 | 29 | 27 | 25 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 |
| 6 | 4 | 5 | 3 | 2 | 1 31 | 20 | 28 | 26 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 |
| 7 | 5 | 6 | 4 | 3 | 2 | 1 31 | 29 | 27 | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N |
| 8 | 6 | 7 | 5 | 4 | 3 | 2 | 30 | 28 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 |
| 9 | 7 | 8 | 6 | 5 | 4 | 3 | 1 | 29 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 |
| 10 | 8 | 9 | 7 | 6 | 5 | 4 | 2 | 30 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 |
| 11 | 9 | 10 | 8 | 7 | 6 | 5 | 3 | 1 31 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 |
| 12 | 10 | 11 | 9 | 8 | 7 | 6 | 4 | 2 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 |
| 13 | 11 | 12 | 10 | 9 | 8 | 7 | 5 | 3 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 |
| 14 | 12 | 13 | 11 | 10 | 9 | 8 | 6 | 4 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 |
| 15 | 13 | 14 | 12 | 11 | 10 | 9 | 7 | 5 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 |
| 16 | 14 | 15 | 13 | 12 | 11 | 10 | 8 | 6 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 |
| 17 | 15 | 16 | 14 | 13 | 12 | 11 | 9 | 7 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 |
| 18 | 16 | 17 | 15 | 14 | 13 | 12 | 10 | 8 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 |
| 19 | 17 | 18 | 16 | 15 | 14 | 13 | 11 | 9 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 |
| 20 | 18 | 19 | 17 | 16 | 15 | 14 | 12 | 10 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 |
| 21 | 19 | 20 | 18 | 17 | 16 | 15 | 13 | 11 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 |
| 22 | 20 | 21 | 19 | 18 | 17 | 16 | 14 | 12 | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll |
| 23 | 21 | 22 | 20 | 19 | 18 | 17 | 15 | 13 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 |
| 24 | 22 | 23 | 21 | 20 | 19 | 18 | 16 | 14 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 |
| 25 | 23 | 24 | 22 | 21 | 20 | 19 | 17 | 15 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 |
| 26 | 24 | 25 | 23 | 22 | 21 | 20 | 18 | 16 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 |
| 27 | 25 | 26 | 24 | 23 | 22 | 21 | 19 | 17 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 |
| 28 | 26 | 27 | 25 | 24 | 23 | 22 | 20 | 18 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | 29 | 10 | 21 |
| 29 | 27 | 28 | 26 | 25 | 24 | 23 | 21 | 19 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 29 | 10 | 21 | 2 | 13 | 24 | 5 | 16 | 27 | 8 | 19 | N | 11 | 22 |
| 30 | 28 | 29 | 27 | 26 | 25 | 24 | 22 | 20 | 4 | Ll | 26 | 7 | 18 | N | 11 | 22 | 3 | 14 | 25 | 6 | 17 | 28 | 9 | 20 | 1 | 12 | 23 |

## TAFLEN III.

### EPACT BLYNYDDOEDD.

| | Blyn. | Epact. | | | | Blyn. | Epact. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| J | 1804 | 18d. | 13a. | 37' | N | 1844 | 10d. | 22a. | 14' |
| | 1805 | 29 | 4 | 59 | | 1845 | 21 | 13 | 26 |
| | 1806 | 10 | 7 | 16 | | 1846 | 2 | 15 | 53 |
| | 1807 | 20 | 22 | 27 | | 1847 | 13 | 7 | 4 |
| J | 1808 | 3 | 0 | 55 | N | 1848 | 24 | 22 | 16 |
| | 1809 | 13 | 16 | 6 | | 1849 | 6 | 0 | 43 |
| | 1810 | 24 | 7 | 18 | | 1850 | 16 | 15 | 55 |
| | 1811 | 5 | 9 | 45 | | 1851 | 27 | 7 | 6 |
| J | 1812 | 17 | 0 | 57 | N | 1852 | 9 | 9 | 34 |
| | 1813 | 27 | 16 | 3 | | 1853 | 20 | 0 | 45 |
| | 1814 | 8 | 18 | 35 | | 1854 | 1 | 3 | 12 |
| | 1815 | 19 | 9 | 47 | | 1855 | 11 | 18 | 24 |
| I | 1816 | 1 | 12 | 14 | N | 1856 | 23 | 9 | 35 |
| | 1817 | 12 | 3 | 26 | | 1857 | 4 | 12 | 2 |
| | 1818 | 22 | 18 | 37 | | 1858 | 15 | 3 | 14 |
| | 1819 | 3 | 21 | 4 | | 1859 | 25 | 17 | 26 |
| J | 1820 | 15 | 22 | 16 | N | 1860 | 7 | 20 | 53 |
| | 1821 | 26 | 3 | 27 | | 186 | 18 | 12 | 4 |
| | 1822 | 7 | 5 | 55 | | 1862 | 29 | 3 | 16 |
| | 1823 | 17 | 21 | 6 | | 1863 | 10 | 5 | 43 |
| J | 1824 | 29 | 12 | 18 | N | 1864 | 21 | 20 | 55 |
| | 1825 | 10 | 14 | 45 | | 1865 | 2 | 23 | 22 |
| | 1826 | 21 | 5 | 57 | | 1866 | 13 | 14 | 33 |
| | 1827 | 2 | 8 | 24 | | 1867 | 24 | 5 | 45 |
| J | 1828 | 13 | 23 | 35 | N | 1868 | 6 | 8 | 12 |
| | 1829 | 24 | 14 | 47 | | 1869 | 16 | 23 | 24 |
| | 1830 | 5 | 17 | 14 | | 1870 | 27 | 14 | 35 |
| | 1831 | 16 | 8 | 26 | | 1871 | 8 | 17 | 3 |
| J | 1832 | 27 | 23 | 37 | N | 1872 | 20 | 8 | 14 |
| | 1833 | 9 | 2 | 4 | | 1873 | 1 | 10 | 42 |
| | 1834 | 19 | 17 | 16 | | 1874 | 12 | 1 | 53 |
| | 1835 | 0 | 19 | 43 | | 1875 | 22 | 17 | 4 |
| N | 1836 | 12 | 10 | 55 | N | 1876 | 4 | 20 | 32 |
| | 1837 | 23 | 2 | 6 | | 1877 | 15 | 10 | 43 |
| | 1838 | 4 | 4 | 34 | | 1878 | 26 | 1 | 55 |
| | 1839 | 14 | 19 | 45 | | 1879 | 7 | 4 | 22 |
| I | 1840 | 26 | 10 | 56 | N | 1880 | 18 | 19 | 33 |
| | 1841 | 7 | 13 | 24 | | 1881 | 29 | 10 | 45 |
| | 1842 | 18 | 4 | 36 | | 1882 | 10 | 13 | 12 |
| | 1843 | 28 | 19 | 47 | | 1883 | 21 | 4 | 24 |

## TAFLEN IV.

### EPACT Y MISOEDD.

| Mis. | Epact. | | | Mis. | Epact. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion. | 0d. | 0a. | 0' | Gor. | 3d. | 19a. | 36' |
| Chw. | 1 | 11 | 16 | Awst | 5 | 6 | 52 |
| Maw. | 29 | 11 | 16 | Medi | 6 | 18 | 8 |
| Ebr. | 1 | 9 | 48 | Hyd. | 7 | 5 | 24 |
| Mai | 1 | 21 | 4 | Tach. | 8 | 16 | 40 |
| Meh. | 3 | 8 | 20 | Rhag. | 9 | 3 | 55 |

Rhaid lleihau diwrnod o swm yr Epactau yn misoedd Ionawr a Chwefror yn mlynyddoedd y naid.

## TAFLEN V.

Cyweiriad i'w gysylltu at amser y gorllanw ar y Newid a'r Llawn.

| Oed y lleuad. | | Cyweiriad. | | Oed y lleuad. | | Cyweiriad. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 0 | 12 | 8 |
| | 6 | 0 | 8 | | 6 | 12 | 17 |
| | 12 | 0 | 17 | | 12 | 12 | 26 |
| | 18 | 0 | 26 | | 18 | 12 | 36 |
| 1 | 0 | 0 | 36 | 16 | 0 | 12 | 45 |
| | 6 | 0 | 45 | | 6 | 12 | 54 |
| | 12 | 0 | 54 | | 12 | 13 | 2 |
| | 18 | 1 | 2 | | 18 | 13 | 11 |
| 2 | 0 | 1 | 11 | 17 | 0 | 13 | 19 |
| | 6 | 1 | 19 | | 6 | 13 | 28 |
| | 12 | 1 | 28 | | 12 | 13 | 37 |
| | 18 | 1 | 37 | | 18 | 13 | 46 |
| 3 | 0 | 1 | 46 | 18 | 0 | 13 | 54 |
| | 6 | 1 | 54 | | 6 | 14 | 3 |
| | 12 | 2 | 3 | | 12 | 14 | 12 |
| | 18 | 2 | 12 | | 18 | 14 | 21 |
| 4 | 0 | 2 | 21 | 19 | 0 | 14 | 30 |
| | 6 | 2 | 30 | | 6 | 14 | 40 |
| | 12 | 2 | 40 | | 12 | 14 | 50 |
| | 18 | 2 | 50 | | 18 | 15 | 1 |
| 5 | 0 | 3 | 1 | 20 | 0 | 15 | 11 |
| | 6 | 3 | 11 | | 6 | 15 | 21 |
| | 12 | 3 | 2 | | 12 | 15 | 32 |
| | 18 | 3 | 32 | | 18 | 15 | 44 |
| 6 | 0 | 3 | 44 | 21 | 0 | 15 | 56 |
| | 6 | 3 | 56 | | 6 | 16 | 9 |
| | 12 | 4 | 9 | | 12 | 16 | 23 |
| | 18 | 4 | 23 | | 18 | 16 | 37 |
| 7 | 0 | 4 | 37 | 22 | 0 | 16 | 51 |
| | 6 | 4 | 51 | | 6 | 17 | 6 |
| | 12 | 5 | 6 | | 12 | 17 | 22 |
| | 18 | 5 | 22 | | 18 | 17 | 40 |
| 8 | 0 | 5 | 40 | 23 | 0 | 18 | 0 |
| | 6 | 6 | 0 | | 6 | 18 | 20 |
| | 12 | 6 | 20 | | 12 | 18 | 39 |
| | 18 | 6 | 39 | | 18 | 18 | 58 |
| 9 | 0 | 6 | 58 | 24 | 0 | 19 | 18 |
| | 6 | 7 | 18 | | 6 | 19 | 37 |
| | 12 | 7 | 37 | | 12 | 19 | 56 |
| | 18 | 7 | 56 | | 18 | 20 | 14 |
| 10 | 0 | 8 | 14 | 25 | 0 | 20 | 31 |
| | 6 | 8 | 31 | | 6 | 20 | 47 |
| | 12 | 8 | 47 | | 12 | 21 | 2 |
| | 18 | 9 | 2 | | 18 | 21 | 17 |
| 11 | 0 | 9 | 17 | 26 | 0 | 21 | 31 |
| | 6 | 9 | 31 | | 6 | 21 | 44 |
| | 12 | 9 | 44 | | 12 | 21 | 56 |
| | 18 | 9 | 56 | | 18 | 22 | 9 |
| 12 | 0 | 10 | 9 | 27 | 0 | 22 | 21 |
| | 6 | 10 | 21 | | 6 | 22 | 32 |
| | 12 | 10 | 32 | | 12 | 22 | 43 |
| | 18 | 10 | 43 | | 18 | 22 | 53 |
| 13 | 0 | 10 | 53 | 28 | 0 | 23 | 3 |
| | 6 | 11 | 3 | | 6 | 23 | 13 |
| | 12 | 11 | 13 | | 12 | 23 | 23 |
| | 18 | 11 | 23 | | 18 | 23 | 33 |
| 14 | 0 | 11 | 33 | 29 | 0 | 23 | 42 |
| | 6 | 11 | 42 | | 6 | 23 | 5 |
| | 12 | 11 | 51 | | 12 | 24 | [illegible] |
| | 18 | 12 | 0 | | | | |

Eglurhad y tafleni rhagflaenol.

Taflen I sydd gwedi ei ranu yn bump colofn: Y 1. ydynt enwau amryw leoedd yn Mhrydain fawr a rhai manau ereill. Yr 2. yw enwau y gwledydd y mae y cyfryw leoedd ynddynt. Y 3 a'r 4 yw eu lledred a hydred, a'r 5 sydd yn dangos yr awr a'r munud o ben llanw y mor ar y newid neu'r llawn.

Ni oddefai cylch y gwaith hwn i chwanegu mwy o enwau lleoedd at y daflen. Nid rhaid i breswylwyr unrhyw lenydd môr onid sylwi yr awr a'r munud y bydd gorllanw ar y newid neu'r llawn, ac yna gallent olrhain y llanw a thrai ar unrhyw ddyddiau ereill wrth y rheolau a grybwyllwyd uchod.

Taflen II. sydd yn dangos oed y lleuad: mae hwn gwedi ei ranu yn ddwy ran, y gyntaf yn cynnwys y misoedd a'r llall y blynyddoedd gyd ag oed y lleuad. Felly i wybod oed y lleuad, nid rhaid ond edrych am y dydd o'r mis yn y rhan gyntaf, ac yna ar ei gyfer tan y flwyddyn yn rhan ail mae oed y lleuad.

Mae epact y flwyddyn a fynir y sydd yn y daflen, yn ngodrau y golofn o dan y cyfryw flwyddyn: gwelir mai epact 1815 yw 20.

Tafleni III. a IV. ydynt yn cynnwys epact blynyddoedd a misoedd, tu ag at gael oed y lleuad yn gywir yn ol ei chanolig symudiad, sef trwy eu cysylltu at yr amser rhoddedig gwedi ei gymwyso i baladr canol-ddydd Greenwich, fal y crybwyllwyd eisus.

Taflen V. sydd yn cynnwys rhif ychwanegol i'w gysylltu at amser y gorllanw ar y newid a'r llawn i gael y llanw ar amserau ereill. Y golofn gyntaf ynddo yw oed y lleuad bob chwe' awr; a'r ail sydd yn cynnwys yr amser cyfatebol a grybwyllwyd.

## DOSBARTH IX.

### *Am ddiffygiau yr haul a'r lleuad.*

NID oes unrhyw o ymddangosiadau y ffurfafen gwedi denu sylw dynol ryw yn fwy na diffygiau yr haul a'r lleuad; ac i'r sawl sydd yn anhysbys o egwyddorion seryddiaeth nid oes dim yn ymddangos yn fwy hynod, na'r rhag-ddywediad manwl o'u digwyddiad. Yn y cynoesoedd, cyn i belydrau crefydd a dysgeidiaeth oleuo y byd, barnid y cyfryw yn ddrychiolaethau arswydus yn dynodi gwg y Nef ar y parthau y digwyddent ynddynt. O'r diwedd daeth dynion i sylwi yn fwy manwl ar droteydd y bydoedd frŷ yn eu hamrywiol rodau, a gwelwyd yn raddol yr achos anianol o honynt yn amlwg.

Mae'n sicr nad oedd y diffygiau a rag-ddywedwyd gan Thales, Anaxagoras, ac ereill cyn Cred, o gasgliad mor gywir ag yw y rhai a ragddywedir gwedi dwyn o Newton y gelfyddyd tan ddosbarth. Olrheiniodd ef fal y soniwyd rodau y bydoedd frŷ, ac eglurodd y deddfau am gyd-dueddiad y naill gorff nefol at y llall, yn nghyd a'u pellder, symudiad ac ereill bethau, yr hyn sydd angenrheidiol i'w gwybod cyn gallael dirnad nemawr am egwyddorion diffygiau.

Nid yw yn gweddu yn y gwaith hwn i olrhain i fanylrwydd y dull o gasglu y diffygiau, rhag ei chwyddo i fwy maint na'r cynllun, eithr argeisir egluro y peth yn gyffredinol, heb ymfliuo llawer â chasgliadau dyrys, Yn y lle cyntaf rhaid ystyried bod pob corff tywyll a ddangosir i'r goleuni yn bwrw ei gysgod o'r tu ol iddo: a chan mai corff tywyll yw y ddaear, yr hon yn bwrw ei chysgod tros eangder mawr,

mae'n eglur bod y lleuad pan ddelo iddo yn colli ei llewyrch, ac felly yn dyfod tan ddiffyg.

A chan bod y ddaear yn gyfrgron, byddai ei chysgod yn drolynog, pe byddai yr haul a'r ddaear o'r un maintioli; ond os byddai'r ddaear yn fwy na'r haul, rhaid fyddai i'w chysgod fod fal bon-braff gwrthdröawl, yn myned fwyfwy po pellaf yr elai: felly yn ol y ddwy-ffordd hyn byddai y cysgod yn annherfynol, a goddefai y planedau Mawrth, Iôu, a Sadwrn y sydd o'r tu allan i rôd y ddaear, ddiffyg bob tro y byddent gyferbyn a'r haul. A chan nad yw hyn byth yn digwyddo, rhaid bod yr haul yn fwy na'r ddaear; a bod cysgod y ddaear yn fon-braff ac yn terfynu yn bigfain.

Cysgod y lleuad hefyd sy fon-braff, a phan syrthio ar unrhyw ran o'r ddaear, mae trigolion y lle hwnw yn canfod yr haul tan ddiffyg cyhyd ag y byddo i'r cysgod eu hamdoi. Ond gan bod y lleuad yn llawer llai na'r ddaear, a'i chysgod heb fod yn cyrhaedd cnid tros gyfran fechan o honi, nis gall bod cyflawn dywyllwch onid yn y man y syrthio y cysgod arno: gwêl y trigolion cymydogaethol gyfran o wyneb yr haul yn orchuddiedig, yn ol eu hagosrwydd i'r cysgod. Felly tra nad yw diffyg ar yr haul yn weledig onid mewn rhyw fan bengol, mae diffyg y lleuad yn weledig ar yr un amser yn yr holl arddrych y byddo yn tywynu arni.

Pe byddai yr haul a'r lleuad o'r un maintioli, gorchuddiai cysgod y lleuad weithiau ddarn o wyneb y ddaear yn gyfartal i ddwy fil o filltiroedd o led, ond yn lle hyny y lled mwyaf mewn diffyg cyflawn yw o ddeutu 150 milltir, yr hyn sy brawf arall bod y lleuad yn llai na'r ddaear. Ac hefyd mae parhâd diffyg cyflawn ar y lleuad yn dangos bod cysgod y ddaear yn ddigon eang i orchuddio y lleuad pe byddai ei thryfesur yn dei-gwaith mwy nag yw, yn brawf eglur o ragoriaeth maintioli.

Mae'n eglur oddiwrth yr hyn a ddywedwyd, nad all diffyg ar y lleuad ddigwyddo ond ar y llawn, sef pan y byddo hi ar gyfer yr haul; nag ychwaith ar yr haul ond y pryd y byddo y lleuad mewn cysylltiad a'r haul yn peri y newid, canys ar yr amserau hyny yn unig mae yr haul, y lleuad, a'r ddaear mewn llin wastad a'u gilydd, a thrwy hyny yn peri i gysgod y naill syrthio ar y llall Felly gan fod y lleuad yn newid ac yn llawn bob mis, byddid yn ddigon tueddol i ddisgwyl diffyg bob tro ar y prydiau hyny, ond nid yw hyny yn digwyddo fal y sylwir yn mlaen.

Pe byddai rhôd y lleuad yn gydredawl â rhôd y ddaear, digwyddai diffyg ar yr haul bob newid, ac ar y lleuad bob llawn, ond y mae y ddwy rôd yn croesi eu gilydd, ac yn llunio ongl o 5⅓° sef yr hanner ogleddol yn ei man pellaf yn gymmaint oddiwrth rôd y ddaear, ac felly y llall yn estyn i'r un bellder ar y tu de. Gelwir y ddau le y mae rhôd y lleuad yn croesi rhôd y ddaear yn nodau, ac y mae yn rhaid i'r lleuad ar y newid fod o fewn 17° i unrhyw o honynt cyn y gall bod diffyg ar yr haul; ac hefyd o fewn 12° i unrhyw nôd ar y llawn cyn y gall hithau fod tan ddiffyg: felly po nesaf i'r nôd fyddo'r lleuad, a pho lleiaf fyddo ei lledred neu ei phellder i'r de neu'r gogledd oddiwrth yr heulrawd neu rôd y ddaear, mwyaf fydd y diffyg. A chan nad yw yr haul yn myned heibio y nodau onid dwy-waith yn y flwyddyn, ac onid 17° ar y newid a 12° ar y llawn o holl rôd y lleuad (360°) yn ddarostyngedig i ddiffygiau, nid rhyfedd bod y diffygiau yn digwyddo mor anfynych.

Weithian ceisir egluro ychydig yn mhellach am ddiffygiau yr haul ar lleuad wrth lun 3. Bydded *H* yn dynodi yr haul, *L* y lleuad newydd, *Ll* y llawn lloaaid, y cylch *L Ll*, rhod y lleuad, *v* cysgod y lleuad yn syrthio ar gyfran o'r ddaear yn peri diffyg ar yr haul, *d Ll m* cysgod y ddaear yn peri diffyg ar y lleuad, *n a c*, &c. yn rhan o wyneb y ddaear, ac A yn ganol-bwnc iddi. Mae'n eglur wrth y llun hwn bod yr haul a'r lleuad yn ymgyfarfod yn y nôd, canys pe buasai y lleuad *L* ychydig o'r neilldu fal y mae'n digwyddo bob newid na byddo diffyg, buasai y cysgod *v* yn syrthio y tu allan i'r ddaear, ac felly heb ddiffyg ar unrhyw ran o honi; buasai hefyd i'r lleuad *Ll* fod y tu yma neu y tu draw i gysgod y ddaear yn peri iddi ddianc ar y llawn heb fod tan ddiffyg. Dylid sylwi bod y cysgod *v* yn llai pan y byddo yn union syth uwch y cyhydedd na phan y syrthio yn ystlysol ar ei rhanau ereill. Pan y byddo'r lleuad yn ei man agosaf o'i rhôd i'r ddaear, mae ei thryfesur yn ymddangos yn fwy nag yw tryfesur yr haul, felly yn peri y cysgod *v* i orchuddio o wyneb y ddaear o ddeutu 150 milltir neu ychwaneg fal y soniwyd o'r blaen; ond pan fyddo'r lleuad yn ei chwr pellaf oddiwrth y ddaear pan y byddo yr haul tan ddiffyg, mae ei thryfesur yn llai na'r haul, a chan bod ei chysgod felly yn terfynu yn bigfain cyn cyrhaedd y ddaear, nis gall holl wyneb yr haul gael ei orchuddio ar y tywyllwch mwyaf, eithr ymddengys ar ganol y diffyg fal modrwy ysplenydd.

Mae symudiad gwrthgrwydrol yn perthyn i nodau y lleuad, sef o ddeutu 3 munud ac 11 ailiad yn feunyddiol, felly nis gall y lleuad fod yn union yn yr un man o'i nod pan y digwydd diffyg, ond unwaith pob 18 mlynedd, 224 dydd, ac o ddeutu 3 awr: ond amser cylchawl y diffygiau yw 18 mlynedd, 11 dydd, 7 awr a 43 munud, ac yn niwedd y cyfryw adchwyliad, mae yr un diffygiau am amryw oesoedd yn adddychwel, ac yn cadw agos yr un maintioli, &c.

Ond nad ydyw yr un diffygiau yn parhau yn wastadol sydd eglur oddiwrth fod y cyfryw yn cilio oddiwrth y nôd o ddeutu 18 munud bob adchwyliad, felly rhaid iddynt mewn oesoedd i ddyfod gilio yn rhy bell oddiwrth derfyn y diffygiau i beri unrhyw ddiffyg. Fal hyn, os chwiliwn i ansawdd y diffyg mawr fu ar yr haul yn 1764, gwelwn na chyffyrddodd hwnw a'r ddaear erioed hyd Meh. 1295, ac yna o'r pwnc gogleddol daeth yn fwyfwy mewn maint a gogwyddiad deheuol hyd oni ddaeth yn ddiffyg cyflawn yn Mhrydain yn 1764. Ar y drydedd chwyldro o honaw, (canys mae dwy er y pryd hyny gwedi myned heibio) yn moreu y 5 o Fai 1818, canfyddir ef yn tueddu i'r dehau, ac erbyn y flwyddyn 2265, gwedi 77 adchwyliad, fe giliai yn llwyr heibio i begwn y de i'r gwagle mawr. Dechreuodd y diffyg mawr a ddigwyddodd yn Mhrydain yn Gor. 1748 yn y flwyddyn 978, yn mhegwn y de. yr oedd hwn yn Gor. 1766 yn cuddio llai na hanner yr haul, ac wedi dwy adchwylfa yn Awst 1802, nid oedd onid ychydig yn ychwaneg, ond yn Medi 1820, canfyddir ef agos tros holl wyneb yr haul, ac erbyn y flwyddyn 2090, canfyddir ef yn cilio heibio i'r pegwn gogleddol i'r eangder mawr, ac ni ddychwel i'r ddaear drachefn am ddeng mil o flynyddoedd!!

Bellach rhoddir rheolau wrth y daflen ganlynol i wybod y pryd yn ol y canolig symudiad y digwydd unrhyw diffyg, ac hefyd eu maintioli, a pha le y byddont yn weledig ynddo, oddiwrth faint lledred y lleuad, neu bellder yr heulrawd oddiwrth y cylch cyhydeddol.

Taflen gyffredinol o amseroedd yn ol y canolig symudiad o amrywiol ddiffygiau dechreuad y ganrif bresenol; yn dangos rhifedi diffygiau pob blwyddyn, amseroedd eu digwyddiad, lledred y lleuad, yn ngbyd a'r goleuad a fyddo yn goddef diffyg.

| *Blwyddyn.* | *Mis.* | *D.* | *A.* | *M* | *Lledred y lleuad.* ° | ' | " | *Goleuad.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1801 | Maw. | 15 | 2 | 1 | 1 | 24 | 2 D. D. | Haul. |
| | Maw. | 30 | 16 | 11 | 0 | 8 | 2 D. E. | Lloer. |
| | Ebr. | 13 | 16 | 27 | 1 | 17 | 50 G. E. | Haul. |
| | Medi. | 8 | 19 | 59 | 1 | 5 | 15 G. D | Haul. |
| | Medi | 22 | 20 | 1 | 0 | 7 | 50 D. D. | Lloer. |
| | Hyd. | 8 | 8 | 37 | 1 | 29 | 30 D. E | Haul. |
| 1802 | Maw. | 4 | 14 | 34 | 0 | 43 | 10 D. D. | Haul. |
| | Maw. | 19 | 22 | 58 | 0 | 49 | 10 D. E. | Lloer. |
| | Awst. | 27 | 21 | 59 | 0 | 0 | 30 G. D. | Haul. |
| | Medi. | 11 | 10 | 43 | 0 | 45 | 30 G. E. | Lloer. |
| 1803 | Chw. | 21 | 6 | 26 | 0 | 1 | 0 D. E. | Haul. |
| | Awst | 2 | 20 | 43 | 0 | 55 | 30 G. D. | Lloer. |
| | Awst | 16 | 23 | 40 | 0 | 19 | 10 D. E. | Haul. |
| 1804 Naid. | Ion. | 26 | 7 | 17 | 0 | 45 | 19 G. D. | Lloer. |
| | Chw. | 10 | 20 | 21 | 0 | 43 | 13 G. E. | Haul. |
| | Gor. | 22 | 8 | 18 | 0 | 28 | 53 D. D | Lloer. |
| | Awst | 5 | 6 | 0 | 0 | 44 | 30 D. E. | Haul. |
| | Rhag. | 31 | 12 | 28 | 1 | 28 | 45 D. D | Haul. |
| 1805 | Ion. | 14 | 17 | 41 | 0 | 15 | 10 G. D. | Lloer. |
| | Ion. | 30 | 5 | 43 | 1 | 21 | 0 G. E. | Haul. |
| | Meh. | 26 | 12 | 0 | 1 | 4 | 30 G. D. | Haul. |
| | Gor. | 11 | 13 | 7 | 0 | 13 | 39 G. E | Lloer. |
| | Gor. | 25 | 18 | 21 | 1 | 28 | 30 D. E. | Haul. |
| | Rhag. | 20 | 11 | 52 | 0 | 47 | 45 D. D | Haul. |
| 1806 | Ion. | 4 | 8 | 56 | 0 | 36 | 28 D. E | Lloer. |
| | Meh. | 16 | 4 | 54 | 0 | 15 | 42 G. D. | Haul. |
| | Rhag. | 9 | 13 | 8 | 0 | 9 | 20 D. D. | Haul. |
| 1807 | Mai. | 21 | 5 | 29 | 0 | 55 | 3 D. D | Lloer. |
| | Meh. | 5 | 17 | 46 | 0 | 26 | 0 D. E. | Haul. |
| | Tach. | 14 | 20 | 45 | 0 | 43 | 10 G. D. | Lloer. |
| | Tach. | 28 | 21 | 8 | 0 | 13 | 0 G. E. | Haul |
| 1808 Naid. | Mai | 9 | 18 | 56 | 0 | 10 | 41 D. D | Lloer. |
| | Mai | 25 | 1 | 54 | 1 | 9 | 15 D. E | Haul. |
| | Hyd. | 19 | 3 | 52 | 1 | 28 | 50 D. D. | Haul. |
| | Tach. | 2 | 21 | 37 | 0 | 9 | 34 G. D. | Lloer. |
| | Tach. | 17 | 12 | 40 | 1 | 13 | 0 G. E. | Haul. |
| 1809 | Ebr. | 14 | 8 | 54 | 0 | 47 | 48 G. D | Haul. |
| | Ebr. | 29 | 11 | 21 | 0 | 33 | 51 G. E | Lloer. |
| | Hyd. | 8 | 19 | 39 | 0 | 46 | 50 D. D. | Haul. |
| | Hyd. | 22 | 21 | 49 | 0 | 30 | 18 D E. | Lloer |
| 1810 | Ebr. | 3 | 12 | 57 | 0 | 4 | 30 G D. | Haul. |
| | Medi. | 27 | 6 | 21 | 0 | 3 | 30 G. E. | Haul. |

| CANLYNIAD O'R DAFLEN GYFFREDINOL, &c. | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Blwyddyn.* | *Mis.* | *D.* | *A.* | *M.* | *Lledred y lleuad* ° | ' | " | | *Goleuad.* |
| 1811 | Maw. | 9 | 18 | 15 | 0 | 41 | 10 | D D. | Lloer. |
| | Maw. | 24 | 0 | 11 | 0 | 44 | 20 | D. E. | Haul. |
| | Medi | 2 | 11 | 2 | 0 | 26 | 30 | G. D. | Lloer. |
| | Medi | 17 | 9 | 54 | 0 | 45 | 20 | G. E. | Haul. |
| 1812 Naid. | Chw. | 12 | 5 | 20 | 1 | 17 | 10 | G. D. | Haul. |
| | Chw. | 26 | 17 | 22 | 0 | 3 | 0 | D. D. | Lloer. |
| | Maw. | 13 | 15 | 46 | 1 | 26 | 10 | D. E. | Haul. |
| | Awst. | 7 | 20 | 4 | 1 | 9 | 20 | D. D. | Haul. |
| | Awst. | 25 | 3 | 53 | 0 | 19 | 10 | D. E. | Lloer. |
| 1813 | Chw. | 1 | 18 | 38 | 0 | 37 | 30 | G. D. | Haul. |
| | Chw. | 15 | 18 | 55 | 0 | 36 | 40 | G. E. | Lloer. |
| | Gor. | 8 | 4 | 32 | 0 | 5 | 10 | D. D. | Haul. |
| 1814 | Ion. | 22 | 1 | 23 | 0 | 2 | 20 | D. E. | Haul. |
| | Gor. | 2 | 8 | 44 | 0 | 48 | 10 | D. D. | Lloer. |
| | Gor. | 16 | 18 | 31 | 0 | 24 | 10 | D. D. | Haul. |
| | Rhag | 26 | 8 | 27 | 0 | 46 | 10 | D. D. | Lloer. |
| 1815 * | Ion. | 10 | 1 | 11 | 0 | 40 | 20 | D. E. | Haul. |
| | Meh. | 7 | 4 | 49 | 1 | 28 | 10 | D. D. | Haul. |
| | Meh. | 21 | 9 | 11 | 0 | 7 | 10 | G. D. | Lloer. |
| | Gor. | 6 | 12 | 33 | 1 | 4 | 52 | G. E. | Haul. |
| | Tach. | 30 | 9 | 38 | 1 | 2 | 0 | G. D. | Haul. |
| | Rhag. | 15 | 22 | 52 | 0 | 4 | 30 | D. D. | Lloer. |
| | Rhag. | 30 | 1 | 24 | 1 | 19 | 30 | D. E. | Haul. |
| 1816 Naid. | Mai | 26 | 16 | 43 | 0 | 46 | 10 | D. D | Haul. |
| | Meh. | 9 | 15 | 24 | 0 | 42 | 20 | D. E. | Lloer. |
| | Tach. | 18 | 20 | 10 | 0 | 37 | 30 | G. D. | Haul. |
| | Rhag. | 4 | 7 | 40 | 0 | 32 | 10 | G. E. | Lloer. |
| 1817 | Mai | 15 | 21 | 48 | 0 | 5 | 20 | G. D | Haul. |
| | Tach. | 8 | 12 | 12 | 0 | 6 | 30 | D. D | Haul. |
| 1818 | Ebr. | 18 | 10 | 36 | 0 | 30 | 40 | G. D. | Lloer. |
| | Mai | 1 | 21 | 46 | 0 | 35 | 10 | G. G. | Haul. |
| | Hyd. | 11 | 18 | 57 | 0 | 50 | 0 | D E. | Lloer. |
| | Hyd. | 27 | 4 | 14 | 0 | 50 | 0 | D. E. | Haul. |

Yn y daflen hon gwelir mai y flwyddyn sydd yn y golofn gyntaf, amser y diffyg yn ol y canolig symudiad yn yr ail, lledred y lleuad yn y drydedd, a'r goleuad a fyddo yn goddef diffyg yn y bedwaredd. Y llythyrenau yn ngholofn lledred y lleuad sydd yn dangos pa un a'i gogwyddiad esgynol a'i disgynol sy ganddi.†

* Mae rhai o'r rhestr uchod heb fod yn ddiffygiau teg, oherwydd bod y cysgod yn syrthio ychydig o'r neilldu, megys y ddau dros ben y sydd yn 1815, y rhai yn yr adchwyliad nesaf, ac yn ganlynol fyddent gwedi nesu rhagddynt i fod yn ddiffygiau. *Gwel* Brewster's Encycliopedia.

† Mae rhôd y lleuad yn croesi yr heulrawd mewn dau fan, fal y soniwyd Y nôd y sydd a'r du gogledd yr heulrawd a elwir y nôd esgynol, a'r un y sydd ar y tu de iddo a elwir y nôd ddisgynol. Felly wrth nodi lledred y lleuad y dywedir D. D. de disgynol; D. E. de esgynol; neu G. D. gogledd disgynol, &c. i ddynodi ei sefyllfa yn ei rhôd.

Bellach dangosir y defnydd a wneir a'r daflen.

Wrth gysylltu 18 mlynedd 10 neu 11 dydd, 7 awr a 43 munud at amser unrhyw o'r diffygiau sydd yn y daflen, y ceir y swm a fyddo yn cyfateb i ddychweliad yr un diffyg. 10 niwrnod sydd i'w cysylltu os bydd 5 blwyddyn y naid yn y 18 mlynedd, ond 11 oni bydd ond 4.

Rhaid ystyried hefyd bod y dydd seryddol yn dechreu pan y byddo yr haul yn y paladr canol-ddydd, ac yn diweddu at hanner dydd dranoeth. Ac felly am y diffygiau yn y daflen sydd yn digwyddo yn niwedd Rhagfyr, rhaid erbyn cysylltu 10 neu 11 niwrnod at y cyfryw amser iddynt ddigwydd yn Ionawr y flwyddyn ganlynol.

Y dull o wybod dychweliad unrhyw ddiffyg sy fal y canlyn.

Ymddengys wrth y daflen, bod,

| | | D. | A | M. |
|---|---|---|---|---|
| Diffyg ar yr haul.............. | 1807 Meh. | 5 | 17 | 46 |
| Cyssylltwch, gan y bydd 5 blwyddyn y naid mewn ........ | 18 | 10 | 7 | 43 |
| Dychweliad y diffyg............ | 1825 | 16 | 1 | 29 |
| Yna, am y dychweliad nesaf, pan na bydd ond 4 bl. Naid..... | 18 | 11 | 7 | 43 |
| Y dychweliad canlynol ........ | 1843 | 27 | 9 | 12 |

Ymddengys oddiwrth hyn y digwydd y diffyg yn 1825 ar amser teg o'r dydd i'w ganfod yn Mhrydain; ond mae diffyg 1843 i ddigwyddo gwedi machlud haul, ac felly ni ellir ei weled ond yn y Môr werydd ac America. Ond gan nad yw y daflen onid am ganolig symudiad, ni ellir olrhain oddiwrthi y man y dechreu y diffyg: rhaid i wybod hyny fod yn hysbys o amryw bethau rhy faith i'w crybwyll yn y lle hwn.

Gellir olrhain diffygiau yn ol yn gystal ag yn mlaen wrth yr un rhëol, ond cofio os elir yn mhellach yn ol na'r flwyddyn 1752, pan y newidiwyd y cyfrif, o ddileu 11 nydd o amser y diffyg, megys y dangosir yn ganlynol.

| | | D. | A. | M. |
|---|---|---|---|---|
| Yr oedd diffyg ar y haul........ | 1804 Awst | 5 | 6 | 0 |
| Lleihewch, gan nad oedd onid 4 bl. y N. 1800 yn cael ei cyfrif fel bl. gyffredin ............ | 18 | 11 | 7 | 43 |
| | 1786 Gor. | 14 | 22 | 17 |
| Lleihewch, am bod 4 bl. N. yn yr adchwylfa hwn. .......... | 18 | 11 | 7 | 43 |
| | 1768 Gor. | 13 | 14 | 34 |
| Lleihewch am bob 5 bl. N....... | 18 | 10 | 7 | 43 |
| | 1750 Gor. | 3 | 6 | 51 |
| Lleihewch 11 nydd i ddyfod a'r cyfrif newydd i'r hen gyfrif.... | | 11 | | |
| | 1750 Meh. | 22 | 6 | 51 |

Y dull o wybod maintioli unrhyw ddiffyg a gesglir fal hyn, sy fal y canlyn, lleihewch ledred y lleuad pan fyddo diffyg arni o 58, sef terfyn

ei lledred yn ol ei chanolig symudiad, lliosogwch y gweddill â 6, ac yna cyfranu y cynnyrch ag 16, a chewch yn ateb y graddau o honi a orchuddier. I gael parhâd y diffyg lleihewch ysgwâr munudau lledred y lleuad o 8100, sef ysgwâr terfyn y diffyg, a chyfrenwch wreiddyn cyflawn ochr y gweddill â 31, (symudiad y lleuad mewn awr) a bydd rhif i'w leihau o ganol y diffyg i ddynodi ei ddechreu; ac i'w gysylltu i ddangos ei ddiwedd. Yr un dull sydd am ddiffyg ar y lleuad, ond mai 3364 sydd i'w arfer am ysgwâr terfyn y diffyg, ac yna bydd y casgliad fal yn y llall yn dangos ei dechreu a'i ddiwedd.

Yr oedd y diffygiau yn or hon amseroedd fal y soniwyd yn cael eu cyfrif yn arwyddion o ddinystr i syrthio ar y gwledydd yr oeddynt yn weledig ynddynt; effeithiau diffyg ar yr haul oedd i barhau cymmaint o flynyddoedd ag a fyddai parhâd y diffyg o oriau; ac effeithiau diffyg ar y lleuad oedd i fod am gynifer o fisoedd.

Bu y fath ddychymygion gwag a hyn, unwaith o gryn fûdd i Columbus, yr hwn yn 1493, a ddigwyddodd gael ei ymlid gan dymhestl i ynys Jamaica, lle y bu mewn anghaffael o eisieu lluniaeth, ac ni thodd i y trigolion iddo: ar hyn bygythiodd hwynt â phlâ dinistriol, ac yn rhybuddith iddo, y dyddai diffyg ar yr haul, yr hwn yn digwyddo ar y dydd ammodol, a ddychrynodd yr anwariaid, fal y daethant am y cyntaf â lluniaeth iddo, gan osod eu rhoddion wrth ei draed, ac erfyn ei faddeuant.

## DOSBARTH X.

*Am yr amrywiaeth y sydd yn hyd y dydd a nos, ac yn nhymhorau'r flwyddyn.*

ANIAN sydd a goruchwylion ei deddfau yn dra ardderchog, ac er bod amser y cyfryw yn ymddangos yn ddyrys, eto nid ydynt byth yn gwyro oddiwrth y cynlluniau priodol o nodwyd iddynt. Gwelwn bod yr haul, y lloer, y sêr a'r planedau yn cael eu llywodraethu gan ddeddfau pwys a thyniad: rhai yn ymsymud yn chwyrn, ereill yn araf, a'r lleill yn sefydlog heb wyro o'r man y gorchymynodd y Creawdr iddynt i fod ar y dechreu, ac felly yn ddiysog yn cadw y deddfau a osodwyd iddynt trwy oesoedd y greadigaeth. Felly oddiwrth hyn â phethau a grybwyllwyd o'r blaen, mae'n deillio yr amrywiaethau y sydd y pryd hwn dan ein sylw.

Y mae'n rhaid nad oes dim yn fwy hyfryd a boddhäol i ddyn o iawn egwyddor na'r amrywiol amrywiaethau y sydd yn cael eu harddangos yn ngoruchwylion anian, megys olynol ddilyniad dydd a nos, dychweliad rheolaidd y tymhorau yn eu cylch-dro blynyddol, &c.

Pan fyddo'r haul gyntaf yn ymddangos goruwch y terfyngylch, mae holl anian megys yn ymfywiocâu yn ei wyddfod, ac yna ar ei fachludiad i ystafelloedd y gorllewin, wele ardderchowgrwydd ysplenydd y bydoedd fry yn dyfod i'r golwg, ac yn peri syndod difrif ddwys wrth yr amgyffred lleiaf am eu lliosogrwydd, eu maint, a'u pellder yn yr eangder mawr. Olynol ddilyniad y tymhorau hefyd yn haf a gauaf, gwanwyn a chynhauaf, ydynt yn ein cludo yn ebrwydd trwy gylch-dro y flwyddyn, ac yn dangos anian yn ei holl raddau o'i thlodi isaf i'w gorwychder mwyaf ysplenydd.

Weithian ceisir egluro ychydig o berthynas i olynol ddilyniad dydd a nos, a thymhorau'r flwyddyn. Yn y lle cyntaf, mae'n eglur mai trofa'r ddaear ar ei hechl sydd yn peri yr amrywiaeth o ddydd a nos, ac fal y mae'r ddaear yn rhoddi tro rheolaidd unwaith bob 24 awr, ac heb allu dangos mwy na'i hanner ar unwaith, i belydrau'r haul, mae'n eglur fod yn rhaid i unrhyw barth o'r byd fod weithiau yn y goleuni, ac weithiau yn y tywyllwch i ddilyniad rheolaidd o ddydd a nos ddigwyddo.

Trofa'r ddaear ar ei hechl o orllewin i ddwyrain sydd yn peri i'r cyrff nefol ymddangos o fod yn ymsymud mewn cyfeiriad gwrthwyneb. Wrth hyn mae'r haul yn ymddangos i ni fal yn rhedeg ei yrfa trwy y ffurfafen o ddwyrain i orllewin, er y gwyddys mae gau yw y cyfryw ymddangosiad, canys pe gosodid syllydd yn unrhyw barth o'r arddrych dywell, rhaid iddo wrth drofa'r ddaear ddyfod yn raddol i oleuni, a gweled yr haul fal yn ymgodi goruwch y terfyngylch, ac yn ymsymud rhyngddo a'r gorllewin yn ol ei symudiad ef yn ddwyreiniol: felly pa un bynag ai'r ddaear a roddai dro ar ei hechl bob 24 awr, a'i ynteu'r haul a holl fydoedd y ffurfafen o gylch y ddaear yn yr un amser, rhaid mai yr un ymddangosiadau a ddigwyddai yn nosbarthiad dydd a nos.


Gan bod holl blanedau y ddosbarth yn troi ar eu hechl i beri olynol ddilyniad eu hamrywiol ddydd a nos, mae yn rhaid mai gogwyddiad echl unrhyw o honynt i wastad-lawr ei rhôd, sydd yn peri olynol gyfnewidiad ei thymhorau. Mae echl Iou yn union-syth i'w rod, felly mae yn rhaid i'w ddydd a nos o begwn i begwn fod yn gyfartal yn wastadol, sef y naill a'r llall yn 4 awr ac 28 munud o hyd. Echlau gwener, y ddaear a mawrth, ydynt yn gogwyddo mewn onglau llai nag unionsyth i'w rhôd, ac felly y maent yn ddarostyngedig i gyfnewidiad blynyddol yn eu tymhorau, ac yn hyd eu dydd a nos

Gan nad all onid hanner y ddaear fod ar unwaith yn y goleuni, rhaid pe byddai echl y ddaear yn union-syth i'w rhôd, i'r terfynydd sef y cylch sydd yn dosbarthu yr arddrych oleu oddiwrth yr arddrych dywell fod yn fin-fin a'r ddau begwn, ac felly yn dosbarthu y cyhydedd a'r holl gylchoedd lledred yn ddwy ran gyfartal bob un. A chan y byddai i drofa'r ddaear ar ei hechl beri i bob lle arddangos i'r goleuni ranau cyfartal o'r cyfryw gylchoedd lledred yn yr un faint o amser, rhaid fyddai i ddydd a nos fod yn gyfartal tros wyneb y ddaear, oddigerth yn y ddau begwn yn unig, y lle yr ymddangosai yr haul yn wastadol yn y terfyngylch, heb na chodi na machlud.

Ond yn y gwrthwyneb, os yw echl y ddaear yn gogwyddo i'w rhôd, rhaid bod y terfynydd yn dosbarthu yr holl gylchoedd lledred (oddigerth y cyhydedd) yn ddwy ran anghyfartal, felly tra byddo cylchoedd yr arddrych ogleddol a'r rhan fwyaf o honynt yn y goleuni, a'r lleiaf yn y tywyllwch; bydd rhaniad gwrthwyneb ar gylchoedd yr arddrych ddeheuol, sef y rhan fwyaf o bob cylch yn y tywyllwch, a'r leiaf yn y goleuni; ond ar y cyhydedd bydd dydd a nos yn gyfartal yn wastadol. A chan fod yr anghyfartaledd yn fwy po pellaf yr elir oddiwrth y cyhydedd, mae'n amlwg fod yn rhaid i'r parthau sydd yn terfynu ar y pegynau fwynhau naill a'i dydd gwastadol neu nos wastadol yn barhaus.

Gwedi dwys ystyried y sylwiadau hyn, bydd yn hawdd trwy gynorthwy y llun canlynol, ddirnad am yr anghyfartaledd sydd yn hyd y dydd a nos, ac hefyd am gyfnewidiad tymhorau'r flwyddyn yn deillio oddiwrth hyny.

LLUN 4.



Bydded *H* yr haul, a'r lluniau yn y rhôd sydd yn ei gylchynu yn dynodi sefyllfa'r ddaear yn Mawrth, Mehefin, Medi, a Rhagfyr; y y llythrenau *a b* ynddynt yn dynodi y cyhydedd, *o e*, echl y ddaear, c *d*, trofeydd y cranc, *f g*, trofeydd yr afr, *k l* y cylch cyfddeau, ac i ♎, y cylch cyfogledd. Felly gan y gwyddis bod echl y ddaear yn cyfeirio yn wastadol at yr un pwnc yn y ffurfafen, mae yn rhaid nad oes unrhyw gyfnewidiad yn ysgogiad ei hechl i'w rhôd yn unrhyw gwr o'i thaith flynyddol o gylch yr haul. Bellach bydded ini ystyried y ddaear yn y cwr o'i rhôd y mae ynddi yn mis Mawrth, yna gan y gwna llin wastad yn cydio canol-bynciau yr haul a'r ddaear dori gwyneb y ddaear yn y cyhydedd, bydd y terfynydd yn fin-fin ar ddau begwn, ac felly dydd a nos, fal y soniwyd, yn gyfartal tros wyneb yr holl ddaear. Ond pan elo'r ddaear yn ei chylch-dro blynyddol rhyngddi a'r ⊕ ♑, ei sefyllfa yn Mehefin, bydd y pegwn gogledd 23½° oddiwrth y terfynydd yn yr arddrych oleu, a'r pegwn deheu yr un bellder o fewn yr arddrych dywell, felly yn peri i'r holl arddrych ogleddol fwynhau hirddydd haf, a'r holl arddrych ddëau fyr-ddydd gauaf.

Tra y cyfwng rhwng amser cyfartal dydd a nos a elwir Alban Eilir, a'r dydd hwyaf a elwir Alban Hevin, ymddengys bod y pegwn gogleddol gwedi darlunio chwarter cylch yn yr arddrych oleu, ac yna yn y pellder mwyaf oddiwrth derfynydd goleuni a thywyllwch: a thra yr elo'r ddaear yn mlaen rhyngddi a'r ⊕♎, bydd hyd y dydd yn cwtogi hyd oni ddelo'r ddaear i Alban Elfed yn mis Medi, pan y bydd i'r terfynydd fod drachefn yn fin-fin a'r pegynau i beri cyfartal dydd a nos: oddiyno bydd y dydd yn myned lei-lai hyd y dydd byraf, sef y pryd y byddo'r haul yn Alban Arthan, pan y bydd y pwnc gogledd yn union mor bell yn y tywyllwch, ac a oedd yn Mehefin yn y goleuni. Oddiyma i Alban Eilir, bydd y dydd ar ystyn, hyd oni ddelo yn gyfartal a'r nos i orphen y flwyddyn, yr hyn yw 365*d*. 5*a*. 48*m*.

Wrth yr un rheol mae'n hawdd dirnad bod gan drigolion yr arddrych ddeheuol y cyffelyb gyfnewidiadau yn hyd eu dydd a nos, ac hefyd yn nhymhorau'r flwyddyn; eithr tra mae hir-ddydd haf yn un, bydd byr-ddydd gauaf yn y llall Ond rhag nad yw'r hyn a ddywed-

wyd yn ddigon eglur, rhoddir yn ganlynol ddull mwy têg i'w ddeall onid myned i'r drafferth o lunio offeryn at y bwriad

Pe rhwymid dau gylch o'r maint y fynir fal y byddai i'r naill ogwyddo oddiwrth y llall 23½°, sef gogwyddiad y cyhydedd oddiwrth yr heulrawd, ac iddynt gael eu gosod ar dri-throed ar fwrdd a chanwyll oleu i ddynodi yr haul yn y canol o'r un uchder a'r cydiad, gwelid yn ddiatreg wrth hongian pelen ar gyfer un o'r ddau gydiad (sefyllfa'r haul yn Mawrth a Medi) y byddai y pegwn belen yn rhwym wrtho a'r pwnc cyferbynol fod ar yr un amser yn y terfynydd, ond fal y cludid y belen i ganlyn y cylch tu ag i wared, gwelid ei phwnc uchaf yn dyfod yn fwy i ddydd, a'r pwnc isaf yn fwy i nos; ac er iddi droi ar ei hechl, gwelid bod y nos yn y naill a dydd yn y llall yn byrhau, hyd oni nesao at y cydiad arall, pan yr á y terfynydd trwyddynt, fal o'r blaen. Pan elid i gwr isaf y cylch, byddai y pegwn uchaf yn oleu, a'r llall heb belydryn o oleuni yn tywynu arno.

Oddiwrth hyn y gwelwn yn eglur yr achos o fod y dydd yn byrhau ac yn estyn o'r cyhydedd hyd at y pegynau bob blwyddyn; hefyd yr achos nad oes weithiau ddydd neu nos trwy ystod amryw o drofeydd y ddaear; a'r achos o fod dydd a nos yn gyfartal yn wastadol yn y cyhydedd, yr hwn sy bob amser yn cael ei ddosbarthu yn ddwy ran gyfartal gan derfynydd goleuni a thywyllwch. Yr holl amrywiaethau hyn sydd yn deillio oddiwrth ogwyddiad echl y ddaear i wastad-lawr ei rhôd.

"Some say he bid his Angels turn askance
The poles of earth twice ten degress and more
From the sun's axle: they, with labour, push'd
Oblique the central globe."

MILTON.

Gan fod rhôd y ddaear yn hirgron, a'r haul yn cadw yn wastadol yn nghwr isaf rhôd pwnc cymherfedd y ddosbarth, yr hyn yw 1,377,000 o fil'tiroedd oddiwrth y canol-bwnc, mae'n rhaid bod y ddaear 2,754,000 militir yn nes i'r haul ar un amser o'r flwyddyn nag ar yr amser arall; a chan fod wyneb yr haul yn ymddangos yn lletach yn y gauaf na'r haf, mae'n rhaid mae ei dynesad ato sydd yn peri y cyfryw ymddangosiad Pa fodd gan hyny nad ydyw y ddaear yn mwynhau y gwres mwyaf pan y byddo ei phellder oddiwrth yr haul leiaf, sef yn Rhagfyr, y pryd y mae y ddau yn nes i'w gilydd o ychwaneg na 2 filiwn o filltiroedd nag yn Mehefin? Yr ateb i'r anghysondeb ymddangosol hyn, yw, bod pelydrau yr haul yn syrthio yn fwy syth arnom yn yr haf nag yn y gauaf; ac felly bod yn rhaid i'r gwres fod yn fwy grymus, er i'r goleuad fod yn mhellach yn yr entrych eang. Mae y pelydrau yn y gauaf yn treiddio trwy drwch mwy o'r awyr-gylch, ac yn fwy gwasgarog; ac hefyd mae oerni yr hirnos yn dileu ychydig wres y byr-ddydd, tra yn yr haf mae y pelydrau fal y soniwyd yn dyfod trwy lai trwch o'r awyr-gylch yn syth arnom, ac felly gwres yr hir-ddydd yn fwy awchlym nag y gall yr amser byr y mae'r haul yn absenol ei ymlid ymaith.

## DOSBARTH XI.

*Am ddosbarthiad a chyfartaliad amser.*

AMSER sydd hanfod anhawdd ei ddynodi: ni wyddis pa un ai yr enw eangder, defnydd, ai ynteu symudiad yw y mwyaf priodol iddo. Gofynwyd i anianydd enwog ei egluro, ac iddo gerdded o gylch y gêll, a dywedyd, "dyma yw y peth, ond ni feddaf eiriau i'w amlygu." Arall, (sef Aristotle) a ddywedai mai "gweithred bod mewn gallu, cyhyd ac y mae mewn gallu" ydoedd. Ac arall, (Leibnitz) a ddywedai mae tremyniad peth mewn hanfod, ydoedd: ac amryw ddywediadau dyrys ac annirnadadwy ereill. Ond pa enw bynag sydd yn briodol iddo, yr ydym oddiwrth e'n dychymygion ein hunain, ac oddiwrth yr olynol amrywiaethau y sydd yn ngwrthrychau anian, yn gallu amgyffred rhyw ychydig am dano yn ei barhâd a'i ddosbarthiad.

Symudiad arddangosol yr haul fal corff mwyaf y ddosbarth, sydd yn dynodi amser oreu: ef sydd yn peri dosbarthiad amser i ddyddiau a blynyddoedd, y rhai ydynt yn cael eu had-ranu trwy fedrusrwydd celfyddyd yn fisoedd, wythnosau, &c. Yn mhob cyfrif cyffredinol, gwyddis bod un dydd a nos yn cynnwys 24 awr, sef yr amser y mae'r haul yn rhoddi cyflawn dro arddangosol o gylch y ddaear. Ond y mae trofa arddangosol y ser sefydlog yn dosbarthu y cyfryw amser yn 3*m*. 56*a* llai, yr hyn mewn blwyddyn sy 24 awr, ac felly yn gwneyd blwyddyn y sêr yn 366 o ddyddiau, tra nad yw blwyddyn yr haul onid 365. Yr achos o'r cyfryw wahaniaeth yw pellder diamgyffred y sêr, canys nid yw rhôd y ddaear, pan y cymharer hi a'r fath feithder, ond megys y pwnc lleiaf; ac felly bydd i unrhyw baladr canol-ddydd gylch-droi oddiwrth unrhyw o'r sêr sefydlog i'r un drachefn yn yr un amser yn union, a phe byddai y ddaear yn sefydlog yn unrhyw gwr o'i rhôd, heb unrhyw symudiad arni onid ei throfa ar ei hechl yn unig.

Nid oes unrhyw o fydoedd y greadigaeth onid y ddaear yn ei throfa ar ei hechl yn unig, yn dosbarthu amser yn rhanau cyfartal. Nid yw symudiad arddangosol yr haul yn rheolaidd, oherwydd ei agosrwydd neu ei bellder yn yr heulrawd oddiwrth y cyhydedd. Amser cyfartal yw'r hwn sydd yn cael ei ddangos gan gloc neu offeryn cyffelyb a fyddo gwedi ei reoleiddio yn deg, ac fal y byddo i'r cyfryw amser cyfartal gyduno â deial gywir, rhaid ei gyweirio â chyfartaliadau priodol.

Gan fod echl y ddaear yn union-syth i glawr y cyhydedd, mae'n rhaid i ranau cyfartal o'r cylch hwnw yn nhrofa'r ddaear ar ei hechl fyned heibio y paladr canol-ddydd mewn amseroedd cyfartal; ac felly yn yr un modd, y byddai i ranau cyfartal o'r heulrawd, pe byddai yn gyd-wastad a'r cyhydedd. Ond gan nad yw hyn yn bod, mae'n rhaid i symudiad y ddaear ar ei hechl, beri i ranau anghyfartal o'r heulrawd fyned heibio y paladr mewn amseroedd cyfartal; y gwahaniaeth bob amser yn gymhesur a'r osgo: a chan fod rhai o ranau yr heulrawd yn ysgoi mwy neu lai oddiwrth y cyhydedd, bydd yr amrywiol wahaniaethau ei hunain hefyd yn anghyfartal.

Er mwyn egluro hyn yn well, bwriwn bod yr haul a seren yn cydgychwyn oddiwrth un o'r ddau bwnc cyhydeddol, y seren yn y cyhydedd a'r haul yn yr heulrawd, ac iddynt fyned trwy ranau cyfartal o'u cylchoedd mewn amseroedd cyfartal: yna mae'n eglur y byddai i'r seren ddychwel i'r un pwnc mewn 24 awr o amser ar gloc gwedi ei

iawn reoleiddio, ond fe ddeuai'r haul i'r paladr weithiau yn nghynt at weithiau yn hwyrach na'r seren, yn ol eu sefyllfaoedd priodol; ac ni fyddent byth ar y paladr ar yr un amser, onid ar bedwar diwrnod yn y flwyddyn, sef, Mawrth 20, pan y byddo'r haul yn myned i'r hwrdd; Mehefin 21, pan pan elo i'r cranc; Medi 23, pan elo i'r fantol; a Rhagfyr 21, pan elo i'r afr. Ond y dyddiau y bydd y cloc gyd a'r haul ydynt Ebrill 14, Mehefin 15, Awst 31 a Rhagfyr 31, fal y gwelir wrth y dafleu ganlynol, yr hon sydd gwedi ei chasglu am yr ail gwedi blwyddyn y naid, ag sydd o fewn o ddeutu un munud yn gywir am y flwyddyn y fynir.

TAFLEN YN DANGOS CYFARTALRWYDD AMSER.

| Misoedd. | Dyddiau | Funudau | Cyfar yn | Misoedd. | Dyddiau | Funudau | Cyfar yn | Misoedd. | Dyddiau | Funudau | Cyfar yn | Misoedd | Dyddiau | Funudau | Cyfartal. yn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion. | 1 | 4 | + | Ebr. | 1 | 4 | + | Awst | 9 | 5 | + | | 27 | 16 | − |
| | 3 | 5 | | | 4 | 3 | BUAN. | | 15 | 4 | BUAN. | Tach. | 15 | 15 | |
| | 5 | 6 | | | 7 | 2 | | | 20 | 3 | | | 20 | 14 | |
| | 7 | 7 | | | 11 | 1 | | | 24 | 2 | | | 24 | 13 | |
| | 9 | 8 | | | 15 | 0 | | | 28 | 1 | | | 27 | 12 | |
| | 12 | 9 | | | * | | | | 31 | 0 | | | 30 | 11 | CLOC YN ARAF. |
| | 15 | 10 | | | 19 | 1 | − | | * | | | Rhag. | 2 | 10 | |
| | 18 | 11 | CLOC YN FUAN. | | 24 | 2 | CLOC YN ARAF. | Medi | 3 | 1 | | | 5 | 9 | |
| | 21 | 12 | | | 30 | 3 | | | 6 | 2 | | | 7 | 8 | |
| | 25 | 13 | | Mai. | 13 | 4 | | | 9 | 3 | | | 9 | 7 | |
| | 31 | 14 | | | 29 | 3 | | | 12 | 4 | | | 11 | 6 | |
| Chwf. | 10 | 15 | | Meh. | 5 | 2 | | | 15 | 5 | CLOC YN ARAF. | | 13 | 5 | |
| | 21 | 14 | | | 10 | 1 | | | 18 | 6 | | | 16 | 4 | |
| | 27 | 13 | | | 15 | 0 | | | 21 | 7 | | | 13 | 3 | |
| Maw. | 4 | 12 | | | * | | | | 24 | 8 | | | 20 | 2 | |
| | 8 | 11 | | | 20 | 1 | + | | 27 | 9 | | | 22 | 1 | |
| | 12 | 10 | | | 25 | 2 | | | 30 | 10 | | | 24 | 0 | |
| | 15 | 9 | | | 29 | 3 | BUAN. | Hyd. | 3 | 11 | | | * | | |
| | 19 | 8 | | Gor. | 5 | 4 | | | 6 | 12 | | | 26 | 1 | BUAN. |
| | 22 | 7 | | | 11 | 5 | | | 10 | 13 | | | 28 | 2 | |
| | 25 | 6 | | | 8 | 6 | | | 11 | 14 | | | 30 | 3 | |
| | 28 | 5 | | | | | | | 19 | 15 | | | | | |

*Eglurhad.* Gwelwn wrth y dafleu uchod bod y cloc 4 *m* yn fwy buan na'r haul yn Ion. 1, ac felly yn cynyddu hyd Chwef. 10, pan y mae'n 15*m.* mwy buan, ac yna yn myned lei-lai hyd Ebr. 15, pan nad oes dim gwahaniaeth rhyngddynt: yna ar y 10 o Meh gwelwn bod y cloc yn fwy araf na'r haul o 1 munud, &c. Yr ychwaneg-nod hyn + sy'n dangos bo l y cloc yn fwy buan na'r haul; ar lleiad-nod hyn — sydd yn dangos ei fod fwy araf.

## DOSBARTH XII.

*Am ddiwygiad y Calendar.*

GOFAL cyntaf pob gwladwriaeth waraidd, gwedi darparu tu ag at gael angenrheidiau addas i gynnal y trigolion, yw sefydlu iawn drefn ar ddosbarthiad amser, canys heb y cyfryw rëol, byddai annhrefn a dyryswi ar amseroedd gweinyddiad goruchwylion gwladol a chartrefol yn barhaus. Felly mae yn rhaid i ddosbarthiad teg ar adchwylfa

amser fod o'r budd mwyaf pwysig i wladwriaeth, canys wrth hyn yr ydym yn alluog i wybod dychweliad y tymhorau, amseroedd sefydliadau gwladol ac eglwysig, ac i drosglwyddo i'r oesoedd sydd i ddyfod gof-nodau o droion teilwng i'w coffâu.

Mae pob cenedl y sydd yn hoffi celtyddydau gwybodaeth, yn cyfri, eu hamser yn ol rhyw adchwylfeydd rheolaidd, ond gan nad yw aniani yn rhoddi dosbarthiad cyfartal arno, mae yr amrywiaeth o'r dull o'f gyfrif yn dra gwahanol. Bernir mewn rhai gwledydd bod y diwrnod yn dechreu ar ganol nos, mewn ereill ar godiad haul, ac yn y lleill ar y canol-ddydd. Yr oedd yr Juddewon a'r Rhufeiniaid yn rhanu y dydd yn ddeuddeg rhan, pa bynag ai hir ai byr a fyddai, a'r nos yn yr un modd; felly yr oedd yn rhaid i'w horiau oddigerth pan fyddai yr haul yn y cyhydedd fod yn wastadol yn anghyfartal, yr hyn arferiad, er ei gwyrgemni amlwg, sydd eto yn cael ei chynnal gan y Twrciaid a rhai cenhedloedd dwyreiniol ereill.

Yr Aiphtiaid medd Herodotus oeddynt y cyntaf a sefydlodd hyd y flwyddyn, trwy beri iddi gynnwys 360 o ddyddiau, yr hon hefyd a ddosbarthwyd yn ddeuddeg mis, fal y cydunai gyd â thaith y lleuad. Ychwanegodd Trismegistus bump diwrnod arall; a dywedir i Thales wneyd yr un peth yn mhlith y Groegiaid. Ond yr oedd blwyddyn yr Juddewon, Syriaid, Ethiopiaid, Rhufeiniaid, Persiaid, a'r Arabiaid o hydau anghyfartal. Cyfnewidiad arddangosol y tymhorau, yn deillio oddiwrth sefyllfa amrywiol yr haul, a achlysurodd y cyfryw sefydliad, a chan mai angenrheidiol oedd i'r flwyddyn gynnwys yr holl amrywiaethau a allai ddigwyddo, y prif bwnc oedd i beri i'r un tymhorau fod yn wastadol ar yr un amser o honi. Ond gan yr arferai amrywiol genhedloedd ddulliau gwahanoli drefnu hyn, ni ddewisent yr un pwnc o'r heulrawd i ddechreu y flwyddyn, ac felly ni allent oll gyduno o berthynas i amser union cylchdröad y rhôd.

Mae yr amser y mae y flwyddyn yn dechreu yn dra gwahanol mewn amryw wledydd. William y goresgynydd yn cael ei goroni ar ddydd calan, a fu yn achlysur i'r Saeson alw y diwrnod hwnw yn gyntaf o'r flwyddyn. Y Mahometaniaid ydynt yn dechreu eu blwyddyn pan elo yr haul i'r hwrdd; y Persiaid yn y mis sydd yn cyfateb i'n mis Mehefin ni; y Chineaid a'r Indiaid ar y lloer newydd gyntaf yn Mawrth; a'r Mexicoaid yn ol dywediad *d'Acosta* ar y 23 o Chwefror, sef yr amser y bydd llysieu yn dechreu tarddu allan yn y wlad honno.

Ad-raniad oesol arall ar amser, yw y wythnos, yr hon agos yn mhob gwlad sydd yn cynnwys saith niwrnod, yn gydunol ag amser creadigaeth y byd, neu yn ol ereill yn gydunol ag amrywiol ymddangosiadau y lleuad o'r newid i'r chwarter cyntaf. Ond pa drefn bynag a barodd i'r fath gynifer o genhedloedd ddewis y cyfryw ddull cysefin, diammeu nad oedd derbyniad cyffredinol iddi. Yr oedd wythnos yr hen Roegiaid yn cynnwys deng niwrnod, a'r Rhufeiniaid naw, ond drachefn yn nyddiau ymerawdr Theodorius hwy a'i rhanasant yn saith, gan alw y dyddiau ar enw y saith blaned, sef Sul, Llun, Mawrth, Mercher, Iou, Gwener a Sadwrn.

Ond o holl raniadau amser y sydd mewn arferiad, y mis a'r flwyddyn yw y mwyaf dyrys. I reoleiddio y cyfryw yn gywir â threfn y rhôd oedd orchwyl anhawdd ei drefnu, ac y sydd eto heb ei lwyr berffeithio. Gellir galw adchwylfa y lleuad yn ei rhôd neu yr amser o'r

naill newid i'r llall, yn fis; ac hefyd yr amser y mae yr haul yn ei gymeryd i gyflawni ei dro arddangosol o gylch y ddaear, neu o unrhyw nôd o'r heulrawd i'r un drachefn, yn flwyddyn; ond gan nad yw yr un o'r adchwyliadau hyn yn cael eu cyflawni mewn rhifedi cryno o ddyddiau, pa fodd y cysonir y naill gyda'r llall, ac y gwneir iddynt gyduno gyd a'r cyfrif cyffredin sydd ar amser. Mae yn eglur mai cylchdro yr haul sydd yn rheoleiddio y tymhorau, a chan na wyddis amseroedd eu dychweliad ond oddiwrth ei symudiad, mae yn rhaid mai oddiwrth y cyfryw mae uniawn hyd y flwyddyn yn tarddu.

Yr oedd y Groegiaid gynt, a rhai o'r cenhedloedd cyfagos iddynt yn rhëoleiddio hyd y flwyddyn wrth daith y lleuad. Yr oedd hon oherwydd yr amrywiol ymddangosiadau y sydd yn cael ei harddangos ganddi yn ei newid, ei llawn, a'r chwarteri, yn cael ei chyfrif yn oreu o unrhyw ereïll o'r cyrff nefol i'r perwyl hynny A chan fod ei chylchdro yn cael ei gyflawni mewn 29½ o ddyddiau, ac iddynt fwrw bod deuddeg o'r rhai hyn yn gyfartal i gylchdro yr haul, gwnaethant i'w misoedd gynnwys 29 a 30 o ddyddiau, bob yn ail, ac felly eu blwyddyn i fod yn 354 o ddyddiau Ond gan y gwyddis weithian mai 29*d.* 12*a* 44*m.* a 3*ailiad* sydd o'r naill newid i'r llall, a bod yr haul yn rhoddi cylchdro cyflawn o unrhyw bwnc cyhydeddol i'r un drachefn mewn 365*d* 5*a.* 48*m.* a 49*a*, mae yn rhaid i'r cyfryw gyfrifiad fod yn dra gwyrgam, sef bod cymmaint ag un niwrnod ar ddeg o wahaniaeth rhwng y naill a'r llall.

Yr oedd yn rhaid i'r cyfryw anghyfartalrwydd yn nosbarthiad amser fod yn rhy amlwg i beidio a dyfod dan sylw, canys pe trefnasid ar unrhyw amser i ddechreu y flwyddyn fod yn y gwanwyn, gwnaethai y cyfryw amrywiad mewn 16 mlynedd iddi ddechreu yn y cynhauaf, ac mewn 32 mlynedd, rhoddasai dro cyflawn i'r gwanwyn drachefn. Yr oeddynt yn ceisio uniawni y gwall hwn trwy ychwanegu rhifedi o ddyddiau ar amserau at y calendar, ac yn dechreu y flwyddyn yn wastadol yn ddiweddarach fal y byddai i'r tymhorau gyduno â chylchdro yr haul. Ond gan mai mynachod ac urddolion ereill oedd i ofalu am osodiad y dyddiau ychwanegol, y rhai er mwyn elw neu fympwy coelgrefyddol oeddynt yn fynych yn gommedd eu dodi, yr oedd y flwyddyn weithiau yn hir ac weithiau yn fyr yn ol a farnent yn oreu, ac felly yn dra anrhefnus.

Cynygiodd rhai ddynion celfydd amryw ddulliau o ddiwygio y cyfryw wallau i seneddwyr Rhufain, ond yr oedd awydd y pennaethiaid hyny am ehangu eu rhwysg a'u terfynau mor anniwall, nad oeddynt yn gofalu am geinciau celfyddyd, hyd oni ddaeth Julius Cæsar i'r orsedd, yr hwn a arddangosodd gryn ymröad o ddyfod ag ansawdd y flwyddyn i iawn drefn. Galwodd am y dynion mwyaf dysgedig i'w gynnorthwyo i ddiwygio y calendar, ac yr hynotaf yn eu plithgoedd Sosigenus o Alexandria, yr hwn a welodd yn eglur nad oedd modd dosbarthu amser yn deg heb wneyd sylw benigol ar gylch-dro blynyddol yr haul; a chan fod cylch-dro cyflawn yn digwyddo mewn 365 o ddyddiau ac o ddeutu 6 awr, lluniodd y flwyddyn i gynnwys 365 o ddyddiau am dair blynedd olynol, ac i'r bedwaredd fod yn 366, fal y cymerid i mewn y chwech oriau dros ben.

Digwyddodd hyn o ddeutu 45 mlynedd cyn Cred: ond gan bod o ddeutu 90 niwrnod gwedi colli yn ol y cyfrifiad rhagflaenol, trefnodd Julius Cæsar i'r flwyddyn gyntaf gwedi y diwygiad gynnwys 444 o

ddyddiau, fal y cymeryd hwynt i gyfrif. Gwedi hyn trefnwyd i'r flwyddyn ddechreu ar y cyntaf o Ionawr, a rhanwyd y misoedd oddigerth Chwefror yn 30 a 31 o ddyddiau fal y maent yn bresenol, i'r dybeu o'u gwneyd mor gyfartal ag y gellid, ac iddynt gyduno agos â chylch-dro y lleuad. Y diwrnod dros ben a grybwyllwyd sydd yn deillio oddiwrth y chwech oriau, a roddwyd yn y calendar bob pedwaredd flwyddyn trwy rifo y 24 o Chwefror ddwywaith.

Ganwyd Julius Cæsar yn y mis a elwid y pryd hwnw *Quintillis*, a gwedi ei farwolaeth, trefnodd Marc Anthony, un o driwyriaid Rhufain, i'r mis gael ei alw ar ei enw rhagllaw, o barch i un mor enwog. Cyfnewidiwyd yn ganlynol y mis *Sextilis* i Augustus, o barch i ymerawdr o'r enw hyny, a thyna yr enwau sydd arnynt hyd heddyw. Ond difreiniwyd Nero a Domitian, y rhai a roddasent eu henwau i Ebrill a Hydref o'r cyfryw barch mor fuan ag y buont feirw.

Y cyfrif hwn a elwid cyfrif Julius oedd y cywiraf o unrhyw a luniwyd, ond eto yr oedd amherffeithrwydd ynddo, oherwydd nad yw cylchdro yr haul yn 365 dydd a 6 awr union, eithr 365 *dydd 5 awr* 48 *munud* a 49 *ailiad*, felly yr oedd yn rhaid i'r flwyddyn gyffredin fod yn hwy na blwyddyn yr haul o 11 munud ac 11 ailiad, yr hyn yn nghylch 130 o flynyddoedd oedd yn gwneyd diwrnod cyfan, ac felly yn nghorff 47,450 o flynyddoedd, byddai dechreu y flwyddyn gwedi myned trwy yr holl dymhorau i'r un drachefn.

Nid ydys yn barnu bod y cyfryw wall yn hollol anhysbys i Sosigenes, ond y mae yn debyg iddo ei farnu yn llawer llai, ac felly ni fwriodd o'i ol. Nid oeddyd yn gwybod yn union hyd blwyddyn yr haul y pryd hwnw, a chan nad oedd modd i wyrni ymddangos yn hyd y flwyddyn gyffredin onid oddiwrth flaen-brofiad y tymhorau, barnwyd am flynyddau lawer bod cyfrif Julius yn hollol gyson â threfn anian, a thrwy hyny, daeth holl wledydd Ewrop yn ddiatreg i goffeidio y drefn, ac ni bu cyfnewidiad drachefn ar y calendar hyd ganol yr 16 ganrif.

Yn mhlith y rhai cyntaf a ddarganfu y cyfryw amherffeithrwydd, oedd ein cyd-wladwyr Bede, Sacro Bosco, a Roger Bacon, yr oedd yr enwogion hyn gwedi sylwi bod y gwir hwnc cyhydeddol yn rhagflaenu yr un cyffredin o ddeutu diwrnod cyflawn mewn 130 mlynedd. Ac fal yr oedd cymanfa Nice, yr hon a gynhelid yn y flwyddyn 325, gwedi trefnu i alban Eilir fod ar yr 21 o Fawrth, cafwyd fod y gwall o'r pryd hwnw i'r diwygiad nesaf ar y calendar yn 1582 gwedi mwyau i ddeng niwrnod, felly yr oedd alban Eilir y pryd hyn yn digwyddo ar yr 11 o Fawrth yn lle yr 21, fal y dylasai, pe buasai cyfrif Julius yn gyson â rhedfa yr haul.

Yr oedd y cyfryw flaen brofiad dianwadal o'r cyhydedd yn ystod tros fil o flynyddoedd, gwedi dyfod yn rhy amlwg i beidio a denu sylw dysgedigion, felly dangosodd y ddau bennadur Ailli a Cusa i gymanfeydd Constance a Latrau yr achos o'r gwall, a'r modd i'w ddiwygio. Ac yn fuan gwedi hyny archodd y pab Sixtus IV. i Regiomontanus, gwr tra dysgedig, yr hwn ar ei annog yn mlaen a wnaethai yn archesgob Ratisbon, i ddiwygio y calendar, ond y dysgedig hwn yn marw ar hanner y gorchwyl, oedwyd y cynllun am yr amser hwnw.

Yr angenrheidrwydd o ryw gyfnewidiad yn parhau i gael ei honni, daeth yn mhen y can mlynedd gwedi hyn i ran y pab Gregori XIII. i gwblhau yr hyn oedd amryw babyddion a chymanfeydd ardderchog

gwedi ei fethu. Anrhegodd Luilius o Verona, yr hwn oedd sywedydd enwog, gynllun teg iddo, yr hwn gwedi ei chwilio yn fanwl gan y dysgedigion enwocaf, a ddanfonwyd at holl dywysogion Ewrop am eu barn a'u cynnorthwy; ond er i'r ymarferiad o hono ymddangos y pryd hwnw yn ddyrys, cafodd dderbyniad cyffredinol. Felly galwyd cymanfa o'r esgobion mwyaf dysgedig, a gwedi cyfan sefydlu y cynllun, trefnwyd yn Mawrth 1582 i'r hen gyfrif gael ei ddileu, ac i gyfrif Gregori yr hwn a elwir y cyfrif newydd gael ei osod yn ei le.

Gorchwyl cyntaf y dysgedigion oedd diwygio gwallau yr hen gyfrif, ac i beri i hyd y flwyddyn gyduno yn fwy cywir â chylch-dro yr haul. Felly trefnwyd y byddai i'r deng niwrnod oedd gwedi cael eu hennill yn yr hen gyfrif gael eu cymeryd allan o Hydref y flwyddyn hono, ac i bwnc cyntaf y cyhydedd* ddychwel yn ol i Mawrth 21, fal y trefnwyd iddo fod yn nghymanfa Nice: a rhag i'r cyfryw amrywiad ddigwyddo mwy, trefnwyd yn lle i bob canfed flwyddyn fod yn flwyddyn y naid fal yn yr hen gyfrif, i bob pedair canfed fod felly, ac i'r rhai cyfrwng gael eu cyfrif fal blynyddau cyffredin

Wrth hyn yr oedd blwyddyn yr ol ac amser alban Eilir, gwedi eu hiawn reoleiddio, canys fal yr oedd diwrnod yn cael ei ennill bob 130 mlynedd wrth yr hen gyfrif, yr oedd hyn yn lled gyfartal â thri diwrnod yn mhob 400 mlynedd wrth y cyfrif newydd; ac felly trwy fod y blynyddoedd 1700, 1800 a 1900 i'w cyfrif yn gyffredin yn lle blynyddoedd y naid fal y byddent wrth yr hen gyfrif, yr oedd y gwall oedd yn dyfod oddiwrth yr amser dros ben yn cael ei reoleiddio yn deg. Ond nid oedd hyn ond peth hawdd i'w gyflawni: y peth mwyaf dyrys oedd i beri i flwyddyn yr haul gyduno â blwyddyn y lleuad, ac i sefydlu amser cyfarchwyliad y Pasg, a gwyliau symudol ereill, y rhai hyd yn hyn oeddynt heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw rëol gyson.

Trefnwyd yn nghymanfa Nice, y byddai i wyl y Pasg gael ei chadw ar y sul cyntaf gwedi y llawn llonaid cyntaf, nesaf ar ol alban Eilir. Ac i'r dyben i'r rheol hon gael ei chadw yn deg, yr oedd angenrheidrwydd o wybod y dyddiau y digwyddai y llawn yn ystod pob blwyddyn. Yr oedd hyn yn lled anhawdd ei wybod oherwydd y canfuwyd bod cyfrif Meton y Groegwr, yr hwn oedd yn honni bod 235 misgylch union mewn 19 mlynedd yn rhy hir o awr a deuddeg munud ar hugain, yr hyn mewn 16 o'r cyfryw adchwylfeydd, a barai i'r amrywiaeth rhwng y gwir lawn llonaid a'r amser o hono yn ol y calendar fod yn fwy na diwrnod cyfan.

Yr oedd y gwall hwn yn amser Gregori gwedi angwanegu i bedwar diwrnod, a phe buasai y gwall yn aros rhagllaw, digwyddasai y llawn yn mhen amser ar y newid, a'r newid ar y llawn, ac felly buasai y pasg yn cael ei gynnal ar amseroedd gwrthwyneb i drefn yr eglwys. Felly i ddiwygio y cyfryw wallau, yr oedd yn angenrheidiol chwilio am ryw drefn newydd wahanol i'r hon oedd mewn arferiad; a chan fod yn nghylch-rediad y lleuad am 19 blynedd ryw fantais na wyddid hyd yn hyn am dani, bu Luilius yn llwyddiannus i'w olrhain a'i addasu i'r amcan oedd ar droed.

Yr oedd y lleuad newydd a'r llawn, y rhai a ddychymygid yn ol Meton i ddigwyddo ar yr un amser ag a ddigwyddasant 19 blynedd yn

---

* Y gradd cyntaf o'r hwrdd, sef y man y mae y cyhydedd a'r heu'rawd yn croesi eu gilydd.

ol, yn cael eu dangos fal y canlyn. Golygid ar ba ddydd o'r mis yn y calendar y digwyddai y newid yn mhob blwyddyn o'r cylch-rediad, ac yna dodynt wrtho rif y flwyddyn gan ddechreu o 1 hyd 19. Galwyd hwn oherwydd ei ddefnyddioldeb wrth yr enw y rhif euraid; ond gan i Luilius gael y cyfryw yn amherffaith bwriodd hwynt o'i ddosbarth, a defnyddiodd ereill yn eu lle, y rhai a alwodd epactau.

Epact sy rif yn dangos y gwahaniaeth rhwng blwyddyn yr haul a blwyddyn y lleuad, neu yr hyn sy gyffelyb, oed y lleuad yn niwedd y flwyddyn. Pe digwyddai y newid yn unrhyw flwyddyn ar y calan, yna byddai yr epact yn O. A chan fod deuddeg mis-gylch yn cael eu cyflawni mewn 354 o ddyddiau, mae yn amlwg, y byddai'r epact, neu oed y lleuad yn nechreu yr ail flwyddyn yn 11; yn nechreu y drydedd, 22; ac yn nechreu y bedwaredd, 33. Ond gan nad yw un misgylch byth yn fwy na 29½ o ddyddiau, ni all yr epact fod yn fwy na 30, felly rhaid tynu 30 allan o'r 33, a galw epact y bedwaredd flwyddyn yn 3. Wrth y rheol hon bydd holl epactau cylch-rediad y lleuad am 19 blynedd fal y canlyn, 0, 11, 22, 3, 14, 25, 6, 17, 28, 9, 20, 1, 12, 23, 4, 15, 26, 7, 18.

Pe gosodasid yr epactau hyn ar gyfer dyddiau 'r newid yn misoedd y calendar, buasent yn ateb yr un dyben, ag y golygid i'r rhif euraid ateb. Ond yr oedd y fath amherffeiddrwydd yn y rhai hyny, ag y buasai gwedi un ar bymtheg o'r cylch-rediad hyn, neu 300 mlynedd, i'r newid ddigwyddo ddiwrnod cyfan cyn yr amser nodedig, ac felly yn ganlynol am y 300 mlynedd nesaf, ddau ddiwrnod, &c.

Yr hyn a ddywedwyd sydd grynodeb byr o hanes diwygiad y calendar: ysgrifenwyd traethiadau ehelaeth arno gan amryw o ddysgedigion enwog: a chan fod y drefn weithian gwedi cael ei chyflawn sefydlu, afreidiol yn y gwaith hwn a fyddai olrheiniad ychwanegol arno. Gellir crybwyll ychydig yn mhellach am y derbyniad a gafodd y cyfrif newydd ar y rhoddiad cyntaf o hono.

Gorchymynodd y pab Gregori i'r holl eglwyswyr oedd dan ei raglawiaeth i gydffurfio â'r dull newydd o gyfrif, ac annogodd hefyd y tywysogion Cristionogol oll i'w dderbyn yn eu hardaloedd amrywiol, y rhai yn gyffredinol a ufuddhasant; ond ni wrandawai y gwledydd rhagdystiol y pryd hyny arno. Yr oedd y grefydd ddiwygiedig yn ei babandod, eiddigedd ei haddefwyr yn danllyd, a'u gwrthwyneb i'r pab yn annherfynol: pa beth bynag a gludai arno ymddangosiad o'i awdurdod, a fwrid ymaith, fal traws wasgiad y rhyddid oeddynt newydd ei gaffael, ac er i addasrwydd y cyfnewidiad gael ei addef, eto dyfarnwyd ef yn anheilwng o'u sylw, am iddo ddeillio oddiwrth epil mor atgas ganddynt.

Yr oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfrif yn achlysur o gryn anrhefn yn ngoruchwylion trefnidiol amrywiol wledydd Ewrop. Yn Lloegr yn benigol, yr oedd cryn anghyfleusdra o'i herwydd: felly bu ymroddiadau mynych gan amryw ddysgedigion i arwain y drefn newydd i mewn, ond yr oedd y rhagfarn gyffredinol yn rhy gadarn i lwyddiant ddyfod i'w rhan. Cynygiai rhai, (rhag ufyddhau yn hollol i drefn y pab, o ddileu deng niwrnod o'r cyfrif,) i ofyn i'r senedd ganiatau i beri na byddai blwyddyn y naid yn ngorff y deugain mlynedd oedd i ddyfod, cynygiai ereill gynlluniau cyffelyb, ond er y cyfan nid oedd cydsyniad yn cael ei roddi.

Or diwedd gan fod y dysgedigion yn parhau i flino y senedd, a threfnidiaeth y wlad yn ymddyrysu, ymroddwyd yn 1752, gwedi cryn ddadleu gan seneddwyr enwog, i dderbyn y cyfrif newydd. A chan bod 170 o flynyddau gwedi myned heibio, er pan y sefydlwyd cyfrif Gregori, yr oedd yr hen gyfrif gwedi ennill ychwaneg na diwrnod cyfan ar yrfa'r haul nag a ennillasai y pryd hwnw; felly yn lle dileu deng niwrnod o'r cyfrif cyffredin, fal y gwnaethai y pab, trefnwyd i un nydd ar ddeg gael eu gadael allan o fis Medi y flwyddyn hono, ac felly ar yr ail o'r mis hwnw, darfu yr hen gyfrif, a galwyd y dydd nesaf yn lle trydydd, yn bedwerydd ar ddeg.

Gellir crybwyll yn mhellach fod cryn ymosod gwedi bod ar y diwygiad hwn gan ddysgedigion enwog, sef, Mæstlin, Scaliger, Vieta ac ereill, y rhai a honnasant mewn traethiadau helaeth bod ganddynt well trefn i ddiwygio y calendar na threfn Gregori; eithr Clavius i'r hwn y rhoddasid y gorchwyl ar farwolaeth Lilius, a amddiffynodd y drefn oedd ar droed yn dra enwog, ac felly a'u dystawodd, Er yr addefir bod peth methiant yn y drefn hon, eto yr oedd y gorchwyl o ddiwygio yn ddyrys, ac yr oedd gan y diwygwyr liaws o rwystrau i fyned trwyddynt; dylem gan hyny ganmol eu medrusrwydd yn hytrach na'u goganu am wallau, y yr hyn ni allai unrhyw ddoniau dynol yn gyfan eu gochelyd.

## DOSBARTH XIII.

### *Am Fesuriad y Ddaear.*

I fesur y bêl ddaearol fal y penderfynir ei dull a'i maintioli, syddon o'r anturiaethau mwyaf hynod a gymerwyd erioed mewn llaw gan ddyn. Megis gwedi ei gaethiwo mewn mangre benigol, heb un phortread na chynllun o'i flaen, pa fodd y gall fesur pellder lleoedd nas gall eu holrhain, a dirnad am feithder ëang amgylchiad y ddaear grwnfaith. Gall fesur y parthau a olrheinia wrth ei gamrau, y droedfedd, y llathen, y gwrhyd, a'r cyffelyb, ond beth yw y cyfryw mewn cymhariaeth i fesuriad y ddaear ond megys gwreinyn i'r mynydd mwyaf? Pethau dyrys, pa fodd bynag, ydynt yn ymannog i ymroddiad, a dyn yn lle ymddyrysu yn ei anghyfatebolrwydd sydd yn cael adnodded ynddo ei hun i'w gynnorthwyo yn ei amcanion: lliosoga fesurau mân, hyd oni chyrhaeddo y rhai mwyaf. Gyd a'r droedfedd, llathen, &c. gwedi eu lliosogi fal hyn, mae yn llunio ystadau, milltiroedd, a'r cyffelyb, ac yn anturio mesur y cyfryw bellderau a fyddai mewn modd arall yn annherfynedig. Ond y mae y drefn hon yn llwyr anghyfatebol i'r perwyl, canys pe byddai yn angenrheidiol i ddilyn holl amgylchiad y ddaear i wybod ei mesur, ni ellid cwblhau y cynllun; byddai moroedd, mynyddoedd, afonydd, a gwledydd anghyfanedd yn rhwystrau parhaus. I'r dyben gan hyny o orthrechu y cyfryw anhawsder, rhaid adgyrchu at seryddiaeth, yr hon sydd yn darparu trefn i fesur y ddaear heb ini ymsymud o wlad ein genedigaeth.

Yr oeddid yn barnu hyd y hymthegfed ganrif, mai gwastadedd diderfyn oedd y ddaear, ac ychydig o anianyddion a lyfasai ddywedyd i'r gwrthwyneb, o herwydd bod hen dadau yr eglwys yn cefnogi y cyfryw ddywediad, ar hwn meddant oedd yn unol a'r ysgrythyrau: ond gwedi

darganfod America gan Columbus, credwyd yn gyffredinol, mai corff cyfrgron ydoedd, a bod y ser yn troi o'i chylch mewn rhôdau prïodol.

Fal ag yr oedd gwybodaeth yn cynyddu, cafwyd allan mai nad corff hollol gyfrgrwn oedd y ddaear, ond bod ei thryfesur ar hyd ei hechl yn llai na 'i thryfesur cyhydeddol. Cafwyd hyn allan fal y canlyn. Richer, gwr o Ffrainc gwedi ei ddanfon gan Lewis XIV. i Cayenne yn neheu-barth America, i wneyd rhyw ardremiad seryddawl, a ganfu bod yn rhaid i *bendulum* ei gloc, i gadw amser têg, fod yn fyrach o 11 -han o fodfedd yno nag yn Paris; a chan y gwyddis bod pwys a thyniad yn effeithio ar y pendulum fal ar gyrff a fyddo yn syrthio; ac hefyd bod grym pwys a thyniad yn lleihau, po pellaf y byddo y corff oddiwrth ganol-bwnc y ddaear, rhaid oddiwrth y cyfryw sylw bod ardaloedd y cyhydedd yn mhellach oddiwrth canol-bwnc y ddaear na Paris, ac felly nad allai y ddaear, fod yn llwyr gyfrgron.

Yr oedd y cyfryw ymresymu er iddo fod yn dra amlwg a theg, yn cael gwrthwynebiad gan amryw o'r anianyddion enwocaf. Gwyddis bod pob defnyddiau toddedig yn ymestyn mewn gwres ac yn cwtogi mewn oerni, ac i hyn yprïodolasant y gwahaniaeth yn ymdafliad y pendulum yn Cayenne a Paris. Mae gwres mwyaf yr haf yn estyn gwialen haiarn a fyddo yn 30 troedfedd o hyd o ddeutu yr unfed rhan-arddeg o fodfedd; ond yma yr oedd y cyfryw wahaniaeth mewn gwialen ychydig gyd a thair troedfedd o hyd, ac felly yr oedd yn rhaid i'i helaethiad darddu oddiar ryw achos arall heblaw gwres.

Yn mhen rhai blynyddau cafodd Deshayes, gwr arall o Ffrainc y cyffelyb brawf yn Cayenne, ac yn fuan gwedi, cafodd eraill yr un gwahaniaeth yn Quito, tref ar y cyhydedd, ar y tu gorllewin i ddeheubarth America, ar amser yr oedd rhew o amgylch y ddinas fynyddig hono, yr hyn sy brawf eglur mai nid gwres oedd yr achlysur o'r amrywiad. Profwyd hyn yn yr un modd yn Martinico, San Domingo, St. Helena, Goree, ar dueddau Affrica, a manau ereill, a chafwyd ynddynt oll bod yr amrywiad yn fwyaf dan y cyhydedd, ac yn lleihau wrth fal yr oeddyd yn nesu i'r hinsoddau gogleddol.

Fal hyn, megis yn annysgwiliadwy y daeth i'r golen faes ëang i'r anianydd i dreiddio yn fwy dwfn i ddirgelion anian nag o'r blaen. Y dynion enwog Newton a Huygens, oeddynt y cyntaf a ganfu ëangder y cymhwysiad a ellid ei wneuthyr o hono: olrheiniasant ef yn fanwl hyd oni fedrasant ateb gofyniad y sydd yn ymddangos yn rhy ddyrys i gyrhaeddiadau dynol, hyny yw, penderfynu gwir lun y ddaear. Er bod amryw o ddysgedigion enwog gwedi llafurio llawer i wella trefn Newton, trwy fesur graddau o'r paladr canol-ddydd yn neheu-barth a gogledd-barth Ewrop, a pharthau ereill o'r ddaear, eto trefn Newton o fesur ei maintioli a threiddio i wybodaeth o'i dull yn ol y cynlluniau uchod, sydd hyd heddyw yn cael ei gyfrif yn fwyaf cywir o unrhyw arall.

I dreiddio i'r dull oedd gan Newton a Huygens o ddefnyddio y cyfryw ddatguddiad, fyddai ry faith i'w olrhain yn y lle hwn. Gwyddis bod pob ymdafliad o'r pendulum yn gymhesur â gwreiddyn cyflawn ochr hyd y wialen, megys os yw tafliad pendulum 36 modfedd o hyd yn un ailiad, byddai tafliad un naw modfedd o hyd yn hanner ailiad, felly po byraf y wialen, cyflymaf fydd y symudiad, a pho hwyaf, arafaf fydd.

Mae amser ysgydwad pendulum yn ymddibynu yn gystal ar hyd y wialen, ac ar y pwys neu dyniad y sydd yn effeithio arno. Os bydd i'r cyfryw bwys gau ryw achos gael ei leihau, bydd symudiad y pendulum, yn fwy araf, ac yna i'r dyben iddo gadw amser mwy cyflym fal o'r blaen, rhaid cwtogi y wialen, wrth hyn gellir rhoddi grym newydd iddo i gyflawni y gwall. Dyma oedd y peth yn mhrofiad Richer yn Cayenne: yr oedd yn gorfod arno gwtogi gwialen y pendulum i beri i'r ysgydwad gael ei gyflawni yn yr un amser ac yn Paris, ac oddiwrth hyny y canfuwyd fod pwys a thyniad gwedi goddef peth lleihad.

Oddiwrth hyn ag ystyriaethau dwys o berthynas bod y parthau cyhydeddol yn troi yn fwy cyflym na'r parthau pegynol (ac felly pwys a thyniad yn beth llai yn y blaenaf nag yn yr olaf) yr olrheiniodd Newton ddull y ddaear, a hyny chwedl Fontenelle heb ymsymud o'i gadair ddwytraich. Profion Richer yn Cayenne oeddynt yr achos cyntaf o'i sylw, a thrwy ymroddiad i olrhain y peth yn fanwl, gwelodd yn amlwg yr achos o'r hyn a ddatguddiodd y dysgedig hwnw Fal ag y mae dyphwysiad yn gyfartal yn mhob rhan o wyneb y ddaear, a grym canol-ochel yn fwyaf yn y cyhydedd, mae'n rhaid i'r cyfryw rym leihau pwysau unrhyw gyrff, a pheri iddynt syrthio gyd á llai gradd o gyflymder tua'r cyhydedd, nag mewn lleoedd yn nes i'r pegynau, hyny yw y byddai i unrhyw sylwedd a bwysai 288 yn y cyhydedd, bwyso 289 yn y pegwn.

Mae daearyddion gwedi sylwi bod o ddeutu y drydedd ran o wyneb y ddaear yn orchuddiedig gan fôr, a chan mai anian pob corff firydiol yw ymroddi i effeithiau pwys neu dyniad, mae yn rhaid bydd y grym canol-ochel yn effeithio yn fwy grymus yn y cyhydedd nag yn nhueddau y pegwn. Pe na buasai y gwledydd y sydd yn y cylch llosg yn uwch na'r rhai y sydd yn y gwregysau ereill, buasai y môr yn eu gorllifo o herwydd yr hyn a grybwyllwyd. Ond nid yw y cyfryw dro gwedi digwyddo. Mae'r ddwy India a chyfandiroedd Affrica ac America yn gorwedd yn nghymydogaeth y cyhydedd yn brofion digonol bod y ddaear megys yn ymgodi yn y parthau hyny i'w hamddiffyn ei hun rhag ymgyrch y môr. Y casgliad a wnaeth Newton oddiwrth y sylwiadau hyn oedd bod tryfesur pegynol y ddaear i'w thryesur cyhydeddol, fal ag y mae 229 i 230; neu bod y tryfesur cyhydeddol yn fwy na'r tryfesur pegynol o bymtheg milltir ar hugain.

Pwy a allai ddirnad y buasai y fath amgylchiad ag afrwyddiad clociau mewn rhyw hinsoddau, a'r cwtogiad angenrheidiol o wialen y pendulum, yn esgor ar y fath ddatguddiad a dynodi gwir lun y ddaear. Ond y cyfryw ydyw y cyd-berthynas rhyteddol, a dirgel ymddibyniad y sydd yn neddfau anian, yr hon sy'n unffurf yn ei holl waith, ac yn arddangos weithiau ei thrysorau mwyaf ysplenydd trwy achosion a ymddangosai yn eithaf dystadl. Ond dosbarth y dysgedig yn unig yw treiddio i ddirgelion anian; a chyfryw yw anwybodaeth a chenfigen y werin, ag y barnont y dyn yn haeriedydd neu ryw-beth gwaeth a anturiai dreiddio i ddirgelion y greadigaeth yn ddyfnach na'u cyrhaeddiadau egwan hwy eu hunain.

Dull y ddaear pa fodd bynag sydd eglur-brawf diymod, a chyson â threfn bydoedd ereill y ddosbarth, canys canfyddir trwy ddrychau da ychydig wasgiad yn nhueddau pegynau Iou, ac ymchwyddiad allan yn ei barthau cyhydeddol, ac felly goddefol yw ystyried y gall beth bynag sydd yn hanfodi yn y naill blaned hanfodi yn y llall hefyd.

Bellach ceisir olrhain ychydig ar ddulliau amrywiol y dysgedigion i fesur y ddaear, fal y profir gwirionedd cynlluniau treiddgar Newton. Yr oedd rhyw rai yn mhob oes o'r amseroedd boreuaf yn dadwrdd ychydig o berthynas i fesuriad a dull y ddaear, rhai yn nyddiau cyntaf Cred, megys Hipparchus, Eratosthenes, Posidonius, ac ereill a ellid eu henwi o amseroedd mwy boreu. Ond gan nad yw hysbys eu hamcanion o wall na wyddis hyd eu stadau, afreidiol fyddai olrhain y drefn oedd ganddynt mewn llaw. Yn mhlith y rhai mwyaf enwog yn yr oesoedd diweddaraf oedd Riccioli, yr hwn a ymroddodd i geisio mesur y ddaear yn y dull a ganlyn. Gwyddid ar olygiad bod pob corff trwm wrth syrthio, yn tueddu i ganol-bwnc y ddaear. A chan y gellid dirnad pellder unrhyw ddau le ar wyneb y ddaear fal sail-lein triongl, a'r ongl cyferbynol yn nghanol-bwnc y ddaear, fe a fesurodd sail-lein o'r fath yma mor gywir ag y medrai, gan fesur onglau y ddwy eithafnod a lein a phlymen. Swm yr onglau hyn yn ol rheolau mesuriaeth yn cael eu lleihau o 180 gradd, a roddes iddo ongl y canol-bwnc: a chan bod y cyfryw ganddo, yn nghyd a'r hyd cyferbynol, yr oedd yn hawdd iddo yn ol y rheol gyfartal wybod hyd yr holl amgylchiad, canys wrth briodolder cylch y dywedir, fal y mae graddau y cyfryw ongl, i hyd y sail-lein gyferbynol, felly mae 360 gradd i'r amgylchiad gofynedig.

Er bod trefn Riccioli yn ymddangos yn dra chelfydd, eto gan na chymhwysai y cyfryw i ardremiadau seryddawl, nid oedd modd iddi fod yn gywir, oherwydd mae gau ymddangosiad yn perthyn agos i bob-peth y sydd o'n hamgylch: mae hyd yn nod ein golwg yn ein siomi. Nid yw gwrthddrychau lled bell oddiwrthym byth yn ymddangos yn eu hiawn leoedd; maent yn uwch neu yn îs, yn ol y tymhor neu yr awr o'r dydd y sylwir arnynt; ac felly nid hawdd penderfynu yn deg eu huchder, na'u cyfeiriad, na'r ongl yn y canol-bwnc, cywirdeb yr hwn sydd yn ymddibynu ar y cyfeiriad. Methodd Riccioli fal hyn 6 mil o wrydau mewn un gradd.

Y nesaf a geisiodd fesur y ddaear oedd elmon o enw Snellius: mesurodd hwn y pellder rhwng Alcmaer a Bergen-op-zoom, ac wrth gymharu y cyfryw ag ardremiadau seryddawl, cafodd hyd gradd yn 55,021 gwrhyd. Ond y mwyaf llwyddiannus yn y gorchwyl hwn oedd ein cyd-wladwr Richard Norwood, yr hwn yn 1625 a fesurodd raddau uchder yr haul ar alban Hevin yn Llundain a Chaerefrawg, a chafodd felly y gwahaniaeth lledred rhyngddynt yn 2 gradd ac 28 munud. Yna mesurodd y pellder yn y modd mwyaf manwl a chafodd hyd gradd yn 57,300 o wrydau, sef 69½ milltir a 14 palaid, yr hwn yn cytateb yn lled gywir â gradd yn y ffurfafen, a roddes y mesuriad tecaf o unrhyw arall a wnaethid cyn hyny ar y belen ddaearol.

Ond fal yr oedd offerynau yn cael eu gwellhau, yr oedd dysgedigion yn ymroddi i fod yn fwy treiddgar yn y gorchwyl. Yr anturiwr nesaf oedd Picard, yr hwn trwy orchymyn Athrofa gelfyddydawl Paris, a fesurodd hyd gradd yn nghymydogaeth y ddinas hono yn 57,060 o wrydau, yr hwn wrth ystyried medrusrwydd y mesurydd, a pherffeithrwydd ei offerynau a farnid yn fwy cywir na mesuriad Norwood.

Yr oeddyd yn yr holl fesuriadau hyn yn golygu y ddaear yngorff hollol gyfrgron, ac yr oedd gwirionedd y peth yn dechreu bod yn destyn dadl. Yr oedd Newton a Huygens gwedi dangos trwy ddeddfau

pwys a thyniad bod ei pharthau cyhydeddol yn fwy oddfawg na'i pharthau pegynol; a Cassini yn honni dull hollol i'r gwrthwyneb, sef, mai y pegynau oedd yn ysgwyddo allan. Felly i benderfynu y ddadl, gorchymynodd brenin Ffrainc i ddynion addas gael eu danfon gan Athrofa gelfyddydawl Paris i fesur hyd gradd ar y cyhydedd, a gradd yn nhueddau y cylch cyfogledd, fal trwy gymharu y rhai hyny â hyd gradd yn Ffrainc y gellid penderfynu maint y ddaear, ac hefyd ei dull yn y modd mwyaf cywir.

I gyflawni hyn danfonwyd Maupertius, Clairaut, Camus, le Monnier ac Outhier i Lapland i fesur y gradd mwyaf gogleddol a allent; a Godiu, Bouger a la Condamine i Peru yn neheubarth America i fesur gradd yn agos i'r cyhydedd. Dechreuodd y pump blaenaf eu gorchwyl yn Tornea, yn ngogleddbarth culfor Bothnia ar yr 8 o Gorphenaf, 1736, a gorphenasant yn nechreu Mehefin 1737, a chawsant hyd gradd yn 57,422 o wrydau. Bu y lleill bump mlynedd oddicartref: dewisasant Quito ar y cyhydedd i ddechreu eu gorchwyl, a chawsont hyd gradd yno yn 56,753 gwrhyd.

Mae y mesuriadau hyn yn rhoddi cyflawn brawf nad corff hollol gyfrgrwn yw'r ddaear, canys pe felly, buasai gradd yn mhob parth o honi yn mesur yr un faint o wrydau; ond gan bod gradd ar y cyhydedd yn llai o 307 o wrydau, na gradd yn Ffrainc, ac o ddeutu 699 gwrhyd llai na gradd ar y cylch cyfogledd, mae yn hawdd dirnad bod dull y ddaear yn lled debyg i'r dull a osodwyd allan arni gan yr enwog Syr Isaac Newton.

## DOSBARTH XIV.

*Am bellder, a maintioli yr haul, lloer a'r planedau.*

GOFYNWYD i'r dysgedig Locke, awdur y traethawd ar ddeall dynol, a allai dyn dall a ddysgasid i wahaniaethu corff crwn oddiwrth gorff ysgwar, ddynodi pe cafai ei olwg, y naill oddiwrth y llall heb gymhwyso y teimlad iddynt. Nag allai oedd yr ateb; ac y mae y dysgedig hwnw yn ei draethawd yn dangos mai ynfydrwydd fyddai i'r cyfryw roddi yr ymddiried lleiaf yn ei olwg, canys ni allai farnu wrtho sefyllfa na phellder gwrthrychau nag ychwaith eu maintioli na'u dull, hyd oni ddysgid ef trwy ymarferiad.

Digwyddodd yn y ganrif olaf i ddyn ieuanc a anesid yn ddall, gael ei olwg, trwy gynnorthwy meddyg enwog, ac yr oedd ei amgyffrediadau yn mhob peth yn gwirio dywediad Locke. Yr oedd yn 14 oed pan agorwyd ei lygaid gyntaf, ac yr oedd pob-peth o'i amgylch yn ymddangos mor ddyrus iddo, na wyddai yn iawn beth i wneyd o'i sefyllfa newydd. Bu am gryn amser heb fedru mewn un modd lunio iawn farn am bethau wrth ei olwg yn unig. Yr oedd gwrthddrych oedd yn fodfedd o led a ddodid o flaen ei lygad ac a guddiai dŷ, yn ymddangos iddo gymmaint a'r tŷ. Ymddangosai pob-peth a welai fal pe cyffyrddai a'i olwg, yn yr un modd ag y mae gwrthrychau y teimlad yn cyffwrdd y croen.

Yr oeddyd hefyd yn golygu na fedrai ddosbarthu gyd a'i olwg y defnydd a farnai wrth ei deimlad yn grwn oddiwrth ddefnydd ysgwar;

ac ni allai ddirnad gyd a'i olwg pa un a'i uchaf a'i isaf oedd unrhyw ddefnydd, er i'w deimlad fynegi iddo yn ddiatreg. Bu ddeu-fis yn ymarfer cyn y gallai ddynodi lluniau ar bared oddiwrth gyrff sylweddol: meddyliai mai cyrff yn ymchwyddo allan oedd pob lluniau, a synai yn fawr o'u diflanniad ar iddo gymhwyso y teimlad iddynt.

Yr oedd hyn yn brawf di-ddadl nad canlyniad o effeithiau yr onglau a lunir yn ein llygaid yw y dull yr ydym yn canfod gwrthddrychau, canys yr oedd y cyffelyb onglau yn cael eu llunio yn llygaid y bachgenyn, y rhai oeddynt yn llwyr ddiles iddo ef heb hir-brofiad a chymhwysiad hefyd o'r synhwyrau ereill. Gan hyny yn mha fodd y gallwn lunio i ni ein hunain iawn farn am faintioliaeth a phellder gwrthddrychau, a pha fodd yr ydym yn dirnad am eu dull a'u sefyllfaoedd?

Mae yn sicr mai trwy gyd-gymhwysiad y gweled a'r teimlad y mae hyn yn cael ei wneuthur, ac nid wrth gymhwyso y naill neu y llall yn unigol. Ni allai y teimlad, nag y golwg roddi i'r meddwl amgyffred am ddull a maintiolaeth, mwy nag y gall yr archwaethiad roddi amgyffred am liwiau.

Gwedi dirnad yr amgyffrediadau hyn trwy brofiad, mae meddwl y sydd felly gwedi ei oleuo, yn llunio iawn farn yn ddïatreg am bethau dyrys amrywiol heb lawer o draul a llafur. Fal hyn yr ydym wrth ddirnad am bellder, yn gallu dynodi gwrthddrych bychan oddiwrth un mawr, a phethau cyffelyb.

Mae seryddiaeth gwedi ëangu cylch ein hamgyffrediadau, a gwedi arddangos maes anolrheiniedig, yn yr hwn yr ydym megys yn ymsoddi i ddiddymdra. Ond eto mae dyn wrth ymroddi i olrhain dyfnderoedd anian yn cymharu ei oes ei hun ag oes y ddaear, ac yn cysoni cydmariaethau ereill am bethau y sydd tu hwnt i'w amgyffrediadau, hyd onid ydyw o'r diwedd yn cael bodlonrwydd ynddo ei hunan am bethau a ymddangosai na pherthynent i'w hanfod eu gwybod.

Pan syllom ar y bydoedd fry, mae ein golwg yn dynodi y cyrff nefol yn wrthddrychau tra bychain; ond y mae y meddwl ar yr un pryd yn eu hamgyffred hwynt yn rhyfedd o faintioli. Ond eto pa fodd y gwyddom mai felly y maent? A pha fodd mae y meddwl yn gwrthddywedyd yn erbyn y synwyrau? Ac hefyd pa fodd yn y fath ëangder anfesuredig y gallwn wneyd cymod gydmariaethol rhwng y naill â'r llall?

Mae peth distadl yn fynych gwedi rhoddi bod i ddyfais ardderchog. Yr ydym yn cyfiwrdd â gwialen y peth nad all y llaw ei gyrhaedd, yr hyn sydd yn rhoddi ynom ddirnad am bellder ac hefyd am sylwedd. Gyd a'r cyfryw hefyd y gallwn anelu yr haul neu seren, ac felly dirnad ychydig am ei gyfeiriad, ac wrth offeryn dwy-gainc sef dau ddarn o bren gwedi eu pinio fal yr agoront ac y cauont, yr ydym yn gwybod pellder onglog y naill gorff nefol oddiwrth y llall. Ond pa fodd y gall ongl fesur pellder gwrthrychau? Gwyddis bod llinellau yn cael eu mesur gan linellau o'r maint a'r maint, arwynebiad â phedryfan neu ysgwâr, a sylwedd gan gyfan-gyrff cyflawn-ochr neu wrth bwys; ond pa fodd y cymharir graddau ongl yr offeryn â graddau pellder y ddau wrthddrych y naill oddiwrth y llall, gan fod ëangder y graddau yn cynnyddu yn ol pellder y gwrthddrychau.


Wrth chwilio yr offeryn yn fwy manwl, gwelir bod yn rhaid ei agor yn fwy wrth fal y pellhao y naill wrthddrych oddiwrth y llall, a pha faint bynag a fyddo pellder y gwrthddrychau oddiwrth eu gilydd, hydd

ymagoriad yr offeryn yn rhan ddangosadwy o'r holl gylch-dro; felly onid i'r ddau bren fod o'r un hyd, a dodi eu blaenau i ymsymud ar ymyl cylch, bydd i'r llwybr a wnelynt fod yn adnabyddus Ac os rhenir y cylch yn rhanau cyfartal neu raddau, gwyddis pa ran o'r cylch-dro y bydd i'r gainc symudol o'r offeryn ymsymud ynddi, ac fal hyn y mae y cyfryw bellder yn cael ei fesur.

Y cyfryw offeryn sydd gynllun o'r rhai a arferir gan seryddion i wybod pellder y bydoedd fry. Ond y mae yn perthyn i seryddiaeth amrywiol ddulliau i benderfynu eu pellder, rhai yn dra dyrus ac anhawdd eu dirnad, ac ereill yn amlwg i amgyffrediadau cyffredin. Felly ni chrybwyllir nemawr yn y gwaith hwn am y casgliadau dyrys nag am gywreinrwydd offerynau, ond elir yn mlaen i geisio dangos mewn dull amlwg a hawdd ei ddirnad, am y modd o fesur pellder y lleuad, gan mai hi o'r holl lu nefol yw y nesaf atom, ac oddiwrth y cyfryw fesuriad gellir dirnad ychydig am y modd o wybod pellder y lleill.

Y peth cyntaf i'w wneyd yn y dull y sydd i'w arddangos yn ganlynol, yw chwilio allan am gyfecheliad terfyngylchol y lleuad, neu y gwahaniaeth rhwng lle'r lleuad pan y byddo yn y terfyngylch i syllydd ar wyneb y ddaear, a'i lle fal yr ymddangosai i syllydd gwedi ei osod yn nghanol-bwnc y ddaear; yr hyn mewn geiriau ereill yw yr ongl yr ymddangosai hanner trwch y ddaear dano i syllydd a ddodid yn nghanol-bwnc y lleuad. Bod modd i wneyd y cyfryw fesuriad sy raid ymddangos uwch gallu dyn heb ei gwyddori mewn seryddiaeth, ond fal y profer bod modd i'w benderfynu, ceisir egluro y peth mewn dull tra amlwg wrth y llun canlynol.

LLUN 5.




Bydded ini wrth y llun hwn ddychymygu bod syllydd yn sefyll ar uarhyw gwr A o'r cyhydedd B A C, yn yr amser y byddo'r lleuad yn

y cyhydedd D M P, yna, gan fod y cylch olaf hwn yn y cyfryw olygiad yn nghlawr y blaenaf, bydd i'r lleuad fyned trwy nen-bwnc y syllydd a disgyn yn syth i'r terfyngylch E N. I sefyllfa sylwydd ar ran o wyneb y ddaear yn A, ymddengys y lleuad yn ei thaith o M i N fod gwedi llunio y bedwaredd ran o gylch, neu ddeg a phedwar ugain o raddau, ond i syllydd yn nghanol y ddaear O, rhaid fyddai i'r lleuad gyrhaedd P, y gwir derfyngylch cyn llunio chwarter cylch. Mae y lleuad yn ymddangos o fod yn rhoddi tro o'r paladr canol-dydd i'r un drachefn mewn 24*a*. 48*m* ; felly hi deithiai o M i P mewn 6*a*. 12*m*. ac os sylwir yn fanwl ar amser ei thaith o M i N, a'i dynu o amser ei thaith o M i P, bydd y gweddill yn cyfateb i amser ei thaith o N i P.

Gwedi gwybod fal hyn fesur y bwa N P yn amser, gellir ei droi i raddau a munudau fal y canlyn. Fal y mae yr amser o ddylunio y bwa M N yr hyn a wyddis wrth gyfarchwyliad, i 90 gradd, felly mae yr amser o ddylunio y bwa N P i'r graddau a'r munudau a fyddo ynddo. Y bwa N P sydd fesuriad o'r ongl N O P, yr hwn yw cyfechelied terfyngylchol y lleuad, a chan ei fod weithian yn hysbys, mae yn hawdd wrth reolau trionglfeidraeth wybod pellder y lleuad oddiwrth ganol-bwnc y ddaear fal y canlyn.

Yn y triongl A O N, mae gennym yr ystlys O A yn gyfartal i hanner tryfesur y ddaear, yr hyn oddiwrth fesuriad graddau ei gwyneb sydd o ddeutu 3,960 milltir, yr ongl O N A neu gyfecheliad terfyngylchol, yr hyn hefyd sydd hysbys; a'r ongl O A N yn 90 gradd oherwydd bod O A yn syth i'r terfyngylch gweledig. Yr ystlys O N yw pellder y lleuad o ganol bwnc y ddaear, yr hyn wrth y rheolau dywededig sydd o ddeutu 60 o hanner tryfesuriadau y ddaear, sef o ddeutu 240,000 o filltiroedd.

Er bod yn y drefn hon gryn anghywreindeb oherwydd yr amrywiad y sydd yn ngogwyddiad y lleuad, ac yn anwadalwch ei gwrth-dywyniad terfyngylchol, yr hwn sydd yn ymnewid yn barhaus yn ol ansawdd yr awyrgylch ar y cyfryw amser, eto mae yr hyn a grybwyllwyd yn cynnwys cynllun o'r dull sy gan seryddion o wybod pellder y lleuad oddiwrth y ddaear.

Gellid penderfynu pellder yr haul oddiwrth y ddaear agos yn yr un dull â phellder y lleuad, ond nid yw ei gyfecheliad terfyngylchol oddiar naw eiliad o radd, ac felly agos yn annirnadadwy. Byddai un eiliad o wall mewn ongl mor fychan yn saith miliwn o filltiroedd o leiaf yn y pellder, ac felly rhaid anturio i wybod y pellder yn gywir mewn rhyw ddull arall.

Y dull y penderfynwyd hyn yn y modd mwyaf cywir, oedd trwy sylwi yn fanwl ar draws-symudiad y blaned gwener ar wyneb yr haul, yr hyn a ddigwyddodd yn y blynyddoedd 1761 a 1769.* Gan bod seryddion yn hysbys o led arddangosol yr haul, a'r amser yn gywir o drofa gwener o'i amgylch, mae yn hawdd gwybod mewn pa faint o amser y bydd gwener yn ymsymud tros wyneb yr haul, ac wrth hyny a phethau ychwanegol rhy ddyrys i'w holrhain yn y gwaith hwn y penderfynid y pellder.

* Ni ddigwydd trawsfudiad cyffelyb hyd y flwyddyn 1874, pryd y mae yn debyg y bydd y drydedd waith o brofi y peth, yn sicrhau gwirionedd pellder y bydoedd fry oddiwrthym, ac hefyd y naill oddiwrth y llall am y gweddill o oesoedd y ddaear.

Danfonwyd yn y blynyddoedd a grybwyllwyd y seryddion enwocaf yn Ewrop i'r ardaloedd mwyaf cyfleus yn mhedair dosbarth y ddaear, i'r gorchwyl o wneyd sylwiadau cywir ar draws-symudiad gwener tros wyneb yr haul, a chawsont oll fod y cyfecheliad terfyngylchol yn wyth ailiad a hanner, ac felly y pellder yn 95 miliwn o filltiroedd. Mae y pellder hwn mor ddiamgyffred na chyrhaeddai bwled o ddryll tân trwy symud wyth milltir bob munud mo wyneb yr haul o'r ddaear mewn ugain mlynedd; a phe gellid gosod syllydd yn yr haul, ac iddo edrych ar hanner tryfesur y ddaear, ni ymddangosai y cyfryw linell, er iddo fod o gylch wyth mil o filltiroedd oddiar ongl o wyth ailiad a hanner.*

Gwedi gwybod pellder yr haul oddiwrth y ddaear, mae yn hawdd dirnad pellder bydoedd ereill y ddosbarth wrth union ddeddfau anian, canys yn ol yr eglurhad a ddyry Kepler, mae pedrogl amser trofa flynyddol unrhyw o'r planedau yn gyfartal i'w gilydd, fal y mae gwreiddin cyflawn-ochr eu pellder canolig oddiwrth yr haul; felly tra mae un pellder yn cael ei roddi, y mae yn hawdd dirnad unrhyw bellder arall. Bwriwn er egluro yn mhellach bod eisiau gwybod pellder Sadwrn oddiwrth yr haul, yr hyn a ellir ei wneyd wrth y rheol gyfartal fal y canlyn. Fal y mae pedrogl yr amser y dyry y ddaear dro cyflawn o gylch yr haul, i bedrogl yr amser y dyry Sadwrn dro o gylch yr haul, felly mae gwreiddyn cyflawn-ochr pellder canolig y ddaear oddiwrth yr haul i wreiddyn cyflawn ochr pellder canolig Sadwrn oddiwrtho; a gwreiddyn cyflawn ochr yr ateb hwn, a ddyry bellder Sadwrn oddiwrth yr haul.

Yn yr un dull gellir iawn ddirnad am dryfesur a maintioli y planedau oddiwrth eu tryfesur arddangosol a'u pellder. Gwyddis bod yr haul a'r lleuad yn ymddangos ini agos o'r un maintioli; ac felly os cyfrifwn bellder yr haul oddiwrth y ddaear yn 95 miliwn o filltiroedd, bydd i'w faintioli fal yr ymddangosai gymmaint a'r lleuad, yr hon nid yw ei phellder oddiar 240,000 milltir yn 64 miliwn o weithiau yn fwy na'r lleuad. Hefyd mae tryfesur y ddaear i syllydd yn yr haul yn ymddangos dan ongl ddwywaith cymmaint a chyfecheliad terfyngylchol yr haul, yr hwn a dybir yn wyth ailiad a hanner; ac y mae trwch yr haul yn ymddangos o'r ddaear yn 32 ailiad: ac felly mae tryfesur yr haul i dryfesur y ddaear fal y mae 340 i 3. A chan fod maintioli cyrff cyfan-grwn i'w gilydd yn ol äangder eu tryfesurau, gwelir bod yr haul yn fwy o faintiolaeth na'r ddaear o filiwn o weithiau. Ac yn yr un dull y gellir dirnad am dryfesur a maintioli unrhyw o blanedau y ddosbarth.

* Mae gwyneb yr haul yn ymddangos i ni dan ongl o 32 ailiad, ac felly ei hanner dryfesur yn 16, yr hyn sydd o ddeutu dwywaith mwy na maint y ddaear i syllydd o'r lleuad.

## DOSBARTH XV.

*Am symudiad, gwrthdroad a thremiadau Goleuni.*

GWEDI olrhain mesuriad y bel ddaearol, a phenderfynu pellder yr haul, lleuad a'r planedau, bydded ini bellach ystyried ychydig am dremiadau pelydrau y goleuni, yr hyn sy mor deilwng i fod tan ein hystyriaeth, a'r hyn sy newydd gael ei grybwyll. Hwn yn ol yr ysgrythyrau sanctaidd oedd y peth cyntaf a grewyd, a hyny bedwar diwrnod cyn creu yr haul; a barn yr holl hen anianyddion, oedd mai nid yr haul oedd ffynonell goleuni, ond mai ei unig orchwyl oedd ei yru a'i daenu tros yr ëangder.

Ond barn Syr Isaac Newton, ac anianyddion enwog ereill, y rhai a olrheiniasant briodoliaethau goleuni yn fanwl, yw, mai corff sylweddol ydyw, ac mai o'r haul y mae ei holl belydrau yn taiddu Darganfuasant hefyd trwy sylwi ar ddiffygiau lleuadau Iou gyflymder ei symudiad, sef ei fod o ddeutu wyth munud ar ei daith o'r haul i gyrhaedd y ddaear Gan bod amseroedd cylchdroad lleuadau Iou yn hysbys, mae yn hawdd gwybod amseroedd y diffygiau; felly canfuwyd yn fynych bod unrhyw o ddiffygiau Iou yn digwyddo un munud ar bymtheg yn nghynt pan y golygid hwynt o gwr nesaf rhôd y ddaear i Iou, nag o'r cwr pellaf, gan brofi yr hyn a ddywedwyd, bod goleuni yr haul wyth munud yn cyrhaedd y ddaear. Felly pe difodid yr haul, gwelem ef am wyth munud gwedi hyny; a phe ail grëid ef, byddai wyth munud cyn yr ad-ymddangosai!

Wrth hyn gwelwn bod mân ronynau pelydrau y goleuni yn ymsymud o ddeutu 12 miliwn o filltiroedd bob munud, yr hyn sy tros filiwn o weithiau yn gyflymach na phelen o ddryll tân mawr; cyflymder sydd yn rhy fawr i ddeall dynol ei ddirnad na dychymygu am dano. Eto er mor aruthrol ydyw, mae rhai o'r enwogion mwyaf o'r farn y gall bod rhai o fydoedd y ffurfafen mor bell, na chyrhaeddodd eu goleuni at y ddaear o amseroedd boreu crëadigaeth y byd!

Mae y goleuni a'r gwres a dderbynia y planedau oddiwrth yr haul yn lleihau yn ol fal y mae pedrogledd eu pellderau yn cynnyddu; a phan y byddo pelydr goleuni yn myned o'r naill ddefnydd tryloyw i'r llall, mae yn cael ei wrthdroi o'i gyfeiriad cyntaf yn ol y byddo ei ysgogiad ar wyneb y defnydd sydd i'w dderbyn Ymddengys y cyntaf o'r rhai hyn yn eglur wrth ystyried am ddull deilliad pelydrau goleuni o'r pwnc goleu, y rhai wrth ymbellhau ydynt yn ymledu fal corff bonbraff, yr hwn sydd a'i holl ddosbarthiadau cylchawl yn gyfartal i bedrogledd eu hamrywiol bellder oddiwrth bwnc y cydgyfarfod; a'r olaf a ellir ei egluro fal y canlyn: dodwch swllt mewn llestr gwag, a chiliwch yn ol gymmaint ag y byddo i ymyl y llestr ei fraidd guddio o'ch golwg; yna heb ymsymud, bydded i arall dywallt dwfr yn araf i'r llestr; ac fal y byddo y dwfr yn codi, bydd y gwrthddrych yn ymdderchafu hyd oni ddelo oll i'r golwg, fal pe buasai gwedi ei godi oddiar y gwaelod.

Mae hyn yn brawf eglur bod pelydrau y goleuni yn cael eu gwyro yn eu taith o ddwfr i awyr, a chan eu bod fal hyn yn cyrhaedd y llygad mewn dull mwy gwyrog, mae yn rhaid i'r gwrthddrych ymddangos fal pe ymdderchafai, ac mewn sefyllfa wahanol i'r hon y gosodasid ef ynddi.

Wrth hyn gwelwn fod ein golwg yn ein twyllo o berthynas i wir sefyllfaoedd y pethau sydd o'n hamgylch. Gwrthdroad pelydrau y goleuni yw yr achos ein bod yn mwynhau goleuni yr haul, pan yw eto gor-is y terfyngylch, sef gwawr hwyr a boreu, yr hwn sydd yn cael ei lunio gan belydrau yr haul yn gwrth-dywynu oddiar uchel fanau ein hawyrgylch ar wyneb y ddaear.

Pe na buasai y cyfryw awyrgylch, daethai pelydrau yr haul hyd atom mewn llinell-u gwastad, a'r canlyniad i hyny a fuasai i ymddangosiad a chuddiad yr haul fod yn ddisymwth, sef trawsfudiad chwyrn o'r goleuni mwyaf dysglaer i lawn dywyllwch, ac o dywyllwch dudew i'r cyfryw oleuni eilwaith. Wrth hyny gwelir bod gwrthdroad pelydrau y goleuni yn fuddiol, nid yn unig i'n paratoi yn raddol i dderbyn llewyrch yr haul, ond hefyd i beri gwawr boreu a hwyr, ac felly yn hwyhau parhâd y dydd.

Wrth sylwi yn fanwl ar y pethau hyn, y canfuwyd bod peth symudiad arddangosol yn y sêr sefydlog yn deillio oddiwrth drofa y ddaear yn ei rhod flynyddol, yn gystal ag oddiwrth symudiad pelydrau y goleuni yn eu deilliad o'r haul, yr hyn gan bod y symudiad yn wahanol yn ol sefyllfaoedd priodol y sêr sy brawf o wirionedd dosbarth yr haul yn ol cynlluniau y dysgedig Syr Isaac Newton.

## DOSBARTH XVI.

*Am amrywiol bethau perthynasol i Seryddiaeth na ddaethant tan sylw benigol yn y Dosbyrth rhagflaenol.*

RHAG i'r Traethawd rhagflaenol gael ei gyfrif yn fyr, o wâll na chrybwyllwyd braidd ddim am odidowgrwydd amryw bethau y sydd yn agos atom, ceisir yn ganlynol olrhain ychydig am danynt, er nad ydynt yn gyffredin yn cael eu hystyried fal yn perthyn i Seryddiaeth. Ac y peth cyntaf y sydd yn gofyn ein sylw yw,

### *Yr Awyrgylch,*

Yr hwn er iddo gael ei grybwyll yn y dalenau rhagflaenol sydd eto heb gael ei eglurhau fal y dylai. Mae yn rhaid bod addaswrwydd rhyfeddol hwn i faethu hywolion yn rhy amlwg i beidio denu sylw dyn. I hwn y perthyna twf a chynnydd llysieu, taeniad ac ymdaith sŵn, a phethau amrywiol ereill tra agos atom. Hwn sydd yn cynnorthwyo amian i arddangos yr amrywiaethau hyfryd y sydd mor foddhaol i ddyn, sef peri i draws fudiad o oleuni mwyaf dysglaer i dywyllwch duaf ac yn y gwrthwyneb fod mor annirnadadwy.

Crybwyllwyd eisus pe na byddai awyrgylch, na roddai yr haul unrhyw lewyrch ond i'r sawl a fyddai yn y fan yn ei ganfod; y byddai i'r holl ffurfafen hyd yr nod ar ganol dydd fod mor dywyll â chanol nos, ond yn unig y llecyn y byddai yr haul ynddo. ac felly rhaid fyddai i bob gwrthddrychau daearol fod mor anweledig ac ydynt ar y nos dywyllaf. ac amryw bethau ereill cyffelyb a ellid eu holrhain. pe goddefai cylch y gwaith hwn. Nid yw Awyrgylch amgen na chorff hylif

teneu o ddefnydd tryloyw a elwir awyr, yr hwn sydd yn amdoi y ddaear yn gyd-dew o'i hamgylch, ac yn ei dylyn yn ei throfa feunyddiol yn gystal ag yn ei symudiad blynyddol. Mae y defnydd hwn yn fwy dwys neu wasgedig yn agos i wyneb y ddaear, ac yn fwy teneu a gwasgarog wrth fal yr elir yn uwch, fal y profir wrth gymharu ei bwysau ar nen a godreu mynydd uchel.

Gwedi cael cyfarwyddid o bwysiad penigol amrywiol lif-noddau, deallwyd bod yr awyr y sydd nesaf i wyneb y ddaear yn 1,200 o weithiau yn ysgafnach na dwfr cyffredin; a bod arian byw yn 13½ gwaith yn drymach na dwfr, sef bod colofn 20½ modfedd o'r blaenaf yn gyfartal i golofn 33 troedfedd o'r olaf. Ond y mae ychydig gyfnewidiad yn digwyddo ar brydiau yn ansawdd yr awyrgylch, sef, weithiau yn drymach ac weithiau yn ysgafnach; yr hyn sydd eglur wrth sylwi ar y golofn arian byw yn yr hin-ddangosydd, yr hon sydd yn dangos bod yr awyr yn fwy dwys os bydd yr arian byw yn y golofn yn estyn yn fwy na 29½ modfedd, ac yn llai os bydd yn îs. Yr awyr o du allan i'r golofn sydd yn cynnal yr arian byw ynddi; yr hwn sydd yn codi ac yn gostwng yn ol y byddo y gwasgiad allanol.

Mae colofn o arian byw a fyddo yn fodfedd pedrogl, ac yn 29½ modfedd o uchder yn pwyso 15 pwys union, yr hyn yw gwasgiad yr awyr ar bob modfedd pedrogl o wyneb y ddaear, felly bydd gwasgiad pob troedfedd pedrogl yn 144 o weithiau yn fwy, yr hyn yw 2,160 o bwysi. Cyfrifir bod gan ddyn o faint canolig o ddeutu 15 o droedfeddi pedrogl o arwynebiad, felly mae yn rhaid bod y gwasgiad y sydd arno yn gyfartal i 32,400 o bwysi, neu agos 52 tunnell. Ond nid yw y fath wasgiad anferth yn ddirnadwy, oherwydd ei fod yn gyfartal ar bob tu, ac yn cael ei gyfarbwyso gan ystwythder yr awyr ei hunan y sydd yn wasgarog tros ein holl gorff.

Gellir ystyried yn mhellach, po fwyaf fyddo gwasgiad yr awyr ar ddyn iach, mwyaf fydd ei fywiogrwydd; a pho lleiaf fyddo y pwys arno, mwyaf fydd ei syrthni. Mae yr awyr yn y cyfryw amgylchiad yn rhy ysgafn; yr arian byw yn yr hîn-ddangosydd yn ymsoddi goris ei sefyllfa gyffredin; ac nid yw yr awyr y sydd yn y corff yn cael ei gydbwyso yn ddigonol gan wasgiad yr awyr allanol, ac felly wrth ymwasgu allan yn peri anhwyledd fal y soniwyd. Mae yr awyr weithiau yn rhy deneu i gadw i fynu y tarth y sydd yn ymgrynhoi i gymylau, ond pan y tewycho, gwelwn y cymylau fal yr arian byw yn y bibell yn esgyn yn uwch, a ffynonell yr awyr sydd yn y corff fal yn rhoi adnewyddiad grymus yn mhob rhan o hono.

Yr awyrgylch fal y soniwyd y sydd yn adlewyrchu pelydrau yr haul tros wyneb yr holl ddaear, ac yn peri i wawr hwyr a boreu barhau yn hir tra na byddo ffynonell goleuni yn weledig. Bernir oddiwrth sylwiadau manwl ar wrthdroad pelydrau y goleuni, bod yr awyrgylch yn cyrhaedd o ddeutu 44 milltir i'r entrych: rhaid bod y gronynau y sydd yn ei lunio yn dra gwasgarog yn ei pharthau uchaf, oherwydd mai anfynych y mae y tewder yn ddigonol i gynnal cymylau ddwy filltir goruwch gwyneb y maes.

## *Y goleuni gogledd.*

Math o oruchion yw hwn yn ymddangos ar brydiau yn ngogledd-barth y ffurfafen. Ei liw sy led-goch yn tueddu i felyn, o'r hwn y mae yn melltenu golofnau gwelw-las, y rhai ydynt yn ymestyn trwy yr eangder rhyngddynt a'r nen-bwnc. Nid yw hwn i'w ganfod yn nghyffiniau y Cyhydedd, ac ni chanfyddwyd goleuni cyffelyb yn nhueddau pegwn y de, hyd o fewn ychydig flynyddoedd yn ol.

Mae yn eglur bod y goleuni gogledd gwedi ymddangos yn fwy mynych ar rai prydiau na'u gilydd. Yr oeddynt mor anfynych yn Mhrydain, neu nid oeddid yn bwrw o'u hol, nad oes crybwylliad yn ein cofnodau am unrhyw, o'r un hynod a ddigwyddodd ar y 14 o Tachwedd 1574, hyd yr un tra dysglaer ar y 6, 7, a'r 8 o Mawrth 1716, oddigerth pump o rai bychain a ddigwyddodd yn 1707 a 1708. Oddiwrth hyn gellir casglu nad yw naill ai yr awyr neu y ddaear, neu fe allai y ddau, ar bob amser mewn agwedd addas i beri y cyfryw ymddangosiadau.

Mae y goleuni gogledd weithiau yn ymdaenu tros eangder mawr: yr oedd yr un hynod yn Mawrth 1716 yn weledig o'r Ywerddon hyd at ymerodraeth Russia, ac yn arddangos yr un agwedd yn gyffredinol tros yr holl eangder. Dywed dysgedigion hefyd ei fod o ddeutu 500 milltir goruwch gwyneb y ddaear.

Mae y dyb am yr achos o'r goleuni hwn yn dra amrywiol: tybiai y Dr. Halley mai y myg-darth llaith neu chwys-hedion gwedi ei teneuo i'r radd eithaf gan yr elfen dân yn nghenuentydd tufewnol y ddaear, yr hyn medd rhai anianyddion sydd yn achos o ddaeargrynfâu, yw y prif achos o'r ymddangosiad hwn. Barnai, M. de Mairan mai yr achlysur o hono oedd goleuni y sidydd, yr hwn, meddai yw awyrgylch yr haul, gan fod y goleuni hwn ar amserau yn digwyddo cyffwrdd â gor-uchelion ein harddrych ni, o ddeutu y terfyn lle mae pwys a thyniad cyffredinol yn dechreu. Dywedai Euler mai man-ronynau ein hawyrgylch ni gwedi eu hymlid y tu hwnt i'w terfynau gan belydrau yr haul oedd yn achlysur o honynt.

Ond er pan ganfuwyd y gelfyddyd a elwir tân-dyniad, daeth anianyddion yn gyffredin i gyd-weled mai dyna yr unig achos o honynt. Mae y Dr. Ffranklin wrth ymresymu ar y peth yn myned rhagddo fal y canlyn. "Awyr gwedi ei dwymo trwy ba foddion bynag sydd yn dyfod yn deneu ac yn ysgafnach nag awyr a fyddo heb ei dwymo, ac felly o duedd am ymddercbafu, tra mae yr awyr oer cyfagos yn ymwthio i lenwi y lle. Pe rhoddid llestr yn llawn marwor tanllyd ar ganol llawr cell, byddai i'r awyr a dwymid ymdderchafu i'r gronglwyd, ac oddiyno ymdaenu tros yr awyr oer hyd at y muriau, pan y byddai iddo ail-drymhau a dyfod eilwaith yn ei gylch i lenwi lle y gronynau a wthid gan effeithiau'r gwres; ac felly byddai cylch-rediad gwastadol gan yr awyr-gorff yn y gell."

Lled dehyg yw gweithrediad anian ar awyr y belen ddaearol. Goruwch terfynau ein hawyrgylch mae y gronynau awyr mor deneu a bod yr holl eangder megys gwagle. Mae yr awyr y sydd rhwng y Trofeydd yn ymdderchafu yn wastadol, a'i le yn cael ei gyflenwi gan y deheu-wynt a'r gogledd-wynt o dueddau rhewlyd; ac wrth fod yr awyr dwymyn yn ymdderchafu oruwch yr awyr oer, mae yn rhaid

iddo ymledu i dde a gogledd a disgyn yn nhueddau y pegwn, i lenwi lle yr awyr oer a aethai rhyngddo a'r Cyhydedd. Ac felly mae y cylchrediad gwastadol trwy holl ranau ein hawyrgylch.

Mae y cyflawnder o darth y sydd yn ymdderchafu rhwng y trofeydd yn ymlunio i gymylau, y rhai ydynt yn cynnwys ynddynt gryn lawer o'r elfen dân, yr hwn sydd yn cael ei fwrw o honynt yn raddol gyd a'r defnynau gwlaw neu gronynau eira, ac yn cael ei dderbyn gan y ddaear yn mhob parth y byddo yr hinsoddau yn dymherus. Ond yn nhueddau y pegwn, y lle ni all y lleithder a gafwyd tua'r cyhydedd beidio a syrthio yn eira, gall y maesydd oesol o rew y sydd yn toi y parthau hyny fod yn rhy galed i'r tân-ronynau dreiddio trwyddo i'r ddaear, ac felly yn ymbentyru ar wyneb y rhew. A chan bod yr awyrgylch yn drymach yn nhueddau y pegwn nag yn nhueddau y cyhydedd, mae pellder y gwagle goruwch yr awyrgylch yn y pegynau yn llai nag yn y cyhydedd. Wrth hyny onid all fod i'r gronynau a grybwyllwyd y sydd yn ymbentyru ar wyneb y rhew o'r diwedd ymdori, ac ymwthio ar hyd y llwybr byraf yn golofnau gwasgarog megys o un pwnc i'r eutrych uwch ben hyd oni ddelont i hingylchoedd mwy tymherus i'r ddaear eu sugno, neu hyd oni ymgymysgont â goruchion yr awyrgylch? Pe digwyddai i anian weithredu yn union yn y dull hwn, a'i ni chanfyddid ymddangosiadau y goleuni gogledd? Ac hefyd oni fyddai y cyfryw yn fwy mynych gwedi dynesad y gauaf; nid oherwydd ei fod yn fwy amlwg ar nosweithiau hir, ond hefyd oherwydd bod hir ymddangosiad yr haul yn y tymhor haf, trwy fedddalu gwyneb yr eigion rewedig yn gwneyd y cyfryw yn dderbynydd, yr hyn a rwystra i'r gronynau ymbentyru.

Mae pelydrau pob defnydd tân-dyniad a fyddo yn deillio o unrhyw gorff yn gwyr-dynnu trwy gyd-wrthdaro y naill y llall, oddigerth bod rhyw gorff yn gyfagos a fyddo yn dderbynydd; ac os bydd y cyfryw yn lled bell, bydd i'r pelydrau yn gyntaf wyr-dynnu ac yna cyd-dueddu i'r dyben o ddyfod iddo, yr hyn sydd yn achlysur o'r lluniau dychymygol yn goronau, bwystfilod, ac ereill bethau amrywiol, y sydd yn ymddangos yn mhelydrau y goleuni gogledd.

Gwelodd y morlywydd Cook yn ei fordeithiau o gylch y ddaear ymddangosiadau cyffelyb yn deillio o dueddau y pegwn deheuol, ond yr oedd y goleuni o liw gwyn egwan drwyddo, ac nid yn amrywiol liwiau fal y goleuni gogledd.

## *Mellt a tharanau.*

Yr ydys yn hysbys weithiau mai llewyrchiad oddiwrth y tan-dyniad yw mellt, yn deillio trwy-laddiad dau gwmwl; a bod taranau yn deillio oddiwrth yr un achlysur, a pharhad y swn oddiwrth ddadseiniad o'r naill i'r llall.

Fflam fawr a dysglaer yw y fellten yn ymsaethu yn gyflym trwy yr awyr-gylch o barhad tra byr, ac yn gyffredin yn cael ei dylyn gan daran.

Mae rhai anianyddion yn dywedyd am yr achlysur o fellt a tharanau fal y canlyn, sef, bod defnydd hylosg yn cael ei lunio o ronynau sulphur, nitre a defnyddiau hyboeth ereill; y rhai yn ymdarthu o'r ddaear, ac yn cael eu cludo i uchel-fanau yr awyr-gylch a thrwy wrth-darawiad dau gwmwl, bod y cyfryw defnydd yn cymeryd tân, ac

yn ymsaethu allan yn llen oleu, yn fwy neu lai yn ol grym a maint y defnydd.

Ond yr ydys weithiau yn gyffredinol o'r farn mai tremiadau yn deillio oddiwrth y tan-dyniad yw mellt Nid oedd anianyddion gwedi olrhain nemawr ar brofion ar y pen hwn cyn iddynt gaufod y cysondeb eglur rhwng mellt a than-dyniad. Ond y dull o brofi y peth yn ddi-wrthadl a ddarganfuwyd gan y Dr. Ffranklin, yr hwn yn y flwyddyn 1749 a ddychymygodd am foddion i dynu gwreichion tanllyd o'r cymylau mor ebrwydd ac o beiriant y tan-dyniad. Olrheiniodd hwn yn dra manwl y tebygolrwydd rhwng y naill a'r llall, sef bod mellt weithiau yn fforchogi ac yn troelli trwy y cymylau, ac felly gwreichion y peiriant pan y tynnir hwynt o gorff a fyddo yn afreolaidd o lun ac yn lled-bell oddiwrtho; bod mellt yn taro y gwrthddrychau uchaf a mwyaf amlwg o flaen unrhyw ereill, megys bryniau, coedydd, clochdai, hwylbreni &c: felly mae pob derbynydd blaen-fain yn derbyn ac yn bwrw oddiwrtho yn fwy parod na defnyddiau na fyddo felly: yr ydys hefyd yn canfod bod tuedd y fellten tu ag at y derbynydd goreu a rhwyddaf, ac felly y profir bod y peiriant yn ymsaethiad phiol Leyden; oddiwrth hyn mae y Dr. yn casglu mai gwell yw i'r wisg fod yn wlyb nag yn sych ar ruthr o fellt a tharanau: mae y fellten weithiau yn llosgi, toddi defnyddiau, rhwygo rhai cyrff, taro rhai â dallineb, lladd ereill, a difeddu yr ehedfaen o'i rinwedd, neu yn gwrth-droi y pegynau; yr hyn oll ydynt briodoliaethau hanffodol i dan-dyniad.

I'r dyben o egluro trwy brawf têg, mai yr un defnydd yw llifnodd y peiriant â mellt y taranau, lluniodd Ffranklin farcud gwynt addas i'r perwyl, wrth yr hwn y rhwymodd edef fain o haiarn, a phan welodd bod taranau yn agos, efe a'i cododd i fynu, ac yn ddiatreg daeth mân wreichion ar hyd-ddo i dderbynydd oedd gwedi ei ddodi i dderbyn y llifnodd, ac o hono taniwyd gwirod, a gwnawd yr holl brofion ereill a wneir â llifnodd y peiriant. Yn ol darganfod hyn, y gwelwyd y buddioldeb o ddodi gwiail heiearn i gyrhaedd o nen adeiladau mawrion i'r llawr goris eu sylfaen, rhag eu drygu gan fellt.

O berthynas i'r lleoedd mwyaf diogel yn ystod tymhestl o fellt a tharanau, cyngor y Dr. Ffranklin yw, eistedd ar gadair yn nghanol y gêll, a dodi y traed ar ystôl neu gadair arall i'w codi oddiar y llawr, ond cofio gochel bod yn union dan lusern a fyddo yn nghrog wrth gadwyn haiarn neu ddefnydd arall. Ond gwell eto fyddai bod y gadair ar wely plyf a ddodid ar y llawr, gan nad yw y cyfryw yn dderbynydd fal y muriau a'r llawr noeth. Ond y lle diogelaf yw canol cêll fyddo îs gwyneb y maes, gan y byddai i dân y fellten ddiffodd cyn treiddio iddi. Yn y maes, y lle diogelaf yw o fewn ychydig latheni i goedan neu adeilad, ond nid yn rhy agos iddynt.

## *Daear-grynfâau.*

Nid yw holl ymgais dyn i dreiddio i ddyfnderoedd y ddaear yn ei gynnorthwyo i'w holrhain ond i ychydig bellder mewn cymhariaeth goris ei gwyneb; er hyny nid ydys yn ammeu nad yw yr elfen dân a myg-darth llosgadwy yn ymdaenu yn gyffredinol trwy yr holl ddefnyddiau y sydd yn llunio parthau isaf ein daear. Mae y tanau hyn weithiau yn ymdori o'u llochesydd caead; sef pan fyddo i ddyfodiad awyr wneyd y rhythr yn anorchfygol, ac yna wrth ymledu gwedi cyngwasgiad maith, maent yn peri crug-darthiad moelydd tanllyd, ag os

na bydd agorfa yn cyfagos, maent yn peri daear-grynfäau, y rhai yn fynych ydynt gwedi dadymchwel dinasoedd poblog, a gwedi gwneyd ardaloedd ffrwythlon eang yn ddiffeithwch anghyfanedd.

Mae Aristotle, Agricola a'r anianydd diweddar Buffon gwedi ystyried bod daeargrynfäau o amrywiol ddull. sef y grynawl, y gurawl, y syth, a'r ogwyddedig. Pan y byddo tân tan-ddaearawl yn ymdrechu am agorfa yn union o dan dref neu dalaith ëang, mae yn peri i'r ddaear ymgodi mewn cyfeiriad syth; os bydd yn gweithredu yn lled bell' oddiyno mae y cynnwrf yn ystlysol ac yn peri cryndod gwyrog; tra mai mynychiad o'r cyfryw ysgydwad yn peri y grynawl a'r gurawl.

Oddiwrth yr hyn a wyddys am ansawdd daear-grynfäau, yr amgylchiadau cyffredinol yn dylyn y cyfryw ddirgryd ydynt yn ymddangos o fod fal y canlyn:—(1.) Twrf mûd o flaen y ddaear-gryn. Mae hwn yn deillio oddiwrth yr awyr, neu dân, neu y ddau, wrth iddynt ruthro trwy agenau y ddaear ac ymegnio am ryddid, yr hyn a glywir yn fynych yn gyfagos i foelydd tanllyd.—(2.) Cynnwrf tra-chwyrn neu ymchwyddiad y mor, weithiau cyn, ac weithiau gwedi y cyfryw gynnwrf ar y tir. Yr un achlysur sydd yn effeithio ar y mor ac ar y tir, sef bod y gwaelod yn ymgodi ac yn ymgynhyrfu, ac felly y dyfroedd a fyddo arno.—(3.) Pistylliad y dyfroedd i gryn uchder. Nid hawdd yw dirnad y modd y mae hyn yn digwyddo; ond y mae moelydd tanllyd yn fynych yn enwedig Vesuvius yn pistyllio dyfroedd o'u hagenau tanllyd —(4.) Sigliad y ddaear yn ol ac yn mlaen, ac weithiau math o neidiad syth. Mae y cyfryw wahaniaeth yn deillio oddiwrth sefyllfa y lle mewn cyferbyniad i'r tân tan-ddaearol. Pan y byddo y tân yn union o danodd, mae yn ymgodi; ond os pell, mae y lle yn ymsiglo.—(5.) Mae rhai daeargrynfäau yn teithio yn mlaen, ac y mae eu heffeithiau yn cael ei deimlo mewn amrywiol wledydd ar amrywiol amserau yn yr un dydd. Mae hyn yn deillio oddiwrth y prif ymgynhyrfiad, yr hwn yn tonnogi yn mlaen sydd yn effeithio yn olynol ar amrywiol ardaloedd, yn lled debyg i ddyrnod careg ar lyn, yr hwn ni welir ei effaith ar y glenydd am gryn amser gwedi y tarawiad cyntaf —(6.) Mae y cynnwrf weithiau yn ddïatreg fal taran-doriad, a thro arall yn ymgrynfa am amryw funudau. Po nesaf y lle i'r cynnwrf dechreuol, mwyaf dïatreg yr ymddengys, ond mewn pellder mwy, mae y cynnwrf yn adblygu gyd â math o ymsigliad barbäol. Ac yn (7.) Gan bod dyfroedd yn gyffredinol yn gyfranog o beri daear-grynfâau, nid rhyfedd bod yr agenau anferth y sydd yn cael eu hagor gan awyr a than yn gorlenwi mor ddiatreg â dwfr.

## *Gwynt.*

Awyr sy lifnodd anweledig hoyw yn cylchynu y belen ddaearol, ac yn ymgyraedd i rai milltiroedd goruwch ei gwyneb, fal y soniwyd wrth roddi cyfarwyddyd am yr awyrgylch. Mae y defnydd hwn fal y gwiriwyd trwy liaws o brofion yn drwm ac yn ystwyth. Trwy y blaenaf y mae yn alluog i gynnal cyrff ereill, megys tarth, mwg a'r cyffelyb, yn yr un dull ag y mae pren yn cael ei gynnal gan ddwfr; a thrwy yr olaf, sef ei ystwythder, mae ychydig o hono yn alluog i ymledu fal y llanwo le mawr; neu o gael ei gyd-gynnwyso i gylch llawer llai. Mae lliaws o brofion yn egluro bod awyr yn cael ei gynnwyso neu ei drymhau gan oerni, ac yn ymledu neu yn ysgafnhau gan wres. Yna mae yn canlyn, fod i unrhyw gyfnewidiad a wnelir gan

wres neu oerni yn unrhyw barth o'r awyrgylch beri i'r parthau cymydogaethol fod mewn agwedd symudol, oherwydd ymgais barhäol yr awyr i ymadferu i'w sefyllfa o'r blaen; oherwydd fod profion teg yn dangos y bydd i awyr trwm neu ysgafu ddychwel i'w gyflwr gyntaf, mor fuan ag y byddo i'r achos o'r cyfryw gyfnewidiad gael ei symmud ymaith pa bynag a fyddo.

Gwynt sy fath o ffrwd neu lifiant o awyr, yr hwn ellir ei deimlo, ac sydd yn gyffredin yn chwythu o un pwnc i'r terfyngylch i'r un cyferbynol; megys o ogledd i dde, o ddwyrain i orllewin, o dde ddwyrain i ogledd orllewin, a'r cyffelyb. Gwyntoedd ydynt naill a'i sefydlog neu anwadal; cyffredin neu benigol.—Gwynt sefydlog yw y cyfryw ag y sydd yn parhau i chwythu yr un ffordd, o leiaf am rai oriau neu ddyddiau, ond gwynt anwadal yw y cyfryw ag sydd yn newid yn fynych mewn awr neu ddiwrnod. Gwynt cyffredin yw y cyfryw ag sydd yn chwythu yr un ffordd tros gyfran ëang o'r belen ddaearol am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Gwynt penigol yw y cyfryw ag sydd weithiau yn chwythu un ffordd, ac weithiau ffordd arall. Mae morwyr gwedi sylwi bod gwynt a fyddo yn awel lem yn ymsymud yn ol o ddeutu 15 milltir mewn awr, ond y mae buandra tymhestl yn llawn 60 milltir.

Y canlynol ydynt y sylwiadau a gasglodd y Dr. Halley mewn amrywiol fordeithiau o berthynas i'r gwynt.

1. Rhwng terfynau tri-ugain gradd, sef o ledred 30° yn ogleddol i 30° yn ddeheuol, mae gwynt dwyrain gwastadol trwy ystod y flwyddyn yn chwythu tros y mor Werydd a Mor mawr y de, yr hwn a elwir y gwynt trefnidiol. Canys fal y mae yr haul trwy ymsymud o ddwyrain i orllewin yn twymo yr awyr y sydd yn union dano, ac felly yn ei deneuo, mae yr awyr yn y dwyrain yn ymwthio yn barhaus i'r gorllewin i adferu y cydbwysedd neu gyflwr anianol yr awyrgylch, ac felly y mae yn canlyn y dwyrein-wynt y sydd yn barhaus o fewn y cyfryw derfynau.

2. Mae y gwynt trefnidiol yn agos i'w derfynau gogleddol, yn chwythu rhwng y gogledd a'r dwyrain; ac yn agos i'w derfynau deheuol, rhwng y de a'r dwyrain. Canys mae yr awyrgylch yn ymledu gan wres yr haul yn agos i'r cyhydedd yn achlysur i'r awyr o ogledd a de dueddu i'r cyhydedd i adferu y cydbwysedd. Felly mae y cyfryw symudiadau o ogledd a de yn gysylltiedig a'r symudiad dwyreiniol rhagddywededig, yn achlysur o'r cyfryw a grybwyllwyd y sydd yn nwy eithafnod y terfynau

3 Mae y symudiadau cyffredinol hyn ar gyfandiroedd a glenydd y mor yn ymddyrysu, canys mae ansawdd y tir yn peri i'r ddaear fod yn naill ai oer neu frwd, ac felly mae yn canlyn symudiadau a all fod yn llwyr wrthwyneb i'r rhai cyffredinol rhagddywededig.

4. Mae yn mor yr India wynt cylchawl a elwir *Monsoon* yn chwythu hanner y flwyddyn un ffordd, a'r hanner arall yn y gwrthwyneb: gwyddis bod awyr a fyddo yn oer yn gyru yr awyr dwymyn yn ffrydlif barhaus i fynu, y lle y mae yn rhaid iddo ymledu i adferu y cydbwysedd; felly bydd symudiad y llifiant uchaf yn wrthwyneb i'r isaf, canys y mae yn rhaid i'r llifiant ymgadw o'r parthau y byddo y gwres mwyaf, ac felly trwy ymdroelli, bydd yn perthyn i'r gwynt gogledd ddwyrain i lawr, wynt de orllewin i fynu; ac i wynt de ddwyrain i lawr, wynt gogledd orllewin i fynu, yr hyn sydd yn cael ei gadarnhau trwy

broffon morwyr, y rhai mor fuan ag yr elont allan o'r gwynt trefnidiol ydynt yn ddïatreg mewn gwynt llwyr wrthwyneb.

5 Yn y mor Werydd o fewn 300 milltir i Affrica, rhwng lledred 10° ag 28° yn ogleddol, mae morwyr yn wastadol yn cyfarfod ag awel gref o wynt o'r gogledd ddwyrain.

6. Mae y rhai sydd yn myned ar draws y mor Werydd i'r India orllewin yn canfod fal y nesâont at y tir, bod y trefnid-wynt gogledd ddwyrain yn ymnewid i wynt gorllewin. Mae y gwynt hwn yn cyrhaedd o ddeutu 4 gradd yn nes i'r gogledd yn America nag yn Affrica, ag agos gymmaint yn nes i'r de yn nglenydd Brasil nag yn nglenydd Caffraria.

7. Mae y gwynt yn chwythu yn wastadol rhwng y de a'r dwyrain rhwng lledred 4°G. a 4° de: yn nglenydd Caffararia mae yn tueddu yn fwy i'r de, ac yn America yn fwy i'r dwyrain. Pan y byddont yn tueddu yn wrthwyneb i hyn, sylwodd Halley bod tymhestloedd a gwlawogydd trymion yn gyfagos.

8. Ar hyd arfordiroedd Guni o Sierra Leone i ynys St. Thomas dan y cyhydedd, yr hyn sy 1,500 milltir, mae y gwyntoedd de a de orllewin yn chwythu yn wastadol, canys mae y trefnid-wynt de ddwyrain gwedi croesi y cyhydedd ac yn tueddu o fewn ychydig i arfordir Guni yn tueddu i'r lan, ac felly yn dyfod yn dde-heu wynt, yna de ddwyrain, ac yn raddol wrth nesu i'r lan, yn ad-ddychwel i'r de, yna de de orllewin, pan y mae weithiau dawelwch dïatreg, a phryd arall y tymhestloedd dychrynllyd a elwir y *Tornadoes*, pan y bydd y gwynt yn dyfod yn rythr annorchfygol o bob pwnc o'r terfyngylch ar unwaith. Mae y gwynt yn yr holl ynysoedd y sydd rhwng y trofeydd yn chwythu o'r mor trwy ystod gwres y dydd, ac o'r tir yn oriau y nos, oddigerth ar yr amseroedd y byddo tymhestloedd yn rheoli.

9. Rhwng lledred 4° a 10° yn ogleddol, a rhwng hydred penrhyn Verd a'r fwyaf dwyreiniol o ynysoedd penrhyn Verd, mae parth ëang o fôr megys wedi ei ddyfarnu i fod yn annedd i fellt, taranau, gwlawogydd a thawelwch parhaus. Yr achos o hyn yw bod y dwyrainwynt cyffredinol yn cyfarfod y gorllewin-wynt, a'u grym cyfartal o bob-tu yn peri tawelwch; tra mae y tarth y sydd yn cael ei gludo ganddynt yn ymdewychu ac yn peri gwlaw trwm gwastadol

10. Yn mor yr India rhwng lledred 10° a 30° yn ddeheuol mae y trefnid-wynt yn chwythu o'r de ddwyrain trwy ystod hanner y flwyddyn, sef o Mai i Rhagfyr yn yr un dull ag yn mor Ethiopia, rhwng yr un graddau lledred; ac o Rhagfyr i Mehefin mae y gwynt gogledd orllewin yn chwythu yn wastadol. Mae y rhai hyn weithiau ar derfyn eu cylch yn newid yn ddïatreg, dro arall bydd tawelwch mawr am rai dyddiau, ac weithiau bydd tymhestloedd tra distrywgar i forwriaeth yn digwyddo ar y cyfryw amserau.

Mae yr India orllewin a rhai gwledydd cyhydeddol ereill yn ddarostyngedig i dymhestloedd a chorwyntoedd trymion. Bydd y rhai hyn weithiau yn difrodi holl gynnyrch y maes, diwreiddio coed, bwrw i lawr adeiladau, ac yn peri i'r mor ymchwyddo hyd oni ddelo megys diluw tros ardaloedd eang. Mae yn canlyn y cyfryw dymhestloedd fellt a tharanau trymion, gwlawogydd parhaus, ac yn fynych daeargrynfâau. Maent yn digwyddo yn fwy mynych ar y chwarter cyntaf neu ar y llawn lloaaid, ond yn gyffredin y maent yn canfod arwyddion o'u dyfodiad ar y newid rhag-flaenol, sef yr wybr yn ymddangos yn

derfysglyd, yr haul yn goch, y ser yn gwyllt dremio, twrf mud yn min y môr, er iddo fod gan llyfned a gwydr, a phethau amrywiol ereill.

Mae ansawdd y ffrwd hylif a elwir gwynt yn ymddibynu i gryn raddau ar y tir yr elo trosto. Mae diffeithfaoedd tywodlyd Affrica ac Arabia yn peri iddo weithiau ddeifio pob llysieu mor ebrwydd a phe gosodid tân arnynt, ond nid yw o hir barhad. Adnabyddir ef yn niffeithfaoedd Bagdad wrth yr enw *samiel*, neu y gwynt marwol. Mae y camel yn dirnad ei ddyfodiad, ac yn gwthio ei ffroenau i'r tywod hyd onid êl heibio; ac mae yr ymdeithydd yn gorfod cadw ei wyneb yn y llawr yn yr un modd : o wall hyny byddai angau diatreg iddo. Mae aelodau y sawl a leddir ganddo yn syrthio oddi wrthynt mewn ychydig amser. Mae pooth-wynt ar droea yn Itali a elwir *sirroco*, yr hwn sydd yn parhau amryw ddyddiau, ac yn ddistrywgar i lysieuaeth : mae hefyd yn iselu ysprydoedd y trigolion, ac yn tarfu y treuliad yn y cylla, fal y bydd amryw a fwytao bryd go helaeth yn syrthio yn farw o herwydd hyny.

Dywed Bruce iddo ganfod yn niffeithfaoedd Affrica golofnau aruthr o dywod, yn ymsymud yn dra chwyrn megys corwynt. Yr oeddynt yn 18 o rifedi, ac o ddeutu tair milltir oddiwrtho. Barnai bod tryfesur y fwyaf yn ddeg troedfedd.

## *Y Dyfr-bistyll.*

Y dyfr-bistyll medd anianyddion sydd yn sugno dyfroedd y mor i'r cymylau, yr hwn gwedi bod yspaid amser ynddynt sydd yn colli ei helltni, ac yna yn defnynu yn wlaw ar wyneb y ddaear. Mae y pistylloedd hyn yn fwy lliosog yn y gwledydd poethion nag yn y gwledydd oerion : canfyddir hwynt ar lun udgorn, megys yn ymollwng o gwmwl tewglyd isel, a'r pen meinaf yn isaf, yna mae y mor a fyddo tanodd yn ymferwi, ac o'r diwedd yn codi yn golofn hyd oni chydio a'r llall. Maent gwedi ymuno, yn dra pheryglus i long a ddigwyddo fod yn agos atynt, oherwydd y perygl iddynt ymdori arni cyn ymddigoni, a'i suddo i'r dyfnder. Ond dywedir os bydd i belen gael ei saethu trwy y golofn, ei bod yn ddiatreg yn tori, heb wneyd unrhyw niwed ychwanegol. Mae bod goleuni yn melltenu o amgylch y golofn yn dangos mai effeithiau y tan-dyniad sydd yn achlysur o'r cyfryw ymddangosiad : profir hyn trwy ddodi defnyn o ddwfr ar ddarn o bres y tu isaf i dderbynydd peiriant y tân-dyniad, a rhoddi dwfr mewn llestr yn agos ato tanodd, ac yna wrth weithio y peiriant, gwelir y defnyn yn ymestyn yn bigfain at y dwfr, a hwnw drachefn yn ymgodi i'w gyfarfod, yn yr un dull a'r dyfr-bistyll.

## *Mesuriad.*

Gwreiddyn hyd-fesuriad gwledydd cyfannedd yn gyffredinol a gymerir o ryw ran o'r corff dynol, a'r gwahaniaeth yn nyrnfedd, troedfedd, gwrhyd ac ereill hydau amrywiol dynion a fyddont gwedi eu dewis yn rheol i wrth fesur wrthynt, yw yr achos o'r anghyfartalrwydd y sydd yn hyd-fesurau amrywiol wledydd. Mesur lleiaf y Groegiaid ydoedd lled bys, Δακτυλὸς, pedwar o honynt yn lled llaw, &c. Dilynwyd hwynt yn y mesuriau hyn gan y Rhufeiniaid, y rhai a arferynt *digitus, palmipes, palmus, pes,* &c.

## *Hyd fesuriad Seisonig.*

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Modfeddi. | | | | | | | | | | |
| 3 | Palf | | | | | | | | | |
| 9 | 3 | Rhychwant | | | | | | | | |
| 12 | 4 | $1\frac{1}{3}$ | Troedfedd | | | | | | | |
| 18 | 6 | 2 | $1\frac{1}{2}$ | Cufudd | | | | | | |
| 36 | 12 | 4 | 3 | 2 | Llathen | | | | | |
| 60 | 20 | $6\frac{1}{3}$ | 5 | $3\frac{1}{4}$ | $1\frac{2}{3}$ | Cam | | | | |
| 70 | 24 | 8 | 6 | 4 | 2 | $1\frac{1}{5}$ | Gwrhyd | | | |
| 198 | 66 | 22 | $16\frac{1}{2}$ | 11 | $5\frac{1}{2}$ | $3\frac{3}{10}$ | 2 | Palaid | | |
| 7920 | 2640 | 880 | 660 | 440 | 220 | 132 | 110 | 40 | Ystad | |
| 63360 | 21120 | 7040 | 5280 | 2520 | 1760 | 1056 | 880 | 20 | 8 | Milltir. |

Hefyd 4 modfedd a wna ddyrnfedd; a 60 milltir ddaearyddol a wna 1 gradd, sef 69,2 milltir Seisonig.

## *Mesuriad arwynebol Seisonig.*

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Modfeddi. | | | | | | |
| 144 | Troedfedd | | | | | |
| 1296 | 9 | Llathen | | | | |
| 3600 | 25 | $2\frac{7}{8}$ | Cam | | | |
| 39204 | $272\frac{1}{4}$ | $30\frac{1}{4}$ | 10,89 | Palaid | | |
| 1568160 | 10890 | 1210 | 435,6 | 40 | Rhwd | |
| 6272640 | 43560 | 4840 | 1742,4 | 160 | 4 | Erw. |

Tir sydd yn cael ei fesur wrth gadwen *Gunter*, yr hon sydd yn 4 pawlaid neu 22 llath o hyd. Ei hyd ddeng waith wrth ei lled unwaith a wna erw. Rhwd yw y bedwaredd ran o erw, o phalaid sydd ddegfed ran o rwd. Mae milltir bedragl yn cynnwys ynddi 640 o erwau.

Mewn mesuriad cyfan-gorff, mae 1728 modfedd yn gwneyd troedfedd, a 46656 modfedd sef 27 troedfedd, yn gwneyd llathen.

Mewn gwin fesur, mae $28\frac{7}{8}$ modf. cyfangorff yn gwneyd 1 pint; a 231 modf. neu 8 bint yn gwneyd 1 galwyn.

Mesur cwrw yw, $35\frac{1}{4}$ o fodfeddi cyfangorff mewn 1 pint; a 282 modf. neu 8 bint mewn 1 galwyn.

Mesur sych yw, $35\frac{3}{5}$ o fodfeddi cyfangorff mewn 1 pint, a $268\frac{4}{5}$ modf. neu 8 bint mewn 1 galwyn.

Mesur ŷd yw, $34\frac{1}{32}$ o fodfeddi cyfangorff mewn 1 pint; a $272\frac{1}{4}$ modf. neu 1 pint mewn 1 galwyn; hefyd 8 galwyn mewn 1 mwysel.

## *Hyd fesur Ysgrythyrol.*

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lled bŷs | | | | | | | |
| 4 | Palf | | | | | | |
| 12 | 3 | Rhychwant | | | | | |
| 24 | 6 | 2 | Cufudd | | | | |
| 96 | 24 | 8 | 4 | Gwrhyd | | | |
| 144 | 36 | 12 | 6 | $1\frac{1}{2}$ | Gwialen Ezeckiel | | |
| 192 | 48 | 16 | 8 | 2 | $1\frac{1}{3}$ | Palaid Arabia | |
| 1920 | 480 | 160 | 80 | 20 | $13\frac{1}{3}$ | 10 | Schœnus neu linyn mesur. |

## *Yr hyd fesur Ysgrythyrol mawr.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cufudd | | | | |
| 400 | Stadium | | | |
| 2000 | 5 | Taith dydd Sabbath | | |
| 4000 | 10 | 2 | Milltir ddwyreiniol | |
| 12000 | 30 | 6 | 3 | Parasang |
| 96000 | 240 | 48 | 24 | 8 Taith diwrnod. |

## *Eglurhad o'r prif enwau y sydd yn arferedig mewn Seryddiaeth.*

Acherner, seren sefydlog o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Eridanus.

Adchwylfa, ydyw y cyfryw symudiad ag y sydd yn dwyn y cyrff nefol o unrhyw fan o'u rhôd i'r un drachefn mewn amser nodedig.

Adlewyrchiad, yw dychweliad pelydrau y goleuni oddiar y naill gorff i'r llall: adlewyrchiad goleuni yr haul ar y lleuad sydd yn peri iddi ymddangos i ddaearolion.

Ailiad, yw y dri-ugeinfed rhan o funud yn amser neu yn raddau.

Annus Magnus, y flwyddyn fawr, neu y pyth mawr, yn cynnwys 25920 o flynyddoedd, sef yr amser y mae y ser sefydlog yn rhoddi cyflawn dro, yn ol 50 ailiad yn flynyddol.

Albanau. *Gwel* Prif byneiau cyhydeddol.

Aldebaran, seren o'r maint cyntaf yn sefyll yn mhen cyfseryddiad y Tarw.

Algenib, seren o'r ail maint yn ystlys dde Perseus.

Algol, neu ben Medusa, seren o'r trydydd maint yn nghyfseryddiad Perseus.

Alioth, seren sefydlog yn nghynffon yr Arth mawr.

Almanac, sef amseroni, gair arabaeg yn arwyddo iawn-drefniad: enwad ar lyfryn blynyddol y sydd yn cynnwys dyddiau'r mis, gwyliau symudol, tremiadau y cyrff nefol, diffygiau yr haul a'r lleuad, a'r cyffelyb.

Alpheta, seren o'r ail maint yn nghyfseryddiad caer arianrod.

Alter neu Ara, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 9 seren.

Amphiscii, enwad a roddir i drigolion y gwregys poeth, oherwydd bod eu cysgod ar un amser o'r flwyddyn yn gogwyddo i'r de, ac ar amser arall i'r gogledd.

Amplitude, y graddau o'r Terfyngylch y sydd yn gynnwysedig rhwng y dwyrain neu y gorllewin â chanol-bwnc yr haul neu seren, ar amser y codiad neu fachludiad.

Andromeda, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 66 o ser.

Anomaly, pellder planed yn arwyddion, graddau, &c. o'r nôd bellaf o'i rhôd oddiwrth yr haul.

Anser, yr ŵydd, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 10 seren.

Anser Americanus, neu Toucan, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 9 seren.

Antares, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad y Sarff.

Antœci, enwad a roddir i drigolion y ddaear y sydd yn byw tan yr un paladr canol-ddydd, ac yn gyfbell oddiwrth y cyhydedd, ond ar ranau cyferbynol o hono.

Antecedentia, symudiad unrhyw o'r cyrff nefol yn ngwrthwyneb i rëol yr arwyddion; megys o'r Hwrdd tu ag at y Pysg, &c.

Antinous, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 34 seren.

Antipodes, gwrthdraedyddion: enwad a roddir i'r trigolion y sydd yn byw ar ddeutu y ddaear y naill yn union ar gyfer y llall.

Apis, y cacwn, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys pedair seren.

Aphelion, y pwnc mewn rhôd planed, yn yr hwn y mae yn ei phellder mwyaf oddiwrth yr haul.

Apogeon, y pwnc mewn rhôd planed, yn yr hwn y mae yn ei hagosrwydd mwyaf i'r haul.

Apsides, dau bwnc mewn rhôd planed, yn y rhai y mae yn ei phellder mwyaf a'i hagosrwydd lleiaf i'r haul: cydiad y nodau hyn a'u gilydd a elwir *llin Apsides*.

Aquila, yr eryr, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 12 seren.

Arcturus, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Bootes.

Argo, y llong, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 48 o ser.

Aquaries, y Defrwr, un o'r deuddeg arwydd, yn cynnwys 93 o ser.

Arddrych, hanner y ddaear neu'r ffurfafen; neu'r gyfran sydd o ddeutu dosbarthiad un o'r cylchoedd mwyaf, megys yr Arddrych ogledd am yr hanner o'r bêl ddaearol y sydd o du gogledd y cyhydedd, a'r Arddrych ddeheu am y gyfran arall, &c.

Arth mawr cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 105 o ser. Yr Arth bychan sydd yn cynnwys 12: yn mlaen cynffon yr olaf mae seren y pegwn gogleddol.

Aries. Yr Hwrdd un o'r 12 arwydd, yn cynnwys 46 seren, i'r hwn y mae yr haul yn myned o ddeutu yr 20 o Fawrth, sef dechreu y tymhor gwanwyn.

Ascii, enwad ar drigolion y gwregys poeth; oherwydd bod yr haul ddwywaith yn y flwyddyn yn eu nen-bwnc, ac felly ar y canol-ddydd heb gysgod yn deillio oddiwrthynt.

Arwyddion, deuddeg cyfseryddiad y sidydd, sef, Aries, ♈—Taurus, ♉—Gemini, ♊—Cancer, ♋—Leo, ♌—Virgo, ♍—Libra, ♎—Scorpio, ♏—Sagittarius, ♐—Capricornus, ♑—Aquarius, ♒—Pisces, ♓.

Auriga, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 46 o ser.

Aurora, y wawr, yr hwn sydd yn dechreu pan fyddo yr haul o ddeutu 18° goris y terfyngylch.

Awr, y 24 rhan o ddydd anianol, yr hwn mae Seryddion yn ei ddechreu o'r pryd y bydd yr haul ar y paladr canol-ddydd.

Azimuth, enwâd sydd ar gylchoedd mawrion y sydd yn myned trwy y nen-bwnc ac yr is-bwnc, ac ydynt syth i'r terfyngylch.—Azimuth unrhyw gorff wybrenol yw graddau y Terfyngylch sy rhwng y dwyrain neu'r gorllewin â chylch syth yn myned trwy ganol y gwrthddrych.

B

Basilicus, neu Cor Leonis, calon y Llew, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Leo.

Betelguese, seren o'r ail maint yn ysgwydd dde Orion.

Blwyddyn y Naid, a elwir felly am fod ynddi un diwrnod mwy

nag mewn blynyddoedd cyffredin: mae hon yn digwydd bob pedair blynedd.

Blwyddyn Gregori, yw y flwyddyn yn ol y cyfrif presennol: gelwir hi felly oddiwrth y pab Gregori XIII, yr hwn yn 1582 a ddiwygiodd y Calendar · nis derbyniodd Prydain y cyfryw gyfrif hyd 1752.

Blwyddyn Meton, sydd adraniad o adchwylfa y lleuad, yr hon bob 19 blynedd sydd a'i chyssylltiadau ac ei thremiadau yn lled agos i'r hyn oeddynt 19 blynedd yn ol.

Blwyddyn Julius, a sefydlwyd gan Julius Cæsar, sydd enwad yn bresennol am flwyddyn yn ol yr hen gyfrif.

Blwyddyn y Ser, yw yr amser y mae yr haul yn ei gymeryd i ymsymud trwy yr Heulrawd, o unrhyw seren sefydlog iddi drachefn.

Bootes, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 53 o ser: un o'r rhai hyn, Arcturus sy seren o'r maint cyntaf.

## C

Caer Gwdion, y galaeth, neu y llwybr llaethog, gwregys mawr goleu-liw, o ddull anrhefnus, yn cylchynu y furfafen: heurir mai myrddiynau o sêr, ond yn rhy bell i'w dynodi, sydd yn ei lunio.

Calendar. *Gwel* Almanac.

Cameleon, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 10 seren.

Camelopardalis, cyfsêryddiad gogleddol yn cynnwys 23 seren.

Cancer, y Cranc, un o'r 12 arwydd, yn cynnwys 75 o ser, i'r hwn y mae yr haul yn myned o ddeutu yr 21 o Mehefin, sef y dydd hwyaf.

Canis Major a Canis Minor, y ci mawr ac y ci bychan, dau gyfseryddiad yn yr arddrych ddeheuol, y cyntaf yn cynnwys 29 o ser, a'r llall 14.

Canopus, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Argo.

Capella, seren o'r maint cyntaf yn ysgwydd chwith cyfseryddiad Auriga.

Capricornus, yr Afr, un o'r 12 arwydd yn cynnwys 58 o ser; mae yr haul yn myned i hwn ar yr 21 o Ragfyr, sef ein dydd byraf ni.

Cassiopeia neu Llys Don, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 52 o ser.

Cauda Lucida, cynffon y Llew, seren o'r ail maint yn nghyfseryddiad Virgo.

Centaur, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 36 o ser.

Cepheus, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 40 seren.

Cerberus, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 9 seren.

Cetus, y morfil, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 80 o ser.

Colures, dau gylch mawr, sef y Colur gorsafol a'r Colur cyhydeddol; y blaenaf sy megys paladr canol-ddydd yn myned trwy radd cyntaf y Cranc a'r Afr; ac y llall sydd yn myned trwy radd cyntaf yr Hwrdd a'r Fantol.

Colomen Noa, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 10 seren.

Consequentia, symudiad y planedau yn ol rheol yr arwyddion, megys o Aries i Taurus, &c.

Corvus, y frân, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys wyth seren.

Cor Caroli, Calon Charles, seren fechan yn sefyll rhwng Coma Berenices ac Ursa Major.

Coma Berenices, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 24 o ser.

Corona Borealis, Caer Arianrod neu coron ogledd, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 11 o ser.

Corona Meridionalis coron y deheu, cyfseryddiad yn yr arddrych ddeheuol yn cynnwys 12 o ser.

Cyd-dueddiad, yw yr ongl mae rhôd y naill blaned yn ei wneyd a'r llall.

Clawr, enwad a roddir i arwynebiad dychymygol, megys y cyfryw a ddeilliau o ddosbarthu pelen, ac yn y dull yma yr ystyrir am glawr rhôd planed.

Crater, y gwpan, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 11 o ser.

Crossiers, pedair seren ar ddull croes, y rhai ydynt yn dynodi pegwn y de.

Cyfartaliad amser y gwahaniaeth rhwng amser cloc cywir â *dial* haul.

Cyfseryddiad, nifer o ser yn gyfagos i'w gilydd, y rhai y mae seryddion i'r dyben o'u cofio, yn eu cylchgau â llûn anifail neu ryw beth arall.

Cygnus, yr alarch, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 73 o ser.

Cyhydedd, cylch mawr yn dosbarthu yr arddrych ogleddol oddiwrth yr arddrych ddeheuol.

Cylchoedd Seryddiaeth a Daearyddiaeth, ydynt chwech o rai mawrion a phedwar o rai bychain. Y mawrion ydynt y Cyhydedd, yr Heulrawd, y Paladr canol-ddydd, y Terfyngylch, a'r ddau Golur; y lleiaf ydynt, Trofeydd y cranc, Trofeydd yr afr, y cylch cyfogledd a'r cylch cyfddëau.

Cylch y Pasg, cylch-droad o 532 o flynyddoedd, a geffir wrth liosogi cylch yr haul 28, â chylch y lleuad 19, canys yn y cyfryw amser, mae gwyl y Pasg a'r holl wyliau ymddibynol arni yn dychwelyd i'r un drefn eilwaith.

Cylch cyfogledd a'r Cylch cyfddeau ydynt derfynau i'r gwregysoedd clairol, ac o fewn 23½° i'r Pegynau.

Cylchdro y'lleuad, yw yr amser y sydd o'r naill newid i'r llall, yr hyn yw 29*d.* 12*a.* 44*m.* a 3 *ailiad.* Am ei chylchrediad, *gwel* Blwyddyn Meton.

Cyssylltiad, yw pan fyddo dwy seren yn ymddangos i syllydd o'r ddaear neu'r haul yn yr un gradd o'r Heulrawd.

## D

Daear, y belen yr ydym ni yn ei phreswylio; un o'r saith blaned, a'r drydedd mewn gosodiad oddiwrth yr haul.

Delphinus, y mor-hwch, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 18 seren.

Derwen Charles, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 13 o ser.

Diffyg ar yr haul, cuddiad ei oleuni gan gyfryngiad corff tywyll y lleuad rhyngddo ac ein golwg.

Diffyg ar y lleuad, cuddiad ei goleuni gan gyfryngiad y ddaear rhyngddi a'r haul.

Diwrnod *(anianol,)* y gyfran o amser ag y bydd y ddaear yn rhoddi cyflawn dro ar ei hechl. Diwrnod *(gwneuthurol)* yr amser sy rhwng codiad haul a'i fachludiad. Diwrnod *(seryddawl)* yr

amser rhwng dau drawsfudiad olynol a ddyry canol-bwnc yr haul dros y paladr canol-ddydd: mae y dydd hwn yn dechreu ar y canol-ddydd.

Diwrnod gorymddwyn, y dydd sydd yn cael ei lunio gan y chwech oriau y sydd dros 365 o ddyddiau mewn blwyddyn: maent mewn 4 blynedd yn llunio diwrnod cyfan, ac felly mae yn deillio blwyddyn y Naid.

Dosbarth yr haul, sydd yn cynnwys yr haul, y saith blaned a'u lleuadau, ac y ser gwib.

Draco, y ddraig, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 49 o ser.

Dring-gylch, y graddau o'r cyhydedd sy rhwng y gradd cyntaf o'r Hwrdd, a'r pwnc hwnw o hono y sydd yn cyd-godi gyda chanol-bwnc seren neu yr haul.

Dring-bwnc, y gradd o'r cyhydedd y sydd yn dyfod i'r paladr canol-ddydd gyd a'r haul, lloer, neu seren, gan gyfrif o radd cyntaf yr Hwrdd.

Dyddiol, yn perthyn i ddydd, sef symudiad dyddiol y planedau yw yr ëangder y maent yn ymsymud ynddo mewn diwrnod.

Dyddiau y cwn, ydynt yn digwyddo yn mis Gorphenaf, ac yr achlysur o'r enw ydyw, oherwydd bod yr haul yn cyd-godi am ystod mis o ddyddiau gyd a chyfseryddiadau y ci mawr ac y ci bychan.

## E

Echl y ddaear, neu blaned, yw llin ddychymygol trwy y canol-bwnc o'r naill begwn i'r llall, o gylch yr hon y maent yn troi.

Epact, oed y lleuad yn niwedd y flwyddyn, neu y gwahaniaeth rhwng blwyddyn yr haul a blwyddyn y lleuad.

Epocha, neu Æra, y cyfryw amser ag y mae Seryddion, &c. yn dechreu eu cyfrif.

Eridanus, yr afon, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 72 o ser.

Equilus, yr ebol, cyfseryddiad yn yr anldrych ogleddol yn cynnwys 12 seren.

## G

Gemini, y gefeilliad, un o'r 12 arwydd yn cynnwys 94 o ser.

Georgium Sidus, planed newydd a ddarganfuwyd gan Dr. Herschell: hon yw y seithfed yn y ddosbarth, a'r bellaf oddiwrth yr haul.

Gogwyddiad yr haul, lleuad, neu'r ser, yw y pellder yn raddau, munudau, &c. i'r de neu y gogledd o'r cyhydedd ar gylch a fyddo yn syth iddo.

Goleuadau mawrion, enwau a ddyry Moses i'r haul a'r lleuad oherwydd dysgleirdeb eu goleuni.

Grus, y cryr, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 14 o ser.

Gradd, y 360 rhan o gylch, neu y 30 rhan o arwydd.

Grym canol-ochel, yw y cyfryw trwy yr hwn y mae unrhyw gorff symudol, yn tueddu i ochel canol-bwnc y symudiad mewn cyffyrdd-lin i'r cylch y mae yn ei lunio.

Grym canol-gais, y cyfryw, ag y sydd yn tueddu unrhyw gorff symudol tu ag at ganol-bwnc ei rôd.

Gwawr, y goleu egwan a welir cyn codi, a gwedi machlud haul, yr hwn sydd yn cael ei lunio gan ad-lewyrchiad yr haul a'r uchel fanau awyrgylch y ddaear.

Gwener, yr ail o'r planedau yn nosbarth yr haul: gelwir hi Luci-

ser pan y byddo yn seren ddydd, a Hesperus pan y byddo yn seren hwyrol.

GWREGYSAU, ydynt bump o rifedi, sef dau oer, dau claiarol, ac un poeth: y poeth sydd yn estyn 23½° o ddeutu y cyhydedd; y ddau glaiarol oddiyno hyd o fewn 23½° i'r pegynau, ac y ddau rewlyd ydyw y ddau eithafnod.

GWRTHSAFIAD, tremiad dwy blaned pan y byddont yn 180° y naill oddiwrth y llall.

GWRTHSYMUDIAD Y PYNCIAU CYHYDEDDOL, yw treiglad y ddau bwnc, lle y mae yr heulrawd yn croesi y cyhydedd, y rhai ydynt yn myned yn ol o ddeutu 50 ailiad yn flynyddol.

H

HERCULUS, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 92 o ser.

HESPERUS, enwad a roddir i'r blaned Gwener pan y byddo yn ymddangos yn yr hwyr.

HETEROSCII, enwad ar drigolion y gwregysau cymhedrol, oherwydd bod eu cysgod oll ar hanner dydd yn gogwyddo yr un ffordd.

HEULRAWD, un o'r prif gylchoedd yn yr hwn y mae yr haul yn ymddangos o fod yn ymsymud: mae hwn yn nghanol y Sidydd, ac yn gwneyd ongl o 23½° â'r cyhydedd.

HIN-GYLCHOEDD ydynt wregysau culion yn cyd-redeg ag y cylchoedd lledred yn y fath ddull a bod dydd yn y terfyn nesaf i'r pegwn yn hwy o hanner awr nag yn y terfyn arall. Gan fod y dydd dan y cyhydedd yn 12 awr o hyd, a than y cylch pegynol yn 24, rhaid bod 24 o'r cyfryw gylchoedd. Mae 6 hingylch ychwanegol yn cael eu cyfrif o'r cylchoedd pegynol i'r pwnc: y dydd hwyaf yn y cyntaf o honynt yn fis o hyd, ac felly yn cynnyddu mis bob un, hyd onid yw y dydd hwyaf yn nhueddau y pwnc yn 6 mis.

HIRUNDO, y wennol, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 11 o ser.

HYDRA, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 53 o ser.

HYDRED LLE, yw y pellder yn raddau a munudau ar y cyhydedd oddiwrth y prif baladr canol-ddydd. Hydred seren yw y pellder ar yr heulrawd oddiwrth radd cyntaf yr Hwrdd.

I

INDUS, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 12 seren.

IOU, planed fwyaf y ddosbarth, a'r bumed oddiwrth yr haul.

IS-BWNC, y nôd o'r ffurfafen sydd yn union gyferbyn a'r nen-bwnc, neu y nôd y sydd yn union o dan ein traed.

L

LEO, y llew, un o'r 12 arwydd yn cynnwys 91 o ser.

LEO MINOR, y llew bychan, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 21 o ser.

LLEDRED LLE, yw y pellder i'r dwyrain neu orllewin o'r prif baladr canol-ddydd, gan gyfrif y graddau, munudau, &c. ar y cyhydedd. Lledred seren yw y pellder oddiwrth gradd cyntaf yr Hwrdd, gan gyfrif y graddau, &c ar yr Heulrawd.

LEPUS, yr ysgyfarnog, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 25 o ser.

LIBRA, y fantol, un o'r 12 arwydd, i'r hwn y mae yr haul yn myned o ddeutu yr 20 o Medi sef dechreu y Cynhauaf.

**Lizard**, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 12 seren.

**Lle yr haul**, yw graddau, munudau, &c. o unrhyw arwydd y mae yn bod ynddo.

**Lleuad**, planed o'r ail radd sydd yn gweinyddu goleuni i'r ddaear, yr hon yw canol bwnc ei symudiad.

**Lucida Lyra**, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Lyra neu Delyn Arthur.

**Lucifer**, enwad Gwener pan y byddo yn codi o flaen yr haul.

**Llythyren y sul**, un o saith llythyren gyntaf yr egwyddor i ddynodi y sabbath yn wythnosau y Calendar.

**Lupus**, y blaidd, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 36 o ser.

**Lyra**, Telyn Arthur, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 24 o ser.

**Lynx**, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 55 o ser.

## M

**Maintioli**: mae y sêr sefydlog yn cael eu dosbarthu yn chwe' gradd: y dysgleiriaf o honynt ydynt yn cael eu galw, y maint cyntaf: y nesaf mewn dysgleirdeb, yr ail maint; ac felly yn y blaen hyd y chweched, ac yna y maent yn rhy fân i lygad noeth eu canfod.

**Mawrth**, planed yn perthyn i ddosbarth yr haul, ac y bedwerydd mewn trefn oddiwrtho.

**Medium Cœli**, y canol-nef, y gradd o'r Heulrawd y sydd ar y paladr canol-ddydd ar unrhyw amser o ddydd neu nos.

**Merchyr**, planed yn perthyn i ddosbarth yr haul, ac y nesaf ato.

**Menn Charles**, y saith seren sydd yn llunio yr Arth mawr, a gelwir hefyd y llong foel.

**Mis** (cylchol,) yspaid o 27*d* 7*a*. a 43*m*. yr hyn sydd amser symudiad y lleuad o unrhyw bwnc o'i rhôd i'r un drachefn. Mis cyssylltol, yspaid 29½ o ddyddiau, sef yr amser sydd o'r naill newid i'r llall. Mis y calendar, yw yr amser y mae yr haul yn myned trwy un o'r arwyddion, sef o ddeutu 30½ o ddyddiau.

**Milown**, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 24 o ser.

**Monoceros**, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 32 o ser.

**Mons Mœnalus**, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 11 o ser.

**Munud**, y 60 rhan o awr o amser, neu o radd cylch.

**Musca**, gwybedyn, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 6 seren.

## N

**Naw nos oleu**, sydd yn digwyddo pan y byddo y lleuad yn arwyddion y Pysg a'r Hwrdd, sef, pan yw ei gogwyddiad gogleddol fwyaf, yr hyn sydd yn peri iddi godi yn nghynt ac aros yn hwy cyn machlyd nag ar amserau ereill. Mae y noson gyntaf o'r rhai hyn yn digwyddo ddiwrnod neu ddau cyn y llawn, a bydd y nosweithiau goleu yn parhau am gryn wythnos, sef hyd oni nesao y lleuad i'r Gefeilliad. Ni all hyn ddigwyddo onid yn y cynhauaf yn unig.

**Nebulæ**, bagad o sêr megys gwedi cyd-ymdyru, ac yn ymddangos i lygad noeth megys mân gymylau dysglaer: gelwir y twr tewdws weithiau, neu Orion, &c wrth y cyfryw enw.

**Nen-bwnc**, y nôd sydd yn union uwch ben, sef gyferbyn a'r isbwnc.

**Nen-radd**, y 90 gradd, neu y nôd uchaf o'r heulrawd ar unrhyw amser o ddydd neu nos.

NOD ESGYNOL A DISGYNOL, ydynt y ddau bwnc mewn rhôd planed, y sydd yn croesi yr Heulrawd.

NUCLEUS, *enwad* a ddyry y Seryddion yn gyffredin i gorff seren wib.

## O

OCTANT, ardremiad dwy blaned pan y byddont yn 45° y naill oddiwrth y llall.

ONGL, tneddiad neu ymagoriad dwy linell a fyddo yn cyd-gyfarfod.

OPHIUCUS, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 67 o ser.

ORION, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 93 o ser.

## P

PALADR-CANOL-DDYDD, un o'r prif gylchoedd y sydd yn myned trwy y pegynau a'r nen-bwnc, ac yn syth i'r terfyngylch: mae yr haul yn y cylch hwn ar hanner dydd.

PARALLAX, neu gyfecheliad, y gwahaniaeth rhwng lleoedd unrhyw gorff nefol, yn ol y golygid y cyfryw gan syllydd oddiar wyneb y ddaear, a chan arall o'i chanol-bwnc.

PELEN DDAEAROL, enwad ar y ddaear. Ei thair agwedd ydynt y canlynol, 1. Y bel *ddiosgo,* yw pan y byddo y ddau begwn yn y terfyngylch, y cyhydedd yn myned trwy y nen-bwnc ac yr is-bwnc, ac yr holl gylchoedd lledred yn syth i'r terfyngylch: dyma agwedd y ddaear i holl drigolion y cyhydedd. 2. Y bel *wyrog* yw pan y byddo y ddau bwnc un ar y tu uchaf a'r llall ar y tu isaf i'r terfyngylch, y cyhydedd ac y cylchoedd lledred yn llunio onglau a'r terfyngylch: dyma agwedd y ddaear i ni. 3. Y bel *gyfartal,* yw pan y byddo y ddau begwn yn y nen-bwnc a'r isbwnc, ac y cyhydedd a'r cylchoedd lledred yn y terfyngylch: dyma agwedd y ddaear i drigolion y pegynau, pe byddai y cyfryw.

PEGASUS, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 67 o ser.

PEGYNAU, y ddau bwnc y sydd yn nwy eithafoedd echel y ddaear, ac onid eu hestyn i'r ffurfafen ydynt yn llunio pegynau y byd.

PAVO, paun, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 14 seren.

PENDULUM, dibynai corff a fyddo yn ymdaflu yn ol ac yn mlaen ar bwnc sefydlog, yr hwn oherwydd ei esgydwad cyfartal sydd yn cael ei ddefnyddio i fesur amser.

PENUMBRA, ol cysgod egwan y sydd yn dilyn diffyg, yr hwn sydd yn peri peth cuddiad ar y goleuad yn y man y mae yn syrthio.

PELADER, mewn Seryddiaeth sy weithiau yn cael ei ddynodi wrth lin wastad, a thro arall wrth ddarn o gylch; yr olaf sydd mewn arferiad pan y crybwyllir am bellder dwy seren oddiwrth eu gilydd.

PERIOECI, enwad ar drigolion y ddaear y sydd yn byw tan yr un cylchoedd lledred, ond ar y tu gwrthwyneb i'r paladr-canol-ddydd.

PERIGEON, y pwnc o rôd planed y sydd yn nesaf i'r ddaear.

PERIHELION, y pwnc o rôd planed y sydd yn nesaf i'r haul.

PERISCII, enwad ar drigolion y gwregysau rhewlyd, oherwydd bod eu cysgod yn troi o'u hamgylch am chwe' mis.

PERSEUS, cyfseryddiad yn yr arddrych ogleddol yn cynnwys 67 o ser.

PHOENIX, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 13 o ser.

'Phosphor, enwad y sydd ar y blaned Gwener pan y byddo yn seren foreu.

Pisces, y pysg, un o'r 12 arwydd, yn cynnwys 110 o ser.

Pisces Volans, y pysg hedegog, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys 7 seren.

Planedau, (prif) y bydoedd y sydd yn perthyn i'n Dosbarth, y rhai ydynt a'r haul yn ganol-bwnc eu symudiad: eu rifedi ydynt saith sef, Merchyr ☿, Gwener ♀, y Ddaear ⊕, Mawrth ♂, Iou ♃, Sadwrn ♄, y Georgium Sidus ♅.

Pleiades, twr tewdws, saith seren hynod yn nghyfseryddiad y Tarw.

Prif-bynciau y cyhydedd, albanau, neu radd cyntaf yr hwrdd, y cranc, y fantol, a'r afr.

Prif fanau y cwmpawd, ydynt gogledd, dwyrain, de a gorllewin.

Primum Mobile, prif ymmod, neu y prif symudiad, yr hwn yn ol dosbarth Ptolomy oedd yn cludo yr holl gyrff nefol o gylch y ddaear bob 24 awr.

Procyon, seren o'r ail maint yn nghytseryddiad y ci bach.

Pynciau gorsafol ydynt arwyddion y cranc a'r afr, yn y rhai y mae yr haul yn cyffwrdd a'r trofeydd, ac felly yn llunio y dydd hwyaf a'r dydd byraf.

## Q

Quadragesima, sul cyntaf y grawys, ac a elwir felly oherwydd ei fod yn digwyddo o ddeutu 40 niwrnod o flaen y pasg; ac am y cyffelyb achos y mae y tri sul rhagflaenol yn cael ei galw Quinquagesima, Sexagesima a Septuagesima.

Quadratures, y chwarteri, ymddangosiadau y lleuad o newid i i lawn ac o lawn i newid: gelwir un y chwarter cyntaf, a'r llall y trydydd chwarter.

Quartile, pedryran neu pedwarant, tremiadau dwy blaned pan y byddont yn 90 gradd y naill oddiwrth y llall.

## R

Regulus, seren o'r maint cyntaf yn nghanol cyfseryddiad y Llew.

Rigel, seren o'r maint cyntaf yn nhroed chwith Orion.

Rhif y cyfarwyddid, sy rifedi nad yw byth yn fwy na 35, sef y terfynau rhwng y Pasg cynharaf Mawrth 21, ac y diweddaraf Ebrill 25, yr hyn yw 35 o ddyddiau. Mae y rhif hwn yn newid bob blwyddyn, ond nid yn rheolaidd. Y dull i'w gael yw lleihau yr Epact am unrhyw flwyddyn o 26, ond os bydd yn Epact yn 28 neu 29, rhaid lleihau yr Epact o 56, a rhoddi o'r neilldu y gweddill.—Yna cyfrannu yr Epact â 7; a thynu y gweddill o 8, a gweddill hwnw o'r llythyren Sul gwedi eu gosod yn rheolaidd A 1, B 2, C 3, D 4, E 5, F 6, G 7, Yna at y gweddill olaf, cysylltu y gweddill a roddwyd o'r neilldu gyntaf, a'r swm yw rhif y cyfarwyddid.

Rhod planed, yw y cylch y mae hi yn troi ynddo yn flynyddol o gylch yr haul.

## S

Sagitarius, y scythydd, un o'r 12 arwydd yn cynnwys 41 o ser.

Sagitta, y saeth, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 13 o ser.

SATURN, sadwrn, un o'r prif blanedau, a'r chweched yn y ddosbarth: mae hon o ddeutu mil o weithiau yn fwy na'r ddaear.

SCORPIO, y sarff un o'r 12 arwydd, yn cynnwys 44 o ser.

SERPENS, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 50 o ser.

SERPENTARIUS, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 67 o ser.

SEXTANS URANIÆ, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys pedair seren.

SEXTILE, ardremiad dwy blaned pan y byddont yn 60 gradd y naill oddiwrth y llall.

SER GWIB, cyrff crwydrol sydd yn perthyn i'n dosbarth yn symud mewn rhôdau tra gwyrog: dynodir hwynt oddiwrth y planedau wrth eu cynffonau dysglaer.

SIDYDD, gwregys o ddeutu 18 gradd o led y sydd yn cylchynu y ffurfafen, ac yn ei ganol y mae yr heulrawd a holl rodau y planedau.

SIRIUS, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Canis Major, sef y ci mawr, yr hon yw y ddysgleiriaf o unrhyw yn y ffurfafen.

SPICA VIRGINUS, seren o'r maint cyntaf yn nghyfseryddiad Virgo, sef y forwyn.

SYMUDIAD CANOLIG PLANED, ydyw y cyfryw a ddigwyddai pe symudai yn gyfartal bob dydd mewn rhôd berffaith gron.

SYTH GYLCHOEDD, ydynt fal cylchoedd Azimuth, neu y cyfryw ag ydynt syth i'r terfyngylch.

SYZYGY, y pwnc o rôd y lleuad y mae ynddo ar amser y newid a'r llawn.

## T

TARIAN SOBIESKI, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 8 seren.

TAURUS, y tarw, un o'r 12 arwydd yn cynnwys 109 o ser.

TRAWSIAD, mynediad unrhyw gorff nefol heibio un arall, ac felly yn peri diffyg.

TREMIADAU Y PLANEDAU, ydynt y cyfryw ag y mae y naill blaned yn ei wneyd â'r llall; megys y cyssylltiad, triongl, pedwarant, &c.

TRIGONIS MAJOR, y triongl mawr, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 10 seren.

TRIGONIS MINOR, y triongl bychan, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 5 seren.

TRINE, triant, ardremiad dwy blaned pan y byddont yn 120 gradd y naill oddiwrth y llall.

TRIONGL DEHEUOL, cyfseryddiad yn yr arddrych ddeheuol yn cynnwys 15 o ser.

TROPEYDD Y CRANC, un o'r cylchoedd lleiaf, yr hwn sydd yn derfyn rhwng y gwregys poeth ag y gwregys claiarol gogledd: mae yr haul yn ymddangos o fod yn ymsymud yn hwn ar ein dydd hwyaf ni.

TROPEYDD YR AFR, un o'r cylchoedd lleiaf, yr hwn sydd yn derfyn rhwng y gwregys poeth ag y gwregys claiarol de: mae yr haul yn ymddangos o fod yn ymsymud yn hwn ar ein dydd byraf ni.

TERFYNGYLCH GWELEDIG, neu y llywel, cylch sydd yn dosbarthu yr arddrych weledig oddiwrth yr un anweledig, neu yr hyn ag sydd yn derfyn i'r golwg.

TERFYNGYLCH GWIR, cylch mawr sydd yn gyfartal i'r gweledig, pegynau yr hwn ydynt yn y nen-bwnc a'r is-bwnc.

TYMHORAU Y FLWYDDYN, ydynt bedwar o rifedi: y cyntaf sef y gwanwyn sydd yn dechreu ar alban Eilir, sef pan fyddo'r haul yn myned i'r Hwrdd, gan wneyd y dydd a'r nos yn gyfartal tros wyneb y ddaear, oddigerth dan y pegynau. Yr hâf sydd yn dechreu ar alban Hefin, sef y dydd hwyaf; pan y mae yr haul yn myned i'r Cranc. Y cynhauaf sydd yn dechreu ar alban Elfed, sef pan fyddo'r haul yn myned i'r Fantol; gan wneyd eilwaith ddydd a nos yn gyfartal. Y gauaf sydd yn dechreu ar alban Arthan sef y dydd byraf, pan y mae yr haul yn myned i'r Afr.

TYNIAD, priodoledd yn perthyn i ddefnydd, trwy yr hwn mae y naill gorff yn dynesu at y llall, heb fod unrhyw achos arddangosol yn peri hyny.

U

URSA MAJOR ac Ursa Minor, yr Arth mawr, ac yr Arth bychan.

VIRGO, y forwyn, un o'r 12 arwydd yn cynnwys 93 o ser.

VENUS. *Gwel* gwener.

VULPUS, y llwynog, cyfseryddiad gogleddol yn cynnwys 29 o ser.

W

WYTHNOSAU Y CYDGORIAU, ydynt y cyfryw y mae y prif ddyddiau ympryd yn digwyddo ynddynt: yr oeddynt o fri mawr yn yr eglwys yn y cyn oesoedd, a chan eu bod yn bedwar o rifedi galwai yr hen dadau hwynt, *Quatuor Anni Tempora*, y prif dymhorau, ar y rhai mae adchwylfeydd y flwyddyn yn troi. Y dyddiau ympryd ynddynt ydynt y Merchyrau, Gwenerau a Sadwrnau, nesaf ar ol Sul Quadragesima, ar ol y Sulgwyn, ar ol Caffael y groes Medi 14, ac ar ol Gwyl St. Lucy Rhag 13. Buont o sylw mawr gynt, ac yr ydys weithian yn eu dewis i urddo gweinidogion i'r Eglwys sefydledig o flaen unrhyw wythnosau ereill.

X

XIPHIAS, y cledd-bysg, cyfseryddiad deheuol yn cynnwys saith seren.

Y

YMBELLHAD, pellder planed oddiwrth yr haul fal ag yr ymddengys i syllydd oddiar y ddaear.

# TAFLEN DDAEARYDDAWL.

## Yn cynnwys Enwau a Sefyllfa prif Ddinasoedd, Trefydd, Ynysoedd, Moroedd, Penrhynau, a lleoedd hynod ereill yn y Byd adnabyddus. Gwedi eu casglu o waith y Daearyddion mwyaf enwog.

TALFYRIADAU: Yn y golofn 1 a'r 2, Y. Ynysoedd; y. ynys; Am. amddiffynfa; Po. portbladd; P. penrhyn; S. swydd; Tr. tref; Gol. goleudy: Yn ngholofn 5. G. a D, gogledd a de; a cholofn 6, G. a D. gorllewin a dwyrain.

A

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad, neu Fôr.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ' | *Hydred.* ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abeville, | Somme, | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 7G. | 1 | 50D. |
| Aberdeen, | S. Aberdeen, | Ysgotland, | Ewr. | 57 | 22 | 1 | 45G. |
| Abo, | Ffinland, | Sweden, | Ewr. | 60 | 27 | 22 | 13D. |
| Acapulco, | | Mexico, | G. Am. | 17 | 10 | 101 | 20G. |
| Achem, | Sumatra, | Ind. ddwyr. | Asia | 5 | 22 | 95 | 34D. |
| Adrianopl, | Romania, | Twrci, | Ewr. | 41 | 45 | 26 | 27 . |
| Adventure, y. | | Mor mawr y de | Asia | 17 | 5D. | 144 | 17G. |
| Agde, | Herault, | Ffrainc, | Ewr. | 4 | 18G. | 3 | 27D. |
| Agen, | Aveiron, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 12 | 0 | 36 |
| St. Agnes, gol. | Scillies, | Mor Werydd, | Ewr | 49 | 56 | 6 | 46G. |
| Agra, | Agra, | Ind. ddwyr, | Asia | 26 | 43 | 76 | 44D. |
| Aix, | Aber y Rhon, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 31 | 5 | 8 |
| Albany, | York newydd, | Taleith. cyf | G.Am | 42 | 59 | 73 | 30G. |
| Alby, | Tarn | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 55 | 2 | 8D. |
| Aleppo, | Syria, | Twrci | Asia | 35 | 11 | 37 | 10 |
| Alexandretta, | Syria, | Twrci, | Asia | 36 | 35 | 36 | 25 |
| Alexandria, | Aipht isaf, | Twrci, | Affr. | 31 | 11 | 30 | 10 |
| Algiers, | Algiers, | Barbari, | Affr. | 36 | 49 | 2 | 12 |
| Amboyna | Y. Amboyna, | Ind. ddwyr. | Asia | 4 | 25 | 127 | 25 |
| Ambryn, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 9 | 168 | 12 |
| Amiens, | Somme, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 53 | 2 | 18 |
| AMSTERDAM, | Holland, | Iseldir, | Ewr. | 52 | 21 | 4 | 51 |
| Amsterdam, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 21 | 9D. | 174 | 46G. |
| Amwythig, | S. Amwythig, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 43G. | 2 | 46 |
| Ancona, | Ancona, | Itali, | Ewr. | 43 | 38 | 13 | 35D. |
| Angra, | Y. Tercera, | Môr Werydd, | Ewr. | 38 | 39 | 27 | 12. |
| Antigua, St John, .. | Antigua, | Mor Carib. | G. Am. | 17 | 4 | 62 | 9 |
| Antioch, | Syria, | Twrci, | Asia | 36 | 10 | 36 | 40D. |
| Antwerp, | Brabant, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 13 | 4 | 23 |
| Apoe, ynys, | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 46D. | 168 | 27 |
| Archangel, | Archangel, | Russia, | Ewr. | 64 | 34G. | 38 | 59 |
| Astracan, | Astracan, | Russia, | Asia | 46 | 0 | 47 | 40 |
| Athens, | Livadia, | Twrci, | Ewr. | 38 | 5 | 23 | 52 |
| Augustin, St. | Madagascar, | Môr India, | Affr. | 23 | 35D. | 43 | 8 |

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ' | *Hydred.* ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aurora, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 15 | 8 | 168 | 17 |
| AVA, | Ava, | Ind. ddwyr. | Asia | 20 | 20G. | 95 | 30 |
| Avignon, | Vaucluse, | Ffrainc. | Ewr. | 43 | 57. | 4 | 53 |
| Ayr, | S. Ayr, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 30 | 4 | 40G. |
| | | B. | | | | | |
| Bagdad, | Eyrac Arabia, | Twrci, | Asia | 33 | 20G. | 43 | 51D. |
| Balasore, | Orissa, | Ind. ddwyr. | Asia | 21 | 20 | 86 | 5D. |
| Balbec, | Syria, | Twrci, | Asia | 33 | 30 | 37 | 0 |
| Baldivia, | Chili, | | D. Am. | 39 | 35D. | 73 | 20G. |
| Barcelona, | Catalonia, | Yspaen, | Ewr. | 41 | 23G. | 2 | 13D. |
| Barbuda, ynys | | Mor Werydd, | G. Am. | 17 | 49 | 61 | 50G. |
| Basse Terre, | Guadaloupe, | Mor Carib, | G. Am. | 15 | 59 | 61 | 59 |
| Basil, | Basil, | Switzerland, | Ewr. | 47 | 35 | 7 | 30D. |
| Bassora, | Eyrac Arabia, | Twrci, | Asia | 30 | 45 | 47 | 0 |
| Bastia, | Corsica, | Itali, | Ewr. | 42 | 30 | 9 | 40 |
| Batavia, | Java, | Ind. ddwyr. | Asia | 6 | 12D. | 106 | 53 |
| Bayeux, | Calvados, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 16G. | 0 | 42G. |
| Bayonne, | Pyren isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 29 | 1 | 25 |
| Belfast, | Antrim, | Ywerddon, | Ewr. | 54 | 35 | 5 | 52 |
| Belgrade, | Servia, | Twrci, | Ewr. | 45 | 0 | 21 | 20D. |
| Bencoolen, | Sumatra, | Ind. ddwyr. | Asia | 3 | 49D. | 102 | 15 |
| Bender, | Bess Arabia, | Twrci | Ewr. | 46 | 40G. | 29 | 0D. |
| BERLIN, | Brandenburg, | Germani, | Ewr. | 52 | 32 | 13 | 22 |
| Bermudas, | Ynys. Bermud. | Mor Wer. | G Am. | 32 | 35 | 63 | 24G. |
| Bern, | Bern, | Switzerland | Ewr. | 47 | 0 | 7 | 20D. |
| Berwic, | S. Berwic, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 48 | 1 | 45G. |
| Bilboa, | Biscay, | Yspaen, | Ewr. | 43 | 26 | 3 | 18 |
| Birmingham, | S. Warwic, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 30 | 1 | 52 |
| Bolabola, ynys | | Mor mawr y de | Asia | 16 | 32D. | 151 | 47 |
| Bologna, | Bolognese, | Itali, | Ewr. | 44 | 29G. | 11 | 26D. |
| Bolcheriscoi, | Siberia, | Russia, | Asia | 52 | 54 | 156 | 42 |
| Bombay, | Y. Bombay, | Ind. ddwyr. | Asia | 18 | 58 | 72 | 43 |
| Borroughstonness, | S. Linlithgow, | Ysgotland | Ewr. | 55 | 48 | 3 | 44G. |
| Boston, | S. Lincoln, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 10 | 0 | 25D. |
| BOSTON, | Lloegr newydd, | | G. Am. | 42 | 25 | 70 | 32G. |
| Boulogne, | Cyfyngfor Calais, | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 43 | 1 | 31D. |
| Bourbon, ynys | | Mor India, | Affr. | 20 | 51D. | 55 | 25 |
| Bourdeaux, | Gironde, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 50G. | 0 | 29G. |
| Breda, | Brabant, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 40 | 4 | 40D. |
| Bremen, | Saxoni isaf, | Germani, | Ewr. | 53 | 25 | 8 | 20 |
| BRESLAW, | Silesia, | Bohemia, | Ewr. | 51 | 3 | 17 | 13 |
| Brest, | Finisterre, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 22 | 4 | 29G. |
| Bridge-town, | Barbadoes, | Mor Werydd, | G. Am. | 13 | 5G. | 58 | 35 |
| Bruges, | Fflandrys, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 16 | 3 | 5D. |
| Brunswic, | Saxoni isaf, | Germani, | Ewr. | 52 | 30 | 10 | 30 |
| Brussels, | Brabant, | Iseldir, | Ewr. | 50 | 51 | 4 | 26 |
| Bucharia, | | Usbec Tartari, | Asia | 39 | 15 | 67 | 0 |
| Bucharest, | Walachia, | Twrci, | Ewr. | 44 | 26 | 26 | 13 |
| Buda, | | Hungari isaf, | Ewr. | 47 | 40 | 19 | 20 |

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ' | *Hydred.* ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Buenos Ayres | La Plata, | Paraguay, | D. Am. | 34 | 35D. | 58 | 26G. |
| Burlington, | Jersey, | | G. Am. | 40 | 8G. | 75 | 0 |
| **C** | | | | | | | |
| Cabello, | Terra Ffirma, | Deheubarth | America | 10 | 30G. | 67 | 27G. |
| Cachao, | Tonquin, | Ind. ddwyr. | Asia | 21 | 30 | 105 | 0D. |
| Cadiz, | Andalusia, | Yspaen, | Ewr. | 36 | 31 | 6 | 6G. |
| Caen, | Calvados, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 11 | 0 | 16 |
| Caerbaddon, | Gwlad yr haf, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 22 | 2 | 16 |
| Caergrawnt, | S. Caergrawnt, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 12 | 0 | 0 |
| Caergrawnt, | Lloegr newydd, | | G. Am. | 42 | 25 | 71 | 5 |
| Caergaint, | S. Caint, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 18 | 1 | 14D. |
| Caerlleon, | S. Caerlleon, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 15 | 0 | 3G. |
| Caerloyw, | S. Gaerloyw, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 5 | 2 | 16 |
| Caersalem, | Palestine, | Twrci, | Asia | 31 | 46 | 35 | 25D. |
| Caerodornant, | Gwlad yr haf, | Lloegr, | Ewr | 51 | 33 | 2 | 40G. |
| Cagliara, | Sardinia, | Itali, | Ewr. | 39 | 25 | 9 | 38D. |
| Cahors, | Lot, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 26 | 1 | 31 |
| Cairo, | | Aipht isaf, | Affr. | 30 | 2 | 31 | 23 |
| Calais, | Cyf. Calais, | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 57 | 1 | 55 |
| Calcutta, | Bengal, | Ind. ddwyr. | Asia | 22 | 34 | 88 | 34 |
| Callao, | Peru, | | D. Am | 12 | 1 | 76 | 53G. |
| Calmar, | Smaland, | Sweden, | Ewr. | 56 | 40 | 16 | 26D. |
| Cambodia, | Cambodia, | Ind. ddwyr. | Asia | 13 | 30 | 105 | 0 |
| Cambray, | Cambray, | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 10 | 3 | 18 |
| Campbeltown, | S. Argyle, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 30 | 5 | 40G. |
| Canari, pen. G ddwyr. | Y. Canari, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 13 | 15 | 33 |
| Candia, | Y. Candia, | Mor canoldir, | Ewr. | 35 | 18 | 25 | 23D. |
| Candi | Ceylon, | Mor India, | Asia, | 7 | 54 | 79 | 0 |
| Canso, porth | Nova Scotia, | | G. Am. | 45 | 20 | 60 | 50G. |
| Canton, | Canton, | China, | Asia | 23 | 7 | 113 | 7D. |
| Carlscroon, | Schonen, | Sweden, | Ewr. | 56 | 7 | 15 | 31 |
| Carlisle, | S. Cumberland, | Lloegr, | Ewr. | 54 | 47 | 2 | 53G. |
| Carthagena, | Murcia, | Yspaen, | Ewr. | 37 | 37 | 1 | 8 |
| Carthagena, | Terra Ffirma, | Deheubarth | America, | 10 | 26 | 75 | 42 |
| Casan, | Casan, | Russia, | Asia, | 55 | 43 | 49 | 13D. |
| Cassel, | Hesse Cassel, | Germani, | Ewr. | 51 | 19 | 9 | 34 |
| Castres, | Tarn, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 37 | 2 | 19 |
| St. Catrin, ynys | | Mor Werydd, | D. Am. | 27 | 35D. | 49 | 12G. |
| Cattegat, | Rhwng Sweden a Denmark, | | Ewrop. | Mor Werydd. | | | |
| Cavan, | Cavan, | Ywerddon, | Ewr. | 54 | 51G. | 7 | 18G. |
| Cayenne, | Ynys Cayenne, | | D. Am. | 4 | 56 | 52 | 10 |
| Cette, | Herault, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 23 | 3 | 42D. |
| Ceuta, | Fez, | Morocco, | Affr. | 35 | 4 | 6 | 30G. |
| Chalons, | Soan a Loir, | Ffrainc, | Ewr. | 46 | 46 | 4 | 51D. |
| Chandernagur, | Bengal, | Ind. ddwyr. | Asia, | 22 | 51 | 88 | 34 |
| Charlestown, | Caroline D. | Gogleddbarth | Amer. | 32 | 45 | 80 | 39G. |
| Charlotte, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 10 | 11D. | 164 | 35D. |
| Charlton, ynys | | Mor Hudson, | G. Am. | 52 | 3G. | 79 | 0G. |

| Enwau lleoedd. | Taleithiau. | Gwlad, neu For. | Cyfran. | Lledred. ° | ′ | Hydred. ° | ′ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chartres, | Eure a Loir, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 26G. | 1 | 33D. |
| Cherbourg, | Mor Udd, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 38 | 1 | 33G. |
| Christopher, ynys | | Mor Carib. | G. Am. | 17 | 15 | 62 | 38 |
| Civita Vecchia, | | Itali, | Ewr. | 42 | 5 | 11 | 51D. |
| Clerke, Ynysoedd, | | Mor Werydd, | D. Am. | 55 | 5D. | 34 | 37G. |
| Clermont | Puy de dome | Ffrainc, | Ewr | 45 | 46G. | 3 | 10D. |
| Colmar, | Rhin uchaf, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 4 | 7 | 27 |
| Cologna, | Roer, | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 55 | 6 | 55 |
| Constance, | Suabia, | Germani, | Ewr. | 47 | 37 | 9 | 12 |
| CONSTANTINOPLE, | Romania, | Twrci, | Ewr. | 41 | 1 | 28 | 58 |
| COPENHAGEN, | Y. Zealand, | Denmarc, | Ewr. | 55 | 40 | 12 | 40 |
| Corinth, | Morea, | Twrci, | Ewr. | 37 | 30 | 23 | 0 |
| Cork, | Munster, | Ywerddon, | Ewr | 51 | 53 | 8 | 23G. |
| Coventry, | S. Warwic, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 25 | 1 | 25 |
| Cowes, | Ynys Wyth | Lloegr, | Ewr. | 50 | 46 | 1 | 14. |
| Cracow, | Gallicia, | Pwyl Austria, | Ewr. | 50 | 10 | 19 | 55D. |
| Cremsmunster, | Austria, | Germani, | Ewr. | 48 | 3 | 14 | 12 |

Culfor Bothnia, Arfordir Sweden, Ewr. Llychlyn.
California, Rhwng Califf. a Mexico, G. Am. Mor mawr y de.
Ffinland, Rhwng Sweden a Russia, Ewr. Llychlyn.
St. Lawrence, Arfordir Ysgotl. newydd G. Am. Mor Werydd.
Mexico, Arfordir Mexico, G. Am. Mor Werydd.
Ormes Rhwng Persia ac Arabia, Asia, Mor India.
Persia, Rhwng Persia ac Arabia, Asia, Mor India.
Venice, Rhwng Itali a Thwrci, Ewr. Mor y canoldir.

Cyfyngdir Corinth, Yn cydio Morea a thir Groeg, Ewrop.
Malacca, Yn cydio Malacca ag India bellaf. Asia.
Panama, Yn cydio Deheubarth a gogledd-barth America
Suez, Yn cydio Affrica ag Asia.

Cyfyngfor Babelmandel, rhwng Affrica ac Asia, Mor coch.
Dover, rhwng Lloegr a Ffrainc, Mor Udd.
Gibraltar, rhwng Ewrop ac Affrica, Mor y canoldir.
Magellan, rhwng Terra del Fuego a Patagonia, D. America
Le Maire, yn Patagonia. D. America. Mor Werydd a Mor mawr y de.
Malacca, rhwng Malacca a Sumatra, Asia, Mor India.
Sunda, rhwng Sumatra a Java, Asia, Mor India.
Waigat, rhwng Nova Zembla a Russia, Asia, Mor rhewlyd.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cummin, ynys, | | Mor mawr y de, | Asia, | 31 | 40G. | 121 | 9D. |
| Curacoa, ynys, | | Ind. orllewin, | Am. | 11 | 56 | 68 | 20G. |
| Cusco, | | Deheubarth America, | | 12 | 25D. | 70 | 0 |

## D

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dacca, | Bengal, | Ind. ddwyr. | Asia | 23 | 30G. | 89 | 20D. |
| Damascus, | Syria, | Twrci, | Asia | 33 | 15 | 37 | 20 |
| Dantzic, | | Pwyl Prussia, | Ewr. | 54 | 22 | 18 | 38 |
| Dax, | Landes, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 42 | 0 | 58G. |
| Delfft, | Holland, | Iseldir, | Ewr. | 52 | 6 | 4 | 5D. |
| Delhi, | Delhi, | Ind. ddwyr. | Asia, | 29 | 0 | 76 | 30 |
| Derbent, | Daghistan, | Persia, | Asia, | 41 | 41 | 50 | 30 |

| Enwau lleoedd. | Taleithiau. | Gwlad, neu For. | Cyfran. | Lledred. ° | ' | Hydred. ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Derby, | S. Derby, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 58G. | 1 | 30G. |
| Derchefad, ynys | | Mor Werydd, | Affr. | 7 | 56D. | 14 | 0 |
| Derry, | Ulster, | Ywerddon, | Ewr. | 54 | 52G. | 7 | 40 |
| Dieppe, | Seine isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 55 | 0 | 59D. |
| Dijon, | Cote d'Or, | Ffrainc, | Ewr. | 47 | 19 | 4 | 57 |
| Dilbingen, | Suabia, | Germani, | Ewr. | 48 | 30 | 10 | 19 |
| Diu, | Guzerat, | Ind. ddwyr. | Asia | 21 | 37 | 69 | 30 |
| Dol, | Ile a Vilaine, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 33 | 1 | 41 |
| Dominica, | | Ind. orllewin, | Am. | 15 | 18 | 1 | 22 |
| Douglas, | Manaw, | Lloegr, | Ewr. | 54 | 8 | 4 | 30G. |
| Dover, | Caint, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 7 | 1 | 13D. |
| Dresden, | Saxoni, | Germani, | Ewr. | 51 | 0 | 13 | 36 |
| Dreux, | Eure a Loir, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 44 | 1 | 16 |
| Dublin, | Leinster, | Ywerddon, | Ewr. | 53 | 21 | 6 | 1G. |
| Dumberton, | S. Dumbarton, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 44 | 4 | 20 |
| Dumfries, | S. Dumfries, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 8 | 3 | 25 |
| Dunbar, | Haddington, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 58 | 2 | 25 |
| Duncansby, | pen S. Caithness, | Ysgotland, | Ewr. | 58 | 40 | 3 | 8 |
| Dundee, | Forfar, | Ysgotland, | Ewr. | 56 | 26 | 2 | 48 |
| Dungeness, | Caint, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 52 | 1 | 4D. |
| Dunkirk, | Fflandrys, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 2 | 2 | 27 |
| Durham, | Durham, | Lloegr, | Ewr. | 54 | 48 | 1 | 25G. |
| **E** | | | | | | | |
| Eaoowe, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 21 | 24D. | 174 | 25D. |
| Edinburg, | S. Edinburg, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 58G. | 3 | 7G. |
| Edystone, | Mor Udd, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 8 | 4 | 19 |
| Elbing, | Prussia, | Poland, | Ewr. | 54 | 15 | 20 | 0D. |
| Embden, | Westphalia, | Germani, | Ewr. | 53 | 25 | 7 | 10 |
| Embrun, | Alp uchaf, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 34 | 6 | 34 |
| Enatum, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 20 | 10D. | 169 | 59 |
| Enlli, ynys | Cymru, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 46G. | 4 | 46G. |
| Ephesus, | Natolia, | Twrci, | Asia | 38 | 1 | 27 | 30D. |
| Erramanago, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 18 | 46D. | 169 | 23 |
| Erzerum, | Turcomania, | Twrci | Asia | 39 | 56G. | 42 | 5 |
| Eustatius, | Mor Carib. | Ind. orllewin, | G. Am. | 17 | 29 | 63 | 5G. |
| Evreux, | Eure. | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 1 | 1 | 13 |
| Exeter, | Dyfnaint, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 44 | 3 | 29G. |
| **F** | | | | | | | |
| Falkirk, | Stirling, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 58G. | 3 | 48G. |
| Falmouth, | Cernyw, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 8 | 4 | 57 |
| Fayal, | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 38 | 32 | 28 | 36 |
| Ferdinand Naronka, | | Brasil, | D. Am. | 3 | 56D. | 32 | 43 |
| Ferrara, | Ferrarese, | Itali, | Ewr. | 44 | 54G. | 11 | 41D. |
| Ferro, | Canaries, | Mor Werydd, | Affr. | 27 | 47 | 17 | 40G. |
| Ferrol, | Galicia, | Yspaen, | Ewr. | 43 | 30 | 8 | 40 |
| Fez, | Fez, | Morocco, | Affr. | 33 | 30 | 6 | 0 |
| Florence, | Tuscani, | Itali, | Ewr. | 43 | 46G. | 11 | 7D. |
| Flores, | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 39 | 34 | 30 | 51G. |

| *Enwau lleodd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad, neu Fer.* | *Cyfran.* | *Llsfred.* | | *Hydred.* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ° | ′ | ° | ′ |
| St. Flour, | Cantal, | Ffrainc, | Ewr. | 45 | 1G. | 3 | 10D. |
| Ffrainc, ynys | | Mor India, | Affr. | 10 | 9D. | 57 | 33 |
| Ffrankffort, | Ffranconia, | Germani, | Ewr. | 49 | 55G. | 8 | 40D. |
| Ffrauenburg. | | Pwyl Prussia, | Ewr. | 54 | 22 | 20 | 12 |
| Fuego, ynys | Penrhyn Verd, | Mor Werydd, | Affr. | 14 | 56 | 24 | 23G. |
| Funchal, | Madeira, | Mor Werydd, | Affr. | 32 | 37 | 17 | 1 |
| Furneaux, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 17 | 11D. | 143 | 1 |

G

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gap, | Alp uchaf, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 33G. | 6 | 9D. |
| Genes, | Savoy, | Itali, | Ewr. | 44 | 25 | 6 | 40 |
| Geneva, | Leman, | Ffrainc, | Ewr. | 46 | 12 | 6 | 5 |
| GENOA, | Genoa, | Itali, | Ewr. | 44 | 25 | 8 | 15 |
| Geifr, ynys | | Mor India, | Asia | 13 | 55 | 120 | 7 |
| St. Geo. ynys, | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 38 | 39 | 27 | 55G. |
| St. Geo. tref. | Bermudas, | Mor Werydd, | G. Am. | 32 | 45 | 63 | 30 |
| St. Geo. am. | Coromandel, | Ind. ddwyr. | Asia, | 13 | 4 | 80 | 33D. |
| Ghent, | Fflandrys, | Iseldir, | Ewr | 51 | 3 | 3 | 48 |
| Gibraltar, | Andalusia, | Yspaen, | Ewr. | 36 | 5 | 5 | 17G. |
| Glasgow, | S. Lanerk, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 52 | 4 | 10 |
| Goa, | Malabar, | Ind. ddwyr. | Asia | 15 | 31 | 73 | 50D. |
| Gombroon, | Farsistan, | Persia, | Asia | 27 | 30 | 74 | 20 |
| Gomera, ynys | Y. Canari, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 5 | 17 | 3G. |
| Good Hope, Tr. | Cape Town, | Caffraria, | Affr. | 33 | 55D. | 18 | 28D. |
| Gorda, ynys | Y. Gwyryfon, | Ind. orll. | Am. | 18 | 18G. | 63 | 59G. |
| Goree, | | Mor Werydd, | Affr. | 14 | 40 | 17 | 20 |
| Gottenburg, | Gothland, | Sweden, | Ewr. | 57 | 42 | 11 | 43G. |
| Gottingen, | Hanover, | Germani, | Ewr. | 51 | 31 | 9 | 58 |
| Granville, | Mor Udd, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 50 | 1 | 32G. |
| Gratiosa, | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 39 | 2 | 27 | 53 |
| Gratz, | Stiria, | Germani, | Ewr. | 47 | 4 | 15 | 29D. |
| Gravelines, | Talaith ogl. | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 59 | 2 | 13 |
| Greenoc, | S. Renffrew, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 52 | 4 | 22G. |
| Gryphiswald, | Pomerania, | Germani, | Ewr. | 54 | 4 | 13 | 43D. |
| Guadaloupe, | | Mor Carib. | G. Am. | 15 | 59 | 61 | 54G. |
| Guam, | Y. Lladron, | Ind. ddwyr. | Asia | 14 | 0 | 140 | 30D. |

H

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Haerlem, | Holland, | Iseldir | Ewr. | 52 | 20G. | 4 | 42D. |
| Hartland, pen. | Y. Wyth | Lloegr, | Ewr. | 51 | 4 | 4 | 39G. |
| Hague, | Holland, | Iseldir, | Ewr. | 52 | 4 | 4 | 22 |
| Halifax, | S York, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 46 | 1 | 52G. |
| HALIFAX, | Nova Scotia, | Gogledd-barth | Am. | 44 | 40 | 63 | 15 |
| Hamburg, | Holstein, | Germani, | Ewr. | 53 | 34 | 9 | 55D. |
| Hanover, | Saxoni, | Germani, | Ewr. | 52 | 22 | 10 | 3 |
| Hastings, | Sussex, | Lloegr. | Ewr. | 50 | 52 | 0 | 40 |
| Havannah, | Ind. orll. | Ynys Cuba, | G. Am. | 23 | 11 | 82 | 13G. |
| Havre de Grace, | Seine, isaf. | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 29 | 1 | 10D. |

Hellespont, Moroedd y canoldir ac Euxine, Ewrop ac Asia.

| Enwau lleodd. | Taleithiau. | Gwlad, neu For. | Cyfran. | Lledred. ° | ' | Hydred. ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| St. Helena, Ja. Town, | | Mor Werydd, | Affr. | 15 | 55D. | 5 | 44G. |
| Hernosand, | Bothnia, | Sweden, | Ewr. | 62 | 38G. | 17 | 58D. |
| Hervey, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 19 | 17D. | 158 | 43G. |
| Hoai-Nghan, | Kian-Nan, | China, | Asia. | 33 | 34G. | 118 | 54D. |
| Hogue, penrhyn | Normandi, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 44 | 1 | 51G. |
| Hood, ynys | | Mor mawr y de | Asia | 9 | 26D. | 138 | 47 |
| Hoogstraton, | Brabant, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 24G. | 4 | 52D. |
| Howe, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 46D. | 154 | 1G. |
| Hauheine, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 44 | 151 | 1 |
| Hull, | S. York, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 48G. | 0 | 12 |
| **J** | | | | | | | |
| Jassy, | Moldavia, | Twrci, | Ewr. | 47 | 8G. | 27 | 34D. |
| Java, penrhyn | Ynys Java, | Ind. ddwyr, | Asia | 6 | 49D. | 106 | 55 |
| Jeddo, | Ynys Japan, | Ind. ddwyr. | Asia | 36 | 20G. | 139 | 0 |
| Immer, ynys, | | Mor mawr y de, | Asia | 19 | 10D. | 169 | 51 |
| Ingolstadt, | Bavaria, | Germani, | Ewr. | 48 | 45G. | 11 | 27 |
| Inverness, | S. Inverness, | Ysgotland, | Ewr. | 57 | 33 | 4 | 2G. |
| St. John, tref | Antigua, | Ind. orll. G. | Am. | 17 | 4 | 62 | 4 |
| St. John, tref | Newfoundland, | | G. Am. | 47 | 32 | 52 | 21 |
| St. Joseph. | California, | Mexico, | G. Am. | 23 | 3 | 109 | 37 |
| Irriname, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 19 | 31D. | 170 | 26D. |
| ISPAHAN, | Irac Agem, | Persia, | Asia | 32 | 25G. | 32 | 55 |
| Ivica, ynys | Itali, | Mor y canoldir, | Ewr. | 38 | 50 | 1 | 40 |
| Islamabad, | Bengal, | Ind. ddwyr. | Asia | 22 | 20 | 91 | 50 |
| Iudda, | Arabia Felix, | Arabia, | Asia | 21 | 29 | 49 | 27 |
| Juthria, | Siam, | Ind. ddwyr. | Asia | 14 | 18 | 100 | 55 |
| **K** | | | | | | | |
| Kelso, | S. Roxborough, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 38G. | 2 | 12G. |
| Kilmarnoc, | S. Ayr, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 38 | 0 | 30 |
| KINGSTON, | Jamaica, | Ind. orll. | Am. | 17 | 57 | 76 | 38 |
| Kinsale, | Munster, | Ywerddon, | Ewr. | 51 | 32 | 8 | 20 |
| Kiaw, | Ukraine, | Russia, | Ewr. | 50 | 30 | 31 | 12D. |
| Kola, | Lapland, | Russia. | Ewr. | 68 | 52 | 33 | 13 |
| Koningsberg, | Prussia, | Poland, | Ewr. | 54 | 43 | 21 | 35 |
| **L** | | | | | | | |
| Laguna, | Teneriffe, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 28G. | 16 | 13G. |
| Lahor, | Lahor, | Ind ddwyr. | Asia | 32 | 40 | 75 | 30D. |
| Lancaster, | S. Lancaster, | Lloegr, | Ewr. | 54 | 5 | 2 | 55 |
| Landau, | Rhîn isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 11 | 0 | 2 |
| Landscroon, | Schonen, | Sweden, | Ewr. | 55 | 52 | 12 | 51 |
| Lausanne, | Vaud, | Switzerland, | Ewr. | 46 | 31 | 6 | 50 |
| Leeds, | S. York, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 48 | 1 | 20G. |
| Leicester, | S Leicester, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 38 | 1 | 3 |
| Leipsic, | Saxoni, | Germani, | Ewr. | 51 | 19 | 12 | 25D. |
| Leith, | S. Edinburg, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 58 | 3 | 0G. |
| Leper, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 15 | 23D. | 168 | 3D. |

| *Enwau Dinasoedd.* | *Talaethau.* | *Gwlad, neu Fôr.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ′ | *Hydred.* ° | ′ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Leskard, | Cernyw, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 26G. | 4 | 36G. |
| Lesparre, | Gironde, | Ffrainc, | Ewr. | 45 | 18 | 0 | 52 |
| Leyden, | Holland, | Iseldir, | Ewr. | 52 | 10 | 4 | 32D. |
| Leige, | Ourte, | Iseldir, | Ewr. | 50 | 37 | 5 | 40 |
| Lima, | Peru, | Deheubarth America, | | 12 | 1D. | 76 | 44G. |
| Limeric, | S. Limeric, | Ywerddon, | Ewr. | 52 | 22G. | 8 | 48 |
| Limoges, | Vienne, | Ffrainc, | Ewr. | 45 | 49 | 1 | 2CD. |
| Lincoln, | S. Lincoln, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 15 | 0 | 27G. |
| Linlithgow, | S. Linlithgow, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 56 | 3 | 30 |
| Lintz, | Austria, | Germani, | Ewr. | 41 | 16 | 13 | 57D. |
| Lisbon, | Estremadura, | Portugal, | Ewr. | 38 | 42 | 9 | 4G. |
| Lisle, | Tal. gogl. | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 37 | 3 | 9D. |
| Litchfield, | S. Stafford, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 43 | 1 | 4G. |
| Londonderry, | Londonderry, | Ywerddon, | Ewr. | 55 | 0 | 7 | 40 |
| Loretto, | Tir y pab, | Itali, | Ewr. | 43 | 15 | 14 | 15D. |
| Louisburg, | Ynys Breton, | Gogledd-barth | Am. | 45 | 53 | 59 | 48G. |
| Lourain, | Brabant, | Iseldir, | Ewr. | 50 | 53 | 4 | 49D. |
| Louveau, | Siam, | Ind. ddwyr. | Asia | 12 | 42 | 100 | 56 |
| Lubec, | Holstein, | Germani, | Ewr. | 54 | 0 | 11 | 40 |
| St. Lucia, ynys, | Ind. orll. | Gogledd-barth | Am. | 13 | 24 | 60 | 46G. |
| Lunden, | Gothland, | Sweden, | Ewr. | 55 | 41 | 13 | 26D. |
| Lundy, Y. rhwng | Dyfnaint a Phenfro, | | Ewr. | 51 | 9 | 4 | 38G. |
| Luneville, | Meurthe, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 35 | 6 | 35 |
| Luxemburg, | Forests, | Iseldir, | Ewr. | 49 | 37 | 6 | 16 |
| Lyons, | Rhon a Loire, | Ffrainc, | Ewr. | 45 | 45 | 4 | 54 |
| LLUNDAIN, | Middlesex, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 31 | 0 | 0 |
| Llychlyn, | Rhwng Germani a Sweden, | | Ewrop. | | | | |

## M

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Macao, | Canton, | China, | Asia | 22 | 12G. | 113 | 51D. |
| Macassar, | Ynys Celebes, | Ind. ddwyr | Asia | 5 | 9D. | 119 | 53 |
| Madeira, ynys | | Mor Werydd, | Affr. | 32 | 37G. | 17 | 1G. |
| Madras, | Coromandel, | Ind. ddwyr. | Asia | 13 | 4 | 80 | 33D. |
| MADRID, | Castil newydd, | Yspaen, | Ewr. | 40 | 25 | 3 | 20 |
| Magdalena, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 10 | 25D. | 138 | 44G. |
| Mahon, Am. | Minorca, | Mor canoldir | Ewr. | 39 | 50G. | 3 | 53 |
| Majorca, y. | | Mor canoldir. | Ewr. | 39 | 35 | 2 | 34 |
| Malacca, | Malacca, | Ind. ddwyr. | Asia | 2 | 12 | 102 | 10 |
| Malines, | Brabant, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 1 | 4 | 33 |
| Mallicollo, Y. | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 15 | 167 | 44 |
| St. Maloes, | Morbihan, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 38 | 1 | 56 |
| Malta, | | Mor canoldir, | Affr. | 35 | 54 | 14 | 33 |
| Manilla, | Yn Philipine, | Ind. ddwyr. | Asia | 14 | 36 | 120 | 58 |
| MANTUA, | Mantua, | Itali, | Ewr. | 45 | 20 | 10 | 47 |
| Mariegalante, y. | | Mor werydd, | D. Am. | 15 | 55 | 61 | 6G. |
| Marseilles, | Aber Rhon, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 17 | 5 | 27D. |
| St. Martha, | St. Martha, | Terra Firma, | Ame. | 11 | 26 | 75 | 59G. |
| St. Martin, y. | Yn Carib, | Ind orll. | Ame. | 18 | 4 | 62 | 57 |
| Martinico, y. | Yn Carib. | Ind. orll. | Ame. | 14 | 44 | 61 | 5 |
| St. Mary, y. | Ynys Scilly. | Mor Werydd, | Ewr. | 49 | 57 | 6 | 38 |

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ′ | *Hydred.* ° | ′ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| St. Mary, Tr. | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 36 | 56D. | 25 | 6G. |
| Maskelyne, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 52D. | 168 | 4D. |
| Mauritius, | | Mor India, | Affr. | 20 | 9 | 57 | 34 |
| Maurua, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 25 | 152 | 37 |
| Mayence, | Mont Tonnere, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 54G. | 8 | 25G. |
| Mayo, ynys | Pen. Verd, | Mor Werydd, | Affr. | 15 | 10 | 23 | 0 |
| Meaux, | Sein a Marn, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 57 | 2 | 57D. |
| Mecca, | Arabia Felix, | Arabia. | Asia | 21 | 45 | 41 | 0 |
| Medina, | Arabia Felix, | Arabia, | Asia | 25 | 0 | 39 | 33 |
| Mequinez, | Fez, | Barbari, | Affr. | 34 | 30 | 6 | 0 |
| Merqui, | Siam, | Ind. ddwyr. | Asia | 12 | 12 | 98 | 13 |
| Messina, | Sicily | Itali, | Ewr. | 38 | 30 | 15 | 40 |
| Mexico, | Mexico, | Gogledd barth America, | | 19 | 54 | 100 | 0G. |
| St. Michael, y. | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 37 | 47 | 25 | 37 |
| Middleburg, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 21 | 20D. | 174 | 29 |
| Milan, | Milanese, | Itali, | Ewr. | 45 | 28G. | 9 | 16D. |
| Milford, | S. Penfro, | Cymru, | Ewr. | 51 | 43 | 5 | 15G. |
| Miate, Y. | | Mor mawr y de, | Asia | 17 | 52D. | 48 | 1 |
| Mocha, | Arabia Felix, | Arabia, | Asia | 13 | 40G. | 43 | 50D. |
| Modena, | Modena, | Itali, | Ewr. | 44 | 34 | 11 | 17 |
| Montague, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 17 | 26D. | 168 | 36 |
| Montpelier, | Herault, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 36G. | 3 | 37 |
| Montreal, | Canada, | Gogledd-America, | | 45 | 35 | 73 | 11G. |
| Montrose | Forfar, | Ysgotland, | Ewr. | 56 | 34 | 0 | 20 |
| Montserat, y. | Yn. Carib. | Ind. orll. | Am. | 16 | 47 | 62 | 12 |

Mor mawr y de, Rhwng Asia ac America.
- Adria, Rhwng Itali a Thwrci, Ewrop.
- Asoph, Tartari leiaf, Ewrop ac Asia.
- Bengal, Arfordir India, Asia.
- Biscay, Arfordir Ffrainc, a Yspaen, Ewrop.
- Casbin, Russia, Tartari, Asia.
- Du, Twrci yn Ewrop ac Asia.
- Ethiopia, Arfordir Guni, Affr.
- Gwyn, Rhwng Russia a Lapland, Ewrop.
- Hudson, Arfordir Labrador, G, America.
- India, Arfordir India, Asia.
- Marmora, Twrci yn Ewrop ac Asia.
- Melyn, Rhwng Tartari ddwyr. China a Korea.
- Ochotsk, Rhwng Siberia a Kamschatka.
- Udd, Rhwng Lloegr a Ffrainc, Ewrop.
- Ywerddon, Rhwng Prydain ac Ywerddon, Ewrop.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Morocco, | Morocco, | Barbari, | Affr. | 30 | 32G. | 6 | 10G. |
| Moscow, | Moscow, | Russia, | Ewr. | 55 | 45 | 37 | 38D. |
| Munic, | Bavaria, | Germani, | Ewr. | 48 | 9 | 11 | 35 |
| Munster, | Westphalia, | Germani, | Ewr. | 52 | 0 | 7 | 16 |

## N

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nagasachi, | Japan, | Mor mawr y de, | Asia | 32 | 32G. | 142 | 51D. |
| Namur, | Sambre a Meuse, | Iseldir, | Ewr. | 50 | 28 | 4 | 49 |
| Nanci, | Meurthi, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 41 | 6 | 10 |

| *Enwau lleodd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu Bor.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ' | *Hydred.* ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nankin, | Kiangan, | China, | Asia, | 32 | 4G. | 118 | 52D. |
| Nantes, | Loir isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 47 | 13 | 1 | 28G. |
| Naples, | Naples, | Itali, | Ewr. | 40 | 50 | 14 | 18D. |
| Narva, | Livonia, | Russia, | Ewr. | 59 | 0 | 27 | 35 |
| Newcastle, | Northumberland, | Lloegr, | Ewr. | 55 | 3 | 1 | 24G. |
| Newport, | Ynys Rhode, | Gogledd-barth | Am. | 41 | 35 | 71 | 6 |
| Nice, | Piedmont, | Itali, | Ewr. | 43 | 41 | 7 | 22D. |
| St. Nicholas, | Hispaniola, | Ind. orll. | Ame. | 19 | 49 | 73 | 24G. |
| Nieuport | Ffiandrys, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 7 | 2 | 50D. |
| Ningpo, | Shekiang, | China, | Asia | 29 | 57 | 120 | 23 |
| Norfolk, ynys | | Mor mawr y de, | Asia | 29 | 1D. | 168 | 15 |
| Noriton, | Pensylvania, | Gogledd-barth America, | | 40 | 9G. | 75 | 18 |
| Northampton, | S. Northampton, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 15 | 0 | 55 |
| Norwich, | Norfolk, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 40 | 1 | 25D. |
| Nottingham, | S. Nottingham, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 0 | 1 | 6G. |
| Nuremberg, | Ffrancouia, | Germani, | Ewr. | 49 | 27 | 11 | 12D. |

## O.

| *Enwau lleodd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu Bor.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ' | *Hydred.* ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ochotsk, | Siberia, | Russia, | Asia | 59 | 20G. | 143 | 17D. |
| Ohevahoa, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 9 | 40D. | 138 | 50G. |
| Ohitahoo, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 9 | 55 | 139 | 1 |
| Oleron, y. | Charante isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 46 | 2G. | 1 | 20 |
| Olinde, | Brasil, | Deheubarth America, | | 8 | 13D. | 35 | 0 |
| Olmutz, | Moravia, | Bohemia, | Ewr. | 49 | 30G. | 16 | 45D. |
| St. Omer, | Ffiandrys, | Iseldir, | Ewr. | 50 | 44 | 2 | 19 |
| Onateayo, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 9 | 58D. | 138 | 40G. |
| Oporto, | Douro, | Portugal, | Ewr. | 41 | 10G. | 8 | 22 |
| Oran, | Algiers, | Barbari, | Affr. | 36 | 30 | 0 | 5D. |
| Orenburg, | Ufa, | Russia, | Asia | 51 | 46 | 55 | 14 |
| L'Orient, Po. | Morbihan, | Ffrainc, | Ewr. | 47 | 55 | 3 | 20G. |
| Orleans, | Loiret, | Ffrainc, | Ewr. | 47 | 54 | 1 | 59D. |
| Orleans newydd, | Louisiana, | Gogledd-barth | Am. | 29 | 57 | 89 | 53G. |
| Ormus, | Ynys Ormicos, | Persia, | Asia | 26 | 50 | 57 | 0D. |
| Orotavo, | Teneriffe, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 23 | 16 | 19G. |
| Orsk, | Ufa, | Russia, | Asia | 51 | 12 | 58 | 37D. |
| Osnaburg, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 17 | 52D. | 148 | 1 |
| Ostend, | Ffiandrys, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 13G. | 3 | 0 |

## P.

| *Enwau lleodd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu Bor.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ' | *Hydred.* ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Padua, | Paduano, | Itali, | Ewr. | 45 | 22G. | 12 | 0D. |
| Paisley, | S. Renfrew, | Ysgotland, | Ewr. | 55 | 48 | 4 | 8G. |
| PALERMO, | Sicily, | Itali, | Ewr. | 38 | 30 | 13 | 43D. |
| Palliser, y. | | Mor mawr y de, | Asia, | 15 | 38D. | 146 | 25G. |
| Palma, y | Y. Canari, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 36G. | 17 | 45 |
| Palmerston, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 18 | 0D. | 162 | 52 |
| Palmyra, | Syria, | Twrci, | Asia | 33 | 0G. | 39 | 0D. |
| Panama, | Darien, | Terra Ffirma, | D. Am. | 8 | 47 | 80 | 16G. |
| Paoom, Y. | | Mor mawr y de, | Asia | 16 | 30D. | 168 | 33D. |
| Parma, | Parmasan, | Itali, | Ewr. | 44 | 45G | 10 | 51 |
| Pasg, y | | Mor mawr y de, | Ame. | 27 | 6D. | 109 | 41G. |

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad, neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ′ | *Hydred.* ° | ′ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Patna, | Bengal, | Ind. ddwyr, | Asia | 25 | 45G. | 83 | 0D. |
| Patrixfiord, | Ynys yr iâ, | Mor Werydd, | Ewr. | 65 | 35 | 14 | 5G. |
| Pau, | Pyren isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 45 | 15 | 0 | 4 |
| St. Paul, y. | | Mor yr India, | Affr. | 37 | 51D. | 77 | 53D. |
| Pegu, | Pegu, | Ind. ddwyr. | Asia | 17 | 0G. | 97 | 0D. |
| Pekin, | Pechee-le, | China, | Asia | 39 | 54G. | 116 | 29 |
| Pen y gogart, | Cymru, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 20 | 3 | 50G. |
| Penfro, | S. Penfro, | Cymru, | Ewr. | 51 | 45 | 4 | 50G. |
| Penrhyn Clear, | | Ywerddon, | Ewr. | 51 | 18 | 9 | 26 |
| Comorin, | | Ind. ddwyr. | Asia | 7 | 56 | 78 | 10D. |
| Finisterre, Galicia, | | Yspaen, | Ewr. | 52 | 51 | 9 | 12G. |
| Fflorida, | Fflorida D. | Gogledd-barth Am. | | 24 | 57 | 80 | 30 |
| Gobaith | | Caffraria, | Affr. | 34 | 29D. | 18 | 28D. |
| Gogledd, | Wardhus, | Lapland, | Ewr. | 71 | 10G. | 26 | 2 |
| Horn, | Terra del Fuego, | | D. Am. | 55 | 58D. | 67 | 21 |
| Penwaed, | Cernyw | Lloegr, | Ewr. | 49 | 57G. | 5 | 10 |
| Verd, | | Duantwys, | Affr. | 14 | 45 | 17 | 28 |
| St. Vincent, | Algarve, | Portugal, | Ewr. | 37 | 2 | 8 | 57 |
| PENSACOLA, | Fflorida, G. | Gogledd-barth | Am. | 30 | 22 | 87 | 20 |
| Penzance, | Cernyw, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 8 | 6 | 0 |
| Perigueux, | Dordogne, | Ffrainc, | Ewr. | 45 | 11 | 0 | 48D. |
| Perinaldi, | Genoa, | Itali, | Ewr. | 43 | 53 | 7 | 45 |
| Perth, | S. Perth, | Ysgotland, | Ewr. | 56 | 22 | 3 | 12 |
| Perth-Amboy, | York newydd, | Gogledd-barth | Am | 40 | 30 | 74 | 20 |
| PETERSBURG, | Angria, | Russia, | Ewr. | 59 | 56 | 30 | 24D. |
| St. Peter, y. | | Mor Werydd gogledd, | Am. | 46 | 46 | 46 | 12G. |
| St. Peter, Am. | Martinico, | Ind. orll. G. | Am. | 14 | 44G. | 61 | 16G. |
| Petropawloskoi, | Kamschatka | Russia, | Asia | 53 | 1 | 158 | 40D. |
| Philadelphia, | Pennsylvania, | | G. Am. | 39 | 56 | 75 | 9G. |
| St. Philip, Am. | Minorca, | Mor canoldir, | Ewr. | 39 | 50 | 8 | 53D. |
| Pickersgil, y. | | Mor Werydd deheuol | Am | 54 | 42D | 36 | 52G. |
| Pico, | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 38 | 28G. | 28 | 21 |
| Pinwydd, y. | Caledonia new. | Mor mawr y de, | Asia | 22 | 38D. | 167 | 43D. |
| Pisa, | Tuscani, | Itali. | Ewr. | 43 | 43G. | 10 | 17 |
| Placentia, | Newfoundland, | Gogledd-barth | Am. | 47 | 26 | 55 | 0G. |
| Plymouth, | Dyfnaint, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 22 | 4 | 10 |
| Plymouth, | Lloegr newydd, | Gogledd-barth | Am. | 41 | 48 | 70 | 25 |
| Pollingen, | Suabia, | Germani, | Ewr. | 47 | 48 | 10 | 48D. |
| Pondicherry, | Coromandel, | Ind. ddwyr. | Asia | 11 | 41 | 79 | 57 |
| Ponoi, | Lapland, | Russia, | Ewr. | 67 | 6 | 30 | 28 |
| Port Royal, | Jamaica, | Ind. orll. | Am. | 18 | 0 | 76 | 40G. |
| Port Royal, | Martinico, | Ind. orll. | Am. | 14 | 35 | 61 | 4 |
| Porto Bello, | Terra Firma, | Deheubarth | Am. | 9 | 33 | 79 | 45 |
| Porto Santo, y. | Madeira, | Mor Werydd, | Affr. | 32 | 51 | 16 | 20 |
| Portland, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 39 | 25D. | 178 | 17D. |
| Portland, y. | | Mor Werydd gogleddol, | Ewr. | 63 | 22G. | 18 | 40G. |
| Portsmouth, | S. Hamp, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 47 | 1 | 1 |
| Portsmouth, | Lloegr newydd, | gogledd-barth | Am. | 53 | 10 | 70 | 20 |
| Potosi, | Peru, | Debeu-barth | Am. | 21 | 0D. | 77 | 0G. |
| Prague, | | Bohemia, | Ewr. | 50 | 4G. | 14 | 50D. |

| *Enwau lleodd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad, neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ′ | *Hydred.* ° | ′ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Presburg, | | Hungari uchaf, | Ewr. | 48 | 20G. | 17 | 30D. |
| Preston, | S. Lancaster | Lloegr, | Ewr. | 53 | 45 | 2 | 50G. |
| Providence, | Lloegr newydd, | Gogledd-barth | Am. | 41 | 50 | 71 | 21 |
| Pulo Condor, y. | Mor India, | Ind. ddwyr. | Asia | 28 | 40 | 107 | 25D. |
| Pulo Timor, y. | Culfor Siam, | Ind. ddwyr. | Asia | 3 | 0 | 104 | 30D. |
| Pylestaart, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 22 | 23D. | 175 | 26G. |
| **Q** | | | | | | | |
| Quebec, | Canada, | Gogledd-barth | Am. | 46 | 55G. | 69 | 48G. |
| St. Quintin | Tal. ogleddol, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 50 | 3 | 22D. |
| Quito, | Peru, | Deheu-barth | Am. | 0 | 13D. | 77 | 50G. |
| **R** | | | | | | | |
| Ragusa, | Dalmatia, | Venice, | Ewr. | 42 | 45G. | 18 | 25D. |
| Ramhead, | Cernyw, | Lloegr, | Ewr. | 50 | 18 | 4 | 15G. |
| Ratisbon, | Bavaria, | Germani, | Ewr. | 48 | 56 | 12 | 5D. |
| Recif, | Brasil, | Deheubarth | Am. | 8 | 10D. | 35 | 30G. |
| Rennes, | Ile a Vilaine, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 6G. | 1 | 36 |
| Resolution, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 17 | 23D. | 141 | 40 |
| Rhe, ynys | Charante isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 46 | 14G. | 1 | 20 |
| Rheims, | Marne, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 14 | 4 | 7D. |
| Rhodes, Ynys | Rhodes, | Mor canoldir, | Asia | 36 | 20 | 28 | 0 |
| Riga, | Livonia, | Russia, | Ewr. | 56 | 55 | 24 | 0 |
| Rimini, | Romagna, | Itali, | Ewr. | 44 | 3 | 12 | 39 |
| Rio Janeiro, | Buasil, | Deheubarth | America | 22 | 54D. | 42 | 38G. |
| Rochelle, | Charante isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 46 | 9G. | 1 | 4 |
| Rochffort, | Charante isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 46 | 2 | 0 | 53 |
| Rodez, | Aveiron, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 21G. | 2 | 39D. |
| Rodrigues, y. | | Mor yr India, | Affr. | 10 | 40 | 63 | 15 |
| Rhufain, St. Pedr | Tir y pâb, | Itali, | Ewr. | 41 | 53 | 12 | 34 |
| Rotterdam, | Holland, | Iseldir, | Ewr. | 51 | 56 | 4 | 35 |
| Rouen, | Seine isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 26 | 1 | 0G. |
| **S** | | | | | | | |
| Saba, y. | Mor Carib. | Ind. orll. | Am. | 17 | 39G. | 63 | 12G. |
| Sagan, | Silesia, | Germani, | Ewr. | 51 | 42 | 15 | 27D. |
| St. Augustin, | Florida | D. Gogledd-barth | Am. | 29 | 45 | 81 | 12G. |
| St. Domingo, | Mor Carib. | Ind. orll. | Am. | 18 | 20 | 70 | 0 |
| St. Jago, | Chili, | Deheu-barth | Am. | 34 | 0D. | 77 | 0 |
| St. Salvadore, | Brasil, | Deheu-barth | Am. | 11 | 58 | 38 | 0 |
| Salisbury, | S. Wilt, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 0G. | 1 | 45 |
| Sall, y. | Mor Werydd | gogleddol, | Affr. | 16 | 38 | 22 | 51 |
| Salonichi, | Macedonia, | Twrci, | Ewr. | 40 | 41 | 23 | 13 |
| Salvage, y. | Mor Werydd | gogleddol, | Affr. | 30 | 0 | 15 | 49 |
| Samana, | Hispaniola, | Ind. orll. | Am. | 19 | 15 | 69 | 11 |
| Samarcand, | Usbec, | Tartari, | Asia | 40 | 40 | 69 | 0D. |
| Sandwich, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 17 | 41 | 168 | 38 |
| Santa Cruz, | Teneriffe, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 27 | 16 | 11G. |
| Santa Ffe, | Mexico newydd, | gogledd-barth | Am. | 36 | 0 | 105 | 0 |
| Saunders, y. | Georgica dde, | Mor Werydd, | D. A. | 58 | 0D. | 26 | 43 |

| Enwau Dinoedd. | Taleithiau. | Gwlad, neu For. | Cyfran. | Lledred. ° | ' | Hydred. ° | ' |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Savage, y. | | Mor mawr y de, | Asia | 19 | 2G. | 169 | 25G. |
| Savannah, | Georgia, | Gogledd-barth | Am. | 31 | 55 | 80 | 20 |
| Sayd, | Aipht uchaf, | | Affr. | 27 | 0 | 32 | 20D. |
| Scarborough, | S. York, | Lloegr, | Ewr | 54 | 18 | 0 | 10G. |
| Schwetzingen, | Rhine isaf, | Germani, | Ewr. | 49 | 23 | 8 | 45D. |
| Scone, | S. Perth, | Ysgotland, | Ewr. | 56 | 24 | 3 | 10G. |
| Sedan, | Ardennes, | Ffrainc, | Ewr. | 49 | 44 | 5 | 2D. |
| Senegal, | | Duantwys, | Affr. | 15 | 53 | 16 | 26G. |
| Seville, | Andalusia, | Yspaen, | Ewr. | 37 | 15 | 6 | 5 |
| Sheerness, | Caint, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 25 | 0 | 50D. |
| Shepherd. y. | | Mor mawr y de, | Asia, | 16 | 58D. | 168 | 47 |
| Shields, | Durham, | Lloegr, | Ewr. | 55 | 2G. | 1 | 15 |
| Siam, | Siam, | Ind. ddwyr. | Asia. | 14 | 18 | 100 | 55 |
| Sidon, | Tir Sanctaidd, | Twrci, | Asia, | 33 | 33 | 36 | 15 |
| Si-gham-fu, | Shensi | China, | Asia, | 34 | 16 | 108 | 48 |
| Sisteron, | Alp isaf, | Ffrainc, | Ewr. | 44 | 11 | 6 | 1G. |
| Smyrna, | Natolia, | Twrci, | Asia, | 38 | 28 | 27 | 24D. |
| Sombavera, Y. | Mor. Carib. | Ind. orll. G. | Am | 18 | 38 | 63 | 32G. |
| Soolo, y. | Ynys Phillipine, | Ind ddwyr. | Asia, | 5 | 57 | 121 | 20D. |
| Southampton, | S. Hamp. | Lloegr, | Ewr. | 50 | 55 | 1 | 25G. |
| Spa, | Ourte, | Ffrainc, | Ewr. | 50 | 30 | 5 | 40D. |
| Stafford, | S. Stafford, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 50 | 2 | 0G. |
| Sterling, | S. Sterling, | Ysgotland, | Ewr. | 56 | 10 | 3 | 50 |
| Stockholm, | Upland, | Sweden, | Ewr. | 59 | 20 | 18 | 8D. |
| Stralsund, | Pomerania, | Germani, | Ewr. | 54 | 23 | 13 | 22 |
| Strasburg, | Rhin isaf, | Ffrainc, | Ewr | 48 | 34 | 7 | 46D. |
| Straumness, | Ynys yr iâ, | Mor Werydd, | Ewr | 65 | 39 | 24 | 24G. |
| Suez, | Suez, | Aipht, | Affr. | 29 | 50 | 33 | 27D. |
| Sulgwyn, y. | | Mor mawr y de, | Asia, | 15 | 44D. | 168 | 25 |
| Sultz, | Rhin uchaf, | Ffrainc, | Ewr. | 47 | 53G. | 7 | 9G. |
| Sunderland, | Durham, | Lloegr, | Ewr. | 54 | 55 | 1 | 10 |
| Surat, | Guzerat, | Ind. ddwyr, | Asia, | 21 | 10 | 72 | 27D. |
| Surinam, | Surinam, | Deheu-barth | America, | 6 | 0 | 55 | 30G. |
| Syracuse, | Y. Sicily, | Itali, | Ewr. | 36 | 58 | 5 | 6D. |

T.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tabl. y. Hebrides, new. | | Mor mawr y de, | Asia, | 15 | 38D. | 167 | 12D. |
| Tanjore, | Tanjore, | Ind. ddwyr. | Asia, | 11 | 27G. | 79 | 7 |
| Tanna, y. | | Mor mawr y de, | Asia, | 19 | 32D. | 169 | 46 |
| Taoukaa, y. | | Mor mawr y de, | Asia, | 14 | 30 | 145 | 4G. |
| Tauris, | Adeirbeitzan, | Persia, | Asia, | 38 | 20G. | 46 | 30D. |
| Teflis, | Georgia, | Persia, | Asia, | 43 | 30 | 47 | 0 |
| Temoontengis, | Soloo, | Ind ddwyr. | Asia, | 5 | 57 | 120 | 58 |
| Teneriffe, | Canaries, | Mor Werydd, | Affr. | 28 | 12 | 16 | 24G. |
| Tercera, y, | Azores, | Mor Werydd, | Ewr. | 38 | 45 | 27 | 1 |
| Tetuan, | Fez, | Barbari, | Affr | 35 | 40 | 5 | 18 |
| St. Thomas, y. | Y. Gwyryfon, | Ind. orll. | Ame. | 18 | 21 | 64 | 26 |
| Thorn, | Prussia, | | Ewr. | 52 | 56 | 19 | 0 |
| Timor, | | Ind ddwyr. | Asia, | 10 | 23D. | 124 | 4D. |
| Tobolsk, | Siberia, | Russia, | Asia, | 58 | 12G. | 68 | 17 |

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* ° | ′ | *Hydred.* ° | ′ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toledo, | Castil, new. | Yspaen, | Ewr. | 39 | 50G. | 3 | 25D. |
| Tomsk, | Siberia, | Russia, | Asia, | 56 | 29 | 85 | 4 |
| Tongataboo, | | Mor mawr y de, | Asia, | 21 | 9D. | 174 | 41G. |
| Tornea, | Bothnia, | Sweden, | Ewr. | 65 | 50G. | 24 | 17D. |
| Toulon | Var, | Ffrainc, | Ewr. | 43 | 7 | 6 | 1 |
| Trapesond, | Natolia, | Twrci, | Asia, | 41 | 50 | 40 | 30 |
| Tremynfa Greenwich, | Caint, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 28 | 0 | 5D. |
| Paris, | Y. Ffrainc, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 50 | 2 | 25 |
| Rhydychain, | S. Rhyd. | Lloegr, | Ewr. | 51 | 45 | 1 | 10G. |
| Trent, | Trent, | Germani, | Ewr. | 46 | 5 | 11 | 2D. |
| Tripoli, | Tripoli, | Barbari, | Affr. | 32 | 53 | 13 | 12 |
| Tripoli, | Syria, | Twrci, | Asia, | 34 | 30 | 36 | 15D. |
| Tunis, | Tunis, | Barbari, | Affr. | 36 | 47 | 10 | 0 |
| Turin, | Piedmont, | Itali, | Ewr. | 45 | 5 | 7 | 45 |
| Turtle, y. | | Mor mawr y de, | Asia, | 19 | 48D. | 178 | 2G. |
| Tyre, | Palestine, | Twrci, | Asia, | 32 | 32G. | 36 | 0D. |
| Tyrnaw, | Trentschin, | Hungari, | Ewr. | 48 | 23 | 17 | 38 |
| Tyw. Cym. Am. | Gwynedd, new. | | G. Am. | 58 | 47G. | 94 | 2G. |

U.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ulietea, y. | | Mor mawr y de, | Asia. | 16 | 45D. | 151 | 26G. |
| Upsal, | Upland, | Sweden, | Ewr. | 59 | 51G. | 17 | 43D. |
| Uraniburg, | Y. Hueu, | Denmarc, | Ewr. | 55 | 54 | 12 | 57 |
| Ushant, y. | Ffinisterre, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 28 | 4 | 59G. |
| Utrecht, | Holland, | Iseldir, | Ewr | 52 | 7 | 5 | 0D. |
| Venice, | Venice, | Itali, | Ewr. | 45 | 26 | 11 | 59 |
| Vera Cruz, | Mexico, | Gogledd-barth America, | | 19 | 12 | 97 | 25G. |
| Verona, | Veronese, | Itali, | Ewr | 45 | 26 | 11 | 23D. |
| Versailles, | Seine ac Oise, | Ffrainc, | Ewr. | 48 | 48 | 2 | 12 |
| Vienna, | Austria, | Germani, | Ewr | 48 | 12 | 16 | 22 |
| Vigo, | Galicia, | Yspaen, | Ewr. | 42 | 14 | 8 | 23G. |
| Vintimeglia, | Genoa, | Itali, | Ewr. | 43 | 53 | 7 | 42D. |
| Wakeffield, | S York, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 41 | 1 | 28G. |
| Wardhus, | Lapland, | | Ewr. | 70 | 22 | 31 | 11D. |
| Warsaw, | Masovia, | Pwyl Prussia, | Ewr. | 52 | 14 | 21 | 5 |
| Warwic, | S. Warwic, | Lloegr, | Ewr | 52 | 18 | 1 | 32G. |
| Waterford, | Munster, | Ywerddon, | Ewr. | 52 | 12 | 7 | 16 |
| Wells | Gwlad yr haf, | Lloegr, | Ewr. | 51 | 12 | 2 | 40 |
| Westman, y. | | Mor Werydd gogleddol, | Ewr. | 63 | 20 | 20 | 22 |
| Whitehaven, | Cumberland, | Lloegr, | Ewr. | 54 | 38 | 3 | 36 |
| Wicklow, gol. | S Wicklow, | Ywerddon, | Ewr. | 52 | 59 | 6 | 1 |
| Williamsburg, | Virginia, | Gogledd-barth | Am. | 37 | 12 | 76 | 48 |
| Willes, y. | Georgia dde, | Mor Werydd, | Am | 54 | 0D. | 38 | 24 |
| Wilna, | Lithuania, | Poland, | Ewr. | 54 | 41G. | 25 | 32D. |
| Winchester, | S Hamp. | Lloegr, | Ewr. | 51 | 6 | 1 | 15G. |
| Wittenburg, | Saxoni uchaf, | Germani, | Ewr | 51 | 43 | 12 | 46D. |
| Wologda, | Wologda, | Russia, | Ewr. | 59 | 19 | 41 | 50 |
| Worms, | Mont Tonnere, | Ffrainc, | Ewr | 49 | 38 | 8 | 5 |
| Worcester, | Worcester, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 9 | 2 | 0G. |

| *Enwau lleoedd.* | *Taleithiau.* | *Gwlad, neu For.* | *Cyfran.* | *Lledred.* | | *Hydred.* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ° | ′ | ° | ′ |
| Woslac, | | Russia, | Ewr. | 61 | 15G. | 42 | 20D. |
| Wurtzburg, | Ffranconia, | Germani, | Ewr. | 49 | 46 | 10 | 18 |

Y

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yakutsk, | Siberia, | Russia, | Asia, | 62 | 1G. | 129 | 52D. |
| Yarmouth, | S. Norffolk, | Lloegr, | Ewr. | 52 | 45 | 1 | 48 |
| York, | S. York, | Lloegr, | Ewr. | 53 | 59 | 1 | 6G. |
| York newydd, | York new. | Gogledd-barth | Am. | 40 | 40 | 74 | 0 |
| Yorkminster, | Terra del Fuego, | Deheu-barth | Am. | 55 | 26 | 70 | 3 |
| Ynysfor, | Ynysoedd Groeg, | Ewrop, | Mor y canoldir. | | | | |

# Cyfarchwyliadau Daearyddawl

NEU

## *DDYWEDIADAU DIWRTHEBAIR.*

## I. O BERTHYNAS I LEDRED.

1. NID oes lledred yn perthyn i unrhyw leoedd sydd yn gorwedd dan y Cyhydedd, oherwydd mae o'r Cyhydedd mae graddau lledred yn cael eu cyfrif.

2. O dan begynau y Cyhydedd mae graddau lledred fwyaf, sef 90 gradd, oherwydd bod cyfrif lledred yn terfynu yn y pegynau.

3. Wrth fyned oddiwrth y Cyhydedd tu ag at y pegynau, mae y graddau lledred yn cynnyddu; ond wrth nesu at y Cyhydedd y maent yn lleihau.

4. Po mwyaf fyddo lledred unrhyw le, pellaf ydyw oddiwrth y Cyhydedd.

5. Mae lledred unrhyw le yn gyfartal i uchder y pegwn oddiar y terfyngylch. Dan y Cyhydedd, mae y pegwn yn ymddangos yn y terfyngylch, felly nid yw y lledred yn ddim, a phan fyddo y pegwn yn nen-bwnc, rhaid i'r lledred fod yn 90°.

6. Mae uchder y Cyhydedd oddiar y terfyngylch yn gyfartal i'r hyn mae y lledred yn fŷr o 90 gradd.

7. Rhaid i wahaniaeth lledred pob lleoedd rhwng y pegynau fod yn llai na 180 gradd.

## II. O BERTHYNAS I HYDRED.

8. Nid oes hydred yn perthyn i unrhyw leoedd sydd yn gorwedd dan y paladr-canol-ddydd a gyfrifir y cyntaf, oherwydd mai oddiwrtho mae hydred dwyrain a gorllewin yn deillio.

9 Y lleoedd sydd a'r hydred mwyaf yw perthyn iddynt, yw y cyfryw ag sydd yn gorwedd ar y tu cyferbynol i'r paladr canol-ddydd y dechreuir yr hydred o hono.

10. Ni all gwahaniaeth hydred unrhyw ddau le fod yn ychwaneg na 180 o raddau.

11. Nid oes gan y cyfryw le ag sydd dan y Cyhydedd yn y man y mae'r paladr canol-ddydd cyntaf yn myned trwyddo, na hydred na lledred.

12. Ni all unrhyw ddau le fod dros 180 o raddau y naill oddiwrth y llall, oherwydd mai 180 gradd yw hanner cylch mawr.*

13. Wrth fal y mae ymdeithydd yn newid ei sefyllfa, mae ei nenbwnc a'i derfyngylch gweledig yn newid.

14. Wrth gyfeirio mewn dull gwyrog rhwng y paladr canol-ddydd a lledred gyfochrawl, bydd i'r lleoedd a ddelir yn olynol iddynt, amrywio mewn hydred a lledred.

---

## III. O BERTHYNAS I AMSER.

15. Mae holl drigolion y ddaear yn mwynhau goleuni yr Haul dros amser cyfartal, ac y mae ei absenoldeb iddynt hefyd yn gyfartal.

16. Mae dydd a nos yn wastad o dan y Cyhydedd yn 12 awr bob un o hyd, ond nid ydynt felly yn unrhyw le arall.

17. Nid yw dydd a nos yn gyfartal yn unrhyw leoedd rhwng y Cyhydedd a'r pegynau, ond y dydd y byddo yr Haul ar y Cyhydedd.

18. Mae gwahaniaeth hydau yn nydd a nos yn unrhyw le yn fwy, yn ol y byddo lledred y lle yn fwy.

19. Mae yr holl drigolion y sydd yn byw dan yr un lledred gyfochrawl, pa du bynag o'r ddaear y byddont, yn mwynhau yr un hyd o ddydd a nos ar yr un amser o'r flwyddyn.

20. Mae pob lleoedd y sydd o bellder cyfartal oddiwrth y Cyhydedd, y naill ar y tu gogledd a'r lleill ar y tu de, yn mwynhau yr un hyd o ddydd a nos a'u gilydd, ond ar wahanol dymhorau o'r flwyddyn.

21. Yn mhob lle tan yr un hanner cylch paladr canol-ddydd o du de a gogledd i'r Cyhydedd, mae hanner dydd, hanner nos, neu unrhyw awr arall yn digwyddo ar yr un amser yn union.

22. Lleoedd y sydd i'r dwyrain o unrhyw le arall, ydynt yn cael eu boreu a'u hwyr yn nghynt nag yn y cyfryw le y sydd i'r gorllewin, yn ol un awr am bob 15 gradd yn dwyreiniol.

23. Lleoedd y sydd i'r gorllewin o unrhyw le arall ydynt yn cael eu boreu a'u nawn yn hwyrach nag yn y cyfryw le y sydd i'r dwyrain, yn ol un awr am bob 15 gradd yn orllewinol.

24. Yn mhob lleoedd rhwng y Cyhydedd a'r pegwn gogleddol, mae y dydd hwyaf a'r nos feraf yn digwyddo pan y byddo gogwyddiad

* Gwel Cylchoedd Seryddiaeth, ar Dalen 62.

gogleddol yr Haul fwyaf; a'r dydd byraf a'r nos hwyaf pan y byddo ei ogwyddiad deheuol fwyaf.

25. Yn mhob lleoedd rhwng y Cyhydedd a'r pegwn de, mae y dydd hwyaf a'r nos feraf yn digwyddo pan y byddo gogwyddiad de yr Haul fwyaf, a'r dydd byraf a'r nos hwyaf pan yw ei ogwyddiad gogleddol fwyaf.

26. Yn mhob lleoedd yn union dan y cylchoedd pegynol mae'r Haul yn ymddangos bob dydd yn ei ogwyddiad mwyaf, am un diwrnod heb fachlud; ac am un dydd cyfan arall heb godi; ond yn codi ac yn machlud ar ddyddiau ereill yn y lleoedd hyny fal mewn lleoedd ereill.

27. Yn mhob parth o'r cylchoedd rhewlyd, mae yr Haul am gynifer o ddyddiau bob blwyddyn yn ymddangos heb fachlud; ac yna yn myned o'r golwg yn llwyr am o ddeutu cyhyd amser. A pho nesaf i'r pegwn neu po bellaf oddiwrtho y byddo y cyfryw leoedd, hwyaf neu fyraf fydd ei bresenoldeb neu ei guddiad ynddynt.

28. Byddai i ddyn a elai i'r dwyrain yn gyflawn o amgylch y ddaear, ennill diwrnod cyfan yn ol ei gyfrif ef at y cyfrif a gedwid yn y lle yr aethai o hono. Ond, os i'r gorllewin yr ymdeithiai byddai ddiwrnod ar ol y cyfrif a gedwid yn y lle hwnw.

29. Ped elai dau ddyn o'r un lle ar yr un pryd i amgylchu y Ddaear, un yn myned i'r dwyrain a'r llall i'r gorllewin, byddai ddeu-ddydd cyflawn o wahaniaeth yn eu cyfrif.

## IV. O BERTHYNAS I SEFYLLFA YR HAUL.

30. Mae yr Haul i bob lleoedd yn y gwregys poeth yn y nen-bwnc ddwy waith bob blwyddyn; i'r lleoedd sy dan y trofeydd, unwaith; ond nid yw byth yn nen-bwnc unrhyw leoedd yn y gwregysoedd claiarol a rhewlyd.

31. Nid oes dim hyd cysgod i unrhyw wrthddrych y byddo yr Haul yn ei nen-bwnc.

32. Pan y byddo cyfartal ddydd a nos, mae yr Haul i drigolion y Cyhydedd yn union yn y dwyrain trwy'r boreu, ac felly eu cysgod yn syrthio i'r gorllewin; ac yn y gorllewin trwy'r prydnhawn, a'u cysgod yn cyfeirio i'r dwyrain.

33. Mae y bobl y sydd yn byw ar du gogledd y gwregys poeth yn gweled yr Haul yn y de ar ganol dydd; ac felly y rhai ar du de y gwregys poeth yn ei weled yn y gogledd ar ganol dydd.

34. Mae cysgod y sawl y sydd yn gweled yr Haul i'r gogledd, yn syrthio i'r deau, ond pan welont yr Haul yn y de, mae y cysgod yn ymgyfeirio i'r gogledd.

35. Po lleiaf fyddo y lledred o'r tu allan i'r gwregys poeth, lleiaf fydd y cysgod canol-ddydd, a pho mwyaf y lledred, mwyaf fydd cysgod

canol-ddydd, unrhyw. Ond o fewn y gwregys poeth, po nesaf fyddo'r Haul i'r nen-bwnc, lleiaf fydd y cysgod canol-ddydd; a pho pellaf fyddo, mwyaf fydd.

36. Yn mhob parth o'r Ddaear, pan y byddo yn dynodi pêl *gyfartal*, mae cylch dyddiol symudiad yr Haul yn cyfochri yn wastad â therfyngylch y cyfryw le, yr hyn ni all fod ond yn y pegynau.

37. Yn mhob parth o'r Ddaear pan y byddo yn dynodi pêl *ddiosgo*, mae cylch dyddiol symudiad yr Haul yn union-syth, neu yn agos felly, i derfyngylch y cyfryw leoedd, y rhai sy raid fod dan y Cyhydedd.

38. Yn mhob parth o'r Ddaear pan y byddo yn dynodi pêl *wyrog*, mae cylch dyddiol symudiad yr Haul yn myned ar draws y terfyngylch, ac felly yn llunio onglau anghyfartal Mae y cyfryw sefyllfa wyrog yn perthynu i bob cwr o'r Ddaear sy rhwng y Cyhydedd a'r pegynau.

39. Ar y dyddiau cyhydeddol yn unig mae yr Haul yn codi yn union yn y dwyrain, ac yn machlud yn y gorllewin i bob parth o'r Ddaear.

40. I bob cwr o'r arddrych ogleddol mae yr Haul yn codi i'r gogledd o'r dwyrain, ac yn machlud i'r gogledd o'r gorllewin o alban Eilir i alban Elfed; ac yn codi i'r de o'r dwyrain ac yn machlud i'r de o'r gorllewin o alban Elfed i alban Eilir.

41. Po pellaf fyddo unrhyw le oddiwrth y Cyhydedd, heb fyned heibio y cylchoedd pegynol, mwyaf fydd *amplitude* yr Haul. Mae yr *amplitude* mwyaf yn digwyddo ar y dyddiau gorsafol haf a gauaf.

42. I bob parth o'r gwregys poeth, mae gwawr bwyr a boreu fyraf; i barthau y gwregys rhewlyd yn fwyaf; ac i'r gwregysau claiarol mae y cyfryw yn ganolig rhwng y ddwy eithafnod.

# Dangoseg i'r Rhan seryddawl.


**A** TU DALEN.

Albanau Eilir, &c. ............ 57
Aristarchus y seryddwr ........ 5
Arwyddion ...... ...... 14
Awyrgylch .................. 56
ei thrwch ........ 57

**B**

Barn Newton am oleuni ...... 55
Blwyddyn, ei hyd .. .......... 41
Julius Cæsar ........ 43

**C**

Caer arianrod ................ 16
Ceres blaned ................ 13
Copernicus y seryddwr ........ 6
Crynoad y Ddaear ...... ..... 2
Cyfartaliad amser ............ 39
Cyfecheliad terfyngylchol ...... 54
Cyfrif newydd .............. 46
Cyhydedd . ................ 17
Cylch gorsafol .............. 18
cyfddeau ........... IBID.
cyfogledd ........... IBID.
cyhydedol .......... IBID.
Cylch Seryddiaeth .... ..... 17
Cyfarchwyliadau Daearyddawl.. 92

**D**

Daear-grynfâau .............. 60
Ddaear .... .............. 8
yn gyfrgron .......... 2
nad bi yw canol-bwnc y Ddosbarth ........ 5
Defnydd a Symudiad ........ 20
Diffygiau yr Haul a'r lleuad .. 29
Diwygiad y calendar .......... 40
Dosbarth yr Haul ........... 4
Ptolomy ............ 6
Tycho ........ IBID.
Newton .......... IBID.
Dydd a nos, eu hyd .......... 35
Dyfr-bistyll ................ 64

**E**

Eglurhad enwau Seryddawl .... 66
Englyn i'r 12 arwydd .......... 17
Epact ....... ............. 45

**G**

Galileo y Seryddwr ............ 5
Georgium Sidus ... .......... 11
Goleuni gogledd .... .......... 58
Gor-blanedau, pa rai ydynt .... 5
Gwener ............. .... 7
Gwregysau ....... .......... 18
Gwrthdröad goleuni ......... 56
Gwynt .................... 8

**H**

Haul, ei faintioli .............. 50
corff mwyaf y ddosbarth .. 20
yn fwy na'r ddaear ...... 4
yn fyd o dân .. ....... 6
yn nes i'r ddaear yr haf na'r gauaf ........... 38
Heulrawd .... 6, .......... 17
Hingylchoedd ............ ... 19

**I** TU DALEN.

Iou, planed ................ 10
Juno, planed .............. 13

**L**

Llanw a thrai'r mor .......... 21
Llatheu Fair ........ ..... 16
Lleuad, ei maint, &c. ........ 9
Lleuadau Iou .............. 10
Llwybr llaethog ............ 16

**M**

Maint y ddaear ............ 8
y bydoedd fry. ........ 50
Mawrth .. ........... 10
Mellt a tharanau ............ 50
Merchyr .................. 7
Mesuriad y ddaear ...... .... 46
pellder y bydoedd fry 53
cyffredinol .......... 64
arwynebol .......... 65
Seisonig. ........ IBID.
Ysgrythyrol ...... IBID.
Mis, ei hyd .... ............ 41

**P**

Paladr canol-ddydd .......... 17
Pallas ... .. .......... 13
Pasg, ei amser ....... ...... 44
Peiriant y tân dyniad .......... 58
Pellder y bydoedd fry ...... 12, 50
Prif symudydd .............. 6
Primum Mobile .......... IBID.
Pwys a thyniad .. ...... .... 23
Pythagoras ................ 6

**R**

Rhesymau i brofi crynöad y ddaear .................. 2

**S**

Sadwrn .................... 11
Sefyllfa'r ser sefyd'og .......... 15
Seren foreu ................ 8
hwyrol ....... IBID.
Ser gwib .................. 12
sefydlog ........... 14
Seryddiaeth ................ 18
Sidydd .................... 14
Symudiad y ddaear ........... 4
goleuni .......... 55
Taflen cyfartaliad amser ........ 40
diffygiau ........... 32
dyddiau'r mis .......... 27
Epact, &c. ............ 28
llanw'r mor ............ 26
Terfyngylch ................ 18
Trawsiad gwener ............ 53
Tremiadau goleuni .......... 55
Trofeydd yr afr ........... .. 18
y granc ........... IBID.
Tymhorau'r flwyddyn .......... 35

**U**

Uranus .................... 11
Vesta ...................... 13

**W**

Wythnos, ei hyd. ............ 41

# DAEARYDDIAETH.

DAEARYDDIAETH sydd gelfyddyd yn desgrifio amrywiol ranau y Ddaear, sef, ei moroedd, mynyddoedd, afonydd, llynau, ynysoedd, &c. hefyd yr amrywiol ymerodraethau, teyrnasoedd, trefydd, &c. yn nghyd a sefyllfa, a symudiad y ddaear yn ei gorsaf amgylchynol, yn llunio ei blynyddoedd, ei thymhorau, a'i dydd a nos.

Mae ein gwybodaeth o'r gelfyddyd hon, gwedi deillio oddiwrth y sylwiadau à wnaeth ein hynafiaid o dro i dro yn amrywiol wledydd y ddaear. Ni a allwn gyfrif Homer y groegwr yn mhlith y daearyddion cyntaf; yr hwn lawer o oesoedd cyn cred a ddesgrifiodd amryw wledydd; ond mae eu hansawdd y pryd hyny yn anhysbys yn bresennol. Alexander fawr yn ei deithiau wrth oresgyn amryw wledydd yn Ewrop, Asia, ac Affrica, a oedd yn cadw daear-ddarluniwyr yn ei fyddinoedd i sylwi ar y bröydd yr oeddynt yn teithio trwyddynt. Yr un modd y bu i Ptolomy Evergetus wrth arwain ei fyddinoedd i Abyssinia, gael gwybodaeth helaeth am y wlad bell honno. Y Rhufeiniaid gwedi ennill gwledydd Ewrop; a fuant ofalus wrth lunio ffyrdd teg, i olrhain daeargraffyddiaeth pob gwlad. Christopher Columbus, hefyd, wrth chwilio am lwybr gorllewinol dros y dyfnder i'r India ddwyreiniol, a diriodd yn America. Ereill wrth amgylchu y ddaear, ac olrhain bröydd anadnabyddus, a ddarganfuasant wledydd ëang, ac ynysoedd ffrwythlon, yn gyfaneddol gan hil Adda. Felly braidd nad ydyw yr oes bresennol yn gydnabyddus a phob ardal ar wyneb daear.

RHANAU Y DDAEAR.] Y ddaear sydd gwedi ei dosbarthu yn bedair rhan, y rhai a elwir Ewrop, Asia, Affrica ac America. Y tair cyntaf ydynt yn terfynu ar eu gilydd yn yr arddrych ddwyreiniol, a'r olaf yn llunio y bedwerydd gyfran, yn un cyfandir, yn yr arddrych orllewinol. Yr oeddid yn barnu bod tir ëang yn gor-lenwi cyffiniau y mor cyfddeau, hyd o fewn y 40 mlynedd yn ol, pan y bu i'r morwr enwog James Cook yn ei ail fordwyad o gylch y ddaear, brofi i'r gwrthwyneb. Amgylchodd ef y mor cyfddeau, ac ni welodd onid clogwyni o rew oesol yn llenwi pob rhan o'i wyneb.

Mae daearyddion yn anghytuno o berthynas i rifedi trigolion y ddaear. Mr. Pinkerton sydd yn dywedyd mai 500,000,000 sydd yn Asia; a chyfrif 330,000,000 o honynt yn ymerodraeth China; 50,000,000 yn Affrica, 70,000,000 yn America, a 150,000,000 yn Ewrop.* Ond, mae yr Encyclopedia Londinensis yn dywedyd bod ychwaneg o lawer, canys wrth ei gyfrif ef mae holl drigolion y ddaear o ddeutu 1,060,000,000.†

Dywed y dysgedig Dr. Hunter, mai dyma ydyw lliwiau amrywiol genedlaethau y ddaear.

---

* Oct. Edit. p. 2. † Vol. 8. p. 412.

DU. Trigolion canol-barthau Affrica.
Trigolion Guni newydd.
Trigolion Holand newydd.

GWINEUDDU. Y bobl a elwir Mooriaid yn ngogledd-barth Affrica a'r Hotentottiaid yn ei rhanau deheuol.

GWINEU. Yr Indiaid dwyreiniol.

COCH. Trigolion America.


COCH-DDU. Y Tartariaid.
Persiaid.
Arabiaid.
Trigolion Affrica ar lenydd Mor y canoldir.
Trigolion China.

GWINEU-GOCH. Trigolion parthau deheuol Ewrop, megys,
Siciliaid.
Abyssiniaid.
Yspaeniaid.
Twrciaid.
Samoediaid.
Laplandiaid.

GWYN. Y parth mwyaf o drigolion Ewrop, megys,
Swediaid.
Daniaid.
Prydeiniaid.
Trigolion Germani.
Trigolion Poland.
Trigolion parthau deheuol Russia.
Georgiaid.
Trigolion ynysoedd mor mawr y de.*

GWYNEB Y DDAEAR.] Mae yr amlygiadau diweddaraf yn profi bod ychwaneg na dwy ran o dair o wyneb y belen ddaearol yn orchuddiedig gan foroedd. Mae yr arddrych ogleddol yn cynnwys mwy ddwywaith o dir, na'r arddrych ddeheuol: hyn a roddes rym i'r dychymygion o gylch cyfandir deheuol, i gyfartalu a'r un gogleddol. Y mor o herwydd ei undeb cyffredin sydd megys un, eto dosberthir ef yn amrywiol ranau. Y rhan fwyaf ag sydd yn gorchuddio bron haner ei wyneb, ydyw y mor tawel, neu mor mawr y de, yr hwn sydd a'i barthau dwyreiniol yn golchi glenydd gorllewinol America ar ei hyd o gyfyngfor Bering yn y gogledd, heibio i Cape Horn i'r cylch cyfddeau; a'i barthau gorllewinol sydd yn derfyn i lenydd dwyreiniol Asia. Ei wyneb sydd yn cael ei fritho gan liaws o fan ynysoedd, y rhai yn gyffredin ydynt fal cynifer o flaenau mynyddoedd yn tarddu o'r dyfnder. Mor mawr arall ydyw y mor werydd, neu yr Atlantic, yr hwn sydd yn llifo rhwng Ewrop ac Asia ar un tu, a glenydd dwyreiniol America ar y tu arall: i'r gogledd mae yn ymuno a'r mor cyfogledd: enw a roddir i'r mor sydd rhwng parthau gogleddol Ewrop, Asia, ac America, a'r pegwn. Y mor cyfddeau sydd yn llenwi cymmaint o le o gylch y pegwn arall. Mor yr India sydd rhwng glenydd deheuol Asia, ochor ddwyreiniol Affrica; a pharthau gorllewinol Holand newydd. Moroedd ereill, ag sydd ganghenau o'r prif foroedd, ydynt mor y canoldir, rhwng Ewrop ac Affrica. Y Llychlyn, rhwng

* Encyclopedia Brittanica, vol. 5. page 286.


Darluniad
EWROP.
ASIA LEIAF
Archangel
Kargapol
Wologda
Moscow
Kasan
Astracan
Azof
Bythinia
Pontus
Galatia
Phrygia
Cappadocia
Cilicia
Armenia
Colchida
Iberia
Albania
MEDIA
Cyprus
Syria
Chaldea
Babilon
Palestin
MOR CASPIN

Sweden, Finland, Germani a Denmarc. Y mor du, rhwng Twrci, Georgia, a Russia. Y mor coch, rhwng Arabia a'r Aipht. Mor Casbin rhwng Russia, Persia, Georgia, a Tartary: hwn yw yr unig for nad yw yn ymuno a'r mor mawr. Rhanau ereill o'r Atlantic, a mor mawr y de, ydynt yn cael eu galw yn ol y glenydd y maent yn eu golchi, megys mor Germani, mor Ywerddon, mor Udd, mor Caribbee, mor Ochotsk, mor Kamtskatcha; hefyd culfor Biscay; culfor Bengal yn mor yr India, &c.

# EWROP.

SEFYLLFA...MAINTIOLI.] EWROP y gyfran leiaf o bedwar chwarter y ddaear, sydd a phob rhan o'i gwyneb (oddigerth ychydig o'r cwr gogleddol) yn y gwregys cymhedrol. Y parth mwyaf gogleddol ydyw penrhyn Lapland yn lledred 71° 30'G^dd^; y cwr mwyaf deheuol ydyw craig Gibralter, yn hydred 24° 31G^n^ o Greenwich; y terfyn dwyreiniol ydyw min afon Cara, yr hon sydd yn ymarllwys i for Karskoye yn hydred 63°D^n^; a'r cwr mwyaf gorllewinol ydyw cefn ynys yr iâ. Ei hyd o benrhyn St. Vincent yn Yspaen, i enau afon Cara yn Russia, sydd o gylch 3400 o filltiroedd; ac ei lled o'r mor du i lenydd gorllewinol yr Ywerddon, sydd o ddeutu 1800 o filltiroedd! y cytun yn agos i 3,000,000 o filltiroedd ysgwâr.

Er mai Ewrop ydyw y leiaf o brif ddosbarthiadau y ddaear, eto mae hi yn rhagori ar y tair ereill, o herwydd tynerwch yr awyr, ffrwythlondeb y tir trwyddo oll, y llawnder o yd, gwin, olew, anifeiliaid, a phob peth angenrheidiol a llesol i ddynol ryw; hefyd yn harddwch, grym, gwrolder, cywreinrwydd, doethineb a dysgeidiaeth y trigolion; ardderchawgrwydd ei llywodraethau, uniondeb ei deddfau, rhyddid y trigolion, ac uwchlaw pob peth o herwydd bod y grefydd gristionogol yn eu plith; yr hon sydd yn sefydledig wrth yr enwau eglwys Groeg, eglwys Rhufain, a'r eglwys ddiwygiedig, yn ei holl ardaloedd oddigerth Twrci.

HIN.] Yr hin tros ran mor ëang o'r ddaear, sydd raid fod o amrywiol dymherau. Tra mae y gauaf yn y parthau debau, mor dyner nad ydyw tan o fawr les, y mae yr oerni yn mwyhâu fwyfwy tua 'r gogledd, fal y gellir myned gan belled hyd nas gellid goddef gerwindeb yr oerfel.

MOROEDD.] Mor y canoldir sydd o ddeutu 2200 o filltiroedd o hyd. Yn ei ogledd-barth mae mor Adria, mor Egea, a mor Marmora, yn nghyd a mor Euxine neu y mor du, yr hwn sydd yn 700 milltir o hyd, ac i'r gorllewin, de, a dwyrain y mae gwlad y Twrc yn ei amgylchu, ac i'r gogledd y mae Russia. Ychydig i'r gogledd i'r mor du, mae mor Asoph, yr hwn sydd yn derbyn ffrydiau afon Don. Y Llychlyn ydyw y nesaf o ran maint i for y canoldir: ei ddyfroedd fal y mor du, a mor Asoph ydynt agos yn llwyr groyw, yn enwedig wedi hir ogleddwynt, yr hwn ni fetha ddwyn cyflawnder o eira, oddigerth am ychydig amser yn yr haf. Bydd ar ambell aeaf caled i rew doi ei wyneb, a

bydd ymdeithwyr yn anturio trosto o'r naill wlad i'r llall: yn ei gwr gogleddol mae culfor Bothnia, ac yn ei gwr dwyreiniol mae culfor Finland, y rhai y bydd caenen o rew arnynt bob gauaf. Y mor gwyn yn ngogledd-barth gwledydd y Llychlynigion sydd 380 milltir o hyd, wrth o 40 i 80 o led: mae hwn yn gloedig gan rew am bump neu chwech mis bob blwyddyn. Yr oedd y Prydeiniaid yn amser y brenin Alfred, yn masnachu â thrigolion glenydd y mor hwn, a'r enw arno y pryd hyny oedd y mor Quen. Y moroedd ereill sydd yn cael son am danynt, wrth fynegi am y gwledydd sydd yn terfynu arnynt.

Afonydd....Mynyddoedd.] Yr afon fwyaf yn Ewrop, ydyw y Volga, y nesaf ydyw y Don, yna y Dwina, y Danub, yr Elb, y Rhîn, ac ereill, y rhai sydd yn cael sylwi arnynt dan y gwledydd y maent yn myned drwodd. Y prif fynyddoedd ydynt mynyddoedd yr Alp, rhwng Ffrainc ac Itali; mynyddoedd Pyren, rhwng Ffrainc a Yspaen; mynyddoedd Doffrafeld, rhwng Sweden a Norway; mynyddoedd Carpathia, yn neheubarth Poland; mynyddoedd Appenin yn Itali, a'r mynyddoedd tanllyd, a elwir Vesuvius a Stromboli yn Naples, Hecla yn mro rewlyd ynys yr iâ, ac Etna yn Sicily.

Poblogaeth.] Ewrop sydd yn cynnwys o ddeutu 150,000,000 o eneidiau. Maent gwedi cynnyddu llawer yn y blynyddoedd diweddaraf, ac y maent eto yn debyg o liosogi.

Y Trigolion cyntaf a ddaethant o Asia i Ewrop, oedd y Celtiaid; yn nesaf yr Ysgythiaid tan amryw enwau; ac yna y Gothiaid neu Teutoniaid. Y rhai hyn trwy rediad amseroedd a wrthgiliasant eu gilydd mewn rhai gwledydd; ac mewn ereill, cymysgasant yn gyffredinol, oddigerth manau mynyddig ac anghysbell, megys Cymru, rhan o Ywerddon, yr Alban, Llydaw yn Ffrainc a lleoedd ereill.

Canys yn lle y Celtiaid cyntaf, y Gothiaid yw trigolion y gwledydd canlynol:

Denmarc, Norway, Sweden, Germani, Holand, Flanders, a Switserland.

O'r Ysgythiaid, y genedl a elwir yr Ysglafoniaid sydd yn y rhai hyn: Russia, Poland, a rhai taleithiau o'r Ellmon a Groeg.

Cainc arall o'r Ysgythiaid a elwir Finiaid, a gyfanneddant y gwledydd hyn:

Finland, Lapland, Hungari, Esthonia, a Livonia.

Cenhedloedd cymysg a gyfanneddant:

Ffrainc, Yspaen, Itali, Twrci, Prydain a'r Ywerddon.

Llywodraethau.] Yn Russia, Twrci, Ffrainc, Denmarc, Austria, a Naples, mae pob gallu yn y brenin ei hun, sef gair ei air ef ar bawb. Yn Mrydain, y brenin trwy gyfundeb Arglwyddi a Senedd gyffredin y wlad, sydd yn llunio y cyfreithiau gwladol, ond swydd y brenin ydyw dwyn ar waith a grym, bob awdurdod a ddeillia o gyfundeb y tri gallu yn nghyd. Chwanegir at hyn wrth sylwi ar amrywiol wledydd Ewrop yn eu priodol leoedd.

Y graddau mae pob gwlad yn sefyll wrth ystyried ei phoblogaeth, ei llwyddiant, a'i hunan-ymddibyniaeth sydd fel y canlyn, 1. Prydain; 2. Ffrainc; 3. Yspaen; 4. Austria; 5. Twrci; 6. Russia; 7. Sweden; 8. Sicily; 9. Prussia; 10. Saxony; ac 11. Denmarc. Am y brenhinoedd sydd newydd eu creu gan reolwr y ffrancod, amser yn unig a ddengys, pa un a ddiflanna eu coronau daearol ar fachludiad yr haul a roddes fod iddynt; neu a ydynt yn gyffion i lin o frenhinoedd ddeillia

o honynt: wrth ystyried grym y cenhedloedd maent yn eu rheoli, ei graddau sydd fel hyn, 1. Brenin Naples; 2. Brenin Lombardy; 3. Brenin Holand; 4. Brenin Bavaria; 5. Brenin Saxony; 6. Brenin Westphalia; ac yn 7. Brenin Wirtemburgh.

Hyd a llêd amrywiol Wledydd Ewrop, yn nghyd a sefyllfa eu prif ddinasoedd, ac y rhagoriaeth sydd rhwng yr amser yn mhob un â Greenwich, tref fechan yn agos i Llundain.

| *Gwledydd.* | *Milltir* | *Milltir* | *Prif ddinasoedd* | *Lledred.* | | | *Hydred o Greenwich,* yn raddau. | | | yn amser. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hyd | Llêd | | G. | M. | A. | G. | M. | A. | A. | M. | A. |
| Lloegr | 360 | 300 | Llundain | 51 | 31 | 0Gdd | 0 | 5 | 37Gn | 0 | 0 | 22ol |
| Yscotland | 300 | 150 | Edinburgh | 55 | 57 | 57 | 3 | 12 | 15 | 0 | 12 | 49 |
| Ywerddon | 285 | 160 | Dublin | 53 | 21 | 11 | 6 | 6 | 30 | 6 | 24 | 26 |
| Norway | 1000 | 300 | Bergen | 60 | 11 | 0 | 5 | 45 | 0Dn | 0 | 24 | 0bl |
| Denmarc | 240 | 180 | Copenhagen | 59 | 20 | 35 | 12 | 35 | 15 | 0 | 50 | 21 |
| Sweden | 800 | 500 | Stockholm | 55 | 40 | 45 | 18 | 3 | 55 | 1 | 12 | 16 |
| Russia yn E. | 1500 | 1100 | Petersburgh | 59 | 56 | 0 | 30 | 19 | 15 | 2 | 1 | 17 |
| Poland | 700 | 680 | Warsaw | 52 | 14 | 0 | 21 | 0 | 30 | 1 | 24 | 2 |
| Prussia | 600 | 300 | Berlin | 52 | 32 | 30 | 13 | 26 | 15 | 0 | 53 | 45 |
| Germani | 600 | 500 | Vienna | 48 | 12 | 40 | 16 | 22 | 30 | 1 | 5 | 30 |
| Bohemia | 300 | 250 | Prague | 50 | 4 | 30 | 14 | 45 | 0 | 3 | 59 | 0 |
| Holand | 150 | 100 | Amsterdam | 52 | 22 | 45 | 4 | 45 | 30 | 0 | 19 | 2 |
| Flanders | 200 | 200 | Brussels | 50 | 51 | 0 | 4 | 21 | 45 | 0 | 17 | 27 |
| Ffrainc | 600 | 500 | Paris | 48 | 50 | 14 | 2 | 20 | 0 | 0 | 9 | 20 |
| Yspaen | 700 | 500 | Madrid | 40 | 25 | 0 | 3 | 25 | 45Gn | 0 | 13 | 43ol |
| Portugal | 300 | 100 | Lisbon | 38 | 42 | 25 | 9 | 9 | 59 | 0 | 36 | 40 |
| Switserland | 200 | 100 | Berne | 40 | 0 | 0 | 7 | 40 | 0Dn | 0 | 28 | 0bl |
| Itali | 750 | 400 | Rhufain | 41 | 53 | 54 | 12 | 29 | 15 | 0 | 49 | 50 |
| Hungari | 300 | 200 | Buda | 47 | 20 | 0 | 19 | 22 | 0 | 1 | 17 | 0 |
| Twrci yn Ewrop | 1400 | 730 | Constantinopl | 41 | 0 | 24 | 28 | 53 | 49 | 1 | 55 | 35 |

*Eglurhâd.* Gwelir yma bod Twrci yn Ewrop yn 1400 o filltiroedd o hyd, wrth 730 o led, ac mai enw y brif ddinas yw Constantinopl, yr hon sydd a'i lledred, neu ei phellder o'r Cyhydedd yn 41 grâdd a 24 ailiad i'r gogledd; a'i hydred, neu ei phellder oddiwrth baladr canolddydd yn Greenwich, yn 28 gradd, 53 munud, a 49 ailiad i'r dwyrain, yr hyn gwedi ei droi i amser sydd 1 awr 55 munud a 35 ailiad. Felly pan fyddo hanner dydd yn Constantinopl, nid ydyw onid 4½ munud gwedi 10 o'r boreu yn Greenwich.

# LAPLAND.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd—Gwyneb y Wlad. Ansawdd y tir—Hin a thymhorau—Afonydd. Llynau. Coedydd—Mwngloddiau.*

LAPLAND, y cwr mwyaf gogleddol o gyfandir Ewrop sydd gwedi ei ddosbarthu yn dair rhan, dan yr enwau Lapland ogleddol, yr hon sydd yn perthyn i'r Daniaid; Lapland ddwyreiniol, yr hon sydd yn

perthyn i'r Russiaid, a Lapland ddeheuol yr hon sydd yn perthyn i'r Swediaid.

SEFYLLFA...MAINTIOLI....CYLCHYNOEDD.] Lapland sydd yn gorwedd rhwng y cylch rhewlyd a lledred 71° 30′ i'r gogledd; a rhwng hydred 15° a 43° i'r dwyrain, felly yn agos i fod yn 80,000 o filltiroedd ysgwâr. Lapland ogleddol sydd yn gorwedd rhwng y mor rhewlyd, afon Pais, a llyn Anarac; Lapland ddeheuol sydd yn cyrhaedd o'r Llychlyn, neu y mor dwyreiniol, hyd at y mynyddoedd sydd yn gwahanu Norway oddiwrth Sweden; Lapland ddwyreiniol sydd yn gorwedd rhwng llyn Anarac a'r mor gwyn.

GWYNEB Y WLAD....ANSAWDD Y TIR.] Mae y wlad hon yn llawn o fynyddoedd geirwon, megys gwedi eu taflu yn garneddi annrhefnus y naill ar y llall, ac yr ychydig o dir gwastad, sydd yn naill ai coedydd tywyll, diffeithfaoedd caregog, neu wastadoedd corsog, heb braidd ddim o bono yn werth ei drin, pe gadawai diogi anianol y trigolion iddynt fyned at y gorchwyl. Hela a physgota yn unig ydyw gwaith y Laplandiaid drwy ystod eu bywyd, ac ar hyny medrus hynod ydynt.

HIN A THYMHORAU,] Braidd y gellid barnu y wlad hon yn y gauaf, yn addas drigfan i ddyn, o herwydd bod ei holl wyneb tros saith neu wyth mis tan orchudd tew o eira: yr haul, ffynon gwres a goleuni, sydd hefyd tros yspaid amser yn ymadael yn llwyr a'r fro, ac yn rhoddi lle i ystormydd tymhestlog, y rhai fyddant weithiau yn dyfod megys o bob pwnc ar unwaith, ac yn troelli yr eira hyd oni lwyr orchuddiant yr holl ffyrdd, llwybrau, coed, adeiladau, &c. mewn ychydig o funudau. Mynych y gwelir yma rai yn ol o aelod o herwydd ei marweiddio gan erwindeb y rhew, gwedi i'r cyfryw ddryghinoedd eu gorddiwes yn mhell oddicartref. Mae y goleuni gogleddol yn yr hir-nos yn ymddangos mewn amrywiol ddull a lluniau, ac yn fynych yn ddychrynllyd, megys cynifer o fyddinoedd o liw tanllyd ysgwydedig: y lleuad hefyd drwy gydol y gauaf sydd goruwch y terfyngylch, yr hyn yn nghyd a dysgleirdeb y sêr, sydd yn peri i'r nos fod agos mor oleu a'r dydd. Yr haf, o herwydd bod yr haul tros rai wythnosau goruwch y terfyngylch, a'i belydrau yn adlewyrchu o'r amrywiol fynyddoedd, sydd yn dra gwresog. Pob llysiau perthynol i'r lle, sydd yn tyfu mor ebrwydd ag y gellir canfod cynydd ynddynt mewn ychydig oriau, yr hyn sydd naturiol i'r holl wledydd cyfogledd, o herwydd bod hir ymddangosiad yr haul yn cadw draw oerni gwenwynllyd y nos.

AFONYDD...LLYNAU....COEDYDD.] Y rhan fwyaf o afonydd Lapland ydynt yn tarddu o fynyddoedd Norway, ac eu rhediad i for Bothnia: eu henwau ydynt Uma, Lula, Rima, Kimi, a Tornea. Mae Uma yn derbyn ffrydiau yr afonydd a elwir Vendilor a Skialfre, a'r lleill liaws o afonydd llai, cyn ymuno a'r mor: eu rheieidr ydynt aruthrol, yn enwedig pan eu gorllifer ar doddiad yr eira.

Y llynau ydynt liosog yn y parthau hyn: maent yn hynod o herwydd amlder eu hynysoedd, y rhai sydd yn yr haf yn llawn blodau, yr hyn sydd yn eu dangos yn anneddau hyfryd. Mae hyd yn oed y rhosyn yn mysg blodau gwylltion eraill, i'w ganfod yno.

Y coedydd lliosog ydynt ffawydd, bedw, pinwydd, aethwydd, helyg, ysgo, &c. hefyd angelica, suran ac amryw fath o rawn; heblaw gweiriau, grug, rhedyn a mwsogl, yr hwn ydyw lluniaeth cyffredin eu ceirw.

MWNGLODDIAU.] Darganfuwyd yn ddiweddar fwngloddiau arian, plwm, ag efydd yn Lapland, ac yn agos i dref Tornea cafwyd un yn cynnwys arian â gwythenau aur ynddo. Nid ydynt yn ateb fawr

ddyben o herwydd bod y rhew yn cloi eu peiriannau tros agos i naw mis o'r flwyddyn. Cyfarfyddir yno hefyd â rhai meini gwerthfawr, sef yr amethyst, topas, grisial, perl, ac ereill.

## DOSBARTH II.

*Trigolion---Gwisgoedd. Trigfanau. Ymborth---Crefydd---Iaith. Dysgeidiaeth---Masnach---Dull o briodi a chladdu---Bwystfilod---Pysgod ac Ehediad.*

DYNION byr o gorffolaeth ydyw y Laplandiaid; y parth mwyaf o honynt o dan bedair troedfedd a haner o daldra. Nid ydynt hardd eu gosgedd gan fod iddynt bénau mawr, talcenau llydain, llygaid soddedig, trwynau crwm, a gwallt du, garw a chwta. Maent yn gryfion o gorffolaeth, ac y maent gan mwyaf, yn cyrhaedd oedran mawr. Nid peth anghyffredin ydyw gweled Laplandiad 100 mlwydd oed, yn hela, pysgota, neu yn ei ddifyru ei hun mewn campau gorchestol ar y rhew.

Nid hysbys ydyw rhif trigolion Lapland, o herwydd na bu i'r teyrnasoedd sydd yn eu rheoli, erioed alw yr un o honynt i'w byddinoedd, felly ni bu gyfrif arnynt, ond tybir eu bod o ddeutu 70,000.

GWISGOEDD....TRIGFANAU....YMBORTH.] Crwyn anifeiliaid ydyw gwisgoedd pob graddau o drigolion Lapland, y tu blewog yn nesaf atynt yn y gauaf, a'r tu arall yn yr haf. Wrth eu gwregys lledr y bydd yn nghrog eu cyllyll, pibelli, offerynau tan, &c. Gwisgoedd y merched ydynt gyffelyb, ond bod eu capiau gwedi eu darfritho â darnau brethyn o amryw liwiau; a bod yn hôff ganddynt wisgo clust-dlysau, breichledau, &c. Mae y trigolion hyn, yn byw yn y gauaf mewn celloedd is-lawr, ac yn yr haf mewn pebyll. Töant eu tai a choed cryfion, y rhai a orchuddiant a phridd cleilyd, a thwll yn nghanol y tô sydd yn gollwng y goleuni i mewn, a'r mwg allan. Rhenir y bythau hyn yn llawer o gelloedd, a bydd teulu yn mhob cell. Cynud eu tan ydyw olew moelrhon a mwsogl, mewn llestri ceryg, wrth y rhai y maent yn trin eu tamaid, sychu eu dillad, ac yn derbyn cyfran o oleuni a gwres cyfatebol i eu heisieu drwy gydol eu gauaf anhyfryd. Eu pebyll haf, a lunient a choed meinion a chrwyn wedi eu gosod yn gywrain arnynt. Dodrefn eu tai ydynt lestri coed a cheryg, ac ambell lestr efydd; ond eu hofferynau hela a physgota sydd fwyaf amlwg, a dyma golofn eu cynnaliaeth. Wrth fyned at bryd bwyd, arferant ffurf o weddi, a gwedi darfod, ysgydwant ddwylaw a'u gilydd.

CREFYDD.] Paganiaeth, yn gymysgedig â rhyw wybodaeth arwynebol o gristionogaeth ydyw crefydd y Laplandiaid: addefant eu bod yn credu prif byncian y grefydd gristionogol, ond ar yr un pryd hwy a aberthant i eulunod eu hynafiaid, y rhai ydynt (o goed neu geryg) yn y lleoedd mwyaf amlwg yn eu trigfanau. Credant hefyd fod yr enaid ar ei ymadawiad o'r corff, yn cael ei drawsfudo i gorff arall; ac mae ganddynt ddyddiau nodedig i gadw uchel wyliau i'w heulynod.

IAITH...DYSGEIDIAETH.] Iaith y Laplandiaid sydd wrthun ac annrhefnus. Hyd yn ddiweddar, lluniau amryw greaduriaid oedd ganddynt yn lle llythyrenau; ond trwy lafur y cenhadon o Norway a Sweden yn sefydlu ysgolion, &c. mae yr iaith yn ychydig mwy rheolaidd. Mae y Testament newydd yn argraffedig yn eu hiaith; ac mae amryw o'r trigolion yn medru darllen ac ysgrifenu.

Gweddi yr Arglwydd yn iaith Lapland sydd fal hyn,

*Atki mijam juco lee almensisne. Ailis ziaddai tu Nam. Zurcigubatta tu Ryki. Ziaddus tu willio nankuchte almesne nau ei edna mannal. Wadde mijai udni mijan faert paefwen laibebm. Jah andagusloite mi jemijan suddoid nankutche mije andagdsloitebt kudi mije welgogas lien. Jah sissalaidi mijabni. Æle tocko kaekzaellebma pahast.* Amen.

MASNACH.] Y Lapländiaid ydynt yn trosglwyddo llaweroedd o bysgod i barthau gogleddol Finland, a Russia orllewinol: maent hefyd yn dwyn i ffeiriau Norway a Sweden, liaws o geirw, pan-flew, basgedi, pysgod sychion, caws eu hyddod, &c. y rhai a gyfnewidiant am ariau, gwlaneni, lliain, llestri efydd, blawd, cyllyll, nodwyddau, brandi, tobacco, a phethau angenrheidiol ereill.

DULL O BRIODI A CHLADDU.] Pan y byddo un o'r Laplandiaid yn bwriadu priodi, mae yn rhaid iddo anrhegu y tad â brandi i gael ffordd rydd i ymddiddan a'r ferch, a felly bob tro yr ymwelo â hi, hyd oni phriodant, yr hyn weithiau a oedir flynyddoedd gan dad y fenyw er mwyn y rhoddion. Yn ol priodi, yr arfer yw, i'r gwr ieuanc wasanaethu ei dad yn nghyfraith am bedair blynedd, yna bydd ganddo hawl yn nghynysgaeth ei wraig, yr hyn yw ychydig o geirw, defaid, a thaclau hela a physgota. Y cymmydogion ar yr achos hyn, a fyddant haelionus yn eu rhoddion i'r teulu ieuanc tu ag at ddechreu eu bywoliaeth. Pan y byddo Laplandiad ar ei wely angau, ei gyfeillion a'i cynghorant i farw yn y ffydd gristionogol; a'r funud y derfydd yr anadl, hwy a gyd-adawant y lle, gyd a'r dychryn a'r prysyrdeb mwyaf, gan dybio bod ysbryd y marw am eu niweidio. Y drefn o barotoi y corff i'w gladdu a adroddir gan wr o'r wlad hon, a fu yno yn ddiweddar. "Yn ol rhoddi y corff mewn arch, rhoddwyd yn ei law aswy gôd ag arian; ac yn ei law ddehau lythyr gwedi ei gyfeirio at St. Pedr: yr arian oeddynt i anrhegu porthorion Paradwys; a'r llythyr gwedi ei ysgrifenu gan offeiriad y lle i hysbysu St. Pedr fod y gwmad yn gristion, ac yn deilwng o'r Nefoedd. Rhag y byddai ar y marw eisiau ar ei daith, rhoddwyd cig, pysgod, a brandi, gyd ag ef yn yr arch, a delw St. Nicholas, yr hwn sydd mewn bri gan y cenhedloedd gogleddol, o herwydd ei serch at y meirw. Gwedi cau yr arch, amgylchwyd ef yn rheolaidd gan geraint a chyfeillion y marw, y rhai dan wneyd oer-nadau, oeddynt yn ymofyn a'r corffyn, pa ham y bu iddo farw? a oedd e'n ddig wrth ei wraig? a oedd mewn eisieu ymborth neu ddillad? a fuasai yn aflwyddiannus wrth hela neu bysgota? Parhaodd eu galar hyd oni bu i'r offeiriad (yr hwn oedd drwy yr amser yn eu taenelli hwy a'r corff â dwfr sanctaidd) orchymyn iddynt dewi. Yna rhoddwyd yr arch mewn cerbyd bychan, a rhoddwyd carw wrtho i'w dynu hyd at y bedd. Yn mhen tridiau gwahoddodd rhieni y marw eu holl geraint, i wledda ar gig y carw, a fuasai mor ffyddlon, a buont neillduol ofalus i gadw pob asgwrn o hono, i'w losgi ar allor oedd ganddynt i aberthu i'r ellyllon."

BWYSTFILOD....PYSGOD....EHEDIAD.] Anifeiliaid Lapland yw y rhai hyn,

*Carw Llychlyn*, creadur defnyddiol iawn i drigolion y gwledydd gogleddol: mae yn ddigon cryf yn y gauaf (y pryd mae mwyaf o angenrheidrwydd am dano) i dynu dyn mewn cerbyd bychan ar ddull cwch, dros 100 milltir yn y 24 awr. Llaeth y creaduriaid hyn sydd faethlon: eu gwlan sydd yn gwneyd gwisgoedd: eu cig sydd

ymborth, a'u giau linynau bwâu; a gwedi ei hollti, edafedd i wnio. Maent o'r un dull â'r rhai a welir yn Nghymru, ond bod eu cyrn yn gogwyddo y'mlaen, a'u cyrff o dŵf mwy grymus.

*Arth*, o ran dull ei gorff sydd yn debyg i fochyn, ond ei fod cymmaint a dyniawed: creadur ysglafaethus, gwedi ei orchuddio a hirflew cedeirn ydyw: ei gig yr hwn sydd debyg ei flas i gig carw, a fwyteir gan y Laplandiaid, a gwnaent o'i groen wisgoedd gauaf. Mae tri math o eirth, sef arth du America, arth lwyd yr Alp, ac arth gwyn y bröydd cyfogledd, yr hwn sydd yma tan ein sylw.

*Blaidd*, creadur o rywogaeth ac o faintioll cî: ei gynffon sydd lawn, ei draed fel traed milgi, a rheibus ydyw. Una lliaws o honynt yn y gwledydd cyfogledd, ac ânt yn gnudiau rheolaidd tan udo, trwy goedydd, dros fynyddoedd a nentydd, gan wneyd niwed ar ddynion ac anifeiliaid.

*Câth bali* neu y *bela*, sydd fath o fronwen, o liw gwyn yn y gauaf, a llwyd yn yr haf: gwell ganddo oddef ei ddal na diwyno ei groen, yr hwn yn nghyd â'r blew sydd werthfawr: mewn agenau creiglyd y mae yn trigfanu.

*Carlwm*, creadur go debyg o ddull a maintioli i'r Bela: clustiau byrion, a llygaid yn disgleirio yn y nos fal llygaid câth sydd ganddo: gelyn ydyw i bob adar dôf, ac efe a gluda eu wyau bell ffordd heb eu tori.

*Gewai*, nid anhebyg o ddull a maint i gî ydyw: y mae yn hynod am ei fariaeth, o herwydd y difa ysgerbwd agos cymmaint ag ef ei hun ar unwaith. Saethau pŵl a arferir wrth ei hela rhag tori ei groen, yr hwn sydd werthfawr.

Yr Elk a'r Llostlydan sydd yn cael hanes am danynt tan Norway. Y creaduriaid ereill perthynol i'r lle, ydynt y llwynog, y wiwair, yr ysgyfarnog a'r dyfrgi, &c.

Adar Lapland ydyw y rhai hyn,

*Criper*, aderyn go debyg i ysniten: ei ben, ei gefn, ac ei esgyll ydynt gan ddued a'r frân, a'i fron a'i fol gan wyned a'r eira: ei big sydd goch, ac y mae iddo ddwy rês o ddannedd mân. Nid ydyw i'w weled yn un lle onid Lapland.

*Loom*, sydd yn treulio ei holl amser ar y dyfroedd: nid ydyw yn gwneyd nyth: o dan asgell yr iâr mae yr ŵy yn cael ei ori, a'r cyw yn cael ei fagu. Nid ydyw yr aderyn hwn i'w weled yn un-lle onid yn Lapland. Yr adar ereill ydynt yr alarch, yr ŵydd, y hwyaden, ysniten, cornchwigl, cyffylog, colomen, ac amryw adar dwfr.

Y pysgod sydd yn helaeth yn llynau Lapland, ydynt y gleisiad, brithyll, bream, perch, &c.

*Gwybed*. Pan y byddo i'r haul ar ddechreu haf, dywynu yn wastadol, ei belydrau gwresog a roddant fywyd i rifedi mawr o wybed, y rhai fyddant weithiau yn heidiau mor fawrion ag y cuddiont y goleuni o liosogrwydd. Blin iawn ydynt i ddyn ac anifail, gan y tyn pob brathiad iddynt waed. Lloches yr anifail rhagddynt, ydyw penau rhewlyd y mynyddoedd; a dyn sydd yn ei amddiffyn ei hun, drwy bygu ei wyneb, gwisgo crwyn tewion am dano, a bod yn fynych mewn mŵg tân o goed irion. Un haf ydyw oes y gwybed hyn, ond ychydig cyn marw, dodwyant ddigon o wyau, i ori ar lu a fyddo yn ddigon i boeni y Laplandiaid yr haf canlynol.

## DOSBARTH III.

*Hanes Lapland.*

HANES y wlad hon cyn crêd sydd lwyr anadnabyddus, ac ychydig iawn o wybodaeth sydd am dani, yn ol iddi dderbyn Cristionogaeth, hyd yn ddiweddar. Y Norweaid a'r Swediaid a fuant lafurus o ddeutu y flwyddyn 1300 yn anfon cenhadon i egwyddori y trigolion yn mhyncian Cristionogaeth, pan oedd Lapland yn y rådd isaf o eulunaddoliaeth a phaganiaeth, ac hyd heddyw nid ydynt gwedi llwyddo i erlid yr anghenfilod hyn allan o'r wlad.

O Ffinland yr alltudwyd y Laplandiaid, a galwyd hwynt *Laps*, gair sydd yn arwyddocâu alltudo, yn ieithoedd y Llychlynigion.

# SWEDEN.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd—Taleithiau—Hin a Thymhorau—Gwyneb y Wlad. Ansawdd y tir—Afonydd—Llynau—Mynyddoedd—Coed-diroedd. Llysiau—Mwngloddiau—Ynysoedd.*

SWEDEN sydd yn sefyll rhwng lledred 55° a 70 o raddau gogleddol, a rhwng hydred 12° a 32° yn ddwyreiniol o Lundain: ei hyd o benrhyn Scone, ei chwr mwyaf deheuol, i barthau gogleddol Lapland, sydd yn 1150 o filltiroedd; a'i lled o fynyddoedd Doffraffeld yn y gorllewin, i gyffiniau Russia yn y dwyrain sydd o gylch 600 o filltiroedd: felly mae ei gwyneb yn fwy na 200,000 o filltiroedd ysgwâr. Llychlyn a'i agored sydd yn cylchynu y wlad hon i'r deau; mynyddoedd Doffraffeld i'r gorllewin; Lapland ogleddol i'r gogledd, ac ymerodraeth Russia i'r dwyrain.

TALEITHIAU.] Sweden sydd gwedi cael ei dosparthu fal y canlyn:

| | *Taleithiau.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| Taleithiau Sweden | Stockholm | Stockholm |
| | Upland | Upsal |
| | Sudermania | Nicoping |
| | Nericia | Orebro |
| | Jenitland | Oviken |
| | Westmanland | Wæsteras |
| | Dalecarlia | Fahlun |
| | Herjeadalen | Herjeadal |
| | Gestricia | Geffle |
| | Helsingeland | Suderham |
| | Medelpad | Sundwall |
| | Nordland *orllewin* | Fers |
| | Angermanland | Hernosand |

| | *Taleithiau.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| Taleithiau Gothland | Wermeland | Carlstadt |
| | Gothland *orllewin* | Gotheburg |
| | Gothland *ddwyreiniol* | Linkioping |
| | Dali | Dali |
| | Bahus | Bahus |
| | Haland | Halmstadt |
| | Smaland | Jonkioping |
| | Scania | Lund |
| | Bleking | Carlscrona |
| | *Ynys* Oland | Borgholm |
| | *Ynys* Gothland | Wisby |
| Taleithiau Lapland | Asele Lapmarc | Asele |
| | Umea Lapmarc | Umea |
| | Pitea Lapmarc | Pitea |
| | Lulea Lapmarc | Lulea |
| | Tornea Lapmarc | Tornea |
| | Kimi Lapmarc | Kimi |
| Taleithiau Bothnia | Bothnia *orllewin* | Umea |
| | Uleaborg | Uleaborg |
| | Wasa | Wasa |
| Taleithiau Ffinland | Cajana | Cajanaborg |
| | Savolax | Savolax |
| | Biorneborg | Biorneborg |
| | Abo | Abo |
| | Tafwastland | Taftwathus |
| | Nyland | Helsingfors |
| | Heinola | Louisa |
| Duciaeth | Pomerania | Stralsund |

Hin a Thymhorau.] Yr hin yn mharthau gogleddol Sweden, fal y dysgrifiwyd tan Lapland, sydd yn dra oer gan rewogydd parhaus drwy ystod wyth mis o auaf, ac yn dra gwresog drwy ymddangosiad parhaus yr haul goruwch y terfyngylch, am bedwar mis o haf. Gellir amgyffred ychydig am oerni y gauaf, wrth fod mor Sweden yn gloedig gan rew o fis Tachwedd hyd Ebrill, ac yn ddigon cryf i gynnal cerbydau llwythog i dramwy drosto: ond nid ydyw y mor sydd yn cylchynu y parthau deheuol yn rhewi, oddigerth mewn ambell auaf caled. Yr haf sydd yn ymdori ar unwaith o afael gauaf, heb adael dim gwanwyn yn y cyfrwng. Y maesydd oeddynt megys y wythnos o'r blaen dan drwch o eira, ydynt yr wythnos hon, a'i blodau lliosog a hardd yn blaen darddu yn siriol.

Gwyneb y Wlad. Ansawdd y tir.] Nid oes unrhyw wlad a mwy o amrywiaeth wyneb gan lynau mawrion, afonydd dysglaer, ffrydiau troellig, rheieidr serth, coed-diroedd tywyll, nentydd gwyrddlas, creigiau anferth, a maesydd ffrwythlon na Sweden. Y dyffryn-dir sydd yn cael ei drin yn rhagorol o dda, a'r cynyrch ydyw haidd, ceirch, rhyg, gwair, &c. ond y gwastad-dir sydd deneu a gwael yn gyffredinol.

Afonydd.] Y fwyaf yn Sweden ydyw yr afon a elwir Dahl, yr hon sydd yn codi yn mynyddoedd Doffraffeld, ac yn ol gorllifo agos i 300 o filltiroedd, sydd yn ymuno â mor Bothnia: yn agos i'w genau mae rhaiadr 40 troedfedd o uchder, a chwarter milltir o led.

Afon Gothaelf sydd yn tarddu o'r llyn a elwir Wenner, ac yn ymarllwys i agored Llychlyn, wrth dref Gottenburg.

Afon Tornea sydd yn deillio o lyn Tornea, yn ngogledd-barth Lapland, ac wedi derbyn ffrydiau afon Kenges ac ereill, sydd yn ymarllwys i for Bothnia.

Y Motala, ac amryw sydd yn uno y llynau a'r mor, ydynt yn fwy teilwng o'r enwau aberoedd nag afonydd.

Llynau.] Nid aml mae gwlad liosocach ei llynau na Sweden. Y mwyaf ydyw y Wenner, yr hwn sydd 90 o filltiroedd o hyd wrth 50 o led, ac yn gylchynedig â choed mawrion, ac a chreigiau serth: mae ynddo liaws o fân ynysoedd, ac y mae yn derbyn ffrydiau 24 o afonydd, heb yr un onid y Gothaelf yn deillio o hono.

Y Weter sydd 80 o filltiroedd o hyd wrth 12 o led, ac yn gylchynedig â mynyddoedd mawrion, y rhai ydynt yn achlysur i'r llyn gael ei derfysgu gan ystormydd dychrynllyd. Mae mewn dwy ynys sydd ynddo, y ceryg gwerthfawr a elwir, agate, cornelian, a grisial. Mae 40 o afonydd bychain yn ymarllwys i'r llyn hwn, a'r Motala yn unig sydd yn deillio o hono.

Y Miler sydd lyn hynod o herwydd mai yn y man y mae yn ymuno â mor Bothnia, mae sefyllfa y brif ddinas Stockholm: ei hyd sydd 60 milltir wrth 18 o led a liosog ydyw ei ynysoedd.

Llyn Pajana yn Ffinland sydd 70 o filltiroedd o hyd a 12 a led: o hwn y mae yn tarddu yr afon Kymmen, yr hon sydd yn llunio llawer o'r terfyn rhwng Ffinland y Russiaid, a Ffinland y Swediaid.

Mynyddoedd.] Sweden sydd yn cael ei chyfrif yn wlad fynyddig. Y mynyddoedd uchaf ydynt yn gyfagos i'r gefnen sydd yn derfyn gorllewinol i'r deyrnas, ac a elwir yn gyffredinol trúm Doffraffeld, Ceryg mynyddoedd Sweden, ydynt y gwenith-faen, tywod-faen, calch, â gwythenau o fŵn haiarn, &c.

Coed-diroedd. Llysiau.] Mae holl fynydd-dir Sweden yn llawn o goedydd eang, y rhai yn gyffredin ydynt yn anhyffordd o herwydd agosrwydd y coed i'w gilydd; a miloedd yn bentyrau ar draws eu gilydd, gwedi i wyntoedd y gauaf eu diwreiddio. Y ffawydd ydynt yn tyfu i faintioli mawr, a llawer o honynt sydd yn cael eu hanfon i amrywiol borthladdoedd Ewrop, i wneuthur hwylbreni, &c. Derw y wlad hon hefyd sydd o'r defnydd goreu, a llawer o hono sydd yn cael ei drosglwyddo i wledydd pell. O'r pinwydd. bedw, meryw, ac ereill y maent yn gwneuthur golosg i wasanaethu eu gwaithfaoedd haiarn. Y Llysiau gerddi ydynt mor aml eu rhywogaethau ag yw rhai Prydain, ond nid ydyw yr afalau, gellyg, eirin, ac amryw ffrwythydd ereill, mor liosog, nag ychwaith mor beraidd. Y maesydd ar ddechreu haf ydynt yn cael eu britho gan flodau heirdd, a bydd yn tyfu hyd yn oed ar graig-leoedd, ddigonedd o fafon, mefus, ac amrywiol fâth o rawn ereill.

Mwngloddiau.] Y wlad hon sydd yn aml ei mwngloddiau haiarn, ac efydd; hefyd gwythenau gwerthfawr o aur, arian, prês, a phlwm: mae llawer o honynt yn agored er ys cantoedd o flynyddau, ac yn parhau i fwrw allan eu trysorau i'r miloedd sydd yn cloddio ynddynt, Rhai o'r mynyddoedd sydd fŵn haiarn cyfan gwbl, a mynych mae y rheieidr yn troi y peiriannau, sydd yn llunio yr haiarn yn farrau, i'w trosglwyddo i Brydain, a gwledydd amrywiol ereill.

Ynysoedd.] Rugen ydyw yr ynys mwyaf deheuol: ychydig sydd rhyngddi a Pomerania, sef y rhan hono o Germani, a oedd hyd yn

ddiwedder yn perthyn i Sweden: ei hyd sydd 25 milltir, wrth 15 o lêd: ynys ffrwythlon a lliosog ei thrigolion ydyw. Bu dywysogion yn ei rheoli yn yr amser gynt.

Bornholm sydd 43 milltir i'r gogledd ddwyrain o Rugen, a 10 milltir i'r de ddwyrain o Schonen.

Oland sydd 70 milltir o hyd, a 18 o lêd: ei pharthau gogleddol sydd yn goed-dir mynyddig; ond y rhanau deheuol ydynt wastadoedd ffrwythlon. 8000 a gyfrifir o drigolion iddi, a lliosog ydyw ei cheffylau, ceirw, a chreaduriaid ereill perthynol i Sweden.

Gothland, hynod am deithiau y llysiauwr enwog Linnæus, sydd 70 milltir o hyd, a 24 o lêd: ei thrigolion ydynt 10,000; a neillduol o ffrwythlon ydyw.

Aland yn agored culfor Bothnia, sydd 40 milltir o hyd, a 15 o lêd; mae lliaws o ynysoedd mân o'i hamgylch yn cael eu galw wrth yr un enw. Cyfrifir i'r ynys hon 9000 o drigolion.

Hagland a Dago, ydynt ynysoedd bychain yn mysg y miloedd sydd yn britho culfor Bothnia.

## DOSBARTH II.

*Trigolion. Moesau ac arferion....Llywodraeth....Milwyr a llongau rhyfel....Crefydd. Dysgyblaeth eglwysig....Iaith. Dysgeidiaeth...Masnach....Dinasoedd a threfydd....Bwystfilod....Pysgod....Ehediad.*

Y SWEDIAID ydynt ddynion cryfion, a galluog i ddyoddef caledi: mae eu dewrder ar faes rhyfel, eu gwybodaeth yn y celfyddydau, yn nghyd a'u gonestrwydd a'u croesawgarwch, yn gynnefod nodedig yn perthyn iddynt. Hoff yw ganddynt ymdeithio i wledydd dyeithr, ond nid hir y byddant heb hiraeth am y cartref. Wrth ystyried maintioli y wlad hon, nid ydyw ei thrigolion onid teneu, gan nad oeddynt wrth y cyfrif diweddaraf onid ychydig mwy na 3,000,000. Un o'r hen arferion sydd fwyaf mewn bri yn mysg y Swediaid, ydyw goleu tân ar nos galanmai, ar bob bryn uchel drwy y deyrnas, yn arwydd bod gwrês yr haf yn agoshau: o gylch y tanau hyn y bydd lliaws o'r gwerinos yn ymgynnull i gyduno mewn llawenydd plentynaidd drwy gydol y nos, ac felly mewn rhan y parhânt hyd nos wyl Ieuan, pan y dechreuant adeiladu pebyll i breswylio ynddynt. Ar y rhew, dangosant lawer o fedrusrwydd, wrth hwylio gyd a'r gwynt mewn llongau arno, esgutio, ac amrywiol gampau ereill.

LLYWODRAETH.] Llywodraeth Sweden hyd ddyddiau Gustavus III. (1772) oedd yn neillduol o gyfnewidiol wrth amcanion y seneddwyr; eithr bu i'r dadymchweliad a fu y pryd hyny, wneuthur y goron agos yn ormes ddiwrthddadl. Y senedd ydynt yn bedwar tŷ, sef, tŷ yr arglwyddi, tŷ yr offeiriaid, tŷ y dinasyddion, a thŷ y cyffredin. Y brenin sydd yn cysylltu ac yn dad-gysylltu y senedd, ac mae yr awdurdod ganddo i ddi-freinio y neb à fyno o'r seneddwyr, a dewis yn eu lle, rai a gydwelo ag ef, yn gwneyd neu ddad-wneyd cyfreithiau, dewis blaenoriaid byddinoedd, neu droi ffrwd cyfoeth y wlad yn ol ei amcan ei hun. Mae yn mhob tref yn Sweden, lys cyfiawnder, ond ni ellir cadarnhau unrhyw farn yn y rhai hyn, heb gymeradwyaeth y pump prif lysoedd, y rhai ydynt yn Stockholm y brif ddinas, Jonkioping yn Gothland, Abo yn Finland, a Stralsund yn Pomerania. Y cyfreithiau

ydynt dyner, o herwydd ni ddygir bywyd am unrhyw drosedd onid lladd dyn, yna dihenyddio sydd yn canlyn. 120 gwialenod yw y rhif mwyaf a arferir wrth flangellu, a mis o amser ydyw y carchar hwyaf. Ymladd law-law a gosbir drwy ddihenyddio yr un a ddiengo yn fyw; os dygwydd i'r ddau fod yn ddiangol, bydd dirwy o 1000 o goronau ar bob un, ac ni allent ddal unrhyw swydd mwyach dan y llywodraeth.

MILWYR A LLONGAU RHYFEL.] Pob milwr yn Sweden sydd yn berchenog ar dŷ ac ychydig o dir, tra y gwasanaetho ei wlâd a'i frenin: dyma y defnydd a wnaeth y llywodraeth a'r tir eglwysig, ar ysgymmundod y grefydd babaidd allan o'r frô. Y plwyf sydd i drin tyddyn y milwr, ac i ateb am y cynyrch, tra y byddo ar lêd yn milwrio. Eu rhifedi ydynt o gylch 45,000 o wyr traed; a 10,000 o wyr meirch. Llynges Sweden ydynt 12 o longau yn cludo 60 gwn, ac o ddeutu yr un cyfrif o rai 40 gwn, yn nghyd ag ugeiniau o rwyf-longau, y rhai ydynt fwy gwasanaethgar na'r lleill, mewn mor bâs fal y Llychlyn.

CREFYDD. DYSGYBLIAETH EGLWYSIG.] Y grefydd Lutheraidd sydd yn freintiol yn Sweden, dan un archesgobaeth a 13 o esgobaethau. Nid ydyw y llywodraeth yn caniatau rhyddid cydwybod, fal y gwelir wrth y rheolau eglwysig hyn. 1. Os bydd i ddeiliad newid ei grefydd, efe a alltudir ac a gyll yn nghyd a'i hiliogaeth ei dreftadaeth dros byth. 2. Os bydd i ddeiliad a fyddo yn ysgymmunedig, barhau felly ychwaneg na blwyddyn, fe ei carcherir am fis, yna alltudir ef. 3. Os bydd i neb ddyfod a dysgawdwyr o enw arall i'r deyrnas, bydd iddo dalu dirwy, ac ei alltudio. 4. Gweinidogion yr efengyl o wledydd dyeithr, a allent addoli yn y drefn y mynont yn eu teuluoedd eu hunain yn unig. 5. Pob plant sydd i'w bedyddio, ac eu haddysgu yn ol egwyddorion y grefydd Lutheraidd; o wâll hyny ni chânt eu cyfrif yn ddeiliaid y deyrnas.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Iaith Sweden, fal ieithoedd y Daniaid a'r Saeson, sydd gangen o iaith y Gothiaid. Mae y llywodraeth gwedi sefydlu ysgolion yn mhob tref yn y deyrnas, i addysgu y tylodion i ddarllain, ysgrifenu, ac i rifyddiaethu. Y prif ysgolion ydynt yn Upsal, Abo, Lund, a Griefswald, lle y dysgir yr ieithoedd Lladin, Groeg, Hebraeg, &c. Sweden a roddes hanfod i'r enwog Linnæus, i'r hwn mae y byd yn ddyledus am ei lafur yn dosbarthu amrywiol ranau llysiauyddiaeth ac anianyddiaeth. Yma hefyd y ganwyd y dyn bynod hwnw Emanuel Swedenborg, yr hwn a sylfaenodd yr enw o grefydd a elwir y Jerusalem newydd.*

Y pader yn iaith Sweden sydd fal hyn.

*Fader uar som ast i himlom; helgat warde titt namn tilkomme tit rike: ske tit wilje sa som i himmelen sa och pa jordene, gif os i dag uare dagelige brod; och forlat oss uare sculder, sa som och wi forlatom them oss skyldige aro; och inled oss icke i frestelse, utan frels oss ifran ondo; ty riket ar tit, och machten, och hertigheten i ewighet.* Amen.

MASNACH.] Sweden sydd gyfoethog iawn o haiarn, coppr, hwyl-

---

* Dywed Swedenborg i'r Arglwydd yn 1743 ymddangos iddo mewn agwedd bersonol, ac iddo agor ei lygaid ysprydol, fal y gallai yn wastadol weled Angylion ac Ysprydion, ac ymddiddan â hwynt.—Gwadai Drindod ó Bersonau yn y Duwdod, gan fod o'r dyb fod Trindod ddwyfol yn gyfleuëdig yn Mherson y Cyfryngwr. Gwadai athrawiaeth etholedigaeth, cyfiawnhad trwy ffydd, adgyfodiad y corff anianol, &c. ac addefai fod gan ddyn ewyllys rhydd mewn pethau ysprydol, &c. Bu farw yn Llundain yn 1772, a lliosog ydyw ei ganlynwyr yn Mrydain, Germani, Sweden, ac yn America.

breni, coed at adeiladu, pŷg, tar, ystor, turpentine, rhisg, llin, carth, &c. y rhai a gyfnewidiant â gwledydd tramor am wenith, haidd, rhûg, brâg, pŷs, caws, ymenyn, siwgr, gwin â phob dyfroedd cryfion, cyffyriau meddyginiaethol; yn nghyd â brethynau, gwlaneni, lliain, &c. penwaig heilltion sydd hefyd yn llunio rhan o fasnach Sweden, ac yn ddiweddar adeiladant longau, ac a'u parotöant i fordwyo, i'w gwerthu i wledydd ereill.

Dinasoedd a threfydd.] Stockholm y brif ddinas a sylfaenwyd gan iarll Birger, rhaglaw y deyrnas o ddeutu y flwyddyn 1300, sydd yn sefyll ar lawer o ynysoedd creiglyd, ar yr agored, sydd yn uno llyn Maeler a'r mor. Ei hamrywiol borthfeydd sydd ddigon ëang i ddiogelu mil o longau ar yr unwaith, ac yma mae y rhan fwyaf o fasnach dyeithrol y deyrnas yn myned yn mlaen. Y trigolion ydynt o ddeutu 100,000.

Upsal, yr unig archesgobaeth a'r brif ddinas gynt, sydd yn cynwys 3000 o drigolion, heblaw 600 o ysgolheigion colegol.

Gottenburg, yr ail ddinas yn y deyrnas o ran lliosogrwydd ei thrigolion, sydd yn sefyll ar lan afon Gothaelf. Dyma gyrchfa y llongau perthynol i Sweden, sydd yn masnachu a'r India ddwyreiniol. Ei thrigolion ydynt dros 20,000.

Carlscrona a sylfaenwyd gan Charles XI. yn 1680 yn ddiogelfa i longau rhyfel Sweden: ar yr agored i'r porthladd, mae y ddwy gaer amddiffyn Kingsholm a Drottningsholm: ei thrigolion ydynt 18,000.

Nordioping ar afon Motala, sydd ddinas liosog ei thrigolion ac aml ei gwaithfaoedd: cyfrifir iddi 20,000 o eneidiau. Abo yn Ffinland, sydd a 9000. Fahlun yw y nesaf mewn poblogaeth. Am y trefydd mwyaf ereill, nid oes yr un, a mwy na 4000 o drigolion ynddynt.

Anifeiliaid. Pysgod. Ehediaid.] Ceffylau Sweden ydynt fychain, ond neillduol o fywiog; y gwartheg a'r defaid, hefyd, ydynt yn llai na rhai Prydain. Yr arth, carw Llychlyn, y blaidd, y dyfrgi, a'r gewai, y rhai a ddysgrifiwyd dan Lapland, ydynt yn aml yn y coedydd: heblaw y llostlydan a'r elk, y rhai y rhoddir eu hanes tan Norway, a'r creaduriaid perthynol i Brydain a enwyd tan Lapland.

Moroedd, afonydd a llynau Sweden ydynt yn helaeth eu pysgod. Y penwaig ydynt yn llawnder mawr i'r gwledydd sydd yn terfynu ar y Llychlyn. Y moelrhoniaid yn mor Ffinland, sydd yn rhoddi olew yn helaeth: gyd â y rhai hyn, mae y cod, gleisiad, penhwyad, &c.

Mae yr eryr a'r cudyll yn trigfanu yn mynyddoedd Sweden: yr adar dôf, fal yn Lapland ydynt aml; a'r llynau sydd yn noddfa i luoedd o adar dwfr.

## DOSBARTH III.

*Hanes Sweden.*

HANESYDDIAETH Sweden, fal yr holl wledydd gogleddol, hyd yn oed yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth, sydd dywyll ac anhysbys. Y wlâd, cyn dyfod Crêd, oedd yn cael ei rheoli gan liaws o benaethiaid, ac aruthr oedd y brwydrau cigyddlyd à oedd yn eu mysg.

Magnus Ladislaus yr hwn a goronwyd yn y flwyddyn 1276, oedd y brenin cyntaf a reolodd yr holl wlâd: efe a gadarnhaodd y goron ar ei ben drwy lunio y senedd, a threfnu trethi i gynual y llywodraeth: ond gwedi ei farwolaeth, aeth y wlad i'r un annrhefn ag o'r blaen.

O ddentu canol y 14 ganrif, bu i gyflwr gresynus y wlad, fod yn achlysur i'r Swediaid osod Margaret Waldemar, brenines Denmarc a Norway ar orsedd Sweden: hon oedd weddw Hacquin brenin Norway, yr hwn oedd fab i Magnus III. brenin Sweden. Fe barhaodd undeb y tair coron ogleddol, yn oes y frenines enwog hon, a hi a geisiodd a'i holl egni, beri iddo fod yn annatodol rhagllaw, drwy gynnyg sefydlu i'r tair teyrnas yn eu tro, i ddewis brenin, yr hwn, os cymmeradwyid gan ddwy, i'r drydedd ei goroni. Ar farwolaeth Margaret, diflanodd yr undeb, a brwydrau echryslon a ganlynodd.

Tán ei dilyniedydd Eric, yr hwn a briodasai ferch i Harri IV. brenin Prydain, y bu i'r Swediaid wrthryfela, a gosod Charles Canutson yn frenin, eithr gorfuant ei ddïorseddu, ac addef Christiern I. o Denmarc (yr hwn a ddaethai â byddin gref i orescyn y wlad) yn frenin: gwrthryfelasant hefyd tan y nesaf, Ioan; ond o'r diwedd hwy a lwyr ddarostyngwyd gan Christiern II. yr hwn a gyfenwyd Nero y gogledd. Pan ddaeth hwn i'r goron, gwelodd na byddai yn frenin, ond cyhyd ag y boddiai amcanion y gwyr mawrion; am hyny lluniodd fradwriaeth i chwynu y wlâd yn llwyr o honynt: a dyma yr hanes rhyfedd sydd am goroniad y brenin hwn. Tranoeth gwedi ei goroni, gwnaeth wledd fawr, a gwahoddodd holl fawrion y deyrnas, tan rith y caredigrwydd mwyaf i'r wledd; ac ar y trydydd dydd, pan oedd eu calonau yn uchder llawenydd, fe a roddodd arwydd i fintai o filwyr a oeddynt tan gûdd mewn cèll gyfagos, i ruthro arnynt, a lladdwyd y cwbl. Creulon fu y brenin annuwiol hwn, drwy ei holl deyrnasiad, ond achubwyd y wlâd trwy ddyfodiad Gustavus i'r orsedd: tad yr hwn oedd yn mysg y lladdedigion uchod.

Gustavas Vasa, un o hiliogaeth brenhinoedd Sweden, gwedi iddo ddianc o garchar Christiern, a aeth i fysg y mwngloddwyr yn Dalecarlia, lle yn anadnabyddus y gweithiodd yn y mwngloddiau tros flynyddoedd, gan ddysgwyl gweled y dydd, y cafai eistedd ar orsedd Sweden. Ar ddydd gwledd flynyddol y mwngloddwyr, gwnaeth Gustavus ei hun yn adnabyddus, ac mewn araith ardderchog, anogodd efe iddynt gydymegnio i ennill eu hen dreftadaeth o ddwylaw estroniaid. Y cloddwyr yn danllyd a ymarfogasant, ac nid hir y buont heb ddïorseddu y gormesdeyrn a gosod Gustavus ar yr orsedd. Gorchwyl cyntaf Gustavus gwedi iddo gael ei goroni, oedd bwrw yr iau babaidd yn llwyr o'r frô, a sefydlu y grefydd Lutheraidd yn ei lle (1554.) Bu llwyddiant neillduol ar y wlâd, drwy deyrnasiad y brenin daionus hwn.

Gwedi marwolaeth Gustavus (1560), daeth ei fab Eric Vasa i'r orsedd. Ceisiodd hwn â'i holl egni ail-sefydlu pabyddiaeth yn y wlâd a dad-wneyd yr holl ddaioni a wnaethai ei dad, ond bwriwyd ef i garchar, a rhoddwyd ei frawd Ioan yn ei le. Ychydig gwell oedd moesau hwn, drwy ystod ei deyrnasiad byr, a gwedi ei farwolaeth, aeth y goron i'w fab Sigismund, yr hwn oedd eisioes yn frenin Poland. Sigismund yn nechreuad ei freniniaeth a ddangosodd duedd gyfeillgar i babyddiaeth, am hyny dïorseddwyd ef, a gosodwyd ei ewyrth Charles IX. tad yr enwog Gustavus Adolphus yn ei le.

Pan ddaeth Gustavus i'r orsedd, ei gefnder Sigismund brenin Poland a gyhoeddodd rhyfel yn ei erbyn, ac ni fynai gwedi colli y dydd mewn un frwydr, wrando ar ammodau heddwch, er ei Gustavus gynnyg yn dirion iddo: am hyny goresgynwyd ei wlâd, a gorfu arno dalu teyrnged i Sweden drwy ystod ei frenhiniaeth. Bu Gustavus drachefn yn llwyddiannus yn erbyn Russia, Denmarc, a Norway: goresgynodd

hefyd yr holl wlâd o afon Elb i afon Rhin; a sefydlodd y grefydd Lutheraidd drwy nerth ei gleddyf, mewn amrywiol ardaloedd pabaidd, ac y mae hi yn freintiol yn eu plith hyd heddyw. Yn 1662, lladdwyd Gustavus mewn brwydr fuddugoliaethus wrth ddinas Leipsig: felly y terfynodd y freniniaeth fwyaf llwyddiannus a welsai Sweden erioed.

Ei ferch Christina yn blentyn chwech oed, tan lywiedydd a ddaeth yn nesaf i'r orsedd, a phan ddaeth i oed, hi a ddechreuodd ddyloywi dysgeidiaeth Sweden drwy wahodd y dynion enwog Grotius, Vossius, Des Cartes ac ereill i ei llŷs, ond ni fynai er taer erfyniadau ei deiliaid, briodi Charles Gustavus tywysog Deux Ponts. Gwedi blino yn cynnyg hwn cynnygiasant ereill iddi, ond ni wrandawai drachefn arnynt, a chan eu bod yn parhau i ei blino, hi a ddiangodd o'r diwedd o'r wlâd, ac mewn diwyg mâb drwy Almaen hi a gyrhaeddodd Rhufain, lle tan adain ei chyfaill y pâp y cafodd ddiogelfa, ac ni ddychwelodd mwy i Sweden.

Charles X. a godwyd i'r orsedd ar ymadawiad Christina, ac wedi iddo ymladd brwydrau buddugoliaethus, bu farw o glefyd yn ei wersyll (1660).

Ei fab Charles XI. a ddaeth yn ei le: gorthrymodd hwn y wlâd yn ddirfawr drwy ystod ei deyrnasiad.

Charles XII. yn fab 15 oed, oedd y nesaf a goronwyd: ei ieuenctid, a chyflwr terfysglyd y wlad o herwydd gorthrwm lywodraeth ei dad, a barodd i frenhinoedd Denmarc, Poland, a Czar Russia lunio cynghrair yn ei erbyn: ond nid hir y bu gwrolder Charles dan gudd. Ei orchwyl cyntaf oedd gwarchae ar Copenhagen, a chafodd gynnorthwy llyngesau y Saeson a'r Holandiaid i ei hennill: deisyfodd y swyddogion ar eu gliniau na thaniai ar y ddinas, ac ar iddynt roddi iddo o arian yn gyfartal i 100,000 o bunnoedd, gwrandawodd ef arnynt. Oddiyno Charles ag 8000 o wyr a aeth i wynebu y Czar Pedr, yr hwn oedd â 80,000 yn gwersyllu wrth ddinas Ingria, lle tan nawdd cafod drom o eira yn cael ei chwythu gan wynt cryf i wyneb y gelynion, y rhuthrodd y Swediaid arnynt ac a laddasant 7000 o honynt, gyda diarfogi 30,000. Gwedi y fuddugoliaeth hon, aeth Charles i Saxony, lle y gorthrechodd 30,000 o Saxoniaid.

Yn 1705 y bu i Charles ddiorseddu Augustus brenin Poland, a gosod Stanislaus yn ei le: gwedi hyn troes tua Russia gan fwriadu uno yr ymerodraeth fawr hono â Sweden, eithr dechreuodd y pryd hyn i fîrwd ei lwyddiant leihau. Gwedi deall bod cryn-rwystrau iddo gyrhaedd Moscow, prif ddinas Russia y pryd hyny, aeth oddiamgylch trwy wlâd Ukrain, lle y collodd y rhan fwyaf o'i fyddin gan erwindeb yr hin; clwyfwyd ef hefyd mewn ymladdfa fechan â'r trigolion, a braidd y cafodd ddianc gyda 300 o'i wŷr i dref Bender yn ngwlad y Twrc (1709). Ac fal hyn y dadglymwyd byddin a oedd ychydig ddyddiau yn ol, yn ddychryn i holl Ewrop. Ymddygiad ynfyd Charles yn Bender sydd yn cael ei ddysgrifio yn hanesyddiaeth Twrci.

Charles ar ei ddyfodiad yn ol, a gafodd y wlad mewn annrhefn mawr: y senedd-wyr oeddynt gwedi gosod ei chwaer Ulrica ar yr orsedd, a heddwch ar ammodau gwael gwedi ei wneyd â'r teyrnasoedd gelynol: eithr Charles fel Samson gynt, a ddechreuodd eto ymysgwyd: cyhoeddodd ryfel yn uniongyrch yn erbyn Poland, Prussia, a Denmarc, a daeth brenhinoedd y gwledydd hyny ac a gylchynasant Stralsund, dinas yr oedd Charles yn ei hamddiffyn yn wrol â 12,000 o wŷr; ond gwedi iddo ddeall bod y fantol yn troi yn ei erbyn, diangodd yn

ddirgelaidd mewn llestr bychan, a thiriodd yn Scania, lle y casglodd fyddin arall i wynebu Norway, ac wrth lunio clawdd cudd tan furiau dinas Fredericstadt pan oedd y llawr fal haiarn gan y rhew, gan belen o wn mawr oddiar fûr y ddinas yn ei daro yn ei ben, efe a fu farw.

Ulrica ei chwaer a dderchafwyd i'r orsedd, ac yn fuan gwedi hyn, rhoddwyd yr un awdurdod lywodraethol i'w gwr, ond yr oedd y wlâd yn isel arni o herwydd y brwydrau diweddar tan Charles.

Y nesaf ydoedd Adolphus, duc Holstein Gottorp (1751) bu ymgynhenu yn y senedd drwy deyrnasiad afiwyddiannus y brenin hwn.

Ar ol marwolaeth Adolphus, pennodwyd y deyrnwialen i Gustavus III. yr hwn oedd y pryd hyny yn Paris prif ddinas Ffrainc; ond cyn iddo gyrhaedd Stockholm, yr oedd y senedd gwedi llunio ammodau caeth iddo dyngu eu cynnal wrth ei goroni. Ar ei ddyfodiad ni omeddodd dyngu hyny; a neillduol o garedig fu ei ymddugiad tu ag at bob graddau o'i ddeiliaid tros ysbaid o amser, heb neb yn ammheu nad oedd y caredigrwydd ar sylfaen dda: o'r diwedd pan y meddyliodd fod ei amcan yn llawn addfed, ac iddo fod gwedi ennill serch holl filwyr Stockholm, efe a roddes orchymyn i'r holl senedd-wyr ymgyfarfod ar yr 21 o Awst 1772, yr hyn a fu yn ddiatreg. Gwedi iddo gael yr aelodau oll i'r senedd-dy, gosododd wnau mawrion o amgylch y lle, a milwyr a phentewynion yn eu dwylaw yn barod i danio, yna yn nghanol ei warcheidwad aeth yn hyf i orsedd y senedd, a chynnygiodd iddynt drefn newydd o lywodraeth. Gwelsant nad oedd wiw gwrthwynebu, felly cydsynied a wnaethant. Ac fal hyn yr effeithiwyd y dadymchweliad heb dywallt gwaed: a Gustavus yr hwn oedd o'r blaen yn cael ei reoli fal y mynai y senedd, oedd y pryd hyn yn frenin mwyaf ei allu rhwysgol yn Ewrop: ond ar yr 21 o Fawrth 1792, bu i un o'r hen senedd-wyr o enw Ankerstrom mewn odfa miswrn o wledd a llawenydd ei saethu, a bu farw yn yr 22 flwyddyn o'i deyrnasiad.

Ar ei ol ef, daeth ei fab Gustavus IV. i'r orsedd. Cydunodd y tywysog hwn â'r galluoedd gogleddol yn erbyn Prydain, hyd oni bu i fuddugoliaeth Nelson wrth Copenhagen (Ebrill 2, 1802), a marwolaeth ddisymwth Paul ymerawdr Russia, beri diddymiad y cynghrair. Yn 1804 bu i Gustavus alw ei genhadwr o Ffrainc, yr hyn a fu yn achos i'r Russiaid drwy orchymyn Buonaparté oresgyn Ffinland, lle mewn brwydrau echrys y collodd miloedd o Swediaid a Russiaid eu heinioes.

Y Swediaid gwedi colli parth mawr o Ffinland, a ddeisyfasant ar Gustavus i wneyd heddwch, ond ni wnae: bu gynnwrf o'r achos yn y senedd, a Gustavus yn niwedd y flwyddyn 1810 a adawodd ei wlâd, a thiriodd yn Prydain, ac ei ewythr Charles XIII. sydd yn rheoli yn ei le.

Charles, gwedi heddychu ar dilerau gostyngedig â Ffrainc, a orfu arno fabwysiadu y frencyn Bernadotte (un o gymdeithion y bwystfil o Corsica) tan yr enw Charles John, ac ei gyhoeddi yn etifedd cyfiawn â goron Sweden.

# NORWAY.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa Cylchynoedd—Rhaniadau—Hin a thymhorau—Gwyneb y wlad —Mynyddoedd—Llynau—Afonydd.*

NORWAY sydd yn gorwedd rhwng 58° a 71 o raddau lledred gogleddol, a rhwng 5° a 31 o raddau hydred dwyreiniol: ei hyd o'r penrhyn deheuol i'r penrhyn gogleddol sydd o gylch 1000 o fill troedd; a'i lled sydd o 150 i 300. Hi a gylchynir o'r tu deheu gan agored Llychlyn; o'r tu dwyrain, gan y mynyddoedd sydd yn ei gwahanu oddiwrth Sweden; o'r tu gogledd, gan y mor rhewlyd, ac o'r tu gorllewin gan for y gogledd.

RHANIADAU.] Norway sydd gwedi ei rhanu yn chwech o daleithiau, y rhai a elwir Aggerhus, Christiansand, Berghen, Drontheim, Nordland, a Ffinmarc.

HIN A THYMHORAU.] Er bod Norway yn gorwedd dan yr un hingylch â Sweden, eto nid ydyw mor ddarostyngedig i wlawogydd trymion a'r wlâd honno, o herwydd ei hagosrwydd cyffredinol i'r mor. Y gauaf sydd yn fwy caled gan amledd y tymhestloedd oddiar y drûm fynyddig sydd yn derfyn dwyreiniol i'r wlad. Dywed anianyddion fod y mynyddau hyn dan gaeneni o eira, er dechreuad y byd, yr hyn sydd yn peri i oerni y dwyreinwynt fod ar rai prydiau yn ormod i ddynion ei oddef. Yn y flwyddyn 1719 y bu i 7500 o Swediaid golli eu bywyd gan erwindeb yr hin, wrth encilio o Norway dros y mynyddoedd hyn: rhai o honynt a gafwyd megys yn eistedd, rhai yn gorwedd, ac ereill mewn agwedd addoli. Tu a chanol Medi mae yr eira yn dechreu meddiannu gwyneb y tir, ac mewn un noson, mae yn diosg y coed yn llwyr o bob deilen. Yr haf yn y parthau hyn, sydd yn gyffelyb i'r hyn a roddwyd hanes am dano dan Sweden: weithiau bydd y gwres mor anaele mewn dyffrynoedd drwy gyd-darawiad pelydrau ysplenydd yr haul, nes y bydd i goed crinion a mawn-diroedd gymeryd tân a pheri gryn golled i'r wlâd.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD.] Norway sydd yn llawn o fynyddoedd geirwon, dyffrynoedd ffrwythlon, llynau dyfnion, &c. Mae pob llysiau yn tyfu yn fuan, yn enwedig haidd yr hwn fydd yn barod i'r cryman yn mhen 7 neu 8 wythnos gwedi ei hau. O'r penrhyn gogleddol hyd lledred 63° mae trûm Doffrafeld yn derfyn teg rhwng Norway a Sweden, yna mae hi yn ymranu yn ddwy gainc: un sydd yn troi i Norway, ac yn dilyn ymyl y mor hyd derfyn deau y wlad; y llall sydd yn parhau yn derfyn dan fwrw canghenau o'i deutu, hyd oni chyrhaeddo agored Llychlyn. Rhwng y mynyddau hyn mae llawer o reieidr dychrynllyd, a'u twrf fal cynifer o daranau. Y ffyrdd hefyd drostynt sydd dra pheryglus, o herwydd amledd y gelltydd clogwynog, lle y bydd gorfod ar yr ymdeithydd beryglu ei fywyd ar bontydd anghelfydd o goed neu raffau, tros ddyfnderoedd serth a dychrynllyd. Rhwng y pentrefydd Shogstadl a Vaug mae ffordd neu yn hytrach lwybr cul ar ochor mynydd serth, lle os dygwydd i ddau ymdeithydd ymgyfarfod, bydd gorfod ar un fwrw ei geffyl dros y dibyn, a dal ei

afael yn y creigiau goris y ffordd, fal y gallo y llall fyned heibio, gan fod y llwybr yn rhŷ gul i'r un droi yn ol.* Mynydd Tileffeld sydd o ddeutu dwy filltir a chwarter o uchder, ond dywedir fod mynydd Doffraffeld yn beth uwch. Mae coed neu geryg gwedi eu gosod o fewn 200 o gamrau i'w gilydd, i hyfforddi ymdeithwyr dros y mynyddau hyn, ac mae ar rai o honynt letyau fforddolion yn cael eu cynnal ar draul y llywodraeth. Rhwng Doffraffeld a Lamsffeld mae yr unig doriad ar y drûm hon: yma yn 1612 y lladdwyd mil o Ysgotiaid, y rhai a oeddynt yn myned i gynnorthwyo y Swediaid, ac ni ddiangodd un o honynt.

Llynau.] Norway sydd a rhif mawr o lynau yn britho ei gwyneb. Llyn Mioss yn y cwr deheuol sydd 60 milltir o hyd, ond nid yw ei lêd onid ychydig oddigerth tua ei ganol, lle y mae o ddeutu 12 milltir. Mae yn ei ganol, ynys ffrwythlon 10 milltir o amgylchiad. Llyn Rands Sion sydd 50 milltir o hyd ac 20 o lêd. Llyn Tyri sydd 15 milltir o hyd, a thu a'r un faint o lêd: ei lenydd ydynt yn llawn o fân aberoedd, ac mae coed o uchder mawr yn ei gylchynu yn gyfan. Yn nes i'r gogledd mae llyn Foemund yr hwn sydd 50 milltir o hyd wrth 8 o lêd: mae mynyddoedd cribog a serth yn gwisgo iâ oesol, yn cylchynu y llyn hwn. Y Llynau Faris, Oresund a Titerud ydynt lynau bychain heb ddim neillduol yn perthyn iddynt, ond eu bod fal y lleill yn hilio digonedd o bysgod.

Afonydd.] Nid oes yr un o afonydd Norway yn fordwyol, o herwydd uchder ei glenydd mor, a lliosogrwydd y rhaeiadr. Yr afon fwyaf a elwir y Glommen, sydd a'i blaenau yn llyn Oresund wrth dref Roraas, yr hon gwedi llifo i'r de' o ddeutu 100 milltir sydd yn derbyn afon Wormen o lyn Mioss, yna gwedi rhedeg 200 milltir, mae hi yn ymuno a'r mor wrth ddinas Frederickstadt. Afon Drame sydd yn codi wrth droed mynydd Siangffeld, ac yn ymarllwys i'r mor wrth ddinas Christiana. Mae yr afonydd Louven, Nea, Gulla a rhai bychain ereill sydd a'u blaenau yn y mynyddoedd uchel sydd yn derfyn dwyreiniol i'r wlad, yn ymarllwys i'r mor gogleddol.

Y coed-diroedd, a mwngloddiau sydd yn cael sylwi arnynt dan Denmarc.

---

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion—Gweithfaoedd—Dinasoedd. Trefydd. Anifeiliaid—Pysgod—Adar.*

Y NORWEAID ydynt ddynion cryfion, ac o faintioli canolig: rhydd, siriol a charedig yn eu hymddygiad yn gyffredinol, eto yn dra echrys a llidiog pan eu digier, yr hyn sydd eglur wrth y dull creulon o ymladd sydd yn eu plith: pan ddygwyddo unrhyw ymgecru rhwng y cyffredin, yr unig ffordd i ddial eu llid ydyw ymgyfarfod â chyllill yn eu dwylaw, a gwedi ymfachu y naill wrth y llall ymladdant hyd oni syrth un, neu y ddau yn farwol; neu yn archolledig anfeddyginiaethol. Addysgant eu plant mewn campiau gorchestol megys nofio, rhwyfo, esgutio, dringo creigiau serth, trin arfau, &c. Mae y gwladyddion o mor gelfyddgar ag y gwnant eu gwisgoedd, dodrefn, a phob offerynau teuluaidd eu hunain; hefyd adeiladu cychod ac weithiau

* Banks's Geography, p. 610.

llongau, heblaw rhai offerynau cerdd, a hyn heb unrhyw addysg blaenorol. Maent yn rhagori ar eu cymydogion gogleddol mewn pysgota, hela, ac yn neillduol mewn dringo gelltydd i dynu wyau adar, y rhai yn eu tymhor, sydd ran fawr o'u cynnaliaeth. Eu chwaryddiaethau ar y rhew ydynt gyffelyb i'r rhai a soniwyd am danynt yn hanes Sweden.

GWEITHFAOEDD.] Heblaw yr haiarn-weithfaoedd y rhai ydynt mor aml ag yn Sweden, y mae Norway yn lliosog ei llif-felinau, lle mae coed yn cael eu llifio at bob math o waith. Gan mai dwfr sydd yn troi y peiriannau, ni allant weithio onid yn yr haf gan y rhew.

Crefydd, dysgeidiaeth, llywodraeth, a rhai pethau ereill perthynol i Norway, sydd yn cael son am danynt dan Denmarc.

DINASOEDD. TREFYDD.] CHRISTIANA y brif ddinas sydd yn sefyll ar gwr eithaf aber 60 milltir o hyd. Hi a sylfaenwyd gan Christiern IV. yn 1624, y pryd y dinystrwyd y ddinas Apsloe gan dân. Y trigolion ydynt 10,000. Yr aber sydd frith o ynysoedd coediog a serth, ond mae hi yn fordwyol i'r llongau mwyaf.

Bergen, dinas esgobaethol a'r fwyaf ei masnach yn Norway, sydd yn sefyll ar gwr eithaf aber cylchynedig gan fynyddoedd uchel, y rhai gan eu serthedd, ydynt yn rhwystr i unrhyw gyfrinach fod rhwng y ddinas a'r wlâd, ond mewn llongau drwy enau yr aber yn unig. Y tai gwedi ei britho yn allanol ag amryw liwiau, ydynt o goed, a mynych bu i dân wneyd niwed arnynt. Y trigolion ydynt 20,000.

Drontheim, o gylch 270 milltir i'r gogledd ddwyrain o Bergen, a'r ddinas fwyaf gogleddol yn Ewrop, oddigerth Tornea yn Lapland, sydd ddinas esgobaethol yn sefyll ar gwr uchaf aber 40 milltir o hyd. Hon ydoedd trigfa brenhinoedd Norway hyd yr amser y daeth Cristionogaeth i'r wlâd. Y trigolion ydynt 8000.

Christiansand, sydd ddinas esgobaethol ar fin y mor yn agos i Christiana. Ffrederickstadt sydd 50 milltir i'r de o Christiana: wrth warchae ar hon, y lladdwyd Charles XII. brenin Sweden.

ANIFEILIAID.] Y creaduriaid dof ydynt, meirch o rywogaeth bychain, gwartheg, defaid, geifr, moch, ac ereill a enwyd yn hanes Lapland a Sweden. Y gwylltfilod ydynt yr elk, carw Llychlyn, y lynx, yr arth, y gewai, y llwynog, y blaidd, y leming, y bela, y carlwm, y llostlydan, yr ysgyfarnog, y gwningen, &c. Mae y creaduriaid hyn yn dra lliosog yn yr holl wledydd gogleddol.

Yr *Elk*, sydd greadur tal, ac yn tebygu mewn rhan i geffyl a charw: ei goesau ydynt feinion a hir, ac y mae yn fforchogi yr ewin. Creadur diniwed ydyw: ei gig sydd fwytadwy, a'i groen gwedi ei drin sydd ledr o'r cryfaf.

Y *Llostlydan*, tebyg o ran dull i lygoden, sydd o ddeutu dwy droedfedd o hyd, a throedfedd o uchder: a'i draed blaen fal gwiwair mae yn ymaflyd wrth ddringo coed: y rhai ol ydynt a theneu-groen rhwng y bysedd i'w gynnorthwyo i nofio, ac ei lost neu gynffon sydd deneu a llydan, yn gemog fal pysgodyn. Ymgasglant yn finteioedd yn yr haf wrth afonydd neu lynau i adeiladu lluestai. Gwedi sylwi ar addasrwydd y lle, ymwasgarant i ddechreu ar eu gorchwylion: rhai a gludant glai ar eu cynffonau, ereill goed meinion i'w pwyo i waelod y dwfr i lunio argae yn sylfaen i'w tai, y lleill frigau i'w llenwi: gorchwyl y rhai cryfaf fydd treulio a'u dannedd bhen, goeden fawr ar fin y dwfr i syrthio yn y lle y sylfaenir yr argae, gwedi yn gyntaf ysgythru ei holl ganghenau. Y tai ydynt dri uchder: y llawr sydd dan ddwfr,

lle y deuant yn fynych o'r lloftydd i ymolchi. Pob llofft sydd bedair cell; a bydd 10 neu 12 yn byw yn mhob tŷ. Pan y briwa yr helwyr unrhyw adeilad, gwnant y rhwyg i fynu yn ddiatreg, a bydd y muriau mor llyfn ac mor gadarn ag o'r blaen. Bwytant ffrwythydd coed yn yr haf; ond brigau bedw, planwydd ac ereill ydyw eu hymborth yn y gauaf.

Y *Lemming*, neu lygoden Norway, sydd mor liosog ac y bydd ar rai prydiau, i fyrddiynau o honynt ddyfod o'u llochesydd yn mynyddoedd Colen, a goresgyn gwyneb y wlâd, gan ddistrywio pob llysiau a fyddo yn eu harfod, yna tebygir y distrywiant eu gilydd. Maent o liw coch, ac o faint llygoden ffrengig.

Pysgod.] Mor Norway sydd helaeth iawn o bob pysgod o'r morfil yr hwn sydd a hanes am dano dan Greenland, hyd y penwaig. Mae yn yr amrywiol aberoedd liaws o geimychiaid, crancod, pob math o bysgod cregyn, &c. heblaw morfeirch a morloi, y rhai sydd greaduriaid yn byw ar hyd y creigiau o'r dwfr yn gystal ag ynddo.

Mae hefyd yn mhlith rhyfeddodau moroedd Norway gwedi eu henwi, y mor-ddyn, a'r for-forwyn; hefyd y cracen (creadur cymmaint a mynydd) a'r mor-neidr o faint aruthrol, y rhai mae yn debyg ydynt greaduriaid mwy mewn ffug na sylwedd.

Y penwaig ydynt yn dyfod yn flynyddol at lenydd Norway, yn heigiau o rifedi diamgyffred. Maent yn ymrannu yn dair byddin rhwng Norway ac Ynys yr iâ: un byddin sydd yn ymgyfeirio heibio Ysgotland a'r Ywerddon i Newfoundland, yr ail rhwng Prydain a Ffrainc, a'r drydedd sydd yn troi i'r aswy drwy yr agored i'r Llychlyn. Mae un o'r rhanau hyn yn 5 neu 600 milltir o hyd, a 2 neu 300 o led, ac yn cyrhaedd i'r gwaelod: yn eu plith mae y llamhedydd, y ci coeg, y forgath, y cod, yr hake ac ereill, y rhai wrth gyd-deithio sydd yn gwledda arnynt. Bernir fod myrddiynau yn ail gyrhaedd y mor rhewlyd o ddeutu y nadolig, i lochesu dan wastadoedd o rew didawdd yn nhueddau y pegwn.

Adar.] Mae y rhyw asgellog mor aml yn nglenydd Norway ag y bydd heidiau o honynt fal cymylau yn tywyllu goleuni yr haul, a'u twrf wrth fyned heibio yn gyffelyb i rythr-wynt tymhestlog. Yn eu plith mae yr eryr, yr alarch, yr wydd, amryw fath o hwyaid, yr ysniten, y cryr, y garan, a phob adar perthynol i'r gwledydd gogleddol. Bydd cantoedd o Norweaid yn peryglu eu bywyd wrth ddringo gelltydd serth i gyrhaedd wyau yr adar hyn, ac i ddwyn nyth yr eider, yr hwn sydd gwedi ei lunio â phlu yr aderyn ei hunan. Mae y plu hyn yn fwy gwerthfawr nac unrhyw blu ereill, felly yn dwyn elw mawr i'r anturwyr.

## DOSBARTH III.

*Hanes Norway.*

Nid ydyw yr hanes sydd genym am y wlad hon cyn iddi dderbyn Cristionogaeth yn werth ein sylw, gan nad oes onid son am fuddugoliaethau ei thywysogion ar gewri, dreigiau, anghenfilod ac amryw greaduriaid ffugiol ereill. O ddeutu y seithfed ganrif y dywed haneswyr o Norway, y bu i'w hynafiaid ddarganfod ynysoedd Ferro, ynys yr iâ; yn nghyd a Greenland a Newfoundland rhanau o'r byd gorllewinol.

Pwy a wyr nad pell y dydd i rai o fechgyn y Madogion ymweled â bro eu hynafiaid i brofi bod Madawg ab Owen Gwynedd a'i gyfeillion, gwedi tirio yn America lawer o oesoedd cyn geni Columbus.

Gwedi i'r Norweaid oresgyn glenydd gorllewin Ewrop, anrheithiasant Brydain, ac ni pheidiasant â bwrw eu rhythr-gyrch fyddinoedd iddi, hyd oni ddarfu iddynt ei hennill a gosod eu blaenor Canut ar yr orsedd tan yr enw o frenin Prydain, Denmarc, a Norway. Hyn a fu yn y flwyddyn 845. Aethant drachefn i Paris yn Ffrainc, lle gorfu ar y brenin egwan, am arian lawer gael ganddynt ymadaw. Yna anrheithiasant Yspaen, Sicili, Itali, a glenydd mor y canoldir ar ei hyd.

Olaus oedd y brenin cyntaf a dderbyniodd Gristionogaeth: bedyddiwyd ef yn y flwyddyn 994 gan Bernard, gwr eglwysig o Brydain.

Gwedi coroni Harold Harfagra o ddeutu 1008, ei orchwyl cyntaf oedd uno holl daleithiau Norway, y rhai oeddynt hyd yn hyn yn cael eu rheoli gan liaws o dywysogion; a dyma y brenin cyntaf a reolodd yr holl wlâd.

Yn 1363 y priododd Margaret Waldemar brenines Denmarc, Hakon VI. brenin Norway, yr hyn a barodd undeb y ddwy goron, yr hyn sydd hyd heddyw yn parhau. Y gweddill o hanes Norway sydd yn un a hanes Denmarc.

# DENMARC.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd—Rhaniadau—Hin a thymhorau—Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir—Afonydd—Coedydd—Llysiau—Mwngloddiau,—Ynysoedd.*

DENMARC heb Norway a'i rhanau ereill sydd wlad fechan yn ngorllewin Ewrop. Ei sefyllfa sydd rhwng 54° a 58 o raddau lledred gogleddol; a rhwng 8° ac 11 o raddau hydred dwyreiniol. Mae ei gwyneb yn cynnwys o ddeutu 20,800 o filltiroedd arwynebol. Hi a gylchynir i'r gogledd gan agored Llychlyn, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth Norway; i'r dwyrain gan y Llychlyn; i'r de gan ymerodraeth Germani; ac i'r gorllewin gan y gogledd-for neu for Germani.

RHANIADAU.] Denmarc a'r bröydd perthynol iddi, sydd gwedi ei rhanu fel y canlyn.

| | *Taleithiau.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| Denmarc | Jutland | Aalburg |
| | Funen a'i hynysoedd | Odensee |
| | Zealand a'i hynysoedd | Copenhagen |
| | Sleswic | Sleswic |
| | Holstein | Kiel |
| Norway. | Christiansand | Christiansand |
| | Aggerhus | Christiana |
| | Bergen | Bergen |
| | Drontheim | |
| | Nordland | Drontheim |
| | Finmarc | |

| *Taleithiau.* | *Prif ddinasoedd.* |
| --- | --- |
| Ynys yr iâ | Scalholt |
| Ynysoedd Ferro | |
| Gwerddon *(Greenland)* | |

Hin a thymhorau.] Teyrnas Denmarc, yn cynnwys ynysoedd Zealand, Funen, Laland, Ffalster a Mona, ac ereill llai; yn nghyd a'r penrhyn Jutland, ardaloedd Sleswic a Holstein, ellir ei barnu yn mwynhau hin led dymherus o herwydd agosrwydd cyffredinol ei holl ranau i'r mor: eto bydd ambell auaf caled yn rhewi y mor cyfagos am filltiroedd oddiwrth y glenydd. Yr haf, fal y soniwyd dan Norway sydd o rym y gwres yn peri i bob llysiau dyfu yn fuan. Y gwanwyn sydd anadnabyddus, a braidd yr adweinir y tymhor cynhauaf, gan brysurdeb y trawsfudiad o oerni i wres ac o wres i oerni. Bydd yr hin glaiar yn Mehefin, Gorphenaf ac Awst, yn magu cynifer o wybed, y rhai ydynt yn flinder cyffredin: maent yn Copenhagen yn eu difa â dwfr gwenwynig, yr hwn a roddant mewn llestri ar loriau eu tai, a bydd cibyneidiau o honynt yn cael eu hysgubo allan agos bob dydd.

Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.] Y rhan o Denmarc sydd yn nglyn wrth y cyfandir, sydd yn cynnwys rhai bryniau coediog, dolydd ffrwythlon, a morfeydd ëang, gwedi eu hamrywioli â ffrydiau mân, ac â lliaws o lynau bychain a bâs: ond ni fernir y rhan hon mor ffrwythlon a'r ynysoedd cyfagos, y rhai ydynt yn dwyn helaethrwydd o gynyrch cyffredin y gwledydd gogleddol. Weithiau trosglwyddir llawer o ydau i wledydd ereill, ond llin a chywarch sydd yn cael ei drin fwyaf.

Afonydd.] Afon Eyder sydd yn codi o lyn bychan wrth dref Sedgebourg, ac yn ymarllwys i'r gogledd-for wrth ddinas Tonningen: hon ydoedd y terfyn gynt rhwng Denmarc a Germani. Mae camlas Kiel yr hon sydd 20 milltir o hyd, yn uno yr afon hon a'r Llychlyn. Aber Lymfiord sydd yn cyrhaedd o lenydd dwyreiniol Jutland hyd o fewn 3 milltir i'r gogledd-for, sef, o ddeutu 90 milltir o hyd wrth led bychan. Mae rhai aberoedd a ffrydiau ereill, ond gan eu bychaned ni wiw sylwi arnynt yn y lle hwn.

Coedydd.] Denmarc sydd mor helaeth ac amrywiol ei choedydd a Sweden, ac y mae y ffawydd yn tyfu i faintioli llawer mwy. Llysiau sydd mor amrywiol eu rhywogaethau ac yn Mhrydain. Mae gwyneb garw Norway agos gwedi ei gwbl wisgo â phinwydd, ffawydd ac ereill, y rhai sydd yn dwyn elw mawr i goron Denmarc.

Mwngloddiau.] Nid oes unrhyw fwnglawdd yn Jutland na'r ynysoedd cyfagos: ond yn Zealand cafwyd yn ddiweddar wythen go werthfawr o lô.

Mae yn Norway fwngloddiau o aur, arian, efydd a phlwm, heblaw gwytheni o feini gwerthfawr. Yn Edswol, 36 milltir i'r gogledd o Christiana mae y prif fwnglawdd aur: er bod y gwytheni yn filltiroedd o hyd, eto gan faint y draul i'w gloddio, nid llawer o elw sydd yn deillio o honaw. Yn Konsberg 40 milltir i'r de orllewin o Christiana mae y mwnglawdd arian gwerthfawrocaf yn Ewrop. Y gwythenau o fodfedd i droedfedd o drwch, sydd yn rhedeg drwy geryg calch, a cheryg a elwir quartz, schistus, garnets ac ereill. Mae y clawdd hwn yn agored er ys y flwyddyn 1623, ac yn cadw ar waith o ddeutu 4000 o bobl. Yn Jarlsberg mae un arall yn agored er 1726. Y prif fwnglawdd efydd sydd yn Roraas 68 milltir i'r de ddwyrain o Drontheim: mae hwn yn dwyn elw mawr i'r deyrnas. Y cloddiau

haiarn ydynt aml fal yn Sweden, a rhai o honynt sydd yn agored er ys cantoedd o flynyddau.

YNYSOEDD.] Heblaw ynysoedd Zealand, Funen, Langeland, Laaland, Falster, Mona ac ereill, mae yn perthyn i Denmarc yr ynys Bornholm, yr hon sydd i'r de ddwyrain o gwr dwyreiniol Scania, ynysoedd Anholt, Lessau, a Hertzholm, ar gyfer agored Llychlyn, ac ynysoedd Nordtsand, Fora, Sylt, Fanoe, ac ereill llai i'r gorllewin o Sleswic. Ynys Heligoland sydd o ddeutu 35 milltir i'r gorllewin o enau afon Elb: mae Prydain yn meddiannu yr ynys hon er mwyn cael cyfleustra i dreiddio i'r gwledydd cyfagos.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion—Llywodraeth. Cyfreithiau—Milwyr a Llongau rhyfel—Crefydd—Iaith. Dysgeidiaeth—Masnach—Dinasoedd a threfydd—Creaduriaid.*

Y DANIAID ydynt ddynion cryfion, o faintioli canolig, a lliw iachus sydd ganddynt yn gyffredinol: yn eu hymddygiad maent yn garedig ac addfwyn, a gwrol pan eu galwer i ymddiffyn eu gwlâd. Y mawrion ydynt yn hoffi gwisgoedd ardderchog gwedi eu britho a gemau gwerthfawr, y bobl ganolig sydd neillduol o drefnus, ond y gwerinos ydynt yn fwy tebyg i gaethion, nac i ddynion yn mwynhau rhyddid.

Hen arfer sydd mewn grym er pan wnaed y Llywodraeth yn unbenol, ydyw i'r drydedd ran o bris pob tir a werthir, fod yn eiddo y brenin. Y trethi ydynt mor drymion ar diroedd y mawrion, fal nad allant byth eu cwbl dalu oni bydd ganddynt ryw sefyllfa uchel yn y llys. Bydd weithiau i berchenog etifeddiaeth fawr ei chynyg i'r brenin yn lle y baich gorthrwm a fyddo arni, a llawenydd fydd y canlyniad pan dderbynio y newydd fod ei fawrhydi "yn rasusol gwedi gweled yn dda dderbyn ei dreftadaeth."* Wrth fod y llywodraeth fel hyn yn gorthrymmu y mawrion, maent hwythau yn ymddïal ar eu tyddynwyr, y rhai ydynt weithiau yn dyoddef eisieu mawr.

Mae pob grâdd yn y brif ddinas yn gwisgo cleddyf, ond yn y parthau gwledig, y mawrion yn unig ydynt yn mwynhau hyn. Priodasau a wneir lawer o flynyddoedd cyn y del y ddeu-ddyn yn nghyd; a chynhebryngau yn mhlith y mawrion a oedir weithiau am flynyddoedd gwedi i angau wneyd ei orchwyl, hyd oni all perthynasau y marw gael cyfle addas i ddangos y gwychder mwyaf ar yr achos. Mae yr un arferion hefyd ag a enwyd dan Sweden gan y Daniaid, sef, esgutio ar y rhew, &c. Y trigolion yn Denmarc heb Norway a'i rhanau ereill ydynt agos i 2,000,000 o eneidiau.

LLYWODRAETH. CYFREITHIAU.] Llywodraeth unbenol sydd yn Denmarc, er ys y dadymchweliad yn 1660. Y dull y sefydlwyd y cyfryw sydd yn hanesyddiaeth Denmarc. Mewn un llyfr y cynnwysir holl gyfreithiau y wlad hon. Gall pob troseddwr bleidio ei gwyn ei hunan yn yr uchel lysoedd, heb ymofyn unrhyw gynghorwyr. Cosb farwol sydd anfynych yn Denmarc, ond pan ddygwyddo, dihenyddio ydyw y canlyniad. Y cosbedigaethau ereill ydynt nodi y talcen â haiarn poeth, ffrewyllu, carcharu, neu orchwyl caled.

* Enc. Brit. vol. 5. p. 761.

Milwyr a llongau rhyfel.] Milwyr y deyrnas ydynt 70,000, o ba rai, mae 40,000 yn perthyn i Denmarc, a'r gweddill i Norway. Pob un a ddygir i fynu yn forwr, sydd raid iddo wasanaethu y brenin am chwe' blynedd, yna bydd iddo ryddid i hwylio gyd a'r llestr a fyno, a fyddo yn perthyn i Denmarc, ac os myn fod yn ddarostyngedig i'w alw i wasanaethu y brenin, fe dderbyn wyth swllt bob mis tra y byddo yn alluog i forio. Y llongau rhyfel cyn brwydr Nelson, a'r gwarchae diweddar, oeddynt 36 o rai mawrion, 18 o rai yn cludo 50 gwn, a llawer o rai mân, y rhai ydynt y pryd hyn yn mhorthladdoedd Prydain. Mae pob mab yn Norway yn filwr o'i febyd, ac yn rhwym i ddyfod i'r maes pan ei galwer: ond y rhîf a enwyd uchod sydd yn filwyr sefydlog.

Crefydd.] Y grefydd Lutheraidd sydd yn sefydledig yn Denmarc, ond mae rhyddid i bob enwau ereill i arfer y dull a fynont o addoli, a hyn tan nawdd y cyfreithiau gwladol. Mae saith o esgobion yn Denmarc, pedwar yn Norway, a dau yn ynys yr iâ, y rhai ydynt heb uchel lysoedd, nac unrhyw awdurdod mewn achosion gwladol, onid mewn pethau eglwysig yn unig. Y goron sydd yn cynnal holl weinidogion yr eglwys.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Cainc o'r hen iaith a elwir y Teutoneg yn gymysgedig a llawer o Ellmaneg ydyw iaith y Daniaid. Yr ydoedd dysgeidiaeth yn Denmarc hyd ddyddiau y serydd wr Tycho Brahe yn neillduol o isel, ond llafuriodd y dyn enwog hwnw i daenu gwybodaeth yn mysg ei gyd-wladwyr drwy ystod ei oes. Bu yn foddion i sefydlu ysgolion yn mhob dinas, tref, a phlwyf, y rhai ydynt hyd heddyw yn cael eu cynnal ar draul y llywodraeth. Yn y ddwy brif ysgol yn Copenhagen a Kiel, mae ieithoedd dyeithr, ac amrywiol ganghenau y celfyddydau yn cael eu dysgu, ac yn Sore, Odensee ac Altona mae y tri prif golegau. Sefydlwyd yn ddiweddar yn Copenhagen amrywiol gymdeithasoedd, sef, Cymdeithas y celfyddydau, Cymdeithas i chwilio ansawdd y gwledydd gogleddol, Cymdeithas i chwilio dysgeidiaeth ynys yr iâ, a rhai ereill,

Y pader yn iaith y Daniaid sydd fal hyn,

*Vor fador som er i himmelin; heiligt vorde dit naffn, til komme dit ryke; vorde din dit vilie paa yorden som i himmelin, gif os i dag uort daglige brod; og forgif os uor skyld som vi forgiven uore skyldener, og leed os icke i fristrelse, mens frels os fra ont; thi regit er dit og kraft, og hergled i evighed.* Amen.

Masnach.] Y parth mwyaf o'r ychydig a wneir yn ngweithfaoedd Denmarc a Norway, sydd at angenrheidiau y deyrnas. Mae Denmarc yn ei masnach a'r gwledydd cymydogaethol yn trosglwyddo cryn rifedi o geffylau, a gwartheg, ynghyd ag ŷd, llin, carth, pŷg, tar, &c. Norway; coed, crwyn, a chynyrch ei mwngloddiau, ac Ynys yr iâ; pysgod gwedi eu sychu, plu yr eider, &c. Mae y llywodraeth gwedi llunio cymdeithasoedd i fasnachu gyd a'r ddwy India, Guni, a lleoedd ereill, ond mae y cyfnewidiadau arswydus y sydd ar dro yn Ewrop gwedi diddymu eu hamcanion.

Dinasoedd a threfydd.] Copenhagen, y brif ddinas yn sefyll ar lan dwyreiniol ynys Zealand, sydd un o'r dinasoedd harddaf yn y gogledd: yr heolydd ydynt gwedi eu palmantu yn drefnus: y tai ydynt o briddfeini neu geryg, ac mae hi yn 5 neu 6 milltir o amgylchiad. Ei phorthladd sydd ëang a chyfleus, a'i chaerau amddiffyn ydynt yn dra chryfion. Adeilad hynod ynddi ydyw y twr crwn a adeiladodd Christiern IV. yn dremynfa i'r serydd wr Tycho Brahe: nid oes grisiau yn-

ddo er ei fod yn uchel, ond ffordd droellog o'r tu allan. Dywedir i un o frenhinoedd Denmarc yru ei gerbyd i fynu ac i wared iddo. Dyfethwyd y ddinas gan dân yn y flwyddyn 1728. Y trigolion ydynt 90,000.

Elsinoer, yn yr un ynys â Copenhagen, sydd ddinas hardd yn cynnwys 5000 o drigolion. Mae hi yn sefyll ar enau y Llychlyn, ac yn derbyn tóll gan y llongau a êl heibio. O'r flwyddyn 1786 i 1797, aeth trwodd o ddeutu 10,000 o longau, a thalasant o ddeutu 120,000l. bob blwyddyn o dóll.*

Roschild, dinas fechan ond enwog, am mai ynddi mae beddrod brenhinoedd Denmarc: bu hon yn ddinas hynod gynt. Y trigolion ydynt o ddeutu 3000

Odensee, prif ddinas ynys Funen sydd drigfa esgob: mae ynddi bedair o lanau ac o ddeutu 3000 o eneidiau.

Y trefydd ereill llawnaf o drigolion ydynt Altena, Gluckstadt, Ploen a Kiel.

Creaduriaid.] Gwartheg a cheffylau Denmarc ydynt fychain: y defaid ydynt liosog, a gwlan lled arw sydd arnynt. Y gwylltfilod, megys y llwynog, y dyfrgi, y fronwen, &c. yn gystal yr adar a'r pysgod, ydynt yr un a'r rhai perthynol i Brydain.

---

Ynysoedd Ffaroer ydynt 25 o rifedi, o ba rai mae 17 yn gyfanheddol: eu sefyllfa sydd yn y mor gogleddol, o ddeutu 550 o filltiroedd i'r gorllewin o Norway, a thu a'r un faint i'r de ddwyrain o Ynys yr iâ. Mae y trigolion yn eu harferion yn gyffelyb i'r Norweaid. Trosglwyddant lawer o gig defaid gwedi ei halltu, yn nghyd â gwêr, plu, a gwisgoedd gwlan i Denmarc, a'r gwledydd oddiamgylch.

Ynys yr ia, sydd yn gorwedd rhwng 63 a 67 o raddau lledred gogleddol, a 16 a 24 o raddau hydred gorllewinol. Ei hyd sydd 260 milltir, ei lled 200, ac mae ynddi o ddeutu 60,000 o eneidiau. Mae ei gwyneb fal Norway yn llawn o fynyddoedd uchel, a'u penau yn gwisgo eira oesol: yr hynotaf yn eu plith ydyw y mynydd tanllyd Hecla, yr hwn fydd ar brydiau yn bwrw ffrwd o elfenau toddedig o dyllau yn agos i'w ben, nes y bydd afon danllyd lifeiriol yn distrywio pob peth a fyddo yn ei chyfar yn ei thaith i'r mor. Y grefydd Lutheraidd sydd yn freintiol yma, ond mae llawer o weddillion paganiaeth eto yn aros fal yn Lapland. Braidd bod tŷ yn yr ynys heb ddelwau teuluaidd ynddo, ond bydd gofal mawr i'w cuddio rhag i weinidogion Luther eu gweled. Mae y trigolion hyn mor fucheddol yn eu hymddygiadau, nad ânt dros afon, nac i'w cychod i bysgota; neu i'r maes i hela, nac at unrhyw orchwyl arall, heb dynu eu capiau a gofyn nawdd Rhagluniaeth, a byddant ddiolchgar gwedi yr ymwared. Mae y gwastadoedd a'r dyffrynoedd yn cynyrchu peth ŷd, coed, &c. ond weithiau bydd prinder mawr, o herwydd bydd maesydd ëang o rew yn dyfod o'r mor cyfogledd ac yn ymgloi o amgylch yr ynys, yr hyn fydd yn peri i'r oerni rwystro twf daear. Bydd eirth a gwylltfilod cyfogledd ereill, yn dyfod ar y maesydd hyn o duedd y pegwn, ac yn tirio yn yr ynys. Mae llywydd yn ynys yr iâ fal yn Norway, tan frenin Denmarc.

---

* Pinkerton's Geography, oct. edit. p. 225.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Denmarc.*

YCHYDIG a wyddid am drigolion y wlad hon cyn y chweched ganrif, pan y dechreuasant wneyd sathrad o gylch arfordiroedd Ewrop fal mor ladron, yn yr hyn y buont enwog am oesoedd lawer.

Yn y flwyddyn 1003 y goresgynodd Sweyn brenin Norway ynys Prydain, a sefydlodd ei fab Canut *yr enwog* ar yr orsedd, dan enw brenin Prydain, Denmarc, a Norway: o dan hwn y profodd Denmarc y llwyddiant mwyaf: gorchymynodd ef i'w holl daleithiau dderbyn y grefydd gristionogol: adeiladodd fonachlogydd, gwnaeth bererindod i Rhufain, a lluniodd ffurf o weddiau i'w harfer dros eneidiau y milwyr a syrthiasant wrth ymladd yn ei erbyn. Bu farw yn 1035.

Ni bu dim neillduol o'r amser hyn yn Denmarc hyd deyrnasiad Margaret Waldemar, yr hon trwy ei dewrder a'i doethineb a unodd y tair coron ogleddol yn 1363, a pharhaes yr undeb mewn rhan, hyd lywodraeth ysgeler Christiern II. yn 1523. Gwedi i'r tywysog hwn gael ei ddiorseddu, diangodd i'r Iseldir, treftadaeth ei frawd yn nghyfraith Charles V. lle ni chafodd ond croesaw gwael, ac yno mewn carchar y bu farw.

Ei ewythr Ffrederic, tan enw brenin Denmarc a Norway a ddaeth yn ei le: ceisiodd hwn uno Sweden drachefn â'i deyrnas, ond yr oedd yr enwog Gustavus gwedi ei sefydlu ar orsedd Sweden, ac yn ei hamddiffyn yn wrol.

Christiern III. mab Ffrederic oedd y nesaf a ddaeth i'r frenhiniaeth: adgyweiriodd hwn y cyfreithiau yn Denmarc a Norway, trwy ddileu llawer o allu anoddefol y monachod pabaidd. Yr oedd diwygiad cyffelyb yn cael ei wneyd yn Sweden ar yr un pryd tan Gustavus. Anne merch Christiern III. oedd gwraig Iago I. brenin Prydain. Ni bu dim neillduol yn nheyrnasiad ei fab Ffrederic II. nac yn nheyrnasiad ei wyr Christiern IV. yr hwn fu farw yn 1648 pan esgynodd Ffrederic III. i'r orsedd.

Gan fod y deyrnas y pryd hyn yn dra therfysglyd o herwydd anghytundebau rhwng y senedd a'r gwyr eglwysig yn nghylch awdurdod wladol, cydunwyd i gyfleu pob awdurdod yn y brenin ei hun, ac i wneyd y frenhiniaeth yn etifeddawl: felly ar y 18fed o Hydref 1660 y cyhoeddwyd Ffrederic yn frenin unbenol, a gwnaethwyd ammodau i gadarnhau hyny; ac y maent hyd heddyw mewn grym. Yr ammod 2 a ddywed, "Bydd i frenhinoedd Denmarc a Norway gael eu cyfrif gan eu deiliaid megys blaenoriaid eu pobl ar y ddaear. Nid ydynt i fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfreithiau dynol; a pha bynag ai mewn pethau gwladol ai pethau eglwysig, nid ydynt i addef neb yn farnwr nac yn ben onid Duw yn unig." Ammodau 3, 4, 5, a 6, "Y brenin biau lluddio, dyddymu, neu angwanegu unrhyw gyfreithiau: gall ddileu y cyfreithiau a wnaeth ei hynafiaid; rhoddi lleoedd uchel, neu ddiswyddo y neb y myno; cyhoeddi rhyfeloedd, neu wneyd ammodau hedd; cynnull neu ollwng unrhyw gyfarfodydd eglwysig, &c. Mewn gair mae pob awdurdod yn cael ei gyfleu yn y brenin ei hun, ac ei etifeddion a eisteddant ar orsedd Denmarc a Norway hyd derfyn amser."

Gwedi marw Ffrederic yn 1670, cyhoeddwyd ei fab Christiern V. yr hwn drwy ei drulon filwriaethus a dreuliodd gyfoeth y wlad, heb

unrhyw lwyddiant yn dilyn ei amcanion: bu mewn cynghrair a chynorthwy i Lewis XIV. brenin Ffrainc, ac yn y maes wrth hela y collodd ei fywyd.

Ar ei ol ef y daeth Ffrederic IV. yr hwn hefyd a fu aflwyddiannus yn ei frwydrau a'r enwog Charles XII. o Sweden. Gorfu arno ymostwng i'r ammodau hedd a wnaed yn Trafendahl, er hyny anrheithiodd daleithiau Charles drwy ystod ei alltudaeth yn nhref Bender. Charles, ar ei ddychweliad a adnewyddodd y rhyfel â Denmarc gyd a'r un dewrder ag o'r blaen: ond y gwarchae ar Fredericstadt, lle collodd Charles ei fywyd a roddes derfyn i'r ymryson.

Bu farw Ffrederic yn 1730, gwedi iddo ychydig cyn hyny weled ei brif ddinas ar dan, yr hwn er nad oedd ei barhâd ond deu-ddydd, a ddifaodd 1650 o dai, 5 llan, 3 prif ysgol, heblaw llysoedd cyfreithiau, &c,

Christiern VI. a ddaeth ar ol Ffrederic i'r orsedd. Diwygiodd hwn foesau y wlad, a symudodd ymaith feichiau gorthrwm: ymlafuriodd i gadw heddwch yn ei wlad drwy ystod ei frenhiniaeth, fal y cyfenwyd ef yn dad ei ddeiliaid. Bu galar hir ar ei ol.

Ei fab Ffrederic V. yr hwn a briodasai y dywysoges Louisa, merch ei fawrhydi George II. brenin Prydain, a oedd y nesaf a esgynodd i'r orsedd. Dilynodd hwn lwybrau ei dad, drwy ymegnio i gadw heddwch yn y frô, ac adgyweirio trethi gorthrwm. Dyloewodd ddysgeidiaeth Denmarc trwy ddiwygio yr ysgolion: anfonodd hefyd bump o ddynion dysgedig i chwilio ansawdd Arabia a'r brôydd cylchynol. Bu farw yn 1766, yn alarus am dano fal ei dad.

Ei fab Christiern VII. yr hwn gwedi ei goroni, a briododd y dywysoges Caroline Matilda, merch Ffrederic tywysog Cymru a thad ein tirion frenin George III. â galarus fu y canlyniad. Christiern, hyd yn oed cyn priodi, oedd â'i synhwyrau ar brydiau yn ddyryslyd, ac feily yn hawdd ei reoli gan y gyn-frenines Juliana Maria, ail wraig ei dad, yr hon pan anwyd mab i Caroline a eiddigeddodd wrthi, fal y llwyddodd yn ei dichellion i wahanu am dro y brenin oddiwrth y frenines. Caroline yn ei chyflwr helbulus a gysurwyd gan Count Struensee, prif weinidog y deyrnas, a Count Brandt, un arall o wyr y llys, y rhai a fuont lwyddiannus i uno eilwaith y brenin a'r frenines. Ond Juliana, yr hon oedd a'i gelyniaeth yn parhau o herwydd nad oedd gobaith i'w mab Ffrederic ddyfod i'r orsedd ar farwolaeth y brenin, a ruthrodd yn ddichell-ddrwg efo ei mab a Count Ranzau ar ganol nos i ystafell wely y brenin, ac a'i cymhellodd i roddi y gorchymyn i ddal y frenines, a Struensee a Brandt, dan y cyhuddiad o fod cyfeillgarwch anghyfreithlon rhwng y cyntaf a'r frenines, a bod yr olaf yn fradwr. Y ddau bendefig hyn, gwedi hir garchar caeth a ddihenyddwyd. Ond Syr Robert Keith gweinidog tros Prydain yn llys Denmarc a achubodd fywyd y frenines, drwy fygwth dialedd Prydain os gwnelid unrhyw niwed iddi. Yn fuan gwedi hyn angorodd tair o longau rhyfel Prydain wrth Helsingford, a mynwyd y frenines i mewn i'w dwyn i ddinas Zell yn Hanover, lle dan faich ei gofidion y soddodd i'r bedd, cyn bod yn llawn 24 oed yn 1775.

Y senedd, gwedi i'r terfysg ddystewi a reolodd y wlad hyd 1784, pan y cyhoeddwyd y tywysog Ffrederic mab y frenines Caroline yn llywydd y deyrnas, tra parhâai afiechyd y brenin. Gwedi i'r tywysog yn nechreu ei reolaeth ddangos tuedd aflonydd, eto mewn pryd yn gweled ei gamsyniad, efe a ymroddodd i gadw heddwch yn y frô, ac a fu lwyddiannus hyd 1800, pan yr ymunodd â'r cynghrair gogleddol yn

## DOSBARTH III.

### *Hanes Denmarc.*

YCHYDIG a wyddid am drigolion y wlad hon cyn y chwechfed ganrif, pan y dechreuasant wneyd sarhad o gylch arfordiroedd Ewrop fal mor ladron, yn yr hyn y buont enwog am oesoedd lawer.

Yn y flwyddyn 1003 y goresgynodd Sweyn brenin Norway ynys Prydain, a sefydlodd ei fab Canut *yr enwog* ar yr orsedd, dan enw brenin Prydain, Denmarc, a Norway: o dan hwn y profodd Denmarc y llwyddiant mwyaf: gorchymynodd ef i'w holl daleithiau dderbyn y grefydd gristionogol: adeiladodd fonachlogydd, gwnaeth bererindod i Rhufain, a lluniodd ffurf o weddiau i'w hadrodd tros eneidiau y milwyr a syrthiasai wrth ymladd yn ei erbyn. Bu farw yn 1035.

Ni bu dim neillduol o'r amser hyn yn Denmarc hyd deyrnasiad Margaret Waldemar, yr hon trwy ei dewrder a'i doethineb a unodd y tair coron ogleddol yn 1363, a pharhaes yr undeb mewn rhan, hyd lywodraeth ysgeler Christiern II. yn 1523. Gwedi i'r tywysog hwn gael ei ddiorseddu, diangodd i'r Iseldir, treftadaeth ei frawd yn nghyfraith Charles V. lle ni chafodd ond croesaw gwael, ac yno mewn carchar y bu farw.

Ei ewythr Ffrederic, tan enw brenin Denmarc a Norway a ddaeth yn ei le: ceisiodd hwn uno Sweden drachefn â'i deyrnas, ond yr oedd yr enwog Gustavus gwedi ei sefydlu ar orsedd Sweden, ac yn ei hamddiffyn yn wrol.

Christiern III. mab Ffrederic oedd y nesaf a ddaeth i'r frenhiniaeth: adgyweiriodd hwn y cyfreithiau yn Denmarc a Norway, trwy ddileu llawer o allu anoddefol y monachod pabaidd. Yr oedd diwygiad cyffelyb yn cael ei wneyd yn Sweden ar yr un pryd tan Gustavus. Anne merch Christiern III. oedd gwraig Iago I. brenin Prydain. Ni bu dim neillduol yn nheyrnasiad ei fab Ffrederic II. nac yn nheyrnasiad ei wyr Christiern IV. yr hwn fu farw yn 1648 pan esgynodd Ffrederic III. i'r orsedd.

Gan fod y deyrnas y pryd hyn yn dra therfysglyd o herwydd anrafaelion rhwng y senedd a'r gwyr eglwysig yn nghylch awdurdod wladol, cydunwyd i gyfleu pob awdurdod yn y brenin ei hun, ac i wneyd y frenhiniaeth yn etifeddawl: felly ar y 18fed o Hydref 1660 y cyhoeddwyd Ffrederic yn frenin unbenol, a gwnaethwyd ammodau i gadarnhau hyny; ac y maent hyd heddyw mewn grym. Yr ammod 2 a ddywed, "Bydd i frenhinoedd Denmarc a Norway gael eu cyfrif gan eu deiliaid megys blaenoriaid eu pobl ar y ddaear. Nid ydynt i fod yn ddarostyngedig i unrhyw gyfreithiau dynol; a pha bynag ai mewn pethau gwladol ai pethau eglwysig, nid ydynt i addef neb yn farnwr nac yn ben onid Duw yn unig." Ammodau 3, 4, 5, a 6, "Y brenin biau lluddio, dyddymu, neu angwanegu unrhyw gyfreithiau: gall ddileu y cyfreithiau a wnaeth ei hynafiaid; rhoddi lleoedd uchel, neu ddiswyddo y neb y myno; cyhoeddi rhyfeloedd, neu wneyd ammodau hedd; cynnull neu ollwng unrhyw gyfarfodydd eglwysig, &c. Mewn gair mae pob awdurdod yn cael ei gyfleu yn y brenin ei hun, ac ei etifeddion a eisteddant ar orsedd Denmarc a Norway hyd derfyn amser."

Gwedi marw Ffrederic yn 1670, cyhoeddwyd ei fab Christiern V. yr hwn drwy ei drolon milwriaethus a dreuliodd gyfoeth y wlad, heb

unrhyw lwyddiant yn dilyn ei amcanion: bu mewn cynghrair a chynorthwy i Lewis XIV. brenin Ffrainc, ac yn y maes wrth hela y collodd ei fywyd.

Ar ei ol ef y daeth Ffrederic IV. yr hwn hefyd a fu aflwyddiannus yn ei frwydrau a'r enwog Charles XII. o Sweden. Gorfu arno ymostwng i'r ammodau hedd a wnaed yn Trafendahl, er hyny anrheithiodd daleithiau Charles drwy ystod ei alltudaeth yn nhref Bender. Charles, ar ei ddychweliad a adnewyddodd y rhyfel â Denmarc gyd a'r un dewrder ag o'r blaen: ond y gwarchae ar Fredericstadt, lle collodd Charles ei fywyd a roddes derfyn i'r ymryson.

Bu farw Ffrederic yn 1730, gwedi iddo ychydig cyn hyny weled ei brif ddinas ar dan, yr hwn er nad oedd ei barhâd ond deu-ddydd, a ddifaodd 1650 o dai, 5 llan, 5 prif ysgol, heblaw llysoedd cyfreithiau, &c.

Christiern VI. a ddaeth ar ol Ffrederic i'r orsedd. Diwygiodd hwn foesau y wlad, a symudodd ymaith feichiau gorthrwm: ymlafuriodd i gadw heddwch yn ei wlad drwy ystod ei frenhiniaeth, fal y cyfenwyd ef yn dad ei ddeiliaid. Bu galar hir ar ei ol.

Ei fab Ffrederic V. yr hwn a briodasai y dywysoges Louisa, merch ei fawrhydi George II. brenin Prydain, a oedd y nesaf a esgynodd i'r orsedd. Dilynodd hwn lwybrau ei dad, drwy ymegnio i gadw heddwch yn y frô, ac adgyweirio trethi gorthrwm. Dyloewodd ddysgeidiaeth Denmarc trwy ddiwygio yr ysgolion: anfonodd hefyd bump o ddynion dysgedig i chwilio ansawdd Arabia a'r bröydd cylchynol. Bu farw yn 1766, yn alarus am dano fal ei dad.

Ei fab Christiern VII. yr hwn gwedi ei goroni, a briododd y dywysoges Caroline Matilda, merch Ffrederic tywysog Cymru a thad ein tirion frenin George III. â galarus fu y canlyniad. Christiern, hyd yn oed cyn priodi, oedd â'i synhwyrau ar brydiau yn ddyrysiyd, ac feily yn hawdd ei reoli gan y gyn-frenines Juliana Maria, ail wraig ei dad, yr hon pan anwyd mab i Caroline a eiddigeddodd wrthi, fal y llwyddodd yn ei dichellion i wahanu am dro y brenin oddiwrth y frenines. Caroline yn ei chyflwr helbulus a gysurwyd gan Count Struensee, prif weinidog y deyrnas, a Count Brandt, un arall o wyr y llŷs, y rhai a fuont lwyddiannus i uno eilwaith y brenin a'r frenines. Ond Juliana, yr hon oedd a'i gelyniaeth yn parhau o herwydd nad oedd gobaith i'w mab Ffrederic ddyfod i'r orsedd ar farwolaeth y brenin, a ruthrodd yn ddichell-ddrwg efo ei mab a Count Ranzau ar ganol nos i ystafell wely y brenin, ac a'i cymhellodd i roddi y gorchymyn i ddal y frenines, a Struensee a Brandt, dan y cyhuddiad o fod cyfeillgarwch anghyfreithlon rhwng y cyntaf a'r frenines, a bod yr olaf yn fradwr. Y ddau bendefig hyn, gwedi hir garchar caeth a ddihenyddwyd. Ond Syr Robert Keith gweinidog tros Prydain yn llŷs Denmarc a achubodd fywyd y frenines, drwy fwgwth dialedd Prydain os gwnelid unrhyw niwed iddi. Yn fuan gwedi hyn angorodd tair o longau rhyfel Prydain wrth Helsingford, a mynwyd y frenines i mewn i'w dwyn i ddinas Zell yn Hanover, lle dan faich ei gofidion y soddodd i'r bedd, cyn bod yn llawn 24 oed yn 1775.

Y senedd, gwedi i'r terfysg ddystewi a reolodd y wlad hyd 1784, pan y cyhoeddwyd y tywysog Ffrederic mab y frenines Caroline yn llywydd y deyrnas, tra parhâai afiechyd y brenin. Gwedi i'r tywysog yn nechreu ei reolaeth ddangos tuedd aflonydd, eto mewn pryd yn gweled ei gamsyniad, efe a ymroddodd i gadw heddwch yn y frô, ac a fu lwyddiannus hyd 1800, pan yr ymunodd â'r cynghrair gogleddol yn

erbyn Prydain o gylch yr hawl i chwilio llongau anmhlaid. A chan mai Denmarc oedd yn ymddangos yn fwyaf awchus yn yr achos hyn, anfonwyd i dori 'r ddadl, lynges gref dan ofal y llyngeswyr Parker, Nelson a Graves, trwy agored Llychlyn, a gwedi iddynt angori wrth Copenhagen, dechreuodd y rhan o'r llynges a oedd dan Nelson, sef 12 o longau mawrion a 4 o rai llai, ymladd yn erbyn caerau amddiffyn y ddinas â llu o longau mawrion. Gwedi ymladd o 10 o'r boreu hyd 2 o'r prydnhawn, Ebr. 2, 1802, terfynodd y frwydr ar ymostyngiad Denmarc i luoedd Prydain. Collodd o ddeutu 300 o longwyr Prydain eu bywyd, a chlwyfwyd o ddeutu 700: ond dywedir i ychwaneg na 2000 o Ddaniaid gael eu lladd a'u clwyfo: collasant hefyd 18 o longau mawrion. Bu hyn yn nghyd â marwolaeth ebrwydd Paul ymerawdr Russia, a thuedd heddychol ei fab Alexander tu ag at Brydain yn achlysur i ddadglymu y cyngbrair gogleddol.

Denmarc gwedi heddychû â Phrydain a wrthododd uno a'r galluoedd ereill yn erbyn Ffrainc, gan ddewis bod yn anmhleidgar, ond trwy gyfrwysder sarphaidd y ffrancod yn dannod bod Prydain yn rhy hyf yn trawa lywodraethu y mor, rhwydwyd y tywysog drachefn i ymuno â Ffrainc yn erbyn ei ewythr George III. ein tirion frenin.

Gwedi i senedd Prydain nodi i'r tywysog y perygl yr oedd ynddo, ac yntef heb ystyried, anfonwyd yn 1807 lû mawr o filwyr tan Arglwydd Cathcart, mewn llynges tan y llyngeswr Gambier i Denmarc, a gwedi angori wrth Copenhagen, anfonwyd y cyhoeddiad canlynol i lŷs y tywysog.

## CYHOEDDIAD.

**Gwedi ei anfon ar yr 16 o Awst, 1807, i ynys Zealand.**

Gan fod yr amrywiol ammodau heddwch, a'r cyfnewidiadau presennol mewn ardaloedd trwy gydsynied eu llywodraethwyr yn angwanegu cryfder Ffrainc, fal nad all Denmarc er iddi garu heddwch barhau yn anmhleidgar, y mae yn angenrheidiol anhepgorol i wrthwynebwyr Ffrainc geisio rhwystro arfau galluoedd anmhleidgar i droi yn eu herbyn hwynt.

Yn y golygiad yma ni all y brenin beidio ystyried cyflwr presennol Denmarc, ac y mae ei fawrhydi gwedi anfon Cylafareddwyr a chyflawn allu ganddynt, at ei fawrhydi brenin Denmarc, i erfyn yn y modd mwyaf caredig y cyfryw eglurhad ag mae yr amseroedd yn eu gofyn, yn nghyd â chydsynied yn y cyfryw amcanion, ag a allant yn unig roddi diogelwch rhag y drygau a all y Ffrancod eto wneyd drwy gael meddiant o lynges y Daniaid.

Gan hyny y mae y brenin, ein tirion arglwydd gwedi barnu yn fuddiol, i chwennych cadwraeth llongau rhyfel Denmarc, dros amser, yn un o borthladdodd ei fawrhydi.

Y cadwraeth hwn sydd yn ymddangos mor gyfiawn, ac anhepgorol angenrheidiol, wrth ystyried ansawdd y galluoedd anmhleidgar a'r rhai rhyfelgar, fal ag y mae ei fawrhydi gwedi barnu yn mhellach ei bod yn ddyledswydd iddo ef, ac i'w bobl i gynnal y gofyniad hwn, trwy anfon llynges gref, â byddin nerthol gwedi ei pharotoi â phob angenrheidiau i anturio i wyneb unrhyw perygl.

Yr ydym ni gan hyny yn dyfod i eich brô, drigolion Zealand, nid fal gelynion, ond er hunan ymddiffyniad, i rwystro rhai sydd er ys cy-

hyd o amser yn aflonyddu llonyddwch Ewrop, rhag iddynt beri i fym eich llynges gael ei throi yn ein herbyn.

Yr ydym ni yn gofyn am gadwraeth eich llongau, ac mor bell ydym oddiwrth feddwl gwneyd yspail o honynt, a bod y gwystl mwyaf pwysfawr gwedi cael ei gynnyg eisus i eich teyrnas, ag sydd eto wrth hyn yn cael ei adnewyddu yn enw a thrwy orchymyn penigol y brenin ein harglwydd, sef, os bydd i chwi gyduno yn garedigol â'n gofyniad, fe fydd i bob llong berthynol i Denmarc, ar wneuthuriad heddwch cyffredinol gael eu hadferu yn y cyfryw gyflwr ac yr ydoedd ynddo, pan y derbyniwyd hi tan nawdd Prydain.

Mae yn ngallu eich llywodraeth, trwy un gair, beri i'n cleddyf ddychwel i'w wain, gwedi iddo gael ei dynu allan gyd â'r anewyllysgarwch mwyaf yn eich erbyn; ond, os bydd i chwi drwy ystryw Ffrainc barhau yn fyddar i lais rheswm ac erfyniad caredigol, bydd i'r gwaed diniwed a gollir, a dychryndod dinas warchaedig, syrthio yn ddigyfrwng ar eich penau chwi a'ch cynghorwyr creulon.

Bydd i forwyr a milwyr ei fawrhydi tra y byddont ar y lan, ymddwyn tu ag at Zealand, cyhyd ag y bydd eich ymarweddiad yn addas, fal at frô alluog mewn cynghrair â Phrydain fawr, ac sydd yn bresennol yn annedwydd yn orsaf rhyfel.

Trefnir arweddiad lymdost er cadwraeth da pawb rhag eu drygu.

Pob angenrheidiau a fyddo yn y marchnadoedd a brynir am werth teg cymmodol: ond gan fod cymmorth digyfrwng a gwastadol o ymborth, ebran, tanwydd, &c. yn angenrheidiol i bob byddinoedd, gwybyddir na ellir gochel y cyfryw bethau i gael eu trefnu.

Bydd yn lles cyffredin i'r trigolion, a gochelir gryn annrhefn a cholled, os ceir dynion mewn uchel swyddau yn yr amrywiol ardaloedd, i anfon am angenrheidiau atynt, ac i daledigaeth gael ei drefnu a'i gymmeradwyo trwyddynt.

Os pennodir y cyfryw ddynion, ac iddynt gyflawni eu dyledswydd, heb ymyryd â phethau nad yw yn perthyn iddynt, hwy a berchir, ac fe anfonir atynt ar ddierau teg am bob angenrheidiau: ond gan nas dylai y trigolion wrthwynebu y trefniadau hyn, mae yn angenrheidiol i'r dinasyddion aros yn eu hamrywiol drigfanau, o herwydd bydd i bwy ddyn neu ddynion bynag a geffir yn arfog, neu yn euog o unrhyw fradwriaeth gael ymddygiad llymdost tu ag attynt.

Gan fod llywodraeth Denmarc hyd yn hyn gwedi gwrthod ymddwyn yn garedig yn y gorchwyl presennol, mai rhan o'r fyddin gwedi ei bwrw i dir, ac y mae 'r holl alluoedd mewn agwedd ymladdgar: ond nid ydyw eto yn rhy hwyr i wrando ar lais rheswm a chymedroldeb.

Gwedi ei roddi yn agored Llychlyn, dan ein llaw a'n sêl yr 16 o Awst, 1807.

J. GAMBIER,
Llywydd Llynges Prydain yn y Llychlyn.
CATHCART,
Llywydd byddinoedd Prydain yn ngogledd cyfandir Ewrop.

Gwedi iddynt wrthod cydsynied â'r gofyniadau hyn, tywysodd Arglwydd Cathcart ei luoedd i ddechreu gwarchae ar y brif ddinas, ac angorodd y llyngeswr Gambier y llongau mewn lle addas, a dechreuodd y gorchwyl dychrynllyd ar yr 2 o Fedi, ac nis terfynodd yn llwyr hyd y 5, pan y daeth arwydd o ymroad allan o'r ddinas, a pheidiwyd a thanio yn ddiatreg. Y canlyniad ydoedd, rhoddi i fyny holl longau rhyfel Denmarc o bob maint.

Er na thaniwyd un ergyd cyn rhybuddio y ddinas, na chwaith gwedi gweled yr arwydd cyntaf o ymroad, eto bu gryn ddistryw ar y lle. Llosgwyd hyd y llawr y brif ysgol, y brif eglwys, a 600 o dai; a dywedir i 2000 o bobl golli eu bywyd.

Yn fuan gwedi hyn bu farw Christiern VII. a'i fab Ffrederic V. yr hwn oedd weithian yn llywydd y wlad, a ddaeth i'r orsedd.

# YMERODRAETH RUSSIA.

## DOSBARTH I.

*Maintioli a chylchynoedd—Taleithiau—Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir—Hin a thymhorau—Afonydd—Llynau—Mynyddoedd—Coedydd. Llysiau—Mwngloddiau—Ynysoedd.*

RUSSIA yw y wlad fwyaf ar wyneb daear: mae rhan fawr o honi yn Ewrop tan yr enw Muscovi; a rhan arall yn llawer mwy yn Asia tan yr enwau Siberia, &c. Ei hyd o ddinas Riga yn y gorllewin i frô Kamschatka yn y dwyrain, sydd o gylch 5200 o filltiroedd, a'i lled cyffredinol sydd o ddeutu 3000. Hi a gylchynir i'r gogledd gan y mor rhewlyd; i'r dwyrain gan gyfyngfor Bhering, a'r mor tawel gogleddol, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth America; i'r de' gan wlad y Twrc, mor Caspin, ac ymerodraeth China; ac i'r gorllewin gan Sweden, mor Llychlyn a Prussia.

TALEITHIAU.] Yn ngogledd-barth Muscovi mae talaith eang Archangel, yr hon sydd yn estyn ar fin y mor rhewlyd o Sweden hyd at gyffiniau Asia. I'r de' iddi, ac ar hyd y terfyn sydd yn gwahanu Ewrop oddiwrth Asia, mae yr amrywiol daleithiau a elwir Vologda, Perm, Viatka, Kazan, Simbirsk, Saratov a gwlad ar hyd afon Don, trigolion yr hon a elwir Cossaciaid, y naill dalaith yn ol y llall yn rheolaidd hyd for Asoph. Talaith Escaterinoslaf a gwlad Taurida yw y rhanau mwyaf deheuol, y rhai sydd yn cynnwys Tartari leiaf a'r tir a ennillwyd yn ddiweddar oddiar y Twrc. O du y gorllewin mae y tir eang a gafodd Russia ar raniad Poland. Taleithiau Riga, Revel, Petersburg a Viborg sydd yn sefyll ar hyd lenydd culfor Riga a Ffinland, a thalaith Olonetz ar derfynau Sweden sydd yn gorphen y cylch. Taleithiau canol-barth Muscovi ydynt Novogorod, Tuer, Kostroma a Yaroslavl ar du dwyrain a thu gogledd i'r afon Volga; a Polotsk, Pskov, Smolensk, Mosqua, Vladimir, Nisney, Moghilev, Calonga, Toula, Riazan, Tambor, Penza, Simbirsk, Orel, Sieverskov, Tchernigof, Koursk, Kiev, Charkov, Voronetz ar y tu gorllewin iddi.

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Gwlad wastad yn gyffredinol yw Russia, ond gan oerder ei hin, ac amlder ei chorsydd yn bwrw i fyny darth gwenwynig, nid yw gryn haner tir yr ymerodraeth yn cael ei drin: er hyny cyfarfyddir ag amryw wastadoedd teg tros gantoedd o filltiroedd o hyd a lled, ac arnynt weiriau cyfuwch ag ysgwyddau dyn, yr hwn yn y rhai deheuol á adewir yn fynych i bydru, gan liosogrwydd cnydau y tir à fyddo gwedi ei drin. Mae yr holl frô dan yr un hingylch â Petersburgh yn cynyrchu digonedd o ryg, &c. a'r tir tan yr un hingylch â Moscow sydd helaeth o wenith, haidd, ceirch, &c. Ond

tra mae y parthau deheuol yn cynyrchu gwinrawn a ffrwythydd ereill, mae yr holl frô sydd yn terfynu ar y mor cyfogledd o Archangel i Kamtschatka, heb unrhyw lysieuyn gwyrdd yn tarddu o honi.

HIN A THYMHORAU.] Gan fod cwr deheuol Russia yn yr un lledred ag Itali, a'i chwr gogleddol dan yr un cylch â Lapland, mae yn rhaid bod ei hinsoddau mor amrywiol ag ydyw yn y gwledydd sydd yn y cyfrwng. Ond wrth ystyried yr hin dan un golygiad, gwlad oer yn gyffredinol yw Russia. Mae afon Neva wrth y brif ddinas yn glöedig gan rew o Dachwedd hyd Fawrth neu Ebrill, felly ansawdd y tymhorau sydd gyffelyb i'r hanes o berthynas iddynt a roddwyd tan Sweden neu Norway. Bydd yr haul tan gudd am ddeu-fis bob gauaf yn mharthau gogleddol Siberia, ond yn tywynu yn ddysglaer am gymmaint amser yn yr haf. Mae agosrwydd y wlad hon i'r pegwn, a meithder ei lled, yn peri bod canol nos yn Kamtschatka, ei therfyn dwyreiniol, agos yr un munud a chanol dydd yn Ffinland, ei pharthau gorllewinol.

AFONYDD.] Yr afon fwyaf yn Ewrop yw y Volga: mae ei blaenau yn nhalaith Tuer ar gyfer mynyddoedd Valday, ac y mae yn ei harllwys ei hunan trwy ychwaneg na 60 o aberoedd i for Caspin, yn ol rhedeg 1700 o filltiroedd heb unrhyw raiadr yn ei holl rediad.

O du y gorllewin i'r Volga mae afon Don neu Tanais, yr hon sydd yn tarddu o lyn yn nhalaith Rezan: ei rhediad sydd trwy goed-dir eang a gwastadoedd ffrwythlon, ac wrth ddinas Asoph mae hi yn ymuno â'r mor.

Afon Nieper sydd yn codi o fynydd-dir yn Smolensk; ei llifiant sydd trwy rai o'r taleithiau mwyaf ffrwythlon yn Russia, a'i harllwysiad sydd i'r mor du, gwedi iddi redeg o ddeutu 1000 o filltiroedd. Mae agos i 300 milltir o honi yn fordwyol, ond rhwng hyny a'i blaenau mae 13 o reieidr serth.

Yn mhlith yr amrywiol afonydd sydd yn ymgyfeirio tu ag at y mor rhewlyd mae afon Cara, yr hon, er nad yw yn fawr, sydd hynod o herwydd ei bod yn derfyn am 140 milltir rhwng Ewrop ac Asia.

Afon Petshora sydd a'i chychwyn yn mynyddoedd Ural, ac mae hi yn rhedeg o gylch 450 o filltiroedd cyn ymuno â'r mor rhewlyd.

Afon Mesen sydd yn rhedeg 350 o filltiroedd ac yn ymarllwys i'r mor gwyn.

Afon Dwina sydd a'i blaenau yn nhalaith Vologda, a'i harllwysiad sydd yn y mor gwyn, gwedi dylifo tros 500 o filltiroedd.

Afon Duna sydd yn tarddu o lyn bychan yn agos i dref Biala: mae amryw reieidr serth yn ei llwybr i'r Llychlyn. Bydd y rhew a fyddo yn nofio arni yn gwneyd cryn niwed ar ddinas Riga agos bob gwanwyn.

Afon Niester sydd yn rhan fawr o derfyn rhwng Russia a Twrci: ei blaenau sydd yn mynyddoedd Carpathia, a'i harllwysiad yn y mor du, gwedi iddi lifo 600 o filltiroedd.

Afon Onega yw y fwyaf gorllewinol yn Russia: ei harllwysiad sydd i'r mor rhewlyd. Afon Sirr sydd yn uno llyn Onega â llyn Ladoga, o'r hwn mae tarddiad afon Neva, yr hon sydd yn myned heibio y brif ddinas i gul-for Ffinland.

Afon Narva sydd a'i rhedfa o lyn Peypus i gul-for Ffinland, ac afon Pernof o yn agos i'r un llyn i gul-for Riga.

Afon Oby sydd â'i blaenau yn China, yr hon gwedi rhedeg trwy lyn Teletskoe yn Russia, sydd yn ymarllwys i'r mor rhewlyd, gwedi rhedeg o ddeutu 2000 o filltiroedd.

Afon Irtish sydd hefyd yn dechreu yn China: ei rhediad sydd trwy lyn Norsaisin ar derfyn Russia a China, ond cyn cyrhaedd y mor, mae hi yn ymuno ag afon Oby.

Afon Tobol gwedi rhedeg 300 milltir, a derbyn afonydd Tura, Iset, ac ereill llai, sydd yn ymuno a'r Irtish.

Afon Yenesei sydd yn cychwyn ei llifiant yn China, ac yn ol rhedeg 1500 o filltiroedd, mae hi yn ymarllwys i'r mor rhewlyd.

Afon Lena, y fwyaf yn Siberia sydd ar ol llifo tua 2000 o filltiroedd yn ymuno â'r mor rhewlyd.

Yr afonydd hynotaf ereill yn Russia yn Asia, yw yr Yana, Indighirka, a'r Kolyma, y rhai sydd yn ymarllwys i'r mor rhewlyd; heblaw yr Amur, Anadyr a'r Kamtschatka y rhai sydd yn ymuno a'r mor tawel.

Llynau.] Llyn neu for Casbin sydd o ddeutu 700 milltir o hyd, ac o 140 i 400 o lêd: mae yr afonydd a elwir Emba, Ural, Volga, Kumma, Terek, Sulak, Agrahkan, Kur a'r Arus yn ymarllwys iddo, ond nid oes yr un yn deillio o hono: ac fal y crybwyllwyd o'r blaen, hwn yw yr unig for nad yw yn ymuno â'r mor mawr. Ei bysgod ydynt helaeth, a'i lenydd creiglyd sydd noddfa i filoedd o'r rhyw asgellog. Dywedir bod y glaswellt sydd ar hyd ei ymylau yn gwenwyno y march, tra mae yn fagwriaethol i anifeiliaid ereill. Mynodd Pedr I. yr hwn ni chredai yr hanes, beri i'w farch bori o hono, a gwiriwyd y chwedl.*

Llyn Baikal yn nhalaith Irkutsk, ac ychydig i'r dwyrain o for Casbin, sydd 380 o filltiroedd o hyd, a thu a 30 o lêd: y Russiaid a'i geilw *Svetoie more*, sef y mor sanctaidd. Mae ynddo helaethrwydd o foelrhoniaid, â heigiau o bysgod tebyg i benwaig. Llyn Imandra yn Lapland y Russiaid sydd hynod, am ei fod yn noddfa i liaws o adar dwfr: ychydig rhyngddo a'r de yn nhalaith Olonetz mae llyn Onega, yr hwn sydd 150 milltir o hyd ac o ddeutu 30 o lêd: ceryg ei lenydd a'i ynysoedd ydynt galch gyd ag ambell wythien o geryg marble. Ychydig i'r gorllewin mae llyn Ladoga, yr hwn yw y mwyaf yn Ewrop: ei hyd sydd 130 milltir wrth 70 o lêd: ei waelod sydd greiglyd, a darostyngedig yw i wyntoedd tymhestlog. Ychydig i'r de orllewin mae llyn Peypus, o hwn fal y crybwyllwyd, mae afon Narva yn tarddu: i'r dwyrain iddo mae llyn Ilinen, hynod am mai ar ei fin mae dinas enwog Novogorod. Llyn Beilo sydd gyfagos i Ilmen: gelwir ef hefyd y llyn gwyn, oddiwrth wynder ei waelodion cleiog. Llyn Altan neu y llyn euraid, sydd yn gyfagos i drûm Altai, ac o ddeutu 40 milltir o hyd wrth 20 o lêd.

Y llynau hynotaf ereill ydynt y Piazinsko yn ngogledd Siberia, a'r Tshany a Soumi yn nhaleithiau Tobolsk a Kolhyvan.

Mynyddoedd.] Mynyddoedd Olonetz, y terfyn rhwng Ffinland y Russiaid a Ffinland y Swediaid a Lapland, sydd a'u rhedfa i'r gogledd am 900 o filltiroedd. Er nad ydynt cyfuwch a'r drûm arfonig yn Ngwynedd, eto mae iâ oesol yn meddiannu ei chopa: ei defnydd ydyw ceryg calch, gwenithfaen, petrosilex ac ereill, heblaw rhai gwytheni o efydd.

Mynyddoedd Uralia ydynt yn cyrhaedd o ledred 50 i 67 o raddau gogleddol, sef o ddeutu 1000 o filltiroedd. Y Russiaid a'i geilw *Semenoi poias* gwregys y ddaear, yr hwn sydd lysenw arnynt pan y cymharom hwynt â mynyddoedd Andes yn America ddeheuol, y rhai

* Tooke's View of Russia, v. 1, p. 202.

heblaw rhagoriaeth uchder sydd 5000 o filltiroedd o hyd. 1500 llâth yw uchder Panda, y mynydd uchaf yn y drûm. Y mwngloddiau aml o'i deutu ydynt werthfawr, yn enwedig y rhai yn nghymydogaethau dinasoedd Orenburg a Perm.

Wrth fyned o Petersburgh i Moscow yr eir dros trûm Valday, yr hwn nid yw ond bryn-dir go uchel yn wisgedig o goed o amryw rywogaethau. Rhwng y rhai hyn a'r de nid oes ond gwastadoedd ëang, nes y cyrhaeddom fynyddoedd Taurida yn mröydd deheuol y deyrnas.

Rhwng mynyddoedd Olonetz a mynyddoedd Ural, mae trum fechan yr hwn sydd yn terfynu yn benrhyn yn y mor rhewlyd: ychydig i'r gogledd o lyn Onega, mae mynyddoedd Scevernayagori.

Y mynyddoedd mwyaf yn Russia yn Asia ydyw trûm Altai, yr hwn sydd yn myned heibio i flaenau afonydd Irtish, Oby a'r Yenesei, ac yn cyrhaedd i'r de i lyn Baikal, lle mae ei enw yn newid i fynyddoedd Syansk. Oddiyno mae yn ymgyferio tu ag at ddinas Ochotsk, lle y gelwir trûm Zablonoi. Mae dwy gainc yma yn deillio o hono: yr un dwyreiniol a elwir trûm Stanovoi sydd yn cyrhaedd hyd at barthau dwyreiniol y wlad, a'r orllewinol a elwir trûm Daouria sydd yn taflu cainc hyd at barthau China. Yn agos i derfyn y drûm mae cangen yn ymdaflu ar hyd Kamtschatka yr hon sydd yn cynnwys mwy o foelydd tanllyd nag unrhyw drûm arall ar wyneb daear.

Mynyddoedd Caucasus, hynod mewn hanesyddiaeth, sydd drûm yn llunio peth o'r terfyn rhwng Russia, Twrci a Persia. Mae blaenau y mynyddoedd hyn, hyd o'r mor du i for Caspin yn gwisgo iâ oesol.

Coedydd. Llysiau.] Mae amryw wastadoedd ëang yn Russia yn Asia heb ond ychydig o goed arnynt, tra mae holl wyneb Muscovi agos yn ymddangos yn un goedwig. Yr ychydig a wyddis am lysieuaeth Russia sydd gwedi deillio o lafur dyeithriaid er dyddiau Cathrin II. yr hon oedd hynod am ei hawydd i daenu pob math o wybodaeth fuddiol yn mhlith ei deiliaid. Coed ydynt yn helaeth, megys amrywiol fath o ffawydd a larswydd, y rhai ydynt yn diwallu amryw o wledydd Ewrop â hwylbreni, pyg, tar, &c. Y coed ereill ydynt y llwyfan, palwyf, bedw, ysgaw, aethnen, masarn, &c. Yn mhlith y manwydd, yr hynotaf ydynt y llygeirian, heblaw eirin mai ac amryw fâth ereill o rawn cyffredin yn Mhrydain.

Mwngloddiau.] Y prif fwngloddiau perthynol i Russia ydynt yn Siberia, sef y rhai â ddarganfuwyd gan ddynion cyfarwydd gwedi eu hanfon i'r perwyl hwnw gan Pedr I. Mae yno amryw fwngloddiau aur yn agored er y flwyddyn 1719, ond y cyfoethocaf o honynt, yw yr un sydd yn nghymydogaeth Catherinburg. Mwngloddiau Nerskink a Schlangenberg ydynt yn cynnwys plwm, a rhai gwythenau o aur. Mae amryw fwngloddiau haiarn ac efydd yn Muscovi, ond nid ydynt mor aml nag ychwaith yn cynyrchu cystal defnyddiau â'r cyffelyb yn Siberia. Y meini gwerthfawr sydd yn cael eu codi o fynyddoedd Uralia ac Altai ydynt y topas, beryl, jacinth, felspar, onyx, jasper, porphyri ac ereill.

Ynysoedd.] Spitzbergen, yn cyrhaedd o ledred 76½ i 80 gradd, yw y tir mwyaf gogleddol yn Ewrop. Mae yr ynys hon yn sefyll i'r gogledd o Norway, a rhwng Greenland o du y gorllewin a Nova Zembla o du y dwyrain: y morwr Barentz a'i darganfu yn 1596. Defnydd ei mynyddoedd ydyw gryd a gwenith-faen, ond nid yw yr uchaf onid o ddeutu 1200 llath, o herwydd bod mynyddoedd yn pallu mewn uchder, po nesaf y byddont at y pegwn. Y glenydd ydynt greiglyd a serth, ac

yn noddfa i rifedi aruthrol o adar. Mae nos barhaus bedwar mis bob gauaf, a dydd cyhyd bob haf. Y creaduriaid ydynt eirth gwynion a llwynogod gwynion, ond nid yw y lle yn addas drigfan i ddyn, oddigerth yn y haf, pan y bydd llongau Prydain a lleoedd ereill yn myned i'r mor cyfagos i bysgota morfilod. Mae yr ynysoedd rhew yn nghwr gogleddol yr ynys hon, fal cynifer o dyrau, neu y cyfryw adeiladau ereill, a phan fyddo yr haul yn tywynu yn ddysglaer, yr hyn sydd gyffredin yn y broydd oerion, maent yn dryfrith o bob lliwiau.

Nova Zembla, yn gorwedd rhwng Lledred 71 a 75 o raddau gogleddol, sydd ynys fawr yn ngogledd Russia, ond gan oerder ei hin, a llomder ei gwyneb nid oes ynddi ddynion yn cyfanneddu mwy nag yn Spitzbergen. Y creaduriaid yn cyfanneddu ynddi, ydynt eirth gwynion, llwynogod, a cheirw Llychlyn, heblaw moelrhoniaid a chreaduriaid ereill. Bydd trigolion Archangel yn ymweled â hon yn yr haf i hela a physgota, ond nid oes neb eto gwedi anturio yn mhellach na 30 neu 40 milltir i mewn i'r tir.

Ynys Cronstadt yn nghul-for Ffinland, sydd hynod am ei bod yn brif letty llynges Russia. Mae ynddi 60,000 o drigolion, y rhai ydynt gan mwyaf yn Esthoniaid.

Ynysoedd Oesel a Dago yn Llychlyn, ydynt greiglyd ac anffrwythlon, er hyny yn drigfanau llawer o eneidiau.

Am yr ynysoedd sydd yn y mor gwyn, ac y rhai sydd gyfagos i lenydd Lapland, ni wiw sylwi arnynt gan nad oes trigolion ynddynt.

Ynysoedd Russia yn Asia ydynt ynysoedd Aleutia, y rhai sydd yn sefyll i'r dwyrain o Kamtschatka. Y rhai hynotaf yn mhlith ugeiniau o honynt ydyw ynys Bhering, ac yr ynys efydd.

Ynysoedd Andrenovia ydynt saith neu wyth o rifedi: eu sefylfa sydd o ddeutu 500 milltir i'r de-ddwyrain o Ynys Bhering, ond nid oes trigolion ynddynt.

Ynysoedd Kurile ydynt yn cyhaedd o benrhyn deheuol Kamtschatka, hyd o fewn ychydig i ynysoedd Jesso a Japan. Mae mynyddoedd tanllyd ar rai o honynt, ac mae y tir yn gyffredin yn ffrwythlon; ond o 21 o rifedi, 9 neu 10 sydd yn cynnwys trigolion.

## DOSBARTH II.

*Trigolion—Moesau ac arferion—Crefydd—Llywodraeth. Cyfreithiau. —Milwyr a llongau rhyfel—Iaith. Dysgeidiaeth—Masnach—Dinasoedd a threfydd—Camlesydd—Creaduriaid.*

NID oes un wlad dan haul mor amrywiol ei chenhedloedd ag ydyw Russia, y rhai ni oddef cylch y gwaith hwn ond braidd eu henwi. Y gyntaf ydyw y Russiaid sydd gwedi tarddu o'r Ysglafoniaid, yr hon yw y brif genedl mewn meddiant o rwysg yr Ymerodraeth. 2. Y Pwyl neu Polandiaid y sydd yn cyfanneddu taleithiau Polatsk a Moghilev, ac y tir eang a oresgynodd y Russiaid pan ddygwyd Poland yn yspail rhyngddynt, gan gyd ladrata gyd â Prussia ac Austria. 3. Trigolion Esthonia a Livonia; a Ffiniaid sydd yn cyfanneddu Ffinland, a thaleithiau Viberg, Petersburgh a rhanau ereill o'r Ymerodraeth. 4. Y Daniaid sydd yn byw yn ynysoedd Llychlyn, y rhai a gyfrifir yn ddeuddeg o amrywiol lwythau. 5. Y Tartariaid ydynt oll yn naill ai

Mahometaniaid, neu Eulun-addolwyr: y rhai Mahometanaidd ydynt yn preswylio taleithiau Parma a'r broydd cylchynol, ac y maent yn gyffredin yn weddol yn eu hymddygiad: y lleill ydynt yn preswylio amrywiol ranau o Siberia, yn blith tra-phlith â lliaws o lwythau paganaidd ereill. Gyd â y rhai hyn, mae mewn amryw o daleithiau Russia, Dartariaid o froydd Nagay a Crim, y rhai yn nghyd a'u tir a ddaeth yn eiddo Russia yn 1783; hefyd Mescherakiaid, Bashkiriaid, Kirghistiaid, Yakoutiaid a Calmuciaid gwynion. 6. Cenhedloedd bröydd Caucasus ydynt chwech o rifedi, ac yn eu galw eu hunain yn ol y mynyddoedd, afonydd, neu ryw bethau hynod a fyddo yn eu cyffiniau. 7. Y Samoediaid sydd yn byw yn mharthau gogleddol Russia, sef, ar fin y mor rhewlyd. 8. Y Mungaliaid sydd ar wasgar yn niffaethfaoedd Gobi; y Bouratiaid ar fin afon Baikal, a lleoedd ereill yn nhalaith Irkoutsk: a'r Calmuciaid yn cynnwys pedwar llwyth ydynt Baganiaid yn addoli y Lama.* 9. Y Tongusiaid, eulun-addolwyr sydd ar wasgar yn y darran sydd rhwng afon Ennisey a mor Ochotsk. 10. Camschatciaid sydd ar gyffiniau cyfyng-for Bhering. 11. Coraciaid ar fin mor Penjenscoi. 12. Curiliaid, trigolion ynysoedd Curil yn mharthau dwyreiniol Russia. 13. Aleoutiaid ydynt eulun-addolwyr yn cyfanneddu yr ynysoedd rhwng Siberia ac America. 14. Arintsiaid, cenedl liosog yn byw yn nhalaith Kolhyvan. 15. Yukaghiriaid ydynt yn preswylio glenydd afonydd Yana, Kolhyma a'r Lena. 16. Tchoutchiaid sydd yn byw yn ngogledd ddwyrain Siberia, sef, rhwng afon Kolhyma ac Anadir. I chwanegu at y cenhedloedd hyn, mae yn Russia liaws o Dartariaid o wlad Buckhary, Persiaid, Georgiaid, Indiaid, Groegiaid, Serfiaid, Albaniaid, Bulgariaid, Moldaviaid, Valeciaid, Armeniaid ac Iuddewon

Rhif y trigolion yn Russia yn Ewrop, ydynt o ddeutu 36,560,000; ac yn Russia yn Asia o ddeutu 3,600,000 o eneidiau.

MOESAU AC ARFERION.] Anhawdd ydyw crynhoi mewn cylch bychan, yr arferion sydd yn mhlith y fath gynifer amrywiol o Genhedloedd, ag sydd yn Russia. Maent yn mhob parth o'r Ymerodraeth yn neillduol am gynnal dyddiau gwyliau, sef dydd geni, dydd enwi, a'r dydd y cawsant unrhyw lwyddiant bydol, yn nghyd ag y rhai gosodedig. Mae y Russiaid sydd gwedi deillio o'r Ysglafoniaid, yn ddynion o agwedd corfforol hardd, hynod am ddyoddef caledi; ond nid ydynt hir hoedlog, gan eu tuedd i ddiod gadarn, ac yr arfer wladol o ymdrochi agos bob dydd, mewn dwfr twym bob yn ail â dwfr oer. Bydd y gwladyddion fyw yn foddlonus dros wythnosau ar flawd ceirch â dwfr yn unig, fal yr achubont ychydig i gynnal eu gwyliau. Y merched ydynt brydferth a theg, a hynod am ufuddhau i'w gwyr: dywedir eu bod yn chwennych cerydd, ac eu bod yn anfoddlon os arbedir y wialen. Gorchwyl y rhieni ydyw priodi eu plant: a mynych y dygwydd na cheiff y ddeu-ddyn ieuainc weled ei gilydd, hyd oni ymgyfarfyddont wrth yr allor. Gwedi priodi, dyry y wraig ieuainc ffrewyll i'w gwr yn arwydd o ymostyngiad iddo, yna coronir hi â phlethiad o wermod

* Y Lama sydd offeiriad paganaidd yn cael ei addoli gan frenhinoedd Tartari ac eu deiliaid, tan yr enw *Lama congiw*, sef, duw tragywyddol. Ni welir ef un amser, ond yn nghanol lampau goleu mewn cell ddirgel yn ei lŷs. Y dyb gyffredin yw, pan y byddo y Lama farw, nad ydyw ei enaid ond ymado â hen babell wael, i ymofyn un well, ac yna meddiannu yn ddiatreg gorff bachgenyn ieuanc yr hwn a nodir allan wrth arwyddion adnabyddus i offeiriaid y Lama yn unig.—Enc. Brit. v. ix. p. 513.

er dangos chwerwder y cyflwr priodasol, ac wrth ymado a'r allor, bwria y clochydd ddyrnaid o hoppys ar ei phen, gan chwennych iddi fod mor ffrwythlawn a'r llysieuyn hwnw, ac i orphen y ddefod, bydd i fonach mewn gwisg o groen gafr ddylyn y teulu ieuainc i'w cartref, dan rith gweddio o fod eu heppil mor liosog â blew ei wisg. Mae rhieni yn cadw dysgybliaeth lem ar eu plant, o ba oedran bynag, tra y byddont dau eu cronglwyd. Nid anfynych yn Petersburgh y gwelir merch ieuanc mewn gardd, ai chefn yn noeth yn dyoddef ffrewyllau gweision ei thad, am ryw drosedd teuluol neu gilydd. A chyn lleied ydyw y cywilydd sydd yn dylyn hyn, ac yr eistedda y ferch yn uniongyrch i fwyta gyd a'i thad a'i wahoddedigion, os bydd i'r gosb fod heb ei rhoddi i orwedd.

Y prif arferion yn y gauaf ydyw esgutio, neu deithio ar y rhew mewn yslêd yn rhwym wrth garw Llychlyn. Adeiladant ar y Nefa ar gyfer Petersburgh liaws o gludeiriau rhew: y dull y llunier hwynt ydyw gosod coed hirion i ymgytarfod yn y pen uchaf fal tô tŷ, yna toi yr adeilad â darnau o rew, a thywalit dwfr arno i'w ymgorffoli. Y chwareuyddion gwedi dringo ar ysgol i'w ben, a ymollyngant mewn ysled, a bydd y gŵth a gaffont yn y goriwared yn eu gyru yn chwyrn rai cantoedd o lathenau ar wyneb yr afon. Mae yn nechreu Ionawr ffair o barhad tridiau ar yr afon hon, lle y bydd miloedd o wartheg tewion, defaid, lloi, adar, &c. gwedi eu lladd at gynnaliaeth y brif ddinas am y tri mis canlynol.

Mae llawer o weddillion paganiaeth yn aros yn mhlith y gwerinos; megys rhoddi ymborth â delwau gyd â'u meirw; yn nghyd â llythyr oddiwrth yr offeiriad at St. Pedr, yn adrodd rhinweddau y genad, &c.

Crefydd.] Yn niwedd y ddegfed ganrif y derbyniodd Russia gristionogaeth yn ol trefn eglwys Groeg. Er nad ydyw y grefydd hon yn un ag eglwys Rhufain, eto mae ei haddefwyr yn ymlynu wrth ddefodau eglwysig St. Basil, ac yn addoli llun y Fair forwyn a seintiau ereill, ac hefyd y groes a chreiriau. Yn y prif ymprydiau, y rhai sydd am gryn amser, bedair gwaith yn y flwyddyn, ni archwaethant ond ychydig o fara a dwfr yn unig; ac wrth ymbenydio, gwnant ystymiau poenus ar eu cyrff, a curant eu talcenau fal gwallgofiaid yn erbyn delw o bren neu gareg. Mae pymtheg o uchel wyliau yn cael eu cynnal bob blwyddyn yn Russia: yr hynotaf o honynt a elwir "Gwyl bendigo y dyfroedd" yr hon a gynnelir yn nechreu Ionawr ar wyneb rhewlyd afon Nefa, mewn teml gwedi ei chyflwyno i Ioan fedyddiwr. Gwedi i'r archesgob dori twll drwy y rhew yn sancteidd-le y deml, a throchi ei groes ac erfyn nawdd St. Nicolas, y mae yn cyhoeddi y dyfroedd yn fendigedig: yna taenella beth o hono ar y teulu brenhinol a bonedd y llŷs, y rhai fyddant yno ar yr achlysur. Gwedi i'r archesgob ymadael, bydd y werin yn ymwasgu at y twll, rhai i yfed y dyfroedd gyd â'r awydd mwyaf; y lleill i drochi eu plant; ac ereill i gludo rhyw gymmaint o hono i'w cartrefi i gadw draw afiechyd, ysprydion drwg, &c. Bedydd plant a weinyddir drwy eu soddi deir-gwaith mewn dwfr, a rhoddi iddynt un o elfenau cyssegredig y cymmun: ond y llall ni weinyddir hyd oni chyrhaeddo y plentyn saith mlwydd oed. Ar ochr ffordd fawr y cleddir y rhai a drengont yn ddi-fedydd, pa un bynag ai plentyn ai henafgwr a fyddo.

Yr ymerawdr ydyw pen yr eglwys er dyddiau Pedr I. yr hwn a ddiosgodd y patriarch o Constantinople agos o'i holl rwysg.

Llywodraeth. Cyfreithiau.] Mae pob gallu gwladol ac eg-

lwysig yn Russia gwedi ei gyfleu yn yr ymerawdr; ac nid yw yn ddarostyngedig i'unrhyw gyfreithiau dynol: mae nid yn unig yn Arglwydd ar diroedd yr ymerodraeth, ond hefyd ar fywydau ei ddeiliaid. Y cyfreithiau ydynt yn fwy hynaws er dyddiau Pedr I. nag oeddynt o'r blaen, eto mae cosbedigaethau dychrynllyd yn dylyn troseddiad y rhai sydd eto mewn grym. Yr offerynau cosb ydynt y Padogi, ac y Knoot. Y padogi sydd ffrewyll led ddiniwed ac yn cael ei harfer yn y ddysgyblaeth filwraidd, a chan y mawrion ar eu gweision, &c. Y knoot sydd garai o groen yr elk: arferir hon i ffrewyllu bradwyr, lladron, &c. yn y dull greulawn a ganlyn. Gwedi diosg y troseddwr, ac eu rwymo draed a dwylaw wrth bost, ffrewyllant ef hyd oni ymedy holl gnawd ei gefn oddiwrth yr esgyrn: gwedi hyny un o'r ffrewyllwyr a dyna ddyrnaid o wallt y troseddwr o'r gwraidd, tra byddo y llall yn nodi ei dalcen ag offeryn yn cynnwys pigau blaenllym, y rhai a dorant hyd yr esgyrn: ac i orphen yr artaith gigyddlyd, rhwygir trwyn y truan ag erfyn miniog oddifynu hyd i wared. Yna cludir ef i'w gell garcharol, ac os bydd byw, yr hyn sydd beth tra anghyffredin, trosglwyddir ef am y gweddill o'i oes i'r mwngloddiau yn mro rewlyd Siberia, Cyn dyddiau Pedr I. gosodid polion yma ac acw yn nghanol llynau mawrion, wrth y rhai yr hoelid llaw neu droed y troseddwr, an ei adael yno i farw gan boen a newyn, heb neb yn meiddio dangos unrhyw dosturi.

MILWYR A LLONGAU RHYFEL.] Ni allodd Russia hyd yn hyn, anfon mwy na 250,000 o filwyr i'r maes; ond dywed Tooke fod ganddi 600,000 o ba rai mae 500,000 yn ddynion dewr. Y llyngesau ydynt ar wasgar yn y moroedd amrywiol sydd yn terfynu ar y wlad. Mae y brif lynges, sef 36 o longau mawrion, yn morio y Llychlyn er amddiffyn y brif ddinas. Y llynges yn y mor du sydd 12 o rai mawrion, ond nid ydynt yn cludo llawer o wnau o herwydd basder y mor hwnw: mae yno hefyd lawer o letri mân arfog, yn gwarchod y glenydd yn wastadol rhag rhuthrau eu gelyn cyffredin y Twrc.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Iaith go annhrefnus, ac anhawdd ei llefaru gan ddyeithriaid ydyw iaith Russia, yr hon sydd gainc o'r Ysglafoneg. Mae yr egwyddor yn 36 o lythyrenau, a llawer o honynt ydynt y rhai Groeg. Er dyddiau Pedr I. y mae dysgeidiaeth yn mysg mawrion Russia yn cael ei ddyloewi, ond y mae y gwladyddion hyd yma mewn eithaf anwybodaeth. Sefydlodd Catherine II. yn 1783 ysgolion yn Petersburgh a Moscow, ac adeiladodd ychwaneg o athrofeydd i ddwyn i fynu weinidogion yr eglwys. Mae rhai cymdeithasoedd dysgedig gwedi eu sefydlu yn Petersburgh, gan yr ymerawdr presennol.

Y Pader yn iaith y Russiaid sydd fal hyn,

*Oshche nush, ije esi na nebesich da svyatitsya imya tvoe, da priedet tzarstvye tvoe, da boudet volya tvoya yako na nebesi ee na Zemlia, helib nash natoushnye dajd num dnes; ee ostavinam dolji nasha yakoje ee mi ostavliaem doljnikom nashim: ee ne vouedi nas vo iskoushenie, no eez bavi nas ot loukavago; yako tvoe est tzarstvo ee sila, ee slava, vokivykov, Ameen.*

MASNACH.] Nid oes unrhyw wlad dan haul yn sefyll mor rhagorol at gyfnewidwriaeth â Russia, o herwydd bod cymmaint o foroedd yn golchi ei glenydd, a bod y lliosogrwydd o afonydd yn rhwyddo pob math o gludiad. Maent yn anfon i wledydd ereill o'r amrywiol weithfaoedd yn Petersburgh, werth mawr o haiarn, olew, sebon, canwyllau, gwer a saltpetre; hefyd rhaffau, hwyliau llongau, lliain, lledr, cwyr,

cywarch, &c. Mae cryn fasnach rhwng y Llychlyn a'r mor gwyn; a rhwng y mor du, mor Caspin, â Persia, China, a broydd dwyreiniol ereill. Masnach Archangel sydd gwedi lleihau ar ol adeiladu Petersburgh; eto anfonir oddiyno lawer o sebon, gwer, crwyn, grawn pysgod, cywarch, &c. yn nghyd ag ŷd, llîn, lliain brâs a phethau ereill. Riga sydd yn anfon llawer o hwylbreni a choed ereill. Pethau cyfnewidiaethol y mor du, ydyw pan-flew, cig hallt, ymenyn, ŷd; yn nghyd â haiarn, hwyliau, rhaffau, lliain a chotwm, y rhai a gyfnewidiant â'r Twrciaid am win, ffrwythydd, coffi, rice, sidanau, &c. O Astrachan, prif borthladd y mor du yr anfonir amryw bethau a wneir yn ngweithfaoedd Ewrop, yn lle sidan, rice, ffrwythydd, cnaint, saffron, sulphur a naphta, yn nghyd â llwch aur, a meini gwerthfawr, y rhai a gludir gan gyfnewidwyr o India a China.

Dinasoedd a threfydd.] Petersburgh, prif ddinas Russia, yr hon a adeiladwyd yn nechreu y ganrif ddiweddaf gan Pedr I. sydd yn sefyll o bobtu afon Neva, yn nghwr dwyreiniol cul-for Ffinland. Mae ynddi 25 o eglwysi, 5 o lysoedd brenhinol, 2 gaer ymddiffyn, &c. ac mae ei heolydd yn dra hardd. Gan mai ar fawn-dir corsog yr adeiladwyd y ddinas, mae y tir cylchynol yn wael a diffrwyth, oddigerth yr ychydig sydd yn cael ei wrteithio trwy draul fawr, tu ag at wneyd gerddi. Bu 300,000 o ddynion tros rai blynyddoedd yn ei hadeiladu: gorfuwyd pwyo coed mawrion i'r llaid i gynnal seilfeini yr adeiladau. Y trigolion ydynt 200,000.

Moscow y brif ddinas gynt, yn sefyll ar afon Moskva, cainc o'r Volga, sydd 425 milltir i'r de ddwyrain o Petersburgh. Mae hon o ran ei hadeiladaeth yn gyffelyb i ddinasoedd Asia, sef ei hamrywiol eglwysydd (o ddeutu 500 o rifedi) fal temlau Mahometanaidd, a'u clochdai yn dryfrith o olchiadau aur, arian, pres neu blwm. Mae y gloch fwyaf yn y byd yn perthyn i un o'r eglwysi hyn, a dyma yw ei maint: uchder 19 troedfedd; amgylchiad ei gwaelod 19 troedfedd a 11 modfedd; ei thewder mwyaf 23 modfedd, a dywedir ei bod yn 432,000 o bwysau: hi a syrthiodd, a thorodd darn o honi pan losgwyd y ddinas gan dân yn 1737. Y trigolion ydynt 300,000.

Cronstadt, sydd 22 milltir i'r gorllewin o Petersburgh, ac yn sefyll ar ynys Retusari yn ngenau afon Neva. Mae yma amddiffynfeydd cedyrn er diogelu llongau rhyfel Russia. Y trigolion ydynt 60,000.

Riga, dinas hynod am ei masnach, sydd 310 milltir i'r de orllewin o Petersburgh, ac yn sefyll ar afon Dwina. Y trigolion ydynt 30,000.

Archangel sydd 430 milltir i'r gogledd ddwyrain o Petersburgh, yn sefyll ar afon Dwina, o fewn 4 milltir i'r mor gwyn. Y trigolion ydynt 28,000.

Y dinasoedd hynotaf ereill ydynt Kolona yn nhalaith Moscow, yn cynnwys 60,000 o eneidiau. Cherson yn nhalaith Ecaterinoslav, a Caffa yn Taurida, y rhai sydd yn cynnwys o ddeutu 20,000 bob un, ac Astracan ar enau afon Volga yn mor Casbin, yn cynnwys 30,000. O goed y gwneir y parth mwyaf o adeiladau y dinasoedd hyn, ond mynych yr adeiladir hwynt o newydd, o ddarfod i dân wneyd niwed dinystrywgar arnynt.

Camlesydd.] Lluniodd Pedr I. gamlas yn cyrhaedd o China i mewn 60 milltir i Petersburgh, sef 4,472 o filltiroedd o hyd, a gorphenwyd ef gan Cathrine II. Treuliwyd arian lawer i wneuthur hwn, er bod canoedd o filltiroedd o hono gwedi ei lunio gan lynau, a blaenau afonydd.. Mae un arall o Astracan i Petersburgh yn 1,434 milltir o

hyd. Camlas Ladoga a luniwyd gan Pedr I. sydd a'i redfa gyd â glan llyn o'r un enw: nid diogel oedd hwylio y llyn, gan ei fod yn ddarostyngedig i dymhestloedd trymion. Amryw gamlesydd ereill yn Russia ydynt geinciau o'r rhai a enwyd. Mae gwastadrwydd y tir ac amledd yr afonydd yn dra llesol at lunio llawer yn ychwaneg.

Creaduriaid.] Anifeiliaid Russia ydyw y buffaloe, y camel, y mwsg, y rhai sydd yn cael son am danynt dan Persia; yn nghyd a'r antelop, y sable, a'r rhai a enwyd dan Lapland a Sweden, megys y carw, yr elk, yr arth, y llwynog, y bali ac y carlwm; hefyd y fuwch, y march, y ddafad, yr ysgyfarnog, y wiwair, â rhai ereill cyffredin yn Mhrydain. Defaid Kirghistan sydd hynod, am mai telpyn o wêr o 25 i 30 o bwysau yw eu cynffon: Cwn sydd yn tynu yr ysledi ar y rhew yn mro Kamschatka: cyfrifir hwynt agos mor fuddiol i'w perchenog â cheirw Llychlyn i'r Laplandiaid.

*Antelop* sydd o faint a thebyg ei ddull i garw: ei ddau gorn ydynt sythion, ei wddf a'i draed ydynt hirion; ei gefn o liw gwineu, a'i fol yn wyn. Mae yn fwy cyflym na milgi, felly yr helwyr a'i saethant. Addysga y Persiaid y cudyll i rwystro ei gyflymder, hyd oni ddel y milgwn ato. Y dull o ddysgu y cudyll ydyw gosod bwyd iddo yn feunyddiol mewn twll rhwng dau gorn croen antelop, a phan ehedo i'r maes, try o amgylch pen y cyntaf a welo, ac nis gad ef hyd onis dalier.

*Sable* sydd fath o fronwen, hynod am werthfawrogrwydd ei chroen. Yr helwyr a'i lladdant â saethau pwl, fal na byddo i'r croen na'r blew gael eu anharddu.

Mae yn mharthau gogleddol Siberia liaws o eifr a moch gwylltion; hefyd y llwynog gwyn, yr hwn sydd yn rhagori ar yr ab mewn direidi. Mae amryw ddull gan y trigolion i ddystrywio yr arth: y Coraciaid a osodant raff a chwlwm rhedeg arni ar frigyn coedan, drwy yr hwn y bydd i'r arth estyn ei ben i gyrhaedd abwyd, a chan fod y brygyn eisus gwedi ei ddarn lifio, bydd i'w bwysau ei dori ymaith, a chrogfa wrth y brigyn a ddeil y rhaff, fydd ei derfyn. Mewn cyrau ereill, gosodant ar enau ei walfa raff a chwlwm cyffelyb ar un pen iddi, a thelpyn o bren wrth y pen arall, yna pan fagler y creadur, rhuthra yn guchiog ar y telpyn, ac o'r diwedd pan flino yn ei lusgo, teifl ef i lawr i allt serth, lle y gorfydd arno ei ddylyn er ei ddystryw.

Y rhyw asgellog ydynt mor aml, ac mor amrywiol ac yn Norway neu Lapland. Y pysgod hefyd ydynt helaeth yn yr amrywiol afonydd, llynau, a'r moroedd cylchynol.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Russia.*

YR ydis yn tybied mai trigolion cyntaf yr Ymerodraeth hon, oeddynt hil Magog mab Japheth, ac eu bod gwedi sefydlu yma yn fuan ar ol gwasgarfa Babel, ac iddynt yn raddol ymranu yn amrywiol lwythau adnabyddus wrth enwau priodol, ond eto yn cadw eu henw cyntaf, eithr yn mhlith hanesyddion Groeg a Rhufain yr adnebyddid hwynt dan yr enw Scythiaid. O ddeutu y bedwerydd ganrif, y bu i'r genedl fawr oedd yn cyfanneddu Sarmatia, eu galw eu hunain Ysglafoniaid, sef dewrion: estynasant eu trigfa hyd at Afon Volga, a gwedi hyny o

ddeutu afon Danub, ond gan i'r Rhufeiniaid eu herlid oddiyno, hwy a giliasant ar gyfer y gogledd, a gwedi goresgyn Poland adeilasant ddinasoedd Kiof a Novogorod.

Yr hanes cyntaf am y bobl hyn i hydem arno, sydd o ddechreu y nawfed ganrif, pan y darfu i'r Llychlynigion oresgyn eu broydd, a gosod Ruric tan enw duc Kiof yn ben-llywydd y wlad.

Y llywodraethwyr a ganlynodd, ychydig a wyddis am danynt hyd ddyddiau Ioan Basilowitz I. duc Muscofi, yr hwn yn fuan gwedi ei goroni, a gymerodd arno yr enw Czar.* Ei deyrnasiad llwyddiannus am 40 mlynedd, a barodd ddechreuad trefn ar lywodraeth Russia. Ei wyr Ioan Basilowitz II. a unodd Siberia ac Astracan at y deyrnas, lleoedd hollol anadnabyddus iddynt o'r blaen. Dygwyddodd hefyd o ddeutu yr un amser i Richard Chancellor, gwr o Brydain, ddarganfod porthladd Archangel, yr hyn a fu yn achlysur i Ioan anfon cenadau at Elizabeth, brenines Lloegr, i gyduno o berthynas i gyfnewidwriaeth. Bu farw Ioan yn 1534, a choronwyd ei fab Theodore, yr hwn yn fuan gwedi a laddodd ei unig frawd Demetrius, trwy annogaeth Boris prif weinidog y deyrnas, eithr nid hir y bu yntau ar ei ol.

Wrth hyn yr oedd hil Ruric, y rhai oeddynt gwedi rheoli 800 mlynedd gwedi diflannu, a Boris, er tybio mai efe a wenwynasai ei arglwydd, a gyhoeddwyd yn frenin. Yn y cyfamser darfu i fynach ieuanc o Poland, honi mai efe oedd Demetrius, ac ei fod gwedi cael lle i ddianc o ddwylaw y lleiddiaid. Daeth hwn â byddin o Bolandiaid a Russiaid i'r brif ddinas, a gwedi diorseddu Boris, cymmerodd y goron ei hunan, ond canfuwyd ei dwyll, a lladdwyd ef, â'r rhan fwyaf o'i gymdeithion. Gwedi hyn cododd i fynu ail, trydydd, pedwerydd, a pumed Demetrius, yr hyn a barodd gynnwrf parhaus yn mysg y trigolion.

O'r diwedd Michael Theodorowitz, mab Romanow esgob Rostow, gwedi hyny y prif batriarch, yr hwn oedd gâr o du ei fam i Ioan Basilowitz a dderchafwyd i'r orsedd. Ei orchwyl gyntaf oedd ymheddychu â'r bröydd cymmydogaethol, yna adferodd lonyddwch yn mysg ei ddeiliaid, a threfnodd i'r goron gael ei throsglwyddo i'w heppil. Teyrnasodd 33 mlynedd a phrofodd drwy ei ddoethineb a'i ddaioni, ei fod yn deilwng o'r anrhydedd yr oedd ei ddeiliaid gwedi ei dderchafu iddo.

Ei fab Alexis Michaelowitz, (sef mab Michael) a goronwyd nesaf (1645). Gwedi iddo ddiwygio y cyfreithiau gwladol, ac annog ei ddeiliaid i drin y tir, a sefydlu gweithfaoedd, &c. gwnaeth ei oreu i gadw tangnefedd yn mysg ei ddeiliaid. Yn lle y drefn drychinebus o fwrw y carcharorion o Lithuania, Poland, a Tartari i'r cleddyf, anfonodd hwynt i gyfanneddu glenydd afonydd Volga a Kamma. Bu farw yn ddisymwth yn 1676, yn 47 oed: hwn ydoedd tad Pedr yr enwog.

Alexis a adawodd ar ei ol dri mab, ac un ferch, yr hon oedd gyflawn o falchder a chudd amcanion. Theodore y mab hynaf a goronwyd yn 15 oed: dyn afiach ydoedd, ac ni pharhaes ei frenhiniaeth ond 7 mlynedd. Ar ei wely angau gwahoddodd wyr y llŷs ato, a dywedodd wrthynt yn ngwydd ei frodyr Ifan a Pedr, ac ei chwaer Sophia, "gwrandewch ar fy ngeiriau olaf; fy nghariad at fy mhobl a'r wladwriaeth, sydd yn fy nghyfarwyddo i'w llefaru. Mae yn rhaid bod gwendidau corfforol Ifan yn effeithio ar ei ranau deallawl, yr hyn a'i

---

* Gair yn iaith yr Ysglafoniaid sydd yn arwyddo brenin neu ymerawdr.

hanalluoga i reoli ymerodraeth fal Russia; felly ni ddylai wgu arnaf, os cyfarwyddaf chwi i'w roddi o'r 'neilldu, a dewis yn ei le Pedr, yr hwn sydd o gorff grymmus yn gysylltedig â chryfder meddwl, ac â challineb rhagorol." Darfu i'r bwriad doeth hwn dramgwyddo y dywysoges Sophia, a thrwy y terfysg a gododd hi yn mysg y Strelitziaid,* hi a lwyddodd i osod Ifan ar yr orsedd, ond cadwodd ffrwyn y llywodraeth yn ei llaw ei hun. Ei goruchwyliaeth oedd sarug a gwaedlyd. O'r diwedd caewyd hi mewn mynachdy, ac Ifan a Pedr a gyd-lywodraethasant.

Ifan yn marw yn 1696, a Phedr gwedi darparu ei ddiogelwch rhagllaw, drwy ladd dros 3000 o Strelitziaid, a rëolodd yn heddychol ei hunan. A chan ei fod agos yn llwyr anllythyrenog, eto yn sychedu am wybodaeth, gadawodd ei fro yn rhith gwr cyffredin, ac wedi iddo ymweled â Berlin a Holand, tiriodd yn Mhrydain, lle yr ymroddodd i ddysgu y celfyddydau, crefftwaith, &c. Bu gryn amser yn Deptford wrth Lundain, yn gweithio gwaith saer llongau, ac wrth ymadael gwnaeth ei hun yn hysbys i William III. brenin Prydain, yr hwn gyd â rhoddi anrheg o lestr hardd, a roddes genad iddo gyflogi crefftwyr o Brydain, i fyned gyd ag ef i'w wlad. Ei orchwylion cyntaf gwedi bod ddwy flynedd oddicartref, oedd seiliadu dinas Petersburgh, ac adeiladu llongau rhyfel. Yr oedd holl Ewrop, megys yn chwerthin am ben yr ynfydrwydd o adeiladu dinas mewn lle nad oedd hyd yn nod yn yr haf, ond cors leidiog, ac yn y gauaf yn lletty bleiddiaid, ac eirth yr anialwch. Er hyny ni ddarfu hyn, nag y distryw a wnaeth y llifddwr ar yr argaeau, na gwaelder y tir cyfagos, nag anwybodaeth y gweithwyr, nag hefyd y farwolaeth a ddygodd ymaith 200,000 o honynt yn nechreu y gwaith, beri i Pedr dori ar ei amcan.

Yr oedd rhyfel hefyd y pryd hyny rhwng Russia a'r enwog Charles XII. brenin Sweden, yr hwn oedd yn ennill y maes agos yn mhob brwydr, hyd yr ymladdfa ddychrynllyd a fu o flaen dinas Narva, pan yr ad-enillwyd hi gan Pedr. Yr oedd y Russiaid yn y frwydr hon, gwedi ymgynddeiriogi gymmaint, fal nad oeddynt yn arbed na hen nac ieuanc o'r dinasyddion, hyd oni bu i'r Czar redeg i bob cwr o honi i orchymyn i'r gorchwyl echrydus beidio. A gwedi iddo ladd dau o'i filwyr am annufuddhau, aeth i brif-lys y ddinas, a rhoddodd ei gleddyf gwaedlyd ar y bwrdd ger bron y swyddogion, a dywedodd wrthynt, "Nid gwaed eich cyd-ddinasyddion sydd yn lliwo hwn, ond gwaed fy mhobl fy hun, yr hwn a dywelltais i achub eich einioes chwi."

Yr ymladdfa nesaf rhyngddynt, a fu wrth dref Pultowa, lle bu y Russiaid drachefn yn fuddygoliaethus, ac y gorfu ar Charles ddianc i ymofyn noddfa yn Bender yn Twrci. Gwedi hyn dychwelodd Pedr i'w fro mewn gobaith o fwynhau heddwch, ond yn ddiatreg daeth ato y newydd bod Charles gwedi denu ymerawdr y Twrciaid i gyhoeddi rhyfel yn erbyn Russia. Yna nid oedd amser i'w golli, eithr casglodd ei fyddinoedd, ac a'u tywysodd yn fyrbwyll i Moldavia, lle yn annysgwyliadwy y cylchynwyd ef gan 300,000 o Dwrciaid. Yn mhen ychydig amser, pan oedd byddinoedd Russia ar newynu, rhoddes Pedr orchymyn nas aflonyddid ef y nos ganlynol, rhag i neb ganfod ei dristwch: neu rwystro y bwriad oedd yn ei feddwl, i ruthro y boreu dranoeth drwy fyddinoedd y gelyn. Ei wraig Cathrine, yr hon a fuasai gaeth-ferch o Livonia, ond a ganlynasai ei gwr yn ddewrwych i wy-

* Milwyr oeddynt yn gwarchod yn ngosgordd y Czar.

neb pob perygl, a feddyliodd yn addas anturio tori ei orchymyn, trwy fyned i'w ystafell ar ganol nos, lle yr erfyniodd hi ar ei gliniau am genad i lunio ammodau hedd: a gwedi hir naccad, ei dagrau o'r diwedd a'i gorthrechodd, a chafodd ganddo roddi ei enw wrth lythyr a ysgrifenasai hi, i'w anfon i'r *Grand Vizier*. Felly trwy ddawn y fenyw ddoeth hon, yr oedd cyn pen dwy awr heddwch gwedi ei sefydlu, ar yr ammodau y byddai i'r Russiaid adferu dinas Asoph; dystrywio porthladd Tangarok; tynu eu byddinoedd o Poland; a rhoddi ffordd rydd i frenin Sweden, fyned yn ol i'w wlad. Ac yn ngwyneb trancedigaeth cawsont helaethrwydd o drugareddau angenrheidiol, a dychwelasant i Russia.

Yn 1721, cymmerodd Pedr arno enw ymerawdr, a chwanegodd ei luoedd, sefydlodd weithfaoedd ac ysgolion mewn amrywiol barthau; gwnaeth well trefn hefyd ar y ddysgyblaeth eglwysig, &c. Er hyny, er maint oedd ei gais i wella a diwygio ei bobl, ni allodd mewn un modd ddarostwng creulonder anifeilaidd ei anian ei hun. Pan ddigid ef, yr ydoedd fel arthes gwedi colli ei chenawon, yn greulawn a thrahaus, ac ni allai neb ddyfod i'w wyddfod, hyd oni elai y drwg ysbryd oddi wrtho. Y weithred olaf a wnaeth cedd, barnu Alexis ei fab o'r wraig gyntaf i farwolaeth, am nad oedd yn tueddu i ddylyn ei amcanion ef mewn pethau gwladol. Y ddedryd oedd y byddai iddo farw, ond ni enwyd y pryd, na thrwy ba foddion, er hyny cyflawnwyd y gorchwyl dieflig yn ebrwydd: a Phedr yn fuan gwedi, sef yn y flwyddyn 1725 a fu farw.

Hyn, ddywed hanesydd breninol am dano, "Yr oedd anian gwedi ei lunio i fod yn ddyn enwog, ond yr oedd ei amddifadrwydd o ddysgeidiaeth gwedi ei adael yn fileinig. Oddiwrth hyn y deilliodd y gymysgedd ryfedd oedd yn ei ymarweddiad: gweithredoedd gwir enwog, gyd ag odrwydd ynfyd; atebion ffraeth, gyd â moesau anifeilaidd; amcanion enwog a llesol, gyd a throion o'r dialeddau mwyaf creulawn. O ran ei foesau, yr ydoedd fal drychiolaeth wybrenawl yn peri syndod a dychryn. I'w ddeiliaid yr ydoedd megys corwynt, yr hwn, tra y mae yn diwreiddio coed a bwrw cestyll i'r llawr, sydd yn tyneru y wlad oddiamgylch â chawodydd ffrwythlawn o wlaw."

Yr oedd Pedr yn 1724 gwedi mynu coroni Cathrine, felly cafodd hi reoli yn dawel gwedi ei farwolaeth.

Y nesaf a ddaeth i'r orsedd oedd Pedr II. plentyn Alexis, a gwedi teyrnasiad byr a therfysglyd dan raglawiaid, bu farw o'r frechwen yn 1730.

Erbyn hyn yr oedd hil wrywaidd Pedr gwedi diflannu. Ac er bod Cathrine wedi trefnu i'r goron (os byddai marw Alexis yn ddiblant) fyned i'r duc o Holstein, mab chwaer hynaf Pedr I. er hyny y Russiaid a goronasant Anne duges Courland, ail ferch Ioan, brawd hynaf Pedr yn ei lle. Daeth Anne i'r goron drwy iddi addo ymostwng i'r rhwymau a osodasant arni: ond wedi ei choroni, drylliodd hwynt, a hònodd hawl yn mreintiau ei hynafiaid. Gwedi teyrnasiad llwyddiannus, bu farw yn ddiblant yn 1740, a daeth Ioan mab ei nith, y dywysoges o Mecklenburgh, gan Anthony Ulric o Brunswic Wolfenbuttle i'r orsedd, ond gan nad oedd Ioan ond plentyn, gosodwyd Biron yn llywydd, yr hwn am ei ddryg-foes yn fuan gwedi, a drosglwyddwyd am ei oes i Siberia.

Bu cryn derfysg y pryd hyn: carcharwyd y brenin ieuanc, a'i dad, a'i fam, a choronwyd Elizabeth merch yr enwog Pedr I. gan Cathrine.

Gorchwyl cyntaf Elizabeth oedd diwygio y cyfreithiau gwladol, trwy ddilêu cosbedigaethau marwol, ac arwain ysbryd tyner i'w llŷs. Gwedi iddi wneyd terfyn gorfoleddus ar y rhyfel rhyngddi â Sweden, adferodd iawn feddiant y goron i'w theulu ei hunan, trwy enwi y duc o Holstein Gottorp yn etifedd, yr hwn gwedi derbyn y grefydd freintiol, a briododd y dywysoges o Anhalt Zerbst, sef Cathrine II. mam y diweddar ymerawdr Paul I.

Nid aml y bu unrhyw ben coronog yn fwy llwyddiannus nag Elizabeth: ei llyngesau a'i byddinoedd oeddynt lwyddiannus yn mhob lle, yn enwedig yn erbyn yr enwog Ffrederic brenin Prussia, ac mae yn debyg mai ei marwolaeth a achubodd y wlad hóno rhag ei dwyn tan rwysg Russia.

Y duc o Holstein Gottorp tan enw Pedr III. oedd y nesaf a goronwyd. Dylynodd hwn lwybrau Elizabeth, yn dileu cyfreithiau gorthrwm. Adferodd ryddid i amryw o wyr mawrion oedd gwedi eu halltudo i Siberia, diddymodd y trethi oedd ar fendithion bywyd, a gwnaeth ei egni i wella cyflwr y tlodion. Ond er ei holl rinwedd, ni fŷnai flaenoriaid i'w fyddinoedd ond o Holstein, yr hyn fu yn achlysur i'w filwyr ei gasâu; ac ni fŷnai chwaith ymuno ag eglwys Groeg, drwy ymwrthod ag egwyddorion Luther, am hyny yr offeiriaid a wgasant arno. Rhoddes ymaith hefyd ei wraig gyfreithlawn, a dewisodd arglwyddes Woronzoff yn ei lle: felly cydunodd y pethau hyn i beri byrhad ar ei deyrnasiad. Cathrine gwedi ennill calon y milwyr o'i thu, heblaw y gwyr urddasol, ag amryw o'r mawrion, a aeth yn wrol yn erbyn Pedr ac a'i diorseddodd, ac a'i bwriodd i garchar, lle yn fuan gwedi y bu farw.

Cathrine II. gwedi cael i'r orsedd, a yrodd ymaith y blaenoriaid milwraidd, ac adferodd ryddid yr offeiriaid. Yna anfonodd ei lluoedd i Poland i geisio darostwng y rhyfel cartrefol a ennynasai yno ar farwolaeth Augustus III. ond gwedi iddi eu tawelu, gosododd ei chydwladwr Poniatowski ar yr orsedd, yr hyn fu yn achos i'r Twrc gyhoeddi rhyfel yn erbyn Russia.

Bu y brwydrau cyntaf o'r rhyfel echrys hon, tan y tywysog Galitzen yn fuddygoliaethus i Russia, ond troes y fantol yn y gwarchae a'r brwydrau fu wrth ddinas Chocsim, lle collodd 20,000 o Russiaid eu bywyd. Galitzen, er y sarhâd hyn, a arweiniodd luoedd ereill i'r maes, a chyfarfuwyd ar lenydd y Dniester, ac er bod y *Grand Vizier* ei hun yn blaenori ei fyddinoedd, bu dystryw mawr, a chollodd 10,000 o Dwrciaid eu bywyd. Y *Vizier* hefyd er y golled hon, a wynebodd y tywysog ar lenydd y Danub, lle y bu ymladdfa dost. Gwnaeth y *Vizier* bont dros yr afon, a gwedi anfon 8000 o Janisariaid a 4000 o wyr meirch drosti, dyfethwyd hi gan y llifeiriant, a gadawyd y truain i drugaredd y Russiaid, y rhai a'u bwriasant i'r cleddyf agos bob un. Y *Grand Vizier* fal hyn gwedi colli blodau ei fyddinoedd, a droes i'w wlad, a Galitzen gwedi gosod Romanzow ar y byddinoedd, a aeth i Petersburgh i dderbyn y parch oedd yn ddyladwy iddo.

Y rhyfel yn parhau, goresgynodd Romanzow Moldavia, a chafodd fuddygoliaeth ar fyddin o 80,000 o Dwrciaid, sef lladd 7000, a gyru y gweddill ar ffo. Llyngesau Cathrine hefyd, oeddynt yn fuddygoliaethus ar longau y Twrciaid yn mor Egea. Felly heddychodd y Twrc ar dilerau gostyngedig â Russia yn 1774.

Yn 1787 aeth Cathrine i Cherson, i'r dyben o gael ei choroni yn ymerodres y dwyrain, ond er bod ei miloedd gyd â hi, nis cymmerodd

y coroniad le. Ar ei dychweliad i Petersburgh, clywodd fod y Twrc yn parotoi ei luoedd yn ei herbyn, am hyny anfonodd hithau fyddin gref, a gwersyllwyd wrth ddinas Ismail, lle y bu ymladdfa dost, Rhagfyr 22, 1790; a dywedir i 10,000 o filwyr y Twrciaid golli eu bywyd. Ond yr hyn sydd yn mwyhau trychineb echrys y Russiaid, oedd lladd mwy na 30,000 o ddinasyddion diarfog mewn gwaed oer, heb arbed na hen nag ieuanc a ddeuai i'w gafael.

Ar ddechreu terfysg wladol y Ffrancod, anfonodd Cathrine 20 o longau rhyfel i ymuno â llyngesau Prydain yn erbyn Ffrainc: ond tra bu galluoedd Ewrop yn bwrw eu byddinoedd yn erbyn y deyrnas hóno, goddefwyd iddi rwygo brenhiniaeth brenin diniwed Poland, ac ail rannu ei dreftadaeth.

Gwedi hyn cyhoeddodd Cathrine ryfel yn erbyn Persia, a hi a anfonodd ei lluoedd dan y blaenor Sowbow i ddinas Derbent, lle bu ymladdfa echryslon: agorwyd pyrth y ddinas gan hen wr 120 oed, yr hwn a agorasai y cyfryw ar y cyffelyb achos i Pedr I. O'r diwedd ymwelodd angau â Cathrine; a bu terfyn ar ei gorchwyl, Tachwedd 9, 1796; a daeth ei mab Paul i'r orsedd.

Paul I. yn nechreu ei deyrnasiad oedd yn ymddangos yn fwy haelionus nag ei fam. Rhoddes heddwch i Persia, ac ymddygodd yn dyner tu ag at frenin Poland, yr hwn oedd garcharwr yn Petersburgh: adferodd hefyd ryddid y blaenor Kosciusko, ac amryw ereill o fonedd Poland. Yn 1799 anfonodd fyddin gref tan y blaenor Suwarrow yn erbyn Ffrainc, yr hon gwedi ymuno â byddinoedd Austria, a fu lwyddiannus i yru ymaith y Ffrancod agos i gyd o'r Eidal a Switzerland. Anfonodd fyddin arall i ymuno â lluoedd Prydain yn Holand, er tynu i lawr uchel-drem y dadymchwelwyr. Ond yn ddisymmwth, mewn anwadalwch gwallgof, troes Paul ei alluoedd o du Ffrainc: ymaflodd yn llongau Prydain a oedd yn ei borthladdoedd, ac anfonodd y llongwyr filltiroedd i'r tir i garchar. Gwedi hyn ymunodd a'r cyngbrair gogleddol, yr hwn a ddrylliwyd gan ein cydwladwr Nelson wrth Copenhagen. Parhâodd ei droion gwallgof hyd Mawrth 23, 1802; pan y darfu i'w ormes lywodraeth annog rhai o wyr y llys i'w ddybenu.

Alexander I, ei fab hynaf a goronwyd y dydd canlynol, yr hwn yn fuan gwedi a heddychodd â Phrydain. Eiriolodd hefyd rhwng Prydain a Ffrainc, gan ymddangos yn ddiduedd, ac addawodd fod yn gyfaill diffuant i ymerawdr Germani, brenin Prussia, &c. Eithr gwir y chwedl "anhawdd dwyn dyn oddiar ei dylwyth," gwelwn Alexander gyd a gwallgofrwydd cyffelyb i eiddo ei dad, yn tori pob rhwymau cyfeillgar, ac yn ymgyfarfod â'r gormesdeyrn Buonaparté yn Tilsit, i addunedu cyfeillgarwch annhoredig ag ef. A'r canlyniad ydoedd gyru ymaith o'i fro, yr ychydig weddill o deulu Lewis XVI. ac na chaent noddfa yn ei ymerodraeth ef mwy; hefyd, derbyn i'w lys y bradwr a barodd angau y duc d'Enghien, mewn rhith cenad hedd o lys y gormesdeyrn.

Yn 1807 a 1808, gwelwn Alexander pen ymerodraeth fwy na'r eiddo Rhufain gynt, yn crymu i reolwr teyrnas fechan Ffrainc, gan oresgyn Sweden, ac yn uno y rhan o honi a elwir Finland, â ei fro ei hun.

Dyma lwybrau Alexander ymerawdr presennol Russia, yr hwn yn nechreu ei deyrnasiad, a ymwelodd â beddrod Ffrederic yr enwog ar ganol nos, i dyngu tragywyddol gasineb at y gormesdeyrn o Corsica.

# GWLAD Y PWYL,

NEU

# POLAND.

## DOSBARTH I.

*Cylchynoedd. Maintioli. Rhaniadau—Gwyneb y wlad—Hin a thymhorau—Afonydd—Llynau—Mwngloddiau.*

POLAND cyn ei rhwygo i'w rhanu rhwng galluoedd ereill, oedd yn gylchynedig o du y gogledd gan Prussia, Courland, Livonia, a Russia; o du y gorllewin gan y Llychlyn, Brandenburg a Silesia; o du y de gan Hungari a Moldavia; ac o du y dwyrain gan Russia a'r tir a ennillodd y wlad hóno oddiar y Twrc. Ei rhaniadau oeddynt Poland fwyaf, Poland leiaf, Poland Prussia, Samogitia, Courland, Lithuania, Podolachia, Polesia, Russia rubra a Volhinia. Mae y wlad hon o ddeutu 600 milltir o hyd, a thu a'r un faint o lêd. Rhanwyd hi yn ddiweddar yn dair rhan rhwng Russia, Austria, a Prussia. Russia a gafodd Samogitia, rhan fawr o Lithuania, Volhinia a Podolia; Austria a gafodd Poland leiaf, a rhan fawr o Russia rubra, y rhai a elwir y pryd hyn Galitzia; a rhan Prussia oedd Poland fwyaf, Poland Prussia, a'r gweddillion o Lithuania, Russia rubra, a Podolachia.

GWYNEB Y WLAD.] Poland sydd wlad wastad, yn cynnyrchu digonedd o yd, llin, cywarch, pob math o ffrwythydd cyffredin yn y gwledydd gogleddol, &c. Yr unig fynyddoedd yndd i ydyw trûm Carpathia, yr hwn sydd yn ei gwahanu am 500 milltir oddiwrth Hungari a Transylvania. Y coedydd ydynt dra lliosog yn enwedig yn Lithuania, cwr dwyreiniol y deyrnas, lle hefyd y cyfarfyddir a gwastadoedd mawrion, cyffelyb o ran eu cynnyrch i rai Russia. Yr unig gwr o hon i sydd yn terfynu ar y mor, ydyw y tir sydd rhwng Memel a Courland, yn nhalaith Samogitia.

HIN A THYMHORAU.] Poland sydd yn mwynhau hin gymhedrol, ac nid ydyw mor ddarostyngedig i dymhestloedd a gwledydd sydd yn cael eu cylchynu gan fôr. Ei pharthau gogleddol sydd am y tri mis gauaf yn glöedig gan rew, ond ei rhanau deheuol sydd yn debyg i'r rhau hyny o Russia sydd dan yr un hin-gylch.

AFONYDD.] Afon Vistula sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Carpathia: mae hon yn myned heibio dinasoedd Cracow, Warsaw, a Dantzic, ac yn ymarllwys i'r Llychlyn.

Afon Duna sydd yn gwahanu Livonia oddiwrth Courland: mae ei blaenau yn Russia, a'i harllwysiad yn y Llychlyn, yn agos i ddinas Riga.

Afonydd Worta a Bug ydynt ganghenau o afon Vistula.

Afon Niemen sydd yn rhedeg drwy Lithuania a pharthau gorllewinol Russia, i'r Llychlyn: mae afon Wilia yn ymuno â hi wrth dref Kowno.

Afon Nieper sydd yn codi yn nhalaith Smolensko yn Russia, a gwedi rhedeg 800 milltir mae hi yn ymarllwys i'r mor du rhwng Cherson ac Oczakow.

Afon Bog sydd yn ymuno â'r mor du yn agos i Oczakow.

Afon Niester sydd yn gwahanu Poland oddiwrth Twrci, ac yn ymarllwys i'r mor du wrth dref Belgorod.

Mwngloddiau.] Mae yn Poland fwngloddiau aur, arian, efydd, haiarn, a phlwm, ond prif gyfoeth y wlad, sydd yn tarddu o'r amrywiol gloddfeydd halen. Yr hynotaf o honynt, ac y mwyaf yn y byd, sydd yn Wielitska, yr hwn sydd yn agored er ys cantoedd o flynyddau. Dywedir ei fod o ddeutu 800 troedfedd gor-is gwyneb y maes, 1100 o lêd, a 7000 o hyd. Mae rhifedi mawr o golofnau halen dysglaer yn cynnal ei nen, gwedi i'r cloddwyr eu hestyn o oes i oes wrth dreiddio iddo: ac mae lampau yn cynneu yn wastadol yn mhob cwr o hono, i roddi goleuni i'r gweithwyr. Bydd llewyrch y lampau hyn yn dangos y colofnau yn dryfrith o bob lliwiau. Mae llawer o gantoedd yn treulio eu hoes yn y gloddfa hon, heb erioed weled goleuni dydd.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion—Llywodraeth—Crefydd—Iaith. Dysgeidiaeth—Milwyr—Dinasoedd a threfydd.*

MAE y Pwyliaid yn cael eu cyfrif yn ddynion hardd o ran pryd yn gystal ag agwedd corfforol, ac o duedd addfwyn, tyner, a lleteugar yn gyffredinol. Wrth gyfarch gwell i'w gilydd gostyngant eu pen, a tharawant eu bron ag un llaw, tra byddo y llall yn ymgyfeirio tu ag at y llawr; ond pan fyddo gwr cyffredin yn cyfarch gwr mawr, efe a ymgrymma hyd lawr iddo. Anaml y gwelir cenedl am wychder mewn gwisgoedd yn fwy na 'r Pwyl, er hyny mae eu tai â'r dodrefn yn salw yr olwg arnynt. Braidd y cyflawnant daith o ergyd careg o hyd, heb gynnorthwy y march; ac os taith ychydig hwy, bydd cerbyd gwych a gosgordd o weision yn ei ddylyn: rhai yn rhedegwyr o'i flaen, ac ereill yn farchogion ar ol. Pob gwahoddedigion i wledd, sy raid iddynt gludo gyd a hwy eu cyllyll, ffyrch, llwyau, a phethau ereill angenrheidiol tu ag at fwyta, ac os bwriedant letoua rhaid iddynt gludo gwely Y gwladyddion a gyfrifir yn ddynion caletaf yn Ewrop, gan y cysgant lawer noswaith ar wyneb rewlyd y maes heb dderbyn niwed.

Llywodraeth.] Ar wastadoedd Warsaw y byddai holl fawrion a milwyr y deyrnas yn ymgyfarfod i ddewis brenin. Byddai y dewiswyr ar feirch wrth y gorchwyl, ac eu cleddyfau yn eu dwylaw, fal os arddangosai y blaid wanaf unrhyw gyndynrwydd, y byddai i'r llall fod yn barod i ruthro iddi. Gwedi dewis brenin, ei orchwyl cyntaf ydoedd rhoddi ei law wrth *Pacta conventa** y deyrnas, sef, y byddai iddo ymrwymo i gynnal yr hen drefn o ddewis brenin: y byddai i'w ddylyniedydd barhau yn frenin trwy ystod ei oes: y byddai i'r senedd ymgyfarfod bob dwy flynedd: y byddai os dygwydda i'r brenin dori unrhyw gyfraith, neu ddirymu unrhyw ragorfraint berthynol i'r deyrnas, i'w ddeiliaid fod

* Rhwym cyfammod.

yn rhydd oddiwrth y llw o ufudd-dod, &c. Mewn gair, nid oedd y brenin ond megys rhaglaw y senedd, yr hon oedd yn cynnwys un arch-esgob, 15 o esgobion, ac 130 o fawrion y wlad.

Crefydd.] Y grefydd babaidd oedd freintiol yn Poland, ond yr oedd rhyddid i Lutheriaid, Calviniaid, Groegiaid, ac Iuddewon, y rhai oeddynt dra lliosog, i fwynhau eu trefn eu hunain o addoli. Gwrandawiad archiad yr ymneillduwyr hyn, i fwynhau yr un breintiau ac y deiliaid pabaidd, oedd yr esgus i dri chymydog Poland anfon eu byddinoedd i mewn i ddryllio y deyrnas. Mae y trigolion presennol yn gorfod derbyn yr un egwyddorion ag eu trawsfeddiannwyr dideimlad.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Cainc o'r Sclavoneg ydyw y brif iaith sydd yn arferedig yn uchel lysoedd y Pwyl, ond mae yr Ellmaneg a'r Lladin yn sathredig mewn rhai ardaloedd. Ni all Poland ymffrostio o'i dysgedigion, er mai hi a roddes hanfod i'r seryddwr enwog Copernicus, a'r anianydd enwog Vorstius.

Gweddi yr Arglwydd sydd fal hyn,

*Oycze nass ktory na niebiesiech iestes; niech sie swieci imie twoie; niech przyidzie ono krolestwo twoie, niech sie stanie ona wola twoia iako u niebie tak y na ziemi. Chleba nassego onego powssedniego day nam dzisia, y odpusc nam nasse winy, iako y my od pusczamy winowaycom nassym; y nie u wodz nas u pokussenie; ale wyrwi nas od onego zlego: iz twoie iest krolestwo, y moc, y chwala na wieki.* Amen.

Dinasoedd a threfydd.] Cracow, y brif ddinas gynt, sydd yn sefyll ar gwr gwastadedd eang ar lenydd y Vistula. Yma mae claddfa holl frenhinoedd Poland. Bu yn ddinas hynod o harddwch ei heolydd, ond mae ei hadeiladau teg ag ol distryw arnynt, er y gwarchae tan Charles XII. brenin Sweden, â rhythr-frwydrau diweddar y Russiaid. Mae hi yn yr amser hyn yn perthyn i Austria. Y trigolion ydynt 24,000.

Warsaw, y brif ddinas yn y blynyddoedd diweddaraf, sydd yn sefyll ar fin afon Vistula, agos yn nghanol Poland. Mae ei hadeiladau yn fwy hynod am wychder nag ydyw Cracow. Cyn cyniweiriad cleddyf gwaedlyd Suwarrow o goffadwriaeth felldigawl ar y ddinas hon, yr oedd y trigolion yn 70,000.

Grodno, prif ddinas Lithuania sydd yn cynnwys 7000 o drigolion, o ba rai mae 1000 yn Iuddewon, a 3000 yn perthyn i'r amrywiol weithfaoedd brethynau, lliain, sidan, &c. Mae hon hefyd yn salw ei drych gan arwyddion dinystriad y Russiaid.

Dantzic, dinas hynod am ei hamrywiol weithfaoedd, sydd yn sefyll ar aber y Vistula yn mor Llychlyn: mae porthladd eang yn perthyn iddi, yr hon sydd hynod am gyrchfa llongau dyeithrol, i gyfnewid eu dâ am goed, yd, crwyn, gwer, rhaffau, hwyliau, &c. Eiddo Prussia ydyw y ddinas hon yr pryd hyn, eithr bu yn ddiweddar yn meddiant Ffrainc. Y trigolion ydynt 200,000.

Y dinasoedd hynotaf ereill ydynt Mitau yn Courland ar afon Bolderau; Lückow yn Volhinia ar afon Ster; Posen ar ynys yn afon Wacta yn Poland fwyaf, a Plocksto ar y Vistula 75 milltir i'r gorllewin ogledd o Warsaw, y rhai ydynt yn cynnwys o ddeutu mil bob un o drigolion.

Anifeiliaid.] Mae y creaduriaid a enwyd yn hanes Russia a lleoedd ereill yn lliosog yn Poland, megys yr elk, y blaidd, y gewai, y lynx, y march, y ddafad, yr afr ag ereill cyffredin yn Mhrydain; hefyd

yr uri a'r buffaloe y rhai ydynt o rywogaeth yr ych, eithr yn amrywioli yn eu dull yn ol tymher hin y wlad y byddont yn cyfanneddu yndli. Mae yno hefyd amryw fath o geirw, a chreaduriaid o faintioli cwningen a elwir bohac, y rhai o ran cywreinrwydd eu trigfanau sy gyffelyb i'r llostlydan.

Mae yr eryr a'r fwltur, heblaw yr ehediaid a enwyd yn hanes Russia, yn lliosog yn Poland; ac mae yr amrywiol afonydd yn heigio y pysgod sydd gyffredin yn afonydd Prydain.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Poland.*

TRIGOLION cyntaf Poland y tardda goleuni hanes arnynt, ar ol cysefin genhedlaeth Ewrop yn gyffredinol, sef y Celtiaid, oeddynt Esthoniaid a Vandaliaid, ac yn fuan gwedi iddynt gartrefu yno, ymwthiodd y Tartariaid i mewn ac a ranasant y wlad yn fân dywysogaethau anymddibynawl, y rhai oeddynt rwym i gyduno ag eu gilydd er amddiffyn y wlad. Mae rhai hanesyddion o farn mai Lechus un o hiliogaeth Japheth mab Noah, oedd y duc cyntaf a reolodd Poland, ac mai efe a dywysodd y Tartariaid i'w goresgyn; ereill a ddywedant mai y tywysog enwog Viscimer nai Lechus oedd y cyntaf, ac mai ar ei farwolaeth ef y dewiswyd Cracus, yr hwn a seiliodd Cracow, yn oruwch-lywodraethwr Poland. Pa fodd bynag maent yn cyduno mai tywysog enwog oedd Cracus, ac mai efe a wnaeth drefn gyntaf ar y wladwriaeth. Gadawodd ar ei ol dri phlentyn; Cracus, Lechus, a merch odiaeth o deg o enw Vanda. Cracus yn mhen ychydig ddyddiau wedi ei goroni a laddwyd gan ei frawd Lechus, yr hwn yn ddioed a gyhoeddwyd yn llywiawdr, eithr ei gydwybod yn parhau i'w flino, efe a gyfaddefodd ei drosedd, a bwriwyd ef o'r orsedd gyd a'r dirmyg mwyaf, a chyhoeddwyd Vanda yn dduges. Yn fuan gwedi derchafiad Vanda, anfonodd Rithogar tywysog teutonaidd genhadwr ati i'w gofyn yn wraig, ac os na chydsyniai y deuai ef a'i luoedd i oresgyn ei gwlad: Vanda yn ddigllon o herwydd y fath ryfyg a gasglodd ei byddinoedd, ac a aeth i'w gyfarfod, a bu y frwydr gyntaf yn angau i'r ddau. (700).

Y nesaf a ddewiswyd oedd Premislaus, milwr cyffredin, yr hwn o herwydd ei ddewrder a dderchafwyd i'r orsedd. Bu galar hir ar ei ol.

Gwedi marwolaeth Premislaus ymgeisiodd amryw o hil yr hen dywysogion gyrhaedd yr orsedd, a chan fod yr amrafael oedd yn eu plith yn debyg i dywallt gwaed, cydunwyd i benderfynu y ddadl trwy i'r ymgeiswyr redeg gyrfa, ac i ennillwr y gamp gael y deyrnwialen. Felly gwr o enw Lechus gwedi pwyo hoelion yma ac acw ar bob cwr o'r maes rhedeg, ond ei lwybr ei hun yn unig a ennillodd y gamp: eithr pan oeddynt ar y gorchwyl o'i goroni, canfu dynyn gwledig y dwyll, a'r canlyniad ydoedd dryllio y twyllwr yn ddiatreg, a chyhoeddi yr andlygwr yn ei le, tan yr enw o Lechus III. (774).

Gwedi teyrnasiad llwyddiannus tan Lechus, aeth y goron i'w fab Lechus IV yr hwn oedd yn mwynhau rhinweddau cyffelyb i eiddo ei dad.

Popiel I. mab Lechus IV. a ddaeth yn nesaf i'r orsedd, ac ar ei ol, ei nai Popiel II. yr hwn oedd tan oed pan esgynodd i'r orsedd : felly o blegyd hyny rhoddwyd pwys y goruwchwylion gwladol ar ysgwyddau ugain ordderch-feibion Lechus III. y rhai oeddynt yma a thraw ar hyd y deyrnas, yn ymddwyn yn drá addas tu ag at y deiliaid. Eithr Popiel gwedi dyfod i oed, a deall fod llais y wlad yn erbyn eu diswyddo, gwahoddodd hwynt oll i wledd yn ei lys a gwenwynodd hwynt. Taflwyd eu cyrff yn ddirgelaidd i hen adeilad, o'r lle yn fuan gwedi, medd haneswyr yr amseroedd hyny, y deilliodd llu o lygod, y rhai a ruthrasant ar Popiel a'i dylwyth, ac nis gorphwysasant nes eu difa.

Y nesaf ydoedd dynyn isel o enw Piast, a chan fod ei deyrnasiad yn llwyddiannus, ac yntef yn cyrhaedd 120 mlwydd oed, cyfenwyd pob llywodraethwr *pwylaidd* a ddaeth ar ei ol yn Piast.

Ei fab Ziemovitus yn y flwyddyn 861, a ddaeth yn nesaf i'r orsedd: tywysog enwog a llwyddiannus yn ei holl amcanion oedd hwn: adennillodd oddiar yr Ellmyn ac yr Hungariaid, yr holl dir a oeddynt gwedi ei oresgyn oddiwrth Poland.

Nid oes genym ddim hanes neillduol tan unrhyw lywiawdwyr o'r amser hyn, hyd ddyddiau Miecslaus I, pan y derbyniodd Poland gristionogaeth. Yr hanes mwyaf cywir sydd genym am blaniad y grefydd gristionogol yma, yw i Miecslaus anfon cenhadau at Daborwka merch duc Bohemia i'w gofyn yn briod, ac iddi hithau ymwrthod oni oddefai i'w fedyddio; Miecslaus mor fuan ag y medrodd ddysgu ychydig o egwyddorion cristionogaeth a fedyddiwyd; felly priodi a wnaethant. Yn fuan gwedi hyn sefydlodd esgobaethau Gnesna a Cracow, ac anfonodd St. Adalbert (gwr cymeradwyol gan y pap) i bregethu yr efengyl yn mhlith ei ddeiliaid; ac mor wresog oedd ei fryd tros gristionogaeth fal y gorchymynodd i'w filwyr hanner dynu eu cleddyfau allan, pan y darllenid unrhyw ran o'r ysgrythyrau iddynt, er dangos eu parodrwydd i amddiffyn y ffydd. Ond er mor fucheddol ydoedd, ni chaniata y pap iddo gael ei wneyd yn frenin, eithr addawodd goroni ei fab, felly yn fuan gwedi marwolaeth Miecslaus gwiriwyd yr addewid.

Boleslaus brenin cyntaf Poland, mab Miecslaus oedd y nesaf a esgynodd i'r orsedd Annogodd hwn gynnydd cristionogaeth yn ei holl ardaloedd ac er mwyn arddangos mwy o'i rinwedd, prynodd am arian lawer gorff sant oedd yn ninas Prague, gan ei osod yn mhrif eglwys ei ddinas ei hun. Daeth yr ymerawdr Otho III. ar bererindod o herwydd adduned grefyddol at y sant hwn, a bu i lawddgarwch Boleslaus tu ag at Otho yn y tro, fod yn achlysur i Otho annog y pap i'w wneyd yn frenin, a chan fod addewid y pap i'w dad mewn cof, felly fu. Gwedi goresgyn Bohemia, Moravia, a rhan o Russia, bu farw yn 1025, a daeth ei fab yn ei le.

Miecslaus II. oedd a'i fryd yn fwy ar ddylyn trachwantau ei galon, na rheoli ei ddeiliaid, y canlyniad ydoedd iddo wallgofi, yr hyn a derfynodd ei ddyddiau yn 1034, a rhoddwyd achos y deyrnas i'w fam, yr hon trwy ei gorthrwm lywodraeth a daflodd y wlad i'r annrhefn mwyaf. Casimir mab Miecslaus, yr hwn yn y derfysg a ffoesai i Ffrainc a alwyd yn ol, ac wedi 16 mlynedd o deyrnasiad a fu farw yn alarus am dano.

Ei fab Boleslaus II. oedd dywysog enwog, a llwyddiannus yn ei frwydrau yn erbyn y Russiaid, Bohemiaid, &c. Ond gwedi iddo ennill dinas Kovia, anghofiodd ei enwogrwydd trwy ymroddi yn nghyd

a'i filwyr i buteinio â benywod y ddinas. Y gwragedd yn Poland, pan glywsant y newydd a gydunasant i dalu yr echwyn adref, trwy wahoddi i'w gwelyau eu caethweision, ac felly y gwnaethant oll. Y milwyr drachefn yn clywed hyn a eiddugeddasant, ac yn fyrbwyll gadawodd y rhan fwyaf o honynt Boleslaus yn nghanol Russia, gan droi tu a chartref, ac eu bryd ar ymddial: ond erbyn dyfod yno, cawsant eu gwragedd a'u cariadau yn arfog ar y maes, a brwydr echryslon a ddylynodd: a chyn ei therfynu, daeth Boleslaus a'r gweddill o'i filwyr i ddïal eu llid ar y ffoaduriaid, a pharhaes yr ymladdfa rhwng y pleidiau hyd oni syrthiodd y milwyr, y gwragedd, ac eu cariadau agos i gyd.* Yn fuan gwedi hyn, a thra yr oedd y fam ddychrynllyd o wrthryfel yn parhau, difreiniodd y pap y brenin o'i rwysg brenhinol, ac mewn gwlad estronol y bu farw.

Digllonedd y pap yn parhau, ni osodai fab Boleslaus yn frenin, eithr caniataodd i'w frawd Uladislaus gael rheoli tan enw duc, trwy iddo ymrwymo i dalu y deyrnged a elwid *Ceiniog Pedr* tra parhâai ei reolaeth. Bu hwn gwedi teyrnasiad annedwydd farw yn 1103.

Boleslaus III mab Uladislaus, gwedi teyrnasiad terfysglyd a ranodd y frenhiniaeth rhwng ei bedwar mab, yr hyn a chwanegodd y cynhwrf cartrefol cymmaint ag y gorfuwyd gwahoddi y Russiaid, Ellmyn, a Bohemiaid i gadw tangnefedd: a gwedi iddynt dawelu y terfysg, honasant eu hawl gan feddiannu rhanau o Poland oedd yn terfynu ar eu gwledydd, a buont yn eu meddiant hyd ddyddiau Cassimir III. yn 1358.

Cassimir oedd frenin tirion, enwog, a bucheddol yn ei ymarweddiad: adgyweiriodd y cyfreithiau gwladol, unodd at Poland y tir a drawsfeddiannwyd o dro i dro oddi arni, ac addysgodd ei ddeiliaid mewn amaethyddiaeth a phethau angenrheidiol ereill. Bu farw yn 1370, a daeth ei nai Lewis yn ei le.

Lewis, yr hwn oedd weithian yn frenin Hungari, oedd y nesaf yn ei hawl i'r goron, ond gan i'r Polandiaid chwanegu at lwon y rhwym cyfammod wrth ei goroni, dychwelodd i'w wlad, a chludodd gyd ag ef y goron, ac y deyrnwialen, gan adael y llywodraeth i'w fam, ac ni ddychwelodd mwy.

Gwedi marwolaeth Lewis, rhoddwyd y goron i Hodwiga merch yr enwog Cassimir, yr hon drachefn a briododd Jagello duc Lithuania, yr hwn hefyd a goronwyd, ar iddo uno Lithuania â Poland. Cyfenwyd ef Ladislaus V. bu y fath lwyddiant ar Poland y pryd hyn, fal y cadwyd y goron yn nheulu Jagello hyd deyrnasiad Sigismund yn 1572

Poland yn ei throion milwriaethus dan y Jagelloniaid, gwedi uno Lithuania, Hungari, a rhan o Prussia ati, a ddechreuodd fod yn deyrnas alluog: felly Sigismund yn marw heb etifedd a barodd i Harri, duc Anjou brawd Charles IX. brenin Ffrainc, a Maximilian duc Austria gyfodi yn ymrysonwyr am y goron. A chan fod Ffrainc yn dirgel wobrwyo mawrion Poland, enwyd Harri yn frenin, ond gan i'w frawd farw yn y flwyddyn ganlynol, gadawodd Poland, ac eisteddodd ar orsedd Ffrainc tan enw Harri III.

Stephen Battori, yr hwn a briodasai Anne chwaer Sigismund o hil freninol Jagellon, er ail gais Maximilian, a dderchafwyd i orsedd Po-

* Encyclopedia Brittanica, vol. 15. p. 277.

land. Ei drefn o lywodraethu, oedd ddoeth a chanmoladwy, gan iddo adgyweirio y cyfreithiau, a chwanegu cryfder y deyrnas trwy lunio milwyr cartrefol o'r Cossaciaid,† i'r rhai y rhoddes wlad Ukraine yn feddiant.

Y nesaf a goronwyd oedd Sigismund III. mab Ioan brenin Sweden a Cathrine chwaer Sigismund II. (1586), ac yn fuan gwedi, dewiswyd ef yn frenin Sweden, lle yr ymgeisiodd fal y soniwyd o'r blaen, ail sefydlu pabyddiaeth, am yr hyn y cafodd ei ddiarddelu o'i fod yn frenin Sweden, a gorfu arno foddloni i fwynhau coron Poland yn unig. Bu farw yn 1623.

Ei fab Ladislaus VII. a fu lwyddiannus yn ei frwydrau yn erbyn y Twrciaid, Russiaid, ac y Swediaid, ond gwedi ei farwolaeth, bu i'w frawd Ioan Cassimir gyfyngu ar freintiau Cossaciaid Ukraine, fal y bu iddynt wrthryfela, ac ymuno ac y Russiaid, ac y Swediaid i oresgyn Poland, a gwthio y brenin oddiar ei deyrn-gadair. Cassimir wedi ffoi i Silesia a ddychwelodd gyd a byddin o Dartariaid, ac a fu lwyddiannus i ail ennill y goron oddiar y traws-feddiannwyr. Ond gan fod ei ddeiliaid yn parhau yn derfysglyd, a byddinoedd estronol yn ei flino yn barhaus, troes o'i wlad gwedi teyrnasu 20 mlynedd, a chafodd noddfa yn mynachdy St. Germain yn Ffrainc, lle y terfynodd ei ddyddiau. (1669.)

Gwr bonheddig o enw Michael Wiesnowiski, am iddo hanu oddiwrth Piast oedd y nesaf a goronwyd. Dygwyd Poland dan hwn yn deyrngedawl i'r Twrc.

Ioan Sobieski rhyfelwr enwog, a enwyd yn frenin gwedi marw Michael: llwyddodd hwn yn erbyn y Twrc, fal ag y gorfu arno dalu yn ol yr holl deyrnged a dderbyniasai tan reolaeth Michael. Bu farw yn alarus am dano yn 1696.

Y nesaf a goronwyd oedd Ffrederic Augustus rhaglaw Saxoni, yr hwn a ymunodd â Pedr I. yn erbyn Charles XII. ac o herwydd hyny gorfu arno roddi y goron i Stanislaus, ond gwedi brwydr Pultowa, ail dderchafwyd ef i'r orsedd gan Pedr I. Bu farw yn 1733.

Yr oedd Stanislaus erbyn hyn yn dad yn nghyfraith i Lewis XV. brenin Ffrainc, felly ail goronwyd ef yn ddïoed. Eithr ymerawdr Germani trwy gynnorthwy Russia, a gymhellodd i wladwriaeth Pwyl ddewis Augustus rhaglaw Saxoni, mab y brenin diweddaf, yr hwn oedd yn briod a'i nîth: felly ail fwriwyd Stanislaus ymaith, ac Augustus III. a ddaeth i'r orsedd. Dyn addfwyn yn ei ymddygiad tu ag at ei ddeiliaid oedd Augustus, er hyny nid oedd ganddo ddawn i ennill eu serch trwy ystod ei deyrnasiad. Bu farw yn Dresden yn 1763, a Poniatowski trwy orchymyn Russia tan yr enw o Stanislaus Augustus a goronwyd. Yr oedd hwn yn enwog mewn dewrder a doethineb, ond yr oedd Poland yn ddrych o helbul a thrallod, gan ryfeloedd tufewnol trwy ystod ei lywodraeth.

Yn 1766 anfonodd aelodau eglwys Groeg archiad at y brenin, i ofyn mwynhau breintiau eu hynafiaid, sef bod ar yr un ammodau â deiliaid pabyddol y deyrnas: yr archiad a dderbyniwyd yn garedig ac addawyd ei gyflawni. Eithr brenin Prussia yr hwn oedd â bryd dirgelaidd am

† Y bobl hyn yn preswylio cyffiniau Russia, Tartari a Twrci, oeddynt dair cenedl amrywiol, sef Cossaciaid glenydd Boristhenes; Cossaciaid y Don; a Chossaciaid Ural, y gwylltaf o'r cwbl. Maent y pryd hyn yn ddeiliaid Russia yn nghyd â gwlad Ukraine, sef terfyn, yr hon sydd yn llunio rhan o dalaith Ecaterinoslaf.

rwygo teyrnas Poland a wrthwynebodd, er iddo hôni ei fod o blaid eglwys Groeg yn fwy nag eglwys Rhufain. Russia hefyd yn gyflawn o'r un bwriad, a yrodd genhadau er dangos ei hanfodlonrwydd o dderbyniad yr archiad, felly Poland yn 1769, 1770, a 1771 oedd a holl ddychrynfeydd gwrthryfel cartrefol yn ei llenwi. Ac i chwanegu y farn, bu i blâ yn 1770 ddwyn ymaith o honi 250,000 o eneidiau.

Yn y cyfamser darfu i rai o bleidwyr Poland ddeisyfu nawdd y Twrc, yr hwn yn ddioed a anfonodd iddi fyddin gref, a bu ymddygiad y Mahometaniaid hyn tu ag at y Pwyl, yn llwyr wrthwynebol i'w cymmydogion gormesol, a oeddynt yn cyfenwi ei hunain yn gristionogion *apostolaidd.*

Cyn dystewi o'r derfysg yr oedd ymerodres Russia, ymerawdr Germani, a brenin Prussia, gwedi llunio cynghrair o ránu y deyrnas; felly gorfu ar y seneld gydsynu ac eu trefn, ond nid cyn i'r gormeswyr fytheirio bygythiadau rhy echrys i'w hadrodd. Wrth y rhaniad cyntaf hyn, daeth Poland fwyaf, Poland Prussia, a rhan o Lithuania i ran Prussia; Poland leiaf, a Russia rubra i Austria; ac y rhan fwyaf o Lithuania a Kiof i Russia: y gweddill a adawyd i'r trigolion hyd oedfa addas.

Yn 1788, ceisiodd y Pwyliaid ad-ennill eu treftadaeth, ac ymgasglodd eu milwyr gwasgaredig, hyd onid oeddynt yn gan mil o wyr. A chan fod eu trefn o ddewis eu brenhinoedd gwedi peri mawr niwed i'r deyrnas, cydunwyd i ddirymu hyny trwy drefnu i'r goron fod yn etifeddawl yn nheulu Frederic Augustus rhaglaw Saxoni, eithr danfonodd ymerodres Russia ei lluoedd i mewn, dan y ffug o amddiffyn y drefn a sefydlwyd arni yn 1772 o ddifreinio y Saxoniaid o hawl i'r goron, er y dangosodd y canlyniad mai ei hunig amcan oedd llwyr ranu y deyrnas. Yn fuan gwedi hyn ymunodd byddinoedd Prussia, a Germani, a Russia, a gwersyllasant o gylch y prif ddinasoedd, gan ymddwyn yn dra annrhugarog tu ag at bob gradd. A phan flinasant yn arteithio, cymhellasant bennaethiaid y deyrnas i gyfaddef cyfiawnder y gorchwyl o ranu eu treftadaeth rhwng lladron.

Ond yr oedd yma a thraw ar hyd y deyrnas, nifer o wladyddion arfog yn ffrewyll go flin i'r gormeswyr, a phan ymunasant, enwodd y mawrion Kosciusko yn flaenor arnynt, ac ymladd yn ddewrwych a ddarfu iddynt am dro: ond gan fod bröydd y gelynion yn parhau i fwrw eu miloedd i mewn, gorthrechwyd hwynt: eu byddinoedd a ddrylliwyd, a Kosciusko gwedi ei archolli a gymerwyd yn garcharor. Yna gwarchawyd ar y brif ddinas, a bu rythr-gad o barhad wyth awr, yn yr hon y collodd 5000 o Bolandiaid eu bywyd, a chan nad oedd hyn yn ddigon i ddisychedu y Russiaid gwaedlyd, arweiniodd Suwarrow eu blaenor echryslon hwynt i mewn i'r ddinas, a llarpiasant naw mil yn ychwaneg o wyr, gwragedd, a phlant diniwed. Ac i orphen y gorchwyl dieflig, aeth Suwarrow dranoeth yn fuddygoliaethus i'r ddinas, a chyhoeddodd ddydd o ddiolchgarwch, gan orchymyn ganu y *Te Deum* am y fath lwyddiant ar arfau ei arglwyddes ! ! !

Kosciusko gwedi gwella o'i glwyfau a gludwyd i Petersburgh, lle y bu yn garcharor hyd farwolaeth ymerodres Cathrine, ond Paul a'i rhyddhaes gan roddi ei ddewis iddo o ddychwel i'w wlad, neu ynte i America. Dewisodd America, ac ar ei daith yno ymwelodd â Phrydain. Yn ddiweddar dychwelodd o America ac y mae weithian yn Ffrainc.

Yn 1795, gorchymynodd Cathrine II. i Stanislaus brenin Poland,

ddyfod i Grodno i ymddiosg ei goron. "Cymmerwch hi," meddai ef, "ni allaf lai nag ymostwng yn llawen i roddi ymaith yr hon a bentyrodd arnaf fi, ac ar fy nhylwyth y fath ofidion." Oddiyno symudwyd ef i Petersburgh, lle y bu yn garcharor hyd farwolaeth Cathrine, yna rhyddhawyd ef gan Paul, a rhoddwyd iddo lŷs i breswylio ynddo, a gweision i wasanaethu arno.

Bu farw ar yr 11 o Chwefror, 1798, a chyd ag ef y darfu teyrnas Poland.

# PRUSSIA.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd—Taleithiau. Rhif y Trigolion—Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir—Hin a thymhorau—Afonydd—Llynau—Mynyddoedd—Coedydd—Mwngloddiau.*

NID oedd Prussia ond gwlad fechan cyn tmo Silesia oddiar Austria ati, a chyn i'r drydedd ran o Poland ddyfod yn yspail iddi, pan yr ymunodd cymmydogion y wlad annedwydd hóno i'w treisio rhyngddynt. Yr amser hyn mae Prussia yn cyrhaedd o Hornburg yn y gorllewin, i afon Memel yn y dwyrain, yr hyn a wna o ddeutu 600 milltir o hyd. Ei lled o barthau deheuol Silesia i Dantzic sydd 300 milltir. Mae ei pharthau dwyreiniol a deheuol yn terfynu ar Russia ac Austria, ac mae ei therfyn gorllewinol yn terfynu ar esgobaeth Hildesheim.*

TALEITHIAU. RHIF Y TRIGOLION.] Teyrnas Prussia sydd yn cynnwys yr amrywiol ardaloedd hyn. Eu maint yn filltiroedd arwynebol, a rhif y trigolion sydd fal y canlyn.

| | | Milltir. arwyneb. | Poblogaeth. |
|---|---|---|---|
| | Teyrnas Prussia, yn cynnwys y brŷdd a ddaeth iddi ar raniad Poland, - - - - - - - | 48,150 | 3,261,360 |
| Saxoni uchaf. | Rhan o Pomerania, - - - - - - - - | 7,200 | 540,000 |
| | Etholyddiaeth Brandenburgh, - - - - | 10,672 | 1,200,000 |
| | Rhan o Mannsfeld a Hohenstein - - - | 180 | 35,000 |
| | *Cyfoeth y diweddar Abatty Quedlinburg, | 32 | 12,000 |
| | *Tref a phriodoriaeth Erfurt, ac Eishfeld, | 810 | 110,000 |
| Saxoni Isaf. | Dugiaeth Magdeburg, - - - - - - - | 1,152 | 290,000 |
| | Tywysogaeth Helbarstadt, - - - - - | 480 | 100,000 |
| | *Tywysogaeth, diweddar esgobaeth, Hildesheim, - - - - - - - - - | 640 | 90,000 |
| | *Diweddar ddinasoedd ymherodrol Muhlausen, Nordhausen a Goslar, - - | 60 | 31,000 |
| Westphalia. | Tywysogaeth Friesland ddwyreiniol, - | 864 | 120,000 |
| | Tywysogaeth Minden, - - - - - - - | 496 | 60,000 |
| | Rhan o ddugiaeth Cleve, - - - - - | 400 | 55,000 |
| | Gwlad Marche, - - - - - - - - - | 816 | 124,000 |
| | Gwledydd Lingen a Tecklenburg, - - | 208 | 45,000 |
| | Gwlad Ravensberg, - - - - - - - | 272 | 85,000 |

* Wrth y cytundeb a wnaed yn Tilsit yn 1807, gorfu ar frenin Prussia ymadaw a'i ran o Poland, cylch Cotbus yn Lusatia, yn nghyd â'r holl ranau o Germani oedd yn ei feddiant ar y tu gorllewin i afon Elb,

| | | Milltir. arwyneb. | Poblogaeth. |
|---|---|---|---|
| Westphalia. | *Tywysogaeth, diweddar esgobaeth, Paderborn, - - - - - - - - - - - | 868 | 120,000 |
| | *Tywysogaeth Munster, yn cynnwys y ddinas, a'r rhan fwyaf o'r esgobaeth ddiweddar, - - - - - - - - - - | 1,360 | 200,000 |
| | *Trefydd a bröydd yn perthyn yn ddiweddar i Abattai Herforden, - - - - - - | 32 | 2,000 |
| | Essen, - - - - - - - - - | 40 | 5,000 |
| | Werden, - - - - - - - - | 40 | 5,000 |
| | Elten, - - - - - - - - | 32 | 4,000 |
| Ffranconia, | Tywysogaeth Bayreuth, - - | 1,200 | 220,000 |
| | Tywysogaeth Anspach, - - | 1,120 | 275,000 |
| Rhan o Silesia a bro Glatz, - - - - - - - | | 11,616 | 1,890,000 |
| Switzerland.—Tywysogaeth Neufchatel a gwlad Valengin, - - - - - - - - - - - | | 240 | 45,000 |
| | Y cyfan yn | 88,980 | 9,015,130 |

D. S. Y broydd sydd gwedi eu nodi â'r Seren, a ddaeth yn eiddo Prussia yn y cytundeb a wnaed yn 1803.

Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.] Mae y broydd ëang hyn yn arddangos cryn amrywiaeth. Brandenburg sydd dywodlyd a noethlwm, eto yn orsaf llawer o ddinasoedd a threfydd mawrion. Y tir o fewn yr hen derfynau sydd fal ei rhan o Poland yn dra ffrwythlon o goed, yd, a phob llysiau adnabyddus yn y bröydd oerion. Silesia, drachefn sydd wastadoedd darfrithedig o lynau, afonydd, a choedydd hyd oni chyrhaeddir trûm Carpathia, yr hwn sydd yn derfyn rhwng Prussia a Hungari, a chainc o'r un drûm sydd yn ei gwahanu oddiwrth Moravia a Bohemia.

Hin a thymhorau.] Mae yr hin yn nhaleithiau Prussia yn oer yn gyffredinol, yn enwedig yn y parthau gogleddol, lle cyfrifir wyth mis o auaf. Mae yr haf, fal y soniwyd wrth ddysgrifio ansawdd y gwledydd cymmydogaethol yn ymdóri ar unwaith o afael gauaf, ac yn peri i wyneb llwm y maesydd mewn ychydig ddyddiau gwedi toddi o'r eira, fod yn llawn blodau a llysieuau.

Afonydd.] Afon Elb sydd a'i blaenau yn gyfagos i fynyddoedd y cawri ar gyffiniau Bohemia a Silesia, a gwedi myned heibio Koninsgratz, Dresden a Magdeburg, mae hi yn ymarllwys i for Almaen, ychydig goris Gaer Gluckstadt.

Afon Spree sydd yn codi o fynydd-dir Bohemia, a gwedi myned trwy Lusatia a Brandenburg, a heibio Berlin, mae hi yn ymuno ag afon Havel, yr hon sydd gainc o afon Elb.

Afon Oder sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Moravia, yr hon gwedi dyfrio Silesia, Brandenburg a Pomerania, sydd yn ymuno â'r Llychlyn gwedi iddi redeg dros 300 milltir.

Afon Vistula sydd a'i chychwyn yn nhrûm Carpathia, a gwedi myned heibio Cracow a Warsaw, mae hi yn ymarllwys i'r Llychlyn ar gyfer Dantzic, gwedi iddo lifo 450 milltir.

Afon Pregel sydd yn codi o lyn Angenberg, ac yn rhedeg heibio dinas Koningsberg i Ffrish haff.

Afon Memel sydd hynod am ei bod yn llunio rhan o derfyn dwyreiniol Prussia.

Llynau.] Y llynau ydynt dra lliosog yn mharthau dwyreiniol

Prussia, ond y mwyaf yn eu plith a elwir llyn Spelding, yr hwn sydd o ddeutu 20 milltir o hyd a lled. Mae afonydd Oder, Vistula, a Memel yn ymarllwys i geinciau o for cylchynedig gan dir oddieithr un aber gul, felly yn tebygu i lynau, ond yr Ellmyn a'u geilw Haffs. Yr un sydd yn derbyn afon Oder a elwir Grass haff; y Vistula, Ffrisch haff; ac un Memel, Curisch haff. Mae y Ffrisch haff yn 70 milltir o hyd, ac o 3 i 10 o led, yn wahanedig oddiwrth y Llychlyn gan drum-dir cul, a fwriodd tymhestloedd parhaus y flwyddyn 1190 i fynu o'r dyfnder. Mae hwn yn rhy fâs i lestri mawr dramwyo arno. Curisch haff sydd 60 milltir o hyd, ac mae ei led mwyaf o ddeutu 30. Mae hwn hefyd yn cael ei wahanu oddiwrth y Llychlyn gan dir cul fal y llall.

MYNYDDOEDD.] Mae y rhanau o Prussia a elwir Magdeburg, Brandenburgh a Pomerania yn dir lled wastad, ond y fro a elwir Silesia sydd fynyddig. Cainc o drum Carpathia sydd yn llunio terfyn dehenol Silesia am 200 milltir, ac a elwir mynyddoedd Suda. Y rhai hynotaf ereill ydynt mynyddoedd Riesen.

COEDYDD.] Anaml gwelir gwlad liosocach ei choedydd cyffredin yn y bröydd gogleddol, na Phrussia. Silesia sydd hynod am eu hamlder yn llenwi ei gwyneb garw.

MWNGLODDIAU.] Silesia sydd yn cynnwys cloddfeydd haiarn, efydd, &c. Mae yno hefyd rai meini gwerthfawr, megys yr agate, jasper, &c. Ond y mwn sydd yn dwyn mwyaf o elw i Prussia yw gwefr.* Pryner y rhan fwyaf o hono gan Armeniaid a Groegiaid, i'w werthu i'r pererinion i Mecca i'w losgi yno er anrhydedd i Mahomet.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion.—Llywodraeth.—Crefydd.—Iaith. Dysgeidiaeth—Milwyr.—Dinasoedd a threfydd.—Anifeiliaid.*

GAN fod amryw genhedloedd yn awr yn trigfanu dan goron Prussia, mae yn rhaid bod amrywiaeth arferion yn eu mysg. Y trigolion cyntaf ag sydd mewn meddiant o rwysg y deyrnas, ydynt ddwys yn eu hymarweddiad, syml yn eu gwisgoedd, a gwrol ar faes rhyfel. Maent er dyddiau yr enwog Ffrederic, yr hwn oedd yn ymhoffi yn arferion Ffrainc, yn tebygu mewn rhan i'r genedl hóno, ond agwedd Ellmyn sydd amlycaf yn eu plith y dyddiau hyn. Y Silesiaid sydd yn cael eu cyfrif yn ddynion diog a diofal: maent yn preswylio celloedd is-lawr blith tra-phlith a'i gilydd fal Laplandiaid, am y chwe' mis y byddo eu bro dan eira.

LLYWODRAETH.] Mae pob gallu rhwysgol yn gyfleëdig yn y brenin, yr hyn sydd amlwg wrth fod y wlad heb unrhyw fath o senedd yn perthyn iddi. Y cynnorthwy-wyr i lywodraethu ydynt bedwar o gangellwyr y deyrnas, a 37 o swyddogion cantrefydd.

CREFYDD.] Y grefydd ddiwygiedig sydd freintiol yn Prussia, yn ol egwyddorion Luther a Calvin: ond mae y Pwyl sydd newydd ddyfod

* Gwefr, neu Ambr sydd sylwedd defnyddiol o liw melyn a dysglaer, o fath suddog; ei flas yn debyg i ystor, a'i arogl fel turpentine.—Y mae o ddefnydd mawr mewn meddyginiaethau a chelfyddydau ereill.—*Geiriadur Ysgrythyrol.*

yn ddeiliaid i Prussia, yn ddiwyd yn taenu egwyddorion y pap yn eu plith. Bu agwedd dyner brenin diweddar Prussia, tu ag at bob enwau crefyddol yn mhlith ei ddeiliaid, yn achlysur i gariad brawdol fod yn dra amlwg hyd heddyw yn eu plith.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Yr Ellmaneg ydyw iaith sathredig Prussia, yr hon a sylwir arni dan Almaen. Mae amryw ddynion dysgedig wedi deillio o'r wlad hon, sef Copernicus y seronydd, Claverius, Regiomontanus ac ereill; hefyd yr enwog Ffrederic, yr hwn oedd eang ei wybodaeth yn holl ganghenau y celfyddydau, &c. Yn yr iaith ffrengig yr ysgrifenodd ei holl draethiadau, o herwydd iddo farnu yr iaith hono yn fwy arddercbog na 'r Ellmaneg.

MILWYR.] Milwyr Prussia yn amser heddwch ydynt o ddeutu 200,000 o wyr traed, a 40,000 o wyr meirch; ond yn amser rhyfel maent yn llawer mwy lliosog. Yr oedd pob gwryw hyd ddyddiau yr enwog Ffrederic yn rhwym o'i febyd i wasanaethu ei frenin pan y gelwid ef. Ond gan fod Ffrederic yn hoff amaethyddiaeth, gwahoddodd estroniaid i'w fyddinoedd, fal y gallai adael rhifedi addas o'i ddeiliaid i drin y tir.

DINASOEDD A THREFYDD.] Berlin, prif ddinas Brandenburg a holl daleithiau Prussia, sy ddinas hardd, yn sefyll ar afon Spree, yr hon sydd yn ymuno ag afon Elb. Yr adeiladau ydynt o goed, gwedi eu harddu o'r tu allan â chalch, fal pe byddent geryg nadd. Mae pump o faes-drefi yn ei chylchynu, ac yn yr hon a elwir Spandau, mae y llysoedd ac y gerddi breninol. Y trigolion ydynt 70,000.

Koningsberg, prif ddinas Prussia freninol, sydd a'i sail ar ynys yn afon Pregel, o'r hon mae saith o bontydd yn ei huno â'r lan. Mae yr afon o ddyfnder i longau go fawrion nofio at gaerau y ddinas. Ei hamrywiol weithfaoedd, athrofeydd, llysoedd, ac adeiladau ereill ydynt hardd, a dywedir fod ynddi 50,000 o drigolion.

Breslaw, prif ddinas Silesia, sydd yn sefyll ar lan deheuol afon Oder. Difethwyd hi gan y Tartariaid yn 1241. Cymmerwyd hi gan frenin Prussia yn 1741, a chan Austria yn 1757, ac yna yn fuan gan Prussia drachefn. Yma y gwneir y lliain goreu o un man yn Prussia. Bernir fod ynddi gymmaint o drigolion ac yn Koningsberg.

Warsaw a Dantzig dinasoedd yn perthyn y pryd hyn i Prussia, sydd a hanes am danynt dan Poland.

Mae amryw ddinasoedd enwog ereill dan goron Prussia, megys Brandenburg, yr hon sydd yn cynnwys 6000 o drigolion, Ffrancfort ar afon Oder yn cynnwys 16,000, a Potsdam dinas newydd ei hadeiladu, sydd ar ynys mewn llyn cylchynedig gan goed a thrumiau o dir uchel: hon yw haf-dy teulu breninol Prussia, ac nid traul fechan a fu i ei gwneyd yn lle hardd. Y trigolion ydynt 20,000. Y trefydd mwyaf ereill yn Brandenburg ydynt yn cynnwys o ddeutu 6000 o eneidiau.

Magdeburg prif ddinas talaith o'r un enw, sydd yn sefyll ar ynys yn afon Elb: y trigolion ydynt 20,000. Dinas Halle ar afon Saale, sydd a'i thrigolion yn 20,000. Helbarstadt, 12,500, a Quedlinburg a allt fod ynddi o ddeutu yr un cyfrif.

Y dref fwyaf yn Westphalia ydyw Neufchatel, yr hon sydd yn cynnwys 6000 o drigolion. Stettin yn Pomerania, nodedig gan liosogrwydd ei gweithfaoedd, sydd a'i thrigolion yn 18,000. Shaagard, yn yr un dalaith sydd yn cynnwys o ddeutu 6000. Elbing yn Marienburg sydd a'i thrigolion yn 14,000. Nid oes yr un o'r lleill yn cyn-

awys mwy na 3000, hyd yr ychwanegiad diweddar o ddinas Thorn a 10,000 o drigolion at goron Prussia.

ANIFEILIAID.] Yr uri neu y bison, sydd liosog yn Prussia, hefyd y llostlydan, y lynx, yr arth, y llwynog, ac y rhai cyffredin yn Mhrydain.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Prussia.*

MAE yr enw Prussia yn tarddu oddiwrth y ddau air Ysglafoneg *Po agos*, *Russi* Russia. Porussiaid oedd enw cyffredin y genedl a wrthgiliodd y Sarmatiaid a'r Venoiaid o'r broydd hyn, ac enwog fuont yn gwrthsefyll rhythrau y Pwyl, hyd eu darostyngiad gan Farchogion urdd y Teuton, am ganoedd lawer. Ond Cassimir IV. brenin Poland yn 1453, a ddifeddiannodd y Marchogion o rwysg y llywodraeth, ac erlidiodd hwynt i breswylio broydd dwyreiniol y wlad, gan orfod addef eu bod yn gaethion iddo. Y rhan arall a unwyd at Poland. Bu brwydrau echrys yn eu plith, oblegyd gorthrwm lywodraeth y Pwyl, o'r amser hyn hyd ddyddiau Albert o Brandenburg prif benaeth yr urdd Teutonaidd, yr hwn a fwriodd ymaith ei wisg fonachaidd i dderbyn egwyddorion Luther; yna blaenorodd ei fyddinoedd i wrthsefyll y Pwyl, ac y canlyniad ydoedd rhoddi heddwch iddo, a'i addef yn ddug ar fröydd dwyreiniol Prussia. Felly terfynodd rheolaeth y crefyddwyr Teutonaidd hyn, gwedi iddi barhau o ddeutu 300 mlynedd.

Yn 1657, Ffrederic William o Brandenburg yr hwn a elwid yr enwog a reolodd. Bu llwyddiant ar holl amcanion y llywydd hwn: erlidiodd y Pwyl o'i gyffiniau, a diogelodd feddiant y wlad iddo ei hun, ac ei etifeddion. "Yr oedd hwn," meddai y brenin dysgedig Ffrederic, "gwedi ei wisgo â phob cymmwysderau addas i lunio dyn enwog, a bu Rhagluniaeth dyner wrtho yn rhoddi iddo bob cyfle teg i'w hardd angos. Yr oedd ei ymarweddiad yn ganmoladwy hyd yn nod mewn oedran pan yw ffrwd ieuenctid yn blaenori. Ei ymddygiad at ei ddeiliaid oedd addfwyn a charedig: a dewrwych ydoedd fal adfarwr ac amddiffynwr ei wlad." Bu farw yn 1688, a daeth ei fab Ffrederic yn ei le.

Nid hir y bu Ffrederic yn llywodraethu, heb ddangos tuedd i fod yn frenin: a pha fwyaf yr annogai ei wraig a mawrion y wlad iddo beidio, mwy-fwy oedd ei awch am gael ei amcan i ben. Bu yn hael yn ei roddion i ymerawdr Germani, yr hwn os mynai, oedd ddiogel o ennill llais holl dywysogion ei daleithiau o'i du; heblaw ymladd ei ryfeloedd yn mro Galedin, ar y Rhin, ac yn Hungari, lle yr aberthodd o ddeutu 30,000 o'i ddeiliaid. Felly o'r diwedd ar iddo ymroddi i gadw cau mil o'i wyr yn ngwasanaeth yr ymerawdr, cyhoeddwyd ef yn frenin yn 1701, ac nid bychan oedd y gor-wychder a'r mawredd oedd yn dylyn ei holl amcanion canlynol.

Ei wraig Sophia Charlotte, chwaer George I. brenin Prydain, oedd fenyw ddoeth ac athrylithgar: gwahoddodd y dysgedig i'w llys, er mwyn cael ymddiddan â hwynt ar ansawdd dwfn wybodaeth athronyddiaeth, &c. Ar ei gwely angau ni chaniatâai i un o weinidogion Luther ddyfod yn ei golwg, gan adrodd "gadewch i mi farw mewn tangnefedd heb ymddadleu." Ar hyn torodd un o'i morwynion i wylo yn dost: "na wylwch," meddai hithau, "canys yr ydwyf yn myned

i gael bodlonrwydd i fy meddyliau ar bethau na allasai fy ngweinidog ysprydol eu hegluro; hefyd yr ydwyf yn myned i gael bodlonrwydd i fy meddyliau ar bethau na allasai fy ngweinidog ysprydol eu hegluro; hefyd yr ydwyf yn paratoi i'r brenin, fy ngwr, gyfle arall i arddangos ei wychder yn trefnu fy angladd." Dylynodd Ffrederic yr un llwybr yn 1713.

Ei fab Ffrederic William oedd y nesaf a goronwyd. Tywysog doeth yn ei holl oruchwylion oedd hwn: mwyaes drysorau y deyrnas, a chadwodd ar ei draul ei hun fyddin o 60,000 o wyr, gan osod Ffrederic ei fab yn llywydd arnynt. "Os gellir dywedyd," meddai 'r hanesydd breninol, "fod ar y dderwen ddyled i'r fesen am ei chylch eysgodfawr, felly ymarweddiad doeth Ffrederic oedd wreiddyn enwogrwydd ei ddylyniedydd." Bu farw yn 1740, a daeth ei fab Ffrederic III. yr hwn a gyfenwid *yr enwog* i'r orsedd.

Ymerodres Germani oedd y pryd hyn yn parotoi ei byddinoedd ar derfynau Silesia, a chan iddi fod yn hwyrfrydig i ateb dyben y cyfryw barotöad, a Ffrederic yn ofni y byddai ei wlad dan sang byddinoedd estronol, a arweiniodd ei filwyr i gyfarfod y gelyn yn Saxoni, a bu fuddygoliaethus. Gwedi iddo gwbl feddiannu Saxoni, troes yn erbyn Augustus III. brenin Poland, yr hwn oedd mewn cynghrair â Germani, ac nid hir y bu heb eu gwasgaru. Ond yr oedd erbyn hyn, gan mil o Russiaid ar eu taith i Prussia, ac yr oedd o ddeutu yr un cyfrif gan ymerodres Germani yn cyrchu iddi. Sweden hefyd oedd yn barod i oresgyn Pomerania. Felly yr oedd Ffrederic ac ei fyddin fechan mewn cymhariaeth, mewn sefyllfa gyfyng: er hyny arhodd ei fwa ef yn gryf: arweiniodd ei fyddin rhyngo a Prague, lle y cyfarfu a rhan o fyddin yr Austriaid, sef 80,000, a gwedi brwydr echrys, a cholli miloedd o'r ddwy blaid, barnwyd Ffrederic yn fuddygoliaethus. Bu hyn yn 1757. Y frwydr nesaf oedd ar gyfer Kolin: dechreuodd y Prussiaid ymosod fal o'r blaen, gan rwygo yn eu harfod, ond gwedi awr a haner o ymladd, ac i fyddinoedd dyryslyd yn Austriaid ail-lunio, dechreuodd byddinoedd Prussia ymddyrysu a chilio yn ol. Gwedi adferu peth trefn, dychwelodd y Prussiaid seith-waith ol yn ol i'r ymgyrch, a'r tro olaf dan arweiniad Ffrederic eu hun, er hyny gorfuwyd cilio o'r maes gwedi i'r ddwy-blaid golli o ddeutu 10,000 o wyr bob un.

Erbyn hyn yr oedd byddin o Russiaid gwedi goresgyn Prussia ac 20,000 o Swediaid gwedi meddiannu rhan o Pomerania; byddin o Austriaid yn Silesia; ac un arall yn gwarchae dinas Berlin. Ond Ffrederic er ei gylchynu gan elynion, ni laesodd ddwylaw, eithr ymarfogodd yn ddewr, a rhanodd ei fyddin yn ddwy ran, un i gadw meddiant yn Saxoni, a thywysodd y llall i gyfarfod yr Austriaid: ac wrth ddinas Rosbach bu ymladdfa dost, and bu y fuddygoliaeth i Ffrederic. Collodd 300 o'i wyr ef, ac o ddeutu 5000 o Austriaid eu bywyd.

Yr oedd byddin arall o Austriaid a Hungariaid gwedi goresgyn Silesia, a gwedi gyru byddin fechan o Brussiaid ar ffo. Ffrederic yn ofni colli Silesia a gasglodd ei fyddinoedd ac a frysiodd yno, ond cyn myned i faes y gwaed, galwodd holl flaenoriaid ei fyddin ato, a chyfarchodd hwynt fal hyn,

"Foneddigion,

"Y foru yr ydwyf yn bwriadu cyfarfod y gelyn, a chan y bydd i'r frwydr derfynu pwy fydd i feddiannu Silesia rhagllaw, yr ydwyf yn dysgwil y bydd i bob un o honoch yn y modd mwyaf manwl wneyd ei ddyledswydd. Os oes unrhyw lwfrdra ar un o honoch, deued yn

blaen yr awr hon, rhag iddo wneyd ereill yn gyffelyb iddo! Deued yn mlaen meddaf, ac fe geiff ei ddiswyddo heb unrhyw warth yn dylyn y gorchwyl. Gwelaf mai dewrion ydych; er hyny sylwaf yn fanwl a gyflawna pob un ei ddyledswydd. Byddaf yn mhob cwr o'r gâd, ac ni ddianc yr un o honoch heb fy sylw penigol; a phwy bynag a welwyf yn cyflawni ei ddyledswydd, arno ef y pentyraf anrhydedd a pharch."

Tranoeth cyfarfu y ddwy fyddin, ac ymladdasant hyd yr hwyr. Yr Austriaid a orchfygwyd, a chymmerwyd 20,000 o honynt yn garcharorion, yn nghyd â'r holl ysbail oedd yn eu gwersyll.

Hyd yn hyn yr ydys gwedi sylwi ar lwyddiant anarferol y pen-llywydd hwn, bellach rhaid ei ddylyn i beryglon a chyfyngderau, "pan," ei chwedl ef ei hun, "y bu i'w adnoddau ddechreu methu, ei gryfder wanhau, ac ei obaith, nawdd olaf yr annedwydd, fygwth ei adael." Silesia, yr hon oedd gwedi peri colli cymmaint o waed, oedd eto i fod yn orsaf brwydrau echrys. Russia oedd gwedi bwrw 100,000 o wyr i mewn, ond Ffrederic lwyddiannus hyd yn hyn, yn llawn awch a eu gwynebodd â 50,000. Y frwydr a fu dost yn erbyn Russia am gryn amser, o herwydd i'w byddinoedd ymddyrysu; eithr gwedi ail ymlupio a meddiannu uchelfa, ymroddasant i farw neu i gael goruchafiaeth. Er y gallasai Ffrederic foddloni ar yr oruchafiaeth oedd eisus gwedi ei wneyd, eto gan chwennych difrodi gelyn trahaus oedd yn wastadol yn ei flino, cylchynodd yr uchelfa, yr hon oedd weithian gwedi cael ychwanegiad ati, ond gorfu ar Ffrederic ac ei wyr gilio yn ol yn dra cholledus. Dychwelasant drachefn, a blaenorodd y brenin y gwyr meirch i geisio rhuthro ar y gelynion, eithr yn ofer: "Eu tan," medd hanesydd enwog, "oedd enau mool danllyd, ac eu harfau oedd fur o darianau y cedeirn." Ac fal hyn, tra yr oedd y milwyr enwocaf ar wyneb daear yn petruso, rhuthrodd y Russiaid arnynt fal oenllif llifeiriawl, gan rwygo yn eu harfod. Teir-gwaith yr adnewyddodd y brenin yr ymgyrch, ond bob tro yn aflwyddiannus: collodd y frwydr, a dyfodiad nos a rwystrodd iddo ef ac y gweddill filwyr fod yn garcharorion. O 30,000 o feirwon ar y maes, yr oedd 16,000 o honynt yn Brussiaid.

Er y tro alaethus hwn, casglodd Ffrederic fyddin newydd o 60,000 o wyr, ac ymladdodd yn ddewrwych yn erbyn Daun a Laudsbon, blaenoriaid byddinoedd Austria: clwyfwyd ef mewn brwydr yn erbyn Daun, ond nis mynai iddynt ei gludo oddiar y maes, gan honi "y byddai i'w absenoldeb ddyrysu ei fyddinoedd, ac mai ei ddyledswydd ef oedd parhau tra gallai, i ymladd am fuddygoliaeth, o wall hyny nid oedd ei fywyd ef o ddim gwerth."

Gwedi hyn troes Ffrederic i'w wlad, gan lwyr ymroddi i geisio amddiffyn ei ddeiliaid hyd y gallai rhag rhuthra ei elynion. A phan oeddynt oll gwedi cyngbreirio i'w ddyfetha ef ac ei deyrnas, trefnodd Rhagluniaeth i'w elyn penaf, sef, Elizabeth ymerodres Russia farw: felly pan goronwyd ei nai, ei orchwyl gyntaf oedd rhoddi heddwch i Ffrederic. Gwnaeth Sweden yr un peth, ac nid hir y bu Austria heb ammodi: yna cydunodd yr holl alluoedd ymladdgar, i bob un fwynhau y fro a oedd yn ei feddiant ar ddechreu y rhyfel.

Er bod Ffrederic drwy ystod ei oes yn gynnefin â dychrynfeydd rhyfel, nid oedd yn ddideimlad tu ag at y sawl oedd mewn adfyd. Yr oedd y tlawd ac y gorthrymmus, pan y cychwynai i'w daith flynyddol drwy ei deyrnas, yn ddiogel o ymwared os deuai ar eu tuedd. Mae yr

hanes cyffredin sydd genym am ddynol ryw, yn ein dysgu mai rhwysgawydd yw prif gynnefod pob rhyfelwr, ond awydd Ffrederic oedd fwy am amddiffyn ei ddeiliaid ac eu gwneyd yn gysurus, na mwyau ei gyffiniau. Gellir gweled oddi wrth yr hyn a ganlyn fod yr enw enwog yn deilwng iddo.

"Potsdam, Mehefin 14, 1781.

"Fy anwyl flaenor Von Killer,

"Yr ydwyf yn deall bod milwr o eich byddin gwedi ei farnu i weithio am chwe' blynedd ar fy amddiffynfeydd, am gynnyg bod yn hunan-leiddiad, yr hyn yn fy nhyb i sydd farn rhy dost; anaml y ceir neb yn ei iawn bwyll yn euog o'r cyfryw drosedd.. Gallai fod y pruddglwyf ar y truan difeddwl, ac i hyny fod yn achlysur iddo geisio ei ddyfetha ei hun. Yn y golygiad yma nid ydwyf yn cadarnhau y ddedfryd, ond yn chwennych, yn lle ei orchwyl ar fy amddiffynfeydd, iddo gael ei roddi dan law meddyg, a phan iachao, iddo gael ei dderbyn yn ol i fy ngwasanaeth, ac ei annog yn dyner i ymarweddu yn well rhagllaw.

"Wyf, &c. &c. FFREDERIC."

"Fy anwyl Weinidog y deyrnas Von Zealer,

"Mae gwrthwynebiad dwys yn fy meddwl i ganiatau dedfryd angau ar Döpel y drygweithredwr. Mae ef ac ei gydymaith eto yn ieuanc; am hyny nid ydwyf yn chwenych iddynt gael ei dihenyddio, eithr eu carcharu am ychydig wythnosau, ac iddynt yn y cyfamser gael eu hegwyddori o berthynas i'w dyledswydd tu ag at eu cyd-greaduriaid, ac eu gwneyd yn ddealladwy o ansawdd eu trosedd.

"Wyf, &c. &c. FFREDERIC."

Yr oedd swyddogion tref Charmarck gwedi carcharu un o'i thrigolion, tan y cyhuddiad o'i fod gwedi cablu Duw, y brenin, a gwir barchedig swyddogion y ddinas. Y maer, gwedi adrodd yr helynt i'w fawrhydi, ac yn chwennych gwybod pa gosb oedd ddyladwy i'r fath droseddwr ysgeler, a dderbyniodd yr ateb hyn,

"Mae yn amlwg fod gwaith y carcharor yn cablu Duw, yn brawf nad ydyw yn ei adnabod ef; ei gabledd yn fy erbyn i, sydd yn cael ei faddeu; ond gan iddo gablu gwir anrhydeddus swyddogion y ddinas, mi a'i cosbaf ef mewn modd amlwg, trwy ei roddi yn ngharchar am haner awr.

"FFREDERIC."

Dygwyddodd i wlaw trwm wneyd sarhâd ar gantref cyfan yn Prussia orllewin. Y trigolion a anfonasant eu cwyn at y brenin, a chawsant ateb fal hyn,

"Clywais am eich cyfyngder. Oddiwrth Dduw y daeth. Ond fe gaiff fy nghyfoeth i wneyd y rhwyg i fynu i'r ddimeu eithaf, ac anfonaf ddyn addas i chwilio ansawdd eich colledion ac eu trefnu.

"Wyf eich brenin trugarog,

"FFREDERIC."

Pan oedd Ffrederic yn dywysog Prussia, yr oedd yn hoff ganddo hela; ond gwedi ei goroni rhoddes y gorchwyl heibio, a dyma ei dyb am helwriaeth, a ysgrifenodd a'i law ei hun,

"Hela," medd ef, "sydd un o'r mwyniderau mwyaf difyrus, trwy ba un mae galluoedd y corff yn cael eu bywiocau; eithr yn gadael y meddwl yn ddidriniaeth. Gorchwyl ydyw sydd yn peri chwennychiad tanbaid wrth ymlid, a mwynhad o fwynder creulawn yn angau yr ysglyfaeth. Gorchwyl sydd yn cryfhau ac yn ystwytho yr aelodau, ond

yn gadael y pen heb unrhyw lesâd. Mae yn ddiddadl genyf fod dyn yn fwy creulawn a thrahaus nag unrhyw fwystfil rheibus, gan eiu bod yn arfer y llywodraeth a roddwyd iui ar ein cyd-greaduriaid hyn, yn y modd mwyaf mileinig. Ein dyledswydd ydyw eu llywodraethu mewn rhesymoldeb; ond yn lle hyny gwelwn mai ymddiddan â chwn, ac a cheffylau, ac am y prŷf, ydyw prif orchwyl helwyr. Mae hyn yn peri iddynt fod yn erwin a dideimlad; ac mae yn bur debyg nas gallant ddangos nemawr o dosturi tu ag at ddynol ryw; canys, pa ddyn yr hwn mewn gwaed oer a fedr arteithio creadur diniwed, a all gydymdeimlo â gofidion ei ryw ei hunan?—Hefyd ai gorchwyl addas ydyw hela i ddyn dwys fyfyriol?"

"Brenin," medd ef, "a ddylai yn ddiammeu ganlyn y mwynder hyn, os bydd iddo ei arfer yn gymhedrol, ac er y dyben o nawseiddio ei feddwl, gwedi ei amrywiol oruchwylion pwysfawr sydd raid iddo o angenrheidrwydd fod wrthynt. Brwnt fyddai gomuedd pob difyrwch llesol i dywysog. Ond a all brenin dderbyn mwy o hyfrydwch nag yr hyn sydd yn deillio oddiwrth lywodraethu yn ddoeth, oddiwrth lwyddiant ei ardaloedd, ac oddiwrth gynydd gwybodaeth fuddiol yn mhlith ei ddeiliaid? Y brenin a chwilio am unrhyw ddywenydd arall angenrheidiol i'w ddedwyddwch, sydd i'w resynu."

Gorphenodd Ffrederic ei yrfa ddaearol yn 1786, a daeth ei nai Ffrederic William II. i'r orsedd, yr hwn yn nechreu ei deyrnasiad a geisiodd ddynwared ei ragflaenor mewn amrywiol bethau, eithr parodd ei ymddygiad gwarthus tu ag at Poland, a thoriad y cynghrair rhyngddo ag Almaen a Phrydain yn erbyn Ffrainc, i'w enw yn nghyd ag ei wlad fod yn llwyr ddiystyr. Bu farw yn 1797, a daeth ei fab Ffrederic William III. y brenin presennol, i'r orsedd. Bu hwn yn ddibleidgar gan ddysgwyl i lwyddiant ei deyrnas gael ei hadferyd, hyd 1801, pan yr anfonodd fyddin i feddiannu Hanover, etifeddiaeth gyfiawn brenin Prydain, ac nis ymadawodd hyd oni ymheddychodd Prussia â Ffrainc. Yn 1806 rhoddes fröydd Cleves a Berg i Ffrainc i'w rheoli gan Murat, brawd yn nghyfraith Buonaparte, ac ail feddiannodd Hanover, a lluniodd ammod â Ffrainc i gau y porthladdoedd gogleddol, yr hyn a barodd i Loegr, yr hon oedd hyd yn hyn yn ei gynnal, ffromi arno, drwy fygwth cyhoeddi rhyfel yn ei erbyn.

Yn fuan gwedi hyn, gan fod holl Ewrop yn edrych ar Ffrederic yn aliuog i beri heddwch cyffredinol, gorfu arno lunio ammod â Buonaparte, drwy yr hwn y collodd y rhan fwyaf o'i deyrnas, yr hon, a ddaeth yna yn lleiaf ei rhwysg o un wlad yn Ewrop.

# ALMAEN, NEU GERMANI.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Cylchynoedd. Maintioli.—Rhaniadau.—Hin a thymhorau.—Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.—Afonydd.—Llynau.—Mynyddoedd—Coed-diroedd. Llysiau—Mwngloddiau.*

YMERODRAETH Germani sydd a'i sefyllfa yn nghanol Ewrop, sef, rhwng 45 a 55 o raddau lledred gogleddol; a rhwng 5 a 18 o raddau hydred dwyreiniol, yn gylchynedig o du y gogledd gan Denmarc, mor Almaen, ac y Llychlyn; o du y dwyrain gan Bohemia, Poland, a Hungari; o du y de gan Switzerland, a mynyddoedd yr Alp; ac o du y gorllewin gan Ffrainc, ac yr Iseldir. Ei hyd sydd o ddeutu 600 milltir, ac ei lled o ddeutu 550, felly yn agos i 182,000 o filltiroedd arwynebol.

RHANIADAU.] Germani sydd gwedi ei rhanu yn naw rhan, y rhai a elwir cylchoedd: ei rhanau gogleddol a elwir cylchoedd Saxoni uchaf, Saxoni isaf, a Westphalia; y rhai canol, cylchoedd Rhin uchaf, Rhin isaf, a Ffranconia; ac y rhai deheuol, a elwir cylchoedd Austria, Swabia, a Bavaria.

### 1. CYLCH SAXONI UCHAF,

Yn cynnwys 31,200 o filltiroedd arwynebol, a 3,315,000 o drigolion.

| Rhaniadau. | Ad-raniadau. | | Prif ddinasoedd. |
|---|---|---|---|
| Pomerania, | Pomerania Prussia, | | Stettin. |
| | Pomerania Sweden, | | Stralsund. |
| Etholyddiaeth Brandenburgh, | Gwledydd — Marche orllew. | | Stendel. |
| | Marche ganol, | | Berlin, Potsdam. |
| | Marche ddwyr. | | Ffrancffort, Custrin. |
| Etholyddiaeth Saxoni, | Dugiaeth Saxoni, | | Wirtemberg. |
| | Ardalyddiaeth Lusatia, | | Bautzen, Gorlitz. |
| | Ardalyddiaeth Misnia, | | Miessen. |
| Priodoriaeth | Thuringia, | | Erffurt. |
| Dugiaeth, | Saxe Meinungen | Perthyn i'w dugiau priodol. | Meinungen. |
| | Saxe Zeitz | | Zeitz. |
| | Saxe Altenburg | | Altenburg. |
| | Saxe Weimar | | Weimar. |
| | Saxe Gotha | | Gotha. |
| | Saxe Eisnach | | Eisnach. |
| | Saxe Saalffeldt | | Saalfeldt. |
| Gwledydd, | Schwartsburg | | Schwartsburg. |
| | Belchingen | | Belchingen. |
| | Mansffeldt | | Mansfeldt. |
| Dugiaeth, | Halle, perthyn i Prussia, | | Halle. |
| | Saxe Naumburg, | | Naumburg. |
| Gwledydd, | Stolberg, | | Stolberg. |
| | Hoheustein, | | Northhausen. |

| | | |
|---|---|---|
| Tywysogaeth Anhalt | Dessau, Zerbot, Bernberg, Kothen, | |
| Dugiaeth | Saxe Halle, | Halle. |
| | Voigtland per. i. e. Saxoni Mersburg. | |

## 2. CYLCH SAXONI ISAF,

Yn cynnwys 17,600 a filltiroedd arwynebol a 2,433,000 a drigolion.

| Rhaniadau. | Ad-raniadau. | Prif ddinasoedd. |
|---|---|---|
| Broydd yn perthyn i Prussia. | Dugiaeth Magdeburg | Magdeburg. |
| | Tywysogaeth, Halbarstadt ac Arglwyddiaeth Derenburg | Halbarstadt. |
| | Tyw, Hildesheim. | |
| | Diweddar ddinasoedd ymherodrol Muhlhausen, Nordhausen a Goslar. | |
| Etholyddiaeth Hanover yn perthyn yn ddiweddar i'w Hetholydd brenin Prydain. | Tyw. Calenburg, neu Hanover | Hanover. |
| | Tyw. Lunenburg, neu Celle | Luneburg. |
| | Dugiaeth Saxe Lauenburg a bro Hadan | Lauenburg. |
| | Dugiaeth Bremen | Stade. |
| Bro Duc Brunswic. | Tyw. Wolffenbuttle | Brunswick Wolff. |
| | Tyw. Blankenburg | Blankenburg. |
| Dugiaeth Mecklenburg. | Mecklenburg Schwerin | Schwerin. |
| | Mecklenburg Strelitz | Strelitz. |
| Arglwyddiaeth Wismar, perthyn i Sweden | | Wismar. |
| Dugiaeth Holstein, a broydd Pinniberg a Ransau, perthyn i Denmarc | | Kiel. Altona. |
| Dugiaeth Holstein Oldenburg | | Eutin. |
| Trefydd ymherodrol Hamburg, Lubec, Bremen, ac y broydd perthynol iddynt. | | |

## 3. CYLCH WESTPHALIA,

Yn cynnwys (gwedi uno 4,000 o filltiroedd arwynebol at Ffrainc) 16,000 o filltiroedd arwynebol a 1,772,500 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Broydd yn perth. i Prussia. | Tyw. Ffriesland ddwyr. a bro Harlinger | Embden. Leer. |
| | Tywysogaeth Minden | Minden. |
| | Gweddill dugiaeth Cleves | Wesel. |
| | Gwledydd: Marche | Hamm. |
| | Gwledydd: Lingen | Lingen. |
| | Gwledydd: Tecklenburg | Tecklenburgh. |
| | Gwledydd: Ravensberg | Ravensburg. |
| | Tyw. diweddar esg. Paderborn | Paderborn. |
| | Tyw. diweddar esg. Munster | Munster. |
| | Dinasoedd ymherodrol Herfforden, Essen, Werden ac Elten. | |
| Broydd yn perthyn i Hanover | Tyw. Verden | Verden. |
| | Tyw. diweddar esg. Osnaburg | Osnaburg. |
| | Gwledydd: Hoya | Hoya. |
| | Gwledydd: Diepholz | Diepholz. |
| | Gwledydd: Bentheim | Bentheim. |
| Dugiaeth Berg, perthyn i Eth. Bavaria | | Dusseldorff. |
| Dugiaeth Oldenburg | | Oldenburg. |

| | | |
|---|---|---|
| Broydd yn perthyn i Orange Nassau | Tyw. Dillenburg | Dillenburg. |
| | Tyw. Nassau Siegen | Siegen. |
| | Tyw. Dietz | Dietz. |
| | Tyw. Hadamar | Hadamar. |
| | Gwlad Spielberg | Coppenbrugge. |
| | Tref Dortmond ac abaty Correy. | |
| Gwledydd | Lippe Detmold | Detmold. |
| | Lippe Schauenburg | Blomberg. |
| | Wiedrunkle | Runkel. |
| | Wiedneuwied | Neuwied. |
| | Sayn. | Altenkirchen. |
| | Pyrmont | Pyrmont. |
| Rietberg yn perthyn i Hesse Cassel | | Rietberg. |

Broydd tywysoglon Salm Kyburg a Salm Salm; a dugiau Aremberg, Croy, Lors a Corswaren.
Gwledydd Gehmen a Holsapfel.

## 4. CYLCH RHIN UCHAF;

Yn cynnwys (wedi uno 2,400 o filltiroedd arwynebol at Ffrainc) 5,600 o filltiroedd arwynebol a 1,140,000 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Etholydd Hesse | Hesse isaf, a rhan o Hesse uchaf | Cassel. |
| | Gwledydd { Catzenellenbogen isaf, Hanau Munzenburg } | Hanau. |
| Priodor. Hesse Darmstadt. | Catzenellenbogen uchaf | Darmstadt. |
| | Rhan o Hesse uchaf | Giessen. |
| | Tyw. diweddar esg. Worms | Ffriedberg. |
| | Nassau Usingen | Usingen. |
| | Nassau Weilburg | Idstein. |
| Tywysogaeth Fulda, perthyn i Orange Nassau | | Fulda. |
| Gwledydd | Waldec | Corbach |
| | Solms Braunfiels | Braunfiels. |
| | Solms Hohensolms | Hohensolms |
| | Solms Laubach | Laubach. |
| | Solms Rodelheim | Rodelheim. |
| Gwledydd Isenburg uchaf | Isenburg Birstein | Birstein. |
| | Isenburg Budingen | Budingen. |
| | Isenburg Wachtersdach | Wachtersdach. |
| | Isenburg Meerholz | Meerholz. |
| Bro Leinengen Westerburg | | Westerburg. |
| Bro Wittsgenstein | | Wittsgenstein. |
| Bro Wetzlar, perth i'r E. arch gangellor | | Wetzlar. |

Dinas ymherodrol Ffrankfort ar afon Main a'i broydd.

## 5. CYLCH RHIN ISAF,

Yn cynnwys (wedi uno 2,368 o filltiroedd arwynebol at Ffrainc) 4,480 o filltiroedd arwynebol a 522,200 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Tyw. Aschaffenburg, per. i'r E. arch-gangell. | | Aschaffenburg. |
| Bro Etholwr Baden | Rhan o deyrnfa y Rhin, a diweddar esgobaeth Spire | Heidelburg. Manheim. Bruchal. |

| | | |
|---|---|---|
| Bro Etholwr Hesse | Dugiaeth Westphalia | Brilon. |
| | Rhan o Eth. Mentz | Gernsheim. |
| | Rhan o deyrnfa y Rhin | Lindenffels. |
| Nassau Usingen. | Rhan o Eth. diweddar | Rudeshaim. |
| | Mentz a Cologne | Linz. |
| Nassau Weilburg. | Rhan o Etholyddiaeth ddiweddar Treves | Ehrenbreitstein. |
| Leiningen | Rhan o Etholyddiaeth ddiweddar Mentz | Amorbach. Mosbach. |
| Tyw. Wied-runkel. | Rhan o Eth. ddiweddar Treves a Cologne | Altenwied. |
| Tyw. Salm Reifferscheid Bedbury. | Rhan o Etholyddiaeth Mentz | Krautheim. |
| Bro duc Aremberg. | Gwlad Recklingshausen, rhan o Eth. Cologne | Recklingshausen. |
| Bro Tyw. Orange Nassau | Arglwyddiaeth Bielstein | Bielstein. |
| Rhan o Nassau Weilburg a Wiedrunkel | Bro Isenberg isaf | Isenberg. |

## 6. CYLCH FFRANCONIA,

Yn cynnwys 7,880 o filltiroedd arwynebol, a 1,373,500 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Broydd yn per. i Prussia | Tywysogaeth Bayreuth | Bayreuth. |
| | Tywysogaeth Anspach | Anspàch. |
| Broydd Etholwr Bavaria. | Tyw. diweddar Esg. Bamberg | Bamberg. |
| | Tyw. diweddar Esg. Wurzburg | Wurzburg |
| | Diweddar ddinasoedd ymherodrol | Rothenburg, Schweinffurt, |
| | Weissenburg, Windsheim, Goehsheim, Senffeld ac eu broydd. | |
| Rhan o Salsburg a Bavaria | Tyw. diweddar Esg. Eichstadt | Eichstadt. |
| | Ardal Mergentheim | Mergentheim. |
| Perthyn i Eth. Saxoni | Gwlad Henneberg | Schleusingen. Muningen. |
| Tywysogaeth Hohenlohe. | Hohenlohe Neuenstein | Neuenstein. |
| | Hohenlohe Langenburg | Langenburg. |
| | Hohenlohe Ingelfingen | Ingelfingen. |
| | Hohenlohe Kirchberg | Kirchberg. |
| | Hohenlohe Bartenstein | Bartenstein. |
| | Hohenlohe Schillingsfurst | Schillingsfurst. |
| Gwledydd | Wertheim | Wertheim. |
| | Schwarzenburg | Schwarzenburg. |
| | Castell | Castell. |
| | Erbach | Erbach. |
| | Limpurg | Gaildorff. |
| | Wiesentheid | Wiesentheid. |
| | Rieneck | Rieneck. |

Dinas ymherodrol Nuremberg ac ei broydd.

## 7. CYLCH SWABIA,

Yn cynnwys 11,200 o filltiroedd arwynebol, a 1,495,000 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Etholydd Wurtemburg | Dugiaeth Wurtemburg<br>Dinasoedd Ellwangen Keilbron a Rottweil. | Stuttgard. |
| Etholydd. Baden. | Priodoriaeth Baden | Baden. |
| | Tyw. diweddar esg. Constant | Calsbrue.<br>Morsburg. |
| Bro Eth. Bavaria | Cylch Dillingen | Dillingen. |
| | Cylch Kempten | Kempten. |
| Dinasoedd ymherodrol Ulm, Nordlingen, Denkelsbhal a Bopfingen. | | |
| Tyw. Hohenzollern | Hohenzollern Hechingen | Hechingeh. |
| | Hohenzollern Sigmaringen | Sigmaringen. |
| Tywysogaeth Ffurstenburg | | Doneschingen. |
| Gwlad Oettingen | Oettingen Spielberg | Oettingen. |
| | Oettingen Wallerstein | Wallerstein. |
| Bro Tyw. Tour a Taxis | | Dischingen. |
| Tywysogaeth Klettgau | | Thiengen. |
| Gwledydd | Kirchberg<br>Weissenhorn | Kirchberg. |
| Diweddar abatty Weingarten, perthyn i Orange Nassau | | Weingarten. |
| Dinas ymherodrol Augsburg. | | |

## 8. CYLCH BAVARIA,

Yn cynnwys 12,368 o filltiroedd arwynebol a 1,462,000 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Etholyddiaeth Bavaria. | Dugiaeth Bavaria | Munich. |
| | Dug. teyrnfa y Rhin uchaf | Amberg. |
| | Dug. Neuburg, ac Arglwyddiaeth Ehrenfels | Neuburg. |
| | Dugiaeth Sulzbach | Sulzbach. |
| | Gwlad Haag | Haag. |
| | Tyw. diweddar Esg. Ffreysingen | Ffreysingen. |
| | Rhan o esg. ddiweddar Passau | Passau. |
| | Diweddar abatty ymher. Kaisersheim | Kaisersheim. |
| Tywysogaeth Ratisbon | | Ratisbon. |
| Gwledydd | Ortenburg | Ortenburg. |
| | Sternsteiu | Neustadt. |

## 9. CYLCH AUSTRIA,

Yn cynnwys 44,528 o filltiroedd arwynebol a 5,220,000 o drigolion.

| | | |
|---|---|---|
| Breydd Arch-dug Austria. | Austria isaf | Vienna. |
| Parthau tufewnol. | Dugiaeth Stiria | Gratz. |
| | Dugiaeth Carinthia | Clagenffurt. |
| | Dugiaeth Carniola | Laybach |
| | Bro Ffriul, neu Goritia | Gortz.<br>Gradisca. |
| | Bro Triest | Triest. |
| | Gwledydd Tyrol a Vorarlberg a diweddar esg. Trent a Brixen | Inspruc, Botzen, Bregenz, Roveredo, Trent, Brixen. |
| | Priodoriaeth Burgau | Gunsburg. |
| | Ardalyddiaeth Nellenburg | Stockach. |
| | Gwlad Hohenburg | Rotenburg. |

| | | |
|---|---|---|
| Broydd Eth. Salzburg diweddar Duc Tuscani | Tyw. diweddar esg. Salzburg | Salzburg. |
| | Tyw. diweddar abatty Berchtolsgaden | Berchtolsgaden. |
| | Tyw. diweddar esg. Passau | Haffnersell. |
| Broydd | Breisgau | Ffreyburg. |
| | Ortenau | Breisach. |

HIN A THYMHORAU.] Mae yr hin yn Germani, fal yn mhob gwlad eang arall yn amrywio cryn lawer. Parthau canol y wlad, y rhai sy gyfbell oddiwrth y mor o'r tu gogledd, a mynyddoedd yr Alp o'r tu deheu, sydd yn mwynhau yr hin fwyaf tyner a sefydlog.

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Broydd deheuol Germani sy fynyddig yn gyffredin, ond yn llawn coed ffrwythlawn; y parthau gogleddol sydd dir gwastad tywodlyd heb braidd fryn i'w ganfod; ac y parthau dwyreiniol sydd dryfrith o drumau uchel ac anial-leoedd geirwon. Mae y tir yn cynnyrchu pob math o ydau, yn gystal â llin, cywarch, pensyg, saffrwn, myglys, a ffrwythydd perllenydd cyffredin yn Mhrydain, ac mae y winwydden yn dra ffrwythlawn yn yr holl froydd deheuol.

AFONYDD.] Afon Danub sydd yn codi yn Swabia, yn llifo trwy Bavaria i Ratisbon, oddiyno i Vienna; yna trwy ganol Hungari i ddinas Belgrad, ac oddiyno trwy Twrci i'r mor du. Mae amryw reieidr arni ar y tu uchaf i Belgrad, ond oddiyno i'r mor mae hi o ran lled a dyfnder gwedi gwasanaethu cyn hyn i long-ryfeloedd rhwng y Twrciaid â'r Cristionogion. Ei hyd sydd o ddeutu 1300 o filltiroedd.

Afon Rhin sydd a'i blaenau yn mro Grison, a'i rhediad trwy lyn Constant, ac heibio i ddinas Basil, a rhwng Swabia ac Alsace i'r iseldir, ac oddiyno trwy amryw aberoedd i for Almaen.

Afon Tiess, yn codi o drum Carpathia, sydd yn derbyn amryw ffrydiau o fynyddoedd yr Alp, cyn ymuno ag afon Danub, ychydig i'r gorllewin o Belgrad.

Afon Sav, rhan o derfyn Austria a Twrci sydd â'i blaenau yn mynyddoedd Carniola, ac ei arllwysiad i'r Danub wrth Belgrad.

Afon Drav sydd yn codi o fynyddoedd Tyrol, ac yn ymuno â'r Danub ychydig gor-is Esseg. Mae pob un o'r tair afon hyn o ddeutu 400 milltir o hyd.

Afon Inn sydd â'i blaenau yn Switzerland, ac wedi llifo 250 o filltiroedd, mae hi yn ymuno â'r Danub wrth ddinas Passau.

Afonydd Raab a Leytha ydynt rhwng y Drav ac yr Inn. Afon Mulda sydd yn codi yn Bohemia, ac yn ymuno ag afon Elb wrth Melnic. Afon Morau sydd yn codi o fynyddoedd Suda, ac yn ymuno ag afon Danub ar gyfer Belgrad. Afon Adig sydd yn tarddu o fynyddoedd yr Alp, ac wedi derbyn afon Eisac, sydd yn ymuno â mor Adria. Yr afonydd ereill a ellir eu galw yn afonydd Germani sydd â sylw arnynt dan Poland a Prussia.

LLYNAU.] Ychydig o lynau sydd yn Germani: y mwyaf ydyw llyn Constant ar derfyn Germani a Switzerland, yr hwn sydd 30 milltir o hyd ac o ddeutu 8 o led. Mae amryw drefydd hardd yn sefyll ar ei lenydd. Y lleill ydynt llyn Bregentz a llyn Chiemsee yn Bavaria, llyn Zernitzer yn Carniola, yr hwn sydd a'i ddyfroedd yn rhedeg o hono, ac yn ail ddychwel mewn dull rhyfedd.

MYNYDDOEDD.] Y mynyddoedd uchaf yn Ewrop ydyw mynyddoedd yr Alp, y rhai sydd yn llunio rhan o derfyn rhwng Itali a Ffrainc

ei dosbarthu yn u fer o arglwyddiaethau annymddibynawl, tra angbyfartal mewn maint a grym, ond mewn cynghrair ag eu gilydd tan ymerawdr, yr hwn a ddewisir gan y saith brif dywysogion a elwir etholyddion; ag sydd o dreftadaeth yn mwynhau y braint. Mae y senedd yn cynnwys tri thy, sef, ty yr etholyddion, ty y tywysogion, a thy y dinasoedd ymherodrol. Gwasanaetha dirprwywyr tros yr aelodau yn y senedd, a gallant lunio cyfreithiau, &c. er na byddant mewn grym heb gydsyniad yr ymerawdr. Gall y tywysogion lunio cyfreithiau i ddeiliaid eu tywysogaethau, cosbi troseddwyr, codi byddinoedd, a phethau cyffelyb, tra y byddo eu gorchwyl heb niweidio y deyrn gadair. Pan chwennycho ymerawdr enwi dylyniedydd, nid rhaid iddo ond ei goroni yn frenin y Rhufeiniaid, yna bydd ganddo hawl i'r goron ymherodrol.

CYFNEWIDIAETH.] Mae yr afonydd mawrion sydd yn dylifo trwy Germani, yn dra llesol tu ag at rwyddo cludiad ei phethau cyfnewidiaethol, sef, yd, gwin, anifeiliaid, caws, ymenyn, mel, cwyr, lliain, sidanau, coed, peiriannau haiarn ac efydd, a'r cyffelyb.

MILWYR.] Pe unid milwyr holl dywysogion Germani, byddant o ddeutu 400,000. Dewr ar y maes y cyfrifir hwynt yn mhob oes, yn enwedig yn y brwydrau echrys diweddar rhyngthynt â Bonaparte, yr hyn a sonir am dano yn hanesyddiaeth Ffrainc.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Cainc o'r Teutoneg ydyw iaith yr Ellmyn. Er bod ei sain yn aflafar eto cyfrifir hi yn iaith helaeth-lawn. Yn Saxoni ac yn Hanover yr arferir hi gywiraf. Braidd bod un wlad â mwy o argraffu llyfrau ynddi na Germani, oherwydd nad all neb dderbyn urdda oni bydd gwedi ysgrifenu traethawd ar ryw ddadleubwnc neu gilydd. Yr urdd ysgolion ydynt 31, o ba rai mae 14 yn ol egwyddorion Luther, 5 yn ol Calvin, 12 yn ol eglwys Rhufain, a 3 yn agored i babyddiaid a phrotestaniaid blith-traphlith. Y prif ysgrifenwyr Ellmanaidd ydynt Stahl, Stork, Hoffman, a Von Swieten ar physygwriaeth; Ruvinus ar lysieuyddiaeth; Heister ar esgyrnyddiaeth; Newman, Zimmerman, Pot, a Margraff, ar fferylltiaeth; Kepler ar seryddiaeth; Preffendorf ar hanesyddiaeth; Busching ar ddaearyddiaeth, a Handel ar gerddoriaeth Am y rhif liosog o honynt sydd gwedi ysgrifenu ar chwareuyddiaeth, nid yw werth enwi y cyfryw yn mhlith y rhai a fuont o fwy lles yn eu dydd.

Gweddi yr Arglwydd yn yr Ellmaneg sydd fal hyn,

*Unser Vater, der du bist im himmel, geheiliget werde dein name. Zukomme dein reich. Dein wille geschehe, wie im himmel also auch auf erden. Unser tæglich brodt gib uns heute. Und vergib uns unsere schulden, als wir vergeben unsern schuldigern. Und fuehre uns nicht in versuchung. Sonden eræse uns von dem bæsen. Den dein ist das reich, und die krafft, und die kerrlichkeit in ewigheit.—Amen.*

DINASOEDD A THREFYDD.] VIENNA, y brif ddinas sydd yn sefyll ar fin afon Danub. Dinas gadarn ydyw, ac ni ommeddodd tywysogion Austria o oes i oes, er traul fawr ei gorwychu. Heolydd ei maesdrefi ydynt lydan a hardd, ond cul yw y rhai sydd o fewn ei chaerau. Mae y tai yn bump neu chwech uchder lloft, ac mae pob ail uchder trwy heu ddefod, yn perthyn i'r ymerawdr. Y ffenestri oll ydynt a barrau haiarn arnynt, yr hyn sydd yn dangos y tai fal cynifer o garcharau. Yma mae yr amrywiaeth mwyaf o drigolion o un

man arall, canys cyfarfyddir â Groegiaid, Transylfaniaid, Ysglafoniaid, Twrciaid, Tartariaid, Hungariaid, Croatiaid, Ellmyn, Pwyliaid, Yspaeniaid, Ffrancod ac Italiaid, yn eu priodol wisgoedd yn rhodio yr heolydd, a dywedir bod eu rhif yn 300,000.

Dresden, prif ddinas etholydd Saxoni, yn sefyll ar afon Elb, sydd hynod am gryfder ei chaerau amddiffyn, gwychder ei hadeiladau, a lliosogrwydd ei heulusendai, &c. Y trigolion ydynt 60,000.

Leipsig yn Saxoni uchaf, ac o ddeutu 46 milltir o Dresden, sy ddinas hardd yn sefyll ar wastadedd eang. Mae ynddi chwech o eglwysi yn perthyn i'r Lutheriaid, un i'r Calviniaid ac un i'r pabyddiaid. Y trigolion ydynt 30,000.

Hanover, prif ddinas etholyddiaeth o'r un enw, sydd yn sefyll ar afon Leine. Mae yr etholyddiaeth yn cynnwys 58 o ddinasoedd, 60 o drefi, a 750,000 o eneidiau. Yma yr oedd ein teulu breninol yn preswyllo cyn esgyn i orsedd Prydain, a chadwasant feddiant o honi hyd yn ddiweddar pan oresgynwyd hi gan y Ffrancod.

Munich, prif ddinas etholydd Bavaria, sydd yn sefyll ar afon Iser. Y tai ydynt uchel, yr heolydd ydynt hardd, a dywedir bod ynddi o ddeutu 40,000 o drigolion.

Ratisbon, lle mae senedd yr ymerodraeth yn ymgyfarfod, sydd yn sefyll ar afon Danub. Mae hon yn hen ddinas enwog, ond go wrthyn y cyfrifir hi mewn cymhariaeth i'r rhai uchod.

Augsburg, dinas ymherodrol a'r fwyaf yn Swabia, sydd yn sefyll rhwng afonydd Lech a Wertach, y rhai sydd yn ymarllwys i'r Danub. Bu hon yn enwog gynt. Y trigolion ydynt 36,000.

Ffrankfort ar afon Maine sy ddinas ymherodrol: ei chaerau ydynt gadarn, ac ynddi yn gyffredin y bydd coroni brenin y Rhufeiniaid.

Hamburg, dinas ymherodrol, sydd yn sefyll ar afon Elb. Y tai ydynt uchel, ond yr heolydd ydynt gulion. Er bod Hamburg yn 70 milltir oddiwrth y mor, mae afon Elb yma yn 5 milltir o led. Y trigolion ydynt 120,000.

Berlin a sylwir arni yn hanes Prussia.

Anifeiliaid.] Gwylltfilod Germani ydynt yr arth, y blaidd, y lynx, y llwynog, yr afr, y bela, daear-foch, ac y rhai cyffredin yn y gwledydd cymmydogaethol. Y creaduriaid dof yn gystal y rhyw asgellog a'r pedwar-carnoliaid, ydynt yr un â rhai Prydain, ond eu bod yn llawer lliosocach.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Germani.*

YR oedd y wlad hon yn y cynamseroedd yn meddiant y Celtiaid, y rhai fuont enwog yn gwrthsefyll arfau ymherodraeth Rhufain, nid yn ei tharddiad nag yn ei gogwyddiad, ond yn ei rhwysg mwyaf, hyd oni bu i'r teyrnasoedd cymmydogaethol oedd dan deyrnged i Rufain, gyd uno yn ei herbyn a'i gorthrechu. Gwedi i rwysg Rhufain ddechreu lleihau, trwy i'r cenhedloedd gogleddol fwrw ymaith yr iau, goresgynwyd Germani o ddeutu y flwyddyn 480, gan y Ffranciaid, y rhai a osodasant liaws o dywysogion i lywodraethu y wlad, ond ni bu fawr drefn arni hyd ddyddiau Charlemagne yn nechreu y nawfed ganrif, yr hwn oedd enwog yn amddiffyn ei wlad

rhag estroniaid. Bu ei deulu yn rheoli hyd y flwyddyn 911, pan y bu i Conrad o Ffrancoiua godi gwrthryfel, bwrw hil Charlemagne ymaith, a mynnu ei osod ei hunan ar yr orsedd. Eithr ni bu fawr lwyddiant tan ei reolaeth gan i'r Hungariaid oresgyn ei ardaloedd a gwneyd sarhad dychrynllyd arnynt.

Conrad I. yn marw heb blant yn 919, dewiswyd Harri I. duc Saxoni yn ei le, yr hwn wedi gorthrechu yr Hungariaid a wahoddwyd gan y pab i Itali i ddarostwng y rhyfel cartrefol oedd yno, gan addaw iddo yr eneiniad bendigaid os llwyddai. Felly parotodd ei fyddinoedd, ond cyn cyrhaedd Itali bu farw yn ddisyfyd yn 936, a daeth ei fab Otho I. yn ei le.

Otho gwedi gyru yr Hungariaid y rhai oeddynt eilwaith wedi goresgyn ei wlad ar ffo, a unodd Itali a'i ymherodraeth. Yna troes at y Daniaid y rhai oeddynt yn aflonyddu broydd gogleddol ei ardaloedd, ac a'u gorthrechodd a mynodd blannu Cristionogaeth trwy rym ei gleddyf yn eu holl wledydd. Gwedi iddo heddychu y gogledd, troes tu a'r deheu, a chafodd gyfle teg i wneyd gwrolwaith. Yr oedd Adelaide gweddw brenin Itali gwedi anfon ato am ei nawdd yn erbyn y gormesdeyrn Berengarius II, yr hwn oedd yn ei gormesu yn ddirfawr. Otho gwedi casglu ei fyddinoedd a dwyn Berengarius dan deyrnged iddo, a briododd Adelaide ac a droes i'w wlad. Ond Berengarius a'i fab Adelbert yn parhau i draws lywodraethu Itali, anfonodd y pab Joan XII at Otho, i ddeisyf arno ddyfod i waredu yr eglwys o fachau y ddau anghenfil, ac y cafai genad y pab i wisgo y goron ymherodrol, &c. Felly troes i Itali a gorthrechodd Berengarius, yna coronwyd ef yn ymherawdr Rhufain dan enw Augustus, a thyngodd y pab ffyddlondeb iddo ar y bedd y dywedir i St. Pedr gael ei gladdu ynddo. Ond tra bu Otho yn erlid ar ol Berengarius, edifarhaodd y pab am yr ammod a wnaethai, ac unodd a'i elyn Adelbert, gan addaw ei gefnogi yn erbyn Otho. Gwedi clywed hyn dychwelodd Otho i Rufain, yna ffodd Adelbert a lladdwyd Joan, ac enwodd Otho Leo VIII. yn bab yn ei le, yr hwn am y weithred, a orchymmynodd mai Otho a'i ddylyniedyddion yn Itali, oedd i ddewis pabau Rhufain rhagllaw. Bu farw yn 973, gwedi teyrnasu 36 mlynedd.

Ei fab Otho II, a ddaeth yn nesaf i'r orsedd. Cyfenwyd ef y gwaedlyd, o herwydd y brwydrau echrys a fu tan ei reolaeth rhwng y pabau o berthynas i iawn hawl i'r gadair. Pab un blaid ydoedd gau bab y blaid arall. Gwedi iddo dawelu Itali, ac aflwyddo i ennill Calabria oddiar y Groegiaid, bu farw yn Rhufain yn 983, a daeth ei fab yn ei le.

Otho III, gwedi anfon ymaith y Daniaid oedd gwedi ail oresgyn ei wlad, a luniodd gynghrair ag Eric brenin Sweden, Denmarc, a Norway dan yr ammod y byddai i genhadon o Germani gael cenad i bregethu yr efengyl yn ei wledydd, a bu mawr lwyddiant ar y gorchwyl. Bu farw yn 1003, a daeth ei nai Harri II y nei le.

Harri gwedi treulio ystod ei lywodraeth mewn brwydrau yn erbyn yr Italiaid ac ei ddeiliaid ei hun, fal y chwennychodd roddi ymaith y goron am wisg fonachaidd, a fu farw yn 1024.

Y nesaf oedd Conrad II, duc Ffranconia; yna Harri III, yr hwn am i'r Rhufeiniaid ddewis Gregori VI. yn bab heb ymgynghori ag ef, a fiaenorodd ei fyddinoedd i Rufain, ac a ddiosgodd y pab o'i rym,

gan osod ei ganghellwr ei hun, esgob Bamberg dan enw Clement II yn ei le. Gwnaeth hefyd i fonedd Rhufain dyngu nas enwent yr un pab mwy heb genad yr ymerawdr. Bu farw yn 1056, a daeth ei fab Harri IV, a gyfenwyd *yr enwog* yn ei le.

Harri eto yn blentyn, a addysgwyd gan archesgobion Cologne a Bremen: un a geisiodd blannu ynddo egwyddorion rhinwedd; ond y llall a'i hanogodd i ymarweddu yn ol tuedd lygredig ei anian ei hun, ac felly y gwnaeth, canys ymroddodd i anlladrwydd trwy ystod ei oes. A chan iddo ymgecru â'r pab o gylch uwchafiaeth, ysgymunwyd ef, ac annogodd y pab i'w fab Harri godi arfau yn ei erbyn, gan honni nad oedd tad ysgymunedig yn haeddu mwy parch nag anghenfil. Yn ofer yr ymbiliodd yr ymerawdr a'i fab, ar ddrygioni ei ymarweddiad tu ag ato, felly parotodd y ddau i ymgyfarfod ar faes y gwaed, ond y mab yn ofni cadernid byddinoedd ei dad, a gymmerodd arno fod yn edifeiriol, gan ddymuno cael treulio ychydig amser mewn castell cyfagos gyd a'i dad yn unig. Ond erbyn cyrhaedd yno yr oedd gan y mab filwyr yn gwilied, y rhai a gludasant yr ymerawdr i garchar, lle yn fuan gwedi y bu farw, a choronwyd y mab yn ei le.

Harri V, mor fuan ag yr esgynodd i'r orsedd, a ddechreuodd weled gwg y pab o herwydd na addefai ei uwchafiaeth: felly brwydrau a ddylynodd. Ac yn nghanol yr annrhefn, bu farw Harri o blâ dychrynllyd a oedd yn taenu tros Ewrop yn 1115, gwedi rheolaeth fer ac annedwydd.

Ni bu dim hynod yn nheyrnasiad Lothario II, na Conrad III, nai Harri V, ac y peth hynotaf yn nheyrnasiad Ffrederic I, nai Conrad, oedd iddo ymostwng i gusanu troed y pab Adrian V, dal y gwrthaflau, ac arwain mul y tad sanctaidd tros fwy na milltir o ffordd, o herwydd i'r pab ei annog i ddangos yr un "gostyngeiddrwydd efangylaidd" ag a ddangosasai Lothario II. Y Rhufeiniaid gwedi blino bod tan reolaeth Germani, a ddeisyfasant ar y pab adferyd yr hen drefn o lywodraethu, ond Ffrederic er yr ymostyngiad gwarthus a enwyd, a roddes ar ddeall iddynt, mai fal y gorthrechwyd hwynt gan Charlemagne ac Otho, mai ei ddyledswydd yntau fal dylyniedydd, oedd parhau i roddi cyfreithiau iddynt, ac mai eu dyledswydd hwythau oedd ufuddhau. Gwedi marw Adrian, bu ymraniad yn mhlith y penaduriaid pwy a fyddai bab: un blaid a enwodd Alexander, ac y llall Victor, ond Ffrederic gwedi galw cyfarfod a ddewisodd yr olaf, ac a wnaeth yr un ddefod ag ef a'i fûl, ag a wnaethai ag Adrian. Yn fuan gwedi daeth y newydd bod Caersalem wedi ei meddiannu gan y Mahometaniaid, yna parotodd Ffrederic ei fyddinoedd o Germani ac Itali, a dychrynodd gwledydd Mahomet, pan glywyd bod Ffrederic yn blaenori byddinoedd y groes: ond ar ei daith, ar ddydd teg, yn llawn chwys, aeth i afon i ymdrochi, a bu y tro yn angau iddo. (1190).

Y nesaf oedd ei fab Harri VI, yr hwn oedd greulawn trwy ystod ei oruchwyliaeth. Carcharodd Richard brenin Prydain am deithio trwy ei dir o Gaersalem i Brydain, a bu y deyrnged a gafodd am ei ollyngdod, yn gynnorthwy iddo barotoi byddinoedd lliosog i ganlyn ar y rhyfel sanctaidd. Yn fuan wedi cychwyn i'w daith, gwrthryfelodd Normaniaid Naples a'r Siciliaid, yna gorfu arno ddychwelyd i'w gorchfygu, a thra chreulawn fu ei ymddygiad tu ag atynt: carcharodd eu breninoes ac ei merched tros eu hoes, a mynodd ddyspaddu a thynu

llygaid ei unig fachgen o ddeutu dwy flwydd oed. Gwedi yr anstaith hon, aeth drachefn rhyngddo a Chaersalem, eithr cyn iddo fyned yn mhell yr oedd y Siciliaid gwedi ail ymgynhyrfu a gosod Jornandi yn frenin. Ffrederic wedi eu gorchfygu yr eiltro, a ymddygodd tu ag atynt yn fwy llymdost nag o'r blaen: mynodd rwymo Jornandi mewn cadair haiarn a boethid yn wenias, ac ei goroni a choron o'r cyfryw ddefnydd llosgadwy, nes difa ei gorff gan rym y gwres. Bu y creulondeb hyn yn achlysur i'w wraig ymadel ag ef, ac o herwydd iddi bleidio y Siciliaid, a dwyn y rhan fwyaf o'i fyddin, bu farw Harri yn 1198.

Ei fab Ffrederic II, yr hwn oedd weithian yn frenin y Rhufeiniaid, a gyhoeddwyd yn ymerawdr: a chan nad oedd onid bachgenyn, a'r wlad tan lywiedyddion, bu gryn derfysg hyd oni ail goronwyd ef gwedi ymladdfa Bouvines, rhwng Phylip brenin Ffrainc o du Ffrederic, ag Otho gormes-frenin y Rhufeiniaid. Wrth ei goroni gorfu ar Ffrederic addaw i'r pab y canlynai ar y rhyfel sanctaidd, ond gan i newyddion athrist ddyfod oddiyno yn fuan gwedi, gommeddodd gyflawni, a digllonedd y pab a gynnyrfwyd cymmaint, ag yr ysgymmunodd Ffrederic. Dyma ystyr y llythyr a anfonodd y pab at holl dywysogion yr ymerodraeth. "Mae Bwystfil cableddus wedi codi o'r mor a chanddo draed arth, gwyneb llew, ac aelodau anghenfilod, yr hwn sy gwedi agor ei enau mewn cabledd yn erbyn pabell Duw. Mae y bwystfil hwn eisus gwedi parotoi peiriannau dirgelaidd, yn erbyn muriau y ffydd gatholig; ac heb ofni difeuwi craig ein cadernid, trwy eiriau haeriadaeth annuwiol." Ffrederic ar y llaw arall a anfonodd i'w wledydd yntau, gan alw y pab y ddraig fawr, ac yr anghrist, ac mai ef oedd nid yn unig y march coch arall a godai o'r mor, ond hefyd yr hwn oedd yn eistedd arno i ddwyn heddwch oddiar y ddaear. Felly anghydfod fu rhwng Ffrederic â'r pab hyd ei farwolaeth yn 1251.

Gwedi marw Conrad IV, mab Ffrederic, cynnygiodd amryw eu hawl i'r orsedd, ac yn eu plith Richard iarll Cernyw, brawd Harri III, brenin Prydain; ond Rodolph o Austria a ddewiswyd. Bu llwyddiant yn Germani tan reolaeth hwn, gan iddo heddychu â'r pab, dileu trethi gorthrwm, adeiladu gweithdai, ac ymroddi i gadw tangnefedd yn ei wlad. Bu farw yn alarus am dano yn 1291, ac Adolphus o Nassau a ddewiswyd yn ei le, yr hwn gwedi teyrnasiad fer helbulus a ddifreiniwyd, a daeth yn ei le Albert I, mab Rodolph.

Y peth hynotaf a ddygwyddodd yn nheyrnasiad Albert, oedd colli meddiant o Switzerland, yr hon oedd dalaith o Germani, ac wedi cael ei rheoli yn dra hynaws gan Rodolph, ond weithiau yn dra gormesol gan Albert, yr hwn gwedi anfon yno nifer o lywiawdwyr creulawn, oedd a'i fryd ar ei gwneyd yn dalaith i un o'i feibion. Geisler, llywiawdr Uri, er dangos ei rwysg, a osododd ei gapan ar bren yn y farchnadfa, gan gyhoeddi y crogid y neb a elai heibio iddi heb ymostwng: ond nu William Tell yr hwn oedd yn chwennych gwaredu ei wlad rhag y cyfryw estroniaid trahaus, a wrthododd ymostwng, felly barnwyd ef naill i ddyoddef marwolaeth, neu saethu afal oddiar ben ei fachgen. Dewisodd yr olaf, a bu lwyddiannus: ond Geisler yn canfod saeth arall tan ei gochl, a ofynodd iddo ei ddyben o gludo hono, "i'w rhoddi yn dy galon di," atebai yntau, "pe dygwyddaswn ladd fy mhlentyn,". Ar hyn ymgododd y Swissiaid yn unfryd, a bwriwyd y llywiawdwyr creulawn, ac eu milwyr o'r wlad, a Switzerland a ddech-

breuodd fwynhau bendithion rhyddid.

Gwedi marw Albert, dewiswyd Harri VII yn ei le. Diwedd hwn wedi cryn helbul rhyngddo a'r pab, oedd i fonach roddi gwenwyn iddo yn ngwin y cymmun yn 1313.

Lewis o Bavaria, a Ffrederic duc Austria, oedd y ddau nesaf a honasant eu hawl i'r goron, a chan na wna y naill na'r llall ymostwng, bu brwydr echrys, yn yr hon y cymmerwyd Ffrederic yn garcharor, a rhoddwyd y goron i Lewis V. Y pab Joan XXII. yn fwy tueddol i Ffrederic, ni choronai Lewis, a chan iddo ei fygwth am beidio, ysgymmunwyd ef. Felly Lewis a gasglodd ei fyddinoedd mewn bwriad o ddiswyddo y pab, ond cafodd angau y blaen arno. Dyma y pab a luniodd y trethi am ddileu pechod marwol gyntaf, a bu farw yn gyfoethocach na neb o'i hynafiaid. Benedict XII, ei ddylyniedydd, yn cadarnhau bygythion Joan yn erbyn Lewis, ac yntau yn parhau i honi ei hawl i'r goron, a chwanegodd at ysgymmundod Joan yn erbyn Lewis, y geiriau hyn, "Bydded i ddialedd Duw, a St. Pedr, a St. Paul, ei lethu yn y byd hwn, ac yn yr hwn a ddaw! bydded i'r ddaear ymagor ac ei lyncu yn fyw; bydded ei enw yn anghof; bydded yr elfenau yn elynion iddo, a syrthied ei blant yn nwylaw eu gwrthwynebwyr yn ngwydd eu tâd." Er y bygythion hyn, rheolodd Lewis yr ymerodraeth hyd ddiwedd ei oes, yna y pab a roddes yn ei le Charles IV.

Gan fod cymmaint anghydfod rhwng y pabyddion, ac yr ymerawdwyr yn parhau, gwnaeth y pab Clement y cyhoeddiad a elwir yr ysgrifen euraid, yr hon oedd i drefnu y dull y dewisid ymerawdwyr rhagllaw: felly sefydlwyd yn ngwydd holl dywysogion, esgobion, mynachod, a swyddogion y dinasoedd ymherodrol, mai saith o etholyddion mewn cyferbyniad i'r canwyllbren â saith gainc; ac y saith bechod marwol, oedd o hyny allan i enwi pwy a wisgai y goron.

Y nesaf a goronwyd oedd Wenceslaus: a chreulawn fu ei oruchwyliaeth. Archai ar brydiau bod dihenyddwr yn ei ddylyn ar hyd yr heolydd, i grogi y neb y byddai ganddo unrhyw gasineb tu ag ato. Dywedir iddo yn ei feddwdod fynnu rostio ei gog yn fyw, am na wnaethai ryw saig wrth ei fodd! O'r diwedd lladdwyd ef, a Robert, arglwydd ardal y Rhin, a dderchafwyd i'r orsedd. 1400.

Dyma yr amser y dygwyddodd yr ymraniad rhyfedd yn yr eglwys, pan y sefydlwyd cynghor Constant, o herwydd y gwrthadl anferth oedd ar lêd yn Bohemia dan weinidogaeth Joan Huss, yr hwn fuasai gyffeswr i frenines Bohemia gwraig Wenceslaus. Yr oedd Huss wedi derbyn egwyddorion Joan Wickliffe, ac yn pregethu yr efengyl tan arddeliad neillduol hyd oni bu i ysgymmundod y pab, beri iddo ffoi am noddfa yn Hussinet ei le ganedigol. Oddiyma ysgrifenodd at y Penaduriaid, y deuai er perygl tân i addef ei egwyddorion yn eu gwydd hwynt, ac yn ngwydd ei amrywiol wrandawyr; felly galwyd ef i gynghor Constant, a chyd ag ef anturiodd ei ddisgybl dysgedig Jerome o Prague. Joan Huss yn llawn gobaith y cafai nawdd yr ymerawdr newydd, sef, Sigismund brawd Wenceslaus o'i du, a ddechreuodd ei amddiffyniad, eithr boddwyd ei lais yn fwriadol gan y Penaduriaid, a chyhoeddwyd ef yn hauwr terfysg, haeriedydd caled, a disgybl ac amddiffynwr Wickliffe, yna diosgwyd ef o'i wisg offeiriadol, ac eilliwyd ei wallt i fod ar ddull croes, a rhoddwyd cap esgobawl â lluniau cythreuliaid arno am ei ben, a gwnaed iddo rodio oddiyno at yr ystanc, lle

y dyoddefodd ferthyrdod fal milwr ffyddlawn i'w arglwydd. Jerome gwedi ffoi i Bohemia, a gludwyd yn ol i Constant, lle cafodd yntau ei farnu i'w losgi. Eithr megys o ludw y ddau ddiwygiwr enwog hyn, daeth allan dystion ffyddlawn ereill, ac ni bu i'w llafur hyd yn hyn fyned yn ofer. Bu farw Sigismund yn 1427, a daeth ei fab yn nghyfraith Albert duc Austria yn ei le.

Albert yn nechreu ei reolaeth a ddechreuodd ddiwygio y wladwriaeth; dileodd y ddeddf echrydus oedd mewn grym a elwid y *farn ddirgel*, trwy yr hon y barnid dyn i farwolaeth, ac ni chae wybod byth paham: ac wedi dwy flynedd o reoli bu farw, a daeth ei gefnder Frederic III i'r orsedd.

Dylynodd Ffrederic lwybrau Albert, ond cryn derfysg fu rhyngddo ac ei gymmydogion hyd ei farwolaeth, yr hyn fu yn 1493.

Maximilian ei fab oedd y nesaf a goronwyd. Dyma y pryd y cafodd y pab oruchafiaeth ar fonedd Rhufain, pan y dechreuodd ei rwysg wladol fod mewn mwy grym. A dyma y pryd yr adeiladodd Leo X, eglwys St. Pedr, ag yr arian a dderbyniodd wrth werthu maddeuant-lythyrau, sef, papurau a wasanaethai i faddeu pechodau y prynwr, neu symmud yn brysur y neb a fynai o'i geraint o boenau dirfawr y purdan. Ac arian oedd yn dylgludo i mewn fal cenllif lifeiriol, hyd oni threfnodd Rhagluniaeth i Martin Luther, mynach o urdd St. Awstin, ddangos ynfydrwydd y gorchwyl, trwy ddechreu cyhoeddi yr iachawdwriaeth râd yn unig nodded i bechadur, ac ni thawodd â llefaru hyd oni siglodd seilfeini Babel oll; fal y bu y canlyniad i fwy na haner Ewrop, ymwrthod â'r iau babaidd. Maximilian yn marw, bu i'w ddylyniedydd Ffrancis I. fod yn llai pleidgar i Luther: ar hyny yr oedd dewrder Luther cymmaint nad ofnai na phab na phen coronog. Ac er ei ysgymmundod gan y pab, a llosgi ei ysgrifenadau, cyhoeddodd y pab yn anghrist y datguddiad, ac ni ommeddodd trwy resymau teg, brofi twyll ei allu rhwysgol mewn gwlad ag eglwys: galwodd hefyd gymmanfa yn Wittemberg, yn yr hon y mynodd yn gyhoeddus losgi yr hen gyfreithiau eglwysig oedd ganddo, yn nghyd â llythyr ysgymmuno y pab. Tra yr oedd y ffydd gatholig fal hyn dan sang yn Germani, dechreuodd diwygwyr Switzerland ddynwared Luther yn erbyn y Ffrancisciaid, y rhai oeddynt yn gwerthu maddeuant yno. O'r diwed i Charles V yn chwennych boddio Leo, gorchymynodd i Luther ymddangos o flaen yr oedfa yn ninas Worms. "Denaf yno" meddai ef "yn enw yr Arglwydd, pe byddai yno gynifer o ddiawliaid ag sydd o lechi yn toi eu tai." Pe rhodres a mawredd bydol a fuasai rhwysg awydd Luther, buasai y derbyniad a gafodd yn Worms yn ddigon o wobr iddo, gan fod tywysogion a mawrion yr ymerodraeth yn chwennych ymddiddan ag ef; a'r dorf edrychwyr yn fwy nag unrhyw a ymgasglai i weled coroni ymerawdr. Mynai y rhan fwyaf o'r tadau, iddo gael ymddygiad tu ag ato fal y gwnaethid â Huss a Jerom o Prague yn Constant: eithr Charles yn ofni tynu gwaradwydd ar Germani yn nechreu ei oruchwyliaeth, gadawyd i Luther fyned ymaith, er iddo yn fuan gwedi, orchymyn i holl dywysogion yr ymerodraeth, na roddant unrhyw noddfa iddo; a galw eisteddfod i ddyddymu y diwygiad, fal yr adferid yr hen ddull o addoli. Yn y cyfarfod hwn tystiolaethodd etholydd Saxoni, ardalydd Hesse, duc Lunenburg, tywysog Anhalt, a swyddogion 14 o ddinasoedd ymherodrol yn erbyn y cyfryw gyfnewidiad, a llysenwyd hwynt

rhagdystiolion (*protestants*,) yr hwn enw a roddir hyd heddyw i bob enwau crefyddol cristionogol, sydd yn gwahanu oddiwrth eglwys Rhufain.

Yn fuan gwedi hyn, bu gryn gynhwrf yn Germani, o ethryb i effi gwr o enw Muncer, Joan Mathias, pobwr o Haerlem, a Joan Bocold, taeliwr o Leyden, honi eu bod yn fwy ysprydol nag eu cymmydogion, a llunio byddin grefyddol, trwy yr hon yr oeddynt i ddiddymu anfucsoldeb yr oes. Gwedi bedyddio pob un o'r fyddin yn arwydd o gyflawn ysprydolrwydd, aethant rhagddynt mewn bwriad o gymeryd dinas Munster, yr hon oeddynt eisus wedi gyfenwi mynydd Sion, ond yn y gâd â milwyr esgob y lle, carcharwyd Muncer, a chrogfa fu ei ddiwedd. Gwedi i'r ddau Joan gael lluoedd newydd tan eu baniar, dewisodd Joan Mathias 30 o'i ganlynwyr, gan honi y byddai iddynt fal Gideon, ddistrywio byddin yr annuwiol; ond yn yr ail ytugyrch hyn syrthiodd ef, ag ei filwyr oll yn feirwon. Yna ymosododd Joan o Leyden arnfa a bu lwyddiannus, a choronwyd ef yn frenin Sion: y gyfraith gyntaf a osododd, oedd caniatau i'w filwyr briodi cynnifer o wragedd ag a allent eu cynnal, &c. Ond nid hir y bu y deyrnwialen yn ei law, canys gwarchäodd un o fyddinoedd yr ymerawdr ar y ddinas, a phan oedd Joan ac ei ddeiliaid lliosog, ar fin trancedigaeth gan newyn, rhuthrwyd arnynt, a bu laddfa fawr. Joan a ddaliwyd, ac wedi ychydig garchar lle y cafodd ei arteithio yn y modd mwyaf echrys, dyoddefodd angau gyd â chryn ddewrder.*

Digofaint Charles yn parhau yn erbyn y tywysogion rhagdystiawl, cydunodd â'r pab Paul III, i alw cymmanfa yn Trent, i'r dyben o ad-drefnu disgyblaeth eglwysig, ond gan nad ydoedd yn gymmanfa gyffredinol, ni addefai y tywysogion y cyfryw yn gyfreithlawn: a thra bu yr amrafael hyn ar droed, bu farw Luther; yr hyn a roddes y brawmwyaf i'r holl eglwys ddiwygiedig, ond y llawenydd penaf i babyddiaid Ewrop, heb i'r naill blaid nag y llall ystyried bod egwyddorion Luther wedi gwreiddio mor ddwfn, nad oedd bellach eisieu ei law gynnorthwyol i fyned â'r gorchwyl yn mlaen.

Gwedi hyn, casglodd y rhagdystiolion fyddin o 70,000 o wyr traed, a 1500 o wyr meirch, a chawsant oruchafiaeth ar fyddinoedd yr ymerawdr fal y bu iddo am dro ddirymu rhai defodau pabaidd. Ond gan iddo eu hail sefydlu, bu ymladdfa drachefn, a chymmerwyd etholydd Saxoni, prif gynnaliwr y diwygiad yn garcharor, a chafodd y pabyddion fe eto i orfoleddu. Y dewr nesaf a ddaeth yn mlaen, oedd Maurice yr etholydd ardalog, yr hwn a anfonodd gyhoeddiad wedi ei ysgrifenu yn ei wersyll, lle yr oedd 20,000 o wyr traed, a 5000 o wyr meirch, at yr ymerawdr: dywedodd mai tri rheswm oedd ganddo i ddyfod i'r maes, sef, i amddiffyn y diwygiad, i gynnal yr hen drefn o reoli yn Germani, ac i ryddhau y tywysogion oedd yn ngharchar. I'r gorchwyl olaf hyn cafodd gydsyniad brenin Ffrainc: felly gwedi gyru Charles ar ffô, ail-sefydlodd Maurice yr amrywiol swyddogion gwladol, a gweinidogion eglwysig, oedd Charles wedi eu diswyddo. Felly o'r diwedd cydunwyd mewn cymmanfa yn Passau, ac a gadarnhawyd drachefn yn Augsburg, mai y grefydd ddiwygiedig a fyddai crefydd gwladol Germani rhagllaw.

Charles wedi dychwel yn ol a chael derbyniad, ar iddo ymostwng i'r drefn uchod, a gafodd ei aflonyddu yn ddirfawr o'r achos gan y pab.

* Ede's History of Europe, p. 160.

a chan nad allai wasanaethu y ddwy-blaid, gadawodd ei fro a threuliodd y gweddill o'i oes mewn mynachdy.

Y nesaf a goronwyd oedd Ffrederic brawd Charles; yna ei fab Maximilian II, yr hwn oedd enwog yn ei frwydrau yn erbyn y Twrc; wedi hyny Rodolph II, yr hwn oedd hynod am ei awydd yn taenu egwyddorion gwybodaeth yn mhlith ei ddeiliaid. Bu farw yn 1612, a daeth ei frawd Mathias yn ei le

Mathias gwedi dangos cryn duedd i'r diwygwyr, tra yr ydoedd yn arch-dug, oedd weithian yn cael edrych yn wgus arno gan y pab, yr hyn yn nghyd â sarhad y Twrc ar ei wlad, a barodd iddo dreulio, teyrnasiad llawn o helbul a thrallod. Yr oedd Mathias wedi trefnu i'r goron ddychwel i'w gefnder Fferdinand, ac felly bu; ond yr oedd ei oruchwyliaeth mor greulawn, fal y bwriwyd ef ymaith, a dewiswyd Ffrederic V, mab yn nghyfraith Iago I, brenin Prydain, yn ei le. Collodd hwn y dydd yn yr ymladdfa a fu wrth ddinas Prague, er iddo gael cynnorthwy byddinoedd Iago, a Christiern IV brenin Denmarc

Y nesaf oedd ei fab Fferdinand III. Yn nyddiau hwn y trefnwyd yn heddwch Westphalia, y byddai i'r senedd fod yn gynnwysedig o fawrion y deyrnas o ba enwau crefyddol bynnag oeddynt. Dylynwyd ef gan ei fab Leopold I, tywysog baerllug a brwnt. Am na ddangosai unrhyw barch i'w ddeiliaid yr Hungariaid, gwahoddasant hwythau y Twrc i'w amddiffyn rhagddo: a daeth Mahomet IV, a byddin o 300,000 at gaerau Vienna; ond gan i Mahomet yn y gwarchau ymddigrifo yn moethau ei hynafiaid; ac i Joan Sobieski, brenin Poland, oddiar fryn amneidio ar y gwarchaedig i ruthro allan, bu Leopold yn fuddygoliaethus. Ond yn lle erlid ar ol y Twrciaid, troes i Hungari i ddial ei lid yno, a gwnaeth iddynt dyngu ufydd-dod i'w fab o nawmlwydd oed a'i hilgerdd i'w llywodraethu. Bu farw yn 1705, a daeth ei fab Joseph I yn ei le, yr hwn wedi rheolaeth fer, ond tra llwyddiannus a fu farw yn alarus am dano.

Ei frawd Charles VI, oedd y nesaf a goronwyd. Bu llwyddiant neillduol tan reolaeth hwn hyd ei undeb â Russia i drawsfeddiannu Poland yn 1734: yna collodd flodau ei fyddinoedd mewn brwydrau rhyngddo â'r Twrc. Bu farw yn 1740, ac efe oedd yr olaf o deulu Austria, y rhai oeddynt gwedi rheoli dros 300 mlynedd.

Maria Theresa, chwaer hynaf Charles oedd y nesaf yn ei hawl i'r orsedd, ond gan fod ereill yn honi yr un hawl bu gryn dywallt gwaed cyn ei gosod arni. Yr oedd rhyfel erbyn hyn, wedi ei chyhoeddi gan Lewis XV, brenin Ffrainc yn erbyn Germani: Ar hyn aeth llu o Loegr tan George II, ac ei ail mab, y dug o Cumberland, a gweinidog y deyrnas Arglwydd Carteret yn gynnorthwy i Maria Theresa, a chyfarfu y pleidiau wrth Dettingen, lle bu ymladdfa fuddygoliaethus i George, yr hwn i ddewrio ei wyr, oedd yn gyru ar farch rhwng y ddau dân â chleddyf noeth yn ei law, hyd oni thorwyd byddinoedd Ffrainc yn ddrylliau. Yn fuan gwedi hyn coronwyd Ffrancis I, gwr Maria yn ymerawdr, ac wedi ei farwolaeth yn 1765, derchafwyd ei fab Joseph II i'r orsedd, yr hwn a ymunodd â Russia a Prussia i rwygo teyrnas Poland yn 1772, ac o herwydd iddo arwain trefniadau newydd i wlad ac eglwys, meddiannwyd ei ddeiliaid ag yspryd gwrthryfel yn 1788. Ni ellir dysgrifio arweddiad greulawn yr ymerawdr ar y terfysgwyr. Nid oedd noddfa i hen nag ieuanc. Yr un cleddyf oedd yn trywanu y fam ag y plentyn sugno, ac ni pheidiodd y fam

ddychrynllyd, hyd farwolaeth eu creulawn benllywydd.

Y nesaf oedd Leopold II, brawd Joseph, yr hwn wedi rheoli dwy flynedd a fu farw, a daeth ei fab Ffrancis II, yr ymerawdr y sydd y pryd hyn yn ei le. Bu hwn yn dra bywiog yn erbyn Ffrainc hyd 1804, pan y mynodd ei goroni yn ymerawdr Austria.

Am y brwydrau echrys diweddar rhwng Ffrainc a Germani, a'r canlyniadau arswydus a ddylynodd, maent yn hanes Ffrainc.

## GOLYGIAD GYFFREDINOL

AR

# AUSTRIA.

MAE yr ymerodraeth eang hon, yn cynnwys y gwledydd canlynol, y rhai ydynt dreftadaeth ymerawdr Germani, yr hwn yn ddiweddar a orfu arno newid yr enw i ymerawdr Austria.

| *Gwledydd.* | *Milltir. arwyneb.* | *Poblogaeth.* |
|---|---|---|
| Archdugiaeth Austria | 10,060 | 1,820,000 |
| Dugiaeth { Stiria | 6,592 | 800,000 |
| Dugiaeth { Carinthia | 3,100 | 300,000 |
| Dugiaeth { Carniola | 3,424 | 400,000 |
| Ardal Triest | 120 | 40,000 |
| Gwlad Tyrol | 6,960 | 610,000 |
| Tywysogaeth Swabia | 1,600 | 200,000 |
| Teyrnas Bohemia | 14,400 | 2,810,000 |
| Ardalyddiaeth Moravia | 6,400 | 1,260,000 |
| Rhan o Silesia | 1,296 | 250,000 |
| Teyrnas Gallicia a Lodomeria | 37,000 | 3,900,000 |
| Teyrnas Hungari | 59,500 | 6,300,000 |
| Transylvania | 16,400 | 1,500,000 |
| Buckowina | 2,900 | 130,000 |
| Illyria, neu Ysglavonia a Croatia | 12,800 | 900,000 |
| Rhan o Dalmatia | 4,640 | 300,000 |
| Bro Venice | 8,000 | 2,000,000 |
| | 192,212 | 23,820,000 |

Mae y gwledydd hyn yn sefyll rhwng 45 a 52 o raddau lledred gogleddol, a rhwng 12 a 27 o raddau hydred dwyreiniol. Eu hyd o Switzerland i derfyn eithaf Transylvania sydd o ddeutu 760 milltir; ac eu lled o afon Bug yr hon sydd yn dosbarthu rhan o Poland rhwng Austria a Prussia, i afon Save, yr hon sydd yn gwahanu Austria oddiwrth Twrci, sydd o ddeutu 520 milltir.

TALAETH AUSTRIA.] Mae talaeth Austria yn rhagori ar holl ardaloedd Germani mewn llawnder o ŷd, gwin, ffrwythydd, a phorfeydd breision yn gystal ag mewn hin dymhorol. Rhenir hi gan afon Enn, yn Austria uchaf ac Austria isaf: prif ddinas y flaenaf yw Vienna yr hon sydd a hanes am dani tan Germani. Ac mae ynddi hefyd 35 o ddinasoedd, a 256 o drefydd marchnadol. Prif ddinas yr olaf yw Lintz, yr hon sydd a dwy gaer gref yn ei hamddiffyn, ac yn cynnwys a

15,000 o drigolion. Mae yn Austria isaf 13 o ddinasoedd, ac 88 o drefydd marchnadol.

STIRIA.] Dugiaeth Stiria i'r de o dalaeth Austria, ac yn terfynu ar Hungari ar y tu gorllewin, a Carniola ar y tu gogledd, sydd o ddeutu 125 milltir o hyd a 17 o lêd. Ei gwyneb sy fynyddig ond er hyny yn dra ffrwythlawn o goed â phob angenrheidiau bywyd. Mae rhai mwngloddiau gwerthfawr o efydd a haiarn ynddi, yn agored er ys cantoedd o flynyddau, ac heb arwydd pallu bwrw y trysor i fynu Y brif ddinas yw Gratz yn sefyll ar afon Muehr: dinas gaerog ydyw. Mae ynddi un brif ysgol, ac o ddeutu 30,000 o drigolion.

CARINTHIA.] Dugiaeth Carinthia yn sefyll i'r de orllewin o Stiria, sy hefyd yn wlad fynyddig ac yn cynnwys amryw fwngloddiau gwerthfawr. Mae ei dyffrynoedd yn ffrwythlawn o ŷd a phob llysiau cyffredin yn Germani. Y brif ddinas yw Clagenffurt ar afon Glân. Mae hon yn gaerog, ac yn cynnwys 6 eglwys, 3 mynachlog, a 10,000 o drigolion.

CARNIOLA.] Dugiaeth Carniola ar y tu de i Stiria, sydd 120 milltir o hyd a 100 o led. Mae gwyneb garw y wlad hon yn arddangos cryn amrywiaeth o nentydd ffrwythlawn a bryndir coediog. Y prif afonydd ydynt y Sav, Laybach, Gurk, ac y Culpa. Y mwngloddiau hynotaf yma sydd yn Idria, lle y dodir yn flynyddol o ddeutu 300,000 o bwysi o arian byw: y lleill ydynt gloddfeydd haiarn, efydd a phlwm. Y brif ddinas yw Laybach, yn sefyll ar afon o'r un enw, yr hon sydd yn cynnwys o ddeutu 20,000 o drigolion.

FRIULI] Mae y ddosbarth hon yn sefyll rhwng Carinthia, Carniola, dugiaeth Venice, ac ardal Triest. Rhenir hi yn ddwy ran o enw Gorz a Gradisca. Mae ei gwyneb yn drytrith o fynydd-dir a dyffrynoedd, ac yn cynnyrchu ŷd, gwin a ffrwythau yn helaeth. Y brif ddinas yw Gorz yr hon sydd yn gaerog, ac yn cynnwys o ddeutu 10,000 o drigolion.

TRIEST.] Bro Triest yn sefyll rhwng Carniola, Friuli, â môr Adria, sydd yn cynnyrchu gwin, ffrwythydd, halen, &c. Y brif ddinas Triest ar fin môr Adria sydd hynod am gynnydd ei chyfnewidiaeth, gan fod o 6 i 8000 o longau yn flynyddol yn dyfod iddi o amryw wledydd Ewrop. Trigolion y ddinas ydynt 30,000.

TYROL.] Gwlad Tyrol yn sefyll i'r dwyrain o Carinthia, sydd 150 milltir o hyd a 120 o led. Mae y wlad hon yn dra mynyddig, gan fod trûm agos cyfuwch ag yw yr Alp yn cyrhaedd ar ei hyd. Y mwngloddiau ydynt arian, efydd a phlwm; ac y cynnyrch cyffredin ydyw yd, gwin, llîn a sidan. Y brif ddinas Inspruc ar afon Inn, sy gadarn ac yn cynnwys o ddeutu 12,000 o drigolion, hon ydoedd preswylfod archdugiau Austria gynt.

Y parthau ereill sydd yn cyfansoddi ymerodraeth Austria, ydynt yn cael cyfarwyddyd am danynt tan eu henwau priodol.

---

## BOHEMIA A MORAVIA.

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.—Taleithiau.—Gwyneb y wlad.—Hin a thymhorau.—Afonydd.—Mwngloddiau.*

BOHEMIA sydd yn sefyll rhwng 12 ac 16¼ o raddau hydred dwyreiniol, a rhwng 48¾ a 51 o raddau lledred gogleddol, felly yn 210

milltir o hyd a 175 o led; yn gylchynedig o du y gogledd gan Misnia a Lusatia yn Saxoni uchaf, o du y dwyrain gan Silesia a Moravia; o du y de gan gylch Austria; ac o du y gorllewin gan Ffranconia a Bavaria. Moravia sydd yn sefyll rhwng 14½ a 18½ o raddau hydred dwyreiniol, a rhwng 48½ a 50 o raddau lledred gogleddol; yn 140 milltir o hyd a 90 o led, ac yn gylchynedig o du y gogledd gan Silesia; o du y dwyrain gan Hungari; o du y de gan gylch Austria, ac o du y gorllewin gan Bohemia.

TALEITHIAU.] Bohemia sy gwedi ei rhanu yn 16 o gylchau, sef, Bunzlau, Koniggingratz, Chrudim, Kaurzim, Beraun, Rakonitz, Saas, Leutmeitz, Biezow, Czaslau, Tabor, Budweis, Prachin, Klattau, Pilsen, ac Elbogen. Moravia sy gwedi ei rhanu yn 6 chylch, sef, Olmutz, Brun, Znaim, Iglau, Hradisch a Prerau, y rhai ydynt enwau eu prif ddinasoedd.

GWYNEB Y WLAD.] Mae Bohemia yn gylchynedig gan fynyddoedd geirwon. Y rhai sydd yn derfyn rhyngddi â Saxoni uchaf a elwir trum Erzeburg; rhyngddi a Silesia trum Suda; a rhyngddi â Moravia a chylch Austria, mynyddoedd Moravia. Y dyffryn-dir sy dra ffrwythlawn, ac mae ochrau y mynyddoedd yn llawn coed. Moravia sy hefyd yn fynyddig, ond yn hytrach yn fwy ffrwythlawn na Bohemia.

HIN A THYMHORAU.] Mae yr hin yn yr ardaloedd hyn yn dra thymherus, heb fod oerni y gauaf na gwres yr hâf yn unrhyw flinder, ond nis cyfrifir hwynt yn wledydd iachus, o herwydd tarth gwenwynig y nentydd corsog, a'r lliosogrwydd o goed yn rhwystro tramwyfa awyr iâch.

AFONYDD.] Y prif afonydd ydynt yr Elb, yr Oder, ac y Mulda, y rhai a sylwyd arnynt o'r blaen; y lleill ydynt afon Moraw yr hon sydd a'i rhedfa o ogledd-barth Moravia i afon Danub; a dwy gainc o honi a elwir Igla a Teya. Y llynau ydynt anaml, ac nid yw y mwyaf o honynt oddiar dair milltir o hyd.

MWNGLODDIAU.] Mae amryw gloddfeydd o arian, haiarn, efydd a phlwm yn y gwledydd hyn, yn nghyd ag amryw yn cynnwys meini gwerthfawr.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion.—Llywodraeth.—Crefydd.—Iaith, Dysgeidiaeth.—Dinasoedd.*

MAE trigolion y gwledydd hyn o ran agwedd a moesau yn tebygu i'r Ellmyn. Maent yn gymmydogol ac eulusengar yn eu cartrefi, ac yn enwog pan eu gwahodder i amddiffyn eu gwlad. Bu y werin yn gaethion i'r bonedd gorthrymus hyd ddyddiau Joseph II, yr hwn a ymroddodd i fwrw yr iau gaeth oddiarnynt, trwy geisio eu haddysgu mewn gwybodaeth o drin tir a chelfyddydau ereill, a bu llwyddiant ar ei orchwyl. Er hyny cyfrifir hyd heddyw y Bohemiaid y sydd yn preswylio y dinasoedd, yn fwy ofergoelus na thrigolion Yspaen a Phortugal, gan na adawant gongl o'u heolydd heb osod ynddi naill a'i croes a'i creiriau, neu gerf-ddelwau gwych, ac ni phetrusant ymgrymmu, iddynt a llefain arnynt yn ddi daw am oriau bywgilydd, gan gusanu hyd yn nod y llawr cyfagos iddynt gyd â'r fâth awydd, fal oni bae fod eu calon fal y gallestr nis gallant ommedd dosturio wrthynt.

LLYWODRAETH.] Er nad yw Bohemia yn yr un o naw cylch ymerodraeth Germani, eto yr ymerawdr sydd yn ei llywodraethu, ac yn derbyn agos i 1,400,000 o bunoedd o deyrnged o honi. Y senedd yr hon fu urddasol gynt, sydd yn gynnwysedig o wŷr mawrion, gwyr urddasol, a dirprwywyr y dinasoedd breiniol, y rhai sydd yn ymgyfarfod o ran defod yn unig i dderbyn cyfreithiau yr ymerawdr. Yr achos o alw Bohemia yn rhan o Germani, yw, am mài brenin Bohemia sy bob amser yn brif etholydd yr ymerodraeth. Moravia sy hefyd yn rhoddi teyrnged o 440,000 o bunoedd i Austria, ac yn cael ei llywodraethu gan lywydd tan yr ymerawdr.

CREFYDD.] Pabyddiaeth sydd frcintiol yn Bohemia, ond mae rhifedi mawr yn eu plith, yn arddel y grefydd ddiwygiedig a Sociniaeth,* ac yn mwynhau cyflawn ryddid cydwybod. Mae yn Moravia gainc o'r eglwys ddiwygiedig adnabyddus wrth yr enw Moraviaid, † y rhai sy gwedi bod yn fywiog yn anfon cenhadau i barthau pellenig y ddaear. Mae ganddynt dai addoliad yn Mhrydain, sef, yn Llundain, Bedford, Dublin, &c.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Cainc o'r ysglavonag yw iaith Bohemia, ac nid yw iaith Moravia yn gwahanieuthu nemawr oddiwrthi: ond yr Ellmaneg sydd yn cael ei harfer fwyaf. Yr unig urdd ysgol yn Bohemia sydd yn Prague, yr hon a seiliwyd yn 1347: bu hon gynt mor lwyddiannus ag iddi gynnwys mwy na 40,000 o ysgolheigion, ond nid yw weithian yn cynnwys mwy na 200. Urdd ysgol Moravia yn ninas Olmutz a seiliwyd yn 1567. Er nad yw y gwledydd hyn yn hynod am wybodaeth o'r celfyddydau, nag unrhyw geinciau ereill o ddysgeidiaeth, eto yma yr ymddysgleiriodd gwawr y diwygiad rhagdystiol gyntaf, a thra dewr am dro y darfu iddynt ei amddiffyn, er gwaethaf byddinoedd yr ymerawdr a bygythion tanbaid Rhufain.

DINASOEDD.] PRAGUE y brif ddinas, sydd yn sefyll ar afon Muldau, yn agos i ganol y deyrnas. Mae hi yn 12 milltir o amgylchiad, ac yn cynnwys un brif eglwys, 92 o eglwysi ereill a chapeli, 40 mynachdy, ac o ddeutu 80,000 o drigolion, o ba rai mae 10,000 yn iuddewon. Nid oes braidd ddim cyfnewidiaeth yn cael ei wneuthur yma, oddigerth ychydig mewn gemmau gan yr iuddewon.

Reickenburg yn nghylch Bunzlau a'r nesaf mewn maint a grym i Prague, sydd yn cynnwys o ddeutu 10,000 o drigolion.

Olmutz yn sefyll ar afon Moraw, sydd 80 milltir i'r gogledd o Vienna. Dinas gaerog ydyw. Hi oedd brif ddinas Moravia hyd oni

---

* *Sociniaid* a elwir felly oddiwrth Faustus Socinus, yr hwn fu farw yn Poland yn 1604. Eu prif ddaliadau yw gwadu duwdod y Cyfryngwr, trwy honni nad oedd hanfod iddo cyn ei eni o Mair, ac mai *dyn* ydoedd gwedi ei gynnysgaeddu â doniau gwyrthiol, i ddysgu edifeirwch fel rheol o ymgymodi â'r nef, heb ddefnyddio unrhyw iawn; i osodi cynnefodau da i'w dylyn; i selio ei weinidogaeth a'i waed; ac i sicrhau adgyfodiad dynol ryw yn y dydd olaf trwy ei adgyfodiad ei hun. Yr ysgrythyrau y sylfaena y Sociniaid yr haeriadaeth uchod arnynt ydyw, Actau 2, 22; a 17, 31; a 1. Tim. 2, 5.

† *Moraviaid* ydynt ddylynwyr ellmon o enw Nicolas Lewis, Count Zinzendorff, yr hwn a fu farw yn 1760. Yr achos iddo eu galw Moraviaid, oedd, am mai ychydig deuluoedd oddiyno oedd ei ddylynwyr cyntaf. Mae y Moraviaid yn cyfeirio eu herfyniadau at y Cyfryngwr yn unig, ac yn ymbrofi mewn cerddoriaeth o dafod a thant yn eu haddoliadau. Cyfarfyddant yn fynych yn eu cariad wleddoedd, a bwriant goelbren i wybod meddwl yr Arglwydd. Yr henuriaid yn unig sydd yn llunio priodasau, neu ammodau ereill a fyddo i gymeryd lle rhwng unrhyw o'r aelodau eglwysig.

symudwyd y senedd i ddinas Brunn, yr hon sydd hynod am wychder ei hadeiladau, a lliosogrwydd ei gweithdai lliain, melvett, a'r cyffelyb.

CREADURIAID.] Gwylltfilod Bohemia a Moravia, ydynt yr arth, y lynx, y blaidd, y llwynog, y dyfrgi, y llostlydan, &c. Y dofion ydynt yr un â rhai Germani.

## DOSBARTH III.

*Hanes Bohemia a Moravia.*

ODDIWRTH y genedl a elwir y Boii-aid y rhai oeddynt gainc o'r Celtiaid ag a elwid gan yr Ellmyn Boheim, mae tarddiad yr enw Bohemia. Erlidiwyd hwynt i'r wlad hon o Gaul, ychydig cyn bynt filwraidd Julius Cæsar, gan y Marcommaniaid, a buont deyrngedawl i'r Ostrogothiaid, Lombardiaid, ac y Ffrankiaid hyd oni oresgynwyd y wlad yn y flwyddyn 534 gan yr Ysglavoniaid, y rhai fuont dan deyrnged i Charlemagne, hyd oni ddewisasant dywysogion o honynt eu hunain i'w llywodraethu, y rhai fu mewn brwydrau parhaus ag ymerawdwyr Germani hyd 1438, pan yr unodd Albert II o Austria goronau Hungari a Bohemia at yr ymerodraeth.

Yn 1414, bu i'r ddau ddiwygiwr enwog Ioan Huss a Jerom o Prague, gael eu llosgi yn Constant, er iddynt gael addewid o nawdd yr ymerawdr, yr hyn fu yn achos i'r farn o wrthryfel syrthio ar y wlad: bwriodd dinasyddion Prague swyddogion yr ymerawdr trwy ffenestri y senedd i'r heol, a chasglodd Zisca fyddin o 40,000 o'r Bohemiaid, y rhai a erlydiasant gwedi brwydrau echrys fyddinoedd yr ymerawdr o'r wlad. Ond gan i ymraniadau ddygwyddo yn mhlith yr Hussiaid ail-feddiannodd yr ymerawdr Bohemia. Yna ceisiodd y tywysog ardalog mab yn nghyfraith Iago I, brenin Prydain drachefn fwrw yr iau ymaith, ond bu aflwyddiannus, a gorfu arno gwedi ei gwbl ddiosg o'i holl dreftadaeth ddianc i Brydain, lle y treuliodd y gweddill o'i oes. Ac o hyny hyd yr awrhon mae Bohemia yn perthyn i goron Austria.

Trigolion cyntaf Moravia oeddynt y Quadiaid, yna yr Ysglavoniaid, y rhai oeddynt genedl gref, ac mewn meddiant o rwysg y wlad hyd yr unfed ganrif ar ddeg, pan y daethant hwy a'u gwlad yn eiddo Germani.

# HUNGARI.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Cylchynoedd. Maintioli.—Gwyneb y wlad. Mynyddoedd, &c.*

HUNGARI yr hon y gelwid y parth mwyaf o honi gynt Pannonia, sydd yn gorwedd rhwng y 18ed ac yr 22ain o raddau hydred dwyreiniol; a rhwng 45 a 49 o raddau lledred gogleddol; yn gylchynedig i'r gogledd gan drum Carpathia, yr hon sydd yn ei gwahanu oddiwrth Poland; ac i'r de gan Servia, ac afon Drav, yr hon sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ysglavonia, i'r gorllewin gan Moravia, Austria, a Stiria; ac i'r dwyrain gan Walachia, a Transylvania. Ei hyd sydd o ddeutu 240 milltir, ac ei lled 235.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD, &c.] Parthau gogleddol Hungari ydynt fynyddig a noethlwm, ond y parthau deheuol er nad ydynt yn meddu hin mor iachusol trwy'r flwyddyn, ydynt wastad-dir tra ffrwythlawn o goed cyffredin yn y broydd gogleddol, yn gystal â gwenith, haidd, gwinrawn, llysiau gerddi, tobacco, saffrwm, pompionau, &c. Mae yr haidd yma mor helaeth ag y gwerthir ef am y chweched ran o'i bris yn Mhrydain. Y mynyddoedd hynotaf yn Hungari ydyw mynyddoedd Carpathia, y rhai sydd a hanes am danynt o'r blaen: mae yn amryw o'r lleill fwngloddiau yn cynnwys gwytheni o aur, arian, efydd, plwm, arian byw, haiarn, sulphur, vitriol; maenfynu, asbestos neu y maenllin, ac amryw feini gwerthfawr. Y prif afonydd ydynt y Danub, y drav, y sav, y waag, y teme, ac y theis, y rhai fu dan sylw yn hanes Germani.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.—Moesau ac arferion.—Crefydd.—Llywodraeth.—Iaith.—Cyfnewidiaeth.—Milwyr.—Dinasoedd a threfydd.—Anifeiliaid.*

TRIGOLION Hungari ydynt yn hanu oddiwrth yr Huniaid, Ysglavoniaid, Camaniaid, Ellmyn, Walachiaid, Groegiaid, uddewon, Twrciaid ac Aiphtiaid. Yr oeddynt cyn i'r Twrciaid feddiannu Constantinopl yn fwy lliosog nag unrhyw wlad o'i maint yn Ewrop: ond gan i'r genedl hòno wneyd sarhâd dystrywgar mor fynych arni; ac i Austria fod mor esgeulus yn adgyweirio eu dinasoedd briwedig, nid yw y trigolion weithian oddiar 4,000,000 o eneidiau.

MOESAU AC ARFERION.] Yr Hungariaid ydynt ddynion cryfion ac hardd o gorffolaeth, eithr sarug a thrahaus yn eu hymddygiad. Cyfrifirhwynt yn ddewr ar faes rhyfel, am fod eu tuedd o'u mebyd yn fwy am drin arfau, hela, a champau gorchestol, na threiddio i wybodaeth o drin tir nag unrhyw gelfyddyd arall. Mae y mawrion yn dra ymroddgar i rodres, gloddest, a gwledda ac yn preswylio llysoedd ardderchog yn gylchynedig â gwinllanoedd ffrwythlawn, dolydd breision, a'r cyffelyb; tra mae y werin fal caethion mewn bythau gwael, weithiau yn dyoddef eisiau. Eillia yr Hungariaid y farf oddiar yr ên yn unig, gan adael trawswch neu gydunau o boni ar y wefus uchaf: gwisgant gapiau panflew, gwregysant eu gwisgoedd, a rhoddant fantell dros y cyfan. Y benywod ydynt dra gweddaidd yn eu gwisgoedd, ond nid ydynt ar lêd un amser heb len gûdd tros eu gwynebau.

Mae yn y wlad hon liaws o grwydraid lladronllyd a elwir *Zigduns*, yn byw mewn ogofeydd a lleoedd anghysball ereill, heb fawr ragoriaeth rhyngddynt o ran moesau a bywoliaeth, â gwylltfilod yr anialwch.

CREFYDD.] Y grefydd babaidd ydyw y freintiol yn Hungari, ond mae cyflawn ryddid i ddeiliaid yr eglwys ddiwygiedig ac eglwys Groeg, y rhai sydd agos mor liosog ag y lleill: mae ganddynt hawl hefyd i eistedd yn y senedd, ac i fod yn swyddogion gwladol. Yr ymerodres ddiweddar a drefnodd y rhyddid hyn, am eu gwroldeb yn amddiffyn eu gwlad rhag gormes y Twrc. O'r blaen yr oedd yr eglwys ddiwygiedig mewn cryn gaethiwed.

LLYWODRAETH.] Er bod Hungari yn gysylltiedig â thŷ Austria, mae rhai o gyn-freintiau gwladol eu hynafiaid yn parhau yn ychydig o atalfa ar y goron ymherodrol. Mae y senedd yn cynnwys dau dŷ

un a lunier o dywysogion, arglwyddi, swyddogion goruchel y goron, ac archesgobion; ac y llall o esgobion, mynachod, a 52 o ddirprwywyr, sef, un o bob swydd y sydd yn cyfansoddi y wladwriaeth: ond nid ydynt i ymgyfarfod heb genad yr ymerawdr. Mae amryw lysoedd yn y dinasoedd breiniol, i'r dirprwywyr a swyddogion ereill drefnu achosion gwladol.

IAITH.] Y Lladin ac yr Ellmaneg sydd fwyaf cyffredin yn Hungari: go aflafar y cyfrifir yr iaith sydd briodol i'r wlâd. Dyma yw y pader ynddi, *Mi atyank ki vagy a mennyekben, zentelssek meg a te. neved; jojjon el a te 'orzagod: Legyen' meg a te akaratod, minr a menyben, ugy itt e foldonnis, A mi mindennapi,. kenyerunket ad meg nekunkna; es botsasd meg a mi vetkeinket, mikeppin mûs megbotsatunk azoknak a kik mi ellenunc vetkeztenek; es ne vigy minket a kesertetbe: de zabadits meg minket a gonosstol; mert tied az orssag, a hatalom es a dirsoseg mind orokke. Amen.*

CYFNEWIDIAETH.] Ychydig o weithfaoedd sydd yn Hungari, yn cynnyrchu unrhyw drysorau cyfnewid; ond nid oes un wlâd yn perthyn i'r ymerodraeth yn anfon allan gymmaint o wartheg, ceffylau. a defaid, â Hungari, Mae yr helaethrwydd o yd, gwin, olew, crwyn, gwêr, cwyr, mêl, cynnyrch y mwngloddiau, &c. yn dwyn elw yn gyfartal i 2,000,000 o bunoedd yn flynyddol.

MILWYR.] Gall yr ymerawdr pan y myno ddwyn i'r maes agos i gan-mil o filwyr yn Hungari, er mai anfynych y gwahodd o honi fwy na deng-mil. Cyfrifir hwynt yn dra dewr mewn brwydr. Galwant y gwyr meirch *Hussars*, ac mae weithian gan y galluoedd cryfaf yn Ewrop filwyr o'r un enw: y peddyd neu y gwyr traed ydynt yn gwisgo cynifer o blû yn eu capiau ac a honant iddynt lâdd o elynion.

DINASOEDD A THREFYDD.] BUDA y brif ddinas, sydd yn sefyll ar fin afon Danub, heb onid llêd yr afon rhyngddi a dinas Pest, fal y gelwir y ddwy yn gyffredin yn un ddinas. Mae Buda yn bedair milltir o hyd, ac ychydig tros filltir o led, ond nid oes iddi gaerau amddiffyn o un mâth. Yma mae cadwraeth y goron freninol. Trosglwyddodd Joseph II hi i Vienna yn 1784, ond gorfu arno o herwydd gŵg y dinasyddion ei danfon yn ol yn 1790, er mawr lawenydd iddynt. Mae yn Buda o ddeutu 22,000 o drigolion; a dywedir bod 16,000 yn Pest, yr hon sydd a'i hadeiladau yn fwy gwych na Buda: y llŷs breninol ynddi sydd ardderchog, ac hefyd lluestai y milwyr, &c. Bu Buda a Pest amryw weithiau yn meddiant y Twrc.

Presburg, prif ddinas Hungari isaf, sy ddinas enwog, a gellir ei hystyried yn brif ddinas y deyrnas, o herwydd mai ynddi y trefnid y goruchwyliaethau gwladol bob tro y dygwydda i Buda fod yn meddiant y Twrc. Ei sefyllfa sydd ar afon Danub; ac y trigolion ydynt 28,000.

Caschau prif ddinas Hungari uchaf sydd a'i hamddiffynfeydd yn gadarn, ei hadeiladau yn wych, ac ei thrigolion yn 6000. Y lleill ydynt Tyrnau yn cynnwys mwy na 5000; Raab, Gran, Comon a Kitzer, y rhai ydynt drefydd cadarn, ac yn cynnwys o fil i 3000 o drigolion bob un.

ANIFEILIAID.] Meirch Hungari ydynt hynod am ei bywiogrwydd: dewisir hwy gan flaenoriaid byddinoedd o flaen unrhyw ereill. Y defaid hefyd ydynt o dŵf mawr, a throsglwyddir llawer o honynt i wledydd ereill. Y creaduriaid ereill ydynt y rhai cyffredin yn y gwledydd cymmydogaethol.

## DOSBARTH III.

*Hanes Hungari.*

O Ddeutu y drydedd ganrif y bu i'r Huniaid, cenedl sarug oedd yn preswylio glenydd afon Don oresgyn Hungari, a'i galw yn ol eu henw eu hunain. Dylynwyd hwynt gan y Gothiaid; yna gan y Lombardiaid; drachefn gan yr Abariaid; ac yn fuan gwedi, sef, yn nechreu y nawfed ganrif gan yr Ysglavoniaid, y rhai gwedi cryn frwydrau a orthrechwyd, gan yr Ugriaid, cenedl oedd yn preswylio glenydd afon Volga, y rhai yn y flwyddyn 997, a osodasant wr cyffredin o enw Stephen yn frenin arnynt, gan drefnu i'r goron fod yn etifeddawl i'w epil. Dyma y pryd y derbyniodd Hungari gristionogaeth, ac y dechreuodd fod trefn ar y wladwriaeth.

Yn 1310, bu i Charles Robert, yr hwn o herwydd ei ddewrder oedd wedi ei ddewis yn frenin, oresgyn Bulgaria, Servia, Croatia, Dalmatia, Ysglavonia, ac amryw ardaloedd ereill, a'u dwyn dan deyrnged, eithr yn ei frwydrau â'r Twrc bu aflwyddiannus, fal y gorfu arno roddi rhai o honynt yn ol i'w perchenog.

Yn 1342, goresgynodd Lewis I, Dalmatia a rhan o Itali. Dylynwyd ef gan ei ferch Mari, yr hon gwedi priodi Sigismund a fynodd ei goroni yn frenin: a chan bod Hungari y pryd hyn ar dilerau da â Germani, dewiswyd ef yn ymerawdr. Efe oedd y gwr a ganiatâodd yn nghymanfa Constant, losgi Ioan Huss, a Jerom o Prague. Bu farw yn 1408, a dylynwyd ef gan ei fab yn nghyfraith Albert, yn nyddiau yr hwn yr unwyd Hungari at yr ymerodraeth.

Tu a dechreu y 15ed ganrif, goresgynodd y Twrciaid Hungari, eithr achubwyd hi trwy ddewrder Huniades gwarcheidwad y brenin Ladislaus, yr hwn oedd y pryd hyn dan oed: a bu ei oruchwyliaeth mor enwog, fal y caniatâwyd i'w fab Mathias wisgo y goron gwedi marw Ladislaus yn 1438.

Gwedi hyn bu gryn helbul ar y wlad, gan fod y Twrc yn aflonyddu rhyw ranau o honi yn wastadol: lladdwyd hefyd Lewis brenin Hungari mewn ymladdfa â nhwy yn 1526; yr hyn fu yn achlysur i Hungari fod yn deyrngedawl i'r Twrc, hyd oni bu i'r arch-dug Fferdinand brawd ymerawdr Charles V, briodi chwaer Lewis, a mynu ei goroni yn frenin a'u herlyd ymaith. Y canlyniad fu i Hungari gael ei gwneyd yn rhan o Germani.

## TRANSYLVANIA, BUCKOWINA, YSGLAVONIA, CROATIA, A DALMATIA.

TRANSYLVANIA sydd yn gylchynedig o'r tu gogledd gan fynyddoedd Carpathia, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth y rhan o wlad y Pwyl a elwir Galitzia; o'r tu dwyrain gan Moldavia; o'r tu de gan Walachia; ac o'r tu gorllewin gan Hungari. Ei sefyllfa sy rhwng 22 a 26 o raddau hydred dwyreiniol, a rhwng 45 a 48 o raddau lledred gogleddol. Ei hyd sydd 160 o filltiroedd, ac ei lled 150; felly yn cynnwys agos i 14,300 o filltiroedd arwynebol, ac o ddeutu 1,500,000 y drigolion. Mae y wlad hon yn gylchynedig gan fynyddoedd uchel, a'u copa yn gwisgo iâ oesol, yr hyn sydd yn ardymheru gwrês yr haf, fal braidd fod unrhyw ran o Germani yn mwynhau awyr mwy iâch. Yr amrywiol enwau o Babyddiaid, Calviniaid, Lutheriaid, eglwys

Groeg, a Mahometaniaid ydynt yn mwynhau cyflawn ryddid i addoli fal y mynont. Hermanstadt y brif ddinas, a gorsaf llywodraeth ei mân dywysogion tan yr ymerawdr, sy ddinas gadarn yn cynnwys 16,000 o eneidiau. Classenburg a Weisenburg, sy hefyd yn ddinasoedd poblog.

Rhan o Dacia oedd Transylvania yn y cynamseroedd, yr hon oedd enwog yn gwrthsefyll arfau ymerodraeth Rhufain hyd ei gogwyddiad, pan y goresgynwyd hi gan y Gothiaid, a thrachefn gan yr Hungariaid, oddiwrth y rhai y deilliodd y trigolion presennol. Yn y flwyddyn 1000, goresgynodd Stephen I. Transylvania, yr hwn gwedi esgyn i'r orsedd a arweiniodd Gristionogaeth iddi gyntaf: bu ei eppil yn meddiant o rwysg y wlad, hyd y flwyddyn 1699, pan unwyd hi yn hollol at goron Austria. Yn 1784, meddiannwyd y werin ag yspryd gwrthryfel, o herwydd traws-lywodraeth y mawrion; a chryn orchwyl ar fyddinoedd yr ymerawdr gwedi brwydrau arswydus, fu eu tawelu.

Buckowina, yr hon fu gynt yn rhan o Transylvania, a thrachefn yn rhan o Moldavia hyd ei rhoddiad i'r Austriaid gan y Twrc yn 1771, sydd yn sefyll rhwng Moldavia a Galitzia. Ei hyd sydd 90 milltir, ac ei lled 50; yn cynnwys agos i 300 o filltiroedd arwynebol, ac o ddeutu 130,000 o drigolion. Mae y wlad hon mor llawn o goed nad yw y cynnyrch o yd, a grawn ereill ond ychydig; er hyny gwlâd gyfoethog o anifeiliaid ydyw; ac mae y cwyr a'r mêl oddiwrth y lliosogrwydd o wenyn sydd ynddi, yn angwanegu ei chyfoeth. Y trigolion ydynt Walachiaid, Hungariaid, Ellmyn, Armeniaid, Iuddewon, a nifer liosog o *Zygduns*; ac yr Ellmaneg sydd weithiau yn fwyaf arferedig yn eu plith. Tzernowitz y brif ddinas ar fin afon Pruth, sydd esgobaeth yn perthyn i eglwys Groeg, ac yn cynnwys o ddeutu 6000 o eneidiau.

Ysglavonia sydd yn gorwedd rhwng 17 a 21 o raddau hydred dwyreiniol, a 45 a 47 o raddau lledred gogleddol, yn 200 milltir o hyd, a 60 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 10,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir hi o'r tu gogledd gan afon Drav; o'r tu dwyrain gan afon Danub; o'r tu de gan afon Sav; ac o'r tu gorllewin, gan Stiria a Croatia. Yr achos bod Hungari, Transylvania, Ysglavonia, a gwladoedd ereill perthynol i Austria, yn cynnwys y fâth amrywiaeth o genedlaethau, yw, am mai y gwledydd hyn a safodd hwyaf yn erbyn rhwysg Rhufain, ac a fuont o ethryb hyny yn noddfëydd i weddillion y cenedlaethau gorchfygawl. Mae y wlad hon yn fynyddig a choediog, eto yn dra ffrwythlawn. Y grefydd babaidd sy freintiol, ond mae cyflawn ryddid i eglwys Groeg ac Iuddewon, y rhai sy liosog ynddi. Unwyd Ysglavonia at Hungari yn 1746; felly Austria sydd yn ei rheoli.

Croatia sydd yn sefyll rhwng 15 a 17 o raddau hydred dwyreiniol, a rhwng 45 a 47 o raddau lledred gogleddol; yn gylchynedig o du y gogledd gan Hungari; o du y dwyrain gan Ysglavonia a Bosnia; o du y de gan Dalmatia, ac o du y gorllewin gan Carniola a Stiria. Ei hyd sy 80 milltir, ac ei lled 70, ac yn cynnwys 2000 o filltiroedd arwynebol. Cyfrifir y Croatiaid yn filwyr dewr, eithr afreolaidd mewn defodau rhyfel. Mae Croatia yn perthyn i Austria, oddigerth y rhan fechan o honi sydd o'r tu dwyrain i afon Unna, yr hon sydd yn perthyn i'r Twrc. Carlstadt yw y brif ddinas.

DALMATIA sydd yn dair rhan; un yn perthyn i Hungari, y llall i Venice, ac y drydedd i'r Twrc. Rhan Hungari o honi sydd yn terfynu ar ogledd-barth môr Adria, yr hon sydd yn bump talaeth. Y rhan oedd gynt yn perthyn i Venice, ond weithian i Austria, sy wlad fynyddig a ffrwythlawn. Mae y rhanau hyn yn nghyd, yn 4640 o filltiroedd arwynebol, ac yn cynnwys o ddeutu 300,000 o drigolion. Spalatri, y brif ddinas, sy drig-le archesgob. Zara y nesaf mewn maint sy dra chadarn gan gaerau amddiffyn, ac yn cynnwys o ddeutu 7000 o drigolion. Sebenica yw y dref fwyaf arall. Y rhan o Dalmatia fu yn ddiweddar yn perthyn i Venice, ond weithian i Austria, sydd yn cynnwys 20,000 o eneidiau, ac yn cael ei llywodraethu gan lywydd o Hungari. Rhan arall o Dalmatia sydd yn perthyn i'r Twrc, a rhan arall i Ragusa, yr hon sydd yn cynnwys 80,000 o drigolion, ac yn cael ei llywodraethu gan lywydd a ddewisir bob mis. Mae morwyr Dalmatia yn enwog mewn mor-ladroniaeth, ac y maent mewn tangnefedd gwastadol a'u cyfeillion y Barbariaid, y rhai sydd er ys amser anadnabyddus yn enwog yn y gorchwyl.

# TWRCI.

YMERODRAETH y Twrc sydd gwedi ei dosbarthu yn dair rhan, adnabyddus wrth yr enwau canlynol,

1. TWRCI YN EWROP.
2. TWRCI YN ASIA.
3. TWRCI YN AFFRICA.

y rhai yn nghyd ydynt agos i 800,000 o filltiroedd arwynebol.

# TWRCI YN EWROP.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd—Taleithiau—Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir—Hin a thymhorau—Afonydd—Llynau—Mynyddoedd—Mwnglodddiau—Ynysoedd.*

MAE y rhan hon o ymerodraeth y Twrc, yn sefyll yn mbarthau de ddwyreiniol Ewrop, yn gylchynedig o du y gogledd gan Russia, Buckowina, Transylvania ac Ysglavonia; o du y dwyrain gan Circassia, y môr du, môr Propontis, môr Hellespont a'r Ynys-fôr; o du y de gan fôr y canoldir; ac o du y gorllewin gan gul-for Venice ac Austria. Ei hyd sydd 910 o filltiroedd, ac ei lled 760, ac yn cynwys 182,560 o filltiroedd arwynebol.

TALEITHIAU.] Twrci yn Ewrop sydd gwedi ei rhanu fal y canlyn,

| | *Taleithiau.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| I'r gogledd o afon Danub mae taleithiau, | Bessarabia - - - - | Bender, Belgorod |
| | Moldavia, *gynt* Dacia - | Jassy, Chocsim, Falczin |
| | Walachia, rhan arall o Dacia | Tergovisto |

| | | |
|---|---|---|
| Taleithiau sydd o'r tu de i afon Danub, | Bulgaria, sef rhan o'r wlad a elwid *gynt* Mysia | Widdin<br>Nicopoli<br>Silistria<br>Scopia |
| | Servia, rhan arall o Mysia | Belgrade<br>Semendria<br>Nissa |
| | Bosnia, rhan o'r wlad a elwid *gynt* Illyricum | Seraio |
| Ar fin môr Bosphorus a môr Hellespont | Romania, y wlad a elwid *gynt* Thrace | Constantinopl<br>Adrianopl |
| Gogledd-barthau Groeg *gynt* | Macedonia - - - | Strymon<br>Contessa |
| | Thessaly - - - - | Salonichi |
| | Livadia, *gynt* Achaia a Boetia | Athens<br>Thebes<br>Lepanto |
| Ar fin môr Adria, y wlad a elwid *gynt* Illyricum, | Epirus - - - - - - | Chimœra<br>Burtrinto<br>Scodra |
| | Albania - - - - | Durazzo<br>Duloigno |
| | Rhan o Croatia - - | Bihaoz |
| | Dalmatia - - - - | Zara |
| Terfyn deheuol Twrci, rhan o Groeg *gynt* | Morea, yr hon a elwid *gynt* Peloponnesus | Corinth<br>Argos<br>Napoli di Romania<br>Lacedemonia, *weithian* Misistra<br>Olympia<br>Modon<br>Cotron<br>Patra<br>Elis *neu* Belvidere |
| Ynys Crete *gynt* | Ynys Candia | Candia |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Y cyffiniau gogleddol, trwy y rhai mae yr afonydd mawrion a elwir y Sav, Danub, ac y Dniester yn llifo trwyddynt, ydynt wastadoedd ëang, heb unrhyw fryniau ond y drûm sydd yn llunio rhan o derfyn rhwng Moldavia a Walachia ag Austria. Y broydd sydd o'r tu de i afon Danub, sydd anwastad gan amryw druman neu fryniau cribog, mynydd-dir uchel, a nentydd dyfnion. Ond mae yr holl dir yn dra llawn o drugareddau at gynnal dynol ryw, ac yn parhau i ddwyn cynnyrch toreithiol er gwaethaf diogi anianol y trigolion.

HIN A THYMHORAU.] Nid oes un wlad yn Ewrop yn meddu hin mor hyfryd â Thwrci. Mae ei sefyllfa dan yr un hingylch â gwledydd sydd a'u hinsoddau yn fwll ac afiach, ond o herwydd bod môr yn cylchynu ei pharthau dwyreiniol, deheuol, a gorllewinol; a chopa y mynyddoedd uchel sydd liosog ynddi, yn gwisgo eira agos trwy'r flwyddyn, mae ei hawyr yn dymherus trwy ystod haf a gauaf.*

* Dywed y dysgedig *Ovid* yr hwn oedd 1800 o flynyddoedd yn ol, yn garcharor yn y lle a elwir yn bresenol Bulgaria, fod yr hin yno ambell auaf cyn-

AFONYDD.] Afon Danub, yr hon sydd â hanes am dani o'r blaen, sydd yn llifo ychwaneg na phedwar cant milltir trwy Twrci, ac yn agos i filltir o led.

Afon Maritz, yr hon a elwid gynt Hebrus, sydd yn codi o drum Hœmus, ac wedi llifo 250 o filltiroedd, mae hi yn ymarllwys i fôr Ægea.

Afon Vardari, gynt Auxius yn codi o fynyddoedd Scardus, sydd yn ymuno â'r môr gwedi llifo o ddeutu 203 milltir.

Afon Eskar, gynt Oeskus sydd a'i blaenau yn nhrum Hœmus, ac yn ymuno ag afon Danub gwedi taith o 120 milltir. Afon Morava, gynt Margus sydd hefyd yn ymuno ag afon Danub, gwedi llifo tros 200 milltir. Afon Drin o ogledd-barth Albania sydd yn ymuno ag afon Sav. Y lleill er iddynt fod gynt o gryn sylw gan feirdd Groeg ydynt rhy ddystadl i sylwi arnynt yn y lle hwn.

LLYNAU.] Ychydig lynau sydd yn Twrci: y rhai hynotaf sydd yn Budzac, Walachia ac Albania, a dau neu dri yn nghymydogaeth dinas Ismail, ond o gan lleiad maint nad yw addas eu dysgrifio yma.

MYNYDDOEDD.] Mynydd Athos, ar fin môr Ægea, sydd hynod o herwydd lliosogrwydd y mynachdai, priordai, a meudwydai sydd ar hyd ei ystlysau, ac yn cynnwys ynddynt o ddeutu 600 o fynachod a chrefyddwyr ereill, y rhai ydynt gwedi ymwahanu oddiwrth y byd i'r dyben o fwynhau breintiau crefyddol yn ol egwyddorion eglwys Groeg. Mae rhai o honynt yn grefftwyr, megys seiri coed a cheryg, gwehyddion, garddwyr, &c. ac yn dylyn eu galwedigaethau yn mhlith eu brodyr mynyddig yn unig. O herwydd eu rheol o ochel gormodedd mewn bwyta ac yfed, maent yn gyffredin yn myned yn dra oedranus.

I'r gorllewin o Moldavia a Buckowina, cyfarfyddir â darn o drum Carpathia, o'r hon mae yn tarddu y drum sydd yn llunio terfyn gogledd a gorllewin Walachia. O'r tu de i afon Danub, canfyddir trum Hœmus, yr hon sydd hynod am uchder ei mynyddoedd, a tharddiad dwy drum arall o honi; un yn ymgyfeirio i'r gogledd orllewin rhwng Dalmatia ar y tu gorllewin, a Bosnia a Servia ar y tu dwyrain, ac y llall yn ymgyfeirio i'r de i lunio terfyn gorllewinol Groeg, tan enw mynyddoedd Albania. Y mynyddoedd mwyaf ereill ydynt mynydd Olympus, hynod am chwaryddiaethau arno yn yr amseroedd gynt; mynydd Ossa, mynydd Pelius, a mynydd Ida yn Crete.

LLYSIEUAETH.] Tra mae holl wledydd Cristionogol Ewrop gwedi i ddisgyblion y dysgedig Linnæus eu holrhain yn fanwl o berthynas i'w llysieuaeth, wele Twrci, y wlad brydferthaf ar wyneb daear, gwedi agos gwbl gae ei dorau hyd yn hyn, rhag dyfal-gais unrhyw lysieuwr. Mae broydd pellenig yr India, Japan, Holland newydd, diffaethfaoedd craslyd Affrica, corsydd afiach America, a pharthau anghysbell Siberia rewlyd, gwedi eu treiddio yn awyddus i gaffael gwybodaeth o'u llysieuaeth, anifeiliaid, mwn, â phethau cyffelyb; tra mae y wlad fu'n fam i'r celfyddydau a roddes drefn i wladwriaethau Ewrop, i'w derchafu goruwch teyrnasoedd y byd, yn sangfa ers oesoedd tan draed barbariaid ysgeler. Gellir barnu wrth liosogrwydd y derw, ffawydd, cedrwydd, &c. sydd ar gyffiniau Twrci, yn Hungari, Poland a Russia, mae gwlad dra ffrwythlawn ydyw.

---

ddrwg a'r dysgrifiad a roddir am Lapland. Wrth hyn rhaid fod yr hin yn myned yn fwy tymherus yn Ewrop o oes i oes.

Mwngloddiau.] Darganfuwyd yn y cynamseroedd fwngloddiau haiarn, efydd a plwm, mewn amryw ardaloedd o Twrci yn Ewrop, ond maent weithian tan gudd o herwydd diogi a difrawch anianol y trigolion. Yr oedd yn Macedonia yn amser Phylip, tâd Alexander fawr, fwngloddiau aur yn cynnyrchu gwerth tair miliwn o bunau yn flynyddol. Dywedir hefyd bod Phrygia a Troad yn yr amser gynt yn lliosog eu mwngloddiau arian. Marmor ynys Paros sydd enwog am ei wynder.

Ynysoedd.] Candia, yr hon a enwid gynt Crete, sydd a'i sefyllfa yn môr y canoldir, agos yn gyfbell oddiwrth Ewrop, Asia, ac Affrica. Ei hyd sydd 180 milltir a'i lled 40, ac yn cynnwys 5220 o filltiroedd arwynebol. O ddeutu ei chanol mae sefyllfa mynydd Ida, yr hwn sydd graig noethlom oddi fynu hyd i wared. Y dyffryn-dir sydd yn cynnyrchu gwinrawn, ac amryw ffrwythydd. Cylchynwyd y brif ddinas gan y Twrciaid yn 1645, a pharhaodd y gwarchae 24 mlynedd: a gwedi 56 o ymosodiadau arswydus, cydunwyd i'r Twrc ei meddiannu, ar ol iddynt golli 180,000 o'u milwyr, ac o'r Veniciaid o ddeutu 80,000.

Negropont, ychydig i'r dwyrain o Achaia, sy 90 milltir o hyd a 25 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 1300 o filltiroedd arwynebol. Y tir sy ffrwythlawn o yd, gwin, &c. Yma y gorwedd llongau rhyfel Twrci, a'r Capitan Pacha, y prif lyngeswr, yw llywydd yr ynys. Mae y llanw a thrai yn y culfor rhwng yr ynys hon a'r lan, yn anhawdd ei olrhain; canys o fewn tridiau i'r newid, hyd pan fyddo'r lleuad yn chwarter oed, mae y llifiant yn rheolaidd, ond ar y nawfed dydd dechreu y llanw a thrai fod yn fwy prysur, hyd oni chyflawnant eu gorchwyl ddeuddeng ngwaith yn y 24 awr.

Lemnos, yn ngogledd-barth yr ynys-for sydd o ddeutu 25 milltir o hyd a lled. Er fod helaethrwydd o yd a gwin ynddi, etto ei phrif gyfoeth yw pridd mwnaidd a eilw y Twrc *Terra Lemnia*, yr hwn a werthant yn feddyginiaeth rhag gwenwyn, ac i wella archollion, &c. Honai y beirdd mae yn hon y desgynodd Vulcan* gyntaf.

Scyros, o ddeutu 60 milltir o amgylchiad sydd hynod am weddillion hynafiaethau y sydd ynddi. Mae o ddeutu 300 o deuluoedd Groegaidd yn ei phreswylio.

Ynysoedd Cyclades, ydynt liaws o fân ynysoedd yn cylchynu ynys Delos, yr hon sydd gyfbell oddiwrth Asia ac Ewrop. Chwech milltir o amgylchiad ydyw, ac ynddi y dywedir i Apollo† a Diana|| gael eu geni, oddiwrth draddodiad a ddywed mae merddynau eu temlau nhwy sydd yno yn weledig hyd heddyw.

Palos, rhwng Luxia a Melos, sy hynod am liosogrwydd merddynau ei themlau, a gwynder ei marmor y sydd yn helaeth yn ei chloddfeydd.

Santorin, yn neheu-barth yr ynys-for sydd yn cynnwys o ddeutu 10,000 o eneidiau. Er fod ei gwyneb yn orchuddiedig gan losg-faen,

---

* Vulcan (yn ol barn hanesyddion cenhedlig) oedd dduw tân, mab *Jupiter* a *Juno*. Bwriwyd ef *meddant* o'r nefoedd o herwydd ei wrthyni, ac ar ynys Lemnos y disgynodd, lle y treuliodd flynyddau lawer i weithio estylch, peirianau, &c. i'r duwiau ereill.

† Apollo, duw goleuni a cherddoriaeth, mab *Jupiter* a *Latona*: Darlunier ef mewn amrywiol agweddau, ond hob tro a thelyn yn ei law.

|| Diana, chwaer *Apollo*, duwies diweirdeb, a brenines y coedydd. Cyflwynwyd temlau iddi agos yn mhob gwlâd oedd yn terfynu ar y môr, a thebyg mai oddiwrthi y tarddodd yr enwau Llan-ddwyn, Llanddwyn, Llundain, &c.

mae diwydrwydd y trigolion yn ei gwrteithio yn peri iddi fod yn ffrwythlawn o wenith, haidd, a gwinrawn. Yn 1707, tra bu daeargryn arswydus, cyfododd yn agos i Santorin o'r dyfnder, ynys o 6 milltir o amgylchiad, yr hon a barhaodd am rai dyddiau fal moel danllyd, yn saethu llosgfeini i uchder mawr, a mellt parhaus a tharanau dychrynllyd yn dylyn trwy gydol yr amser. Ei huchder sydd 200 troedfedd goruwch y môr. Amrywiol ereill o ynysoedd môr Ægea ydynt yn ymddangos fal pe bai i gyffelyb gynnwrf fod yn ddechreuad iddynt.

Yr ynysoedd yn môr Ionia, oeddynt yn meddiant Ffrainc, hyd oni ddygwyd hwynt oddi arnynt gan y Russiaid â'r Twrciaid, y rhai yn 1800, a'u lluniasant yn wladwriaeth tan enw Gwerin-lywodraeth y 7 ynys, a chydnabyddwyd hwynt felly, yn y cytundeb diweddar yn Amiens. Mae 10,000 o filwyr Russia yn cadw meddiant o honynt, a nhwy sydd yn goruch-lywodraethu y llywydd â'r senedd sydd dano. Y saith ynys ydynt Corfu, Paxo, Santa Maura, Cephalonia, Theaki, Zante, a Cerigo.

Corfu, ar gyfer Albania, sydd 45 milltir o hyd ac 20 o led. Ei hawyr sydd iachus, y tir yn ffrwythlawn, a'r cynnyrch sydd beraidd. Mae ynddi 70,000 o drigolion.

Paxo, ychydig i'r de o Corfu, sy 15 milltir o amgylchiad. Y cynnyrch ydyw gwin, olew ac almonau, ond ychydig yw ei thrigolion. Y brif ddinas yw San Nicolo.

Santa Maura, gynt Leucadia, sy 50 milltir o amgylchiad. Rhan o'r cyfandir oedd hon hyd oni thorodd y Carthaginiaid foryd o 60 llath o led rhyngddi â'r làn. Hon hefyd sy ffrwythlawn. Y brif ddinas St. Maura sydd yn cynnwys 6000 o drigolion, ac yn gadarn gan gaerau amddiffyn.

Cephalonia ar gyfer cul-for Lepanto, sy 40 milltir o hyd, ac o 10 i 20 o led. Mae yr hin yn dymherus, a chynnyrch y tir yn dra helaeth. Y trigolion ydynt 70,000.

Theaki, ynys fechan yn cynnwys 3000 o drigolion sydd hynod am mai ynddi y ganwyd Ulysses.*

Zante ychydig i'r gorllewin o Morea, sy 14 milltir o hyd ac 8 o led. Gwyneb fynyddig sydd i hon, er hyny llawn yw o'r un cynnyrch â'r lleill. Y trigolion ydynt 30,000. Y brif ddinas yw Zante, yr hon sy gadarn gan gaerau amddiffyn.

Cerigo, (hôff drigfan Venus† yn ol barn hanesyddion paganaidd) sydd yn sefyll i'r de ddwyrain o Morea, ac yn 50 milltir o amgylchiad. Y rhan fwyaf o honi sydd yn llawn mynyddoedd uchel, ond y gweddill sydd ffrwythlawn fal y lleill.

Yr ynysoedd ereill yn mharthau dwyreiniol yr ynys-for, sydd yn hanes Twrci yn Asia.

---

* Ulysses, brenin ynys Ithaca, mab *Laertes*, ac *Anticlea*. Bu yn-enwog yn y gwasanaeth a wnaeth i'r Groegiaid, yn ngwarchae Caerdroya.

† Venus, merch *Cœlus* a *Terra*, neu fal y dywed rhai, *Oceanus*; duwies cariad. Yr oedd ganddi liaws o demlau: y gwychaf oeddynt yn Amathus, Lesbos, Cnidus, Cythera, a Cyprus. Darlunier hi mewn cerbyd yn cael ei dynu gan golommenod, a'i mab *Cupid* a anwyd iddi o *Mars* yn ei dylyn.—*Homer*.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.—Moesau ac arferion.—Llywodraeth.—Crefydd.—Iaith. Dysgeidiaeth.—Milwyr a llongau rhyfel.—Cyfnewidiaeth.—Hynafiaethau.—Dinasoedd a threfydd.—Anifeiliaid.*

YCHYDIG mewn cymhariaeth i'r helaethrwydd o dir, yw trigolion ymerodraeth y Twrc, o herwydd fod y plâ o dro i dro yn gwneyd sarhâd anferth o ddistrywgar arni, â rhyfeloedd beunyddiol rhyngddi â'r galluoedd cymmydogaethol. Yn ol y cyfrif diweddaraf, dywedir bod Twrci yn Ewrop yn cynnwys 8 miliwn; Twrci yn Asia 10 miliwn, a Twrci yn Affrica 2½ miliwn; y cyfan yn ychydig mwy nag 20 miliwn o eneidiau.

MOESAU AC ARFERION.] Y Twrciaid ydynt dal-gryfion a thêg, o duedd ddifrif-ddwys a gostyngedig yn gyffredinol. Maent yn dra eiddugus ac yn hawdd eu tramgwyddo, ac ni orphwysant heb lwyr ymddïal. Arddangosant y fath gariad tu ag at eu brodyr Mahometanaidd ag yr adeiladant leteuau fforddolion yma ac acw yn anial-leoedd yr ymerodraeth, wrth y rhai y cloddiant bydewau, &c. i'r dyben o ddiwallu angenrheidiau teithwyr blinedig; ond tu ag at Iuddewon a Christionogion y sydd yn aml yn eu cyffiniau, ymddygant fal gelynion, yn enwedig oni edrychant yn fanwl am ufuddhau i'r cyfreithiau plentynaidd o liwio eu tai yn dywyll, o wisgo y dillad a bennodir gan y llys, o arddangos gostyngeiddrwydd i bob Twrc a gyfarfyddont, a'r cyffelyb. Eillia y meibion eu gwallt yn llwyr oddieithr cudyn ar y coryn, gan eu bod yn credu hen ddïareb sydd yn eu plith o "fod y diafol yn hoffi nythu mewn gwallt," ond gadawant y farf heb ei heillio. Eu gwisg yw y Turban yr hwn fydd am eu pen bob amser hyd onid elont i gysgu, a mâth o fantell sydd am eu cyrff, gwedi ei gwregysu am eu canol, ac o dani bydd dagr i ddïal llid y funud y digier hwynt. Eu llodrau a'u sana ydynt un ddarn, ac am eu traed gwisgant fath o sandalau, i'w tynu ymaith bob amser yr elont i dy neu deml. Gwisg y benywod sydd gyffelyb, ond fod ganddynt gapan tebyg i feitr am eu penau, llen gûdd ar eu hwynebau, a gwallt llaes, yr hyn a oddef y Coran iddynt hwy, gan nad perygl i unrhyw ellyll nythu yno, o herwydd fod ei egwyddorion gwyrgam yn honni nad oes enaid gan fenyw. Goddefir i bob Twrc (os myn) briodi pedair o wragedd, a chadw cynifer o ordderchadon ag a allo eu cynnal. Felly mae gan y mawrion buteindai yn cynnwys rhif liosog o fenywod prydferth: ond cymmaint yw ei hawydd anlladrwydd faeth ystod oes o ddiogi anifeilaidd, nad yw y cyfryw ymroddiad ysgeler yn marweiddio dim ar eu gwyniau trachwantus.

Cyn bwyta, adrodda y pen teulu ryw gyfran o'r Coran, yna eistedda y teulu ar lawr o gylch bwrdd isel, canys gwahardd y Coran iddynt unrhyw eisteddle arall, a gwedi darfod, chwiffiant dobaco am oriau bygilydd, heb ommedd mwynhau y cyfryw fwynder yn eu gwelyau y nos, pan gilio cwsg oddi wrthynt. A chan fod gwahardd-iad iddynt brofi gwin nag unrhyw ddiod gadarn, cnöant opium nes y byddo eu synhwyrau gwedi llwyr ymddrysu fal meddwyn. Nid oes ganddynt yr awydd lleiaf o wybod ansawdd unrhyw gainc o wybodaeth, cymmaint a daearyddiaeth eu bro eu hunain, ond cyflawn ymroddiad i dreulio eu hoes fal y soniwyd, neu ymddiddan a'u benywod, a barnu y gweddill o hîl Adda, ond Twrciaid, yn gwn a môch. Gwiri-

wyd hyn, pan adroddodd y cenhadwr ffrengig bod cynghrair deublyg weithian rhwng Austria â Ffrainc yn mhriodas Bonaparte â'r dywysoges Maria. "Beth yw hyny i mi:" meddai'r Sultan, "nid yw llys goruchel Twrci yn gofalu o berthynas i undeb y naill fochyn â'r llall." A phan adroddodd yr yn cenhadwr iddo am lwyddiant arfau ei arglwydd ar yr Yspaeniaid, "Pa waeth gennyf i:" meddai ef, "pa un ai y cî a fwyta y mochyn, neu yntau y mochyn y cî, tra y byddo amcanion fy llys i yn llwyddo."

Llywodraeth.] Mae pob rhwysg wladol yn gyfleüedig yn y Sultan, heb ganiatâd na senedd nag unrhyw gyngorfa. Ond gan fod y Coran yn cynnwys y cyfreithiau, nis gall y Sultan er mawred yw, eu cyfnewid, heb beryglu ei orsedd â'i fywyd; canys cenedl-ddyn ac nid Mahometan y barnid pwy bynag a'u troseddau. Y swyddogion goruchel megys y *Visier*, neu y prif weinidog; y *Kiaja* y nesaf mewn gallu; y *Reis-effendi*, neu prif ysgrifenydd y deyrnas; â'r *Aga*, blaenor y Janissariaid, ydyw y gwyr sydd yn meddu y sefyllfäodd mwyaf sigledig yn y deyrnas, gan mai mympwy y Sultan mewn un awr, a âll eu diosg o'u holl rwysg, a'u bywydau; ond iddo gael un o wyr ereill y llys i dyngu ar y Coran iddynt droseddu unrhyw gyfraith.

Crefydd.] Y grefydd Fahometanaidd* sydd freentiol yn holl ymerodraeth y Twrc, ond mae dwy ran o dair o'r gyfran sy dan ein sylw yn Gristionogion eglwys Groeg, os gweddus enw felly ar grefyddwyr mor ddirywiedig mewn moesau ac egwyddorion, ag yw y gainc fwyaf tywyll o Fahometaniaid. Y Coran, deddf-lyfr Mahomet, a ysgrifenwyd gan y twyllwr hwnw ychydig ganrifau gwedi dechreu yr oruchwyliaeth Gristionogol. Rhoddir ychydig o hanes am dano yn nys-

---

* *Mahometaniaeth* sydd gynnwysedig mewn 7 bwnc: dau o honynt am byncíau sylfaenol eu ffydd, ac y 5 ereill am grefydd ymarferol. Y blaenaf ydynt, credu nad oes onid un Duw, ac mai Mahomet yw ei brophwyd; yr olaf ydynt, 1. Bod pureiddiad y corff trwy olchiadau yn ddyledswydd arbenig i'w chyflawni. 2. Bod gweddiau i'w hoffrymmu ar yr amserau a nodir yn nghyfraith sanctaidd y Coran. 3. Bod elusen i'w chyfrannu yn fynych yn ol gallu y rhoddwr. 4. Bod ympryd trwy gydol mis *Ramezan* yn angenrheidiol; ac yn 5. Bod pereriudod mynych i Mecca yn dderbyniol gan Dduw, ac sea yn anhepgorol angenrheidiol i iechydwriaeth. Pureiddiad y corff a wneir trwy fynych ymolchi mewn dwfr, â'r lle y byddo prinder o honaw, gwna taenelliad o dywod mân y tro yn ei le. Y gweddiau sydd i'w hoffrwm bump gwaith yn y dydd, ond gallant esceuluso am yr hyd a fynont, ond iddynt fod yn sicer o gyflawni y rhif i fynu pan gaffont gyfleu addas. Yr elusenau ydynt tu ag at gynnal achosion eglwysig, sef adeiladu temlau, &c. Mae pob graddau trwy gydol mis Ramezan yn ymprydio bob dydd: ond y funud y machludo yr haul, maent yn ymroddi i loddesta ac i ymddifyru mewn chwaryddiaethau i'r dyben o anghofio eu penyd poenus. Gwedi terfyn ar ymprydio, maent yn parotoi i wneyd pereriudod i Mecca, yr hyn yw prif sail Mahometaniaeth. Yna cychwyna caravan Damascus, yn cynnwys pererinion o Ewrop ac Asia leiaf, i ymuno â caravan Arabia, ag a caravan Cairo, a byddant yn nghyd yn 200,000 o wyr, a chyd a hwy bydd nifer cymmaint o gamelod yn cludo ymborth iddynt trwy wastadoedd a chrasdir Arabia. Gwedi cyrhaedd o fewn ychydig filltiroedd i Mecca ymluniient yn amryw finteiodd, ac ânt o fintai i fintai i olwg y deml fawr, yr hon meddant sydd yn sefyll lle yr oedd pabell Abraham, a dolefa pob un, "Tangnefedd fyddo i genadwr Duw," yna offrymant eu gweddiau ac ânt rhagddynt i roddi tro seithwaith o amgylch y deml, gan weiddi hob tro, "dyma dy Dduw a'i was Abraham." Gwedi hyn cusanant yn dra syml gareg ddu yn y mur, yr hon meddant a ddisgynodd yn wen o'r nêf, ac ymollyngant i ffynon fawr gyfagos gan lefain, "maddeuant Arglwydd, maddeuant Arglwydd" yn ddibaid am gryn amser, a gwedi i'r cwbl gyflawni y ddyledswydd, ymuna y minteiodd i ddychwel i'w bro.

grifiad Arabia ei le ganedigol. Y *mufti*, neu ben eglwys Mahomet, sydd yn byw yn Constantinopl: efe sydd yn coroni yr ymerawdwyr, ac yn oracl iddynt ymofyn ag ef o berthynas i achosion pwysig. Y *moulahs*, neu esponwyr y Coran yw y nesaf i'r *mufti*; yna y *cadelesquiers*, y rhai gyd â bod yn offeiriaid, ydynt swyddogion gwladol; ac yn olaf yr *imams*, sef yr offeiriaid cyffredin y sydd yn gweinyddu gwasanaeth y mosque, sef enwaedu, priodi, claddu a'r cyffelyb.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Cainc o iaith Tartari yw iaith y Twrc. Mae hi yn dra hawdd ei dysgu, o herwydd nad yw ei rhanau ymadrodd yn treiglo fal ieithoedd ereill Ewrop, ond ni chyfrifir hi yn gynnwysfawr. Mae pob cainc o ddysgeidiaeth megys yn ffieidd-dra gan y Twrc: darllen y Coran ac ei esponio, ac ysgrifenu rhyw fâth o lythyr, yw cymmaint o wybodaeth ag y mae y Twrc yn gyffredin yn ei chwennych. Groeg, mam y celfyddydau â phob gwybodaeth fuddiol gynt, sy weithian yn cynnwys esgobion, offeiriaid, a mynachod Groegaidd, mor ofergoelus a thywyll â'r fagddu.

Y pader yn iaith y Twrc sydd fal hyn, *Bahamuz hanghe guiglesson, chuduss olssum ssenungh istegung ni esse gugthaule gyrde; echame gumozi hergunon vere bize begun, zem bassa bize bo slygomozi; nyeze hizde basiaruz borsetiglero mosi; hem yedma hize ge heneme; de churtule bizyjaramuzdan. Amen.*

Yr Arabaeg â'r Syriaeg sydd yn arferedig yn y rhan o Twrci sydd yn Asia; ond y Groegiaid a arferant lwgr yr hen iaith, a dyma y pader yn gynnrych o honi, *Pater hemas opios iso ces tos ouranous: hagiasthito to onoma sou: na erti he basilia sou: to thelema sou na genetez itzon eu to ge, os is ton ouranon to ptsomi hemas doze hemas Semoren: kæ sichorase hemos ta crimata hemon itzone, kæ hemas Sichorasomeu ekinous opou hemas adikoun: kæ meu ternas hemas is to pirasmo, alla soson hemas apo to kaxo. Amen.*

Milwyr a llongau rhyfel.] Mae tri mâth o filwyr yn Twrci, sef y Janissariaid, y spahiaid, a milwyr o'r ardaloedd teyrngedawl. Y Janissariaid ydynt yn gwarchod yn ngosgordd y Sultan: llunier hwynt o blant Cristionogion, gan mwyaf, a ddygir oddiar eu rhieni mewn brwydrau; ac addysgir hwynt o'u mebyd i drin arfau ac i ddyoddef caledi, fal y daethant o'r diwedd yn brif gryfder yr ymerodraeth. Y Spahiaid ydynt wyr meirch; ac y milwyr teyrngedawl ydynt o Tartari, Walachia, Moldavia, a Georgia. Heblaw y rhai hyn mae yn Twrci, liaws o filwyr gwirfoddol yn gwasanaethu er mwyn cael rhan o'r yspail; neu o fyned yn ddirwystr i Baradwys, os digwyddant syrthio ar faes rhyfel, canys felly y dysgir hwynt gan offeiriaid twyllodrus y Coran. Dywed Eton fod y gwyr traed yn 207,400; ac y gwyr meirch yn 181,000. Y llongau cyn y rhyfel ddiweddar rhwng Twrci â Russia oeddynt 18 o rai mawrion, ac o ddeutu 30 o rwyf-longau, ond weithian nid oes ganddynt haner y rhifedi.

Cyfnewidiaeth.] Ychydig yw awydd y Twrciaid, i ymgyfrinachu â chenedloedd ereill, er fod eu dinasoedd enwog a elwir Tyre, Sidon ac Alexandria, gynt yn brif farchnadoedd y byd adnabyddus. Gresynus fod gwlâd yn meddu pob mantais i rwyddo cludiad, mor glöedig gan dywyllwch anwybodaeth. Wele ei rhanau deheuol yn terfynu ar y môr coch, trwy yr hwn y gallant gludo cyfoeth o'r India, ac o ynysoedd môr y de; ac eu prif ddinas rhwng Ewrop ac Asia, ar agored gûl y môr du, yr hwn sydd yn golchi glenydd deheubarth Russia; ac yn

derbyn ffrydiau afon Danub, yr hon sydd fordwyol i Hungari, Austria, a rhanau ereill o Germani. Mae yr ychydig sebon, crwyn, cotwm, lliwiau, a chyffuriau meddyginiaethol, sydd yn y dinasoedd yn terfynu âr y môr, yn cael eu danfon allan mewn llestri dyeithrol, am y llwyth a gludwyd ganddynt yno. Iuddewon ac Armeniaid yn unig, yw y cyfnewidwyr yn y parthau tufewnol.

HYNAFIAETHAU.] Mae mwy o weddillion hen adeiladau gwych yn Twrci yn Ewrop, nag yn unrhyw wlad arall, gan na chyfarfyddir a na mynydd, na bryn, na glan afon, heb naill ai gweddillion temlau, oraclau, hafdai, chwareudai, neu ddarnau delwau, yma ac acw arnynt. Yn ninas Athens canfyddir merddyn teml Minerva* o farmor gwyn, a 46 o golofnau o'r un defnydd, ac yn 46 troedfedd o uchder yn ei chylchynu; hefyd gweddillion llys Adrian, a theml Jupiter Olympus† o'r un gwneuthuriad cywrain. Yr unig hen adeilad sydd yn gyfan, yw teml Sancta Sophia, yr hon a wnaed ers oesoedd lawer yn deml Fahometanaidd: colofnau marmor o amryw liwiau sydd yn dal ei phen, yr hwn sydd lawn o gerfiadau cywrain, a dywedir ei bod hi cymmaint ag eglwys fawr St. Pedr yn Rhufain.

DINASOEDD A THREFYDD.] CONSTANTINOPL, prif ddinas ymerodraeth y Twrc, a adeiladwyd gan Cwstenyn fawr ymerawdr Rhufain, yn y man yr oedd dinas Byzantium gynt yn sefyll, sef ar fin cul-for Propontis, yr hwn yw agored y môr du. Mae'r olwg allanol arni gan liosogrwydd y clochdai, tyrau, &c. yn fwy ardderchog nag yw hi yn dufewnol, o herwydd bod yr heolydd yn gulion, a phob adeilad hardd yn guddiedig gan furiau uchel, sydd yn eu cylchynu. Mae y llys ymherodrol cymmaint a thref fawr, ac yn gylchynedig â chaer deg llâth o uchder, ac arni naw porth: y godidocaf o honynt sydd yn rhoddi yr enw porth goruchel *(sublime porte)* ar wlad y Twrc. Mae yn yr adeilad hon bob gwychder a all mwngloddiau y dwyrain hyfforddio. Y cyntedd y bydd y Sultan yn derbyn y cenhadon o lysoedd ereill, sy gwedi ei goreuro ag aur â meini gwerthfawr, y tu hwnt i unrhyw gell freninol yn Ewrop. Mewn cwr arall o'r llys mae y Sultan yn cadw ei ordderchadon y rhai ydynt fenywod prydferth, wedi eu anrhegu iddo gan mwyaf o'r taleithiau, ac o ynysoedd Groeg, a'r rhan fwyaf o honynt yn gyffredin yn blant Cristionogion. Maent yn cael eu haddysgu yn holl arferion y llys, sef mewn cerddoriaeth, dawnsiau a phob agwedd lygredig a dueddo i foddio y Sultan. Mae eu rhif yn ymddibynu ar fympwy anllad y rheolwr. Yr oedd gan Selim 300 o honynt; gan Achmet 800, ac y mae y Sultan sydd yr awrhon ar yr orsedd yn boddloni ar 1600!!! Mae y ddinas yn drionglog, a mûr cadarn, a lliaws o dyrau arno yn ei chylchynu. Y trigolion, rhwng y rhai sydd yn y maes-drefi a elwir Galata, Pera, Tropbana, a Scutari, ydynt 400,000; o ba rai mae 200,000 yn Dwr-

* Minerva, duwies rhyfel, doethineb, ac y celfyddydau. O *Jupiter* y deilliodd hi yn gyflawn o faintioli ar ynys Rhodes.

† Jupiter Olympus, y mwyaf o holl dduwiau y Cenhedloedd, mab *Saturn* a *Rhea*. Dywedai y paganiaid truain oedd yn treulio rhan fawr o'u hoes, i'w addoli, fod ganddo awdurdod i ymnewid i unrhyw agwedd a dueddai i foddio ei amcanion, mewn pethau anianol neu wybrenol. Adeiladwyd temlau goreuwych iddo trwy'r holl fyd. Darlunier ef ar eryr, a mellt y taranau yn ei ddeheulaw. Cyfenwid ef *Olympus* am mai ar y mynydd hwnw y diagynai ar brydiau i gyfarfod ag is-dduwiau ei lys. *Cicero.*

eiaid, 100,000 yn Rocgiaid, â'r gweddill yn Iuddewon, Ffrankiaid, ac Armeniaid.

Adrianopl, y brif ddinas gynt, a adeiladwyd gan yr ymerawdr Adrian. Ei sefyllfa sydd ar afon Maritz, 140 milltir i'r gogledd orllewin o Constantinopl. Mae hon yn ddinas gaerog, ac ynddi lŷs breninol tra gwych, nifer liosog o demlau hardd, ac o ddeutu 80,000 o drigolion.

Philipopoli, sy ddinas wrthyn heb na chaer na chlawdd o'i hamgylch, yn sefyll mewn gwastadedd corsog, fal y bydd y llaid gwedi hir wlybaniaeth yn ddwy droedfedd o ddyfn ar ei heolydd, a'r dinasyddion yn gorfod gwneyd defnydd o'r ceryg llamau y sydd ar hyd pob heol.* Hon yw y drydedd ddinas o ran maint yn Twrci.

Sofia, i'r gogledd orllewin o Adrianopl, sydd yn cynnwys 70,000 o eneidiau; Silistria yn Bulgaria ar afon Danub, a Bucharest prif ddinas Walachia, sydd a 60,000 bob un: ond ni chynnwys Jassu, prif ddinas Moldavia, na Bender, prif ddinas Bessarabia ond o 10 i 12,000 o drigolion.

Belgrad, prif ddinas Servia, hynod am y dadl parhaus rhwng Austria a Twrci o berthynas i iawn hawl iddi, sydd weithian heb gaerau, ond yn cynnwys 25,000 o drigolion. Banjaluka yn Bosnia, sydd â 18,000 ynddi.

Salonica, yn un o'r taleithiau deheuol, ar fin yr ynys-for, sydd le o gryn gyfnewidiaeth, ac yn cynnwys 60,000 o drigolion. Ac o ddeutu 80 milltir i'r de, mae Larissa, yn cynnwys 25,000. Atini, sef Athens gynt, sydd weithian yn salw ei drych, ac felly yr holl fro o'i hamgylch a fu yn y cyn-oesoedd mewn celfyddydau a gwybodaeth, yn rhagori ar holl froydd y ddaear, ond weithian yn sangfa dan draed deiliaid bwystfil twyllodrus, y sydd ers oesoedd yn llwch yn ninas Mecca.

ANIFEILIAID.] Meirch Twrci ydynt hynod am ei bywiogrwydd, ac y mae y camel yma mewn cryn wasanaeth. Y gwartheg ydynt o dŵf mawr; ac hefyd y defaid, ond fod y gwlân sydd arnynt yn dra garw. Y lleill ydynt yr un â'r rhai a enwyd yn hanes Poland.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Twrci.*

TARTARIAID o fröydd gogleddol môr Casbin, oedd trigolion cyntaf Twrci, y rhai gwedi perchennogi Turcomania, a ymunasant â byddinoedd y Saraceniaid, ar gyfer yr amser yr oedd yr ymerodraeth fawr honno yn dechreu gogwyddo. Gan maï gwyr grymmus oeddynt, gwnaed hwynt o brysur yn filwyr i weinyddu yn ngosgordd y Caliph,† ond nid hir y buont heb ymderfysgu, a diosg eu harglwydd o'i goron ymherodrol, a gosod llywydd o honynt eu hunain ar yr orsedd.

Bu y Twrciaid gwedi hyn tan amryw dywysogion yn dra goruchafiaethus, ond nid oes genym hanes deg am danynt, hyd ddyddiau Ottoman, rhyfelwr dewr, a llwyddiannus yn ei amcanion, yr hwn

* Pinkerton's Oct. edit. p. 202.
† Enw oedd ar ymerawdwyr y Saraceniaid.

gwedi goresgyn Bithynia a gymmerodd arno enw Sultan, a choronwyd ef yn Prusa yn 1299. Oddiwrtho ef y gelwir Twrci ymerodraeth Ottoman.

Amurath I. ŵyr Ottoman, gwedi meddiannu Adrianopl, a'i gwnaeth yn brif ddinas yr ymerodraeth, ac a luniodd y milwyr a elwir Janissariaid gyntaf, y rhai a ddaethant yn fuan yn brif gryfder y deyrnas. Trwyddynt hwy y gorthrechodd efe ar wastadoedd Cesarea, fyddinoedd y Walachiaid, Hungariaid, Dalmatiaid, ac y Tubaliaid; ac yno, gan iddo yn esgeulus dramwy yn mysg y lladdedigion, y cafodd ei drywanu gan filwr pabaidd oedd gwedi ymguddio yn mysg y meirwon. (1389.)

Y nesaf oedd ei fab Bajazet II. yr hwn am iddo ymosod yn aflwyddiannus ar Constantinopl, a dynodd ei ddeiliaid yn ei ben: a gwedi cryn gythryfwl diosgodd chwech o'i dywysogion o'u hetifeddiaethau, y rhai o achos hyny a wahoddasant i'w hachub Tamerlane, un o dywysogion Tartari, ac o hilgerdd Genghiz Khan, yr hwn fuasai feddiannwr yr holl fro o afon Volga i China. Tamerlane, eisus gwedi dwyn Persia, India, a Syria dan deyrnged iddo, ac yn wych ganddo gael cyfleu i chwanegu ei rwysg, a flaenorodd ei luoedd yn erbyn y Sultan, a chyfarfu y ddwy-blaid rhwng Cesarea ac Ancyra, lle bu brwydr o'r echryslonaf. Ni wyddid gwedi oriau o ymladd o ba du y troi y fantol. O'r diwedd dechreuodd y Twrc gilio yn ol, a therfyn y frwydr fu i Bajazet gael ei gymmeryd yn garcharor, a'i roddi mewn cawell haiarn, lle y curodd ei fenydd yn fuan allan; ac i Tamerlane feddiannu Prusa y brif ddinas, ac anrheithio y wlad o ben bywgilydd. Collodd y pleidiau yn y frwydr hon 350,000 o filwyr.

Tamerlane, wedi ymlenwi o gyfoeth Twrci, ac wedi cael prawf o ddewrder y trigolion, a ddychwelodd i sicrau meddiant o'r gwledydd oedd eisus ganddo, gan adael Twrci yn llawn terfysg o berthynas i bwy a lenwai y gadair ymherodrol. O'r diwedd Musa, mab Bajazet a goronwyd, ond lladdwyd ef gan ei frawd Mahomet I, yr hwn hefyd a ddilynodd yr un llwybr cyn pen blwyddyn ar ei ol. Yna daeth y goron i'w fab Amurath II, yr hwn a flaenorodd ei fyddinoedd at gaerau Constantinopl, ond a alwyd yn brysur oddiyno i amddiffyn ei ddeiliaid rhag Huniades, blaenor byddinoedd Ladislaus VI. brenin Poland. Gwedi brwydr dost gwnaed cynghrair am ddeng mlynedd rhwng Amurath a Huniades; un a dyngodd ar y Coran nas torai, ac y llall ar yr efengyl. Felly Amurath a roddes ei goron am ben ei fab Mahomet II, iddo flaenori byddin gref i Asia, i amddiffyn y deiliaid oedd yno yn cael eu haflonyddu gan y Persiaid, gan feddwl nad oedd perygl bellach i'w ddisgwyl o Ewrop: ond cafodd ei siommi, canys annogodd y penadur Cesarini, cenhadwr y pâb yn Germani, i Ladislaus dori y llw a wnaethai, gan honni nad oedd niwed o dori llw a wnaed heb gydsynied y pab. Felly blaenorodd y pabydd brwnt fyddin gref i Twrci, a chyfarfu ag Amurath, a'i weddill filwyr, ar y maes y gwnaed y llŵ arno, a bu brwydr chwerw, yn yr hon y syrthiodd Ladislaus, a'r penadur twyllodrus, yn nghyd â 10,000 o Bwyliaid.

Mahomet II. gwedi ei sefydlu ar yr orsedd, a ymroddodd i geisio meddiannu Constantinopl yn brif ddinas i'w ymerodraeth: a gwarchaeodd arni yn ddioed: ond yr oedd y muriau cedyrn yn cael eu hamddiffyn mor wrol, a chadwynau haiarn gwedi ei gosod ar enau y borthladd, ni allai lwyddo yn ei herbyn o na thir na môr. O'r diwedd

mynodd gloddio ffôs ddwfn chwe' milltir o hyd o fôr i fôr, a gosododd goed ynddi ar ddull crŷd llong: felly trwy gynhorthwy peiriannau cryfion, ac ei filoedd milwyr, tynodd dros gant o longau o un môr i'r llall mewn un noson, yna rhuthrwyd ar y ddinas o'r ddeutu, a chymmerwyd hi. Ymddygodd Mahomet tu ag at y trigolion yn well na'r disgwyliad, canys gadawodd iddynt aros yn y ddinas, ac y mae eu hîl yno hyd heddyw. Fel hyn y bu terfyn ar ymerodraeth Rhufain yn y dwyrain, gwedi para o honi fil o flynyddoedd, er pan sefydlwyd hi yno gan Cwstenyn fawr.

Gwedi hyn, goresgynodd Mahomet Itali, a bu lwyddiannus i ennill Otranto, ond cyn cyrhaedd Rhufain, bu farw, (1461) a daeth ei fab Bajazet II. yn ei le, yr hwn gwedi rheolaeth fér ac aflwyddiannus, a wenwynwyd gan ei fab ei hun, trwy law iuddew meddygol.

Selim I. gwedi derbyn y goron, ac wedi ymwerthu bellach i wneyd pob drwg, a orchymmynodd lindagu ei unig frawd, yn nghyd â lliaws ereill o dywysogion y deyrnas, i'r dyben o gadarnhau ei orsedd: er hyny yr oedd ei arfau yn llwyddiannus yn mhob-mân: gorthrechodd yr Aipht, Aleppo, Antioch, Damascus, a Gaza, ac er iddo fod yn y brwydrau hyn ei hunan, cafodd farw yn ei wely!

Y nesaf oedd Soliman II, yr hwn oedd filwr enwog: goresgynodd Hungari, a chludodd ymaith 200,000 o'r trigolion yn garcharorion, Ond yn ei ymgais i ddwyn Malta oddiar ei pherchenogion, collodd 20,000 o flodeu ei fyddinoedd; ac yn fuan gwedi yn ngwarchae Sigeth yn Stiria, 30,000 yn ychwaneg, a bu y siomedigaethau hyn, yn angau iddo, (1565) a daeth ei fab Selim II. yn ei le.

Gwedi ymheddychu â Germani, troes Selim tu a Phersia, gan fwriadu ei goresgyn, ond bu aflwyddiannus: ac wrth ddychwel yn ol, meddiannodd Cyprus oddiar y Veniciaid, a chollodd 100,000 o'i wyr yn y tro, yr hyn a'i cynddeiriogodd i'r fath raddau, ag y mynodd flingo yn fyw lywydd yr ynys, ac arteithio y dewraf o'r trigolion yn mhob ystum annynol ag a allai ddyfeisio. Yna troes tu ag adref i barotoi llynges i'w gynnorthwyo i oresgyn Itali: ond yr oedd y pâb erbyn hyn yn deall ei amcan, a gwedi cael llynges Yspaen tan arweiniad don John o Austria i fyned i'w gyfarfod, ac yn nghul-for Lepanto, bu ymladdfa echrydus. Yr oedd y ddwy lynges gwedi eu llenwi o bob arfau dystryw ac oedd mewn bod: saethau, picellau, bachau, tryferau, gwnau, gwaewffyn, cleddyfau, bolltau tân, cyllill, &c. Felly ymfachodd y naill wrth y llall, ac ymladdasant hyd oni ddyfethwyd holl longau y Twrciaid, a mwy na haner y lleill. Collodd y Twrciaid 30,000 o wŷr yn y tro. Y pâb pan glywodd, ni allai gan lawenydd beidio llefain, "Yr oedd gwr gwedi ei anfon oddiwrth Dduw, a'i enw Ioan," a hyn mewn cyferbyniad i don John, ond Phylip* am unwaith heb fod yn ofergoelus, a lefarodd fal dyn, "Bu don John, yn dra llwyddiannus, ond fe redodd ar antur i berygl mawr."

Selim yn marw yn fuan ar ol hyn, coronwyd ei fab Amurath III. yr hwn a fu mewn brwydrau parhaus â'r Persiaid, a gwedi ei farwolaeth, derchafwyd i'r orsedd ei fab Mahomet III, tywysog annynol a haerllug: llindagodd 19 o'i frodyr ar unwaith, a bwriodd 12 o wragedd beichiogion ei dad i'r môr, ond daeth plâ fal barn i'w ddinystro yntef yn 1604, a daeth ei fab Achmet I. yn ei le.

Ar ei farwolaeth, Mustapha I, yr hwn fuasai yn ngharchar trwy ystod teyrnasiad ei frawd, a alwyd i'r orsedd, ond gwedi pedwar mis

* Brenin Yspaen.

o reoli. danfonwyd ef yn ol i roddi lle i'w nai Osman I. yr hwn a flaenorodd 300,000 o wyr i oresgyn Poland, a chan iddo fethu llwyddo, lladdwyd ef gan y Janissariaid, a galwyd Mustapha drachefn o'r carchar i'r orsedd; ac am na ryngai fodd iddynt mwy na'r waith gyntaf, gwenwynwyd ef, a chyhoeddwyd ei fab Amurath IV. yn ei le. Bu hwn yn enwog yn ei frwydrau yn erbyn Persia; ond mae ei enw mewn anfri am iddo droseddu yn erbyn y Coran, trwy yfed gwin un tro i feddwdod. Bu farw yn 1640.

Y nesaf oedd ei fab Ibrahim, tywysog anllad a brwnt: lladdwyd ef gwedi wyth mis o deyrnasiad, a chyhoeddwyd Mahomet IV. yn ei le. Parodd hwn angau 180,000 o dwrciaid wrth warchae am 24 mlynedd ar ddinas Candia. Soniwyd eisus hefyd am dano yn gwarchae ar Vienna, pan yr erlidiwyd ef ymaith gan Sobieski, brenin Poland. Difreiniwyd ef yn 1687, a'i frawd Soliman III. a ddaeth yn ei le.

Y nesaf oedd Achmet II; ac yna Mustapha II. yr hwn oedd dywysog dewr, ond aflwyddiannus yn y frwydr fu rhyngddo â'r tywysog Eugene, yn Zenta yn Hungari, lle y collodd 30,000 o wyr, yn nghyd â'i holl beiriannau rhyfel, fal y gorfu arno ar ammodau gwael gyduno i'r heddwch a wnaed yn Carlowitz yn 1699; a'i ddifreinio pan gyrhaeddodd y cartref, i roddi lle i'w fab Achmet III. yr hwn sydd enwog am ei haelioni i Charles XII. brenin Sweden, pan yr oedd gwedi dianc o flaen gelyn i'w fro am noddfa; ac o roddi heddwch i Pedr I, pan oedd gwedi ei gylchynu heb obaith ymwared.

Gan fod y tro olaf hyn gwedi bod tan sylw o'r blaen, rhoddir yma ychydig o hanes ymddygiad gwallgof Charles tra bu yn Bender.

Mae hyny o rinwedd yn perthyn i'r Twrc, sef o ddiogelu bywyd unrhyw dywysog, a ymofyno noddfa yn ei ardaloedd, trwy roddi at ei gynnaliaeth bob-peth a fyddo yn gweddu i'w sefyllfa, tra yr arhoso yno. Ond am Charles nid oedd deilwng o'r cyfryw ymddygiad, canys yn lle bod yn addfwyn, yr oedd yn haerllug, yn frwnt, ac yn anniolchgar, fal y gorfu o'r diwedd i Achmet anfon ato, gan ei alw "*y galluocaf yn mhlith y brenhinoedd y sydd yn addoli Jesu*" i ddymuno heddwch parhaus ag ef, ac iddo barotoi i gychwyn i'w frô ei hun, ac y danfonai filwyr i'w warchod ar ei daith. Ond Charles oedd hwyrfrydig, gan obeithio y medrai ail ennyn cynnen rhwng y Sultan a Pedr, trwy achwyn chwedlau gwrachiaidd ar Pedr wrtho, eithr Achmet ni wrandawai, danfonodd orchymmyn at swyddog Bender, iddo ef alw ar Charles i ddeisyf arno ymadael. Y swyddog a adroddodd iddo y genadwri, ond Charles yn sarug a atebai, nad â ef oddiyno hyd oni chafai arian i dalu ei ddyled. Pa faint meddai'r swyddog wnae'r tro? mil o bwrsau, atebai Charles ar antur. Yna aeth y swyddog ymaith i hyspysu i'r llŷs yr hyn a fu. Ar ddychweliad y genad, daeth yn lle mil, 1200 pwrsaid, a gorchymmyn i'r swyddog eu cadw hyd ddydd y cychwyniad: ond Charles dan y ffûg o ymbarotoi, a ddenodd y swyddog i'w rhoddi iddo y pryd hyny, gan addaw yn ddidor droi ymaith yn ddiatreg. Erbyn galw ar y dydd ammodol, atebai Charles yn gyrch, nad â ef oddiyno heb fil yn ychwaneg: ar hyn wylodd y swyddog a dywedodd, "myfi ynteu a gollaf fy mhen, am ufuddhau i'ch mawrhydi fal y darfum," ac a aeth ymaith yn athrist.

Achmet gwedi clywed hyn, a faddeuodd i'r swyddog, ac a alwodd wyr y llŷs ato, a dywedodd wrthynt fal hyn, "Nis adnabûm i frenin Sweden ond yn ei ddarostyngiad o'm blaen yn Pultowa: a phan erlidi-

wyd ef i'm bro, derbyniais ef yn garedig: gofynodd fil o bwrsau i dalu rhyw ddyled oedd arno, a rhoddais iddo 1200; er hyny dyma fe yn aflonyddu fy neiliaid, ac yn tyngu nad â ymaith heb fil yn ychwaneg. Felly gofynaf i chwi, a gaiff gwledydd dyeithrol lè i fy marnu yn frwnt, pe gyrwn y tywysog hwn o'm gwlad trwy orfod?" "Na chaent," atebai gwŷr y llŷs yn un-air, "byddai y cyfryw ymddygiad yn dra chyfion." Ar hyn danfonwyd y genadwri i swyddog Bender i'w hadrodd i Charles. A phan aeth ato, ymwylltiodd Charles gan ddywedyd yn sarug, "Ufuddhewch i'ch harglwydd os meiddiwch, ac ewch o'm gŵydd yn ddiatreg." Ar hyn daeth byddin y Sultan, a chylchynwyd gwersyll bychan Charles, yr hwn pan ganfu hwynt, a orchymmynodd i'w 300 gwr danio arnynt, ac felly bu gryn dywallt gwaed cyn ei gymmeryd ef ac ei wŷr yn garcharorion! Arweiniwyd Charles i Demotica, ond yno ffuantodd ei fod yn glaf, a chadwodd ei wely ddeng mis heb unrhyw achos, ond o geisio blino y Sultan, ac yna gyd â 60 o gerbydau, a 300 o wŷr meirch, ar draul y Twrc, danfonwyd ef mewn heddwch i'w gartref gwedi bod bum' mlynedd yn absennol!

Gorchwyl nesaf Achmet oedd ennill Morea oddiar Venice, ac y mae hi hyd heddyw yn meddiant Twrci: yna troes i Hungari lle y dyfethwyd ei fyddinoedd gan y tywysog Eugene yn 1718. Bu yn aflwyddiannus hefyd yn ei frwydrau â'r Persiaid, dan Kouli Khan, am hyny difreiniwyd ef yn 1730, a daeth Mahomet V. yn ei le.

Y nesaf oedd Mustapha III. brawd Osman. Yr oedd rhyfel ar droed y pryd hyn rhwng Russia a Twrci, a chan i Mustapha ymgecru â Phrydain, danfonwyd llynges i ymuno â llynges Russia yn ei erbyn. Cyfarfu y pleidiau allan i ynys Scio, a bu ymladdfa echryslon: rhyfelodd llong llywydd y Twrciaid â llong llywydd y Russiaid lawlaw, gwedi ymfachu o honynt y naill wrth y llall, nes y cymmerodd y ddwy dân, a'i chwythu i fynu yn chwilfriw. Ymdawelodd y lleill am ychydig, gwedi'r artaith ddychrynllyd hon, eithr ymadnewyddasant drachefn, a gorfu ar y Twrc ddianc i borthladd gyfagos, lle y dilynwyd ef yn min yr hwyr gan lestri tân tan arweiniad sais o enw Dugdale, a distrywiwyd ei holl lynges heb adael difyn yn ol. Yna aeth llynges y Russiaid i mewn, a rhoddasant y dref ar dân, a chwythwyd y castell oedd yn ei hamddiffyn yn chwilfriw, gan i dân gyneu yn y powdr oedd ynddo. Fel hyn y dyfethwyd llynges, castell, a thref, cyn 9 o'r nos, oeddynt y boreu cyn hyny yn hardd i edrych arnynt.

Ymheddychodd y pleidiau Gorphenaf 21, 1774, sef yn mhen ychydig fisoedd gwedi marw Mustapha. Dilynwyd ef gan ei frawd Achmet IV, pan y cyhoeddwyd rhyfel drachefn rhwng Twrci a Russia â Germani, a thra bu Achmet yn parotoi byddinoedd i'w darostwng, bu farw. Yr oedd hwn pe cawsai fyw, yn debyg o wneud rhyw les yn ei ddydd: dechreuodd arwain rhai ceinciau o wybodaeth i blith ei ddeiliaid, diwygio rhai cyfreithiau gorthrwm, ac yr oedd bywyd y swyddog a bechai yn erbyn y llŷs, yn fwy gwerthfawr ganddo, nag y danfonai filwr ato i nol ei ben, heb iddo gael gwybod paham, yn ol arfer ei hynafiaid.

Ei nai Selim III. yn 1789, oedd y nesaf a goronwyd. Troes hwn heibio gyngorwyr doethion Achmet, a diddymodd eu hamcanion, gan ddewis rhai hollol anaddas yn eu lle. Collodd yn ei frwydrau anffoddus â Russia 200,000 o wyr, yn nghyd â chaer amddiffyn Oczakow,

â'r holl fro o afon Bog i afon Dniester; ac oni bae nawdd Prydain fawr â Prussia o'i du, buasai y diryw yn llawer mwy.

Gwedi goresgyniad y Ffrancod ar yr Aipht yn 1798, ac eu hymlid-iad oddiyno gan arfau Prydain, penderfynodd Selim o arwain yr un defodau milwraidd i'w fyddinoedd ag oedd arferedig gan luoedd ereill Ewrop; ond y Janissariaid yn un-fryd a wrthwynebasant, gan honni bod y cyfryw gyfnewidiad yn erbyn egwyddorion y Coran. Selim i'r dyben o'u cospi am eu hanufudd-dod, ac o ddyfod â nhwy i gydsynio, a orchymmynodd nad oeddynt o hyny allan i'w ddilyn ef i'r Mosque,* ond y rhoddai y fraint honno i filwyr o îs grâdd, oedd yn barod i gof-leidio y drefn newydd. Ar hyn ymgynhyrfodd y Janissariaid, a rhuthrodd 3000 o honynt i'r llŷs, gan weiddi am benau y sawl a gyng-orai y Sultan i'w gwaradwyddo. Yn ofer y ceisiodd y Sultan eu tawelu, er iddo lindagu rhai, a dibennu ereill: ac yn y cythryfwl aeth rhai o honynt at y Mufti, i gael cenad i'w ddïorseddu, a chan fod ei oruchwyliaeth yn ymddangos o fod yn groes i'r Coran, rhoddwyd cenad i'w ddïarddel, a'i nai Mustapha, gwr ieuanc 27 oed, a ddyg-wyd allan yn nghanol bloeddiadau y Janissariaid, ac a goronwyd.

Mustapha V, gwedi caniatau ei fywyd i Selim, ar iddo ymostwng wrth ei draed i'w ofyn, a ddechreuodd ad-drefnu y pethau oeddynt gwe-di ymddyrysu. Mae weithian gwedi penderfynu o gadw y cyngbrair a wnaed trwy ystryw Ffrainc â Selim, er yr holl oruchwylion ys-plennydd a wnaed i Twrci trwy arfau Prydain fawr.

# ITALI.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.....Gwledydd. Taleithiau. Di-nasoedd.....Gwyneb y wlad.....Hin a thymhorau.....Afonydd.....Llyn-au....Mynyddoedd....Moelydd tanllyd....Llysieuaeth....Mwngloddiau.*

O Holl wledydd Ewrop, Itali sydd â'r enwogrwydd mwyaf yn per-thyn iddi, gan ei bod yn yr amseroedd gynt, yn orsaf un o'r ymerod-raethau mwyaf galluog a fu ar wyneb daear; a thrachefn am oes-oedd lawer gan rwysg eglwysig, yn rheoli holl wledydd crêd. Mae y wlad brydferth hon, yn sefyll rhwng hydred 38 a 46 yn ogleddol; a rhwng lledred 8 a 18½ yn ddwyreiniol. Ei hyd o fynydd Rosa i ben-rhyn Leuca sy 670 milltir, a'i lled cyffredin o fôr y canoldir i fôr Adria sy 100; ond o afon Adige ar derfyn Austria, i'r taleithiau ffrengig newydd a elwir Liman a Mont blanc (*gynt* Savoy) mae tros 200 milltir. Hi a gylchynir o du y dwyrain gan fôr Adria, o du y de a gorllewin, gan for y canoldir, ac o du y gogledd gan fynydd-oedd yr Alp, y rhai sydd yn derfyn rhyngddi â Ffrainc, Switzerland, a Germani.

Gwledydd, Taleithiau, Dinasoedd.] Yn holl oesoedd hanes-yddiaeth, gellir ystyried Itali yn dair rhan, sef y rhan ddeheuol, y rhan ganol, ac y rhan ogleddol. Gelwid y rhan ddeheuol yn yr amser

* Y deml ymherodrol a elwir Sancta Sophia.

gynt Magnæ Græcia, oddiwrth liosogrwydd y teuluoedd Groegaidd oedd yn ei phreswylio; y canol ydoedd gorsaf ymerodraeth Rhufain, ac Etruria; tra yr oedd y rhan ogleddol yn adnabyddus wrth yr enw Gaul Cisalpina Yn yr oesoedd canol, y ddwy eithafnod o Itali oeddynt deyrnasoedd Lombardi a Naples, a'r canol-barthau oeddynt Tuscani a thir yr eglwys. Ond weithiau er fod y rhan ddeheuol yn cadw yr enw Naples i fynu, mae y parthau canol, a'r parthau gogleddol gan y troion arswydus v sydd y pryd hyn ar droed yn Ewrop, yn ymgyfnewid yn eu dosbarthiadau mor fynych, nad oes modd i'w holrhain. Wrth ystyried Itali o fewn y terfynau uchod, dyma yw ei hamrywiol ranau,

| *Taleithiau.* | *Milltir arwyneb.* | *Trigolion.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|---|
| Gwladwriaeth Itali - - - | 9,280 | 3,555,500 | Milan |
| Gwlad. Ligurid neu Genoa - | 1,760 | 600,000 | Genoa. |
| Dugiaeth Venice - - - - | 8,000 | 2,000,000 | Venice |
| Dugiaeth Parma a Placentia | 1,440 | 250,000 | Parma |
| Gwladwriaeth Lucca - - | 368 | 120,000 | Lucca |
| Teyrnas Etruria - - - - | 7,360 | 1,050,000 | Fflorence |
| Gwladwriaeth San Marino - | 32 | 50,000 | San Marino |
| Tir yr eglwys - - - - - | 10,080 | 1,500,000 | Rhufain. |
| Teyrnas Naples a Sicily - - | 27,800 | 6,000,000 | Naples |
| Teyrnas Sardinia - - - - | 6,930 | 423,500 | Cagliari |
| Y cyfan | 71,050 | 15,504,000 | |

Gan fod holl daleithiau Itali a llywodraeth briodol yn perthyna iddynt, ac heb fod mewn cynghrair a'u gilydd, fal taleithiau Germani, rhoddir yma ychydig o hanes pob un o honynt.

ITALI.] Gwladwriaeth Itali, neu Gaul Cisalpina, yn ol y terfynau a roddwyd iddi yn 1797 gan Bonaparte, sydd yn gylchynedig o du y gorllewin gan Ffrainc, o du y gogledd gan fynyddoedd yr Alp, y rhai hefyd sydd yn derfyn rhyngddi â Switzerland, ac a'r rhânau o deyrnas Bavaria a elwir Grison a Tyrol: yna gwedi cyrhaedd blaenau afon Tagliamento mae Austria yn derfyn iddi hyd afon Sav; o du y de gan Tuscani neu deyrnas Etruria a chulfor Venice, ac o du y dwyrain gan Bosnia, Ysglavonia, a Twrci. Ei rhanau ydynt dugiaethau Milan a Mantua, y rhai oeddynt eiddo Austria; dugiaeth Modena, tywysogaethau Massa a Carrara, a thaleithiau oeddynt yn ddiweddar yn perthyn i Venice a elwid Cremasco, Bergamasco, Bresciano, a'r fro sydd i'r de o afon Adig a elwir Verona; tair o ardaloedd tir yr eglwys a elwir Bologna, Farrara a Romagna, a rhanau o wlad Grison a elwir Bormio, Valtelin, a Claevers. Y swyddi ydynt 13, sef Agogno, Lario, Milan, Serio, Mella, Po uchaf, Mincio, Crostolo, Panaro, Po isaf, Reno, Rubicon, a Verona. Bonaparte sydd weithian yn ei llywodraethu.

*Dinasoedd.*] Milan, y brif ddinas, sydd yn sefyll ar wastadedd rhwng afonydd Adda a Tesino. Mae caer gref yn ei hamddiffyn, ac mae o fewn ei phrif eglwys 4000 o ddelwau gwych. Y trigolion ydynt 130,000.

Mantua, ar afon Mincio, 220 milltir i'r gogledd o Rufain, ydyw y ddinas gadarnaf ei chaerau amddiffyn yn Ewrop. Y trigolion ydynt 12,000. Y lleill ydynt Pavia enwog am ei phrif ysgol a seiliwyd gan Charlemagne; Bologna yn cynnwys 80,000 o drigolion; Moden

30,000; â 100 o eglwysi; Ferrara dinas esgobaethol, Ravenna diweddar brif ddinas Romagna, a Verona ar afon Adig

Liguria] Mae y wladwriaeth hon yn sefyll yn nghwr gogleddol culfor Genoa. Gwerin lywodraeth oedd Liguria tan flaenor o enw dug a ddewisid bob dwy flynedd, ac a fyddai o leiaf yn 50 mlwydd oed. Bu mynych frwydrau rhwng y wlad hon â Venice, ac â Germani. Meddiannodd yr Austriaid y brif ddinas yn 1748, a brwydr echrydus a fu wrth eu herlid ymaith. Yn ol y drefn newydd a wnaed ar Liguria yn Paris yn 1801, mae senedd o 100 o aelodau tan flaenor o enw dug yn ei llywodraethu, ac yn talu o deyrnged i Ffrainc 600,000 o bunnoedd yn flynyddol.

*Dinasoedd.*] Genoa, y brif ddinas, ar fin y mor, a 70 milltir i'r de o Milan, sydd o ddeutu 6 milltir o amgylchiad, ac yn llawn o adeiladau ardderchog. Ei phorthladd sy gadarn gan amddiffynfeydd. Y trigolion ydynt 40,000. Y lleill ydynt Savona 20 milltir i'r de orllewin o Genoa, dinas esgobaethol ac ynddi 10,000 o drigolion; Noli, dinas esgobaethol ac enwog am ei phorthladd êang; Albengo, hynod am gryfder ei hamddiffynfeydd, ac ereill.

Venice] Dugiaeth Venice, i'r dwyrain o wladwriaeth Cisalpina, ac ar derfyn gogleddol mor Adria, enwog gynt am ei chryfder a'i threfn ddoeth o lywodraethu, sydd weithian yn perthyn i Austria, ac wedi ei rhanu yn saith dalaeth, sef Dogeat, Treviso, Padua, Vicenza, Verona, a Belluno, yr hon sydd dair rhan o enw Belluno, Feldre a Cadore. Bu y wlad hon am rai blynyddau yn y 15 ganrif, gan gadernid ei llyngesau, yn meddiant o Constantinopl, a rhan fawr o gyfandiroedd Ewrop ac Asia: bu yn fynych drachefn yn min distryw, gan gyfundeb galluoedd Ewrop yn ei herbyn, ac mor fynych trwy annrhefn ei gelynion yn cael ymwared. Ond ei chôlled o Morea i'r Twrc yn 1715 a iselodd ei brîg, fal y darfu y sôn am ddewrder ei thrigolion. Yn 1797 meddiannwyd y brif ddinas a'r wlad gan y Ffrancod, y rhai a'u gwnaethant yn ddeiliaid i ymerodraeth Germani. Doge, neu ddug, a ddewisid wrth goelbren oedd yn llywodraethu Venice cyn hyn, ond ychydig oedd ei awdurdod gan werin-lywodraeth y mawrion. Arferai bob iau dderchafael briodi y môr, trwy fwrw modrwy aur iddo o'i fâd breiniol a elwid Bucentaur; a derchafael 1796 fu y tro diweddaf, gan i'r Ffrancod ddannod ynfydrwydd y peth, a chludo y bâd i'w bro eu hunain.

*Dinasoedd.*] Venice sydd yn sefyll ar 72 o ynysoedd yn ngogleddbarth môr Adria, ac o ddeutu 5 milltir oddiwrth y tir. Ei heolydd hardd gan adeiladau gwych ydynt gamlesau, a chychod sy'n gwasanaethu yn gyffredin i'r naill gymmydog ymweled â'r llall. Mae o ddeutu 500 o bontydd ynddi, a 140,000 o drigolion.

Belluno ar afon Piav yn agos i fynyddoedd yr Alp, sy ddinas esgobaethol hardd; Vicenza 31 milltir i'r gorllewin o Venice sy ddinas gadarn a lliosog ei thrigolion; Cadore 15 milltir i'r gogledd o Belluno, &c.

Parma, &c.] Dugiaethau Parma, Placentia a Guastella, ar y tu de i afon Po, ydynt ardaloedd tra ffrwythlawn. Y dug cyntaf ydoedd fab ordderch i'r pab Paul III, tad yr hwn oedd gwedi uno Parma at dir yr eglwys. Dug o osodiad y Ffrancod sy weithian yn rheoli yr ardaloedd hyn.

*Dinasoedd.*] Parma, dinas hardd yn cynnwys 50,000 o drigolion, sydd yn sefyll ar wastadedd ffrwythlawn ar gainc o afon Po. Placentia, 32 milltir i'r gogledd orllewin o Parma sy ddinas esgobaethol, a chaer yn ei hamddiffyn ac yn cynnwys 30,000 o drigolion. Guastella hefyd ar afon Po sydd a 10,000 o drigolion ynddi, a Campo Moldo sydd hynod am mai yn agos iddi y bu brwydr fuddugoliaethus i Hannibal ar y Rhufeiniaid.

ETRURIA.] Teyrnas Etruria, yr hon a gylchynir agos oll gan dir yr eglwys a môr y canoldir, sydd yn cynnwys diweddar ddugiaeth Tuscani, ardal *degli Presidi*, a thywysogaeth Piombino, y rhai a ddygodd y Ffrancod oddiar dug Leopold yn 1801, gan eu rhoddi i dug Parma, yr hwn yn fuan gwedi a wnaed yn frenin.

*Dinasoedd.*] Cortona y brif ddinas, 78 milltir i'r gogledd o Rufain sydd a muriau tra chadarn yn ei chylchynu. Ei hadeiladau amrywiol sydd hardd. Fflorence y nesaf mewn maint ac yn sefyll ar afon Arno, sydd a 60,000 o drigolion. Leghorn ar fin môr y canoldir sydd enwog am helaethrwydd ei masnach. Y trigolion ydynt 40,000, o ba rai mae 10,000 yn Iuddewon. Pisa sy ddinas enwog, ac hynod am fod clochdy y brif eglwys gwedi gogwyddo ers cantoedd o flynyddau, cymmaint ac y byddai i blwm a gwympa o'i ben ddisgyn 12 troedfedd oddiwrth gwr isaf y mûr.

ST. MARINO.] Mae y wladwriaeth fechan hon yn perthyn i dir yr eglwys, ac nid yw ei thrigolion, a chyfrif teulu y brif ddinas, yr hon sydd o'r un enw, oddiar 50,000.

TIR YR EGLWYS.] Y tir ëang hwn sydd yn cyrhaedd o fôr y canoldir i fôr Adria; Naples yn terfynu ar y tu de iddo, ac Etruria a gwladwriaeth Cisalpina ar y tu gogledd. Ei hyd o aber afon Tiber i Senegalia ar fin môr Adria, sydd 155 milltir, ac ar draws yn 110—75—127 milltir; y cyfan yn 9,120,000 o erwau, a'r trigolion sydd yn ei gyfanneddu yn 1,500,000. Matilda iarlles Tuscani yr hon oedd etifeddes y rhan fwyaf o Itali a roddodd y ddarn gyntaf o honaw i'r pâb Gregori VII, ac ni ommeddodd ei ddilyniedyddion gydio maes at faes hyd oni chynnyddodd i'w faintioli presennol. Mawr fu rhwysg blaenoriaid y fro hon am gantoedd o flynyddau: penau coronog yn gystal a gwerin yn crynu dan eu bachau gorthrwm, ond daeth awr machlud haul arnynt hwythau: Pius VI, yn nechreu y dadymchweliad ffrengig yn ymuno â'r pleidiau yn erbyn Ffrainc, goresgynodd Bonaparte ei ardaloedd, a dïosgodd ef o'i holl rym gan gludo i Ffrainc y delwau aur, darluniau, a phethau gwerthfawr ereill. A chan i Duphot blaenor byddinoedd y ffrancod gael ei lâdd mewn cythryfwl a gododd yn Rhufain yn fuan gwedi, carcharwyd y pab hyd ei farwolaeth yn 1799. Fel hyn y trefnwyd i ormeswr annuwiol derfynu rhwysg bleiddiaid rheibus.

*Dinasoedd.*] Rhufain, arglwyddes y byd yn yr amseroedd gynt, yn 10 milltir o amgylchiad ac yn cynnwys o ddeutu 160,000 o eneidiau, sydd yn sefyll ar saith o fryniau ar fin afon Tiber. Mae ynddi hen adeiladau tra gwych, a rhai o honynt mewn bod gantoedd o flynyddau cyn crêd, megys y Pantheon yr hon oedd deml wych i'r holl dduwiau, ac a fu yn wasanaethgar am flynyddau lawer i'r gorchwyl cyn gwawrio o'r oruchwyliaeth efangylaidd. Mae hi weithian ers mwy na mil o flynyddau yn dŷ addoliad i'r pabyddiaid. Ond eglwys fawr

St Pedr gan ei maintioli a'i harddwch, sydd yn rhagori ar y cyfan sydd ynddi.

Bologna, Fterara, Ravenna, Rimini, gynt yn eiddo tir yr eglwys, ydynt weithian yn perthyn i wladwriaeth Cisalpina. Ancona ar fin môr Adria sydd le o gryn gyfnewidiaeth ac yn cynnwys 20,000 o drigolion. Llawer ereill o ddinasoedd enwog gynt ond yn adfeiliedig yr awrhon sydd yn y parthau hyn. Loretto, tref fechan wael, sydd era blynyddau weithian yn gyrchfa pererin i oniweled y tŷ y dywedir i Mair fyw ynddo yn Nazareth, yr hwn a gludwyd yno mewn modd gwyrthiol ar ysgwyddau angylion, ac i holl goed y maes oedd yn ei arfod ymgrymmu iddo, â llawer o ddywediadau gwyrgam ereill aubawdd eu credu. Dygodd Bonaparte yr holl offrymmau o aur, arian, a meini gwerthfawr oedd ynddo, ac nid ychydig o werth oeddynt.

Naples a Sicily.] Brenin Naples a Sicily, neu fal y gelwir ef yn fynych brenin y ddwy Sicily sydd a'r wlad helaethaf yn ei feddiant o un yn Itali Mae y deyrnas hon yn gylchynedig gan fôr y canoldir, a môr Adria o bob tu, ond y cwr gogleddol, yr hwn sydd yn terfynu ar dir yr eglwys; yn 28,000 a filltiroedd arwynebol, ac ynddi 6,000,000 o drigolion. Bu Naples a Sicily yn meddiant y Groegiaid, Saracenaid, Normaniaid, ac yn olaf gan yr Yspaeniaid, y rhai oedd yn ei meddiannu yn nechreu y dadymchweliad ffrengig, pan y daeth yn eiddo y Ffrancod.

*Dinasoedd.*] Naples, y brif ddinas, sydd yn sefyll ar ochr bryndir yn nghulfor Naples. Yr adeiladau ydynt uchel a hardd, a'u penau gwastad yn dryfrith o flodeu yn tyfu o lestri arnynt. Bygythion mynych moel danllyd Vesuvius i'w dinystrio, sydd yn rhwystro i'r ddinas hon fod yn annedd fwyaf hyfryd yn Ewrop. Y trigolion ydynt 380,000.

Palermo, prif ddinas ynys Sicily, sy hefyd a'i hadeiladau yn hardd ac yn cynnwys 130,000 o drigolion. Brindisi fu yn enwog gynt sy weithian ag ol arfau distrywgar y Twrc arni. Benevento a Reggio, ydynt hynod am weddillion hynafiaethau ynddynt. Messina yn Sicily sy ddinas hardd yn cynnwys 30,000 o drigolion: dyfethwyd rhai o'r adeiladau gan ddaear-gryn yn 1783, yr hon rhwng Sicily a Calabria a barodd angau 40,000 o drigolion.

Sardinia.] Y deyrnas hon i'r gorllewin o Naples, sydd ynys yn môr y canoldir, yn 140 milltir o hyd a 70 lled. Y Carthaginiaid oedd ei thrigolion cyntaf, ond erlidiwyd hwynt oddiyno gan y Rhufeiniaid, ac ar ogwyddiad yr ymerodraeth hono, daeth i feddiant Yspaen hyd 1708, pan y cymmerwyd hi gan Prydain, i'w rhoddi i Charles VI o Germani, yr hwn drachefn a'i rhoddes am Sicily i dug Savoy yn 1720. Goresgynwyd hi yn 1794 gan y ffrancod, ond methasant ei meddiannu, ac Emmanuel V o deulu Savoy sydd yn ei llywodraethu.

*Dinasoedd.*] Cagliari, y brif ddinas, sydd a'i hadeiladau o ran eu gosodiad yn annrhefnus, ond porthladd gyfleus ac ëang sydd iddi. Y trigolion ydynt 35,000. Y trefydd Villa D'Iglesia, Palmas di Solo ac Oristagno ydynt o gryn sylw gan gryfder eu hamddiffynfeydd.

Gwyneb y wlad.] Mae prydferthwch gwyneb Itali yn denu serch pawb a'i hymdeithio, gan fod yr holl wastadir yn dryfrith o erddi, gwinllanoedd ac olewyddlanoedd, a'r maesydd ëang o ŷd a phob grawn adnabyddus yn Ewrop, yn gylchynedig o boblys tal, llwyfen a morwydd, y rhai ydynt ategion i'r winwydden ffrwythlawn i droi o'u cylch.

Ochrau y mynyddoedd hefyd sydd hardd gan goed ffrwythlawn, a rheieidr yn ymdywallt i'r afonydd sydd yn troelli trwy y ceunentydd cyfagos. A thra mae y llygad fal hyn yn cael pleser o syllu ar natur yn ei harddderchowgrwydd mwyaf, mae y meddwl yn ymblesera yn ngweddillion gorchestion celfyddyd, yn niwyg heu adeiladau harddwych o farmor gwyn, yn demlau, chwareudai, hafdai, a'r cyffelyb y sydd yn dryfrith trwy y wlad.

HIN A THYMHORAU.] Hin Itali a golygu y wlad yn gyffredinol, sydd hynod o dymherus Mae yr iâ oesol y sydd ar fynyddoedd yr Alp yn y parthau gogleddol yn effeithio ar ei lle lletaf a elwir Lombardi am ychydig amser yn y gauaf; trum Appenin hefyd sydd yn tymheru yr hin yn y parthau canol; ond yn y rhan ddeheuol mae gauaf yn colli ei rheolaeth yn llwyr. Bydd weithiau i wyntoedd poethion o Affrica; â gwlaw trwm yn ei ddilyn wneyd cryn sarhâd ar gynnyrch y gwinllanoedd.

AFONYDD.] Afon Po sydd yn codi yn mynyddoedd yr Alp, ar y terfyn rhwng Itali a Ffrainc. Mae lliaws o afonydd o'r un drûm yn ymuno â hi cyn cyrhaedd dinas Turin: yr hynotaf o honynt ydynt afon Tarano ar y tu de iddi, ac afonydd Doria, Tesino, Adda, ac Oglio ar y tu gogledd, y rhai ydynt yn cludo iddi ddyfroedd holl lynau yr Alp, yna gwedi dylifo trwy wastadir Fferarese a derbyn lliaws o ffrydiau ereill o'i deutu, mae hi yn ymarllwys trwy amryw aberoedd i for Adria, gwedi rhedeg tros 360 milltir.

Afon Var sydd a'i blaenau yn mynyddoedd yr Alp, a'i harllwysiad yn môr y canoldir ychydig i'r de o Nice.

Afon Adig sydd yn codi yn mynyddoedd Tyrol; ei rhedfa sydd heibio dinas Verona i fôr Adria, ychydig i'r gogledd o aberoedd y Po, gwedi llifo 200 milltir.

Afon Tiber sydd yn codi yn mynyddoedd Appenin, ac yn derbyn 42 o ffrydiau, enwog gynt mewn hanesyddiaeth, cyn ymarllwys i fôr y canoldir, wrth ddinas enwog Rhufain. Ei hyd yw 150 milltir.

Afon Arno sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Appenin, a'i harllwysiad yn nghulfor Genoa. Dyma yw y prif afonydd yn mhlith ugeiniau o rai bychain na oddef cylch y gwaith hwn roddi hanes am danynt

LLYNAU.] Mae o ddeutu mynyddoedd yr Alp liaws o lynau yn derbyn maeth gwastadol o gelloedd oerion yr iâ. y sydd yn oesol yn gorchuddio y drûm. Y mwyaf yw llyn Maggiore neu Locarno, yr hwn sydd 27 milltir o hyd, a 3 drwyddo draw o led: ei lenydd sy dryfrith o glogwyni serth, coedydd a llysiau. Llyn Lugano i'r dwyrain o lyn Maggiore sydd hynod am fod ynddo liaws o ynysoedd yn addurnedig o adeiladau hardd, gerddi a gwinllanoedd ffrwythlawn, ac yr olwg arnynt yn dwyn i gôf brydferthwch Paradwys gynt. I'r dwyrain o lyn Lugano mae llyn Como yr hwn sydd 32 milltir o hyd a 2¼ o lêd. Yn nes eto i'r dwyrain mae llyn Garda yn 30 milltir o hyd ac 8 o lêd Prif lynau y canol-barthau ydynt Perugia, Colsena, Albano a Nemi; ac yn y parthau deheuol, mae Celano a Verano, y rhai oll ydynt fwy hynod mewn hanesyddiaeth hynafiaethau na maintioli.

MYNYDDOEDD.] Y mynyddoedd hynotaf yn Itali, ac yn Ewrop, ydyw mynyddoedd yr Alp, y rhai sydd yn llunio y terfyn rhwng Itali, a Ffrainc, Switzerland a Germani. Mae y drum wrth ddechreu yn min y môr ychydig i'r gorllewin o Oneglia, agos mor isel ag yw y Wyddfa, ond oddiyno gan gyfeirio i'r gogledd am 120 milltir yn uwch ac

uwch, hyd at y mynydd gwyn yr uchaf o'r cyfan Oddiyma mae'r drum yn cammu i'r gogledd ddwyrain gan arddangos ei mynyddoedd uchel a elwir St. Bernard yr hwn sydd 2642 o latheni o uchder; Mauda, Combin, Cervin a mynydd Rosa, yr hwn sydd agos cyfuwch ag yw y mynydd gwyn. O fynydd Rosa mae y drum yn parhau i gyfeirio i'r gogledd ddwyrain heibio Simplon, a thrwy fro Grison i Tyrol, gan derfynu yn mynyddoedd Salzia: y cyfan yn estyn tros fwy na 500 milltir o dir, ac at ei gilydd o ddeutu 2000 o latheni o uchder. Defnydd y drûm ydyw gwenith-faen, calch, mica, quartz, Schistus, a Serpentine.

Trûm Appenin, cainc o fynyddoedd yr Alp, sydd yn dechreu yn gyfagos i Ormea, ac yn cylchynu cul-for Genoa o'r ddeutu: yna gan gyfeirio i'r tir, mae hi yn rhanu Itali o'r naill ben i'r llall. Nid yw mynyddoedd y drum hon mewn cymhariaeth i'r Alp ond bryndir uchel.

Moelydd tanllyd.] Mynydd Etna yn ynys Sicily, sydd 180 milltir o amgylchiad, ac yn 3652 o latheni o uchder. O ddeutu ei odrau mae trefydd hardd, mynachdai, maesydd ëang o ŷd, gwinllanoedd, &c; ar ei ganol mae coed derw, pinwydd, morwydd, &c, yn tyfu i faintioli mawr; ond ei gŵr uchaf sydd dryfrith o eneuau tanllyd, tanfaodd ëang o ludw, a rhew oesol. Yn 1694, saethodd i uchder mawr ddefnyddiau llosgedig am fis cyfan: syrthiodd rhai darnau 30 milltir oddiwrth y mynydd. Yr oedd hefyd ffrŵd o elfenau tanllyd o honaw yn llunio afon am dair milltir o hyd, yr hon a ddistrywiodd bob peth yn ei chyfar. Yn 1767, bwriodd y fath gyflawnder o ludw ac y parodd guddio goleuni y dydd yn llwyr, a disgynodd trwch o'r lludw ar longau 60 milltir oddiwrth y tir. Y daeargrynfâu y sydd yn gyffredin yn rhagflaenu y cynnyrfiadau mawrion ydynt dra arswydus, megys yr un yn 1669, yr hon a ddistrywiodd 14 o drefydd; ac un arall yn 1693, yr hon a lyncodd ddinas Catania ac o ddeutu 18,000 o drigolion.

Mynydd Vesuvius, saith milltir i'r dwyrain o Naples, sydd lawer llai nag Etna ond yn fwy dychrynllyd gan y twrf parhaus y sydd o fewn iddo, ac amledd y daeargrynfau pan y byddo yn addfed i fwrw ei elfenau toddedig allan. Mae y mynydd hwn yn tebygu i Etna mewn gwinllanoedd yn llenwi ei odrau, coed ar hyd ei ystlysau, ac iâ a geneuau tanllyd yn toi ei bèn. Bu gynnwrf echrydus ar hwn yn y flwyddyn 72, pan y bu i'r ddaeargryn a ragflaenodd ymfwriad y ffrŵd danllyd, ddadymchwel dinasoedd Pompeii, Herculaneum, ag ereill, a llenwi tros fwy na 100 milltir o ddeutu y mynydd â mwg drewllyd dudew yn gymmysgedig â marwor tanllyd. Y cynnwrf hynotaf yn ddiweddar oedd yn 1794, pan y gorchuddiodd y ffrŵd danllyd dref Torre del graco, gan adael braidd amser i'r trigolion ddianc; ac hefyd tros 5000 o erwau o winllan-dir brâs

Mynydd Stromboli, ar ynys o'r un enw yn mhlith ynysoedd Lipari, yw y foel danllyd hynotaf o'r cyfan, gan nad yw un amser heb fwrw tân fflamllyd o rai o'i eneuau. Geilw morwyr ef goleudy môr y canoldir. Mae trigolion lawer yn cyfanneddu ystlysau ffrwythlawn hwn, ac wedi ymgynnefino a'i dwrf tufewnol y sydd fal twrf miloedd o reieidr, neu ergydion dychrynllyd peiriannau rhyfel.

Llysieuaeth.] Itali a ellir ei hystyried yn fwyaf ei hamrywiaeth o lysiau o un wlad yn Ewrop. Odrau y mynyddoedd sydd lawn o bob math o goed, a'r gwastadir sy dryfrith o faesydd ëang o ŷd,

gerddi, olewydd-lanoedd, a gwinllanoedd. Mae y ffrwythydd y sydd yn tyfu yn Mhrydain mewn twym-dai, yma yn cynnyrchu yn doreithiol yn y maesydd agored, fal nad yw y cyflawnder o afalau, gellyg, lemonau, cnau, ffigys, eirin, &c. yn dwyn fawr elw i'w perchennog.

MWNGLODDIAU.] Bu amryw fwngloddiau yn agored yn Itali yn y cynamseroedd, ond nid oes weithian nemawr, oddieithr ychydig o gloddfeydd haiarn ac efydd y sydd yn Naples. Dywedir y bu cloddfeydd Sardinia yn cynnyrchu aur, arian, plwm ac haiarn gynt, ond ychydig yw y sôn am danynt yn bresennol. Y meini gwerthfawr a elwir emerald, jasper, agate, porphyry a marmor, sydd yma ac acw ar hyd y mynydd-dir yn dwyn cryn elw.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion....Llywodraeth ...Crefydd.....Iaith. Dysgeidiaeth.... Milwyr....Hynafiaethau....Anifeiliaid. Ynysoedd.*

DYNION bywiog ac hardd o gorffolaeth ydyw yr Italiaid, o ran eu cynneddfau yn dreiddgar, o ran eu gwisg yn syml, ond o ran agwedd gyffredinol yn dra anfoesol. Mae y rhinwedd hyny yn perthyn iddynt o ymatal oddiwrth ddïod gadarn; ac o ufuddhau yn siriol i'r cyfreithiau gwladol, heb fwrw yn ol pa un ai coron ai meitr fyddo ar ben y rheolwr. Cyfrifir hwynt yn fwy dïalgar na gwrol, yn fwy distaw na myfyriol, ac yn fwy ofergoelus na chrefyddol. Gwell ganddynt hefyd na hilio eu byrddau ag amrywiaeth o ddanteithion, ydyw addurno eu tai â dodrefn gwerthfawr, eu gerddi â hafdai, tyrau, pistilloedd, ffynonau, &c. a'u mynachdai â delwau neu luniau gwych: ac ni ommeddant roddi yn hael tu ag at gynnal rhedeg gyrfäoedd meirch, hela, a phob math o gampau gorchestol; hefyd tu ag at adeiladu miswrndai o wledd a llawenydd, a chwareudai, gan roddi cyflawn rwysg i'r chwantau anianol o dreulio cymmaint o amser ag a allant sul a gwyl ynddynt. Mae anlladrwydd yn dra amlwg yn mhlith yr Italiaid, gan na ommedd y rhïeni i rwystro y mab briodi un yn erbyn eu hewyllys, logi benyw anniwair iddo wrth y mis neu y flwyddyn, ac er iddi aros tan yr un gronglwyd â'r rhieni, nid oes unrhyw warth yn dilyn y gorchwyl: os y ferch hefyd a fygwth ymuno â rhyw un croes i anian y teulu, ni ommeddir y cyfryw fwynder iddi hithau hyd odfa addas. Ond y gorchwyl mwyaf annuwiol y sydd arferedig yn mhlith y bobl gyffredin, yw, dyspaddu cynnifer o'u bechgyn tan flwydd oed, i'r dyben o'u gwneyd yn addas i ganu yn y chwareudai, ac o ddwyn elw da i'w rhïeni annynol a phechadurus.

Mae y marw yn cael ei gludo i'r llân yn ei wisg oreu, heb arch am dano na llên drosto, a phan ddarllener yr offeren, cludir ef yn ol i'w dŷ, i'w ddïosg o'i wychder a rhoddi sach-lian yn unig am dano i'w gladdu yn ddirgel y nos ganlynol.

LLYWODRAETH.] Eugene Beauharnois mab gwraig gyntaf Bonaparte sydd yn llywydd ar Itali; a Murat, milwr ffrengig sydd frenin Naples a Sicily. Gan mai Ffrainc sydd yn rhoddi y cyfreithiau i'r gwledydd hyn, oedir eu dysgrifio hyd oni ddel y wlad hono tan ein sylw.

CREFYDD.] Eglwys Rhufain* sydd yn ben yn holl ardaloedd Itali, ond mae rhyddid i bob enw Cristionogol fwynhau breintiau crefyddol heb rwystr, a hyn cyn i'r llywodraeth bresennol gymmeryd lle. Ni bu y chwil-lys yma tan reolaeth y pabyddion creulonaf mor erlidgar ac yn Yspaen a Phortugal. Y pab pa bynnag ai caeth ai rhydd a fyddo, ydyw pen yr eglwys: dewisir ef gan y 70 penaduriaid.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Iaith Itali sydd yn deillio o'r iaith Lladin, ond mae rhai geiriau o ben ieithoedd y Gothiaid, Vandaliaid a'r Hunniaid yn gymmysgedig ynddi. Iaith lafar, o sain esmwyth a chynganeddol ydyw, ac yn Rhufain y mae hi yn ei diwig goreu. Mae yr Italiaid y sydd yn treiddio i ddyfnderoedd gwybodaeth yn dra enwog yn y gorchwyl, megis Galileo, Borelli a Torricelli mewn seryddiaeth ac anianyddiaeth; Strada, Davila a Machiavel mewn hanesyddiaeth; Ràphael, Michael Angelo, Romano, Correggio, Caracci, Veronese a

* *Pabyddiaeth*, sydd a'i phrif egwyddorion yn amlwg yn nghredo Pius IV, yr hwn a adroddodd ar lw wrth ei urddo yn bab. Gwedi addef ei gredianiaeth mewn un Duw, a phynciau ereill y cytuna Cristionogion yn gyffredin o'u cylch, aeth rhagddo fal y canlyn,

" Yr ydwyf yn y modd mwyaf dïysgog yn cofleidio yr holl draddodiadau apostolaidd ac eglwysig, yn nghyd a'r holl osodedigaethau ereill a berthynant i eglwys Rhufain.

Yr ydwyf yn cydweled yn hollol â'r fam eglwys apostolaidd, o berthynas i'r ysgrythurau sanctaidd, ac mai ei gwaith hi yn unig yw barnu eu hiawn ddeongliad: a minnau a amcanaf eu hesponio yn ol barn unol y tadau.

Yr ydwyf yn addef ac yn credu bod saith sacrament o sefydliad Iesu Grist ein Harglwydd yn angenrheidiol er iechydwriaeth i ddynol ryw, er nad ydynt oll i bob un; sef, bedydd, arddodiad dwylaw, cymmun, penyd, eneiniad y clâf, urdda, a phriodas, a bod gras yn dyfod o'u harfer; ac na ellir ail fedyddio, ail arddodi dwylaw, neu ail urddo, heb waeyd llong ddrylliad o'r ffydd.

Yr ydwyf yn credu pob pwnc a eglurwyd ac a gyhoeddwyd gan y gymmanfa sanctaidd yn Trent, o berthynas i bechod gwreiddiol a chyfiawnhâd.

Yr ydwyf hefyd yn credu fod gwir ac iawn aberth i Dduw yn cael ei offrymmu tros y byw â'r meirw, bob tro y darllenir gwasanaeth yr offeren; ac fod yr elfenau cyssegredig yn ngwasanaeth sancteiddiaf y cymmun yn cael eu trawsylweddu i wir, diffuant, sylweddol gorff a gwaed, enaid a dwyfoldeb ein Harglwydd Iesu Grist, sef bod holl sylwedd y bara yn troi yn gnawd, a holl sylwedd y gwin yn troi yn waed, sef y cyfryw dröedigaeth a eilw yr eglwys Gatholig Trawsylweddiad.

Yr ydwyf yn credu yn ddïysgog fod purdan, ac fod eneidiau y carcharorion y sydd yno, yn cael llesâd mawr trwy erfyniau y ffyddloniaid yn eu hachos.

Yr ydwyf yn credu hefyd y dylid, nid yn unig parchu cyrff y saint a hunasant, ond eu haddoli trwy weddïo arnynt, fal y byddo iddynt hwythau erfyn ar Dduw yn ein rhan.

Yr ydwyf yn ddïysgog yn honni y dylai fod delw Crist, y fendigedig Fair, a seintiau ereill yn nghadwraeth pob Cristion; ac y dylai y parch a'r anrhydedd y sydd yn gweddu, gael ei roddi iddynt.

Yr ydwyf hefyd yn dal, fod yr awdurdod o faddeu pechod gwedi ei roddi gan Grist i'w eglwys, ac fod y cyfryw arferiad yn dra llesol i Gristionogion.

Yr ydwyf yn cydnabod mai'r eglwys sanctaidd, gatholig, apostolaidd, a rhufeinaidd yw mam ac arglwyddes pob eglwys: ac yr ydwyf yn addef ac yn tyngu gwir ufudd-dod i esgob Rhufain, dilynïedydd St. Pedr, tywysog yr apostolion ac adlaw Iesu Grist ar y ddaear.

Yr ydwyf yn ddiammheuol yn derbyn pob egwyddorion ereill, a draddodwyd, a hyspyswyd, ac a eglurwyd gan y canonau sanctaidd, a chymmanfeydd cyffredin, yn enwedig cymmanfa sanctaidd Trent. A phob egwyddorion croes i hyny, a phob heriadaeth, a farnwyd, a fwriwyd ymaith, ac a ddïarddelwyd gan yr eglwys; yr ydwyf innau yn eu barnu, eu bwrw ymaith, ac yn eu dïarddel."

Titian mewn paentyddiaeth, a Correlli ac amryw ereill mewn cerddoriaeth.

Gweddi'r Arglwydd sydd fal hyn :—*Padre nostro che sei nel cielo, sia santificato il tuo nome ; il tuo regno venge ; la tua volonta sia tatta siccome in cielo cosi anche in terra dacci oggi il nostro pane cotidiano ; e remettici i nostri debita, siccome noi ancora rimettiamo a nostri debitori ; e non inducici in tentatione ma liberacci dal maligno ; percioche tuo e il regno e la potenza, e la gloria in sempiterno. Amen.*

Hynafiaethau.] Amrywiol ydyw gweddillion hynafiaethau y sydd yn Itali. Yn Rhufain canfyddir darnau o furiau chwareu-dy Vespasian, yr hwn a gynnwysa ynddo tros gan' mil o bobl ar unwaith : y Gothiaid a ddechreuasant ei ddistrywio, a'r pabyddion a'u penaduriaid a orphenasant, nid er mwyn tarfu gwagedd, ond i'r dyben o gael y marmor cerfiedig i'w meddiant Chwareu-dy Verona yn cael ei drwsio o oes i oes er cynnal gyrfäodd meirch, baeddu teirw, &c. sy ddigon eang i 22,000 o edrychwyr eistedd ynddo ar unwaith. Colofn Trajan yn 175 troedfedd o uchder, a cholofn Antonine yn llawn cerfiadau cywrain, ydynt yn dangos medrusrwydd y trigolion yn yr amseroedd hyny. Dinasoedd Pompeii a Herculaneum oeddynt gwedi eu cuddio gan ffrydiau o elfenau tanllyd, a lluchfeydd o ludw o fynydd Vesuvius ers 1700 o flynyddau, a ganfuwyd yn yr oes ddiweddaf wrth gloddio ar antur oddiarnynt. Y lludw am 20 troedfedd goruwch penau y tai a ddisgynodd gyntaf, yna trwch mwy o'r elfenau llosgedig ar hyny, felly mewn ychydig oesoedd anghofiwyd yn llwyr am y dinasoedd. Cafwyd teml Jupiter yn lled gyfa, ac ynddi ddelwau aur, llestri arian, &c. ; yn y chwareu-dy cafwyd lluniau oeddynt gynt yn dra ardderchog, ac yn y tai yr oedd esgyrn dynion, dodrefn, delwau, llestri aur, arian, ac amryw bethau rhy faith i'w henwi yma.

Anifeiliaid.] Nid oes nemawr o wahaniaeth rhwng anifeiliaid Itali â Germani, ond fod y Buffaloe yr hwn sydd a hanes am dano yn nysgrifiad Affrica, yn lled-aml ynddi.

Ynysoedd.] Corsica, hynod weithian am mai ynddi y ganwyd Bonaparte, sydd yn gorwedd yn mor y canoldir rhwng Sardinia a chulfor Genoa. Ei hyd yw 108 milltir a'i lled o ddeutu 55. Er fod ei gwyneb yn fynyddig a choediog, mae hi yn dra ffrwythlawn o winrawn, ffigys, &c. Cymmerwyd hi gan Prydain yn 1794, a gosodwyd llywydd arni, eithr goresgynwyd hi yn fuan gwedi gan y Ffrancod, y rhai sy weithian yn ei meddiannu. Y trigolion ydynt 160,000 ; a Bastia, lle o gryn gadernid yw y brif ddinas.

Capri, o ddeutu 3 milltir oddiwrth y lan, sy 4 milltir o hyd ac o ddeutu un o led. Creigle serth yw ei phen gorllewinol, ac yno mae y brif dref yn sefyll. Dywed hanesyddion mae Capri oedd annedd hâf Augustus a Tiberius Cæsar.

Ischia, a rhai ynysoedd bychain ereill yn agos i'r lan, ydynt hynod am weddillion hynafiaethau ynddynt, ac am eu bod yn breswylfeydd hyfryd i'w perchenogion amser hâf Elba o ddeutu 10 milltir oddiwrth Tuscani, fu a'i mwngloddiau yn enwog yn ol dywediad Virgil ac Aristotle yn yr amseroedd gynt : mae hi yn 80 milltir o amgylchiad, a dywedir bod ynddi 7000 o drigolion.

Lipari, a elwid gynt ynysoedd Eolus,* ydynt 12 o rifedi, sef Lipari,

* Eolus, duw y gwynt. Honai y paganiaid mae ef oedd yn cynes y moelydd tanllyd oedd yn llosgi yr ynysoedd hyn.

Stromboli, Vulcano, Saline, Felicuda, Alicuda, Panaria, Valcanello, Baziluzzo, Bianco, Dattolo. a Fela Navi. Maent yn perthyn i Naples ac yn cynnyrchu ffrwythau cyffredin Itali. Lipari, y fwyaf, sydd yn cynnwys 10,000 o drigolion, Stromboli 1000, ond mae amryw o'r lleill heb drigolion ynddynt.

Malta, hynod am long-ddrylliad St. Paul arni, sydd yn sefyll i'r de o Sicily, yn 20 milltir o hyd a 12 o led. Craig wen yw yr ynys, a chaenen deneu o bridd sy drosti, er hyny mae hi yn dra ffrwythlawn. Hon yw y gadarnaf ei hamddiffynfeydd o un ynys ar wyneb daear. Rhoddwyd hi i bennaethiaid urdd St. Ioan o Gaersalem yn 1530 gan yr ymerawdr Charles V, pan yr erlidiwyd hwynt o ynys Rhodes gan y Twrciaid. Cymmerodd Bonaparte feddiant o'r ynys wrth fyned i'r Aipht yn 1798 ond methodd ei chadw, a Phrydain gwedi hir warchae a'i meddiannodd, ac sydd hyd yn hyn yn ei rheoli. Y trigolion ydynt 90,000; a Valetta yw y brif ddinas.

*Goza*, $2\frac{1}{2}$ milltir i'r gogledd orllewin o Malta, sy 12 milltir o hyd a 6 o led, ac yn cynnwys ynddi o ddeutu 24,000 o drigolion. Comino, rhwng Goza a Malta sydd ynys fechan hynod o ffrwythlawn.

## DOSBARTH III.

*Hanes Itali.*

ITALI yn y cynamseroedd oedd yn adnabyddus wrth yr enwau Saturnia, Oenotria, Hesperia, ac Ausonia. Gelwid hi Saturnia oddiwrth Saturn, yr hwn gwedi ei erlid o Crete gan ei fab Jupiter, a dybir iddo gael noddfa yma; Oenotria ac Ausonia oddiwrth ddwy genedl a oedd yn ei phreswylio y pryd hyny; ac Hesperia neu *orllewinol* a roddwyd iddi gan y Groegiaid mewn cyferbyniad i'w sefyllfa o dir Groeg. Yr enw Itali yr hwn mewn amser a drechodd y lleill, a darddodd medd rhai, oddiwrth Italus brenin y Siculiaid; medd ereill oddiwrth y gair Groeg *Italos* y sydd yn arwyddocau ych, gan fod y wlad hon, gan fraster ei phorfeydd, yn dra llawn yn yr amseroedd gynt o'r creaduriaid hyny.

Yr oedd Itali yn y cynamseroedd fel y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, gwedi ei dosbarthu yn amrywiol dywysogaethau, y rhai oeddynt yn wastadol mewn brwydrau a'u gilydd: ond pan feddiannwyd ei pharthau gorllewinol gan y Gauliaid, ac y parthau dwyreiniol gan y Groegiaid, rhanwyd hi yn dair rhan, sef, Gaul Cisalpina, Itali, a Magna Græcia. Y cenedloedd oedd y pryd hyn yn ei phreswylio, oeddynt ddynion grymmus, tra hyddysg mewn cynnefodau rhyfel, adnabyddus wrth yr enwau Sabiniaid, Etruriaid, Umbriaid, Samniaid, Campeniaid, Apuliaid, Calabriaid, Lucaniaid, Brutiaid, a Latiniaid. Oddiwrth yr olaf y deilliodd y Rhufeiniaid.

Un o'r Latiniaid hyn o enw Romulus, a seiliodd ddinas Rhufain 704 blynedd cyn geni Crist, a bu ei epil mewn meddiant o honi hyd ddyddiau Tarquin falch, yr hwn am ei ormes-lywodraeth a barodd wrthryfel, a'i therfyn fu diddymmu y gadair freninol, gan roddi goruchwyliaeth y wladwriaeth i ddau lywydd, yr hon drefn a safodd hyd oni oresgynwyd Itali gan y Gauliaid a'r Samniaid, y rhai yn eu tro a feddiannasant Rufain. Ond gan i'r Rhufeiniaid lwyddo yn y gorch-

wyl o'u herlid ymaith, a bod erbyn hyn yn gryn ymladdwyr, danfonasant fyddinoedd i Sicily, a gorthrechasant y Carthaginiaid a'r Syracusiaid a oeddynt gwedi eu goresgyn. Oddiyno aethant yn erbyn y Lacedemoniaid a'r Carthaginiaid i Affrica, lle gwedi brwydrau tôst y cymmerasant Regulus y llywydd, a 15,000 o'i wŷr yn garcharorion, ac wrth ymheddychu unwyd Sicily, Sardinia, a Corsica, at Rufain. Fal hyn y terfynodd y rhyfel cyntaf rhwng y Rhufeiniaid ac y Carthaginiaid.

Y Carthaginiaid byd yn hyn yn dra llwyddiannus yn eu holl frwydrau, a gasglasant yn Yspaen fyddin o gan' mil o wŷr, gosodasant Hannibal yn dywysog arni, a thros fynyddoedd Pyren, ac yr Alp, aethant i Itali, lle bu ymladdfëydd dychrynllyd rhyngddynt ag y Rhufeiniaid; ond gan iddynt yn aflwyddiannus oresgyn Affrica, gorfuwyd gwneyd heddwch: hyn oedd terfyn ail ryfel y Carthaginiaid.

Gwedi hyn gwahoddodd y Groegiaid y Rhufeiniaid i'w hamddiffyn rhag gormes Phylip o Macedonia; a gwedi llwyddo i wasgaru ei fyddin unasant Groeg at Rufain, yna aethant drachefn i Affrica a distrywiasant ddinas Carthage, gan wneyd yr holl fröydd oedd yn perthyn iddi yn deyrngedawl iddynt. Dyma derfyn y drydedd rhyfel yn erbyn y Carthaginiaid, 609 blynedd gwedi seilio Rhufain.

Erbyn hyn yr oedd rhwysg Rhufain yn cynnyddu beunydd: goresgynasant Asia, ac unwyd rhan fawr o honi at Rufain: buont fuddugoliaethus hefyd ar y Teutoniaid ac y Cymbriaid, a chenedloedd gogleddol ereill, a oeddynt gwedi bygwth goresgyn eu bro. Yna trefnasant eu cyfreithiau gwladol, a rhoddwyd goruchwyliaeth y wlad i Pompey, Cæsar a Crassus; rhan Pompey oedd Yspaen; rhan Cæsar, Gaul; a rhan Crassus oedd Asia. Collodd Crassus ei fywyd mewn rhyfel yn erbyn y Parthiaid; ennillodd Cæsar Prydain a rhanau o Ffrainc, Germani, &c. i'r Rhufeiniaid; a rheolodd Pompey Yspaen trwy anfon llywyddion enwog o Rufain yno.

Llwyddiant Cæsar yn peri Pompey ac y senedd eiddugeddu, wrth ei archiad o barhâd yn llywydd, gorchymmynwyd iddo ryddhau ei fyddinoedd a dyfod yn unigol ger eu bron, i edrych a ddewisid ef: ond Cæsar yn gweled bod blodau byddinoedd Rhufain yn ei feddiant, a atebodd y deuai yn ddïoed ond nid heb ei luoedd gyd ag ef. Felly pan glybu y senedd fod Cæsar ar warthaf Rhufain, dïangodd Pompey ac y rhan fwyaf o honynt i Groeg, ond Cæsar gwedi mynnu ei wneyd yn llywydd gan y gweddill, a ddilynodd ar eu hol, ac a ddïosgodd Pompey o'i holl rwysg, gan orchymmyn ei gyhoeddi yn ben yr ymerodraeth ei hunan: ond er ei goroni yn rheolaidd, ac ei alw gan y senedd yn dad i'w ddeiliaid, lladdwyd ef cyn pen chwe' mis yn y senedd.

Ar farwolaeth Cæsar, cyfododd dwy blaid i fynu, un i ddïal ei angau, ac y llall i adferu yr hen drefn o lywodraethu: Marc Anthony ac Octavius oeddynt flaenoriaid y flaenaf; ac yr olaf oeddynt Brutus a Cassius, byddinoedd y rhai a ddrylliwyd yn ddisymwth yn y frwydr gyntaf: yna Octavius, Marc Anthony, a Lepidus a enwyd yn llywyddion, ac a rëolasant yn dawel ddeng mlynedd llawn. Octavius a Marc Anthony yn anghytuno yn fuan gwedi hyn, tywysasant eu llyngesau i'r dyfnder, ac wrth Actium y cyfarfuwyd, lle y bu ymladdfa dôst. A Marc Anthony er iddo gael cynnorthwy Cleopatra brenines yr Aipht, a gollodd y dydd; gorfu iddo ffoi gyda Cleopatra i Affrica, lle gan i

Octavius eu dilyn y troisont eill dau yn hunan leiddiaid. Felly Octavius a reolodd yr ymerodraeth ei hunan, a chyduna hanesyddion mai ef oedd seiliwr yr ymerodraeth, yr hon a barhäodd yn Rhufain yn arglwyddiaethu ar y byd adnabyddus am 360 mlynedd, hyd o ddeutu 50 o ymerawdwyr, goruchwyliaeth annynol y rhan fwyaf sydd ry echrys i adrodd am dani. Un o enw Tiberius Cæsar oedd yn ymerawdr pan ddaeth y Messiah.

Constantin, yr hwn oedd ymerawdr yn nechreu y bedwerydd ganrif, a symmudodd orsaf y llywodraeth o Rufain i Constantinopl, a chan i'r tro beri cryn derfysg, rhanwyd yr ymerodraeth yn ddwy ran, sef, ymerodraeth Rhufain ac ymerodraeth Groeg. Yn nechreu y bumed ganrif pan oedd rhwysg Rhufain ar derfynu, goresgynwyd y wlad gan y Gothiaid, Vandaliaid, ac y Llychlynigion, a diau terfynasai y pryd hyn, oni buasai Pepin brenin Ffrainc yr hwn a ddaeth â llû i'w hamddiffyn.

Pepin yn gorfod dychwelyd i amddiffyn ei ddeiliaid ei hun, gofynodd yr Heruliaid y drydedd o Itali yn feddiant iddynt am y gwasanaeth a wnaethant i Rufain, o wrthwynebu ei hamrywiol oresgynwyr, a chan iddynt gael nacâd, dewisasant ŵr cyffredin o enw Odoacer, yr hwn gwedi ei goroni yn frenin Itali a ddistrywiodd y gweddill rwysg oedd yn perthyn i'r ymerodraeth. Gwedi teyrnasu o hono 12 mlynedd annogodd Zeno ymerawdr Constantinopl i Theodoric brenin yr Ostrogothiaid oresgyn Itali, ac felly y gwnaeth yn ddïoed, gan gludo gyd a'i fyddinoedd filoedd o wragedd a phlant. Bu brwydrau mynych rhwng y ddau dywysog hyn mewn yspaid tair blynedd, pan o herwydd yr anghydfod oedd yn mhlith tywysogion byddinoedd Odoacer, bu Theodoric yn llwyddiannus i ennill Itali, a'i goroni yn frenin gwedi iddo ar ol llŵ o achub Odoacer yn fradychus ei lâdd.

Theodoric, gwedi ei sefydlu ar yr orsedd, a ddechreuodd adgyweirio y cyfreithiau, a bwrw ymaith yr iau ormesol oedd mewn grym er dyddiau yr ymerawdwyr: gwnaeth hefyd Ravenna yn brif ddinas, fal y gallai fod yn agos i atal rhuthrau y cenedloedd gogleddol a oeddynt yn goresgyn rhyw ranau o'r wlad yn wastadol. Er mai un o ddilynwyr Arius oedd ef, ac y rhan fwyaf o'i lŷs, eto trefnodd ryddid cydwybod i'w ddeiliaid addoli fal, ac yn y lle y mynont. Felly rheolodd yn llwyddiannus hyd ddiwedd ei oes, a daeth ei ŵyr Athalric yn ei le. (526.)

Bu cryn derfysg yn y wladwriaeth trwy ystod teyrnasiad Athalric, ac ei ddilyniedydd Theodotus; fal y bu y canlyniad i'r ymerawdr Justinian fynnu y goron iddo ei hun. Parhâodd y cynhwrf flynyddau lawer gwedi, ac yn nïorseddiad Narses y terfynodd rheolaeth y Gothiaid yn Itali.

Narses gwedi colli y dydd yn llwyr, a ddanfonodd genadau yn cludo dewis ffrwythau y wlad at Alboinus brenin y Lombardiaid, gan ei wahodd i ddyfod i feddiannu y wlad oddiar ymerodraeth y dwyrain. Alboinus yn wych ganddo y fath gynnyg, a flaenorodd fyddin gref, ac a'i meddiannodd, a choronwyd ef yn frenin Itali, a bu ei ddilyniedyddion ar yr orsedd hyd y flwyddyn 774, pan y meddiannwyd Itali gan Charlemagne.

Yr oedd y pab y pryd hyn yn dra anesmwyth am gael ychydig o rwysg wladol yn gystal ag eglwysig i'w feddiant, ac wedi llwyr flino ar reolaeth ymerawdwyr Germani a breninoedd Itali; felly er cyflawni

ei amcan, rhoddes ar waith ei holl ddyfais, ac ei ddichellion. Gwedi iddo goroni Charlemagne yn ymerawdr y gorllewin, gofynodd am ychydig o dir yn feddiant i'r eglwys, a rhag ei ŵg caniatawyd iddo ei ddymuniad. Yna cynnyddodd ei rwysg o flwyddyn i flwyddyn, hyd onid oedd byddin grefyddol gadarn yn ei feddiant i amddiffyn yr eglwys. Gregori II, gwedi digio yr ymerawdr Leo, trwy ddileu ei orchymmyn o wahardd addoli delwau yn ei ymerodraeth, a dderbyniodd gerydd lém ganddo am y fath hyfder, a chan iddo ffromi yn lle ymostwng, danfonodd Leo at raglaw Ravenna i garcharu y pab, yr hwn drachefn am gynnyg y fath beth a ysgymmunodd y rhaglaw, ac a annogodd ddinasyddion Itali i amddiffyn y ffydd. Felly y werin a ymgasglasant yn ddïoed, lladdasant y rhaglaw, a gwnaethant laddfa echrys yn mhlith y dryllwyr delwau, ac ysgydwasant ymaith iau yr ymerawdr oddiarnynt, gan gyhoeddi bod y pab yn fwy ei allu rhwysgol. Bu brwydrau parhaus am flynyddau lawer gwedi hyn rhwng yr ymerawdr ac y pabau: un blaid yn dïorseddu y naill, ac y blaid arall yn ysgymmuno y llall, heb wybod yn iawn pa ochr oedd gadarnaf. Yr oedd y pabau bob tro yn cael nawdd Ffrainc o'u tu, a bu 21 o freninoedd Lombardi yn y cyfamser yn llywodraethu; a Didier yr olaf o honynt oedd ar yr orsedd pan feddiannwyd Itali gan Charlemagne. Yr oedd rhanau o Itali y pryd hyn yn meddiant y Venetiaid, y Lombardiaid, y pabau, ac ymerawdwyr Groeg, a chan fod aflonyddwch parhaus yn eu plith o gylch uwchafiaeth, yr oedd y llawenydd cymmaint ar roddiad yr holl wlad i Charlemagne, ag i'r swyddogion, offeiriaid, ac y prif ddinasyddion fynnu tywys Charlemagne trwy Rufain, a chyhoeddi o'i flaen, "*Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd.*"

Gwedi marw Charlemagne gwrth-gynnyrfodd yr offeiriaid pabaidd, a chydunasant mewn cymmanfa fawr o roddi yr enw adlaw Crist i'r pab, ac ei wneyd yn ben yr eglwys Gristionogol trwy yr holl fyd. Yna cadarnhawyd yr egwyddorion am burdan, penyd, offeren tros y byw a'r meirw, gwyliau, degymau, maddeuant lythyrau, ac ysgymmundod, a chyhoeddasant y pab yn fwyaf ei allu rhwysgol o neb ar wyneb daear.

Gregori VII, mynach isel gwedi ei ddewis yn bab, a oedodd ei urddiad hyd oni chafai ganiatâd yr ymerawdr, yr hwn am y fath ymostyngiad a'i rhoddes yn ddïoed; ond gwedi galw yr henuriaid ato, adroddodd y bwriad oedd yn ei feddwl o geisio dwyn holl ardaloedd cred tan deyrnged i'r eglwys gatholig; ac ni bu aflwyddiannus.

Solomon brenin Hungari gwedi ei ddïorseddu gan ei frawd, a ddïangodd am noddfa i lŷs yr ymerawdr, lle er mwyn cael llety, yr adnewyddodd y cynghrair o fod Hungari yn deyrngedawl i'r ymerawdr. Ond Gregori yn clywed y chwedl, a ysgrifenodd at Solomon fal hyn, "Chwi a ddylech wybod fod teyrnas Hungari yn perthyn i eglwys Rhufain; a gwybyddwch y cewch ei gŵg i'r eithaf, os na addefwch hi yn ben arnoch, ac nid yr ymerawdr."

Bu hyn yn achos i gynnen drachefn ennyn rhwng yr ymerodraeth a'r eglwys; felly galwyd Harri dan boen ysgymmundod i ymddangos o flaen y pab. Harri yn sarug am y fath hyfder oddiwrth un oedd yn ei farn ef fal caethwas iddo, a alwodd gymmanfa o dywysogion a gwŷr urddasol yr ymerodraeth, a therfyn eu hystyriaeth oedd, "Bod Gregori gwedi esgyn i gadair St Pedr trwy drais, ac wedi aflonyddu

eglwys Duw ag arferion anfoesol, trwy ymawdurdodi mewn pethau na pherthynent iddo; ac felly bod yr ymerawdr trwy gynnorthwy y cyfarfod yn barnu y dylid diosg Gregori o'i awdurdod, a gosod arall yn ei le. Gregori wedi clywed hyn, a alwodd gymmanfa o 110 o esgobion, a barnwyd yn unfryd ddiosg Harri o'r goron ymherodrol; a bygythiwyd pob tywysog ac offeiriad o'r ymerodraeth ag ysgymmundod os gwnant unrhyw gyfrinach ag ef; gan chwanegu mai dyledswydd y pab, fal brenin breninoedd, ac arglwydd arglwyddi, oedd tynu balchder penau coronog i'r llawr. Y tywysogion ac yr offeiriaid yn ofni y ddedryd a ymunasant â byddinoedd y pab, a thraddodasant Harri i'w ddwyn ger ei fron yn Augsburg. Harri yn chwennych gochel ymddangos yn gyhoeddus, a aeth i gyfarfod y pab i gastell y duges Matilda, ei gyfnither, ar fynyddoedd Appenin, i ddeisyf maddeuant. Bu Harri yn nghyntedd y castell dridiau yn mis Ionawr yn droednoeth mewn sachliain, cyn y cafai genad i gusanu bawd troed y pab. O'r diwedd gan i Matilda roddi i'r pab ei rhanau o Itali, trugarhaodd gan roddi bendith a maddeuant iddo, ar yr ammod y tyngai ufydd-dod iddo rhagllaw, yr hyn a fu yn ddioed. Gwedi hyn bu edifar gan y tywysogion fod mor ofergoelus, a dechreuasant ddadwrdd nas goddefent y cyfryw ddarostyngiad gwarthus i'w hymerawdr, ac a annogasant Harri i ddyfod ymlaen: felly er nag ysgymmundod na llw aeth Harri i Itali ac a ddiorseddodd y pab, drylliodd ei fyddinoedd, gosododd bab newydd yn y gadair, a dychwelodd mewn heddwch i'w fro.

Y pab nesaf mewn rhwysg i Gregori oedd Adrian, at yr hwn y gymbiliodd Harri II o Prydain am ganiatâd i oresgyn yr Ywerddon; a thyma yr ateb a gafodd, "Gwir yw, ac yr ydych yn addef bod Ywerddon ac yr holl ynysoedd sydd gwedi derbyn y ffydd, yn perthyn i'r eglwys Rhufeinaidd; felly os oes arnoch eisieu meddiant o'r ynys honno, i'r dyben o wella moesau ynddi, o gymmell y trigolion i ymarweddu yn fwy cristionogol, *ac o furiadu talu ceiniog Pedr yn flynyddol tros bob ty*, yr ydym yn foddlonus yn caniatau i chwi ei goresgyn."

Yr oedd rhwysg y pab y pryd hyn yn y man uchaf; ac o hyn hyd y 14 ganrif, y sefydlwyd yr holl urddau a elwid Benedictiaid, Carmeliaid, Carthusiaid, Cordeliaid, Ffranciscaid, Dominicaid, Austiniaid, ac ereill; ac y dechreuwyd o ddifrif adeiladu mynachdai, priordai, meudwydai ac y cyffelyb; a chiliodd miloedd o fynwes yr eglwys i groeshoelio y cnawd trwy dreulio y gweddill o'u hoes mewn anialwch, ogofeydd, neu ryw leoedd anghysbell ereill: weithiau ar ben colofn mewn lle anial yn ngwrês y dydd ac oerni y nos, y treuliai ambell fynach fisoedd a blynyddoedd, gan fyw ar drugaredd y sawl a ddeuai â thamaid o fara a llymaid o ddwfr iddo, gwedi addunedu ar lw nas deuai i lawr hyd angau! Tro arall, agen mewn craig a ddewisid, lle byddai y corff mewn ystym tra phoenus; weithiau mewn anialwch yn byw ar laswellt y byddai gynnifer yn noethlymuniaid nos a dydd, â llwyr fwriad o barhau felly tros eu hoes; ereill yn y tai crefyddol yn dyoddef eu ffrewyllu gwedi ymprydio ddyddiau, fal y byddai yr effaith yn well, a phethau ereill amrywiol rhy faith i'w hadrodd yn y lle hwn. O'r diwedd troes y rhôd, dewisodd yr oes ganlynol y mynachdai, y rhai oeddynt weithiau yn anneddau cysurus, i'r fywoliaeth gul a enwyd; lle yn fuan yr anghofiasant eu hadduneddau gan wrando ar ddeddf nwydau drwg, fal y daeth y priordy mewn amser gan ddryced â

thŷ Rabab gynt, ac felly y parhaes hyd symmudiad y llen gan y gormesdeyrn Bonaparte.

Yn 1309, symmudodd y pab Clement II, yr hwn oedd ŵr o Ffrainc, y gadair eglwysig o Rufain i Avignon, lle yr arhosodd hyd 1377, pan y cludwyd hi yn ol. Cymmerwyd gofal o hyny allan y byddai y rhan fwyaf o'r 70 penaduriaid yn Italiaid, gan mai llais y blaid gryfaf o honynt oedd yn dewis pab, a'r lle y preswyliai.

Bu gallu y pab yn lleilai rhwysgol o'r pryd hyn, hyd ddyddiau Pius VI yn 1806, yr hwn a ddïosgwyd o'i offeiriadaeth, ei rwysg, ac ei gyfoeth, gan Napoleon ymerawdr y Ffrancod, gan ei wneyd ei hun yn frenin Itali. Gwelwn wrth synied ar y damweiniau, fal y mae Rhagluniaeth yn llywodraethu ac yn trefnu moddion rhyfeddol er peri i ddrwg ddyfetha drwg, ac felly yn cyflawni cyfiawnder tragywyddol; ac yn ganlynol disgwyliwn i'r gareg a dorwyd nid â llaw, gwbl ddryllio teyrnas anghrist, fal y byddo i sain efengyl hedd ymledanu yn ddi rwystr tros wyneb yr holl ddaear.

## SWITZERLAND.

### DOSBARTH 1.

*Sefyllfa.. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Afonydd.. Llynau.. Mynyddoedd.. Llysiau.. Mwngloddiau.*

SWITZERLAND sydd yn sefyll rhwng lledred 46 a 48 yn ogleddol, a rhwng hydred 6 ac 11 yn ddwyreiniol, yn 230 milltir o hyd, a 120 o led; yn gylchynedig o du y gogledd gan gylch Swabia yn Germani, o du y dwyrain gan Tyrol, o du y de gan fynyddoedd yr Alp, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth wladwriaeth Cisalpina, ac o du y gorllewin gan fynyddoedd Jura, y rhai sydd yn derfyn rhyngddi â Ffrainc.

RHANIADAU.] Switzerland cyn ei thrawsfeddiannu gan y Ffrancod yn 1797, oedd gwedi ei rhanu yn 13 o gantrefydd, a elwid, Zuric, Bern, Lucern, Uri, Schweitz, Unterwalden. Zug, Glaris, Basil, Freyburg, Soleur, Scaffhausen ac Appenzel: ond weithian mae hi yn 19 rhan, heblaw gwladwriaeth Valais a thywysogaeth Neufchatel.

| *Gantrefydd.* | *Prif ddinasoedd.* | *Milltir arwyneb.* | *Poblogaeth.* |
|---|---|---|---|
| Aargau | Aargau | 448 | 100,000 |
| Appenzel | Appenzel | 256 | 60,000 |
| Basil | Basil | 160 | 40,000 |
| Bern | Bern | 1,920 | 200,000 |
| Freyburg | Freyburg | 576 | 70,000 |
| Glaris | Glaris | 336 | 24,000 |
| Grison | Chur | 2,240 | 100,000 |
| Leman | Lausanne | 1,280 | 136,000 |
| Lucern | Lucern | 496 | 100,000 |
| St. Gall | St. Gall | 704 | 150,000 |
| Schaffhausen | Schaffhausen | 128 | 30,000 |
| Schweitz | Schweitz | 384 | 32,000 |
| Soleure | Soleure | 240 | 50,000 |
| Tessin | Bellinzona | 720 | 160,000 |
| Thurgau | Frauenfeld | 260 | 75,000 |

| *Cantrefydd.* | *Prif ddinasoedd.* | *Milltir arwyneb.* | *Poblogaeth.* |
|---|---|---|---|
| Unterwalden | Stauz . . . | 192 | 20,000 |
| Uri | Altorf . . . | 464 | 20,000 |
| Zug | Zug . . . | 88 | 15,000 |
| Zurich | Zurich . . . | 768 | 200,000 |
| Gwladwriaeth Valais | Sion . . . | 1,360 | 100,000 |
| Neufchatel a Valengen | Neufchatel . | 240 | 45,000 |
| | | 13,260 | 1,727,000 |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Dyma y wlad fwyaf mynyddig yn Ewrop. Mae yr ardaloedd gwastadaf o honi, sef, cantrefydd Basil, Bern, Zurich, Schaffhausen, Soleure a Friburg o 600 i 800 llath goruwch gwyneb y môr. Y mynyddoedd sydd ag iâ oesol yn eu toi, ac y cennentydd cyfagos iddynt ydynt lawn o eira trwy y blynyddoedd, ac yn ymddangos fal llynau mawrion, ac ar hyd eu hymylau glogwyni anferth o faintioli o gasgliad blynyddau o gelloedd yr iâ. Ond mae agosrwydd y wlad hon i'r de yn peri toreth o gnydiau o rawn yn y gwastadir, yn gystal a lliosogrwydd o goed yn y nentydd, ac ar ochrau y mynyddoedd.

HIN A THYMHORAU.] Mae hin Switzerland yn dra hyfryd ac iachusol yn gyffredin, ond yn ddarostyngedig weithiau i dymhestloedd trymion fal hin pob gwlad sydd a thrumau uchel ynddi. Gellid disgwyl oddiwrth ei hagosrwydd i'r cyhydedd, fod ei hin yn fwy gwresog, yr hwn er iddo feithryn y gwinrawn yn y maesydd agored, sydd yn cael ei dymheru yn wastadol gan awelon oddiar rew oesol y mynyddoedd. Weithiau bydd y gauaf yn dra oer am gryn amser, dro arall bydd hin fwll yr hâf yn boenus i drigolion y dyffryn-dir, gan gyddarawiad pelydrau yr haul oddiar ochrau y mynyddoedd arnynt. Mae cymmaint o wahaniaeth yn y tymhorau ag y bydd y llafurwr yn medi ei ŷd ar du de y mynydd, yr un amser ag y bydd arall yn hau yn brysur ar y tu gogledd iddo.

AFONYDD.] Afon Rhin, yr hon a soniwyd am dani yn hanes Germani, sydd yn codi o geunant rewlyd ar ochr mynydd Bedus, ac wedi rhedeg 200 milltir, mae hi yn ymarllwys i lyn Constant, o'r hwn drachefn mae hi yn cychwyn ei thaith ogleddol.

Afon Aar sydd a'i blaenau yn un o fynyddoedd yr Alp a elwir Finsteraar, ac wedi rhedeg 150 milltir a derbyn iddi ffrydiau afonydd Reus a Limmat, mae hi yn ymuno ag afon Rhin ar gyfer Waldshut.

Afon Reus yn rhannu Switzerland agos yn ddwy ran gyfartal, sydd yn codi o lyn Lucendro wrth fynydd St. Gothard, ac yn llifo 80 milltir cyn ymuno ag afon Aar.

Afon Limmat sydd yn codi yn neheubarth cantref Glarus ac yn ymarllwys i lyn Zuric. Ar lenydd hon y dechreuodd yr ymladdfa echrydus yn 1799 rhwng y ffrancod tan Massena, â'r Austriaid a'r Rusiaid tan Suwarrow, yr hon a barhäodd 15 niwrnod.

Afon Rhon sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Furca, a gwedi llifo 90 milltir mae hi yn ymarllwys i lyn Leman, ac oddiyno i'r môr: afon yn perthyn i Ffrainc ydyw.

Afon Inn, cainc o'r Danub, ac afon Adda cainc o afon Po ydynt yn codi yn mro Grison. Fal hyn mae dyfroedd Switzerland yn cael ei gludo i fôr Almaen, i fôr y canoldir, i fôr Adria, ac i'r mor du.

LLYNAU.] Llyn Constant, yr hwn fu dan sylw yn hanes Germani, yw y mwyaf. Y nesaf yw llyn Geneva, yr hwn sy mewn dyffryn-dir rhwng mynyddoedd yr Alp a mynyddoedd Jura, ac yn 40 milltir o hyd a 9 o led. Llynoedd Neufchatel a Zuric ydynt o 25 i 30 o hyd, a 4 neu 5 o led, ac fal llyn Geneva yn cynnwys ynddynt amryw fath o bysgod. Llynau Locarno, Lugano, Maggiore ac ereill ar y terfyn rhwng Switzerland ac Itali, ydynt gwedi bod tan sylw o'r blaen.

MYNYDDOEDD.] Mae mynyddoedd yr Alp, y terfyn rhwng Itali a Switzerland, gwedi eu rhanu yn amryw ranau: y cwr nesaf i'r de a elwir Alp Genoa, a throstynt hwy yr aeth y Rhufeiniaid i oresgyn Gaul. Y ddarn nesaf yw Alp Cottia: mynydd Genevre yw y mwyaf o honi. Y drydedd yw Alp Graiæ, tros y rhai y teithiodd Hannibal. Y bedwaredd yw Alp Pennina, yn cynnwys mynydd St. Bernard, mynydd gwyn, a thrum uchel yn cyrhaedd heibio afon Rhon i Piedmont. Y bumed yw Alp Rhætia y rhai sydd yn ymestyn trwy y rhanau o Switzerland a elwir Grison a Tyrol, hynod am daith Tiberius a Drurus trostynt. Ac yn chweched Alp Helvetia, y rhai sydd yn ymdaflu i ganol Switzerland, gan fwrw ceinciau o drumau uchel o'u deutu, ac yn peri i wyneb y wlad o'r naill ben i'r llall fod yn dryfrith o garneddi anferth a nentydd dyfnion.

Mae dyffrynoedd dychrynllyd rhwng blaenau meinion y mynyddau hyn, yn llawn eira oesol: ac ar lechweddau culion o iâ rhewlyd, ar ochrau dyfnderau serth, y bydd y teithiwr treiddgar yn anturio ei fywyd: weithiau bydd ystorom o fellt a tharanau ymhell goris iddo mewn cymylau anferth, yn ymddangos fel môr, rhwng cantoedd o glogwyni pigog y mynyddau; a chan y twrf bydd cludeiriau o eira rhewlyd gwedi ymdyru ers blynyddau ar gwm mynydd yn ymollwng, gan ychwanegu mewn maint yn eu taith i'r nentydd cyfagos, gan gladdu tai, gwinllanoedd, &c.; a pheri angau cymmaint ag a fyddo o fewn cyrhaedd iddynt.

LLYSIAU.] Er fod trysorau celloedd oerion yr iâ yn toi bryndir Switzerland, eto mae llysiau cyffredin gwledydd Ewrop, o Lapland hyd at Itali yn helaeth ynddi. Mae ŷd a grawn ereill yn cnydio o odreu y mynyddoedd hyd at fin y nentydd rhew; ac mae yn y dyffryndir winllanoedd, olewyddlanoedd, a gerddi tra ffrwythlawn. Coed cyffredin y sydd yn Germani a'r gwledydd cyfagos sydd hefyd o dŵf cymmaint, ac yn llenwi ochreu y myn[...]oedd hyd at derfyn gorsaf yr eira.

MWNGLODDIAU.] Er nad yw Switzerland yn cynnwys cymmaint o fwngloddiau ag a ddisgwylid oddiwrth ei gwyneb mynyddig, eto mae yr afonydd y sydd yn codi o'r Alp, yn golchi i lawr rai gronynau aur, yr hyn sydd yn dangos fod yno drysorau, pe gellid treiddio atynt. Y prif gloddfëydd yw mwngloddiau Sargan, y rhai sydd yn rhoddi helaethrwydd o haiarn, ac ychydig efydd a phlwm. Cantref Bern sy hefyd yn cynnwys cloddfëydd halen. Y ceryg gwerthfawr y sydd yn ngloddfëydd yr Alp ydynt y porphyri, jasper, agate, a meini tryfrith o liwiau a elwir amianthos, steatites, ac amryw fath o farmor.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Crefydd.. Milwyr.. Dinasoedd a threfydd.. Creaduriaid.*

Y SWISSIAID ydynt ddynion tal, hardd a bywiog, hynod am eu gonestrwydd a'u dewrder, ac yn enwedig am duedd awchus o amddiffyn eu rhyddid gwladol. O ran agwedd yn rhydd, siriol, a charedig yn gyffredin; glân a threfnus yn eu gwisgoedd, a boddlongar yn eu sefyllfäoedd. Er nad ydynt enwog mewn dysgeidiaeth, eto mae yr awydd y sydd yn mhlith pob graddau o ddysgu darllain, &c. yn dangos eu casineb at dywyllwch anwybodaeth. Maent o'r amser y tarddu goleuni hanesyddiaeth arnynt gyntaf, yn enwog mewn defodau rhyfel; felly gan fod mynyddoedd uchel yn amddiffynfëydd i'w gwlad rhag sarhâd arfau dinystriol rhyfel, maent o oes i oes yn ymgyflogi i wasanaeth byddinoedd ereill, ac felly yn dysgu bod yn rhyfelwyr dewr; ond cymmaint yw eu serch at eu gwlad, nad arhosont o honi ddim hwy nag y casglont ddigon o gyfoeth i fyw yn gysurus y gweddill o'u hoes.

Mae y tai yn gyffredin o goed, a grisiau ceryg i arwain i'r llofft o'r tu allan iddynt: maent o wneuthuriad anghelfydd, ond yn dra glanwaith o fewn ac allan: Nid yw y cyfreithiau gwladol yn caniatau gwisgo gemmau, sidanau, lasiau, nag unrhyw wisgoedd gwychion; hefyd mae pob chwaryddiaethau ofer yn cael eu gwahardd.

Dywed Goldsmith fod tai cyfnewid heb drigolion ynddynt, ar fin ffyrdd pell oddiwrth y trefydd yn llawn o ddâ, a phrisiau teg arnynt, lle y bydd y teithiwr blinedig yn troi i mewn i brynu rhyw ran o'r dâ ag a fyddo arno eisiau, gan adael yr arian yno hyd oni ddêl y perchenog i'w cludo ymaith. Os bu y cyfryw beth a hyn, cyn y drefn sydd yn bresennol yn Switzerland, tebyg mai gobrin y goddefid y cyfryw weithian, gan na ommeddai y ffrencyn diriad, y sydd blith draphlith a'r trigolion, wneyd baich o'r eiddo heb ofalu am adael cymmaint a dimmeu yn eu lle.

LLYWODRAETH.] Cyn i'r Ffrancod oresgyn Switzerland yr oedd pob cantref a llywodraeth briodol yn perthyn iddi, ond yr oeddynt oll ers blynyddau bellach mewn undeb diwahan a'u gilydd. Weithian gan mai Bonaparte yw eu deddfwr, un llywydd sydd ar y cyfan, yr hwn trwy dalu teyrnged i Ffrainc, sydd yn cael cenad o ddal i fynu yr hen drefn o lywodraethu. Mae y cyfreithiau yn dyner, ac nid oes gwaed byth yn cael ei ofyn ond am waed; a chymmaint yw eu tynerwch, (os addas y dywediad) tu ag at y drwg weithredwr wrth ei ddïenyddio, ag y gwnânt iddo gymmeryd cymmaint o wîn, ac a baro iddo anghofio ei sefyllfa arswydus.

CREFYDD.] Mae ychydig mwy na hanner Switzerland yn babyddiaid, ac y gweddill yn ddilynwyr Ioan Calvin, ond o herwydd undeb gwladol y cantrefydd, mae mwy o frawdgarwch arddangosol rhwng y pleidiau hyn yma nag yn unrhyw wlad arall. Bu erlidigaethau arswydus yn Switzerland wrth blannu y diwygiad rhagdystiol ynddi: a thrachefn yn noddfa am flynyddoedd rhag palfau penydiol epil anghrist.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Ieithoedd Germani, Itali a Ffrainc, sydd arferedig yn Switzerland: yr ellmaneg yn y cantrefydd sydd yn terfynu ar Germani; y ffrancaeg yn ei hardaloedd gorllewinol, ac y llall yn yr holl froydd sydd yn terfynu ar fynyddoedd yr Alp. Y prif ysgolion

ydynt yn Geneva, Basil, Bern, Zuric a Lucern, ac enwau y prif ddysgedigion a ddygwyd i fynu ynddynt, yw, Zuinglius y diwygiwr, Conrad ac Joan Gesner, y rhai a ysgrifenasant ar anianyddiaeth, Bernoulli ac Euler, enwog mewn rhifyddiaeth; Solomon Gesner y bardd, Bonnet, Hierzel a Zimmerman, enwog yn traethu ar physygwriaeth, Lavater mewn wyneb-ddewiniaeth, ac amryw ereill.

Milwyr.] Barnid fod o ddeutu 30,000 o filwyr yn Switzerland cyn y goresgyniad gan y Ffrancod. Yr oedd y rhain gan lawnder y wlad o drigolion; a'r gorchwyl echrys o dywallt gwaed yn fwy anarferedig ynddi nag yn y gwledydd cymmydogaethol, yn arfer ymgyflogi i fyddinoedd estronol, ac yn gyffredin yn dychwelyd yn ol yn llawn cyfoeth. Ond weithian gan sarhâd y Ffrancod ar eu gwlad nid ydynt yn mwynhau y cyfryw ryddid.

Dinasoedd a threfydd.] Basil, y brif ddinas, sydd yn sefyll ar afon Rhin, yn y man y mae'r afon honno yn dechreu ymgyfeirio i'r gogledd. Yr oedd y ddinas hon yn enwog am wychder ei hadeiladau yn amser Charlemagne, ac felly mae hi yn bresennol. Mae caer gref yn ei hamddiffyn. Y trigolion ydynt 14,000.

Bern, dinas hardd ar fin afon Aar, sydd hynod am ei phrif athrofa, a'i llyfr-gelloedd. Cymmerwyd hi gan y ffrancod yn 1798. Y trigolion ydynt 13,000.

Zuric, ar fin llyn o'r un enw, ac yn y mân y mae afon Limmat yn cychwyn ei thaith, sydd enwog am mai hi trwy weinidogaeth Zuinglius oedd y gyntaf yn Switzerland a fwriodd ymaith yr iau babaidd. Y trigolion cyn i'r ffrancod ei meddiannu yn 1798, oeddynt tros 10,000.

Fribourg, tref gaerog ar ochr mynydd uchel, sydd yn sefyll ar afon Sanen. Ychydig filltiroedd oddiwrthi, mae annedd hynod o wneuthuriad monach a'i was, yn cynnwys capel digon eang i 500 o bobl, llyfrgell, cegin, a chelloedd amrywiol ereill, oll gwedi eu naddu o'r graig. Bu y monach diwyd 25 mlynedd wrth y gorchwyl, ond wrth gynnorthwyo pobl ieuainc tros yr afon goris y mynydd i weled cysegru y capel, syrthiodd iddi a chollodd ei fywyd.

Lausanne yn cynnwys o ddeutu 9000 o drigolion, sydd yn sefyll ar lethr mynydd-dir uchel. Y dinasoedd ereill oeddynt yn ddiweddar yn perthyn i Switzerland ydynt St. Gall, Mulhausen, a Schaffhausen yn cynnwys o ddeutu 6000 o drigolion bob un. Geneva a'i 25,000 o drigolion sydd yn bresennol yn rhan o Ffrainc; Lucern, Soluthern, ac Enfreidlem sydd a 5000 bob un. Ychydig o'r lleill sydd â mwy ynddynt na 3000 o eneidiau.

Creaduriaid.] Mae meirch Switzerland yn dra bywiog, ac felly o werth mawr gan flaenoriaid byddinoedd. Y gwartheg hefyd ydynt dra grymus. Gyd a'r rhai cyffredin yn y gwledydd cymmydogaethol, canfyddir yma yr ibex, y chamois, a'r marmot: ac yn mlaenau mynyddoedd yr Alp, yn ngorseddfa gauaf oesol, mae y fwltur yn trigfanu, ac yn byw ar y chamois, yr ysgyfarnog, a chreaduriaid ereill.

Yr *ibex* neu afr y creigiau, sydd yn lled debyg i eifr Cymru, ond fod cyrn y gwrryw yn fwy cadarn, ac fod y blew yn hwy ac o liw tywyll. Llamma yr ibex o'r naill graig i'r llall gyd a chyflymder hynod, a'r lleoedd mwyaf peryglus yw ei brif anneddau.

Y *chamois*, creadur o rywogaeth yr antelop, ydynt yn ymroddi o 40

i 60 yn gyffredin, a gwiliedydd o'u blaen er dannod perygl. Eu lliw sydd felyn-lwyd yn gyffredin.

Y *marmot* sy greadur tebyg o ddull a maintioli i'r ysgyfarnog, yn byw ar ddail coed, &c. yn yr hâf, ond mewn tyllau is-lawr mewn trwmgwsg trwy'r gauaf.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Switzerland.*

CAINC o'r Celtiaid a elwid Helvetiaid, oedd trigolion cyntaf Switzerland: darostyngwyd hwynt gan ymerodraeth Rhufain yn amser Julius Cæsar, a bu y wlad yn en meddiant tan yr enw Gaul Helvetia hyd y bumed ganrif, pan y goresgynwyd hi gan y Burgundiaid a'r Ellmyn, y rhai drachefn a erlidiwyd oddiyno gan genedl gryfach a elwid y Ffrankiaid. Ar farwolaeth Louis I, brenin y Ffrankiaid, daeth parthau deheuol Switzerland yn eiddo ymerawdr Lotharius, a'r bröydd gogleddol i feddiant Louis yr Ellmon, yr hwn ar farwolaeth Lotharius, a ddaeth i feddiant o'r holl wlad ei hunan.

Yn 888, cymmerodd Rodolphus duc Burgandi arno enw brenin Switzerland, a gwedi i'w epil reoli hyd 1032, trefnodd Rodolphus III, y byddai i'r deyrnas ar ei farwolaeth fod yn deyrngedawl i Germani, ac felly y bu.

Yn fuan gwedi hyn dechreuodd rhai o'r cantrefydd gynyg ammodau i ymuno a'u gilydd, fal y gallent atal ymgyrch eu cymmydogion ar eu gwlad, a bwrw ymaith yr iau o dalu teyrnged i Germani, ond gan nad allent gyduno, ni bu ond brwydrau dychrynllyd yn eu hardaloedd hyd eu cyflawn ddarostyngiad i arfau yr ymerawdr. Ac felly buont yn cael eu llywodraethu gan lywyddion oddiyno, hyd ddyddiau William Tell, yr hwn a fu yn foddion i'w herlid ymaith, fal y soniwyd eisus yn hanes Germani.

Cyn lladd o William Tell y llywydd anynol Gresler, yr oedd amryw o'r cantrefydd gwedi dyfod i undeb dirgel a'u gilydd, a gwedi llwyr fwriadu o daflu yr iau oddiar eu gwarrau, ond er iddynt fod gantoedd o flynyddau cyn cyflawn ymuno, cadwasant yn ddewrwych eu gelynion cyffredin yr ellmyn o un tu, a'r ffrancod o'r tu arall, yn llwyr o'u bro.

Yn 1707, goresgynodd y Prussiaid Switzerland, a therfyn y cythryfwl fu i Neufchatel fod yn eiddo Prussia; ond yr oedd y trigolion i wasanaethu yn myddinoedd y gwledydd y mynont: yr unig gais oedd ar y brenin eisiau, oedd eu bod yn perthyn i'w goron, a derbyn teyrnged fechan fal cydnabyddiaeth o hyny, felly nid oedd rhyddid y Swissiaid oedd yn preswylio y rhan hon o'r wlad o dan unrhyw gaethiwed.

Yn niwedd y flwyddyn 1797, goresgynodd y Ffrancod Switzerland, a gwedi amryw frwydrau echrys, y terfyn oedd i'r holl gantrefydd a'r holl fröydd perthynol iddynt fod yn eiddo Ffrainc. Ac ni foddlonodd y Ffrancod i lwyr ddarostyngiad y Swissiaid i'w harfau, eithr gwnaethant Switzerland yn orsaf brwydrau gwaedlyd rhyngddynt â'r Austriaid, ac y Russiaid; gan beri sarhâd dychrynllyd ar y dinasoedd, y maesydd toreithiol, ac ar fywydau y trigolion, am ddyddiau lawer. O'r amser hyn newidiwyd enw Switzerland i wladwriaeth Helvetia.

# GWLAD GALEDIN,

NEU

# HOLLAND,

Yn cynnwys y SAITH DALAETH UNOL, YR HELEDD, NEU YR ISELDIR, A FFLANDRYS.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa, Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad.. Hin a thymhorau.. Afonydd.*

HOLLAND sydd yn sefyll rhwng lledred 49 20 a 51 20 yn ogleddol, a rhwng hydred 2 30 a 7° yn ddwyreiniol; yn 330 milltir o hyd a 290 o lêd, ac yn gylchynedig o du y gogledd, ac y gorllewin gan fôr Almaen; o du y dwyrain gan Germani, ac o du y de gan Ffrainc.

RHANIADAU.] Y taleithiau unol oeddynt Holland, Overyssel, Zealand, Ffriesland, Utrecht, Groningen, Guelderland a Zutphen, y rhai ydynt wyth o rifedi, ond gan y golygid y ddwy olaf yn un wladwriaeth, gelwid hwynt y saith dalaeth unol. Yr Heledd, neu yr Iseldir, oedd yn ddeg talaeth, a Fflandrys yn dair, cyn eu hymgorffoli yn ddiweddar â Ffrainc. Eu henwau, maintioli, &c. oedd fal y canlyn.

| *Taleithiau.* | *mill. arwyneb.* | *poblogaeth.* | *prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|---|
| Guelderland *isaf*, a gwlad Zutphen ............ | 1,840 | | Nimeguen. |
| Holland .................. | 2,000 | 980,000 | Amsterdam. |
| Zealand .................. | 480 | 85,000 | Middleburg. |
| Utrecht .................. | 512 | 75,000 | Utrecht. |
| Ffriesland ................ | 880 | 140,000 | Leuwarden. |
| Overyssel ................ | 1,792 | | Deventer. |
| Groeningen ............... | 640 | 100,000 | Groeningen. |
| Gwlad Drenthe a Brabant.... | 2,000 | 435,000 | |

Ond gwedi goresgyniad y Ffrancod ar y wlad hon, newidiwyd ei henw i wladwriaeth Batavia, a rhanwyd hi yn wyth o daleithiau ffrengig fel hyn,

| *Taleithiau Holland.* | *Taleithiau Ffrainc.* | *prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| Groeningen a Ffriesland . . | Ems . . . | Leuwarden. |
| Overyssel, a rhan o Guelderland a Zutphen . . | Yssel . . . | Zwoll. |
| Gweddill Guelderland, a Zutphen a rhan o Utrecht. | Rhin . . . | Arncheim. |
| Rhan o Holland . . . . . | Amstel . . . | Amsterdam. |
| Gogledd-barth Holland, hyd at Leyden . . . . . | Texel . . . | Alkmaar. |
| Deheu-barth Holland, a gweddill Utrecht . . . | Delfft . . . | Utrecht. |
| Dwyrain-barth Brabant . . | Dommel . . . | Bois le duc. |
| Gorllewin-barth Brabant a Zealand . . . . . | Scheldt a Meuse | Middleburg. |

Gwyneb y wlad.] Gwlad dywodlyd isel yw Galedin, gwedi ei hennill trwy ddiwydrwydd y trigolion oddiar y môr, ac o herwydd hyny y gelwir hi Holland yn rhai ieithoedd; sef ystyr hyny yw, yr Hal-dir, neu yr Heledd. Nid oes na mynydd na bryn yn britho ei gwyneb; a phan y golygir hi o ben twr neu glochdy, mae hi yn ymddangos fal corsle ëang, ac yr amrywiol gamlesydd y sydd ynddi fal cynifer o ffosydd dwfr. Nid ydyw y tir yn dda i gnydio ŷd na grawn arall, ond mae y gweiriau brâs y sydd yn helaeth arno, yn peri llawnder o enllyn, megys ymenyn, caws, a chig.

Hin a thymhorau.] Hin fwll ac afiach sydd yma trwy gydol yr hâf: tarth gwenwynig yn esgyn i fynu yn barhaus, yn peri y crŷd a chlefydon ereill i flino y trigolion. Mae yn debyg mae y lleithder hyn yn diwyno eu dodrefn o goed a haiarn, sydd yn peri i lanwaithder fod yn gynnefod nodedig yn mhlith trigolion y wlad hon. Mae awyr iach yn dilyn oerni y gauaf, yr hwn am bedwar mis sydd yn peri i'r afonydd, camlesau, ac weithiau y môr cyfagos i fod yn glöedig gan rew.

Afonydd.] Afon Rhin, yr hon sydd yn ymuno â'r môr yn Holland, yw (fal y soniwyd o'r blaen) y fwyaf yn Ewrop.

Afon Meuse sydd yn codi yn nhalaeth Marn yn Ffrainc, ac yn ymarllwys i'r môr Tawch yn agos i Briel, gwedi ymrannu ychydig cyn hyny yn bedair cainc.

Afon Dommel sydd yn codi yn Brabant ac yn ymuno a'r Meuse.

Afon Waal, un o geinciau y Rhin sydd yn ymuno ag afon Meuse, ychydig cyn ymuno a'r môr.

Afon Scheldt sydd a'i blaenau yn nhalaeth Aisne yn Ffrainc, ac yn Holland mae hi yn ymranu yn ddwy gainc: un sydd yn ymuno â'r môr heibio Bergen op Zoom, ac y llall wrth Flushing yn ynys Walcheren.

Afon Vecht sydd yn codi yn Westphalia, ac yn ymarllwys i'r llynfôr a elwir *Zuider Zee*. Y lleill ydynt afonydd Issel, Lemer, Dyle, Nethe, Geat, Samme, Ruppel a lliaws o rhai bychain ereill.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion....Llywodraeth...Crefydd.... Iaith. Dysgeidiaeth.... Cyfnewidiaeth...Camlesydd...Dinasoedd a threfydd. Creaduriaid.*

TRIGOLION Holland, neu fal y gelwir hwynt yn gyffredin Isellmyn, ydynt gryfion o gorffolaeth, teg o brŷd, ond go anhardd eu gosgedd. Mae y bobl gyffredin gan eu syrthni anianol yn dra llug, eto yn hawdd eu hennill â geiriau têg, os caffant ddigon o amser i'w hiawn ddeall. Y morwyr ydynt gilwgus yr olwg arnynt, distaw, a goddefgar mewn caledi; ond sarug os gofynir iddynt unrhyw chwedl na perthyno i'w gorchwyliaethau. Y cyfnewidwyr ydynt hynod am eu cywirdeb, er na chymeddant dwyllo os gwelant gyfleu annhebyg o ddyfod i'r goleu. Ac y mawrion y sydd heb fod yn flaenoriaid byddinoedd, ydynt dra boddlon ar anneddau eu hynafiaid, heb unrhyw awydd arddangosol am orwychder o gerbydau, gweision, &c. Dywenydd cyffredin boneddig a gwreng yma, yw bod gan feibion 3 neu 4 o lodrau, ac yr un cyfrif o sipogau tewion am danynt; a chan ferched gymmaint rhifedi o beisiau a mentyll cwta, a chapan llawn llathen

gymreig o lêd yn coroni y cyfan. Mae y niwl afiach y sydd yn wastadol yn gorchuddio eu gwlad am 8 mis o'r flwyddyn, yn peri i'r arferiad o fygio tobacco fod yn gyffredin gan feibion a merched, a chymmaint yw y mwynder o ddilyn y gorchwyl, ag y treulia bagad o honynt oriau meithion gyd a'u gilydd, heb siared gair na symmud aelod, onid yn unig i lenwi ac i danio y bibell. Er hyny mae eu tai o'r llŷs uchaf i'r bwthyn tylotaf yn rhagori ar unrhyw wlad arall mewn glendid: y lloriau o briddfeini gwyn, ac y llofftydd bob amser yn lân; yr heieirn ac yr efydd o ddeutu y tân yn loëw fal yr arian, ac y dodrefn coed fal drychau o ddisgleirdeb.

Y prif arferion ydynt chwareu y bêl, billiard, a gwyddbwyll; pysgota amser haf, a hela yn y gauaf, neu ymddifyru yn y campau o esgutio, neu yru ysledi ar wyneb rewlyd y maes.

Llywodraeth.] Yr oedd gan bob talaeth yn Holland hyd y goresgyniad Ffrengig senedd a chyfreithiau priodol yn perthyn iddi, dirprwywyr y rhai oeddynt yn llunio y senedd wladol, yr hon oedd yn cael ei llywodraethu gan flaenor y alwent *Stadtholder*, neu y Braint-geidwad. Er 1795, pan feddiannwyd y wlad gan y Ffrancod, cynnygiwyd amrywiol drefnau o lywodraethu; a chan nad oedd cydundeb o'u cylch, newidiwyd gwladwriaeth Holland i fod yn deyrnas; a rhoddwyd Louis, brawd Napoleon o Ffrainc, yn frenin arni; yr hwn, gan iddo ymddwyn yn beth hynawsach nag a foddiai y gormesdeyrn, a ddifreiniwyd yn fuan gwedi, fal y byddai ei wlad yn rhan o ymerodraeth Ffrainc.

Crefydd.] Cyn y dadymchweliad, y grefydd ragdystiol yn ol egwyddorion Ioan Calvin oedd freintiol yn y taleithiau cyfunawl, a phabyddiaeth yn yr Heledd. Weithian gan mai Ffrainc sydd yn llywodraethu, pabyddiaeth sydd uchaf ei brîg yn mhob rhan o'r wladwriaeth, ond mae rhyddid i bob enwau ereill i arfer y dull a fynont o addoli.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Cainc o'r Ellmaneg a elwir iaith Isellmyn, sydd arferedig yn mysg gwerin Holland, ac y Ffrancaeg ac ychydig o saesoneg yn mysg y mawrion. Y prif ysgolion ydynt yn Utrecht, Leyden, Franekar, Groningen a Harderwic. Arferai amryw o ymneillduwyr Prydain anfon eu plant i'r athrofëydd hyn i'w parotoi i'r weinidogaeth. Y prif ddysgedigion Erasmus, Grotius, Boerhaave ac ereill, a ysgrifenasant eu traethiadau yn Lladin.

Dyma y pader yn yr iaith Isellmyn.—*Onse Vader die daer zijt in de Hemelen, Uwen Naem-word gheheylight. Y Riicke kome. Uwen Wille gheschiede op der Aerden, gelijck in den Hemel. Onse dagelijckt Broodt gheeft ons heden. Ende vergheest ons ouse Shulden ghelijck wy oock ouse Schuldenaren vergeven. Eude en leyt ons niet in Versoeckinge. Maer verloest ons vanden Boosen.* Amen.

Cyfnewidiaeth.] Yr oedd Holland tra meddiannodd rannau o India ddwyreiniol yn enwog mewn trefnidiaeth; ond er ys blynyddau weithian, y prif gyfoeth a ddeillia iddi, sydd oddiwrth bysgota morfilod yn y gogledd-for, a phenweig yn y mor Tawch; ac oddiwrth yr ychydig weithfaoedd lliain, cotwm, crwyn, sidan, papur, a llestri pridd o wneir yn Delfft.

Camlesydd.] Mae y wlad wastad hon yn llawn o gamlesydd, a rhai o honynt yn ddigon dwfn i lestri mawrion nofio arnynt. Nid oes eisieu ffyrdd i gludo ar olwynion trwy un rhan o'r wlad, gan fod amldra o lestri yn gweini i rwyddo cludiad dynion a daoedd yn mhob

cwr o honi. Fal hyn mae yr Iseliaid yn cyfnewid eu da trwy y gwledydd cyfagos yn ddirwystr, pan y byddo braw gan fygythion peirianau rhyfel yn eu rhwystro i anturio y moroedd.

MILWYR A LLONGAU RHYFEL.] Cyfrifid y milwyr yn 40,000 cyn meddiannu y wlad gan y Ffrancod. Eu llyngesau fuont ar rai amserau yn dra chadarn, ond yn y rhyfel diweddar â Phrydain, dyfethwyd hwynt agos i gyd, gan y llyngeswyr Lucas, Duncan, a Mitchel.

DINASOEDD A THREFYDD.] Amsterdam, prif ddinas Holland sydd yn sefyll ar darrau gorsog, ar gydiad afonydd Amstel a Wye. Mae ei heolydd yn gulion, ond mae yr adeiladau yn hardd. Cyfrifid hi hyd yn ddiweddar yn helaethach ei chyfoeth nag unrhyw ddinas yn Ewrop onid Llundain. Ar goed cryfion o 20 i 30 troedfedd o hyd gwedi eu pwyo i'r llaid y seiliwyd yr adeiladau: dywedir fod 13,659 o honynt o dan lawr tŷ y *Stadtholder*. Ei phorthladd sydd eang, ac yn dangos cywreinrwydd y dynion a adeiladodd ei muriau rhag sarhâd y môr. Y trigolion ydynt 212,000.

Leyden, dinas gaerog ar amryw geinciau o afon Rhin, sydd le o gryn harddwch a chadernid. Gwarchaeodd yr Yspaeniaid arni yn 1574, a bu farw 6000 o'r trigolion gan newyn; ac yn 1807 dyfethwyd ei phrif eglwys ac adeiladau amrywiol ereill, gan i dân gyneu yn ddamweiniol mewn llestr lwythog o bowdr gwn yn gyfagos iddi. Y trigolion ydynt 50,000.

Rotterdam, sydd yn sefyll ar gydiad afonydd Rotte a Merwa y rhai ydynt geinciau o afon Meuse. Mae ei phorthladd yn rhagori ar un yn Holland, ac yn fwy llawn o longau, gan fod y rhew yn cilio o hono yn nghynt na'r lleill. Yr adeiladau ydynt ardderchog, ac mae ynddi 48,000 o drigolion.

Haarlem, ar fin llyn o'r un enw, ac yn 12 milltir i'r gorllewin o Amsterdam sy ddinas gaerog, a'i heolydd yn llydain a hardd. Yn ei phrif eglwys mae'r offeryn cerdd mwyaf yn Ewrop: dywedir iddo gynnwys 8000 o bibau. Y trigolion ydynt 40,000.

Yr Hague, sydd dref hynod o hardd gan ardderchowgrwydd ei lysoedd, prydferthwch ei sefyllfa, a hynawseiddrwydd ei thrigolion, y rhai ydynt yn 36,000. Yn hon y preswyliai Ieirll Holland gynt, gan ei dewis o flaen y brif ddinas.

Middleburg, dinas gadarn ar ynys Walcheren, sydd a'i hadeiladau amrywiol yn dra ardderchog. Mae camlas yn cyrhaedd o honi i ddinas Flushing. Ar yr ynys hon y bu yn ddiweddar, sarhâd anferth ar gantoedd o feibion Prydain, gan arfau distrywgar y gelyn, ac yn enwedig gan afiechyd awyr gorsog y lle.

Utrecht, Delfft, Dort a Groningen sydd ag o ddeutu 20,000 o drigolion bob un.

Brussels, dinas gaerog, sydd yn sefyll ar gainc o afon Scheldt, a elwir Sen: mae ynddi adeiladau gwych, ac yn eu plith lŷs breninol, diweddar annedd llywyddion yr Heldd. Y trigolion ydynt 80,000.

Ghent, prif ddinas Flandrys, yn cynnwys o ddeutu 60,000 o eneidiau, sydd yn sefyll ar liaws o fân ynysoedd a lunier gan afonydd Scheldt, Lys, Lieve, Moere, ac amrywiol gamlesydd.

Antwerp, yr hon fu unwaith yn fwy ardderchog, sydd yn sefyll ar afon Scheldt. Ei heglwysi, heolydd, &c, ydynt wychion. Oddiwrth y cyfnewid-dy sydd ynddi y portreuwyd cyfnewid-dy Llundain. Yr oedd ei thrigolion yn 1508, yn 200,000; ond weithiau nid ydynt onid

30,000. Y dinasoedd ereill ydynt Mons, a 25,000; Bruges, a Namur, ag 20,000 bob un, Luxembourg, 12,000; Roermond, 10,000; Limbourg, ag 8,000; &c.

CREADURIAID.] Nid oes unrhyw greaduriaid yn Holland nad ydynt yn Germani. O Brydain a Ffrainc maent yn cael y rhan fwyaf o'u meirch, ac o Holstein maent yn cludo eu gwartheg.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Holland.*

RHAN o'r wlad a elwid gynt Batavia yw Holland: yr oedd ei thrigolion yn amser y Rhufeiniaid yn dra enwog mewn defodau rhyfel, ac felly yn amddiffyn eu rhyddid yn ddewrwych rhag rhuthrau eu holl elynion tros flynyddau lawer. O'r diwedd prïododd merch llywydd y wlad Maximilian ymerawdr Germani, ac felly ar farwolaeth y llywydd, daeth y wlad tan lywodraeth yr ymerawdr, ac a fu yn ei feddiant hyd oni bu i gyffelyb achlysur beri iddi ddyfod yn eiddo y brenin Ioan o Yspaen. (1505.)

Yr oedd y taleithiau unol hyd y pryd hyn yn dra llwyddiannus: yr oedd iddynt 350 o ddinasoedd caerog, a 6,300 o drefydd; ac yr oedd y diwygiad rhagdystiol gwedi llwyddo yn llethu moesau gwrthnysig yr ofergoelion tywyll a oedd hyd hyny yn gorlenwi y wlad; ond pan ddaeth yr Yspaeniaid pabaidd i lywodraethu, ennynodd y nwydau erchyll hyny tan Charles V, i gosbi hyd angau pwy bynag na addefai eglwys Rhufain yn ben eglwysydd y byd, felly bu erlidiad echryslawn trwy ei deyrnasiad ef, ac ei ddilynïedydd Phylip II, a dywedir i fwy na chan mil o *brotestaniaid* oddef merthyrdod.

Yr Isellmyn yn gweled bod bryd yr Yspaeniaid am ganlyn ar y gorchwyl dychrynllyd o ferthyru, trwy osod chwil-lysoedd, ac anfon yn swyddogion y pabyddiaid mwyaf gwaedlyd a ellid eu cael, a ymroddasant i ddwyn arfau yn erbyn y traws-lywodraethwyr cigyddlyd. Yna gwedi i'r newydd gyrhaedd clustiau Phylip yn Yspaen, anfonodd fyddinoedd, ac ychwaneg o swyddogion gwaedlyd, gan beri dirdynu, llosgi a llarpio heb arbed, bob haerïedydd gan honni mai gwell oedd ganddo fod heb ddeiliaid yn y byd na rheoli y cyfryw. Yr oedd Duges Parma tan Phylip y pryd hyn yn goruchwyliaethu y wlad, yr hon a anturiodd anfon ei gweinidog at Phylip, i adrodd nad oedd y gorchwyl o arteithio y *protestaniaid* ond chwanegu eu rhif: ac i'r dyben o ddangos eu hynawseiddrwydd, bod can mil o deuluoedd o honynt newydd ymadael a'r fro; felly ei dymuniad oedd naill a'i cael caniatâd o roddi ei goruchwyliaeth heibio, rhag iddi aros yn unig yn y wlad; neu ynte ddiddymu y chwil-lys, a rhoddi rhyddid cydwybod i'r trigolion.

Phylip, yn caniatau ei dymuniad o ymadaw, a anfonodd y Dug Alva yn ei lle, gan orchymyn iddo fod yn fwy ffyddlon yn y gorchwyl o dywallt gwaed y rhagdystiaid; ac felly y bu yn ddïarbed. O'r diwedd daeth y tywysog Orange yn mlaen ac annogodd yr Isellmyn i amddiffyn eu gwlad ac eu crefydd rhag y trawsfeddiannwyr; felly yn y frwydr gyntaf collodd 500 o Yspaeniaid eu bywyd: ond cythrudd-

odd y dug Alva fal y casglodd yr holl Yspaeniaid oedd yn Holland yn erbyn y tywysog, yna gorfu arno ffoi i Germani. Arteithio dychrynllyd a ganlynodd, hyd oni ddychwelodd y tywysog â llynges gref at lenydd môr Holland, lle y distrywiodd y dinasoedd hyny a oedd yn ei gyrhaeddiad yn llwyr; a chanlynodd ar ei orchwyl ar dir a môr nes llareiddio ychydig ar y poen-wyr creulawn; ac y terfyn gwedi brwydrau echrys tros lawer o flynyddau, oedd llwyr ddiarddel yr Yspaenwyr cigyddlyd o'r fro.

Elizabeth o Brydain gwedi cynnorthwyo yr Isellmyn i fwrw yr iau oddiarnynt; a ddanfonodd y Dug o Anjou i Holland i'w llywodraethu: tiriodd yn Flushing yn mhen deu-ddydd, lle y derbyniwyd ef yn garedig gan y tywysogion Orange a d'Espinoi; ac oddiyno i Antwerp lle y rhoddes y tywysog Orange goron ar ei ben gan adrodd, "mi a'i sicrâf yma fal nad hawdd ei hysgwyd." Ond ceisiwyd cyn gorphen gwledd y coroniad beri terfyn iddi, trwy i babydd saethu ato a'i glwyfo yn ei ben, a chyn iddo ddadebru o'i lewyg, yr oedd ei weision gwedi rhuthro ar y bradwr a'i lâdd; felly buwyd heb wybod gwreiddyn y drwg hyd oni chyfaddefodd offeiriad pabaidd mai ef oedd gwedi rhoddi yr annogaeth, ac ei fod yn cyfiawnhau y gorchwyl. Ar hyn rhuthrwyd arno yntau, a dylliwyd ef yn ddarnau, a hoeliwyd ei aelodau yma ac acw ar furiau Antwerp. Nid hir gwedi hyn y bu y tywysog heb i fradwr arall ei lâdd, yr hyn a barodd i'r Yspaeniaid dan y dug o Parma ail-oresgyn y wlad, a difrodi pob peth yn eu harfod, hyd oni bu i arfau Maurice mab y dug Anjou fod yn llwyddiannus i'w herlid ymaith.

Gwedi bwrw o'r Isellmyn yr iau babaidd o'r fro, dechreuodd dilynwyr Armin a Calvin ymgecru a'u gilydd, a gwedi cryn derfysg a thywallt llawer o waed, penderfynwyd mai crefydd yn ol egwyddorion yr olaf oedd i fod yn freintiol yn Holland rhagllaw.

O ddeutu y pryd hyn yr oedd Holland yn mwynhau y llwyddiant mwyaf: Amsterdam yn brif farchnadfa Ewrop, ac yn gyfoethocaf o holl ddinasoedd y byd. Y senedd yn anfon cenadau i China, Siam a Bengal; at y Mogul, brenin Persia, khan Tartari, ymerawdr Twrci, czar Muscovi, a thywysogion Affrica. Ond yn fuan gwedi, unodd Louis XIV o Ffrainc ei fyddinoedd at Yspaen, a goresgynasant Holland, a gwedi brwydrau echrys, gorfu ar yr Isellmyn ddryllio yr argâau i ollwng y môr i foddi eu gwlâd, yr hyn yn nghyd a nawdd Germani, Denmarc, a Phrydain, a fu yn foddion i yru Louis ymaith i'w fro ei hun.

Tra bu yr argâau yn cael ei hail sicrau, yr oedd yr Isellmyn yn dra phrysur yn parotoi eu llynges i wynebu llynges Ffrainc, a buant lwyddiannus amryw frwydrau. Yn 1688, priododd Mary etifeddes Prydain, Braint-geidwad yr Isellmyn, sef William III, yna unodd llyngesau Prydain â rhai Holland yn erbyn y Ffrancod, a cheisiodd William â'i holl egni hyd angau ddarostwng y gelyn (Louis XIV) a ddaethai â'i wlad i fin distryw mor fynych, ond eto ni ddarostyngwyd ef hyd oni bu i'r llywyddion enwog Marlborough ac Eugene tan y freninea Anne lwyr dalu y pwyth iddo.

Prydain yn ymheddychu â Ffrainc yn mhen blynyddau gwedi hyn, ail oresgynodd y Ffrancod Holland, a chan i Loegr fod yn amhleidwar yn y tro, ni bu yr Isellmyn gwedi hyny onid gelynion dirgelaidd Prydain. Ac yn 1755 yr oeddynt ar delerau mor heddychol â

Ffrainc, ag y gorfu ar Brydain gyhoeddi rhyfel yn eu herbyn, er mai un frwydr echrydus ar y môr ydoedd cymmaint ag a ddigwyddodd rhyngddynt.

Yn nechreu y dadymchweliad Ffrengig, unodd y Braint-geidwad â galluoedd Ewrop yn erbyn Ffrainc, am hyny goresgynwyd y wlad; a gwedi amryw frwydrau gwaedlyd, gorfu ar y Braint-geidwad, ac ei deulu ddianc am noddfa i Brydain, a gwnaed Holland yn deyrngedawl i Ffrainc. Erbyn hyn cyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn Holland, a meddiannwyd ei holl gyfoethau yn yr India ddwyreiniol, a chymmerwyd ei llongau, ac ni bu terfyn ar ymladd hyd heddwch Amiens yn 1801, pan y cyd unwyd i Holland ail feddiannu ei gwladwriaeth yn yr India, oddieithr ynys Ceylon, a'i haddef wrth yr enw gwladwriaeth Batavia. Ond y rhyfel yn ail ennyn y flwyddyn ganlynol, gwasgwyd ar yr Hollandiaid i anfon i Ffrainc i ymofyn brenin i'w llywodraethu; felly Louis Bonaparte brawd ymerawdr Ffrainc a goronwyd; a chan fod ynddo beth rhinwedd mwy llariaidd nag yn ei frawd, rhoddwyd ar ddëall iddo mai goreu oedd iddo ymddiosg o'i goron, a dychwelyd gyd a'i frenines ac y tywysogion ieuainc i Ffrainc; ac felly y gwnaeth. O hyny hyd y pryd hyn, cyfrifir Holland yn rhan o ymerodraeth Ffrainc.

# PORTUGAL.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad.. Hin a thymhorau...Afonydd...Llynau...Mynyddoedd...Mwnglo-ddiau.*

PORTUGAL sydd yn sefyll yn ngorllewin-barth Ewrop, sef rhwng Lledr. 37° a 42° yn ogleddol, a rhwng hydr. 5° 40′, a 9° 30′ yn orllewinol, yn 350 milltir o hyd a 120 o led; ac yn gylchynedig o du y gogledd a dwyrain gan Yspaen, ac o du y de a gorllewin gan y môr Werydd.

RHANIADAU.] Mae y wlad hon gwedi ei rhanu yn 6 thalaeth, fal y canlyn,

| | *Taleithiau.* | *Mill. arw.* | *Trigolion.* |
|---|---|---|---|
| Parthau gogleddol. | Entre Douro e Minho . | 1,840 | 900,000 |
| | Tras os Montes | 2,190 | 140,000 |
| Parthau canol. | Beira . . . | 7,200 | 520,000 |
| | Estramadura . | 5,440 | 635,000 |
| Parthau deheuol. | Alentejo . . | 8,800 | 300,000 |
| | Algarve . . . | 1,600 | 93,470 |
| | | 27,070 | 2,588,470 |

GWYNEB Y WLAD.] Gwlad lawn o fynyddoedd noethlwm yw Portugal, ond mae ei glynoedd ac ei dyffrynoedd yn cynnyrchu gwinrawn ac amrywiol ffrwythydd ereill yn dra thoreithiol. Mae cryn ran o'r tir yn fawnog ac yn deneu yn peri i haidd a gwenith fod yn brin yn-

iddi, felly y gwledydd cymmydogaethol sydd yn cludo y rhan fwyaf o ddefnydd bara iddi, yr hyn sydd yn llunio rhan fawr o'i threfnidiaeth.

HIN A THYMHORAU.] Er mai un o'r gwledydd lleiaf yn Ewrop yw Portugal, mae cryn amrywiaeth yn ei hinsoddau, trwy fod y parthau gogleddol yn lled oer trwy y rhan fwyaf o'r flwyddyn; y parthau canol yn gymbedrol yn wastadol; ac y rhan ddeheuol o honi yn mwynhau hin fwll yn barhaus.

AFONYDD.] Afon Tagus sydd yn codi yn mynyddoedd Molina yn Castîl yn Yspaen, ac yn ymgyfeirio i'r gorllewin 300 milltir cyn cyrhaedd Portugal, yna gwedi llifo ar draws y wlad 150 milltir, mae hi yn ymarllwys i'r Môr Werydd wrth ddinas Lisbon. Mae hon ar amserau yn gor-lenwi ei cheulenydd mor rëolaidd ag afon Nile yn yr Aipht.

Afon Minho sydd yn codi yn Galicia yn Yspaen, ac yn llunio y terfyn rhwng y dalaeth hono a Portugal, yna yn ymuno â'r môr Werydd wrth Carminha.

Afon Douro sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Urbion yn Yspaen, yn llifo trwy dalaeth Castîl uchaf i gwr gogledd ddwyreiniol Portugal, yna gan gyfeirio i'r gorllewin, mae hi yn ymuno â'r mor wrth ddinas Oporto.

Afon Guadiana sydd yn codi yn Castîl uchaf yn Yspaen, a gwedi cyrhaedd Portugal, mae hi yn dosbarthu Algarve oddiwrth Andalusia, yna yn ymarllwys i borthladd Cadiz.

Afon Mondego sydd a'i blaenau wrth dref Guarda: ei rhedfa sy trwy dalaeth Beira i'r môr Werydd.

LLYNAU.] Mae amryw o lynau bychain yma ac acw yn nyffrynoedd Portugal. Nid ydynt hynod am faintioli na chynnyrch, ond o fod yn y rhan fwyaf o honynt ryw dynfa sugnedig, fal na nofiai na phren nag unrhyw ddefnydd ysgafn heb soddi yn ddiatreg i'r gwaelod. Llyn Escura ar ben mynydd Estrella yn nhalaeth Beira, sydd o ddyfnder yn ddi-gyrhaeddiad hyd yn hyn: dywedir ei fod ar amserau yn bwrw drylliau o longau i fynu, yr hyn yn nghyd a'i aflonyddwch, a'i dwrf pan fyddo y môr yn dymhestlog sydd yn peri i rai Haneswyr honni bod cydrediad rhyngddo â'r dyfnder mawr.*

MYNYDDOEDD.] Y prif fynyddoedd ag a ellir eu galw yn drum, yw y rhai sydd yn llunio y terfyn rhwng Algarve ac Alentejo. Y lleill ydynt mynyddoedd Tras os Montes; mynyddoedd Arrabida a Montojunto yn Estremadura; mynyddoedd Estrella yn Beira; mynyddoedd Ossa yn Alentejo; a mynydd Cintra ar benrhyn o'r un enw o ddeutu 15 milltir i'r de orllewin o Lisbon, adnabyddus i forwyr o fod y darran fwyaf gorllewin yn Ewrop.

MWNGLODDIAU.] Bu y wlad hon yn y cynamseroedd yn dra enwog ei chloddfeydd o aur ac arian. Mae tri chloddfa tramawr o faintioli yn *St. Miguel das tres Minhas.* Y mwyaf, yr hwn sy gwedi ei gloddio trwy y graig galed sydd a'i enau yn 1¼ milltir o amgylchiad; yn 170 llath o ddwfn, ac yn ei waelod yn 800 llath o' hyd a 460 o led. Y ddau ereill ydynt agos o'r un maintioli. Mae cloddfeydd arian a phlwm yn agored weithian yn Mursa a Lamego, ac un o efydd yn Elvas. Haiarn sydd ehelaeth mewn amrywiol ardaloedd o honi, ac er bod pyllau glo yn agored er ys rhai blynyddau, mae prinder tanwydd, a diogi y trigolion yn rhwystro treiddio hyd ato.

* Smith's Geography, p. 279.

LLYSIAU.] Mae pob llysiau mor amrywiol ag ebelaeth yn y wlad hon ag ydynt yn Itali, ond bod y tymhestloedd oddiar y môr Werydd yn niweidio twf coed, &c. ar hyd glenydd y môr.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion.. Llywodraeth. Cyfreithiau.. Crefydd.. Iaith. Dysgeidiaeth.. Cyfnewidiaeth.. Dinasoedd.. Anifeiliaid.*

MAE trigolion Portugal yn cael eu cyfrif yn gyffredin yn hardd eu gosgedd, ac yn fywiog o dymherau, ond yn dra anwybodus gan dywyllwch coel-grefyddol. Mae y mawrion yn hynod o fyw yn gymedrol, ac o fod yn fwy diwyd mewn arferion crefyddol nag o dreiddio i wybodaeth o'r celfyddydau, nag unrhyw oruchwyliaethau bydol ereill, gan ei chyfrif yn fraint arbenig o fod eu llinynau gwedi disgyn mewn lle môr hyfryd â gwlad Gristionogol Portugal. Y trefnidwyr ydynt dêg yn eu hymgyfnewidiaeth â dieithriaid yn gystal ac a'u gilydd; gwell ganddynt fyw yn wael na rhedeg y perigl o dori, nag ychwaith o beryglu eu heiddo trwy ymgyfreithio. Arfer Trefnidiwr o Lisbon yw myned i dŷ addoliad 8 o'r boreu: i'r gyfnewidfa 11; at ei giniaw 1; yna cysgu hyd 3, ymborthi ar ffrwythydd 4, a swpera 9, gan dreulio yr oriau cyfryngol wrth ei gyfrifon neu chwareu cardiau. Yr eglwyswyr lliosog o amrywiol urddau o osodiad y pabau *sanctaidd* gynt, ydynt ddysgedig yn gyffredin, ond mor goel-grefyddol ag y dewisant dreulio eu hoes mewn mynachdai anghysbell, o flaen ymgyfrinachu ag unrhyw ddysgedigion ereill. Y werin ydynt goel-grefyddol, dialgar a bradychus. Ni ommeddant pan wylltiont lâdd cymmydog, os bydd eglwys yn ddigon agos i'r llofrudd fod yn ddiangol trwy roddi tro o'i chylch, a dodi ei fŷs yn nhwll y clo cyn i ddialydd y gwaed ei ddal. Mae lluoedd o honynt y sydd heb unrhyw alwedigaethau, yn tramwy yn finteioedd trwy y wlad, ac yn gwersyllu mewn pentrefi neu dai allan y mawrion, gan orchymyn pob angenrheidiau a fyddo arnynt eisiau hyd eu hymadawiad, ac ar eu taith byddant sicr o arllwys llogell y teithiwr a gyfarfyddont yn llwyr, naill ai trwy orfod, neu er mwyn Mair, a rhifres o seintiau ereill.

Nid ydyw rhieni yn caniatau i'w merched fyned i ffair na marchnad, na thy cymmydog, nag i'r gwyl-mabsantau lliosog arferedig o'u cynnal mewn pob gwlad babaidd, heb fod yn drwyadl yn eu gwarchod rhag ymgyfeillachu o honynt â meibion. Caniateir iddynt fyned bob dydd i dy addoliad, a dyna yr unig fan y mae yr ieuenctid yn cael cyfle o weled eu gilydd, ac o ymgyfrinachu trwy gyflym-dwyll y bechgyn ieuainc y sydd yn gwasanaethu yr allor; y rhai ydynt yn cael eu dysgu i gludo llythyrau yr ieuenctid y naill at y llall, tan adrodd eu paderau yn awchus nes y syrthiont ar eu gwynebau wrth draed y pleidiau caruaidd, fal y byddo cyfle teg i gyflawni eu hamcan o newid y llythyrau. Priodasau ydynt dra afradus: harddant ystafell y neithior â sidanau ag â gemmau gwerthfawr, a bydd hyd yn nod ymylau llenllieiniau y gwely o eirionynau gwych. Y gwleddoedd hefyd a arlwyir amser bedydd neu angladd ydynt dra drudfawr. Mae pob graddau yn hynod am wisgo yn weddaidd heb ddangos unrhyw awydd o newid dillyn-ddull eu hynafiaid. Arferant y meibion wisgo cleddyf gyd a'i

dillad goreu, a dwy awron, neu o leiaf dwy gadwen foel. Yr ych sydd yn dyrnu yr ŷd, yn aru y tir, ac yn tynu y certi anghelfydd. Adnabyddir tafarn-dy wrth swpyn o winrawn, ty ar osod wrth bapur gwyn, a thy bydwraig wrth groes wen ar y drws.

LLYWODRAETH. CYFREITHIAU.] Mae pob gallu rhwysgol yn gyfleedig yn y brenin. Ei orchwyl ef yw llunio y cyfreithiau gwladol, yn gystal ag y Senedd y sydd yn eu rhoddi mewn grym. Ei ragymadrodd i bob cyfraith sy fal hyn, " Yr wyf fi, y brenin, trwy rinwedd fy ngwybodaeth, o fy ewyllys breninol, ac o fy ngallu cyflawn, goruchel a rhwysgol, a roddwyd imi gan Dduw, heb achos ateb am dano i unrhyw ddyn ar wyneb daear; yr wyf i oherwydd hyny yn gorchymyn, &c &c. Er bod y cyfreithiau yn gyffredin yn lled dyner, echrys yw y gosb o'u troseddu. Rhwymir y troseddwr (os o genedl y Fidalgiaid y bydd) ar bolyn, yna noda meddyg ei wddf ag edau fain i'r dihenyddwr dynu ei gyllell lém gan dori o amgylch hyd yr asgwrn, ond os o genedl y gwreng y bydd, crogi sydd arferol. Digwyddodd yn ddiweddar yn Lisbon i droseddwr oedd gwedi ei farnu i'w grogi, honni yr hawl o'i ddihenyddio fal y Fidalgiaid, a chan nad oedd onid ei fam o'r genedl honno, ni chaniatasynt y Fidalgiäd y cyfryw fraint; felly gwedi eryn ymresymu, rhanwyd yr amrafael trwy roddi haner crogfa i'r truan, gwedi yn gyntaf haner tori ymaith ei ben.*

CREFYDD.] Pabyddiaeth yn ei chyflawn rwysg a grym sy freintiol yn Portugal. Mae y chwil-lys a sefydlwyd yma gan Ioan III, gwedi rhwystro rhyddid cydwybod i unrhyw enw arall. Gelwir ef er mor anhynaws ydyw yn *llys sanctaidd*, ac ei arteithiau dychrynllyd yn *weithred ffydd*. Mae patriarch yn cynddrychioli y pab megys pen ar eglwys Portugal.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Y lladin yw gwreiddyn iaith y Portugiaid, ond bod lliaws o eiriau y Mooriaid, y Gothiaid, ac ereill, a fu yn preswylio Portugal yn y cynamserodd yn gymysgedig ynddi. Ychydig yw rhif y dysgedigion a ddeilliodd o'r wlad hon yn yr oesoedd diweddaraf, er bod ynddi 300 mlynedd yn ol, ddynion enwog mewn mordwyaeth, seryddiaeth, &c.

Y pader yn iaith Portugal sydd fal hyn, *Padre nosso que esta nos ceos sanctificado seja o teu nome; venha a nos teu reyno; seja feita a tua vontade assi nos ceos como na terra. O pao nosso de cotidia da no lo oje, E perdóa nos as nossas devidas assi como nos perdóamos a os nossós devedores E nao nos dexes cahir om tentaçaó, mas libra nos do mal; porque a teu o reyno, o poder, e a gloria noo siglos. Amen.*

CYFNEWIDIAETH.] Bu Portugal pan oedd yr India yn ei meddiant yn hynod mewn trefnidiaeth, gan mai hi oedd yr unig farchnad yn Ewrop yn gwerthu perlau gwerthfawr, ifori, sygr, tea, &c. Ond weithian gwin yw ei phrif gyfoeth, yr hwn yn nghyd â ffrwythydd cyffeithiol, lliain, gwlaneni, halen, cyrc, &c. a gyfnewidiant â gwledydd ereill am angenrheidiau addas.

DINASOEDD A THREFYDD.] Lisbon y brif ddinas, yn 4 milltir o hyd ac 1½ o lêd sydd yn sefyll ar saith o fryniau ar aber afon Tagus. Yr adeilad odidocaf ynddi ydyw yr eglwys Batriarchol, yr hon sydd yn cynnwys ynddi lïaws o lestri a delwau aur. Yr heolydd ydynt hardd yn enwedig y rhai a adeiladwyd er 1755 pan y dinistrwyd rhan fawr o'r ddinas, ac o ddeutu 24,000 o drigolion gan ddaear-gryn. Y Gal-

* Goldsmith's Geography, p. 254.

lleiaid sydd yn gwneyd pob trwm-waith a berthyno i'r ddinas: rhaid bod gan bob un o honynt ystenaid o ddwfr yn ei lety rhag gwall tân ynddi.

Oporto, ar ochr mynydd wrth aber afon Douro sydd le hynod am ei marchnadfa gwin, yr hwn a gyfrifir yn orea o unrhyw yn Ewrop. Y trigolion ydynt 50,000.

Coimbra, yn nhalaeth Beira ydyw y dref fwyaf poblog yn Portugal. Dywedir bod ynddi o ddeutu 12,000 o drigolion.

Braga, ar anfon Cavado, 180 milltir i'r gogledd o Lisbon, sy ddinas esgobaethol yn cynnwys 5 eglwys, 8 mynachdy, a 7000 o drigolion.

Evora, ar wastadedd têg 65 milltir i'r dwyrain o Lisbon sydd hynod am fod darnau o deml i Ddiana ynddi.

Anifeiliaid.] Mulod Portugal sydd hynod am eu cryfder, ond go anaml yw y meirch ynddi. Yr ychain ydynt gryfion a lliosog ond go fychain yw y defaid. Cyfrifir cig y cenfeint moch y sydd yn anial leoedd y wlad yn well nag unrhyw o wlad arall.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Portugal.*

LUSITANIA oedd enw y wlad hon yn y cynamseroedd: goresgynwyd hi ar ogwyddiad ymerodraeth Rhufain yn olynol gan y sueviaid, y Gothiaid ac y Mooriaid. Nid oedd hanfod iddi fal teyrnas hyd derfyn yr 11 ganrif, pan y bu i Alphonso IV, brenin Castîl a Leon, roddi ei ferch i Harri o Burgundy, am ei wroldeb yn erlid ymaith y Mooriaid o Portugal, yr hon oedd y pryd hyn yn deyrngedawl i Alphonso. Nis cymmerodd Harri onid enw iarll arno, tra bu rhwysg y llywodraeth yn ei feddiant, ond ei fab Alphonso Henriquez, gwedi cael buddygoliaeth ar bump o freninoedd y Mooriaid yn 1139, a meddiannu Lisbon, a gyhoeddwyd gan ei filwyr yn frenin. Yna anfonodd y pab Alexander III ei weinidog at Alphonso, i ofyn y deyrnged oedd yn arferol o'i rhoddi i Rufain gan bob gwlad a ddygid oddiar anghredinwyr, a chan iddo gydsynio a'i ofyniad, anfonodd y pab benadur i'w goroni, a bu 46 blynedd ar yr orsedd.

Gwedi marw Alphonso, goresgynodd y Mooriaid Portugal ac Yspaen, a bu brwydrau dychrynllyd rhyngddynt tros flynyddau lawer, eithr cadwodd epil Alphonso feddiant o'r deyrngadair hyd farwolaeth Fferdinand yn 1383, pan y bu i Ioan o Castîl yr hwn a briodasai dywsoges Portugal, unig bleutyn Fferdinand, honni hawl i'r goron, ond gwedi ei goroni, difreinwyd ef, a rhoddwyd y llywodraeth i Ioan brawd gordderch i Fferdinand, yr hwn ar farwolaeth ei frawd, oedd gwedi ei osod am ei ddewrder ar faes rhyfel yn llywydd ar y wlad.

Ioan I, gwedi ei goroni yn frenin, a ymroddodd i arwain cymmaint o wybodaeth fuddiol i blith ei ddeiliaid ag a oddefai y pab iddo: ef oedd y tywysog cyntaf yn Ewrop a wnaeth lyr. es, â'r hon y bu yn llwyddiannus nid yn unig i amddiffyn ei wlad rhag ei gelynion, ond hefyd i ddarganfod gwledydd anadnabyddus i Ewrop y dyddiau hyny. Yr oedd ei drydydd mab Don Henry yn enwog mewn morwriaeth: ef oedd y cyntaf a eglurodd fuddioldeb yr ehedfaen er ei fod gryn amser cyn hyn yn adnabyddus mewn rhan, yn amryw wledydd.

Trwy lafur y tywysog hwn y darganfuwyd ynysoedd Madeira, ynysoedd Azore, ac ynysoedd Cape de verd, 1420.

Y nesaf oedd Edward mab Ioan I, yna Alphonso V, mab yr hwn gan iddo farw cyn cyrhaedd 21 oed, a barodd ddychwelyd y goron ar ben Ioan II brawd Edward. Tywysog enwog mewn defodau rhyfel yn gystal ag o fyfyrio y dull goreu i wneyd ei ddeiliaid yn ddedwydd oedd hwn. Yn ei amser ef yr anturiodd y Portugiaid i fynu afon Zara hyd oni chawsant feddiant o deyrnas Congo yn Affrica yn 1484, ac yr anturiodd Cadpen Diaz am y tro cyntaf heibio i rhyn deau Affrica gan ei alw y penrhyn tymhestlog, yr hwn gan i'r brenin wybod buddioldeb yr amlygiad a alwyd drachefn y penrhyn gobaith.

Emanuel I, yn ymroddi i ddilyn amcanion ei hynafiaid, a anfonodd bedair o longau dan Vasco de Gama i olrhain y daith o Portugal i'r India ddwyreiniol, yr hwn gwedi hir hwylio tros y dyfnder a diriodd yn llwyddiannus yn Calicut, prif ddinas Indostan y pryd hyny.—Parodd y daith hon derfyn ar hen lwybr y cyfnewidiaeth a oedd rhwng y trigolion dwyreiniol â gwledydd Ewrop Cyn hyn yr oedd yr Arabiaid yn cludo cynnyrch gweithfäoedd yr India i borthfëydd y môr côch i'w cyfnewid a threfnidwyr o Venice ac Alessàndria, a chan i'r llongau gludo eu llwyth yn eu dychweliad, daeth holl Ewrop i Lisbon i ymofyn da yr India, ac felly terfynodd marchnadfa Venice yn llwyr. Y llyngeswr nesaf oedd Alvarez de Cabral: trefnodd hwn pan gyrhaeddodd Calicut, na chafai unrhyw lestr dramwy môr India heb ganiatâd Portugal, felly ar ei ddychweliad, gwnaeth y brenin wr o enw Alphonso Albuquerque, yr hwn oedd a'i rwysg-awydd mor ddiderfyn a'i arglwydd, yn llywydd yr India ddwyreiniol. Bu lwyddiannus i ennill Goa, Malacca, ac Ormus yn nghul-for Persia: y ddwy olaf ydynt weithian yn eiddo arall, a Goa sydd yn parhau yn meddiant Portugal hyd heddyw. Ond er holl ymgais y llywydd hwn yn chwanegu etifeddiaeth ei arglwydd, eiddigeddodd Emanuel wrtho trwy wrando ar lais y deiliaid oedd yn cael eu dëol ganddo oddiyno i Lisbon, gan yn lle eu dibenyddio wrth ei orchymyn, eu gosod mewn uchel swyddau, a bwrw Alphonso yn analluog o ddosbarthu barn gyfiawn.

Pan glybu y llywydd hyn, dywedodd yn alarus, "a all y pethau hyn fod? Cefais ddirmyg dynion am fod yn awyddus yn fy nyledswydd i'm brenin, a dyma gywilydd wyneb imi oddiwrth ei fod yn derbyn y rhai yr wyf fi am ei beiau yn eu gwrthod: i'r bedd, hen ddynyn anedwydd! i'r bedd! dywed dy weithredoedd am danynt eu hunain ac am danat tithau." Gwedi marw Emanuel coronwyd ei fab Ioan III, yn 1521. Hwn oedd y tywysog cyntaf yn Ewrop a unodd ag urdd y Jesu'tiaid, i'r rhai y rhoddes gyflawn rwysg yn ei ardaloedd: danfonodd dyrfa o honynt i ddiwygio moesau y dwyrein-fyd, gan ddysgu egwyddorion gwaedlyd teyrnas anghrist; ac iddo ef mae yr anrhydedd *arbenig* o fod gwedi sefydlu y llys uffernol a elwir y chwillys. Bu farw yn 1557, a daeth ei fab Sebastian yn ei le.

Gorchwyl cyntaf Sebastian oedd goresgyn Barbari, ond yn y tro bu yn aflwyddiannus: collodd ei fywyd yn y frwydr gyntaf, ac yna dyrysodd ei fyddinoedd, a merthyrwyd hwynt gan y Barbariaid. Gan nad oedd etifedd i'r goron, esgynodd ei ewythr y penadur Harri i'r orsedd, yr hwn hefyd yn marw yn ddiblant honnodd amryw eu hawl i'r goron, sef, brenin Yspaen nai Harri o du ei fam, dug Braganza, yr hwn oedd briod ag wyres Emanuel yr enwog, don Antonio, prior

Crato gordderch-fab y tywysog Lewis, dug Savoy, dug Parma, Cathrine o Medicis, ac hefyd y pab Gregori XIII.

Er nad oedd hawl Phylip yn dda, eto ei blaid ef oedd gryfaf, felly unwyd coron Portugal at Yspaen, a bu dan ei iau 60 mlynedd llawn, hyd oni ddarfu i'r trigolion wrthryfela a gosod dug Braganza, tan enw Ioan IV ar yr orsedd: yna gwedi anfon llongau i ddifreinio y llywyddion Yspaenaidd oedd yn ardaloedd pellenig Portugal yn Asia, Affrica, ac America ddeheuol, mwynhaes Portugal ei chyfiawn ryddid.

Ar ol Ioan daeth ei fab Alphonso VI, yr hwn oedd fwy am fwynhau nwydau anianol, na llywodraethu ei ddeiliaid; a chan iddo barhau i ddilyn ynfydrwydd, honnodd ei frenines, nad oedd yn wr addas iddi, felly bu ysgariad rhyngddynt, a'r frenines yn priodi ei frawd Pedro, cyhoeddwyd y ddau yn frenin a brenines, a rheolodd Pedro 30 mlynedd gan adael merch o'r wraig gyntaf, a meibion gan yr ail: yr hynaf o honynt sef ei ddilyniedydd Ioan V, oedd dad diweddar frenin Portugal. Yr oedd Ioan o duedd heddychol, er hyny gorfu arno ymuno ag y brenin William yn erbyn Yspaen yn 1707, ac ymladd amryw frwydrau echrydus.

Y nesaf a goronwyd oedd ei fab Joseph II, 1750, yn nechreuad ei deyrnasiad y digwyddodd y ddaeargryn ddychrynllyd yr hon a siglodd seiliau Yspaen a Phortugal, ac a ddistrywiodd ddinas Lisbon gan beri colli miloedd o'r dinasyddion, a gorfu ar gantoedd oedd gwedi colli eu holl feddiannau ofyn tosturi ereill i'w cynnorthwyo. Senedd Prydain oedd y gyntaf a ddaeth yn mlaen: rhoddes £100,000 i'w cynnal, anfonodd hefyd lestri yn llwythog o ymborth a gwisgoedd y rhai a diriodd yn Lisbon mewn amser addas, i gadw miloedd rhag marw o newyn ac anwyd.

Cyn i Portugal wellâu o'r sarhâd frawychus hon, lluniodd y Jesuitiaid gynghrair yn erbyn bywyd y brenin, a thra yr oedd ychydig filltiroedd o Lisbon yn y nos 23 Medi 1758, taniwyd bwled trwy ei gerbyd a chlwyfwyd ef, ac oni buasai iddo droi i'w haf-dy y nos hono yn lle i'r brif ddinas, dïau gorphenasid ef, gan y bradwyr oedd yn ei ddisgwyl yn mîn y dref. Dihenyddiwyd y prif fradwyr, a dëolwyd pob Jesuit o'r wlad.

Tra yr oedd y brenin heb wellâu o'i glwyf, daeth byddinoedd Yspaen i gyffiniau Portugal, ac anturiodd gweinidogion Ffrainc ac Yspaen i'r llys, i'w annog i ymuno a hwy i iselu brîg Prydain, gan adrodd y byddai raid cael ateb o fewn 4 diwrnod, ac onite y byddai dystawrwydd yn arwydd o anghydsynied. Yr oedd Joseph y pryd hyn mewn adwy gyfyng: yr oedd Prydain gwedi amddiffyn hynafiaid Joseph i gadw meddiant o'r deyrn-gadair, a gwedi bod yn fywiog yn achos Portugal bob tro y byddai mewn perygl o golli Brazil, a phethau amrywiol ereill. Ar yr ochr arall yr oedd undeb perthynasol er ys oesoedd lawer rhwng teulu breninol Yspaen a Phortugal, ac yr oedd ei gyffiniau y pryd hyn heb gaer na chlawdd i'w amddiffyn rhag goresgyniad y lluoedd oedd yn barod i ruthro iddi ar ommeddiad Joseph i ymuno. Os gogwydda i gydsynio, yr oedd yr rhaid i Brazil a Goa syrthio i ddwylaw y Saeson, ac i'w brif ddinasoedd Lisbon ac Oporto ddisgwyl eu chwilfriwio gan beiriannau dinystriol llynges Prydain. Os na chydsyniai yr oedd 60,000 o Yspaeniaid ar warthaf y deyrnas yn barod i'w goresgyn. Felly atebodd yn dra dewr fod ei gyfathrach rhyngddo a Phrydain ers blynyddau lawer, ac nad allai gyd ag unrhyw reswm

mewn un modd eu tramgwyddo, nad oedd ei undeb â Phrydain ond er amddiffyn ei wlad a'i ddeiliaid rhag eu gelynion, ac felly yn mhob agwedd yn llwyr ddiniwed; bod colledion diweddar Portugal gwedi ei hanaddasu, pe byddai awydd arni i fod yn rhanol mewn rhyfel ymosodol, ac wrth fwrw golwg ar ei bis lder presenol, gwedi ymweliad barnol y Goruchaf ar ei phrif ddinas, nas gallai fal tad i'w ddeiliaid, heb achos teg, ganiatau i beri i ddychryniadau trychinebus rhyfel ymweled a'i wlad. Y swyddogion ni wrandawent ar y cyfryw resymau teg, felly aeth Joseph rhagddo, a dywedodd, mai gwell ganddo nag i Portugal golli y fraint o fod yn wlad rydd, oedd gweled ei dŷ yn anghyfannedd a'i deulu ar wasgar yn anial-leoedd y ddaear: felly rhyfel yn ei herbyn a gyhoeddwyd yn ddioed. Pan glybu ei fawrhydi George III hyn, anfonodd 10,000 o wyr ac arfau, ymborth ac angheurheidiau ereill, a gwedi brwydr neu ddwy, gorfu ar yr Yspaeniaid ddianc o'r wlâd cyn terfyn yr haf 1762, ac yn y flwyddyn ganlynol gwnaed heddwch rhwng y galluoedd a'i gilydd

Joseph yn marw yn 1777, cyhoeddwyd ei ferch Maria Francis Isabella yn freninés: yr oedd hon trwy ganiatâd y pab gwedi priodi ei hewyrth Pedro,* rhag y digwyddai i'r goron fyned i ddwylaw estronol. Portugal gwedi hyn a ymunodd â'r galluoedd oedd yn erbyn gwladwriaeth Ffrainc, ond gan nad oedd yn meddu nemawr o rym, ymheddychodd ar delerau tra aflesol iddi yn 1801.

Y freninés yn cael ei blino gan y pruddglwyf, ac wedi myned yn llwyr analluog o gorff a meddwl i lywodraethu, rhoddwyd llywodraeth y deyrnas i'w mab hynaf, tywysog Brazil, a pharhaes yn llywydd ffyddlon i'w ddeiliaid hyd oni bu i ystryw Ffrainc ei wasgu i ddewis naill ai dianc o'i wlad rhag bachau y gormesdeyrn, neu o ddyfod yn gaethwas iddo; a fal dyn enwog dewisodd ymofyn noddfa yn Brazil, yn America ddeheuol, a chludodd gyd ag ef ei fam a mawrion ei lys, ac yno mae yn debyg yr erys hyd oni threfnir heddwch cyffredinol rhwng galluoedd Ewrop.

---

# YSPAEN.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau... Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau. Mynyddoedd Afonydd. Llynau.. Mwngloddiau.. Camlesydd. Coedydd. Llysiau.*

YSPAEN sydd yn gorwedd rhwng lledred 36° a 44° yn ogleddol, a rhwng hydred 9° 30′ yn orllewinol a 3° 20′ yn ddwyreiniol; yn 537 milltir o hyd, a 617 o led; ac yn gylchynedig o du y gorllewin gan Portugal a'r mor Werydd; o du y gogledd gan for Biscay a mynyddoedd Pyren, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ffrainc; o du y de gan gul-for Gibraltar, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth Affric, ac o du y dwyrain gan fôr y canoldir.

RHANIADAU ] Mae Yspaen yn cynnwys 140 o daleithiau, neu fal y geilw y trigolion hwynt teyrnasoedd, heblaw yr ynysoedd y sydd yn perthyn iddi yn Môr y canoldir.

---

* bu farw yn 1786.

| | Taleithiau | mill. arw. | Trigolion | hyd | lled | Prif ddinas. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| YSPAEN. | Castil *newydd* | 22,400 | 1,260,000 | 220 | 180 | Madrid |
| | Andalusia | 15,360 | 1,270,000 | 273 | 135 | Seville |
| | Castil *hen* | 18,272 | 1,000,000 | 193 | 140 | Burgos |
| | Arragon | 12,272 | 600,000 | 190 | 105 | Saragossa |
| | Estremadura | 10,240 | 450,000 | 180 | 123 | Badajos |
| | Galicia | 10,400 | 1,000,000 | 165 | 120 | Compostella |
| | Leon | 14,496 | 1,200,000 | 167 | 96 | Leon |
| | Catalonia | 9,280 | 900,000 | 172 | 110 | Barcelona |
| | Granada | 9,280 | 650,000 | 200 | 45 | Granada |
| | Valencia | 7,840 | 800,000 | 180 | 75 | Valencia |
| | Biscay | 2,880 | 200,000 | 140 | 55 | Bilboa |
| | Asturia | 2,288 | 150,000 | 124 | 55 | Oviedo |
| | Murcia | 6,608 | 500,000 | 87 | 65 | Murcia |
| | Navarre *uchaf* | 3,200 | 180,000 | 92 | 45 | Bampeluna |
| | | 114,816 | 10,160,000 | | | |
| Yn môr y canoldir. | Ynys Majorca | 1,410 | 140,000 | | | |
| | Ynys Minorca | 757 | 27,800 | | | |
| | Ynys Yvica | 560 | —— | | | |
| | Y cyfan | 117,573 | 10,327,800 | | | |

Tref a chaer Gibraltar perthynol i Prydain.

Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir] Mae rhai diffeithfaoedd tywodlyd yn mharthau deheuol Yspaen, a mynyddoedd noethlwm yn y cyrau gogleddol, agos yn amddifad o goed nag unrhyw lysiau. Ond mae yr holl ddyffrynoedd yn dir da, ac yn llawn o wenith, haidd, a gweiriau brâs. Ac y mae yr amrywiol wigfâu, perlleni, gerddi, &c. yn dra thoreithol o win, olew, oreins a phob ffrwythydd adnabyddus yn Ewrop. Y gwastadedd ëang mae Madrid arno, yw y tir uchaf yn y deyrnas oddigerth y mynydd-dir.

Hin a thymhorau.] Hin fwll sydd yn Yspaen trwy y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn enwedig yn y tri-mis hâf, ond y mae yr awel oddiar iâ oesol y sydd yn toi yr amrywiol drumau, yn peri bod awyr y nos yn dra oer. Ei hwybren sydd sych a hinonaidd, oddigerth yr amser y byddo yr haul tua'r cyhydedd, pan y bydd gryn wlybaniaeth am rai dyddiau.

Mynyddoedd.] Y drûm fwyaf gogleddol yw mynyddoedd Pyren, y rhai sydd yn cyrhaedd o fôr Biscay i fôr y canoldir: maent yn 200 milltir o hyd, ac yn llunio y terfyn rhwng Ffrainc ac Yspaen. Pump ffordd gûl sydd trostynt o Yspaen i Ffrainc Mynyddoedd Cantabria cainc o drûm Pyren, ydynt yn cyrhaedd o honi i'r Môr Werydd, ychydig i'r de o benrhyn Ffinisterre. Y trumau ereill ydynt Sierra d'Occa, Sierra Molino, Sierra Moreno, a Sierra Novado, neu y mynyddoedd eirawg.

Y mynyddoedd hynotaf ereill ydynt Montserrat yn nhywysogaeth Catalonia, yr hwn sydd yn ynddangos o bell fal pe byddai gynifer o holltau ynddo. Mae er ys llawer o oesoedd yn brif annedd mynachod, a meudwyau, y rhai ydynt yn gwneyd adduned o aros yno hyn angau, gan dreulio 12 awr o bob dydd mewn ympryd a gweddi. Ni oddefant

unrhyw greadur megys ci neu gâth yn eu holl anneddau, rhag i'r cyfryw fod yn achlysur i'w myfyrdodau ddisgyn o bethau ysprydol i agwedd anianol. Mynydd Filabres sydd o ddeutu 9 milltir o amgylchiad a 700 llath o uchder. Mynydd Calpe yr hwn weithian a elwir mynydd Gibraltar oedd yn y cynamseroedd yn un o golofnau Hercwlf;* y llall, mynydd Abula yn gorwedd gyferbyn iddo yn Affrica.

AFONYDD. LLYNAU.] Y Douro a'r Tagus prif afonydd Yspaen, ydynt gwedi bod dan sylw yn hanes Portugal.

Afon Guadalquiver sydd yn codi yn neheubarth Castil newydd, ac yn llifo heibio Cordova a Seville i fôr Cadiz.

Afon Ebro sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Asturia, a'r derfyn Castil hen, a'i rhedfa sydd heibio i Tudella, Saragossa a Tortosa i fôr y canoldir.

Afon Guadalaviar sydd a'i blaenau yn Arragon, a'i harllwysiad i fôr Valencia gwedi llifo 130 milltir.

Afon Tinto sydd a'i blaenau yn Sierra Morena ac yn ymallwys i for y canoldir yn agos i Huelva. Mae dyfroedd yr afon hon yn felyn, ac yn corffoli tywod ei cheulenydd agos mor galed â cheryg: ni thyf unrhyw lysiau yn agos iddi; ac nid oes pysgod yn ei dyfroedd.

Afon Segura 140 milltir o hyd, ac afon Xucar o yn agos i flaenau y Tagus ydynt yn ymarllwys i fôr y canoldir.

Mae amryw o lynau bychain yn Yspaen: llyn Benevente sydd yn cynnyrchu mwyaf o bysgod, yn enwedig brithylliaid. Llyn Antiquera sydd a'i ddyfroedd mor hallt ag y gwneir halen o honaw.

Mae yn Granada, Seville, Cordova, a manau ereill ddyfroedd meddyginiaethol, at y rhai mae eryn gyrchfa o bob cwr i'r wlad.

CAMLESYDD.] Mae amryw gamlesydd gwedi eu cychwyn yn Yspaen yn ddiweddar, ond fod dychryniadau rhyfel gwedi tarfu yr amcanion. Bwriedir i gamlas Arragon estyn o fôr Biscay i fôr y canoldir. Camlas Castil sydd yn dechreu yn Segovia, 40 milltir i'r gogledd o Madrid, ac i gyrhaedd i fôr Biscay. Y gamlas o'r brif ddinas i afon Tagus, yw yr unig un sy gwedi ei orphen.

MWNGLODDIAU.] Yr oedd yn Yspaen yn amser ymerodraeth Rhufain lawnder o aur ac arian, sef cynnyrch ei mwngloddiau. Ond y maent weithian yn ddyhysbyddedig, neu mae diogi y trigolion yn rhwystro treiddio iddynt. Maent yn cloddio yn nghymydogaeth Almadin o ddeutu 300 tunnell o arian byw yn flynyddol.—Yn agos i Cardona yn Catalonia mae mynydd o geryg halen, 3 milltir o amgylchiad, 500 troedfedd o uchder, ac yn cyrhaedd i lawr i ddyfnder anadnabyddus. Haiarn Yspaen y nesaf i haiarn Damascus, ydyw y goreu yn y byd i wneuthyr arfau a pheiriannau rhyfel. Y meini gwerthfawr a geir yn yr amrywiol fynyddoedd ydynt y rhai a elwir cornelian, agate, maentynu, hyazinth, chrystal, diamond, emerald, amethyst, &c.

COEDYDD. LLYSIAU.] Mae pob coed y sydd yn gyffredin yn Ewrop yn helaeth yn Yspaen. Y goedwig fwyaf a elwir Pardo sydd yn 30 milltir o hyd. Y prif lysiau gyd a'r rhai a enwyd yw rice, saffrwn, a tobacco. Mae thyme, lavender, rosemary, a llysiau perarogleidd ereill, yn helaeth ar ochrau y mynyddoedd: Ac y mae helaethrwydd o frwyn a elwir esparto y rhai sydd a'i rhisg fal carth, ac felly yn [illegible] wn yd [illegible] affau, matiau, ac hyd yn nod lliain.

* [illegible] (cawr [illegible] y cynoesoedd) mab Jupiter ac Alcmena, yr hwn oedd bynod am ei anturiau gorchestol.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion.. Crefydd.. Llywodraeth.. Iaith. Dysgeidiaeth.. Milwyr a llongau rhyfel.. Cyfnewidiaeth.. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.*

YR Yspaeniaid ydynt gan mwyaf yn brydferth o ran dull eu wynebryd, a'u gwallt a'u llygaid yn gyffredin o liw tywyll. Mae y meibion yn arfer gadael trawswch o'r farf ar y wefus uchaf, yr hyn gyd a'u pryd tywyll sydd yn eu anharddu; ond mae y merched yn dra gofalus yn prydferthu eu gosgedd, trwy wisgo cuddleni rhag niweidio eu lliw gan belydrau yr haul Cyfrifir yr Yspaeniaid yn gyflym eu deall, er hyny ychydig gynnydd sydd ar ddysgeidiaeth yn eu plith, oherwydd fod eu hathrawon yn arfer pob moddion o'u cadw mewn tywyllwch, gan nodi pob ymgais am wybodaeth ag enw *heresi*, a goganu gorsafoedd dysgeidiaeth, megys ysgolion uffern, lle mae y diafol yn dysgu swyngyfaredd. Maent yn dra dystaw a syml yn mhob man o'r tu allan i furiau y chwareu-dy: Parchant eu hoffeiriaid pabaidd bob tro y cyfarfyddont hwynt, trwy gusanu hyd yn nod ymyl eu gwisgoedd, ac ymostwng ger eu bron hyd lawr. Mae eu parch i'r rhyw fenywaidd yn lled debyg, gan na chyferfydd gwr o ddygiad da â fynu unrhyw fenyw gyffelyb, heb blygu glin, a chusanu ei dwylaw, ac os bydd hi mor hynaws a chanmol ei awron, modrwy, neu unrhyw emmau gwerthfawr a fyddo ganddo, cyfrifid y tro yn frwnt, os na roddai ei dewis iddi yn ddiatreg. Ychydig o newid dillyn-ddull sydd yn Yspaen: mantell laes, a chapan yn toi y pen a'r ddwy ysgwydd hyd y penelin fyddai arferol hyd yn ddiweddar, pan wnaed cyfraith i'w gwahardd, gan fod llofruddion a lladron gwedi gwneyd defnydd mynych o'r cyfryw guddleni, rhag eu hadnabod. Bu gryn wrthryfel o wahardd y cyfryw wisg, ond y llywodraeth a drechodd.

Mae poethder hin y wlad yn peri bod y trigolion yn gymhedrol mewn bwyta ac yfed: gwedi ciniaw, cysgent deir-awr, ac yna ymorolant am ymweled a'u gilydd neu o fyned i'r chwareudy, gwedi treulio o honynt chwarter awr i wrando yr offeren. Cludir gwragedd y mawrion i'w hymweliadau ar gadair gan bedwar o ddynion: y ddau flaenaf yn hen-noeth, dau ereill o'r tu ol yn warchgeidwaid, a seithfed yn llusern-gludydd: yna dilyn dwy gerbyd, y flaenaf yn cynnwys ei phrif forwynion, a'r olaf ei phrif weision, a thyrfa o'i chaethion ar draed sydd yn gorphen y rhestr. Pan arferai y brenin ymdeithio, byddai o 5 i 8000 yn ei ddilyn, a thra byddai y llys fal hyn ar y ffordd, dygid oddiar eu perchenog bob math o gerbyd a gyfarfyddent: os trôl lwythog o dda heb fod yn ymborth, gadewid yr eiddo yn y ffôs i'r perchenog wylo uwch ei ben, tra y byddai îs fonedd y llys yn meddiannu y cerbyd i'w cludo yn mlaen.

Mae yr arfer o gludo y marw yn ei oreu-wisg ac heb len troste yn Yspaen fal yn Itali, ac y mae pob defnyn o'r dwfr sanctaidd a daenelia yr offeiriaid ar y beddrod, yn diffoddi grâdd o eirias anacle y purdan; ac os gwr urddasol a fyddai, gwnae y cyfryw daenelliad beri rhoddi yn ysgrifen ar ddrws y llan "*achubwyd enaid o'r purdan heddyw.*" Gwedi 'r angladd adroddir yr offeren dros y marw am fisoedd a blynyddoedd, sef hyd oni thâl yr enaid yr hatling eithaf trwy ddyoddef,

neu hyd oni foddlonir urddwyr yr offeren a'r cyfryw swm ac a'u cefnoga i'w dynu ymaith.

Y prif chwareuyddiaeth yn Yspaen fal yn Portugal, yw baeddu y tarw: mae y chwareudy y cynhelir y digrifwch barbaraidd hwn, yn ddigon ëang i gynnwys 3 neu 4000 o bobl, ar feinciau uchel y naill uwch y llall, yn cylchynu y maes ëang ar y canol, lle y bydd y gorchwyl dieflig yn cael ei gyflawni. Gwedi llenwi y ty, ymddengys tri gwr ar feirch yn arfog o waewffon bob un, yna ar udganiad udgorn, gollyngir tarw bwystfilog i mewn, yr hwn a fydd er ys hanner awr gwedi ei arteithio mewn lle cul i'w gynddeiriogi yn addas i'r gorchwyl, yna gan nâd yr edrychwyr, ac heb le i ddianc, rhuthra ar y march nesaf ato, a derbyn archoll gan y ffon yn ei ysgwydd, yna un arall a ollyngir ac a dderbyn yr un gwobr, a gwedi dyfod o'r trydydd a'i glwyfo, udgenir i'r meirch ymadaw, i dri gwr arfog o dryferau ar draed orphen y frwydr, a phan bydd eu harchollion gwedi eu cwympo, gorphenir hwy trwy bwyo cyfyn i'w gwegil: ac yna gerfydd eu cyrn; ar lawn ysgri, llusga y meirch a ddechreuasai y fuddugoliaeth hwynt allan i'r heol i'w paratoi i'r farchnad Digwydd weithiau i gorn tarw rwygo march nes bydd ei golyddion allan, yr hyn fydd yn achlysur i'r edrychwyr guro dwylo, a gweiddi mewn gorfoledd uffernol, gan annog y marchogwr i ymladd tra safo y march y fynu: ac felly y parhant hyd derfyn y frwydr, pa un bynag ai y tarw ai y dyn a syrth. Fel hyn bydd 10 neu 12 o deirw; ac weithiau dyn neu ddau mewn dwy awr yn cael eu terfynu. Yr oedd yr arferiad hon yn mhob dinas a phentref yn y deyrnas yn cael ei chynnal er ys oesoedd lawer, ond y mae goruchwylion peiriannau dystrywgar rhyfel, y sydd y dyddiau hyn fal barn ar y wlad, gwedi peri terfyn arni.

CREFYDD.] Pabyddiaeth yn unig tan 8 archesgob, a 64 o esgobion sydd yn freintiol yn Yspaen, ac y mae y trigolion yn fwy ofergoelus nag ydynt yn unrhyw wlad babaidd arall. Arferir yma gyflwyno pob ty a adeiledir, a phob llong a wthir i'r dyfnder; a chymdeithasau y trefnidwyr ac ereill, i nawdd a gofal rhyw sant neu gilydd. Nid yw neb ychwaith yn myned o'i dy, heb gadwen paderau am ei wddf, er cadw ellyll y tywyllwch oddi wrtho; hefyd pan leddir cymmydog neu ladrata ei dda, os ceir cyflëu i wneyd croes ar y talcen; mae y drwg gwedi ei ddileu. Yr oedd yn Yspaen pan oresgynwyd hi gan y Ffrancod 54,000 o fynachod, 34,000 o leianod; a 20,000 o offeiriaid llëygol, ond er y pryd hyny maent o rif yn myned lei-lai.

LLYWODRAETH.] Cyn y troion arswydus y sydd ar droed yn Yspaen yn bresennol; yr oedd pob rhwysg o lunio Cortes neu seneddau y deyrnas, llysoedd cyfiawnder, cyfreithiau, &c. yn gyflëedig yn y brenin. Ei ditl oedd ei fawrhydi Catholig, ac wrth nodi unrhyw bapuran, "MYFI Y BRENIN" a arferai yn lle ei enw. Gelwid yr etifedd tywysog Asturia, a'r plant ereill *infant* neu *infanta* Cafai y prif fawrion, y penaduriaid, archesgobion, swyddogion y llys, a marchogion o urdd y cnu euraid, y fraint o wisgo eu capan yn mhresenoldeb y brenin. Y gwyr eglwysig oedd y nesaf yn eu rhwysg: mynych yr arferynt droseddu y cyfreithiau trwy lofruddiaeth a'r cyffelyb, ond gan eu sancteiddrwydd gochelynt unrhyw gosb. Amser yn unig a ddengys pa drefn o lywodraethu a fydd yn Yspaen, gwedi llwyddiant arfau Prydain ar ei gelynion.

IAITH, DYSGEIDIAETH.] Mae iaith y wlad hon fal yr Italaeg, gwedi deillio o'r lladin, ond mae terfyniadau rhai geiriau yn dangos fod peth o weddillion y Mooraeg a'r Gothaeg blith dra phlith ynddi: golygir hi weithian er ys 200 mlynedd yn iaith gynnwysfawr ac ardderchog. Yr ychydig ddysgedigion a gawsent nawdd Rhufain i ysgrifenu, oeddynt Isidore esgob Seville ar anianyddiaeth; Cervante awdur Don Quixote; Quevedo ar weledigaethau; Lopez de Vega ar farddoniaeth; Tostatus ar ddifeinyddiáeth; Herara, a de Solis ar hanesyddiaeth, a rhibi rês nad ydynt o werth eu henwi ar chwareuyddiaeth. Mae 24 o urdd ysgolion yn Yspaen: y benaf sydd yn Salamanca, o sefydliad Alphonso nawfed breuin Leon yn 1200. Y Pader sy fal hyn: *Padre nuestro, que estos en el cielo, sanctificado se tu nombre; venga a nos tu reyno; pagasi tu voluntada ssi en la tierra como en el cielo; el pan nuestro de cada dia da a nos hoy; y perdona nos nuestras deudas ssia como nos ostros perdonamus a nuestros deudores; no nos dexas cair en tentacion, mas libra nos de mal, porque a tu el reyno, y la potencia, y la gloria, per los siglos. Amen.*

MILWYR A LLONGAU RHYFEL.] Barnid fod yn Yspaen yn amser heddwch, o ddeutu 70,000 o filwyr, ac o ddeutu 120,000 yn amser rhyfel, heblaw y milwyr estronol a elwid *Walloon*. Yr oedd cyn y dadymchweliad Ffrengig lynges o gant o longau rhyfel yn perthyn iddi, ond gan i Bonaparte beri i Yspaen gyhoeddi rhyfel yn erbyn Lloegr, cymerwyd neu distrywiwyd y rhan fwyaf o honynt. Barnir fod o ddeutu 30 yn eu porthladdoedd yn bresenol.

CYFNEWIDIAETH.] Yr aur a gludir o America i Cadiz, yw prif gyfoeth Yspaen. Y nesaf yw ffrwyth y winwydden. Ychydig yw ei gweithfáoedd lliain, gwydr, brethynau, sebon, &c. mewn cyferbyniad i wledydd ereill. Mae gwydr Yspaen yn rhagori ar unrhyw arall: dywedir fod yn St Ildefonso wydr 4 llath o hyd, 3 o led, a 6 modfedd o dew yn cael ei wneuthyr i oreuro y llysoedd breninol. Mae gweith-dy sidan yn Valencia yn rhoddi gwaith i 20,000 o bobl.

DINASOEDD A THREFYDD.] MADRID, y brif ddinas yn cynnwys o ddeutu 150,000 o drigolion, sydd heb na chaer na chlawdd, ond gwâl bridd wael yn ei chylchynu. Ei heolydd ydynt eäng a bardd: y tai ydynt o briddfeini a'u ffenestri oll a barau heieirn ar draws iddynt. O du y gorllewin i'r ddinas mae y llys breninol ardderchocaf yn Ewrop, yr hwn sydd yn 470 troedfedd o hyd a lled, a 100 o uchder: ei erddi eang ydynt liosog eu llynau, pistilloedd, delwau, cawgiau, &c, ac o fewn rhai milltiroedd iddo, mae yn ei gylchynu 4 o lysoedd ereill a elwir Buen Retiro, Casa del Campo, Aranjuez, a St. Ildefonso, sef lleoedd gorphwys i freninoedd Yspaen wrth hela. O ddeutu 20 milltir o Madrid mae y llys ardderchog a elwir *Escurial* gwedi ei gyflwyno i St. Lawrence, am i Phylip II, ar ei ddydd (trwy gynnorthwy Prydain) ennill brwydr St. Quentin. Ei hyd yw 640 troedfedd, a'i led 580, a 60 o uchder. Ei ddull sy fal gridyll gan mae ar y cyfryw y dyoddefodd St. Lawrence ferthyrdod! Mewn cell o hwn mae angladd-le brenhinoedd o breninesau Yspaen.

Cadiz, dinas gaerog, yn sefyll ar ynys ychydig i'r gogledd o enau Cyfyng-for Gibraltar, ond ynglyn â'r lan gan bont gadarn, sydd eang, ac enwog mewn trefnidiaeth: ei heolydd ydynt gulion, a hyd yn ddiweddar yr oeddynt heb balment iddynt, felly yn llawn budreddi

pan ddigwyddai ychydig wlybaniaeth. Y tai ydynt uchel, a dywedir fod y trigolion agos mor liosog â Madrid.

Seville sy ddinas gaerog gadarn, ond nid oes iddi weithian gymmaint cyfoeth na thrigolion, ac a berthynai iddi ychydig flynyddoedd yn ol. Mae rhai o'r heolydd yn dra hardd, ond yn gyffredin culion ydynt. Ymayr adeiladwyd y Chwil-lys cyntaf yn 1481. Ei phrif weithfaoedd yw sidan a brethynau, ac y trigolion a gyfrifir yn 80,000.

Barcelona sydd yn sefyll yn min môr y canoldir, gyferbyn ag ynys Minorca. Gelwir hon gan wychder ei heolydd a'u hadeiladau yn ddinas harddaf yn Yspaen. Ei chaerau amddiffyn ydynt gryfion, ac enwog am iddynt ddal allan yn erbyn y gwarchae a fu arni yn 1714, pan encilioдd byddinoedd Austria a Phrydain oddiyno trwy arswyd. Y trigolion ydynt 140,000.

Valencia, dinas gron a muriau uchel yn ei chylchynu, sydd a'i heolydd yn gam a chul, ac heb eu palmantu. Archesgobaeth Valencia yw yr oreu yn Yspaen: dywedir ei bod yn werth 40,000l. yn flynyddol. Y trigolion rhwng y mynachod, lleianod, ac offeiriaid, ydynt 80,000.

Carthagena sy ddinas fawr a phorthladd brydferth iddi. Er fod ei heolydd yn llydain, ychydig o adeiladau gwych sydd ynddi. O'r tu de orllewin iddi mae caer gref yn ei hamddiffyn. Y trigolion ydynt 60,000

Grenada ar afon Douro a fu gynt yn lle gwych, ond sydd weithian yn anhardd gan farweidd-dra ei threfnidiaeth. Ei chwareu-dy i faeddu teirw yw y goreu yn Yspaen. Y trigolion ydynt 50,000.

Bilboa ar afon Ybaizabal, a dwy filltir oddiwrth y môr, sydd yn cynnwys o ddeutu 800 o dai hardd a gerddi gwych o'u hamgylch. Cyfrifir hon y lanaf ei heolydd o unrhyw yn Yspaen.

Malaga, dinas enwog mewn trefnidiaeth, yn gystal ag o gynnyrchu gwin da, sydd a dwy gaer yn ei chylchynu, a chastell cryf o wneuthuriad y Mooriaid ar graig gyfagos yn ei llwyr amddiffyn. Mae ei phrif eglwys cymmaint a St. Paul yn Llundain, ac mae yr esgobaeth yn werth 16,000l. yn flynyddol.

Salamanca, ar afon Tormes sy ddinas hardd, yn cynnwys adeiladau gwych: mae ynddi 25 o eglwysi, 25 mynachdy, a'r un rhif o leiandai. Y tai ydynt dri uchder. Mewn ysgwâr wych o honi yr oedd baeddu y teirw yn cael ei cynnal bob mis Mehefin. Gwaith y Rhufeiniaid yw y bont wych sy dros yr afon. Ar wastadedd cyfagos i hon, cafodd y llywydd enwog *Wellington* yn ddiweddar oruchafiaeth ar fyddinoedd Ffrainc.

Toledo, dinas enwog gynt, sy weithian gan ei hagosrwydd i Madrid yn llai ei bri nag oedd hi yn ddiweddar. Yr adeilad hynotaf ynddi yw ei phrif eglwys.

Burgos, prif ddinas teyrnas Castîl gynt, sy weithian yn anenwog: ei phrif eglwys yw yr adeilad Gothaidd ardderchocaf yn Ewrop.

Cordova, sydd a'i heolydd yn geimion, ac nid oes ynddi nemawr o adeiladau enwog oddigerth y chiwl-lys, ac y llŷs esgobawl.

Gibraltar, tref gadarn ar graig serth, yn neheubarth Yspaen, sydd ag un o'r amddiffynfëydd cadarnaf yn y byd yn perthyn iddi. Bu yn meddiant y Mooriaid yn 1462; ac er 1704, mae hi yn perthyn i Prydain. Y trigolion rhwng y dref a'r gaer amddiffyn, ydynt o ddeutu 10,000.

ANTIFEILIAID.] Gwylltfilod Yspaen ydynt y rhai a enwyd yn hanes Germani. Y defaid ydynt mor liosog, a bod 40,000 o ddeiliaid y wlad yn fugeiliaid arnynt. O Andalusia mae y gwartheg goreu yn cael eu danfon. Y creaduriaid mwyaf blin yn Yspaen a Portugal ydyw y locustiaid, y rhai gan eu lliosogrwydd fyddant ar amserau yn tywyllu goleuni y dydd, ac yn difa cynnyrch cantoedd o erwau o dir mewn ychydig oriau.

## DOSBARTH II.

*Hanes Yspaen.*

TYBIR mae cenhedloedd o Gaul neu o Affrica, oedd trigolion cyntaf y wlad hon, canys hwynt oedd yn ei meddiannu ar darddiad cyntaf ymerodraethau Rhufain a Carthage, y rhai a fuont am flynyddau lawer yn ymrafaelio am dani; ond o ddeutu 200 mlynedd cyn cred arfau Rhufain a orchfygodd, a bu y wlad yn dalaeth o'r ymerodraeth fawr honno 400 mlynedd, ac yn y cyfamser yr oedd ei dinasoedd yn cael eu cyfrif yn brydferthaf o unrhyw a berthynau i Rufain.

Ar ogwyddiad yr ymerodraeth honno, goresgynwyd y wlad eang hon gan y Sueviaid, y Vandaliaid ac yr Alaniaid, y rhai a'i rhanasant cyd-rhyngthynt, ond a erlidiwyd o fewn oes neu ddwy gwedi, gan y Gothiaid, tan Adolphus mab yn nghyfraith ymerawdr Honorius o Rufain, yr hwn a blannodd Gristionogaeth gyntaf ynddi. Deiliaid y pab yn ganlynol oeddynt y swyddogion gwladol, y seneddwyr, a'r cyffelyb; felly gan fod goruchwyliaethau pwysfawr y wladwriaeth arnynt hwy, ag anghydundeb o berthynas i bwy a ddewisid yn frenin, bob tro yr elai un i lawr, nid oedd ond brwydrau echrydus, a bradwriaethau trahaus, yn rheoli o ddyddiau Adolphus hyd reolaeth Roderic, brenin olaf y Gothiaid yn Yspaen.

Yr oedd Mahomet y pryd hyn, gwedi sefydlu teyrnas amserol ac ysprydol yn Mecca, ac wedi llunio byddinoedd cedyrn o Arabiaid a Saraceniaid, y rhai gwedi meddiannu gwledydd eang yn Asia, a oresgynasant Mauritania,* ac oddiyno daethant drosodd i Yspaen ar archiad y Count Julian, merch yr hwn oedd gwedi ei darostwng gan y brenin Roderic; a chan fod y Koran yn addaw iddynt Nefoedd, a mwynder anianol didranc os syrthient ar faes y gwaed, ymladdasant nes gorthrechu byddinoedd yr Yspaeniaid, a gosod llywodraethwyr o honynt eu hunain i oruchwyliaethu y wlad. Ond Pelagius dilynïedydd Roderic, â lliaws o Gristionogion, a ymofynodd noddfa yn mynyddoedd Asturia, ag a fu yn foddion i osod sail teyrnas fechan o'r enw hyny, yr hon a ymddiffynodd mor wrol, ag iddi gael ei throsglwyddo i'w epil ar ei ol. (718).

Bu Yspaen yn meddiant y Mooriaid o'r pryd hyn, hyd 750, pan y bu i'r anghydundeb yn mhlith y Caliphiaid neu adlawiaid, sef dilyniedyddion Mahomet eu hunain, beri dadymchweliad ar eu rhwysg ynddi. Ond gan fod amryw o'r trigolion erbyn hyn yn addef crêd i Mahomet, bu brwydrau dychrynllyd yn eu plith, o berthynas i ba

* Gogledd-barth Affrica.

enw a lywodraetha y wlad rhagllaw. Abdurrahman yn meddiannu Cordova, lluniodd y bröydd oddiamgylch yn deyrnas iddo: adeiladodd deml wych yr hon sydd weithiau yn brif eglwys y ddinas, yn 200 llath o hyd, a 80 llath o led, a 365 o golofnau alabaster, jasper, a marmor i gynnal ei thô. Mae hon hyd heddyw yn dangos cywreinrwydd Arabiaid yr oes hono. Ond Abdurrahman a'i ddilynïedyddion yn parhau yn dra gelyniaethol i Gristionogrwydd, ymgynhyrfodd yr Yspaeniaid yn nechreu yr 11 ganrif, a gwedi blynyddau o ymladd, erlidiasant y Mahometaniaid o'r wlad, ac enwyd lliaws o'r mawrion yn frenhinoedd yr amrywiol daleithiau, sef brenin Leon, Navarre, Castîl, Arragon, &c. Yr oedd hefyd Toledo, Valentia, Seville, Sarragossa, ac agos bob prif ddinas yn Yspaen a llywydd anymddibynol arnynt.

Bu Yspaen tros amser maith gwedi hyn yn llawn terfysg, gan gynnen yn ennyn rhwng y brenhinoedd, a chan ruthrau mynych y Mooriaid ar ryw ranau o'r wlad. Nid oedd y cyfreithiau gwladol y pryd hyn yn rhoddi cyflawn ddiogelwch i'r cwynfanus, na gallu y rheolwr yn ddigon i rwystro gormes, ond y trecha yn treisio a'r gwanaf yn gweiddi, heb obaith nawdd. Ac felly rhyfel oedd o fewn y pyrth yn wastadol hyd y 15 ganrif, pan y parodd priodas Fferdinand brenin Arragon, ag Isabella breninea Castîl, undeb holl deyrnasoedd Yspaen a'u gilydd. Fferdinand gwedi arddangos cryn ddewrder a doethineb cyn hyn, ei orchwyl cyntaf gwedi y coroniad, oedd adgyweirio yr annrhefn a barodd y rhyfeloedd dychrynllyd cyhyd. Yr oedd llofruddiaeth, ysgelerder, a phob math o drais wedi dyfod mor gyffredin, ag iddynt nid yn unig i rwystro unrhyw drefnidiaeth, ond o ddodi heibio mewn rhan gyfrinach trigolion y naill ardal ag y llall. Y drygau hyn a symudwyd ymaith gan gydundeb y ddau ben coronog yn dosbarthu cyfiawnder yn mysg y deiliaid, yn sefydlu ysgolion yma ac acw yn y wlad, ac yn arfer pob moddion er annog y deiliaid i fyw yn dangnefeddus. Ond tra yr oeddynt fal hyn yn fywiog yn y gorchwyl o wneyd daioni, arweiniwyd hwynt gan egwyddor wyrgam i sefydlu y peiriant erchyll o greulondeb llawn-rhwysg eglwysig—y *chwil-lys*. O'r llys hwn danfonwyd cyn pen 4 blynedd, 6000 o ddeiliaid tan yr enw haerïedyddion, i'w rhwymo wrth y cyff i'w llosgi: dyoddefodd hefyd tros 100,000 garcharau caeth am eu hoes, neu ddëoliad i wledydd pellenig. A pheth oedd gobrwy y penau coronog? onid iddynt hwy a'u hepil a eistedda ar gadair Yspaen, gael gan y pab yr enw, "*mawrhydi catholig*."

Grenada hyd yn hyn yn meddiant y Mooriaid, cafodd Fferdinand genad gan y pab i lunio byddin fawr i'w goresgyn, a chan iddo lwyddo, bu terfyn ar ymerodraeth yr Arabiaid yn Yspaen yn 1462, gwedi bod yn meddiannu rhyw ranau o honi 800 mlynedd. Hwy oedd gwedi arwain y celfyddydau gyntaf i Ewrop, pan nad oedd ond tywyllwch anwybodaeth yn ei goresgyn yn llwyr.

O ddeutu y pryd hyn yr hwyliodd Christopher Columbus o borthladd Palos yn Andalusia, i chwilio am gyfandir gorllewinol. Yr oedd bwriad ynddo er ys 8 mlynedd i anturio y fordwyad hon, ond nid oedd na Fferdinand, na llysoedd Portugal, na Harri VII o Brydain, er iddo daer erfyn arnynt, yn addaw cefnogi ei amcanion: Isabella yn unig, trwy iddi fygwth gwerthu ei gemmau i gael llynges fechan iddo, a'i hannogodd i'r gorchwyl. Felly er i'w geraint ddannod fod gwallgofrwydd breuddwydlyd yn perthynu iddo am faethu y fath ryfyg

ynfyd, ymwthiodd i'r eigion heb ganddo unrhyw nôd i'w arwain ond y nêf uwch ben, ac heb wybod pa lan a'i derbyniai. Gwedi myned o olwg y tir terfysgodd y morwyr, a chyfodasant yn ei erbyn, gan fygythio ei fwrw i'r dyfnder am eu denu i'r fath enbydrwydd, ond yr oedd awydd athrylithgar Columbus yn adnewyddu ei nerth, denodd hwy â geiriau teg i'w gynnorthwyo i gael ei amcan i ben; ond gan i hyn o'r diwedd fethu llwydde, gofynodd eu nawdd am dridiau yn unig, ac os na chanfyddent dir yn mhen hyny, y trôai yn ol. Ei archiad a ganiatawyd, ac ar y 12 o Hydref 1492, i'w lawenydd annhraethadwy, canfu un o ynysoedd Bahama, yr hon a alwodd San Salvador, gan ei meddiannu yn enw brenin a brenines Yspaen, ac yna aeth rhagddo yn ei daith. Gwedi ychydig amser canfu liaws o fân ynysoedd, a chan iddo ddychymygu iddynt berthynu i ryw dir mawr oedd yn nglyn â thiroedd y dwyreinfyd, oedd yn perthyn i Portugal, galwodd hwynt India orllewinol. Gwedi tirio yn ynys Cuba, canfu emmau aur yn freichledau ac ereill dlysau gan y merched, y rhai a roddasant ar ddeall iddo mae o ynys Bohio (wedi hyn Hispaniola) y daethai iddynt. Felly Columbus a aeth yno ac a adeiladodd gaer amddiffyn, gan adael yr ynys yn meddiant rhai o'i forwyr, a throes tu a Yspaen, gan gludo gyd ag ef aur a gemmau gwerthfawr i brofi nad ofer ei fordwyad.

Yr oedd y cenhedloedd a breswylynt Hispaniola (weithian San Domingo) o ymddygiad tra diniwed. Gwelynt yr Yspaeniaid fal duwiau a thwrf eu peiriannau rhyfel yn daranau, gan gwympo ar eu gwynebau mewn braw a syndod, bob tro y clywent y twrf. Ond yn mhen ychydig bu i anniweirdeb y morwyr â benywod y lle, ddileu yr arswyd difrifol, gan iddynt gael achos têg i gredu fod y cyfryw wendidau yn yr Yspaeniaid ag oedd ynddynt hwythau. Dywedir mae oddiyma y cludwyd gyntaf y clwyf anaeleu hwnw y sydd heddyw mor adnabyddus yn ninasoedd mawrion Prydain a manau ereill o'r byd. Ar ddychweliad Columbus i Palos, 15 o Mawrth 1493, derbyniwyd ef â llawenydd mawr: gorchymynwyd ef i ŵydd Fferdinand ac Isabella, lle y caniatawyd iddo eistedd a'i gapan am ei ben fal dyledog o Yspaen.

Gwedi hyn parotowyd llynges gref, a rhoddwyd hi tan ofal Columbus i chwilio y tir a oedd yn perthyn i'r ynysoedd, gan ei llenwi â phob angenrheidiau addas i'w oresgyn ac ei boblogi, a chychwynasant y daith gan ddisgwyl darganfod y cyfandir newydd, ond yn lle llwyddiant eu somi a gawsant. Pan gyrhaeddasant Hispaniola, yr oedd yr amddiffynfa gwedi ei dystrywio, a'r milwyr oedd yn ei gwarchod gwedi eu llâdd am eu hanniweirdeb trahaus tu ag at y trigolion. Columbus gwedi eu tawelu a gosod ei frawd Bartholomew yn llywydd arnynt, a ddychwelodd yr ail tro heb gyflawni ei amcan i'r Yspaen. Er i Columbus ar ei ddychweliad gael ei ddienogi yn ngwyneb enllib ei elynion, bu rai blynyddau cyn y cafai nawdd y drydedd waith i anturio tros y dyfnder. O'r diwedd cafodd genad, a chanfu y lan ar y dydd cyntaf o Awst 1498, yn agos i aber afon Orinoco. Cludodd 6 o'r trigolion i Hispaniola, i brofi cyflawniad ei amcan. Ond tra bu yno yn tawelu y derfysg oedd erbyn hyn gwedi ail ennyn yn mhlith y trigolion, bu i Drefnidwyr o Seville anfon gwr a fuasai gyda Columbus yn ei ail fordwyaeth, tan arweiniad morwr enwog o enw Americus Vespusius i chwilio am y cyfandir, a chan iddynt lwyddo trwy dreisio llafur Columbus, cawsant dir, yr hwn a alwodd y blaenor ar ei enw ei hun. Pa fodd bynag mae y glod o ddarganfod America gan bob cen-

ystryw yr athrodwyr ffrengig, fal y denasant Charles i'w mintai, ond trwy oruchwylion ysplenydd arfau Prydain, cafodd achos buan i edifarhau. Collodd Havannah yn ynys Cuba, Manilla, a lleoedd ereill, a pharhaes yr amrafael hyd yr heddwch a wnaed yn Fontainbleau yn 1763.

Yn 1779, adnewyddodd Yspaen y rhyfel rhyngddi â Lloegr, i'r dyben o geisio ad-gymeryd Gibraltar. Felly cymerodd yr ymgyrch lê Medi 13, 1782. Yr oedd gan y gelyn 400 o ddrylliau tân mawrion yn cyd ergydio ar y gaer, a daliodd y llongau ati hyd oni bu i belenî poethion o'r gaer eu llosgi agos oll. Parodd y sarhâd anferth hon i'r Yspaeniaid ofyn heddwch, ac felly fu, 1783 A Charles gwedi cryn helbul rhyngddo a'i ddeiliaid ei hun, a fu farw yn 1788, a'i fab Charles IV a ddaeth yn ei le.

Ar ddibenyddiad Lewis XVI, cyhoeddodd Yspaen ryfel yn erbyn Ffrainc, a bu am ychydig amser yn llwyddiannus, ond o'r diwedd cafodd ei gorthrechu. Ac y canlyniad fu dïosg Charles o fod yn frenin, ac ei gymeryd ef ac ei fab Fferdinand yn garcharorion, i roddi lle i Joseph brawd Napoleon ymerawdr Ffrainc i rëoli. Ond hyd yn hyn nis cafodd fawr fwy o gartref na cholomen Noah, gan i'r llywydd dewr Syr Arthur Wellesley o Brydain, mewn amryw oruchafiaethau ysplennydd rwystro ei amcanion. A chan fod byddinoedd y wlad hon y pryd hyn yn nghyd â lluoedd Prydain yn cynnal brwydrau aruthr yn erbyn Ffrainc, anhawdd fyddai i ddoethineb dynawl ddirnad terfyn yr amrafael, yn enwedig os bydd i luoedd y gogledd barhau i ddwyn trymder y rhyfel yn erbyn rhwysg a gallu y dinystrydd.

# FFRAINC.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli Cylchynoedd....Taleithiau....Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir....Hin a thymhorau....Mynyddoedd.....Afonydd....Llynau....Coedydd....Llysiau. Mwngloddiau.....Camlesydd....Ynysoedd... Hynafiaethau.*

FFRAINC a'i hystyried o fewn ei hen derfynau, sydd yn sefyll rhwng lledred 42° a 51° yn ogleddol, a rhwng hydred 5° yn orllewinol ac 8° yn ddwyreiniol; yn 600 milltir o hyd a lled; ac yn gylchynedig o du y gogledd gan yr Heledd, a'r môr Udd, o du y dwyrain gan Germani, Switzerland ac Itali, o du y de gan fôr y Canoldir, a mynyddoedd Pyren, ac o du y gorllewin gan for Biscay.

TALEITHIAU ] Rhanwyd hen daleithiau Ffrainc yn y dadymchweliad yn 83 o daleithiau newyddion, y rhai ydynt gwedi ychwanegu trwy dreisio y tiroedd cymydogaethol i 108. Dyma yw eu henwau, maint, &c. yn ol y cyhoeddiad diweddar am danynt gan lywodraeth Ffrainc.

| *Hen daleithiau.* | *Taleith. newydd.* | *Prif ddinas.* | *Mill. arw.* | *Pobl.* |
|---|---|---|---|---|
| Flandrys ffrengig | Nord . . . | Douay . . . | 1758 | 774,450 |
| Artois . . . | Pas de Calais . | Arras . . . | 2054 | 566,061 |
| Picardy . . . | Somme . . . | Amiens . . . | 1900 | 465,034 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Normandi | Seine *isaf* | Rouen | 1858 | 642,773 |
| | Calvados | Caen | 1045 | 480,317 |
| | Manche | Coutances | 2009 | 528,912 |
| | Orne | Alençon | 1859 | 397,931 |
| | Eure | Evreux | 1803 | 415,574 |
| Ynys Ffrainc. | Seine | Paris | 132 | 629,763 |
| | Seine ac Ouse | Versailles | 1715 | 429,523 |
| | Oise | Beauvais | 1774 | 369,016 |
| | Aisne | Laon | 2165 | 430,268 |
| Champagne | Seine a Marne | Melun | 1787 | 298,815 |
| | Marne | Chalon sur Marne | 2473 | 310,493 |
| | Ardennes | Sedan | 1820 | 264,036 |
| | Aube | Troyes | 1820 | 240,661 |
| | Marne *uchaf* | Chaumont | 1907 | 225,350 |
| Lorrain | Meuse | Bar sur Ornain | 1830 | 275,898 |
| | Moselle | Metz | 1910 | 353,788 |
| | Meurthe | Nancy | 1875 | 342,107 |
| | Vosges | Epinal | 1902 | 308,052 |
| Alsace | Rhin *isaf* | Strasburg | 1661 | 444,858 |
| | Rhin *uchaf* | Colmar | 1758 | 382,285 |
| Bretagne | Isle ac Vilaine | Rennes | 2087 | 488,605 |
| | Loire *isaf* | Nantes | 2232 | 368,506 |
| | Cotes du Nord | St. Brieux | 2207 | 499,927 |
| | Ffinisterre | Quimper | 2226 | 474,349 |
| | Morbihan | Vannes | 2061 | 425,485 |
| Main a Perche | Sarthe | Le Mans | 1886 | 387,166 |
| | Mayenne | Laval | 1590 | 328,597 |
| Anjou | *Yr un* a Loir | Angers | 2227 | 376,033 |
| Touraine | Indre a Loir | Tours | 1882 | 278,758 |
| Orleannois | Loiret | Orleans | 2055 | 289,728 |
| | Eure a Loir | Chartres | 1794 | 259,967 |
| | Loir a Cher | Blois | 1959 | 211,152 |
| Berry | Cher | Bourges | 2154 | 218,297 |
| | Indre | Chatearoux | 2157 | 207,911 |
| Nivernois. | Nievre | Nevers | 2148 | 251,158 |
| Bourbonnois | Allier | Moulins | 2165 | 272,616 |
| Burgundy | Yonne | Auxerre | 2257 | 333,278 |
| | Côte d' Or | Dijon | 2681 | 347,842 |
| | Soane a Loir | Macon | 2600 | 447,565 |
| Franche compté | Saone *uchaf* | Vesoul | 1628 | 287,461 |
| | Doubs | Besançon | 1557 | 227,075 |
| | Jura | Lons le Soulnier | 1538 | 289,865 |
| | Ain | Bourg | 1681 | 284,455 |
| Poitou | Vienne | Poitiers | 2141 | 250,807 |
| | Deux Sevres | Niort | 1848 | 242,658 |
| | Vendée | Fontenay le Comte | 2112 | 270,271 |
| Santonge ac Aunis | Charente *isaf* | Saintes | 2114 | 402,105 |
| Angoumois | Charante | Angouleme | 1840 | 321,477 |
| Marche | Creuse | Gueret | 1721 | 216,255 |
| Limosin | Vienne *uchaf* | Limoges | 1750 | 259,795 |
| | Correze | Tulles | 1708 | 243,654 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Auvergne . | Puy de dome . | Clermont . . | 2464 | 508,444 |
| | Cantal . . . | St. Flour . . | 1731 | 237,224 |
| Lionnois . | Rhone . . . | Lyon . . . | 856 | 845,644 |
| | Loire . . . . | Montbrison. . | 1498 | 292,588 |
| Dauphine | Isere . . . . | Grenoble . . | 2494 | 441,208 |
| | Drome . . . | Valence . . . | 2020 | 211,188 |
| | Alp *uchaf* . . | Gap . . . . | 1648 | 118,322 |
| Guyenne . . | Gironde . . . | Bourdeaux . . | 3287 | 519,685 |
| Perigord . | Dordogne . . | Perigueux . . | 2766 | 410,350 |
| | Lot a Garonne . | Agen . . . | 1780 | 352,908 |
| Quercy . . . | Lot . . . . | Cahors . . . | 2168 | 383,683 |
| Rovergue a Marche. | Aveyron . . . | Rodes . . . | 2764 | 328,195 |
| Gascony. . | Landes . . . | Mont de Marson | 2763 | 228,889 |
| | Gers . . . . | Auch . . . | 2055 | 291,845 |
| | Arriege . . . | Foix . . . | 1473 | 191,693 |
| | Pyren *uchaf* . . | Tarbes . . . | 1440 | 206,680 |
| Bearn . . . | Pyren *isaf* . . | Pau . . . . | 2154 | 384,030 |
| Rousillon . . | Pyren *dwyrain* . | Perpignan . . | 1265 | 117,764 |
| Languedoc . | Garonne *uchaf* . | Toulouse . . | 2356 | 432,263 |
| | Tarne . . . . | Alby . . . | 1774 | 272,163 |
| | Aude . . . . | Carcassone . . | 1908 | 226,198 |
| | Herault . . . | Montpellier . | 1982 | 291,957 |
| | Gard . . . . | Nismes . . . | 1832 | 309,052 |
| Cevennes . | Lozere . . . | Mende . . . | 1572 | 155,936 |
| | Ardeche . . . | Privas . . . | 1665 | 267,525 |
| | Loire *uchaf* . . | Le Puy . . . | 1540 | 237,901 |
| Provence | Aberoedd y Rhôn | Aix . . . . | 1550 | 320,072 |
| | Alp *isaf* . . . | Digne . . . | 2162 | 140,127 |
| | Var . . . . | Toulon . . . | 2190 | 269,142 |
| Corsica . . | Golo . . . . | Bastia . . . | 953 | 103,466 |
| | Liamone . . . | Ajaccio . . . | 862 | 863,347 |

TALEITHIAU UNEDIQ NEWYDD.

| *Enw gynt.* | *Taleithiau.* | *prif ddinas.* | *mill. arw.* | *Pobl.* |
|---|---|---|---|---|
| Avignon a Venaisson . | Vaucluse . . . | Avignon . . | 1079 | 190,180 |
| Savoy . . . | Mynydd gwyn . | Chambery . . | 664 | 48,795 |
| Nice . . . . | Alp morawl . . | Nice . . . . | 1008 | 87,071 |
| Geneva . . . | Leman . . . | Geneva . . . | 1140 | 215,884 |

YR HELEDD.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Flandrys . | Lys . . . . | Bruges . . . | 1068 | 470,707 |
| | Scheldt . . . | Ghent . . . | 1061 | 595,258 |
| | Jemmappe . . | Mons . . . | 1127 | 412,129 |
| Brabant. . | Deux Nethes . | Antwerp . . | 771 | 249,376 |
| | Dyle . . . . | Brussels . . | 951 | 363,956 |
| Guelderland . | Meuse *isaf* . . | Maestricht . . | 2056 | 232,062 |
| Limbourg . . | Ourthe . . . | Liege . . . | 2167 | 313,876 |
| Namur . . . | Sambre a Meuse | Namur . . . | 1343 | 165,192 |
| Luxemburg . | Forets . . . | Luxemburg . | 2065 | 225,549 |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Gwlad wastad a bwrw golwg cyffredinol arni ydyw Ffrainc. Taleithiau Auvergne, Languedoc, Dauphine, a Provence ydynt fynyddig, ac y mae Bretagne o ran ei gwyneb grugog, ac ei thrumau isel o wenith-faen, yn cyfateb i Gernyw yn Mhrydain. Ond talaeth Limosin gan yr amrywiad o fröydd, cwmydd, glynoedd, bronydd, ac afonydd, ydyw yr ardal brydferthaf yn yr holl wlad. Cleidir ydyw yr holl frô o Fflandrys i Orleans. Bretagne sy dywodlyd, oddieithr yr ardaloedd sydd yn agos i'r trum-dir y sydd yn rhedeg trwyddi. Mae ardaloedd mynyddig y de, o dir da, ac yn dra llawn o gynnyrch oddieithr yr anialwch caregog a elwir *la Crau*, yr hwn sydd yn 150,000 o erwau o dir, sef o ddeutu 15 milltir bob ffordd, heb ynddo onid graian, a cheryg crynion cymmaint a phen dyn.

HIN A THYMHORAU.] Mae hin Ffrainc yn llawer mwy tymherus ac yn llai cyfnewidiol na hin Prydain, ac yn fwy sych hyd oni ddeuir i'r parthau gogleddol, y rhai sydd yn ddarostyngedig i wlawogydd go drymion ar brydiau. Mae yr holl barthau ereill mor dymherus a bod digonedd o ŷd, gwîn, olew, a phob ffrwythydd yn doreithiol ynddynt.

MYNYDDOEDD.] Y prif fynyddoedd y sydd yn Ffrainc, neu ar ei therfynau, ydynt mynyddoedd yr Alp, y terfyn rhyngddi ag Itali; mynyddoedd Pyren, rhyngddi ag Yspaen; trum Vosges, y terfyn rhwng talaeth o'r un enw a thaleithiau Saone uchaf, a Rhin uchaf; mynyddoedd Jura, y terfyn rhwng Ffrainc a Switzerland; mynyddoedd Cevennes, yn niweddar dalaeth Languedoc; a mynyddoedd d'Or, Puy de Sansi,* a Plomb du Cantal, y rhai ydynt y rhai uchaf yn Ffrainc, oddigerth y terfynau uchod a soniwyd am danynt o'r blaen.

AFONYDD.] Afon Seine sydd a'i blaenau yn nhalaeth Côte d'Or, a gwedi llifo heibio Troyes, Paris, a Rouen, mae hi yn ymarllwys i'r môr Udd wrth Havre de Grace. Ei hyd yw 250 milltir.

Afon Loire sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Gerbier yn ngogleddbarth Languedoc, gwedi llifo 500 milltir, mae hi yn ymuno â'r môr Werydd y tu isaf i Nantes.

Afon Rhôn sydd yn codi (fal y soniwyd) yn Switzerland, ac yn ymuno â môr y Canoldir.

Afon Garonne sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Pyren, a'i harllwysiad i'r môr Werydd. Gwedi iddi dderbyn ffrydiau afon Dorogne, mae hi yn newid ei henw i afon Gironde.

LLYNAU.] Ychydig o lynau sydd yn y wlad hon: dywedir bod un ar fynydd Algre o ddyfnder di-gyrhaeddiad; ac un arall ar un o fynyddoedd Puy de Dome, yn peri twrf fal taran pan fwrir careg iddo.

COEDYDD. LLYSIAU.] Mae yn Orleans 14,000 o erwau o dir dan goed, y rhai ydynt derw, ffawydd, llwyfan, onen, morwydd, &c. Coedwig Fontainbleau ac Ardennes ydynt agos mor eang. Y llysiau ydynt gwinrawn, olew, ffigys, oreiniau, lemonau, afalau, cnau, a phob ffrwythydd adnabyddus yn Ewrop; hefyd tobacco, llin, cywarch, &c. Sidan sydd hefyd yn ebelaeth ynddi, a manna, saffyr ac amryw lysiau meddyginiaethol.

* Cwympodd darn o'r mynydd hwn Meh. 23, 1727 ar bentref o enw Pradin, ac a'i gorchuddiodd: yr oedd y trigolion agos oll yn llosgi coelcerth Gwyl Ieuan ychydig oddiwrtho pan fu y ddamwain: aeth un gareg o hono yn 90 troedfedd o hyd, a 26 o dew, ar ei phen yn syth i waelod y nant, ac yno mae hi megys colofn i goffau y tro.

MWNGLODDIAU.] Yr oedd aur yn cael ei gloddio yn neheubarth Ffrainc yn y cynamseroedd, ac mae rhai gronynau o hono hyd heddyw yn ngheulennydd rhai ffrydiau sydd yn deilliaw o'r mynydd-dir. Mae cloddfeydd o arian, efydd, plwm ac o arian byw, weithiau yn agored yn mynyddoedd Vosges. Haiarn sy hefyd mewn amryw ardaloedd, ond nid mor helaeth ac yn y gwledydd gogleddol.

CAMLESYDD.] Mae gwyneb gwastad Ffrainc, ac y lliosogrwydd o afonydd yn peri i'r gorchwyl o lunio camlesydd fod yn dra hawdd. Camlas Languedoc yn neheubarth Ffrainc, yn 40 llath o led, a 180 milltir o hyd, a orphenwyd yn 1680 : y bwriad wrth ei ddechreu, oedd iddo gyrhaedd o'r môr Werydd i fôr y Canoldir, i'r dyben o rwyddo mor-daith llynges Ffrainc, rhag perygion wrth gylchynu Gibraltar; ond er iddo gyrhaedd o fôr i fôr, yr oedd y draul yn ormod i'w gloddio yn ddigon dwfn i lestri mawrion nofio arno. Camlas Paris sydd yn cyrhaedd i Dunkirk. Camlas Briare sydd yn cyrhaedd o Paris i'r taleithiau gorllewinol. Mae amryw gamlesydd ereill yn Ffrainc ond yn rhy faith i'w holrhain yma.

YNYSOEDD.] Corsica yr hon sydd a son am dani yn hanes Itali yw y fwyaf sydd yn perthyn i Ffrainc. Ynysoedd Hyeres yn agos i Toulon ydynt noethlwm, ond enwog am i Homer alw y fwyaf o honynt ynys Calypso. Ynys Oleron 14 milltir o hyd a 2 o led ac i'r gorllewin o Rochfort, fu yn meddiant Richard I, brenin Prydain. Ychydig i'r gogledd mae ynys Ree, yna Yeu, a Noirmontier o 8 milltir o hyd. Ynys Bel, hynod am i'r Saeson ymosod arni yn fynych sy 9 milltir o hyd a 3 o led, ac yn gadarn ei chaerau amddiffyn. Ynys Ushant 12 milltir oddiwrth y lan ydyw y tir mwyaf gorllewinol o Ffrainc: mae hon yn 9 milltir o amgylchiad ac ynddi 600 o drigolion.

HYNAFIAETHAU.] Gweddillion hynafiaethau ydynt o'r braidd yn fwy lliosog yma nag yn Itali, gan y cyfarfyddir â merddynau temlau, beddrodau brenhinoedd, &c. y rhai oeddynt felly rai blynyddau cyn i rwysg Rhufain uno Ffrainc at ei hardaloedd. Am demlau, colofnau, pontydd, ffyrdd, &c. o wneuthuriad y Rhufeiniaid, fe lanwai eu henwau yn unig ormod ar y gwaith hwn. Pan adeiladwyd Paris gyntaf cloddiwyd am geryg i ddyfnder mawr oddiamgylch iddi, a chan i'r ddinas gynnyddu, gorfuwyd gosod coed ar draws y chwareli yn sail i heolydd newydd, ac fal y mae y coed yn pydru, maent yn gorfod o oes i oes osod ereill yn golofnau i gynnal yr adeiladau : mae rhai o'r ogofeydd dychrynllyd hyn yn filltir neu ychwaneg o hyd, ac yn 60 llath o ddyfn. Mae grisiau i'r cywrain fyned i'w holrhain, os gall oddef dryg-sawr y bydreddi sydd yn cael ei fwrw i lawr o'r tai uwch ben.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Crefydd.. Llywodraeth.. Milwyr a llongau rhyfel.. Iaith. Dysgeidiaeth.. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.. Cyfnewidiaeth.*

Yr [illegible] nc cyn y dadymchweliad o ddeutu 26,000,000 o [illegible] : yr ychwanegiadau diweddar yn gwneyd y rhif

yn 34,000,000. Gwlad lawn o drigolion y cyfrifir Ffrainc yn mhob oes, er cymmaint o filoedd sydd yn cael eu rhifo i'r cleddyf ar faes rhyfel.

MOESAU AC ARFERION.] Y Ffrancod ydynt ddynion bywiog, ffraeth a siriol yn gyffredin; dewr ar faes rhyfel, ac yn ddirwgnachlyd os gerfydd goddef caledi. Eu gosgedd sy hardd, ond yn tebygu o ran lliw i'w cymydogion yr Yspaeniaid, er nad ydynt at eu gilydd yn llawn mor dal. Y benywod ydynt fwy hynod mewn ffraethineb na phrydferthwch. Dawnsio, marchogaeth, milwrio, ac ymddifyru yn y chwareu-dy, ydynt y prif ddywenydd gwladol, y rhai sydd yn eu tueddu, meddant, i anghofio gofidion y bywyd hwn, ac yn tarfu isder ysbryd o wall ei brofedigaethau. Mae dillyn-ddull yn newid mor fynych, nad oes modd ei adrodd: gwisgant y mawrion rai o'u plant fal dull y Saeson, y lleill fal Yspaeniaid neu Ellmyn, a bydd y rhan fwyaf o enethod tan 12 oed mewn dillad bechgyn. Peth cyffredin hefyd gan y gwaherddir i ferched mewn oed fyned i farth y chwareudy ydyw iddynt wisgo fal meibion er mwyn cael mynediad i mewn, ac er adnabod y lledrith, ni ddaunodir unrhyw anniweirdeb ynddynt am y cyfryw ddrygfoes. Hoff ddigrifwch bonheddig a gwreng, ydyw mwynhau pob difyrwch anianol gyd a'r awydd mwyaf, heb unwaith ystyried na bwrw golwg ar ddamweiniau amseroedd i ddyfod. Y defodau eglwysig o fedyddio, priodi, claddu, &c. ydynt yr un â gwledydd pabaidd ereill.

CREFYDD.] Pabyddiaeth gwedi derbyn archoll farwol debygem yn oes y dadymchweliad, sydd eto yn uchaf ei ben yn Ffrainc, ond gosodwyd rhyddid cyffredinol i bob enw trwy gyfreithiau newyddion a luniwyd tan rwysg Bonaparte. Diddawiaeth oedd y brif agwedd cyn a thrwy y dadymchweliad, ac ychydig gwell ydyw moesau crefyddol y wlad y pryd hyn, fal creill o wledydd cyfagos. Gwelodd y senedd wladol y pryd hyny fod y Sabbathau yn rhy fynych, felly gwnaed trefn newydd o sefydlu i un fod bob 10 niwrnod yn lle bob wythnos, a bu hyny mewn grym hyd oni adferwyd pabyddiaeth i fod yn ben crefydd y deyrnas. Mae holl arferion llygredig yr oes yn cael eu cynnal eto yn mhob cwr o'r wlad ar y sabbath fal dydd arall, gwedi myned beibio o awr yr offeren.

LLYWODRAETH.] Anhawdd ydyw rhoddi hanes llywodraeth Ffrainc y pryd hyn, nag ychwaith y cyfreithiau, heb fwrw golwg meithiach tros y ddosbarth newydd yno nag y sy gyfleus yn y gwaith hwn. Math o lywodraeth llawn rwysg milwraidd, y gellir galw y drefn sy mewn grym yn Ffrainc, a dwy senedd yn perthyn iddi megys offerynau goddefol y prif flaenor Bonaparte yr hwn a elwir ymerawdr.

MILWYR A LLONGAU RHYFEL.] Milwyr Ffrainc cyn y dadymchweliad oeddynt 225,000, ond gwedi hyny barnir eu bod agos yn filio filoedd. Eu llyngesau ydynt o flwyddyn i flwyddyn yn myned lei-lai gan ymgyrch distrywgar peiriannau morwyr Prydain arnynt. Gall fod yn mhorthladdoedd Ffrainc o ddeutu 60 o bob maint, ond y maent mewn gwall o wŷr ac angenrheidiau addas, ac yn nghlô gan lestri Prydain.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Mae yr iaith Ffrengig gwedi ymledu mwy nag unrhyw o ieithoedd Ewrop. Mae hi mewn amrywiaeth, eglurder, a manylrwydd yn gyfenwog a'r Saesoneg, ond ni's cyfrifir

hi felly o berthynas grym a godidogrwydd. O'r Lladin a'r Celtaeg y deilliodd, a Louis XIV a roddes yr annogaeth cyntaf i'w diwygio.

Yr oedd amryw ddysgedigion yn Ffrainc yn amser y Rhufeiniaid; ond gwedi yr 11 ganrif y cynnyddasant hyd onid oedd rhif y ysgrifenwyr, haneswyr, beirdd, &c. yn fwy nag unrhyw wlad oddigerth Prydain. Y dysgedigion diweddaraf oeddynt, De Thou yr hanesydd; Pascal a Fenelon y difeinyddion, Montesquieu y deddf-roddwr, &c. Yn y celfyddydau Des Cartes, Montaigne, D'Argens a Voltaire ydynt enwog, er bod egwyddorion crefyddol rhai o honynt yn dra gwyrgam. Mae Buffon ar anianyddiaeth a Vauban ar lunio caerau amddiffyn yn rhagori ar unrhyw ereill yn y celfyddydau hyny. Mae 28 o urdd ysgolion yn Ffrainc, ac amryw ereill tan nawdd y llywodraeth. Gweddi yr Arglwydd yn yr iaith Ffrengig sydd fal hyn,

*Notre Pere qui êtes aux cieux, votre nom soit sanctifie, votre regne vienne, votre volonte soit fait sur la terre comme au ciel: donnez-nous aujourd'hui notre pain quotidien, et pardonnez-nous nos offenses comme nous pardonnons a ceux qui nous ont offenses et ne nous laissez pas succomber a la tentation, mais delivrez-nous du mal. Amen.*

DINASOEDD A THREFYDD.] PARIS y brif ddinas, sydd yn sefyll ar lennydd afon Seine, ar wastadedd teg. Ei hadeiladau ydynt hardd, ac yr heolydd ydynt lydain, ond heb lawr gwastad o'u deutu yn llwybr troed. Y llysoedd breninol ac yr amrywiol eglwysydd ydynt yn dangos cywreinrwydd yr adeiladwyr. Dywedir ei bod yn drydedd ran llai na Llundain, a bod y trigolion yn 600,000.

Lyons dinas enwog ar afon Rhôn, sydd ag adeiladau gwych ynddi. Safodd trigolion hon o du y milwyr breninol yn y dadymchweliad, a barnwyd pan gymerwyd hi ei llwyr ddifrodi, ond ni chyflawnwyd y farn echryslawn. Y trigolion ydynt 100,000.

Marseilles ar fin môr y Canoldir, sy ddinas gadarn, a phorthladd eang yn fwy am gyrchfa llongau iddo cyn y dadymchweliad nag unrhyw yn Ewrop. Y trigolion ydynt 90,000.

Bourdeaux ar afon Garonne ychydig oddiwrth fôr Biscay, fu yn lle o gryn gyfnewidiaeth yn enwedig mewn gwin: mae yr adeiladau yn wych, ac y chwareudy sydd ynddi ydyw yr ardderchocaf yn Ffrainc. Y trigolion ydynt 80,000.

Valenciennes sydd hynod am gryfder ei hamddiffynfeydd: er hyny meddiannwyd hi Gor. 26, 1793, gan fyddinoedd Prydain ac Austria dan y dug o Yorc; ond ad-gymerwyd hi y flwyddyn ganlynol gan fyddinoedd y Ffrancod. Y trigolion ydynt 60,000.

Amiens sy dref fawr yn cynnwys 40,000 o drigolion, ond Rouen prif ddinas Normandi gynt sydd â 72,000, ac yn enwog mewn trefnidiaeth. Brest sydd yn fwy hynod am gynnwysfa llongau rhyfel Ffrainc yn y gogledd iddi, nag mewn maintioli'na thrigolion, y rhai ydynt o ddeutu 25,000. Nantes sy ddinas hardd, enwog ei threfnidiaeth gynt, ac yn cynnwys 56,000 o drigolion. Orleans dinas hynod am ddalfa hir i ddau warchae fu arni, sef un gan yr Huniaid yn y 5 ganrif, ac y llall gan y Saeson yn y bymthegfed. Nanci yn Lorraine sy ddinas hardd, ac agos gymmaint a Metz. Strasbourgh, dinas gadarn sydd a 40,000 o drigolion ynddi. Montpelier ar fin môr y Canoldir sydd le cadarn; a Thoulouse yn nghanol y wlad sy ddinas hardd yn cynnwys 30,000 o eneidiau.

Anifeiliaid.] Er bod meirch yn dra lliosog yn Ffrainc y pryd hyn, bu rai oesoedd yn ol nad oedd ond ychain yn aru y tir, ac yn tynu cerbyd y brenin i'r senedd wladol. Gwellhaes yr anifail buddiol hwn ar ddyfod â meirch o Brydain, Arabia, a Twrci atynt. Nid ydyw y defaid mor liosog na chystal o gig a gwlan ag yn Yspaen, ond cyfrifir y gwartheg yn gryfion a lliosog. Y gwylltfilod ydynt y baedd gwyllt, y blaidd, yr ibex, ac y chamois, y rhai fal y soniwyd ydynt yn cyfanneddu trum Pyren, a mynyddoedd yr Alp.

Cyfnewidiaeth.] Yr oedd gweithfäoedd Ffrainc cyn y dadymchweliad yn dra llwyddiannus, ac yr oedd cryn lawer o liain, sidan, brethynau, tapinwëydd, gwin, olew, brandi, cyffuriau meddygawl, llywoedd cryfion, papur, &c. yn cael eu cyfnewid am garth, llin, llestri pridd, ceffylau, &c. ond dyryswyd pob peth y pryd hyny fal braidd y daethant hyd heddyw i drefn.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Ffrainc.*

GAUL oedd enw y deyrnas hon, er ys amser anadnabyddus: meddiannwyd hi gan drefedigion o Germani o ddeutu 200 mlynedd cyn crêd, ac unwyd hi at ymerodraeth Rhufain gan Julius Cæsar yn mhen 152 mlynedd gwedi hyn, a bu yn meddiant yr ymerodraeth fawr honno, hyd y bedwerydd ganrif, pan y rhanodd y Rhufeiniaid y wlad rhwng y Visigothiaid ac y Burgundiaid. Ond o'r diwedd Clovis brenin y Ffrankiaid, cenedl oedd yn preswylio y tu gogledd i afon Rhîn, a orchfygodd y llywyddion Rhufeinaidd, ac a sefydlodd deyrnas newydd yr hon a alwodd Ffrainc, sef bro rhyddid. (486.) Er nad oedd Clovis onid 19 oed pan y bu yn foddion i derfynu rhwysg Rhufain yn Gaul, tebygid fod ei gyfrwysder mor amlwg a i wrolder. Yr oedd Cristionogaeth erbyn hyn gwedi ei sefydlu mewn amryw ranau o Gaul, a chasineb cyffredinol gan y trigolion i rwysg Rhufain eulun-addolgar arnynt; a chan i Clovis fod yn dyner wrth eu hesgobion, a phrïodi Cristionoges, sef Clotilda merch brenin Burgundy, ymlynasant wrtho, gan obeithio nad pell yr amser iddo yntau gofleidio y ffydd. Yr oedd arferion eulunaddolgar hynafiaid Clovis gwedi greddfu cymmaint yntho fal nad allai gydsynio, er hyny bu i ymddygiad hynaws ei wraig tu ag ato, a'i hannogaethau difrifol a pharhaus, beri iddo ddarllen rhyw ranau o'r ysgrythyrau, a thra yr oedd fal hyn mewn peth dyrysni, cafodd fuddugoliaeth ar yr Allmaniaid, a honnodd mai Duw Clotilda, yr hwn a alwasai arno yn nghanol y frwydr, gan addunedu bod yn Gristion os cafai lwyddiant, a safodd o'i du, felly bedyddiwyd ef yn ddïoedi gan St. Remigius esgob Rheims, a dilynodd y gweddill o'r genedl oedd heb gofleidio y ffydd, yr un llwybr. Gwedi hyn cyhoeddodd Clovis ryfel yn erbyn y brenhinoedd eulun-addolgar oedd yn terfynu ar ei wlad, a bu lwyddiannus i uno eu hardaloedd at ei deyrnas ei hun: ond dywedir iddo ymddwyn yn dra annynol tu ag at y trigolion. Bu farw yn 511, gwedi adeiladu o hono amryw eglwysi er gwneyd iawn am ei feiau, a gadawodd ar ei ol bedwar o feibion y rhai a ranasant y wlad cyd-rhyngddynt i'w rheoli.

Bu y rhaniad hyn yn gryn wendid i'r deyrnas, ac yn achlysur i wrthryfel parhaus fod ar droed rhwng y naill frenin a'r llall, ac fal yr oedd eu plant-hwythau yn rhanu treftadaeth eu tad, yr oedd annrhefn yn cynnyddu fwyfwy hyd oni orfu ar yr holl epil freninol addef Clothair II, ŵyr Clothair I, mab Clovis yn frenin ar yr holl wlad. Diwygiodd hwn foesau y trigolion, a gwnaeth y mawrion yn dywysogion yr amrywiol daleithiau, y rhai wrth chwanegu rhwysg, a feddianasant o'r diwedd y deyrngadair. Gwedi marw Clothair bu amryw o frenhinoedd egwan yn rheoli, ac o'r diwedd Pepin mab un o'r llywyddion yr hwn a reolasai y wlad tan enw dug a reolodd, gan drefnu na chafai hil Clovis, y rhai a fuasai ar yr orsedd 270 mlynedd reoli mwy. Bu Pepin farw yn 768 yn alarus am dano, a'i ddau fab Carloman a Charlemagne a gyd-reolasant.

Carloman yn marw yn fuan ar ol ei dad, daeth rhwysg y wladwriaeth i Charlemagne: yr oedd y ddau dywysog gwedi priodi dwy ferch Didier brenin y Lombardiaid, ac yr oedd ar ol Carloman ddau fab o'i wraig Berta; ond Charlemagne oedd gwedi esgaru ei wraig am fod yn anmhlantadwy, a gwedi priodi tywysoges y Sueviaid. Berta yn ofni ymddiried ei hun a'i phlant i nawdd Charlemagne, a aeth i Itali at ei thad, yr hwn a'i derbyniodd yn llawen. Ond cyffrôdd ei ddigter tu ag at Charlemagne, am roddi ymaith ei wraig, fal y ceisiodd a'i holl egni i'w gyfaill y pab Adrian daflu iau Ffrainc oddiar fröydd gogleddbarth Itali: a chan i Adrian o arswyd Charlemagne wrthod cydsynied, ffromodd Didier fal y tywysodd ei fyddinoedd i warchae ar ddinas Rhufain. Ar hyn gwahoddodd y pab Charlemagne i ddyfod i oresgyn Itali, yna drylliwyd byddinoedd Didier, a chymerwyd ef, a'i wraig, ag ei blant yn garcharorion i Ffrainc, ac ni chlywyd am danynt mwy. Fal hyn bu terfyn ar reolaeth y Lombardiaid yn Itali gwedi parhau o honi 206 mlynedd.

Charlemagne er cadarnhau ei orsedd, a drefnodd lywyddion ar y bröydd oedd gwedi ennill, a throes i Almaen yn erbyn y Saxoniaid, y rhai gwedi brwydrau echrys am 30 mlynedd a lwyr orchfygodd: ymddygodd yn dra annynol tu ag at y genedl enwog hon: lladdodd 4500 o'r milwyr dewraf mewn un dydd, am wrthod traddodi iddo eu llywydd. Bu lwyddiannus yn erbyn yr Huniaid, yr Yspaeniaid, y Persiaid, ac amryw genhedloedd ereill, fal o'r diwedd y coronwyd ef yn ymerawdr y gorllewin (800:) ond yn fuan gwedi bu farw, a daeth ei fab Louis I yn ei le.

Er mai dyn medrus oedd Louis, eto nid oedd ei ddoniau o lywodraethu yn debyg i eiddo ei dad: hoffodd ei dri mab Lothario, Pepin, a Lewis, cymmaint ag y rhanodd yr ymerodraeth rhyngthynt. Gyd â'r hynaf Lothario, y rheolodd barthau gorllewin yr ymerodraeth, i Pepin y rhoddes Aquitaine, ac i Lewis, Bavaria. Ond gan iddo ail brïodi, a chael pedwerydd mab, adnabyddus drachefn wrth yr enw Charles *y moelyn*, i'r hwn y mynai dreftadaeth fal ei frodyr, gwrthryfelodd y tywysogion coronog, a'r terfyn a fu rhoddi y tad mewn daeardy lle y treuliodd flwyddyn gyfan heb weled goleuni dydd na chlywed gair a'i glustiau. Y pryd hyn anghydunodd y tri thywysog, a bu brwydrau rhwng milwyr Lewis a Pepin, â Lothario, a'r ddau frawd a ennillodd a ryddhasant eu tad o'r carchar, ac a annogasant y mawrion ei ail dderchafu i orsedd yr ymerodraeth, ac felly bu.

Louis yn marw yn 840, coronwyd ei fab Louis II, ac ar ei ol ef Charles *y moelyn*, ond nid oes genym nemawr o werth ei adrodd trwy eu teyrnasiad hwy, na gweddill epil Charlemagne, oddigerth y sarhâd a wnaeth y Llychlynigion ar arfordiroedd Ffrainc a lleoedd ereill, fal y soniwyd o'r blaen, pan y gorfu ar un o frenhinoedd Ffrainc i brynu heddwch ganddynt, roddi ei ferch i Rollo eu llywydd, a Normandi a Bretagne yn gynnysgaeth iddi. Gwnaed Rollo yn ddug Normandi a bu ei reolaeth yn ganmoladwy. Dilynwyd ef gan ei fab William o'r hwn y deilliodd brenhinoedd Normanaidd Prydain.

Y nesaf a dderchafwyd i orsedd Ffrainc oedd Robert nai Charles, ac yna ei fab Hugh, yr hwn a briodasai ferch i Edward I, brenin Prydain, a chan fod cryn derfysg yn y wlad, diorseddwyd epil Charlemagne, a gosodwyd Hugh Capet mab Hugh, mab yn nghyfraith Edward I ar yr orsedd 987.

Ymddygodd Hugh yn dra hynaws tu ag at ei ddeiliaid, sefydlodd ysgolion, gweithfäoedd a'r cyffelyb yn mhob dinas o'r deyrnas, ac a fu farw yn alarus am dano yn 997, a'i fab Robert II a reolodd. Y peth hynotaf yn nheyrnasiad Robert oedd iddo gael ei ysgymuno am briodi ei gyfnither, gan fod yr eglwys y pryd hyn newydd drefnu i briodas fod yn seithfed sacrament, ac na chafai neb briodi o fewn cylch y seithfed grâdd o waedoliaeth. Robert yn hoffi ei wraig, ni wrandawai ar y pab; ond gan na chafai neb ymddiddan ag ef onid ei ddau wâs y rhai oeddynt yn bwrw ei weddill-fwyd i'r cŵn, ac yn puro y llestri yr arlwyid iddo trwy dân, gorfu arno i gael adferiad i fynwes yr eglwys briodi Constance merch Count Arles, yr hon oedd ddynes ffôn ac anhywaith, ac o'r diwedd a fu'n achos o'i farwolaeth yn 1031, a'i fab Harri a lywodraethodd. Yr oedd Constance gwedi mynu coroni ei mab ieuengaf, felly bu cryn wrthryfel hyd oni threchodd Harri. Bu Harri farw yn 1060; a daeth ei fab Phylip yn ei le.

Y pryd hyn yr ymgynhyrfodd y pab Gregori VII yn erbyn y Twrc, am na chafai Cristionogion genad i fyned ar bererindod i Gaersalem, ond gan i'r ymerawdr Harri IV nacau uno ag ef yn y gorchwyl, annogodd y pab i Pedr y mynach fyned i weled ansawdd y lle. Ar ei ddychweliad, tramwyodd trwy daleithiau y deyrnas, gan gludo croes ar ei ysgwydd, ac adrodd mewn eiddigedd difrif, yr anmharch oedd Cristionogion yn ei gael wrth feddrod eu Harglwydd gan y Mahometaniaid, fal y llwyddodd i ennill bonheddig a gwreng i ymuno yn y rhyfel *sanctaidd*. Y pab yn cefnogi ei amcanion, gosodwyd Pedr yn flaenor ar y llû, a chredwyd yn gyffredinol fod y mil-blynyddoedd a soniwyd am danynt gan Ioan ar wawrio. Felly troes 300,000 o bobl eu gwyneb tua Chaersalem, gan ei chyfrif yn fraint o gael bod yn offerynau i dalu y pwyth i elynion eu Harglwydd. Cychwynasant i Hungari, ac yn Bavaria lladdasant 12,000 o Iuddewon heb arbed na hen nag ieuainc ond a oddefai ei fedyddio, a chan nad oedd na ffon nag ysgrepan ganddynt, pan ddarfu yr yspail a gawsant oddiar yr Iuddewon, troesant i yspeilio y wlad oddiamgylch, a chododd y cenhedlaethau yn eu herbyn fal nad oeddynt onid 20,000 pan gyrhaeddasant Constantinople. Oddiyno danfonwyd hwynt gan Alexis ymerawdr y Groegiaid mewn llestri tros agored gûl y môr dû i Asia, lle yr oedd yn rhaid naill ai yspeilio neu newynu, a chan fod yno luoedd yn eu disgwyl, lladdwyd y cwbl heb i gymmaint ag un ddianc i adrodd y newydd. Tra yr oedd

byddin Pedr ar ei thaith, yr oedd brenhinoedd Ewrop gwedi llunio byddin newydd o gan mil o wyr meirch, a 600,000 o wyr traed i ddilyn Pedr, ac fal yr oedd y rhai hyn yn deall defodau rhyfel, aethant rhagddynt gan sathru eu gelynion hyd Gaersalem, a gwedi pump wythnos o warchae, cymerwyd y ddinas, a lladdasont yn ddiarbed hên ac ieuanc, y fam ac y plentyn sugno: a gwedi peri i waed eu cyd greaduriaid fod yn afon lifeiriol yn mhob hëol o'r ddinas, aethant â thraed noethion, ac â gliniau plygedig dan ganu mawl, at feddrod yr hwn oedd gwedi selio cyfammod rhad drugaredd a thosturi, trwy ei farwolaeth yn lle a thros bechaduriaid.

Yr oedd Phylip am iddo briodi dwy wraig gwedi ei ysgymuno, ond gan iddo ymuno yn y fifwriaeth *sanctaidd*, a bod un o'r gwragedd gwedi marw, adferwyd iddo ei freintiau eglwysig: yr oedd gwedi caniatâu i'w fab Lewis VI gydrëoli, felly ar farwolaeth Phylip yn 1108, daeth yr holl wlad i feddiant Lewis. Gwr o gorff grymus a thêw oedd hwn: pan ddaeth clefyd blin arno yn fuan gwedi ei goroni, galwodd ei fab at erchwyn ei wely, a dywedodd yn ngwydd mawrion y llŷs wrtho, "Wrth yr arwydd hon," meddai ef wrth dynu ei sêl fodrwyol oddiar ei fys, "yr ydwyf yn dy gynnysgaeddu ag awdurdod freninol, ond cofia y gerfydd arnat roddi cyfrif o dy oruchwyliaeth ynddi yn y byd a ddaw," Gwellhaodd y brenin yn annysgwiliadwy o'r clefyd, ond ni wisgai fanier breninol mwy. Bu rhyfel rhwng ei fab â Harri I o Loegr, ond gorfu arno heddychu, fal y tarfai y rhyfel gartrefol oedd gwedi ennyn yn mharthau dwyreiniol ei ymerodraeth. Gwedi cyrhaedd yno, parodd losgi dinas Utri â 1300 o'r dinasyddion, ond bu edifar ganddo, fal y danfonodd at y pab i ofyn pa iawn a wnae er symud gwg y nef oddiar ei feddwl. Y pab newydd dderbyn cwynfau oddiwrth y Cristionogion yn Palestina, fod y Mahometaniaid gwedi dwyn rhai ardaloedd oddiarnynt, ac yn bygwth ymosod ar Gaersalem, a ddywedodd wrtho mae yr unig iawn a symudai y gwg oddiarno, oedd blaenori byddin i Judea yn erbyn gelynion y groes. Felly er gwaethaf annogaethau Suger ei brif weinidog yn adrodd y gallai wneyd cystal iawn trwy ymarweddu yn well gartref, aeth i Germani, a denodd ymerawdr Conrad III, a'r tywysog Frederic Barbarossa gyd ag ef, fal ag yr oedd eu cyd fyddinoedd yn fwy na mil o filoedd o filwyr. Conrad oedd y cyntaf a diriodd yn Asia, lle y dechreuodd ladd a llarpio pawb a oedd yn ei arfod, ond y Sultan Iconium yn dyfod â byddin grêf i'w gyfarfod, bu rhyfel dychrynllyd o arswydus, a'i therfyn fu i fyddin Conrad gael agos ei llwyr ddistrywio: a da oedd iddo ac yr ychydig weddill gael llestri i'w cludo yn ol yn llawn gwarth. Lewis gwedi cyrhaedd Asia ar lwybr arall, a chlywed am aflwydd Conrad a gydunodd â thywysog Antioch, nad â yn mhellach: felly tra cafodd genad gyd ag ychydig o flaenoriaid i wneyd pererindod i Gaersalem, rhoddes ei wraig Elin ei serch ar y tywysog Mahometanaidd, ac ni ddychwelodd gyd a Lewis yn ol i'w gwlad. Fal hyn y darfu yr ail ryfel *sanctaidd*.

Y frenines Elin yn mhen amser yn blino ar y Twrc, dychwelodd i Ffrainc; a chan fod y brenin gwedi priodi arall, priododd hithau ei elyn Harri dug Normandi, etifedd cyfrifedig coron Lloegr, felly rhyfel a fu rhyngthynt hyd esgyniad Richard I mab Harri i orsedd Lloegr.

Yr oedd Richard a'i fryd o gaulyn ar y rhyfel *sanctaidd*, felly cynghreiriodd â brenin Ffrainc yr hwn oedd o'r un bwriad, na

ddrygai deiliaid y naill ardaloedd y llall, tra byddent oddi-cartref; yna trefnwyd dwy lynges i fyned i Genoa yn môr y canoldir, a Richard a aeth un ffordd i gyfarfod ei lynges, a Lewis a aeth y ffordd arall. Gwedi cael i'w llongau, cyd-hwyliasant ond gan i dymhestloedd eu gorddiwes, gorfuasant auafu yn Messina, lle y bu peth anghydfod rhyngddynt o wall pwy a fyddai benaf yn yr anturiaeth. Gwedi gadael Sicily, chwythodd tymhestl amryw o longau Richard ar ynys Cyprus, a gwnaed y morwyr diangol yn garcharorion, a llynges Ffrainc a diriodd yn Asia o flaen y llall, ac a ymosododd yn ddïoed ar ddinas Ptolemais, ond methasant ei chymeryd hyd ddyfódiad Richard, felly bu ail amrafael o gylch uwchafiaeth rhwng y ddau ben coronog. Syrthiodd 300,000 o blant Adda yn y gwarchae hwn. Addawodd llywydd y ddinas ryddhau 2000 o garcharorion Cristionogol oedd mewn dinas cyfagos, ac hefyd o roddi iddynt *bren* y wir groes os arbedid y gweddill, ond ni chyflawnwyd yr addewid, gan iddynt yn oriau y nos gael ffael i ddianc.

Y sôn am ddewrder Richard ym ymledu tros Ewrop, ffromodd brenin Ffrainc, a gadawodd ran o'i fyddin tan y dug o Burgundy, ac a aeth i'w fro i baratoi peiriannau yn erbyn teyrnas Richard, gwedi yn gyntaf geisio a'i holl egni gan y pab i ddad-wneyd y cynghrair a wnaethai ag ef cyn cychwyn oddi-cartref. Richard gwedi gwneyd heddwch â Saladin y Sultan am 3 blynedd, 3 mis, 3 diwrnod, a 3 awr, yr hyn a nodir yma er dangos ynfydrwydd yr amseroedd, a droes i'w fro, ond gan i'w long ddryllio yn môr Adria, aeth yn niwyg pererin trwy Germani, lle yr adnabuwyd ef gan dug Austria, yr hwn a'i carcharodd hyd oni ddanfonwyd arian lawer o Loegr i'w ryddhau.

Yr oedd brenin Ffrainc erbyn hyn gwedi marw, a'i fab Phylip ar yr orsedd, yr hwn oedd a'r un egwyddor ynddo yn erbyn Lloegr a'i dad, felly rhyfel a gyhoeddwyd yn erbyn Lloegr, a chan fod Ioan dilyniedydd Richard yn ysgymunedig, addawodd y pab faddeuant pechodau, teyrnas ysbrydol ddidranc, â Phrydain fawr i Phylip, os llwyddai i ddarostwng Ioan. Yna parotodd y ddwy blaid lyngesau a milwyr, ac yr oedd holl Ewrop yn gyffröus o berthynas i ba ochr a lwyddai, ond parodd dichell y pab derfyn ar yr ymryson cyn cyfarfod o'r pleidiau, trwy ddanfon ei fendith yn nghôd un o'i benaduriaid at Ioan, gan nodi cryfder Ffrainc, ac addaw dileu ei ysgymundod, a chael cyfeillgarwch yr ymerawdr, os honai fod ei deyrnas yn eiddo Rhufain, a chan fod ei elynion môr gadarn, ac ei ddeiliaid ei hun yn ei gasâu am fod yn ysgymun cydsyniodd. Yna cynhyrfodd Phylip pan adroddwyd iddo na chafai oresgyn Lloegr, a digllonodd yn erbyn yr ymerawdr, yr hwn a annogasei y pab, fal y bu brwydr echrys rhyngddo ag ef yn Bouvines, lle y syrthiodd 30,000 o Ellmyn. Bu farw yn 1223, a gadawodd ei ymerodraeth yn fwy ddwy-waith nag a'i cawsai, i'w fab Lewis VIII, yr hwn sydd hynod am erlid o hono ei ddeiliaid crefyddol a elwid Albigensiaid, ac i farw ei orddiwes wrth y gorchwyl.

Ei fab Lewis IX, yr hwn a elwir am a rinwedd coel-grefyddol St. Lewis, yn honni iddo glywed llais goruwch anianol yn ei annog i dynu ei gleddyf yn erbyn anghredinwyr, a flaenorodd fyddin o 60,000 i Palestine, ond yn y frwydr gyntaf, dryllïwyd ei fyddin a chymerwyd

V

ef, ac ei ddau frawd yn garcharorion: yna danfonodd ei fam fyddin arall i'w ryddhau, a dryllïwyd honno gwedi brwydr neu ddwy, yn y rhai y cafodd Lewis ffael i ddianc i Ffrainc, lle ni arhosodd yn hwy nag y medrodd gasglu byddin arall, yr hon a flaenorodd i Tunis i gelsio denu y brenin Mahometanaidd oedd yno, i uno yn achos y groes, ond ni wnai: daeth yno glefyd blin i'w wersyll, a gwedi iddo weled marw un o'i feibion, daeth y clwyf arno yntau a bu farw. Yna ei fab Phylip III yn gwellhau, blaenorodd y gweddill o'r fyddin yn ol i'w bro, a rheolodd yn dawel, heb freuddwydio fal ei hynafiaid am beth oedd gwedi tylodi ei wlad yn ddirfawr, 1285.

Ei ddilynïedydd Phylip IV, oedd y cyntaf a luniodd senedd yn Ffrainc, ond ni bu ond cynhwrf trwy ystod ei reolaeth, gan iddo ddileu amrywiol urddau a osodwyd i fynu gan ei hynafiaid i flaenoriaid byddinoedd y groes. Bu farw yn 1314, a daeth ei fab Lewis X yn ei le. Bu yntau farw yn mhen dwy flynedd gan adael ar ei ol un ferch, yr hyn a barodd gryn gynhwrf o berthynas i bwy a feddiannai y goron. Y terfyn oedd llunio cyfraith na chafai benyw reoli y wlad; ac i Phylip V, brawd Lewis, tywysog o duedd addfwyn eistedd ar y deyrn-gadair.

Y nesaf oedd ei frawd Charles IV, ac yna ei gefnder Phylip de Valois. Yn nyddiau hwn yr ennynodd digofaint rhwng Ffrainc a Lloegr, nas diffoddodd am ganrifoedd o flynyddau, ac y sydd eto yn ein dyddiau ninnau yn arddangos o fod mor gadarn ag erioed. Edward III, brenin Lloegr, yn honni mai ef o du ei fam, oedd etifedd coron Ffrainc, casglodd fyddin ar archiad ei seneddwyr, a thiriodd yn Ffrainc, ac wrth Cressy y bu ymladdfa dost. Dryllïwyd byddinoedd Ffrainc a chymerwyd brenin Bohemia, count Fflandrys, 8 o dywysogion, 80 o hummanwyr, 1200 o farchogion, 1500 o foneddigion a 4000 o filwyr yn garcharorion. Edward yn lle myned rhagddo gwedi y fath fuddugoliaeth arbenig, a droes i warchae ar Calais, a gwedi gwneyd byr gynghrair â brenin Ffrainc a ddychwelodd i'w wlad, a Phylip yntau gwedi a fu farw, gan adael goruchwyliaeth y deyrnas i'w fab Ioan, yr hwn ar derfyn y cynghrair a wnaethai ei dad ag Edward a gyhoeddodd ryfel yn erbyn Lloegr. Yna tywysog Cymru yr hwn a elwid y Tywysog Dû oddiwrth liw ei arfogaeth, yr hwn a fuasai yn y fuddugoliaeth gyntaf, a hwnodd 12,000 o wŷr i Ffrainc, ac wrth Poictiers cyfarfu â brenin Ffrainc yn blaenori 60,000, a bu ymladdfa echrys ond buddugoliaethus i Loegr: byddin Ffrainc a ddryllïwyd a chymerwyd ei brenin yn garcharor i Loegr, 1356: ac wedi terfyn ail gynghrair, aeth Edward drachefn i Ffrainc, ac a ennillodd amryw fuddugoliaethau, a luniodd heddwch gan roddi ei garcharor breninol yn ol i'w ddeiliaid. Daeth Ioan drachefn i Loegr yn 1364 i ymweled ag Edward, ac yno y bu farw.

Charles V, mab Ioan oedd y nesaf: ni allai hwn gan y terfysg oedd yn ei ardaloedd o herwydd aflwyddiant arfau ei dad, gyhoeddi yn erbyn Lloegr. Gwedi iddo orthrechu byddinoedd brenin Navarre, aeth rhagddo yn erbyn y minteiodd milwraidd a godasai arfau yn wirfoddol pan y gwnaethai y Saeson ymgyrch ar y wlad, ag a oeddynt y pryd hyn yn aflonyddu deiliaid Charles yn ddirfawr. A phan oedd ar ddigaloni oherwydd eu lliosogrwydd, daeth llwyddiant annysgwiliadwy i'w ran.

Pedr I, brenin Castîl, gwedi dechreu ei reolaeth trwy lâdd gordderch-wraig ei dad, ei gefnder, ac yn olaf ei wraig, yr hon oedd dy-

wysoges o Ffrainc, cyfododd Harri brawd brenin Yspaen arfau yn ei erbyn, ond gan iddo aflwyddo yn yr ymosodiad cyntaf, diangodd i lŷs Charles, ac ymunodd â Gueslin blaenor byddinoedd Ffrainc, (yr hwn oedd enwog yn gwastradedd y minteiodd milwraidd) yn erbyn brenin Castil. Ar eu taith, troesant i Avignon preswylfa y pab y pryd hyny, i ofyn ei fendith ar eu gorchwyl ac i ofyn arian i'w cynnal yn y gwaith o ddarostwng y fath anghenfil. Y fendith a roddwyd yn ddïoed, ond bu raid i Gueslin fygwth ei sancteiddrwydd yn echrys cyn iddo roddi yr arian. Gwedi llwyddo yn dryllio byddinoedd Pedr, aethant i'w gwlad i ymladd yn erbyn Lloegr, yr hon oedd gwedi achub y cyfle hwn o gyhoeddi yn erbyn Ffrainc. Yr oedd tywysog Cymru gan waelder ei iechyd, gwedi methu blaenori ei fyddinoedd, felly terfyn y rhyfel oedd i Loegr golli ei holl feddiannau yn Ffrainc oddigerth Calais.

Charles yn marw yn 1380, gadawodd y goron i'w blentyn Charles VI, tan raglawiaeth ei dri ewythr, y rhai yn ymgecru a'u gilydd, a daflasant y deyrnas i'r cyfryw aunrhefn ac y bu bradwriaethau, lladd a llarpio mewn grym am hir amser, a thra yr oedd y brenin ieuanc yn garcharor, a'i ewyrthwyd gwedi eu lladd, blaenorodd Harri V, brenin Lloegr ei fyddinoedd i Ffrainc, i edrych pa lwyddiant a gafai at elynion ei deyrnas, a gwedi cymeryd Harfleur, cychwynodd i Paris, ond gan iddo glywed bod yno fyddinoedd cedeirn ar gychwyn i'w gyfarfod, gwersyllodd ar wastadedd Agincourt: erbyn i'r ddau llu gyfarfod, chwenychai Harri gilio yn ol, gan fod ei elynion yn 60,000, ac yntau yn braidd 15,000. Da fuasai i Ffrainc pe gadawsent iddo fyned ymaith, gan y dechreuodd saethyddion Prydain fod yn chwerw wrthynt, trwy ruthro arnynt o bob tu, ac ni orphwysasant nes dryllio eu byddinoedd yn chwilfriw: lladdwyd 7 o dywysogion, a chymerwyd 5 yn garcharorion, gyd â 14,000 o filwyr, a gadawyd 10,000 o Ffrancod yn feirwon ar y maes.

Yn mhen y ddwy flynedd gwedi hyn, Harri yn ail ymosod at Ffrainc, ac yn llwyddo fal yr elai yn mlaen, gwnaed cynghrair y byddai i Harri briodi Catherine,* unig ferch Charles, fal y byddai i'w hil feddiannu coron Ffrainc, ac felly pan augwyd yr etifedd Charles VII, coronwyd ef yn Poictiers yn 1442, gan adael goruchwyliaeth y wlad i'w dad yn nghyfraith, hyd oni ddeuai i oed. A thra yr oedd Harri fal hyn yn nghanol ei lwyddiant, rhoddes angau ei ddyrnod iddo.

Charles VII. gwedi dyfod i oed, dechreuodd drefnu y cyfreithiau, &c. ond yn ddisymwth clywai fod y dug Bedford o Loegr, (yr hwn oedd yn goruchwyliaethu y wlad tra yr oedd Harri VI tan oed) gwedi tirio yn Ffrainc, ac wedi gwarchae ar ddinas Orleans, gyd â bwriad o geisio anrheithio yr holl wlad. Tra yr oedd Charles yn ddigalon i wynebu lluoedd a fuasai mor fuddugoliaethus yn ddiweddar ar luoedd Ffrainc, mynegwyd iddo fod benyw o enw Joan d'Arc ag yspryd goruch-anianol ganddi, yr hon drwy iddi fynych glywed am ruthrau y Saeson ar y ddinas, ac yn hoff tegwch y brenin ieuainc, a gam-gymerasai nwydau anianol am gynnyrfiadau dwyfol: honnai iddi weled gweledigaethau, a chlywed lleisiau yn ei hannog i adsefydlu gorsedd Ffrainc trwy yru ymaith y trawsfeddiannwyr. Felly gwedi i ddiseinyddion dysgedig brofi bod ei chenadwri oddi uchod,

* Bu hon yn briod drachefn â Syr Owen Tudur o Fôn.

ef, ac ei ddau frawd yn garcharorion: yna danfonodd ei fam fyddin arall i'w ryddhau, a drylliwyd honno gwedi brwydr neu ddwy, yn y rhai y cafodd Lewis ffael i ddianc i Ffrainc, lle ni arhosodd yn hwy nag y medrodd gasglu byddin arall, yr hon a flaenorodd i Tunis i geisio denu y brenin Mahometanaidd oedd yno, i uno yn achos y groes, ond ni wnai: daeth yno glefyd blin i'w wersyll, a gwedi iddo weled marw un o'i feibion, daeth y clwyf arno yntau a bu farw. Yna ei fab Phylip III yn gwellhau, blaenorodd y gweddill o'r fyddin yn ol i'w bro, a rheolodd yn dawel, heb freuddwydio fal ei hynafiaid am beth oedd gwedi tylodi ei wlad yn ddirfawr, 1285.

Ei ddilyniedydd Phylip IV, oedd y cyntaf a luniodd senedd yn Ffrainc, ond ni bu ond cynhwrf trwy ystod ei reolaeth, gan iddo ddileu amrywiol urddau a osodwyd i fynu gan ei hynafiaid i flaenoriaid byddinoedd y groes. Bu farw yn 1314, a daeth ei fab Lewis X yn ei le. Bu yntau farw yn mhen dwy flynedd gan adael ar ei ol un ferch, yr hyn a barodd gryn gynhwrf o berthynas i bwy a feddiannai y goron. Y terfyn oedd llunio cyfraith na chafai benyw reoli y wlad; ac i Phylip V, brawd Lewis, tywysog o duedd addfwyn eistedd ar y deyrn-gadair.

Y nesaf oedd ei frawd Charles IV, ac yna ei gefnder Phylip de Valois. Yn nyddiau hwn yr ennynodd digofaint rhwng Ffrainc a Lloegr, nas diffoddodd am gannoedd o flynyddau, ac y sydd eto yn ein dyddiau ninnau yn arddangos o fod mor gadarn ag erioed. Edward III, brenin Lloegr, yn honni mai ef o du ei fam, oedd etifedd coron Ffrainc, casglodd fyddin ar archiad ei seneddwyr, a thiriodd yn Ffrainc, ac wrth Creasy y bu ymladdfa dost. Drylliwyd byddinoedd Ffrainc a chymerwyd brenin Bohemia, count Fflandrys, 8 o dywysogion, 80 o bannanwyr, 1200 o farchogion, 1500 o foneddigion a 4000 o filwyr yn garcharorion. Edward yn lle myned rhagddo gwedi y fath fuddugoliaeth arbenig, a droes i warchae ar Calais, a gwedi gwneyd byr gynghrair â brenin Ffrainc a ddychwelodd i'w wlad, a Phylip yn fuan gwedi a fu farw, gan adael goruchwyliaeth y deyrnas i'w fab Ioan, yr hwn ar derfyn y cynghrair a wnaethai ei dad ag Edward a gyhoeddodd ryfel yn erbyn Lloegr. Yna tywysog Cymru yr hwn a elwid y Tywysog Dû oddiwrth liw ei arfogaeth, yr hwn a fuasai yn y fuddugoliaeth gyntaf, a flaenodd 12,000 o wŷr i Ffrainc, ac wrth Poictiers cyfarfu â brenin Ffrainc yn blaenori 60,000, a bu ymladdfa cohrys ond buddugoliaethus i Loegr: byddin Ffrainc a ddrylliwyd a chymerwyd ei brenin yn garcharor i Loegr, 1356: ac wedi terfyn ail gynghrair, aeth Edward drachefn i Ffrainc, ac a ennillodd amryw fuddugoliaethau, a lluniodd heddwch gan roddi ei garcharor breninol yn ol i'w ddeiliaid. Daeth Ioan drachefn i Loegr yn 1364 i ymweled ag Edward, ac yno y bu farw.

Charles V, mab Ioan oedd y nesaf: ni allai hwn gan y terfysg oedd yn ei ardaloedd o herwydd aflwyddiant arfau ei dad, gyhoeddi yn erbyn Lloegr. Gwedi iddo orthrechu byddinoedd brenin Navarre, aeth rhagddo yn erbyn y minteiodd milwraidd a godasai arfau yn wirfoddol pan y gwnaethai y Saeson ymgyrch ar y wlad, ag a oeddynt y pryd hyn yn aflonyddu deiliaid Charles yn ddirfawr. A phan oedd ar ddigaloni oherwydd eu lliosogrwydd, daeth llwyddiant annysgwiliadwy i'w ran.

Pedr I, brenin Castîl, gwedi dechreu ei reolaeth trwy lâdd gordderch-wraig ei dad, ei gefnder, ac yn olaf ei wraig, yr hon oedd dy-

wysoges o Ffrainc, cyfododd Harri brawd brenin Yspaen arfau yn ei erbyn, ond gan iddo aflwyddo yn yr ymosodiad cyntaf, diangodd i lys Charles, ac ymunodd â Gueslin blaenor byddinoedd Ffrainc, (yr hwn oedd enwog yn gwastradedd y minteiodd milwraidd) yn erbyn brenin Castil. Ar eu taith, troesant i Avignon preswylfa y pab y pryd hyny, i ofyn ei fendith ar eu gorchwyl ac i ofyn arian i'w cynnal yn y gwaith o ddarostwng y fath anghenfil. Y fendith a roddwyd yn ddioed, ond bu raid i Gueslin fygwth ei *sancteiddrwydd* yn echrys cyn iddo roddi yr arian. Gwedi llwyddo yn dryllio byddinoedd Pedr, aethant i'w gwlad i ymladd yn erbyn Lloegr, yr hon oedd gwedi achub y cyfle hwn o gyhoeddi yn erbyn Ffrainc. Yr oedd tywysog Cymru gan waelder ei iechyd, gwedi methu blaenori ei fyddinoedd, felly terfyn y rhyfel oedd i Loegr golli ei holl feddiannau yn Ffrainc oddigerth Calais.

Charles yn marw yn 1386, gadawodd y goron i'w blentyn Charles VI, tan raglawiaeth ei dri ewythr, y rhai yn ymgecru a'u gilydd, a daflasant y deyrnas i'r cyfryw aunrhefn ac y bu bradwriaethau, lladd a llarpio mewn grym am hir amser, a thra yr oedd y brenin ieuanc yn garcharor, a'i ewyrthryd gwedi eu lladd, blaenorodd Harri V, brenin Lloegr ei fyddinoedd i Ffrainc, i edrych pa lwyddiant a gafai at elynion ei deyrnas, a gwedi cymeryd Harfleur, cychwynodd i Paris, ond gan iddo glywed bod yno fyddinoedd cedeirn ar gychwyn i'w gyfarfod, gwersyllodd ar wastadedd Agincourt: erbyn i'r ddau lu gyfarfod, chwennychai Harri gilio yn ol, gan fod ei elynion yn 60,000, ac yntau yn braidd 15,000. Da fuasai i Ffrainc pe gadawsent iddo fyned ymaith, gan y dechreuodd saethyddion Prydain fod yn chwerw wrthynt, trwy ruthro arnynt o bob tu, ac ni orphwysasant nes dryllio eu byddinoedd yn chwilfriw: lladdwyd 7 o dywysogion, a chymerwyd 5 yn garcharorion, gyd â 14,000 o filwyr, a gadawyd 10,000 o Ffrancod yn feirwon ar y maes.

Yn mhen y ddwy flynedd gwedi hyn, Harri yn ail ymosod at Ffrainc, ac yn llwyddo fal yr elai yn mlaen, gwnaed cyngrair y byddai i Harri briodi Catherine,* unig ferch Charles, fal y byddai i'w hil feddiannu coron Ffrainc, ac felly pan anwyd yr etifedd Charles VII, coronwyd ef yn Poictiers yn 1442, gan adael goruchwyliaeth y wlad i'w dad yn nghyfraith, hyd oni ddeuai i oed. A thra yr oedd Harri fal hyn yn nghanol ei lwyddiant, rhoddes angau ei ddyrnod iddo.

Charles VII. gwedi dyfod i oed, dechreuodd drefnu y cyfreithiau, &c. ond yn ddisymwth clywai fod y dug Bedford o Loegr, (yr hwn oedd yn goruchwyliaethu y wlad tra yr oedd Harri VI tan oed) gwedi tirio yn Ffrainc, ac wedi gwarchae ar ddinas Orleans, gyd a bwriad o geisio anrheithio yr holl wlad. Tra yr oedd Charles yn ddigalon i wynebu lluoedd a fuasai mor fuddugoliaethus yn ddiweddar ar luoedd Ffrainc, mynegwyd iddo fod benyw o enw Joan d'Arc ag ysbryd goruch-anianol ganddi, yr hon drwy iddi fynych glywed am ruthrau y Saeson ar y ddinas, ac yn hoff tegwch y brenin ieuainc, a gam-gymerasai nwydau anianol am gynnyrfiadau dwyfol: honnai iddi weled gweledigaethau, a chlywed lleisiau yn ei hannog i adsefydlu gorsedd Ffrainc trwy yru ymaith y trawsfeddiannwyr. Felly gwedi i ddiseinyddion dysgedig brofi bod ei chenadwri oddi uchod,

---

* Bu hon yn briod drachefn â Syr Owen Tudur o Fôn.

gosodwyd hi ar farch llurigog, ac mewn gorfoledd dygwyd hi i'r ddinas, lle y bloeddiodd y dinasyddion ymwared mor uchel, ag y digalonodd y Saeson i ganlyn ar y gwarchae. Yna ail goronwyd Charles ar archiad Joan, ac eneiniwyd ef â'r olew a ddywedai traddodiad i golommen gludo o'r nêf i eneinio Clovis, brenin cyntaf Ffrainc. Ond yn fuan gwedi hyn, mewn ymgyrch arall, cymerodd y saeson Joan yn garcharor, a barnasant hi yn ddewines, a llosgwyd hi yn fyw. Terfyn Charles oedd iddo ymatal oddiwrth fwyd, gan i'w fab Lewis fygwth dröau ei wenwyno, ac felly o newyn y bu farw, rhag i'w fab annynol fod yn euog o dad-leiddiad, 1464.

Lewis XI gwedi esgyn i'r orsedd, a ddechreuodd reoli gyd â gwialen haiarn; ceisiodd fwyâu braint ei goron, trwy fychanu rhwysg y mawrion, a chan iddo amwyddo, dibenyddiodd amryw o honynt, a llarpiodd eu plant heb rith o dosturi: ymddygodd hefyd trwy ystod ei reolaeth mor annynol ag y gallai y diafol ei ddysgu: arteithiodd fwy na 4000 o'i ddeiliaid diniwed o dro i dro hyd angau, ar iddo ffuantu nad oeddynt bleidgar iddo. O'r diwedd ymosododd euogrwydd arno fal yr ofnai bawb o'i amgylch, ac er i'r pab anfon iddo y wisg y gwasanaethai St. Pedr yr offeren ynddi, ac anfon olew *sanctaidd* i'w enneinio, bu farw yn wrthddrych eglur o farn, tan y dychryn fëydd mwyaf echrydus.

Y nesaf oedd ei fab Charles VIII, a chan nad oedd onid 14 oed, gosodwyd ei chwaer Anne i lywodraethu y wlad hyd oni byddai yn 21, yr hyn a barodd i'r dug Orleans, prif dywysog y deyrnas wrthryfela, a pheri cryn derfysg, hyd oni phrïododd Charles, duges Bretagne, ac wrth hyny cael y dalaeth ëang honno o'i du. Yr oedd rhyfel y pryd hyn rhwng Lloegr â Ffrainc, a Harri brenin Lloegr gwedi tirio â byddin liosog yn erbyn Charles, ond gan i Charles ofni dyfod i frwydr, ac yn gwybod bod Harri yn hoff ganddo arian, prynodd heddwch, fal y cafai lonydd i flaenu 28,000 o'i wyr i ennill Naples, i'r hon wlad yr honnai hawl o du ei fam. Gwedi myned tros yr Alp, gwgodd y pab arno am fod mor hŷf, er hyny yn mlaen yr aeth trwy Rhufain a meddiannodd orsedd Naples. Ond tra bu Charles yn gwledda ac yn gorfoleddu yn ei lwyddiant, cyfododd tywysogion Itali, yr ymerawdr, a brenin Yspaen, yn ei erbyn, fal y bu yn dda iddo allael cyrhaedd y cartref gwedi colli rhan fawr o'i fyddin, ac yr holl ardaloedd a ennillasai, lle yn fuan gwedi y bu farw, (1498.)

Dilynwyd ef gan y dug Orleans, yr hwn oedd dywysog mwyn a llariedd, ac fal ei dad yn chwennychu teyrnas Naples, ond ni allai anturio yno, rhag ofn na esgarai y pab ei wraig, yr hon oedd dra gwrthun, ond yn ferch i Lewis XI, fal y cafai y dywysoges Mary o Loegr yn ei lle, yr hyn gwedi cryn helbul a gyflawnwyd, er na fwynhaes y gwynfyd onid 3 mis. Bu galar hir ar ei ol, a chyfenwyd ef yn dad i'w ddeiliaid.

Y nesaf oedd ei fab ynghyfraith Ffrancis I o Angoulême: dangosodd hwn yn fuan fwriad o oresgyn Itali, felly casglodd fyddin gref i fyned tros fynyddoedd yr Alp, lle y cyfarfyddwyd ef gan lù o Swissiaid, y rhai a ryfelodd yn ei erbyn nes syrthio 20,000 o bob tu ar y maes. Buddugoliaeth yn digwyddo i Ffrancis, aeth rhagddo a meddiannodd amryw o daleithiau Itali, yna lluniodd heddwch cyffredinol, gan roddi i frenhinoedd a thywysogion Ewrop yr ardaloedd oedd gwedi eu treisio oddiarnynt, a chyfenwyd ef o hyny allan yn ben ar dywysogion cred.

Gwedi hyn ymwelodd Ffrancis ag Harri VIII brenin Lloegr, ond Charles ymerawdr Germani yn ofni gormod o gyfeillgarwch rhyngddynt, a anfonodd yn ddirgel at y penadur Wolsey gweinidog Harri, gan addaw cadair Pedr iddo os diystyra gynlluniau Ffrancis i'w arglwydd. Yna ymwelodd yr ymerawdr â Harri, a dadwnaes y cyfeillgarwch a wnaethai Ffrancis ag ef, trwy ei annog i ail ennill treftadaeth ei dadau yn Ffrainc, ac o hyny allan ymroddodd Harri i geisio cyflawni yr amcan. Erbyn hyn cyfododd Austria a thywysogion Itali yn erbyn Ffrancis, a bu brwydrau dychrynllyd hyd oni ddrylliwyd byddinoedd Ffrancis yn chwilfriw, a'i gymeryd ef yn garcharor ganddynt. Ond eiriolodd y pab am ei ryddhâd, am iddo yn ddiweddar ddangos y fath barch *arbenig* i grefydd, â rhostio wrth dân araf yn Paris, 6 o Lutheriaid gan honni y gwnaethai y cyfryw â phlant ei lwynau pe byddent euog o gynllwyn y fath ddaliadau. Yn fuan gwedi hyn bu Ffrancis farw, a daeth ei fab Harri II yn ei le, (1547.)

Bu hwn yn ymladd ystod ei oes ag ymerodraeth Germani, weithiau yn llwyddiannus, dro arall yn gorfod ffoi: ei derfyn oedd cael ei ladd mewn ymornest, a Ffrancis II, gwr Mary breninés Ysgotland, am fyr amser a reolodd.

Yr oedd erlidiad cyffredin y rhagdystiolion y pryd hyn newydd ddechreu, a chan fod Rhufain yn caniatau arteithio y deiliaid na addefent rhwysg yr eglwys gatholig, cyfododd y Lutheriaid a'r Calviniaid, y rhai oeddynt weithian yn dra lliosog yn Ffrainc, arfau yn mhlaid eu rhyddid: eu prif flaenoriaid oeddynt brenin Navarre, llywydd de Cilogny, ac ei frawd Andelot. Ond y dug o Guise yn tywys ei fyddin babaidd yn annysgwyliadwy i'w plith, bu lladdiad echrys arnynt, a buwyd ddyddiau lawer yn crogi, dihenyddu, ac yn yspedu cantoedd i edrych a goddeidiau y gweddill y groes, eithr yn lle eu lleihau yr oedd miloedd yn ymuno â nhwy trwy y deyrnas. Ffrancis II yn marw, ac ei frawd Charles IX, yn blentyn tan lywyddiaeth ei fam Catherin de Medicis yn cael ei goroni, ymosodwyd gyd a mwy o greulonder yn erbyn y rhagdystiaid, fal y gorfu arnynt gyfodi yn mhob cwr o'r deyrnas yn unfryd i amddiffyn eu bywyd. Yn Drex bu y frwydr gyntaf, yn hon oedd fuddugoliaethus i'r pabyddiaid: ond yn eu hymosodiad ar Orleans, lladdwyd eu llywydd yn ddirgelaidd, ac felly dyrysodd y fyddin, a bu heddwch rhwng y pleidiau. Yr oeddid yn dysgwyl y pryd hyn y byddai ryddid cydwybod yn cael ei sefydlu i'r oesoedd a ddeuai, ond er i'r brenin roddi ei chwaer yn brïod i frenin Navarre, tywysog y rhagdystiolion, yn mhen dwy flynedd lawn gwedi gwneyd yr heddwch uchod, canodd cloch St. Bartholomew trwy'r deyrnas yn arwydd o roddi mewn grym y bwriad melldigawl oedd yn mryd y pabyddiaid, er pan wnaed yr heddwch, o ladd yr holl ragdystiolion mewn gwaed oer: yna rhuthrwyd arnynt, a llarpiwyd yn ddiarbed hen ac ieuanc, hyd oni syrthiodd 70,000 o ddeiliaid y deyrnas yn y tro. Galwyd y dydd yn *orfoledd yr eglwys filwriaethus*, a bu diolchgarwch trwy yr holl deyrnasoedd pabaidd am y fath ymwared. Ond erbyn tawelu yr ystorm, yr oedd rhai miloedd eto o'r rhagdystiaid ar gael, ac wedi ymgasglu at ei gilydd i Sancerre, lle y gwarchäwyd arnynt yn gyffelyb i'r gwarchae fu gynt ar Samaria: dyoddefasant eisiau hyd oni orfu ar rieni tosturiol fwyta eu plant, ond gwedi gwrthsefyll 29 o ymosodiadau, ac i'r dug Anjou golli 24,000 o wyr yn y tro, gwnaed heddwch, ac yn fuan gwedi tarawyd Charles gan glefyd blin fal y

bu farw, a'i frawd y dug Anjou brenin Poland* tan enw Harri III a goronwyd, 1574. Yr oedd hwn mor elyniaethol i'r grefydd ragdystiol a'i frawd, felly rhyfel fu rhyngddo â hwy hyd o fewn deu-fis i'w farwolaeth, pan y daeth y goron i Harri o Navarre un o Lwyddion y rhagdystiaid: hwn yn fuan gwedi esgyn i'r orsedd a ysgymunwyd gan y pab, yr hyn a'i bannogodd i flaenu 40,000 o filwyr yn erbyn byddin y pabyddiaid, a phan oedd y ddwy ar daro, llefodd mynach allan ei fod ar fedr ei aberthu ei hun er achub yr eglwys o'r perigl yr yr oedd y pryd hyn ynddo. Felly tan rîth o fod ganddo ryw chwedl bwysfawr i adrodd i'r brenin, brathodd ef â chleddyf, a bu yr archoll yn farwol iddo, a rhwygwyd y bradwr gan gleddyfau y gwarchgeidwaid yn ddiatreg, ond gwnaed ef yn sant yn nghanonau Rhufain, a chyfrifir ef felly yn Paris hyd heddyw.

Harri yn olaf o dy Valois a lywodraethasai Ffrainc 161 mlynedd, daeth y goron i Harri IV brenin Navarre, yr hwn oedd o dy Bourbon, ac yn addef y grefydd ragdystiol. Ond erbyn dyfod o hono i Paris yr oedd y pyrth gwedi eu cau, a phenadur tan enw Charles X, gwedi ei gyhoeddi yn frenin. Harri gwedi cael anrheg o 22,000 o bunoedd gan frenines Lloegr, er mwyn iddo allael cadw ei filwyr o Switzerland a Germani yn ei wasanaeth (y lleill gwedi ei adael gan fygythiad ysgymundod) a warchäodd ar y ddinas: gwedi ymddwyn yn dyner tu ag at y dinasyddion, trwy anfon ymborth iddynt ar fin trancedigaeth, agorwyd y dorau iddo a choronwyd ef: yna blaenorodd ei fyddin i dawelu y derfysg oedd trwy y deyrnas rhwng y rhagdystiaid a'r pabyddiaid, a gwedi galw cyfarfod o brif flaenoriaid y ddwyblaid i Nantes, sefydlwyd i ryddid cydwybod fod rhaglaw yn Ffrainc, a phan oedd Harri fal hyn gwedi ennill y deyrnas oll i'w feddiant, lladdwyd ef yn ei gerbyd gan babydd brwnt, felly bu terfyn ar y rheolaeth mwyaf llwyddiannus a welsai Ffrainc erioed.

Louis XIII, mab Harri, yn 9 oed oedd y nesaf: gosodwyd goruchwyliaeth y wlad i'w fam Mary de Medicis yr hon oedd babyddes: yna trwy ystryw y pab trefnwyd i Lewis brïodi Anne o Austria, ac i'w chwaer briodi tywysog Asturia, drachefn Philip IV, felly daeth pabyddiaeth yn fwy ei bri yn y llys na'r grefydd ddiwygiedig, a rhyfel ddychrynllyd a ddilynodd. Yr oedd byddinoedd y rhagdystiaid y pryd hyn yn dra chryfion, a gwedi eu dysgu mewn defodau rhyfel, ond gan fod lluoedd o Yspaen yn dylifo i'r deyrnas yn eu herbyn, gwedi brwydrau echrys, y rhai a barodd ddyfetha 9 dinas, 400 o drefi, 2000 o eglwysi, 2000 o fynach-dai 10,000 o dai, a thros gan mil o bobl, gorfu ar y ddwy-blaid ymheddychu ac ail gofleidio y cydundeb a wnaed yn Nantes.

O'r pryd hyn dechreuodd deiliaid Ffrainc weled y ffolineb o ymgecru a'u gilydd, felly ymroddasant i ymuno fal y gyrent ymaith y cenedloedd cymydogaethol a oedd tan rith o ddyfod yn bleidgar, gwedi meddiannu rhyw ranau o'r wlad, ond tra bu y byddinoedd yn cael eu llunio, bu farw Lewis, gan adael y gorchwyl i'w fab Lewis XIV, yr hwn a gyfenwyd yr enwog. Yspaen oedd hyfaf yn trawsfeddiannu, felly brwydr Rocroy a roddes derfyn ar ei hanrhaith, pan y gwnaed heddwch Westphalia yn 1648. Yna troes Lewis i ogleddbarth Ffrainc i erlid ymaith yr Hollandiaid, ac a'u dilynodd i'w bro, ac a

* Gwel hanes Poland.

ennillodd 40 o ddinasoedd caerog, a diau goresgynasai y wlad yn llwyr, oni buasai i'r Isellmyn agor yr argaau i foddi y wlad: heddwch Nimeguen yn 1678, a roddes derfyn i'r rhyfel hon. Yr oedd yr un anian yn erbyn y rhagdystiaid yn reddfol yn Lewis, fal yn ei hynafiaid, ond yr oedd ei weinidog Colbert gwedi ei rwystro i arddangos unrhyw greulonder yn eu herbyn, felly pan fu farw Colbert, dechreuodd ar y gorchwyl melldigawl o rifo i'r cleddyf bob un na dderbynient y groes, a daliodd ati nes i filoedd gael eu rhwygo gan beiriannau rhyfel, ac i ychwaneg na 60,000 ymofyn nodded yn Mhrydain, Holland, a Germani. Er hyn i gyd, nid oedd nemawr o ddâ rhwng Lewis â'r pab; am y mynai oresgyn gwledydd heb genad Rhufain, ac ymddwyn tu ag at y gorchfygedig fal y mynai. Ond tra yr oedd newydd lwyddo yn iselu brîg Yspaen, ac yn distrywio yn ei arfod fri tywysog ardal y Rhin, a newydd ail oresgyn Holland, rhoddes y tywysogion enwog Marlboro' ac Eugene tan Anne o Brydain ar ddeall iddo, nad gwr anorchfygol ydoedd. Gwnaeth y milwyr enwog hyn i weddill ei oes fod mor annedwydd ag a fuasai dechreu ei oes o lwyddiannus. Ond o 1702 i 1713 pan y ceisiodd Lewis sefydlu hawl Hawlydd coron Prydain, ni bu ond aflwyddiant yn dilyn ei holl amcanion. Bu farw yn 1715 a'i wyr Lewis XV a goronwyd.

Yr oedd y brenin hwn o duedd heddychol, gwedi ei addysgu i hyny gan ei weinidog y penadur Fleury, a bu heddwch yn ei ardaloedd hyd farwolaeth Augustus II, brenin Poland yn 1734, pan y gorfu arno amddiffyn Stanislaus, ei dad yn nghyfraith, i'w ail osod ar orsedd y wlad honno, yn erbyn amcanion etholydd Saxoni. Bu ryfel drachefn rhyngddo â Germani ar farwolaeth ymerawdr Charles VI: terfyn hon oedd yr heddwch a soniwyd am dano o'r blaen a wnaed yn Aix-la-Chapelle 1748.

Yn 1756, ymunodd Germani, Ffrainc, Russia a Sweden, yn erbyn Prussia a Phrydain, a gwedi amryw frwydrau echrydus o waedlyd, gwnaed heddwch yn Paris yn 1763, ar dilerau gwael i Ffrainc ond hesol i Brydain. Ychydig cyn hyn yr oedd y Jesuitiaid gwedi ceisio ail ennyn rhyfel gartrefol yn Ffrainc, ac am hyny cawsant eu deol o'r wlad. A thra bu cynhwrf o erthyl hyny ar droed, ceisiodd adyn o enw Damien ladd y brenin â chyllell fechan wrth iddo fyned i'w gerbyd. Mae yr hanes am yr arteithiau a ddyoddefodd hwn, yn ddigon a merwino clustiau dynion. Gwedi methu trwy ffrewyllu gael ganddo gyfaddef pwy a'i gosododd ar waith, rhwymwyd ef â gefynau haiarn, a berwyd ei law mewn pair o drefnydd toddedig, nes iddi syrthio oddiwrtho, yna gyd â gefeiliau yn eirias wynion, tynwyd darnau o gnawd ei gliniau a'i goesau ymaith, a thywalltwyd olew berwedig i'r archollion, a chyn iddo farw, rhwymwyd ef rhwng 4 ceffyl gwyllt i dynu ei aelodau oddiwrth ei gilydd.

Gwedi hyn blaenorodd Lewis ei fyddinoedd i Corsica, yr hon oedd yn meddiant Genoa a gwedi iddo dreulio dau dymhor, a cholli rhai miloedd o'i filwyr glewaf, unodd yr ynys at Ffrainc yn 1769.—Bychan a wyddid bod yn yr ynys honno y dyddiau hyny an yn cael ei eni o deulu distadl i eistedd ar orsedd Ffrainc, ac i fod gan lwyddiant ei arfau yn ddychryn tros flynyddau lawer i holl genedloedd Ewrop.

Bu Lewis farw yn 1774, ac ei wyr y diweddar annedwydd Lewis XVI, a ddaeth i'r orsedd. Ni esgynodd unrhyw dywysog i'r orsedd dan fwy o anffyniant na hwn; yr oedd anniweirdeb yn uchel ei

ben yn y deyrnas, a chrefydd yn dra marwaidd gan y rhagdystiaid yn gystal ag yr eglwys gatholig; bryd y wlad ar ddilyn oferedd a gwrando ar egwyddorion Voltaire ac ereill, y rhai oeddynt yn dihoeni pob crefydd, ac yn gwrth-brofi trwy resymau dynol, bethau ysbrydol o dragwyddol bwys a sylwedd! ac yn ganlynol ceisiodd y werin osod terfynau i rwysg y deyrngadair, yr hon oedd er ys rhai oesoedd yn gormesu y deiliaid yn dôst, fal o'r diwedd y daeth y farn o wrthryfel mwy dychrynllyd nag a fuasai erioed o'r blaen ar y wlad.

Ar y 14 o Gor. 1789, ymosodwyd ar y carchar ofnadwy a enwid y Bastîl, a gwedi ei feddiannu a llâdd y llywydd, cafwyd yno rai er ys mwy nag 20 mlynedd heb glywed gair, na gweled neb, ond y dyn a roddai iddynt ychydig o fara a dwfr unwaith bob dydd. Ac ar i'r werin weled y rhai hyn, yn nghyd â chewyll haiarn ag esgyrn y dynion a drengasai ynddynt o eisieu, ymgynhyrfasant yn fwy a meddiannasant arfdy, lle y cawsant 30,000 o ddrylliau tân, ac 20 o ynnau mawrion, yna dechreuasant ddistrywio yn eu harfod.

Y boreu dranoeth daeth y brenin i'r senedd wladol, (yr hon a fynai o'r blaen ei diddymu) i geisio tawelu y derfysg, ond yr oedd y newyn oedd y pryd hyn yn dechreu yn y wlad, a'r annrhefn oedd newydd ennyn (er ceisio trefnu goruchwyliaeth newydd yn *Champ de Mars* yn ngwydd 400,000 mil o bobl) yn rhwystro gwrandawiad arno.

Y brenin a'i deulu yn dianc o Paris, rhuthrwyd ar y llys breninol, a lladdwyd y gwarchgeidwaid Swiss, a gollyngwyd o ddeutu 2000 o bleidwyr y brenin o garchar i'r heol, lle y lladdwyd y cyfan gan y werin heb arbed na bonheddig na gwreng.

Y brenin gwedi ei ddal 150 milltir o Paris, dygwyd ef yn ol, a galwyd senedd wladol i'w chwilio, yna cydunwyd i ddiddymu breninfraint ac i'r flwyddyn gael ei galw y gyntaf o wladwriaeth Ffrainc. Erbyn hyn yr oedd Robespierre o goffadwriaeth melldigedig yn llywyddu terfysg-blaid, ac yn gwahodd y neb a fynai at y *Guillotine* i'w dihenyddio, a gwedi iddo trwyddi ollwng gwaed miloedd, daeth barn arno yntau i ddyoddef yr un gosb. Ar yr 21 o Ion. 1793, dihenyddiwyd y brenin, ac yn fuan gwedi dilynodd y frenines yr un llwybr.

Erbyn hyn, yr oedd agos holl alluoedd Ewrop yn gogwyddo i fod yn erbyn Ffrainc, yr hon hithau oedd yn parotoi byddinoedd ar eu medr. Dumoricz gwedi methu ennill Holland gan i fyddinoedd Prussia a Germani ei rwystro agorwyd dorau Toulon i'r llywydd Hood ei meddiannu, ond mewn ymgyrch a'r Ffrancod a ddaethai i'w cospi, clwyfwyd y llywydd O'Hara, a chymerwyd mil o filwyr Prydain yn garcharorion Ac erbyn 1794, yr oedd arfau y werin yn llwyddo yn mhob-man: gwnaeth y llywydd Jourdan yn Fflandrys, i dywysog Cologne ollwng ei holl hawl o'r Heledd: ac er bod Prydain mewn undeb â Holland, cyhoeddodd yr Isellmyn yn ei herbyn, gan ymuno â Ffrainc. Pichegru yntau oedd lwyddiannus yn erbyn gelynion y wladwriaeth: gorfu ar Fraint-geidwad yr Isellmyn ymofyn noddfa yn Mhrydain, a chyn diwedd y flwyddyn yr oedd Yspaen a Phrussia gwedi ymheddychu â Ffrainc.

Yn 1795, dilëwyd y senedd wladol gwedi para o honi mewn llawn rwysg uffernawl 3 blynedd. Yr oedd y senedd hon gwedi coll-farnu ei brenin ac ei brenines, a gwedi danfon mwy na mil o filoedd o wyr i i faes y gwaed i ymladd brwydrau y wladwriaeth. Dywedir iddi lunio 11,200 o gyfreithiau, a bod 360 o fradwriaethau, a 140 o derfysgoedd gwedi cael eu harddadgan iddi; ac i 18,613 o ddynion gael eudihen-

yddio; bod y rhyfel cartrefol oedd yn Lyons gwedi peri i 31,000 golli eu bywyd, ac yn Marseilles i 729. Distrywiwyd yn Toulon 14,325; ac ar warthaf mynyddoedd Pyren, 750; bod y rhyfel gartrefol yn La Vendee gwedi peri distryw 900,000 o ddynion, a thros 20,000 o dai. Dywedir i 4790 fod yn hunan-leiddiaid rhag dyoddef o honynt yr arteithiau dychrynllyd a arferai poenwyr y senedd ar eu cyd-greaduriaid. Bu farw 3 400 o wragedd beichiogion gan ddychrynfeydd peiriannau rhyfel yn rhwygo eu gwyr ac eu plant yn eu gwydd; dywedir i 20,000 o ddeiliaid y deyrnas newynu, ac i 1550 farw yn lloerig gwedi anmharu eu dëall gan echryslondeb yr arteithiau ofnadwy a wnelid ar eu cymydogion. Dywedir i 184,000 gael eu cigyddio yn yr ardaloedd pellenig a berthynent i Ffrainc, ac i ddwy drêf â 4000 o drigolion gael eu llosgi. Y golled o filwyr a rifir yn ychwaneg nag 800,000, heb sôn am 124,000 o ymgilwyr a gafodd eu cau allan o Ffrainc am byth.—Y dull o arteithio trwy ystod y 3 blynedd echrys hyn, sydd ry erchyll i'w grybwyll: pan fethwyd dyfod trwy y gorchwyl â bwyill, cylchynwyd cantoedd mewn nentydd â drylliau tân mawrion gan eu rhwygo hyd oni byddent yn garneddi gwaedlyd mewn ychydig funudiau; dro arall llanwent dy o wyr, gwragedd a phlant, ac yna rhoddent tân ynddo; a thrachefn boddent filoedd ar unwaith mewn afon gan labyddio â meini y neb a geisiai lân; a phob dull arall a allent ddyfeisio, ac fel hyn y parhaes y farn ddychrynllyd, hyd oni bu i Senedd y 500, a 5 llywydd arnynt, beri terfyn ar rwysg y poenwyr creulawn.

Y nesaf sydd yn dyfod dan ein sylw yw Napoleon Buonaparte, yr hwn a aned y 14 o Awst 1769 yn Ajaccio, tref fechan yn ynys Corsica; ei dad Carlo Buonaparte oedd gyfreithiwr, yr hwn gyd a'i wraig oeddynt o hîl Italaidd. Y llywydd Marbœuf, gorfodwr Corsica yn hoffi tegwch mam Napoleon, llwyddodd i'r bachgen gael cynnyg o ddysgu yn ysgol filwraidd Paris, a chan iddo ddëall defodau rhyfel yn dra buan, derchafwyd ef yn ddiatreg i fod yn swyddwr mewn byddin. Yr oedd ei anian tra yn fachgen yn hynod o ddiriad: chwennychai ymladd â phawb a allai, ac yr oedd ei foesau yn sarug, anifeilaidd, a brwnt, felly ni byddai eiddigedd ar ei gydymdeithion pan dderchefid ef i swydd uwch, er mwyn iddynt gael ymwared o hono

Pan fu farw Marbœuf yn 1786, collodd Napoleon bob gobaith o ddringo i uwch swyddau, felly gadawodd Paris ac aeth i Corsica, lle yr ymroddodd i fyfyrio defodau rhyfel, gan fyw ar fwrdd tylawd ei fam, yr hon oedd weithian yn weddw ac heb gynnorthwy iddi, ac yno yr arhosodd hyd oni bu i'r dadymchweliad yn Paris ddechreu, pan y gadawodd Corsica i edrych pa ddamwain a'i cyfarfyddai yn y rhyfel yn erbyn y rhwysg breninol, yr hon ers llawer dydd a chwennychai weled. Gwedi bod rai dyddiau yn dyst o'r dychrynfeydd oedd yn taenu tros Paris, danfonwyd ef yn ol i fod yn llywydd ar fyddin fechan o warchgeidwaid gwladol oedd yn Ajaccio, ei le ganedigol, ond gan nad oedd yno fawr i'w wneyd, aeth yn is-lywydd yn myddin y drylliau tân, a bu lwyddiannus fal y gwnaed ef yn llywydd ar y fyddin a ymosododd ar Toulon. Oddiyno gorchymynwyd ef i Nice, lle y bu i'w rwysg beri i lywydd y lle ei garcharu, a chan na chospwyd y llywydd ar iddo achwyn arno yn Paris, gofynodd a gafai fyned i Constantinople, i'r bwriad yn ddiammheu o fod yn myddinoedd y Twrc, gan fod lladd a llarpio bellach gwedi greddfu cymmaint ynddo nad oedd waeth

ganddo pa le cafai fwynhau hyny, ond ni chaniatawyd iddo. Gwedi hyn cafodd fyddin arall i'w blaenori yn erbyn Corsica, yr hon oedd erbyn hyn gwedi ysgwyd iau Ffrainc oddiarni, ond bu aflwyddiannus: yna gadawodd y cwbl a daeth i roddi tro hyr i Lundain, heb obaith y dychwelai byth yn ol. Ond gan i derfysg ail ennyn yn Paris, danfonodd Barras ei noddwr am dano, a gwnaed ef yn ail lywydd ar y milwyr gwladol, a bu llwyddiant ar y gâd gyntaf a fu rhyngddynt â milwyr y goron wrth Thuilleries: gwedi hyn gan i Napoleon briodi Josephine Beauharnois, un o ordderchadon Barras, a bod Scherer, blaenor byddin Ffrainc oedd yn Itali, mewn gwarth oherwydd meddwdod, penwyd Napoleon i fod yn flaenor yn ei le. Yna cafodd eithaf cyfle mewn brwydrau gwaedlyd yn erbyn yr Italiaid ac yr Austriaid tros amser maith o arddangos ei ddewrder: Lodi, Mantua, Pavia a Corsica, (yr hon oedd y pryd hyn yn meddiant Prydain) a ddaethant yn yspail iddo, a gwedi ymladd 80 o frwydrau, a chymeryd 100,000 o garcharorion, a 2,500 o ddrylliau tân, barnwyd fod Itali gwedi ei hennill trwy arfau ei filwriaeth. Oddiyno troes Napoleon i Germani gan fod byddinoedd tan Kleber, Bernadotte, Jourdan, a Moreau yn ymladd (ond nid mor lwyddiannus) yn erbyn yr Austriaid; ond cyn iddo gyrhaedd y ddinas ymherodrol, lluniwyd ammodau heddwch, a threfnwyd i'r Iseldir gael ei huno â Ffrainc, ac i rai o'r taleithiau a ddygasai Napoleon oddiar Itali, gael eu rhoddi i'r ymerawdr yn ei lle.

Llwyddiant yn dilyn amcanion y Ffrancod, ymroddasant i oresgyn Prydain, ond gwedi casglu myrddiynau i lan y môr, a gosod Napoleon yn ben ar y fyddin, ofnwyd peiriannau llyngesau Prydain, a throesant yn ol, gyd â bwriad, yn lle myned tros yr afon, o ddychwel i'r Aipht, ac felly y bu. Ond daeth y llywydd enwog Nelson, â llynges Prydain ar ei hol, ac er iddi fod yn llai na llynges Ffrainc, cymerodd a distrywiodd hwynt agos oll. Bu brwydrau dychrynllyd drachefn, ond buddugoliaethus i Brydain rhwng byddin tan arweiniad Syr Ralph Abercromby, yr hwn a syrthiodd ar faes y gwaed, â byddinoedd Napoleon, a'r terfyn fu erlid y gweddill o'r Ffrancod yn ol i'w gwlad.

Napoleon gwedi cyrhaedd Paris, a aeth i'r senedd i osod sail trefn newydd o lywodraethu, ond nid oedd y derbyniad a ddymunai iddo, gan fod y llynges odidocaf yn Ffrainc gwedi ei distrywio ganddo, yn gystal a byddin o filwyr dewr. Er hyny gan iddo eu bygwth â dialedd os na chydsynient; trefnwyd i dri lywio y wlad, sef Sieyes, Buonaparte a Ducos.

Napoleon yn fuan gwedi yn cael ei enwi yn brif lywydd, danfonodd at freniu Prydain, ac ymerawdr Austria, i ofyn a ddeuant i lunio heddwch cyffredinol, a chan iddynt wrthod gwrando arno, blaenorodd ei fyddinoedd tros yr Alp, ac yn Marengo bu y frwydr fwyaf dychrynllyd o unrhyw a ddigwyddasai yn yr oes: lladdwyd Dessaix blaenor y fyddin Ffrengig a ymosododd gyntaf ar yr Austriaid, ychydig cyn i fyddin Buonaparte ymuno, ac yr oedd ar y maes erbyn i fuddugoliaeth gael ei henwi i Ffrainc 30,000 o hil Adda yn feirwon Yn fuan gwedi hyn cafodd Moreau fuddugoliaeth ar yr Austriaid tan yr Archdug Charles wrth Hohenlinden, a chymerodd 10,000 o garcharorion, a 80 o ddrylliau tân mawrion. Ac yna canlynodd heddwch Amiens.

Gorchwyl nesaf Buonaparte oedd ymroddi i sefydlu y grefydd Gatholig yn Ffrainc, am hyny cafodd yr anrhydedd o'i alw yn ddiwygiwr: ond cyn pen ychydig, arddangosodd ei greulonder yn erbyn Touissant l' Overture o San Domingo, trwy anfon blodau byddin-

oedd Ffrainc yno i ddïal ar y terfysgwyr, ac yn fuan drachefn trochodd ei ddwylaw yn ngwaed y dug d'Enghien, un o deulu breninol Ffrainc, ac yna er dangos ei rwysg-awydd yn ddilen, mynodd ei goroni yn ymerawdr Ffrainc, ag enwi ei frodyr yn dywysogion breninol.—Fal hyn y darfu i'r genedl Ffrengig gwedi treiddio trwy fôr o waed, a dyoddef y trallodion mwyaf er dirymu brenin-fraint, ddychwel i'r man y cychwynasai o hono.

Ychydig gyd â blwyddyn y parhäodd heddwch Amiens: gwelwyd fod llyngesau a byddinoedd yn cael eu parotoi gan y Ffrancod yn ddirgelaidd, felly gorfu ar Brydain barotoi hithau, a Russia a Sweden a ymunasant â Phrydain yn y rhyfel. Yr oedd Napoleon y pryd hyn gwedi myned i Milan i'w goroni yn frenin Itali, lle y rhoddes y goron haiarn a fyddai arferol o goroni brenhinoedd Lombardi ar ei ben, gan lefain yn uchel fal nhwythau, "Duw sydd yn ei rhoddi imi, gocheled y sawl a'i cyffyrddo." Yna gosododd Eugene Beauharnois, mab ei wraig yn llywydd ar Itali, a sefydlodd urdd y goron haiarn. Addawodd hefyd i'r Italiaid y tynai frig Prydain i lawr, trwy ddileu ei hyfder o reoli y môr.

Yna dychwelodd yn ol, ac a aeth i Bologne, i arwain y fyddin fawr i Brydain. Gwyddai wrth gychwyn mai ffolineb oedd y fath antur, ond gan ei addewidion teg i Ffrainc ac Itali, yr oedd yn rhaid iddo wneyd ffûg o fyned o gylch y gorchwyl. Yr oedd byddinoedd Austria tan Mack a Fferdinand y pryd hyn ar eu taith i Ffrainc, felly gorfu ar Napoleon yr eil-tro adael Prydain, a myned i'w gwynebu, a thrwy iddo ddenu Mack i dwyllo ei arglwydd, cymerodd y rhan fwyaf o'i filwyr yn garcharorion. Yr archdug Charles yn clywed y newydd, troes ei fyddin i gadw y brif ddinas, eithr dilynodd Napoleon ar ei ol, a meddiannodd Vienna yn ddiatreg, ond nid heb frwydr ddychrynllyd ar lennydd afon Danub. Gwedi brwydr Austerlitz, pan y cafodd y Ffrancod fuddugoliaeth ar y Russiaid, ac yr Austriaid, gorfu ar yr ymerawdr ymheddychu â Napoleon, gan adael iddo feddiannu y rhanau o'i ymerodraeth a ennillasai, hyd heddwch cyffredinol.

Tra yr oedd llwyddiant yn coroni goruchwyliaethau Napoleon ar dir, danfonodd lynges grêf allan tan Villeneuve, i edrych pa rwydddeb a gafai ar fôr. Y llywydd enwog Nelson yn clywed hyn, aeth yn ol ac yn mlaen ar draws y môr Werydd, hyd at ynysoedd India orllewinol, ac i'r Aipht, i chwilio am dani ond nis cafodd hi, a dychwelodd i Loegr. Yn fuan gwedi, tarawodd llynges Syr Robert Calder wrthi, a bu ymladdfa am bedair awr, a chymerodd Calder, ddwy o'r llongau mwyaf, ond gorfu arno ddyfod i Brydain i ateb paham na buasai yn fwy llwyddiannus.—Y newydd yn mhen ychydig yn dyfod fod llyngesau Ffrainc ac Yspaen (27 o longau mawrion) gwedi troi allan, aeth Nelson eto ar eu hol, ac wrth Trafalgar cyfarfu â nhwy (Hyd. 21, 1805.) a bu ymladdfa dôst, hyd oni chymerwyd neu ddistrywio llyngesau y gelynion yn llwyr, ond och fi! trefnodd Rhagluniaeth i derfyn fod ar einioes y blaenor enwog, pan oedd mantol goruchafiaeth newydd droi o'i du, a gorpheniad y frwydr a ddaeth i ran arglwydd Collingwood.

Y brwydrau nesaf ar dir, oeddynt rhwng Napoleon â Phrussia, yn Schleitz, Saalfeld ac Auerstadt, y rhai oeddynt fuddugoliaethus i Ffrainc, ac er agos lwyr derfyn i rwysg Prussia. Yna canlynodd y brwydrau echrys rhwng Napoleon â Russia wrth Pultusk ac Eylau, lle collodd y Russiaid 30,000, ac y Ffrancod 12,000 o wyr; a thra-

chefn brwydr Ffreidland, pan y cyfarfu Napoleon ag ymerawdr Russia ar gludeir-fad ar afon Neimen, ac y lluniasant heddwch rhwng Russia a Prussia â Ffrainc. Wrth yr heddwch hwn rhoddes Napoleon ran o Prussia at deyrnas newydd Westphalia, yr hon oedd yn cael ei llywodraethu gan ei frawd y brenin Jerome. Warsaw a roddwyd i etholydd Saxoni, yr hwn ar yr un pryd a wnaed yn frenin Saxoni. Gwnaeth hefyd ddau frawd arall, un yn frenin Holland, ac y llall yn frenin Naples, a gorfu ar Alexander eu haddef felly.

Yn 1806, goresgynodd y Ffrancod Yspaen, a thra yr oeddynt yn ymladd yno, achubodd Austria y cyfle o gyhoeddi rhyfel yn erbyn Ffrainc. Napoleon gwedi derbyn y newydd, tywysodd ei fyddinoedd i Austria, a'r canlyniad oedd brwydrau Ebensberg, Landshut, Ratisbon ac Ekmul, yn y rhai y collodd yr Austriaid 40,000 o wyr rhwng lládd a chymeryd, â 100 o ddrylliau tân mawrion. Ac ar y 10 o Mai yr oedd Napoleon yn Vienna yr eil-tro. Archdug Charles o'r tu arall i'r afon yn gwersyllu, aeth Napoleon i'w wynebu, ac wrth Essling bu ymladdfa dôst: lladdwyd o'r Austriaid 4000 o wŷr, a chlwyfwyd 16,000: ond yr oedd colled y Ffrancod yn fwy, felly ciliasant i'r ddinas yn aflwyddiannus. Gwedi adferyd trefn, a gwella o'r archolledig ymroddasant eilwaith i wynebu yr archdug, a lluniasant bont lydan mewn 14 diwrnod dros y Danub, yr hon sydd agos haner milltir o led Ond gan fod yr archdug yn gwersyllu ar eu cyfer, ac yntau o fwriad am eu twyllo, aeth yn y nos yn mhellach ymlaen, a thaflodd bont dros yr afon mewn yspaid dwy-awr, ac erbyn gwawrio o'r dydd, yr oedd ei holl fyddin gwedi myned drosodd, a bu raid i Charles ei wynebu yn y lle a ddewisai ei hun; felly brwydr dost a ganlynodd, ond aflwyddiannus i Austria: cymerodd y Francod 20,000 yn garcharorion, a 400 o swyddogion byddinoedd Y canlyniad fu i heddwch ar dileran aflesol i Austria gael ei lunio, ac i fyddinoedd Ffrainc ddychwel yn orfoleddus i'w bro.

Gorchwyl nesaf Napoleon, oedd llunio cydundeb cyhoedd o ymadaw yn heddychlon a'i wraig, yr hon oedd tros oedrau planta, fal y cafai o briod arall, etifedd i'r ymerodraeth. Bu gryn amser yn syllu oddiamgylch, o'r diwedd rhoddes ei serch ar Maria Louisa archduges Austria, a phriododd hi Ebr. 1, 1810: y canlyniad fu geni bachgen ddechreu'r flwyddyn ganlynol, yr hwn a wnaed yn frenin Rhufain.

Gwedi hyn etholwyd Bernadotte, un o swyddogion byddinoedd Napoleon, yn etifedd coron Sweden, ac fe allai bod Napoleon yn hyderu y byddai hyn i'r dyben o gael gan y genedl honno ei gynnorthwyo i oresgyn Russia, ac yn niwedd yr hâf 1812, blaenorodd fyddin, yr hon erbyn iddi gyrhaedd cyffiniau Russia oedd 300,000 o filwyr. Moscow ail ddinas Russia oedd y lle y mynai Napoleon auafu ynddi, fal y cafai yr holl hâf canlynol, drin y drêth fal y mynai yn Petersburg, ond cafodd am un tro ei siommi yn ddirfawr. Alexander yn gwybod y canlyniad os meddiannai Moscow, a orchymynodd roddi y ddinas hardd honno ar dân, pan oedd y gelyn o fewn ychydig filltiroedd iddi, felly erbyn dyfod o honaw yno, yr oedd y lle yn rhy boeth i'w groesawu yn hir, a gwedi cigyddio cymmaint ag a allai o'r trigolion am 5 wythnos, gorfu arno droi allan i ymofyn lle i auafu ynddo, ond dilynwyd ef gan y Rwsiaid, ac yn fuan gwedi, daeth *y sêr yn eu graddau i ymladd yn ei erbyn* trwy agor celloedd yr iâ, fal y syrthiodd yr holl fyddin liosog, naill ai trwy y cleddyf, neu gan oerder anaele yr hin,

oddigerth y gormeswr ei hunan, ag ychydig o'i warcheidwaid. Barnwyd gwedi hyn na chyfodai y bwystfil ei ben mwy: ond gwelwn ef yn ngwanwyn 1813, eto yn cychwyn i wynebu lluoedd Russia yn Prussia a Poland, gyda rhyw faint o obaith o gael lluoedd ei dad yn nghyfraith ymerawdr Austria i ymuno ag ef; ond erbyn cyrhaedd yno, gwelai fod yr ymerawdr gwedi penderfynu bod yn anmhleidgar, felly gan fygythion Napoleon, gorfu ar Austria ymuno â'r galluoedd oedd yn erbyn Ffrainc, a brwydrau echrys a ddilynodd, hyd oni ddarfu i'r ymladdfa a fu yn Leipsic yn nechreu gauaf 1813 droi y fantol yn erbyn Ffrainc, trwy ddryllio y fyddin fawr yn chwilfriw, a dâ oedd i'r gormeswr allael cyrhaedd Paris yn llawn gwarth Y canlyniad o hyn oedd i'r Isellmyn ymgynhyrfu a bwrw iau Ffrainc oddiarnynt, ac ail osod eu Braint Geidwaid ar yr orsedd, yr hwn oedd gwedi gorfod ymofyn noddfa yn Lloegr er ys 19 mlynedd. Felly disgwilir y bydd i'r ardaloedd ereill y sydd yn gruddfan dan ei iau, ddilyn yr un llwybr, fal y byddo i heddwch cyffredinol gwedi hir ryfela, ddyfod i ran amrywiol wledydd Ewrop.

# PRYDAIN FAWR.

MAE ymerodraeth Prydain fawr ac Ywerddon yn y môr Werydd: hi i wahenir o du y dwyrain, o ddeheubarth Norway, ac o Denmarc a Holland gan fôr Germani; o du y de, ac o Normandi, a Lludaw yn Ffrainc gan gul-fôr Lloegr; ac o du y gorllewin a'r gogledd gan yr eigion sydd yn terfynu ar lenydd America, a pharthau cyfogledd anadnabyddus. Ei hyd o benrhyn Penwaed yn Nghernyw yn lledred 49. 58 Gdd. i benrhyn Blathdon yn Caithness yn lledred 58 42 Gdd. sydd 580 milltir; ac ei lled mwyaf o Yarmouth yn Hydred 1. 45 Dn. i benrhyn Venfry yn yr Ywerddon yn Hydred 10. 20 Gn. sydd 514 milltir.

Gan fod prif ddosbarthiadau yr ymerodraeth hon yn deilwng o sylw pennodol arnynt, sylwir yn fwy helaeth ar bethau a berthyn iddi yn gyffredinol dan Loegr, gan mai dyma y gyfran fwyaf poblog, ac hefyd gorsaf y llywodraeth.

# LLOEGR.

## DOSBARTH I.

*Cylchynoedd. Maintioli.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Mynyddoedd.. Afonydd.. Llynau. Ffynonydd.. Coedydd . Llysiau.*

LLOEGR a gylchynir o du y dwyrain gan fôr Germani; o du y gogledd gan Ysgotland, neu yr Alban, o du y gorllewin gan Gymru, môr Ywerddon a chulfor St. George, ac o du y de gan y môr sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ffrainc.

Yn ol y cyfrif yn 1801 mae Lloegr a Chymru yn 73,306 o filltiroedd arwynebol, yr hyn sydd o ddeutu 46,916,000 o erwau: 7,816,000

o honynt sydd fynydd-dir, mawndir, a meusydd cyffredin, ac y gweddill yn dir ffrwythlon.*

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Wrth gymharu Lloegr ag ei broydd cymydogaethol nis gellir ei hystyried yn wlad fynyddig, er bod amrywiol drumau o uchel-diroedd yn ymestyn drosti. Ei phrif drêm ydyw ei hamrywiol feusydd caëdig, y rhai sydd yn y rhâdd uchaf o amaethyddiaeth, ac yn ymddangos fal cynifer o erddi hardd-wych yn ddarfrithedig o ddinasoedd enwog, trefydd hardd, llysoedd gwychion, &c.

Ei glenydd môr (medd Pennant) o Berwic, y ĉwr mwyaf gogleddol i Dover sydd dywodlyd ac isel, oddigerth y penrhynau creiglyd a elwir Humber, Hamboro, Spurn, &c. Mae rhai manau o lenydd dwyreiniol y wlad, yn ymddangos fal pe ennillasai y tir ryw gyfran o'r môr; a rhanau ereill yn ddi-wrthadl gwedi i'r môr eu goresgyn er ys oesoedd, megys traethellau Goodwin, a glenydd swydd Lincoln, lle y canfyddir ar ddistyll isel, foglymau o wraidd coed mawrion yn nglyn yn y llaid, ac mor reolaidd a phlanigion coedwig. Y glenydd o Dover i Folkstone ydynt glogwyni o farm neu sialc yn frithedig gan wythenau o geryg tân. Yr ochr de sydd dryfrith o unfath glogwyni, bryndir cleiog, a rhai gwastadoedd graianllyd isel. Y parthau gorllewin, o ben tir Lloegr i flaenau môr Hafren sydd gan mwyaf yn serth-eillt o wenithfaen, llechfaen ac ereill. Yna mae Cymru fynyddig rhyngddi â mor Ywerddon. O Gaerlleon, sef o aber afon Dyfrdwy y ceir y glenydd môr yn wrym o ucheldir gan mwyaf, hyd gyffiniau Ysgotland, yna trum Cheviot sydd yn derfyn rhwng y ddwy wlâd.

RHANIADAU.] Mae Lloegr gwedi cael ei dosbarthu yn amrywiol ranau o amser i amser. Cyn ei goresgyn gan y Rhufeiniaid, yr oedd trigolion y wlad yn 170 o amrywiol lwythau, y rhai oeddynt megys cynifer o deyrnasoedd yn cael eu llywodraethu bob un gan dywysog neillduol, ond yn addef penaeth cyffredin mewn rhai pethau wrth fraint ac angen. Dyma eu henwau yn nghyd ag ardaloedd eu preswylfod.

| Enwau. | Trigfanau. |
|---|---|
| 1 Brigantiaid . | Lancaster, Cumberland, Westmorland, rhan o o Northumberland, a Durham. |
| 2 Cornaviiaid . | Derby, Caer, swydd Shrop, a Stafford. |
| 3 Coritaniaid . . | Lincoln, ac i'r gorllewin i Derby a Lichfield. |
| 4 Ordoviceaid . | Gwynedd. |
| 5 Demetœaid . . | Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi. |
| 6 Siluriaid . . | Y rhanau o Powys sydd yn terfynu ar afon Hafren a môr Ywerddon. |
| 7 Dobuniaid . . | Caerlöew a Rhydychen. |
| 8 Catieuchlaniaid | Rhan o Middlesex, a swyddi Buckingham, Rhydychen, Warwic, Northampton, Huntingdon, Bedford, a rhan o Hertford. |
| 9 Iceniaid . . | Suffolk, Norfolk, Caergaint a rhan o Huntingdon |
| 10 Trinobanteaid . | Essex, a rhanau o Middlesex, a Hertford. |
| 11 Bribrociaid . | Parthau gogledd orllewinol Berk. |
| 12 Atrebatiaid . . | Rhanau o Berk, Wilt, a Middlesex. |
| 13 Belgeaid . . | Rhanau o Dorset, Gwlad yr haf, Wilt, a Hant. |

* Middleton's Survey of Middlesex, p. 460.

14 Damnoniiaid . Cernyw a Dyfnaint.
15 Durotrigiaid . Dorset, a'rhan o swydd Hamp.
16 Regniaid . . Surry, a Sussex.
17 Cantii-aid . . Caint.

Pan oresgynwyd y wlad gan y Rhufeiniaid, rhanasant hi yn bedair talaeth fal hyn.

1 Britannia prima, sef deheubarth y wlad o'r môr i afonydd Hafren a Thame.

2 Britannia Secunda, sef Cymru.

3 Flavia Cæsarensis, sef, y tir sydd rhwng afonydd Thame, Humber, a'r Trent

4 Maxima Cæsarensis, sef o gyffiniau y drydedd gyfran i glawdd Severus, rhwng Newcastle a Carlisle.

Gwedi i'r Rhufeiniaid adael Prydain, o achos pwys terfysgoedd cartrefol, a dyfod y Saxoniaid, Jutiaid, ac yr Angliaid, ac ei goresgyn trwy anghydfod ei thrigolion, rhanwyd y wlad yn saith deyrnas, a gosodwyd Llywodraethwr penigol ar bob un, yr hwn oedd yn rhwym i gyd uno mewn cynghrair ag y lleill yn erbyn unrhyw elyn a geisiai oresgyn y wlad. Dyma oedd enwau y teyrnasoedd ac yr ardaloedd oedd yn eu llunio.

| | |
|---|---|
| 1 Caint, . . . . . | Caint. |
| 2 Saxoniaid deheuol, . | Sussex, Surry. |
| 3 Angliaid dwyreiniol, . | Norfolk, Suffolk, Caergaint, ac ynys Ely. |
| 4 Saxoniaid gorllewinol, | Cernyw, Dyfnaint, Dorset, Gwlad yr Haf, Wilt, Hant, a Berk. |
| 5 Northumberland, . | Lancaster, Caerefrog, Durham, Cumberland, Westmorland, Northumberland, a rhanau deheuol Ysgotland i ffrydd Edinburg. |
| 6 Saxoniaid dwyreiniol, . | Essex, Middlesex, a rhan o Hertford. |
| 7 Mercia . . . . . | Caerloew, Hereford, Worcester, Warwick, Leicester, Rutland, Northampton, Lincoln, Huntingdon, Bedford, Buckingham, Rhydychen, Stafford, Derby, Amwythig, Nottingham, Caer, ac y rhanau ereill o Henffordd. |

Y Rhaniad nesaf dan reolaeth Alfred yr enwog, ac sydd hyd heddyw yn parhau, ydoedd dosbarthu Lloegr yn 40 ardal neu swydd, a thywysogaeth Cymru yn 12. Yr oedd y pryd hyny ŵr mawr o enw Earldorman yn llywodraethu pob swydd, eithr ar ddyfodiad y Daniaid, cyfnewidiwyd yr enw yn iarll oddiwrth y gair Daniaidd yarl, sef, gŵr bonheddig. Rhoddwyd achosion y wlad ar y sir reeve neu swyddog, sef îs lywodraethwr, ac felly y mae hyd heddyw.

Yma y canlyn enwau Cylch-deithiau y barnwyr i weinyddu cyfiawnder mewn ardaloedd pell oddiwrth y brif ddinas; yn nghyd â rhif trigolion pob swydd yn ol y cyfrif fu arnynt yn 1801.

| *Cylchdeithiau.* | *Swyddau.* | *Trigolion yn ol y cyfrif yn 1801.* | *Prif ddinas.* | *Pellder o Lundain.* |
|---|---|---|---|---|
| I. Cylchdaith gartrefol. | Essex . . . | 226,437 | Chelmsford . . | 29 |
| | Hertford . . | 97,577 | Hertford . . . | 29 |
| | Caint . . . | 307,624 | Maidstone . . | 34 |
| | Surry . . . | 269,043 | Guildford . . . | 29 |
| | Sussex . . . | 159,311 | Lewes . . . | 49 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| II. Cylchdaith Norfolk. | Bucks | 107,444 | Aylesbury | 38 |
| | Bedford | 63,393 | Bedford | 51 |
| | Huntingdon | 37,568 | Huntingdon | 61 |
| | Caergrawnt | 89,346 | Caergrawnt | 50 |
| | Suffolk | 210,431 | Ipswich | 69 |
| | Norfolk | 273,371 | Norwich | 108 |
| III. Cylchdaith Rhydychen. | Rhydychen | 109,620 | Rhydychen | 54 |
| | Berks | 109,215 | Reading | 37 |
| | Caerloew | 250,809 | Caerloew | 104 |
| | Caerwyrangon | 139,333 | Caerwyrangon | 111 |
| | Aber Honddu | 45,582 | Aber Honddu | 129 |
| | Henffordd | 89,191 | Henffordd | 135 |
| | Amwythig | 167,639 | Amwythig | 155 |
| | Stafford | 239,153 | Stafford | 135 |
| IV. Cylchdaith canol-wlad. | Warwick | 208,190 | Warwick | 90 |
| | Leicester | 130,081 | Leicester | 98 |
| | Derby | 161,142 | Derby | 126 |
| | Nottingham | 140,350 | Nottingham | 125 |
| | Lincoln | 208,557 | Lincoln | 131 |
| | Rutland | 16,356 | Oakham | 95 |
| | Northampton | 131,757 | Northampton | 66 |
| V. Cylchdaith orllewinol. | Hants | 219,656 | Winchester | 62 |
| | Wilts | 185,107 | Salisbury | 81 |
| | Dorset | 115,319 | Dorchester | 120 |
| | Gwlad yr Haf | 273,750 | Taunton | 141 |
| | Dyfnaint | 343,004 | Exeter | 172 |
| | Cernyw | 188,269 | Launceston | 214 |
| VI. Cylchdaith ogleddol. | Caerefrawg | 858,892 | Caerefrawg | 195 |
| | Durham | 169,361 | Durham | 259 |
| | Northumberland | 157,101 | Newcastle | 270 |
| | Lancaster | 672,731 | Lancaster | 240 |
| | Westmorland | 41 617 | Appleby | 270 |
| | Cumberland | 117,230 | Carlisle | 301 |
| Swyddau heblaw a Cylchdeithiau.* | Middlesex | 818,129 | Llundain | |
| | Caerlleon | 191,751 | Caerlleon | 180 |

*Cylchdeithiau Cymru.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cylch-daith gogledd ddwyreiniol. | Fflint | 39,622 | Fflint | 206 |
| | Dinbych | 60,352 | Dinbych | 200 |
| | Trefaldwyn | 47,978 | Trefaldwyn | 168 |
| Cylch-daith gogledd orllewinol. | Mon | 33,806 | Beaumaris | 251 |
| | Arfon | 41,521 | Caernarvon | 244 |
| | Meirion | 29,506 | Bala | 195 |
| Cylch-daith deddwyreiniol. | Maesyfed | 19,050 | Maesyfed | 140 |
| | Brecheiniog | 31,633 | Brecheiniog | 171 |
| | Morganawg | 71,525 | Caerdyf | 160 |
| Cylch-daith de orllewinol. | Penfro | 56,280 | Penfro | 263 |
| | Aberteifi | 42,956 | Aberteifi | 240 |
| | Caerfyrddin | 67,317 | Caerfyrddin | 220 |

Heblaw y dosbarthiad hyn o ranu Lloegr a Chymru yn 52 swydd, mae amryw ardaloedd a rhagor-freintiau swydd yn perthyn iddynt,

* Gelwir y rhai hyn ardaloedd Palatin, o herwydd swyddau neillduol yn perthyn iddynt.

megis dinasoedd Llundain, Caerefrawg, Caerlleon, Caer Odornant, Exeter, Norwich, Caerwyrangon, a threfydd Kingston ar Hull a Newcastle ar Tyne, y rhai ydynt fal swyddi gwahanedig oddiwrth y rhai y maent ynddynt.

HIN A THYMHORAU.] Mae yr hin yn amrywio mwy yn Mhrydain nag yn un gwlad arall, o herwydd y cyflawnder o darth sydd yn cael ei yru o'r môr Werydd gan y mynych wyntoedd gorllewinol: ond nid ydyw yr eithafnod o oerni a gwres cymmaint ag yn y bröydd sydd yn gorwedd dan yr un hingylch. Tra mae porthladdoedd Holland agos bob gauaf yn gloëdig gan rew, mae glenydd Prydain, y rhai sydd gyfbell o'r Cyhydedd yn llwyr rydd oddiwrtho; a thra mae gwrês yr hâf yn y parthau hyny yn dra thanbaid, mae Prydain yn mwynhau hin dymherus. Y trawsfudiad aml a chwyrn yn ardymherau yr hin, yn nghyd â thuedd barhaus i wlybaniaeth ydyw beiau cyffredin hin Prydain. Mae y lleithder yn peri i wyrddlesni ei gwyneb ragori agos ar bob gwlad arall, ond ar yr un pryd mae yn achos i'r anwyd, cryd, ac afiechyd ereill yn mysg y trigolion. Mae y tymhorau o herwydd y cyfryw gyfnewidioldeb yn hynod o anwadal, a thebygid mai mwy addas fyddai rhanu y flwyddyn yn 8 mis o auaf a 4 mis o haf, nag yn 4 tymhor. Y gyfran a elwir yn wanwyn sydd yn dechreu yn Ebrill, pan y mwynheir hin led dymherus yn gyffredin, a thŵf daear ar gynydd hyd oni ddelo dwyreinwynt Mai i'w ddeifio. Mehefin, Gorphenaf, Awst, a Medi, ydynt fisoedd hafaidd, ond weithiau byddant yn dra gwlawog a throau ereill yn hynod o sych, ac nid anadnabyddus ydyw llwydrew ar rai o nosweithiau Awst. Hydref sydd megis yn agor dorau y gauaf, er na theimlir pwys oerni hyd arllwysiad iâ Nadolig. Y dryghinoedd mwyaf ydynt o ddeutu albanau Elfed ac Eilir, ond nid ydynt o hir barhâd. Taranau fydd yn lled gyffredin yn yr hâf, eto nid mor ddychrynllyd ag mewn bröydd nes i'r cyhydedd. Daear-grynfâu ydynt dra anghyffredin, er y dywedir eu bod yn digwyddo unwaith neu ddwy bob can mlynedd. Hyd y dydd yn y penrhyn Penwaed y cwr mwyaf deheuol ydyw 16 *a.* 15 *m.*, ac yn Berwic y cwr mwyaf gogleddol 17 awr.

MYNYDDOEDD.] Nid ydyw mynyddoedd Lloegr cyfuwch nag mor liosog â mynyddoedd Cymru ac Ysgotland; er hyny mae daeargraffyddion gwedi eu dosbarthu yn drumau rheolaidd. Y mynyddoedd sydd yn derfyn rhwng Lloegr ac Ysgotland ac a elwir Cheviot, sydd yn llunio trum reolaidd, gan darddu o'r dorllewin i ymuno â mynyddoedd Galloway i'r gogledd-ddwyrain. Mae trum arall a'i rhedfa o goedwig Gelsdale, 14 milltir i'r de ddwyrain o Carlisle, heibio gorllewin barthau Durham, a Chaerefrog, lle mae hi yn cynnwys mwngloddiau plwm a glo, i barthau de y wlad: y mynyddoedd uchaf o honi ydynt ar derfynau gorllewin swydd Caer Efrog, ac a elwir Kelton fell, Stanmere, Widehill fell, Wildeboar-fell, Bow-fell, Homefell, Bunhill, &c Cainc o honi ydyw trum Craven, sydd yn cynnwys mynyddoedd Wharn, Ingleborough, a Pennigent, a rhan arall o honi ydyw trum Pendle sydd yn ymgyfeirio o swydd Lancaster i swydd Derby, lle hynod am fwnau a chywrain bethau anaeddol. Mae bryndir arall yn ymdaflu o'r brif drum, ac yn cyrhaedd yn agos i Gaer Sallog; mae yn perthyn iddi ddwy gainc, un sydd a'i rhedfa tu ag at Norfolk; ac y llall gan daflu caugen o honi i Gernyw, sydd yn ymestyn i Gaint. I'r cyntaf o'r rhai hyn mae yn perthyn bryniau Gogmagog

yn swydd Caergrawnt, ac i'r ail, fryniau Hamp, Surry, a Caint. Trum arall a elwir Chiltern, sydd yn cyrhaedd o Tring yn swydd Hertford i Henley yn swydd Rhydychen. Trum Malvern yn swydd Caerwyrangon sydd yn gwyro oddiwrth y brif drum, ond gellir galw Cotswold yn swydd Caerloew yn barhâd o honi. Mae bryniau Mendip, Polden, Sedgmoor, a Blackdown yn Ngwlad yr haf, bryniau Dartmoor yn swydd dyfnaint, a gelltydd Cernyw yn estyn y drum hon i ben tir.

Mae anianydd enwog gwedi sylwi y byddai i linell o Dorchester yn swydd Dorset i swydd Norfolk, lunio terfyn y wanaf o farm sydd yn rhedeg drwy agos i ganol y wlad, ac nad oes nemawr o'r un defnydd i'w ganfod yn unlle o'i deutu. Y mynyddoedd gogleddol ydynt gan mwyaf o geryg calch, grŷd, llechfaen neu Schistus, ac yn cynnwys mŵn plwm a glo; rhai Derby ydynt geryg calch, yn dryfrith o toadstone ac amryw fath o fŵn. Mynydd Skiddaw sydd fath o Schistus, a thybir bod gwenithfaen yn llunio rhyw ranau o drum Cheviot. Mynydd Ingleborough yr uchaf yn Lloegr, eithr goris y Wyddfa, sydd o geryg calch, pwdrfaen ac ereill. Bryniau Dyfnaint a Chernyw, ydynt wenithfaen o amryw liwiau, ag ynddynt ryw fath o geryg a elwir petuni yn China, ac y sydd yn ateb yr un dyben yn ngwneuthuriad llestri pridd o'r fath oreu. Mynydd Wrekin o fewn 10 milltir i'r Amwythig sydd o chert coch neu petrosilex, tywodfaen, basalt a math o wenithfaen, a gellir galw trum Malvern o'r un defnydd ond bod rhai cloddfëydd o lechfaen ynddi. Y wanaf ëang o lô yn Colbrookdale sydd yn gorwedd ar farian caled, tra mae glô Caer Odornant yn gaenen ar geryg grŷd duon.

Afonydd.] Yr afon fwyaf yn Lloegr ydyw y Thame, yr hon sydd yn tarddu o fynydd-dir Cotswold yn swydd Caerloew, tan enw Churn. Gwedi iddi redeg heibio tref Cricklade, a derbyn ffrydiau afon Windrush, mae hi wrth ddinas enwog Rhydychen yn ymuno ag afon Isis; yna mae yr afonydd a elwir Roy, ac Ock, yn ymgysylltu a hi yn ei thaith i Abingdon, a gwedi cyrhaedd Reading, mae hi yn ei thaith i Kingston, yn derbyn afonydd Roy, Teme, Kennet, Lodden, a Koln: yna mae y Wye, ac y Nole yn ymarllwys iddi. Gwedi iddi lifo trwy Lundain, mae y Lea a Roding o'r tu gogledd, y Darent a Mawddwy o'r tu de, yn ymarllwys iddi cyn ymuno â môr Germani. Ei hyd sydd 300 milltir; ac mae llanw a thrai ynddi o 80 i 90 milltir.

Afon Hafren sydd yn codi wrth droed mynydd Pumlumon ar derfyn Gwynedd a Deheubarth, a gwedi iddi gyrhaedd y Trallwng, mae llestri yn nofio arni, yna gwedi rhedeg heibio yr Amwythig, Bridgenorth, Caerwyrangon, a Tewkesbury, mae yn ymledu ac yn cael ei galw môr Hafren. Mae hon yn fwy dolenog a chyflym nag afon Thame, a dywed rhai ei bod ychydig yn hwy.

Afon Humber sydd fath o fôr-gamlas yn derbyn ffrydiau afonydd Trent, Dun, Ouse, Air ac ereill.

Afon Mawddwy sydd yn codi ar gyfer Tunbridge yn Caint, ac yn ymuno ag afon Thame yn Sheerness: mae llongau mawrion yn ei nofio hyd at Chatham; a llestri mân at Tunbridge.

Afon Trent sydd yn codi o gors-leoedd swydd Stafford: ei rhedfa sydd trwy Newcastle-under-line a Nottingham, yna yn swydd Lincoln y mae yn ymuno ag afon Ouse ac amryw ereill cyn ymarllwys i fôr-gamlas Humber.

Afon Ouse sydd yn codi yn ngogleddbarth swydd Caerefrog, a gwedi myned heibio dinas Caerefrog, mae hi yn ymarllwys i'r Humber gwedi iddi yn gyntaf dderbyn ffrydiau afonydd Whack, Air, Caulder, a Don, y rhai ydynt yn ymuno cyn llifo iddi Mae afon arall o'r un enw yn rhedeg o swydd Buck drwy swydd Huntingdon i'r môr wrth dref Lynn yn Norfolk.

Afon Cam sydd yn codi yn swydd Hertfford, a gwedi rhedeg heibio Caergrawnt, mae hi yn ymuno ag afon Ouse yn ynys Ely, ac oddiyno i'r môr wrth Lynn.

Afon Tain sydd a'i rhedfa o orllewin i ddwyrain trwy Northumberland, ac yn ymuno â mor Almaen wrth Aber Tain yn agos i Newcastle.

Afon Teis sydd yn gwahanu Durham oddiwrth swydd Caerefrog, ac yn rhedeg i for Germani ar gyfer Stockton.

Afon Tweed sydd yn rhan o derfyn rhwng Lloegr ac Ysgotland, ac yn ymuno a'r môr wrth dref Berwic.

Afon Ieithon sydd a'i rhedfa o dde i ogledd trwy Westmorland a Cumberland, ac yn ymarllwys i ffrwd Solway y tu nesaf i dref Carlisle.

Afon Avon sydd yn rhedeg drwy swydd Wilt i Gaer Baddon, a gwedi iddi wahanu Gwlad yr haf oddiwrth Gaerloew, a myned trwy Gaer Odornant, mae yn ymuno a môr Hafren ychydig îs y ddinas honno.

Afon Derwennydd sydd a'i rhedfa o ddwyrain i orllewin trwy Cumberland, ac wrth Cockermouth yn llifo i fôr Ywerddon.

Afon Ribble sydd yn rhedeg o ddwyrain i orllewin trwy swyddLancaster, ac wrth Preston yn ymarllwys i fôr Ywerddon.

Afon Mersey sydd a'i blaenau yn nghyffiniau swyddi Caerlleon a Derby, a gwedi derbyn ffrydiau afon Roche o Manchester, mae hi yn rhedeg heibio Liverpool i fôr Ywerddon.

Afon Dyfrdwy sydd yn codi o lyn Tegyd ar gyfer y Bala, a gwedi myned heibio i Gaerlleon yn ymuno â môr Ywerddon.

Wrth ddysgrifio y prif afonydd ereill, gan gychwyn o Gaer Odornant i'r de orllewin a dilyn ymyl y môr o amgylch, y cyfarfyddir â rhai y nofia llongau arnynt at y trefydd a enwir yn ganlynol; sef afon Parret i Ilchester, afon Taun i Taunton, afon Taw i Barnstable, a chainc o honi i Biddefford; afon Camil i Wedbridge, afon Plym i Plymouth, Dart i Dartmouth, ac afon Ex i Exeter. Un arall o enw Avon y nofia llestri arni agos hyd at Gaer Sallog; Itching i Gaer Went; yr Aran i Arundel, ac yr Ouse i Lewes. Afon Stour i Gaer Gaint, ac afon Crouch i bont Hull; y Blackwater i Chelmsford, a chainc o honi i Colchester; yr Orwel i Stow, y Deben i Westbridge, yr Yare, ac y Waveney i Ffoulsham, ac y Norwich i Bungay. Yn nesaf cyfarfyddwn ag aber a elwir y Wash, yr hwn sydd yn derbyn yr Ouse, y Nen, y Welland, ac y Witham, y rhai yr â llestri arnynt rai milltiroedd i fynu: ac o'r tu gogledd i Aber Humber, cyfarfyddir ag afon Tees ar yr hon yr â llestri i Stockton.

Llynau. Ffynonydd.] Y prif lynau ydynt y Soham, Wittelsea, a Ramsey yn sir Caergaint, y rhai ydynt mewn tymhor gwlyb yn 40 neu 50 milltir o amgylchiad. Winander yn Westmoreland sy 10 milltir o hyd a 2 o led, ac ei ddyfnder mwyaf o ddeutu 70 llath: mae yn hwn ynys yn mesur 25 erw, ac amryw o rai mân. Llyn Derwennydd wrth droed mynydd Skiddaw yn Cumberland, sydd hynod oherwydd cynhwrf

ei ddyfroedd, a bod ynysoedd o ddefnydd gwraidd llysiau weithiau o faint ¼ erw o dir yn ymddangos am rai misoedd ar ei wyneb, ac yna yn ymddiflannu gwedi tyfu o laswellt arnynt. Y llynau ereill ydynt Basenthwaite, Crummock, Ulswater, Hawswater, Leweswater, Enerdale, Thirlemeer, Grassmeer, a Coneston y rhai ydynt o 2 i 7 milltir o hyd; ac o ½ milltir i 2½ milltir o led.

Dyfroedd y ffynonau ydynt amrywiol o rywogaethau. Ffynon Droetwich yn swydd Caer Wyrangon sydd hallt; ffynon Wigan yn swydd Lancaster sydd frwmstanaidd, ffynon Pitchfford yn Shrop sydd ddwfr gludiog; y ffynon sydd yn agos i Lutterworth yn Leicester sydd yn corffoli defnyddiau meddal a fwrir iddi, agos mor galed a chareg; ffynonydd y Peak yn Derby, a Laywell yn Torbay ydynt yn llenwi a threio amryw weithiau mewn awr; ffynon castell Risiart yn Henffordd sydd a'i gwae'od yn gyffredin yn llawn o esgyrn mân, te yg i esgyrn pysgod, er y glanheir hi yn fynych; ffynon Aukliff yn swydd Lancaster sydd a'i dyfroedd yn oer, ac yn llwyr ddi-arogl, er hyny mae y fath dawch brwmstanaidd yn deillio o honi ag y cynneua canwyll oleu y tawch, fal y go chuddier ei gwyneb gan fflam o dân glâs, yr hwn a barhâ am rai oriau.*

Ffynonydd twymyn Caerbaddon oeddynt mewn brî pan oedd y Rhufeiniaid yn meddiannu Prydain. Dyfroedd twymyn Caer Odornant, Tunbridge, Cheltenham, Buxton, a Scarbro' hefyd, ydynt a chryn dramwy atynt gan gleifion, a chan ereill er dywenydd. Y ffynonau hynotaf ereill ydynt yn Epsom, Dulwich, Northall, Barnet, Hampstead, Islington, Acton, Cobham, Arrowgate a rhai lleoedd ereill.

Coedydd. Llysiau.] Bernir bod mwy na dwy ran o dair o wyneb ynys Prydain o 6 i 7 cant mlynedd yn ol, yn orchuddiedig gan goed, eithr y pryd hyn, o 69 o brif fforestydd yn ol dywediad Coke nid oes ond 4 neu 5 o honynt, sef rhai Windsor, Dean, Sherwood ac y Fforest newydd. Y coed ydynt derw, onen, llwyfen, a ffawydd; hefyd collbren, aethnen, masarn, helyg, ac amryw ereill.

Y perlleni ac y gerddi ydynt yn cynnyrchu afalau, gellyg, ac amryw eirin, grawn, mefus, a mwyar o amryw ddŵf, ac ereill ffrwythau mân. Ond nid ydyw blâs y ffrwythydd hyn cystal yn Mhrydain ag mewn gwledydd mwy tymherus. Y llysiau o amryw fath a welir yn gyffredin nid rhaid eu henwi. Y meusydd hardd yn cynnyrchu gwenith, haidd, ceirch, &c. ydynt o liosogrwydd yn rhagori ar un gwlad arall.

---

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion. Llywodraeth.. Llysoedd cyfraith.. Cosbedigaethau.. Crefydd.. Iaith. Dysgeidiaeth.. Milwyr a llongau rhyfel. Gweithfäoedd Trefnidiaeth.. Mwngloddiau. Hynafiaethau.. Dinasoedd a threfydd, Anifeiliaid. Ehediaid. Ymlysgiaid.*

Y Saeson ydynt ddynion hardd eu gosgedd, teg eu pryd, ac o daldra addas yn gyffredin: o ran agwedd yn lanwaith, addfwyn a

---

* Oddiwrth wythen o lô ymgorfforedig â brwmstan mae deilliad y tawch hwn; mae gwedi lleihau i gryn raddau gwedi iddynt ddechreu cloddio y glô o hono.
GUTHRIE.

hynaws: hefyd yn neillduol o eulusengar, yr hyn sydd amlwg wrth fod eu hamrywiol sefydliadau elusen yn fwy lliosog nag yn unrhyw wlad arall. Hoff gan y Ffrencyn tafod rydd ddannod eu tawedigrwydd iddynt, am nad ydynt mor rydd yn arllwys eu meddwl ag ef a'i epil, heb ystyried y gall meddwl tawel, elusengar a thosturiol, lochesu dan wynebpryd o ymddangosiad go sarug.

Yr arferion o hela, rhedeg gyrfaöedd, ymladd ceiliogod ac y cyffelyb, sydd yn parhau gyd ag adfywiad neillduol yn eu plith. Baeddu teirw hefyd ydoedd mewn cryn fri hyd yn ddiweddar pan y bu i'r amrywiol ddamweiniau dychrynllyd sydd yn dylyn y cyfryw dd fyrwch beri terfyn agos ar y gwaith. Mae yr arwydd o wystlaw ar gampiau yn mblith y torfëydd a fyddo ar faes gyrfaöedd meirch, ac o gylch clwt y ddau geiliog diniwed, a fyddo wedi eu harfogi gan greaduriaid rhesymol, y naill i lâdd y llall, yn dra niweidiol, ac wedi peri canlyniadau echrys. Mae yr arferion o geisio rhagori mewn rhwyfo a hwylio yn cael eu cefnogi, gan eu bod yn oruchwylion llesol i'w dysgu; ond mae y bêl droed ac y cricket mewn rhai ardaloedd yn cael eu cynnal fal campau tra gorchestol.

Cynefod nodedig yn mhlith y Saeson yn gyffredin, ydyw bod eu tai yn lân o fewn ac allan, eu gwisgoedd yn hardd a threfnus, eu byrddau yn lliosog o ddanteithion, eu dodrefn yn wych a disglaer, ac eu trullgelloedd yn mhell o fod yn wâg. Tramwyant ardaloedd pellenig i ymofyn cyfoeth erbyn henaint, i gyrhaedd yr hwn ni ommeddant wynebu y peryglon mwyaf ar dir a mor. Ac er iddynt ddirmad yr enw Brython y tu hwnt i unrhyw arall, ni's gwaeth ganddynt os bydd y cwpwrdd a'r drull gell yn llawn, ac os cant fwynhau bendithion rhyddid gwlad eu genedigaeth, pa fangre y daearont ynddo.

Llywodraeth.] Y brenin trwy gytundeb arglwyddi a chyffredin y senedd sydd yn meddiannu rhwysg y llywodraeth. Ynddo ef mae yr holl gorff cyfreithiol yn ymuno i weithredu mewn pethau eglwysig, gwladol neu filwraidd. Y tair cainc y sydd raid iddynt gydsynio cyn y llunier neu y dilëir unrhyw gyfraith ydynt y canlynol.

I. Y Brenin.—Gorchwylion breninol Prydain fawr ac yr Ywerddon sy tan un pen, sef brenin neu frenines; canys pa bynag ai mab ai merch fydd y cyfiawn etifedd* ar ddisgyniad y goron iddo, gwein-

* Onid ini chwilio yn fanwl, gwelir bod y goron hyd heddyw heb wyro o deulu Edgar yn 950, oherwydd i'w chwaer Margaret brïodi Malcolm III brenin Ysgotland o'r rhai yr hanodd Iago VI brenin Ysgotland, yr hwn ar farwolaeth Elizabeth o Loegr oedd o du ei fam (wyres Harri VII) yn etifedd cyfiawn i'r goron. Yn y dadymchweliad yn 1688, trefnodd y senedd gwedi gwrthgilio o Iago II o'r deyrngadair, ac i'w ferch Mari II brïodi William tywysog Orange, os na byddai epil iddynt i'r goron fod yn etifeddol yn nheulu Charles I, mab Iago: felly epil gwrthdystiol y dywysoges Sophia o Hanover merch chwaer Charles II o'r tywysog ardalog ydyw teulu breninol Prydain. Ac i'r dyben o ddangos pethau yn eglurach, dyma gofrestr o frenhinoedd Lloegr er dyddiau Egbert, pan unwyd yr holl fân dywysogaethau i lunio un deyrnas.

| | |
|---|---|
| Egbert a ddechreuodd reoli, *Oed Crist* 800. Ethelwolf, 838. Ethelbald, 857. Ethelbert, 860. Ethelred, 866. Alfred *enwog*, 871. Edward. 901 Athelstan, 925. Edmund, 941 | Tywysogion Saxonaidd. |
| Canut brenin Denmark, 1017. Harold, 1035. Hardicanut, 1039. | Tywysogion Danaidd. |
| Edward *y cyffesor*, 1041. Harold II, 1065 | Tywysogion Saxonaidd. |

*O. C.*
1066 William I. ........ Dug Normandy yr hwn elwir goresgynwr Prydain fawr.

ŷddir iddo lw y coroniad,† ac urddir ef yn ei holl awdurdod breninol

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1087 | William II. ...... | meibion y goresgynwr. | |
| 1100 | Harri I. .......... | | |
| 1125 | Stephen, ŵyr y goresgynwr gan ei bedwerydd merch Adela. | | |
| 1145 | Harri II........... | ŵyr Harri I. gan ei bedwerydd ferch yr ymerodres Maud o'i bail brïod Geoffrey Plantagenet. | |
| 1189 | Richard I......... | meibion Harri II. | |
| 1199 | Ioan ............... | | |
| 1216 | Harri III, mab Ioan. | | |
| 1272 | Edward I, mab Harri III. | | |
| 1307 | Edward II, mab Edward I. | | |
| 1327 | Edward III, mab Edward II. | | |
| 1377 | Richard II, ŵyr Edward III gan ei fab hynaf, y tywysog Dû. | | |
| 1399 | Harri IV. ........ | mab Ioan, dug Lancaster pedwerydd mab Edward III... | Tŷ Lancaster. |
| 1413 | Harri V, mab Harri IV. .......................... | | |
| 1422 | Harri VI, mab Harri V .......................... | | |
| 1461 | Edward IV, gwedi hanu o Edward III, trwy Lionel ei drydydd mab. | | |
| 1483 | Edward V, mab Edward IV. | | |
| 1483 | Richard III, brawd Edward IV. | | |
| 1485 | Harri VII. ......... | (Tudur) mab iarlles Richmond o deulu Lancaster ........ | Hil Tudur, yn yr hwn yr unwyd teuluoedd Lancaster ag York yn mhriodas Harri VII. ag Elizabeth merch Edward IV. |
| 1509 | Harri VIII, mab Harri VII. ........................ | | |
| 1547 | Edward VI, mab Harri VIII........... .......... | | |
| 1553 | Mari ............. | merched Harri VIII. ........ | |
| 1558 | Elizabeth ........ | | |
| 1603 | Iago I............. | Oer ŵyr Iago IV brenin Ysgotland gan Margaret merch Harri VII, y cyntaf o deulu Stuart yn Lloegr. | |
| 1625 | Charles I, mab Iago I. | | |
| | Gwerin lywodraeth tan Oliver Cromwell. | | |
| 1649 | Charles II......... | meibion Charles I. | |
| 1685 | Iago II. .......... | | |
| 1688 | William III, nai a mab yn nghyfraith Iago II. a Mari | Merched Iago II, yn y rhai y terfynodd epil ragdystiol Charles I: oherwydd ar ymadawiad Iago II o'r deyrngadair, trefnodd y senedd na chafai ei fab (yr Hawlydd diweddar) reoli Prydain, ond y byddai i'r goron fyned i epil ragdystiol Iago I. Plant Iago ar ei farwolaeth oeddynt fab a merch, sef Charles yr hwn a'i dilynodd, ac y dywysoges Elizabeth yr hon a brïododd yr Etholydd ardalog, yr hwn drachefn oedd frenin Bohemia, a merch iddynt oedd y dywysoges Sophia, yr hon a brïododd dug Brunswic Lunenburg, y rhai oeddynt rïeni George Etholydd Hanover, yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn ol y drefn a wnaethai y senedd i'w fam. | |
| 1702 | Ann | | |
| 1714 | George I.......................................... | | Teulu Hanover. |
| 1727 | George II, mab George I.......................... | | |
| 1760 | George III, ŵyr George II. ....... ............... | | |

† Llŵ y coroniad a weinyddir fal y canlyn,

" *Yr archesgob neu esgob a ddywed*, A wnewch chwi addaw yn ddifrifol ar lŵ, lywodraethu pobl y deyrnas hon a'r broydd perthynol iddi, yn ol gosodedigaethau y senedd, a chyfreithiau a defodau yr unrhyw?"—*Y brenin neu frenines a ddywed*, " Yr ydwyf yn ddifrifol yn addaw gwneyd felly."

" *Archesgob neu esgob*, A barwch chwi hyd eithaf eich gallu i farn a chyfiawnder mewn trugaredd fod yn eich holl oruchwylion ". *Brenin neu frenines*, " Paraf "

" *Archesgob neu esgob*, A amddiffynwch chwi hyd eithaf eich gallu gyfreithiau Duw, gwir broffes yr efengyl, ac y grefydd ragdystiol yn ol cyfreithiau y deyrnas? Ac a ddiogelwch chwi i'r esgobion a gwŷr urddasol y wlad, ac i'r eglwysi a ymddiriedir iddynt y cyfryw hawl a breintiau a ymddengus wrth y gyfraith y sydd yn perthynu i unrhyw o honynt?" *Brenin neu frenines*, " Yr ydwyf yn addaw hyn oll."

*Gwedi hyn, Y brenin neu frenines yn dodi llaw ar y Bibl a ddywed*, " Y pethau yr ydwyf yma gwedi eu haddaw, a gyflawnaf ac a gadwaf: felly cynnorthwyed Duw fi!" *yna cusana y llyfr*.

yn ddioed. Y Rhagorfreintiau y sydd yn perthyn i'r brenin yn unig, ydynt yn gyntaf, Y gallu o alw yn nghyd y senedd, a nodi y lle a'r pryd iddi gyfarfod, yr hyn a wneir o oruwch lys y cynghelloriaeth 40 nydd o leiaf cyn yr amser iddi eistedd. 2. Y gallu o addoedi neu ddybenu y senedd. 3. Y gallu o gadarnhau neu wrthod unrhyw gynllun cyfraith a gydsynia yr arglwyddi ac y cyffredin, ond nis gall ei gyfnewid. 4. Y gallu o roddi cyfraith am ddyled ar unrhyw o aelodau y senedd y pryd y mynno; ond nis gall roddi cais ar ei gorff.

Rhagorfraint arall yn perthyn i'r brenin yn unig, fal pen yr eglwys wladol, ydyw galw yn nghyd, addoedi, lluddias, trefnu neu ddiddymu unrhyw gyfarfodydd eglwysig; hefyd o ddewis archesgobion: ac ato ef y cyrchir yn olaf trwy lys y cyngelloriaeth am adfarn yn erbyn unrhyw ddedfryd eglwysig. Y brenin hefyd sydd yn llunio y llysoedd cyfraith, ac yn penu barnwyr iddynt. Ef trwy ei ddirprwywyr cyfraith sydd yn canlyn ar gospi pob bradwriaethau neu unrhyw droseddiadau cyhoedd; a thrwy swyddogion taleithiau sydd yn cospi y drygweithredwyr. Y brenin hefyd sydd yn rhoddi gor-enwau anrhydeddus, yn enwi cenadon i lysoedd ereill, blaenoriaid byddinoedd, ac ereill achosion

II. Llys yr Arglwyddi sydd yn gynnwysedig o holl bendefigion Lloegr a Chymru oddigerth yr arglwyddi pabyddol neu o dan oed; ac 16 o bendefigion dewisedig o Ysgotland, ac 28 o'r Ywerddon: yn nghyd a holl archesgobion ac esgobion y deyrnas, oddieithr esgob Manaw.* Breintiau perthynol i arglwyddi y senedd ydynt, 1. Rhoddi pleidair trwy ddirprwywyr. 2. Rhoddi ar gof-lyfr llys yr arglwyddi yr wrthfarn a fynont yn erbyn unrhyw osodiad a lunier ynddo. 3. Gallent wrth fyned trwy unrhyw o fforestydd y brenin ar ei taith i, neu o y senedd lâdd un neu ddau garw at eu gwasanaeth. Nis gellir dal aelod o lys yr Arglwyddi, eithr meddiannu ei eiddo; ac os trosedda unrhyw o honynt y cyfreithiau, chwilir i'r peth gan y lleill nid ar lŵ fal rheithwyr ereill, ond ar eu gair.

III. Llys y Cyffredin sydd yn cynnrychioli y bobl. Ei freintiau ydynt. 1. Rhyddid ymadrodd yn eu llys; canys ni ellir holi seneddwr allan, am unrhyw beth a ddywedo yn y senedd. 2. Y braint o fod yn ddiogel rhag gafaelu ynddynt am ddyled, nid yn unig tra yr eisteddo y senedd ond tros 40 nydd gwedi pob addoedi; ac am 40 nydd o flaen y cyfarfod nesaf, ond gellir canlyn ar eu dâ. 3. Mynedfa at y brenin: canys gall unrhyw o aelodau llys y cyffredin fynnu trwydded i gêll y brenin os bydd ganddo unrhyw achos pwysig i'w adrodd. 4. Breinioli llythyrau.—Mae y ddau olaf hyn yn perthyn hefyd i'r arglwyddi.

Rhagorfreintiau y senedd, sef cyfundeb yr holl gorff cyfreithiol yn nghyd ydynt. 1. Y gallu o wneuthyr, sefydlu, mwyâu, lluddias, dirymu, ad-farnu, ail godi, ac egluro cyfreithiau o berthynas i bob peth pa bynag. 2. Y gallu o reoleiddio yr olynol-ddilyniad i'r goron, megis y gwnaed yn amser Harri VIII, William III, ac y frenines Anne. 3. Y gallu o newid crefydd sefydledig y deyrnas, megys y gwnaed ym amser Harri VIII, Edward VI, Mary I, ac Elizabeth. 4. Y gallu o newid gosodiad y seneddau, &c. Mewn gair mae pob

* Nid oedd Manaw yn perthyn i'r goron pan y trefnodd William I, i esgobaethau y deyrnas fod yn farwnau lleygol.

gallu llawn-rwysg yn gyfleusdig yn y senedd, ac nid oes unrhyw awdurdod yn gyfreithlon, oni ddeilliai o honi. Llys yr arglwyddi sy frawdlys goruchel, i'r hwn y gall yr holl lysoedd ereill gyrchu am gyfarwyddid; ac aelodau llys y cyffredin ellir eu galw yn oruchel reithwyr y wladwriaeth.

Aelodau y cyfrin gynghor ydynt o ddewisiad y brenin yn unig: dyma y llŵ a weinyddir wrth eu derbyn. "Cynghoraf y brenin hyd eithaf fy athrylith a'm gwybodaeth. Cynghoraf er anrhydedd y brenin a llesad y wladwriaeth, heb unrhyw duedd gan na serch, cariad, gobrwy, amheuaeth, nag arswyd Cadwaf gyfrinach y brenin yn fanwl. Gochelaf dwyll. Cynnorthwyaf wneuthuriad yr hyn a benderfynir arno yn y cynghor, a gwrthwynebaf y neb a geisio i'r gwrthwyneb, ac edrychaf am wneythur yr hyn sydd uniawn a da fal cynghorwr ffyddlon i'w arglwydd." Yn mhob cyfarfod o'r cyfrin gynghor, y cynghorwr isaf, sydd yn adrodd ei feddwl gyntaf, yna y nesaf mewn grâdd hyd at y brenin (neu ei ddirprwywr) yr hwn wrth adrodd ei farn a derfyna yr hyn a fyddo ar holiad

Llysoedd Cyfraith ] Llys y Cynghelloriaeth y nesaf mewn bri i uchel lys y senedd, a luniwyd i ddiogelu y deiliaid rhag twyll, tori ammod, neu unrhyw ormes arall; ac i lareiddio rhwysg uniongyrch y gyfraith. Prif ganghellwr y deyrnas ydyw yr unig farnwr sydd ar orsedd hwn, ac yn ei absenoldeb y swyddog a elwir ceidwad y Cofiadon.

Llys y frenin-fainc sy megys argae ar farnwyr y llysoedd isod. Mae pedwar o farnwyr yn dosbarthu cyfraith yn hwn: y blaenaf o honynt a elwir yn brif yngnad Lloegr. Gall y llys hwn ganiadu gwaharddiad mewn unrhyw ddadl a fyddo yn ymddibynu mewn unrhyw lys gwladol neu eglwysig arall.

Llys dadlau gwlad sy frawdle yn chwilio ansawdd unrhyw anghydundeb a fyddo rhwng y naill ddeiliad ag y llall; ac yn hwn mae diryw a dyfarniad cyfraith yn cael eu trin Gelwir y barnwr penaf yn brif arglwydd yngnad dadlau gwlad

Llys y Syllty a sefydlwyd i drin cyllid y goron: ond mae ganddo awdurdod i farnu yn ol y gyfraith, ac yn ol cyfiawnder. Gelwir yr yngnad penaf yn arglwydd prif farwn y Syllty. Yn y llys hwn y chwilir i ansawdd pob-peth a berthyno i drysor y brenin, tolliau o bob mâth, dirwy ac ereill bethau. Ac o hono mae yn deillio erlynadau cyfraith i swyddogion gwladol.

Mae y barnwyr yn cyflawni eu cylch-deithiau yn y gwanwyn, ac y cynhauaf; ond yn y cyfamser mae yngnaid pob ardal yn ymgyfarfod mewn gorsedd bedair gwaith yn y flwyddyn, i drin achosion gwladol o lai pwys nag a drinir yn y cylch deithiau. Yn y cyfarfod hwn y bydd trefnu prif reithwyr yr ardal, chwilio ansawdd drygau, a charcharu yr euog hyd ddyfodiad y barnwyr yn y gylchdaith nesaf Gorchwylion y peniaeth yr ardal ydynt, cyflawni gorchymynion y brenin, enwi prif reithwyr, cyrchu drygweithredwyr i'w chwilio, ac i weled eu dedfryd yn cael ei chyflawni; casglu dirywiau ac eu danfon i'r Syllty, ac yn nghyd â chynnorthwy yngnaid yr heddwch i gadw trefn a thangnefedd yn y swydd.

Cosbedigaethau.] Bradwyr a geffir yn euog o gynllunio trwy godi arfau yn erbyn y goron, neu o dwyll fathu arian y deyrnas, a ddihenyddir ac a dorir yn bedwar aelod, gwedi yn gyntaf roddi crogfa

am ychydig funudau arnynt: dirwyir hefyd holl ddâ y bradwr; cyll ei wraig ei chynnysgaeth, ac ei blant ei etifeddiaeth. Llofruddion a grogir yn mhen 24 awr gwedi eu dyfarnu yn euog. Lladron a gosbir trwy naill a'i crogi, dëoliad i wledydd tramor, neu garchar cartrefol. Lladd yn amryfus a gosbir trwy losgi ar law y troseddwr. Derbyn eiddo a wyddir o fod yn lladrad a gosbir trwy gadw y troseddwr wrth orchwyl caled tros ddwy flynedd, ac yna llosgi ei law. Tyngu anudon a gosbir trwy roddi y troseddwr mewn cyffion cyhoedd, ac yna ei garcharu, &c.

Crefydd.] Dywed Eusebius ac amryw hen ysgrifenwyr bod Cristionogaeth yn Mhrydain er dyddiau yr apostolion, a bod rhai o honynt gwedi cael nawdd Rhufain i ddyfod i lafurio ynddi. Ond gan i derfyn fod ar rwysg Rhufain yn fuan gwedi hyn, ac i holl Ewrop fod yn sangfa tros flynyddoedd lawer i ymladdfeydd dychrynllyd; ac i Gristionogaeth ddirywio i babyddiaeth, nid oes hanes cywir genym am gynnydd crefydd yn Mhrydain hyd ddyddiau Wickliffe yn amser Edward III, yr hwn oedd y cyntaf yn Ewrop a gododd arfau yn erbyn caerau Babel, ond a ddilynwyd gyd â mwy o rym yn mhen ychydig oesoedd gan Luther, Huss, Jerome, a diwygwyr rhagdystiol enwog ereill.—Mae yr eglwys wladol* yn cael ei llywodraethu gan y brenin megys pen, yn nghyd a dau archesgob a 24 o esgobion, y rhai ydynt o ddewisiad y brenin yn unig. Y ddau archesgob ydynt y pendefigion mwyaf yn y deyrnas, ac yn nesaf i'r teulu breninol. Y nesaf o ran brî gan ei fod yn arlywio y brif ddinas, ydyw esgob Llundain. Esgobaeth Durham sydd darran ardalawg a breintiau eang yn perthyn iddi; ond esgobaeth Caer Went y drydedd mewn brî ydyw y gyfoethocaf o'r holl rai ereill. Yr esgob yn unig sydd yn cysegru pob offeiriad îs, cyflwyno eglwysydd, ac angladd-leoedd, gwneyd sylw o fedyddiadau, priodasai, claddedigaethau, llythyrau cymmun, ac ereill bethau a fyddo o fewn ei esgobaeth. Yna y gwyr urddasol ereill a fyddo yn gweinyddu yn y brif eglwys, ydynt swyddogion y llys esgobawl, yr hwn sydd yn trefnu îs swyddogion yr eglwysi, ac yn cosbi trwy ddiryw neu garchar, athrodwyr, enllibwyr, anudonwyr, puteindra, godineb, a drygfoesau ereill.

Dyma ydyw enwau yr ardaloedd sydd yn llunio y 24 esgobaeth y sydd yn perthyn i archesgobaeth Caergaint a Chaerefrog.

TALAETH CAERGAINT.

1. Esgobaeth Llundain, sef Essex, Middlesex, a rhan o swydd Hert
2. Caer Went.—Surry, swydd Hamp, ynys Wyth, Jersey, Guernsey ac Alderney.
3. Litchfield a Coventry.—Stafford, Derby, a rhan o Warwick a swydd Shrop.

---

* *Eglwys Loegr* sydd a'i herthyclau yn gydunol ag egwyddorion Wickliffe, ac ereill o'r rhagdystion enwocaf. Nid ydyw yn addef onid dau sacrament, sef bedydd a swper yr Arglwydd, yn ol y gorchymyn yn Matt. 28. 19. Act 8 36, a Luc. 22, 19 Y bedydd a weinyddir ganddi i fabanod mor rwydd ag i rai a fyddo gwedi dyfod i gredu, ond nid oes rhyddid i nesau at fwrdd y cymun heb dderbyn yn gyntaf yr arddodiad dwylaw a elwir yn fedydd esgob. Ei hegwyddorion sylfaenol ydynt edifeirwch, ffydd, a sancteiddrwydd buchedd, yr hyn sydd amlwg yn ei fforf gweddiau, catecism a'i homiliau.—*Gwel Bellamy's History of all Religions.*

4. Lincoln.—Lincoln, Leicester, Huntingdon, Bedford, Buckingham a rhan o Hertford.
5. Ely.—swydd Caergaint.
6. Caer Sallog.—swydd Wilt a swydd Berk.
7. Exeter.—Cernyw a Dyfnaint.
8. Bath a Wells.—Gwlad yr hâf.
9. Chichester.—Sussex.
10. Norwich.—Norfolk, Suffolk, a rhan fechan o Caergaint.
11. Caerwyrangon.—Caerwyrangon, a rhan o Warwick.
12. Henffordd.—Henffordd, a rhan o swydd Shrop.
13. Rochester.—rhan o Caint.
14. Rhydychen.—swydd Rhydychen.
15. Peterborough.—Northampton a Rutland.
16. Caerloew.—Rhan o swydd Caerloew.
17. Caer Odornant.—Caer Odornant a rhan arall o swydd Caerloew, a swydd Dorset.
18. Llandaf.—Morganwg, Mynwa, Brecheiniog, a Maesyfed.
19. Ty Ddewi.—Penfro, Aberteifi, Caerfyrddin.
20. Llan Elwy.—rhan fwyaf o Fflint, Dinbych a Trefaldwyn a rhan swydd Shrop
21. Bangor.—swyddi Môn, Arvon, Meirion a rhan o Dinbych a Threfaldwyn.

TALAETH CAER EFROG.

22. Durham.—Durham a Northumberland.
23. Carlisle.—rhan o Cumberland a Westmoreland.
24. Caer.—swyddi Caer, Lancaster a rhanau o Gaerefrog, a rhan o Cumberland a Westmoreland.
25. Manaw.

Gan fod bendithion rhyddid i'r holl enwau rhagdystiol yn Mhrydain er pan ddëolwyd rhwysg pabyddiaeth o honi, mae yr amrywiol enwau a elwir ymneillduwyr, bedyddwyr, methodistiaid, crynwyr, Swedenborgiaid, ac ereill yn dra lliosog ynddi; ac yn cael mwynhau eu hamrywiol ddefodau eglwysig, ac eu cyfarfodydd blynyddol, misol, wythnosol, &c. trwy amddiffyniad cyfreithiau y deyrnas, ond nid ydynt mwy na'r pabyddiaid i fwynhau unrhyw o uchel swyddi y llywodraeth, hyd oni addefont grêd i'r namyn un deugain erthyclau crefydd yr eglwys wladol.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Mae yr iaith Saesoneg gwedi ei llunio o amryw ieithoedd, ond y Saxoneg, y Gymraeg, y Lladin, ac y Ffrangcaeg ydynt y prif seiliau: cyfaddefir hi yn fwy cynnwysfawr nag unrhyw o ieithoedd y cyfandir.

Mae Dysgeidiaeth ar gynnydd yn Mhrydain er dyddiau y brenin Alffred, yr hwn oedd enwog yn taenu gwybodaeth yn mysg ei ddeiliaid, a bu lliaws o enwogion ereill o hyny hyd heddyw, yn harddu celfyddydau, y sawl ydynt barchus gan bawb sydd yn caru gwybodaeth.

Y pader yn yr iaith Saesoneg sy fal hyn. *Our Father, which art in heaven, hallowed be thy name; thy kingdom come; thy will be done on earth as it is in heaven; give us this day our daily bread, and forgive us our debts as we forgive our debtors; and lead us not into temptation, but deliver us from evil. Amen.*

Milwyr a llongau rhyfel.] 267,243 oeddynt rifedi milwyr Prydain yn 1804; 20,324 o honynt yn wŷr meirch, a 14,202 yn

filwyr y drylliau tân. Ond gellir ychwanegu 400,000 o filwyr gwirfoddol weithian, y rhai yn ddewrwych a ymunasant â byddinoedd y wlad er ei hamddiffyn rhag estron genedl.

Y llongau rhyfel, prif gadernid y deyrnas, ydynt yn ychwanegu o oes i oes, hyd onid ydynt weithian yn ddigon cedyrn i wynebu holl longau Ewrop ar unwaith. Eu rhif yn nechreu 1814 oeddynt 200 o rai mawrion, a 600 o rai yn cludo 50 gwn hyd yn fan lestri rhyfel.

Gweithfaoedd a threfnidiaeth.] Mae Lloegr yn rhagori ar unrhyw wlad arall yn amrywiaeth ac ardderchogrwydd ei gweithfäoedd brethynau. Gwlân a gyfrifir yn brif drefnidiaeth y deyrnas: ar sach yn llawn o hono, yn ol hen ddefod, yr eistedd y canghellwr rhag yr orsedd, yn llys yr arglwyddi. Y gweithfäoedd cotwm a sidan ydynt liosog. Yma hefyd y dechreuwyd gweu hosanau mewn gwëydd, yr hon orchwyl sy weithian yn ehelaeth. Papur a wneir yn mhob cwr o'r wlad, ac ychydig drefydd sy heb weithdai hetiau ynddynt. Llestri pridd sy hefyd yn cadw rhai miloedd ar waith. Cyfftwaith mewn prês, haiarn, &c. y sydd yn mhob ardal, ond yn fwyaf yn ninasoedd Sheffield, a Birmingham. Mae amryw o weithfaoedd ereill na oddef cylch y gwaith hwn eu henwi. Y pethau hyn gyd â chynnyrch y mwngloddiau, ceffylau, ŷd, caws, ymenyn, cîg môch, pysgod, bara caled, &c. ydynt ddefnyddiau cyfnewid Prydain. Yn nyddiau Elizabeth y dechreuodd trefnidiaeth lwyddo, yna yn ganlynol lluniwyd cymdeithasau yr India ddwyreiniol, môr y dê, môr Hudson, Twrci, Russia, ac Affrica. Mae y tri lle a enwyd yn olaf yn agored weithian i'r neb a fynir, ond mae yn rhaid i'r trefnidiwr fod yn aelod o'r gymdeithas, a chynnorthwyo y draul o gadw gwarcheidwaid amddiffynfeydd, &c. Wrth hyn mae drws agored gan drefnidwyr Prydain i bob parth o'r byd. O'r India orllewinol y cludir sygr, rum, cotwm, coffee, cocoa, ginger, pupur, lliwiau, marchineal, mahogany, cyffuriau meddygol, &c. O'r India ddwyreiniol, ac o China y cludir tea, rice, coed, cywarch, llîn, pŷg, &c.

Mwngloddiau.] Efydd, haiarn a phlwm, ydynt i'w cael mewn amryw ardaloedd yn Lloegr; ac yn Cumberland yn unig mae clawdd o blwm dû yr hwn ni agorir onid unwaith bob 7 mlynedd, rhag i'r cyflawnder o hono leihau ei werth. Cloddfëydd alcam Cernyw a Dyfnaint; ydynt y rhai gwerthfawrocaf, ac er iddynt fod yn agored er ys rhai cantoedd o flynyddau cyn crêd, nid oes arwydd terfyn iddynt. Ni wyddid gwerth y mundic, yr hwn sydd yn gymmysgedig a'r alcam, hyd y ganrif ddiweddaf, er iddo weithian ddwyn elw i'r goron o ddeutu 150,000l. yn flynyddol. Cloddfëydd aur ydynt anadnabyddus yn Mhrydain, ond mae arian mewn amryw leoedd yn cael ei gloddio, yn enwedig yn Dyfnaint. Gwaherddir danfon o'r deyrnas bridd y pandy, yr hwn a gloddir mewn amryw ardaloedd, gan ei fod mor wasanaethgar i'r gweithfaoedd brethynau. Marmor, llechfaen, gryd, halen, alum, a glô ydynt yn ehelaeth: danfonir o gloddfeydd Northumberland tros 1,000,000 o dunelli o lô i Lundain yn flynyddol, heblaw miloedd o dunelli i ardaloedd ereill. Cloddir o swydd Gaer o ddeutu 70,000 o dunelli o geryg halen yn flynyddol.

Hynafiaethau.] Yr Hynafiaethau mwyaf oesol yn Lloegr ydynt y cylchoedd meini neu allorau o osodiad ein hynafiaid i weinyddu addoliad y derwyddon, cyn dysgleirio o ganwyll oleu crêd ar ein gwlâd. Y rhai hynotaf ydynt Abury neu orsedd bryn Gwyddon, a Stonehenge neu waith Emrys yn swydd Wilt. Mae yn mhob un o'r rhain ddau

gylch: y mwyaf o honynt yn cynnwys agos i 700 o geryg, a rhai o honynt yn 100 tunell o bwysi, a gwedi eu gosod ar eu pen i'r llawr, ac arnynt geryg mawrion gwedi eu morteisio i dderbyn y tenwn sydd ar ben pob colofn Cylchoedd Abury oeddynt yn cynnwys y ceryg mwyaf cyn eu tori at adeiladu, ond Stonehenge y pryd hyn sydd fwyaf cyfan. Dywed Gwilym Owain bod y cylchau hyn yn ateb dau ddyben, sef yn brif-leoedd addoliad y derwyddon, yr hyn oeddynt yn cael eu cynnal yno ar y dydd hwyaf ac ar y dydd byraf: y cyfarfod cyntaf i ofyn nawdd ar yr hâd oedd newydd ei osod dan y gŵys; ac yr olaf i ddiolch am y cynnyrch. Y dyben arall oedd i'r cyfryw fod yn brif dremynfa y deyrnas: y tri phorth i'r dwyrain yn dangos codiad haul yn nechreu albanau Hevin, Elved, Arthan, ac Eilir, sef y dydd hwyaf, y dydd byraf, ac y dyddiau y bydd yr haul ar y cyhydedd; ac y tri phorth gorllewin yn dangos machludiad haul yr un dyddiau.

Hynafiaethau Rhufeinaidd yn Mhrydain ydynt alloriau, bathodau, ysgrifiadau coffäol, a ffyrdd milwraidd. Gweddillion gwersylloedd ydynt hefyd agos yn mhob ardal, ond yr adail mwyaf enwog o wneuthyriad y Rhufeiniaid yn Mhrydain, ydyw gwâl Severus, yr hon o Teignmouth trwy Northumberland a Cumberland, i ffrwd Solway sy 80 milltir o hyd. Adeiladwyd hi er rhwystro ymgyrch yr Ysgotiaid ac y Pictiaid ar ardaloedd Lloegr oedd dan rwysg Rhufain.

Hynafiaethau Saxonaidd ydynt hen eglwysydd, cestyll, gwersylloedd, &c. Yr hynotaf ydyw darluniad anghelfydd o farch, yn erw o faintioli ar lethr brynglas yn swydd Berk. Mae amryw o fathodau a arferynt, a hen ysgrifenadau gwrthyn o'r eiddynt i'w canfod yn y *British Museum* yn Llundain.

DINASOEDD A THREFYDD.] LLUNDAIN prif ddinas y deyrnas, sydd yn sefyll mewn gwastadedd ëang, ac afon Thame neu Tâf yn rhedeg trwyddi agos i gan milltir oddiwrth y mor. Cyfrifir Southwark, yr hon sydd yn cyrhaedd i fin yr afon o'r tu de, yn gystal â Westminster ar y cyffiniau gorllewinol yn rhan o honi. Mae yr afon o'r naill gwr i'r llall i'r ddinas yn 440 llâth o lêd, ac y tu isaf i'r tair pont ardderchog y sydd arni, yn llawn o longau yn cludo cyfoeth y byd i'r ddinas. Y prif adeilad ynddi ydyw eglwys St. Paul, yr hon mewn maint ac ardderchogrwydd sydd yn rhagori ar unrhyw eglwys ragdystiol yn y byd: gorphenwyd ei hadeiladu yn nyddiau Anne. Y nesaf ydyw yr eglwys a elwir Monachlog Westminster, yr hon a seiliwyd gan Edward y cyffeswr cyn y goresgyniad. Chwanegodd Harri VII gapel ati, yn yr hwn a gleddir teulu breninol Prydain ac amryw ddynion enwog ereill. Yn gyfagos i hon mae y senedd-dy, yn nglyn a'r hwn mae Westminster hall, neuadd yn 230 troedfedd o hyd a 70 o led, ac heb golofnau i gynnal ei thô. Y llysoedd breninol yn mharthau gorllewinol y ddinas ydynt yn dangos mwy o ardderchogrwydd yn dufewnol nag yn allanol, ond mae tai y mawrion y sydd yn lliosog ynddi yn arddangos y gwychder mwyaf.

Rhif trigolion Llundain oedd o gylch 1,000,000 pan rifwyd hwynt yn 1801, ond y rhif yn 1811 oedd tros 1,100,000 Hyd y ddinas ydyw 7 milltir a'i lled sydd yn amrywio o un i dair.

Caerefrog, yn sefyll ar afon Ouse, ydyw y nesaf mewn urddas i'r brif ddinas, ond nid mewn maint na chyfoeth. Gelwid hi *Eboracum* gan y Rhufeiniaid, ac mae hi yn hynod am mai ynddi y terfynodd yr

ymerawdr Severus o Rufain ei einioes. Mae adeiladau ardderchog ynddi, yn enwedig y brif eglwys. Y trigolion ydynt 16,145.

Liverpool, ar lan afon Mersey, sydd le o gynnydd rhyfeddol er 1699, pan y caniatäwyd i'r ychydig dai oedd yn llunio pentref bychan ynddi gael y fraint o fod yn blwyf. Yn 1710 y gwnaed y gwaith gyntaf tu ag at i'r lle fod yn borthladd, pan y daeth trefnidwyr o'r Ywerddon i ymsefydlu yno. Felly cynnyddodd y trigolion fal yr oeddynt yn 25,787 yn y flwyddyn 1769, ond yn 1802 yr oeddynt gwedi ychwanegu i 77,653. Trefnidiaeth ei llongau ag Affrica, America, &c. a ddaeth a'r dref bardd hon i'r cyfryw sylw.

Caer Odornant, enwog am ardderchogrwydd ei hadeiladau er ys oesoedd lawer, ac yn nghynnydd ei threfnidiaeth ag ynysoedd India orllewinol, ac ag America yn ddiweddar, sydd yn sefyll ar gydlif afonydd Ffrome ac Avon. Oddiyno medd Barrett y danfonwyd trefedigion i breswylio Dublin pan unwyd y Werddon at Loegr gan Harri II. Yr oedd rhinwedd y dyfroedd meddyginiaethol sydd ynddi yn anadnabyddus hyd 1670, pan y bu i bobydd oedd yn cael ei flino gan y dyfrlif freuddwyddio iddo yfed y dwfr a gwellhau, yr hyn gwedi yfed o hono a gyflawnwyd. Y trigolion yn 1801 oeddynt 63,645.

Caer Baddon, hynod am rinwedd ei dyfroedd i'r rhai fyddo yn cael eu blino gan y gymalwst, y geri, ac y parlys, sydd yn sefyll mewn nant têg yn ngwlad yr haf. Y tai ydynt o feini gwynion, ac y trigolion yn 1801 oeddynt 32,600.

Ond y nesaf i Gaer Odornant mewn maintioli a chyfoeth, ydynt Manchester, Birmingham a Sheffield.

Manchester, yn swydd Lancaster, er iddi fod yn adnabyddus wrth yr enw *Mancunium* yn amser y Rhufeiniaid, oedd le dystadl hyd deyrnasiad Elizabeth, pan y dechreuwyd adeiladu ei gweithfäoedd brethynau, cotwm, &c. Yn 1708 nid oedd y trigolion onid 8000. Yn 1757 yr oeddynt agos yn 20,000; ond yn bresenol maent yn 84,000. Mae y dref yn sefyll ar gydlifiad afonydd Irwell ac Irk.

Birmingham, yn swydd Warwic, oedd bentref bychan yn nyddiau Harri VIII, pan y cartefodd gofaint ynddi, y rhai yn llunio cleddyfau, cyllyll a pheiriannau ereill, a ddaethant a'r lle mewn ychydig oesoedd i gryn sylw. Ac ar i wr o enw Taylor arwain iddi y gelfyddyd o arliwio, barneisio, &c. cynnyddodd y lle, fal y mae y trigolion weithian yn 73,670. Mae y dref hon yn sefyll ar lethr yn agos i afon Rea, yr hon sydd gainc o'r Thame.

Sheffield, yn sefyll mewn nant anwastad yn swydd Caer Efrog sydd o ran ei threfnidiaeth mewn nwyfau haiarn a dûr yn gyffelyb i Birmingham. Mae afon Don yn fordwyol er 1751, hyd o fewn dwy filltir iddi, yr hyn sydd gwedi lleihau y draul o gludo ei dâ i'r brif ddinas. Y trigolion ydynt 31,314.

Y prif drefydd ereill ydynt y rhai a ganlyn, gan ddechreu yn ne orllewin barthau y deyrnas, a myned rhagom i'r parthau gogleddol

Falmouth, yn Nghernyw, y borthladd fwyaf gorllewinol yn Lloegr, ac yn cynnwys o ddeutu 4000 o drigolion sydd hynod am mai trwyddi y cyfrinecbir weithian ag ynysoedd yr India orllewinol.

Exeter, yn Nyfnaint, dinas esgobaethol o gryn frî er ys oesoedd, sydd hynod am ëangder ei threfnidiaeth mewn gwlân, brethynau, &c. Y trigolion ydynt 17,398.

Dorchester, ar afon Ffrome yn swydd Dorset, sydd dref fechan hardd, hynod am fod sail y gaer a adeiladodd y Rhufeiniaid o'i hamgylch yn weledig hyd heddyw. Canmolir pereidd-dra y cwrw a ddarllawir ynddi y tu hwnt i unrhyw arall. Trigolion 2402.

Salisbury, neu gaer Sallog yn swydd Wilt sy ddinas esgobaethol dra hardd. Mae clochdy ei phrif eglwys (yr uchaf yn Lloegr) yn 400 troedfedd o uchder. Mae ynddi weithfäoedd gwlanenau a nwyfau haiarn. Trigolion 7,688. Wilton yn yr un swydd sydd hynod am y llawrlenni gwych a wneir ynddi.

Caer Went, yn swydd Hamp, ar afon fechan Itchyn oedd er y soesoedd cyn y 13 ganrif yn cael ei chyfrif yn brif ddinas y deyrnas. Yr eglwys sydd adeilad tramawr gwych, ond heb glochdy arni, gan na arferid hyny pan adeiladwyd hi. Mae llwch amryw o dywysogion y Saxoniaid mewn cêll ynddi. Trigolion 5,826. Portsmouth yn yr un swydd, sydd hynod am fod yn ystôrdy llyngesau Prydain Ei phorthladd ëang, sydd yn gûl ei agored, ond yn 5 neu 6 milltir o hyd, ac o 2 i 4 o led. Yn agos iddi mae Spithead, prif gyrchfa llongau rhyfel Lloegr. Trigolion Portsmouth ydynt 32,166.

Lewes, prif ddinas swydd Sussex, sydd yn sefyll ar dir uchel. Ychydig gorîs iddi ar fin afon Ouse mae merddynau hen lëiandy. Y trigolion ydynt 3,310.

Chichester, sydd le o ychydig drefnidiaeth. Brighthelmstone ar fin y môr sydd hynod am gynniweirfa y mawrion iddi. Mae traeth tywodlyd yn cyrhaedd am filltiroedd o'i deutu gorîs y glenydd clogwynog serth Y trigolion ydynt 7,340.

Caergaint, dinas archesgobaethol, sydd fwyaf hynod am ei hynafiaethau eglwysig. Trigolion 9000. Prif ddinas y swydd ydyw Maidstone, hynod am ei hoppys, edafedd, &c. Y trefydd ereill yn Caint ydynt Deptford, Greenwich, hynod am brif dremynfa y deyrnas ynddi, Woolwich, Gravesend, Chatham, Rochester; a chynniweir-leoedd gwychder, sef, Margate, Ramsgate, a Tunbridge; Dover a Deal ydynt longhyrth hynod.

Gwedi sylwi ar y prif drefydd y sydd o'r tu de i afonydd Hafren a Thame, dechreuir sylwi ar y lleill o barthau gorllewinol y deyrnas.

Henffordd ar oror Cymru, oedd ddinas esgobaethol yn amser y Saxoniaid: ei phrif eglwys sydd ëang a hardd, a dywedir i'w chastell gael ei adeiladu gan Edward y cyffeswr. Y trigolion ydynt 6,828.

Caerloew, prif ddinas swydd o'r un enw, ar gainc o Hafren, sydd hynod am wychder ei phrif heolydd. Trigolion 7,579. Caer Wyrangon sy hefyd ar afon Hafren, ac yn enwog ei gweithfaöedd menig cymmysg-wëoedd a llestri pridd. Y trigolion ydynt 11,353.

Coventry, y dref fwyaf canol-wlad yn Lloegr, sydd hynod am ei gweithfaöedd ribanau, niwl-we, sidan, &c. Trigolion 16,034.

Norwich, prif ddinas swydd Norfolk, sydd a'i heolydd yn gulion, ond yn lle cyfoethog gan liosogrwydd ei gweithfaöedd sidan, brethynau, hosanau, &c. Distrywiwyd hi gan y Daniaid yn 1004. Y trigolion ydynt 36,850.

Yarmouth, sydd a phorthladd hardd yn perthyn iddi: macrell yn yr hâf, a phenwaig yn y gauaf, ydynt ei phrif drefnidiaeth. Y trigolion ydynt 14,845.

Lincoln, yr hon fu gynt yn fwy ardderchog, sy ddinas hardd: ei phrif eglwys sydd odidog, ac mae rhai gweithfaöedd brethynau ynddi. Y trigolion ydynt 7,398.

Amwythig, tref gadarn gynt, gan furiau yn ei chylchynu, sydd yn sefyll ar fin afon Hafren: gelwid hi gan y Cymry gynt *Pengwern*. Mae rhai adeiladau hardd ynddi; ac yr oedd ei threfnidiaeth â'r Cyfandir mewn gweöedd, &c. cyn y rhyfel bresenol, yn dwyn cryn elw iddi Ei thrigolion ydynt 13,486.

Caerlleon, a adeiladwyd gyntaf gan y Rhufeiniaid, sydd a'i phrif heolydd yn îs na lloriau y tai; a llwybr troed tan dô gyd ag ochr yr adeiladau Mae dwy ffair yn flynyddol ynddi i werthu lliain gwyddelig, brethynau, &c. i ddiwallu trefnid-dai Gwynedd â däoedd cyffredin y deyrnas. Ei phrif eglwys a'i chastell sydd yn arddangos cywreinrwydd y gwneuthurwyr. Y trigolion ydynt 15,052.

Lancaster, ar afon Lun, adnabyddus yn amser y Rhufeiniaid wrth yr enw *Moricambe* sy dref liosog ei thrigolion, a phorthladd ëang yn perthyn iddi: Rhoddes hon fal Caer Efrog y gorenw dug i dywysogion Lloegr gynt, a hysbys ydyw y gwrthryfeloedd fu rhyngddynt am y goron. Y trigolion ydynt 9,030.

Hull sydd hynod am ei threfnidiaeth mewn ŷd, pysgod, gwlân, a glô. Seiliwyd hi gan Edward I. Trigolion 29,516. Leeds, Bradffield, Halifax, a Wakefield, ydynt hynod am liosogrwydd eu gweithfaöedd brethynau, ac felly yn drefydd tra poblog.

Durham, dinas hardd ac enwog er ys oesoedd, sydd a'i sefyllfa ar lethr bryndir coediog ar lenydd afon Were: ei phrif eglwys ar le uchel sy hardd yn dufewnol ac yn allanol: adeiladwyd hi yn 1004. Mae ei chastell gwych weithian gan henaint yn adfaelio. Y prif weithfäoedd ydynt brethynau, a llawr-lenni. Trigolion 7,530.

Stockton ar afon Tees, a Sunderland ar aber afon Wye, a Shields ar afon Tyne, ydynt borthladdoedd o gryn drefnidiaeth a phoblogrwydd.

Newcastle ar afon Tyne, sydd yn sefyll yn nghanol mwngloddiau ëang glô swyddi Durham a Northumberland, y rhai am gantoedd o flynyddoedd ydynt gwedi diwallu Llundain, a rhan fwyaf o barthau dwyreiniol a deheuol Lloegr â glo. Mae Gateshead ar du de afon Tyne megis maes-dref iddi, a phont wych yn ei chydio â'r dref. Y trigolion ydynt 28,366.

Carlisle yn swydd Cumberland sydd yn sefyll ar afonydd Pettril, Caldew, ac Eden. Yr oedd hon yn gadarn gynt, ac ynddi yn gyffredin y llunid ammodau hêdd yn y rhyfeloedd gynt rhwng Lloegr ac Ysgotland. Mae ynddi rai gweithfäoedd lliain, cotwm, bachau pysgota, &c. Y trigolion ydynt 10,221

Anifeiliaid. Ehediaid. Ymlysgiaid] Ychain Prydain ydynt fawrion a breision ac yn rhan fawr o gynnaliaeth ei thrigolion. Y march sy hynod am ei fywiogrwydd, nerth, cyflymder, ac ei hywaithder: mae yn ei rym anorchfygol ar faes rhyfel, ac yn ei harddwch yn ngherbydau y mawrion yn rhagori ar holl rai y byd. Yr asyn ac y mûl distadl hyd yn ddiweddar, sydd yn dechreu cael eu harfer i fod yn wasanaethgar. Y ddafad o ddwy rywogaeth, un hynod am gnû, ac y llall am luniaeth, sydd dra liosog Dywedir bod o ddeutu 12,000,000 o ddefaid yn cael eu cneifio bob blwyddyn yn Mhrydain, a bod yr elw am y gwlân yn 1,500,000*l*.

Cŵn Prydain sy hynod am eu ffyrnigrwydd, cyflymder, &c. Ond mae dewrder y creaduriaid hyn, yn gystal ag y ceiliog ymladdgar, yn lleihau pan y trosglwyddir hwynt i wledydd tramor. Y creaduriaid

ereill, sef yr âfr, y carw, yr ysgyfarnog, y mochyn, y gwningen, y llwynog, y wiwair, y ffured, y fronwen, y dyfrgi, y draenog, y gâth, y ffwlpard, y llygoden, y wâdd, &c, ydynt ddigon adnabyddus na raid sylwi arnynt.

Adar dôf Prydain ydynt yr alarch, yr ieir torchi, y paun, yr iâr, yr ŵydd, yr hwyaden, y golomen, ac ereill. Y gwylltion ydynt yr eryrod, elyrch, gwyddau, hwyaid, dyfr-ieir, cornchwigl, ceiliogod coed, petris, cyffylogod, grug-ieir, sofl-ieir, ysnid, yr ysguthan, amryw rywogaethau o'r cudyll, y frân, ac yr aderyn du; ëos, hedydd, ac amrywiol adar mân; heblaw cryrod, gwylanod, ac amrywiol ereill o adar dwfr.

Nid mynych mae gwlad yn fwy lliosog ei physgod na Phrydain: ei hafonydd a llynau ydynt yn heigio gleisiaid, brithylliaid, llysowod, penhwyaid, brwyniaid, gwrachod, gwyniaid, torgochiaid, lledau, ac amrywiol ereill. Y môr-bysg ydynt y cod, y facrell, yr haddoc, gwyniad, y penwag, y forgath, ac y morgi, y lledan, &c. Hefyd ceimychiaid, crancod, shrimpiau, a lliosogrwydd o bysgod cregyn. Mae y molrhon yn adnabyddus ar lenydd gogleddol yr ynys, a bydd weithiau forfilod yn eu tymhor yn ymddangos.

O berthynas i ymlusgiaid, mae yn Mhrydain, fal yn ngwledydd ereill Ewrop, amrywiol rywogaethau o nadrodd, a llyffaint; y ceneu coeg, y falwen ac ereill: hefyd gwenyn, cacynau, gwybed, myrion, ac ereill.

Ynysoedd.] Ynys Wyth, yn nghwr deheuol Lloegr, sydd 21 milltir o hyd a 12 o led, ac yn wahanedig oddiwrth y lan gan gulfor o 2 i 7 milltir o led. Rhan ydyw o swydd Suffolk, felly mae hi yn perthyn i esgobaeth Caer went. Yma mae castell Carisbrook, lle bu Charles I yn garcharor, yr hwn a adeiladwyd yn ol llyfr y ddedfryd yn fuan gwedi dyfodiad William I i Brydain. Mae hi gwedi ei rhanu yn 30 o blwyfydd, ac yn ol y cyfrif a wnaed yn 1777, yr oedd ei thrigolion yn 18,024, heb rifo y milwyr oedd yn cartefu yno. Y prif borthladd ynddi ydyw Newport.

O ddeutu 70 milltir i'r de orllewin o ynys Wyth, ac ychydig allan i benrhyn la Hogue, mae ynys fechan Alderney; ac ychydig pellach canfyddir ynysoedd Guernsey, Sark, a Jersey. Guernsey sydd 12 milltir o hyd a 9 a led, ac o ddeutu 36 o amgylchiaid, ac wedi ei rhanu yn 10 o blwyfydd: ei glenydd ydynt uchel, ac mae yr ychydig wastaddir sydd ynddi yn dra ffrwythlon. Yr unig dref sydd yn yr ynys ydyw St. Peter-le-Port.

Ynys Jersey sydd 12 milltir o hyd a 6 o led, ac wedi ei rhanu yn 12 o blwyfydd: ei chwr gogleddol sydd fynydd-dir noethlwm, ond mae ei rhanau deheuol yn hynod am liosogrwydd ei gwinllanoedd a pherllanau ffrwythlon. Mae ynddi ddwy dref, sef St. Helier y benaf, a St. Aubois, a chyfrifir iddi 20,000 o drigolion. Mae hefyd yn Alderney o ddeutu 1000, ac yn Sark o ddeutu 300 o eneidiau.

Ynysoedd Scilly, 30 milltir i'r gorllewin o ben tir Lloegr, ydynt 145 o rifedi, ac yn cynnwys ynddynt o ddeutu mil o drigolion, St. Mary yn 5 milltir o amgylchiad ydyw y fwyaf: mae hon yn gystal a St. Agnes y nesaf ati, yn dra ffrwythlon. Y gwartheg a'r ceffylau ydynt fychain; ond mae y defaid ac y cwningod yn dra lliosog, ac yn llawn maintioli.

Ynys Lundy, yn môr Hafren, noddfa môr-ladron yn yr amseroedd gynt, sydd 3 milltir o hyd, ac agos un o led, ac ynddi o ddeutu 500

erw o dir da. Am yr ynysoedd sydd ar waethaf Cymru, sef ynysoedd Caldy, Skomar, Enlli, Môn ac ereill, mae sylw arnynt yn hanes Cymru.

Manaw sydd yn sefyll yn môr Ywerddon, o ddeutu 30 milltir, oddiwrth lenydd nesaf Lloegr, 18 o'r Alban, 26 o'r Ywerddon, a 40 milltir o ynys Môn; yn 30 milltir o hyd ac o ddeutu 12 o led. Mae ynddi 17 o blwyfydd, ac ei pluif drefydd ydynt Castletown, Douglas, a Peel. Nid ydyw oerni y gauaf mor lym yn Manaw ag yn y gwledydd cymydogaethol iddi, ac nid ydyw gwres yr hâf yn peri cynnyrch mor doreithiol ar dwf daear. Rhoddwyd yr ynys gan Harri IV i deulu Stanley, drachefn ieirll Derby, ac o honynt hwy daeth yn etifeddiaeth i dug Athol, yr hwn yn ddiweddar a orfu arno werthu ei feddiant o honi i'r goron am 70,000l. Bu brenhinoedd arni gynt, ond nid oes coffa teg am yr olynol-ddilyniad o honynt. Ni wnaed Manaw yn farwniaeth gan William I, felly nid oes gan esgob Manaw le yn y senedd-dy.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Lloegr.*

Ni wedda ymgeisio ag olrhain yn yr hanes hwn am drosglwyddiad y cenhedloedd a diriodd gyntaf yn yr Ynys hon; digon gan hyny yw rhoddi cyfarwyddyd cryno am danynt. Cyn-drigolion Ewrop a adwaenid yn gyffredinol tan yr enwau *Cymry*, *Gauliaid*, a *Celtiaid*, Treiddiasant yn foreu i froydd tirion y parthau dehau a gorllewin; ac felly yn ol barn hanesyddion cywrain, daeth tylwythau i gyfanneddu Prydain o gylch mil o flwyddau cyn cred. Canlynodd cenhedloedd ereill yn yr oesoedd mwy diweddar, rhai trwy oddef ac ereill trwy ormes. Y rhai hyn oeddynt y *Lloegrwys*, y *Belgiaid*, y *Coraniaid*, y *Gwyddelod*, a *gwyr Galedin*. Y Belgiaid a ddaethant yma o gylch 400 mlynedd cyn cred, a chyfanneddasant barthau deau yr ynys; ac oddiyno aeth tylwythau o honynt i'r Ywerddon, yr hon yn y cyfamser oedd agos heb drigolion. Yn ol y Trioedd, Hu Gadarn a arweiniodd y Cymry, sef y trigolion cyntaf i'r ynys: galwasant eu cyfannedd newydd yn ol yr ansawdd, ac yn ol yr olwg arni; yr ynys wen, y Fel ynys; ac ynys Prydain, neu Ynys brydus o olwg.

Y nesaf oeddynt y Rhufeiniaid, y rhai dan Julius Cæsar a oresgynasant Loegr, a chadwasant feddiant ynddi 500 mlynedd, ac wedi terfyn ar rwysg yr ymerodraeth fawr honno, ac i'r Rhufeiniaid orfod ymadaw a'r Ynys, bu y Pictiaid, ac yr Ysgotiaid o'r Alban, yn ormes arni, y rhai trwy eu dewrder oeddynt trwy gydol yr amser gwedi gwrthsefyll arfau Rhufain. Anniheithiodd y rhai hyn y wlad yn ddirfawr, a diau bod Gwrtheyrn yn gwahodd y Saxoniaid i'w amddiffyn yn atalfad i rwysg y goron ddyfod tan eu meddiant. Ond ni fuasai gwaeth y drwg cyntaf na'r drwg a ddilynodd: Hengist a Horsa tywysogion y Saeson gwedi llwyddo i yru ymaith y gormeswyr, troesant eu harfau yn erbyn y trigolion a'u gwahoddasai mewn ing a chyfyngder i roddi ymwared; felly gwedi ymladd brwydrau trychinebus tros 150 o flynyddoedd, arfau y Saeson a fu lwyddiannus, gan oresgyn y wlad, oddieithr Cymru, lle mae hil cymmrodorion hyd heddyw yn preswylio.

Y Saeson gwedi i rwysg y wlad ddyfod tan eu meddiant, a'i rhanasant yn 7 o deyrnasoedd o enwau Caint, Sussex, Essex, Wessex, Mercia, Anglia a Northumberland, gan osod brenhinoedd arnynt i'w llywodraethu, y rhai yn ymrafaelio yn barhaus a barodd undeb y cyfan â'u gilydd, a'i galw yn un deyrnas o enw Lloegr tan Egbert brenin Wessex yn 827. Yr oedd gan hwn ddoniau addas i lywodraethu, ond bu farw gwedi iddo reoli 11 mlynedd, a daeth y goron i'w fab Ethelwolf, tywysog egwan ac ofergoelus, yr hwn yn marw yn 857, a rannodd y deyrnas rhwng ei ddau fab hynaf Ethelbald ac Ethelbert. Ni fwynhaes Ethelbald y fraint yn hir, felly daeth yr holl rwysg i Ethelbert. Ar ei farwolaeth ef daeth ei frawd Ethelred i'r orsedd, yr hwn oedd enwog yn amddiffyn ei wlad yn ddewrwych rhag rhuthrau y Daniaid. Ac yna y brawd ieuengaf o enw Alffred a ddaeth i'r orsedd, yr hwn a ymroddodd i ddiwygio moesau ei ddeiliaid, trwy arwain egwyddorion iawn wybodaeth i'w plith. Hwn a elwir yn ddeddfwr Prydain, ac yn luniwr ei rhagfuriau hamddiffyn—ei llyngesau. Gwedi iddo gael goruchafiaeth ar y Daniaid 56 o weithiau, a mwynhau rhai blynyddau o heddwch yn ei ardaloedd, bu farw yn 901, ac y mae y coffa am dano yn ganmoladwy gan ddeiliaid Prydain hyd heddyw.

Yn fuan gwedi hyn gan i'r wlad ddychwel i'r cyfryw annrhefn ag a fuasai ynddo o'r blaen, dechreuodd y Daniaid ail ymosod arni, ac er i ddilyniedyddion Alffred ymladd yn ddewrwych yn eu herbyn, cydunodd Ethelred II iddynt aros yn y wlad, gyd â bwriad o'u dinystrio yn ddirgelaidd ar unwaith pan gaffai odfa addas, ac felly bu. Ar hyn daeth Sweyn brenin Denmarc gyd â byddin gref i Loegr i ddial ar Ethelred, a gwedi brwydr echrydus gorfu ar Ethelred ddianc i Normandy gan adael y wlad yn llawn terfysg i'w fab Edmund, yr hwn yn fuan gwedi a laddwyd gan ei weision, a Canut yr hwn oedd eisus yn frenin Denmarc a Norway, a eisteddodd ar orsedd Lloegr, a bu ef ac ei ddilyniedyddion Harold a Hardicanut mewn meddiant llwyr o honi hyd 1032, pan adferwyd epil y Saxoniaid, trwy goroni Edward y cyffeswr mab yr annedwydd Ethelred yn frenin. Er mai tywysog enwog oedd hwn, eto ni hoffai y Saeson ef gan y duedd oedd ynddo at y Normaniaid, yn mhlith y rhai y cawsai ei addysgu, ac yn enwedig am iddo enwi ei gefnder William dug Normandi yn ddilyniedydd iddo.

Y nesaf a goronwyd oedd Harold mab Goodwin iarll Caint; ond William o Normandi yn honni hawl i'r orsedd drwy rinwedd ewyllys Edward, tywysodd 60,000 o filwyr i Loegr, ac yn mrwydr Hastings lladdwyd Harold, a William y goresgynydd a gyhoeddwyd yn frenin. Parodd dewrder William i foneddig a gwreng ymostwng i'w reolaeth. Adferodd i'r mawrion y tiroedd a feddiannai eu hynafiaid, gwedi iddo yn gyntaf orchymyn mesur holl dir y deyrnas, a nodi y terfynau, &c. mewn ysgrif a elwir y dedfryd-lyfr, yr hwn sydd hyd heddyw yn nghadw yn llys y Sylltdy. Bu farw wrth ymladd brwydrau Prydain yn Ffrainc yn 1087, a'i fab William II a goronwyd. Er fod hwn yn dywysog deallus, gormesu ei ddeiliaid oedd ei brif amcan trwy ystod ei frenhiniaeth; bu brwydrau rhyngddo â'r Ysgotiaid, y rhai a feddiannasai barthau gogleddol ei wlad, ac â'r Cymry y rhai oedd yn ei flino ar y tu arall. Lladdwyd ef yn amryfus gan saeth o fwâ wrth hela, yr hyn gyd â rhyfel oedd prif ddywenydd tywysogion yr amseroedd anfoesol hyny, 1100.

Y nesaf oedd ei frawd Harri I, yr hwn gwedi gafaelu yn y goron,

ac addaw i fawrion y llys y rhagor-freintiau a berthynai iddynt gynt, a ymsefydlodd ar yr orsedd, ond mae ei ymddygiad twyllodrus tu ag at ei frawd Robert, gwedi peri i'r côf am dano fod yn anmharchus.

Robert oedd etifedd coron Lloegr, ond yr oedd trwy orfod gwedi gwerthu ei hawl i'w frawd am ychydig elw yn flynyddol, ac wedi myned i reoli Normandi, a chan i'r Normaniaid ymgynhyrfu, gwahoddodd Robert ei frawd yno i'w tawelu, ond yn lle cyflawni dymuniad ei frawd, ymunodd yn y derfysg, ac y terfyn fu iddo drawsfeddiannu Normandi, a gosod un o'i filwyr yn llywydd arni, a chludo Robert i Loegr, ac oddiyno i gastell Caerdyf yn swydd Forganwg, lle gwedi 28 mlynedd o garchar y bu farw.

Nid bychan oedd balchder Harri gwedi uno treftadaeth ei hynafiaid at ei goron. Ond cyfarfu profedigaeth chwerw ag ef cyn iddo ddychwel i adrodd yr hanes. Yr oedd ei unig fab William yr hwn a'i dilynasai yno, yn chwennych tirio yn gyntaf yn Mhrydain, ond o wir frys, a'r morwyr yn eu llawenydd gwedi yfed i feddwdod, drylliodd y llong, a chollodd ef ag o ddeutu 140 o feibion mawrion Lloegr a Normandi eu bywyd. Bu Harri farw yn fuan gwedi. (1133.)

Yr oedd Harri gwedi trefnu yn ei ewyllys, mai ei ferch yr ymerodres Matilda gweddw Harri V, ac ei mab Harri, gan ei hail briod Geoffrey Plantâgenet, iarll Anjou a'i dilynai, eithr Stephen ŵyr y goresgynydd a ymaflodd yn y goron, a chan iddo addo yn dêg i fawrion y lleyg a'r llen, a gadaw iddynt adeiladu cestyll, llunio byddinoedd, &c. coronwyd ef. Ond Dafydd brenin Ysgotland yn cefnogi amcanion ei nîth, sef Matilda, bu brwydr echrys rhwng yr Ysgotiaid ac y Saeson yn North-Allerton, a Stephen a gollodd y dydd: dygwyd ef ger bron Matilda, yr hon a orchymynodd ei roddi mewn heiyrn, fal y rheolai ei hunan, yr hyn fraint ni adawodd ei balchder tra-arglwyddiaethol iddi fwynhau yn hir.

Matilda gwedi gorfod ffoi, a Stephen gwedi ei gyfnewid am iarll Caerloew, ordderch-fab y brenin diweddar, a'i adferyd i'r orsedd, bu cynhwrf rhwng Stephen a'r gwyr llen, y rhai a wahoddasant o Normandi Harri o Anjou, mab yr ymerodres, a gwedi cryn derfysg cydunwyd mai ef a goronid ar farwolaeth Stephen, ac felly bu, 1154.

Gorchwyl cyntaf Harri II oedd adferyd trefn yn y wladwriaeth, trwy lunio y cylchdeithiau, ac enwi y dynion mwyaf rhinweddol yn swyddogion gwladol. Yna diolodd y dieithraid cyflogaidd a wahoddasai Stephen, a diosgodd y mawrion o'r cestyll oedd erbyn hyn yn noddfeydd i bob drygddyn aflonydd. A gwedi iddo gadarnhau breinlen rhyddid a drefnasai ei daid Harri I i'w ddeiliaid, ymroddes i ddiwygio rhai defodau eglwysig, er gwaethaf ei brif esgob Thomas á Becket, yr hwn a laddodd wrth yr allor: yna aeth fal y soniwyd gyda â 400 marchog â byddin gref i oresgyn y Werddon 1172. Yr oedd llwyddiant yn dilyn ei holl amcanion, a chyfenwyd ef yn dad i'w ddeiliaid, ond yn ei flynyddoedd diweddaf rhoddes ei serch ar fenyw deg o enw Rosamond, yr hyn a barodd i'w wraig annog ei feibion i'w erbyn, yr hyn a'i blinodd cymmaint ag iddo glefychu a marw yn Chinon yn Ffrainc yn 1189; a daeth ei drydydd mab Richard, yr hynaf oedd yn fyw o'i blant i'r orsedd.

Richard I, yr hwn a soniwyd am dano o'r blaen yn ei undeb â Phylip o Ffrainc i ymosod yn aflwyddiannus ar Gaersalem, a laddwyd wrth warchae ar Chalons, (1199) a daeth ei frawd egwan Ioan i'r

orsedd, yr hwn o arwyd y pab wrth ymgynhenu ag ef o berthynas i ddewis esgob Caergaint, a osododd ei goron a'i holl fanieri breninol wrth draed Pandolfo cenadwr y pab, gan ei gyfaddef ei hun a'i ddeiliaid yn gaethweision i'w sancteiddrwydd, yr hyn a barodd i'w fawrion ffromi wrtho am werthu eu rhyddid, fal y bu rhyfel cartrefol tros hir amser. Y mawrion yn gorthrechu, gorfu ar Ioan gyndyn alw ei eiriau yn ol, a chyfarfod ei ddeiliaid mewn pentref ychydig o Lundain, i roddi ei law wrth y *Magna Charta*, yr hwn sydd graig cadernid rhyddid y Prydeiniaid hyd heddyw.

Yn nyddiau ei fab Harri III, y lluniwyd senedd-dy y cyffredin o ddau farchog o bob swydd a bwrdeisiaid o'r prif drefydd. Cyn hyn y mawrion yn unig oedd yn llunio y cyfreithiau a fynont, felly yr oedd gorthrymder y werin yn ddirfawr. Bu farw Harri yn 1272, yn y 56 flwyddyn o'i deyrnasiaid, yr hwyaf yn nghofrestr Prydain, a daeth ei fab Edward I yn ei le.

Dechreuodd Edward ei frenhiniaeth trwy ymarweddu yn ganmoladwy, ond parodd ei awydd anaele am gyfoeth iddo oresgyn Cymru, a lladd a llosgi hyd oni orchfygodd y trigolion, y rhai ar iddo addaw tywysog cymreig i'w llywodraethu na fedrai air o Saesoneg, a ymroddasant i'w treftadaeth gael ei huno at ei goron. Tra yr oedd y cyngrair hwn ar droed, danfonodd ei frenines yn ddirgel i gastell Caernarvon, lle y ganwyd mab iddo, yr hwn yn ddiatreg a gyhoeddwyd yn dywysog Cymru. Gwedi hyn aeth Edward i ddarostwng Ysgotland, ond ar ei daith, clefychodd a bu farw yn 1307, a daeth ei fab Edward tywysog Cymru yn ei le.

Canlynodd Edward II yn ol archiad ei dad ar y rhyfel yn erbyn Ysgotland, ond bu aflwyddiannus yn y frwydr gyntaf yn Bannockburn, a dychwelodd i'w brif ddinas; ond Robert Bruce brenin Ysgotland gwedi cael ychwanegiad at ei fyddin a oresgynodd ardaloedd gogleddol Lloegr, a danfonodd hefyd 6000 o filwyr i geisio darostwng yr Ywerddon, ac oni buasai y newyn oedd yn y wlad honno y pryd hyny mae yn debygol yr unasai hi at ei goron. Tra yr oedd hyn ar droed, yr oedd gwrthryfel yn Nghymru tan y tywysog Roger Mortimer, yr hwn drachefn oedd prif eilun y frenines. A chan fod terfysg yn mysg mawrion y llys o wall yr annhrefn oedd tros y wlad, caniatawyd i'r frenines ddiorseddu ei gŵr, ac enwi ei mab Edward yn frenin. Edward gwedi ei garcharu yn nghastell Berkeley, arferwyd pob bryntni tu ag at ei frysuro i'r bedd, ond hyny yn llwybr rhy araf, danfonodd Mortimer ac y frenines ddau lofrudd y rhai a wthiasant gorn i'w gyfeisteddl, trwy yr hwn y llosgasant ei goluddion ag haiarn poeth. Ond er nad oedd arwyddion allanol i'w canfod, cyrhaeddodd ei gri glustiau y gwarcheidwaid, a daeth y gorchwyl dieflig i'r goleu. Mortimer a grogwyd, a bwriwyd y frenines i garchar tros ei hoes.

Edward III weithian yn meddiant o rwysg y llywodraeth, dechreuodd wellau yr annrhefn oedd gwedi ennyn yn y wladwriaeth, yna troes i Ysgotland a gwnaeth i'w brenin dalu teyrnged iddo. Ac yn ei ddychweliad o Ffrainc, y lle y bu ei arfau ef, ag ei fab y tywysog Du yn llwyddiannus, fal y soniwyd, gwahoddodd banwyr, lliwyr a gwehyddion o Fflandrys i weinyddu ei weithfaoedd brethynau oedd newydd sefydlu. Ef oedd y cyntaf a arferodd ddrylliau tan mawrion mewn brwydrau, y rhai er iddynt gael eu llunio i ddyfetha dynolryw, ydynt gwedi bod yn foddion i ddwyn cenhedloethau daear yn fwy, cyd-

naddol; ac os na wnaethant frwydrau yn llai gwaedlyd, diammheu iddynt beri i ruthrau goruchafiaethus fod yn fwy anfynych. Edward a adeiladodd gastell Windsor, ac yn ei ddyddiau ef y dechreuodd Wickliffe y diwygiad rhagdystiol, disgyblion yr hwn a elwid Lollardiaid.

Edward yn marw yn 1377, coronwyd Richard II mab y tywysog Du yn 11 mlwydd oed. Bu aflwyddiant y pryd hyn ar arfau Lloegr yn Ysgotland a Ffrainc, ac o wneyd y sarhâd ar longau a byddinoedd i fynu, trethwyd 12 ceiniog yn flynyddol ar bob mab a merch uwch 15 oed trwy y deyrnas, yr hyn a barodd i'r werin rwgnach cymmaint ag iddynt chwennych cael cyfle i gyfodi yn erbyn y rhwysg wladol. O'r diwedd bu i drethwr fyned at ôf yn Essex i ofyn y drêth dros ei ferch, yr hwn a wrthododd dalu, gan honni nad oedd ei ferch yn llawn 15 oed; y trethwr yn haeru ei bod, ac yn cynnyg ymddygiad anaddas tu ag at y lodes, y gôf a laddodd y trethwr a'i forthwyl am y cyfryw ddrygfoes. Ar hyn cyfododd y cymydogion i fynu, ac ymgasglodd ar wastadedd Blackheath gan mil o'r werin dan flaenor o enw Wat Tyler i ddial ar y gormeswyr. Gwedi lladd o honynt amryw o'r mawrion a llosgi rhai o adeiladau y brif ddinas, anfonasant am Richard, yr hwn oedd gwedi ymofyn noddfa yn y tŵr, i ddyfod atynt i ymresymu â nhwy. Felly Richard a'i cyfarfyddodd yn Smithfield, lle y dechreuodd Wat Tyler arddangos cryn hyfder yn ei ofyniadau i'r brenin, fal y cynhyrfodd nwydau maer Llundain cymmaint ag iddo ruthro arno a'i ladd. Erbyn hyn yr oedd y dorf yn barod i ymddial, ond aeth Richard yn unigol i'w plith gan lefain yn uchel.—"Na chwynwch am eich blaenor, myfi eich brenin a fyddaf yn dywysog arnoch, dilynwch fi, a chewch eich dymuniad." Y dorf yn cael eu gorchfygu gan y fath addfwynder o enau tywysog 16 mlwydd oed, a'i dilynasant, a dilëwyd y drêth Ond ysywaeth hyn oedd yr unig dro enwog o eiddo Richard: ymroddodd i ddilyn nwydau anifeilaidd, a gosododd gyfeillion anaddas mewn uchel swyddi, a thra yr oedd yn bwriadu bod yn fwy gormesol, ymrafaeliodd â dug Lancaster, a lladdwyd ef, a choronwyd y dug tan enw Harri IV* yn ei le 1399.

Yr oedd Harri cyn ei goroni yn addef crêd i egwyddorion Wickliffe, ond er mwyn cael nawdd y gwyr llen lliosog, troes yn babydd, a dechreuodd erlid y Lollardiaid yn y modd mwyaf echryslon. Yna gwedi amryw frwydrau rhyngddo â'r Cymry ac yr Ysgotiaid bu farw, gan beri i'r coffa am dano fod yn anmharchus gan bawb a garent ryddid cydwybod, a daeth ei fab Harri V yn ei le 1413.

Yr oedd Harri tra yn dywysog, yn ymroddi i ddilyn pob un fydrwydd, ond gwedi ei goroni, galwodd ato gyfeillion ei afradlonrwydd i fynegi iddynt y bwriad oedd ynddo o ymarweddu yn well rhagllaw, ac nad oeddynt hwythau i ddyfod i'w wyddfod mwy, hyd oni arddangosent i'r byd eu bod gwedi gadaw eu ffyrdd drygionus. Gwedi i Harri drefnu y prif oruchwylion gwladol, troes i Ffrainc, a bu lwyddiannus gwedi brwydr Agincourt fal y soniwyd o'r blaen, i osod ei frawd dug Bedford yn rhaglaw y wlad honno. Bu farw yn 1422, a'i blentyn tan nawdd iarll Warwic † a gyhoeddwyd yn frenin.

* Mab ydoedd i Ioan dug Lancaster pedwerydd mab Edward III. Nid oedd gan Richard blant.

† Priododd gweddw Warwic, sef Cathrine o Ffrainc Syr Owen Tudur o Fôn

Yr oedd Harri VI pan ddaeth i oed, am lywodraethu ei ddeiliaid â gwïalen haiarn, am hyny gwrthryfelasant i'w erbyn, ac yn y derfysg achubodd y cyfle o adennill oddiar Loegr yr holl ardaloedd a berthynai iddi yn Ffrainc, oddigerth Calais: yna annogodd y mawrion i'r dug o Yorc mab Philippa merch ail mab Edward III i ddyfod yn mlaen i honni hawl i'r goron. Yna canlynodd brwydrau arswydus tros flynyddau lawer rhwng teulu dug Lancaster a theulu dug Yorc, ond er i'r dug syrthio ar faes rhyfel, cymerodd ei fab Edward IV yr achos i'w law, a bu lwyddiannus i ddïorseddu Harri, a gosod y goron ar ei ben ei hun. Dechreuodd Edward ei lywodraeth yn ganmoladwy, ond gan iddo ymroddi i drythyllwch cyhoedd â Jane Shore, gwraig eurych o Lundain, collodd barch ei ddeiliaid i raddau mawr. Soniwyd am dano o'r blaen yn ei daith aflwyddiannus i oresgyn Ffrainc, ychydig cyn ei farwolaeth yn 1483.

Gadawodd Edward ddau fab o weddw Syr Ioan Grey, yr hwn a laddwyd wrth ymladd o du teulu Lancaster, a thegwch y weddw wrth ofyn ei nawdd i'w meibion, oedd gwedi peri iddo ei phriodi, er bod cynghrair er ys talm gwedi ei lunio rhyngddo â chwaer brenin Ffrainc. Yr hynaf Edward V. oedd 12 oed, a'r ieuengaf Richard dug Yorc oedd wyth. Ond Richard dug Caerloew eu hewythr frawd eu tâd, oedd trwy ewyllys y brenin gwedi ei benna yn llywydd tra y byddai yr etifedd tan oed. Richard yn gweled onid iddo gael y ddau blentyn y rhai oedd tan ei gronglwyd oddiar y ffordd, y cafai y goron iddo eu hun: felly rhoddes ar waith ei holl ddichellion uffernol er llwyddo yn ei amcanion. Ei orchwyl gyntaf oedd ceisio dirmygu enw y frenines, a chael gan y mawrion addef anghyfreithlondeb y briodas, gan fod y brenin gwedi cynghreirio cyn hyny â thywysoges o Ffrainc. Gwedi hyn dihenyddiodd heb unrhyw chwiliad iarll Rivers, brawd y frenines, Syr Richard Grey ei mab o'r gwr cyntaf, a Syr Thomas Vaughan, gwr oedd yn amddiffyn y tywysogion ieuainc. Yna ceisiodd ddenu i'w fintai dug Buckingham a iarll Hastings: llwyddodd gyd a'r blaenaf, ond ni phlygai yr olaf oddiwrth fod yn ffyddlon i'r ddau dywysog: am hyny galwodd gymmanfa o fawrion y llys, a gwedi cryn osteg tra yr oedd Richard yn rhincian ei ddannedd ac yn arddangos cynddaredd nid bychan at ryw rai oedd yn y cyngor, gwaeddodd—"Pa gosb sy ddyladwy i'r rhai sydd yn brâdfwriadu fy einioes?" Angau bradwyr " atebai Hastings." Y bradwyr" meddai Richard " ydynt yr hudoles, gwraig fy mrawd, ac y ddewines Jane Shore ei gariad, ac ereill sydd yn ganlynwyr iddynt. Gwelwch yr agwedd sydd ar fy mraich gwedi eu swyn melldigol" gan dangos yn noeth y fraich fuasai yn ddiffrwyth er pan ydoedd blentyn. "Gwir fy arglwydd atebai Hastings" os ydynt yn euog o'r fath drosedd maent yn haeddu cosb.—" A wyt ti," atebai Richard " yn fy ateb i ag os? Ti wyddost eu trosedd yn dda; yr wyt ti dy hun yn fradwr, ac yn brif gynnorthwywr i'r ddewines Shore: am hyny yr ydwyf yn tyngu, myn St. Paul, na fwytaf damaid hyd oni ddeuir â dy ben oddiar dy gorff imi." Yna gwedi taro y bwrdd, rhuthrodd milwyr i fewn, a

---

yr hwn oedd gwedi hanu o brif dywysogion Gwynedd. Plantodd iddo ddau fab sef ieirll Richmond a Phenfro. O deulu Tudur yr hanodd Harri VII brenin Prydain.

ehludwyd Hastings allan gyd â brys, a thorwyd ei ben ar foncyff oedd yn digwydd bod yn y fan. Y nesaf yn ei arfod rhag meddiannu rhwysg y goron oeddynt iarll Stanley, ac esgobion Yorc ac Ely, y rhai a garcharodd yn y twr. Yna gwedi methu profi Jane Shore yn ddewines, mynodd ei gwneyd yn euog o odineb, a'i hysgymuno, ond er iddi ddwyn ei phenyd trwy gerdded yn droednoeth mewn lleulliain i eglwys St. Paul, gwnaeth na chafai neb ddangos unrhyw dosturi tu ag ati, ac mewn eisiau bu farw. Gwedi hyn nid oedd onid y ddau dywysog yn rhwystr iddo, felly galwodd ar Syr Robert Brackenbury ceidwad y twr, y lle yr oedd y plant ynddo, i ofyn a wnae eu dybenu. Y ceidwad yn nacau, danfonwyd Syr James Tyrrell o gôf melldigol, a mygodd hwynt rhwng dau wely plûf.

Richard weithian gwedi sicrau y goron ar ei ben, ceisiodd a'i holl egni wneyd cyfeillion o'r mawrion a ddrwg dybiai oeddynt elynion iddo: rhyddhaes iarll Stanley o garchar, &c. Ond dug Buckingham, yr hwn oedd gwedi ymuno ag ef i fyned yn mlaen yn ei dwyll, heb dderbyn gobrwy digonol am ei wasanaeth, a annogodd yn ddirgelaidd i Harri iarll Richmond, ŵyr Syr Owen Tudur gan Cathrine o Ffrainc gweddw Harri V, i ddychwel o'i alltudaeth, sef o Lydaw yn Ffrainc, ac y gwnae ei oreu i'w dderchafu i'r orsedd a feddiannasai ei hynafiaid. Ond erbyn i Harri dirio gyd â 5000 o ŵyr, adroddwyd twyll Buckingham i Richard, felly danfonwyd milwyr gyda brys i'w ddihenyddio, a Richmond yn ofni gwynebu y maes gyd â chan lleied o filwyr, a ddychwelodd yn ei ol.

Gwedi hyn gwnaeth Richard i'r seneddwyr enwi ei fab Edward yn dywysog Cymru, a chaniatau iddo lunio cynghrair o brïodi y dywysoges Elizabeth merch Edward IV, yr hon oedd iawn etifeddes y goron. Pan glybu Richmond hyn, tiriodd yn Nghymru gyd â 2000 o wyr, a chan iddo fod yn ŵyr i Syr Owen Tudur, ymunodd 4000 yn ychwaneg ag ef er ceisio dïorseddu y gormesdeyrn.

Cyfarfu y pleidiau yn swydd Leicester: Richmond â 6000, a Richard a 12,000. A phan oeddynt ar daro, troes iarll Stanley o du Richmond, yr hyn a daflodd fyddin y gormeswr i annrhefn. A chan i Richard ddeall bod terfyn ar ei rwysg i fod y dwthwn hwnw, rhuthrodd i fyddin Richmond i geisio ei lâdd, ond yn lle hyny, ef ei hun a syrthiodd, a Harri o Richmond a gyhoeddwyd gan y ddwy fyddin yn frenin, ac wedi iddo gyrhaedd Llundain ac ei goroni, prïododd y dywysoges Elizabeth. Fel hyn y bu terfyn ar y *Plantagenets* gwedi rheoli o honynt 300 mlynedd.

Harri VII gwedi ei sefydlu ar yr orsedd, dechreuodd ddangos eiddigedd tu ag at dy Yorc, felly yr oedd cynhwrf yma ac acw trwy y wlad fal cynt, a bradwriaethau mewn grym yn erbyn Harri. Ofnodd fod Edward Plantagenet iarll Warwic yn elyn iddo, felly cauodd ef yn y twr, ond rhoddwyd y gair allan ei fod gwedi dianc, fal yr enoiliai rhai o'r milwyr i ymuno a'i luman. Bu brwydr dost rhwng Harri â byddin tan arweiniad bachgenyn o enw Simnel, yr hwn a alwai ei hun yn iarll Warwic, a brwydr rhyngddo ag un arall o enw Warbec yn cynnrychioli y dug Yorc: y cyntaf gwedi ei gymeryd, oedd ry ddistadl i'w dihenyddu, felly gwnaed ef yn wâs cegin i'r brenin am ei oes; ond yr olaf yn llencyn doniol a grogwyd yn Tyburn; a Warwic yntau am geisio dianc, a pheri y fath derfysg a ddihenyddiwyd. Yn 1499 prïododd Harri ei fab Arthur tywysog Cymru â thywysoges Ar-

ragon yn Yspaen, gyd a'r hon yr oedd cynnysgaeth o 50,000l. ond Arthur yn marw yn fuan gwedi, ac Harri yn anfoddlon i yru yr arian gyd a'r dywysoges yn ol, annogodd ei ail mab Harri i'w phriodi, ac felly bu. Yr oedd iechyd y brenin erbyn hyn yn dechreu adfaelio, felly troes ei feddwl yn fwy at bethau byd arall, ond po nesaf i'r adwy, mwyfwy oedd rhuad ei gydwybod, ac er adeiladu o hono fynachdai, elusendai, a'r cyffelyb, parhaodd felly hyd angau yn 1509.

Y nesaf oedd ei fab Harri VIII, yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn llawn 21 oed. Yr oedd Ffrainc ac Yspaen yn chwennych ei gyfeillgarwch, ac nid heb achos, gan y barnid ef yn gyfoethocach na holl alluoedd Ewrop yn nghyd. Ond gwag oferedd yn brif gynnefod ei amcanion, ac ei gymydogion wrth gyd-ymagweddu yn cael ganddo yr hyn a fynent, ac wrth hyny yn anwadal yn ei holl oruchwylion, aeth yn fuan trwy yr holl elw a gasglasai ei dad yngbyd. Yr oedd pa fodd bynag yn dra ffyddlon i babyddiaeth: ysgrifenodd lyfr ar y 7 sacrament yn erbyn Luther, am hyny rhoddes y pab yr enw iddo o *Amddiffynwr y ffydd*. Ond yn 1527 honnodd nad cyfreithlon iddo fod gwedi priodi gwraig ei frawd, felly danfonodd at y pab am lythyr esgariad, ond ni roddai y pab i'w genadon onid ateb cyfrwys ymlithrol, rhag iddo dynu brenin Yspaen yn ei ben, yr hwn oedd y pryd hyn yn un o'r tywysogion mwyaf rhwysgol yn Ewrop. A chan nad oedd y llys *sanctaidd* yn debyg o benderfynu y gorchwyl, a gwyn anianol Harri am Anne Boleyn un o'i forwynion yn golosgi o'i fewn, ysgydwodd iau Rhufain oddiar Loegr yn llwyr, a derbyniodd rai o egwyddorion y rhagdystiaid i lunio crefydd wladol newydd, gan ei alw ei hun yn ben arni. Gwedi hyn gwnaeth i Cranmer archesgob Caergaint ddileu y briodas, a thranoeth priododd Anne Boleyn. Yna taranodd Rhufain esgymundod yn erbyn Harri ac ei holl ddeiliaid rhagdystiol, a Harri yntau a dalodd y pwyth trwy beri i Cranmer esgymuno y pab ac ei holl ddilynwyr ynte, &c. Dyma oedd un o lwybrau anolrheinadwy Rhagluniaeth yn trefnu trwy foddion gwael, i sefydlu un o'r gorchwylion mwyaf ysplenydd; sef peri terfyn ar rwysg eglwys Rhufain yn Mhrydain, trwy symud y llen gaddugol oddiarni, i roddi lle i sain efengyl y tangnefedd ddadseinio bro a bryn.

Er i Harri newid ei grefydd, ac ei ddyrchafu i fod yr ben yr eglwys, nid oedd unrhyw gyfnewidiad yn ei anian, ond parhau yn sarug, trahaus, a brwnt. Dibenyddiodd esgob Rochester, a Syr Thomas More y cangellwr, am na addefent ei uwchafiaeth: ac yn fuan gwedi dan y ffug o fod yn euog o odineb, dibenyddiodd ei wraig er porthi ei chwant o fwynhau un arall. Ychydig cyn rhoddi ei phen ar y cyff, dywedodd wrtho—"Yr ydych gwedi bod yn wastadol yn fy nerchafu: o fenyw ddistadl i arglwyddes, o arglwyddes i frenines, ac weithian o frenines yr ydych yn gweled yn dda fy nerchafu i fod yn Sant." Jane Seymour oedd ei wraig nesaf: bu hon farw y flwyddyn ganlynol wrth esgor ar Edward VI; yna priododd Anne o Cleves, yr hon a esgarodd cyn pen 6 mis, fal y cafai Cathrine Howard, nith dug Norfolk, yr hon yn fuan gwedi dan y cyhuddiad o anniweirdeb a ddibenyddiodd ar fryn y twr. Ei chweched gwraig oedd Cathrine Parr, yr hon trwy ei doethineb yn unig, a ochelodd y cyff. Yn fuan gwedi hyn clefychodd Harri, oddiwrth y caethiwed oedd arno gan y chwydd parhaus yn ei goesau, ond ni feiddia neb adrodd y perygl yr oedd ynddo rhag iddo orchymyn y fwyall ddibenydd ato: o'r diwedd anturiodd

mer ddywedyd ei fod ar derfyn byd yr ysprydoedd, ond yn lle bygythio creulonder fal ei arferiad trwy ystod ei glefyd, ymdawelodd am yr ychydig oriau drachefn cyn iddo farw, 1547.

Yr oedd Harri gwedi trefnu i'r goron fyned yn gyntaf i'w fab Edward o Jane Seymour, yna i'r dywysoges Mary o Catherine o Arragon, ac yn ddiweddaf i'r dywysoges Elizabeth, ei ferch o Anne Boleyn, er iddo ychydig cyn hyny orchymyn i'r senedd farnu y ddwy dywysoges yn anghyfreithlon yn eu hawl i'r goron.

Edward VI, heb fod ond 9 mlwydd oed ar farwolaeth ei dad, rhoddwyd rhaglawiaeth y deyrnas i'w ewythr o du ei fam, dug Somerset, yr hwn gan iddo ymgynghori llawer â Cranmer a reolodd yn ganmoladwy. Bu farw Edward yn 15 oed, gwedi arddangos y parch mwyaf i'r achos rhagdystiol, a threfnodd i Jane Gray, merch duges Suffolk, chwaer ieuengaf Harri VIII i'w ddilyn, yr hon gwedi gwisgo coron ddaearol ddeng niwrnod a ddihenyddiwyd gyd â Dudley ei gwr, drwy orchymyn Mary waedlyd.

Mary gwedi ei choroni a ymosododd a'i holl egni i ail sefydlu pabyddiaeth yn y deyrnas: felly dechreuodd lâdd a llarpio pawb a addefent ragdystiaeth. Yr esgobion Cranmer, Ridley, Hooper, Latimer, a chantoedd ereill o ddeiliaid y deyrnas a rwymwyd wrth y cyff i'w llosgi. Yna gwedi priodi Phylip II brenin Yspaen, er mwyn cael ei gynnorthwy yn y gorchwyl dieflig o ddirdynu y rhagdystiaid, rhoddes angau derfyn i'w rhwysg, a'i chwaer Elizabeth a goronwyd.

Yr oedd Elizabeth tra yn dywysoges yn cefnogi yr egwyddorion rhagdystiol; felly ei gorchwyl cyntaf oedd dileu y cyfreithiau a wnaethai ei chwaer i adsefydlu pabyddiaeth, a mynu ad-addef ei huwchafiaeth fal pen yr eglwys: yn ganlynol mynodd adgyweirio y ffurfiau gweddi, &c. oedd yn arferedig yn yr eglwysi yn amser ei thâd, a threfnodd y byddai i'w holl ddeiliaid gael cyflawn ryddid i addoli fal y mynnont. Yr oedd Mary merch brenin Ysgotland o chwaer Harri VIII, erbyn hyn yn honni hawl gyhoedd i'r goron, fal cyfiawn etifeddes; a chan iddi briodi etifedd coron Ffrainc, a bod yn babyddes, cafodd gryn lû i'w chynnorthwy: ond Elizabeth yn danfon byddin grêf i Ysgotland dan y ffûg o gefnogi amcanion Erskine a Knox, y rhai oeddynt yn myned â'r diwygiad yn llwyddiannus yn mlaen, dyryswyd byddinoedd Mary, a chymerwyd hi yn garcharor, a gwedi bod yn nghastell Fotheringhay 18 mlynedd, dihenyddiwyd hi, er gwarth diderfyn i'w chares anhynaws. Gwedi hyn daeth Phylip II brenin Yspaen yn elyn traffyrnig i Elizabeth, a lluniodd lynges grêf, trwy yr hon yr oedd i oresgyn Prydain, ac i ddial llid ar Elizabeth a'i deiliaid. Er nad oedd onid ychydig o longau mewn cymhariaeth i Yspaen yn perthyn i Loegr y pryd hyny, eto anturiodd y llyngeswyr enwog Effingham, Drake, Hawkins a Frobisher i'w chyfarfod, a'r canlyniad fu llwyr derfyn ar yr amcan. Yna ymwelodd llongau rhyfel Lloegr â glenydd Yspaen, ac a'i hynysoedd yn yr India orllewinol, a gwnaed sarhâd anferth ar ei meddiannau, ac ni wyddis pa derfyn fuasai ar yr aurbaith, pe cawsent lonydd i fyned rhagddynt. Gwrthryfel yn ennyn yn y Werddon dan iarll Tyrone, galwyd am danynt yn ol i darfu y derfysg. Ond er bod iarll Essex anwylyd Elizabeth yn rhaglaw y wlâd, bu sarhâd anferth cyn ei darostwng: parodd anian ddrwg Elizabeth o wâll henaint iddi orchymyn dihenyddio y llywydd, yr hyn drachefn

a'i blinodd cymmaint ag iddi glefychu a marw, à daeth Iago mab Mary brenines Ysgotland i'r orsedd.

Iago I, o du ei fam yn orwyr i Harri VII, ac yn etifedd coron Ysgotland, unwyd y ddwy deyrnas ynghyd, heb unrhyw gynhwrf yn dilyn y gorchwyl. Yr oedd Iago o duedd heddychol, ac er mwyn tawelu y pabyddiaid, addawodd iddynt y breintiau gwladol, yr hyn gwedi ail-edrych ni oddefai llŵ y coroniad iddo: ac am iddo alw ei eiriau yn ol, ymroddodd y pabyddiaid ei ddyfetha ef ac ei seneddwyr, trwy osod 36 baril o bowdr gwn, tan y senedd-dy i'w chwythu i fynu ar y 5 o Tachwedd 1605, y dydd yr oedd y breninol deulu oll i fod yn y senedd. Er bod y brâd uffernol hwn ar waith er ys blwyddyn, ac ychwaneg nag 20 o ddynion yn perthyn iddo, cadwyd y peth yn hollol ddirgel hyd o fewn wythnos i'r amser, pan y bu i un o'r bradwyr anfon llythyr* at arglwydd pabyddol (Monteagle) un o'r seneddwyr, yr hwn er iddo ei ystyried yn ynfydrwydd, a'i dangosodd i'r cyfrin-gynghor, lle y cafodd y cyffelyb groesaw gan agos bawb: ond y brenin yn sylwi ar y geiriau *dyrnod echrydus, ac y goruchwylwyr yn geladwy*, a gasglodd yn ddiatreg mae powdr oedd i wneyd y gorchwyl. Felly ar y dydd cyn cyfarfod o'r seneddwyr, aethwyd yn ddirgel i chwilio, a chawsant swyddog Yspaenaidd o enw Guy Fawkes, a thân reffynau ganddo, a llusern dywyll, yn barod erbyn y boreu drannoeth. Y dihiryn brwnt gwedi cwyno am fethu llwyddo i ddial ar elynion yr eglwys, a enwodd (ar iddynt ddangos iddo yr offeryn dirdynu) y bradwyr ereill, a bu crogfa arnynt oll.

Yn nydd'au Iago y cyfieithwyd y Bibl i'r Saesoneg, fal yr arferir ef hyd heddyw; ac yn ei ddyddiau y dechreuwyd ddol y gwŷr eglwysig na chydymffurfient i wisgo arwyddion pabyddol yn eu gorchwyliaethau crefyddol. Beiau amlycaf Iago oedd iddo wahoddi dynion egwan eu deall (fal ef ei hun) i'w gyfrin-gynghor, y rhai yn ei fawrygu yn wastadol a barasant iddo ymgais am allu mwy rhwysgol nag a oddefai llŵ y coroniad iddo, yr hyn yn nyddiau ei fab a ddaeth a barn ar y wlad. Bu farw yn 1625, a daeth ei fab Charles I yn ei le.

Yr oedd yr un rhwysg-awydd am uchfraint yn Charles, fal ei dad, a chan i'r senedd wrthod iddo arian i gynnorthwyo rhyfeloedd ei frawd yn nghyfraith, yr etholydd ardalog, chwalodd y senedd a benthyciodd arian trwy orfod oddiar amryw o'i ddeiliaid. Yr oedd y seneddwyr newydd yn fwy anufydd na'r lleill: danfonasant archiad ato i erfyn arno ddileu y trethi oedd wedi osod ar y deyrnas heb nawdd y senedd, i'r hyn mewn rhan cydsyniodd, ond chwalodd hwythau, a galwodd un arall; yr hon fyth oedd yn fwy yn erbyn y rhwysg breninol, am hyny terfynodd hono fal y cafai y bedwerydd senedd ynghyd. Yr oedd cynhwrf mawr erbyn hyn trwy y deyrnas, a Charles yn ofni

* Dyma oedd y llythyr: "Fy arglwydd, Mae y cariad sydd genyf i rai o'ch cyfeillion yn peri gofal imi am eich cadwraeth, felly annogaf chwi fal yr ydych yn caru eich bywyd, o lunio rhyw esgus i ochel cyfarfod yn y senedd presennol, gan *fod Duw a dyn gwedi penderfynu cospi annuwioldeb yr oes.* Na feddyliwch yn ysgafn o'r cynghor hwn, ond ewch i'r wlad, lle y byddwch ddiogel, canys er na bydd ymddangosiad o unrhyw gynhwrf, er hyny dywedaf y derbynient *ddyrnod echrydus* yn y cyfarfod hwn, ac ni welent y *sawl sydd yn eu drygu.* Nid ydyw y cynghor hwn i'w ddiystyru, gan y gall wneyd i chwi lés, ac ni all wneyd i chwi niwed, gan nad oes perygl gwedi llosgi o honoch y llythyr hwn; *ac yr ydwyf yn gobeithio y rhodda Duw ras i chwi wneyd defnydd* [illegible], *i ofal daionus yr hwn, yr ydwyf yn eich cyflwyno.*"

drwg, cydsyniodd i'r senedd yn unig i drefnu gosod trethi. Y werin yn barnu mai iarll Stafford ac archesgob Laud, gweinidogion y brenin oeddynt y prif achos o'r cyfryw ddrwg amcan, gorchymynwyd hwynt at y cŷff i'w dihenyddio. Y senedd hyd yn hyn yn ganmoladwy yn eu hamcanion, a ddechreuasant fod yn aflywodraethus, trwy drefnu cyfreithiau heb gydsynied y goron, a sicrau na chwalid y senedd mwy. Ar hyn ffromodd Charles, a rhyfel cartrefol fu y canlyniad. Yn y frwydr gyntaf wrth Naseby collodd y fyddin freninol y dydd, a gorfu ar Charles ddianc at yr Ysgotiaid, y rhai er gobrwy, er cywilydd iddynt, a roddasant Charles i ddwylaw ei elynion. Yna daeth Oliver Cromwell yr hwn oedd flaenor byddinoedd y senedd â'r brenin ger bron y cynghor i'w holi, a barnwyd ef yn elyn deiliaid Prydain, felly dihenyddiwyd ef o flaen drws ei dy, ar y 30 o Jonawr 1649, a Cromwell gwr tra chrefyddol o ran ei agwedd allanol a gyhoeddwyd yn arglwydd amddiffynwr y wlad.

Dyn enwog oni buasai ei ragrith crefyddol oedd Cromwell, gwelai amcanion dynion yn ddiatreg, a gosodai hwynt mewn swyddi y byddent lesol ynddi: ar y maes yr oedd yn dra dewr: yn gyhoedd byddai fal sant, ond yn ddirgel byddai gyflawn o bob twyll. Bu farw yn 1658, gwedi rheoli 4 blynedd, a'i fab Richard a ddaeth yn ei le. Yr oedd hwn yn fwy diniwed nag ei dad, felly ni allai reoli cenedl derfysglyd mor lwyddiannus, am hyny ymddiosgodd o'i fraint, ac aeth i'r wlad i fwynhau ei oes yn dawel hyd henaint teg. Tra yr oedd y deyrnas fel hyn heb ben, daeth y llywydd Monk o'r Alban â llu mawr i wersyllu yn agos i'r brif ddinas, gan fygwth distryw iddi os na adferid y teulu breninol i'r orsedd: felly galwyd am Charles II mab y brenin annedwydd o'i noddfa yn Ffrainc, a choronwyd ef yn frenin. 1660.

Charles gwedi dyfod i feddiant o rwysg y llywodraeth, a ymroddes yn lle rheoli fal y dylai, i ddilyn nwydau afreolus ei anian, fal yn lle y ffûg o symlrwydd oedd yn y llŷs yn amser ei dad, ac y ddau Cromwell, y daeth anniweirdeb i'w lenwi, ac yn ganlynol llanwodd y deyrnas o bob anfoesoldeb, nes aeth crefydd yn wawd y chwareu-dai. A thra yr oedd Charles yn ofni canlyniadau drwg, ymroddodd medd haneswyr o ddiwygio, ond cyn arddangos unrhyw dro, bu farw yn ddisyfyd yn 1685, ac ei frawd Iagô II a ddaeth i'r orsedd.

Yr oedd hwn o duedd mor ofergoelus ag iddo gwedi llŵ y coroniad yr ymddiffynai y grefydd wladol, yn ymroddi i wrando ar ddeiliaid y pab, ac am rëoli â gwialen haiarn, nes y taflodd y wlad i'r cyfryw annrhefn ag i'r mawrion wahodd yn ddirgel William tywysog Orange, yr hwn oedd yn briod a'i ferch, i ddyfod i amddiffyn y wlad a'r eglwys rhag distryw: felly tiriodd William â byddin gref, a Iago yn ofni y canlyniad a ddiangodd i Ffrainc. Digwyddodd hyn yn 1688, a gelwir y pryd hyny hyd heddyw y Dadymchweliad.

William a Mary gwedi eu coroni, ymroddodd y senedd i drefnu yr olynol-ddilyniad i'r goron, rhag i hyny beri dychwelyd y gofidion oedd gwedi blino y deyrnas mor fynych. Ac yna rhoddwyd sail y drefn o lywodraethu fal y mae yr awr hon, sef mai y brenin trwy gyfundeb dau lŷs y senedd oedd i lunio cyfreithiau, gosod trethi, &c. Felly bu cyflawn derfyn ar yr ymrafaelion a ddaethai i'r orsedd gyd ag epil Stuart, ac a reolasai hyd eu dëoliad ymaith. Dyma y pryd y llunïwyd y *Bank of England* i'r dyben i William gael arian i dalu y

derfysg oedd yn y Werddon, ac i gynnal y rhyfel oedd rhyngddo trwy ystod ei deyrnasiad â brenin Ffrainc, yr hwn ychydig cyn marw William oedd gwedi addef yr Hawlydd, sef mab Iago, ar farwolaeth ei dad yn frenin Prydain fawr ac Ywerddon.

Anne, yr hynaf oedd yn fyw o ferched Iago II, a chwaer i'r frenines Mary oedd y nesaf yn ei hawl i'r goron. Gwnaeth arfau yr enwog dug Marlboro' ar fyddinoedd Ffrainc i deyrnasiad hon fod yn dra ysplenydd; hyd oni bu i'r Toriaid* gael goruchafiaeth ar y Whigiaid† a diswyddo Marlboro', pan y canlynodd heddwch Utrecht yn 1713, yr hwn a achubodd Ffrainc o ddistryw. Yn nheyrnasiad Anne y gorphenwyd yr undeb rhwng Lloegr ac Ysgotland, pan drefnwyd mai un senedd oedd i weinyddu i'r ddwy deyrnas, yr hon y pryd hyn a gafodd yr enw Prydain fawr. Yn 1706 meddiannodd Syr George Rook, Gibraltar, yr hon sydd yn meddiant Prydain hyd heddyw. Yr oedd Anne gwedi priodi y tywysog George o Denmarc, ac yr oedd plant iddynt, ond buant hwy a'u tad farw cyn Anne, a hithau a ddilynodd yr un llwybr yn 1714.

Yn ol trefn yr olynol-ddilyniad, George I, etholydd Hanover, mab y dywysoges Sophia, ŵyres Iago I, a gyhoeddwyd yn frenin Prydain fawr. Bu gryn gynhwrf yn nechreu ei reolaeth, o wall bod amryw o'r mawrion yn cefnogi amcanion yr Hawlydd, mab Iago II: ond gwedi brwydr Preston, a dibenyddio arglwyddi Derwentwater, Kenmuir, ac amryw ereill, terfynodd yr amrafael. Yn 1718 cyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Yspaen, yr hon oedd yn caethiwo trefnidiaeth Prydain, ond gwedi brwydr Syr George Byng, yr hwn a ddistrywiodd brif lynges Yspaen; ac i 10,000 o Yspaeniaid golli eu bywyd wrth ymosod yn aflwyddiannus ar Gibraltar, ymheddychodd y pleidiau. Gwedi hyn bu terfysg arall yn y deyrnas o wall i'r cynllun o angwanegu y cyfoeth gwladol a elwid y *South Sea* fethu: ac yr oedd y derfysg heb dawelu pan y bu farw y brenin, ar ei daith i ymweled a'i ddeiliaid yn Hanover 1727.

George II, a esgynodd i'r orsedd pan oedd llwyddiant arfau Prydain ar dir a môr yn dra ysplenydd. Ond yn mhen ychydig o flynyddau gorfu ar Loegr gyhoeddi rhyfel yn erbyn Yspaen, gan i'w llongau ddrygu ei threfnidiaeth yn America, a chan i Ffrainc ddangos gormod o gyfeillgarwch i Yspaen, cyhoeddwyd hefyd yn ei herbyn hithau, a thra yr oedd llwyddiant yn dilyn amcanion Lloegr yn erbyn y ddwy wlad, tiriodd yr Hawlydd ieuanc yn Ysgotland, a derbyniwyd ef yn llawen gan amryw o'r prif drigolion, a chyhoeddwyd ef yn llywydd Prydain, gwedi iddynt yn gyntaf addef ei dad yn frenin: ond rhoddes brwydr Culloden dan y dug o Cumberland yn 1746 derfyn ar rwysg y gormeswr, a thrwy y peryglon mwyaf tiriodd yn Ffrainc gwedi gwasgaru y fintai oedd yn ei gefnogi.

Yn fuan ar ol hyn, a gwedi i deyrnasoedd Ewrop ymheddychu yn Aix-la Chapelle, (1748) bu farw (er galar i'r deyrnas) Ffrederic, tywysog Cymru, tad ei fawrhydi George III. Yn 1752 cyfnewidiwyd trefn y flwyddyn, trwy ddileu 11 niwrnod yn Medi, a threfnu i'r dydd cyntaf o'r flwyddyn fod ar y cyntaf o Ionawr, yn lle y cyntaf o Mawrth.

---

* Enwad a roddid i'r rhai oedd yn dadleu yn dyn tros uwchafiaeth llywodraethwyr yr eglwys sefydledig a'i defodau, ufydd-dod diamodol y deiliaid, &c.
† Enw y rhai oedd yn ngwyrthwyneb i'r Toriaid, sef yn ochr rhyddid.

Yn 1755, gormesodd y Ffrancod ar feddiannau Lloegr yn America, a bu rhyfel dychrynllyd o wall hyny, ond llwyddiannus i Lloegr, hyd oni bu iddi golli meddiant o Minorca, trwy i'r llyngeswr Byng o arswyd, wrthod ymladd â llynges Ffrainc oedd ar warthaf yr ynys, am yr hyn gwedi chwiliad manwl y cafodd ei saethu ar fwrdd ei long yn Portsmouth. (1757.) Ond tra yr oedd rhwysg llynges Prydain fal hyn dan gwmwl, daeth y newydd bod y milwr Clive gwedi goresgyn ardaloedd ëang yn yr India ddwyreiniol, yr hwn er nad aethai yno ond megys ysgrifenydd, a fu yn foddion i osod sail yr ymerodraeth ëang sydd heddyw yn meddiant Prydain yn yr ardal hono.

Gwedi hyn meddiannodd y saeson Guadaloupe, Quebec, Montreal, a rhanau ereill o America oedd yn meddiant Ffrainc. Goree hefyd yn Affrica a ddaeth yn yspail iddynt. A thra yr oedd llwyddiant fal hyn yn dilyn arfau Prydain ar dir a môr, yn ddisymwth bu farw George II, yn 76 mlwydd oed, a'i wyr George III ein tirion frenin a ddaeth yn ei le. (1760).

Nid oedd ei fawrhydi oddiar 22 oed pan esgynodd i'r orsedd. Yr oedd ei fuchedd hawddgar tra yn dywysog gwedi ennill serch ei gydwladwyr, ac yn enwedig ei araith yn y senedd ychydig gwedi ei goroni. "Gan fy ngeni a'm haddysgu yn y wlad hon, yr ydwyf yn ymogoneddu," meddai, "yn yr enw BRYTHON." Canlynwyd yn llwyddiannus ar y rhyfel yn erbyn Ffrainc: Havannah yn y gorllewin, a Manilla, ac ynysoedd Philippa yn y dwyrain a ddaethant yn olynol i feddiant Prydain. Ac yn 1763 bu heddwch cyffredinol, Yn 1776 ymgynhyrfodd trigolion taleithiau cyfunol America, y rhai hyd hyny oeddynt ddeiliaid coron Prydain, a bu ymladdfeydd dychrynllyd ar dir a môr am ddeng mlynedd, pan y trefnodd senedd Prydain i America fod yn rhydd. Yr oedd Ffrainc, Yspaen, a Holland, gwedi ymuno ag America yn y rhyfel: felly yn 1783 ymheddychasant â Prydain, a mwynhaes Ewrop heddwch hyd y dadymchweliad yn Ffrainc yn 1793, pan y bu fal y soniwyd, ddihenyddio brenin a brenines y wlad hono ac i holl wledydd crêd gyhoeddi i'w herbyn. Er nas gall Prydain honni iddi gael llwyddiant yn ei holl frwydrau ar dir, eto sicrhaodd y rhyfel hon iddi arglwyddiaeth y môr yn llwyr. Y prif frwydrau oeddynt Meh. 1, 1794, rhwng y llyngeswr Howe â llynges Ffrainc; Chwef. 14, 1797, rhwng iarll St. Vincent â'r Yspaeniaid, un arall Hyd. 11 yn yr un flwyddyn, rhwng y llyngeswr enwog Duncan â'r Ellmyn, ac un Awst 1, 1798 wrth aber afon Nile, rhwng y llyngeswr enwog Nelson â'r Ffrancod. Y canlyniad o frwydrau mor ysplenydd ag y rhai hyn, a barodd i Ffrainc golli meddiant o'i holl ardaloedd pellenig. O'r diwedd gwnaed ammodau heddwch Hyd 1, 1801, ac yn fuan cyhoeddwyd heddwch cyffredinol.

Ond nid oedd yr heddwch hwn o hir barhâd, gan i Bonaparte ommedd breintiau deiliaid i'r Saeson oedd yn Ffrainc, ac anfon yspiwyr i olrhain ei glenydd môr, &c. Goresgynwyd hefyd ardaloedd y Swissiaid er addaw tangnefedd iddynt yn y cydundeb a wnaed yn Luneville, ac yr oedd byddin Ffrengig yn aros yn Holland er ammodi yn dêg na arhosent yno yn hwy. Dygasent hefyd oddiar eu perchenogion Sardinia, Piedmont, Parma, Placentia, &c. Ac ar i genadydd Lloegr ymresymu â'r penllywydd o berthynas i'r cyfryw ymddygiad, cafodd atebion sarug, ac yn eu plith na allai Prydain yn unigol wrthsefyll gallu Ffrainc, &c. Y canlyniad oedd galw y cenadydd adref, ac

ymroddi i barotoi peiriannau yn erbyn rhwysg y gormeswr. Holland ac Yspaen yn gorfod ymuno â Ffrainc yn y rhyfel, diosgwyd y gwledydd hyny agos o'u holl longau gan Loegr. Ac er i'r Ffrancod yn 1804, fygwth goresgyn Lloegr fal y soniwyd, yr oedd eu llongau hwythau yn parhau i dyfod yn yspail iddi, hyd y rhwyg echrys a fu arnynt yn Trafalgar gan y llywydd enwog Nelson.

Yn 1806, cynnygiodd Lloegr ymheddychu â Ffrainc, ond er fod y llyngeswyr enwog Strachan wrth Rochfort, Duckworth wrth San Domingo, Popham wrth benrhyn deheuol Affrica a Buenos Ayres, ac ereill yn dra llwyddiannus yn tarfu rhwysg eu llyngesau, yr oedd llwyddiant arfau Ffrainc yn erbyn yr Austriaid yn rhwystro gwrandawiad arno. Yn y flwyddyn hon y bu farw Pitt prif weinidog y deyrnas, ac y daeth Fox tros rai misoedd cyn angau i'w le.

Yn 1807, Bonaparte gwedi llwyddo mewn rhan o ddarostwng Austria, Prussia a Russia y naill ar ol y llall, ymroddodd i lunio y cynghrair gogleddol, fal y cafai feddiant o lyngesau y galluoedd oedd yn terfynu ar y Llychlyn, eithr Lloegr yn deall ei amcan, a ddanfonodd lynges gref, fal y soniwyd i Copenhagen, yr hon a gymerodd feddiant o lynges y Daniaid, ac wrth hyny a ddrylliodd y cynghrair yn llwyr. Y canlyniad o hyn fu i'r gormeswr mewn ymgynddeiriogrwydd geisio dyfetha trefnidiaeth Lloegr, trwy orchymyn i holl borthladdoedd y gwledydd oedd tan ei iau, na dderbynient unrhyw ddaoedd a berthynai i Prydain. Yna Lloegr yn chwerw ar y tu arall a orchymynodd gymeryd pob llong o ba genedl bynag, a fyddai yn rhwym i Ffrainc, yr hyn oedd dechreu y cynhwrf diweddar a derfynodd yn rhyfel rhwng Prydain ac America.

Cyn diwedd y flwyddyn, yr oedd Russia yn ol brwydr Tilsit gwedi gorfod ymuno â Ffrainc, ac nid ychydig oedd yr antri a roddwyd ar Alexander am y fath ymostyngiad, er iddo cyn pen 5 mlynedd gwedi hyny, arddangos dewrder tra enwog yn erbyn y gormeswr yn Moscow. Portugal hefyd oedd yn sangfa i fyddinoedd Ffrainc, pan yr ymofynodd y teulu breninol, a phrif fawrion y deyrnas, noddfa yn Brazil. Ac yn fuan gwedi, trwy ystryw dirgelaidd y gormeswr â Godoy gweinidog Yspaen, diorseddwyd ei brenin Charles IV, a gosodwyd ei fab Fferdinand VII ar yr orsedd, fal y cafai Bonaparte rhyw ffug i arwain ei fyddinoedd yno i dawelu y derfysg oedd yn debyg o ennyn oherwydd y cyfryw gyfnewidiad. Gwedi gwahodd Charles a Fferdinand i Bayonne, i geisio terfynu y ddadl oedd rhyngddynt, carcharodd Bonaparte hwynt eill dau, a thrwy i'r freninea orfod addef mai gordderch oedd ei mab, gwnaeth iddo roddi y goron yn ol i'w dad, yr hwn drachefn a orfu arno ei rhoddi i Joachim brenin Naples brawd y gormeswr twyllodrus. Parodd hyn i wrthryfel ennyn trwy Yspaen, a bu distryw ar gantoedd o Ffrancod oedd yma ac acw mewn meddiant o amddiffynfeydd y deyrnas, er pan oedd y milwyr cartretol gwedi eu deol i ymladd brwydrau Ffrainc yn y gogledd. Llynges Ffrainc hefyd oedd yn Cadiz a gymerwyd gan yr Yspaeniaid trwy gynnorthwy Prydain, yr hon ar archiad Yspaen a Phortugal, oedd newydd anfon llongau a milwyr i achub y ddwy deyrnas o fachau distryw. Y canlyniad oedd brwydrau buddygoliaethus i Yspaen, rhwng Castanos â Romana â'r ffrencyn Dupont, a rhwng yr enwog Syr Arthur Wellesley â'r byddinoedd oedd mewn meddiant o Portugal. Ond bu tro aflwyddiannus i fyddin Lloegr tan Syr John Moore, yr hon oedd yn ngogleddbarth Yspaen yn ceisio ymuno â byddin Syr David Baird, a chyn i

hyny gymeryd lle, yr oedd byddinoedd y gelyn o Madrid a lleoedd ereill gwedi ymuno i'w herlid ymaith, ac er iddynt fod yn ngolwg eu gilydd ar hyd yr encil-daith i lân môr Corunna, gwrthododd y gelyn ymladd hyd onid oedd rhan o fyddin Lloegr gwedi myned i'r llynges oedd i'w chludo oddiyno. Er nad ellir dywedyd i'r Ffrancod gael buddugoliaeth, eto lladdwyd Syr John Moore a rhai cantoedd o'r fyddin yn y tro.

Yn niwedd yr hâf, danfonwyd llynges grêf tan arweiniad iarll Chatham i Holland, i geisio distrywio llynges y Ffrancod oedd yn afon Schelt wrth Antwerp, ond er iddi lwyddo i gymeryd Fflushing, Walcheren a manau ereill, tarfodd afiechyd (yr hwn a barodd angau miloedd o filwyr a llongwyr Prydain) yr amcan. Parodd hyn yn nghyd â'r golled ddiweddar o Buenos Ayres, trwy ystryw y llywydd Whitelock, rwgnach nid bychan gan foneddig a gwreng trwy y deyrnas, yn erbyn y cyfryw flaenoriaid, ac yn erbyn y gwŷr a'u rhoesai ar waith. Yn niwedd y flwyddyn hon, cynhaliwyd Jubilee trwy y deyrnas, gan i'w fawrhydi y brenin George III gyrhaedd y 50 flwyddyn o'i deyrnasiad.

Ond tra yr oedd gwarth yn parhau i ddilyn y côf am y gorchwylion uchod, yr oedd llwyddiant yn parhau i ddilyn amcanion yr enwog Wellington yn Yspaen, hyd oni yrodd ymaith yn llwyr fyddinoedd Ffrainc oddiyno, ac erbyn gwanwyn 1814, gwelwn ef yn ol amryw fuddygoliaethau ysplenydd yn Vimiera, Talavera, a lleoedd amrywiol ereill, gwedi myned tros fynyddoedd Pyren, a gwedi meddiannu Bordeaux a threfydd cedyrn ereill yn Ffrainc; ac ar yr un pryd gwelwn luoedd Austria, Russia, and Prussia, tan arweiniad y tri phen coronog, â llywyddion enwog ereill, gwedi anturio dros y terfyn ar y tu arall. Y canlyniad o hyny ydoedd i lysoedd Ewrop anfon cenhadau i orsaf y rhyfel, gan ddisgwyl fod rhwysg tanbaid y gormeswr bellach gwedi dofi, ac y byddai i heddwch cyffredinol gael ei lunio yn ddïatreg: ond er cynyg iddo Ffrainc yn ol yr hen derfynau, mynai yn sarug benodi brenin o'i dylwyth ei hun i reoli Itali; a mynai i ran o'r Helcdd berthynu i'r ymerodraeth: yna dadglymwyd y cyfarfod, ac anturiodd y lluoedd cyngbreiriol o Chatillon rhyngddynt â Paris, y lle gwedi rhai brwydrau buddugol a gyrhaeddasant: a phan oeddynt ar ruthro arni, daeth Marmont allan â chenadwri heddychlon oddiwrth fawrion y dref at y penau coronog, y rhai gyd a'u gwarcheidwaid yn unig rhag mwyau y derfysg a aethont i mewn, a chydunwyd i ddiorseddu y gormeswr, ac i Louis XVIII,* brawd y brenin a ddihenyddiwyd, eistedd ar yr orsedd. Napoleon wedi encilio o Chatillon i Fontainbleau, ac yn deall ei bod weithian yn rhy hwyr i edifarhau, yn enwedig gwedi i'r genad Ney adrodd iddo gyhoeddiad Alexander o Russia, na wnai mwyach unrhyw gydundeb â'r gormeswr nag â yr un o'i epil; ac hefyd o fod miloedd o'i filwyr oddi yma a thraw yn ymuno â llumanau Louis o Bourbon, a ymroddodd yn ei enw ei hun a phawb a berthynai iddo, i ymddïosg o bob hawl i goron Ffrainc; felly i ynys Elba† yn môr y canoldir y trefnodd y cyngh-

* Yn Mhrydain y cartrefodd ei fawrhydi ac amryw o'r hîl freninol er dechreu y gwrthryfel yn Ffrainc, ac weithian mae ei freninol uchel radd GEORGE, rhaglaw y deyrnas, gwedi gorchymyn i'w long freiniol tan arweiniad ei frawd dug Clarence, prif lyngeswr Prydain, i ddanfon ei fawrhydi i'w wlad.

† Ynys fynyddig yn cynnwys ynddi haiarn, plwm, &c. ydyw Elba, o ddeutu 40 milltir o amgylchiad ac nid 80, fal y crybwyllwyd yn tu dalen 118.

weirwyr a mawrion Paris i'w ddëol ef a'i deulu, i fyw yno (heb ryddid i ddyfod o honi) ar 24 000 o bunnoedd yn flynyddol am ei oes!! Fal hyn y daeth terfyn i rwysg gormeswr creulon, wedi bod flynyddau lawer yn ffangell chwerw i holl Ewrop, yn nghyd â pharthau ëang ereill o'r ddaear: a pha galon y sydd heb ymlenwi o ddïolchgarwch i'r Bod y sydd yn gor-lywodraethu yn mrenhiniaethau dynion am y fath ymwared; ac am y gobaith, gwedi oes o dywallt gwaed dynol ryw, fod fendithion hedd eto ddadseinio bro a bryn.

Am ansawdd y rhyfel sy newydd ennyn rhyngom ag America, oherwydd ystryw Ffrainc yn ceisio tarfu trefuidiaeth Prydain, a thrwy hyny yn ei hannog i rwystro llongau unrhyw wlad arall i fyned i'w phorthladdoedd, gwel sylw mor helaeth ag y goddef cylch y gwaith hwn, yn hanes y wlad ëang honno.

---

# YSGOTLAND.

### NEU YR ALBAN.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Mynyddoedd.. Afonydd.. Llynau.. Coedydd. Llysiau.. Mwngloddiau.. Camlesydd.. Hynafiaethau.. Ynysnedd.*

YSGOTLAND, yr hon hefyd a elwir Alban neu Brydyn, sydd yn llunio parthau gogleddol Prydain fawr, ac yn gorwedd rhwng lledred 54° a 59° yn ogleddol, a rhwng hydred 1° a 6° yn orllewinol, felly yn 282 milltir o dde i ogledd o hyd, ac o 148 i 38 milltir o led: y cyfan yn 18,000,000 o erwau, o ba rai mai 14,000,000 yn fynydddir a diffaethwch diles. Cylchynir Ysgotland o du y de gan ffrwd Solway a thrum Cheviot, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Loegr, o du y dwyrain gan fôr Almaen, ac o du y gogledd a'r gorllewin gan fôr Celyddon, a môr Ywerddon, neu yn hytrach y môr Werydd.

RHANIADAU.] Rhenid Ysgotland gynt yn ddwy ran, a ffrwd Fforth oedd y terfyn rhyngddynt: y rhan ddeheuol oedd yn cynnwys (fal y mae hyd heddyw) 18 swydd, ac Edinburg yn brif ddinas iddi, fal i'r holl deyrnas; ac y rhan ogleddol yn 15 swydd, ac Aberdeen yn brif ddinas: ond weithian adnabyddir dosbarthiadau Ysgotland wrth yr enwau ucheldir ac iseldir, â'r swyddi a'u had-raniadau i siryddiaethau, cantrefydd, &c. yn ol yr hyn a ganlyn.

| *Swyddi.* | *Siryddiaethau. Cantrefydd, &c.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| 1. Edinburg. | Mid Lothian. | Edinburg, Musselburg, Leith, a Dalkeith. |
| 2 Haddington. | East Lothian. | Dunbar, Haddington, a Berwic ogledd. |
| 3. Merse *gynt* Berwic. | Merse a Lauderdale. | Dunse a Lauder. |
| 4. Roxborough. | Tiviotdale, Lidisdale, Eskdale ac Eusdale. | Jedburgh, Kelso, a Melross. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 Selkirk. | Coedwig Ettrick. | Selkirk. |
| 6. Peebles. | Tweedale, | Peebles. |
| 7. Lanark. | Clydesdale. | Glasgow, Hamilton, Lanark, a Rutherglen. |
| 8. Dumfries. | Nithisdale, Annandale. | Dumfries. Annandale. |
| 9. Wigtown. | Galloway, parthau gorllewinol. | Wigtown, Stranraver, a Whitehorn. |
| 10. Kircudbright. | Galloway, parthau dwyreiniol. | Kircudbright. |
| 11. Air. | Cyle, Carrick, a Cunningham. | Air, Kilmarnock, Irvine, Maybole. |
| 12. Dumbarton. | Lenox | Dumbarton. |
| 13. Bute, a | Bute, Arran, a | Rothsay, Wick, |
| 14. Caithness. | Caithness, | a Thurso. |
| 15. Renfrew. | Renfrew. | Renfrew, Paisley, Greenoc, a Glasgow. |
| 16. Stirling. | Stirling. | Stirling a Falkirk. |
| 17 Linlithgow. | West Lothian. | Linlithgow, Borestowness, a Queen's Ferry. |
| 18. Argyle. | Argyle, Cowal, Knapdale, Kintire a Lorn, a rhan o ynysoedd Hebrides, sef Ila, Jura, Mull, Uist, Teri, Col a Lismore. | Inverary, Dunstaffnage, Killonmer, a Campbeltown. |
| 19. Perth. | Perth, Athol, Gowry, Breadalbin, Monteith, Strathearn, Stormont, Clenshield, a Raynock. | Perth, Scone, Dumblane, Blair a Dunkeld. |
| 20. Kincardine. | Mearns. | Bervie, Stonehaven, a Kincardine. |
| 21. Aberdeen. | Mar, Buchan, Garioch, a Strathbogie. | Aberdeen *hen* Aberdeen *newydd*, Frasenburgh, Peterhead, Kintore, Strathbogie, Inverary, a Meldrum *hen*. |
| 22. Inverness, | Aird, Strathglass, Sky, Harris, Badenoch, Lochaber, a Glenmorison, | Inverness, Inverlochy, Fort Augustus, Boileau. |
| 23. Nairne, a 24. Cromarty. | Parth gorllewinol Murray a Cromartie. | Nairne, Cromartie. |
| 25. Fife. | Fife. | St. Andrews, Cowpar, Falkland, Kirkaldy, Innerkythen, Ely, Burnt-Island, Dumfermline, Dysart, Anstruther, ac Aberdour, |
| 26. Forfar. | Forfar, Angus. | Montrose, Forfar, Dundee, Arbroath, a Brechin. |

| | | |
|---|---|---|
| 27. Banff. | Banff, Strathdovern, Boyne, Engy, Balveny, Strathawin, a rhan o Buchan. | Banff a Cullen. |
| 28. Sutherland. | Strathnaver a Sutherland. | Strathy a Dornoch. |
| 29 Clacmannan, a rhan o Fife. | | Culross, Clacmannan, |
| 30. Kinross. | | Alloa, a Kinross. |
| 31. Ross. | y ddwy Ross, ynysoedd Lewis, Lochbroom, Lochcarun, Ardmeanach, Redcastle, Ferrintosh, | Rosemarkie, a Kelso newydd. |
| 32. Elgin. | Murray a Strathspey | Elgin a Forres. |
| 33. Orkney. | ynysoedd Orkney a Shetland. | Kirkwall, Skalloway |

Y cyfan yn 33 o swyddi, y rhai ydynt yn dewis 30 o aelodau i senedd Prydain fawr; Bute a Caithness yn dewis bob yn ail, a'r un modd Nairne a Cromartie, a Clacmannan a Kinross.

Gwyneb y wlad Ansawdd y tir.] Parthau debeuol Ysgotland ydynt debyg o ran eu gwyneb i Loegr, ac y parthau ereill sydd fynyddig a noethlwm, ond yn hardd gan yr amrywiad o lynau, afonydd, rheiadrau, &c. Mae rhai o'r nentydd rhwng mynyddau yr ucheldir gwedi profi yn dir tra ffrwythlon, gwedi y drinfa ddiweddar a fu arnynt yn ol trefn y Saeson. Yr oedd prinder coed Ysgotland yn ddiareb hyd ddechreu yr oes hon, pan yr ymroddodd mawrion y wlad i blannu yn helaeth yma ac acw trosdi.

Hin a Thymhorau.] Er bod rhanau o Ysgotland mor bell i'r gogledd a bod hir-ddydd hâf a byr ddydd gauaf tros 18 awr o hyd, eto mae ei hinsoddau yn fwy tymherus, nag unrhyw o wledydd y cyfandir sydd yn gorwedd tan yr un hingylch. Yr awelon claiar oddiar y moroedd cylchynol sydd yn lleddfu awchlymder yr oerni, ac yn peri i'r awyr fod yn iachus yn wastadol.

Mynyddoedd.] Trumau Ysgotland ydynt, 1. Trum Grampian yr hon sydd yn cyrhaedd ar draws y wlad o Aberdeen i Cowal yn swydd Argyle. 2. Trum Pentland sydd yn cyrhaedd ar draws Lothian, ac yn ymuno â mynyddoedd Tweedale. 3. Trum Lammer muir yn estyn o fenydd dwyreiniol y wlad trwy Merse i'r parthau gorllewinol. 4. Trum Cheviot ar y terfyn rhwng Ysgotland a Lloegr. Y mynyddau ereill ydynt Ben Fouhish yn swydd Ross, yr hwn sydd 1400 o latheni o uchder ac ar ei nen wastadedd o dair milltir o hyd, a haner milltir o led. Ben Nevis ar gyfer Fort William sydd uwch nag yw y Wyddfa, ac arno gaenen oesol o eira, hâf fal gauaf.

Afonydd.] Afon Fforth ydyw y fwyaf yn Ysgotland: ei chodiad sydd yn Monteith, ac ei rhediad troellog sy heibio Stirling i Ffrwd y sydd a'i henw arni, yr hon wrth Edinburg sydd yn ymuno â môr Germani.

Afon Tay sydd yn codi o lyn o'r un enw yn Broadalbin, ac yn rhedeg heibio i Perth i'r môr wrth Dundee.

Afon Spey y wylltaf o afonydd Ysgotland, sydd yn codi o lyn o'r un enw yn Badenoch ac yn ymuno â môr Germani wrth Elgin, fal ac y mae afonydd bychain Dee a Don yn ymarllwys i'r môr wrth Aberdeen.

Afon Tweed sydd a'i blaenau yn nghyffiniau swydd Lanark, ac

wedi troelli llawer sydd yn ymuno â'r môr wrth dref Berwic: mae hon am rai milltiroedd yn llunio terfyn rhwng Ysgotland â Lloegr.

Afon Clyde sydd yn codi yn Annandale, ac wedi llifo heibio Lanark, Hamilton, Glasgow, Renffrew, Dumbarton a Greenoc, sydd yn ymuno â ffrwd Clyde gyferbyn ag ynys Bute yn ngorllewin-barth Ysgotland.

Mae amrywiol o afonydd bychain ereill yn Ysgotland a physgod yn doreithiol ynddynt: gelwir y rhan fwyaf o honynt Esk gair Celtaidd am afon, sef wysg.

Llynau.] Mae Llynau Ysgotland môr liosog nad ellir eu hanesu yn fanwl yn y lle hwn. Y Llynau a elwir Tay, Lomond, Nes, Au, a rhai ereill agos gymaint, ydynt a'i glenydd mynyddig yn ddarfrithedig o reiadrau, coedydd, clogwyni, &c. Geilw yr Ysgotiaid rai cenciau o fôr yn llynau, megys llyn ffyn, yr hwn sydd 60 milltir o hyd a 4 o led, ac sydd hynod am ei gynnyrch toreithiol o benwaig. Llyn Spinie wrth Elgin sydd hynod am fod elyrch agos yn wastadol arno. Galwant hefyd geinciau ereill o fôr yn ffrydau, megys ffrwd Solway yr hon sydd yn gwahanu Lloegr oddiwrth Ysgotland ar y tu gorllewin, ffrwd Fforth, ffrwd Murray, a ffrwd Cromartie a Dornoch.

Camlesydd.] Y gamlas sydd yn uno afon Fforth ag afon Clyde a ddechreuwyd yn 1768, ac a orphenwyd yn 1790. Mae y gamlas hon yn 35 milltir o hyd, ac yn fordwyol i longau nofio arni o fôr dwyreiniol Ysgotland i'r môr gorllewinol; felly yn lleihau taith trefnidwyr o Edinburgh i'r Ywerddon 600 milltir. Mae 20 clô arni o'i chychwyn i'w man uchaf, yr hwn sydd 155 troedfedd goruwch y môr; yna mae gwastadedd 18 milltir o hyd, ac oddiyno mae 19 o gloäu i ddisgyn y llongau i afon Clyde. Cludir ef tros 36 o afonydd, dwy ffordd fawr, a thrwy 38 o ddyfr-ffosydd o geryg nâdd tros nentydd.

Mae camlas Caledonia o Inverness trwy lynau Ness, Lochie, a Linney er 1804 gwedi ei chychwyn: dywedir y bydd hon yn ddigon dofn i longau rhyfel nofio arni. Camlas Crinan er gochel cylchynu y tir a elwir Cantire sydd gwedi ei chychwyn er ys blynyddau ac yn myned rhagddi hyd y pryd hyn.

Coedydd. Llysiau.] Soniwyd yn barod fod prinder coed yn Ysgotland hyd onid ydyw diwydrwydd mawrion yr oes hon yn parhau i blannu, yn mynegi llawnder yuddi ryw-bryd i ddyfod. Mae yn hysbys wrth fod coed yn ngwaelod y corsydd aml y sydd yn Ysgotland, mai gwlad goediog ydoedd yn y dyddiau gynt. Sylva Caledonia neu Coed Celyddon gynt oedd yn ëang iawn, sydd yn adnabyddus weithiau wrth yr enw Ettric, yr hyn hefyd oedd enw holl swydd Selkirk gynt. Mae amryw ardaloedd o Ysgotland ag enw fforest arnynt, megys un Abernethy, Parff, Reay, Broachiltive ac ereill. Ffawydd a derw sydd yn tyfu oreu yn Ysgotland.

Mae helaethrwydd o wenith, rhyg, haidd, ceirch, llîn, cywarch, gwair a ffrwythydd cyffredin gogledd-barthau Lloegr yn Ysgotland, ac fal yr elo amaethyddiaeth ar gynnydd ynddi, gall mewn ychydig amser fod yn deilwng o enw gwlad ffrwythlon.

Mwngloddiau.] Dywedir bod Iago V gwedi gwahodd Ellmyn i gloddio aur yn Ysgotland, ac iddynt lwyddo yn y gorchwyl hyd oni pharodd y derfysg wladol yn nyddiau ei ferch iddynt ymado a'r wlad, ac y mae y cloddfeydd hyd heddyw heb eu had-agor. Yr oedd cloddfeydd arian yn agored hyd yn ddiweddar, ac y mae y pryd hyn amryw goddfeydd plwm, efydd, ac haiarn ar waith yn nghymydogaeth

Edinburg ac yn amryw o swyddi yr ucheldir. Glô sydd ebelaeth mewn amrywiol ranau o Ysgotland. Alum, hefyd sydd yn dwyn cryn elw i'r wlad. Mae crisiant o amryw liwiau a rhai meini gwerthfawr ereill yma ac acw i'w cael

HYNAFIAETHAU] Amrywiol ydyw y gweddillion hynafiaethau y sydd yn Ysgotland. Yr hyn a berthyn i'r Rhufeiniaid ydynt temlau, amddiffynffeydd, ffyrdd, beddrodau, a'r cyffelyb; ac yn enwedig y mûr a adeiladwyd ar draws y deyrnas o ffrwd Fforth i ffrwd Clyde gan Severus medd rhai, a chan Antonius Pius medd ereill, ac sydd a darnau o'i sylfaen hyd heddyw yn weledig. Dynodir hefyd hynafiaethau y Pictiaid yn demlau y duwiau cenhedlig, allorau y derwyddon, &c. mewn amryw fanau yno; hefyd cestyll y Daniaid, a cholofnau coffäol o'u gorchestion.

Mae rhai anianyddion gwedi olrhain gweddillion moelydd tanllyd yn yr Alban, megys ar fynydd Finehaven, a mynyddoedd Bergonium, lle y cloddir llosgfeini, lludw, a defnyddiau toddedig tebyg i'r defnyddiau a geir ar lethr Hecla, a moelydd tanllyd ereill. Ar nen mynydd Scorna Lappich y ceir toraeth o geryg gwynion crisiannaidd yn gymysgedig â môr-gregyn, er i'r mynydd fod 20 milltir o leiaf oddiwrth y môr. Mae rhai o'r ogofeydd lliosog y sydd yn Ysgotland yn defnynu dwfr y sydd yn ymgorffoli agos mor fuan ag y syrthio.

YNYSOEDD.] Ynysoedd Ysgotland ydynt ynysoedd Hebrides, ynysoedd Orc, ac ynysoedd Shetland.

Ynysoedd HEBRIDES o ddeutu 300 o rifedi ydynt yn ngogledd orllewinol barthau yr Alban rhwng Lledred 55° a 59° Gdd. Y rhai mwyaf o honynt ydynt Arran, Ilay, Jura, Mull, Skye, Lewis a Harris, y ddwy Uist, Iona, Staffa, a Kilda.

Ynys Arran 24 milltir o hyd ac o ddeutu 12 o led, sy fynyddig ac ynddi o ddeutu 7,000 o drigolion. Mae hon gyd ag ynys Bute 12 milltir o hyd a 4 o led, a dwy neu dair o rai llai, yn llunio swydd Bute. Rothsay ydyw prif dref y swydd: rhoddai gynt enw dug i etifedd coron Ysgotland, fal y dyry yr awrhon gyd â Chernyw i dywysog Cymru. Trigolion Bute ydynt 4,000.

Ynys Ilay, 24 milltir o hyd a 18 o led sydd yn cynnwys ynddi lawer o dir a ffrwythai yn dda pe trinid ef. Canfuwyd cloddfa o blwm ynddi yn 1763. Y trigolion ydynt 7,000.

Ynys Jura, 39 miltir o hyd a 7 o led sydd greiglyd a llòm: mynydd Ben-an-oir ynddi sy 900 llath o uchder. Y trigolion ydynt 1,000.

Ynys Mull, 30 milltir o hyd ac mewn rhai manau o gymmaint lled sydd dra mynyddig, ac ynddi amryw ferddynau hen gestyll. Y trigolion ydynt rhwng 5 a 6,000.

Ynys Skye, y fwyaf o ynysoedd Hebrides, yn 50 milltir o hyd ac mewn rhai mannau yn 20 o led, sydd fynyddig a chorsog: rhan ydyw o swydd Inverness. Y trigolion ydynt 15,000.

Ynys Lewis a Harris, 90 milltir o hyd ac o 10 i 20 o led, sydd le llom. I'r de iddi mae y ddwy Uist a Barra, a dywedir fod trigolion y cyfan yn 20,000.

Ynys Iona, 3 milltir o hyd, oedd gorsaf dysgeidiaeth yr Alban yn y 6 ganrif: ynddi y claddwyd St. Columba: mae yn hon rai gwytheni o farmor gwyn.

Ynys Staffa 10 milltir i'r gogledd ddwyrain o Iona, a milltir o hyd a haner o led heb onid un teulu yn ei chyfanneddu, sydd hynod am

ogof Fingal y sydd ynddi: mae nen yr ogof ar y tu nesaf i'r môr yn cael ei chynnal gan golofnau 3, 4, a 5 ochrog Basalt o 40 i 56 troedfedd o uchder: ei hyd sydd 371 troedfedd, lled ei genau 53 troedfedd, ac ei lled yn y twr pellaf 20. Syr Joseph Bankes yn niwedd y ganrif ddiweddaf yn ei daith i ynys yr Iâ, a'i canfu gyntaf i roddi hanes teg o honi.

Ynys Tirey y sydd hynod am ei marmor o liw coch, ac ynys Col 13 milltir o hyd ac 800 o drigolion, sydd medd Johnson yn un graig a chaenen deneu o bridd drosti.

Ynys Kilda y fwyaf gorllewinol o ynysoedd Hebrides, 3 milltir o hyd a 2 o led sydd le tra ffrwythlon. Mae 27 o deuluoedd yn ei chyfanneddu y rhai am ran fawr o'r flwyddyn ydynt yn byw ar wyau adar y mor sydd yn nythu yn ei glenydd clogwynog.

Mae llawer o hen arferion ofergoelus yn cael eu cynnal gan drigolion yr ynysoedd hyn, megys swyngyfaredd, dewinio, adrodd hen chwedlau am orchestion goruwch-anianol eu hynafiaid, &c, er maint ydyw y llafur gan genadon o eglwys Ysgotland i'w diwygio.

Ynysoedd Orc neu Orkney o ddeutu 80 o rifedi ydynt yn gorwedd yn ngogledd-barth yr Alban rhwng lledred 58°. 48. a 59° 20 Gdd. ac yn cael ei gwahanu oddiwrth y lan gan ffrwd Pentland 12 milltir o led. Cyfanneddir 26 o honynt: y lleill ydynt greigleoedd diffrwyth oll o enwau *holm* neu *yskery*.

Ynys Pomona y fwyaf o ynysoedd Orkney, 24 milltir o hyd ac o 2 i 9 o led sy wlad ffrwythlon, ac ynddi 4 porthladd eang a 9 o blwyfydd. Yn nhref Kirkwall sydd ynddi mae eglwys wych, a chlochdy uchel a chlychau soniarus ynddo.

Ynys Ronaldsha ddeheuol 7 milltir o hyd ac o 2 i 5 o led ydyw y ffrwythlonaf o ynysoedd Orkney. Ynys Hoy 10 milltir o hyd ac o 2 i 5 o led sydd hynod am fod mynydd tra uchel ynddi, a'i nen yn dysgleirio yn yr haf pan y byddis yn bell oddiwrtho ond yn diflannu pan y nesaer ato. Ynys Westra sydd 8 milltir o hyd a 2 o led. Ynys Ronaldsha ogleddol sydd yn 3 milltir o hyd ac un o led.

Trigolion ynysoedd Orkney gwedi hanu o drefedigion o Norway ac o iseldir Ysgotland ydynt 23,000 o rifedi. Maent yn genedl tra bywiog mewn trefnidiaeth, gan eu bod yn anfon allan yn flynyddol o gig, ymenyn, gwêr, crwyn, pysgod hallt, lliain a kelp werth 27,000l. ac yn derbyn o goed, glo, sygr, nwyfau, &c. werth o ddeutu 50,000l. yn flynyddol.

Ynysoedd Shetland o ddeutu cant o rifedi ydynt 60 milltir i'r gogledd ddwyrain o ynysoedd Orkney, rhwng lledred 49° 45' a 61° 10' Gdd. Y fwyaf o honynt a elwir Mainland sydd 57 milltir o hyd ac o 10 i 12 o led ond mor doredig nad oes un parth o honi oddiar 2 filltir oddiwrth y môr. Cyfrifwyd trigolion ynysoedd Shetland yn 1796 yn 20,186: eu prif ymborth ydyw pysgod, y rhai sydd yn heigio o'u hamgylch, ac a'r amser heddwch sydd yn llwytho cantoedd o longau o Holland a lleoedd ereill. Mae yr ynysoedd hyn yn amser haf yn anneddau hyfryd, ond yn y gwrthwyneb yn y gauaf gan fyrder y dydd a'r tymhestloedd mynych sydd yn ymweled â hwynt. Yr oedd ynysoedd Shetland ac Orkney yn perthyn i Norway hyd eu rhoddiad yn gynnysgaeth i dywysoges oddiyno a briododd Iago III. Mae Shetland ac Orkney yn llunio un o swyddi Ysgotland ac felly yn danfon un aelod i senedd Prydain fawr.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Crefydd.. Llywodraeth.. Iaith. Dysgeidiaeth.. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.*

TRIGOLION Ysgotland yn 1801 oeddynt 1,680,911; ond yn ol y cyfrif yn 1811 yr oeddynt yn ychydig ychwaneg na 2,000,000.

MOESAU AC ARFERION.] Yr Ysgotiaid ydynt ddynion têg a hardd, ac er iddynt fod yn esgyrniog a theneu, maent yn gryfion o gorffolaeth, ac yn ddewrion ar faes rhyfel. Maent o ran eu moesau cyffredinol mewn glanweithder a'r cyffelyb yn tebygu i'r Saeson, ond bod crefydd sefydledig y wlad yn peri cryn wahaniaeth mewn defodau eglwysig, megys bedyddio, priodi, claddu, &c. Y bedydd a weinyddir heb feichnydd tros y plentyn ond ei rïeni yn unig. Priodasau a gynnelir yn lle ddebyg i'r arfer sydd yn mhlith y Cymry, sef arlwyo gwlêdd i nifer o wahoddedigion, a'i therfyn yn gyffredin gwedi blino yn canu a dawnsio yn ymgecru ac ymladd. Marwolaeth a hysbysir gan isglochydd y plwyf, yr hwn gyd â chlul-gloch yn ei law, a hysbysa yn mhen pob hëol enw y marw, ac y pryd y cleddir ef. Ar amser claddu ymgasgla torf fawr (os cymeradwy oedd buchedd y marw) a rhoddir ef yn y bedd heb wr eglwysig nag arall yn gweinyddu unrhyw ffurf, ond câr nesaf y marw yn unig yn diolch i'r dorf am eu caredigrwydd.

Mae y mawrion yn ngwychder eu gwisgoedd ac eu trigfanau, ac yn lliosogrwydd eu danteithion yn tebygu i'r Saeson, ond gwisgoedd y werin yn enwedig trigolion yr ucheldir sy fath o frethyn tryfrith o liwiau, yr hwn a arferynt yn wisg wladol er ys oesoedd lawer, a'u hymborth cyffredin ydyw bara ceirch, uwd, a chawl cenin a'r cyffelyb, ac felly wrth fyw yn gymhedrol (heb eu gwenwyno â danteithion) maent yn gadarn o gorff â meddwl. Y chwareuyddiaethau hefyd ydynt gyffelyb i'r hyn sydd gan y Saeson, ond bod cerddoriaeth y cod-bibau mewn rhai manau yn dra souiarus, ac yn bywiocau yr ysgotyn rhag arswyd perygl fal march pan glywo sain yr udgorn.

CREFYDD.] Presbyteriaeth* ydyw crefydd wladol Ysgotland. Y diwygiwr a fu yn offerynol i'w phlannu yno ydoedd Iohn Knox, yr hwn a arweiniodd iddi yr un defodau eglwysig ag a blanasai Calvin yn Geneva. Mae 941 o blwyfydd yn Ysgotland; ac mae undeb y rhai cyfnesaf a'u gilydd yn llunio y Henaduriaeth, o ba rai mae 69: ac mae yr henaduriaethau cyfnesaf yn llunio y cymanfëydd taleithiol, o ba rai mae 15: ond y prif lŷs eglwysig ydyw y gymanfa gyffredinol yr hon sydd yn ymgyfarfod bob gwanwyn, ac un o fawrion y deyrnas yn ddirprwywr tros y brenin i gynnorthwyo y rhaglaw a gyd dewisont gwedi ymgasglu. Bydd rhyddid i holl weinidogion y deyrnas, ac henuriaid pob eglwys fod yn y cyfarfod hwn, ac mae cyflawn ryddid iddynt lefaru ar unrhyw achos eglwysig a fyddo tan sylw. Arferai y llŷs hwn arweddiad lymdost yn erbyn yr ysgymunedig hyd yn ddiweddar: ond weithian yn lle rhoddi sén gyhoedd yn yr eglwys i anllad-ddyn ar ystôl edifeirwch, mae arian yn rhoddi gwaredigaeth

---

* *Eglwys Ysgotland* sydd a'i phrif egwyddorion yn gydsyniol a thileran Calvin, ac yn cael ei llywodraethu gan henaduriaid o ddewisiad y gymanfa wladol. Bu brwydrau trychinebus yn Ysgotland ar ddeoliad y grefydd esgobaethol o honi.

o'r cyfryw benyd. Yr enwau ereill sydd yn Ysgotland ydynt eglwys Loegr, ymwahanwyr,* crynwyr, bedyddwyr, ac amryw ereill y sydd yn Lloegr.

Llywodraeth.] Canmolid y drefn o lywodraethu oedd yn Ysgotland yn amser ei brenhinoedd, yr oedd pob un a ddaliai ychydig o dir y goron am unrhyw orchestwaith milwraidd yn aelod o senedd y deyrnas. Y llw a gymerai y brenin wrth ei goroni oedd fal hyn. "Yn enw y Cyfryngwr, Yr ydwyf yn addaw tri pheth i'm deiliaid Cristionogol. Yn gyntaf gorchymynaf ac ymegniaf a'm holl allu i eglwys Duw â fy neiliaid Cristionogol fwynhau gwir heddwch dan fy llywodraeth. Yn ail, gwaharddaf bob dynion o ba rádd bynag rhag arfer trais ac anghyfiawnder. Yn drydydd, dilynaf yn fy holl oruchwyliaethau farn â thrugaredd, fal y byddo i'n Duw trugarog ddangos tosturi i mi a chwithau." Weithian yr un drefn o lywodraethu sydd yn Ysgotland ag yn Lloegr, onid yn unig mewn pethau eglwysig, yr hyn a berthyn i'r gymanfa gyffredin wladol, heb unrhyw i ymofyn â nhwy mewn pethau dyrys ond uchel lŷs senedd Prydain fawr.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Arferir dwy iaith yn Ysgotland: un yw y saesoneg yn nghyd ag ychydig o gymysgedd o iaith y Llychlynigion ac sydd yn cael ei harfer gan drigolion yr iseldir; ac y llall yw y Wyddelaeg adnabyddus yn yr ucheldir wrth yr enw *Erse*, ac yn un ag iaith y Werddon.

Mae y wlad hon fal Lloegr gwedi meithrin amryw o ddysgedigion euwog, ei hurdd ysgolion ydynt yn St. Andrew, Aberdeen, Edinburgh, a Glasgow, lle mae pob cainc o wybodaeth mewn ieithoedd a chelfyddydau ag a dreiddir iddynt yn mhrif ysgolion Caergrawnt a Rhydychen yn cael eu dysgu. Mae hefyd ysgol yn mhob plwyf yn Ysgotland o drefniad y gymanfa wladol i addysgu y werin.

Y pader yn iaith iseldir Ysgotland sydd fal hyn,

*Uor Fader quhilk beest i Hevin Hallowit weird thyne nam. Cum thyne kingrik. Be dune thyne wull as is i Hevin sva poyerd Uor dailie breid gif us thilk day. And forleit us nor skaiths, as we forleit tham quha skaith us. And leed us na intil temtation. Butan fre us fra evil. Amen.*

Dinasoedd a threfydd.] Edinburgh y brif ddinas sydd yn sefyll o fewn dwy filltir i'r môr y sydd yn golchi glenydd dwyreiniol y wlad. Y prif adeiliadau ynddi ydynt gastell, (yr hwn oedd yn anorfodadwy cyn dyfeisio drylliau tân) ar gwr uchaf y ddinas, Llys breninol a elwir Holyrood, y brif eglwys, &c. Mae y gyfran o honi a elwir yr hen ddinas, ag sydd ar lethr gallt yn gulion ei heolydd, ond y tai yn 12 neu 15 uchder llofft. Y rhan newydd o honi yn sefyll ar wastadedd teg sy dra hardd ei heolydd a'i hadeiladau. O fewn dwy filltir iddi mae y dref fawr a elwir Leith, yr hon ydyw ei phorthladd; ac ar y tu dwyrain iddi mae Musselburgh a Dalkeith dwy o drefydd bychain hardd. Y trigolion ydynt 83,000.

Glasgow, y nesaf o ran maint i'r brif ddinas, sydd yn sefyll ar afon

* *Ymwahanwyr* sydd enw a roddir i ganlynwyr y ddau frawd Ralph ac Ebenezer Erskine, y rhai yn 1733 a ymneillduasant oddiwrth eglwys Ysgotland, o herwydd anghydundeb mewn llywodraeth eglwysig: sef yn benaf am na chafai pob cangen o eglwys ddewis gweinidogion iddi heb gydsyniad y gymanfa wladol.

Clyde, yn mharthau gorllewinol y deyrnas. Mae hon yn nhrefnusrwydd a gwychder ei heolydd yn rhagori ar unrhyw yn Ysgotland; ac nid bychan ydyw ei threfnidiaeth yn amser heddwch ag America, ac ag ynysoedd yr India orllewinol. Mae ynddi 8 o eglwysi, 10 o gapeli, a 68,000 o drigolion.

Aberdeen, ar lan môr Almaen ellir ei hystyried yn drydydd o ddinasoedd Ysgotland: mae hon yn cynnwys dwy ddinas adnabyddus wrth yr enwau *hen* a *newydd*. Yr olaf gwedi ei llunio er rhwyddo trefnidiaeth, ydyw prif ddinas swydd o'r un enw, ac mae porthladd ëang yn perthyn iddi; y llall yn llawn filltir oddiwrthi sydd yn cynnwys y prif farchnadoedd, ond nid oes llongau yn gallu ei chyrhaedd. Mae yn mhob un urdd ysgol. Y trigolion cyd-rhyngddynt ydyw 20,000.

Perth, prif ddinas swydd o'r un enw, sydd yn sefyll ar afon Tay. Mae hon yn ddinas wych o heolydd ac adeiladau, a chryn drefnidiaeth rhyngddi yn amser heddwch â gwledydd y Llychlyn: bu gynt yn brif ddinas y deyrnas. Y trigolion ydynt 15,000

Dundee, ar aber afon Tay, sydd le o gryn drefnidiaeth mewn lliain, ŷd, penwaig, &c. Mae ynddi dair o eglwysi, a rhai adeiladau arddercbog. Y trigolion ydynt 26,000 Montrose, Aberbrothic a Brechin oll yn swydd Angus, ydynt drefydd lliosog o drigolion, a gweithfäoedd a threfnidiaeth ar gynnydd ynddynt.

ANIFEILIAID] Ychydig wahaniaeth sy rhwng anifeiliaid y wlad hon â Lloegr: cyfrifir gwartheg a defaid yr ucheldir yn llawn mor ragorol. Eryrod hefyd ydynt fwy lliosog yn mynyddoedd Ysgotland nag yn mynyddoedd Lloegr: bydd yn eu plith weithiau ddau aderyn dieithr i unrhyw le arall yn Mhrydain, a eilw y trigolion capperkaily a ptarmigan y rhai ydynt yn dra thebyg i geiliog coed.

## DOSBARTH III.

*Hanes Ysgotland.*

YSGOTLAND oedd adnabyddus wrth yr enw Celyddon, hyd o fewn ychydig oesoedd cyn i Loegr ddyfod dan rwysg Rhufain, ac yna gelwid hi yn llawn mor fynych gwlad y Pictiaid, cenedl yn ol barn Tacitus, Bede, a dysgedigion ereill, oeddynt gwedi tirio yn Mhrydain o ddeutu yr un amser ag y daeth y Lloegrwys, Belgiaid, Brython, Coraniaid, ac ereill, fal y soniwyd yn hanes Lloegr, i gyfanneddu ardaloedd ein hynafiaid.

Er bod hanesyddion Ysgotland yn enwi rhifres o frenhinoedd, gantoedd o flynyddau cyn yr oruchwyliaeth Gristionogol, ac i rai o honynt ragori mewn dewrder a grym ar unrhyw ereill, eto nid oes genym hanes y tardda unrhyw oleuni arni hyd ddyfodiad y Rhufeiniaid i Brydain, pan y bu i'r llywydd Agricola yn y flwyddyn 79, oresgyn yn aflwyddiannus barthau deheuol Ysgotland, ac i Galcacus penaeth y wlad gan lwyddiant ei arfau, wneyd sarhâd parhaus ar ogleddbarth Lloegr, hyd oni adeiladodd y Rhufeiniaid ragfuriau cedeirn o fôr i fôr i rwystro eu hymgyrch. Yn yr ail ganrif ymunodd y Pictiaid â'r Rhufeiniaid ac a feddianasant barthau deheuol y wlad, hyd oni bu i fyddinoedd Ffergus II eu gorchfygu. Yn 201, arweiniwyd Cristionogaeth iddi gyntaf gan Donald I.

Erbyn bod terfyn ar ymerodraeth Rhufain yn Mhrydain yn 448, yr oedd y Pictiaid mewn meddiant o ran fawr o Ysgotland, felly achubasant y cyfle o wneyd sarhâd distrywgar tros flynyddau lawer ar eu cymydogion deheuol, hyd oni bu i ddewrder Kenneth II yn 843 eu hymgorffoli yn un genedl a'r gwyddelod, a'u darostwng i'r un cyfreithau, ac yna enwi y wlad yn Ysgotland.

Tra yr oedd y Llychlynigion yn gwneyd sarhâd ar arfordiroedd Prydain, ac yn ymlid y trigolion deheuol yn dost, yr oedd yr Ysgotiaid yn fwy llwyddiannus yn tarfu eu hymgyrchiadau ar eu bardaloedd; ac eu cynnorthwy nhwy yn y diwedd dan Malcolm II a'u deolodd hwynt ymaith.

Malcolm III, tywysog tra enwog oedd yn llywodraethu y wlad yn 1057: priododd Margaret merch Edward mab Edmund brenin Lloegr; a merch iddo o enw Maud oedd gwraig Harri I. Lladdwyd Malcolm a'i fab Edward wrth warchae ar gastell Alnwic.

Y nesaf o frenhinoedd Ysgotland oedd Dafydd I, yr hwn oedd lwyddiannus yn ei holl amcanion, yna ei wyr Malcolm IV, a thrachefn ei fab William, yr hwn am ei hyfder yn trawsfeddiannu ardaloedd gogleddol Lloegr, a gymerwyd yn garcharor gan Harri II o Loegr, ac er prynu ei ryddid gorfu arno wneyd ei wlad yn deyrngedawl i Harri. Y nesaf oedd Alexander III, yr hwn yn marw yn ddiblant, bu gynhwrf mawr o berthynas i bwy a wisgai y goron. Y pleidiau yn honni hawl iddi oeddynt Ioan Baliol orwyr Dafydd o'i ferch hynaf Margaret; a Robert Bruce taid brenin enwog o'r un enw, ac wyr i Dafydd o'i ferch ieuengaf Isabel. A chan fod cryfder pleidiau y ddau dywysog yn lled gyfartal, a threfn yr olynol ddilyniad heb ei gwbl sefydlu, trefnwyd i Harri I o Loegr fod yn gylafareddwr rhyngddynt, yr hwn yn canfod Baliol yn fwy ufudd i unrhyw gynlluniau a osodai iddo, a orchymynodd ei goroni, ond am na ymostyngai i werthu ei ryddid ei hun ag ei ddeiliaid yn llwyr, diorseddwyd ef yn mhen ychydig amser gwedi ei esgyniad i'r orsedd.

Gwedi hyn danfonwyd byddin gref i oresgyn Ysgotland, fal yr unid hi at Loegr, a'r terfyn gwedi amryw frwydrau dychrynllyd, oedd i'r Saeson orfod cilio ymaith, ac i Robert Bruce wyr y pleidiwr uchod gael ei goroni yn 1307.

Yr oedd hwn yn dra llwyddiannus yn ei holl frwydrau â'r Saeson ac a'r Gwyddelod, felly trefnodd y senedd os byddai i'w fab farw heb blant, i'r goron fyned i'w ferch Marjory, yr hon oedd briod â gwr o enw Stuart, yr hwn oedd brif weinidog y deyrnas. Bu farw Robert yn 1328, a'i fab Dafydd II a goronwyd.

Yr oedd Dafydd o duedd addfwyn, ac yn caru heddwch, ond nid oedd heddwch iddo gan fod yr enwog Edward III oedd weithian yn blaenori ei elynion, yr hwn hefyd oedd yn ymroddi, eithr yn aflwyddiannus i ddyrchafu Edward Baliol i'r orsedd. O'r diwedd mewn brwydr echrys yn agos i derfyn y ddwy-wlad cymerwyd Dafydd i Loegr yn garcharor, ac er ei ryddhau am arian lawer bu farw yn fuan gwedi, gan adael y goron i Robert II mab Marjory Stuart merch yr enwog Robert Bruce.

Robert II, yn marw gwedi rheolaeth led derfysglyd, daeth y goron i'w fab Robert III, yr hwn oherwydd ei wendid mewn corff a meddwl a ddiorseddwyd, fal y rhoddwyd goruchwyliaeth y deyrnas i'w frawd dug Albani. Y dug yn chwennych rhwystr y goron i'w epil ei hun, a

laddodd Dafydd mab hynaf Robert y brenin dïerseddedig, yr hwn yn ofni y cyffelyb ddigwyddiad i'w ail mab Iago a'i danfonodd yn ddirgelaidd i Ffrainc, ond ar ei daith cymerodd Harri IV brenin Loegr ef yn garcharor, ac ni ryddhawyd ef hyd farwolaeth y dug Albani, pan y galwyd ef i'r orsedd.

Iago I, gwedi ei addysgu mewn egwyddorion iawn wybodaeth tra y 19 blynedd y buasai yn Lloegr, a ymroddodd ar ei ddyfodiad i'r orsedd, i ad-drefnu y cyfreithiau, &c. Ond am iddo geisio iselu traws allu y mawrion, lladdasant ef, (1437) a i fab Iago II tra yn fachgen a dderchafwyd i'r orsedd, yr hwn yn mhen ychydig ddyddiau gwedi a laddwyd wrth warchae yn erbyn y Saeson ar dref Roxburg.

Iago III, oedd dywysog egwan, ond yn chwannog i ymgecru a'i fawrion trwy ystod ei reolaeth: lladdwyd ef yn mrwydr Bannock-burn yn 1488. Ei fab Iago IV oedd dywysog dewr, a llwyddiannus yn ei amcanion i reoleiddio y cyfreithiau gorthrwm oedd mewn grym yn ei deyrnas. Priododd ferch Harri VII o Loegr, ond gan ei duedd fal ei rhyngddo a'i dad yn nghyfraith, ac yn hynafiaid i'r Ffrancod, bu rhyfel mrwydr Fflodden y bu farw, 1513.

Iago V, gwedi priodi tywysoges o Ffrainc, a esgynodd i'r orsedd, pan oedd cryn annrhefn yn Ysgotland, gan y sarhad a wnaethai y Saeson ar ei byddinoedd, ond gan iddo annog trefnidiaeth, a llunio rhai cyfreithiau llesol, adferodd drefn yn ei wlad. Ond gan na ymunai a'i ewythr Harri VIII i ddëol pabyddiaeth o Ysgotland, cyhoeddwyd rhyfel rhwng y ddwy deyrnas, a chan i luoedd Iago golli'r dydd yn mrwydr Solway Moss, bu farw o dor calon yn 1542, a'i ferch Mary yn blentyn wythnos oed tan lywydd a rëolodd.

Mary gwedi treulio rhai blynyddau yn Ffrainc, i'r lle yr aethai i'w haddysgu mewn dysgeidiaeth, a briododd etifedd coron y wlad honno, drachefn Francis II, yr hwn yn marw yn fuan gwedi ei goroni, a barodd i'r Ysgotiaid alw yn ol ei brenines, yr hon oedd eto tan oed, i orsedd ei hynafiaid. Erbyn i Mary gyrhaedd Ysgotland, gwelai nas gallai fwynhau y cyfryw ddedwyddwch yn mhlith cenedl anmysgedig, ac weithiau yn elynion i babyddiaeth, ag a fwynhasai yn llŷs arddderchog Ffrainc, felly anfodlonrwydd oedd prif drêm ei hymarweddiad. Priododd iarll Darnley, dŷn hardd o gorffolaeth, ond heb nemawr yn y coryn, yr hwn yn mhen ychydig flynyddau a laddwyd, ac nid heb dyb o fod gan ei wraig law yn y gorchwyl. Ei thrydydd gŵr oedd Bothwell, a chan fod amheuaeth iddo drochi ei ddwylaw yn ngwaed Darnley, gwrthryfelodd yr Ysgotiaid yn erbyn y goron, a Mary yn gorfod ffoi am noddfa i Loegr, carcharwyd hi am 18 mlynedd fal y soniwyd, dan y cyhuddiad o frâd fwriadu yn erbyn bywyd y frenines Elizabeth, a'r terfyn fu ei dibenyddu yn 1587.

Ei mab Iago VI oedd y nesaf a goronwyd, ac ar farwolaeth Elizabeth, ef yn orwyr i Harri VII o du ei fam, oedd etifedd coron Lloegr, felly unwyd y ddwy deyrnas. A gwedi teyrnasiad helbulus gadawodd ei dair teyrnas yn 1625 i'w fab Charles I, yr hwn a ddibenyddiwyd yn 1649.

Trwy ystod y gwerin lywodraeth a'r breniniaethau canlynol, mwynhaes Ysgotland ei senedd ei hunan, ond ar ddyfodiad Anne i'r orsedd, cynygiwyd i'r Ysgotiaid yn ol yr ammodau a ofynent, a gorphenwyd yr undeb rhwng y ddwy deyrnas: o hyny allan gelwir y ddwy wlad yn nghyd wrth yr enw Prydain fawr.

# YWERDDON.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Mynyddoedd.. Afonydd.. Llynau.. Coedydd. Llysiau.. Mwngloddiau.. Hynafiaethau.. Ynysoedd.*

YWERDDON, sydd a'i sefyllfa i'r gorllewin o Loegr; sef, rhwng lledred 51° 55'½ yn ogleddol, a rhwng hydred 6° a 10° yn orllewinol: yn 300 milltir o hyd, a 160 o led; ac yn gylchynedig o du y dwyrain gan fôr Ywerddon a môr Udd, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Loegr a Chymru; ac o bob tu arall gan y môr Werydd. Ei phellder o Donaghadee yn Ysgotland i Port Patrick sydd 20 milltir; o Benrhyn Rhws yn Nyfed i Wexford 45, ac o Gaergybi yn Mon i Dublin y brif ddinas sydd 60 milltir.

RHANIADAU.] Rhenir yr Ywerddon yn bedair talaeth, y rhai a elwir Leinster, Ulster, Connaught a Munster, y rhai ydynt yn cael ei hadranu i 32 o swyddi fal y canlyn.

| *Taleithiau.* | *Swyddi.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| LEINSTER, 12 swydd | Dublin | Dublin. |
| | Louth | Drogheda. |
| | Wicklow | Wicklow. |
| | Wexford | Wexford. |
| | Longford | Longford. |
| | East Meath | Trim. |
| | West Meath | Mullingar. |
| | King's County | Phillipstown. |
| | Queen's County | Maryborough. |
| | Kilkenny | Kilkenny. |
| | Kildare | Naas ac Athy. |
| | Carlow | Carlow. |
| ULSTER, 9 swydd | Down | Down Patrick. |
| | Armagh | Armagh. |
| | Monaghan | Monaghan. |
| | Cavan | Cavan. |
| | Antrim | Carrickfergus. |
| | Londonderry | Derry. |
| | Tyrone | Omagh. |
| | Fermanagh | Enniskillen. |
| | Donegall | Lifford. |
| CONNAUGHT, 5 swydd | Leitrim | Carrick ar Shannon. |
| | Roscommon | Roscommon. |
| | Mayo | Ballinrobe a Castlebar. |
| | Sligo | Sligo. |
| | Galway | Galway. |
| MUNSTER, 6 swydd | Clare | Ennis. |
| | Cork | Cork. |
| | Kerry | Tralee. |
| | Limerick | Limerick. |
| | Tipperary | Clonmel. |
| | Waterford | Waterford. |

Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.] Gwlad led wastad a bwrw golwg cyffredinol arni ydyw Ywerddon. Ei mynydd-dir sy gan mwyaf yn ei pharthau dwyreiniol, ac ei llynau a'i chorsydd mwyaf eang ydynt yn ei pharthau gogleddol. Mae y tir yn fwy teneu a cherygog na thir Lloegr, eto cyfrifir y gwastadoedd yn gyffredin a llethrau y mynyddoedd yn llawn mor frâs. Mae corsydd yn darfritho ei gwyneb agos yn mhob parth, a rhai o honynt yn filoedd o erwau o fesur, ac heb fod o unrhyw lês onid tanwydd yn unig i'r tylodion.

Hin a thymhorau.] Y gwahaniaeth sy rhwng ardymherau yr hin yn Ywerddon â Lloegr, ydyw bod y gwynt gorllewin yn peri mwy o leithder ynddi, yr hwn heb gyfarfod ag unrhyw dir o'r tu yma i America, ac yn fwy rhuthrol na gwrth wyntoedd de a dwyrain, sydd yn peri arllwysiad mwy o darth arni, felly gan y cyfryw achos, mae gwryddlesni yn gwisgo gwyneb Ywerddon yn wastadol, ac y mae ei hâf yn llaî gwresog, ac yn anamlach mellt a tharanau nag yn Lloegr, gyd â bod oerni ei gauaf yn llai gerwin gan eira a rhew.

Mynyddoedd.] Prif fynyddoedd Ywerddon fal y soniwyd, sydd yn ei pharthau dwyreiniol, sef yn swydd Down: y ddwy drum yno ydynt yn cael eu galw Mourne ac Iveagh: mae y mynydd uchaf ynddynt o enw Donard yn 1059 llath o uchder, ac mae craig Patrig yn yr un swydd agos cyfuwch, a chan ei dull pigfain yn weledig 60 milltir o ffordd. Y mynyddoedd ereill ydynt yn Carlingford, ac yn Donnegal, o ddeutu llyn Swilly; ereill yn Kerry, ac y drum sydd ar fin y môr yn swydd Wicklow, &c.

Afonydd.] Afon Shannon ydyw y fwyaf yn Ywerddon: ei rhediad sydd o lyn Allen yn swydd Leitrim, weithiau yn gul, a thro arall yn llydan yn llunio terfyn rhwng Connaught a'r tair talaeth ereill, ac erbyn cyrhaedd y môr rhwng penrhynau Kerry a Loop, mae hi yn 9 milltir o led: nis gellir ei mordwyo yn uwch na Killaloe gan y gwrym creiglyd sydd ar gyfer y dref honno yn estyn ar ei thraws.

Afon Bann sydd yn codi o lyn Neagh, ac yn ymuno a'r môr wrth Coleraine.

Afon Boyne sydd a'i blaenau yn swydd Kildare, ac wedi llifo trwy swydd Meath, mae hi yn ymarllwys i fôr Ywerddon wrth Drogheda.

Afon Liffey sydd yn codi yn swydd Wicklow ychydig filltiroedd i'r de orllewin o Dublin ac sydd yn ymuno a'r môr wrth y ddinas honno.

Afonydd Barrow, Nore a Suir, ydynt yn dyfrâu parthau deheuol y deyrnas, y rhai yn ymuno gor-îs Ross sydd ymarllwys i'r môr wrth Waterford.

Llynau.] Mae cryn nifer o lynau yn Ywerddon: y mwyaf ydyw llyn Erne yn swydd Fermanagh, yr hwn sydd 30 milltir o hyd a 12 yn y man lletaf o lêd. Llyn Corib yn swydd Galway sydd 20 milltir o hyd ac o 2 i 5 o led. Llyn Neagh rhwng swyddi Antrim, Down ac Armagh, sy 18 milltir o hyd a 9 o led: dywedir y caleda ei ddyfroedd bren agos fal careg. Llyn Killarney sydd gylchynedig gan greigiau serth, a rhaiadrau yma ac acw o uchder mawr yn ymdywallt iddo. Mae yr ogofeydd ac y clogwyni tra-serth yn ei gwr deheuol yn peri sain udgorn neu unrhyw dwrf arall adleisio lawer o weithiau.

Mwngloddiau.] Mae yn y wlad hon gloddfeydd o haiarn, efydd, plwm, arian, ac aur. Yr olaf a ddarganfuwyd yn ddiweddar yn mynyddoedd Wicklow, ac sydd er hyny hyd yr awrhon yn cael ei gloddio gan y llywodraeth. Y cloddfeydd arian a phlwm ydynt yn swyddi

Antrim, Sligo, a Limeric: dywedir mai cloddfeydd Antrim ydyw y mwyaf gwerthfawr. Efydd a geir yn swyddi Wicklow a Kildare; a haiarn yn swydd Kilkenny, yr hwn gan ei galedrwydd a'i addasrwydd i'r fwrndai mŵn, ydyw y goreu a geir yn un man o ymerodraeth Prydain. Marmor a mâth o borphyry a llechfaen sydd hefyd i'w cael mewn rhai o'r ardaloedd mynyddig.

COEDYDD. LLYSIAU.] Coed ydynt brinion yn Ywerddon fal yn Ysgotland, ond tebygid wrth y lliosogrwydd o honynt sydd yn ngwaelodion y corsydd, nad oedd prinder o honynt yno o 6 i 700 mlynedd yn ol. Gwenith, haidd, ceirch a grawn eraill, yn gystal a llin a chywarch a'r cyffelyb sydd mor helaeth ag yn Lloegr.

HYNAFIAETHAU.] Y prif hynafiaethau ydynt o ddeutu 56 o dyrau crynion o 30 i 50 a latheni o uchder, ac o 3 i 4 llath o drwch, y rhai sydd yma ac acw ar hyd y wlad. Dywed rhai iddynt gael eu hadeiladu gan y Llychlynigion, yn arwydd-nodau i'w cynnorthwyo i sarhau arfordiroedd a pharthau ereill o'r wlad; dywed ereill mae clochdai i fynachdai cyfagos oeddynt, yr hyn sy debycaf, gan mai yr enw a roddir arnynt yn y Wyddelaeg ydyw *clochad*. Mae yn Ywerddon fal yn Nghymru liaws o garneddi ar y bryniau, a gorseddau Derwyddon, cromlechau, ac allorau, yn nghyd â darnau o hen amddiffynfeydd gwrthyn, cestyll, a'r cyffelyb.

Oddeutu 8 milltir i'r gogledd ddwyrain o Colerain, mae lliaws o golofnau Basalt tebyg o ran dull i'r rhai sydd yn Staffa, ac sydd adnabyddus wrth yr enw *Sarn y Cawr*. Y colofnau ydynt ar eu pennau ac yn amrywio mewn uchder o 16 i 36 o droedfeddi. Mae y sarn o'i chychwynfa i nôd distyll yn 200 llath o hyd, a 40 o led. Bernir mae elfenau toddedig moel danllyd oeddynt yn gystal â rhai Staffa, ac iddynt wrth oeri ymlunio yn golofnau o dri, pedwar, pump, a chwech o ochrau fal y maent.

YNYSOEDD.] Mae cryn rifedi o fân ynysoedd o ddeutu Ywerddon. Lambey i'r gogledd ddwyrain o Dublin sydd hynod am fod gynt a mynachdai ynddi Ynysoedd Saltee ydynt greigleoedd noethlwm yn ne ddwyreiniol barthau y wlad. Ynys Clare sydd yn llunio y penrhyn mwyaf deheuol. O'r tu gorllewin i'r Ywerddon cyfarfyddir ag ynysoedd Densey, Hog, Skellig, Valentia, Ferriter, Arran, Ganorena, Littermore, Minish, Inconee, Dunloghan, Omey, Crua, &c Yna ar gyfer Mayo cyfarfyddir ag ynys Achill o 12 milltir o hyd a 10 o lêd, y fwyaf o ynysoedd Ywerddon. Yn nes i'r gogledd mae ynysoedd Norry, Tory, a Trahull, ac ychydig i'r dwyrain mae ynys Racina hynod am fod yn noddfa i Robert I brenin Ysgotland.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Crefydd.. Iaith Dysgeidiaeth.. Trefnidiaeth.. Milwyr.. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.*

DYWEDIR bod trigolion Ywerddon yn dair cenedl amrywiol; sef yr hen wyddelod, y rhai oeddynt gyn-drigolion y wlad, ac yn cyfanneddu canol a gorllewin barthau yr ynys; hiliogaeth Ysgotiaid y sydd yn cyfanneddu y parthau gogleddol, a hiliogaeth y Saeson a

ddaethant i breswylio y parthau dwyreiniol gwedi y goresgyniad gan Harri II.

Moesau ac arferion.] Y Gwyddelod y sydd yn hanu o'r Saeson ac yr Ysgotiaid ydynt o ran dull ac agwedd yn tebygu i'r ddwy genedl hyny. Yr hen Wyddelod ydynt gryfion o gorffolaeth, a bywiog yn eu hymddygiad; diog yn eu gorchwylion, ond heini yn mbob gwrol-gamp; cymdeithasgar yn eu plith eu hunain, ufudd a charedig i estroniaid, a dïalgar heb rith o dosturi i elyn. Tai y werin ydynt fythod tylodion, heb ynddynt nemawr mwy o ddodrefn na chrochan i ferwi pytatw; ac ychydig o wellt mewn congl i'r teulu orwedd arno, yr hyn sydd yn deillio oddiwrth arwedd orthrwm eu meistri tir arnynt. Hoffant bob digrifwch ofergoelus, ac ymhyfrydant yn y twmpath chwareu, y cae gwystl, y bel droed, mewn canu a dawnsio, ac ereill arferion ar y sabbath fal gwyl arall, gwedi darfod o awr yr offeren. Ymladd ac ymgecru a'u gilydd sydd hefyd yn rhan o ddifyrwch y ddawns, ac y brïodas, ac hyd yn nod yr wylnos, lle hefyd yr udir tros y marw am oriau bwygilydd, gan ofyn yn fynych iddo paham yr aethai oddiwrthynt i fröydd angof, a gadael ar ei ol y fath gyflawnder o drugareddau ag a feddiannai gwlad ei enedigaeth? a gofyniadau ereill cyffelyb.

Mae y Gwyddelod y sy gwedi derbyn addysg ac yn addef crêd a raglystiaeth yn ddynion cymeradwy yn eu galwedigaethau. Ychydig o awydd am ymddangos yn fwy gwych nag y goddef y trysor ydyw y gwendid amlycaf. Mewn eluseni i'r gorthrymedig maent fal y soniwyd am y Saeson yn dra enwog, ac fel y mae gwybodaeth yn ymdaenu yn eu plith, maent mor ffyddlon i'r llywodraeth ag unrhyw o ddeiliaid Prydain fawr.

Llywodraeth.] Yr un ydyw y llywodraeth sydd weithiau yn y Werddon â Lloegr. Anfona y brenin lywydd yno i'w gynnrychioli, yr hwn sydd a'i rwysg weithiau yn fwy ac weithiau yn llai yn ol trêm yr amseroedd. Ei gyfrin gynghor sydd o fawrion y deyrnas-archesgobion, &c, a farno y brenin yn addas i'r cyfryw sefyllfa oru, chel. Cyn uno Ywerddon at Loegr yn 1801, yr oedd senedd yn cyfarfod bob blwyddyn, ond nid oedd y cyfreithiau a lunid yno mewn grym hyd oni ddeuant i Lundain i dderbyn y sêl freninol. Dosberthir cyfiawnder yn Ywerddon fal yn Lloegr.

Crefydd.] Eglwys Loegr ydyw y grefydd sydd freintiol yn Ywerddon, ond y liosocaf ei deiliaid ydyw pabyddiaeth mewn ansawdd liawn mor anferth ag yn Yspaen neu Portugal. Ymneillduwyr, bedyddwyr, crynwyr, a methodistiaid hefyd ydynt liosog ynddi, ac yn mwynhau breintiau rhyddid fal yn Lloegr a Chymru.

Mae 4 archesgobaeth yn Ywerddon, sef, Armagh, Dublin, Cashel, a Tuam; a 18 esgobaeth, sef Clogher, Clonfert, Cloyne, Cork, Derry, Down, Dromore, Elphin, Kildare, Killala, Kilmore, Killaloe, Leighlin, Limeric, Meath, Ossory, Raphoe, a Waterford.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Y Wyddelaeg sy gainc o iaith y Celtiaid, a honai hanesyddion iddi fod yn y cyn-oesoedd yn un â'r Gymraeg, ac i'r gwahaniaeth sydd weithiau rhwng y ddwy iaith ddeillio oddiwrth ddieithrwch y ddwy genedl i'w gilydd cyn goresgyn Ywerddon gan Harri II.

Dywed Bede fod cynnydd ar ddysgeidiaeth yn Ywerddon er y seithfed ganrif, pan oedd amryw o fynachod dysgedig o Loegr a

mânau ereill yn cilio iddi i'r dyben o fwynhau llonyddwch yn eu myfyrdodau crefyddol. Mae enwau Usher, Swift, Steele, Sterne, Goldsmith, ac ereill o ddysgedigion enwog diweddar y wlad hon yn dra hysbys. Un brif ysgol a honno o seiliad y frenines Elizabeth sydd yn Ywerddon: mae hon yn y brif ddinas ac yn cynnwys ynddi o ddeutu 400 o ddysgedigion.

Y Pader yn y Wyddelaeg sy fal hyn, *Ar nathair ata ar Neamh. Naomhthar Hainm. Tigeadh do Rioghachd. Deuntar do Thoil ar an Ftalamh mar do nithear ar Neamh. Ar naran la athamhail tabhair dhuinn a niu. Augus maith dhiunn ar Bhfiacha mar mhaithmidne dar bhfeitheamhnuibb fein. Augus na leig sinn a cathughadh. Achd saor sin no Olc. Amen.*

Trefnidiaeth.] Y daöedd a ddanfonir yn fwyaf o'r Ywerddon ydynt, lliain, brethyn, edafedd, &c; hefyd gwartheg, moch, crwyn, gwêr, ymenyn, caws, canhwyllau, sebon, pysgod, &c, Mae y gweithdai lliain a brethynau yn dra llwyddiannus gwedi i lywydd y wlad, a'i lŷs wrthod defnyddio unrhyw arall.

Milwyr.] Gwedi y gwrthryfel diweddar a fu yn Ywerddon, â bygythion mynych y Ffrancod i wneuthur rhythr-gyrch arni, ychwanegwyd y milwyr i 126,500: o'r blaen nid oeddynt oddiar haner y rhifedi

Dinasoedd a threfydd.] Dublin, y brif ddinas sydd yn sefyll ar aber afon Liffey, mewn iseldir cylchynedig o'r ddeutu gan fronydd uchel. Ei phrif adeiladau megys y senedd-dy, y tolldy, y brif ysgol, y cyfnewidfa, y llysoedd cyfraith, y castell, &c, ydynt dra gwych, ac mae rhai o'i hëolydd yn llawn mor hardd ag hëolydd Llundain. Mae 7 bont tros yr afon, dwy o honynt a elwir Carlisle ac Essex ydynt rai hardd. Y trigolion ydynt 200,000.

Cork, y nesaf mewn brî i Dublin, sydd yn sefyll ar dir isel yn gylchynedig gan afon Lee, ac o ddeutu 129 milltir i'r de orllewin o Dublin. Ei phorthladd sydd ëang a dwfn, ond nis gall onid llestri bychain gyrhaedd y dref, yr hon sydd 7 milltir oddiwrth y môr. Oddiyma mae prif ddäoedd Ywerddon yn cael eu danfon allan. Y trigolion ydynt 70,000.

Waterford, sydd â phorthladd ëang ganddi, ac yn cynnwys o ddeutu, 30,000 o drigolion. Gwnaeth y gwrthryfel diweddar gryn sarhâd ar drefnidiaeth y dref hon. Limeric sy dref hardd a lliosog o drigolion, yn sefyll ar afon Shannon. Belfast sydd enwog mewn trefnidiaeth, ac mae porthladd ëang yn perthyn iddi. Downpatrick sydd hynod am ei gweithfäoedd lliain. Carrickfergus sydd â chastell cadarn a phorthladd ëang yn perthyn iddi, ond ychydig o drefnidiaeth. Londonderry ar fin llyn Foyl sy ddinas gadarn, ac amryw weith-dai lliain a brethynau ynddi. Am y mân drefydd ereill, nid oes nag adeiladau na threfnidiaeth o'r eiddynt yn werth sylw yn y lle hwn.

Anifeiliaid.] Yr oedd y blaidd yn grëadur cyffredin yn anial leoedd Ywerddon hyd y 17 ganrif. Ewigod coch gwylltion ydynt hyd heddyw yn fintëioedd yn y mynyddoedd o amgylch llynau Killarney. Nid ydyw y wâdd, y llyffant dû, nag unrhyw nadroedd mewn un rhan o'r wlad: pa un a'i ansawdd y tir, neu ynte ardymher hinsoddau y lle a bair hyn, sydd anhysbys. Dywedir hefyd os cludir yr ëos yno y bydd farw mewn ychydig amser, er bod agos bob adar ereill y sydd yn Lloegr yn llawn mor liosog yno.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Ywerddon.*

MAE rhai hanesyddion Gwyddelig yn honni bod ganddynt wybodaeth am ansawdd eu gwlad 500 mlynedd cyn crêd; sef y pryd y tiriodd lliaws o Scythiaid oeddynt yn preswylio gogledd-barth Yspaen i mewn iddi, y rhai gwedi dosbarthu y wlad yn fân deyrnasoedd a ymgorffolasant â'r ychydig drigolion oedd ynddi, fal y daethant o'r diwedd megys un genedl. Ond gan fod cryn lawer o chwedlau ffugiol yn gymysgedig â hanes y wlad hon y pryd hyny, ac am gantoedd o flynyddau gwedi, ni sylwir arnynt yn yr hanes hwn.

O ddeutu canol y 5 ganrif y dywedir i *St. Patrig* apostol Ywerddon ddechreu pregethu Cristionogaeth yn mhlith y trigolion: a bu llwyddiant ei genadwri yn amlwg am rai oesoedd, hyd oni ddaeth brenhinoedd y Saxoniaid i'w haflonyddu, ac ar ei hol hwynt y Llychlynigion, y rhai gwedi meddiannu arfordiroedd y wlad a adeiladasant Dublin a dinasoedd amrywiol ereill i gyfanneddu ynddynt. Yn 1170 dywedir i dywysog o Ulster wrth erfyn ar y pab na roddai genad i Harri II o Loegr i oresgyn ei wlad, orfoleddu bod 197 o'i hynafiaid gwedi llywodraethu Ywerddon yn olynol, ond er ymbil yn daer, yr oedd Harri yn fwy gwr yn ngolwg y pab, caniatâd a roddwyd.

Yr oedd amryw dywysogion yn rheoli Ywerddon y pryd hyn, ac yr oedd gwrthryfel rhwng y rhan fwyaf o honynt â Roderic O'Connor *y penaf*, yr hwn yn methu eu tawelu, ac yn ofni iddynt ei orthrechu, a ymofynodd noddfa yn llys Harri, lle y denwyd ef ar addaw yn dwyllodrus ei adferyd i'w orsedd i dyngu ufudd-dod yn ei enw ei hun, ac yn enw yr holl frenhinoedd oedd dano i Harri. Felly gwedi tirio o luoedd Harri tan iarll Penfro i'r deyrnas, ni fuwyd yn hir heb oresgyn y rhan fwyaf o honi.

Yr oedd O'Connor erbyn hyn gwedi gadael Lloegr a chyrhaedd Dublin, i ymuno â'r Llychlynigion oedd yn ei phreswylio, yn erbyn rhuthrau y Saeson, ond er ymladd yn wrol am dro, nhwy a orfu ffoi yn y diwedd a gadael y lle i'r Saeson. Yr oedd iarll Penfro ychydig cyn hyn gwedi priodi etifeddes Ulster, a thrwyirym ei arfau gwedi cael lliaws o gestyll a milwyr i'w feddiant: felly gwedi marw ei dad yn nghyfraith, a sôn ar led mai ef a goronid, dechreuodd Harri eiddigeddu wrtho, a than y ffug o'i fod yn anufudd i'w orchymynion, meddiannodd ei holl dreftadaeth yn Lloegr, a gorchymynodd i'w holl ddeiliaid oedd yn Ywerddon ddychwel yn ol. Ar hyn blaenorodd O'Connor 60,000 o wyddelod i ymosod ar y brif ddinas, ond parodd dewrder iarll Penfro yr hwn oedd erbyn hyn heb onid y dinasyddion yn unig i'w gynnorthwyo, iddynt roddi y gwarchae i fynu. A thra bu iarll Penfro ar ei daith i Loegr i gael nawdd y brenin trwy roddi iddo ei gestyll, ac ei holl feddiannau yn Ywerddon, dychwelodd Turkil brenin y Daniaid â llynges gref i ymosod ar Dublin, ond yn y rhythr cyntaf lladdwyd ef, a dyna oedd terfyn rheolaeth y Llychlynigion yn Ywerddon.

Yn 1172, tiriodd Harri II gyd â 400 o farchogion â 4000 o'i filwyr glewaf yn Waterford, a gwedi rhai brwydau trychinebus, daeth O'Connor a'r holl is-frenhinoedd i ymostwng iddo, yna gwedi gosod ei fab Ioan yn rhaglaw y wlad dychwelodd i'w fro. Yr oedd Ioan a'i

lys yn traws-arglwyddiaethu ar y gwyddelod yn dost, am hyny rhoddasant gais aflwyddiannus amryw weithiau i fwrw yr iau oddiarnynt. Ni allai Richard I ychwaith pan esgynodd i'r orsedd wrando ar eu cwyn gan fod ei holl feddylfryd ar fyned rhagddo yn y rhyfel sanctaidd. A chan fod difrawch y Saeson yn cynnyddu fal hyn yn fwyfwy, daeth Robert brenin Ysgotland o'r diwedd i anrheithio parthau gogleddol y wlad fal y soniwyd; a choroni ei frawd yn Dundalk yn frenin Ywerddon.

Parhäodd terfysg yn rhyw ranau o'r wlad o'r pryd hyn, hyd oni euwyd y tywysog Lionel mab Edward III, yr hwn a briodasai etifeddes Ulster yn llywydd, yna ymunodd yr holl luoedd gwyddelig ac erlidiasant yr Ysgotiaid i'w gwlad eu hun, ac adferwyd trefn am ychydig amser yn y wladwriaeth.

Lionel gwedi marw, a therfysgoedd yn adnewyddu, tiriodd Richard II gyd â 34,000 o wŷr yn Ywerddon, a pharodd yr olwg ar y fath fyddin i ufuddod digyfrwng gymeryd lle: rhoddes Richard orenwau ardderchog i'r penaethiaid gwyddelig, a dychwelodd gwedi gosod iarll March yn llywydd, i'w wlad ei hun: ond yn 1399 tiriodd eilwaith yno i ddïal arnynt am ymderfysgu a lladd ei llywydd, a thra y y bu wrth y gorchwyl, tiriodd dug Lancaster i Loegr a choronwyd ef, a Richard ar ei ddychweliad yn gwybod iddo reoli â gwialen haiarn a ymroddodd i beidio ag ymgeisio i'w erbyn.

Yr oedd y Gwyddelod yn fwy tueddol i deulu Yorc na Lancaster, ac ar adferiad y teulu hyny i'r orsedd, parodd eu ffyddlondeb i Edward IV. osod gwyddel o enw iarll Desmond yn llywydd ar y wlad, yr hwn oedd y cyntaf o'r trigolion a gawsai y cyfryw fraint. Ar esgyniad Harri VII. i'r orsedd ni addefai y Gwyddelod ef megys dug Lancaster, felly ymunasant â Lambert Simnel ffug-fab Edward IV. ond wrth dirio yn Lloegr i ymuno a'i fyddin, bu distryw echrydus arnynt.

Y dull a gymerodd Harri VIII., i'w rheoli oedd cynneu cynhen barhaus rhwng y penaethiaid gwyddelig a'u gilydd: ond gan fod yr ymerawdr Charles V. yn chwennych eu cyfeillgarwch, ac yn arfer pob dichell i'w hennill i'w fintai, danfonodd Harri ei ordderch-fab dug Richmond i lywyddu y wlad. A chan na lwyddodd hyny i'w darostwng, nag i rwystro rhuthrau Iago V. o Ysgotland, yr hwn oedd yn honni hawl i goron Ywerddon, meddyliodd Harri mae yr unig ffordd i ennill serch y trigolion oedd mynu ei goroni ei hun yn frenin Ywerddon, ac felly bu.

Yr oedd y pab a thywysogion Austria er hyn yn danfon arian yn ddirgelaidd i'r Ywerddon, ei annog y trigolion i fwrw iau Lloegr oddiarni, ond yn aflwyddiannus. Yr oedd y Gwyddelod yn ymddangos yn lled dawel yn nyddiau Mary: ond buont flin trwy ystod rhëolaeth Elizabeth, gan iddi er gwaethaf cel-negeswyr y pab, a theulu Austria, geisio dëol pabyddiaeth oddiyno. Bu brwydrau aruthr yn dra mynych y pryd hyn, ac er llwyddo i gymeryd Tyrone ac ereill oedd yn honni hawl i'r goron yn garcharorion i Lundain, ni chyffyrddai Elizabeth â hwynt o arswyd cadernid y pabyddiaid oedd yn eu cefnogi: er hyny dyfarnwyd am wrthryfelgarwch y trigolion i dros 500,000 o erwau o dir yn mharthau gogleddol Ywerddon fod yn ddirwy i'r goron, yr hyn yn nghyd â'r annrhefn oedd ar droed yn nyddiau Charles I, a gynhyrfodd y gwyddelod yn greulon: annogodd

yr offeiriaid pabaidd iddynt ymwroli yn ddewr, wrth hyny y caent nid yn unig ail feddiannu y tir a gollasant, ond y gwelynt adsefydlu pabyddiaeth yn grefydd wladol. Felly ymroddasant i lunio y cynghrair uffernol o gigyddio yr holl ragdystjaid; ond gan i'r brad ddyfod i'r goleu trwy dreiddiad rhai o swyddogion y brif ddinas, oedwyd y gorchwyl dieflig hyd 1641, pan y lladdwyd 40,000 neu ychwaneg mewn yspaid ychydig ddyddiau. Y canlyniad o hyn oedd arwedd lymdost arnynt gan Oliver Cromwell, a thrachefn trwy ystod teyrnasiad Charles II.

Iago II, fal y soniwyd yn hanes Lloegr, gwedi gorfod ymwrthod a'r goron a aeth i'r Ywerddon, a chan ei fod yn babydd, cafodd gan fyddin fawr o wyddelod ymgasglu i'w gynnorthwyo i'w hadennill. Ond William III. mab yn yngbyfraith Iago, yr hwn oedd weithian ar yr orsedd, a aeth i'w gwynebu, ac ar lenydd afon Boyn bu brwydr chwerw i Iago a'i fintai. Parodd y frwydr hon i'r Gwyddelod lwyr ymostwng i Loegr. Y canlyniad fu i arweddiad fwy hynaws gael ei harfer tu ag at y trigolion, ac i gynnydd ei thrafnidiaeth gael ei annog, a phethau cyffelyb: caniatâwyd hefyd i finteioedd milwraidd gwirfoddol ymlunio er amddiffyn eu gwlad rhag ymgyrch unrhyw elynion arni: daeth y rhai hyn yn mhen ychydig flynyddoedd yn filwyr enwog, ac yn dra lliosog; ond er bod y llywodraeth yn dra hynaws wrthynt, ac wedi eu goddef i ychwanegu i 80,000, eto pan dynwyd lliaws o filwyr Lloegr oddiyno i ganlyn ar y rhyfel oedd rhwng Lloegr ag America, dechreusant aflonyddu, a gofyn amrywiol freintiau na allai y llywodraeth heb berygl ganiatâu. Yr oedd trafnidiaeth Ywerddon o wall ei thuedd i dërfysg, gwedi cael ei atal er ys tro, yr hyn oedd yn ei thlodi yn ddirfawr: felly cylchynodd y werin y senedd Wyddelig ar yr 11 o Mai 1779, gan floeddio rhyddid trafnidiaeth i'w teyrnas, &c. a chan i'w bygythion liosogi, hyd onid oedd gwrthryfel cyffredin ar ennyn, caniatawyd eu dymuniad iddynt. Bu mawr lawenydd am y cyfryw ryddid. Ac y canlyniad fu i ddüoedd o America, o ynysoedd India orllewinol, ac o Affrica ddyfod yn gyfnewid am gynnyrch Ywerddon, ac i'r wlad gynnyddu mewn cyfoethogrwydd, &c.

Yn 1788, pan digwyddodd afiechyd annedwydd ei fawrhydi George III, penderfynodd arglwyddi a chyffredin senedd Ywerddon i erchi ar dywysog Cymru gymeryd arno enw Rhaglaw Ywerddon. Arglwydd Buckingham y llywydd gwedi gwrthod cyflwyno y genadwri, penderfynodd y seneddwyr i ddanfon dug Leinster ac iarll Charlemont, â phedwar o seneddwyr tŷ y cyffredin at y tywysog, yr hwn a'u derbyniodd yn y modd mwyaf caredig. Ond ei fawrhydi er llawenydd mawr i'w ddeiliaid yn gwellhau, dannfonodd y tywysog ateb tra thyner, yn cynnwys diolchgarwch diffuant am eu cynnyg, ond bod ei fawrhydi weithian gwedi ymadaw a'i glefyd yn achlysur i'w gydsyniad fod yn ddïangenrheidiol.

Gwedi hyn ychwanegodd senedd Ywerddon freintiau y pabyddiaid, trwy sefydlu cyfreithlondeb iddynt ymbrïodi â rhagdystiaid, a chaniatâu iddynt ryddid o fod yn gyfreithwyr, ac i'r holl rai oedd yn meddu tir gael llais yn newisiad seneddwyr, &c. O'r diwedd gan mai mwyaf oeddynt yn ei gael mwyaf oeddynt yn ei geisio, bu raid i'r llywodraeth darfu eu rhwysg, trwy lwyr ymwrthod a'u gofyniadau. Yna yn 1791, ymluniodd amryw o'r trigolion yn fân gymdeithasau

dirgelaidd o enwau *Gwyddelod unol*, gyd â bwriad o ddilyn cynllun Ffrainc i arwain terfysg a derfynai rwysg Lloegr arnynt, fal y mwynhaent freintiau eu hynafiaid, &c. Bu y rhai hyn am rai blynyddau yn rhy ddistadl yn ngolwg y llywodraeth i ymyryd â nhwy; ond gan yr amrafaelion oedd ar droed oherwydd galw iarll Fitzwilliam heb rybydd o fod yn llywydd, i dderchafu iarll Camden i'w le, ychwanegodd atynt amryw o wŷr mawr y deyrnas, megys Fitzgerald, Arthur O'Connor, M'Nevin, &c. y rhai cyn eu profi yn euog o'r bradwriaeth, oeddynt yn arfer pob dyfais i gael llynges o Ffrainc i dirio yn Ywerddon. Ac ar i Fitzgerald fyned i Paris, ac adrodd parodrwydd y gwyddelod i ymuno â Ffrainc yn erbyn Lloegr, danfonwyd llynges, ac ynddi 25,000 o wŷr dan y llywydd Hoche, yr hon a gyfarfu â chryn dymhestloedd yn ei thaith: angorodd deg o honynt yn mhorthladd Bantry nos Nadolig 1796, ond gan hîn ddrwg, ac arswyd aflwyddiant mae yn debyg, dychwelasant yn ol: un cwch ac wyth dyn ynddo a diriodd, y rhai a wnaed yn garcharorion.

Er yr aflwyddiant hyn, yn lle digaloni aethont rhagddynt gan gyfrinachu yn ddirgelaidd â Ffrainc. Danfonodd M'Nevin gen'dwri i lywodraeth Ffrainc, fod y gwyddelod unol gwedi ychwanegu i 150,000. Felly parotowyd dwy lynges, un yn Holland a'r llall yn Ffrainc: y gyntaf yn fuan gwedi cychwyn, a gyfarfu â distryw disymwth gan lynges arglwydd Duncan; ac y llall yn ofni triniaeth gyffelyb a droes i'w phorthladd yn ol.

Erbyn hyn yr oedd yn bryd i'r llywodraeth chwilio i ansawdd ëangder y bradwriaeth, a gosodwyd dynion addas yma ac acw i ymwrando am eu cytarfodydd. Y cyfarfod cyntaf a gawsant wybodaeth iawn am dano, oedd i fod yn Belfast, lle ar yr amser ammodol y cafodd milwyr hwynt yn nghyd yn trin eu papurau bradwriaethus. Erbyn hyn daeth i'r goleu liaws ereill, yna danfonwyd ychwaneg o filwyr i'r wlad, a chyhoeddwyd pob cyfarfod dirgel yn frad yn erbyn y llywodraeth, a dyfarnwyd y rhan fwyaf o'r Ywerddon yn ddïatreg allan o dangnefedd y brenin: lliosogwyd hefyd gwarcheidwaid y brif ddinas i dair gwaith y rhifedi o'r blaen. Bu arweddiad lymdost gan y milwyr ar y werin y pryd hyn, y rhai drachefn oeddynt yn ymddïal yn greulon pan ddigwyddai cyfle.

Yn fuan gwedi hyn adroddodd gwrthryfelwr edifarus o enw Reynolds yn ddirgelaidd i'r llywodraeth, y byddai cyfarfod y prif benaethiaid mewn tŷ yn Dublin ar y 12 o Mawrth, felly gwedi danfon milwyr ar yr awr gyfarfod i'r tŷ, cafwyd M' Nevin, Emmett, M'Can, ac 11 o bennaethiaid ereill yn nghyd, y rhai a roddwyd yn ddïatreg mewn heieirn: cafodd arglwydd Fitzgerald gyfle i ddianc, ac wrth ei ddal, clwyfodd ynguad Swan a'r swyddog milwraidd Ryan yn dost, yntau ei hun a gafodd archoll farwol ganddynt hwythau.

Y cynllun hwn gwedi ei lwyr ddiddymu, penodwyd penaethiaid newydd, ond diddymwyd hwnw hefyd, trwy i swyddog o filwyr Lloegr ffuantu bod yn wrthryfelwr a chymeryd y llwon, a dynodi i'r llywodraeth eu hamcanion: yr oeddynt ar ol y diddymiad cyntaf gwedi penderfynu codi yn un corff trwy y deyrnas yn erbyn y llywodraeth, ar y 23 o Mawrth. Felly cyhoeddodd y llywydd ddeu-ddydd cyn hyny y brif ddinas a holl swydd Dublin mewn cyflwr gwrthryfelgar, yna gosodwyd drylliau tân o gylch y castell, a throwyd y brif ddinas gan liosogrwydd milwyr a pheiriannau rhyfel yn warchle milwraidd.

Y werin yn addfed i ymgodi er ys blynyddau a ddaethont i'r maes agos yn mhob ardal ar yr amser nodedig; yr oedd 15,000 o honynt gwedi ymgasglu rhwng Wexford ac Enniscorthy, ac wedi dyfetha yr ychydig nifer o filwyr oedd yn Wexford oll: gwedi meddiannu y dref rhyddasant fradwr o enw Bagenal Harvey o garchar, yr hwn a wnaethant yn ben arnynt i ymosod yn nesaf ar Enniscorthy, yr hon hefyd gwedi brwydr waedlyd a ddaeth i'w meddiant. Oddiyno aethant i Ross: ond bu sarhâd anferth arnynt yno. Ar yr 21 o Mehefin, casglodd miloedd o honynt ar *Vinegar Hill*, lle y cylchynwyd hwynt gan y llywydd Lake, yr hwn gwedi ymladdfa waedlyd am 1½ awr a feddiannodd y gwersyll, yn nghyd a'r holl beiriannau a adawodd y ffoaduriaid yn eu ffrwst ar eu hol. Oddiyma aeth milwyr y goron dan y llywydd Moore i ymosod ar Wexford, a gwedi brwydr dost ad-ennillwyd y dref, a therfyn Bagenal Harvey blaenor y bradwyr oedd cael ei grogi ar bont Wexford.

Tra yr oedd dychrynfeydd gwrthryfel fal hyn gwedi ennyn, danfonwyd am iarll Camden oddiyno, fal y byddai i ardalydd Cornwallis, yr hwn oedd yn deall defodau rhyfel yn dda ddyfod i'w le. Dechreuodd hwn ei reolaeth yn dra hynaws a chall, a chafodd ganiatâd oddiwrth ei fawrhydi i gyhoeddi maddeuant i bob bradwr a ddychwelai o'i ffordd ddrygionus: felly dychwelodd amryw. Ac ar i'r penaethiaid O'Connor, M'Nevin, Bond, ac ereill gael eu dyfarnu i'w deol i wledydd tramor, yn lle angau poenus yn ol eu haeddiant, llaesodd yr ychydig finteiodd gwrthryfelgar, fal yr aethont o'r diwedd bawb i'w babell. Dywedir i 60 neu 80,000 golli eu hywyd yn y gwrthryfel ynfyd hwn: naw rhan o ddeg yn werin, ac y lleill yn filwyr y goron.

Gwedi hyn, er rhwystro cynhwrf cyffelyb, ymroddwyd i uno Ywerddon at Loegr: senedd Lloegr a drinodd y peth gyntaf, a phenderfynwyd mai goreu oedd gwneyd yr undeb allan o law, eithr methwyd â phenderfynu yn y senedd wyddelig y tro cyntaf; ond gwedi hir ddadleu penderfynwyd felly yr eil-tro. Dechreuodd yr undeb Ionawr 1af, 1801.

Ond er yr undeb hyn, nid ymddiflanodd ysbryd gwrthryfel o'r wlad: cafodd amryw o oruchwylwyr y bradwyr Gwyddelig oedd yn Ffrainc, gyfle o ymweled â hwynt yn yr heddwch yn 1802, a dychwelasant i osod sail gwrthryfel arall, ond gan iddynt ofni bod eu brâd yn gyhoedd trwy i dŷ oedd â phowdr ynddo chwythu i fynu, cyfodasant cyn i'w cynlluniau fod yn llawn addfed. Ar y 23 o Gorphenaf 1803, daeth lliaws o'r werin i'r brif ddinas i'r dyben o ymosod ar y castell, ond yn nghwr y dref ymosodasant ar gerbyd arglwydd Kilwarden, yr hwn gyd a'i nai a laddasant. Rhoddes hyn amser i'r milwyr barotôi i warchadw y castell. Yna arweiniodd y llywydd Brown filwyr i ymosod arnynt, a bu brwydrau yn yr heol hyd oni wasgarwyd y bradwyr oll: lladdwyd Brown ac 8 o filwyr, a lliaws o'r terfysgwyr ac amryw ereill yn y trô. Gwedi hyn chwiliwyd amryw oeddynt yn euog a chrogwyd hwynt, ac yn eu plith yr oedd Emmett, mab bradwr o'r un enw. Mae y llywodraeth ar ol hyn gwedi ymroddi i fod yn fwy gwiliadwrus: a chan fod terfyn gwedi dyfod i gynnullfa arbenig y pabyddiaid, yn yr hwn yr oedd dirprwywyr o bob-cwr o'r wlad yn arddangos hyfder nid bychan, yn eu hareithiau bygythiol os gommeddai y senedd rhyddid iddynt, ac i derfyn ddyfod ar yr rhyfel rhyngom â Ffrainc, a thrwy hyny dim cynnorthwy o un-man i'w ddisgwyl, mae y wlad y pryd hyn yn ymddangos yn lled heddychlon.

# CYMRU.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Cylchynoedd. Maintioli.. Gwyneb y wlad.. Moesau y trigolion.. Rhaniadau.. Swyddi Deheubarth a Gwynedd.*

CYMRU, yw y rhan o Ynys Prydain, lle hyd y dydd hwn y cadwasom iaith ein hynafiaid, pryd y mae trigolion y parthau ereill wedi ei cholli trwy ormes y Saeson, ac yna trwy ymgymmysgu â hwynt. Ei sefyllfa sydd yn ne orllewin barthau Prydain: a chylchynir hi o bobtu gan y môr, ac afon Hafren, oddigerth ar y tu dwyrain, y lle y mae swyddi Caer, Amwythig, Henffordd, a Mynwy, yn terfynu arni. Ei hyd o barthau deheuol swydd Morganwg i ogledd-barth swydd Fflint sydd 136 milltir, ac ei lled mwyaf, sef o dy Dewi i barthau dwyreiniol swydd Brycheiniog sydd o ddeutu 100 milltir. Mae ynddi 924 o blwyfydd, 64 o drefydd marchnad, 541,546* o drigolion, ac o ddeutu 3,000,000 o erwau o dir da, ac o ddeutu 2,000,000 o erwau o fynydd-dir a diffeithfaöedd diffrwyth. Ei seneddwyr ydynt 24, sef un o bob swydd, ac un o bob prif dref, oddigerth Penfro, yr hon sydd yn danfon dau, a Meirion, yr hon nid yw ei phrif dref yn meddu y fath fraint.

GWYNEB Y WLAD.] Mynyddig ydyw trêm gyffredinol Cymru. Bu ei thrumau clogwynog a'i cheunentydd dyfnion am oesoedd lawer yn noddfeydd i'w dewrion rhag ymostwng tan iau gormes. Ansawdd ei thymhorau sy gyffelyb i'r hyn a soniwyd am dano yn hanes Lloegr, ond bod oerni y gauaf oddiwrth iâ y mynyddoedd yn fwy llym, a mwy gwres yr hâf yn y tir gwastad sydd a thrumau rhyngddo a'r gogledd.

MOESAU Y TRIGOLION.] Yr oedd Saeson y cynamseroedd o brofiad teg yn addef ein hynafiaid yn enwogion dewr, ac nad oedd ond grym y cleddyf yn unig yn alluog o'u darostwng i oddef iau estronol. Mae y Daearyddion saesonig presennol yn eu haddef yn ddewrion hyfedr, athrylithgar, elusengar, ac ond yn dannod iddynt anian ffrôm a dialgar am dro disymwth pan eu digier. Dywedant hefyd eu bod yn dra threiddgar yn ansawdd achau eu hynafiaid, er ni feiir arnynt, gan y gall y Cymro "meddant" olrhain bonedd ei genedl o amseroedd mwy boreu na nemawr o genedlaethau ereill Ewrop. Afreidiol fyddai ymgeisio ag olrhain yr arferion y sydd weithian yn ein plith, digon ydyw crybwyll bod terfyn er ys cyflawn oes bellach gwedi dyfod i rwysg y chwareuyddiaethau oferwag a arferyd ar sabathau a dyddiau gwylion, a bod y wlad weithian yn gyffredinol gwedi ymroddi i foesau gwell, y rhai yn cynnyddu beunydd, a barant o'r diwedd i'r gweddillion anfoesoldeb a didduwiaeth y sydd hyd heddyw yn llochesu mewn ambell fangre dywell anghysbell, ymddëol yn llawn gwarth o'r fro.

RHANIADAU.] Deuddeg swydd sydd yn Nghymru, chwech o honynt yn y Deheubarth, a chwech yn Ngwynedd. Eu hansawdd sy fal y canlyn.

### DEHEUBARTH.

SWYDD PENFRO, a elwid gynt Dyfed, yn gylchynedig o du y de, gorllewin, a gogledd gan y mor, ac o du y dwyrain gan afon Tywi, a swydd Caerfyrddin, sydd o 22 i 25 milltir o hyd, ac o 20 i 30 o led, ac yn cynnwys ynddi 374,400, o erwau o dir. Rhenir y swydd yn saith

* Wrth y cyfrif diweddaraf, maent ychydig tros 600,000.

cantref, 145 o blwyfydd, ac mae ynddi un ddinas, dwy fwrdeisdref, 4 o drefydd marchnad ereill, a 56,280 o Drigolion. Y parthau gogleddol a dwyreiniol ydynt fynyddig, ac y rhanau de ydynt led wastad. Canmolir ychain, defaid, a môch y wlad hon: ymenyn a chaws sydd yn doreithiol ynddi. Haiarn, tin a glô, sydd hefyd yn gynnyrch ei mwngloddiau.

Yr afonydd ydynt Teifi, Nyfer, Cuch, Gwaen, y Gleddyf fawr a'r Gleddfach. Teifi sydd yn llunio rhan o derfyn gogleddol y wlad. Y Nyfer sydd a'i blaenau yn agos i Gilgeraint, ac ei harllwysiad heibio Newport i fôr Ywerddon. Cuch yw terfyn dwyreiniol y wlad. Gwaen sydd afon fechan yn ymuno a'r môr wrth Abergwaen. Y Gleddyf fawr sydd yn codi yn mharthau gogleddol y swydd, ac wedi llifo heibio Hwlffordd, sydd yn ymarllwys i gulfor Milffwrd, yr hwn hefyd sydd yn derbyn y Gleddyf fach o fynyddoedd gogledd-barth y wlad.

Trefydd.] Mynyw, neu Ty Dewi, dinas esgobaethol sydd yn sefyll yn min y môr yn nghwr gorllewin y swydd. Bu ei hadeiladau yn fwy lliosog, ac yn fwy ardderchog gynt, nag ydynt y pryd hyn. Adgyweiriwyd y brif eglwys yn ddiweddar, ond mae y llŷs esgobawl yn adfeiliedig. I'r de orllewin o'r dref mae ynys Rumsey, ac yn nes i'r gogledd orllewin mae ynysoedd peryglus i fordwyaeth a elwir yn esgob a'i glochyddion.

Abergwaen, 14 milltir i'r Gdd. orllewin o dy Dewi, ac ychydig i'r de o lenydd y Gwaen, sy dref marchnad a phorthladd led ëang yn perthyn iddi. Tiriodd yn 1797 o ddeutu 1,400 o Ffrancod ynddi, y rhai trwy ddewrder arglwydd Cawdor â thrigolion y dref a'r gymydogaeth a wnaethant yn garcharorion. Trigolion, yn 1801 oeddynt 1,503.

Newport, chwe milltir i'r gorllewin o Abergwaen, sydd bentref mewn sefyllfa brydferth, ac ynddi eglwys dra hardd. Canfyddir yma ddarnau o'r castell a ddistrywiwyd gan Llywelyn tywysog Dyfed. Wyth milltir i'r dwyrain iddi mae Cilgeraint, tref fechan ar lethr gallt serth.

Hwlffordd, ar lan gorllewinol y Gleddyf fawr, ac 11 milltir o Abergwaen, bwrdeisdref yn danfon aelod i'r senedd, sydd enwog am helaethder ei threfnidiaeth. Ynddi mae eisteddfod yr yngnaid yn cael ei chynnal. Yd ydyw y prif dda a ddanfonir o honi: mae ynddi gastel cadarn a gweithfaöedd Cotwm. Trigolion 2,280.

Penfro, 10 milltir i'r de o Hwlffordd, sydd yn sefyll ar gainc o gulfor Milffwrd: ei phrif hëol sy hardd, ac yn cyfeirio at furddyn castell tragwych gynt, o adeiladaeth Harri I. Pedair milltir i'r gogledd ddwyrain mae castell Carew, ac nid pell oddiwrthi mae castell Picton, annedd arglwydd Milffwrd, a adeiladwyd yn nyddiau William II. Trigolion 1,832. Danfonir oddiyma mewn cysylltiad a Dinbych a Chastell Gwys un aelod i'r senedd.

Milffwrd, ar du gogleddol culfor o'r un enw, a 6 milltir i'r gogledd orllewin o Penfro, sydd adeiladaeth newydd, a chan ëangder ei phorthladd, yr hon sy ddigon ëang i gynnwys mil o longau i nofio arno ar unwaith, mae yn debyg mae lle a gynnydda ydyw. Mae trefnidwyr o America gwedi adeiladu ystordai ynddi. Yma y tiriodd dug Richmond, yna Harri VII i ymddial ar draws lywodraeth Richard III.

Dinbych, neu Dinbych y Pysgod sy dref hardd ar lethr gallt, 11 i'r gorllewin o Penfro. Gan gynniweiriad y mawrion i ymdrochi yn y môr yma, mae ynddi chwareudy gwŷch ac anneddau dywenydd ereill.

Bu mûr o'i bamgylch gynt. Trigolion 844. Ynys Pyr, lle byfryd amser hâf sy 4 milltir oddiwrthi.

Arberth, 7 milltir i'r gogledd orllewin o Ddinbych, sy lle hyfryd, yn sefyll ar fryn mewn ardal dra ffrwythlon. Trigolion 1,531. Castell Gwys, 6 milltir i'r gogledd orllewin o Arberth sydd weithian o lai brî na chynt.

Swydd Caerfyrddin, sydd yn gylchynedig o du y gogledd gan Garedigion a Brycheiniog: o du y dwyrain gan Brycheiniog a Morganwg, o du y de gan y mor, ac o du y gorllewin gan Dyfed: ei hyd hwyaf yw 44 milltir, a'i lled 30. Rhenir hi yn 8 cantref a 145 o blwyfydd, ac mae ynddi un fwrdeisdref a 6 thref marchnad ereill, a 67,317 o drigolion.

Mae trum uchel yn ymestyn ar hyd ei therfyn gogledd orllewinol, ac un arall ar y terfyn gogleddol, yr hwn sydd yn ymuno a'r mynyddoedd dû yn nghyffiniau Brycheiniog. Ei pharthau canol a deheuol ydynt dra ffrwythlon. Bu y wlad hon yn fwy coediog gynt nag y pryd hyn. Mae ei hinsoddau yn fwy meithringar i geirch a gwair, nag i haidd a gwenith. Ei mwngloddiau ydynt yn rhoddi haiarn, plwm, tin, a glo.

Yr afonydd ydynt y Llychwr yr hon sy derfyn rhwng Caerfyrddin a Morganwg. Y ddwy Wendraeth ydynt afonydd bychain yn ymuno a'u gilydd ychydig goris Cydweli Tywi sydd yn codi yn mynyddoedd serth dwyrein-barth Caredigion, ei rhedfa sy trwy Llanymddyfri a Llandeilo, heibio i gastell Dinefwr, ac oddiyno trwy Gaerfyrddin i'r mor: mae amryw o afonydd bychain yn ymarllwys iddi, ac mae hi yn fordwyol i lestri o gryn faint hyd at Gaerfyrddin. Cothi, wedi llifo o'r mynyddoedd gogleddol trwy nant ffrwythlon sydd yn ymuno â Thywi 8 milltir o Gaerfyrddin. Taf sydd a'i blaenau o ddeutu mynydd ar gyffiniau Dyfed, y rhai ydynt yn ymuno a'r môr wrth dref Llacharn.

Trefydd.] Caerfyrddin, yn sefyll mewn dyffryn teg ar lenydd afon Tywi, a 9 milltir oddiwrth y môr, sy dref hardd; hi ydoedd brif dref y Deheubarth gynt: yr oedd muriau o'i hamgylch y pryd hyny, ac mae y porth dwyreiniol yn lled gyfan hyd heddyw. Yr eglwys sydd adeilad fawr, ac yn sefyll ar y tu allan i'r dref. Yma mae yngnaid y wlad yn ymgynnull i weinyddu cyfiawnder. Trigolion 5,548.

Llacharn, 8 milltir i'r de orllewin o Gaerfyrddin, ac ar aber afon Tywi, fu yn gadarn gynt: mae castell Llanstephan ar un tu iddi, a gweddillion un arall ar fin y môr ar y tu arall.

Cydweli, ar afon Gwendraeth, milltir i'r dwyrain o Lacharn, a 4 milltir oddiwrth y môr, sy dref ar gynnydd mewn trefnidiaeth. Mae camlas yn cyrhaedd o'i gweithfaoedd glô i'w phorthladd Dywedir mai y brenin Ioan a adeiladodd ei chastell. Trigolion 1,388. Llanelli 7 milltir ar fin y môr oddiwrthi, sy bentref bychan, ond poblog o herwydd y pyllau glô cyfagos.

Llandeilo fawr, 17 milltir i'r dwyrain o Gaerfyrddin, yn sefyll ar lan Tywi, sy dref fechan led hardd, yn cynnwys 647 o drigolion. Rhyngddi a Chaerfyrddin mae llŷs ardderchog o enw Middleton, yn perthyn i deulu Paxton; ac o ddeutu milltir oddiwrthi mae castell Dinefwr ar fryn coediog. Yn gyfagos i hon y cafodd y Saeson oruchafiaeth ar Lywelyn tywysog Cymru, yr hon a barodd yr undeb rhwng Lloegr a Chymru.

Llangadwg, 7 milltir i'r gogledd ddwyrain o Landeilio, a rhwng

dwy ffrwdo enwau Brân a Sawddi sydd ag adeiladau da ynddi. Trigolion 1,821.

Llanymddyfri, neu Llanddyfri 7 milltir i'r gogledd orllewin o Langadwg, ar lenydd afon Tywi, sy dref fechan yn nghwr uchaf dyffryn Tywi. Bu castell cadarn i hon gynt.

Castell Newydd yn Emlyn, 17 milltir i'r gogledd orllewin o Gaerfyrddin sy le bychan, yn gylchynedig gan wlad noethlom.

Swydd Brycheiniog, sydd a swyddi Morganwg a Mynwy ar y tu de, Henffordd ar y tu dwyrain, Maesyfed ar y tu gogledd, a Chaerfyrddin ar y tu gorllewin. Ei hyd mwyaf sydd 33 milltir, a'i lled sydd yn amrywio o 7 i 18 milltir, felly yn cynnwys o ddeutu 432,000 o erwau o dir. Rhenir hi yn 6 cantref, a 62 o blwyfydd, ac mae ynddi un fwrdeis-dref, 3 tref marchnad, a 31,633 o drigolion.

Hon yw y fwyaf mynyddig o swyddi y Deheubarth, er hyny mae ei gwyneb yn dra hardd gan yr amrywiad o nentydd, afonydd, llynau, &c. Mynydd Tre'r Bedw, 7 milltir i'r gogledd orllewin o Aberhonddu ydyw yr uchaf yn ei thrumau Mae haiarn a glô yn cael ei gloddio yn y trumau sydd o ddeutu y terfyn rhyngddi a Morganwg.

Yr afonydd ydynt, Irvon, ac Elain y rhai sydd yn codi yn Ngharedigion, ac yn llifo heibio Abergwesyn a Llangamarch i afon Gwy wrth Buallt. Afon Gwy sydd a'i blaenau yn mynydd Pumlumon, a'i rhediad heibio y Gelli i Henffordd, lle mae y Llug o Maesyfed yn ymuno a hi, ac oddiyno heibio dref Mynwy i fôr Hafren. Afon Wysg sydd yn codi o fynyddoedd deheuol y wlad, ei llifiad sy trwy Aberhonddu ac Abergefni i fôr Hafren.

Trefydd.] Aberhonddu, yn sefyll ar y rhan hyny o afon Wysg sydd yn derbyn ffrwd o enw Honddu, sydd a'i hadeiladau yn lled anrhefnus ei gosodiad, er hyny yn enwog mewn trefnidiaeth. Mae ynddi dair eglwys a murddynau castell, yr hwn yn nghyd a mûr y ddinas a ddistrywiwyd gan Cromwell. Mae ynddi arfdy gwych: hefyd camlas yn cyrhaeddyd o honi i Abergefni. Trigolion 2,576.

Buallt, 11 milltir i'r gogledd o Aberhonddu, ac ar lenydd cydlifiad afonydd Gwy ac Irvon, sy dref o ddwy hëol ar lethr bryndir. I'r gorllewin iddi mae ffynonydd meddygol Llandrindod a Llanwrtyd. Trigolion 677.

Y Gelli, 12 milltir i'r gogledd orllewin o Buallt sy dref o lai brî na chynt, ar wastadedd uchel yn agos i ddyffryn afon Wysg. Distrywiwyd ei chastell o wneuthuriad y Rhufeiniaid gan y brenin Ioan ar i'r Ffrancod dirio iddi. Trigolion 1,170.

Crug Hywel, 14 milltir i'r de o Y Gelli sy dref fechan ar dir uchel yn agos i lenydd y Wysg. Mae yn agos iddi weddillion castell ac amddiffynfa Rhufeinaidd Trigolion 566.

Swydd Morganwg, sydd yn gylchynedig o du y gogledd gan Brycheiniog, ar y tu dwyrain gan Mynwy, ar y tu de gan fôr Hafren, ac ar y tu gorllewin gan swydd Caerfyrddin; yn 52 milltir o ddwyrain i orllewin o hyd, ac 28 o dde i ogledd o led; ac mae ynddi o ddeutu 537,440 o erwau o dir. Rhenir hi yn 10 cantref, a 118 o blwyfydd, ac mae ynddi un ddinas, un fwrdeis-dref, 7 o drefydd marchnad ereill, a 71,525 o drigolion.

Mae trumau Brycheiniog yn ymestyn i hon, ac yn cynnwys ynddynt doraeth o haiarn, glô, a phlwm. Y parthau canol ydynt dir uchel a nentydd ëang coediog rhyngddynt, ac yn ei pharthau deheuol mae

gwastadoedd ëang, a mwyaf ffrwythlon eu cynnyrch o ŷd a gwair o unrhyw yn Nghymru.

Y prif afonydd ydynt y Rhymni, neu Eleirch, y terfyn rhwng Morganwg a Mynwy, y ddwy Daf neu Dyf. Elai, Ogwr, Afan, Nedd, Clydaw, Tawe, ac y Llychwr, y rhai ydynt a'u blaenau yn y drum sydd yn ngogledd-barth y swydd. Y Rhumni sydd yn ymuno a'r môr ychydig i'r dwyrain o Gaerdyf. Taf sy dra buan, ac yn derbyn iddi afonydd Cynnon, a Rondda fawr, yna yn llifo heibio i Gaerdyf i fôr Hafren. Afon Elai sydd yn ymuno a'r môr o fewn 2 filltir i aber y Taf. Yr Ogwr sydd yn ymarllwys i'r môr wrth St Brides, ac Afan wrth aber y sydd a'i henw arni. Cludaw sydd a'l blaenau yn mynydd Tre'r Bedw, a'i llifiad sy trwy nentydd coediog, a thrwy y gwastadoedd i fôr Abertawe. Tawe o yn agos i'r un codiad ac o gyffelyb rediad sydd yn ymuno a'r môr wrth dref Abertawe. Llychwr sydd a'i blaenau yn swydd Caerfyrddin, ac wedi llunio rhan o derfyn y ddwy wlad sydd yn ymuno â môr Hafren.

Trefydd.] Llandaf, dinas fechan esgobaethol ar lethr bryndir ychydig i'r de orllewin o afon Taf, sydd yn cynnwys ynddi brif eglwys dra gwych, o adeilad esgob Urban yn 1120. Trigolion 860.

Caerdyf, dwy filltir i'r dwyrain o Landaf, ac ar y tu arall i'r afon sydd ag adeiladau gwych ynddi. Er bod y dref hon 3 milltir oddiwrth y mor, mae yr afon yn ddigon dofn i longau o 200 tunell nofio arni hyd ati. Mae muriau hen gestyll cadarn a adeiladwyd yn 1180 agos gwedi eu dëol tu ag at adeiladu. Trigolion 1,870.

Caerffili, 7 milltir i'r gogledd orllewin o Gaerdyf, sy dref fechan lanwaith yn cynnwys ynddi 200 o drigolion, ac yn hynod am fod tŵr y castell sydd ynddi yn gogwyddo 11½ troedfedd dros ei droed.

Merthyr Tydfyl, 12 milltir i'r de orllewin o Gaerffili, pentref bychan gynt, sydd weithian gan ei hagosrwydd i'r mwngloddiau haiarn yn dref boblog. Cylchynir hi gan ffwrndai, y rhai yn nghyd ydynt yn llosgi 250 o dunelli o lô yn wythnosol tu ag at barotoi yr haiarn. Trigolion y dref ydynt 1,256.

Llantrisant, 10 milltir i'r gogledd orllewin o Gaerdyf, sy dref yn cynnwys ynddi adeiladau hardd. Ei llŷs cyfraith ac ei marchnadty ydynt adeiladau newydd. Trigolion 1,715.

Pont y Fôn, 11 milltir i'r gorllewin o Caerdyf, a 6 milltir oddiwrth y môr, sydd yn cynnwys ynddi un hëol a rhai adeiladau da. Bu mynachdy ynddi gynt, a chestyll cadarn yn ei hamddiffyn. Trigolion 759.

Pen y Bont, 7 milltir i'r gogledd orllewin o Bont y Fôn, ar lenydd afon Ogwr sy dref ag adeiladau hardd ynddi. Dwy filltir oddiwrthi mae gweddillion abatty Margam. Trigolion 1,701.

Nedd, yn sefyll mewn glyn ar lenydd Nedd, a Chlydaw, a 14 milltir i'r gogledd orllewin o Ben y Bont sydd a'i heolydd yn gulion. Mae gweithfaöedd haiarn ac efydd ynddi, mŵg y rhai sydd yn peri tawch afiach yn wastadol ynddi. Hanner milltir o'r dref canfyddir murddyn hynod, sef gweddillion abatty Glyn Nedd, am fod yn noddfa am ychydig i Edward II cyn ei gymeryd gan iarll Leicester yn 1326. 5 milltir oddiwrtho mae rhaiadr Melinycwrt, yr hwn sy 80 troedfedd syth. Pump milltir oddiwrtho hefyd mae Aberafon a 275 o drigolion.

Abertawe, 7 milltir i'r de orllewin o Nedd, sy gan harddwch ei hëolydd a thrêm ei hadeiladau yn rhagori ar lawer o drefydd y deau. Mae ynddi borthladd ëang i'r hwn mae gryn dramwyfa o longau. Cludir

ar gamlas sydd yn terfynu ynddi efydd o'r mwngloddiau i'w doddi yn ei ffwrndai, a chludir llawer iddi o fynydd Paris yn Môn. Mae cynulliad y mawrion i ymdrochi ar ei thraethau gwastad, gwedi peri i chwareudy hardd gael ei adeiladu ynddi. Murddynau cestyll o'i hamgylch ydynt amrywiol. Trigolion 6,421.

Swydd Caredigion, sydd a Phenfro a Chaerfyrddin ar y tu de, Brycheiniog a Maesyfed ar y tu dwyrain, Trefaldwyn a Merionydd ar y tu gogledd, a chainc o fôr Udd sydd ag enw Aberteifi arno ar y tu gorllewin. Ei hyd o ogledd ddwyrain i dde orllewin sy 45 milltir, a'i lled mwyaf ar draws sydd 20 milltir, ac yn cynnwys agos i 500,000 o erwau o dir. Rhenir hi yn 5 cantrefa 77 o blwyfydd, ac mae ynddi un fwrdeis-dref, 4 tref marchnad, a 42,956 o drigolion.

Yn mharthau gogledd ddwyreiniol Caredigion, ac o ddeutu y terfyn rhyngddi a Threfaldwyn, mae mynydd Pumlumon, yr hwn sydd yn bwrw trumau oddiwrtho, y rhai yn ymuno a thrum Tre'r Bedw o Frycheiniog ydynt yn rhoddi golwg mynyddig i'r holl wlad, oddigerth y parthau sydd yn terfynu ar y môr. Mae y dyffryn-dir yn cnydio yn helaeth, ac mae ochrau y mynyddoedd yn rhoddi toraeth o laswellt i anifeiliaid. Haidd sydd fwyaf toreithiol ynddi. Haiarn a phlwm ydynt hefyd yn cael eu cloddio ynddi.

Yr afonydd ydynt, Dyfi y terfyn rhyngddi a Meirion, Rheidiol, Ystwyth, Aeron, a Theifi. Y Rheidiol sydd yn tarddu o ddau le yn gyfagos i Bumlumon ac yn ymuno â'r môr wrth Aberystwyth. Afon Ystwyth sydd a'i blaenau yn Mhumlumon, ac yn ymuno a Rheidiol ychydig cyn cyrhaedd yr aber. Aeron sydd a'i chodiad o fewn 6 milltir i Llanrhystyd, a'i rhediad gwedi 8 milltir i'r de sydd oddiyno yn orllewinol i'r môr. Teifi sydd â'i blaenau mewn llynau bychain 14 milltir i'r de ddwyrain o Aberteifi; mae hon o Lanbedr i'r môr yn llunio terfyn y wlad.

Trefydd.] Aberteifi, 26 milltir i'r gogledd orllewin o Gaerfyrddin, sy dref hardd mewn lle prydferth ar du gogledd Teifi. Plwm a haiarn ydyw trefuidiaeth ei phorthladd. Mae pont hardd o 5 bwa ar draws yr afon yn agos iddi. Ei chastell cadarn gynt sydd weithian yn llwyr adfeiliedig. Mae Aberteifi, Aberystwyth, a Llanbedr cyd rhyngddynt yn danfon aelod i'r senedd. Trigolion 1,870.

Llanbedr Pont Stephen, 30 milltir i'r dwyrain o Aberteifi sy dref fechan ar lan y Teifi, ond yn lle o gryn drefnidiaeth mewn anifeiliaid, &c. Trigolion 669.

Tregaron, 7 milltir i'r gogledd ddwyrain o Lanbedr, ac ar ochr de Teifi, enwog tra yr oedd ei chloddfeydd plwm yn agored, sydd weithian a golwg distadl arni.

Aberystwyth, 15 milltir i'r Gdd. o Dregaron, ac ar aber cydlifiad Rheidiol ac Ystwyth, sydd a'i hadeiladau gan mwyaf o lechfeini duon; felly yn peri golwg pell o fod yn siriol arni. Mae cryn dramwyfa iddi i ymdrochi. Ychydig ydyw ei threfnidiaeth gan nad diogel ei phorthladd ar brydiau. Yn agos iddi mae murddynau abatty Ystrad Fflur. Trigolion 1,759.

Llanbadarn fawr, milltir uwch nag Aberystwyth, ac ar yr un afon, sy dref marchnad a phorthladd llongau, ac yn cynnwys ynddi 1,228 o drigolion.

Swydd Maesyfed, sydd a Threfaldwyn ar y tu gogledd, Amwythig a Henffordd ar y tu dwyrain, Brycheiniog ar y tu de, a Charedig-

ion ar y tu gorllewin. Ei hyd o ogledd orllewin i dde ddwyrain sy 25 milltir, ac ar draws 17, ac mae ynddi 272,000 o erwau o dir. Rhenir hi yn 6 cantref, 52 o blwyfydd, ac mae ynddi un fwrdeisdref, 3 tref marchnad ereill, a 19,050 o drigolion.

Mynyddig ydyw prif drém y swydd hon, er hyny mae ynddi ddyffrynoedd coediog a dolydd ffrwythlon, ac mae cryn lawnder o ŷd ynddi yn cael ei godi.

Yr afonydd ydynt Gwy, Llug, Ieithon a Tâm. Gwy a Llug a grybwyllwyd am danynt o'r blaen. Ieithon sydd a'i blaenau yn agos i Aberhonddu a'i chyfeiriad sydd i swydd Henffordd, ac felly mae Tâm, yr hon sydd a'i blaenau yn agos i'r Dref Newydd yn swydd Trefaldwyn.

TREFYDD.] MAESYFED ar un o geinciau afon Llug sy dref fechan, ag adeiladau gwael ynddi. Cylchynir hi o bob tu gan drum-dir serth. O fewn 2 filltir iddi mae yr hen dref ar graig-le uchel a fu gynt yn amddiffynfa Rufeinaidd. Trigolion 347.

Llan Andrew, neu Presteign, 5 milltir i'r gogledd ddwyrain o Faesyfed sy gan harddwch ei hadeiladau yn brif dref y swydd: yma mae yngnaid y wlad yn ymgyfarfod i ddosbarthu cyfiawnder. Y trigolion ydynt 1,057.

Tref y clawdd, 7 milltir i'r gogledd o Lan Andrew, sy dref hardd ar lethr bryn prydferth: mae yn agos iddi wersylloedd Caradog a Caisar. Clawdd Offa yn ymestyn o swydd Fflint i afon Hafren sy hefyd yn cyfeirio heibio i Dref y Clawdd. Trigolion, 758.

Rhaiadr Gwy, sy dref hardd yn gyfagos i raiadr sydd yn rhoddi enw iddi. I'r mynyddoedd cyfagos i hon y diangodd Gwrtheyrn gwedi dryllio ei fyddin gan y Saeson: 9 milltir i'r de ddwyrain iddi mae tair ffynon Llandrindod, y rhai sydd a'i dyfroedd yn feddyginiaethol.

GWYNEDD.

SWYDD TREFALDWYN, sydd yn terfynu i'r gogledd orllewin ar Feirion, i'r gogledd ar gainc o Hafren y sydd yn ei gwahanu oddiwrth swydd Dinbych a rhan o swydd Amwythig; ar y tu de orllewin ar Garedigion, ac ar y tu de ddwyrain ar Maesyfed. Ei hyd mwyaf yn 42 milltir, ei lled yn 28, ac yn cynnwys ynddi 520,960 o erwau. Mae ynddi 9 cantref, gwedi eu rhanu yn 47 o blwyfydd; saith dref marchnad, a 47,978 o drigolion Mae 5 o'r trefydd yn fwrdeisiol, sef Trefaldwyn, Trallwng, Llanfyllin, Machynllaith, a Llanidloes, y rhai ydynt yn ymuno i ddanfon aelod i'r senedd.

Mae yr holl derfyn gogledd orllewinol a deheuol yn fynyddig, gan gydiad trumau o Bumlumon a thrumau Berwyn, y rhai ydynt yn danfon lliaws o afonydd a ffrydiau i ddyfrhau y nentydd ffrwythlon. Ydiadelloedd defaid ydynt liosog, y rhai yn preswylio y mynyddoedd uchel yr hâf, ydynt yn pori ar y gwastadoedd y gauaf. Plwm sydd helaeth yn mynydd Llangynog, ond nid oes glô ynddi.

Yr afonydd ydynt y Fyrnwy, Tanad, ac amryw ereill y sydd yn llunio blaenau Hafren, yr hon a grybwyllwyd o'r blaen.

TREFYDD.] TREFALDWYN, sy dref fechan hardd, ar lethr bryn ar lan Hafren: yma bob yn ail â'r Trallwng a Machynllaith y cynhelir eisteddfod yr yngnaid. Ei chastell oedd hardd hyd amser Cromwell. Mae murddynau cestyll ereill ac amddiffynfeydd yn gyfagos iddi. Trigolion 972.

Y Trallwng, 9 milltir i'r gogledd o Drefaldwyn, yn sefyll ar lethr bryn sydd yn terfynu ar lenydd Hafren, sydd â rhai heolydd hardd ynddi Hon ydyw prif farchnad y gwledydd cymydogaethol mewn gweithfaoedd gwlan. Y Castell Coch yn Mhowys ar fryn cyfagos, gynt yn dra chadarn, sydd eto yn hardd yr olwg arno. Trigolion 2,872.

Llanfair Caer Einion, 7 milltir i'r gorllewin o'r Trallwng sydd hynod am ei marchnad brethynau, gwlaneni, &c. Trigolion 2,137.*

Llanfyllin, 8 milltir i'r gogledd o Lanfair, tref fechan hardd ar lethr bryn yn gyfagos i afon Cain, sydd hynod am ei gweithdai gwlân. Yn Llangynog 5 milltir oddiwrthi agorwyd yn 1692 glawdd plwm, ond methwyd ei weithio y pryd hyny gan y dwfr oedd yn croni ynddo. Mae weithian yn agored, ac mae peiriannau addas i sugno y dwfr o hono. Trigolion 1,394.

Tref newydd, 8 milltir i'r de orllewin o Drefaldwyn, ar lan Hafren, ac yn gylchynedig gan fryndir coediog, sy le prydferth, enwog ei marchnad gwlaneni.

Llanidloes, 13 milltir i'r de ddwyrain o'r Dref newydd, ar y tu de i Hafren sydd a phedair heol hardd ynddi, a marchnad-dy mewn petrual yn y canol. Gwlân ydyw ei phrif gyfoeth. Trigolion 2,282.

Machynllaith, 13 milltir i'r gogledd orllewin o Lanidloes, mewn dyffryn ffrwythlon ar lenydd y Dyfi, sydd yn cynnwys tair heol hardd.

Swydd Dinbych sydd a 12 milltir o'i therfyn gogleddol ar fôr Ywerddon, ar y tu dwyrain ar Fflint, Caerlleon, ac y ddarn o honi sydd ar y tu dwyrain i afon Dyfrdwy ar swydd Amwythig; ar y tu de ar Drefaldwyn a Meirion, ac ar y tu gorllewin ar swydd Gaernarfon: ei lled mwyaf o ddwyrain i orllewin sy 40 milltir, ac ei hyd mwyaf ar draws hyny, sydd 34, ac yn cynnwys ynddi 410.000 o erwau o dir. Dosberthir hi yn 6 cantref, a 57 o blwyfydd, un fwrdeisdref, a 4 tref marchnad ereill, ac mae ynddi 60,352 o drigolion. Holt, Dinbych, a Rhuthin ydynt yn ymuno i ddanfon aelod i'r senedd.

Y parthau gogleddol o Abergeleu hyd Rhuddlan sydd wastadedd ffrwythlon, ond cantref Iâl a'i gymydogaeth yn y parthau deheuol sy fynyddig. Dyffryn Clwyd o gylch Dinbych ydyw y daran fwyaf ffrwythlon ac harddaf yn Nghymru. Mae ynddi hefyd gloddfeydd plwm a glô yn rhoddi gwaith i gantoedd o ddynion.

Y prif afonydd ydynt, Conwy, Elwy, Clwyd, a Dyfrdwy. Conwy sydd a'i blaenau yn mynydd Migneint, ac wedi derbyn Machno, mae hi trwy Lanrwst yn ymgyfeirio i fôr Ywerddon wrth dref Conwy: mae hi yn fordwyol agos i Lanrwst. Elwy sydd yn dechreu yn ddwy gainc, sef Aled ac Elwy yn mynydd Hiraethog, sef o ddeutu 5 milltir i Lanrwst, a gwedi llifo trwy Ddyffryn Clwyd, mae hi yn ymuno a'r afon hono (yr hon sydd yn tarddu o'r un mynydd) wrth Lanelwy. Afon Dyfrdwy sydd yn tarddu o Tegyd yn Meirion, ac yna mae hi yn ymgyfeirio i'r gorllewin o Langollen i Holt, ac oddiyno i'r môr heibio dinas Caerlleon.

Trefydd] Dinbych, yn sefyll ar fryn yn Nyffryn Clwyd, sydd dref hardd. Yr oedd hi yn gylchynedig gan fûr gynt, ac mae darnau o gastell cadarn o waith iarll Lincoln ynddi. Trigolion 2,391.

Rhuthyn, 6 milltir i'r de ddwyrain o Ddinbych, ar lan afon Clwyd, ac yn nghwr mwyaf deheuol y dyffryn, gynt yn gylchynedig â chaer, sydd a rhai o'i hadeiladau yn brydferth. Trigolion 1,115.

* Mae y rhif hwn yn cynnwys trigolion y plwyf yn nghyd a'r dref, ac felly Llanrhaidr yn Mochnant, a rhai manau ereill.

Llangollen, 13 milltir i'r de ddwyrain o Ruthyn, sy dref fechan ar lan Dyfrdwy, ac agos yn gylchynedig gan fynyddoedd uchel. Ar fynydd cyfagos mae castell Dinas Brân: ac o ddeutu 2 filltir oddiwrthi mae murddyn abatty Llan Egwestl, a adeiladwyd yn 1200. Ar y ffordd o honi i Gorwen dangosir y lle yr oedd llys Owen Glyndyfrdwy. Trigolion 1,217.

Llanrhaidr yn Mochnant, 10 milltir i'r de orllewin o Langollen, sydd hen bentref mawr yn gylchynedig gan fynyddoedd serth. O ddeutu 4 milltir i'r de ddwyrain mae rhaiadr 150 troedfedd o uchder, yr hwn yw y mwyaf yn Nghymru, ag sydd adnabyddus wrth yr enw Pistyll Rhaiadr Y lle hwn oedd bywioliaeth y Dr. Morgan, a gyfieithodd y Bibl gyntaf i'r Gymraeg. Trigolion 1,869

Wrexham, 10 milltir i'r gogledd ddwyrain o Langollen, mewn dyffryn ffrwythlon, a chamlesydd o honi i Gaer â lleoedd ereill, sy le poblog, ond o ran ei hadeiladau oddigerth ei heglwys hardd, yn anenwog. Mae marchnad wlan eang ynddi, ac mae yn ei chymydogaeth weithydd haiarn i lunio peiriannau rhyfel, &c. 8½ milltir oddiwrthi mae Castell y Waen ar fryn uchel.

Holt, 5 milltir i'r gogledd ddwyrain o Wrexham, ar afon Dyfrdwy y sy dref marchnad go fawr: mae pont gwedi ei hadeiladu yn 1345 o 10 bwa tros yr afon yn gyfagos iddi. Trigolion 804.

Llanrwst, 16 milltir i'r gorllewin o Ddinbych, ar lan afon Conwy, mewn gwastadedd cylchynedig ar un tu gan drum o Arfon, ac ar tu arall gan geinciau o Fynydd Hiraethog, sydd yn cynnwys rhai adeiladau hardd, ond o osodiad yn annrhefnus: ei phont a'i heglwys ydynt adeiladau hardd. Trigolion 2,549.

Swydd Fflint, sydd yn gylchynedig o du y gogledd gan fôr Ywerddon, ac mae aber y Dyfrdwy yn ei gwahanu oddiwrth Wirral yn swydd Gaer: ac o'r tu de a gorllewin ar swydd Dinbych. Hon yw y leiaf mewn maint o swyddi Cymru, ei holl wyneb yn mesur dim mwy na 167,040 o erwau. Rhenir hi yn 5 cantref ac 28 o blwyfydd; ac mae ynddi un ddinas, un fwrdeisdref, 4 o drefydd marchnad ereill, a 39,622 o drigolion

Gwlad goediog, hardd gan lysoedd gwych yw Fflint, ac nid yw ei mynyddoedd yn uchel hyd oni ddeuir i barthau de orllewin y wlad, lle canfyddir trumau serth: y tir sy gleiog, ond ffrwythlon o bob angenrheidiau. Efydd, plwm a glo, sydd hefyd yn doreithiol ynddi.

Yr afonydd sydd yn dyfrhau y wlad hon ydynt, Elwy, Clwyd, ac Alun, yr hon sydd yn codi yn agos i Llagollen, ac yn soddi i'r ddaear yn agos i'r Wyddgrug, a thrachefn yn ymgodi i ymuno â Dyfrdwy.

Trefydd.] Llanelwy, dinas esgobaethol, yn sefyll ar gydlifiad afonydd Elwy a Chlwyd, sydd a'i phrif eglwys yn adeilad hardd, a thros fil o flynyddoedd oed Nid yw heolydd y ddinas ond annrhefnus eu gosodiad. Trigolion 1,513.

Treffynon, 10 milltir i'r dwyrain o Lanelwy, sy dref boblog ar lethr bryn: yma mae ffynon Gwenfrewi, hynod am ei gwyrthiau yn oesoedd anwybodaeth. Daeth Iago II i'w gweled, a chafodd yn wobrwy y crys oedd am ei nain Mary o Ysgotland pan ddihenyddiwyd hi. Dywedir bod 20 tunell o ddwfr yn tarddu o'r ffynon bob munud. Prif drefnidiaeth y dref ydyw yr efydd a'r plwm sydd yn ei chymydogaeth. Trigolion 5,567

Fflint, 5 milltir i'r de ddwyrain o Dreffynon, gynt yn brif dref y

swydd, sydd a'i heolydd yn annrhefnus, ac yn sefyll ar lan afon Dyfrdwy. Bu hon yn gadarn gynt gan fûr a chestyll yn ei hamddiffyn. Y trigolion ydynt 1,169.

Caerwys, 8 milltir i'r gorllewin o Fflint, yn sefyll ar darren fu gynt yn amddiffynfa Rufeinaidd, sy dref farchnad yn cynnwys 773 o drigolion.

Llaneurgain neu Hawarden, 6¼ milltir i'r de ddwyrain o Fflint, sydd yn cynnwys un heol hir, a rhai adeiladau da ynddi. Mae y gwaith llestri pridd, &c. yn rhoddi gorchwyl i lawer ynddi, Trigolion 4,071.

Wyddgrug sydd dref o un heol hir a thra phoblog: yr oedd castell cadarn yn perthyn i hon gynt. Trigolion 4,235.

Swydd Meirionydd sydd yn terfynu o du y gogledd ar Arfon a Dinbych, o du y dwyrain ar Drefaldwyn, o du y de ar afon Dyfi, y terfyn rhyngddi a Charedigion, ac o du y gorllewin ar fôr Ywerddon. Ei hyd o ogledd ddwyrain i dde orllewin sydd 50 milltir, ac y lled mwyaf ar draws hyny sydd 38; ac yn cynnwys ynddi 462,720 o erwau. Rhenir hi yn 5 cantref, a 33 o blwyfydd, ac mae ynddi 4 tref marchnad a 29,506 o drigolion. Gwlad fynyddig ac ynddi liaws o lynnau, afonydd, a rheiadrau yw hon, ac Hiraethog a Berwyn, ar ei therfyn gogleddol sydd yn bwrw amryw geinciau iddi; a chadair Idris i'r de o Ddolgellau yw y mynydd uchaf ynddi, yn estyn oddiyno hyd at lyn Tegyd, Mae y glynoedd ac yr ychydig wastadoedd sydd ynddi yn dra ffrwythlon mewn coed, ŷd, ac y cyffelyb.

Y prif afonydd ydynt Dyfrdwy, a Dyfi, y rhai a soniwyd am danynt eisoes: Alwen, Tryweryn, a Llafar, yn rhedeg i Ddyfrdwy; Maw a Mawddach, Cain, Cynfel, ac ereill, y rhai sydd yn codi o Fignaint, y Llywlluch a thrumau ereill, ac yn ymarllwys i fôr Ywerddon. Gwynion yn tarddu o'r bryndir yn cylchynu llyn Tegyd sydd yn ymuno â Maw wrth Lanelltyd, ac oddiyno yn cyfeirio i'r môr wrth dref Abermaw. Dysyni sydd a'i blaenau yn Nghadair Idris a'i harllwysiad i'r môr sydd yn Aber Dysyni wrth Dowyn; a Diwlais yn rhedeg i Ddyfi.

Trefydd.] Dolgellau, tref hardd sydd agos yn gylchynedig gan fynyddoedd. Ychydig oddiwrthi mae Cadair Idris tros 900 llâth goruwch gwastadedd y dref. Mae ynddi weithfaoedd brethynau. Trigolion 2,949.

Dinas Mawddwy, ar afon o'r enw hyny, 8 milltir i'r de ddwyrain o Ddolgellau sy dref led annrhefnus yn ngosodiad ei hadeiladau. Mae ei sefyllfa yn ngwaelod nant goris mynyddoedd uchel.

Harlech, 20 milltir i'r gogledd orllewin o Ddolgellau, sy dref farchnad fechan, ond bu gynt yn brif dref y swydd. Ei chastell ar graig uchel a adeiladwyd gan Edward I yn 1283, a hwn a ddaliodd allan hwyaf o du Charles I yn nyddiau rhwysg Cromwell.

Bala, 18 milltir i'r gogledd ddwyrain o Ddolgellau, sy dref hardd, ac ynddi gryn drefnidiaeth mewn brethynau, gwlaneni, hosanau, &c. mae hi yn gylchynedig gan fynyddoedd. Trigolion 1,463.

Corwen, 12 milltir i'r gogledd ddwyrain o'r Bala a goris mynyddoedd Berwyn sy bentref hardd, hynod am mai ynddo yr oedd amddiffynfa Owen Gwynedd i rwystro ymgyrch y Saeson tan Harri II i w ardaloedd.

Abermaw, tref ar fin y môr a debygir yn fynych o ran ei golygiad o'r môr i dref Gibraltar. Ei sefyllfa sydd ar lethr bryn, ac ei heol-

ydd y naill uwch y llall. Mae cryn dramwyfa iddi gan fawrion amser bât, i ymdrochi.

Swydd Gaernarfon sydd yn terfynu o du y gogledd a gorllewin ar Fenai, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth Fôn, a môr Ywerddon; o du y de ar fôr Aberteifi a Meirion, ac o du y dwyrain ar swydd Dinbych. Ei hyd hwyaf o Aberdaron i Ben y Gogarth, y gyfran o honi sydd i'r tu dwyrain i'r afon Conwy sydd 55 milltir, ac ei lled mwyaf sydd 20: y cyfan yn 466,920 o erwau. Rhenir hi yn 10 cantref, a 86 o blwyfydd, ac mae ynddi un ddinas, un fwrdeisdref, 4 dref marchnad ereill, a 41,521 o drigolion.

Hon yw y swydd fwyaf mynyddig yn Nghymru. Yr Wyddfa ychydig oddiwrth Gaernarfon, 3,598 o droedfeddi o uchder sydd megys yn ganol-bwnc ei thruman: un sydd yn ymestyn o hono hyd at y Penmaen-mawr: cainc arall sydd yn ymdaflu i Leyn: ac ereill ydynt yn llenwi wyneb y wlad o Feddcelert hyd at derfyn swydd Dinbych. Lleyn sydd wlad wastad a ffrwythlon, heb ynddi onid rhai mynyddoedd gwasgarog.

Yr afonydd ydynt, Conwy, a grybwyllwyd eisus, yr hon sydd yn derbyn iddi afonydd Lledr, Llugwy, a Machno. Ogwen o lyn Ogwen, a Chegyd o Landdeiniolen ydynt yn ymuno a môr Beaumaris. Gwyrfai i Abermenai. Seiont o Lanberis i Gaernarfon. Llyfni, Carog, a Llifon, i for Caernarfon. Daron, Dwyfor, Maig, Erch, Wen, a Soch i fôr Aberteifi, Colwyn a Hwynain i Aberglaslyn, a rhai bychain ereill.

Trefydd.] Bangor, dinas fechan dra hardd ei heglwys, llys esgobawl a'i hadeiladau ereill yn gyffredinol, ac ynddi 1,770 o drigolion, sydd yn sefyll yn min y môr goris bryndir serth yn nghwr gogleddol y swydd. Traeth wylofain y sydd yn terfynu arni oedd dir cyfannedddol hyd oni orchuddiodd y môr ef yn nyddiau Helyg ab Glanog. Rhyngddi a Chonwy mae Penman-mawr o 467 llath o uchder, ar ben yr hwn yr oedd prif amddiffynfa yr hen Gymru gynt: ar astell o hono mae y ffordd o Gaergybi i Gaerlleon.

Caernarfon, ar lenydd dwyreiniol Menai, a 9 milltir i'r de orllewin o Bangor sydd brydferth yr olwg arni. Ei chastell hardd a adeiladwyd gan Edward I yn 1284, ac yn un o'i dyrau a elwir yr eryr y ganwyd ei fab annedwydd Edward II. Mae yn agos iddi ddarnau o furddynau Caer Seiont, ac ar fryn o'r tu arall i afon Seiont mae annedd haf yn dangos sefyllfa amddiffynfa Rufeinaidd gynt. Trigolion 3,626.

Conwy, 14 milltir i'r gogledd ddwyrain o Fangor, ar fin gogleddol, ac yn agos i aber afon o'r un enw, sy dref a chaer o'i hamgylch wedi ei adeiladu yn nyddiau William I. Mae ar y gaer 26 o dyrau. Ei chastell o wneythuriad Edward I sy gadarn, ac yr eglwys sydd adeilad dra gwych, ac mae rhai adeiladau teg ereill ynddi. Trigolion 889.

Nevyn, 20 milltir i'r de orllewin o Gaernarfon, ac o fewn 2 filltir i Borthdinlleyn, sy dref fechan hynod am i Edward I gynnal gwledd ynddi yn 1284. Yn agos iddi mae Nant Gwrtheyrn, lle anial annhymig yn min y môr, a fu yn noddfa lesol i'r tywysog hwnw rhag brâd ei gyd-wladwyr.

Pwllheli, ar fin gogleddol môr Aberteifi, ac 20 milltir i'r de o Gaernarfon, sy dref fechan dra hardd. Ei phorthladd sy fâs, ond yn ddigon i longau 60 tunnell nofio iddo. O ddeutu 5 milltir oddiwrthi

mae darnau o gaer amddiffyn o waith meibion Owen Gwynedd. Y trigolion ydynt 717.

Cruccaith, 12 milltir i'r dwyrain o Bwllheli fu gynt yn lle ardderchog, ond weithian yn annedd o adeiladau distadl, ac yn cynnwys 396 o drigolion. Tybir mai yn nyddiau Ioan brenin Lloegr yr adeiladwyd ei chastell.

Tremadoc, ar fin y traeth mawr, y terfyn rhwng Arfon a Meirion, sy dref dra hardd ei heolydd ac adeiladau. Y seneddwr W. A. Madocks Yswain a osododd ei sail yn yr oes hon, yn gystal ag yr argae y sy gyfagos iddi i ennill oddiar y môr rai miloedd o erwau o draeth i'w droi yn dir ffrwythlon.

SWYDD MON sydd yn cael ei gwahanu oddiwrth Arfon gan gulfor Menai, ac ar bob tu arall yn gylchynedig gan fôr Ywerddon. Ei hyd mwyaf yw 25 milltir, ac ei lled cyffredin sydd o 15 i 20. Cynnwys ynddi 240,000 o erwau o dir. Rhenir hi yn 6 cantref, a 74 o blwyfydd, ac mae ynddi un fwrdeisdref, a 4 o drefydd marchnad ereill, a 33,806 o drigolion.

Hon yw y wastadaf ei gwyneb o unrhyw yn Nghymru: gelwid hi gynt gan helaethrwydd ei chynnyrch o ŷd ac anifeiliaid, Môn mam Cymru. Y coed o dŷf byr gan wenwyn gwynt y môr sydd yn anaml ynddi oddigerth y parthau o honi sydd yn terfynu ar Fenai. Hysbys ydyw cyfoeth ei mwngloddiau o efydd a phlwm yn nghymydogaeth Amlwch, a'i chloddfeydd o farmor Tryfrith o liwiau yn cynnwys ynddynt y maen llin, yr hwn a ddosberthir yn edafedd, ac sy hynod am na effeithia tân arno.

Yr afonydd ydynt. Alaw, o Gorsybol i fôr Caergybi, Braint o fynydd Llwydiarth ar draws y wlad i'r môr wrth Aberffraw. Cefni a Chaint ydynt yn ymuno yn Nghors Dygai cyn cyrhaedd Malldraeth. Cadnant i Fenai, ac y Marchogion, Wygyr, Dulas a Llygwy i fôr dwyreiniol y wlad.

TREFYDD.] BEAUMARIS. 3 milltir i'r gogledd o Bangor ac yn min aber dwyreiniol Menai sy dref hardd o heolydd, eglwys, llys cyfreithiau, ac adeiladau ereill, ac mae porthladd eang yn perthyn iddi. Ei chastell cryf a adeiladwyd gan Edward I. Ar lethr y tu uchaf i'r dref mae y llys gwych a elwir Baron hill; a 4 milltir oddiyno oedd lle genedigol Owen Tudur, yr hwn a fu yn briod â Cathrine gweddw Harri V. Trigolion 1576

Amlwch, 15 milltir i'r gogledd orllewin o Beaumaris, a dyfodd i'r maint sydd arni, gwedi agoryd cloddfa efydd mynydd Parys yn 1768. Hanner milltir oddiwrthi mae ei phorthladd, yr hwn sydd fychan ac wedi ei gloddio trwy gryn lafur o'r graig. Y trigolion yn 1801 oeddynt 4,977, ond maent weithian gan balldod yr efydd yn llawer llai. Chwe milltir i'r de orllewin o honi mae Llanerchymedd, tref fwy hynod am fod yn un o brif orsafoedd trefnidiaeth y wlad nag yn ngwychder eu hadeiladau.

Aberffraw, pentref gynt, a phrif breswylfod tywysogion Cymru, sy dref marchnad, yn sefyll ar afon fechan a lewir Ffraw o ddeutu 2 filltir oddiwrth y môr.

Niwbwrch, 9 milltir i'r de ddwyrain o Aberffraw sy dref marchnad fechan, ac yn cynnwys ynddi 600 o drigolion. Bu hon yn freiniol gynt.

Llangefni sy dref newydd gwedi ei hadeiladau agos oll yn yr oes

hon. Ei sefyllfa sy mewn nant 8 milltir ar y ffordd fawr o Fangor i Gaergybi. Bydd yn ffeiriau hon, fal Llanerchymedd, liaws o anifeiliaid y wlad yn cael eu gwerthu i'w gyru i Loegr.

Caergybi, ar lethr serth goruwch y môr sydd ag adeiladau ei heolydd yn annrhefnus eu gosodiad. Hynod ydyw am gynniweirfa mawrion trwyddi yn eu taith i'r Ywerddon: Ei phorthladd sydd weithian yn cael ei ehengu ar draul y llywodraeth. Mae tri goleu-dy yn gyfagos iddi: un ar ynys halen, ochr gogleddol y borthladd, un arall ar ynys Moelrhoniaid, 9 milltir oddiwrthi, a'r trydydd ar ynys Lawd,* ar du cefn y mynydd twr, yr hwn sydd yn rhagfur gogleddol i'r dref. Y trigolion ydynt 2,132.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Cymru.*

ER crybwyll yn hanes Lloegr am arweiniad y Cymry gyntaf i ynys Prydain, ni wedda yn y lle hwn geisio olrhain eu hanes yn teyrn-reoli yr holl ynys cyn terfyn rhwysg Rhufain ynddi. Digon yma ydyw crybwyll ychydig o frût y tywysogion a reolasant Wynedd a Deheubarth gwedi iddynt yn y seithfed ganrif golli meddiant o rwysg y goron; ac yna y canlyn yr hanes hyd rwysg Edward I, pan oresgynwyd y wlad, a daeth tan lywodraeth cyffredinol ynys Prydain; ac felly bu hyd y dyddiau hyn.

Cadwaldar Fendigaid oedd yr olaf o'r Cymry a fwynhaes yr enw brenin Prydain: y tywysogion canlynol yn hytrach nag ymostwng i iau ormesol y Saeson, a adawsant frasder y wlad iddynt hwy, ac a ymddëolasant gwedi brwydrau aruthr tros oesoedd lawer oddiwrthynt, gan gartrefu yn Nghymru, Cernyw, a Llydaw: ac yn y gwledydd hyny y buant yn rheoli tros gantoedd o flynyddau. Bu farw Cadwaladr yn Rhufain yn y flwyddyn 688, i'r lle yr annogai angel mewn breuddwyd iddo fyned i'w urddo gan y pab Sergius: bod hyny yn fwy braint iddo nag ymdrechu i adennill gwlad oedd gwedi ei threfnu i fod yn eiddo y Saeson.

Gwedi marw Cadwaladr, anturiodd Alan brenin Armorica, gyd ag Idwal Iwrch mab Cadwaladr i Loegr, a gwedi ennill Cernyw ac y broydd cymydogaethol, parodd lliosogrwydd byddinoedd y Saeson i Idwal ymroddi i fyned i Rufain, gan adael y parthau a ennillasai i'w fab Rhydderch Molwynog, yr hwn oedd lwyddiannus yn erbyn rhuthrau y Saeson tros amser maith, ond o'r diwedd gorfu arno ymfoddloni ar Wynedd, yr etifeddiaeth a drefnasid i'w dad. Bu farw yn 755.

Y nesaf oedd Cynan Tindaethwy, yn nyddiau yr hwn y bu ymladdfeydd dychrynllyd rhwng y Saeson a'r Cymry o berthynas i fethu cydweled yn sefydliad y pasg; a thrachefn rhwng Cynan a'i frawd Hywel am ynys Môn: gan mai arferiad yr amseroedd hyny oedd i holl etifeddiaeth y tad gael ei rhanu yn gyfartal gan y meibion. Cynan yn trechu, ond yn marw yn fuan gwedi, daeth ei ferch Esyllt yr hon oedd briod â Merfyn Frych brenin Manaw i'r orsedd, felly unwyd Manaw at goron Cymru. Egbert brenin y Saeson yn clywed hyn, blaenorodd fyddin gref i Wynedd, ac anrheithiodd y wlad, ond yn y Llanfaes yn Môn bu brwydr chwerw i'r ddwyblaid. Yr oedd Lloegr

* South Stack: goleuwyd y goleuni buddiol hwn gyntaf Chwef, 9, 1809; a Capt. H. Evans o Gaergybi a fu yn offerynol i'w ddwyn yn mlaen.

yn 7 deyrnas y pryd hyn, fal y soniwyd o'r blaen, a chan i arfau Egbert fod yn llwyddiannus, unodd hwynt ynghyd. Y Daniaid yn fuan ar ol hyn yn dychwel i Brydain, cynnorthwyodd y Cymru hwynt yn aflwyddiannus yn erbyn y Saeson, yr hyn a barodd i Egbert warchae ar Gaerlleon, yr hon oedd yn meddiant y Cymry, a'i uno at ei ardaloedd, ac yn y frwydr lladdwyd Merfyn. 843.

Rhodri Mawr oedd y nesaf, yn erbyn yr hwn daeth Ethelwolf i ynys Môn, a gwedi brwydrau aruthr yno, gorfu arno ddychwelyd i darfu rhwysg y Daniaid oedd erbyn hyn yn tirio i'w deyrnas o bobtu. Rhanodd Rhodri Gymru rhwng tri o'i feibion, a gwnaeth lŷs breninol i bob un, sef llŷs tywysog Gwynedd yn Aberffraw yn Môn, llŷs tywysog y deheubarth yn Ninefwr, a llŷs tywysog Powys yn Mathrafael, yr hyn yn nyddiau ei fab hynaf Anarawd, a barodd wrthryfel rhyngddynt a'u gilydd: terfyn y ddadl oedd i un gael ei ddïosg o'i etifeddiaeth, ac i Anarawd rëoli Gwynedd, ac i Gadell tad Hywel ddâ reoli y deheubarth. O ddeutu yr amser hyn y tiriodd y Daniaid i Fôn, ac y bu brwydr waedlyd mewn lle ynddi a elwid maes Rhôs Meilw. Bu farw Anarawd yn 913, a daeth ei fab Idwal Foel i'r orsedd.

Idwal yn rheoli Gwynedd, ac Hywel dda y deheubarth, ymunasant i darfu rhwysg y Daniaid ac y Saeson, y rhai oeddynt yn olynol yn eu blino, a buant lwyddiannus. A phan fu farw Idwal, er fod ganddo feibion, daeth Hywel dda yn frenin ar Gymru oll, a bu ei oruchwyliaeth yn ganmoladwy, a pharhaodd ei gyfreithiau mewn grym hyd oni unwyd Cymru at Loegr gan Edward I.

Gwedi marw Hywel dda yn 948, rhanodd ei feibion y deheubarth cyd-rhyngddynt, eithr Ievaf ac Iago meibion Idwal Foel yn anfoddloni rheoli Gwynedd yn unig, a ymroddasant i roddi cais o ennill y deheubarth, ac wrth Lanrwst y bu y frwydr a barodd iddynt gael eu dymuniad. Ond yn fuan gwedi hyn tiriodd meibion Abloic brenin Ywerddon yn Nghaergybi, a gwedi llosgi y dref, aethont rhagddynt gan anrheithio hyd y frwydr fuddygol arnynt yn Lleyn. Yna daeth i Wynedd, fyddin Edgar brenin y Saeson, yr hwn wrth ymheddychu a wnaeth i'r Cymry dalu teyrnged o 300 o fleiddiau yn flynyddol: ac ar i'r anifail ysglyfus hwnw gael ei gwbl ddifa, daeth byddin dan un o feibion Harold i ynys Môn, ac ar yr un pryd llu o Wyddelod, y rhai a losgasant Aberffraw, a mynwyd teyrnged newydd o arian.

Y nesaf a reolodd oedd Hywel ab Ievaf, yr hwn yn honni hawl i holl Gymru a annogodd ei ewythr Iago ab Idwal i fyned i lŷs Edgar i'w wahodd i oresgyn Gwynedd, ac felly y bu. Cyfarfu Hywel ag ef yn Mangor, a chan iddynt ymheddychu, adeiladodd Edgar eglwys yno i'w chyflwyno i Mair. Oddiyno hebryngodd y ddau frenin ef i Gaerlleon, lle y cyfarfu 6 ereill ag ef, i adduno teyrnged iddo. Mewn brwydr a'r Saeson yn mhen amser gwedi hyn, y bu farw Hywel ac y daeth Cadwallon i'r orsedd, yr hwn a laddwyd gan Meredydd ab Owen, tywysog aflwyddiannus yn ei frwydrau â Godfrey mab Harold.

Y nesaf oedd Idwal ab Meirig, yr hwn a laddwyd mewn brwydr â Sweyn mab Harold, ac yna Aeddan ab Blegwryd tywysog y Deheubarth, yr hwn yn gorchfygu Cynan ab Hywel tywysog Gwynedd, a reolodd Gymru oll. Bu amryw ruthrau echrydus ar Loegr gan y Daniaid yn nyddiau hwn, o wall y brâd o ladd yr holl Ddaniaid trwy dwyll, ac mewn brwydr yn erbyn Llywelyn ab Sitsyllt un o epil Rhydderch y bu farw. 1015. Bu dawelwch yn Nghymru y pryd hyn hyd oni ddaeth gormeswr o Ysgotland o enw Rhun i honni hawl i'r

deheubarth. Brwydr echrys yn canlyn, lladdwyd ef, ac yn fuan mewn brwydr a'r Saeson lladdwyd Llywelyn.

Iago ab Idwal etifedd Gwynedd, a Rhydderch tywysog y deheubarth oeddynt y nesaf, yna Gruffydd ab Llywelyn, yr hwn mewn brwydr a laddasai Iago, fal y rheolai yn ei le. Gruffydd yn dywysog dewr, gwynebodd Hywel ab Edwyn, tywysog y deheubarth, a dryllíodd ei fyddin, ac unodd ei ardaloedd at Wynedd. Ordderch-fab i Nêst, merch hwn oedd y cyntaf o dylwyth Stuart yn Ysgotland. Yna gwedi 34 blynedd o reolaeth lladdwyd ef gan ei neiant Bleddyn a Rhiwallon, y rhai a gyd-reolasant Wynedd. Yn nyddiau y rhai hyn y gorthrechwyd Harold gelyn tôst i'r Cymry gan William I, yr hwn drachefn a wnaed yn frenin Prydain fawr.

O ddeutu y pryd hyn yr oedd Caradog ab Gruffydd gwedi cynnull lliaws i'w gynnorthwy i ddiorseddu Meredydd, ŵyr Hywel dda, tywysog y deheubarth, a bu lwyddiannus i gael y goron iddo ei hun, ond bu brwydrau gwaedlyd rhwng ei fab Rhydderch â Rhys ab Owain, cyd-dywysogion y de â meibion y tywysog diorseddedig, a thrachefn rhyngddynt a Thrahaiarn ab Caradog tywysog Gwynedd, yr hwn a'i gorthrechodd, fal y dodes Rhys orwyr Hywel dda ar yr orsedd 1077.

Tra'r oedd Gruffydd ab Cynan yn rheoli Gwynedd, a Rhys y deheubarth, nid oedd ond rhyfel gwastadol rhwng y Cymru a'r Saeson: ac yna daeth Owain Gwynedd mab Gruffydd i orsedd ei dad, yr hwn a gasglodd ei fyddinoedd i oresgyn y Deheubarth, a rhoddes ei frawd Cadwaladr i reoli, ond am iddo gwedi hyny ladd Anarawd, daeth Owain i ryfela i'w erbyn, ac a'i gyrodd ar ffo. Ywerddon oedd ei noddfa, o'r lle yr hudodd lû mawr o Wyddelod ac Ysgotiaid, y rhai yn tirio yn Abermenai, daeth Owain a'i lû atynt, a bu heddwch: ond rhag na chaent dâl am eu llafur, ni ollyngai y dyeithriaid Cadwaladr o'u meddiant; felly am ei ryddid rhoddes iddynt ddwy fil o ychain ei frawd. Owain yn clywed hyn, rhuthrodd iddynt, a da fu i ychydig mwy na eu hanner gyrhaedd eu llongau heb y gobrwy. Bu brwydrau aruthr rhwng Owain ac y Saeson oedd yn meddiant o amryw o gestyll Cymru, ac yn 1189 y bu farw, ac y daeth Dafydd ei fab i'r orsedd.


Yr oedd gan Owain amryw feibion, y rhai yn mhen amser oeddynt yn wastadol yn ymryson am y goron, a chan fod lladd a llarpio yn canlyn y cyfryw oruchwylion, ymroddes un o honynt o enw Madawg i ymddëol o'r derfysg, ac mewn tair llong, anturiodd ef ac amryw o'i gyd-wladwyr tros y dyfn-for i America, a hyn ugeiniau o flynyddoedd cyn geni Columbus, yr hwn sydd yn cael y glod o'i darganfod. Dywedir i Fadawg ddychwelyd, ac iddo erfyn ar ei genedl i ddyfod i etifeddu brô ëang hyfryd, yn lle ymgecru yn barhaus am y fath ardal fynyddig noethlwm Felly anturiodd deg o longau yn llwythog yr eil-tro, ac ni ddychwelasant. Synnodd Columbus weled y groes gan Indiaid Mexico, pan diriodd yno gyntaf; synnasai yn fwy pe gwyddai ystyr yr enwau cymreig oedd ganddynt ar afonydd, adar, ac amryw leoedd. Tybir bod epil y bobl hyn yn cyfanneddu gwlad deg a elwir Padouca yn mlaenau afon Missouri. Bu farw Dafydd yn 1195, a Llywelyn ab Iorwerth mab Owain Gwynedd a ddaeth i'w le.


Bu brwydrau trychinebus trwy ystod rheolaeth Llywelyn yn erbyn Ioan brenin Lloegr; byddai weithiau i Ioan ddyfod i Wynedd, drô arall anturiai Llywelyn i Loegr, ac ni heddychasant onid am ychydig

er i Llywelyn briodi merch Ioan. Bu farw gwedi rheoli 56 o flynyddau, a daeth ei fab Dafydd i'w le. 1240.

Dafydd ab Llywelyn oedd dywysog dewr · aeth mor fuan ag y coronwyd ef i Gaerloew i ymostwng i Harri brenin Lloegr, yr hwn a addawodd yn ei enw ei hun a'i fab, na flina ei bobl ef ei ardaloedd: ond yr oedd gordderch-frawd i Ddafydd o enw Gruffydd, yr hwn oedd fwy parchus gan y milwyr na Dafydd. A chan iddo ofni colli ei goron, cafodd gan Harri roddi Gruffydd yn y tŵr yn Llundain, lle wrth geisio diane y torrodd y rhâff a wnaethai o ddillad y gwely, ac y bu farw. Harri yn anesmwyth am reoli Cymru, danfonodd fyddinoedd yn ddirgelaidd i feddiannu rhai o'r cestyll, yr hyn a barodd i Dafydd gasglu byddin i'w erbyn, ac er i Harri wahodd llu o Wyddelod i anrheithio Môn, llwyddodd Dafydd i'w dëol oll o'r ymerodraeth. Bu Dafydd farw yn Aber Gwyngregin, a chladdwyd ef yn Nghonwy, 1246.

Gwedi marw Dafydd, mynai Sais o enw Mortimer, mab i Wladus merch Llywelyn ab Iorwerth, honni hawl i'r goron, eithr y Cymry yn ofni dyeithr-ddyn, coronasant Llywelyn ab Gruffydd. Ond tra bu hyn ar droed, achubodd Harri y cyfle o arwain llû mawr i Gymru, a bu brwydrau trychinebus hyd oni ddarfu i gendydd y pâb eu heddychu. Gwedi hyn casglodd Mortimer fyddin yn erbyn Llywelyn, a thra yr oedd y derfysg yn gyffredinol o'u herwydd, daeth Harri drachefn i'r wlad, a chan yr annrhefn oedd ynddi, cafodd fuddygoliaethau olynol ar y Cymru, a gorfu ar Lywelyn am arian lawer brynu heddwch. Cydunwyd y pryd hyn na flina y naill y llall mwy, eithr gwedi marw Harri a choroni ei fab Edward mynid i Lywelyn i Lundain i'r coroniad, a chan iddo nacau anturio dyfod i'r un gêll ac amryw o'i hen elynion a fyddai yno, cymerodd Edward, hyny yn achlysur i dori yr ammod a wnaethai ei dad, felly gwedi casglu llû mawr, arweiniodd hwynt i Gymru, a bu brwydrau gwaedlyd: Llywelyn a laddwyd, a chludwyd ei ben i Lundain i'w osod ar nen y tŵr. Nid oedd erbyn hyn ond un castell yn Nghymru yn dal allan yn erbyn rhwysg y Saeson, a hwnw oedd castell Ystradtywi dan Rhys Fychan: ac yr oedd Edward newydd adeiladu castell Conwy a Chaernarvon, ac wedi eu harfogi yn gadarn. Ond gan nad oedd hyn, na llâdd eu tywysog yn tarfu ymgyrch y Cymry ar y Saeson, galwodd Edward gymanfa o fawrion Gwynedd i Ruddlan, i sefydlu y drefn o reoli a fyddai rhagllaw, ac wedi iddo yn dwyllodrus addaw Cymro na fedrai air o Saesoneg, ac yr hwn oedd a'i fuchedd yn hollol ddïargyhoedd i'w rheoli, gwnaeth iddynt wneyd llŵ yr ymostyngent iddo, yna enwodd ei fab, yr hwn oedd newydd ei eni yn nghastell Caernarvon. Ac felly o hyny allan unwyd Cymry at Loegr, a bu y canlyniad gwedi peth anghydfod yn nyddiau Owain Glandyfrdwy ac ereill, i heddwch gael ei sefydlu yn Nghymru, ac weithian mae y genedl mor ffyddlon i'w ei fawrhydi, ac i'w gyfreithiau, ag unrhyw tan y llywodraeth.





T. Woodthorpe sc. 17 Peter Lane London

# ASIA.

Y Gyfran ëang hon o'r ddaear sydd a'i therfynau gorllewinol yn nglyn wrth derfynau dwyreiniol Ewrop ac Affrica; rhan o honi yn y gwregys llosg o ddeutu y cyhydedd, rhan fawr o honi yn y gwregys cymhedrol, ac ei pharthau gogleddol yn y gwregys rhewlyd. Ei therfynau gorllewinol ydynt y Môr côch, y terfyn rhyngddi ac Affrica; Môr y canoldir, yr Ynysfor, môr Hellespont, môr Marmora, y Môr dû, a llinell o flaen afon Don i afon Tobolsk, ac oddiyno i afon Oby, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ewrop. Ei therfynau gogleddol ydynt y Môr rhewlyd. Ei glenydd dwyreiniol sydd yn terfynu ar y Môr tawel gogleddol, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth ogleddbarth America, ac ei pharthau deheuol ydynt yn terfynu ar fôr yr India, Ei hyd o Hellespont yn y gorllewin i'r penrhyn dwyreiniol yn Kamschatka sydd o ddeutu 7,000 o filltiroedd, ac ei lled o benrhyn Malacca yn y de, i benrhyn Taimura yn y gogledd sydd o ddeutu 5,250, y cyfan yn ychwaneg na 9,000,000 o filltiroedd arwynebol.

Bu y parthau gorllewinol o'r gyfran hon yn yr amseroedd gynt yn cael ei llywodraethu yn olynol gan yr Assyriaid, y Mediaid, y Persiaid, ac y Groegiaid, a phan ddarfu rhwysg y rhai hyny arni, unwyd rhan fawr o honi at ymerodraeth Rhufain, yr hon yn yr oesoedd canol yn diflanu a barodd i ddilyniëdyddion Mahomet a elwid Saraceniaid draws-arglwyddiaethu arni, a chadw meddiant o barthau ëang o honi hyd farwolaeth Tamerlane, pan y daeth eu broydd i feddiant y Twrc. Er mai yn y gyfran hon y tebygir y plannwyd gardd Eden yn annedd hyfryd i rieni holl genhedloedd y ddaear, ag i Gristionogaeth fod gynt ynddi yn ei llwyddiant mwyaf ysplenydd, eto nid oes y pryd hwn fangre fwy tywyll ar wyneb y ddaear, trigolion y rhan fwyaf o honi yn addef crêd i Mahomet, ac y rhan arall yn eulun-addolwyr a phaganiaid.

Y prif ieithoedd a arferir yn Asia ydynt y Twrcaeg, y Russiaeg, y Tartariaeg, y Persiaeg, yr Arabaeg, yr Hindostanaeg, y Malayaeg, y Chinaeg, ac y Japanaeg; ond iaith rhan fawr gynt oedd y *Sancrit*, neu famiaith llawer o'r parthau dwyreiniol. Yma y canlyn enwau yr amrywiol wledydd, yn nghyd a u hyd, lled, milltiroedd arwynebol, hefyd y prif dinasoedd, a'u sefyllfa o ran lledred a hydred.

| | Gwledydd. | Milltir. Hyd. | Milltir. Lled. | Prif ddinasoedd. | Lledred gogleddol. | Hyd. Dw. o Greenwich yn raddau. | yn amser.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Twrci yn Asia. | Syria | 270 | 160 | Aleppo | 35 45 23 | 37 20 0 | 2 29 20 |
| | Palestina | 210 | 20 | Caersalem | 31 55 8 | 27 19 15 | 1 49 15 |
| | Natolia | 750 | 390 | Bursa neu Smyrna | 38 28 7 | 35 20 0 | 2 21 20 |
| | Diarbec neu Mesopotamia | 240 | 210 | Diarbec | | | |
| | Irac neu Chaldea | 420 | 240 | Bagdad | 33 20 0 | 43 46 30 | 2 55 6 |
| | Turcomania neu Armenia | 360 | 300 | Erzerum | 39 56 35 | 48 35 43 | 3 14 23 |
| | Georgia | 240 | 180 | Teflis | 43 0 0 | 46 15 0 | 3 10 0 |
| | Curdistan neu Assyria. | 210 | 205 | Mousul | | | |
| | Arabia | 1,400 | 1,260 | Mecca | 21 45 0 | 40 55 0 | 2 52 0 |
| | Persia | 1,300 | 1,050 | Ispahan | 32 25 0 | 52 40 0 | 3 31 20 |
| | Indostan | 1,890 | 1,550 | Delhi | 28 20 0 | 79 25 0 | 5 16 0 |
| | India tu draw i afon Ganga. | 2,000 | 1,000 | Siam, Pegu | 14 18 0 | 100 50 0 | 6 43 20 |
| | China | 1,350 | 1,060 | Pekin | 39 54 30 | 116 14 15 | 7 45 87 |
| Tartari. | Russia yn Asia | 5,300 | 1,900 | Tobolsk | 58 12 18 | 68 12 45 | 4 38 41 |
| | China | 3,000 | 1,080 | Chinian | 48 0 0 | 12 0 0 | 8 4 0 |
| | Tibet | 1,500 | 500 | Lassa | | | |
| | Annibyddibynol | 1,500 | 850 | Samarcand | 39 50 0 | 69 0 0 | 4 36 0 |

Eglur yma ydyw fod Syria yn 270 milltir o hyd a 160 o led, ac mai Aleppo yw y brif ddinas, yr hon sydd a'i lledred neu ei phellder oddiwrth y cyhydedd yn 35 gradd 45 munud 23 ailiad yn ogleddol, a'i hydred sef ei phellder oddiwrth baladr canol ddydd Llundain yn 37 gradd 20 munud, yr hyn gan ei fod yn ddwyreiniol sydd yn gwneyd haner dydd yn Aleppo yn nghynt o 2 awr 29 munud a 20 ailiad nag yn Mhrydain.

Yr oedd ansawdd y rhan fwyaf o'r gwledydd ëang hyn yn anhysbys hyd oruchafiaeth Zingis, peniaeth y Moguliaid arnynt, yn nechreu y 13 ganrif, yr hwn a arweiniodd ei luoedd o afon Indus hyd at barthau gogleddol China, gan uno yr holl wledydd yr aethai trwyddynt at ei ymerodraeth. Ac yn ei ddychweliad erlidiodd yr Huniaid, y rhai oeddynt yn sarhau parthau dwyreiniol Ewrop er ys oesoedd lawer, hyd oni ddarfu eu rhwysg yn llwyr. Y Moguliaid dan Sheibani Khân yn 1242 a arweiniodd 15,000 o deuluoedd i boblogi Siberia, lle y bu brenhinoedd o honynt yn teyrnasu am 300 mlynedd, hyd oresgyniad y Russiaid arnynt.

Gwedi darganfod America a phenrhyn deheuol Affrica, daeth ynysoedd ac arfordiroedd Asia yn lled hysbys, er fod mor-deithiau Cook, Peyrouse ac ereill yn arddangos fod ychwaneg eto i'w wneuthyr. Ychydig a wyddid am ansawdd Siberia hyd frwydr Pultowa, pan y bu i Pedr I ddanfon bagad o Swediaid yn garcharorion iddi. Yr oedd thröydd tufewnol Indostan yn dra anhysbys hyd hanes cywir Rennell am dani; ac y mae arfordiroedd deheuol Holland newydd, ac ei holl ardaloedd ëang (oddigerth ei pharthau dwyreiniol y sydd yn cael eu cyfanneddu gan Fryteiniaid) yn llwyr anhysbys hyd heddyw.

POBLOGAETH.] Cyduna daearyddion fod holl genedlaethau Asia yn gysefin a gwreiddiol: oddieithr y Tschukiaid y rhai yn ol barn Tooke a daearyddion Russia, a ddaethant dros y cul-for o America i Kamschatka; ac yr Ewropiaid y sydd yn cyfanneddu arfordiroedd ac ynysoedd o ddeutu Indostan. Dywedir fod trigolion Asia yn ychwaneg na 500,000,000

---

* Gan fod yr holl wledydd hyn yn sefyll i'r dwyrain o Greenwich, rhaid i ganol-dydd pob un fod yn nghynt o hyny o amser a enwir yn y golofn olaf.

MOROEDD.] Moroedd Asia ydynt y Môr coch, a moroedd Arabia, Persia, Bengal, Nankin, Casbin, Aral, a Baikal, a rhan o For y canoldir, ac y Môr du.

Y Mor coch sy derfyn rhwng Asia ac Affrica: gelwir ef felly oddiwrth liw llaid ei waelodion, yr hwn pan y cynhyrfer ef sydd yn ei arliwio yn goch. Ei hyd yw 1470 milltir. Môr Persia sy gul-for cyffelyb, ac o ddeutu hanner hyd y mor coch: i hwn mae afonydd Euphrates a Tigris yn ymarllwys.

Mor Casbin, 700 milltir o hyd, ac o 100 i 200 o led, sy hynod am nad yw yn ymuno ag unrhyw for arall: ei lenydd sy glogwynog, ac mae ei ddyfroedd yn hallt, ac mewn rhai manau mor ddwfn na chyrhaeddai llinyn 500 llath y gwaelod. Mae gleisiaid, a math o benwaig, morloi, ac amryw bysgod ereill yn heigio ynddo. Y borthladd oreu ynddo yw Baku: Derbent sy fâs, a chreiglyd, ond yn Ensili y waelaf o honynt y cymhelir prif drafnidiaeth yr ardaloedd sydd yn terfynu arno.

Mor Aral, 200 milltir o hyd a 70 o led sy 100 milltir i'r dwyrain o for Casbin: cylchynir hwn gan ddiffaethfaoedd tywodlyd, ac mae ei ddyfroedd yn hallt.

Mor Baikal yn Siberia, 350 milltir o hyd a 35 o led sydd a'i ddyfroedd yn groyw, ond yn heigio morloi, a math o benwaig a elwir *omuli*, ac amryw bysgod ereill.

Y cul-for rhwng Asia ac America a ddarganfuwyd gan un o'r Daniaid o enw Bhering, ond gan y tawch, ni welodd lenydd America wrth hwylio trwyddo, er hyny mynodd Cook gwedi ei olrhain yn deg, oesoedd gwedi hyny, roddi enw y morwr enwog arno. I'r gogledd i'r cul-for hwn mae glenydd Asia yn gogwyddo i'r gorllewin, a glenydd America i'r gogledd ddwyrain am o ddeutu 300 milltir, ac yna mae y Mor cyfogledd yn sarn rewlyd er y greadigaeth yn eu huno yn nghyd.

AFONYDD.] Y prif afonydd ydynt y Kian Ku, Hoan Ho, y Lena, yr Yenisei, ac yr Oby; y nesaf mewn maint ydynt yr Amur, y Sampoo neu Burrampooter, ac y Ganga; ac yna yr Euphrates, yr Indus, ac amryw o rai llai. Dysgrifir hwynt dan y gwledydd y maent yn ed drwodd.

MYNYDDOEDD.] Nid ydyw mynyddoedd Asia cyfuwch â mynyddoedd Ewrop. Trum Altai sy 5,000 o filltiroedd o hyd ond gelwir y rhan o hono sydd y tu hwnt i flaenau afon Yenisei yn drum Sayansk, ac o'r tu de i for Baikal yn drum Yablonnoy. Anial-leoedd Gobi a Shamo ydynt fynyddig, ac felly y rhan fwyaf o'r wlad a elwir Tibet.

YNYSOEDD.] Mae holl ynysoedd Asia (oddigerth Cyprus yn môr y canoldir, yr hon sydd yn perthyn i'r Twrc) yn gorwedd yn y môr Tawel, ac yn moroedd yr India. Dyma restr o honynt yn cynnwys enwau eu prif drefydd, a'u maintioli yn filltiroedd arwynebol.

| | *Ynysoedd.* | *Trefydd.* | *Mill. arwynebol.* |
|---|---|---|---|
| Ynysoedd.. | Japan | Jedo, Meaco | 138,000 |
| | Ladrone | Guam. | |
| | Formosa | Tai-ouanfou. | 17,000 |
| | Anian | Kioutcheow. | 11,900 |
| | Phillipine | Victoria, Ternate | 33,700 |
| | Molucca | Manilla. | |
| | Banda | Lantor. | |

| *Ynysoedd.* | | *Trefydd.* | *Mill. arwynebol.* |
|---|---|---|---|
| Amboyna, | yn cylchynu ynysoedd | Amboyna.......... | 400 |
| Celebes.. | Molucca a Banda. .... | Macassar.......... | 68,400 |
| Giloli, &c. | | Gilolo............... | 10,400 |
| Ynysoedd Sunda | Borneo ...... | Borneo, Caetongee.. | 228,000 |
| | Sumatra...... | Acheen, Bencoolen.. | 129,000 |
| | Java ........ | Batavia, Bantam.... | 38,250 |
| Ynysoedd | Andaman a Nicobar .... | Andaman, Nicobar. | |
| | Maldive................ | Caridon. | |
| Ynys...... | Ceylon................ | Candy.......... | 27,730 |
| | Bombay .............. | Bombay. | |

Ynysoedd Kurile, ac y rhai sydd yn môr Kamschatka a ddarganfuwyd gan y Russiaid.

---

# TWRCI YN ASIA.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa.. Maintioli. Cylchynoedd...Taleithiau...Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Afonydd.. Llynau.. Mynyddoedd.. Mwngloddiau.. Ynysoedd.*

MAE y wlad ëang hon yn cyrhaedd o'r ynys-for, rhwng Mor y canoldir a'r Mor dû, hyd at gyffiniau Persia, yr hyn sydd ychwaneg na 1000 o filltiroedd o hyd. Cylchynir hi o du y gogledd gan y Mor dû a rhan o Circassia; o du y dwyrain gan Persia; o du y de gan Arabia a dwyrein-ran Mor y canoldir; ac o du y gorllewin gan yr Ynys-for, mor Hellespont, a mor Propontis, y terfyn rhyngddi ag Ewrop.

TALEITHIAU.] Twrci yn Asia sydd gwedi ei rhanu fal y canlyn.

| *Rhaniadau.* | *Ad-raniadau.* | *Trefydd.* |
|---|---|---|
| Taleithiau dwyreiniol. .......... | 1 Irac Arabia, neu Chaldea.. | Bassorah. |
| | 2 Diarbec, neu Mesopotamia.. | Diarbec, Orsa. |
| | 3 Curdistan, neu Assyria .... | Mousul a Betlis. |
| | 4 Turcomania, neu Armenia.. | Erzerum a Van. |
| | 5 Georgia yn cymwys Mingrelia ac Imaretta, a rhan o Circasia ............ | Tefflis, Armarchia a Gouie, Bursa, Nici, Smyrna, ac Ephesus. |
| Natolia neu Asia leiaf ar y tu gorllewin.......... | 1 Natolia leiaf ............ | Ajazzo a Marat. |
| | 2 Amasia ................ | Satalia a Terasso. |
| | 3 Aladulia.............. | Aleppo, Scanderoon, Antioch. |
| | 4 Caramania ............ | Damascus, Tyre, Sidon. |
| | Syria a Palestina, neu...... | Tripoli a |
| | Y tir sanctaidd .......... | Chaersalem. |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Mae y wlad hon yn cynnyrchu digonedd o ŷd a gwair, a phob ffrwythydd adnabyddus yn ngwledydd ffrwythlonaf Ewrop. Barnir bod y gwin-rawn, olewydd,

orein, lemonau, ffigys, afalau, &c. y sydd yn tyfu hyd yn nod yn meusydd cyffredin y wlad hon, yn fwy peraidd nag unrhyw arall.

HIN A THYMHORAU.] Hin hyfryd sydd haf a gauaf yn y parthau hyn, a gellid cymharu y lle â Pharadwys, pe na byddai i'r plâ fod yn ffrangell mynych arni, yr hwn sydd yn deillio yn fwy oddiwrth fudreddi y werin, a'u hystyfnigrwydd i arfer unrhyw foddion i'w ochel, nag oddiwrth fwllder ardymherau yr hin.

AFONYDD LLYNAU.] Y fwyaf o afonydd Twrci yn Asia yw yr Euphrates, yr hon sydd yn codi yn mynyddoedd Armenia: ei rhediad sydd i'r de orllewin i Semisat, lle mae trum yn ei rhwystro i ymuno â Môr y canoldir; yna gwedi derbyn iddi afon Morad o fynyddoedd Ararat, mae hi yn gogwyddo i'r de ddwyrain trwy y gwastadedd anghyfaneddol y safodd Babilon arno gynt, ac wedi derbyn iddi y Tigris, mae hi yn ymarllwys i fôr Persia gwedi llifo tros 1400 o filltiroedd.

Afon Tigris sydd a'i blaenau yn nes i'r de o 150 milltir nag Euphrates: ei rhediad sydd i'r de ddwyrain hyd ei harllwysiad i'r Euphrates goris Korna. Ei hyd sydd 800 milltir. Mae y ddwy afon hyn yn fordwyol i longau nofio arnynt am gryn bellder oddiwrth y môr.

Afon Mœandor sydd a'i blaenau i'r gogledd o Apamia, ei llifiad am 250 milltir sydd yn dra thröellog cyn ymuno a'r Ynys-for.

Afon Sarabat, gynt Hermus, sydd yn codi yn un o fynyddoedd Phrygia: ei llifiad sy trwy wastadedd Smyrna i'r môr, gan gludo gyd â hi Pactolus, Hyllus, ac amryw afonydd bychain ereill. Prif afon Syria ydyw Orontes, yr hon sydd yn codi 12 milltir i'r gogledd o Damascus, a gwedi myned heibio i Antioch sydd yn ymarllwys i Fôr y canoldir.

Y llynau ydynt dra lliosog; ond yr un sydd yn ngogledd-barth Curdistan ydyw y mwyaf: mae hwn yn 80 milltir o hyd a 40 o led. Y llyn yn Syria a elwir y môr marw sydd o ddeutu 50 milltir o hyd. Llyn Rachama ar du deheuol annedd Babilon gynt sy 30 milltir o hyd: mae ffrwd o hono yn ymarllwys i Euphrates. Yn nghanol Asia leiaf mae llyn bychan hynod am helltni ei ddyfroedd, ar lenydd yr hwn y casgl y trigolion halen. Llyn Ulabad yn Natolia sy 25 milltir o amgylchiad: i hwn mae mân ffrydiau mynydd Olympus yn ymarllwys.

MYNYDDOEDD.] Trum Taurus sydd yn estyn o Carimania i India, sef 600 milltir o hyd: mae ochrau y drum yn dra llawn o goed cedrwydd, meryw, &c. math o galch-faen yw ei ddefnydd.

Mynydd Ararat, hynod am orphwys o arch Noah arno gwedi treio o ddyfroedd y diluw, sydd ychydig i'r dwyrain o Armenia: mae amryw o fân fynyddoedd yn ei amgylchu, ac arnynt weddillion anneddau (tebyg) y dynion cyntaf, y rhai oeddynt yn arswydo preswylio y gwastadedd rhag llifiant arall. Dywed Tournefort iddo ymddiddan a meudwy hanner y ffordd i'w ben, a fuasai yno er ys 25 mlynedd, yr hwn a ddywedodd bod darnau o'r arch yn weledig yno hyd heddyw.

Mynydd Lebanon sydd yn agos i'r môr yn Syria. Trum Libanus sydd o gerrig calch hyd at fynydd Sinai, yr hwn sy wenithfaen. Mynydd Olympia, hynod am y chwareuyddiaethau arno gynt, ydyw yr uchaf yn Asia; ac o ddeutu 140 milltir i'r gorllewin iddo, mae mynydd Ida, yr hwn sydd enwog mewn hanesyddiaeth.

MWNGLODDIAU.] Ychydig a wyddis am fŵn y wlad hon, gan fod anian ddïog y trigolion yn rhwystro cloddio ynddi. Yr oedd Lydia gynt yn aml ei chloddfëydd aur, ond nid oes weithian arwydd o unrhyw onid efydd ynddi.

YNYSOEDD.] Mae agos holl ynysoedd Twrci yn yr ynys-for: bernir y parth gorllewinol o honynt i Ewrop, ond y rhai sydd o'r canol hyd y glenydd dwyreiniol a berthynant gyd â Cyprus i Asia.

Tenedos sydd hynod am fod Caerdroya gynt ar ei chyfer, ac yn ol dywediad Virgil yn annedd i ran o fyddin y Groegiaid, tra y gwarchae hir ar y ddinas enwog honno.

Mytilene, gynt Lesbos, 40 milltir o hyd a 24 o led, sy dra ffrwythlon: canmolid ei gwin yn y cynamseroedd, ond goganid moesau y trigolion y pryd hyny fal y pryd hwn.

Scio, 80 milltir i'r gorllewin o Smyrna, sy 100 milltir o amgylchiad: cyfanneddir hi gan Roegiaid a Thwrciaid. Ei chynnyrch ydynt gwin, olew, sidan, melvet, lentysg, &c. Yma medd haneswyr y ganwyd Homer.*

Samos, yn gorwedd ar gyfer Ephesus, sy 30 milltir o hyd a 15 o led. Cyfanneddir hi gan Gristionogion Groegaidd. Yma ganwyd Pythagoras, a honnai rhai mai ynddi y ganwyd Juno: mae ei theml, a darnau ereill o adeiladau hen ddinas Samos yn fwy gwych nag unrhyw yn Asia leiaf.

Patmos, 20 milltir o amgylchiad, ac i'r de o Samos sy greigle anial. Cyfanneddir hi gan ychydig o fynachod Groegaidd, y rhai a ddangosant i'r ymdeithydd yr ogof yr ysgrifenodd St. Ioan y datguddiad ynddi.

Stanchio, ar dueddau Asia leiaf, sydd ynys ffrwythlon 25 milltir o hyd 10 o led, ac hynod am mai ynddi y ganwyd Hippocrates.†

Rhodes, 36 milltir o hyd 15 o led, sy dra ffrwythlon o rawn a ffrwythydd ereill. Ei phorthladd wrth dref o'r un enw ydyw prif anghorfa llongau rhyfel Twrci. Bu delw brês o lun dyn ar agored 'hwn gynt, yn 135 troedfedd o uchder, a rhwng ei draed yr hwyliai llongau i mewn ac allan.

Cyprus, 160 milltir o hyd a 70 o led, sydd yn gorwedd yn mharthau dwyreiniol Môr y canoldir. Er bod hon yn fynyddig, mae pob ffrwythydd yn doreithiol ynddi. Cristionogion oedd yn ei meddiannu trwy ystod y rhyfel sanctaidd, ond, o derfyn honno hyd y pryd hwn, Twrciaid ydyw y trigolion.

---

## DOSBARTH II.

*Trigolion... Moesau ac arferion... Llywodraeth. Crefydd... Iaith. Dysgeidiaeth.. Gweithfäoedd. Trefnidiaeth.. Hynafiaethau.. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.*

MAE trigolion Twrci yn Asia yn hanu oddiwrth y cenhedloedd oeddynt yn cyfanneddu Scythia gynt, ac oddiwrth yr Assyriaid oedd

---

* Homer oedd yr hynaf o feirdd Groeg: gelwid ef yn dad barddoniaeth, megys Heredotus am hanesyddiaeth, a Hippocrates am physigwriaeth. Yr oedd yn byw o ddeutu 900 mlynedd cyn crêd.

† [illegible] oedd yn byw yn amser rhyfel Peloponesia: ef oedd y meddyg [illegible], a galwai y Groegiaid ef yn dduw oherwydd ëangder ei wyb[illegible]

yn terfynu ar ei broydd deheuol. Dywedir fod eu rhif yn ychwaneg na 10,000,000.

MOESAU AC ARFERION.] Ychydig o ragoriaeth moesau sy rhwng trigolion y rhan hon â thrigolion y rhan o'r ymerodraeth y sydd yn Ewrop, ganfod egwyddorion gwyrgam y Coran yn rhwymo holl ddeiliaid y twyllwr i gyffelyb ymarweddiad. Dywed ymdeithwyr fod Tyrciaid Asia yn fwy croesawgar i ddyeithriaid na'r lleill; ac hefyd eu bod yn fwy moesol yn eu hymarweddiad cyffredinol. Gofala y Twrc pa le bynag y byddo, o gyflawni ei ddyledswyddau crefyddol gyd ag awydd difrifol; gweddia bum waith yn y dydd, sef ar godiad haul, naw o'r boreu; canol dydd, pedwar o'r prydnhawn; ac ar fachlud haul, gan ymolchi yn ofalus bob tro cyn penlinio. Y Tyrciaid sydd yn cyfanneddu Georgia, a Circassia ydynt hardd o bryd a gwedd, ond oll yn naill a'i Mahometaniaid, neu yn addef crêd i babyddiaeth gwedi ymddirywio er ys oesoedd i egwyddorion y Coran: gwerthant eu merched i weinyddu puteindai y mawrion, ac Iuddewon ydynt y prif drefnidwyr yn y gorchwyl Yr arfer pan fyddo marw pen-teulu yw rhoddi ei brif dda i'r offeiriad am weddio trosdo, a rhoddi tocyn ar ei ddwyfron, gwedi ei gyfeirio i Pedr neu Mahomet i ollwng y cludydd i Baradwys. Yr arferion ereill sy gyffelyb i'r hyn a grybwyllwyd yn hanes Twrci yn Ewrop.

LLYWODRAETH. CREFYDD ] Yr un llywodraeth sydd yma ag yn Nhwrci yn Ewrop: sef, bod pob rhwysg yn y Sultan. Mahometaniaeth sy hefyd yn grefydd wladol, ond mae rhyddid i ddeiliaid eglwys Groeg ymarfer a'u dull o addoli.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] O'r Ysglafoneg y deilliodd y rhan fwyaf o'r amrywiol ieithoedd sydd yn Ymerodraeth y Twrc. Nid oes yr un o honynt yn gynnwysfawr fal y soniwyd o'r blaen, a thebyg mai diogi y trigolion sydd yn rhwystro gwelliant arni.

GWEITHFAOEDD. TREFNIDIAETH ] Mae rhai gweithfaoedd gwerthfawr yn y rhan hon o Twrci. Aleppo sydd yn cynnwys gweithdai sidan a chotwm, y rhai ydynt yn cael eu cyfnewid am ddaöedd o India a Phersia. Ei llawr-lenni hefyd sydd yn cael eu danfon i holl wledydd Ewrop, &c. ac y mae y dûr a drinir yn Damascus yn rhagori ar unrhyw i lunio peiriannau rhyfel.

HYNAFIAETHAU.] Murddynau adeiladau gwych hen ddinasoedd Balbec a Palmyra ydynt y prif hynafiaethau: mae yr ardderchowgrwydd mwyaf yn cael ei arddangos yn ngwychder temlau ac ereill adeiladoedd y dinasoedd hyn. Yn Nghaersalem dengys offeiriaid Groeg ac Armenia eglwys St. Helen, yr hon sydd yn cynnwys ynddi y maen y dodwyd corff y Cyfryngwr arno i'w berarogli: ac ychydig o'r neilldu daugosent fynydd Calfaria, a rhwyg ar ei draws er pan y trengodd Pryniawdr hyd arno. Yna dangosant y bedd, a 44 o lampau yn oleu yn wastadol ynddo; a'r gareg wen yr eisteddai yr angel a ymddangosodd i'r gwragedd arno. Yna dynodir beddrod Adda ychydig latheni oddiwrtho. Yn Methlehem hefyd dangosir y preseb, ac y tŷ a gyfanneddai Joseph ynddo, ac amryw bethau ereill rhy faith i'w henwi, ac anhawdd rhoddi cyflawn grêd iddynt gan unrhyw a ddarllenodd am y barnedigaethau echrydus a fu ar Gaersalem a manau ereill o Syria gwedi dyddiau ein Hiachawdr, gan rwysg barnol arfau ymerodraeth Rhufain

DINASOEDD A THREFYDD.] ALEPPO, prif ddinas Syria, sydd yn

cael ei chyfrif yn fwyaf o ddinasoedd Twrci yn Asia: mae hon yn sefyll ar 8 o fryniau, ac yn 7 milltir o amgylchiad: yr heolydd ydynt dra glanwaith, ond yn gulion, gan y magwyrydd uchel sydd o flaen drysau y tai. Dinas gaerog ydyw, ac y mae gerddi ei maes-drefi yn dra-llawn o ffrwythydd o bob math. Alexandretta neu Scanderoon, 70 milltir i'r gorllewin o Aleppo, sydd er bod yn borthladd iddi, yn myned lei-lai ei thrigolion a'i threfnidiaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Bagdad, prif ddinas Chaldea gynt, a phrif ddinas Caliphiaid y Saraceniaid, sydd yn sefyll ar afon Tigris, yn agos yn ol tyb rhai i'r man y safai Babilon fawr arno Mae amddiffynfeydd gwrthyn o amgylch hon, ond mae ei themlau, ymolchdai ac anneddau pridd-feini ei heolydd yn dra gwych. Y trigolion ydynt o ddeutu 20,000: yr oeddynt yn llawer mwy lliosog hyd y sarhâd anferth a wnaeth y plâ arnynt yn 1773.

Bassorah, ar afon Euphrates, o ddeutu 40 milltir oddiwrth gul-for Persia, sy le o gryn drefnidiaeth, ac yn cynnwys ynddi o ddeutu 50,000 o drigolion. Tywysog Arabaidd sydd yn ei rheoli, ac yn talu teyrnged fechan i'r Sultan.

Curdistan, prif ddinas Assyria gynt, sydd yn sefyll ar lethr mynydd, yn gyfagos i Nineve gynt, yr hon y pryd hwn sydd yn garnedd. Orfar prif dref talaeth Mesopotamia sydd hynod am ei threfnidiaeth mewn crwyn. Mousul sy dref fawr ar afon Tigris, gyferbyn a charnedd Nineve.

Tefflis, prif ddinas Georgia neu Gurgistan, sy ag adeiladau gwych ynddi: nen y tai sy wastad, ond yr heolydd ydynt anrhefnus a chulion. Mae ynddi 13 o eglwysi Groeg, 7 o eglwysi Armeniaid* ac un capel pabaidd.

Damascus, yr hon weithian a elwir Sham sy dref hardd, ac ynddi gryn drefnidiaeth mewn dûr, sidanau, gwin, a'r cyffelyb. Sidon sy weithian yn dref fechan, ond gwneir cryn drefnidiaeth ynddi, oherwydd ëangder ei phorthladd.

Tyrus, 20 milltir o Sidon, gynt dinas ardderchog sy weithian yn annedd ddystadl, heb onid ychydig o bysgodwyr yn ei chyfanneddu: mae muriau yr ochr nesaf i'r môr eto yn sefyll. "Wrth fyned heibio i Tyrus" meddai Bruce, "daethym yn dyst galarus o wirionedd y brophwydoliaeth, Y byddai i Tyrus brenhines y cenhedloedd fod yn goppa craig i bysgodwyr daenu rhwydau arni."

Smyrna yn Natolia, ar lan Mor y canoldir sy ddinas hardd yn cynnwys ynddi o ddeutu 120,000 o drigolion: hon yw prif farchnadfa i drefnidwyr o Ewrop ac Asia ymgyfarfod.

Anifeiliaid.] Nid oes nemawr wahaniaeth rhwng anifeiliaid ac ehediaid y wlad hon â gwledydd deheuol Ewrop, ond fod y camel yn dra lliosog ynddi, ac hefyd yr estrys, yr hwn sydd yn preswylio ei hanial-leoedd tywodlyd.

Y *camel* sy greadur cyflym a chryf, ond yn llai maint na march. Arabia ydyw ei brif drigfan. Cluda faich trwm, a goddef fod heb ddwfr amser maith: ychydig luniaeth hefyd a'i boddlona. Yr un rhy-

---

* Armeniaid oeddynt Gristionogion medd rhai yn oesoedd cyntaf yr oruchwyliaeth efengylaidd, ond gan i Fahometaniaeth ymledu oddiamgylch iddynt yn fuan gwedi, ymddirywiasant i gymysgedd o'r grefydd hono gwedi ei thrwytho mewn eilunaddoliaeth.

wogaeth yw y Dromedari, ond nad oes ar ei gefn onid un cnwp ac ar y llall ddau. Bwyta yr Arabiaid ei gig, ac mae llaeth y fanyw yn llunio y rhan fwyaf o luniaeth y crwydryn a fyddo yn ei pherchenogi.

Yr *estrys* yw yr aderyn mwyaf: ei gefn sy 4 troedfedd oddiar y llawr, a'i ben yn 3 troedfedd uwch. Y diffaethfaoedd poethion tywodlyd mwyaf anghysbell yw ei drigfa. Mae yn rhy drwm i ehedeg, ond rhêd mor gyflym â march, a dalla ei erlidwyr drwy daflu tywod neu raian i'w gwyneb. Dëor y fanyw o 30 i 40 o wyau ar unwaith. Mae yr Arabiaid yn ei hela er mwyn ei blyf gwerthfawr, ac ni ommeddant fwyta ei gig.

## DOSBARTH III.

*Hanes Twrci yn Asia.*

DIGWYDDODD ar amrywiol amseroedd i barthau deheuol Asia ddyfod i feddiant y Scythiaid, cenedl oeddynt yn preswylio y wlad a elwir y pryd hwn Tartari. Meddiannodd tylwyth o'r rhai hyn a elwid Turcomaniaid yr holl wlad o for Hellespont i lenydd mor Casbin, a chan iddynt am eu dewrder fod gwedi gweinyddu yn ngosgordd Caliphiaid y Saraceniaid, daethant yn ddeiliaid i egwyddorion Mahomet. Eu prif breswylfod oedd yn nghymydogaeth mynyddoedd Caucasus, a thrachefn yn Armenia, o'r lle yr aethant i oresgyn Persia, yr hon fu tan eu rhwysg flynyddau lawer. A chan eu bod yn rhwym wrth egwyddorion y Corau o wneyd dysgyblion i Mahomet, ni ommeddasant tan lywyddion dewr o ymosod ar dir Groeg, a rhoddi sail i ymerodraeth fawr yn Ewrop: ac ar derfyn rhwysg Caliphiaid y Saraceniaid, meddianasant Palestina, yr hon er dyddiau Joshua oedd yn meddiant y genedl Iuddewig, oddigerth yr ychydig oesoedd y bu Rhufain yn arglwyddiaethu arni. Bu brwydrau trychinebus am oesoedd lawer y pryd hwn rhwng ymerawdwyr Groeg a brenhinoedd Ewrop yn erbyn y Twrc, ond er llwyddo am dro, a gosod Godfrey o Boulogne yn frenin ar Gaersalem, nhwy sy gwedi cael meddiant o hon hyd y pryd hwn.

Yr oedd y Twrciaid yn 1229 tan Ottoman, gwedi dyfod i feddiant o'r taleithiau prydferthaf yn ngorllewin-barth Asia, a gwedi gwneyd Prusa yn Bithynia yn brif ddinas yr ymerodraeth. Ac erbyn 1357, yr oeddynt gwedi cael llwyr feddiant o'r rhan o'r ymerodraeth sydd yn Ewrop, a gwneyd Adrianopl, ac yn fuan drachefn Constantinopl yn brif ddinas yr holl ymerodraeth.

# ARABIA.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad.. Hin a thymhorau.. Mynyddoedd. Afonydd.. Mwngloddiau.. Ynysoedd.*

ARABIA sydd yn sefyll rhwng 12 a 30 o raddau lledred gogleddol, a rhwng 35 a 60 o raddau hydred dwyreiniol, felly yn 1800 milltir o hyd, ac o ddeutu 800 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 700,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir y wlad hon o du y gogledd gan Twrci, o du y dwyrain gan gulfor Persia ac Ormus, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Persia; o du y de gan for yr India, ac o du y gorllewin gan y Mor coch, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth Affrica.

RHANIADAU.] Gelwir y parthau gogledd orllewinol Arabia garegog, y parthau canol Arabia anial, ac y parthau deheuol Arabia brydferth. Ei hadraniadau sy fal y canlyn.

| *Rhaniadau.* | *Taleithiau.* | *Dinasoedd.* |
|---|---|---|
| 1. Arabia garegog. | | |
| 2. Arabia anial . . . | Debeu-barth Neged. | |
| 3. Arabia brydferth. | Gogledd-barth Neged . | Imama, Salemia. |
| | Hedjaz. . . . . | Mecca, Medina. |
| | Hadramant . . . . | Hadrament, Dofar. |
| | Yemen. . . . . . | Saana, Mocha. |
| | Oman . . . . . . | Rostak, Muscat. |
| | Lachsa, neu Hadjar . | Lachsa. |

GWYNEB Y WLAD.] Diffaethfaoedd tywodlyd yw y rhan fwyaf o'r wlad hon: ac nid ydyw y tir sydd yn terfynu arnynt yn ffrwythlon, gan nad oes gwlaw yn disgyn arnynt trwy ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Y tir de o herwydd ei agosrwydd i'r mor yn cael ei ddyfrio gan ambell gawod, sydd yn cnydio yn doreithiol. Nid oes llyn nag afon oddigerth ychydig o rai bychain yn min y mor i'w canfod yn yr holl wlad.

HIN A THYMHORAU.] Rhaniadau y flwyddyn sydd yma yn hysbys wrth yr enwau y tymhor llaith, ac y tymhor sych. Dechreu y blaenaf yn y parthau deheuol yn Medi, a pharu hyd y gwanwyn. Oddiyno i ogledd-barth y wlad, mae y tymhor sych yn cynnyddu hyd oni ddelir i'r parthau na welir braidd gawod mewn blwyddyn gyfan. Mae yr hin yn dra mwll y dydd, ac yn lled oer y nos, ac weithiau bydd gwynt poeth oddiar yr anial-leoedd tywodlyd yn deifio pob llysieu mewn ychydig oriau, a thra y parha ei rwysg bydd yn dra niweidiol i ddyn ac anifail.

MYNYDDOEDD. AFONYDD.] Mynydd Sinai, a mynydd Horeb yn Arabia garegog, a thrum Gabel el Ared yn Arabia brydferth ydynt y rhai mwyaf hynod. Gwenithfaen coch yw defnydd Sinai. Y fwyaf o'r ffrydiau sydd yn mharthau deheuol y wlad ydynt y Sana, ac y Kriin. Astan sydd afon led fawr cyhyd ag y peru y gwlaw, pan fyddo yr haul tua'r cyhydedd, ac yna nid yw ei hystrad ond sarn sychlyd, am y gweddill o'r flwyddyn.

MWNGLODDIAU.] Ychydig o gloddfeydd haiarn a phlwm yn unig sydd yn y wlad hon, ond mae meini a gemmau gwerthfawr yn ei mynyddoedd, megys yr onyx, sardonyx, marmor, ac ereill.

YNYSOEDD.] Socotra, yn 70 milltir o hyd a 16 o led ydyw y fwyaf o ynysoedd Arabia: ei glenydd sy glogwynog a serth, ond mae ei gwyneb yn lled wastad, ac yn dra ffrwythlon. Y trigolion ydynt Fahometaniaid: trefnidiant â Goa i gyfnewid anifeiliaid a ffrwythydd yr ynys am ddaöedd ereill.

Bahrein, enwog am y perlau a geir ynddi sy fwyaf o liaws o fân ynysoedd yn nghul-for Persia.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion....Crefydd. Llywodraeth....Iaith. Dysgeidiaeth.... Hynafiaethau....Dinasoedd a threfydd....Anifeiliaid*

YR Arabiaid ydynt ddynion cryfion, o faint canolig, a thywyll o bryd a gwedd, ac yn byw heb braidd na llywodraeth na chyfraith i'w rheoli. Mae y rhan fwyaf o honynt yn grwydraid lladronllyd yn pabellu yma ac acw ar hyd y wlad, lle y caffont hwy a'u diadelloedd camelod, defaid, a geifr luniaeth. Nid ydyw y blaenoriaid gwladol yn gommedd i'r deiliaid yspeilio os gallent unrhyw deithwyr ar dir neu fôr a gyfarfyddont: gwiriwyd hyn yn dra amlwg mor ddiweddar â 1750, pan y bu i 50,000 o Arabiaid crwydrol ymosod ar fyddin o ymdeithyddion oedd ar eu taith i Mecca, a lladd 60,000 o honynt a lladrata eu holl dda, a hyn er gwaethaf llu o Dwrciaid arfog oedd yn warcheidwaid iddynt.

Yr Arabiaid sydd yn cyfanneddu y trefydd ydynt ddynion lled wareiddiedig, ac addfwyn, ond yn dra choel-grefyddol yn eu holl oruchwyliaethau. Mae priodi mor anrhydeddus yn eu golwg a bod gwarth yn dilyn y sawl a ommeddo hyny gwedi cyrhaedd oedran addas: gwell gan fenyw ddyfod yn ail neu drydydd gwraig i unrhyw wr, na bod yn hen ferch, er mai y gyntaf a'i hepil yn unig sydd yn dyfod i feddiant o'r da, gwedi marw y penteulu. Anneddau yr Arabiaid ydynt ddystadl: dwy gell ydyw y llawr yn gyffredin: y nesaf allan i'r gwr, ac y llall i'w wragedd: byddant gyd a'i gilydd wrth fwyta, oni ddigwydd bod dyeithriaid yno, yna rhaid na symudo y gwragedd o'i cell hyd oni ymadawant. Bwytânt bob cig a arferir yn Ewrop, onid cig moch, yr hwn fal Iuddewon a farnant yn ffieidd-beth; ond rice sydd fwyaf arferedig yn ei plith: gosodir y ddysglaid bwyd ar ystol isel, yna gwedi i bob un o'r teulu adrodd ychydig eiriau o'r Coran, eisteddant o'i amgylch ar y llawr, a chan na arferir cyllill na llwyau yn y wlad, bydd pob un a'i fysedd yn drwyadl ynddi hyd onis digonir.

CREFYDD. LLYWODRAETH.] Mahometaniaeth sydd freintiol yn Arabia, ond mae rhyddid i'r crwydraid o honynt goleddu eilun-addoliaeth. Mae y wlad yn cael ei rheoli gan amryw dywysogion, y rhai gyd a bod yn llywodraethwyr llawn rhwysg, ydynt *imams* neu brif offeiriaid, fal caliphiaid y Saraceniaid gynt. Y cyfreithiau gwladol a'r gosb o'u troseddu sydd yn esponiadau y Coran.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Yr Arabaeg fal yr arferid hi gynt a gyfrifid yn iaith ardderchog, gan iddi fod yn gainc o'r Hebraeg. Addysgir hon yn ngwledydd y dwyrain fal y Lladin a Groeg yn ngwledydd

Ewrop: a hi sydd yn cael ei harfer yn yr holl addoliadau, gan fod y Coran gwedi ei ysgrifenu ynddi. Dywed prydyddion Arabia ei bod môr gymmwy fawr a bod mîl o amrywiol ddull o draethu y gair camel, a thros bump cant o eiriau am lew.

Y pader ynddi sy fal hyn. *Abuna elladhi fi-ssamwat; jethaddas esmdc; tati malacutac; taouri masebiatic, fi-ssama; kedhalec ala lardh aating chobzena kefatna iaum beiaum; wagsor lena donubena, wachataina, cama nogfor, nachna lemen aca doina; wald tadalchalna fihajarib; laken mejjina me nnescherin. Amen.*

HYNAFIAETHAU.] Y lleoedd y sonir am danynt yn yr ysgrythyrau ydynt y prif hynafiaethau. Anialwch Sinai sy wastadedd prydferth 9 milltir o hyd a thair o led, ac felly yn ddigon ëang i gynnwys holl wersyll Israel gynt. Oddiar fynydd Sinai canfyddir mynydd Horeb, lle bu Moses yn bugeilio defaid Jethro ei chwegrwn. Mae ar y mynydd hwn feudwydai a mynachlogydd, a rhifres o fynachbod ynddynt yn ffuantu y gwyddent y mannau y gwnaethwyd amryw o'r gwyrthiau a grybwyllir am danynt yn yr ysgrythyrau.

DINASOEDD A THREFYDD,] MECCA, y brif ddinas, sydd yn sefyll agos yn nglan y môr coch. Yr adeilad hynotaf ynddi ydyw y deml wych a adeiladwyd yn y man y ganwyd Mahomet ynddo; yr hon a ymwelir unwaith o leiaf gan bob Mahometan, fal y soniwyd: ei phen sy fwäog ac yn dra uchel, ac wedi ei oreuro ag aur trosdo. Mae cant o ddorau ar y deml a ffenestr wych uwch pob un.

Medina sydd yn sefyll o ddeutu 50 milltir oddiwrth y Mor coch; hon sydd hynod am mai iddi y diangodd Mahomet rhag perygl yn nechreu ei oruchwyliaeth. Mae yma deml wych yn sefyll ar 400 o golofnau, ac ynddi 300 o lampau arian yn llosgi yn wastadol, ac yn ei lle sancteiddiolaf mae arch Mahomet, yn orchuddiedig a llenni o aur, dan gylched-len o arian a meini gwerthfawr. Pasha yr Aipht trwy orchymyn y Sultan sy raid adnewyddu y llenni bob blwyddyn: perchir y camel a'u cluda cymmaint, na raid iddo wneuthur unrhyw orchwyl mwy.

Y dinasoedd ereill ydynt Sana, Mocha, Jedda, Muscat, a Lachsa. Mae yn Sana gastell gwrthyn cadarn: cylchynir y ddinas gan fûr priddfaen: ei hadeiladau, oddigerth y temlau ydynt ddystadl. Mocha sydd yn borthladd cyfleus, ac mae ei hadeiladau yn fwy trefnus nag unrhyw o drefydd Arabia. Judda ydyw y dref fwyaf ei threfnidiaeth o unrhyw ar lenydd y Môr côch: yma bydd y trefnidwyr o Arabia ac o Ewrop yn ymgyfarfod i newid eu daoedd. Muscat sy borthladd ëang: mae llongau Prydain o'r India yn dal trefnidiaeth i fynu yn hon. Lachsa sy dref go fawr ar fin ou-for Persia.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Arabia.*

YR Arabiaid ydynt gwedi hanu oddiwrth Ismael, am yr hwn y dywedwyd y byddai ei epil yn anorfodadwy, er iddynt fod yn erbyn pawb a phawb yn eu herbyn hwythau. Mae y brophwydoliaeth am y genedl hon gwedi ei gwirio hyd yr eithaf, gan na ddygwyd yr Arabiaid gan Alexander fawr, na chan rwysg ymerodraethau y Saraceniaid, nag y Rhufeiniaid, na Groegiaid i ymddarostwng iddynt,

Mae yr Arabiaid sydd yn preswylio glenydd y môr, yn gystal ag y rhai sydd yn cyfanneddu y gogledd-barth yn arswydo rhwysg y Twrc, ond nid ydyw y rhai sydd yn ei pharthau tufewnol yn addef uwchafiaeth i neb, ond yn ymroddi i ladrata holl dda unrhyw deithwyr o ba genedl bynag, a fyddo mòr hyf a sathru eu bro.

Ychydig a wyddid am Arabia cyn dyddiau Mahomet, pan y darfu i'r twyllwr hwnw ffuantu iddo ddyfod o'r nêf, a chan i lu ymuno a'i lumman, ymroddodd i osod sail ymerodraeth fawr, yr hon mewn rhwysg eglwysig sydd a'i cheinciau gwedi ymledu yn arswydus tros gyfran ëang o'r ddaear. Ganwyd Mahomet o deulu dystadl yn y flwyddyn 569, yn nyddiau Justinian II, ymerawdr Constantinople. Bu yn ngwasanaeth ei ewythr, yr hwn oedd drefnidiwr, am gryn amser yn nechreu ei oes, a chan fod negesau iddo eu gwneuthyr yn Syria, Palestina a'r Aipht, daeth yn fuan i wybodaeth o egwyddorion yr amrywiol enwau crefyddol oedd yn y wlad; ac o ansawdd yr elyniaeth oedd rhwng deiliaid y naill a'r llall o honynt. Daeth drachefn i wasanaeth trefnidiwr cyfoethog, yr hwn yn marw, a Mahomet yn priodi Khadija ei weddw, a barodd iddo ddyfod i feddiant o gyfoeth lawer. Yr oedd amryw o'r genhedloedd y dwyrein-fyd y pryd hyn yn dàl i fynu egwyddorion Arius,* ac ereill yn Baganiaid yn ymroddi yn mhleserau moethus a thrachwantus yr oes; felly gwelodd Mahomet gyfleteg o lunio crefydd newydd a foddia ychydig ar bob-plaid. Cynnorthwywyd ef yn y gorchwyl gan fynach o enw Sergius, yr hwn am ei ddrygfoes oedd gwedi ymddëol o'r mynachdy, a gwedi dyfod er ys tro i wasanaeth Khadija. Erbyn llunio y Coran cyd rhyngddynt, gwelwyd nad atebai y dyben, heb roddi y gair allan fod yr oruchwyliaeth oedd yn gynnwysedig ynddo oddi uchod, felly ffuantodd Mahomet, yr hwn o'i ieuenctyd oedd ddarostyngedig i lesmeir-glwyf, iddo ar y prydiau y clefychai, ymddiddan ag angylion, a rhodio anneddau y gogoniant, ag iddo gael gorchymyn yno i ymroddi o gymmell holl ddynol ryw i gofleidio ei egwyddorion. Felly daeth lluoedd o Iuddewon a Chenhedloedd i'w fintai, a dysgodd iddynt o'r diwedd ddefodau rhyfel, a bu brwydrau arswydus hyd oni chafodd yr holl wledydd oedd yn terfynu ar ei ardaloedd i arddangos crêd i'w genadwri. Gwyddai amryw yn Mecca, ei le genedigol am ei dwyll; felly ymroddasant i'w ladd yn ddirgelaidd, ond Mahomet gwedi clywed am yr amcan a ffôdd i Medina, lle y derbyniwyd ef yn groesawgar. Digwyddodd hyn yn mlwyddyn ein Harglwydd 622, a'r ddegfed o oruchwyliaeth Mahomet. Geilw yr Arabiaid y pryd hyn yn flwyddyn yr *Hegira*, sef y ffôad, ac o honi maent yn cyfrif eu hamser.

Bu farw Mahomet yn 629, a gadawodd ei ymerodraeth i'w ddau fab: un yn caliph Persia, a'r llall yn caliph yr Aipht. Aeth y cyntaf rhagddo yn erbyn y gwledydd dwyreiniol, a dygodd amryw o honynt i gofleidio egwyddorion ei dad; y llall tan enw blaenor y Saraceniaid, a fu lwyddiannus i ennill rhanau ëang o Ffrainc, Yspaen, Itali, ac ynysoedd Môr y canoldir i'w feddiant.

* Ariaid ydynt enw crefyddol yn dal allan nad oes ond un person yn y Duwdod: er na wadant ddwyfoldeb y mab, eto honant fod amser pryd nad oedd. Dechreuodd yr haeriadaeth hon yn Alexandria yn nechreu y bedwerydd ganrif. *Heckford.*

# PERSIA.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd....Rhaniadau....Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir....Hin a thymhorau....Mynyddoedd. Afonydd... Llysieu....Hynafiaethau....Ynysoedd.*

PERSIA sydd yn sefyll rhwng lledred 25° a 40° yn ogleddol, a rhwng hydred 45° a 70° yn ddwyreiniol, yn 1300 o filltiroedd o hyd a 1050 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 800,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir hi gan fynyddoedd Ararat, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Georgia ar y tu gogledd orllewin; gan fôr Caspin, y terfyn rhyngddi a Russia ar y tu gogledd; gan for Oxus y terfyn rhyngddi a Thartari Usbec ar y tu gogledd ddwyrain; gan India ar y tu dwyrain, gan foroedd India, Persia, ac Ormus ar y tu de, a chan Arabia a Thwrci ar y tu gorllewin.

RHANIADAU.] Mae y deyrnas hon yn cynnwys y taleithiau canlynol.

| *Taleithiau.* | *Enwau gynt.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| Faristan | Persis | Shirawz. |
| Irac Agemi | Media | Ispahan. |
| Aderbeitsan | Media Atropatena | Tauris. |
| Khusistan | Susiana | Suster. |
| Mazanderan | Margiana | Ferabad. |
| Khorasan | Margiana ac Aria | Herat. |
| Ghilan | Gela | Reshd. |
| Sablestan | Bactriana | Bost. |
| Schirvan | Albania | Schamakie. |
| Segestan | Arachosia | Zarang. |
| Mekran | Gedrosie | Kidge. |
| Laristan | . . . . . . . . . | Lar. |
| Kerman | Caramania | Kerman. |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Tir gwael o wall triniaeth arno sydd yn ngogledd-barth Persia, sef yn y rhanau o honi sydd yn terfynu ar Tartari a môr Casbin. I'r de o fynyddoedd Taurus mae y wlad yn ffrwythlon o ŷd, gwin, a phob ffrwythydd, yn nghyd ag amryw gyffuriau meddygol, ond mae yr hin yn ddarostyngedig ar brydiau i wyntoedd poethion fal y soniwyd, y rhai gyd â bod yn niweidiol i ddyn ag i anifail, ydynt yn deifio y rhan fwyaf o bob llysiau a fyddo yn eu harfod.

HIN A THYMHORAU.] Y rhan o Persia sydd yn terfynu ar fynyddoedd Caucasus ac Ararat neu Daghistan, ydynt oer oddiwrth yr iâ sydd agos yn wastadol yn toi y mynyddoedd hyny. Yr hin yn y canolbarthau sy hyfryd a maethlon; eithr mae y parthau deheuol yn dra mwll, ac fal y soniwyd yn dra afiach gan yr awelon poethion.

MYNYDDOEDD. AFONYDD.] Mynyddoedd Caucasus ac Ararat, y rhai hefyd a elwir Daghistan, ydynt yn llenwi wyneb y fro ttang o'r Môr du i fôr Casbin. Trum Taurus sydd yn estyn ar draws y wlad o Natolia i'r India, a cheinciau o hono sydd yn ymdaflu o'r ddeutu i lenwi agos yr holl barthau canol. Afon Indus sydd a'i blaenau yn

mynyddoedd Taurus, a gwedi llifo tros 1000 o filltiroedd sydd yn ymuno â mor yr India. Afon Arxes sydd yn codi yn mynyddoedd Armenia, ac yn ymuno ag afon Cyrus, cyn ymarllwys i fôr Casbin. Nid yw unrhyw ereill yn deilwng o well enw na ffrydiau.

LLYSIEU.] Mae pob llysieu sydd yn ngwledydd Ewrop yn ehelaeth ar amserau yn mroydd deheuol Persia: bernir bod y gwin-rawn yn dra pheraidd.

MWNGLODDIAU.] Cyffredin yw i bob gwlad fynyddig gynnyrchu rhyw fŵn neu gilydd os olrheinir hwynt. Mae Persia er ys oesoedd anadnabyddus yn rhoddi haiarn, efydd, a phlwm yn doreithiol, a bu gynt gloddfeydd o aur ac arian yn agored ynddi. Mae ynddi hefyd wastadoedd o 20 milltir neu ychwaneg o hyd a lled, a rhai â chaenen wastadol o halen arnynt, ac y lleill yn orchuddiedig gan alum neu sulphur. Meini gwerthfawr sy hefyd yn aml ynddi.

HYNAFIAETHAU.] Mae murddynau hen demlau cenhedlig yn dra lliosog yn Persia. Colofnau marmor tryfrith llys Persepolis sydd eto yn amlwg, ac angladd-leoedd brenhinoedd Persia, yn gelloedd eang mewn creigiau sydd yn arddangos cywreinrwydd y gwneuthurwyr. Mae yn Ispahan golofn o benglogau anifeiliaid 20 llath o uchder, gwedi ei hadeiladu gan Shah Abbas yn goffadwriaeth am ddarostyngiad gwrthryfel oedd yn ei wlad. Yr oedd yn y derfysg gwedi addunedu gwneyd y cyfryw o benglogau dynion; ond ar i'r gwrthryfelwyr edifarhau ac ymdawelu newidiodd ei adduned.

YNYSOEDD.] Mae Ives yn ei for-daith o Gombroon i fynu i gulfor Persia, yn crybwyll am amryw ynysoedd, sef Kisme, Polloar, Kyes, Inderabie, Shittiwar, a Busheel, y rhai a gyfarfu yn ei daith: yr oedd rhai o honynt yn noethlwm ac heb drigolion, ac y lleill oeddynt yn cynnwys rhai mân bentrefi a choedydd.

---

## DOSBARTH II.

*Trigolion....Moesau ac arferion....Llywodraeth. Cyfreithiau...Crefydd....Iaith. Dysgeidiaeth...Trefnidiaeth...Milwyr....Dinasoedd a threfydd....Anifeiliaid.*

MAE y Persiaid yn cyfanneddu y rhan hon o'r ddaear o amser anadnabyddus: gelwid hwynt yn y cynamseroedd Scythiaid, ac yna Persiaid, yn ol barn rhai oddiwrth Perseus, mab Iou a Danae o restr y llu cenhedlig, ac yn ol ereill oddiwrth *Pars* gair yn arwyddocau marchogwr, yr hon gelfyddyd sy dra enwog yn Persia o'r amser boreuaf. Nid yw hysbys rifedi y trigolion, ond bernir eu bod o ddeutu 10 miliwn.

MOESAU AC ARFERION.] Y Persiaid ydynt ddynion hardd o gorffolaeth, a theg o bryd; hynaws yn eu hymarweddiad, a thra glanwaith gan eu mynych olchiadau yn ol defodau ofergoelus y Coran. Maent yn enwog mewn helwriaeth a gwrol-gampau: a dysgant adar ysglafaethus i ymosod yn llwyddiannus ar y llew, y tiger, y llewpard, ac ereill: baeddu teirw sy hefyd yn gampau gorchestol yn eu plith.

Eu gwisgoedd yn gyffredin ydynt goch: math o fantell yw y wisg uchaf, ac eu capan sy dra gwych, wedi ei wneyd o sidan a gemmau gwerthfawr, ac ni arferent ei dynu hyd yn nod i'r brenin. Gostwng deir-gwaith yw y ddefod wrth gyfarfod y prif bennaethiaid, a dodi y llaw bob tro ar y talcen, ac unwaith wrth gyfarch eu gilydd. Gwisg

Shirawz, 225 milltir i'r de ddwyrain ŏ Ispahan sy ddinas hardd, ond fod ei heolydd fal y llall yn annrhefnus o ran eu gosodiad. Mae mûr o amgylch hon, a rhaid i'r dinasyddion fod o fewn iddynt erbyn machlud haul, neu aros o'r tu allan hyd y boreu: carcherir hefyd bob un a gaffer yn yr heol gwedi 10 o'r nos, ac os na fedr roddi cyfrif teg am fod allan ar amser anaddas, cosbir ef am y trosedd. Tybir bod y trigolion o ddeutu 40,000.

Tauris, fu gynt yn lliosog ei thrigolion, ac yn brif ddinas Persia, sy weithian yn dref ddystadl, gwedi ei harteithio gan ddychrynfeydd rhyfel cartrefol. Dinasoedd Ormuz a Gombroom, yn agored cul-for Persia hefyd fuont yn fwy poblog nag ydynt y pryd hwn.

ANIFEILIAID.] Meirch Persia ydynt yr harddaf o unrhyw yn ngwledydd y dwyrain: a gellir dywedyd yr un peth am y mulod, y rhai a arferir gan y mawrion mor fynych a'r meirch. Y camel sy liosog ynddi: geilw y trigolion y creaduriaid hyn yn llongau y tir. Defaid, geifr, ysgyfarnogod, &c. hefyd sy liosog ynddi. Y gwylltfilod ydynt y llew, y tiger, y llewpard, hyena, cŵn a moch gwylltion, &c. Yr ehediad ydynt y pelican, y cudyll, ac ereill cyffredin yn Ewrop; ac y moroedd sydd yn terfynu arni ydynt yn heigio moirhoniaid ac amryw rywogaethau o bysgod.

Y llew, peniaeth y gwylltfilod, sy greadur tebyg o ddull i waed-gi ond ei fod yn fwy: anial-leoedd y gwledydd poethion yw ei brif anneddi: pan ruo, bydd pob anifail o fewn clyw yn prysuro i'w noddfa. Po poetha fyddo hin y wlad, ffyrnigaf ei llewod: ymesyd llewod Arabia ar fintai fawr o deithwyr, ond heliant lewod gogledd-barth America â chŵn.

Y Tiger sy debyg ei gorff i lew, ond ei fod yn llai: ymesyd hwn ar bob creadur a gyfarfyddo: ac ni ddychryna peiriannau distrywgar dyn mo hono. Pan fetho gael ei ddigrni ag ysglyfaeth, rhwyga ei epil ei hun, ac os ceisiai y fam rwystro, ni arbed mo honi hithau.

Y Llewpard sy debyg o ddull i'r tiger, ond ei fod yn llai mewn maint a ffyrnigrwydd: ymesyd ar gi o flaen unrhyw greadur. Addysgir y llewpard, yr ounce, a'r panther, y rhai ydynt greaduriaid tebygol i'w gilydd i hela y llew.

Hyena sy greadur ysglyfaethus tebyg i flaidd: ni ellir ei ddofi er ceisio hyny pan fyddo yn ieuanc: mewn ceisiau, ymwêl ag angladd-leoedd, a thiria i fynu gyrff dynion i ymborthi arnynt.

Y pelican sydd aderyn afrosgo, ac o faint alarch: pysgod yw ei ymborth: gesyd doraeth o honynt mewn coden sy tan ei ên, ac â i'r lan i ymborthi arnynt, ac i gysgu hyd oni newyno drachefn.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Persia.*

EPIL Japhet, medd hanesyddion ydyw trigolion y wlad hon. Dechreuodd ymerodraeth Persia gwedi terfyn ar rwysg gormes Babilon am flynyddau lawer arni. Cyrus a'i seiliodd o ddeutu 556 o flynyddau cyn crêd, ac ef yn fuan gwedi, a ryddhaes gaethion Israel o gaethiwed Babilon. Terfynodd yr ymerodraeth hono yn nyddiau Darius, trwy rym arfau gorchfygol Alexander fawr, o ddeutu 329 o flynyddau cyn crêd. Gwedi marw Alexander, rhanwyd ei ymerodraeth rhwng prif

flaenoriaid ei fyddinoedd, epil y rhai a'i meddianasant am dair canrif gyflawn, pan y daeth rhwysg ymerodraeth Rhufain i feddiant o'r rhan fwyaf o honi. Bu dywysogion o Bersiaid yn rheoli y rhan fwyaf o'r wlad hon y pryd hyny, hyd oni ddarostyngwyd yr holl wlad i arfau Mahomet yn O. C. 636. Gwrthryfel yn digwyddo yn 820, bwriwyd am dro epil Mahomet oddiar yr orsedd, hyd oni arweiniodd Tamerlane luoedd cedeirn i'w hadennill, epil yr hwn yn yr oes ganlynol a ddifreiniwyd gan deulu Sophi, y rhai oeddynt gwedi hanu o Mahomet, ac y rhai hyn sy gwedi cadw meddiant o'r wlad hyd y pryd hwn.

Bu arweddiad lymdost y blaenoriaid hyn ar y deiliaid yn achlysur i Persia fod yn sangfa i ryfel cartrefol agos yn mhob oes gwedi: lladdwyd Hussein yn 1694 gan Mahmud; fal yr eisteddai ar yr orsedd, ac yntau yn fuan gan Esref un o'i swyddogion, yr hwn drachefn a reolodd hyd oni laddwyd ef gan Nadir Shah, yr hwn a wahoddasid gan Thamas, iawn etifedd y goron i achub y deyrngadair o fachau estroniaid Arfau Nadir yn llwyddiannus, ac wedi ennill hoffder y milwyr, lladdodd ei arglwydd yn fradychus, a rheolodd y wlad tan enw Thamas Kouli Khan. Gwedi hyn arweiniodd fyddin gref i India, a dygodd oddiyno pob da oedd a allai gludo · drachefn aeth i Tartari, a gwnaeth i'r wlad honno dalu teyrnged i Persia; ac yna enfodd amryw fuddugoliaethau ar y Tyrciaid, a diosgodd hwynt o'r ardaloedd oeddynt gwedi ladrata oddiar Persia o dro i dro yn ystod y cynnwrf cartrefol. O'r diwedd gwedi ymbeddychu a'i elynion, mynai newid crefydd y wlad i egwyddorion Omar * a llinddagodd y prif offeiriaid a'i gwrthwynebai, am hyn y llupiwyd brâd i'w erbyn, a lladdwyd ef, 1747. Gwedi hyn honnodd amryw eu hawl i'r goron, a rhyfel gartrefol am rai blynyddoedd oedd y canlyniad, ac mae ol distrywgar peiriannau y rhyfel hon hyd heddyw yn weledig ar ei dinasoedd, trefydd, &c.

Y nesaf a reolodd oedd Kerim Khan, yr hwn fuasai swyddog milwraidd ffyddlon i Nadir Shah: digwyddodd fod yn Shirauz y pryd yr ymosododd y gwrthryfelwyr arni, a chan iddo trwy ei ddewrder ei gwaredu, ymroddasant i'w ddyrchafu i'r orsedd, a bu yn eu rheoli 30 mlynedd. Gwnaeth Shirauz yn brif ddinas Persia, am haelioni y dinasyddion iddo: sefydlodd hefyd weithfaoedd, rhwyddhaes drefnidiaeth, dileodd drethi gorthrwm, ac ymroddodd i wneyd ei ddeiliaid mor ddedwydd ac y medrai. Bu farw yn 1779, yn 80 oed, yn alarus am dano, ac y mae ei gôf yn barchus hyd heddyw gan yr holl genedl.

Gwedi marw Kerim, ymaflodd câr iddo o enw Saki yn y goron, ond o achos ei greulondeb, rhuthrodd ei filwyr arno, a gosodwyd Abul Futtah mab Kerim yn ei le. Diorseddwyd hwn gan ei ewythr Sadic, yr hwn yn fuan gwedi ei goroni a laddwyd gan Ali Murad, câr arall i Kerim, yr hwn hefyd a drengodd ar y ffordd wrth flaenori byddin i darfu y derfysg oedd gwedi ennyn yn y wlad ar iddo esgyn i'r orsedd.

Jaafar Khan, swyddog o osodiad Kerim oedd y nesaf a goronwyd, ond yr oedd Akau Mahomet Khan yn honni hawl i'r orsedd yr un pryd, felly bu rhyfel waedlyd, a'i therfyn fu i Jaafar gael ei ladd, ac i Akau ennill y deyrngadair: digwyddodd hyn yn 1792. Yr ydoedd hwn yn 1794 yn 65 oed, yn ddyn tal, ond yn anolygus o bryd a gwedd, a chan ei fod yn eunuch, y mae gwedi enwi ei nai Baba Serdar i fod yn ddilyniedydd iddo.

* Gwel y nod yn ngodreu tu dalen 260.

# INDOSTAN

NEU

# INDIA O FEWN Y GANGA,

## *GYNT YMERODRAETH Y MOGUL.*

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd....Rhaniadau...,Gwyneb y wlad Ansawdd y tir ...Hin a thymhorau....Mynyddoedd.....Afonydd. Llynau.. .Mwngloddiau....Coedydd. Llysieu.*

Y wlad fawr hon sydd yn sefyll yn neheu-barth Asia, rhwng 8 a 35 o raddau lledred gogleddol, a rhwng 67 a 92 o raddau hydred dwyreiniol, yn gylchynedig o du y gogledd gan Tartari Usbec, a Tibet; o du y dwyrain gan Assam, Arracan, rhanau o ymerodraeth Birmah, a môr Bengal; o du y de gan fôr yr India, ac o du y gorllewin gan yr un môr â Phersia: y cyfan yn agos i 900,000 o filltiroedd arwynebol.

RHANIADAU.] Ei rhaniadau ydynt y canlynol,

| | | |
|---|---|---|
| Taleithiau i'r gogledd ddwyrain a'r gogledd, ar y Ganga | Bengal | Calcutta, Hoogley. Dacca, Moorshedabad. |
| | Bahar | Patna. |
| | Allahabad | Allahabad. |
| | Oude | Lucknow. |
| | Agra | Agra. |
| | Delhi | Delhi. |
| | Cabul | Cabul. |
| Taleithiau i'r gogledd orllewin: ar yr Indus | Candahar | Candahar. |
| | Lahore | Lahore. |
| | Cashmere | Cashmere, neu Serinagur. |
| | Moultan | Moultan. |
| | Sinde | Tatta. |
| | Agimere | Agimere. |
| | Guzerat | Ahmedabad, Cambac, Surat. |
| | Malwa | Ougene, Indore. |
| Taleithiau deheuol ymerodraeth Mogul. | Candeish | Burhampour |
| | Berar | Nagpour |
| | Orissa | Cuttack |
| | Dowlatabad | Aurungabad |
| | Visiapour, neu Bejapour | Visiapour |
| | Golconda, neu Hydrabad. | Hydrabad. |
| | Cantredau gogledd. | Cicacole, Visagapatam. Rajamundry. Ellore. Condapilly, Masulipatam. Guntoor. |

| | | |
|---|---|---|
| Arfordir Coromandel sef parthau de ddwyreiniol Indostan . | Carnada . . | Pullicate, Madras, Arcot, Sadras, St. Thomas, Pondicherry, Fort St. David, Porto Novo, Cuddalore, Devicotta. |
| Parthau deheuol Indostan . . . . | Mysore . . | Seringapatam, Bednore, Chitteldroog, Bangalore. |
| | Tanjore . . . | Tanjore. |
| | Madura . . . | Madura. |
| | Tinnevelly . . | Palamcotta. |
| Arfordir Malabar, sef parthau de orllewin Indostan. . . . . | Travancore. | Travancore. |
| | Calicut . . | Cochin, Calicut. Tellicherry. |
| | | Barcelore. |
| | Canara . . . | Onore, Goa. |
| | Y Concan. | Sevenbroog, Gheriah, Bombay. |

Yr oedd taleithiau ymerodraeth Mogul wedi ei rhanu yn *circars*, sef swyddi, y rhai hefyd oeddynt gwedi eu rhanu yn *purgunnahs*, sef cantredau: a swyddogion y taleithiau a elwid *nabobs*.

Parodd Rhythr y Persiaid tan Nadir Shah ar Indostan, i swyddogion y taleithiau ymwrthod ag iau ymerawdwyr Mogul, y rhai o herwydd anghydundeb a ymladdasant y naill yn erbyn y llall, hyd oni alwodd y pleidiau drefnidwyr Lloegr a Ffrainc, y rhai trwy ganiatâd oeddynt yn preswylio arfordiroedd y wlad i'w cynnorthwyo. Y rhai hyn yn deall defodau rhyfel yn well, a ddaethant yn fuan yn brif ymladdwyr, a'r terfyn fu i arfau y Saeson yru ymaith y Ffrancod o'r wlad, a meddiannu ardaloedd ëang, rhai trwy ymröad a rhai trwy orfod.

Yr oedd y Mahrattiaid gynt yn meddiannu amryw o daleithiau Indostan, ond gyrwyd hwynt oddiyno gan ymerawdwyr Mogul i breswylio y fro fynyddig a elwir Gauts, a chan yr annrhefn oedd yn yr ymerodraeth yn nyddiau Tippoo Sultan, maent gwedi mwyâu eu teyrnas i ychwaneg na 1000 o filltiroedd o hyd a 700 o led.

Hyder Ali, milwr gwedi dysgu defodau rhyfel yn ol dull yr Ewropiaid, ac yn beníaeth ar deyrnas Mysore, ac ar ardaloedd ëang ereill, oedd y gelyn mwyaf medrus a gyfarfu â lluoedd Prydain yn yr India. Bu farw yn 1783, a daeth ei fab Tippoo i'w le, yr hwn yn y rhyfel gyntaf â Lloegr a gollodd ran fawr o'i deyrnas; ac yn yr ail, ei fywyd a gweddill ei ardaloedd. Nid ydyw y Mogul presennol Shah Aulum er i'w hynafiaid feddiannu ymerodraeth mwy ëang na holl deyrnasoedd Ewrop, yn meddiannu onid braidd yr enw yn unig. Felly mae y wlad ëang hon gwedi ei rhanu rhwng y Saeson a'r Nabobs teyrngedawl iddynt; tywysogion Deccan, neu y taleithiau deheuol; Mahrattiaid, a rhai tywysogion o Indiaid anymddibynol a elwir rajahs a seiks.

Meddiannau Lloegr yn India ydynt taleithiau Bengal a Bahar, rhaglawiaeth Benares, a rhan o Orissa; dinas a rhaglawiaeth Cuttack, a phorthladd Balasore, y Dooab a'r frô rhwng y Ganga a Jumna, pedair o'r pump circars gogleddol, talaeth Madras, porthladdoedd Cuddalore, Devicotta, a Negapatam; ynys a dinas Seringapatam; diweddar deyrnas Canara, a rhaglawiaeth Coimbatore; rhan o Guzerat, ac ynys ac amddiffynfa Bombay yn nghulfor Cambaya: y cyfan yn 213,000 o filltiroedd arwynebol, ac yn cynnwys 14,000,000 o drigolion.

Bro y Mahrattiaid sydd ëang: cyfaneddent gynt arfordiroedd

gorllewinol India, ond y maent weithiau yn estyn ar draws y wlad, agos o fôr i fôr. Pe ymunai y tri pheniaeth sydd yn rheoli y taleithiau hyn, sef Scindia, Holkar, a Bounsla, gallent ddyfod â 200,000 o wŷr meirch, a 60,000 o wyr traed i'r maes ar unwaith.

Ardaloedd peniaeth y Deccan, neu ardaloedd deheuol ymerodraeth Mogul, ydyw talaeth ëang Golconda, ac y brif ddinas yw Hydrabad, yr hon sydd yn sefyll ar afon Moussi.

Rajah neu beniaeth Mysore, sydd a'i wlad yn deyrngedawl i Mahratta, ac y taleithiau gogledd orllewinol sydd yn perthyn i Indiaid eulun-addolgar, y sydd a'i blaenoriaid yn myned tan enw Abdallees a Seiks.

Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.] Rhaid yw i wlad ëang fal hon amrywio llawer o ran agwedd ei gwyneb: er bod ynddi drumau uchel yn ymestyn ar ei thraws yn ol ac yn mlaen, mae ynddi wastadoedd ëang-tra ffrwythlon, ac ereill yn dywodlyd fal diffaethfaoedd Arabia. Afonydd mawrion sy hefyd yn gorlenwi eu ceulenydd, ac yn peri i'r ardaloedd cylchynol fod yn dra-llawn o bob twf daear.

Hin a thymhorau.] Mae yr hin yn lled wastad yn y wlad ëang hon, oherwydd bod y gwynt yn chwythu am 6 mis o'r de, a 6 mis o'r gogledd heb onid ychydig wahaniaeth yn wastadol. Misoedd Ebrill, Mai, a dechreu Mehefin, sef hyd disgyniad y gwlaw ydynt mor boeth a bod croen y wyneb weithiau yn dirisgo oddiwrth adlewyrchiad gwres yr haul oddiar y llawr: a dïau oni byddai yr awel hefryd sydd yma yn feunyddiol, ni allai dyeithraid fyw yn y wlad hon, gan fod y dydd oeraf ynddi oddigerth yn y tymhor gwlawog, yn boethach nag y gwresocaf yn Mhrydain. Bydd weithiau yn y tymhor sych i'r trowyntoedd gasglu tywod a llwch yn gymylau mawrion, a'i fwrw fal caenen o eira tros ardaloedd ëang, a lleuw tai trwy dyllau clöau, holltau, &c. Tra y tymhor gwlyb o Mehefin i Medi bydd mellt a tharanau dychrynllyd agos yn feunyddiol.

Mynyddoedd.] Mae tair o drumau hynod yn ymestyn ar derfynau India. Y mynyddoedd gorllewin y terfyn rhwng India a Persia a elwir Soleyman Kuy, ydynt dra uchel, ac anhawdd myned trostynt. Y mynyddoedd gogleddol a elwir Nagrakut, ac sydd yn gwahanu Tibet oddiwrth India, ydynt uchel a serth, ac yn cael eu gwisgo ag iâ yn wastadol. Y mynyddoedd a elwir Gaut, ydynt ar derfyn arfordirol gorllewin-barth y rhan ddeheuol o India.

Afonydd.] Afon Indus sydd a'i blaenau i'r gogledd orllewin o Indostan, a'i harllwysiad sy trwy amryw o aberoedd i gulfor Persia mae afonydd Nelâb, Jamal, Behat, a Lakka yn ymuno â hi, cyn cyrhaedd y môr.

Afon Ganga sydd a'i blaenau yn y wlad a elwir Tibet, ac yn ymarllwys trwy amryw aberoedd i for Bengal. Mae rhai ysgrifenwyr Iuddewig yn honni mai hon yw Pison, a grybwyllir am dani yn yr ysgrythyrau. Yr Indiaid ydynt yn ei galw yn sanctaidd, ac yn dyfod o bellder mawr i olchi effeithiau pechod oddiarnynt ynddi. Afonydd Jemma, Guderasu, Persilis, Lakia, ac ereill ydynt yn ymarllwys iddi yn ei thaith.

Afon Burrampooter sydd yn codi yn agos i flaenau y Ganga, ac yna yn cilio yn raddol hyd onid ydyw yn ei man pellaf yn 1,200 milltir oddiwrthi, a thrachefn cyn cyrhaedd y môr yn ymuno â hi, o led yn 3 milltir.

Yn neheubarth India, y prif afonydd ydynt y Nerbudda, yr hon gwedi llifo 700 milltir, a llunio terfyn y rhan o India a elwir Deccan, sydd yn ymuno â mor yr India; y Godavery o gymmaint hŷd sydd yn ymarllwys i fôr Bengal; y Kreeshna, terfyn de Deccan, ac y Cauvery heibio Seringapatam, y ddwy o 500 milltir o hyd ydynt yn syrthio i fôr Bengal.

Ychydig o lynau sydd yn India: llyn Colair tra y tymhor gwlyb sy 40 neu 50 milltir o hyd, ac yna yn sarn sychlyd. Llyn Chilka a Pullicate ar y terfyn dwyreiniol ydynt geinciau o for tebyg i haff Ellmynaidd.

Mwngloddiau.] Mae yn India gloddfeydd o efydd, haiarn a phlwm yn agored er pan ymwelodd Ewropiaid â'r wlad. Meini gwerthfawr hefyd yn ddiamond, rubi, topas ac amryw fath o farmor sy hefyd yn ehelaeth ynddi.

Coedydd. Llysieu.] Y coed hynotaf yma fal yn mhob gwlad wresog ydynt y palmwydd, y rhai ydynt yn tyfu i uchder mawr a'u nen yn drawswch o ddail llydain. Coed cnau coco sydd yn gyffredin ynddi: cyfrifir canhwyllyn y rhain yn ymborth iachus, a'u rhisg sydd yn gwneyd rhaffau o'r cryfaf. Mae deilen y ffan-balmwydd o ddigon maintioli i guddio deg o ddynion rhag pelydrau gwresog yr haul: dwy o honynt yn gyffredin sydd yn toi b th i deulu breswylio ynddo. Coed yn cynnyrchu cyffuriau meddygol ydynt liosog, ac felly pob ffrwythydd adnabyddus yn y dwyrein-fyd; ac y mae gwenith, haidd, rice, a grawn ereill yma yn doreithiol.

## DOSBARTH II.

*Trigolion...Moesau ac arferion...Llywodraeth...Crefydd...Iaith, Dysgeidiaeth. Taleithiau a phrif ddinasoedd.*

Y trigolion y sydd yn Fahometaniaid ac a elwir Mooriaid ydynt medd Orme o ddeutu 10,000,000; ac y lleill a elwir Indiaid eulunaddolgar ydynt o ddeutu 100,000,000, eithr dywed rhai hanesyddion mwy diweddar, nad ydyw yr holl drigolion yngbyd oddiar 60,000,000.

Moesau ac arferion.] Trigolion Indostan ydynt o amser anadnabyddus gwedi eu rhanu yn bedwar o lwythau gwahanol. Y cyntaf ac yr ardderchocaf o honynt ydynt y Brahminiaid, y rhai yn uthig fal Leviaid Israel gynt a allent weinyddu y swydd offeiriadol. Ni waherddir iddynt (os mynent) lenwi swyddi gwladol, trin tir, &c. ond nid ydyw y tlotaf o honynt i fod mewn unrhyw alwedigaeth isel. Yr ail ydyw y Settriaid, y rhai ydynt filwyr o'u mebyd, ond ni waherddir swyddi parchus ereill iddynt. Y trydydd ydynt y Beisiaid, y rhai ydynt drefnidwyr, &c. Y pedwerydd ydynt y Suderiaid y rhai ydynt weision i'r llwythau ereill, ac y maent yn analluog byth er unrhyw rinwedd o godi yn uwch. Pe ysgymunid unrhyw oddiwrth un o'r 4 llwyth hyn, ni allai ef nag ei epil byth gymdeithasu ag unrhyw o honynt, ond bwrid ef i fysg llwyth arall, a elwir Harricastiaid, y rhai ydynt gaethion yn gweinyddu y goruchwylion gwaelaf a distadlaf. Wrth hyn gwell gan Indiad oddef yr arteithiau mwyaf, ac hyd yn nod angau na gwyro oddiwrth unrhyw o erthyclau ei ffydd.

Mae y prif lwythau hyn hefyd gwedi eu rhanu yn lliaws o fân dylwythau, adnabyddus wrth eu lliw, y rhai ydynt yn rhwym wrth dde-

fodau gwladol o ymbriodi yn eu tylwythau eu hunain dan boen ysgymundod; a rhaid i'r meibion oll ddylyn galwedigaethau eu tad pa orchwyl bynag a fyddo, ac ymroddi nad elo o wlad ei enedigaeth ar un cyfrif, sef o gyrhaedd ymolchi yn feunyddiol yn un o afonydd sanctaidd y wlad, sef y Ganga, y Kistna neu yr Indus, y rhai ydynt a'u ceinciau yn mhob talaeth o'r deyrnas, ac felly o gyrhaeddiad haws i'r holl Indiaid ymlanhau oddiwrth unrhyw bechod pryd y mynont.

Mae yr holl brif lwythi, ac y man lwythi hyn, yn addef y Brahminiaid yn offeiriaid iddynt, y rhai ydynt yn eu dysgu i gredu yn mhrawsfudiad yr enaid: ac oherwydd y cyfryw grêd mae y rhai mwyaf ofergoelus o honynt yn ymroddi o beidio bwytâ unrhyw greadur trwy ystod eu hoes, ac hefyd o ochel byd y gallont na ddygont fywyd cymmaint a gwybedyn, yr hyn os digwydd iddynt yn amryfus, a fydd achos iddynt eu cosbi eu hunain trwy ympryd a fflangellau am gryn amser. Pan gyfarfyddo y rhai hyn â heliwr, archant yn daer arno roddi ei oruchwyliaeth anynol heibio, ac oni wrandawo, cynnygiant arian iddo am ei wn a'i rwyd, ac oni thyccio hyny cynhyrfent y dyfroedd i'r pysgod ddianc; a chrug-leisiant a'u holl egni i wylltio yr ehediaid, &c. a fyddo o fewn cyrhaedd iddynt.

Perthynol hefyd i grefydd yr Indiaid ydyw gwahardd gwneyd prosolitiaid: dywedant fod digon o byrth yn nghaerau y nefoedd i dderbyn i mewn pwy bynag a ddelo.

Pan enir plentyn, denfyn y rhieni yn ddiatreg am un o'r Brahminiaid, yr hwn gwedi ffuantu trwy ei wybodaeth seryddawl o adrodd yr helyntiau a'i cyfarfyddai yn ei daith trwy'r byd, a'i henwai ar esgyniad mwg arogl-darth a losgir ar y cyfryw achlysur

Pan fyddo y plant yn 6 neu 7 mlwydd oed, arweinir hwynt gan eu rhieni i gyflwr priodasol, ond ni byddant byw yn nghyd am rai blynyddau gwedi, a phan ddelont, ni oddefir i'r wraig ieuanc gyfrinachu a'i rhieni mwy.

Angladdau fel yr arferir yn mhlith rhai o'r llwythau hyn sy ddychrynllyd i ddynoliaeth, sef llosgi neu gladdu y byw gyd a'r marw. Dywed Stavorinus, gwr o Ewrop oedd yn dyst mewn angladd yno fel hyn, "Gwedi cyrhaedd yr angladd-le, gwelem feinyw deg mewn gwisg ardderchog yn eistedd mewn dwys fyfyrdod (ond heb arwydd arddangosol) wrth gorff marw ei gwr, a rhai o'i cheraint o'i hamgylch yn ei difyru a chaniadau addas, tra yr oedd y lleill yn llunio y goelcerth, yr hwn a wnelid o goed a phyg bob yn ail tô hyd yn 5 troedfedd o uchder. Yna gwedi gorphen o honynt y gludfa, taenwyd arni len o gotwm main gwedi ei golchi yn y Ganga, a gwedi trochi y corff yn yr un ffrydiau, dodwyd ef ar y coed. A gwedi i'r wraig hithau ymdrochi, arweiniwyd hi i roddi tro deir-gwaith o amgylch y gludfa, ac yna aeth yn eon arni, a goddefodd ei rhwymo wrth gorff ei gwr, a thaenwyd llen lan trostynt: yna gwedi ymadaw yn siriol a'i cheraint a'i chyfeillion, y rhai oeddynt yn erfyn arni eu cofio ger bron Ram eu prif dduw, daeth ei charenydd nesaf â thorch danllyd, a dodwyd y cyfan yn ebrwydd ar dân. Gyd â hyn curwyd tabyrddau, a llefodd y dorf yn orfoleddus, fel nad oedd modd clywed lleisiau y dyoddefwyr annedwydd os gwnaethai felly."

Claddu y byw gyd a'r marw sydd hefyd yn arferedig yn eu plith: dodir corff y gwr gwedi ei olchi yn y Ganga mewn bedd, a neidia y wraig arno i'w gofleidio, ac yna llenwir y bêdd â phridd, a bydd

terfyn arni yn ddiatreg. Gwneir hyn hefyd yn nghanol tympanau a dawnsiau y ceraint a'r cymydogion.

Yn eu gwyliau arbenig bydd rhai Indiaid yn dangos grymusder eu ffydd, yn hongian yn wirfoddol am oriau wrth fach trwy gnawd eu bysgwydd, a bydd cantoedd yn tyru at y cyfryw i gael ei fendith tra yn yr ystym boenus honno. Dyry ereill hoel trwy eu tafod, gan ei chadw yno tra y parhao yr wyl: ereill gyd â'r sirioldeb mwyaf fyddant yn nghonglau yr heolydd yn goddef eu ffrangellu, nes y bydd y gwaed yn lliwo y llawr o amgylch, &c. Terfyn yr wyl fydd offrwm un o is dduwiau y wlad i un o'r afonydd sanctaidd.

Llywodraeth.] Gallu llawn-rhwysg oedd gan ymerawdwr Mogul i lywodraethu eu deiliaid, ac felly mae rhwysg yr ychydig dywysogion sydd yno y pryd hwn yn rheoli. Nid oedd cyfreithiau ysgrifenedig yn Indostan, na chyfreithwyr ychwaith yn yr holl wlad, trwy ystod rheolaeth y Moguliaid: cynhodolau gwladol fyddai y cyfreithiau a'r gosb o'u troseddu. Mae ychwaneg na phedwaredd ran y wlad eang hon yn perthyn i Brydain, ac felly cyfreithiau Prydain sydd yn rheoli y rhanau hyny.

Crefydd.] Eulunaddoliaeth ydyw crefydd yr Indiaid, oddigerth yr ychydig o honynt a orfu arnynt trwy rwysg arfau y Persiaid gofleidio Mahometaniaeth. Mae ganddynt demlau tra arddenchog, a chelloedd addas ynddynt i'r Brahminiaid gartrefu, y rhai ydynt yn byw yn dda ar yr ebyrth a wneir yn feunyddiol i Jugernaut a phrif dduwiau gwladol ereill.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Mae pob talaeth yn India a gwahanol iaith ynddi. Y rhai sydd yn terfynu ar Persia ydynt a llygriad o iaith y wlad honno ynddynt. Gelwir y Sanscrit sef iaith y Brahminiaid yn sanctaidd; dywed Syr William Jones fod hon agos mor gynnwysfawr ag unrhyw o ieithoedd Ewrop: mae ynddi gantoedd o lyfrau yn cynnwys hanes yr Indiaid o amser tra boreu. Prif ysgolion y y Brahminiaid ydynt yn Benares, yn Tricinr yn arfordir Malabar, ac yn Cangiburam yn Carnate, yr hon yn ol tystiolaeth Ptolemy oedd a dysgedigion ynddi yn oesoedd cyntaf cred.

Taleithiau a phrif ddinasoedd.] Taleithiau Lloegr yn India ydynt Bengal, Bahar, Benares ac ereill, y rhai ydynt tros 500 milltir o hyd a 300 o led, ac yn cynnwys ynddynt ychwaneg na 100,000,000 o ddeiliaid duon, heblaw yr Ewropiaid sydd blith dra phlith yn eu mysg.

Bengal sy dalaeth brydferth dra ffrwythlon, ac ynddi lawer o ddinasoedd, trefydd, cestyll, a chamlesydd o'r naill gainc o'r Ganga i'r llall. Yma mae y temlau harddaf, y rhai ydynt o lieangrwydd yn darfritho glenydd y ffrydiau sanctaidd. Y brif ddinas ydyw Calcutta, yr hon sydd a'i heolydd yn gulion, ac yr adeiladau yn gyffredin o goed, oddigerth y rhan o honi a gyfanneddir gan y saeson, yr hon sy bridd-feini a cheryg. Mae yma lys cyfiawnder, a'i fawrhydi sydd yn penu yngnaid i weinyddu ynddo: hefyd cymdeithas i chwilio i ansawdd dysgeidiaeth y dwyrein-fyd, o sefydliad Syr William Jones, gynt prif yngnad Bengal. Moorshedabad oedd brif ddinas Bengal cyn i'r Saeson ei meddiannu.

Chanderragore sy ddinas fawr yn uwch ar yr afon na Chalcutta: meddiannid hi gynt gan y Ffrancod, ond weithian y Saeson sydd yn ei pherchenogi. Hoogley, dinas fawr, sy 50 milltir i'r gogledd o

Calcutta, ac yn sefyll ar lenydd y Ganga: bu hon gynt yn meddiant yr Ellmyn. Dacca ydyw y ddinas fwyaf yn Bengal: mae y llanw yn dyfod hyd at ei muriau. Ei threfnidiaeth mewn gwëoedd, &c. sydd ar gynnydd er pan ddaeth y Saeson i feddiant o honi.

Patna, prif ddinas talaeth Bahar, yr hon sydd i'r gorllewin o Bengal, sy ddinas gaerog, ond yn anrhefnus yn ngosodiad ei badeiladau. Benares, dinas ar lenydd y Ganga a thu a 450 milltir o Calcutta, sy hynod am fod yn un o orsafoedd dysgeidiaeth y Brahminiaid. Allahabad mewn talaeth o'r un enw, sy ar gydlifiad y Ganga, ac y Jumna, y man y mae y Ganga sancteiddiaf, oherwydd hyny gelwir y ddinas Allahabad sef dinas duw.

Lucknow, prif dref Oude sydd eang: y tai ydynt isel a gwedi eu toi gan mwyaf â gwellt, dail, &c. Agra ar afon Jumna, a fu gynt yn brif ddinas ymerodraeth Mogul: mae ynddi golofn goffaol ardderchog, a adeiladwyd gan ymerawdr Shah Jehan i'w ymerodres Tajemahel.

Delhi, prif ddinas talaeth o'r un enw, ac yn enwawl am holl Indostan, fal y bu gynt, sydd ar lenydd y Jumna: mae y rhan fwyaf o honi er 1739 yn garnedd, pan y lladdwyd tros 100,000 o'i thrigolion gan Nadir Shah. Mae ynddi y pryd hwn rai adeiladau gwerthfawr, a gerddi hardd.

Talaeth Cashmire sy wastadedd eang, ond yn gylchynedig gan fynyddoedd uchel: dywedir fod ynddi tros gan mil o bentrefi, ac mae y trigolion agos mor hardd ag Ewropiaid.

Talaeth Cabal sydd anwastad ei gwyneb; mae eira oesol ar nen ei mynyddoedd uchaf. Y brif ddinas o'r un enw sy ddystadl ei hadeiladau.

Talaeth Lahore, oedd annedd gyntaf y goresgynwyr Mahometanaidd. Ei phrif ddinas o'r un enw oedd y pryd hyny yn 3 milltir o hyd, ond y mae y pryd hwn yn llai ei thrigolion.

Tatta, ar afon Indus, prif ddinas Sinde, a fu yn enwog mewn trefnidiaeth o sidan a chotwn hyd 1699, pan yr ysgubodd pla 80,000 o'i thrigolion ymaith.

Ahmedabad, prif ddinas Guzerat, sy hardd ei hadeiladau, ac felly Surat, yr hon sydd â phorthladd fechan yn perthyn iddi.

Bombay sydd yn sefyll ar ynys o'r un enw: tref fechan ydyw, a bu ei hinsoddau yn angheuol o dro i dro i filoedd o Ewropiaid, hyd oni ddysgodd gwiliadwriaeth a chymedroldeb iddynt eu gochel. Mae yn yr ynys 60,000 o eneidiau o amryw genhedloedd, y rhai ydynt yn meddu cyflawn ryddid i addoli fal y mynont.

Goa ar ynys o'r un enw, a thu a 160 milltir i'r de o Bombay ydyw y ddinas gadarnaf ei chaerau amddiffyn o unrhyw yn Indostan. Mae hon o amser boreu yn meddiant Portugal. Diweddar deyrnas Canara sy 40 milltir i'r de o Goa; ac yna Mysore, talaeth fawr, a Seringapatam yn 4 milltir o hyd a 1½ o led yn brif ddinas. I'r de iddi mae porthladd Cochin, y lle y preswyliodd y Portugiaid gyntaf yn Indostan.

O benrhyn Comorin, ar arfordir Coromandel, mae amryw o hen deyrnasoedd; megys Tinevelly, yr hon sy dalaeth ffrwythlon, ac y mae y môr sydd yn terfynu arni yn heigio perlau. Tanjore sy dalaeth fechan ffrwythlon yn terfynu arni.

Talaeth Carnada i'r de o Bengal, sy 345 milltir o hyd a 276 o led: y brif ddinas yw Arcot, yr hon sy hardd ei heolydd, &c. Ei dinasoedd

ereill ydynt Cuddalore a Pondicherry, hynod am fod yn fynych yn meddiant y Ffrancod, cyn eu darostwng gan arfau y Saeson.

Madras sy ddinas gadarn gan gaerau amddiffyn : mae yn agos iddi fwnglawdd diamond gwerthfawr, ac mae cryn drefnidiaeth rhwng y ddinas hon â China, Persia, ac Arabia.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Indostan.*

YCHYDIG a wyddis am ansawdd y wlad hon cyn ei goresgyn gan Alexander fawr, nag ychwaith gwedi hyny am oesoedd lawer, hyd oni bu i rwysg y twyllwr Mahomet ddyfod yn ormes arni, a sefydlu pennaethiaid, epil y rhai a reolasant hyd oresgyniad Zinghis Khan yn 1221. Bu amryw wrthryfeloedd gwaedlyd gwedi ymadaw o Zinghis Khan a'r wlad, hyd oresgyniad Tamerlane yn 1398, yr hwn fal y soniwyd a ddaeth a'r holl frô o Smyrna i afon Ganga tan ei feddiant. Bu dilyniedyddion hwn am gantoedd o flynyddau mewn meddiant o rwysg y llywodraeth, ac yn rheoli y deiliaid mewn llawn-rhwysg tra-arglwyddiaethol : ond weithiau byddai y meibion y rhai oeddynt yn ol defod wladol yn dywysogion y taleithiau. wrthryfela yn erbyn eu tad, a thaflu yr ymerodraeth i annrhefn mawr. O'r diwedd Aurengzebe yn 1667, er ei fod yn ieuengaf o amryw frodyr, a ymaflodd yn rhwysg y llywodraeth, yr hwn er iddo ladd ei frodyr rhag brâd i'w erbyn, a reolodd Indostan yn dra llwyddiannus hyd ei farwolaeth yn 1713.

Y nesaf a reolodd oedd ei ŵyr Jehandir Shah, yr hwn yn lle o rachwylio ei ddeiliaid, a ymroddodd i ddilyn ei nwydau anianol, am hyny lluniodd ei fawrion frâd i'w erbyn, a lladdwyd ef, a'i nai Furrukhsir a goronwyd, yr hwn cyn rheoli blwyddyn a laddwyd gan ŵyr Aurengzebe, ond methodd er hyny a llwyddo i gael y goron, eithr rhoddwyd hi i'w frawd Shah Johan, yr hwn a reolodd yn llwyddiannus hyd 1719, pan y bu farw.

Un o'r Moguliaid o enw Mahomet Shah oedd y nesaf a goronwyd : bu gynnwrf trwy ystod rheolaeth hwn, rhwng blaenoriaid ei fyddinoedd, yr hyn a barodd i Kouli Khan brenin Persia, gymeryd mantais o oresgyn Indostan, a'i thlodi o drysorau yn ddirfawr, yn nghyd â diorseddu yr ymerawdr, a pheri angau tros 200,000 o Indiaid.

Gwedi ymheddychu mynodd Kouli ail-goroni Mahomet Shah, ond ni addefai tywysogion y taleithiau mo hono erbyn hyn yn beniaeth arnynt, felly rhyfel gartrefol oedd y canlyniad, a thra bu hyn ar droed, cafodd Achmet Abdallah, trysorwr Kouli Khan, gyfle o gludo ymaith lwyth 300 o gamelod o gyfoeth, a'r hwn y casglodd fyddin o 50,000 o wŷr meirch i ymosod ar Delhi : ond cyfarfuwyd ef cyn cyrhaedd o hono y dref gan Achmet Shah, mab hynaf y Mogul, a bu brwydr aruthr, ond ni therfynwyd y rhyfel rhyngddynt cyn marwolaeth y Mahomet Shah, pan yr esgynodd ei fab Achmet i'r orsedd, yr hwn a heddychodd ag Abdallah, gan roddi iddo froydd ëang yn terfynu ar yr Indus.

Yr oedd y Mahrattiaid cyn rhythr Nadir Shah yn mynnu teyrnged blynyddol gan yr ymerodraeth, ond am iddi gwedi hyny fethu a chyflawni, daeth tywysogion y genedl honno yn ormes ar amrywiol barthau o honi, a rhyfeloedd gwaedlyd fu y canlyniad, hyd oni

rwygwyd yr ymerodraeth yn ddrylliau. Saith mlynedd y rheolodd Achmet, ac yna daeth i'r orsedd un o epil Tamerlane, o enw Shah Allum Zadah, yr hwn sy weithian yn meddiannu dinas Delhi, a gwlad fechan oddiamgylch tan nawdd gwladwriaeth Prydain fawr.

Bellach terfynir hanes Indostán gan grybwyll ychydig am oruchwylion trigolion Prydain fawr yn y rhan yma o'r ddaear, er 1765, pan oeddynt trwy ganiatâd i drefnidio fal amryw o ereill genhedloedd Ewrop yn cyfanneddu yn dawel daleithiau Bengal, Bahar, Orissa, a Charnada, nid fal llywiawdwyr ond yn drethol i r ymerawdr. Ond ni pharhaes y tawelwch hwn yn hir gan i Hyder Ali, peniaeth Mysore, oresgyn ardaloedd eu preswylfod. Milwr cyffredin oedd hwn gwedi ei addysgu yn nefodau rhyfel gan y Ffrancod, ac ar ei ddychweliad i Mysore, ei wlad anedigol, diorseddodd ei arglwydd, a rheolodd y wlad ei hunan, a bu lwyddiannus i estyn terfynau ei deyrnas, hyd onid ydoedd cymmaint â Phrydain fawr mewn ychydig amser. Erbyn hyn yr oedd y Mahrattiaid ar un tu, ag y Saeson ar y tu arall yn elynion iddo: i'r blaenaf rhoddes arian lawer am ymheddychu, felly gorfu ar yr olaf gilio yn ol, gwedi rhai brwydrau aruthr, a mwy manteisiol i'r Indiaid nag i'r Saeson cyn ymheddychu â hwynt. Y rhyfel nesaf oedd rhwng Hyder ag y Mahrattiaid, y rhai yn 1771 a ddrylliasant ei fyddinoedd yn llwyr, a da oedd i Hyder gael noddfa yn un o'i ddinasoedd ei hunan, lle tra y bu anghydfod rhwng y Saeson ag y Mahrattiaid y cafodd gyfle eilwaith o gasglu byddin mwy cadarn nag yr hon a gollodd.

Yn 1778, goresgynodd y Saeson fro y Mahrattiaid, a gwnaethant y rhan fwyaf o honi yn deyrngedawl iddynt: yna daeth Hyder Ali a 100,000 o wŷr yn erbyn y ddwy genedl, y rhai oeddynt erbyn hyn gwedi ymheddychu a'u gilydd, gan ddisgwyl cynnorthwy o Ffrainc, yr hon y pryd hyn oedd mewn rhyfel o gylch y Dadymchweliad â Lloegr: bu lwyddianus i ddryllio byddin fechan tan Col. Baillie yr hon a ddigwyddodd fod yn ei arfod, ond talwyd y pwyth iddo gan fyddin Syr Eyre Coote, yr hon a wasgarodd ei luoedd gwedi brwydr waedlyd, fal y daeth i ymofyn heddwch, ond bu ef a Coote farw cyn i hyny gymeryd lle.

Y nesaf a reolodd oedd Tippoo Sultan, mab Hyder Ali, yr hwn oedd y gelyn cadarnaf a gyfarfu y Saeson ag ef yn India. Yr oedd gorchwyl hwn yn danfon cenhadon i lŷs Ffrainc, yn dangos fod cynllun ar droed, o ddifreinio Lloegr o'i threttadaeth yn India, ond parodd yr annrhefn oedd ar droed yn Ffrainc oherwydd y Dadymchweliad derfyn arno. Felly rhaid oedd cyhoeddi rhyfel i'w erbyn, ac yn y frwydr gyntaf gyrwyd Tippoo o'i wersyll i Seringapatam, ei brif ddinas, lle y gwarchaodd y Saeson arno, gyd â bwriad o ymosod ar y ddinas, er cadarned ydoedd, pan gaffynt eu peiriannau yn barod: felly gwedi parotoi a dodi y lluoedd mewn agwedd barod i ymosod, danfonodd Tippoo genad hedd i fyddin Lloegr, a chydunwyd i Tippoo roddi hanner ei ymerodraeth rhwng Lloegr, a'r galluoedd o India oedd yn ei chynnorthwyo, a rhoddi i fynu y carcharorion oedd yn ei feddiant; ac iddo ddanfon ei ddau fab hynaf yn wystlon o gyflawniad y cydundeb i wersyll y Saeson, ac felly bu. Collodd Tippoo wrth hyn 67 o amddiffynfeydd, 801 o ddrylliau tan mawrion, a 49,840 o wŷr.

Yn fuan ar ol hyn, daeth cêl-negeswyr Ffrengig i lŷs Tippoo, y rhai a'i hannogasant i ail-arfogi yn erbyn Lloegr, ac y cafai gynnorth-

wy o Ffrainc onid iddo lunio cyngrhair â hi: a Thippoo yn cydsynied a roddes achlysur i ryfel ail ennyn rhwng y pleidiau. Pan ddaeth y newydd o hyn i glyw arglwydd Mornington (weithian ardalydd Wellesley) prif lywydd Bengal, danfonodd lythyr gyd â swyddog milwraidd (Doveton) i lys Tippoo, i adrodd ei syndod oherwydd y gyfeillach oedd rhyngddo â Ffrainc, ac ei fod mor hyf a danfon Doveton i egluro pethau yn mhellach. Ateb y Sultan oedd lawn o chwedlau cyfrwys ymlithrol, sef ei fod yn gobeithio bod yr ammodau o hedd oedd newydd eu llunio rhyngddo â byddinoedd Lloegr yn safadwy, ac mai llês y ddwyblaid oedd iddynt fod yn heddychol, &c.: ond ni chaniata i Doveton ddyfod i'w wydd: felly ar ddychweliad y swyddog, casglwyd byddinoedd Lloegr yn nghyd i Mysore, a gwarchâwyd yn ddïoed ar Seringapatam, Ebrill 14, 1790. Pan glybu Tippoo hyn, danfonodd lythyr am heddwch at y llywydd Harris, a chafodd yn ateb na heddychid ag ef heb iddo gyhoeddi yn ddiatreg yn erbyn Ffrainc, ac o roddi y Ffrancod oedd yn ei feddiant yn garcharorion i Loegr, yn nghyd â dwy filiwn o arian; ac y byddai raid cael hanner yr arian cyn pen 48 awr; ac i 4 o'i feibion, a 4 o'i brif swyddogion ddyfod yn wystlon hyd oni chyflawnid y cydundeb. Atebodd y Sultan, na allai gydsynied heb ymgynghori a'i dywysogion oedd yn byw yn y taleithiau, felly dechreuodd yr ymosodiad: buwyd yn tanio dridiau ar y gaer, a phan agorwyd adwy, aethont i mewn, a meddianasant y ddinas. Tippoo a syrthiodd yn y frwydr, ac amryw o'i dywysogion, a miloedd o'r dinasyddion. Ac felly terfynodd rhwysg y gelyn mwyaf i Prydain yn yr holl India. Rhanwyd ei ymerodraeth rhwng Lloegr, a gwlad Nizaim, a blaenor y Mahrattiaid, a Lloegr sydd hyd yn hyn yn cadw meddiant o Seringapatam.

---

# INDIA TU DRAW I'R GANGA.

## DOSBARTH I.

*Cylchynoedd a Rhaniadau. Sefyllfa ac hanes Ymerodraeth Birmah.. Hin a thymhorau.. Llywodraeth. Cyfreithiau.. Crefydd.. Iaith Dysgeidiaeth.. Trefnidiaeth.*

MAE India tu draw i'r Ganga yn terfynu ar Tibet a China ar y tu gogledd; ar China a môr y wlad honno ar y tu dwyrain; ar yr un môr a chul-for Malacca ar y tu de, ac ar fôr Bengal ac Indostan ar y tu gorllewin. Mae yn perthyn iddi wledydd a thaleithiau amrywiol, a thyma enwau y prif rai o honynt.

| *Gwledydd.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|
| Ava neu ymerodraeth Birmah | Ava. |
| Pegu | Pegu. |
| Assam | Ghergon. |
| Meckley. | Munnypour. |
| Aracan neu, Reccan | Aracan. |
| Martaban | Martaban. |
| Siam | Siam neu Yuthia. |
| Malacca | Malacca. |

| | |
|---|---|
| Laos | Lanjan. |
| Cambodia | Cambodia. |
| Siampa neu Chiampa | Feneri. |
| Cochin China | Hua. |
| Tonquin | Cachao neu Kesho. |

YMERODRAETH BIRMAH.] Mae y wlad hon ar du dwyrain y Ganga; mor Bengal ac afon Ganga yn terfynu ar ei pharthau gorllewinol; Tibet a China ar ei pharthau gogleddol, a mor China ar ei pharthau dwyreiniol a de: y cyfan yn ychydig ychwaneg na 1000 o filltiroedd o hyd a 600 o led.

Ychydig a wyddid am ansawdd y wlad hon cyn y 16 ganrif, pan y tiriodd y Portugiaid ynddi, gwedi meddiannu o honynt ynys Malacca. Dywedant hwy bod rhyfel ar droed y pryd hyny rhwng brenin Birmah â brenin Pegu, ac mai ei therfyn oedd i Pegu golli meddiant yn llwyr o'r deyrnged a arferid ei thalu yn flynyddol o Birmah: cyn hyny Pegu oedd yn rheoli holl ardaloedd India tu draw i'r Ganga, fal y mae Birmah y pryd hwn. Daeth y Saeson ac yr Ellmyn gwedi hyn i ymsefydlu ynddi, y rhai yn ymuno a'u gilydd a fwriasant y Portugiaid o honi, ond gorfu arnynt hwythau oherwydd cam-ymddygiad yr Ellmyn, ddilyn yr un llwybr yn y ganrif ganlynol. Y Saeson pa fôdd bynag yn mhen ychydig flynyddau a gawsant eu had-sefydlu yn eu marchnad-le yn Syriam ac Ava hyd 1744, pan y gorfu arnynt gan wrthryfel oedd rhwng y Peguiaid a'r Birmahiaid ymddëol ymaith eilwaith. Yn 1767 danfonodd ymerawdr China 50,000 o filwyr i oresgyn Birmah, fal yr unid hi at ei ymerodraeth, ond ymunodd holl genedlaethau y bröydd hyny i'w wrthsefyll, a brwydr aruthr am 3 diwrnod a ddigwyddodd, yn yr hon y drylliwyd byddinoedd China, a chymerwyd mwy na hanner y gweddill o honynt yn garcharorion: ond achubwyd eu bywyd ar iddynt bïodi merched y wlad, ac ymroddi o ymsefydlu ynddi.

Gwedi blynyddau o heddwch, ffuantodd brenin Birmah fod y môrladron oedd yn sarhau ei ynysoedd, yn cael eu cefnogi gan y Saeson oedd yn cyfanneddu Indostan, felly danfonodd 5000 o filwyr i'w tir, a pharodd i 20,000 ereill aros yn Aracan yn gynnorthwy os byddai raid wrthynt. Ar hyny danfonodd llys Bengal fyddin gref tan arweiniad y llywydd Erskine i'w cyfarfod, y rhai pan y daethant i'r golwg a barodd i flaenor y Birmahiaid gynyg dyfod i gydundeb, ond ni ddywedai Erskine air tra yr arhosai ar dir Lloegr, felly encilio yn rheolaidd a wnaethant, a dilynwyd hwynt i'w bro, ac ymheddychwyd ar i'r ddwyblaid ddëall y naill y llall. Bu y tro hyn o fûdd nid bychan i Loegr: danfonodd arglwydd Teignmouth gwedi hyn genhadon i lys Birmah, ac agorwyd trefnidiaeth rhwng y ddwy wlad, ac o ethryb hyny mae ansawdd Birmah y pryd hwn yn lled hysbys.

HIN A THYMHORAU.] Mae hin y wlad hon yn fwy tymherus nag yw'r hin yn Indostan, oherwydd agosrwydd ei holl ranau i'r mor, ag oherwydd uchder ei mynyddoedd, y rhai yn gwisgo iâ trwy y rhan fwyaf o'r flwyddyn ydynt yn lleddfu gwrês ei hinsoddau poethion.

LLYWODRAETH. CYFREITHIAU.] Llywodraeth llawn-rhwysg sydd yn Birmah, fal yn holl wledydd y dwyrain, ond mae mâth o senedd ynddi o brif fawrion yr ymerodraeth, â'r hon yr ymgynghora yr ymerawdr mewn achos pwysig. Dywed y milwr Symes, yr hwn fu yn genad yno o lys Bengal, na welodd gystal trefn ar unrhyw o lywodra-

efhau y dwyrain ag yn Birmah. "Nid oedd yno" medd ef "na dryg-farn o gylch na llwyth na lliw yn rhwystro undeb cyfeillgar yn mhlith yr holl genedl a'u gilydd; nag ychwaith unrhyw ddefodau gwladol yn rhwystro iddynt gyfeillachu ag estroniaid. Y cyfreithiau ydynt ddoeth, a'u seiliau o egwyddor foesol: a chan yr awydd sydd ynddynt am bob gwybodaeth fuddiol, er dyfodiad Ewropiaid i'w plith, rhaid i'r genedl hon yn mhen ychydig amser ragori ar unrhyw o'u cymydogion taëogaidd." Gwisg y mawrion sydd o sidan o amryw liwiau: addurna y meibion fal y merched eu clustiau â thlysau gwerthfawr, ac adnabyddir eu grâdd wrth rifedi y cadwyni a wisgont: y brenin sy gandde 24, ac y mawrion uchaf 12, ac yna yn llei-lai o rifedi hyd y rhdd isaf. Goddefir i bob gwr gadw y rhit a fynno o ordderch-wragedd, y rhai ydynt i weinyddu y wraig gyfreithlon, ac ar ei farwolaeth ei heiddo hi fyddent, i'w gwerthu yn ol eu tegwch am yr uchaf geiniog i unrhyw wr a'u chwenycho. Cyrff y mawrion ydynt yn cael eu llosgi, ond y werin ydynt yn bwrw eu meirw i'r afon, neu yn eu dodi mewn anialle i fwystfil y maes.

Dihenyddio ydyw y cyflog am lâdd, neu am frâd yn erbyn y llywodraeth, a charchar neu ddëoliad am ladrata; ond os ceffir offeiriad yn euog o unrhyw drosedd yn enwedig anlladrwydd, lliwir ei wyneb yn ddu-goch, ac arweinir ef ar asyn trwy bob hëol, gan guro tabwrdd o'i flaen, ac yna bwrir ef o'r ddinas; ac nid yw i ddychwel yno byth mwy.

Crefydd.] Go debyg ydyw crefydd y Birmahiaid i grefydd yr Indiaid ereill. Addefent fod un Duw, yr hwn sydd â thrugaredd yn brif brïodoledd ynddo; a chredant yr â holl ddynol ryw i Baradwys gwedi amryw drawsfudiadau o'r naill gorff i'r llall tra ystod oes y byd. Eu temlau ydynt yn cynnwys rhai delwau ynddynt, a *dagoung* y galwant y penaf o honynt: nid oes gelloedd dirgel i'r offeiriaid ynddynt fal yn Indostan, gan mai arferiad o amser boreu yn mysg y Birmahiaid ydyw bod eu cynulliadau gwladol ag eglwysig mor gyhoedd ag y byddo môdd.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Iaith y Birmahiaid sydd yn debyg i'r Hindoo, ond y darllenir hi o aswy i dde. Dail y pren a elwir *palmira* ydyw dalenau y llyfrau cyffredin, ond lleni teneuon o ifori sydd yn llunio y llyfrau goreu. Barddoniaeth sy mewn brî mawr ganddynt: ond ffûg hanes gorchest eu brenhinoedd ydyw y sylwedd.

Trefnidiaeth.] Mae cryn drefnidiaeth rhwng hon â China: danfonant yno gryn lawer o gotwm, ifori, meini gwerthfawr, gwefr, &c. yn lle sidan, melvet, papur, llestri pridd, a'r cyffelyb. Mae Lloegr hefyd er y pryd yr oedd arglwydd Teignmouth yn llywydd Bengal, yn trefnidio â hi yn y pethau a enwyd, ond yn fwyaf yn y coed a elwir Teak. Dyma y pethau a ysgrifenodd y penaeth yn ganiatad i'r swyddog Symes "Myfi y brenin anfarwol, yr hwn sydd a'i gariad i ddynol ryw yn gyffredinol, ydwyf yn caniatau i bob llongau trefnidwyr a berthyno i Loegr, ddyfod i unrhyw o'm porthladdoedd, ar iddynt dalu y tollau cyffredinol, i drefnidio a'm deiliaid; ac yr ydwyf yn gorchymyn iddynt genad i brynu a gwerthu yn unrhyw ddinas, tref, neu ardal sydd o fewn terfynau fy nheyrnas: ac hefyd na chaffo unrhyw genedl a fyddo yn elynol i Loegr genad ibrynu unrhyw beiriannau rhyfel gan neb o'm deiliaid, dan boen cosbedigaeth lymdost."

Prif ddinas yr ymerodraeth ydyw Ummerapoora, ac un o'i phrif

borthladdoedd yw Rangoon. Y brif afon yw yr Irrawaddy neu afon Ava, yr hon sydd a'i cheinciau a'i haberoedd lliosog yn rhwyddo cludiad agos yn mhob cwr o'r wlad.

## DOSBARTH II.

*Assam.. Meckley.. Aracan.. Pegu.., Ava..Martuban... Siam. Malacca.. Laos.. Cambodia.. Cochin China...Tonquin.*

ASSAM, sy wlad yn terfynu o du y gogledd ar Tibet, ac o du y de ar Meckley, ac mae afon Burrampooter a'i cheinciau lliosog yn ei dyfrhau. Mae hon yn wlad fras, ac mae ynddi fwn aur, yr hwn sydd yn fân ronynau blith tra-phlith â thywod ei hafonydd, ac yn cadw o ddeutu 15,000 o bobl ar waith yn wastadol i'w gasglu. Rajah y gelwir peniaeth y wlad, a Gombroon yw ei brif ddinas, yr hon sydd â chyrs a elwir Bamboo yn gaer o'i hamgylch.

Trigolion Assam ydynt ddewrion ar facs rhyfel, a chywraint mewn gweithydd o sidan a melvet, ond yn anfoesol o ran agwedd grefyddol, gan nad ydynt yn gyffredinol yn gofalu am addef crêd i unrhyw ffurf osodedig, er y myn rhai o honynt i Frahminiaid breswylio yn eu plith.

MECKLEY, sy wlad goediog yn gorwedd i'r de o Assam, a'i pharthau dwyreiniol sydd yn estyn hyd at China: mae hon weithian yn llunio rhan o ymerodraeth Birmah.

ARACAN, sydd i'r de o Meckley, ac a lywodraethid gynt gan un brenin a 12 o dywysogion teyrngedawl iddo. Eulun addolgar yw trigolion y wlad hon: arddangosant eu prif dduwiau ar uchel wyliau mewn cerbydau aruthr o faint, a bydd ugeiniau yn eu bwrw eu hunain o dan yr olwynion yn offrymau gwirfoddol i'r duw a fyddo ynddi. Yr offeiriaid ydynt o rwysg mawr: rhaid i'r brenin fod yn ben-noeth yn ngwyddfod y penaf o honynt. Mae yr Elephant, y Tiger, a bwystfilod rheibus ereill yn lliosog ynddi.

PEGU, sydd 300 milltir o hyd, a 200 o led. Ei phrif ddinas Pegu, ar afon o'r un enw, oedd o gylch y flwyddyn 1600 yn odidocaf o holl ddinasoedd y dwyrein-fyd. Bu hon yn wlad gadarn gynt, ond yn nechreu y 17 ganrif, goresgynwyd hi gan frenin Ava, yr hwn a'i hunodd at ei deyrnas, ac a fu yn ei feddiant hyd 1740, pan yr ysgydwodd y Peguiaid yr iau ymaith, ac a ddaethant o'r diwedd i feddiant o wlad eu gorthrymwyr.

AVA, sydd â thrum uchel yn derfyn rhyngddi ac Aracan ar y tu gorllewin, China a Siam sydd ar y tu gogledd ddwyrain a dwyrain, a Pegu ar y tu de. Gwlad frâs yw Ava, ac y mae ei hinsoddau yn dymherus. Ei chynnyrch ydynt cotwm, rice, a phob ffrwythydd, ac y mae ei mwngloddiau yn llawn o fŵn a meini gwerthfawr. Y llywodraeth sydd lawn-rwysg: mae y brenin wrth nodi unrhyw gyfraith yn ei alw ei hun yn "arglwydd daear ac awyr; peniaeth gwledydd ëang; meddiannwr pob meini gwerthfawr; brenin sydd yn cyflawni deg dyledswydd ddyladwy ar bob brenin, &c."

MARTABAN, sydd yn sefyll i'r de ddwyrain o Pegu: bu hon gynt yn deyrnas annibynol, ond weithian rhan ydyw o ymerodraeth Ava. Mae y wlad hon fal y gwledydd sydd yn terfynu arni yn dra ffrwythlon.

SIAM, sydd deyrnas ëang, yn cael ei chylchynu gan drumau uchel, y rhai ar y tu dwyrain sydd yn ei gwahanu oddiwrth deyrnasoedd Camboja a Laos: ei therfynau gorllewin ydynt Pegu: y tu gogledd ydynt Ava, ac y tu de ydynt y mynyddoedd sydd yn terfynu ar aton Siam. Llywodraeth llawn-rwysg sydd yn hon: rhaid i weision ymostwng ar eu gliniau ger bron eu meistri, a rhaid i'r prif swyddogion ymddwyn felly yn ngwydd y brenin. Siam y brif ddinas sydd a'i heolydd yn wasgarog ac ei hadeiladau yn wrthyn yr olwg arnynt. Baukok, tref o fewn 12 milltir i'r môr, ac o ddeutu 50 milltir i'r de o Siam yw yr unig dref gaerog sydd yn perthyn i'r deyrnas: mae amddiffynfa gadarn yn perthyn i hon.

Y trigolion ydynt fywiog, a harddach o bryd na'r Hindoaid, ond nid ydynt yn llawn mor dâl. Gwisgoedd y meibion a'r merched sy led gyffelyb, sef math o fantell laes gwedi ei gwregysu am eu canol. Mae cryn drafnidiaeth rhyngddynt â China ac ag Indostan.

MALACCA, sy wlad ëang yn mharthau deheuol India: lu yr Ellmyn mewn llawn feddiant o honi hyd yn ddiweddar. Mae broydd ëang o'r wlad hon heb eu holrhain gan unrhyw Ewropiaid, oherwydd bod y trigolion yn gyffredin yn sarug ac anifeilaidd; ac y mae ei banialleoedd coediog yn dra-llawn o fwystfilod rheibus, yn nghyd â nadroedd o faint aruthrol.

Y trigolion ydynt o liw efydd, a thebyg o ddull i'r Siamiaid: eulunaddoliaeth ydyw eu crefydd. Ar gyfer arfordir Malacca mae ynysoedd Andaman a Nicobar: trigolion y gyntaf ydynt y gwylltaf o unrhyw ar y ddaear. Yn Malacca mae y pren a elwir *mellori*, sef y pren bara liosocaf: mae ffrwyth hwn yn rhagori ar unrhyw a gafwyd yn Affrica nag Otaheite.

LAOS, sy deyrnas ëang yn deyrngedawl i Ava. Ychydig a wyddis am ansawdd hon, ond ei bod yn dra phoblog, ac yn gyfoethog o fwn a meini gwerthfawr. Eulun-addolwyr yn addoli y Lama yw y trigolion, offeiriaid yr hwn sydd yn addaw i'r deiliaid bob mwyniant â chwennycho anian lygredig yn y byd a ddaw; ac y bydd iddynt hwythau yno gyd-gyfranogi â hwynt, sef o gael gwragedd i weinyddu iddynt, &c. yn wobr am ochel rhagddynt yma.

CAMBODIA, sy deyrnas o ddeutu 400 milltir o hyd a 150 o led, ond ychydig a wyddis am dani gyd a'i bod yn dra ffrwythlon, fal y rhanau ereill o India. Cambodia y brif ddinas sydd un heol hir, ac ynddi deml anferth o faintioli. Mae gwres yr hin cymmaint yn y wlad hon, ac y gorfydd ar y trigolion gyfanneddu glenydd yr afonydd, a gadael y maesydd ëang yn noddfëydd i fwystfilod rheibus. Mae amryw o epil y Portugiaid yn preswylio ynddi. Mae teyrnas fechan Chiampa, yr hon sydd hynod am ei threfnidiaeth yn terfynu ar hon, ac y mae ychydig o barthau gorllewinol China yn terfynu arni.

COCHIN CHINA, sydd 500 milltir o hyd, ond yn llai mewn lled: a theyrnasoedd Laos, Cambodia a Chiampa yn deyrngedawl iddi. Mae trigolion hon o ran agwedd gyffredinol yn tebygu i drigolion China, a lled debyg ydynt yn eu moesau crefyddol a llywodraeth wladol iddynt. Gwneir yma lestri pridd agos mor hardd â rhai China. Eunuchiaid yn gyffredin a ddewisir yn fawrion y llys breninol, o fwriad am nad oes plant iddynt y byddent yn llai cybyddlyd. Gwisg y milwyr sydd o sidan, a'r swyddogion ydynt yn gwisgo melvet, gwedi ei oreuro. Lladrad a gosbir trwy dori ymaith fys am y trosedd cyntaf, clust am yr ail, a chrogfa am y trydydd.

Tonquin, sydd yn cael ei gwahanu oddiwrth Cochin China gan afon fechan: hon yw yr iachusaf ei hinsoddau o wledydd India, ond nid yw mor ffrwythlon o ŷd a gwin. Gwisg y trigolion ydyw lleu latheni o hyd, gwedi ei throi am y canol, a mantell tros yr ysgwyddau, ond y mae lluoedd yn mhell oddiwrth y môr yn noethlymiaid trwy ystod eu hoes.

Bellach rhoddir wrth derfynu y ddosbarth, ychydig o hanes ychwanegol am ansawdd moesau trigolion y gwledydd hyn.

Trigolion Aracan ydynt yn hoffi talceni llydan gwastad: cymmwysant len o blwm ar dalcen eu babanod mor ebrwydd y genir hwynt. Bwyta y trigolion hyn gŵn, cathod, llygod ac hyd yn nod nadroedd. Trigolion Assam ydynt yn rhagori mewn eulun-addoliaeth ar y lleill. Dywedir pan fyddo marw y brenin, y bydd i'r wraig a garai fwyaf, ac amryw o fonedd y llŷs ymwenwyno, fal y cafent y fraint o'u claddu gyd ag ef: cleddir hefyd yn fyw Elephaut, camelod, meirch, a milgwn, i'w weinyddu yn y byd arall. Trigolion Pegu ydynt dra charedig i ddyeithriaid, ac mae rhai cyfreithiau llesol yn eu mysg: dodant yma ddynion cyfreithgar tros eu penau mewn dwfr, a'r hwyaf a arhoso yn y gwaelod a fydd yr ennillwr: rhaid i'r llall fod yn gaethwas i'r brenin am ei oes, neu dalu dirwy, a bod dridiau mewn gefynau heiern heb ymborth. Mae arswyd y frech wen cymmaint yn y parthau hyn, ac y deolant y sawl a flinir ganddi i luesty yn yr anialwch am 20 niwrnod, ac ni faidd neb ddyfod ato, ond dodant angenrheidiau yn ei ymyl. Peth hynod yw na chyffwrdd y tiger â neb a fyddo dan y clwyf hwn. Geilw y Peguiaid eu brenin wrth ymddiddan ag ef yn *kiac* neu duw, ac ynteu wrth ysgrifenu i lysoedd ereill ai geilw ei hun yn frenin brenhinoedd, i'r hwn a dylai pob brenin ymddarostwng; ychwanega hefyd trwy alw yr haul yn frawd, a'r lloer a'r sêr yn gyfneseifiaid agos &c.! Yr offeiriaid ydynt liosog: cospir ag angau y neb o honynt a briodo, a rhaid i bob un fod beunydd mewn ystum boenus o flaen telpyn o dduw gyhyd ag y barno y brenin yn addas.

Y Siamiaid ydynt yn ymhoffi mewn chwareuyddiaethau ofer wag o bob math. Eu hoffeiriaid ydynt liosog, ond ni chaent briodi, na derbyn arian, nag chwaith ymwisgo yn wych, na bod mewn cerbyd, ond byw yn unig ar yr ymborth a gwisgoedd a gaffont gan ryw rai o'r dorf ar ddiwedd eu pregethau beunyddiol. Cyfreithiau Siam ydynt dôst: gwniant wefiau anudonwr, gan ei adael felly i drengu; bwrir defnydd yn eirias doddedig i fôl y lleidr; rhwygir colyddion bradwyr oddiwrthynt; ac am lofruddiaeth teflir yr adyn i Elephant addas i'r perwyl i'w boeni fal y myno hyd angau. Cyrff y mawrion ydynt yn cael eu llosgi, ond i afon neu nant y bwrir y tlodion.

Trigolion Cochin China ydynt fwy medrus na'r rhai a enwyd, ond y maent yn eulun-addolgar, yn addoli delwau, ac hefyd y march a'r elephant, ac ni wnant unrhyw orchwyl heb ymofyn â dewiniaid: mae enwau pedwar anifail ar hugain ar oriau y dydd a nos, a gochel pob un yr anifail sydd yn dynodi awr ei enedigaeth, fal pe byddai rhyw wrthwyneb i'w ddisgwyl os digwyddai iddynt ymgyfarfod. Goddefir i wr briodi cymmaint a fynno o wragedd, a goddefir iddo esgaru unrhyw pan fyddo achos: ac os digwydd iddo fyned mewn eisiau, gall werthu rhai o honynt i arall. Gwraig a gefir yn euog o odineb a fwrir i'r elephant i'w llarpio

# YMERODRAETH CHINA.

Mae yr ymerodraeth hon yn cynnwys China o fewn ei hen derfynau, Tartari, a Tibet, y rhai a sylwir arnynt yn eu lleoedd priodol.

## CHINA O FEWN EI HEN DERFYNAU.

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Taleithiau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Afonydd. Llynau.. Camlesydd.. Mwngloddiau.. Llysieuaeth.. Hynafiaethau.*

MAE yr ymerodraeth fawr hon yn sefyll yn ne ddwyreiniol barthau Asia, rhwng 21 a 50 o raddau lledred gogleddol, a rhwng 60 a 123 o raddau hydred dwyreiniol; yn 2000 o filltiroedd o dde i ogledd o led, a 4,900 o orllewin i ddwyrain o hyd. Rhenir y wlad hon yn dair dosbarth, sef China o fewn ei hen derfynau; ardaloedd y Mandshuciaid ac y Monguliaid, ar y tu gogledd a gorllewin; ac y wlad ëang a elwir Tibet. China fal yr ydoedd gynt, sydd yn estyn o'r wâl fawr, sydd yn y gogledd, i fôr China yn y de, sef, 1,500 milltir, ac ei lled o lenydd y Môr tawel i gyffiniau Tibet sy 1,380 milltir, yr hyn sydd 1,298,000 o filltiroedd arwynebol. Mae ei pharthau dwyreiniol a deheuol yn terfynu ar y môr, ei pharthau gogleddol ydynt yn terfynu ar y wâl fawr ac anialwch Shamo, ac y terfyn gorllewinol rhyngddi â Tibet sydd lîn ddychymygol, weithiau ar hyd trumau ac afonydd, ac yna ar draws diffaethfäoedd o ogledd-barth anialwch Cobi, trwy y wlad a elwir Siffan hyd at gul-for Tonquin.

TALEITHIAU.] Mae China gwedi ei rhanu yn 15 talaeth, a thyma eu maint, a rhif trigolion pob un, yn ol y cyfrif a gafodd Macartney, pendefig o Loegr, yn llys Pekin.

| *Taleithiau.* | *Poblogaeth.* | *Mill. arwyneb.* | *Erwau.* |
|---|---|---|---|
| Pe-che-lee | 38,000,000 | 58,949 | 37,727,360 |
| Kiang-nan, 2 dalaeth | 32,000,000 | 92,961 | 59,495,040 |
| Kiang-see | 19,000,000 | 72,176 | 46,192,640 |
| Tche-kiang | 21,000,000 | 39,150 | 25,056,000 |
| Fochen | 15,000,000 | 53,480 | 34,227,200 |
| Hou-pe } Hou-quang } | 14,000,000 } | 144,770 | 92,652,800 |
| Hou-nan } | 13,000,000 } | | |
| Ho-nan | 25,000,000 | 65,104 | 41,666,500 |
| Shang-tung | 24,000,000 | 65,104 | 41,666,560 |
| Shan-see | 27,000,000 | 55,268 | 35,371,520 |
| Shen-see | 18,000,000 } | 154,008 | 98,565,120 |
| Kan-sore | 12,000,000 } | | |
| Se chueen | 27,000,000 | 166,800 | 106,752,000 |
| Canton | 21,000,000 | 79,456 | 50,851,840 |
| Quang-see | 10,000,000 | 78,250 | 50,080,000 |
| Yu-nan | 8,000,000 | 107,969 | 69,100,160 |
| Koei-cheou | 9,000,000 | 64,554 | 41,314,560 |
| Y cyfan | 333,000,000 | 1,297,999 | 830,719,369 |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Er bod rhai trumau uchel yn China, eto wrth fwrw golwg gyffredinol arni, gwlad wastad ydyw: ei hafonydd a'i chamlesydd ydynt yn brithnodi pob ardal o honi, ac mae ei meusydd yn dra llawn o bob anghenrheidiau i ddyn ac anifail. Planna y trigolion goed yn rhês ar fin yr afonydd a'r camlesydd, ac ar lethrau y mynydd-dir, ond nid ydynt byth yn plannu coedwig, rhag lleihau tir llafur. Y tir sy o amrywiol rywogaeth ond yn dra ffrwythlon yn gyffredinol, ac nid ydynt yn arbed traul o'i wrteithio: gwelir hên bobl yn wastadol yn yr heolydd a phrif ffyrdd yn casglu yn ofalus bob màth o dail at ei gilydd, a chan y barnent dóm yn fwy gwrteithiol nag unrhyw, mae lleoedd addas yn min y ffyrdd a maes-drefi, i ymdeithwyr droi i mewn. Dyry y llafurwr cyn hau, ei had mewn pwll blith draphlith ac ychydig dail, nes y chwyddo, yr hyn gyd â phrysuro y tyfiad sydd yn rhwystro y pryfed sydd yn yr âr ei ddifa.

HIN A THYMHORAU.] Yr hin yn mharthau gogleddol China sydd oer gan yr iâ oesol sydd yn toi y mynyddoedd sy rhyngddi a Russia yn Asia, ond ei holl barthau ereill sy wresog, eithr yn ddarostyngedig i dymhestloedd a gwlawogydd trymion, pan fyddo yr haul tua'r cyhydedd. Hyd y dydd yn y parthau gogleddol sy 14*a*. 45*m*. ac yn ei rhanau deheuol 10*a* 45*m*.

AFONYDD. LLYNAU.] Prif afonydd China ydynt yr Hoan-ho, ac y Kian-ku: y flaenaf sydd yn tarddu o fynyddoedd Tibet, ac yn ymarllwys i'r Môr melyn, gwedi rhedeg tros 2,159 o filltiroedd: yr olaf sydd a'i blaenau yn agos i flaenau y llall, a'i harllwysiad o fewn 100 milltir iddi, gwedi llifo tua 2,200 o filltiroedd. Y rhai hyn ydynt y ddwy hwyaf yn y byd. Y llynau ydynt lliosog ac mae rhai o honynt yn 100 milltir o hyd: dywed Staunton iddo weled ar un gantoedd o gychod pysgota, ac yn mhob un 10 neu 12 o adar dwfr, y rhai wrth arwydd gan eu perchenog oeddynt yn ymsoddi i'r gwaelod, ac yn dychwel yn ol â physgod yn eu ciffin iddynt.

CAMLESYDD.] Mae y wlad hon yn llawn o gamlesydd, a rhai o honynt yn ddigon dwfn i nofio llestri mawrion arnynt: eu glenydd sydd o geryg nâdd, ac mae arnynt fyrddiynau o lestri yn cludo dàoedd o'r naill gwr o'r wlad i'r llall, a theuluoedd lawer yn trigfanu ynddynt yn wastadol.

MWNGLODDIAU.] Dywedir bod yn China bob mwn a geffir yn unrhyw arall o ardaloedd y ddaear. Ychydig o aur a oddef y llywodraeth i gloddio ynddi, rhag i'r llawnder o hono darfu diwydrwydd y trigolion. Mwngloddiau Honan ydynt yn rhoddi yr helaethrwydd mwyaf o aur a arferir yn China. Rhaid fod cyflawnder o haiarn, plwm a tin ynddi, gan eu rhatad yn ei marchnadoedd. Yn mhlith ei meini gwerthfawr mae y maen soniarus, yr hwn o liw sydd yn ddu, a phan darewir ef, swnia agos mor beraidd a chlôch.

LLYSIEUAETH.] Pren y mae tê yn tyfu arno sydd ebelaeth yn China: ei geinciau sydd yn tarddu o'r gwreiddyn, ac yn ymledu fal yr elont yn uwch, heb adael i'r pren unrhyw foncyff. Gwedi difôg y dail, bydd pob un o honynt yn cael ei hamdroi gan fenyw, ac yna dodir hwynt ar len deneu o haiarn i'w crasu yn addas i wasanaeth: nid ydyw dail hen goed yn gwneyd gystal tê a choed ieuainc. Coed hynod ereill yn China ydyw y gwer-bren, ffrwyth yr hwn sy fath o wêr, ac mor ddefnyddiol i wneyd canhwyllau ac unrhyw a arferir, ond

bod arogl cryf yn y gell y llosgir hwynt ynddi. Conynau sygr sydd yn aml yn ngwastadoedd China, ond nid ydyw y trigolion mor hyddysg yn ei buro ag ydynt yn India orllewinol. Pob ffrwythydd ereill yn ymborth neu gyffuriau meddygol ydynt mor helaeth yn China ag yn unrhyw o wledydd Asia.

HYNAFIAETHAU.] Temlau a phontydd ydynt brif hynafiaethau China: mae rhai o honynt a seiliwyd oesoedd cyn crêd yn parhau byd y pryd hwn. Y bont dros nant y llifa afon Saffrany trwyddi, sydd o un bwa 400 cyfudd o hyd a 500 o uchder: dywedir fod rhai mwy yn y parthau gogleddol. Bwâu buddugol er côf am rai o fawrion y wlad sy liosog, ac yn dra chywrain eu gwneuthuriad. Y temlau ydynt adeiladau mawrion, ac anghelfydd o wneuthuriad, fal y duwiau sydd ynddynt; dywedir fod mewn un yn Pekin glôch yn 120,000 o bwysi, ond ei bod o sain yn aflafar.

Y wâl fawr sydd yn derfyn am 1,500 milltir rhwng China a Thartari, a adeiladwyd er ys mwy na dwy fil o flynyddau, ac nid yw nemawr yn waeth y pryd hwn: ceryg a chalch yw ei defnydd, a 25 troedfedd yw ei huchder. Bu y drydedd ran o holl wyr y deyrnas a allai weithio, bum' mlynedd yn ei hadeiladu. Mae tyrau yn mhen pob can-llath arni i wiliedyddion, a dywedir y gall 5 march y naill wrth ochr y llall dramwy ar hyd ei nen.

## DOSBARTH II.

*Trigolion....Moesau ac arferion....Llywodraeth. Cyfreithiau....Crefydd..Iaith. Dysgeidiaeth....Cyfnewidiaeth.....Dinasoedd a threfydd ...Anifeiliaid.*

DYMA y wlad liosocaf ei thrigolion o unrhyw ar wyneb daear: gwelir wrth daflen ei thaleithiau fod eu rhif yn 333,000,000, yr hyn sydd fwy na dwy-waith rhifedi trigolion holl deyrnasoedd Ewrop yn nghyd.

MOESAU AC ARFERION.] Trigolion China ydynt o faint canolig, a lled anmbrydferth eu gosgedd: adnabyddir hwynt wrth eu gruddiau uchel, gweflau tewion, llygaid duon a bychain, a thrwynau pwl: ond y mae y rhai sydd yn cyfanneddu y gogledd-barth yn fwy têg, ac o well lliw na'r lleill. Rhaid i'r holl genedl ymagweddu yn ol gorchymyn y llys ymherodrol, mewn dillyn-ddull yn gystal a moesau cyffredinol. Y gyfraith wladol sydd yn dynodi dyledswyddau y deiliaid, hyd yn nod lliw y dillad a wisgont. Yr ymerawdr ac y tywysogion yn unig sydd yn meddu y fraint o wisgo melyn; y swyddogion penaf ydynt mewn sidan du neu lâs tywyll, ac y cyffredin mewn cotwm glâs yn wastadol, oddieithr pan wisgont arwyddion galar, yna gwisg wen a goreu po butraf y byddo sydd arferedig.

Rhoddes y tywysogion Tartaraidd pan ddaethant i feddiant o rwysg y wlad, orchymyn i bob gwrryw eillio ei wallt yn wastadol, oddigerth cudyn ar y coryn, ac hefyd o ddiwreiddio y farf oddigerth trawswch yma ac acw ar y wefus uchaf, yr hyn sydd yn cael ei ddal i fynu yn ddigoll hyd heddyw. Arferiad o amseroedd anadnabyddus ydoedd i bob merch tra yn blentyn, gael dodi un troed mewn cyff ar ddull esgyd gloedig, a'i gadw yno er dirfawr boen rhag tyfu o hono, felly tra yr oedd hyn mewn grym yr oedd holl ferched China yn gloffion o'u mebyd: ond mae yr arferiad anynol yn yr oes hon, oddigerth yn mysg rhai teuluoedd, yn cael ei rhoddi heibio. Dywed Bar-

row mai yr amcan o sefydlu hyn oedd i rwystro i'w benywod prydferth fyned o'r wlad i ymgymysgu â thrigolion hagr y broydd oedd yn terfynu ar China.

Cynhelir tair gwledd gyffredinol yn China: yr hynotaf sydd yn mis Mawrth i ddynodi dyfodiad y gwanwyn i mewn: bydd swyddog pob dinas yn dyfod allan y boreu hwnw wedi ei wisgo â gemmau gwerthfawr, a bydd dawns a cherddoriaeth yn dilyn hyd oni ddeuir i faes y ddefod: y dilynïedyddion ydynt ddelw fawr o bridd crochenydd ar lun buwch, a bachgen ac un troed yn noeth, yn dynodi diwidrwydd, yn ei hanog â gwialen yn mlaen, yna lliaws o lafurwyr a'u peiriannau trin tir yn eu dwylaw, ac ar eu hol bydd tyrfa o chwareuyddion yn ymagweddu ar y daith fal ynfydion er boddio yr edrychwyr. Gwedi gwledda, a dychwel yn rheolaidd yn ol, torir y fuwch, a chymerir o honi y cantoedd lloi pridd i'w rhoddi i'r dyrfa. Gwledd arbenig arall sydd ar ddydd calan: golygir y dydd yn wyl benigol, ac ni wnelir ynddo ddim gwaith: rhaid i gerbydau y llywodraeth a phob rhai ereill beidio teithio hyd yr hwyr: bydd y wlêdd yn gyffredinol yn mhob-man, a gelwir hi wrth enw sydd yn dynodi gadawiad yr hen flwyddyn. Y drydedd ydyw gwlêdd y llusernau: cedwir hon ar yr un dydd yn mhob cwr o'r deyrnas: bydd glenydd y môr, afonydd, camlesydd, a phob bwth trwy yr ymerodraeth yn oleu gan lusernau gwých y pryd hyny.

Y Rhieni sydd yn prïodi eu plant, ac weithiau ni adroddir y newydd i'r ddeu-ddyn ieuanc hyd o fewn tridiau i ddydd y brïodas, ac y pryd hwnw yn fynych, ni ŵyr y naill pwy a fydd y llall, hyd oni ddelont i'r wledd, Danfonir y ferch a'i chynysgaeth gyd â hi, mewn cerbyd caëedig at ddrws y darpar wr, ac os ceiff ei foddio, gwahodd hi i mewn: o wall hyny, gorchymyn hi yn ol i'w rhieni gan dalu y ddirwy arferol ar y cyfryw achlysur. Goddefir i bob gwr gadw gordderchwragedd, ond nid ydynt hwy nag y wraig briodasol na'r plant i eistedd yn yr un gell, nag ychwaith i fwyta ar yr un bwrdd, eithr aros mewn cell o'r neilldu hyd oni welo yn dda wahodd ar brydiau addas, rai o honynt ato. Y bechgyn ydynt yn aros yn nghell y fam hyd oni chyrhaeddont wyth neu naw oed, yna gelwir hwynt i gell y tad, a bydd gwledd ar yr achlysur: doda swyddog y wledd gapan am ben y bachgen, a dywed wrtho y geiriau hyn; "Ystyria dy fod weithian yn cael dy wisgo fal rhai mewn cyflawn oed, felly bwrw oddiwrthyt feddyliau a thueddiadau plentynaidd, ac ymrô trwy agwedd ddifrif-ddwys o ymofyn am ddoethineb, ac o ymgeisio i ryglyddu oes hir a dedwyddol."

Y gwarth nesaf i fod yn amhlantadwy ydyw i wraig esgor ar fenyw: ond mae y llywodraeth mor anfoesol a goddef i bob rhieni fwrw i'r hëol, neu afon, neu ar fin y ffordd fawr, y rhif a fynont o'u plant bach, yn enwedig benywod. Y rhai a fwrir i'r heol yn y brif ddinas ydynt yn cael eu hymgeleddu gan genhadon o eglwys Rhufain i'w dwyn i fynu a'u meithryn yn egwyddorion eu crefydd, &c. ond gan fod môch a chŵn bob amser ar hyd yr hëolydd, gellir dirnad yr olwg echrydus a fydd weithiau cyn dyfodiad y cerbyd i'r heol i'w nhôl: doda ambell fam llai creulon nag arall, gadwyn o gyrc am wddf ei babau wrth ei fwrw i'r afon, fal y cedwir ei ben uwch y dwfr, i edrych a dosturia unrhyw o'r cyfoethogion wrth ei grî; ond ereill a'u bwriau i mewn heb rith o dosturi: ac er i liaws o gyrff plant fyned gyd a'r llif heibio i lestri fyddo ar yr afon, ni bydd cymmaint sylw arnynt ac ar ysgerbydau cŵn a chathod: codir y rhai

hyny yn ddigon prysur yn hanner drewedig i'w bwyta gan yr haid lwgedig sydd yn byw ystod eu hoes ar y dyfroedd.*

Cynhebryngau yn mysg y mawrion ydynt weithiau yn cael eu hoedi am flynyddoedd, sef hyd oni chyduno cyfeillion y marw o berthynas i'r lle i'w gladdu: dodir yr arch dan dô yn nghongl gardd hyd y pryd hwnw, a rhaid i geraint y marw fod yn eu galar-wisgoedd am dair blynedd ar ei ol. Mae eu hangladd-leoedd yn dra ëang, oherwydd na oddefir gyffwrdd y lle y meddylir bod yno gladdu unwaith gwedi bod.

Mae yn mhob tŷ yn China daflen ar y pared, ac arni enw tad, taid, a hen-daid y gwr, o flaen yr hon yr arogl dartha ac y cryma yn fynych; a phan fyddo farw gwr y tŷ, tynir ymaith enw yr hen-daid fal y llanwo ei enw ef le ei dad.

Llywodraeth. Cyfreithiau.] Ychydig o wahaniaeth sydd yn China os gellir credu eu hanes, er ys pedair mil o flynyddau. Mae pob gallu llawnrhwysg yn gyfleuedig yn yr ymerawdr, ond mae y cyfreithiau gwladol yn dodi arno yntau anghenrheidrwydd o ymarfer â chymedrolder â phwyll yn ei holl oruchwyliaethau, yr hyn sy gwedi bod yn achlysur i'r fath lywodraeth odidog barhau cyhyd. Dangosir i'r ymerawdr y parch mwyaf gan bob graddau: enwant ef yn fab y nef, ac unig lywiawdr y ddaear: pan glefycho, bydd holl swyddogion y llŷs yn mhob-cwr yn gofyn nawdd y Nef i'w ran: ond gall hyn darddu oddiar hunan, gan fod perygl i ereill lenwi eu lle ar ddyfodiad ymerawdr newydd. Golygir yn China y prif swyddogion yn dadau i'r werin, a phob pen teulu megys tad i'w blant a'i weision, ac yr ymerawdr yn dad cyffredin i'r cyfan.

Y prif swyddogion a elwir *mandarins* ydynt yn dosbarthu cyfiawnder yn mhob ardal trwy yr ymerodraeth: arferent ffonodio am bob trosedd po leiaf bynag a fyddo. Y gosb leiaf ydyw ugain ffonod ar wadnau y traed: gwneir hyn weithiau â mawrion y llŷs trwy orchymyn yr ymerawdr, ond ni byddent yn hwy mewn gwarth oherwydd y cyfryw, nag y byddont dan y gosb. Bydd gan y Swyddogion yn y llysoedd cyfiawnder gôd yn llawn o docynau, a phan fyddo drygweithredwr gwedi ei ddyfarnu i'w gospi, dyry y swyddog docyn ar fwrdd yn arwydd i îs-swyddog roddi 20 ffonod iddo, ac felly ychwanegir yr ugeiniau hyd oni wêl y swyddog yn dda atal taflu y tocynau: rhaid gwedi hyn i'r troseddwr ymostwng deir-gwaith o flaen y swyddog, a bod yn ddiolchgar iddo am ei ofal yn nawseiddio ei foesau. Y dorchbren sy gosbedigaeth arall: gwneir hon o ddau ddarn o bren a'r canol gwedi ei gafnio yn ddigon i'r gwddf yn unig: rhoddir hon ar ysgwydd y troseddwr, a sicrheir hi fal nas gall weled na llaw na throed tra byddo dani, felly rhaid (er iddo gael rhyddid i fyned oddiamgylch) gael rhyw un i weinyddu ei angenrheidiau iddo. Pwysau y dorch-bren sydd o 40 i 200 pwys, yr hyn a drefnir yn ol haeddiant y drwg, a'r amser y gwisgir hi sy dri mis: yna dygir y truan at y swyddog i gael cynghor i ymarweddu yn well rhagllaw, ac 20 ffonod wrth ymadaw sydd yn gorphen y gosb. Dëolir o'r wlad am ambell drosedd, a chaethiwir dro arall am flynyddoedd i dynu y brein-lestri ar y camlesydd, neu oddef nodi y bochgernau ag haiarn poeth. Plant a fyddo yn anufydd i'w rhieni ydynt yn cael eu cospi â chant ffonod, ac os codant ddwylaw i'w herbyn, neu hyd yn nod rhoddi ateb cyrch iddynt, an-

* Barrow's Travels in China. p. 169.

gau ydyw y canlyniad. Bradwyr yn erbyn y llywodraeth ydynt yn cael eu tori yn fil o ddarnau: rhwymir y troseddwr wrth bôst, a dechreu y dihenyddwr fflingo croen ei ben, a'r hwn y gorchuddia wyneb yr adyn, yna tyn ymaith gnawd ei gliniau a'i goesau o damaid i damaid, gan serio yr archoll bob tro ag haiarn poeth, rhag i golliad y gwaed beri angau rhy brysyr, a phan flino yn arteithio, gâd i'r edrychwyr orphen y gorchwyl.

CREFYDD.] Dywed Du Halde bod y Chineaid yn y cyn-oesoedd yn addef crêd i Fod goruchaf, yr hwn a alwent *Chang-ti*, sef yspryd yn ol barn rhai yn goruch-lywio y nefoedd, ac yn ol ereill y ffurfafen: addolent hefyd ysprydoedd oeddynt yn arlywio teyrnasoedd, taleithiau, trefydd, &c. O ddeutu O. C. 65, arweiniwyd crefydd newydd i China adnabyddus wrth yr enw Fo, yr hwn a dybid oedd Boodd Indostan, oddiwrth fod y rhai oedd yn addef crêd iddo, yn dal allan yr un egwyddorion a'r Indiaid am drawsfudiad yr enaid, Arweiniwyd enw arall iddi yn y 15 ganrif, sef, mâth o eulun-addoliaeth yn addef crêd i Fod a alwent yn enaid y greadigaeth, i'r hwn yr adeiladwyd temlau ardderchog, yn cynnwys rhestrau o fân dduwiau, y rhai a addolir yn feunyddiol gan bwy bynag a chwennycho droi i mewn iddynt: ymofynir â rhain hefyd o berthynas i lwyddiant cyn unrhyw orchwyl, megys cychwyn i daith, prïodi, &c. Nid oes Sabbath gan y Chineaid, ac nid oes crefydd wladol sefydledig ynddi: yr ymerawdr sydd yn hoffi un enw, y swyddogion gwladol enw arall, ac y werin yn gyffredinol ydynt yn dewis addef cred i Fo. Mae y delwau yn gyffredin yn gelfydd o wneuthuriad: gallai y Chineaid pe tröent i dy addoliad pabaidd feddwl mai duwiau eu gwlad oedd ganddynt yn cryma o'u blaen, Nid oes tŷ heb ddelwau teuluol ynddo ac allorfa i weinyddu aberth iddynt, felly eulunaddoliaeth llawn môr ofergoelus ag yn Indostan, ydyw crefydd China. Mae llafur y Gymdeithas genhadawl y pryd hwn yn taenu y newyddion da yn mhlith paganiaid daear, yn debyg o lwyddo yn mhlith y genedl fawr hon. Mae cyfran o'r bibl wedi ei gyfieithu gan genhadwr o enw Morrison i'r iaith Chinaeg, ac y mae yn myned rhagddo yn y gorchwyl tra phwysfawr yn llwyddiannus.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Iaith China yw y ryfedda o holl ieithoedd y ddaear. Mae agos bob sylafft yn llunio gair, ac nid oes ynddi oddiar 330 o eiriau, ond eto mae pob un o sain ac ystyr mor wahanol, a'i bod yn iaith fwy cynnwysfawr nag y meddylid. Nodau arwyddol sy ganddynt wrth ysgrifenu yr iaith, megys unrhyw arwydd am ddyn, arall am anifail, &c. Y nôd a arferent am goedan a swniant moo, a'i ail adrodd a wna goedwig, a'i swnio dair gwaith a wna fforest. Mae o ddeutu 80,000 o'r lluniau hyn yn cael eu harfer gan ysgrifenwyr yr iaith, a chan leied y berthynas sy rhyngddynt a'r dull genau o'i llefaru, rhaid mai iaith ddyrys i'w hamgyffred ydyw.

Mae ysgrif-lyfrau yn China y pryd hwn gwedi eu hysgrifenu 2000 o flynyddau cyn crêd; rhai o honynt ydynt yn cynnwys hanes y wlad oesoedd cyn yr amseroedd hyny, yn nghyd â moesau y trigolion, gorchestion eu brenhinoedd, milwyr, &c: ac y lleill ydynt farddoniaeth yn cynnwys odlau ar ufudd-dod i rïeni, cariad brawdol, lletteugarwch; ac amryw foesau rhinweddol ereill, y rhai sy raid i bob Chinead eu holrhain yn fanwl cyn y cyfrifir ef yn ddysgedig. Gofynodd Confucius* i dywysog oedd yn chwennych ei gynnorthwy i ehangu ei wybodaeth

* Confucius oedd athronydd enwog a anwyd yn Chan-Long o ddeutu 551 o flynyddau cyn crêd: yr oedd yn rhagori mewn dysgeidiaeth ar unrhyw a wyddid

mewn rhyw gainc o ddysgeidiaeth, "a ddarllenasoch lyfrau yr odlau, y rhai yn unig ydynt y moddion i dynu llen gaddugol anwybodaeth oddiar eich meddyliau? rhaid," ychwanegai, "i bwy bynag nas darllenodd hwynt fod fal dyn a'i wyneb yn wastadol ar fûr, ac felly yn analluog o fyned rhagddo."

Y llyfrau a ddarllenir o dde i aswy, ac yn golofnau oddi fynu i wared y gosodir yr arwydd-nodau. Yr oedd gan y Chineaid ddarnau o bren gwedi cerfio rhai arwydd-nodau arnynt, oesoedd cyn i argraffu llyfrau ddechreu yn Ewrop.

Y prif egwyddorion dysgeidiaeth a arferir eu dysgu i'r ieuenctid yn China ydynt y canlynol, 1. Y chwe' rhinwedd, sef, duwioldeb, callineb, pwyll, iawnder, cariad at frodyr, cydfod. 2. Y chwe' gweithred anrhydeddus, sef, ufudd-dod i riëni, cariad at frodyr, cydfod â chesaint, serch at gymmydogion, purdeb â chyfeillion, a thrugaredd at y tlawd a'r anghenus. 3. Chwe' phwnc anghenrheidiol gwybodaeth, sef, moesau crefyddol, cerddoriaeth, saethyddiaeth, marchwriaeth, ac ysgrifenu a rhifyddiaeth.

Y pader yn iaith China sy fal hyn, *Woo tăng Foo tsae teen chay. Ush ming ching shing. Ush wang lin. Uch che ching king, yu te joo yu teen yen. Tsze wo kin jĕ jĕ yung lëang; Meën yu foo chae joo yu meën foo chae yu wo chay ya. Po yin yu tsin kwŏ yew, nae kew wo yu heïng ngŏ; kae weh wei kwŏ chay, kĕĕ, keuen chay yu she she. Ya-mun.*

CYFNEWIDIAETH.] Mae y gyfnewidiaeth mewn llestri pridd, sidan, cotwm, papur, a'r cyffelyb a wneir o fewn terfynau China yn dra ëang, oherwydd rhwyddineb cludiad gan amlder y camlesydd. Gwneir y llestri a elwir China o bridd gwyn a elwir *kaolin*; dygodd y rhai hyn elw mawr i'r deyrnas am oesoedd lawer, hyd oni chafwyd defnydd cystal yn Ewrop yn enwedig yn Mhrydain i wneyd rhai cyffelyb. Y sidan sy dra gwych: yma meddant y meithrinwyd y pryf sidan* gyntaf. Eu papur a wneir o risg bamboo a choed ereill, yr hwn er ei fod yn dew a llyfn, sy waelach na phapur a wneir yn Ewrop. Y drefnidiaeth â gwledydd ereill sydd ychydig: cyfnewidir rhai daoedd â Russia ac â Japan, a danfonir hefyd i Frydain werth o ddeutu mil o filoedd o bunnoedd o dê yn flynyddol.

Mae taleithiau China oll megys mân deyrnasoedd, a llywyddion o osodiad yr ymerawdr arnynt, ac y mae y gyllid sydd ar ddaöedd y naill ar y llall yn mwyâu y drefnidiaeth gyffredinol; ac i rwyddo hyny nid oes arbed ar y draul o wneyd ffyrdd addas yn y mynydd-dir, a lleoedd ereill anghyfleus i estyn ceinciau o'r camlesydd iddynt: llenwir nentydd mewn rhai manau i estyn ffordd wastad drostynt, ac mewn lleoedd ereill torrir trwy fynyddoedd uchel ffyrdd digon ëang i gerbydau fyned heibio eu gilydd.

am dano y dyddiau hyny, ac y mae ei enw yn dra pharchus hyd heddyw yn mhlith holl genhedlaethau y dwyrain. Bu farw yn 73 mlwydd oed.—*Jones's Biographical Dictionary.*

* Pryf sidan sy fâth o lindys, yn deillio ar ddechreu hâf o wy o faint hedyn mwstard, ac yna yn ymborthi ddydd a nos am 3 neu 4 wythnos ar ddail morwydd, hyd oni hydd yn hytrach mwy na lindys gerddi, gwedi hyny dyry heibio fwyta, gan ddechreu gwêu hyd oni ymguddio mewn pelen sidan o faint wy colomen, ac oni ddirwynir y wê, tyr drwodd yn mhen pythefnos, a bydd esgyll ganddo fal gloyn byw: yna gwedi i'r ddwy-ryw gymharu, dodwa y fenyw restr o wyau gan eu glynu yn y peth y byddont arno, a gwedi hyny, hydd meirw yr holl genedl honno cyn diwedd Gorphenaf.

Milwyr a llongau rhyfel.] Mae China yn llawer mwy lliosog ei milwyr er 1644, pan y daeth y Tartariaid i rwysg y llywodraeth, nag o'r blaen: dywedir bod ynddi fil o filoedd o wyr traed ag wyth gan mil o wyr meirch. Mae gorsafoedd milwraidd hefyd tros yr holl ymerodraeth, a chan eu bod mewn cyrhaedd clyw i'w gilydd, bydd pob newyddion arbenig yn llys Pekin yn dra ebrwydd, o'r ardaloedd pellaf yn y wlad. Y llongau rhyfel ydynt ddystadl yr olwg arnynt, gan mai math o fatiau ac nid lliain yw eu hwyliau: eu gorchwyl ydyw hwylio ar hyd arfordiroedd y wlad, i gadw draw y mor ladron o'r ynysoedd cylagos. Argraffwyd yn Paris yn 1772, draethawd ar y gelfyddyd filwraidd, gwedi ei gyfieithu o'r Chinaeg i'r Ffrancaeg, o'r hwn y gwelir bod y Chineaid yn dra bysbys yn y gelfyddyd hono: canmolir llywyddion y byddinoedd am fod yn ofalus a phwyllgar yn ei goruchwyliaethau; ac un o'u diharebion ydyw, nag ymladdont byth â gelynion mwy lliosog na hwy eu hunain.

Dinasoedd a threfydd.] Pekin, y brif ddinas, yn sefyll yn mharthau gogleddol China, sef 60 milltir oddiwrth y wàl fawr, sydd gwedi ei rhanu yn ddwy ddinas Yr hon sydd yn cynnwys ynddi y llys ymherodrol, a elwir dinas Tartari, gan y rhoddwyd y rhan fwyaf o honi i'r genedl hono ar ddyfodiad y teulu presennol i'r orsedd; ac y Chineaid yn adeiladu o'r tu allan i'w muriau ddinas agos gymmaint, sydd yn gwneyd y ddwy y pryd hyn yn 18 milltir o amgylchiad, ac yn cynnwys o ddeutu 3,000,000 o eneidiau. Ei chaerau ydynt gwedi eu hadeiladu o briddfeini a chalch, ac mae ynddi 9 porth o farmor gwyn. Yr heolydd ydynt wastad a llydain, ac y tai ydynt isel, heb onid un llofft arnynt yn gyffredinol, ond yn dra hardd gan arwyddion trefnidiaeth sy gwedi ei arliwio arnynt; a chan y sidanau gwych a llestri priddion sydd yn eu ffenestri. Y llys ymherodrol sy dra hardd ac yn dair milltir llawn o amgylchiad: ei dal-wyneb sy dryfrith o liwiau goreuredig, ac y tu fewn sydd yn cael ei harddu ag y pethau mwyaf gwerthfawr à geffir yn China, India, ac Ewrop. Gerddi y llys ydynt eang: mae ynddynt gamlesydd a llynau, ac arnynt lestri breiniol tra-gwych; pistylloedd, ffynonydd, mynyddau gwneuthurol, &c.

Nankin, yr hon oedd y brif ddinas hyd oresgyniad y Tartariaid, sydd yn neheubarth China: mae hon yn fwy na Pekin, ond nid yw mor llawn o drigolion. Yr adeilad hynotaf ynddi ydyw twr 200 troedfedd o uchder a 40 o led, yr hwn sy gwedi ei arwisgo â pheithynau pridd China o amryw liwiau.

Canton yw y borthladd fwyaf yn China, ac yr unig un y goddefir i longau dyeithrol dramwy iddi. Mae caer o'i hamgylch, ac arno amddiffynfeydd. Yr heolydd ydynt wastad ond culion, a bernir bod ynddi o ddeutu 1,200,000 o drigolion.

Mae yn China 4,600 o ddinasoedd caerog, ond ni wyddis am eu hansawdd, gan fod eiddigedd y trigolion yn rhwystro dyeithraid i dreiddio iddynt.

Anifeiliaid.] Gwylltfilod China ydynt y tiger, y rhinoceros, yr arth, y bual, ac y baedd gwyllt: nid yw y llew o fewn ei chyffiniau. Mae yma gamelod bychain o faint march, ac amryw rywogaethau o geirw, yn nghyd â chreaduriaid cyffredin y gwledydd cymydogaethol.

## DOSBARTH III.

### *Hanes China.*

MAE rhai o hanesyddion China yn honni bod eu cenedl mewn bod, oesoedd lawer cyn creadigaeth y byd yn ol y cyfrif ysgrythyrol, ac mai Poan Kou oedd enw y dyn cyntaf: ond y mae y rhai enwocaf o honynt yn addef nad oes unrhyw sail i'r ffug hanes a roddir am China hyd ddyddiau Fohi, yr hwn meddant oedd a rhwysg y llywodraeth arno 2952 o flynyddoedd cyn Crêd; yr hwn hefyd a orchymynodd ddechreu ysgrifenu hanes yr ymerodraeth, yn cynnwys dysgrifiad têg o foesau ac arferion y trigolion, ac hefyd o gynneddfâu ac ymddygiad pob ymerawdr, yr hyn a ysgrifenid gan wyr di-duedd, gwedi terfynu ar oes y teulu breninol, y rhai oeddynt y pryd hyn, ac oesoedd lawer gwedi, o ddewisiad ac nid o etifeddiaeth yn teyrnrëoli. Canlynwyd ar y drefn hon yn yr oesoedd canlynol hyd oni ddaeth y deyrn wialen yn etifeddol mewn un teulu, pan y dodwyd heibio y manylrwydd o goffau ymarweddiad y llin freninol, ond parhawyd o ddynodi ansawdd y wlad ac arferion yr oes hyd y pryd hwn.

Y tylwyth breninol cyntaf a ddaethant i hawl o'r ymerodraeth, gwedi diflanu o epil Fohi, a elwid Hia. Bu o'r rhai hyn 18 o ymerawdwyr yn rheoli yn ystod 388 mlynedd: rhanwyd yr ymerodraeth yn eu dyddiau yn naw talaeth.

Y nesaf a reolodd am 612 mlynedd oeddynt deulu o enw Shang: bu o'r rhai hyn 28 o ymerawdwyr, ac yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn anfucheddol a sarug, y rhai yn rhoddi rhwysg i'w nwydau afreolus, a adawsant oruchwyliaeth y deyrnas i ofal gweinidogion anfedrus a thrahaus, ac felly daeth y wlad yn fynych yn ddrych o ddychrynfeydd rhyfel tra buont ar yr orsedd.

Un o'r teulu nesaf o enw Chi-hoang-ti a adeiladodd y wàl fawr a soniwyd am dani eisus, o ddeutu 213 mlynedd cyn Crêd: gorchymynodd hwn gasglu holl lyfrau hanesyddol y deyrnas yn nghyd i'w llosgi, fal na byddai i'r dysgedigion ei wrthwynebu yn y cais oedd yn ei fwriad o newid yr arferion gwladol, &c. A chan fod terfysg yn mhlith y dysgedigion o ethryb y cyfryw orchwyl, rhoddes 400 o honynt i farwolaeth, rhag iddynt trwy rym eu côf drosglwyddo i'r oesoedd a ddeuai ansawdd y wladwriaeth cyn ei reolaeth. Felly er achub rhai llyfrau, ac i rai o'r gweddill ddysgedigion ar farwolaeth yr ymerawdr ymroddi i gasglu yn nghyd gymmaint o wybodaeth ag a fedront trwy rym eu cof eu hunain, a chof yr hen bobl a ddarllenasant y llyfrau, nid oes hanes y gellir hyderu arni am yr ymerodraeth fawr hon cyn dyddiau Chi-hoang-ti, nag ychwaith am gantoedd o flynyddoedd gwedi, oddigerth ychydig am ruthrau y Tartariaid y rhai oeddynt yn gormesu ar ryw ranau o'r wlad yn wastadol.

Yn y ddegfed ganrif daeth Tartariaid Kitan i feddiant o'r deyrngadair, ond brwydrau aruthr a fu rhyngddynt â'r trigolion trwy yr oesoedd y buont yn rheoli. Yn 1210, daeth Genghiz Khan, peniaeth y Moguliaid fal y soniwyd yn ormes ar China: agorodd hwn adwy yn y wàl fawr, neu fal y dywed rhai, agorwyd un o'r pyrth yn fradychus iddo, ac arweiniodd ei fyddinoedd at gaerau Pekin, prif ddinas y Tartariaid oedd y pryd hyn mewn meddiant o'r wlad, a

gwedi rhai wythnosau o warchae ymosododd arni, ond gorfu arno gwedi colli miloedd o'i wyr yn y tro, a gwedi derbyn archoll ei hunan, ac yn ganlynol ei ddifreinio o'r dinasoedd a ennillasai, ddychwelyd yn ol i Tartari. Y flwyddyn ganlynol anturiodd eilwaith, a bu lwyddiannus i adennill yr holl ddinasoedd a gollasai, ond cyn ennill ychwaneg bu farw, gan adael y gorchwyl i'w ddau fab Oktay a Toley, y rhai a annogodd i fyned rhagddynt hyd oni chafent feddiant o rwysg y goron. Gwedi hyn daeth lluoedd ereill o Tartari i ymuno â lluoedd y ddau dywysog, y rhai a ymddidolasant y naill oddiwrth y llall, fal tra y cadwai un feddiant o'r ardaloedd oedd gwedi eu hennill, y byddai i'r llall fyned rhagddo yn y gorchwyl: felly dryllio caerau, dinystrio dinasoedd, lladd a llarpio, a goruchwylion echrys ereill, fu y canlyniad hyd oni ddaeth y rhan fwyaf o'r ymerodraeth i feddiant y ddau dywysog.

Llwyddiant yn dilyn arfau y Moguliaid, a lluoedd yn parhau i ddyfod i'r wlad, cymerodd tywysog o honynt o enw Gan-yong arno enw brenin y taleithiau gogleddol, a chan iddo ymddangos yn lled elynol i'w gyd-wladwyr Oktay a Toley, prynodd yr ymerawdr ef a'i luoedd am arian a meddiannau lawer i'w wasanaeth. Ar hyn danfonodd Oktay swyddogion â 30 o filwyr i ymofyn ansawdd y tro, eithr lladdwyd hwynt oll gan warcheidwaid yr ymerawdr: felly anturiodd Oktay i warchae ar un o'r dinasoedd breninol, a bu yno hyd oni orfu ar y dinasyddion ladd y naill yn ymborth i'r llall, ac ar iddynt orfod rhoddi y ddinas i fynu, ymgrogodd yr ymerawdr, a gwnaeth 500 o'i brif filwyr yr un peth, a thyna fu terfyn rhwysg Tartariaid Kitan yn China.

Rhanwyd yr ymerodraeth gwedi hyn rhwng y Songiaid, sef trigolion deheubarth China a'r Moguliaid, ond anghydunasant yn fuan gwedi, a rhyfeloedd dychrynllyd a ganlynodd, hyd oni annrheithiodd y Moguliaid yr holl-wlad a dyfod i feddiant o rwysg y deyrngadair.

Hupiley oedd enw yr ymerawdr newydd: dewisodd Pekin yn brif ddinas, a dechreuodd wneyd y gamlas o Pekin i Canton, ac yna goresgynodd Japan, Tonqnin, a Cochin China, o fwriad i'w hymuno at ei ymerodraeth, eithr bu yr anturiaeth yn aflwyddiannus; pedwar neu bump o gan mil o wyr a ddychwelodd oddiyno i adrodd yr helynt fu arnynt. Bu y teulu hyn ar yr orsedd hyd 1367, pan y casglodd un o'r Chineaid o enw Chu, fyddin â'r hon y llwyddodd i fwrw iau y Moguliaid oddiarnynt, a bu y deyrnwialen yn meddiant ei epil hyd 1644, pan ddaeth y Tartariaid drachefn yn ormes ar China. Yr oedd dau dywysog y pryd hyn o enw Li a Ching yn blaenori y byddinoedd goruchafiaethus, ac yn difrodi y Chineaid arfog yn mhob man y cyfarfyddont â nhwy; ac o'r diwedd cyrhaeddasant y brif ddinas, a buont yn gwarchae cyhyd arni, ac y bu i'r newyn beri i'r dinasyddion byw fwyta cyrff y meirw. O'r diwedd agorwyd y pyrth a rhuthrodd 300,000 o Dartariaid i mewn, a meddiannasant hi. Yr oedd yr ymerawdr yn credu yn nghadernid ei warcheidwaid hyd oni agorwyd y pyrth, ond pan welodd hwynt agos oll yn dianc i ymuno â llumman y gelynion, gwahoddodd ei wraig a'i ferch i'w ardd, lle gwedi ymgofleidio mewn distawrwydd dwys y deallodd yr ymerodres yr amcan ac a ymgrogodd wrth gortyn sidan: yntau gwedi ysgrifenu ar ymyl ei wisg "Fy neiliaid yn warthruddus a'm gadawsant; gwnewch a fynoch i'm corff, ond tosturiwch wrth fy mhobl," a dorodd ymaith

ben y dywysoges, ac a ymgrogodd. Gwnaeth mawrion ei lys, ei wragedd a'i eunuchiaid yr un peth: a thyna fu terfyn rhwysg y Chineaid o epil Chu, ac epil y Tartariaid sydd hyd heddyw yn rheoli China.

Gorchwyl cyntaf yr ymerawdr newydd oedd gorchymyn i'r holl arferion gwladol, defodau crefyddol, dillyn-ddull, &c. oedd yn arferedig yn China gael eu harfer gan y Tartariaid milwraidd, a rhoddes orchymyn i'w holl ddeiliaid yn Tartari ddilyn yr un peth: wrth hyny parodd ymddangos fod Tartari gwedi ei huno at China, yn lle China at Tartari. Felly bu terfyn ar y rhyfeloedd parhaus oedd rhwng y ddwy genedl. Daeth rhai o'r rhai hyn yn bleidwyr i'r Jesuitiaid, fal ag y cafodd Cristionogrwydd yn niwyg pabyddiaeth ei harwain i amryw o daleithiau yr ymerodraeth.

Yn 1771, gadawodd yr holl Dartariaid (50,000 o rifedi) oedd tan lywodraeth Russia yn cyfanneddu glenydd y Volga, eu trigfanau, a gwedi 8 mis o daith cyrhaeddasant China, lle y derbyniwyd hwynt yn groesawgar gan yr ymerawdr; ac y flwyddyn ganlynol, anturiodd 30,000 o Dartariaid oeddynt dan Russia yn preswylio ardaloedd ereill, a gwedi cyrhaedd China rhoddes yr ymerawdr dir iddynt i'w drin, a threfydd i breswylio ynddynt: mynodd hefyd i goffau y troion rhyfeddol hyn, roddi'r hanes mewn llythyrenau dwfn mewn craig mewn pedair o amrywiol ieithoedd.

Bellach terfynir yr hanes trwy roddi talfyriaid o genadwriaeth ddiweddar iarll Macartney o lys Prydain i China. Yr oedd amryw o genhedlaethau Ewrop er ys oesoedd yn chwennych trefnidio â China, ac y Portugiaid oeddynt y cyntaf a diriasant ynddi, y rhai am fod yn llwyddiannus yn dinystrio y mor-ladron oeddynt yn annrheithio arfordiroedd y wlad, a gawsant ddinas ar ynys Macao yn feddiant iddynt. Ond llys Portugal yn rhy hyf yn danfon llongau rhyfel i foroedd China, gorchymynwyd iddynt yn mhen ychydig flynyddoedd ymado. Y nesaf a anturiodd yno oeddynt yr Ellmyn, y rhai fal y Portugiaid fuant lwyddiannus i ddinystrio llynges y mor ladron oeddynt gwedi ymadnewyddu yn y gorchwyl o sarhâu y Chineaid gwedi ymado o longau Portugal: caniatawyd i swyddogion yr Ellmyn am y fath wrolwaith fyned i Pekin, lle y derbyniodd yr ymerawdr Cum-ti y cyntaf o'r Tartariaid hwynt yn garedig: cawsant hefyd genad i gartrefu yn y wlad, ac o wahodd ereill os mynent o'u cydwladwyr i ddyfod yno atynt, ond er erfyn yn daer ni chaniataent iddynt agoryd unrhyw drefnidiaeth â China, trwy honni nad oedd arnynt eisiau nag arian, na daoedd; ac y byddai i drosglwyddiad eu sidanau, te, llestri pridd, &c. godi eu pris yn rhai o'u taleithiau, ac felly peri annhefn oherwydd hyny yn y wladwriaeth.

Y nesaf sydd yn dyfod tan sylw yw y Russiaid: yr oedd dadl er ys tro rhwng y rhai hyn a'r Chineaid o berthynas i derfynau eu gwledydd, ac ar iddynt gyduno yn 1689, agorwyd trefnidiaeth rhwng Pekin a Russia, a chyfnewidiwyd daoedd y naill wlad a'r llall hyd 1722, pan y bu i feddwdod a drygfoesau y Russiaid beri i'r Chineaid roddi terfyn arno, a gorchymyn i'r holl Russiaid oedd yn China fyned i'w bro eu hunain. Yn mhen y pum mlynedd gwedi, caniatawyd eilwaith i'r Russiaid ddechreu trefnidio â China, a gadawyd iddynt adeiladu capel yn Pekin, ac i 4 offeiriad o eglwys Groeg weinyddu ynddo: hefyd caniatawyd i rai dysgedigion o Russia fyned i ysgol i ddysgu y Chinaeg,

fal y rhwyddid trefnidiaeth, &c. Ac o hyny hyd y pryd hwn mae ychydig drefnidiaeth yn cael ei wneyd rhwng y ddwy wlad.

Yr oedd Prydain hefyd er dyddiau Elizabeth yn chwennych rhoddi cais o drefnidio â China, felly danfonodd y dywysoges hono wr o enw Mildenhall i Macao, ond parodd brâd y Portugiaid y rhai oeddynt y pryd hwnw mewn rhyfel â Lloegr aflwyddiant ar y daith. Yn mhen ychydig flynyddau danfonodd trefnidwyr o Loegr ddwy long i Macao i geisio trefnidio â China, a chan fod prif swyddog y ddinas trwy ystryw y Portugiaid yn gommedd ymgyfrinachu â nhwy, ymroddasant i chwilio am yr afon oedd yn arwain i Canton, ac yn mhen deuddydd daethant iddi. Y Chineaid yn frawychus o weled y llongau dyeithrol, a barotoisant eu hamddiffynfeydd, a danfonasant lestri i ymofyn â nhwy am y sail o'u hyfder i anturio i afon na chaniatawyd erioed hyd yn nod i'r Portugiaid dreiddio iddi, a phwy a'i harweiniasai &c. ? Y Saeson yn ateb mai eisiau cyfnewid daoedd oedd arnynt, ac nad arweiniasai neb hwynt i'w hafon, ac eu bod hwy yn alluog i dreiddio i leoedd llawer mwy dyrys, &c. a gawsant ateb têg ar iddynt ymroddi o beidio myned yn uwch i'r afon. Ond brad y Portugiaid yn parhau, ac y Chineaid yn hwyrfrydig i gyflawni dymuniad y Saeson, ymroddasant o hwylio hyd at furiau Canton, a phan oeddynt ar gychwyn, addawyd y caent eu dymuniad yn mhen y chwe diwrnod os arhosent lle yr oeddynt. Gwedi disgwyl deng niwrnod a dim arwydd o gyflawni, codasant faner brwydr i fynu ac angorasant o fewn 60 llath i'r Gaer, a dechreuodd brwydr waedlyd. Y Saeson yn ennill, tiriasant a distrywiasant yr amddiffynfa, a rhoddasant dai y prif swyddogion ar dân. Gwedi hyn addefodd y Chineaid mai brâd y Portugiaid a barasai yr oediad, felly rhoddwyd rhyddid i'r Saeson o hyny allan ddyfod i Canton i drefnidio, ac yn ganlynol, caniatawyd i ereill o genhedloedd Ewrop oedd mewn heddwch â Lloegr ddyfod a'u daoedd i'r un borthladd.

Yn fuan gwedi i ardaloedd ëang yr India ddwyreiniol ddyfod i feddiant Prydain, danfonodd y trefnidwyr seisnig genadydd i lŷs Pekin, ond rhwystrwyd ef yn ei daith, a bu arweddiad lymdost arno am gynnyg ar y fath antur, heb genad yr ymerawdr cyn cychwyn. Yna danfonwyd cenadwriaeth mwy anrhydeddus dan y swyddog milwraidd Cathcart yn 1787, eithr ef ar y fordaith yn marw, ni chyflawnwyd yr amcan: a chan fod y Portugiaid yn parhau i dduo enw y Saeson wrth bob Chinead a'u deallau, ymroddodd llywodraeth Prydain o ddanfon cenadwriaeth ysplenydd dan iarll Macartney i Pekin: dewiswyd dwy o longau rhyfel mawrion ac un llai i'r gorchwyl, a chychwynasant o Frydain 26 o Medi 1792, y chyraeddasant lenydd China 30 o Meh. 1793. Buont gryn amser yn hwylio y môr melyn, cyn cyrhaedd Pekin, ond pan ddaethant yn agos iddi daeth swyddogion a chyfieithwyr i'w derbyn, a gwedi i iarll Macartney a swyddogion y genadwriaeth dirio, arweiniwyd hwynt, a rhoddion llywodraeth Lloegr i'r ymerawdr mewn llestri tra-gwych i'r brif ddinas. Erbyn cyrhaedd Pekin, daeth prif weinidog y deyrnas i hyspysu iddynt fod yr ymerawdr yn Zhe-hol ei brif annedd yn Tartari, ac mai yno y chwenychai gyfarfod a'r genadwriaeth: felly gwedi gwledda gyd â phrif fawrion y llŷs, aethant i'w llongau i fyned rhagddynt, a gwedi hwylio am rai dyddiau, trosglwyddwyd hwynt i lestri breiniol ar gamlas oedd yn cyrhaedd mewn rhai milltiroedd i Zhehol, ac yna paratowyd cerbydau i'w

cludo yn mlaen, ac yr oedd i gludo y rhoddion* 90 o gertweni, 40 berfau dwy-law, 200 o feirch, a 3,000 o ddynion. Gwedi cyrhaedd Zhe-hol derbyniwyd hwynt yn garedig gan Ho-choong-taung, prif weinidog y deyrnas, yr hwn gwedi eu holi yn fanwl am ddyben eu cenadwriaeth, &c. a arweiniodd iarll Macartney a thri ereill o'r genadwriaeth i wyddfod yr ymerawdr, yr hwn a'u derbyniodd mewn dull croesawgar, ac ar iddo dderbyn llythyr ei fawrhydi mewn blwch aur a dystiolaethodd ei barch i frenin Prydain, ac a roddes roddion o feini gwerthfawr ac amryw bethau ereill i'w trosglwyddo iddo.† Ond er y parch arddangosol, yr oedd pob cais o agoryd drws i drefnidiaeth gyffredinol yn aflwyddiannus, a gwedi i'r genadwriaeth aros ychydig wythnosau yn hwy, rhoddwyd ar ddeall iddynt fod y llŷs yn chwennych eu dychweliad i'w bro eu hun, felly gadawsant China, ac aethant i Macao, o'r lle yr hwyliasant 17 o Mawrth 1794, a chyraeddasant Loegr y 6 o Medi canlynol.

Dyn a golwg mwyn arno oedd Chen-Lung, ef oedd y pedwerydd ymerawdr o'r Tartariaid a eisteddasai ar yr orsedd: bu farw ar yr 11 o Chwef. 1799, a daeth ei fab Ka-hing i'w le, yr hwn sy weithian ar yr orsedd. Diswyddodd hwn y gweinidog Ho-choong-taung, yr hwn a dybir oedd brif achos aflwyddiant y genadwriaeth. Gallai pe anturid yno eto y byddai mwy o lwyddiant yn dilyn yn amcan.

---

* Y rhoddion oeddynt amryw offerynau i egluro seryddiaeth; awrleisiau, drylliau tan prês, cleddyfau tra-gwych, portrëad llong 110 gwn, gwydrau llosg, yspeinddrychau, lluniau gwych, brethynau, llieiniau, cotwmau, &c. a wneir yn amrywiol weithfaoedd Prydain, &c.

† Y llythyr oedd yn cynnwys ymadroddion tebyg i hyn sef, "Bod Rhagluniaeth gwedi trefnu i'w fawrhydi ymherodrol reoli cenedl fawr, ac ei fod gwedi ei gynysgaeddu â doethineb i ddosbarthu uniondeb yn eu plith, ac felly i ereill oedd yn terfynu ar ei ardaloedd" Bod gan ei fawrhydi Brytanaidd barch mawr i'w fawrhydi ymherodrol er dechreuad ei frenhiniaeth, ac ei fod ar ol goruchafiaethau ysplenydd yn mhedwar cyfran y ddaear, gwedi rhoddi heddwch i'w holl elynion ar dileran teg. Ei fod er y pryd hyny, heb ymfodloni ar lwyddiant ei ddeiliaid ei hun yn unig, gwedi danfon llongau i olrhain broydd pellenig y ddaear, nid er goruchafiaeth ond i'r dyben o ehangu gwybodaeth gyffredinol, ac ei fod gwedi cludo iddynt anifeiliaid a phlanhigion, er budd mawr i'w preswylwyr. Hefyd bod hlŷs arno i fod yn gydnabyddus â gwledydd oedd a'u trigolion er ys oesoedd lawer gwedi nawseiddio eu moesau, ac yn enwedig ymerodraeth China, yr hon oedd a'i llwyddiant yn ddïareb yn mysg cenhedlaethau daear. A chan ei fod y pryd hwn mewn heddwch a'r holl fyd, nad oedd gwell cyfle i estyn rhwymau cyfeillgarwch rhwng y ddwy genedl nag y pryd presenol, &c. Ateb yr ymerawdr oedd, ei fod yn teimlo parch i'w fawrhydi Brytanaidd, am ei ewyllys da yn danfon cenadwriaeth i'w lŷs, gyd â llythyr â rhoddion hynod; ac ei fod ef yn cynnwys parch cyffelyb i lywiawdr Prydain fawr, ac yn gobeithio y byddai i gariad parhaus gael ei goleddu rhwng y naill genedl a'r llall yn wastadol.



## *RHAN II.*

# YMERODRAETH CHINA.

### TARTARI DDWYREINIOL.

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd....Rhaniadau....Gwyneb y wlad. Mynyddoedd.....Hin a thymhorau .....Afonydd. Llynau....Mwnglodddiau.*

TARTARI ddwyreiniol yr hon sydd yn llunio rhan o ymerodraeth China, sydd yn gorwedd rhwng hydred 72° a 145° yn ddwyreiniol, a rhwng lledred 35° a 53° yn ogleddol, yn 3,000 o filltiroedd o hyd, a 1,080 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 944,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir y wlad hon gan Siberia, yr hon sy ran o ymerodraeth Russia, ar y tu gogledd, môr Japan ar y tu dwyrain, China a Tibet ar y tu de, a chan Tartari anymddibynol ar y tu gorllewin.

RHANIADAU.] Dosberthir y wlad hon yn ol enwau y trigolion sydd yn ei chyfanneddu: y prif lwythi ydynt y Mandshuriaid, y rhai ydynt yn preswylio y parthau dwyreiniol; y Moguliaid yn cyfanneddu y parthau canol, ac yr Elutiaid neu Calmuciaid, y rhai ydynt yn y broydd gorllewin o honi. Rhenir ardaloedd y Mandshuriaid, o'r lle y deilliodd teulu ymherodrol China yn dair talaeth, o enwau Chinyang, Kirin, a Tsitchicar, neu fal y geilw y Russiaid hi Daouria. Talaeth Corea sy hefyd yn llunio rhan o'r wlad hon.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD.] Mae rhan fawr o'r wlad eang hon yn wastadedd uchel, a mynyddoedd Tibet ar y tu de a thrum Altai ar y tu gogledd megys yn ategion iddo. Hwn yw y gwastadedd mwyaf ar y ddaear: mae rhai trumau yn myned ar ei draws, ac ynddo mae anial-leoedd Cobi a Shamo. Yn nherfynau gorllewin y wlad hon mae mynyddoedd Belur Tag, neu y mynyddoedd cymylog, y rhai ydynt yn dosbarthu ymerodraeth China oddiwrth Balk a Bucharia fawr, a Chalmuciaid China oddiwrth Kirgusiaid Tartari anymddibynol.

HIN A THYMHORAU.] Mae uchder y wlad hon yn peri iddi fod yn llawer oerach na'r gwledydd sy tan yr un hingylch. Bydd rhew yn gaenen ar ei llynau ganol haf, oddiwrth fod gwynt gogledd ddwyrain yn chwythu trosdi agos yn wastadol. Mae hinsoddau y broydd deheuol yn fwy llariedd, ac mae yno goed, grawn, &c. yn tyfu yn lled doreithiol.

AFONYDD. LLYNAU.] Afon Amur ydyw y fwyaf: geilw y Tartariaid hon afon Segalien, oddiwrth ei bod yn ymuno â'r môr ar gyfer ynys o'r un enw, Gelwir hi hefyd yn agos i'w blaenau Kerlon, ac ychydig yn is Argoon: ei hyd sy 1,800 milltir. Y lleill ydynt y Songari, y Nonni, yr Yarkand, a'r Ili, yr hon sydd yn ymarllwys i lyn Balkash.

Mae amryw lynau yn y wlad hon, ac yn eu plith mae un o enw Balkash neu Tengish, ac arall o enw Zaizan, y rhai bob un ydynt o ddeutu 150 milltir o hyd; hefyd llyn Koko-nor neu y glaslyn, yr hwn sydd yn rhoddi enw i lwyth o Darturiaid Mogul.

MWNGLODDIAU.] Dywedir bod aur yn amryw o fynyddoedd Tartari: tin hefyd sydd ehelaeth yn y parthau o honi sydd yn terfynu ar Tibet. Mae ansawdd y wlad hon yn dra anhysbys i Ewropiaid, felly ychydig a wyddis am ei mwngloddiau.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.....Moesau ac arferion.....Llywodraeth....Crefydd....Iaith.*
*Trefnidiaeth.....Dinasoedd a threfydd....Anifeiliaid.*

ANHAWDD ydyw amgyffred rhifedi trigolion gwlad mor ddyeithr i Ewropiaid â Thartari. Mae y Mandshuriaid ac y Coreaid yn cael eu cyfrif yn lliosog, ac felly yr oedd y Calmuciaid cyn y rhyfeloedd distrywgar fu rhyngddynt â China yn 1720 a 1757. Y cyfrif y ddyry haneswyr yn gyffredinol arnynt oll ydyw o ddeutu 6,000,000.

MOESAU AC ARFERION.] Tartariaid Mogul ydynt ddynion byr a chryfion o gorffolaeth: eu gwynebau sy lydan, trwynau-crwm, llygaid bychain gwyrog, gweflau tewion, clustiau mawr yn ysgwydde allan, gwallt du, ac eu lliw sy wineu-goch. Ond er nad ydyw eu gosgedd yn hardd maent o gynheddfau hynaws y naill tu ag at y llall, ac yn dra chroesawgar i ddyeithraid a ddigwyddo ddyfod i'w plith. Gwisgoedd y meibion a'r merched ydynt led debyg: penguwch melyn am y pen, llodrau llydain, ac arwisg gôch gwta gan y meibion, a llaes gan y merched, ydynt y gwisgoedd gwladol.

Crwydraid yn pabellu yma a thraw ar hyd y wlad ydyw y Tartariaid, ac yn newid eu sefyllfaoedd yn ol ardymherau yr hin, ac yn ol ansawdd yr ymborth a'r porfeydd a fyddo iddynt hwy a'u dïadelloedd. Y parthau gogleddol ydynt eu hanneddau haf, ac yr ardaloedd deheuol y gauaf. Nid ydynt yn trin eu tir, nag yn adeiladu tai, ond yn ymfoddloni mewn bywoliaeth grwydrol trwy ystod eu hoes. Llaeth agos yn unig yw eu hymborth haf, yr hwn a arferent yn ddiwahaniaeth oddiwrth y fuwch, y gaseg, y ddafad, yr afr, ac y camel; ond cig a milet* ydyw yr ymborth gauaf. Mae ganddynt nôd ar yr anifeiliaid a ollyngont ar hyd y diffaethfaoedd ëang ddechreu haf, fal yr adnabyddont hwynt amser rhwymo ddechreu y gauaf. Pan nesäo y tymhor hwn, cais y Tartariad ei farch, a dyry mewn cŵd 6 neu 7 pwys o milet wedi ei falu, yr hyn sy ddigon iddo am ugain niwrnod o leiaf, ac yna cychwyn i olrhain y diffaethfaoedd am danynt; ac ni phalla annog ei anifail buan yn mlaen yn feunyddiol o godiad haul, hyd yr hwyr, pan y disgyn i fwyta ei flawd, llyffetheirio ei farch, a chysgu ar wyneb y maes hyd y wawr-ddydd, i gael adnewyddu ei rym i anturio yn mlaen drannoeth. Yn ei daith mae'n dál sylw manwl ar y dïadelloedd a â heibio iddynt, a dyry eu hanes i chwilwyr ereill, y rhai fe allai a roddent hanes y da a gais iddo yntau.

Mae y llywodraeth yn caniatau i'r Tartariaid briodi y rhif a allent gadw o wragedd, ond un sydd yn gyffredinol gan yr holl lwythi crwydrol o honynt. Llosgant gyrff eu tywysogion a'u hoffeiriaid, a chladant eu lludw i uchel-fanau i'w gladdu; ond cyrff y werin yn gyffredin ydynt yn cael eu bwrw i'r maes yn ymborth i fwystfilod rheibus.

Hen bobl ydynt yn cael eu harwain gan eu plant neu unrhyw geraint i annedd anghysbell yn yr anialwch, a'u gadael yno hyd oni ddelo y bwystfil rheibus i'w difa; ac felly y gwneir â'r rhai a fyddo a chlwyf anfeddyginiaethol arnynt, gan farnu bod y cyfryw arweddiad o'u symud i well byd, yn fwy dynol na'u gadael i boenydio yn anobeithiol o wellhad mewn byd drwg. Ond mae y Tartariaid deheuol-

* Had math o feillion: crybwyllir am danynt yn *Esec.* iv. 9.

yn arddangos y parch mwyaf i'w hynafiaid, ac felly yr oeddynt yn y cynamseroedd: pan oresgynodd Darius brenin Persia gyd a'i holl fyddinoedd eu broydd, yn lle ei wynebu, ciliasant o rådd i rådd yn ol, fal y gorfu ar Darius o'r diwedd ddanfon cenadydd i orchymyn iddynt adrodd pa le y terfynent eu henciliad; a pha bryd y dechreuent yr ymladdfa. Yr ateb oedd, "Gan nad oedd ganddynt na dinasoedd na meusydd llafur i'w hamddiffyn ag arfau rhyfel, nad oedd rhaid iddo gyd a'i fyddin liosog ond eu dilyn hyd at feddrodau eu hynafiaid, ac y cafai yno ddeall y dull oedd ganddynt o wrthsefyll rhuthr unrhyw elynion ar eu gwlad.

Tartariaid Mandshur ydynt mewn arferion yn tebygu i'r lleill, ond bod ganddynt hwy rai trefydd yn eu hardaloedd, gwedi eu hadeiladu yn ol eu goruchafiaeth ar China.

Yr oedd pob gallu llawn-rhwysg yn ymerawdwyr y wlad hon cyn eu goruchafiaeth ar China: galwent eu hunain yn arglwyddi yr holl ddaear, ac wedi pob pryd, parant floeddio ag udgyrn yn arwydd o'u caniatâd i frenhinoedd ereill y ddaear i fwyta, &c.* Y pryd hwn tywysogion o ddewisiad yr ymerawdr sydd yn ei rheoli, ond nis gallant ddyfarnu dyn i farwolaeth am unrhyw drosedd a wnelo: y llŷs cyfiawnder yn Pekin yn unig sydd yn meddu yr awdurdod yn y cyfryw achos. *Khans* y gelwir y swyddogion sydd yn rheoli y Tartariaid crwydrol: dyry y rhai hyn gyfrif o'u goruchwyliaeth i ymerawdr China, ac nid i unrhyw o'r tywysogion sydd yn rheoli Tartari.

Crefydd.] Shamaniaeth ydyw y grefydd sydd arferedig yn Tartari, ac agos yn yr holl wledydd sydd yn terfynu arni: hyny yw addef crêd i Greawdr y nefoedd a'r ddaear, yr hwn (meddant) sydd yn rheoli y bydoedd trwy oruchwyliaeth rhifedi lliosog o is-ysprydion galluog. Arferai y Kalkasiaid addef crêd i yspryd ymgorfforedig a alwent Lama, ac felly y Calmuciaid, fal y soniwyd yn hanes Russia.

Iaith.] Mae tair iaith amrywiol yn arferedig yn y wlad hon, sef gan y Mandshuriaid, Moguliaid, a'r Tartariaid. Y gyntaf ydyw y fwyaf soniarus a chynnwysfawr; dywedir ei bod nid yn unig yn gwahaniaethu rhywogaethau creaduriaid, &c. ond ei bod mewn gair yn dangos pa un a'i hen a'u ieuanc, gwyllt a'i gwâr, drwg neu dda, a fyddo unrhyw greadur, &c. Ysgrifenir yr iaith hon â nodau tebyg i ddull y Chineaid.

Trefnidiaeth.] Perlau a geffir yn yr afonydd sydd yn ymuno a'r Amur, anifeiliaid, a phan-flew, ydynt y prif ddaöedd cyfnewid: danfonir hwynt o'r wlad hon gyd a'r trefnidwyr sydd yn myned trwy Tartari rhwng China a Russia yn gyfnewid am frethynau, sidanau, &c.

Dinasoedd a threfydd.] Chin-yang y gelwir prif ddinas Tartariaid Mandshur: mae hon yn sefyll ar wastadedd uchel, ac yn 8 neu 9 milltir o amgylchiad. Mae ynddi lŷs ymherodrol, a rhai adeiladau mwy hynod mewn maintioli na gwychder.

Kirin, sy dref fechan o fewn ychydig filltiroedd i'r Hall: ynddi mae prif swyddog y Mandshuriaid yn cartrefu. Ningouta, tref y preswyliai y teulu breninol gynt, sydd â rhagfur o goed o'i hamgylch, ond nid yw ei hadeiladau o werth sylw.

Am y Moguliaid nid oes ganddynt fal y soniwyd na thrêf na llan: ond yn y wlad a elwir Bucharia fechan a ddarostyngwyd gan y Chi-

* Heylin's Cosmography, second book, p. 180.

neaid yn 1759, mae tref fechan led hardd a elwir Cashgar; hefyd un arall o enw Yarkand ar afon o'r un enw; a phentref o enw Turfan, hynod gynt am fod yn farchnad-le i drefnidwyr o China a Persia ymgyfarfod.

ANIFEILIAID.] Meirch ac asynod gwylltion ydynt y creaduriaid lliosocaf yn Tartari, ond mae gwartheg, defaid, camelod, &c. yn dra aml ynddi. Y creadur a eilw Linnœus *bos gruniens* neu yr ych rhochus, ag sydd yn cyfanneddu Tartari a Tibet sydd â chynffon lathraidd hir ganddo o liw disglaer ac o deimlad sidanaidd, ac o werth mawr gan y Chineaid i harddu eu capenau, a chan y Twrciaid yn eu banierau rhyfel.

## DOSBARTH III.

*Hanes Tartari ddwyreiniol.*

MOGULIAID y gelwid gynt yr amrywiol lwythi oeddynt yn cyfanneddu y wlad hon, a thra arswydus oeddynt yn eu rhuthrau ar y gwledydd oedd yn terfynu ar eu hardaloedd. Yn y 13 ganrif aethont dan eu peniaeth Zinghis Khan i Indostan, ac oddiyno i Siberia, a dygasant holl barthau gogleddol Asia tan eu meddiant: yna goresgynasant China fal y soniwyd, yr hon a fu yn eu meddiant am gân mlynedd llawn, pan yr ysgydwodd y Chineaid yr iau oddiarnynt, gan yru y Tartariaid ar ffô, ac ail feddiannu y goron, 1368. Y ffoaduriaid hyn gwedi cyrhaedd hen gartrefi eu hynafiaid, a ddaethant mewn ychydig flynyddoedd yn genedl grêf; ac ereill o honynt gwedi ffoi i lenydd y môr dwyreiniol, ag ydynt adnabyddus wrth yr enw Mandshuriaid, drachefn yn ymgorffoli â hwy, a ad-ddechreuasant ddyfod yn ormes ar China, ac ni buont lonydd hyd 1644, pan y llwyr oresgynasant y wlad, a meddiannu y deyrngadair, fal y crywyllwyd yn hanes China.

# *RHAN III.*

# YMERODRAETH CHINA.

## TIBET.

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Mynyddoedd....Hin a thymhorau....Afonydd...Llynau...Mwngloddiau.*

MAE y rhan hon o ymerodraeth China yn gorwedd rhwng hydred 75° a 101° yn ddwyreiniol a rhwng lledred 27° a 35° yn ogleddol; yn 1,500 milltir o hyd a 500 o led, ac yn cynnwys 385,300, o filltiroedd arwynebol. Cylchynir hi ar y tu gogledd a gogledd orllewin gan anialwch Cobi yn Tartari; ar y tu dwyrain gan China, ar y tu de gan Assam, ac ymerodraeth Birmah, ac ar y tu de orllewin a gorllewin gan Indostan.

RHANIADAU.] Mae y wlad hon yn dair dosbarth, sef yr uchaf, y ganol, a'r isaf: gelwir yr uchaf Nagari, ac mae ynddi dair talaeth o

enw Sangkar, Pourang, a Tamo. Taleithiau y ganol ydynt Sirang, Ou, a Kiang; ac ad-raniadau y parth isaf ydynt Congbo, Kohang, a Takbo neu Bootan. Nid yw y taleithiau sydd i'r gorllewin o Bootan, ac i'r gogledd o Indostan sef Morung, Macampour, Gorka, a Kemaoon i'w cyfrif yn rhan o Tibet; ac mae Bootan gan rai yn cael ei chyfrif yn wlad anymddibynol.

Gwyneb y wlad. Mynyddoedd.] Gwlad fynyddig yw Tibet, heb ynddi fawr o dir gwastad hyd oni ddeuir i'w pharthau deheuol: mae iâ oesol yn toi ei therfynau clogwynog gogleddol, a braidd y meddylid wrth fwrw golwg ar y rhan fwyaf o honi ei bod yn annedd addas i drigolion gyfanneddu ynddi. Yn y wlad hon mae y drum fynyddig a elwir Kentaisse, hynod am fod blaenau y Ganga ynddi. Ar du de y wlad mae y mynyddoedd serth a elwir Kimala

Hin a thymhorau.] Gwlad oer ei hinsoddau yw Tibet, oddiwrth fod ei hamrywiol fynyddoedd tan iâ agos trwy y flwyddyn. Rhaid i'r trigolion er gochel gerwindeb yr oerni gyfanneddu y nentydd isaf neu ar lethrau deheuol y mynyddoedd. Mae Bootan agos mor fynyddig, ond mae ei hagosrwydd i'r de yn peri ei hinsoddau fod yn fwy hyfryd, oddigerth yn y dyddiau cyhydeddol, pan y bydd trym-wyntoedd a gwlawogydd yn disgyn arni.

Afonydd.] Prif afonydd Tibet ydynt y Sampoo neu Burrampooter, yr hon a grybwyllwyd am dani eisus yn hanes Indostan. Yn mynyddoedd Tibet hefyd mae blaenau y Ganga; ac o honynt mae afonydd mawrion China a elwir Hoan-ho a Kian-ku yn cychwyn eu taith. Oddiyma mae afon Cambodia, Nou Kia, ac yr Irrawady yn dechreu eu llifiant. Afon Gagra sydd gwedi 600 milltir o daith o fynyddoedd Tibet yn ymuno â'r Ganga ar gyfer Chupra.

Llynau.] Peth cyffredin ydyw bod llynau yn mhob gwlad fynyddig, ac felly mae belaethrwydd o honynt yn y wlad hon, ond bod eu hansawdd yn anhysbys. Y mwyaf a wyddis am dano ydyw llyn Terkiri, yr hwn sydd o ddeutu 80 milltir o hyd a 25 o led; ac yr hynotaf ydyw llyn Jamdro, yr hwn sy megys ffôs 6 milltir o led yn cylchynu ynys o ddeutu 100 milltir o amgylchiad. Mae y rhai hyn yn heigio pysgod, ac mae amrywiol adar dwfr yn cyfanneddu eu glenydd clogwynog: byddant yn nghlo gan rew trwy ystod pob gauaf.

Mwngloddiau.] Ychydig a wyddid am y wlad hon cyn taith Turner trwyddi yn 1783. Dyry ef hanes bod haiarn a pheth efydd mewn amryw fanau o Bootan, yn cael eu gweithio yn rheolaidd; ac fod cyflawnder o fwnau yn Tibet, ond bod prinder tanwydd yn rhwystro eu trin. Dywedir bod yn ngwaelodion dyfnaf llyn Jamdro geryg halen, ac mewn rhanau ereill o hano y mŵn a elwir tincal neu boras.

## DOSBARTH II.

*Trigolion....Moesau ac arferion....Llywodraeth..Crefydd..Iaith..Trefnidiaeth..Dinasoedd a threfydd..Anifeiliaid.*

Nid oes unrhyw amcan ar gyfrifiad y trigolion sydd yn cyfanneddu y wlad hon, ond gan ei bod yn fynyddig, a'i hinsoddau yn dra oer hyd yn nôd tan y 27 o raddau lledred, (mynyddoedd yn effeithio mwy ar yr hin na thraian hingylchoedd) mae y trigolion yn deneu. Yr oedd hyn yn eglur yn ngwaith yr Elutiaid yn cael y goruchafiaeth rhwydd a gawsant ar y wlad hon yn nechreu y ganrif ddiweddaf.

Moesau ac arferion.] Trigolion Bootan a Thibet yn gyffredinol ydynt gryfach o gorffolaeth, ac o well lliw na'u cymydogion o Indostan. Mae dynoliaeth a thuedd hynaws ac addfwyn, medd Turner, megys o reddf yn blanedig ynddynt: ac nid yw eu mawrion yn ymffrostgar, nag y werin ychwaith yn anfoesol o fuchedd. Mae yma arferiad nad oes ei chyffelyb yn unrhyw o wledydd y dwyrain, sef bod cyflawn ryddid i fenyw brïodi boll frodyr ei gwr o ba oedran bynag, ar yr un dydd ag y prïodo hi ynteu, ac yna i fod yn wraig gyfreithlon i'r naill a'r llall o honynt hyd oni wahano angau: y rhïeni sydd yn gwneyd y cydundeb prïodasol, a thridiau o wledd a dawns sydd yn cyflawni y gorchwyl. A chan fod offeiriaid Tibet yn gorfod gochel bod tan yr un tô a merched, nid oes ganddynt law yn y gorchwyl. Cydsynied y pleidiau ydyw y rhwymiad anatodol sydd arnynt.

Mae y Tibetiaid yn dodi cyrff eu meirw ar wyneb llannerchau caerog, y rhai ydynt yn agored oddifynu i adar ysglyfaethus ddyfod yno i'w difa; ac y mae hefyd dyllau yma ac acw yn ngwaelod y gaer i fwystfilod rheibus fyned yno i gyd-ysglyfaethu. Dewis rhai yn hytrach na'r draul o'u dodi yn y llannerch eu cludo i gwm neu lethr mynydd, ac yno dad-gymalu y corff a'i ddryllio, fal y byddai mwy o rwyddineb i'w ysglyfu gan yr aderyn neu y bwystfil cyntaf a ddelai ato. Mae corff pob Lama yn cael ei ddodi mewn creirgell i'w ymweled ar yr uchel wyliau gyd â symlrwydd difrifol. Cyrff yr offeiriaid ydynt yn cael eu llosgi, ond dodir eu lludw yn ofalus mewn delwau pridd bychain i'w cadw yn yr eglwysi yn arferent weinyddu ynddynt.

Llywodraeth. Crefydd.] Y Lama oedd yma yn rheoli gwlad ag eglwys cyn uno Tibet at China. *Tipa* y gelwid y prif beniaeth, yr hwn mewn rhwysg wladol oedd yn nesaf mewn brî ato: mae swydd hwn weithian gwedi ei throsglwyddo i'rymerawdr, yr hwn befyd sydd ganddo y parch mwyaf i'r Lama, ac yn credu fal y Tibetiaid yn ei rwysg ysprydol, a'i deilyngdod i oruwch-lywio achosion eglwysig. Pan fyddo marw Lama, y grêd gyffredinol ydyw bod ei enaid yn ailfeddiannu corff ieuanc, yr hwn a bigir allan o fechgyn y deyrnas i'r perwyl gan brif offeiriaid y Lama, y rhai yn unig ydynt yn adnabod y nodau addas sy raid fod ar y sawl a fyddo i lenwi y swydd oruchel. Plentyn llwydd a hanner oed oedd y prif Lama yn 1774: cafodd Turner, ymdeithydd o Loegr oedd yn Tibet y fraint o fyned i'w wyddfod: yr oedd gwedi ei osod ar orsedd wych, a'i rïeni yn sefyll ar y tu de, a phrif weinidog y deyrnas ar y tu aswy iddo. Ac er na fedrai sïarad, eto ymddangosai i'r dyeithraid fal pe gwyddai rywfaint am y bonedd a berthynai i'w sefyllfa oruchel.

Mae dau Lama yn cael eu haddoli gan drigolion Tibet a Bootan: y blaenaf ydynt yn addef cred i Dalai Lama, ac yn gwisgo arwisg felan, a chapau o'r un lliw yn arwydd o hyny; ac y lleill ydynt ddeiliaid i Teeshoo Lama, ac yn gwisgo dillad côch. Mae yn perthyn i'r enwau hyn fynachdai a lleiandai, y rhai ydynt yn llawn o rai gwedi ymroddi o dreulio gweddill eu hoes yn grefyddol.

Er nad yw crefydd y Tibetiaid o'r un egwyddorion a chrefydd y Bengaliaid, eto maent yn ymhoffi o fyned ar bererindod i Jugernaut a lleoedd cyhoedd crefyddol ereill: maent hefyd o'r un farn am sancteiddrwydd y Ganga, dyfroedd yr hon a gludant tros ddiffaethfäoedd eang a mynyddoedd uchel i iachau eu cleifion, &c. Yn eu capeli gorbynciant yn uchel y naill ran o'r dorf bob yn ail a'r llall, yn lled gyff-

elyb i'r arferiad y sydd yn ngweinyddiad yr offeren yn nhai addoliad y pabyddiaid.*

Iaith.] Dywed Turner bod cryn wahaniaeth rhwng iaith y Tibetiaid ag iaith y Moguliaid. Mae y dull yr ysgrifenir hi yn lled debyg i'r Sangscrit, ond y dodir yr arwydd-nodau o aswy i dde, yr hyn sydd wrthwyneb i ddull cyffredin y gwledydd dwyreiniol o ysgrifenu.

Trefnidiaeth.] Prif ddaöedd Tibet ydynt y lleni gwych a elwir *Shawls*, y rhai a wneir o flew iselaf y geifr; brethynau, mŵsg, crwyn, llwch aur, a meini gwerthfawr; hefyd halen, borax, &c. y rhai a gyfnewidiant am ddaöedd o China, yn dê, &c. ar un tu; ac â Nepaul, hyd yn ddiweddar am gotwm, rice, a bathodynau efydd ar y tu arall. Mynai Warren Hastings, gynt llywydd Bengal, arfer pob moddion o gael cyfeillgarwch prif Lama Tibet, i'r dyben o agoryd drws i drefnidiaeth rëolaidd fod rhwng bröydd ëang Prydain yn India â Tibet, ond ni chefnogwyd ef yn ei gais, gan nad oedd arwydd y byddai unrhyw lwyddiant ar y gorchwyl o lŷs China.

Dinasoedd a threfydd.] Lassa, y brif ddinas, sydd yn sefyll ar wastadedd uchel: yr adeiladau ydynt o geryg, ond yn annrhefnus o wneuthuriaid. O ddeutu 7 milltir oddiwrthi ar fynydd Putala, mae llŷs gwych y prif Lama yn sefyll arno.

Teeshoo Loomboo, trigfan Lama arall, sy ddinas yn cynnwys 3 neu 4 cant o dai, ac yn cael eu cyfanneddu agos oll gan fynachod a elwir yno *gylongs*: mae hon yn sefyll mewn nant ddofn, a mynydd traserth yn derfyn gogleddol iddi.

Y mân bentrefi sydd yn Tibet ydynt â golwg dystadl arnynt: ni allai Turner eu cyffelybu onid i swrn o odynau priddfeini isel: maent o adeiladaeth mor wael a bod ychydig ruthr o dymhestl-wynt weithiau yn gwneyd pentrefi cyfan yn llawr gwastad. Mae y pentrefigion hyn yn dra ofergoelus: gofalant yn mhob pentref o osod pawl ar nen eu tai, a llinyn gwedi rhwymo bratiau, neu bapurau wrtho fal cynffon barcud gwynt, ac yn cyrhaedd o'r naill dy i'r llall, yn swyn rhag ellyllon, a dïau bod y cyfryw arferiad yn ateb cystal dyben â hoelio pedol ar riniog, gosod cryman ar y nenbren, neu fwrw gwellt ar draws llwybr dewines, ac ereill arferion paganaidd y sydd ysywaeth mewn rhai gwledydd Cristionogol.

Anifeiliaid.] Mae meirch, gwartheg, a defaid Tibet o lai maint na rhai Ewrop, ac mae adar ysglyfus ag ereill yn dra lliosog ynddi. Y mae y carw a elwir y mŵsg, ac sydd o faint mochyn canolig yn cyfanneddu Tibet: o dan ei fol ac yn agos i'w fogail mae'n tyfu y goden fechan sydd yn cynnwys ynddi y mŵsg, yr hwn o liw sydd yn ddu. Nid oes hela ar y creadur hwn, ond trwy ganiatâd y llywodraeth. Y geifr ydynt a'u cyrn yn sythion, ac y mae eu hir-flew o werth mawr fal y soniwyd i wneyd y lleni Indiaidd drudfawr a gludir i Frydain a lleoedd amrywiol ereill. Yr âb o amryw rywogaethau ydynt yma yn finteioedd, ac yr ych rhochus a grybwyllwyd o'r blaen sydd liosog ynddi.

* Turner, p. 306, 307.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Tibet.*

YCHYDIG a wyddis am ansawdd y wlad hon, gan na oresgynwyd hi yn rheolaidd yn y cynamseroedd gan unrhyw o'r galluoedd a ddaethant yn eu tro yn ormes ar wledydd Asia, oherwydd gerwindeb ei hin, ac oherwydd agwedd anffrwythlon ei gwyneb. Dywed Andrada yr hwn fu ar daith trwy Tibet yn 1624, nad oedd rhwysg y wladwriaeth y pryd hwnw ar unrhyw Lama, ond ar beniaeth o enw Tsang-pa-han, yr hwn oedd yn fwy tueddol i gofleidio Cristionogaeth nag i addef crêd i unrhyw Lama, nag ychwaith i egwyddorion *Fo:* a chan tod deiliaid y ddwy-blaid yn dra gelynol iddo, rhoddes orchymyn i ddïarddel deiliaid *Fo* o'r wlad, ac felly mewn rhan y bu. Y Lama yn ofni cyffelyb arweddiad a wahoddodd yn ddirgelaidd Dartariaid Kokonor i'w amddiffyn, y rhai yn ei chyfrif yn fraint o ufuddhau i'r fath beniaeth ysprydol, a oresgynasant y wlad, a drylliasant fyddinoedd y peniaeth Tsang-pa-han, ac a'u lladdasant yntau. Gwedi hyn rhoddwyd yr holl rwysg wladol ac eglwysig ar y Lama, a dychwelodd y tywysog Tartaraidd yn ol, gan lwyr ymfoddloni ar yr enw *Khan* a dderbyniasai yn wobr am ei orchestwaith. Bu hwn am flynyddau gwedi hyn yn amddiffynwr i'r Lama, ac o'r diwedd unodd ei wlad at Tibet.

Yn 1642, danfonodd y Lama genhadon at Tsongte, tad ymerawdr cyntaf yr hîl freninol sydd y pryd hwn yn rheoli China, i adrodd ei chwennychiad o fod tan ei nawdd, ac ar iddo addaw talu teyrnged, felly y bu. Yn mhen y deng mlynedd gwedi, aeth y Lama ei hunan i Pekin i ymostwng i'r ymerawdr, a chafodd yn wobr roddion anrhydeddus, ac hefyd sicrhâu yr enw Dalai Lama arno.

Yn 1693, rhoddes yr ymerawdr Hang-ti, urdd tywysog i *Tipa,* prif weinidog y Dalai Lama, fal na annogai ei arglwydd i fwrw iau China oddiar Tibet: ond er yr anrhydedd annog a wnaeth, ac yn fradychus adroddodd yn ddirgelaidd gynlluniau yr ymerawdr i Kildan peniaeth y Elutiaid, yr hwn oedd elyn gwastadol i Dartariaid Mandshur, ac yn chwennych cael rhyw gynnorthwy i ormesu ar eu hardaloedd. Gwedi hyn bu farw y Lama, ac o ddisgwyl i'r Elutiaid ymosod ar fröydd y Mandshuriaid, celodd hyny oddiwrth y llŷs, &c O'r diwedd daeth y pethau hyn i'r golwg, ac yn 1705, rhuthrodd Lats-khan peniaeth Tartariaid Kokonor arno, ac a'i lladdodd. Yr ymerawdr yn canmol y gorchwyl, a ddanfonodd rai o fawrion y llŷs i gydrëoli gyd â Lats-khan, ac yn mhen rhai blynyddau, enwodd Dalai Lama newydd, yr hwn oedd y chweched a reolasai wrth y cyfryw enw.

Yn 1714, daeth lluoedd o Elutiaid yn ormes ar Tibet: lladdasant y tywysog Tartaraidd oedd yn amddiffyn y Lama; cludasant hefyd o'r mynachdai, aur, arian, meini gwerthfawr, a'r cyffelyb, gan ladd yn ddigyfrwng y llen a'r llug a gyfarfyddent. Y newydd yn cyrhaedd China, daeth lluoedd cedeirn oddiyno, a gwedi rhai brwydrau trychinebus, dëolwyd yr Elutiaid agos oll o'r wlad, a gosodwyd y Lama eilwaith ar yr orsedd.

Er 1759, pan y llwyr ddïarddelwyd yr Elutiaid o Tibet gan luoedd yr ymerawdr Chen-lung, nid oedd gan y Tibetiaid achos i'w hofni mwy. Ond yn 1792, daeth lluoedd ereill o wlad Nepaul, yr hon sy ran o India ddwyreiniol, ac yn terfynu ar Tibet i mewn iddi, gan ladd

a lladrata yn eu harfod fal y lleill. Ar hyn danfonodd ymerawdr China luoedd eilwaith i amddiffyn y Lama, a'r terfyn gwedi rhai brwydrau goruchafiaethus fu dwyn gwlad Nepaul yn deyrngedawl i China, ac i'r Chineaid ar yr un pryd adeiladu gorsafoedd milwraidd ar y cyffiniau, i rwystro i unrhyw gyfrinach mwy fod rhwng y wlad honno â Bengal, nag ag unrhyw ereill o'r gwledydd y sydd yn terfynu arni.

# TARTARI ANYMDDIBYNOL.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Mynyddoedd.. Afonydd.. Llynau.. Mwngloddiau.. Hynafiaethau.*

TARTARI anymddibynol sydd yn gorwedd rhwng lledred 31° a 52° yn ogleddol, a rhwng hydred 55° a 70° yn ddwyreiniol, yn 1,500 milltir o hyd, a 850 o led; ac yn llawn 500,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir hi ar y tu dwyrain gan fynyddoedd Belur, y rhai ydynt yn gwahanu y rhan hon o Dartari oddiwrth Bucharia fechan; ar y tu de gan fynyddoedd Gaur, y terfyn rhyngddi â Phersia, ac â thaleithiau Candahar a Cabul yn Indostan; ar y tu gorllewin gan fôr Casbin, afon Yaik, a mynyddoedd Uralia; ac ar y tu gogledd gan Russia yn Asia.

RHANIADAU.] Mae Tartari anymddibynol yn cynnwys ardaloedd ëang, adnabyddus wrth yr enw sydd ar y llwythi sydd yn eu cyfanneddu, megys Tartariaid Kirgusia, Tartariaid Kharism, a Thartariaid Usbec: yr olaf ydynt yn cyfanneddu Bucharia fawr, yr hon sy gwedi ei rhanu yn daleithiau a elwir Fergana, Sogd, Vash, Kottan, Balk, Gaur a Kilan.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD.] Mae rhai gwastadoedd tra ffrwythlon yn y gyfran hon o'r dwyreinfyd, ac hefyd amryw ddiffaethfaoedd anial ëang, yn cynnwys ynddynt filoedd o ddiadelloedd o gamelod, meirch, gwartheg, defaid, &c. Y prif fynyddoedd ynddi ydynt y rhai a elwir Belur Tag, Argjun, a Gaur.

AFONYDD. LLYNAU.] Y prif afonydd ydynt yr Amu neu Gihoon, gynt *Oxus*, ac y Sir neu Sihoon, gynt *Iaxartes*: y gyntaf sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Belur, a'i harllwysiad gwedi 900 milltir o redfa sydd yn llyn Aral: yr olaf sydd yn codi o'r un mynyddoedd, ac yn syrthio i'r un llyn, gwedi taith o 550 milltir. Mae yr afonydd sydd yn ymgyfeirio o'r llyn i'r môr yn myned dan enwau ereill.

MWNGLODDIAU.] Mae aur, arian, meini gwerthfawr, plwm, efydd, haiarn, a chyfluriau meddygol mewn amryw ranau o'r wlad hon, ond nid oes na medrusrwydd na llafur yn y trigolion i'w cloddio, ac ni oddef y llywodraeth wladol i unrhyw o wledydd ereill i ddyfod at y gorchwyl.

HYNAFIAETHAU.] Bu yn y wlad hon yn nyddiau Zinghis Khan a Tamerlane, ddinasoedd enwog mewn maintioli a gwychder, ond nid oes weithiau ond eu carneddi i'w canfod. Cloddiwyd yn ddiweddar

i rai o honynt a chafwyd amryw fathodynau o aur ac arian, yn nghyd ag ysgrif lyfrau, y rhai ydynt y pryd hwn yn Petersburgh. Cafwyd yn 1720 yn Tartari Usbec, gell fawr mewn craig is-lawr, ac ynddi ddelwau, lampau, modrwyau, a rhôl ysgrif yn iaith Tibet, yr hon a roddwyd gan Pedr I o Russia i gymdeithas ddysgedig yn Paris.

## DOSBARTH II.

*Trigolion...Moesau ac arferion...Llywodraeth. Crefydd...Iaith. Dysgeidiaeth..Trefnidiaeth..Dinasoedd a threfydd..Anifeiliaid.*

MAE amryw genhedloedd yn cyfanneddu Tartari anymddibynol fal y crybwyllwyd, ond nid ydis yn hysbys o'u rhifedi.

MOESAU AC ARFERION.] Y Kirgusiaid y rhai ydynt yn preswylio gogledd-barthau y wlad, ydynt grwydraid yn ymarweddu yn lled debyg i'r dysgrifiad a roddir am Dartariaid Mogul: maent yn dri llwyth gwahanol, a Khan yn ben ar bob un o honynt. Maent yn dra chyflym yn y gorchwyl o ddatod a gosod eu pebyll, yr hyn orchwyl sy raid iddynt fod wrtho yn fynych, yn ol angen eu diadelloedd lliosog: dywedir bod gan rai o honynt ddïadelloedd yn cynnwys rhai miloedd o feirch, gwartheg, defaid, a geifr; gyd â rhif mawr o gamelod, y rhai ydynt yn cyfanneddu y diffaethfaöedd anial yr haf, ond mewn lle cauedig yn agos i bebyll eu perchenogion y gauaf. Mae y trigolion hyn fal y lleill yn adnabyddus wrth eu trwynau crwm, llygaid bychain, a golwg llym, ond nid yn sarug: marchwriaeth ydyw eu prif bleser, ac y maent yn dra chyfarwydd yn y gelfyddyd o ddal y meirch gwyllt-ion. Wrth hela y rhai hyn, bydd gan yr heliwr bolyn hir a rhaff fain gref yn ddolen ar un pen iddo, a phan welo geffyl ieuanc a'i boddiai, dechreua ei ymlid er gwaethaf y castiau diofal a arddengys, ac ni laesa ddwylaw hyd oni ddêl yn ddigon agos i estyn y polyn i'r ddolen fyned am ei ben, ac yna terfyna ei yrfa, a chymer feddiant o'i garcharor. Mae y Tartariaid hyn, yn wŷr, gwragedd a phlant yn chwiffio tobacco o'u mebyd, ac y rhan fwyaf o honynt yn arfer y trewlwch. Mae gan y cyfoethocaf o honynt restr o wyr meirch o'u hamgylch yn wastadol wrth hela, ac y mae rhifres o bebyll o gylch eu bŵth yn cynnwys eu gwragedd, a'u plant, ac hefyd eu caethion.

Tartariaid Usbec, y rhai ydynt yn preswylio y parthau deheuol, ydynt o ran agwedd corfforol a moesau yn gyffredinol yn tebygu i'r lleill, ond y maent yn fwy bywiog a diwyd, oddiwrth yr arferiad barhaus sy ganddynt o oresgyn ardaloedd eu cymydogion y Persiaid: dywedir bod y gwragedd weithiau yn dilyn eu gwyr i faes y gwaed, ac yn ymladd yn llawn mor wrol. Tartariaid Balk ydynt y rhai mwyaf gwaraidd; ond Tartariaid Bucharia ydynt y tecaf o bryd a gwedd, a mwyaf diniwed o'r cyfan ereill.

LLYWODRAETH CREFYDD] Tywysogion llawn-rhwysg o enw Khans sydd yn llywodraethu y Kirgusiaid; a Khan Samarcand yn ngogledd-barth Bucharia fawr, a Khan Balk yn y deheu-barth, ydynt y ddau benaf sydd yn rhëoli y rhanau hyny o'r wlad.

Mae cryn lawer o Dartariaid yn addef crêd i Fahometaniaeth yn ol egwyddorion *Sunnis*, ond y parth mwyaf ydynt eulun-addolwyr yn addoli Fo neu Boodd Indostan. Gwisgant delpynau o dduwiau teuluol â sidanau gwych a'r cyffelyb, pan fyddo llwyddiant ar eu dâ; ond pan fy-

ddo aflwydd yn digwydd, diosgant hwynt o'u holl wychder, a bwriant hwynt i'r dom gan eu gadael yno hyd onid elo eu cynddaredd heibio.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Ychydig o wahaniaeth sy rhwng iaith y rhan hon o Dartari â'r llall: eithr am ddysgeidiaeth mae'n hysbys ei bod yn enwog yn nyddiau Zinghis Khan a Tamerlane. Yr oedd y tywysogion hyny yn annog dysgedigion dyeithrol i breswylio yn eu haidaloedd, ac y mae yno hyd heddyw amryw ysgrif-lyfrau Arabaeg a Phersiaeg o'u gwaith. Mae Samarcand er ys oesoedd yn hynod am fod yn un o orsafoedd dysgeidiaeth y dwyrein-fyd, ac yn ddiweddar mae ynddi ysgolion i barotoi offeiriaid Mahometanaidd i weinyddu y mosque.

TREFNIDIAETH.] Mae y Kirgusiaid yn cyfnewid eu daoedd, sef meirch, gwartheg, a defaid â'r Russiaid am ddodrefn a gwisgoedd; ac y Buchariaid ydynt yn trefnidio â Phersia, Tibet, China, a Russia: rhoddir i'r Buchariaid beiriannau rhyfel yn mhlith y pethau cyfnewid, ond ni oddefir i'r lleill gael unrhyw, gan y duedd sydd ynddynt o ormesu yn barhaus ar eu cymydogion.

DINASOEDD A THREFYDD.] SAMARCAND, y brif ddinas sydd yn sefyll ar lenydd deheuol afon Sogd: mae caer wrthyn, rhan o geryg a rhan o bridd yn ei chylchynu: y prif adeiladau ynddi ydynt o geryg, ond y lleill yn gyffredin ydynt a'u muriau o glai caled. Mae ei chastell y pryd hwn yn adfeiliedig: hon gynt oedd gorsaf ymerodraeth fawr Tamerlane. Bockhara, sy hefyd ar lenydd y Sogd: yr oedd hon yn y ganrif olaf yn ddinas flodeuog, a chaer debyg i gaer Samarcand o'i hamgylch. Mae Khan yn preswylio llŷs gwych yn y ddinas hon. Balk, dinas fawr a phoblog, sydd yn sefyll ar afon Debash: mae hon yn rhagori yn ngwychder ei hadeiladau ar y lleill, yn enwedig yn llŷs y prif beniaeth, yr hwn sydd o farmor gwyn. Mae hon yn gadarn gan fynyddoedd serth ar un tu, a diffaethfaoedd disathr ar y tu arall. Y dinasyddion hyn ydynt y gwareiddiaf o'r holl Dartariaid. Badakshan, yn sefyll ar afon Amu sy dref boblog hardd, a'i chymydogaeth yn gyfoethog o fwngloddiau aur, arian, â meini gwerthfawr.

ANIFEILIAID.] Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng anifeiliaid y wlad hon â Tibet, ond nad ydyw y defaid a'r geifr mor liosog.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Tartari anymddibynol.*

BU Tartari Usbec yn y cynamseroedd yn orsaf ymerodraeth mwy galluog nag ymerodraethau Rhufain a Groeg. Yma y ganwyd Zingis Khan a Tamerlane, y rhai yn eu trô a gludasant iddi gyfoeth India a pharthau ëang ereill o'r dwyrein-fyd.

Gwnaeth y blaenaf o'r ddau dywysog a enwyd yn y flwyddyn 1200, ei hun yn beniaeth ar y rhan hyny o Asia a elwir Siberia, sef Russia yn Asia, a'i fab Batou Sagin yn yr oes ganlynol a ddaeth i feddiant o barth mawr o Russia yn Ewrop, a bu yr ardaloedd hyny yn meddiant y Tartariaid hyd deyrnasiad Ifan III, yr hwn nid yn unig a fwriodd eu iau oddiar Russia, ond a feddiannodd wlad Kasan a pharthau ereill

Dartari, a buant yn ei feddiant hyd yr heddwch a sicrhäodd iddo yr ardaloedd oedd mewn dadl rhwng y pleidiau.

Crybwyllwyd yn hanes Twrci am enwogrwydd Tamerlane, yr hwn a ddrylliodd fyddin fawr o Dwrciaid, a chymeryd ei blaenor, sef y sultan Bajazet yn garcharor. Mae enw Tamerlane mor ardderchog yn mhlith cenhedloedd y dwyrain, a bod Khans Tartari, ymerawdwyr Indostan, ac ereill dywysogion Mahometanaidd, yn ymogoneddu o'u bod yn deillio o hono.

Pan y daeth terfyn ar ymerodraeth ëang Zinghis Khan yn yr 16 ganrif, ymranodd y Moguliaid a'r Tartariaid, y rhai oeddynt hyd yn hyn yn llunio un ymerodraeth, i ddwy genedl wahanol.

# JAPAN.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli.. Gwyneb y wlad. Mynyddoedd.. Hin a thymhorau.. Afonydd. Llynau.*

YMERODRAETH Japan sydd yn gynnwysedig o dair o ynysoedd mawrion, a lliaws o rai mân, y rhai ydynt yn sefyll o ddeutu 150 milltir i'r dwyrain o China, rhwng lledred 30° a 41° yn ogleddol, a rhwng hydred 130° a 142° yn ddwyreiniol: geilw y trigolion y fwyaf Niphon, ond y Chineaid a'i geilw Jepuen, o'r hwn a deilliodd yr enw Ewropaidd Japan. Mae hon yn 750 milltir o hyd a 80 o led: y ddwy fwyaf ereill ydynt Kiutui a Sikokff, y flaenaf yn 140 milltir o hyd a 90 o led, ac y llall yn 90 milltir o hyd a 45 o led.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD.] Yr ynysoedd hyn ydynt fynyddig yn gyffredinol, ac nid yw y tir yn gyffredin ond gwael, ond fal ag y mae y trigolion yn ol dulleu cymydogion y Chineaid yn ymroddi o'i wrteithio. Y mynydd uchaf yn Japan ydyw Fusi, yr hwn sydd a chaenen o eira ar ei nen agos yn wastadol. Mae yma hefyd rai moelydd tanllyd yn bwrw defnyddiau toddedig o amseroedd anadnabyddus. Aur ac arian sy hefyd yn helaeth yn ei mwngloddiau, ond ni oddef peniaeth Japan i lawer gael ei gloddio ar unwaith rhag lleihau eu gwerth.

HIN A THYMHORAU.] Mae agosrwydd y wlad hon i'r Cyhydedd yn peri i'w hâf fod yn dra gwresog, ac y mae ei gauaf gan y gogleddwynt parhaus sydd yn chwythu yn peri oerni mwy nag a deimlir o'r braidd yn hingylchoedd Prydain. Y tymhor gwlyb sydd yn dechreu tua gwyl Ifan, ac yna hyd oni orchuddir y maes ag eira, nid oes braidd ddiwrnod heb fellt a tharanau a daear-grynfau dychrynllyd yn digwyddo.

AFONYDD. LLYNAU.] Afonydd Japan ydynt Nogafa, Jedogawa, Ojingawa, Fusigawa, Jedo, ac Oomi, y rhai gan uchder arfordiroedd y wlad, nid ydynt fordwyol i longau nofio arnynt. Y prif lyn yn Japan a elwir Oitz, yr hwn sy 6 neu 7 milltir o hyd, a 2 neu 3 o led.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Crefydd.. Iaith. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.*

GWLAD dra-llawn o drigolion yw Japan, ond nid ydyw eu rhif yn hysbys i ni. Dywed hanesydd enwog o enw Varenius bod heolydd ei dinasoedd a'i phrif ffyrdd yn gyffredin, i'w gweled mor llawn o drigolion â China; os felly ond i ni ystyried Japan yn ddeng ngwaith llai, rhaid bod ynddi o ddeutu 30,000,000 o eneidiau.

MOESAU AC ARFERION.] Dywed ymdeithydd diweddar* am y Japaniaid eu bod yn fywiog a chryfion, a'u bod o liw yn felyn-lwyd. Maent fal y Chineaid yn eillio eu penau, ac yn tebygu mewn agwedd gyffredinol i'r genedl honno. Yr un fath wisg oud o wahanol ddefnydd sy gan fonheddig a gwreng er ys amryw oesoedd yn Japan, sef mantelli teneuon yn cyrhaedd hyd gròth coes y meibion, a hyd fferi y merched, a gwregys yn eu rhwymo am y canol: mae cnotyn ar y gwregys sy gan y merched yn arddangos pa un a'i prïod a'i ammhriod fyddent: os prïod, bydd y cnotyn ar y tu blaen, ond oni byddent mae yn wastadol ar y tu cefn. Mae y genedl hon fal eulun-addolwyr ereill yn dra ofergoelus, ond ar yr un pryd y maent yn ofalus o gadw trefn reolaidd yn eu defodau gwladol ag eglwysig. Pan elo peniaeth y wlad oddiamgylch, ni yngan neb air tra byddo mewn clyw; ac ni ddywed ei warcheidwaid lliosog air y naill wrth y llall trwy ystod y daith. Os bydd i'r peniaeth ameanu gwledda yn nhy pendefig, dyry dair blynedd o rybydd iddo, fal y caffo gyfle teg o arddangos gwychder addas i'w dderbyn, a phan ddarfyddo y wlêdd, er nas gall y peniaeth ymweled a'r lle mwy, gofelir am beidio a symud y banieri gwychder ymaith, eithr eu gadael yn dystiolaeth o'r parch a ddaethai i ran y pendefig.

LLYWODRAETH.] Mae pob gallu rhwysgol yn ymerawdr Japan, ei air yw y gyfraith wladol am fywyd neu dda unrhyw o'i ddeiliaid. Y peniaeth ysprydol a elwir *Dairi* oedd a rhwysg y wladwriaeth arno cyn canol y 16 ganrif: bu y pryd hwnw wrthryfel echrydus am uwchafiaeth y ddau bendefig, ond y *Kubo* a orthrechodd. Mae yma dywysog ar bob talaeth, a rhaid am y flwyddyn y byddo mewn swydd, i'w wraig a'i blant fod megys gwystlon yn y llys ymherodrol, ac wrth ddyfod i roddi ei swydd i fynu, rhaid iddo gludo llawer, o roddion daionus i'w arglwydd.

CREFYDD.] Eulun-addoliaeth gwedi ei dosbarthu yn amryw enwau ydyw y grefydd wladol: mae gan bob un demlau ac offeiriaid penigol, ond y Dairi ydyw y pen ysprydol cyffredin. Mae rhai o'r enwau hyn yn addef crêd i Dduw y duwiau, ac yn ei gynnyrchioli ag eulun anferth o faintioli, a miloedd o fân dduwiau o'i amgylch i ddynodi ei allu. Ereill ydynt yn addoli îs-dduwiau fal cyfryngwyr, trwy ffugio arswydo bod yn rhy hyf. Gorchwyl yr holl offeiriaid ydyw glanhau y temlau, ac addurno y duwiau â blodau; ac ar ewyllys da y werin y sydd yn dyfod i addoli yn unig y maent yn byw.

Pan ddarganfu y Portugiaid yr ynysoedd hyn, hwy a ymroddasant i blannu pabyddiaeth ynddi, a bu llwyddiant ar lafur eu cenhadau, hyd oni ddaeth miloedd i addef crêd i Gristionogaeth yn ol egwyddorion Rhufain. O'r diwedd gan i'r pabyddiaid chwennychu rhwysg yn y

* Thunberg.

wladwriaeth, a dechreu o honynt ysgyrnygu ar y rhai nad oeddynt o'r un farn, dechreuodd dychrynfeydd gwrthryfel ennyn ynddi, a pharhaodd y derfysg hyd oni laddwyd miloedd o'r ddwy-blaid, a'r terfyn fu dëol pabyddiaeth o'r fro yn llwyr, ac o hyny hyd y pryd hwn, mae gwyl sathru y groes yn cael ei chynnal yn flynyddol trwy yr ymerodraeth: a rhaid i'r Ellmyn y sydd yn trefnidio â Japan, gyd-ymagweddu â bwynt yn y gorchwyl, neu fyned allan o'u cyffiniau.

Iaith.] Go debyg yw iaith Japan i China, ond ychydig yw y cynnydd sydd ar ddysgeidiaeth ynddi, fal yn mhob gwlad eulun-addolgar arall. Mewn arlywio llestri coed a phridd, maent yn rhagori ar unrhyw genedl, ac y mae eu peiriannau rhyfel yn arddangos medrusrwydd tra chywrain.

Dinasoedd a threfydd.] Jedo, ar ynys Niphon yw y brif ddinas: mae ei hadeiladau yn gyffredin o goed, ac yn dra hardd, ond nid ydynt yn uchel: ei phorthladd sydd ëang, ond bâs, ac ni all llongau mawrion o Ewrop ddyfod o'fewn rhai milltiroedd iddi. Mae y llys ymherodrol gwedi ei adeiladu â cheryg, ac y mae caer grêf a ffôs ddofn yn llawn o ddwfr o'r tu allan yn ei gylchynu. Dyfethwyd y ddinas hon agos oll gan dân yn 1772.

Miaco, prif ddinas y peniaeth ysprydol, sydd yn sefyll ar wastadedd ëang, 160 milltir i'r de orllewin o Jedo: hon yw gorsaf dysgeidiaeth Japan: dywedir bod ei hadeiladau yn wych, a bod ynddi tros 400,000 o drigolion.

Nagasaki yw y borthladd mwyaf cyfleus yn Japan: yma mae yr Ellmyn yn cyfnewid daoedd â'r trigolion. Mae amryw ddinasoedd poblog ereill yn yr ymerodraeth hon, ond y maent yn anhysbys hyd yn hyn i Ewropiaid.

Anifeiliaid.] Nid oes na defaid na geifr yn holl ymerodraeth Japan: yr olaf a farnent yn niweidiol i amaethyddiaeth; ac y mae y cyflawnder o gotwm sydd yn y wlad yn peri iddynt fod yn ddiofal am wlân. Ychydig hefyd o wartheg sydd ynddi, a llai o geffylau. Y gwartheg yn gyffredin ydynt yn tynu y certi, ac yn aru'r tir, ac nid ydyw y trigolion yn defnyddio eu cig na'u llaeth!* Yr enllyn cyffredin yn Japan ydyw pysgod ac adar dôf.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Japan.*

NID yw y ffug hanesion a roddir am y wlad hon am gantoedd o flynyddau cyn cred o werth sylwi arnynt. Sin Noo y galwent eu hymerawdr tymhorol cyntaf, yr hwn a drosglwyddodd o China y gelfyddyd o drin tir i Japan: dynodir ef ganddynt hyd heddyw a phen tarw arno, yn lled debyg i'r eulun sydd yn y rhestr genhedlig a elwir Jupiter Ammon.

O ddeutu 660 mlynedd cyn crêd, y daeth y pennaethiaid ysprydol i rwysg y llywodraeth, a buont yn rheoli yn dawel hyd y flwyddyn 1585, pan y daeth y pennaethiaid tymhorol i'w lle, ac y bu brwydrau trychinebus am flynyddau lawer fal y soniwyd oherwydd hyny.

Gwedi i'r Tartariaid oresgyn China, danfonasant eu lluoedd i Japan, ond buont yn aflwyddiannus gan i dymhestloedd eu gorddiwes, a pheri

* Pinkerton, p. 370.

distryw arnynt agos oll: priodolodd y Japaniaid yr ymwared mawr hwn i'w duwiau, ac y mae ebyrth blynyddol yn cael eu gweinyddu iddynt hyd heddyw. Er y flwyddyn 1585, y pennaethiaid tymhorol ydynt yn llywodraethu yr ymerodraeth.

# RUSSIA YN ASIA.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd...Taleithiau...Gwyneb y wlad. Mynyddoedd..Hin a thymhorau..Afonydd.*

MAE y rhan hon o Ymerodraeth Russia yn sefyll rhwng hydred 37° a 120° yn ddwyreiniol, a rhwng lledred 50° a 70° yn ogleddol, ac yn cynnwys 3,650,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir hi ar y tu gogledd gan y môr rhewlyd: ar y tu dwyrain gan foroedd Kamtschatka ac Ochotsk: ar y tu de gan Tartari ddwyreiniol, Tartari anymddibynol, Persia, a Thwrci, ac ar y tu gorllewin gan Russia yn Ewrop.

TALEITHIAU.] Crybwyllwyd eisus am daleithiau yr ymerodraeth fawr hon; y rhai o honynt ag ydynt oll, neu ranau o honynt yn Asia a elwir Caucasia, Saratof, Simbirsk, Orenburg, Ufa, Kasan, Persia, Tobolsk, Kolhyvan, Irkutsk, a Kamtschatka. Gelwir y tair talaeth fawr Tobolsk, Kolhyvan ac Irkutsk wrth yr enw Siberia, oddiwrth ddinas freninol gynt a elwid *Sibir*, yr hon oedd yn sefyll ar lenydd afon Irtish, yn agos i'r man y safai dinas Tobolsk gynt arno.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD.] Mae parthau deheuol y wlad hon yn helaeth o rawn a ffrwythydd, ond mae y broydd gogleddol o honi fal y soniwyd yn ddiffaethfaoedd anial agos oll. Cyfarfyddir yn Caucasia â phob ffrwythydd a geffir yn unrhyw o wledydd Ewrop: a dywedir bod y gwinrawn yn rhagori mewn maint a phereidd-dra ar unrhyw arall.

Y trumau mynyddig sydd ynddi a elwir Uralia, Caucasus, Altai a Nershinsk y rhai a fu tan sylw o'r blaen.

HIN A THYMHORAU.] Hin y parthau deheuol sy dymherus, hyd oni ddelo gwrês mwll y tri-mis haf. Y pryd hyny mae lluoedd aneirif o locustiaid yn goresgyn y wlad, ac yn drygu y cynnyrch yn ddirfawr: mae y rhai hyn gyd a'r gwybed a elwir *Mosquitos* a grybwyllwyd am danynt yn hanes Lapland yn dra blin i'r trigolion. Rhaid yn yr hin fwyaf mwll iddynt fyw agos yn wastadol mewn mwg, neu esgyn i ben rewlyd eu mynyddoedd i ymgadw rhag iddynt trwy eu brathiadau parhaus wneyd eu holl gorff megys yn un archoll.* Crybwyllwyd eisus am hinsoddau ei pharthau ereill yn hanes Russia yn Ewrop

AFONYDD.] Afonydd Oby, Yenissei, Irtish a Lena a fuont tan sylw eisus. Y lleill ydynt afon Angora, yr hon sy gainc o'r Yenissei, afon Argoyn, rhan o derfyn Russia a China, afon Selinga, ac afon Ural. Y llynau, mwngloddiau, &c. sydd â sylw arnynt yn hanes Russia yn Ewrop.

---

* Clarke's Travels vol. 1.

## DOSBARTH II.

*Trigolion...Moesau ac arferion...Llywodraeth...Crefydd...Hynafiaethau..Dinasoedd a threfydd..Anifeiliaid.*

ER mor eang ydyw y gyfran hon o'r ddaear, braidd bod oddiar 3,600,000 o drigolion yn ei phreswylio. Mae rhai cantoedd o filoedd o filltiroedd arwynebol o'i pharthau gogleddol yn anghyfannedd, ac mae anial-leoedd eang ereill heb ynddynt onid ychydig o grwydraid yn pabellu i warchod eu diadelloedd.

MOESAU AC ARFERION.] Y trigolion deheuol a elwir *Tartariaid Kasan*, ydynt hardd o gorffolaeth, ond yn sarug, dialgar ac anfoesol, o ran buchedd. Os bydd i unrhyw o honynt gael ei ladd mewn bicre ag arall, cyfrif cyfeillion y marw holl geraint y lleiddiad yn euog o'r trosedd, felly mae yspryd dial yn cael ei drosglwyddo o'r naill oes i'r llall, fal y mae yn gorfod ar bob un o honynt gludo peiriannau amddiffyn yn wastadol: mae gwaed am waed yn reddf blanedig ynddynt, ac nid oes na geiriau têg na gwobr a'u ceidw rhag dial pan fyddo cyfle.* Mae cryn drefnidiaeth yn cael ei wneyd ganddynt ag Armenia, Persia, ac India: y daöedd gan mwyaf ydynt crwyn, cotwm, a sidanau, ac yn ninas Astracan mae y brif farchnadfa.

Y *Tchowashiaid* ydynt yn cyfanneddu glenydd y Volga, yn nhaleithiau Kasan ac Orenburg. Math o grwydraid yw y rhai hyn, yn byw wrth hela yn yr haf, ac yn preswylio bythau neu gelloedd is-lawr y gauaf. Mae gan y rhai hyn lywodraeth llawn-rhwysg ar eu gwragedd, ac ni feiddiant eu gwrthateb dan berygl deoliad, yr hyn os digwydd, caethion fyddent hyd oni ddelo y gwyr eilwaith i gymmod â nhwy.

Y *Votiakiaid* ydynt gan mwyaf yn preswylio Kasan, ac fal y trigolion hyny yn sarug o foesau, ac yn eulun-addolwyr; ond dywedir bod rhai o honynt yn ddiweddar gwedi cofleidio pabyddiaeth.

Yr *Ostiackiaid* ydynt y lliosocaf o unrhyw o'r llwythi sydd yn preswylio y wlad hon. Yr oedd ganddynt cyn eu dwyn yn deyrngedol i Russia, dywysogion o'u cenedl eu hunain yn eu rheoli, ac mae epil y rhai hyny mewn bri hyd heddyw. Mae moesau y rhan fwyaf o'r rhai hyn gwedi eu nawseiddio, fal ag y mae ychydig o drefn mewn pethau gwladol, &c. yn eu plith, ond y maent yn dra ofergoelus ac anwybodus, ac hyd yn hyn yn caru bod felly.

Y *Voguliaid* ydynt led fyrion o gorffolaeth: helwriaeth ydyw y prif orchwyl sy ganddynt, a thra enwog ydynt gyd a'r gwn, bwa, magl, &c

Y *Calmuciaid* ydynt gryfion a dewr, ac y maent yn genedl liosog: adnabyddir hwynt wrth eu trwyni crwm, llygaid ceimion a phell y naill oddiwrth y llall, gruddiau uchel, gwefusau tewion, a gên fain. Maent yn eillio eu penau fal y Chineaid, gan adael cudun hir ar y coryn, ac y maent yn eu gwisgoedd yn tebygu iddynt, ac hefyd mewn ymborth, ond eu bod o'r ddau yn fwy aflan: bwytânt ysgerbwd agos bob anifail, yr un a fyddo farw gan afiechyd yn gystal a'r un a leddir, a blasus a fydd ganddynt er iddo fod gwedi llwyr gyrhoni: gwedi pob pryd chwiffiant dubacco, yn feibion ac yn ferched gyhyd ag y goddef eu goruchwylion iddynt.

* Pallas's Travels. 1. vol. p. 405.

Y *Tungusiaid* ydynt yn deillio oddiwrth y Mandshuriaid a grybwyllwyd eisus, ac yn tebygu o ran agwedd a moesau iddynt. Mae y rhai hyn yn gyflym o olwg a chlyw, ond lled bŵl ydyw y synhwyrau ereill. Maent yn helwyr enwog, ac yn dangos medrusrwydd yn y gorchwyl yn gystal ag mewn marchwriaeth, ac o anelu i drwch y blewyn a'u bwâu cryfion.

Y *Kamschatkiaid* ydynt ddynion bywiog, cofus, a medrus. Hela a physgota ydyw eu prif oruchwylion, a braidd bod unrhyw o lwythi Siberia yn fwy hylaw yn y gorchwyl. Arferent fwyta llawer, ond bydd yr ymborth yn wastadol yn oer, ac felly mae ganddynt ddannedd o'r harddaf. Cŵn sydd yn llusgo eu cerbydau, ac y maent yn llawn mor fuddiol iddynt i'r gorchwyl, â cheirw Llychlyn i'r Laplandiaid. Mae y grefydd Gristionogol yn niwyg eglwys Groeg yn mhlith y trigolion hyn, er pan ddechreuwyd deol troseddwyr o Russia yn Ewrop iddi.*

Trigolion ynysoedd Russia yn Asia ydynt eulun-addolwyr. Maent yn fyrion o gorffolaeth, ond yn dra chryfion a dewr: ymborthent ar gig a physgod yn wastadol, ac yn gyffredin bwytânt y naill a'r llall yn ammrwd. Maent oll yn dra un a chyfun a'u gilydd, ac heb na phennaethiaid na chyfreithiau i'w rheoli. Maent yn arfer eu plant i ddyoddef oerni o'u mebyd, fal na byddo i erwindeb yr hin effeithio arnynt: pan grio plentyn, dwg y fam ef i lan y môr, a dyry ef hyd ei wddf ynddo, gan ei gadw felly hyd oni thawo, pa un bynag ai haf ai gauaf a fyddo y tymhor.†

Y *Siberiaid* oeddynt gynt yn genedl mor sarug ac anfoesol, ag Pedr I feddwl nad allai gosbi ei elynion gwastadol y Swediaid yn fwy, na'u trosglwyddo yno. Y canlyniad o hyn oedd i wybodaeth gael ei harwain i'w mysg, ac felly gan iddynt ymwareiddio, mae carcharorion a throseddwyr y pryd hwn yn cael eu deol i Kamtschatka, y cwr pellaf y sydd yn perthyn i'r ymerodraeth.

Llywodraeth.] Crybwyllwyd eisus mai Alexander ydyw ymerawdr yr holl ymerodraeth yn Ewrop ac Asia, felly cyfreithiau llŷs Petersburg ydyw y rhai sy mewn grym yn yr ardaloedd eang hyn.‡

Crefydd.] Eulun-addoliaeth ydyw crefydd yr holl lwythi sydd yn cyfanneddu Russia yn Asia, oddigerth ychydig o'r Tartariaid, a rhai o'r llwythi y sydd yn terfynu ar Muscovi, y rhai ydynt yn addef rhyw fath o grêd i eglwys Groeg. Mae Tobolsk y pryd hwn yn archesgobaeth, ac y mae Irkutsk a Nershinsk yn esgobaethau, o drefniad y llywodraeth yn llŷs Petersburg.

Hynafiaethau.] Muriau hen ddinasoedd, angladd-leoedd, &c. ydynt y prif hynafiaethau: mae rhai o honynt i'w canfod mewn

* Mae Clerke yr hwn oedd beniaeth y llongau a ddanfonwyd tan ofal Cooke i amgylchu y ddaear, gwedi y collodd y morwr enwog hwnw ei fywyd, yn canmol y cynydd oedd ar wybodaeth y Kamschatkiaid y pryd hyny; pan ddeallasant anturiaeth y llongau, rhoddasant iddynt eu gwala o anifeiliaid at eu gwasanaeth, ac er taer erfyn, gwrthodasant unrhyw dâl am danynt, gan honni bod y fath orchwyl canmoladwy yn haeddu pob cefnogrwydd.—Ar ei daith yn ol, o olrhain y broydd rhewlyd i'r gogledd o gyfyngfor Bhering, y bu farw y peniaeth Clerke, ac yn Petropaulowski, prif drêf Kamtschatka y claddwyd ef.

† Guthrie's oct. edit. p. 755.

‡ Mae gwrolwaith ddiweddar Alexander yn ei daith i Paris, i ddarostwng y gormeswr Napoleon, er ei ymostyngiad gwarthus iddo yn Tilsit fal y soniwyd, a sylw arno yn hanes Ffrainc.

ardaloedd y sydd y pryd hwn yn anghyfannedd gan rym yr oerni. Cantyddir ar lenydd y Jenissei feini coffäol ac arnynt ysgrifenadau, lluniau dynion, ac anifeiliaid â'r cyffelyb.

DINASOEDD A THREFYDD.] ASTRACAN, yn sefyll ar ynys a lunir gan afon Volga, yn agos i'w haber yn min môr Casbin, sy ddinas fawr, yn cynnwys o ddeutu 30,000 o drigolion. Mae caer tair milltir llawn yn ei chylchynu, ac mae ynddi 25 o eglwysi Groeg, dau fynachdy, a llŷs esgobawl; yn nghyd a rhai lleoedd addoliad gan yr Armeniaid, Lutheriaid, Pabyddiaid, ac Hindooaid.

Orenburg, prif ddinas talaeth Ufa, yn sefyll ar lenydd afon Ural sy le o gryn drefnidiaeth. Yr ymerodres Ann a'i seiliodd yn 1740.

Tobolsk, prif ddinas talaeth o'r un enw, yn gystal ac am holl Siberia sydd yn sefyll ar gydlifiad afonydd Irtish a Tibet. Mae caer amddiffyn gref yn perthyn iddi, a dywedir bod ei thrigolion yn 15,000 o rifedi. I hon y dëolir mawrion llŷs Petersburgh a fyddo yn euog o unrhyw drosedd llai na bradwriaeth yn erbyn y llywodraeth, ond os ceffir unrhyw o honynt yn euog o hyny, Kamschatka fal y soniwyd, fydd eu hannedd am y gweddill o'u hoes.

Irkutsk, prif ddinas talaeth o'r un enw sydd yn sefyll ar lenydd afon Angara, ar gyfer llyn Baikal: mae yn hon rai adeiladau hardd, ac o ddeutu 12,000 o drigolion. Mae prif ffordd y trefnidwyr rhwng China a Russia yn myned trwyddi.

Tomsk, prif dref talaeth o'r un enw, sy le o gryn drefnidiaeth, ac ynddi o ddeutu 8,000 o drigolion. Yakutsk ar afon Lena sydd yn cynnwys ynddi 5 neu 6 chant o dai coed, a chaer amddiffyn o'r un enw; ac Ochotsk ar fin môr o'r un enw sy dref fechan yn annedd i bysgodwyr.

ANIFEILIAID.] Mae y camel, y dromedari, yr arth, y carw, y blaidd, ac ereill a enwyd y sydd yn preswylio gogledd-barth Ewrop yn lliosog yma. Y meirch ydynt gryfion, ond yn hytrach yr llai na rhai Prydain. Mae yn mhlith y rhyw asgellog aderyn a elwir Baba, yr hwn sydd â chilfin debyg i belican ganddo: pan fyddo mewn eisiau â i aber rhyw ffrwd a lleda ei esgyll i ymlid y pysgod i'w blaenau, ac yna gwedi ei ddigoni arnynt cluda lonaid y goden sy tan ei ên i'w annedd.

## YNYSOEDD ASIA.

*Segalien.. Formosa.. Lladron.. Phillippine.. Molacca.. Banda.. Amboyna.... Celebes... Gilolo... Ceram.. Sunda... Borneo .. Sumatra. Ynys tywysog Cymru . Enghano... Java.. Andaman a Nicobar. Ceylon.. Maldive.*

YNYS SEGALIEN, yn 500 milltir o hyd a 80 o led sydd yn sefyll yn neheubarth mor Ochotsk. Ei gwyneb sy led fynyddig ond eto yn dir tra ffrwythlon, a dywedai Peyrouse bod y trigolion yn dra thyner tu ag at ddyeithraid: ni fedrodd y morwr enwog hwnw yn ei daith o amgylchu y ddaear ddeall pa fath lywodraeth oedd ganddynt, ond gwybu bod eu daliadau crefyddol yn lled unol a ffurf eu cymydogion y Tartariaid.

YNYS FORMOSA, sydd yn sefyll i'r dwyrain o China: rhenir hi yn ddwy ran gan drum uchel, a chyfanneddir yr ochr orllewinol iddi gan

Chineaid y rhai ydynt yn trin y tir yn rhagorol; ond y lleill ydynt wylltion yn byw ar ffrwythydd, &c. O ddeutu 12 milltir o Canton mae ynys Ainan, yr hon sy 200 milltir o hyd a 150 o led, ac yn cael ei chyfanneddu gan drigolion o agwedd ofnus, y rhai ydynt yn talu teyrnged i China.

Ynysoedd Lladron, yn sefyll yn lledred 14° G. a hydred 140° D. ydynt o ddeutu 12 o rifedi. Magellan a'u darganfu, ac a roddes yr enw arnynt oddiwrth agwedd ladronllyd y trigolion. Yr oeddynt y pryd hwnw yn dra phoblog gan y barnid bod yn Guam, y benaf o honynt o ddeutu 30,000 o drigolion. Tiriodd Anson yn ei for-daith o gylch y ddaear yn un o honynt a elwir Tinian, a chafodd bob angheurheidiau iddo ei hun a'i forwyr yn rhwydd, yn gyfnewid am fan ddaoedd oedd yn digwyddo bod ganddo.

Ynysoedd Phillipine ydynt yn y mor tawel gogleddol, o ddeutu 900 milltir i'r de ddwyrain o China: dywedir eu bod yn 1,100 o rifedi, a' bod Manilla neu Laconia, y fwyaf o honynt yn 400 milltir o hyd a 200 o led. Cyfanneddir yr ynysoedd hyn gan Chineaid, Ethiopiaid, Malayiaid, Yspaeniaid, Portugiaid a llwythi cymmysgedig yn hanu oddiwrthynt Magellan a'u darganfu, ac a ddodes arnynt enw ei arglwydd Phylip II brenin Yspaen. Mae pob ffrwythydd yn doreithiol yn yr ynysoedd hyn: nyth yr aderyn a elwir saligan sydd yn cael ei gludo oddiyma yn saig o glud-fwyd i fyrddau amryw o fawrion Ewrop: pren amet sy hefyd yn tyfu ynddynt, yr hwn ond ei gnithio a ddyry ddwfr peraidd i'r ymdeithiwr. Mae cryn drafnidiaeth rhwng yr ynysoedd hyn â Mexico a Pheru ar draws Mor mawr y de.

Yspaen sydd yn teyrn-reoli y rhan fwyaf o ynysoedd Phillipine, ond mae rhai o honynt ag Indiaid yn eu llywodraethu, tan enw Sultan. Cymerwyd y brif ddinas Manilla yn 1762 gan y Saeson, ac er i'r Yspaeniaid trwy archesgob oedd yn llywydd arni addaw iawn am beidio distrywio y ddinas, ni chyflawnwyd yr addewid yn llwyr hyd heddyw.

Er bod pob llawnder o ffrwythydd yn yr ynysoedd hyn, eto mae daear grynfâu, mellt, taranau, a thymhestloedd mor fynych a bod cryn arswyd yn eu rheoli yn wastadol: seirph a nadroedd hefyd ydynt yn aml ynddi, ac y mae brathiadau rhai o honynt yn angau diatreg.

Ynysoedd Molucca, y rhai hefyd a elwir ynysoedd llysieuog, ydynt 5 o rifedi, o enw Bachian, Machian, Motyr, Ternate, a Tydore; ac yn gorwedd y naill yn ngolwg y llall yn hydred 125° D. Mae y rhai hyn yn fynyddig, ond yn ffrwythlon o ber-lysieu, y rhai a gludir gan yr Ellmyn i Ewrop yn gyfnewid am ŷd, a grawn ereill, y sydd yn brin yn yr ynysoedd hyn. Mae tri brenin teyrngedawl i'r Ellmyn yn rheoli ynysoedd Molucca, ac mae gan y bobl hyny rai amddiffynfeydd cedeirn arnynt.

Ynysoedd Banda, neu ynysoedd y cnau pêr, ydynt yn sefyll rhwng 127 a 128 o raddau hydred dwyreiniol, a rhwng 4 a 6 o raddau lledred deheuol. Eu henwau ydynt Banda, Rosigen, Nera, Gonong, Way, a Rhon. Yr oeddynt oll yn meddiant yr Ellmyn hyd 1796, pan y cymerwyd hwynt gan y Saeson. Coed y cnau pêr ydynt yma yn ffrwytho o ddeg i gan mlwydd oed: maent o faint coed gellig, a misoedd Gorphenaf ac Awst ydyw y pryd y diosgir hwynt o'u ffrwyth.

Amboyna, ynys 70 milltir o amgylchiad, sydd yn sefyll yn ynys-for St. Lazarus, rhwng lledred 4° a 5° D. a 360 milltir i'r dwyrain o Batavia. Bu hon yn meddiant y Portugiaid, ac yna rhwng yr Ellmyn

a'r Saeson, hyd oni bu i frâd yr Ellmyn yn 1621 gydsynio i ddifa y Saeson oll, ac felly ennill y drefnidiaeth iddynt eu hunain. Cymerwyd hon ac amryw ereill gan Loegr yn 1796, ond rhoddwyd hwynt yn ol yn heddwch Amiens yn 1802.

CELEBES, ynys 500 milltir o hyd a 200 o led, sydd yn gorwedd dan a' Cyhydedd, rhwng ynys Borneo ac ynysoedd Molucca: ei hinsoddyn mwll ydynt yn cael eu hardymheru gan ogledd-wynt y sydd yn y parthau hyn agos yn barhaus, a chan y gwlawogydd cylchawl. Y prif bethau a gludir o honi ydynt pupur ac opium. Mae tri brenin yn ei llywodraethu tan nawdd yr Ellmyn. Rhaid i drigolion Celebes gan nifer y creaduriaid gwenwynig sydd ynddi adeiladu eu tai ar golofnau, ac arfer ysgol i dramwyo iddynt yn ol ac yn mlaen. Mae trigolion yr ynysoedd hyn o ymddygiad garedig a thyner, ac y maent yn trefnidio â China.

GILOLO, ynys o ddeutu 230 milltir o hyd, a 40 o led, sy hefyd yn gorwedd dan y cyhydedd: mae hon yn cynnyrchu rice a phêr-lysieu yn doreithiol, ond tra sarug ac ofergoelus yw ei thrigolion.

CERAM, sydd 190 milltir o hyd, a 40 o led: yr Ellmyn sydd yn meddiannu ei harfordiroedd, ac y mae ganddynt gaer amddiffyn ar y brif borthladd y sydd ynddi.

YNYSOEDD SUNDA, yn sefyll yn môr yr India, rhwng hydred 93° a 120° D. a rhwng lledred 8° yn ogleddol ac 8° yn ddeheuol, ydynt yn cynnwys ynysoedd Borneo, Sumatra, Java, Kalley, Lamboe, Banca, &c. Y tair cyntaf gan eu maint, ydynt yn deilwng o sylw gwahanol arnynt.

BORNEO, yn 800 milltir o hyd a 700 o led, oedd cyn darganfod Holland newydd yn cael ei chyfrif yn ynys fwyaf yn y byd. Dywedir bod ei pharthau tufewnol yn gorsog, ac yn afiach gan darth gwenwynig y sydd yn esgyn o honynt yn wastadol; a bod y trigolion yn gorfod cyfanneddu trefydd gwedi eu hadeiladu naill ai ar fin yr afonydd, neu ar goed yn eu canol. Cynnyrch y tir ydyw rice, cotwm, cyrs, pupur, camphur, ac amryw ffrwythydd, a pher-lysieu; aur a meini gwerthfawr sy hefyd mewn rhai mianau o honi. Yma mae yr Orang Outan* yn preswylio yn lliosog yn nghyd ag amryw ereill o rywogaeth yr âb. Tywysogion Mahometanaidd sydd yn meddiannu arfordiroedd Borneo, ond trigolion y parthau tufewnol ydynt eulun-addolwyr gwylltion. Benjar-Masseen y gelwir y brif borthladd, yr hon sydd yn agored i bob llongau sydd yn trefnidio â China droi i mewn iddi. Ceisiodd amryw o genhedlaethau Ewrop o dro i dro ymsefydlu ynddi, ond methasant a llwyddo hyd yn hyn.

SUMATRA sydd â Malacca ar y tu gogledd, Borneo ar y tu dwyrian a chyfyngfor Sunda sydd yn gwahanu Java oddiwrthi i'r de ddwyrain. Mae y cyhydedd yn ei dosbarthu yn ddwy ran gyfartal. Tywysogion Paganaidd sydd yn rheoli y parthau tufewnol, ond brenin tref o enw Acheen sy flaenor ar y tywysogion Mahometanaidd y sy mewn meddi-

* Yr Orang Outan sydd o rywogaeth yr âb, a thyma y tebycaf ei ddull i ddyn o holl wylltfilod y ddaear. Mae y creadur hwn yn orchuddiedig â blew du-goch, oddigerth ei wyneb, ei ddwyfron a chledrau ei ddwylaw, y rhai ydynt lyfnion: ni welir ef un amser ar ei bedwar-bet, ond yn syth ar ei draed ol. Maent yn elynol i ddyn os cyfarfyddant ag ef yn ddiarfog. Sonir hefyd am ddrygnwyd y gwrrywiaid o honynt tuag at y merched duon; ac am danynt yn eu cludo hwynt ymaith i'r anialwch os cafent gyfle.—*Buffon.*

ant o'i harfordiroedd. O borthladoedd sydd ynddi o enw Bencoolen a Ffort Marlborough sydd yn perthyn i'r Saeson y dygir y rhan fwyaf o'r pupur a gludir i Frydain. Gwlaw sy dra mynych yn yr ynys hon, a chan ei sefyllfa yn nghanol y gwregys lloeg, mae taranau echrys yn dilyn agos yn wastadol: daear-grynfau oddiwrth amlder ei moelydd tanllyd sy hefyd yn fynych ynddi. Mae ei hinsoddau yn afiach, ac yn peri oddfynau cymmaint ag wy, neu ychwaneg dyfu ar yddfau amryw o'r trigolion. Eulunaddolwyr sydd yn ei phreswylio, ac nid oes brenin ar y parthau tufewnol, ond pob pentref yn annibynol, ac yn gyffredin yn elynol i'w gilydd: bwyty y trigolion hyn gyrff y gelynion a gymerant yn garcharorion, a hongiant eu penglogau yn eu trigfanau yn arwyddion o'u dewrder. Mae y wlad hon mor llawn o aur ag y meddylir mai hi yw Ophir a grybwyllir am dani yn yr ysgrythyrau. Mae mynydd a elwir felly gan Ewropiaid ynddi, yr hwn sy 190 llath yn uwch na mynydd Teneriffe, ar ynys yn agos i orllewin-barth Affrica.


YNYS TYWYSOG CYMRU, yn sefyll yn nghyfyngfor Malacca, sydd 21 milltir o hyd a 9 o led: mae ei pharthau gogleddol am rai milltiroedd o fewn dwy filltir i'r cyfandir, ac felly gan uchder y mynyddoedd o'r ddeutu sydd yn gwneyd y lle yn noddfa gyfleus i longau ar dywydd tymhestlog. Y saeson er 1784 y sydd yn ei meddiannu.

ENGHANO, o ddeutu 90 milltir oddiwrth Sumatra sydd a'i hansawdd yn anhysbus, gan nad oes porthladd gyfleus yn perthyn iddi, ond ei glenydd yn glogwynog a serth. Mae yn hon drigolion bardd o wneuthuriad, ond y maent yn wylltion, ac yn cyfanneddu coed yr anialwch

JAVA sydd a'r rhan fwyaf o honi yn perthyn i'r Ellmyn, y rhai gwedi gwneyd Batavia yn brif ddinas ynddi, ydynt yn edrych ar y prifswyddog megys brenin; pan elo hwn allan bydd ei warcheidwaid mor lliosog a phe byddai hen coronog. Mae y ddinas hon yn sefyll ar afon Jucata, ac mae yn perthyn iddi un o'r porthladdoedd prydferthaf yn y byd. Yr oedd 100,000 o Chineaid ynddi, pan feddiannwyd hi gan yr Ellmyn, a dywedir i 30,000 o honynt gael eu cigyddio heb unrhyw achos ganddynt; ac i'r prif swyddog gwedi tirio yn Ewrop gael ei orchymyn yn ol i Batavia i'w brofi am ei orchwyl, ond ni chlybuwyd byth am dano. Mae gan yr Ellmyn 3,000 o filwyr yn gwarchod y brif ddinas yn wastadol, ac y mae ganddynt 15,000 ereill yma a thraw ar hyd yr ynys. Dynodir hon gan amledd ei chorsydd yn darran dra afiach; digwydd yn gyffredinol i 4 o bob 5 o ddyeithraid a ddelo iddi farw yn ngorff y flwyddyn gyntaf: collodd amryw fordwywyr a droesant iddi i gael angenrheidiau, &c, fwy o'u gwyr mewn ychydig wythnosau nag yn eu holl daith o amgylchu y ddaear.

YNYSOEDD ANDAMAN A NICOBAR, yn sefyll yn mor Bengal, ydynt yn rhoddi ffrwythydd, &c. i'r llestri a ddelo iddynt ar eu taith wrth drefnidio a'r gwledydd cyfagos: cyfaneddir hwynt gan baganiaid o agwedd ddiniwed.

CEYLON, ychydig i'r de o Indostan, sy 250 milltir o hyd a 200 o led: geilw y trigolion hi yn Baradwys ddaearol oddiwrth wychder ei gwyneb, a'i llawnder o bob ffrwythydd, per-lysieu, &c. Mae ynddi helaethrwydd o bupur, cinnamon, cotwm, ifori, sidan, tobacco, plwm, dûr, hriarn, efydd, aur, arian, a gemmau gwerthfawr, ag hefyd bob anifeiliaid y sydd yn Indostan: yr Elephantiaid sydd ynddi ydynt yn rhagori mewn maint a harddwch ar unrhyw ereill. Y prif dda a



AFFRICA.
Medina
Mecca
Ras al Gat
Mocha
Fartash
Socotra
Zeila
ADEL
AJAN
Magadoxo
Pate
Melinda
Zanzibar
Quiloa
Delgado
M O R
Mahe
Amirante
P. Ambro
YR
Y. St. Mary
Ynys Mauritius
Ynys Bourbon
Nazareth
North Dauphin
P. St. Mary
I N D I A
MOZAMBIQUE

drosglwyddir o honi yw Cinnamon, yr hwn sy bereiddiaf o uurhyw yn Asia. Parthau tufewnol yr ynys ydynt fynyddig a choediog, ac yn lliosog o drigolion; a brenin yn preswylio tref Candy, yr hon sydd ar fryn yn nghanol yr ynys sydd yn eu rheoli. Bu y Portugiaid yn 1656 mewn meddiant o'r ynys, yna yr Ellmyn, drachefn y Ffrancod, ac yn bresenol y Saeson sydd yn meddiannu ei holl lenydd môr oddiamgylch Eulunaddolwyr ydyw y trigolion: mae yn eu plith y cenhedloedd a elwir Malabariaid, Mooriaid, Portugiaid ac Ellmyn.

Ynysoedd Maldive ydynt liosog o nifer, ac yn gorwedd rhwng y cyhydedd a lledred 9° yn ogleddol. Mae yr Ellmyn yn ymweled â hwynt yn fynych, ac yn eu glenydd y maent yn cael y cregin y sydd arferol gan drigolion Guni yn lle arian. Y pren cocoa sydd yma o dŵf mawr, ac felly yn fuddiol i adeiladu tai, neu longau, a'i risg hefyd sydd yn gwneyd rhaffau, hwyliau, &c.

Bombay sy gwedi bod dan sylw eisus wrth ddysgrifio Indostan. Ychydig a wyddis am ieithoedd yr ynysoedd hyn, nag ychwaith am eu crefydd, oddieithr bod ieithoedd y gwledydd cyfagos, ac ieithoedd y cenhedloedd o Ewrop a grybwyllwyd yn arferedig ynddynt; a bod y rhan fwyaf o honynt yn Baganiaid neu yn Fahometaniaid. Yr ynysoedd cyfagos ereill megys Guni newydd, Holland newydd, &c. ydynt a sylw arnynt yn nysgrifiad ynysoedd Mor mawr y de.

# AFFRICA.

Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.] Affrica, y drydedd mewn maint o brif gyfraniadau y ddaear, sydd yn sefyll o ddeutu y cyhydedd, ar du de Ewrop, ac yn gylchynedig gan fôr, oddigerth cyfyngdir Suez, yr hwn am 60 milltir yn unig sydd yn ei huno ag Asia. Ei hyd hwyaf o benrhyn Bona yn Mor y canoldir, yn lledred 37 o raddau gogleddol, i benrhyn gobaith, yn lledred 34 o raddau deheuol, sy 4,900 milltir; ac ei lled mwyaf o benrhyn Verd yn hydred 17° yn orllewinol, i benrhyn Guardasai, yn agos i gyfyngfor Babelmandel yn hydred 51° yn ddwyreiniol, sy 4,500 milltir. Cylchynir y gyfran hon ar y tu gogleddol gan Fôr y canoldir, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ewrop; ar y tu dwyrain gan gyfyng-dir Suez, y mor côch, a mor yr India, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth Asia; ar y tu de gan y Mor tawel; ac ar y tu gorllewin gan y môr Werydd, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth America.

Bu y gyfran hon yn y cynamseroedd yn cynnwys ynddi deyrnasoedd enwog mewn cyfoeth, gallu a threfnidiaeth, megys yr Aipht, Ethiopia, a Carthage, yr hon fu unwaith a'i rhwysg yn gyfartal i ymerodraeth Rhufain; ac a ddanfonodd ei lluoedd trefnidiol tros yr holl fyd adnabyddus. Ond gwedi terfynu o rwysg Rhufain yn y 5 ganrif, goresgynwyd ei holl ardaloedd gogleddol gan y Vandaliaid, y rhai oeddynt genedl o bobl sarug, a gelynol i wybodaeth; ac yna yn y 7 ganrif, daeth y Saraceniaid yn ormes ar yr Aipht a Barbari, a dilynwyd hwynt gan y Twrciaid, y rhai fal y Saraceniaid yn Fahometaniaid a

barasant gyflawn ddistryw ar weddillion gwybodaeth oedd yn y gyfran hon gynt. Mae y Cyhydedd yn dosbarthu Affrica agos yn ddwy ran gyfartal, felly mae y gwrês mewn amrywiol ranau o honi oddiwrth yr haul yn gystal ag oddiwrth y diffaethfaoedd poethion agos yn anoddefol i'r anian ddynol. Ei harfordiroedd, a glenydd ei hafonydd ydynt gan mwyaf yn ffrwythlon, ac yn lliosog o drigolion, ond mae cantoedd o filltiroedd arwynebol o'i pharthau tufewnol yn anial-leoedd tywodlyd, heb ddyn nag anifail yn preswylio ynddynt.

Mae y gyfran hon o ran ei sefyllfa yn dra manteisiol i drefnidiaeth; ei glenydd gogleddol am agos fil o filltiroedd ydynt o fewn 100 i 300 milltir oddiwrth holl ddeheubarth Ewrop, ac yna mae 60 milltir o'i therfyn dwyreiniol fal y soniwyd yn ymuno ag Asia, yr hon sydd ar hyd y Mor côch, o fewn 15 milltir mewn rhai manau iddi. Ei holl arfordir gorllewin am agos 2,000 o filltiroedd, sydd o fewn 1,500 i 1,900 o filltiroedd oddiwrth lenydd dwyreiniol America. Ond er yr holl fanteision hyn, ac amryw ereill, sef ei phorthladdoedd ëang cyfleus, aberoedd, &c. mae sarugrwydd y trigolion, a dyeithrwch y naill lwyth i'r llall, yn gystal ac i ereill genhedloedd y ddaear, yn rhwystro llwyddiant ar unrhyw gais sydd hyd yn hyn gwedi ei gynyg.

Gellir dosbarthu ei thrigolion yn dair rhan, sef, Paganiaid, Mahometaniaid, a Christionogion. Y gyntaf ydynt y lliosocaf, ac yn cyfanneddu y parthau ëang y sydd yn cyrhaedd o drofëydd y Cranc i benrhyn gobaith, ac ydynt o liw yn ddu. Y Mahometaniaid ydynt gan mwyaf yn felyn-ddu, ac yn meddiannu yr Aipht, ac agos yr holl barthau gogleddol sydd yn terfynu ar For y canoldir. Gelwir trigolion Abyssinia neu Ethiopia ogleddol yn Gristionogion, er bod amryw o ddefodau paganaidd ac Iuddewig blith-dra-phlith a'u crêd. Mae rhai Iuddewon trefnidiol yn cyfanneddu y gogledd-barthau, ac yn myned yn gyffredin tan yr enw Arabiaid.

Afonydd.] Prif afonydd Affrica ydynt y Gambia, yr hon sydd yn ymuno a'r môr Werydd wrth benrhyn St. Mary, ac sydd fordwyol i longau 150 tunnell, 500 milltir oddiwrth ei blaenau; y Senegal yr hon sydd a'i blaenau 100 milltir i'r dwyrain o flaenau y Gambia, sydd yn arllwys hefyd i'r un môr, 80 milltir i'r gogledd o benrhyn Verd; y Niger, yr hon yn codi o ddeutu 90 milltir i'r dwyrain o flaenau y Senegal sydd a'i llifiant yn orllewinol heibio i ddinasoedd Tombuctoo a Houssa i ddiffaethfaoedd craslyd.* Y Nile yr hon yn dosbarthu yr Aipht yn ddwy ran sydd yn ymuno â Mor y canoldir gwedi taith fawr o fynyddoedd Abyssinia.

Mynyddoedd.] Y prif fynyddoedd ydynt tram Atlas, yr hwn sydd yn ymestyn o'r môr Werydd i wlad yr Aipht: brenin o Mauritania, yr hwn oedd hoff ganddo Seryddiaeth, ac o fyned i'r rhai uchaf o honynt i syllu ar y sêr, a ddodes yr enw arnynt: ac am hyny mae y beirdd yn ei ddynodi wrth yr un enw, yn cynnal y byd ar ei ysgwyddau: mynyddoedd y lleuad yn ymestyn rhwng Abyssinia a Monomotapa, ydynt uwch nag Atlas: mynyddoedd y llewod y sydd yn gwahanu Duantwys oddiwrth Guni, ydynt yn cyrhaedd i Ethiopia, a mynydd uchel Teneriffe ar ynys gyfagos, hynod am mai oddiwrtho mae yr Ellmyn yn cyfrif eu hydred.

* Barnai y teithiwr Lucas bod y Gambia a'r Senegal yn geinciau o'r afon hon, ond y mae yr hanes a gaulyn a ddyry Parke yn gwrthbrofi hyny.

Er nad oes hysbysiaeth deg am derfynau gwledydd Affrica, nag hyd yn nod am enwau rhai o'i hardaloedd tufewnol, eto dyma y dosbarthiad a ddyry daearyddion arni.

| Gwledydd. | Hyd. | Lled. | Prif ddinas. | Lledred. | Hydred o Greenwich. yn raddau. | yn amser. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ° ′ ″ | ° ′ ″ | A. M. A. |
| Morocco | 500 | 480 | Fez | 33 40 0 G. | 6 0 0 G. | 0 24 0 bl. |
| Algiers | 600 | 400 | Algiers | 39 49 0 | 2 12 0 D. | 0 9 0 ol. |
| Tunis | 400 | 250 | Tunis | 36 40 0 | 10 0 0 | 0 40 0 |
| Tripoli | 400 | 300 | Tripoli | 32 50 0 | 21 30 0 | 1 26 0 |
| Barca | 700 | 240 | Polemeta | 32 53 0 | 13 5 0 | 0 52 0 |
| Yr Aipht | 600 | 250 | Cairo | 30 2 0 | 31 18 0 | 2 5 0 |
| Biledulgerid | 2500 | 350 | Dara | | 8 0 0 G. | 0 32 0 ol. |
| Zaara | [illegible] | 660 | Tegessa | 21 40 0 | 6 0 0 | 0 24 0 |
| Duantwys | 2200 | 840 | Madinga | | | 0 38 0 |
| Guni | 1800 | 360 | Benin | 7 40 0 | 5 4 0 D. | 0 20 0 bl. |
| Nubia | 940 | 600 | Nubia | 17 0 0 | 33 0 0 | 2 12 0 |
| Abyssinia | 900 | 800 | Gondar | 13 10 0 | 35 0 0 | 2 20 0 |
| Abex | 540 | 130 | Doncala | 15 6 0 | 39 0 3 | 2 36 0 |
| Loango | 410 | 300 | Loango | 5 0 0 | 11 0 0 | 0 44 0 |
| Congo | 540 | 420 | St. Salvadore | 5 0 0 D. | 15 0 0 | 1 0 0 |
| Angola | 360 | 250 | Loando | 8 36 0 | 14 30 0 | 0 18 0 |
| Benguela | 430 | 180 | Benguela | 11 0 0 | 14 30 0 | 0 18 0 |
| Matama | 450 | 240 | dim Trefydd | | | |
| Anian | 900 | 300 | Brava | 1 0 0 | 45 0 0 | 3 0 0 |
| Zanguebar | 1400 | 350 | Mozambique | 11 0 0 D. | 40 0 0 | 2 40 0 |
| Monomotapa | 960 | 660 | Monomotapa | | | 1 18 0 |
| Monemugi | 900 | 660 | Chicova | | | 1 44 0 |
| Sofola | 480 | 300 | Sofola | 20 0 0 | 36 40 0 | 2 36 0 |
| Tir Natal | 600 | 330 | dim Trefydd | | | |
| Caffraria neu Hottentotiaid | 780 | 660 | Penrhyn gobaith | 33 55 0 | 8 23 0 | 1 13 0 |

Mae prif ynysoedd Affrica yn gorwedd yn y môr Werydd, ac yn môr yr India, ac y mae y rhai a enwir yn ganlynol, naill ai yn perthyn i rai o genhedloedd Ewrop, neu yn trefuidio â hwynt, ac felly o fudd mawr i'w llongau yn eu taith yn ol ac yn mlaen o India ddwyreiniol.

| Ynysoedd. | Mill. arwyn. | Trefydd. | Trefnidio neu yn perthyn i. |
|---|---|---|---|
| Babel Mandel ar agored y mor coch | | Babel Mandel | Pob cenedl |
| Socotra, | 3,600 | Caulasia. | |
| Ynysoedd Comora | 1,000 | Joanna. | |
| Madagascar | 163,000 | St. Austin | Ffrangcod. |
| Mauritius | 1,340 | Mauritius | |
| Bourbon | 2,100 | Bourbon | Saeson. |
| St. Helena | | St. Helena | |
| Derchafael | | | Anghyfanedd. |
| St. Matthew | | | |
| St. Thomas, Anaboa, Ynys tywysog. Fernanpo. | | St. Thomas, Anaboa | Portugiaid |
| Ynysoedd penrhyn Verd | 2,000 | St. Domingo. | |
| Goree | | Fort St. Michael | Saesón. |
| Ynysoedd Canari | | Palma, St. Christopher | Yspaeniaid |
| Madeira | 1,500 | Santa Cruz, Funchal | Portugiaid |
| Azores. | 2,000 | Angra, St. Michael. | |

# GWLADWRIAETH BARBARI.

## DOSBARTH I.

*Rhaniadau...Cylchynoedd. Maintioli...Hinsoddau...Dinasoedd a threfydd..Anifeiliaid..Hynafiaethau.*

Y gwledydd sydd yn llunio gwladwriaeth Barbari ydynt yn sefyll yn ngogledd-barth Affrica, a thyma eu henwau: 1. Morocco a Fez, 2. Algiers, 3. Tunis, a 4. Tripoli a Barca, yr hyn hefyd ydyw enwau prif ddinasoedd y naill a'r llall o honynt.

CYLCHYNOEDD. MAINTIOLI.] Ymerodraeth Morocco a Fez sydd a Môr y canoldir ar y tu gogledd; Tafilet ar y tu de; Selelmessa a theyrnas Algiers ar y tu dwyrain, a'r mor Werydd ar y tu gorllewin: ac yn 500 milltir o hyd, a 480 o led. Fez, yr hon sy weithian gwedi ei huno at Morocco sydd o ddeutu 125 milltir o hyd a 40 o led.

Algiers, sydd a theyrnas Tunis ar y tu dwyrain, Môr y canoldir ar y tu gogledd, mynyddoedd Atlas ar y tu de, a theyrnasoedd Morocco a Thafilet ar y tu gorllewin. Mae y wlad hon yn ymestyn ar lenydd Mor y canoldir am 480 milltir, ond nid yw yn cyrhaedd i'r tir oddiar 60 neu 70.

Tunis, sydd a Môr y canoldir ar y tu gogledd a dwyrain; teyrnas Algiers ar y tu gorllewin; Tripoli a rhan o Biledulgerid ar y tu de, ac yn 220 milltir o dde i ogledd o hyd ac o ddeutu 170 o ddwyrain i orllewin o led.

Tripoli, yn cynnwys Barca sydd a Môr y canoldir ar y tu gogledd, gwlad y Beriberiaid ar y tu de; teyrnas Tunis, Biledulgerid, a brô Gadamis ar y tu gorllewin, a gwlad yr Aipht ar y tu dwyrain; yn estyn o ddeutu 1,100 milltir ar hyd lenydd Mor y canoldir, ac yn cyrhaedd i'r tir o 100 i 300 milltir.

HINSODDAU.] Mae hin yr holl ardaloedd hyn yn llariedd, oddigerth yn misoedd Gorphenaf ac Awst, pan y bydd y mwllder yn lled anoddefol. Yr oedd y gwledydd hyn pan oeddynt yn meddiant Rhufain, yn cael yr enw teilwng arnynt o fod yn brif hyfryd-leoedd y ddaear, ac yr oedd mawrion yr ymerodraeth yn chwennych eu cyfanneddu o flaen un lle arall. Ond weithian mae gormes drahaus y llywodraeth wladol, yn nghyd a'r elyniaeth reddfol sy gan Fahometaniaeth i egwyddorion gwybodaeth, yn rhwystro trin y tir, oddigerth yr ychydig sydd yn terfynu ar y dinasoedd a'r trefydd.

DINASOEDD A THREFYDD.] Dinas MOROCCO sydd yn sefyll ar wastadedd têg, o fewn ychydig filltiroedd i drum Atlas, ac yn cael ei dyfrhau gan ffrydiau oddiyno: mae caer gadarn o geryg a chalch o'i hamgylch, ac mae ynddi lŷs ymherodrol gwych, ac amryw o demlau Mahometanaidd. Ond er y pryd yr ymadawodd yr ymerawdr o hono i breswylio Mequinez yn Fez yn ei lle, mae ei gwychder yn adfeilio, ac mae amryw hêolydd ynddi yn anghyfanneddl.

Algiers sy ddinas yn cynnwys ynddi o ddeutu 120,000 o drigolion; mae hon yn sefyll ar lethr mynydd y sydd ychydig oddiwrth y mor, ac yn hardd yr olwg arni: ei themlau ydynt 107, ac y mae ynddi rai adeiladau gwych heblaw yr ymdroch-dai lliosóg o farmor gwyn: ymosododd yr Yspaeniaid arni yn fynych o dir a môr, ond bob tro yn aflwyddiannus.

Tunis, yn sefyll ar safle Carthage gynt, sef ar fin y mor, sydd a chaerau ac amddiffynfeydd yn ei chylchynu: mae yr heolydd yn bardd ac yn lanwaith, ond nid oes na ffrwd nag afon yn agos iddi: dwfr gwlaw yn unig sy ganddynt, yr hwn a achubir yn ofalus pan ddigwyddo cafod. Tripoli sy ddwy dref, sef hen a newydd: yr olaf ydyw y wychaf, ond mae prinder dwfr yn ei gwneyd yn anghysyrus. Oran, ar fin y môr sy gadarn gan amddiffynfeydd ar un tu, a mynydd clogwynog ar y tu arall: bu ei threfnidiaeth yn enwog gynt, a bu yn orsaf brwydrau gwaedlyd rhwng yr Yspaeniaid a'r Mooriaid. Constantia, gynt *Cirta*, hefyd oedd un o ddinasoedd cadarnaf Numidia.

Mae amryw ddinasoedd ereill yn perthyn i'r gwledydd hyn. Fez, prif ddinas teyrnas o'r un enw sydd a 500 o demlau ynddi, a 300,000 o drigolion, ac yn agos iddi mae Mequinez, preswylfa ymerawdr Morocco. Sallee fu yn enwog am fod flynyddau lawer yn noddfa môr-ladron. Tangier yn sefyll ar lan cyfyngfor Gibraltar oedd a phorthladd buddiol yn perthyn iddi, ond distrywiwyd y cyfan gan Charles II, o Frydain, yn y bicre oedd rhyngddo a'i seneddwyr. Ceuta ar gyfer Gibraltar sy le cadarn yn meddiant yr Yspaeniaid, ag sydd agos yn wastadol yn ngwarchae gan y Mooriaid ond yn aflwyddiannus.

Anifeiliaid.] Nid ydyw yr Elephant na'r Rhinoceros yn ngwladwriaeth Barbari, ond y mae y llew, y tiger, y llewpard, yr hyena, a seirph gwenwynig o anferth faintioli yn cyfanneddu ei hanial-leoedd. Yr oedd meirch Barbari gynt yn fwy bywiog nag ydynt y pryd hwn, er hyny cludir amryw o honynt i Frydain. Y camelod, dromedariaid, asynod, mulod ac anghenfil rhwng mul a buwch o enw Kumrah, ydynt y clûd anifeiliaid. Y gwartheg ydynt fychain ac yn brin eu llaeth. Y defaid ydynt fawr, ond eu gwlan sydd arw. Yr arth, y ballasg, y llwynog, yr âb, yr ysgyfarnog, y gwningen, y ffured, y fronwen, y wâdd, ac y fadfall; hefyd yr ysgorpion, y locust, ac agos bob rhywogaeth o ymlusgiad ydynt yn dra lliosog yn y parthau hyn. Y rhyw asgellog sef yr eryr, y cudull, &c a phob adar dwfr hefyd ydynt yw canfod ynddynt.

Hynafiaethau.] Bu yn y wlad hon ddinasoedd enwog, fal y soniwyd, ac ynddynt adeiladau llawn mor ardderchog ag unrhyw oedd ar wyneb daear y pryd hyny, oud braidd yr adnabyddir y pryd hwn y lleoedd y safent arno. Gwelir ychydig yma ac acw o fawredd Mauritania yn golofnau coffäol, &c; hefyd rhai o ddyfr-ffosydd cywrain dinas Carthage, ac ambell ddarn o gaerau cedeirn Caliphiaid y Saraceniaid, a phethau cyffelyb.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Crefydd.. Iaith.. Milwyr a llongau rhyfel. Trefnidiaeth*

MAE y cenhedlaethau y sydd yn preswylio glenydd Môr y canoldir o'r Aipht i'r môr gorllewin, ac i'r tir cyn belled a mynyddoedd Atlas, yn deillio oddiwrth y trigolion a gyfanneddasant y wlad gyntaf, ac oddiwrth yr Arabiaid, Vandaliaid, a'r Mooriaid a ddëolwyd gynt o Yspaen.

Moesau ac arferion.] Y Mooriaid ydynt hardd o gorffolaeth, ond bod eu lliw yn felyn-ddu: maent yn goddef gwres anaele yr hâf, a gwlawogydd oerllyd y gauaf gyd a chryn ddewrder. Yn eu gwisgoedd maent yn arddangos mwy o symlrwydd nag yn amryw o wledydd crêd; llodrau rhyddion ac arwisg gwedi ei rhwymo am y canol, capan côch i gadw yn gynes y pen moel, ac esgidiau o'r un lliw neu felyn am y traed noethion, ydynt wisg y meibion yn gyffredinol. Y merched ydynt o well lliw oherwydd eu bod dan dô yn wastadol: ni welir unrhyw fenyw yn yr heolydd ar un amser oddigerth y rhai a fyddo yn gaethion.

Y Bereberiaid neu y cyn-drigolion, ydynt i'r dyben o fwynhau arferion eu hynafiaid gwedi ymddëol i'r mynyddoedd, ac yn llunio llwyth penigol ac yn cael eu llywodraethu gan bennaethiaid anymddibynol o enw *Sheiks*, Yr Arabiaid ydynt grwydraid yn pabellu gyd a'u diadelloedd ar gyffiniau y diffaethfaoedd, ac yn byw gan mwyaf ar yr yspail a ladratäont oddiar unrhyw ymdeithwyr o ba lwyth bynag a ddelo i'w harfod. Gwrthgilwyr gwedi newid y grefydd Gristionogol am Fahometaniaeth ydynt dylwyth arbenig arall ynddi; yn nghyd â chaethion o amryw genhedlaethau, ond gan mwyaf yn perthyn i'r Duantwysieid. Mae yr ymerawdr yn honni hawl yn yr holl gaethion, ac yn arfer arweddiad lymdost arnynt, hyd oni addefont grêd i Fahometaniaeth.

Nid oes unrhyw raddau o fonedd yn mhlith y Mooriaid, oddigerth i'r rhai sydd yn llenwi swyddi goruchel yn y wladwriaeth, a phan ddarfyddo iddynt a'u swydd, maent yn disgyn yn ddiatreg yn gyd-radd a'r lleill. Mae gan yr ymerawdr rwysg di-derfyn ar fywyd a meddiannau ei ddeiliaid: mor fuan ag y llunio unrhyw gyfraith, derbynir hi yn ei holl ardaloedd gyd a'r parch mwyaf. Ei brif swyddogion ydynt yn ymostwng hyd lawr ger ei fron, gan gusanu a chofleidio ei draed, ac efe fal etifedd holl diroedd a meddiannau y deyrnas sydd yn dyfod i feddiant o'r holl dda ar farwolaeth pob pen-teulu, oddigerth yr ychydig a ddyry wrth ei ewyllys i'r weddw i ddwyn ei phlant i fynu. Ef hefyd yw pen swyddog y deyrnas: â yn feunyddiol i'r prif lys cyfiawnder, a gwrendy yn fanwl gŵyn dyeithriaid yn gystal a'r sawl a fyddo yno yn gartrefol: ond ni wiw iddynt ddyfod i'w wyddfod yn waglaw. Rhaid cael rhodd yn gyfartal i sefyllfa y cwynwr: dau wy gan dlawd sy ddigonol i gael gwrandawiad. Pan ddyfarno unrhyw i farwolaeth, mae corff y troseddwr yn gorfod aros yn y dihenydd-le, hyd oni chaffo ceraint y marw sêl faddeuol yr ymerawdr, yna caniatëir iddo gael ei gladdu; eithr oni faddeua, rhaid gadael yr ysgerbwd yno i fwystfil y maes, neu i ehediaid y nefoedd ei ddifa.

Mae y Mooriaid yn dra chyfeillgar a'u gilydd: gwahoddent y naill y llall yn fynych i'w gwleddoedd, a chan eu bod yn Fahometaniaid, maent wrth fwyta yn lled gyffelyb i'r Twrciaid, ac fal y genedl hono, ni ommeddant yfed gwin i feddwdod er gwaethaf egwyddorion y Coran, os cafent gyfle digon dirgelaidd. Maent yn gyffredin yn arddangos gofal mawr o berthynas i gyflawni dyledswyddau crefyddol: enwaedant ar eu bechgyn pan fyddont o ddeutu wyth mlwydd oed, a thyna'r pryd yr eillir eu gwallt gyntaf, oddigerth pedwar cudyn, y rhai a adewir i hongian tros eu hysgwyddau hyd oni wnelont ryw wrolwaith: os digwydd i fachgen 12 neu 13 oed, lâdd unrhyw anifail gwyllt, yna torir ymaith un cudyn; os achub gamel neu unrhyw greadur buddiol arall a fyddo yn myned gyd a'r genllif, neu ryw beth gyffelyb, torir

un arall, ond cyn cael y trydydd ymaith, rhaid iddo ladd llew, tiger, neu ymladdwr dewr o blith ei elynion, ac yna yn facbgenaidd mwy ni bydd. Braidd bod unrhyw o'r genedl yn cyrhaedd 20 oed heb eu dïosg o'r cudynau gan y cais sydd ynddynt o ymroddi er perygl bywyd, o gael eu cyfrif yn ddynion, ac nid yn fechgyn.

Trigolion Zahara ydynt enwog mewn lletteugarwch, pan welont ymdeithydd, gwahoddent ef a'i gamelod i'w pebyll, a rhoddent iddo yn haelionus o'r hyn a fyddo ganddynt: nid ydynt yn arddangos gelyniaeth i neb am eu crefydd, onid i'r Iuddewon yn unig, pe anturiai unrhyw o'r genedl honno i'w plith, llosgent ef yn fyw.

Pan chwennycho Mooriad brïodi, gofyn i dad yr eneth am dani, ac os bydd gwedi ymfucheddu yn addas, ni all wrthod ei rhoddi, ac yna gwledd i geraint y ddeu-ddyn, gyd ag adroddiad o ychydig linellau o'r Coran gan offeiriad neu swyddog, sydd yn gwneyd y briodas i fynu. Mae merched y Mooriaid yn cael eu dysgu i gredu yn ngwrthwyneb i Fahometaniaid ereill, sef eu bod yn anfarwol, ond er hyny nid oes dedwyddwch iddynt oni byddent yn eithaf ufudd i'w gwŷr.

Y Mongeartiaid ydynt y llwyth sy dyneraf wrth y caethion o unrhyw o lwythi gwladwriaeth Barbari: dyry y rhai hyn i'r dynion gwyn a ddelo trwy longdoriad yn gaethion iddynt, fwy o barch nag i'r Negröaid, er iddynt fod yn Fahometaniaid. Ac os digwydd i'r Cristionogion oddef eu henwaedu, ac addef ysprydolrwydd y Coran, caent yn ddioed dir a meddiannau i fwy yn gyd-radd a nhwythau.

Llywodraeth.] Yn y 14 ganrif, pan oedd y Mooriaid mewn meddiant o holl ogledd-barth Affrica, y cymerodd y Sultan oedd yn beniaeth arnynt yr enw ymerawdr, ac felly mae yr enw yn parhau hyd y pryd hwn, er i'r ymerodraeth fod yn llawer llai. Mae y pennaethiaid hyn yn arglwyddiaethu ar eu deiliaid gyd â llawn-rhwysg mawr, ac mae eu bywydau yn ymddibynu ar air eu genau yn unig: ac er nad ydynt yn deyrngedawl i'r Twrc, eto addefent ef yn uwch, oherwydd ei fod yn deillio mewn llîn deg o Mahomet; a chyfrifent yn ddyledswydd arnynt, tra na ddrygont eu deiliaid eu hunain o'i gynnorthwyo yn erbyn ei holl elynion o ba genedl bynag.

Er bod yn Algiers, Tunis, a Thripoli bennaethiaid o enw *Deys* o drefniad y Twrc yn llywodraethu, eto ychydig o sylw a wneir ar awdurdod y Sultan yn y bröydd hyny. Maent yn genhedloedd mor sarug ac anfoesol, ac y lladdont eu pennaethiaid yn fradychus pan ddigwyddo iddynt fethu a'u boddio: maent hwythau yn eu tro yn eu llywodraethu â gwialen haiarn.

Crefydd.] Mahometaniaeth yn ei rhwysg mwyaf sydd yn yr ardaloedd hyn, ac y maent yn edrych ar bob cenedl na addefo ei hawdurdod fal cŵn a mòch. Maent yn cyflawni dyledswyddau crefyddol yn ofalus amryw weithiau yn y dydd, ac y mae yr offeiriaid yn dra llafurus i ddysgu y plant i ddarllen y Coran, a phan ddelont i fedru llawer o hono ar dafod leferydd, urddir hwynt heb ychwaneg o draul i'r swydd offeiriadol. Nid ydynt byth yn ceryddu y plant yn yr ysgolion, gan y barnent yn ynfydrwydd goebi unrhyw nad oes ganddo ddawn i wahaniaethu y da oddiwrth y drwg.

Iaith.] Bu y Mooriaeg yn iaith fwy ysplenydd gynt nag yw y pryd hwn. Mae rhai llwythi yn arfer yr hen iaith oedd mewn brî yn amser y Mauritaniaid: a dywedir bod rhai o ddinasyddion Morocco yn ei siared y pryd hwn.

Milwyr a llongau rhyfel.] Dywedir y gall brenin Morocco ddyfod â 100,000 o wyr i'r maes ar unwaith, ond ei gadernid mwyaf ydyw ei wyr meirch, y rhai ydynt gaethion o Duantwys, ac heb wybod o'u mebyd am ddim ond caethiwed. Nid oedd holl longau rhyfel Morocco yn 1727, oddiar ddeg o rifedi, ac nid ydynt y pryd hwn oddiar saith neu wyth: eu gorchwyl gwastadol ydyw mor-ladroniaeth, a mynych gwedi dwyn y dû y chwennychont, y soddent y llong a'r gwyr a fyddo ynddi i'r dyfnder Peth hynod ydyw bod y Carthaginiaid pan oeddynt mewn meddiant o'r wlad hon yn gallu danfon llongau tros yr holl fyd adnabyddus, pan nad oes gan y Mooriaid yn mhob oes o'u rheolaeth onid rhifedi tra bychan, a rheiny yn wastadol fal y soniwyd yn ormes ar lestri gwanach a gyfarfyddont o ba genedl bynag. Rhyfedd ydyw na oresgynai rhai o alluoedd Ewrop o'r diwedd eu hardaloedd a'u dwyn dan deyrnged: ond tebyg mai arswyd y Twrc yw'r achos, neu ofni i'r fath wlad fras ddyfod i feddiant y gallu cryfaf a ymosodai arni. Gwir yw i luoedd o Yspaeniaid yn fynych dirio ynddi, ond nid oedd gan eu blaenoriaid na dawn na medr i'r gorchwyl, a chan hyny aflwyddiant a ddilynodd eu hanturiaeth bob tro.

Trefnidiaeth.] Y prif ddaöedd a ddanfonir o'r gwledydd hyn, ydynt dannedd elephant, plu' estrys, crwyn, gwlan, mel, efydd, ac amryw fâth o ffrwythydd, ac y daoedd a dderbynir yn eu lle ydynt peiriannau rhyfel, powdr, ac angenrheidiau ereill. Mae elw mawr hefyd yn deillio i'r Mooriaid oddiwrth werthiad y Cristionogion a fyddo mor annedwydd trwy long-doriad a dyfod i'w meddiant.

## DOSBARTH III.

*Hanes gwladwriaeth Barbari.*

YN amser rhwysg Rhufain, yr ardaloedd hyn oeddynt y prydferthaf, ac y ffrwythlonaf o unrhyw barthau o'r byd adnabyddus. Julius Cæsar a'u hunodd at yr ymerodraeth fawr honno, pan oedd rhwysg ei harfau yn ddychryn i'r gwledydd oddiamgylch, a bu yn ei meddiant hyd y flwyddyn 448, pan y darfu i Bonifacius y llywydd Rhufeinaidd wrthryfela, a gwahodd i'w fintai Genseric, peniaeth y Vandaliaid, y rhai oeddynt er ys tro yn cyfanneddu glenydd deheuol Yspaen. Gwedi bwrw iau Rhufain fal hyn oddiar Barbari, cafodd Genseric yn wobr am ei wasanaeth ddwy ran o dair o'r holl wladwriaeth: ond gwedi iddo gyrhaedd Yspaen i adrodd ei lwyddiant, dychwelodd gyd a 80,000 o filwyr, yn nghyd a'u gwragedd a'u plant, ac ymosododd ar Bonifacius am y rhan arall, a bu lwyddiannus. Ar hyn danfonodd y Rhufeiniaid fyddin tan y llywydd Aspar o Constantinople i Barbari, a gwedi rhai brwydrau gwaedlyd, daeth goruchafiaeth i ran Genseric, a sicrhäodd hyn lwyr feddiant i'r Vandaliaid o wladwriaeth Barbari, oddigerth dinasoedd Cirtha a Carthage, y rhai oeddynt a'u hamddiffynfeydd hyd yn hyn yn gedeirn gan y Rhufeiniaid.

Yn y flwyddyn 435, ymheddychodd y Rhufeiniaid â'r Vandaliaid, a chawsant rai ardaloedd oedd yn gyfagos i Barbari i'w meddiant, am addewid o dalu teyrnged i ymerawdr y dwyrain trostynt: ond yn 439, tra yr oedd y Rhufeiniaid mewn rhyfel â Gothiaid Gaul, drylliodd Genseric bob rhwymau cyfeillgar, ac ymosododd yn llwyddiannus ar

Carthage, a gwnaeth hi yn brif ddinas ei ymerodraeth, ac yn y flwyddyn ganlynol yspeiliodd ynys Sicily, a chludodd ymaith ei holl gyfoeth. Felly gan bod ei rwysg fal hyn ar gynnydd yn erbyn galluoedd y ddwy ymerodraeth, ymrôdd Theodosius, ymerawdr y dwyrain i gynnorthwyo Valentinian, ymerawdr y gorllewin i'w erbyn, felly danfonwyd llynges o 1,100 o longau, a miloedd o filwyr dewraf yr ymerodraeth i Barbari. Ond Genseric ar iddynt dirio yn Barbari yn ffugio y chwennychai ymheddychu â hwynt, a oedodd ddydd brwydr hyd oni oedd yr Hunniaid gwedi goresgyn ardaloedd Theodosius: felly gorfu ar luoedd hwnw ddychwel yn ol i warchod ei ardaloedd rhagddynt, a bu heddwch rhwng Genseric a Valentinian ar i'r olaf sicrhau i'r blaenaf feddiant o'r holl froydd oedd gwedi eu goresgyn.

Yr oedd Genseric erbyn hyn gwedi dyfod mor gadarn ac iddo ymosod yn llwyddiannus yn y flwyddyn ganlynol ar ddinas Rhufain, a'i hyspeilio o'i holl gyfoeth, a gwedi iddo ddychwel i Barbari, unodd y gweddill o'r gwledydd a berthynai i Rhufain oedd yn terfynu arno at ei ymerodraeth. ac yr oedd erbyn i derfyn ddyfod ar rwysg Rhufain yn 476, mewn meddiant o holl ogledd-barth Affrica o'r Aipht i'r môr Werydd, yn nghyd â holl ynysoedd Môr y canoldir. Bu farw yn 477, gwedi teyrnasu 47 mlynedd, a daeth ei fab Hunneric i'r orsedd yn ei le, yr hwn sydd ag anfri ar ei enw gan bob hanesyddion, am ei greulonder yn arteithio y Cristionogion a ddeuai i'w afael.

Y pennaethiaid nesaf oeddynt Gutamund, Thrasamund, a Hilderic, y rhai sydd a'r sôn am danynt yn hynod am eu gelyniaeth i Gristionogaeth; ac yna Gilimer, yr hwn oedd yn rhagori ar y lleill mewn creulondeb o arteithio y Rhufeiniaid, fal y darfu i beniaeth ymerodraeth y dwyrain o'r diwedd ymroddi i roddi cais o ail-oresgyn ei fro. Rhoddwyd y lluoedd goresgynol dan nawdd Belisarius, yr hwn oedd ryfelwr enwog: a Gilimer a roddes ei fyddin yntau i ofal dau o'i dywysogion: a gwedi ymgyfarfod o'r pleidiau, bu brwydr dost am rai dyddiau, a'i therfyn fu goruchafiaeth i fyddinoedd y Rhufeiniaid: lladdwyd y ddau dywysog, a drylliwyd eu byddinoedd yn chwilfriw. Gwedi hyn casglodd Gilimer fyddin newydd a blaenorodd y llû ei hunan, ond drylliwyd honno hefyd, ac ad-gymerwyd dinas Carthage a'r broydd oddiamgylch, a diangodd Gilimer i Numidia, ac ni ddychwelodd i'w orsedd mwy; a thyna fu terfyn rhwysg y Vandaliaid yn Barbari.

Bu y wladwriaeth hon gwedi hyny dan nawdd Ymerodraeth y dwyrain, hyd oni ddaeth y Saraceniaid yn ormes arni, y rhai fal y soniwyd a ddaethant i feddiant o Yspaen agos oll, a buont yn ormes arni hyd 1492, pan y deolwyd hwynt yn ol i frô eu hynafiaid. Yr Yspaeniaid gwedi hyn yn danfon byddinoedd i Barbari i'w herlid i'r diffaethfaoedd, erfyniodd y Saraceniaid am ymwared oddiwrth y Twrc, yr hwn yn danfon lluoedd tan y ddau dywysog enwog o enw Barbarossa, a lwyddodd i fwrw iau Yspaen yn llwyr oddiar Barbari, ond yn wobr am ei orchest, meddiannodd yr holl wladwriaeth, oddigerth Morocco yn ei enw ei hun.

Ymgeisiodd Charles V amryw weithiau adenill Algiers a Tunis, ond yn aflwyddiannus, ac y mae y trigolion y pryd hwn gwedi bwrw iau y Twrc oddiarnynt, ac yn meddu rhwysg y llywodraeth eu hunain: maent hefyd fal y soniwyd yn dra gelynol i holl ardaloedd Crêd, ac yn drygu eu llongau yn ddigyfrwng yn wastadol, pan ddigwyddo cyfle addas iddynt.

# YR AIPHT.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd...Rhaniadau...Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir..Hin a thymhorau...Mynyddoedd. Diffaethfaoedd..Afonydd..Llynau..Mwngloddiau..Hynafiaethau.*

MAE y wlad hon, enwog mewn hanesyddiaeth o'r oesoedd boreuaf, ac yn ddiweddar yn ddrychlen o lwyddiant ysplenydd arfau Prydain ar dir a mor, yn sefyll yn nghwr dwyreiniol gogledd-barth Affrica, rhwng lledred 24 o 32 o raddau yn ogleddol, a rhwng hydred 29 a 34 o raddau yn ddwyreiniol; yn 500 milltir o hyd, a 250 o led: ac yn cynnwys o ddeutu 140,700 o filltiroedd arwynebol. Ei chylchynoedd ydynt Mor y canoldir, ar y tu gogledd; cyfyng-dir Suez a'r Môr coch ar y tu dwyrain; trum fynyddig y terfyn rhyngddi a Nubia ar y tu de, ac anialwch Lybia ar y tu gorllewin.

RHANIADAU.] Rhanwyd y wlad hon gynt yn ddwy ran, sef yr uchaf a'r isaf, a thrachefn yn dair, sef Aipht uchaf, neu *Thebais*, weithian *Said*: Aipht ganol, neu *Heptanomis*, weithian *Vostani*; ac Aipht isaf a elwid Delta, ond weithian *Bahira* neu *Rif*. Ond y dosbarthiad a ddyry Daearyddion yn gyffredin arni ydynt y gyfran ddeheuol ac y gyfran ogleddol, fal y canlyn.

| | | *Dinasoedd.* |
|---|---|---|
| Y gyfran ddeheuol sydd yn cynnwys ............ | Aipht uchaf. | Sayd neu Thebes.<br>Cosire. |
| Y gyfran ogleddol sydd yn cynnwys ............. | Aipht isaf.. | Cairo.<br>Bulac.<br>Alexandria.<br>Rosetta.<br>Damietta. |

GWYNEB Y WLAD, ANSAWDD Y TIR.] Gwlad wastad yw yr Aipht, hyd onid elir i'w pharthau deheuol, ac yna mynydd-dir anial ydyw: y rhan gyfanneddol o honi ydyw yr holl nant ëang y llifa afon Nile trwyddi, a chan or-llifiad blynyddol yr afon honno tros ei cheulenydd, mae y llaid y sydd yn cuddio gwyneb y nant yn ei gwrteithio hyd onid yw ei maesydd grawn, a'i choed orein, afalau, &c. yn fwy toreithiol nag yn unrhyw wlad arall,

HIN A THYMHORAU.] Mae y gwres y sydd yma o Fawrth i Dachwedd oddiwrth yr haul, ac oddiwrth boeth-wynt crâs yr anialwch agos yn anoddefol i unrhyw Ewropiad, oddigerth iddo gael lloches rhag eu heffeithiau pan y byddo eu grym fwyaf; ond mae y misoedd ereill yn dymherus a hyfryd, heb unrhyw o arwyddion gauaf ynddynt. Nid oes gwlaw braidd un amser mewn oes yn disgyn mewn rhai parthau o'r wlad hon, ac y mae tanbadrwydd ei hawyr oherwydd hyny, yn peri clwyf llygaid ac weithiau dallineb i flino y trigolion yn gyffredinol. Pan fyddo'r haul gwedi dyfod yn syth uwch Ethiopia, mae y gwlawogydd trymion y sydd yn digwyddo yn y parthau hyny yn peri i'r Nile orlenwi ei cheulenydd, nes y bydd ei holl wyneb yn llyn têg trosdo, a'r coed yma ac acw agos gwedi eu gorchuddio yn ymddangos fal cynifer o ynysoedd ynddo. A thyna y sydd yn y wlad frâs hon yn lle gwlaw yn nawseiddio y tir i gnydio ymborth i'w thrigolion.

MYNYDDOEDD. DIFFAETHFAOEDD.] Mae yr Aipht i'r de o Cairo yn nant ëang fal y soniwyd, a thrumau uchel o'i deutu ar ei hyd: yr ochr

ddwyreiniol sydd a mynyddoedd yn ei gorlenwi hyd at fin y Mor côch, ond y drum ar y tu gorllewin sy derfyn i ddiffaethfaoedd anial tywodlyd, y rhai ydynt yn ymestyn i bellder anadnabyddus : mae yma ac acw yn y rhai hyn ambell leoyn ffrwythlon, megys pe byddent ynysoedd yn nghanol môr. Yn un o'r *Oasis* hyn, canys dyna yr enw a ddyry yr Aiphtiaid arnynt, yr oedd teml wych Jupiter Ammon gynt : dywed dau o ymdeithwyr enwog iddynt weled darnau o furiau a cholofnau, a lluniau arnynt yn dynodi mai gweddillion y deml wych honno oeddynt.*

Afonydd.] Yr unig afon sydd yn yr Aipht yw y Nile : mae un o'i blaenau yn mynyddoedd Abyssinia, ac y llall yn mynyddoedd y lloer.: y flaenaf o'r ddwy a elwir *Bahur el azrek*, neu yr afon lâs, hyd ei chydiad a'r llall yn ngwlad Senaar, rhwng yr Aipht ac Abyssinia ; a'r llall, yr hon yw y gainc hwyaf a elwir *Bahur el abiad*, neu yr afon wen. Mae yr afon fawr hon yn 2,000 o filltiroedd o hyd ac yn ymarllwys trwy amryw o aberoedd i Fôr y canoldir.

Llynau.] Mae amryw lynau yn ngogledd-barth gwlad yr Aipht : y mwyaf a elwir llyn Menzala, yr hwn sy 60 milltir o hyd, ac o 2 i 12 o led : cefnen gul o dir ac aber neu ddwy arni, sydd ar hyd ei du gogleddol. rhyngddo ag ymuno yn hollol â Môr y canoldir, Y nesaf mewn maint ydyw llyn Berelos, yr hwn hefyd sydd ar fîn Mor y canoldir rhwng Damietta a Rosetta, ac yn 30 milltir o hyd a 10 o led. Llyn Kerun, 40 milltir i'r de orllewin o Alexandria sy 30 milltir o hyd, ac o ddeutu 6 o led. Llyn Hadji, 10 milltir i'r gogledd ddwyrain o Cairo, sydd hynod am mai yn agos iddo mae y minteioedd sydd yn myned i Mecca yn ymgyfarfod. Mae y llyn a elwid gynt Mareotis gwedi myned lei-lai o flwyddyn o flwyddyn hyd onid ydyw y pryd hwn gwedi troi yn nant-le sychlyd.

Mwngloddiau.] Ychydig sydd o sôn am unrhyw fwnau gwedi eu cloddio yn y wlad hon ; ond am feini gwych yn borphori, marmor, a'r cyffelyb, mae hi yn enwog er ys oesoedd lawer. Ei marmor sy dryfrith o liwiau goleu a thywyll, ond gan mwyaf yn wyrdd ac a elwir *verde-antico*, yr hwn sydd yn lled debyg, ond nid mor werthfawr a'r marmor a gloddir y pryd hwn yn Llanfechell a Rhoscolyn yn ynys Mon. Y gemau a geir ynddi ydynt yr emerald, topaz, chalcedoni, onyx, &c.

Hynafiaethau.] Mae mwy o weddillion hynafiaethau yn perthyn i'r wlad hon nag i unrhyw wlad arall. Yr adeiladau bon-braff a phigfain y sydd ynddi, ac a elwir peiramid, ydynt ag oesoedd boreu eu seiliad yn nghyd a'r dyben o honynt, yn llwyr anhysbys y pryd hwn : mae bôn y mwyaf yn gorchuddio un erw ar ddêg o dir, ag yna yn myned yn risiau ar ogwydd am 700 troedfedd o bob-tu, hyd oni therfyno yn bigfain. Mae ynddo gell 24 troedfedd o hyd a 17 o led, ac yn ei chanol gîst o farmor gwyn, ond nid oes dim ynddi, na chaead arni. Y lleill ydynt yn ychydig llai. Dyma yr adeiladau mwyaf aruthr o faint, ac i'r amgyffred y mwyaf diles o unrhyw a wnaed erioed gan ddyn : gelwid hwynt gynt yn un o saith ryfeddod y byd.

Y cladd-lysoedd amrywiol yn gelloedd êang gwedi eu naddu i'r graig, ydynt hynafiaethau hynod ereill : dywedir bod yn y rhai hyn gyrff dynion heb lwgr arnynt er iddynt fod yno er ys 3,000 o flynydd-

* Browne a Horneman.

oedd, ond y mae y dull o ber-arogli i'r cyfryw berffeithrwydd weithian gwedi colli Ond y dyrys-le a elwir *labyrinth* yn yr Aipht uchaf yw yr hynotaf o'r cyfan: mae hwn yn lle ëang, a pheth o hono is-lawr. ac y rhan fwyaf gwedi ei naddu mewn craig o farmor: cynnwysai hwn ynddo gynt 12 o lysoedd gwych, a 3,000 o gelloedd: a chyfrifid yn anmhosibl i unrhyw ddyeithr-ddyn a arweinid i'w ganol, ddychwel ei hunan yn ol. Llyn Mœris sy le mawr gwedi ei gafnio gan un o frenhinoedd yr Aipht, i'w lenwi pan orllifa y Nile ei cheulenydd, fal y byddai dwfr i'r camlesydd sydd yn deillio o hono, pan y byddai prinder yn yr afon; mae hwn o fudd mawr yn mhob oes gwedi hyny i'r wladwriaeth.

Mae'r holl wlad oddiamgylch yn llawn o hynafiaethau: y rhai hynaf ydynt y mwyaf aruthrol, ond y rhai diweddaraf ydynt yr harddaf. Y golofn wych a elwir nodwydd Cleopatra sydd ag amryw luniau hardd arni. Colofn Pompey sydd a'i phaladr o un gareg, 88 troedfedd a 9 modfedd o hyd, ac ar hyny 26 troedfedd o adeiladaeth, yn cynnwys arno benclwm hardd. Yr hynafiaeth a elwir y *Sphinx*, so sydd yn agos i'r colofnau a elwir peiramid, sy ben a rhan o wddf merch, gwedi ei naddu o graig, ac yn 33 troedfedd o uchder. Mae mewn rhai manau o'r wlad hon furiau dinasoedd a themlau gwych gwedi eu seilio oesoedd cyn crêd, ac yn yr olaf luniau yn dal arnynt eu lliwiau tra-gwych er gwaethaf gwisgiad amser.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.....Moesau ac arferion....Llywodraeth....Crefydd....Iaith. Dysgeidiaeth....Milwyr....Dinasoedd a threfydd.*

MAE y wlad hon er ys 28 canrif gwedi cael ei chyfanneddu yn olynol gan y Persiaid, Macedoniaid, Rhufeiniaid, Groegiaid, Arabiaid, Georgiaid, ac yn ddiweddaf gan y Twrciaid, a gellir gweled gosgedd gyffredin y cenhedlaethau hyny yn y trigolion y pryd hwn. Dywed yr ymdeithydd Browne nad ydynt oll weithian oddiar 2,500,000 o eneidiau.

MOESAU AC ARFERION.] Yr Aiphtiaid er iddynt fod yn gymydogion agos i'r Arabiaid, a chael eu llywodraethu gan agos yr un cyfreithiau, ac yn addef crêd i'r un egwyddorion crefyddol, ydynt a'u moesau a'u harferion yn dra gwahanol. Maent yn dair cenedl amrywiol: y gyntaf yw y Coptiaid, y rhai ydynt yn hanu o'r cyn drigolion, ag sydd yn addef crêd i Gristionogaeth; yr ail yw y Twrciaid, ac y drydedd yw yr Arabiaid: y ddwy olaf ydynt gwedi bod dan sylw o'r blaen. Y lleill ydynt o faintioli canolig, ac yn felyn o liw: a pho uchaf yr elir ar hyd glenydd y Nile, mwy tywyll o bryd ydynt, hyd oni chyfarfyddir a'r bröydd sydd a'u trigolion yn gyflawn ddu. Mae yr Aiphtiaid yn gyffredinol o agwedd foethus, yfed coffee, chwiffio tobacco, ac ymhyfrydu mewn chwareuon ofer-wag yw eu prif bleser, ac y maent felly yn dra anwybodus er i'w hynafiaid ragori yn eu dydd ar unrhyw genhedloedd ereill yn nghelfyddydau dysgeidiaeth.

Y Mahometaniaid wrth gyfarch eu gilydd ydynt yn cusanu eu llaw, ac yna yn ei dodi ar y talcen yn arwydd eu bod yn chwennych yn dda iddynt. Yr Arabiaid ydynt yn ysgwyd dwylaw, ac yn gogwyddo y

pen, ac felly mae yr arferiad yn mhlith y Coptiaid, ond y maent hwy fal cenedl yn enwog o herwydd y parch sydd yn cael ei arddangos o oesoedd boreu gan yr ieuanc tu ag at yr hen, heb unrhyw sylw ar gyfoeth y naill na thylodi y llall: ni faidd y mab eistedd yn yr un gell a'r tad, heb ei annog yn dra mynych. Maent hefyd yn dra gofalus o gyflawni dyledswyddau allanol crefydd, sef ympryd a gweddi, ond ychydig fydd o arwyddion unrhyw rinwedd pan y byddont yn ddiatreg gwedi, yn mwynhau y gamp oferwag. Trochant eu babanod deirgwaith wrth eu bedyddio, a dyry yr offeiriad ddefnyn o'r gwin cyssegredig yn ngenau y plentyn, a phan gyrhaeddont saith neu wyth mlwydd oed dyweddi-ir hwynt i gyflwr priodasol, ond ni orphenir y ddefod ar y ddeuddyn ieuanc hyd oni chyrhaeddont 14 neu 15 oed, yna cludir y briodferch mewn cerbyd cauedig i dŷ y gwr, a bydd rhestr o gerddorion yn ei dilyn, gan ganu a bloeddio yn orfoleddus ar hyd y daith.

Prif fawrion y Twrciaid ydynt yn ymhoffi mewn marchwriaeth; cyfarfyddent yn fynych mewn petrual fawr y sydd yn y brif ddinas i'r perwyl, ac y maent yn arddangos medrusrwydd yn y gorchwyl.

Pan ddelo y Nile i ddechreu ymlenwi tua chanol haf, cyhoeddir y newydd yn holl ddinasoedd y wlad, a dywedir yn feunyddiol rif modfeddi ei chodiad, hyd oni bydd erbyn diwedd Gorphenaf yn 5½ troedfedd, ac yna bydd y ddawns lawenydd a'r gwleddoedd o'r achos yn dechreu, a pharhânt felly hyd oni orlenwo ei cheulenydd, a gwneyd yr holl wlad hyd at furiau y dinasoedd yn llyn ëang, yna i orphen y tymhor llawen, bydd miloedd o fân lestri yn nofio ar hyd-ddo, ac ynddynt agos bob graddau yn ymbleseru, ac yn chwareu ar offerynau cerdd, &c.

Mae gwledd fawr arall yn cael eu chynnal ar ymadawiad blynyddol y pererinion o Cairo i Mecca: goleuir yr heolydd y pryd hyn, a bydd pob campau mewn marchwriaeth, dawns, llamu, a phob ffug chwareuon a allent ddychymygu yn cael eu harddangos: bydd y swynwyr, hoccedwyr a thwyllwyr ereill hefyd yn diwyadi yn dens y di-synwyr am eu harian am desni a'r cyffelyb, sef hanes ansawdd y gweddill o'u hoes: ereill fyddent yn arwain bwystfilod gwedi eu haddysgu iddawnsio, sef camelod, eirth, mulod, a nadroedd, ac arferion cyffelyb. rhyfaith i roddi lle iddynt yn yr hanes hwn, pe byddent o werth eu hadrodd.

Llywodraeth.] Peniaeth o enw Pasha sy tan sultan Constantinopl yn llywodraethu yr Aipht, ond y mae pennaethiaid annymddibynol ereill a elwir Mameluciaid a swyddog o enw *Sheik* yn ben arnynt, yn llunio rhan arall o'r llywodraeth wladol. Y cyfreithiau a'r gosb o'u troseddu sy gyffelyb i'r hanes a roddir yn nysgrifiad ymerodraeth y Twrc, yr hon fal y soniwyd sydd yn gor-lywio y gyfran ffrwythlon hon er ys blynyddau lawer.

Crefydd.] Mahometaniaeth sydd yn taenu ei cheinciau arswydus tros y rhan fwyaf o'r wlad hon, ac y mae yr Aiphtiaid y sydd yn addef crêd iddi, yn honni bod mwy o ysbrydolrwydd yn eu crediniaeth hwy o honi, nag y sydd hyd yn nod gan y Twrciaid. Y Coptiaid ydynt Gristionogion yn ol defodau eglwys Groeg, ond yn arfer agos yr holl ymolchiadau, puredigaethau, ac ereill ddefodau sy gan y Mahometaniaid a'r Iuddewon. Yn mhlith arferion chwithig ereill, mae yr holl dorf pan fyddo eu hoffeiriaid yn ngwasanaeth y cymun yn crybwyll am Pedr yn tori ymaith glust gwas yr archoffeiriad, yn cyd-lefain yn

uchel "Da iawn Pedr" yr hyn sydd yn peri i ddyeithraid yn fynych ddyfod i warth oherwydd chwerthin am y fath adroddiad ysmala.

IAITH. DYSGEIDIAETH.] Iaith y Coptiaid yw'r henaf o'r ieithoedd a sariedir yn yr Aipht: hon yn unig a arferid cyn dyddiau Alexander fawr, yr hwn a ymroddodd i sefydlu y Groeg i fod yn brif-iaith y wlad; ac yna daeth Caliphiaid y Saraceniaid a'r Arabaeg iddi, yr hon yw y fwyaf arferedig ynddi hyd heddyw.

Bu y wlad hon gynt yn brif orsaf dysgeidiaeth y byd, ac o honi y deihyniodd y Groegiaid yr holl enwogrwydd a berthynai iddynt mewn celfyddydau gwybodaeth. Ond pan ddaeth y Saraceniaid yn ormes arni, daeth llen gaddugol yn orchudd trosdi, fal y diflanodd pelydrau goleuni addysg o honi yn llwyr. Yr oedd un tylwyth o'r Saraceniaid, y rhai yn honni iddynt ddeillio yn ddigyfrwng o Mahomet. o gydwybod yn tarfu rhwysg gwybodaeth: pan y daeth y rhai hyn i feddiant o Alexandria, defnyddiasant am rai misoedd y llyfr-gell ardderchocaf ar y ddaear yn gynud i drin eu bwyd, a thwymo eu hymdrochdai, ac felly y gwnaethant â llyfr-gelloedd gwerthfawr ereill. Tylwyth arall o honynt, oeddynt yn parchu rhyw geinciau o ddysgeidiaeth. ond ni oddefent i'r deiliaid ymyryd ag unrhyw; ac y trydydd oeddynt o ymarweddiad gwarthus i ddynoliaeth yn eu holl ymarferiadau, ac felly y mae y rhan fwyaf o'u hepil y Twrciaid yn gyffredinol hyd heddyw.

MILWYR.] Mae Twrci yn cadw o ddeutu 12,000 o filwyr yn wastadol yn yr Aipht, ond nid yw y Pasha, peniaeth y wlad tan y Twrc, yn annog un amser iddynt roddi unrhyw dramgwydd i'r tywysogion Arabaidd, y rhai sydd a'u milwyr heb fod yn llawn mor liosog. Os ennyna drwg, lluoedd ychwanegol o Dwrciaid sy raid ddyfod i darfu y derfysg.

DINASOEDD A THREFYDD.] CAIRO, y brif ddinas yn sefyll ar lenydd afon Nile, sy gynnwysedig o ddwy dref, hên a newydd, a chastell cadarn yn amddiffynfa iddi. Mae ei hëolydd culion a'u hawyr afiach yn ei gwneyd yn annedd anhyfryd, eto dywed Browne bod ynddi 300,000 o drigolion. Dangosir yn hon ffynon Joseph, yr hon sy 100 llâth o ddyfnder; hefyd rhai o'r ystordai ýd, ac amryw hynafiaethau ereill. Mae ei hëolydd yn llawn o swynwyr a chwareuyddion: dawns y camel yw y prif bleser: dodant y creadur hwn yn ieuanc ar lenni twymyn mewn céll, ac wrth iddo godi ei draed yn fynych i fyny gan y gwres, bydd ei berchenog yn chwareu offeryn cerdd, a gwedi ychydig o arferiadau fel hyn, fe ddawnsiai y creadur bob tro y clyw gerddoriaeth.

Alexandria, ar fin Môr y canoldir, ac o ddeutu 120 milltir oddiwrth Cairo, sydd a rhai o'i hadeiladau yn dra hardd. Bu hon gynt yn brif farchnadfa y byd, oud weithian nid yw y drefnidiaeth a wneir ynddi onid ychydig. Yn agos i hon ar ynys Pharos, yr oedd y goleudy ardderchog a gyfrifid gynt yn un o saith ryfeddod y byd.

Rosetta, tref techan led hardd, sy le o gryn drefnidiaeth, ac yn sefyll ar lenydd un o aberoedd y Nile, o ddeutu 25 milltir i'r gogledd orllewin o Alexandria.

Y trefydd hynotaf ereill ydynt Damietta, gynt *Pelusium*; Seyd, gynt *Thebes* ar lenydd y Nile, 200 milltir i'r de o Cairo; Cossire, ar fin gorllewin y Mor côch; a Suez, yr hon sydd yn rhoddi enw i'r cyfyng-dir sydd yn cydio Asia ag Affrica yn nghyd.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Gwlad yr Aipht.*

NID ydyw y ffug-hanes a ddyry hanesyddion am y wlad hon cyn y crybwylliad y sydd am dani gan yr ysgrifenwyr sanctaidd o werth sylw. Dywed Josephus mai Pharaoh y gelwid ei holl frenhinoedd o ddyddiau Minæus ei brenin cyntaf, (yr hwn oedd yn teyrnasu rai oesoedd cyn dyddiau Abraham) hyd ddyddiau Solomon.

O ddeutu 520 mlynedd cyn crêd, y daeth Cambyses brenin Persia yn ormes ar wlad yr Aipht, yr hwn gwedi brwydrau aruthr, a sefydlodd ei orsedd ynddi, ac un o'i ddilynïedyddion a adeiladodd y cludeiriau anferth a grybwyllwyd am danynt eisus y sydd ynddi. Bu yr Aipht dan rwysg y Persiaid, hyd oni bu i Alexander fawr orthrechu Darius, a meddiannu y deyrn-gadair: adeiladodd hwn brif ddinas arall a galwodd hi yn ol ei enw ei hun: goresgynodd hefyd wledydd ëang oedd yn gyfagos i'r Aipht, ac unodd hwynt at ei deyrnas. Bu farw Alexander yn nghanol ei lwyddiant, a meddiannodd tywysogion ei fyddinoedd yr holl daleithiau a ennillasai, ond hanner brawd iddo o enw Ptolemy a rëolodd yr Aipht, a bu ei epil ar yr orsedd 300 mlynedd, sef hyd oni ddaeth gallnoedd Rhufain yn ormes arni, a'i gwneyd yn dalaeth o'r ymerodraeth fawr honno.

Ptolemy Dionysius oedd yn rheoli y wlad ar ddyfodiad y Rhufeiniaid, hyd oni syrthiodd ar faes brwydr; ac yna ei chwaer Cleopatra a ddaeth i'r orsedd, yr hon hefyd a ymgeisiodd a'i holl egni ymosod yn erbyn iau Rhufain, ond yn aflwyddiannus. Bu hon gan degwch ei phryd yn olynol yn eulun i Julius Cæsar, ymerawdr Rhufain, a thrachefn i Marc Anthony, un o driwyriaeth yr ymerodraeth honno, fal y soniwyd eisius, a'i therfyn a fu iddi ymwenwyno ar iddi glywed i'w chyfaill Marc syrthio ar ei gleddyf, ar dderbyn newydd mewn twyll o'i bod hi gwedi marw. Digwyddodd hyn o ddeutu 50 mlynedd cyn crêd, ac yna swyddogion o Rhufain am oesoedd lawer a deyrn-reolodd yr Aipht, sef hyd oni ddaeth y Saraceniaid fal y soniwyd, ar derfyn rhwysg Rhufain i feddiant o honi.

Bu brwydrau aruthr rhwng yr Ewropiaid ac y Caliphiaid o ddeutu yr 11 ganrif, o berthynas i'r Tir sanctaidd, yr hwn y pryd hyny oedd yn rhan o deyrnas yr Aipht, ac un o'r Caliphiaid o enw Saladin oedd y brenin a adgymerodd Gaersalem oddiar y Cristionogion, ac a barodd orllifo ei heolydd â'u gwaed: ac ef hefyd a luniodd y milwyr a elwir Mameluciaid, y rhai yn y flwyddyn 1242, a ddïorseddasant eu brenin, ac a osodasant un o'u pennaethiaid eu hunain ar yr orsedd. Bu epil y gormeswyr hyn am oesoedd yn llwyddiannus yn eu brwydrau yn erbyn y Twrc, ac yn eu sarhâu yn echrydus, ond o'r diwedd, gorthrechwyd hwynt gan arfau y Sultan Selim yn 1517, ac o'r pryd hwnw hyd heddyw ymerodraeth y Twrc sy mewn meddiant o rwysg y wladwriaeth.

Tra bu Selim yn trefnu y dull newydd o lywodraethu y wlad, encilíodd miloedd o'r Aiphtiaid tan flaenor o enw Zinganeus i'r diffaethfaoedd anial, ac yn fuan gwedi, daethant yn ormes barbaus ar y dinasoedd y sydd ar lenydd y Nile; ac epil y rhai hyn yn methu bod mor lwyddiannus yn eu hymosodiadau a'u hynafiaid, oeddynt y crwydraid a fuant enwog mewn swyn-gyfaredd a dywedyd tesni, ac y sydd a'u

hîl hyd heddyw yn grwydraid ar hyd holl wledydd cred ac amryw ereill, yn arfer y cyffelyb gelfyddydau.

Yn nghorff y ganrif ddiweddaf, rhoddwyd cais o ddifreinio y Twrciaid o'r wlad ffrwythlon hon, gan filwr dewr o enw Ali Bey, yr hwn oedd fab i offeiriad o eglwys Groeg. Gwedi gwadu Gristionogaeth, ac addef crêd i Fahometaniaeth, cafodd eir-da cyffredin trwy holl wlad yr Aipht; ac ar i hyn gyrhaedd y Sultan yn Constantinopl, danfonwyd cenhadon i'w ddihenyddio, gan addo elw mawr i bwy bynag a ddeuai a'i ben i'w wyddfod. Ali yn deall yr amcan cyn dyfodiad y cenhadon i'r wlad, aeth gyd ag ychydig filwyr i'w cyfarfod, a rhuthrodd iddynt, fal y buont feirw oll. Yna ymroddes i gael byddin gref i'w gynnorthwyo yn ei amcanion, a daeth miloedd at ei lumman yn ddiatreg, ac yn y frwydr gyntaf erlidiodd ymaith holl swyddogion y Sultan a meddiannodd rwysg y deyrngadair. Gwedi ei sefydlu fal hyn ar yr orsedd, goresgynodd Syria, Palestina, a rhan o Arabia a berthynai gynt i Sultaniaid yr Aipht ac unodd hwynt oll at ei wlad. Danfonodd hefyd i wladwriaeth Venice, y cafent drefnidio a'i ardaloedd, ac ymgeisiodd yn llwyddiannus o adferyd trefnidiaeth holl borthladdoedd y Môr coch, fal y byddai i'w wlad ail ymgyfoethogi: ond yn nghanol ei lwyddiant, bradychodd ei frawd yn nghyfraith Bey Abudahab ef, trwy flaenori blodau byddinoedd y Sultan yn ddirgelaidd i'w erbyn, ac yny frwydr waedlyd a fu rhyngddynt bu farw Ali Bey, a chladdwyd ef gyd ag anrhydedd mawr yn ninas Cairo, a'i fyddin liosog a yrwyd ar wasgar. Abudahab erbyn hyn tan y Sultan yn beniaeth y wlad, aeth rhagddo i Palestina yn erbyn Sheik Daher, yr hwn oedd dywysog y cefnogi amcanion Ali Bey, ond gwedi iddo ddistrywio yn ei arfod, cafwyd ef gwedi ei lindagu yn ei orweddfa cyn cyrhaedd ei elyn. Gwedi hyn cyhoeddodd y Twrc faddeuant i Daher a'i lu os ymwasgarent, ac felly y bu: yna gwahoddwyd Daher gan lyngesydd y Sultan i giniewa yn ei long, a chan iddo gredu ei fod yn ddiogel trwy y cyhoeddiad diweddar, cydsyniodd: ond gwedi cinio dangosodd y llyngesydd ei awdurdod, a phen Daher a orfu yn ddiatreg fyned ar y cyff, a thyna fu ei derfyn yn y 85 flwyddyn o'i oed. Y canlyniad o hyn oedd i amryw o ganlynwyr Ali a Daher wrthryfelu, a bu annrhefn mawr yn y wlad hyd y flwyddyn 1785, pan yr ymheddychodd y pleidiau.

Nid oes genym gwedi hyn unrhyw hanes am y wlad hon hyd ei goresgyniad gan y Ffrancod, yr hyn mewn rhan sy gwedi bòd eisus tan sylw. Meddiannodd y Ffrancod Cairo y brif ddinas, ac yn ganlynol yr holl frô a elwir y Delta, ac erlidiasant Murad Bey a'r holl Mameluciaid i ymofyn noddfa yn yr Aipht uchaf: ond gwedi dychwel o Buonaparte i Ffrainc, gwedi ffuantu iddo gyflawn ddarostwng y wlad, a gadael y lluoedd tan ofal Kleber, danfonodd y Sultan fyddin liosog o Dyrciaid i'w herbyn, a chan eu bod yn fwy lliosog na'r Ffrancod, cydunodd y pleidiau, a threfnwyd i'r Ffrancod gael dychwel yn ddirwystr i'w llongau i'w trosglwyddo i'w gwlad. Yr oedd llywodraeth Lloegr yn disgwyl mai dyna a fyddai y canlyniad o'u myned iad i'r Aipht, felly danfonwyd gorchymyn i'r holl lyngeswyr Brytanaidd oeddynt yn hwylio Môr y canoldir, o wneyd eu goreu i rwystro y Ffrancod i dirio yn Ewrop, felly gwedi i'r newydd o hyn ddyfod i glyw Kleber, ymosododd yn fyrbwyll ar y Tyrciaid, a gwedi brwydr waedlyd, cafodd oruchafiaeth arnynt, ond ar ol yr ymladdfa, pan oedd

Kleber debygai mewn cyflawn ddiogelwch, daeth Twrc yn ddirgelaidd i'w babell ac a'i lladdodd: cludwyd ei gorff i Ffrainc, ac hefyd esgyrn-glwm y lleiddiad, yr hwn a fuasai fyw dridiau, gwedi gyru o honynt bawl main hanner llath o hyd trwy ei gyfeistedd i'w goluddion.

Menou oedd erbyn hyn yn flaenor ar y fyddin Ffrengig, ac yr oedd ei arweddiad yn lymdost ar drigolion y wlad: o'r diwedd danfonwyd byddin liosog o Loegr i'r Aipht i erlid ymaith y Ffrancod. Keith oedd y llyngeswr, a Syr Ralph Abercrombie oedd llywydd y fyddin, a chyrhaeddasant Alexandria dygwyl Dewi 1801, ac ar y 7 a'r 8 o'r mis tiriasant mewn clud-fadau er gwaethaf tân y Ffrancod, y rhai oeddynt yn rhestr ar fin y môr yn defnyddio eu peiriannau dystrywgar yn drwyadl. Ar y 13 bu brwydr dôst, ond goruchafiaethus i Frydain, er iddi golli tros 2,000 o wyr; ac ar yr 21, bu un fwy ysplenydd, yn yr hon y dylliwyd y byddinoedd Ffrengig yn chwilfriw, ond daeth archoll farwol i ran Abercrombie, a difreiniwyd o wasanaeth y dydd hwnw y llywyddion Moore, Hope, Oakes, Lawson, a Syr Sidney Smith gan archollion peryglus: Lausanne, Beaudot, a Rodet y llywyddion Ffrengig oeddynt hefyd yn feirwon yn mhlith lladdedigion y Ffrancod, ac y llywyddion Destin, Sylly, Eppler ac ereill oeddynt yn archolledig.

Gwedi marw Abercrombie, daeth blaenoriaeth y byddinoedd i ran y llywydd Hutchinson, yr hwn a ymroddodd o fyned rhagddo yn erbyn rhwysg y Ffrancod, er nad oedd ei fyddin onid ychydig mwy na hanner eu rhifedi: ond y Twrciaid yn ymuno â nhwy, daethant yn fuan i feddiant o gastell Rosetta, ac yn ganlynol cyrhaeddasant Cairo, a gwedi gwarchae arni, danfonodd y Ffrancod genad i adrodd eu parodrwydd o ymgymodi, ac felly caniatawyd iddynt fyned i lan y môr i'w trosglwyddo yn llongau Lloegr i Ffrainc, a thyna fu terfyn rhwysg y Ffrancod ar yr Aipht,

Ar ol hyn ymroddodd y Saeson i geisio cymmodi y Mamelukiaid a'r Twrciaid a'u gilydd, ac o ad-sefydlu y llywodraeth wladol fal y buasai cyn y goresgyniad Ffrengig, ond y Twrciaid yn fradychus yn lladd y tywysogion a elwid *Beys*, ac yn ymddwyn yn greulon tu ag at y rhai a ymddangosai o fod yn bleidgar iddynt, ciliodd miloedd i'r Aipht uchaf, lle yr ymroddasant i wynebu y Twrc os deuai yno i'w haflonyddu, ac ar i'r Sultan ofni na allai ddanfon digon o filwyr i'w gorthrechu, ymheddychodd â hwynt trwy ganiatau iddynt fod yn anymddibynol, ac felly nhwy sy mewn meddiant o'r Aipht uchaf, tra mae brasder yr holl ardaloedd ereill tan rwysg llys Constantinopl.

Yr oedd Buonaparte ar ei ddychweliad o'r Aipht gwedi ei wneyd ei hun yn brif benaeth Ffrainc, a chan fod llwyddiant ar rwysg ei arfau, ymheddychodd y Twrc yn mhen ychydig amser ag ef, ac wrth hyny yr oeddynt yn elynion i Frydain, er iddi trwy draul a cholled fawr adferyd yr Aipht o dranc distryw iddi. Ar hyn danfonodd Lloegr lynges gref tan arweiniad y llyngeswr Duckworth, a gorchymyn iddo ymosod ar Constantinopl, os byddai i'r Twrc wrthod cydsynio â chynlluniau llys Prydain. Ond gwedi angori o fewn 8 milltir i'r brif ddinas, yr oedd yr hin yn dymhestlog, ac hefyd yr oedd byddinoedd y Twrciaid tan flaenoriaid Ffrengig mewn agwedd ymladdgar; felly barnwyd mai goreu oedd peidio ag ymosod ar y brif ddinas, a dychwelwyd i Loegr gwedi colli tros 300 o ddynion gan beiriannau distrwygar o amddiffynfeydd cyfyngfor y Dardanelles.

Trosglwyddwyd yn fuan gwedi hyn 5,000 o filwyr Lloegr dan y llywydd Frazer o Messina i'r Aipht, ond er iddynt gymeryd Alexandria, methasant a meddiannu Rosetta: ac ni bu Alexandria yn eu meddiant onid am chwe' mis, gan i ruthr o Dwrciaid warchae arni, a bygwth distrywio y fyddin oni adawent y lle yn ddïatreg, ac ar iddynt gael yr holl garcharorion oedd yn perthyn i Frydain i'w meddiant, rhoddasant y ddinas i fynu, a dychwelasant yn rheolaidd i'w llongau i ddychwel i'w gwlad.

Yn fuan gwedi hyn dïorseddwyd y Sultan Selim, am iddo fal y soniwyd ymroddi er gwaethaf ei fawrion o arwain trefn newydd o filwrio i'w ymerodraeth, a Mustapha IV a reolodd, yr hwn hefyd a ddïorseddwyd yn fuan gwedi gan y llywydd Mustapha Bairacter, yr hwn a flaenorasai 40,000 o wyr i Constantinopl i geisio adferyd Selim, ond Selim a laddwyd y pryd hwnw gan y Sultan newydd, a thyna fu yr achos i Bairacter ei fwrw yntef o'r orsedd, a chyhoeddi ei frawd Mahmud II, yr hwn a aned Gorphenaf 20, 1785 yn ei le.

Nid oes gwedi hyn nemawr i'w chwanegu at hanes gwlad yr Aipht: cafodd Buonaparte ddigon o orchwyl i'w wneyd mewn manau ereill, sef yn Moscow a Leipsig, yr hyn a derfynodd ei rwysg tanbaid mewn gwarth fal y soniwyd, a chan y cyfryw dro hynod, gwelwn erbyn diwedd 1814, flaenoriaid o holl alluoedd Crêd yn ymgyfarfod yn Vienna i ad-drefnu y rhwygiadau a wnaethai y gormeswr yn ystod ei reolaeth anghenfilaidd.

## ABYSSINIA.

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Mynyddoedd...Hin a thymhorau...Afonydd. Llynau...Mwnglo-ddiau.. Hynafiaethau. Dinasoedd a threfydd. Anifeiliaid.*

ABYSSINIA, neu fal y gelwir hi weithian Ethiopia uchaf, sydd yn gorwedd rhwng lledred 6° a 18° yn ogleddol, a rhwng hydred 33° a 43° yn ddwyreiniol; yn 800 milltir o hyd a 680 o led, ac yn 378,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir y wlad hon ar y tu gogledd gan deyrnas Sennaar neu Nubia; ar y tu dwyrain gan y Môr coch a gwlad Adel; ar y tu de gan deyrnas Gingiro ac Alaba; ac ar y tu gorllewin gan Kordofan a Gorham.

RHANIADAU.] Dywed Bruce, gwr o Loegr a ymdeithiodd yn ddiweddar trwy y wlad hon, bod Abyssinia gwedi ei rhanu yn 12 talaeth sef, Masuah, Tigre, Samen, Begemder, Ambara, Walaka, Gojam, Damot, Maitsha, Dembea, Kuara, Nara.

GWYNEB Y WLAD. MYNYDDOEDD.] Gwyneb mynyddig sy gan y wlad hon, ond y mae y dyffrynoedd a'r gwastadoedd y sydd heb onid ychydig o goed ynddynt yn dra ffrwythlon. Ei mynyddoedd a elwir Lamalon, Ambara, a Sameno, ac y ddau olaf ydynt y rhai uchaf yn y wlad.

HIN A THYMHORAU.] Mae y tymhorau yn y wlad hon yn myned tan yr enw y tymbor gwlyb ac y tymbor sych: y cyntaf sydd yn dechreu yn Ebrill, ac yn parhau yn ddigyfrwng hyd Medi, ac yna am y chwe' mis canlynol, mae gwres tanbaid yr haul yn ddi-orchudd yn ffin i

ddyn ac anifail; ac hefyd oddigerth yn y dyffrynoedd yn ddistryw i lysieuaeth. Mae y gwres mwll yn y tymhor gwlyb yn prysuro tyfiant, i'r fath raddau a bod dau gynhauaf o leiaf ynddi bob blwyddyn yn wastadol, a chan ei hagosrwydd i'r Cyhydedd, nis gwaeth pa fis yr heuont eu gwenith, haidd, milet, neu rawn arall a elwir teff, ond bod cyflawnder o ddwfr yn gytagos i'w ollwng weithiau tros y maes.

AFONYDD. LLYNAU.] Y brif afon yw y Nile, neu y gainc o honi a elwir yr afon lâs. Y lleill ydynt y Tacaze, y Zibbee, y Mareb, a'r Hawash, y rhai ydynt yn codi o'r mynyddoedd sydd yn nghanol y wlad.

Rhaiadr Alata sy 40 troedfedd o uchder ac o ddeutu hanner milltir o led: mae ei dwrf yn ddychrynadwy, a chlywir ef ar dywydd distaw tros ychwaneg na 40 milltir o ffordd.

Llyn Tzana neu Dembea yw y mwyaf sydd yn y wlad: ei hyd yn y tymhor gwlawog sy 50 milltir, a'i led o ddeutu 35, ond yn y tymhor sych nid yw oddiar hanner cymmaint. Mae ynddo unarddeg o ynysoedd cyfanneddol, y rhai oeddynt gynt yn garcharau i ddrygweithredwyr, a thrachefn yn anneddau i'r mawrion oeddynt yn chwennych llonyddwch oddiwrth oruchwylion gwladol, &c.

MWNGLODDIAU.] Mae peth aur yn cael ei gasglu ar lenydd afonydd y wlad hon, ac mae ynddi gloddfeydd eang o halen. Ei meini gwerthfawr ydynt yr Emerallt, Topaz, ac ereill.

HYNAFIAETHAU.] Mae yn agos i flaenau y Nile ddarnau o furiau hen demlau ac allorau, lle y mae y trigolion o amseroedd anadnabyddus yn ymgyfarfod i addoli yr afon, yr hon arfer sydd yn cael ei dal i fynu gyd â bywiogrwydd manwl hyd heddyw ganddynt. Yn agos i bentref a elwir Geesh mae tair ffynon, o'r rhai y mae y Nile yn cychwyn ei thaith, ac y mae y trigolion o herwydd hyny yn eu barnu yn sanctaidd.

DINASOEDD A THREFYDD.] GONDAR, prif ddinas Abyssinia, sydd yn sefyll ar nen gwastad bryn uchel. Mae nen y tai yn grynion, ac yn ymddangos fal cynifer o hafdai, fal y gwrthsafont yn well y tymhestloedd trymion sydd yn digwydd yn y tymhor gwlawog. Ar du gorllewin y ddinas mae y llys breninol, a rhagfur cadarn o'i amgylch, yr hwn cyn y sarhâd a fu arno gan dân, oedd adeilad anferth o faintioli: mae ynddo y pryd hwn gell i fawrion y llys ymgyfarfod yn llawn 40 llâth o hyd.

DIXAN, sy dref fawr ar lethrau mynydd pigfain uchel, ac y ffordd y sydd yn arwain iddi yn troelli o'i amgylch hyd oni therfyno yn ei heolydd. Cludir i'r dref hon gantoedd o blant Abyssinia i'w gwerthu yn gaethion i'r Mooriaid, Arabiaid, a'r Indiaid, y rhai sydd yn dyfod yno yn flynyddol i'w prynu.

Axum, yr hon fu gynt yn brif ddinas Abyssinia, sy weithian a'r rhan fwyaf o honi yn adfeiliedig: mae ynddi ddarnau o lys breninol aruthr o faint, ac yn agos iddo hetrual yn cynnwys 40 o nôd-golofnau gwenithfaen, ac ynddi ffynonell yn rhoddi cyflawnder o ddwfr yn wastadol i'r dinasyddion.

Massuah, sy dref fechan ddystadl yr olwg arni ar ynys o'r un enw yn y Môr coch: yr adeiladau ydynt o goed gwedi eu toi â gwellt.

ANIFEILIAID.] Mae y wlad hon yn dra lliosog o bob anifeiliaid yn wyllt a gwâr y sy gyffredin yn Affrica. Y llew yr hwn sy liosog ynddi, sydd yn goehel gwyddfod dyn, hyd oni ddigwyddo yn ddamwein-

iol archwaethu ei waed ef, ac yna gelyn angheuol yw: gwyddir iddo drachefn olrhain y rif-fyrdd hyd oni chafai ei ddinystrio gan helwyr neu filwyr a ddanfonid i'r perwyl hyny.

Yr elephant, rhinoceros, camelopardalis, llewpard, hyena, ac ereill ydynt yma yn lliosog; hefyd y crocodil, hippopotamus, yn nghyd a lliosogrwydd o adar ysglyfus, ymlusgiaid, a gwybed gwenwynig cyffredin yn y gwledydd poethion.

Y Rhinoceros sy greadur anferth a thebyg i elephant, ac ei unig amddiffynfa yw corn o ddeutu llathen o hyd, yr hwn sydd ar ei drwyn ac yn gogwyddo ychydig at ei goryn: rhwyga â hwn y tiger neu unrhyw fwystfil a ymesyd arno, ond ni ymesyd ef ar unrhyw yn gyntaf: glaswellt ar hyd lenydd yr afonydd yw ei unig ymborth, a phan gaffo ei ddigoni ymdreigla fal mochyn yn y llaid, a thyna yr agwedd y bydd ynddi hyd oni ail newyno. Er mai creadur gwaraidd yw hwn yn gyffredinol, eto pan gaffo ei ddigio nid oes tawelu arno: dinystriodd un o honynt oedd yn cael ei anrhegu i'r pab gan Emanuel o Portugal y llong oedd yn ei gludo.

Y Camelopardalis, creadur mwy na march, sy mewn rhan yn tebygu i gamel a charw: ei draed blaen ydynt agos ddwy-waith cyhyd a'i draed ol, ac felly rhaid iddo eu lledu oddiwrth ei gilydd i gyrhaedd y llawr pan fyddo yn pori. Ond er ei faint aruthr mae mor ofnus ac y goddef ei ymlid gan gŵn.

Yr Hyena sy wylltfil ysglyfus, o ddull a maint blaidd: nid oes unrhyw ddyfais yn llwyddo i'w ddofi: ymesyd ar bob creadur a'i cyfarfyddo, hyd yn nod ar yr elephant a'r llew; a phan y byddo prinder arno â i fynwentydd i dirio am gyrff dynion i'w difa.

Y Crocodil sy greadur anferth, tebyg ei ddull i'r geneu coeg: ei hyd pan fyddo yn llawn maint sy o ddeutu 7 llath, a'i amgylchiad o ddeutu 2. Mae hwn yn byw yn y tir a'r dwfr: ond yr olaf yw ei brif elfen: ei groen sy ry galed i unrhyw waywffon, ond nid i fwled, fal y dywed rhai. Creadur tra pheryglus ydyw: pan fetho gael pysgod â i'r tir, a chluda yn ei safn anferth y tiger, march, buwch, mochyn, neu unrhyw greadur a ddalio, i'r afon. Gorwedd weithiau am ddyddiau yn llaid glenydd yr afonydd i ddisgwyl ysglyfaeth, a chan ei debygolrwydd yn yr ystum hono i baledr coedan afrosgo, mae'n llwyddo yn fynych trwy naid annysgwiliadwy i ysglyfio dyn neu anifail a fyddo mewn cyrhaedd iddo. Dodwa y fanyw o ddeutu cant o wyau ar ddeu-dro neu dri, a thaena drostynt dywod, yr hwn yn Affrica sy ddigon gwresog i'w dëor; ond y mae aderyn a elwir ichneumon yn gwilied y fanyw yn wastadol, i sylwi ar y lle y gesyd ei wyau, a phan elo i'r dwfr, disgyn arnynt ac a'u drylliai agos oll. Pan ddigwyddo i ambell nyth-lwyth gael llonydd, gŵyr y fanyw y pryd y dëorant, ac yna â i symud y gorchudd oddiarnynt, a bydd y gwrryw, yn dëall y neges yn dilyn yn ëon i'r dyben o fwyta cymmaint o'r rhai bach ag a allo dreisio oddiar y fam. A chan y bydd yr holl lû yn erbyn y rhai bach yn yr afon hyd oni allont amddiffyn eu hunain, ni bydd gan y fam o'i thorllwyth onid un neu ddau yn gyffredin yn ddiangol.

Hippopotamus sy greadur ysglyfus, agos cymmaint ag elephant, a lled debyg i ych, yn byw fal y Crocodil yn y tir a'r dwfr: mae ei groen yn brawf yn erbyn picell, ond nid yw yn erbyn bwled. Pysgod yw ei brif ymborth, oud pan fetho a'u cael pawr wellt, ac felly yn Caffraria galwant ef wrth yr enw Mor-fuwch. Dywed rhai anianyddion mai hwn yw y Behemoth â grybwyllir am dano yn llyfr Job.

Mae yn Abyssinia wybed ychydig mwy na gwenyn yn dyfod ar brydiau yn finteioedd lliosog, ac yn drygu gyd a'u colynau blaenllym bob anifail yn wyllt a gwâr a fyddo yn eu harfod. Pan glywer sŵn onid ychydig o honynt, bydd dychryn ar bob bywolion: dyn sydd yn eu gochel trwy wisgo amryw blygion am dano, ac aros hwyaf y gallo mewn mwg. ond yr anifail sydd yn trengu weithiau yn yr anialleoedd tywodlyd, neu ar ei daith gyflym iddynt, gan ddewis hyny o flaen dyoddef eu colynau gwenwynig marwol yn meusydd ei berchenog.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Crefydd.. Iaith. Dysgeidiaeth.. Tresnidiaeth.. Milwyr.*

YR Abyssiniaid ydynt ddynion tàl, ac hardd o gorffolaeth, a gwineu tywyll o liw; eu llygaid ydynt mawr a llym, ac yn dduon yn gyffredin; eu trwynau ydynt yn llai crwm a'u gwefläu yn fwy teneu na'r dysgrifiad a roddir am y Barbariaid, ac o ran eu cynnefod gyffredin tu ag at eu gilydd maent yn addfwyn a thirion.

Ychydig o wahaniaeth sydd yma rhwng gwisgoedd y meibion a'r merched, ond fod tlysau drudfawr yn ol eu sefyllfaoedd yn harddu gwisg yr olaf. Amwisg sidan gwedi ei rhwymo am y canol sy gan y mawrion, a chotwm yw gwisg gyffredin y werin. Goddefir yma i'r gwragedd gyrchu i leoedd cyhoedd heb na llen na chûdd trostynt, yn ngwrthwyneb i'r arferiad yn yr holl wledydd ereill y sydd â Mahometaniaeth ynddynt. Nid oes yma unrhyw ffurf brïodasol yn cael ei harfer: cydsynied y ddeu-ddyn ieuanc sydd yn gwneyd y cwlwm prïodasol, a'u cydsynied pan flinont ar eu gilydd sydd yn ei ddatod, ac yn gwneyd y naill a'r llall yn rhydd i ymrwymo ag arall pan y mynont. Os digwydd bod plant gan rai a fydd yn ymadaw a'u gilydd, mae y fam yn cadw meddiant o'r genethod, a'r tad o'r bechgyn: felly nid oes gwahaniaeth yma rhwng plentyn y gaeth forwyn a phlentyn y wraig rydd, ac nid yw yr enw gordderch yn adnabyddus yn yr holl wlad. Mae yn perthyn i'w hangladdau liaws o ddefodau coel-grefyddol, sef, udo am ddyddiau lawer tros y marw gan ei geraint a'i gyfeillion, a chan restr o rai cyflogedig: a goreu y brithaf ei wyneb o gribiadau a ddyry i arddangos ei awch yn y gorchwyl o alarnadu. Ond am y rhai sydd yn cwympo ar faes rhyfel nid oes claddu arnynt, ond eu bwrw o'r tu allan i'r gwersyll i adar ysglyfus, y rhai ydynt mor liosog ag y byddont fal cymylau mawrion yn ymhongian yn wastadol uwch ben y minteioedd rhyfelgar, yn enwedig pan y cyfarfyddont ar faes y gwaed. Nî ellir dirnad medd Bruce rifedi yr heidiau asgellog hyn, ond eu cyffelybu i dywod y môr gan liosogrwydd: pan ddisgynont, bydd y ddaear am filltiroedd yn ddu gan y gorchudd o honynt a fyddo arni.

Ni oddef yr Abyssiniaid i unrhyw ddyeithraid gyd fwyta â hwynt: drylliant neu burant trwy dân bob llestr a arferir ganddynt. Bwytânt gig yn amrwd, a dywed Bruce iddo weled ychydig o ymdeithwyr yn gyfagos i Axum yn gyry gwartheg o'u blaen, ac yn tori tameidiau o honynt i ddiwallu eu chwant anghenfilaidd, ac yna yn cau y croen ar yr archoll a dodi paeled wrtho a gyry yr anifail yn mlaen hyd y pryd nesaf. Pan fyddo gwledd gan unrhyw o honynt, rhwymir ych neu

ddau wrth ystlysbost y drws, a bydd cigyddion creulon yn tori darnau teneuon o honynt i wasanaethu y gwahoddedigion: dodant y cig fal hyn yn waedlyd ar deisenau o fara croyw, a chaethweision sydd yn eu dodi yn safnau y fintai anynol hyd oni chafent eu diwallu. Mae yr anifail trwy ystod hyn yn gwaedu, yn brefu, ac yn arddangos y boen fwyaf, a phan syrthio, mae y rhai sy heb eu diwallu yn rwygo a'u danedd fal cynifer o fytheiaid gwaedlyd y gweddill a fyddo ar yr esgyrn. Dyma y dysgrifiad a ddyry yr ymdeithydd Bruce o wledd yn Abyssinia.

Llywodraeth.] Mae brenin y wlad hon yn meddu pob rhwysg ar ddäoedd a bywydau ei ddeiliaid: ei ewyllys mewn achosion gwladol ac eglwysig sy gyfraith gyffredinol, ac y mae yn honni bod y cyfryw awdurdod yn deilwng, gan ei fod yn deillio o Menilek mab y brenin Solomon o frenines Seba.* Er bod y goron fal hyn yn etifeddol yn y teulu breninol, nid oes gan yr hynaf o'r meibion fwy o hawl iddi na'r ieuengaf: dewisiad mawrion y llys yn unig ar farwolaeth y brenin sydd yn derchafu yr addasaf o honynt i'r orsedd. Arferid yma gynt e gau i fynu y tywysogion breiniol mewn llys ar nen mynydd, ac yno y cafent aros hyd onid elwid hwynt i oruchel swyddi yn y wladwriaeth, ond y mae yr arferiad hono y pryd hyn gwedi ei rhoddi heibio.

Crefydd.] Dywed Bruce bod cof-nodau blynyddol Abyssinia yn honni bod y grefydd Iuddewig yn sefydledig ynddi yn fuan gwedi ymweliad Seba â Solomon, a bod y pryd hwn rai o'i defodau yn cael ei harfer gan y Mahometaniaid a Christionogion y sydd blith dra-phlith a Phaganiaid yn ei phreswylio. Y Cristionogion ydynt ddeiliaid eglwys Groeg, ac esgob o urddiad patriarch y Coptiaid yn Cairo sydd yn ben arnynt. Frumentius oedd enw yr esgob cyntaf: hwn meddant yn y flwyddyn 333, a arweiniodd Gristionogaeth gyntaf iddi.

Iaith. Dysgeidiaeth.] Mae yma amryw ieithoedd yn cael eu sïared. Yr Iuddewon ydynt fal yn eu cyfanedd-leoedd ereill yn sïared cainc o'r Hebraeg: y Mahometaniaid ydynt yn hoffi yr Arabaeg, ac y Paganiaid a elwir hefyd Gallasiaid ydynt ag iaith benigol ganddynt. Ond iaith y llys yw yr hon a arferid gynt yn Ethiopia, ag sydd yn dra thebyg yn ei holl ranau i'r Arabaeg. Mae y llywodraeth wladol yn tarfu unrhyw gais o arwain dysgeidiaeth i'r wlad, felly anwybodaeth sydd a'i cheinciau arswydus yn ymdaenu troedi yn llwyr.

Trefnidiaeth.] Ychydig o drefn a all fod ar drefnidiaeth mewn gwlad y sydd a'i daoedd oll yn ddarostyngedig i ormes rhwysg y wladwriaeth. Er hyny mae ychydig yn annrhefnus yn cael ei wneyd ar ynys Masuah yn y Mor coch; ac hefyd gan yr Agowiaid, llwythi yn cyfanneddu y wlad sydd a blaenau y Nile ynddi, y rhai ydynt yn cludo i'r prif ddinas anifeiliaid, ymenyn, ffrwythydd, ac angenrheidiau ereill: mae y minteioedd hyn yn gyffredin yn fil neu ddwy o rifedi, rhag cyfarfod o honynt a sarhâd gan ladron neu fwystfilod gwylltion.

Milwyr.] Dywed Bruce mae 40,000 o wyr traed, ag o ddeutu 8,000 o wyr meirch yw holl gadernid y wlad hon. Barnai rhai cyn ymweliad y gwr bonheddig hwnw ag Abyssinia eu bod yn llawer mwy lliosog.

* Mae amryw o'r haneswyr dwyreiniol yn ceisio gwirio hyn: crybwyllir y peth gan *Brown* yn ei Eiriadur ysgrythyrol.

## DOSBARTH III.

*Hanes Abyssinia.*

ABYSSINIA medd hanesyddion oedd cartref brenines y dehau, yr hon sydd a sôn am dani yn dyfod o eithafoedd y ddaear i wrando doethineb Solomon, ac iddi ar ei dychweliad yn ol fynnu sefydlu y grefydd Iuddewig yn ei holl ardaloedd. Gwedi hyny nid oes braidd sôn am y wlad hon, hyd yn nod tan rwysg yr un o'r galluoedd a ddaethant yn eu tro yn ormes ar y byd adnabyddus, hyd y flwyddyn 333, pan y derbyniodd Gristionogaeth; nag ychwaith am yr holl oesoedd gwedi, hyd oni anturiodd ymdeithwyr o Ewrop, er mawr berygl, i olrhain ychydig o'i hansawdd. Nid buddiol fyddai ceisio olrhain hanes gwlad mor anhysbus i Ewropiaid yn y gwaith hwn, ond os chwennych unrhyw gael gwybodaeth ëang o honi, darllened hanesyddiaeth yr ymdeithydd Bruce am dani.

# PARTHAU DWYREINIOL AFFRICA.

*Adel. Ajan. Zanguebar. Mocaranga. Sofala.. Delagoa. Natal.*

WRTH olrhain Affrica o Abyssinia hyd at y penrhyn gobaith, y cyfarfyddir a'r gwledydd canlynol, ond ychydig a wyddis am eu hansawdd y pryd hwn oddigerth yr hyn a grybwyllir yn y talfyriad canlynol am danynt.

ADEL.] Mae y wlad hon yn sefyll ychydig i'r de o enau y Môr coch; mor yr India yn terfynu ar ei glenydd dwyreiniol, Magadaxa ar y tu de, gwlad Gallas a thaleithiau yn ymddibynu ar Abyssinia ar y tu gorllewin. Y brif ddinas yw Adel, yr hon sydd yn mhell yn y tir, yn agos i afon Hawash, o ddeutu 300 milltir i'r de o Mocha yn Arabia, lledred 8° 5' G. hydred 44° 20' D. Assem, tref fechan ar fin y mor, ond heb borthladd iddi, sydd hynod am fod ei thrigolion yn darparu ymborth i'r morwyr a dirio ynddi. Ei holl lenydd ereill ydynt anial-leoedd serth, yn llawn o ffauau bwystfilod gwylltion. Tywysog o Abyssinia o enw Salatru, yr hwn yn dianc o'r llys mynyddig y carcherid tywysogion y wlad hono ynddi, a ddaeth a'r wlad hon gyntaf i sylw: gwedi iddo briodi unig ferch y brenin, a'i ddyrchafu i'r orsedd ar ei farwolaeth, bu lwyddiannus i uno ardaloedd ëang at ei deyrnas, a thyna sydd o hanes am dani, heblaw am restr o frwydrau parhaus rhwng Mahometaniaid Adel â Christionogion Abyssinia; yr olaf trwy ystryw y Portugiaid yn ymwrthod ag eglwys Groeg, ac yn dyfod yn ddeiliaid eglwys Rhufain; ac y lleill yn cael nawdd Sultan Constantinopl o'u tu, a barodd y derfysg i barhau am oesoedd lawer, hyd oni lwyddodd y Twrc i ddiosg y ddwy wlad o'r holl borthladdoedd oedd ganddynt yn y Mor côch, ac felly rhwystro unrhyw o longau Ewrop i ddyfod a'u trefnidiaeth iddynt.

Gwlad ffrwythlon yw hon, ac er nad oes gwlaw ond yn anfynych ynddi, mae ei hamrywiol afonydd a chamlesydd yn peri lleithder parhaus yn ei maesydd, y rhai ydynt yn cnydio gwenith, haidd, milet a ffrwythydd yn doreithiol, ac yn rhoddi porfeydd breision i wartheg,

defaid, ac anifeiliaid amrywiol ereill. Prif drefnidiaeth y wlad yw llwch aur, dannedd yr elephant, pêr-lysiau, a phlant duon, y rhai ydynt yn cael eu prynu fal y soniwyd yn Abyssinia i'w gwerthu yn gaethion i'r Arabiaid, &c.

Dynion cryfion a dewr mewn rhyfel yw yr Adeliaid, ac o liw yn felyn-ddu: darn o gotwm am y canol ydyw yr unig wisg sy ganddynt: ond mae gan y brenin, a mawrion ei lys amwisg rydd tros yr holl gorff, a chapan o sidan am y pen: maent oll yn enwedig y merched yn ymlwytho â breichledau, clust-dlysau gwydr neu wefr, a'r cyffelyb.

Ajan] Ajan sydd yn cyrhaedd i benrhyn Guardefui, sef o deutu 10 o raddau lledred, ac yn cynnwys amryw wledydd nad ydyw hyd yn nod enwau rhai o honynt yn hysbys i Ewropiaid. Parthau dwyreiniol Ajan sy ddiffaethfaoedd tywodlyd, ac yn anneddau gwylltfilod, ac felly yn cael eu galw gan forwyr yn arfordir anial, ond y parthau gogleddol sy diroedd bras yn cnydio yn ehelaeth. Ag Arabia maent yn trefnidio, ac y däoedd ydynt gyffelyb i ddäoedd Adel.

Zanguebar] Mae y wlad hon yn cynnwys ynddi deyrnasoedd Mosambique, Melinda, ac ereill. Mosambique sy dair ynys ar du gorllewin culfor o'r un enw, ac o fewn 3 neu 4 milltir i'r cyfandir: meddiannodd y Portugiaid y fwyaf o honynt yn 1497, ac y maent yn eu meddiant hyd heddyw. Y brif ddinas o'r un enw sydd â phorthladd gyfleus ynddi, ac yn gadarn gan amddiffynfeydd i ddiogelu llyngesau y Portugiaid yn eu taith i'r India ddwyreiniol: mae ynddi eglwys babyddol, ac adeiladau tra gwych ereill: lledred 15°. 5' De. hydred 40° 10' Dn.

Teyrnas Melinda sydd a'i phrif drefnidiaeth yn gynnwysedig mewn llwch aur, dannedd elephant, plu estrys, a chyffuriau meddygol; hefyd rice, sygr, a ffrwythydd. Y trigolion ydynt agos yn gyflawn dduon, ac y mae y werin heb unrhyw wisg onid pais-gwta am y canol, ond y mae y mawrion o honynt yn gwisgo sidanau a gemau gwerthfawr. Mae pob rhwysg yn gyflenedig yn mrenin y wlad hon: pan elo allan o'i dy, bydd pedwar o brif fawrion y deyrnas yn ei gludo ar eu hysgwyddau, a bydd y gwragedd enwocaf yn canu caniadau o glod iddo, ac yn arogl-darthu o'i flaen ar hyd yr heolydd. Y grefydd wladol yw Paganiaeth, ond y mae rhai Mahometaniaid ynddi, ac hefyd Pabyddiaid. Y Portugiaid a ddaethant a'r olaf iddi, ac mae ganddynt 17 o eglwysi, 9 o fynachdai, ac adeiladau ereill yn Melinda y brif ddinas. Nid ydys yn barnu bod holl drigolion y deyrnas hon oddiar 200,000 o eneidiau.

Mocaranga.] Monomotapa neu Mocaranga, sydd yn gorwedd rhwng 15 a 20 o raddau lledred deheuol. Ei hinsoddau sy dymherus, a'i thir sy'n cnydio rice, sygr, a ffrwythydd yn doreithiol, ac mae ynddi liosogrwydd o elephantiaid, ac o'r adar a elwir yr estrys. Negroaid duon yw y trigolion, a chan eu bod yn Baganiaid, ychydig o drefn sydd yn eu plith. Gall pob gwr briodi cymmaint ag a allo gadw o wragedd: dywedir bod gan y brenin fil neu ychwaneg o honynt. Bu y Portugiaid yn daearu am ychydig yn y wlad hon, ond gan y cais oedd ynddynt o daenu eu hegwyddorion crefyddol yn mhlith y trigolion erlidiwyd hwynt o honi.

Sofala.] Ar gyfer Madagascar mae y gwledydd a elwir Sabia a Sofala, y rhai ydynt ardaloedd ffrwythlon. Mae gan y Portugiaid feddiant o borthladd gyfleus yn Sofala a chastell cadarn yn ei amddiffyn, ac yn lle o fudd mawr iddynt yn eu trefnidiaeth â'r India ddwy-

diriodd yn Calicut, ac ar ei ddychweliad a adeiladodd gastell ar aber afon Infanto, 600 milltir oddiwrth y Penrhyn. Yn 1600 y daeth yr Ellmyn gyntaf i ardaloedd y Penrhyn, ond nid ymsefydlasant ynddi hyd 1650, pan y bu i feddyg oedd yn perthyn i un o'u llongau, ddangos i'r gymdeithas drefnidiol y budd a ddeuai iddynt ar i sefydliad gael ei wneuthur ynddi. A chan iddynt gyd-weled a'i gynlluniau, danfonasant bedair o longau o dan ei arweiniad i ddechreu ar y gorchwyl. Felly trwy iddo roddi teganau, tobacco, brandi a'r cyffelyb i'r trigolion, cawsont lonydd i adeiladu amddiffynfa, ac i ymsefydlu ynddi: a meddiannasant y lle yn dawel hyd oni chymerwyd meddiant ynddi gan y Saeson yn 1795. Adferwyd yn ol y lle hwn yn heddwch Amiens yn 1802, ond y Saeson ar i'r rhyfel rhyngddi â Ffrainc ail ennyn a ddaethant drachefn i feddiant o honi.

# GWLAD YR HOTTENTOTIAID.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.*

ANHAWDD ydyw gwybod rhifedi trigolion parthau tufewnol Affrica: nid addas tyddai tybied eu bod mor lliosog yn gyffredinol, ag yw y llwythi y sydd yn cyfanneddu ei harfordiroedd gorllewin, o ynysoedd Canari hyd at y Penrhyn gobaith. Dyry ymdeithwyr hanes nad oes ychydig filltiroedd i'r tir, ond pentref yma ac acw yn ngwlad yr Hottentotiaid, ac mai ychydig finteioedd sydd yn eu cyfanneddu, ac fell yn gochel bod yn wasgarog rhag rhuthr y bwystfil rheibus.

MOESAU AC ARFERION.] Yr Hottentotiaid ydynt fyrion o gorffolaeth, diog ac ofnus o gynneddfau, swrth o ymarweddiad, a hagr o bryd a gwedd Maent agos oll yn gaethion i'r Ellm n, ac nid ydynt gan eu syrthni yn arddangos unrhyw awydd am ryddid. Gwisgant grwyn y gauaf, ond pan ddelo yr hâf, arffedog fechan fydd yr unig wisg. Dywed Barrow eu bod yn dra un a chyfun a'u gilydd, ac yn elusengar y naill at y llall, ond nad oes ynddynt y duedd leiaf tu ag at unrhyw orchwyl: trin tir sy waith hollol ddyeithr yn eu plith, ac nid ânt i hela ond pan y byddo angen lluniaeth arnynt. Eu hymborth cyffredin yw ffrwythydd, a phan ballo y rheiny bwytânt ysgerbwd unrhyw anifail a ddigwydd iddynt daro wrtho, ac mewn eithaf prinder ânt i dyddynod yr Ellmyn i ladrata adar dôf neu rawn er perygl bywyd, neu o leiaf o gael eu cymeryd yn gaethion ganddynt. Dodant gyrff eu meirw mewn bedd bâs fal y byddo rhwyddineb i'r cî gwyllt a'r hyena gael atynt i'w difa. Arferynt ymladd yn wrol cyn eu darostyngiad gan yr Ellmyn: y dewraf fyddai'r blaenor, ond nid ef yn unig a gafai'r glod am oruchafiaeth, byddai enw y gwaelaf os yn y perygl mor ysplenydd a'r gwychaf.

Y Gonaquasiaid ydynt genedl yn terfynu ar yr Hottentotiaid. Nid yw y rhai hyn medd Vaillant o gynnefod gyffelyb i'w cymydogion, ond yn ddynion dewrion, ac yn fwy parod i farw na bod yn gaethion i unrhyw ormeswyr. Mae eu hanneddau yn lled debyg i'r lleill, sef bythau isel gwedi eu toi â chrwyn, heb na ffenestr na simnau arnynt: gosodant yr aelwyd yn ynghanol y llawr, a byddent fyw yn gysurus yn y fâth drwch o fŵg, ag y fyddai yn angau diatreg i'r rhai sy heb

ymarfer ar cyfryw fywoliaeth. Mae gan y rhai hyn ddiadelloedd lliosog o wartheg a defaid yn rhoddi iddynt gig a llaeth, ac y maent yn belwyr enwog: bwa saeth a'r waywffon yw y prif beiriannau. Gwenwynant y saethau a arferynt mewn brwydr, fal y byddo yr archoll leiaf a wnelir yn angau diatreg.

# CAFFRARIA.

*Sefyllfa.. Moesau ac arferion. Crefydd.. Llywodraeth.*

GWLAD ëang yw Caffraria, ond ychydig a wyddis am ei hansawdd. Abyssinia a Duantwys ydynt yn terfynu ar ei pharthau gogleddol; Guni, Congo, a'r mor Werydd ar y tu gorllewin; Penrhyn gobaith ar y tu de, a mor yr India ar y tu dwyrain: mae y gyfran hon yn 700 milltir o hyd, ac yn 660 o led.

MOESAU AC ARFERION] Mae y Caffrariaid o faintioli canolig, yn gyflawn dduon o liw, ac yn gwisgo crwyn anifeiliaid. gwedi eu haddurno a gemau a lunient o ifori ac esgyrn anifeiliaid. Maent yn ymiro yn fynych â saim, ac felly yn llawn mor fudr a'r Hottentotiaid, ond nid ydynt o gynnefod mor swrth. Eu craal, neu eu hanneddau ydynt yn llunio cylchoedd cywir, ugain neu ychwaneg o fythau yn mhob un, ac yn y canol y cadwant eu dïadelloedd y nos rhag eu drygu gan wylltfilod.* Y merched ydynt yn trin y tir ac yn malu yr ŷd, ac y meibion ydynt yn gwilied y praidd, ac yn myned oddiamgylch i hela.

Pan chwennycho unrhyw Gaffrariad brïodi, gyr ddau neu dri o ychain o'i flaen at ddrws bwth y fenyw, a bydd yn ei ddilyn liaws o gyfeillion; os bydd i rieni y fenyw gydsynied a'i gais, gelwir offeiriad, yr hwn a esyd y mab mewn cylch o ferched, ac y ferch yn ynghanol cylch o feibion, ac wedi iddo adrodd ychydig eiriau, cyhoeddir hwynt yn wr a gwraig: yna lladd y gwr ieuanc yr anifeiliaid yn wledd i'r gwahoddedigion; a pheth yn ammrwd, ac arall gwedi ei ddarn dwymo gosodant arno gyd ag awch gwancus hyd oni ddifäer y cyfan, yn goluddion, a phob peth onid y croen a'r esgyrn yn unig, a gwedi i bawb ymiro yn dda a'r brasder, dychwelant i'w cartrefi a thyna fydd terfyn y ddefod.

Ar farwolaeth unrhyw o'r pentrefigion hyn, bydd galarnadu cyffredin gan holl geraint a chyfeillion y marw, a byddent yn erchi arno na ddelo ei ysbryd i'w blino, ac ereill adroddiadau paganaidd. Ni oddefir i'r corff ddyfod trwy y drws rhag i aflwydd ddisgyn ar y pentref, ond didöir y bwth i'w gael allan, ac yna cludir ef i nant gyfagos a gadawant ef ar wyneb y maes hyd oni ddelo y gwylltfil heibio.

CREFYDD.] Paganiaeth sy benaf hyd yn hyn yn holl ardaloedd dëau Affrica. Addefent ddau Fod yn goruchlywio y byd: un yn rhoddi iddynt bob daioni a fwynhânt, ac y llall yn ymroddi i'w drygu yn barhaus, felly pan byddo mellt a tharanau yn digwyddo byddent yn ymgasglu yn finteioedd i ddifenwi y drwg yspryd a fyddo yn achlysur o honynt. Eu hunig gyfarfodydd crefyddol ydynt ar y newydd loerau.

* Dywed milwr Ellmynaidd o enw Damberger, yr hwn yn ddiweddar a dramwyodd yn unigol yn ol yr hanes am dano o'r Penrhyn gobaith i Morocco, bod pennaethiaid o enw *mampa* ar bob pentref yn Caffraria, a bod pob rhwysg ganddynt ar y pentrefigion heb ymofyn a'r prif benaeth gwladol.

Mae y newyddion diweddar am lwyddiant llafur cenhadon yr efengyl yn yr ardaloedd hyn yn dra ysplenydd. Dywedir bod rhai miloedd o Hottentotiaid, Caffrariaid, ac ereill cymydogaethol iddynt gwedi cofleidio Cristionogrwydd, a bod arddeliad ar y genadwri yn parthau. Yr Ellmyn oeddynt y cenhadon cyntaf a lafuriasant yn yr ardaloedd hyn; ond y pryd hwn cymdeithas genhadawl Prydain sydd yn danfon y nifer fwyaf i daenu egwyddorion gwybodaeth ynddynt.*

LLYWODRAETH.] Mae y Caffrariaid yn cael eu llywodraethu gan beniaeth, yr hwn sydd a'i rwysg gan lleied nad oes na threth na milwyr yn perthyn iddo, ond eto yn cael ei barchu fal tad cenedl yn meddu breintiau rhyddid. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng y bwth breninol a'r lleill, ond fod cynifer yn ei gylchynu yn anneddau i'w wragedd. Mae y goron yn etifeddol mewn un teulu, ond pan ballo etifeddion, mae pennaethiaid y tylwythi gwasgarog yn ymgyfarfod i ddewis arall i lenwi y deyrngadair.

## ARFORDIR GORLLEWIN AFFRICA.

*Zahara. Guni. Benin. Congo. Loango. Angola.*

WRTH ymgyfeirio o Morocco yn ngogledd-barth Affrica ar hyd yr arfordir gorllewin rhyngom ar de y cyfarfyddir a gwlad Zahara, yr hon sydd â thylwythi o Arabiaid a Mooriaid dan enwau Monseleminiaid, Mongeartiaid, Wadelimiaid a Thrasartiaid yn ei phreswylio. Mae ardaloedd y rhai hyn yn estyn hyd at lenydd afon Senegal; lle yr adeiladodd y Ffrancod yn y ganrif olaf amddiffynfa o enw St. Louis, i'r dyben o rwyddo eu trefnidiaeth mewn gum. Cymerwyd y lle drachefn gan y Saeson yn 1758, ond adferwyd ef yn ol yn 1783. Ar gyfer penrhyn Verd mae ynys Goree, yr annedd fwyaf hyfryd y sydd yn perthyn i Affrica: bu hon gynt yn meddiant Ffrainc, ond Lloegr weithian er ys amryw flynyddau sydd yn ei meddiannu. Ychydig i'r de o benrhyn Verd mae lle a elwir Sierra Leone, o sefydliad cymdeithas o foneddigion yn Llundain yn 1791 i daenu goleuni gwybodaeth a moesoldeb yn mhlith yr Affricaniaid.†

GUNI.] Arfordir Guni sydd ynestyn o Sierra Leone hyd at Loango, ac yn cyrhaedd o 150 i 200 milltir i'r tir yn ol dywediad Dalzel, llywydd un o gestyll Guni. Yr oedd y gyfran hon gynt yn ddwy ran,

* Gwel Campbell's Travels in South Africa.

† Mae llywodraeth Prydain gwedi trefnu i'r holl gaethion a ddygir o longau dyeithrol ar hyd arfordiroedd Affrica gan longau Prydain i gael eu cludo i *Sierra Leone*, ac y mae ymddygiad dyner swyddogion y wlad hon tu ag atynt yn haeddu sylw parchus. Y rhai nad ydynt yn chwenych ymrwymo i fod yn filwyr neu forwyr, ydynt yn cael anneddau a thir i'w driu mewn pentrefi, ac y mae y pryd hwn wyth bentref, ac ynddynt o ddeutu 2,000 o Negröaid yn preswylio. Y plant o ddeutu 800 o rifedi ydynt yn cael eu haddysgu yn egwyddorion gwybodaeth gan athrawon a ddanfonir o'r wlad hon i'r perwyl; ac y mae plant Negröaid gwedi eu haddysgu yn ysgolion Bell a Lancaster yn Llundain newydd eu danfon yno yn gynnorthwy iddynt. Mae felly bob arwydd yn bresenol y bydd y Negröaid hyn yn llunio rhan fawr o drefedigion *Sierra Leone*, ac y bydd i fendithion helaeth ddeillio oddiwrth lafur y rhai sydd yn eu haddysgu. Mae cryn gynnydd eisus ar wybodaeth mewn crefftwaith, &c. yn eu plith. *Naval Chronicle for Jan.* 1815, *p.* 24.

sef Guni uchaf a Guni isaf. ond y pryd hwn mae brenin Dahomi, yr hwn oedd yn meddiannu yr olaf, gwedi uno y llall at ei deyrnas. Y brif ddinas Abomey sydd yn sefyll yn lledred 8° G. a hydred 3° 20 D.

Llywodraeth Dahomi yw y fwyaf ei llawn-rhwysg anymddibynol o unrhyw ar y ddaear: mae yr holl ddeiliaid o ba raddau bynag yn gaethion i'r brenin, eu bywyd a'u meddiannau yn ymddibynu ar air ei enau. Y prif weinidog tra y byddo o'r tu allan i'r llys yw yr unig un arall sydd â pheth mawredd yn perthyn iddo: plygir y glin i hwn, ac arwyddion ereill o ostyngeiddrwydd gan bawb a'i cyferfydd; goddefir hefyd iddo wisgo sidan, a chael ei gludo ar ysgwyddau y deiliaid a fyno, a chael gosgordd o gerddorion i'w ddilyn, &c. Ond pan ddelo at borth cyntedd y llys, rhaid iddo ymddiosg o'r holl fanieri gwychder, a rhoddi amwisg gyffredin am dano, ac aros o'r tu allan hyd oni ddanfono ei fawrhydi un o'i ordderchadon i'w wahodd i mewn, yna ar ei liniau a'i ddwylaw, rhaid iddo ymgripian i fydd ei arglwydd, a chyn y dywedo ei genadwri, rhaid iddo gusanu y llawr a rhwbio ei ben yn y llwch, &c.!

Mae y Dahomiaid yn dra charedig i ddyeithraid. Goddefir i weinidogion y teyrnasoedd sydd yn terfynu ar Dahomi ymostwng yn ol dull eu gwlad; rhoddir hefyd i unrhyw Ewropiaid a fyddo yn llywyddion amddiffynfeydd, neu yn feistri llestri, gadeiriau i eistedd arnynt yn y llys breninol, ond rhaid iddynt ymostwng pan ddelo y brenin i mewn. Dyry y brenin bob tro yr ymwelo dyeithraid gwynion ag ef gostrelaid o ddiod gadarn i bob un o honynt, a chan mai ef fydd yn ei dodi, byddai yn dramgwydd i'w gwrthod. Rhaid i'r deiliad a gaffo y cyfryw ffafor fod ar ei gefn ar y llawr, a bod a'i enau yn agored i'r brenin dywallt iddi y nifer o gostreleidiau a welo fod yn dda, ac ni wiw iddo gynyg gwrthod hyd oni lwyr feddwo, os bydd y brenin yn chwennych y cyfryw ddichell-dro.

Mae gan frenin Dahomi amryw lysoedd breninol: mae o amgylch pob un o honynt gaer ysgwâr o glai caled o ddeutu chwe-llâth o uchder, a milltir gyflawn bob ffordd. Eunuchiaid yw y gwarcheidwaid oll, ac ni oddefir i unrhyw fab arall ddyfod yn agos i'r celloedd y mae y gordderchadon ynddynt, y rhai medd Dalzel ydynt o ddeutu 3,000 o rifedi. Addysgir y merched hyn mewn defodau rhyfel i'w blaenori i'r maes ar achosion penigol, gan y brenin ei hunan. Gwellt yw tô yr holl adeiladau sy o fewn y rhagfur breninol, oddigerth y llys gwych sydd yn y canol, ac mae ar nen amryw o honynt restrau o benglogau dynion yn fanieri dewrder.

Nid oes unrhyw drethi yn cael eu gofyn yn y wlad hon: rhoddion y deiliaid i'r brenin ar wyl y meirw ydynt gyfoeth y trysorfeydd gwladol.* Cynhelir yr wyl hon yn Abomey bob blwyddyn yn fuan gwedi y Nadolig, a gwahoddir iddi yr holl lywyddion Ewropaidd a fyddo yn cartrefu yn arfordiroedd y wlad, i weled y dull o'i chynnal, y rhai yn cludo rhoddion i'r brenin ydynt yn cael eu digoni â phob danteithion am y mis y peru gwleddoedd yr wyl. Mae prif chwareuyddion y deyrnas yn dyfod yn nghyd y pryd hwn i Abomey i ddifyru y dinasyddion a'r dyeithraid a ddelo yno a'u gwrol-gampau, ond ter-

---

* Cregin a elwir Cowri o ynysoedd Maldive yn gadwyni o ugain, cant, neu fil o rifedi ydynt yma yn cael eu harfer yn lle arian: nid yw mil o honynt ond cyfartal i hanner coron o arian Prydain. *Smith.*

fyn y llawenydd yw aberthu cynifer o ddynion, y rhai gwedi eu collfarnu am ryw drosedd, ydynt yn cael eu bwrw i betrual ëang at wylltfilod gwancus i'w llarpio yn ngwydd y dyrfa. Gelwir yr aberthiad hyn yn addurniad beddau y breninol deulu.

BENIN.] Benin sy wlad yn cyrhaedd o ledred 9° yn ogleddol i ledred 1° yn ddeheuol. Gwlad afiach ei hinsoddau yw hon. Mae y trigolion yn gwisgo peisiau, ond noethion ydynt o'r canol i fynu. Y prif anifeiliaid y sydd ynddi ydynt yr elephant, tiger, llewpard, yr âb, a'r estrys, ac y mae y crocodil yn lliosog yn ei hafonydd.

LOANGO.] Mae y wlad hon yn 950 milltir o hyd, a 110 o led, ac yn sefyll i'r de o Benin. Mae ei hinsoddau agos mor danbaid ag unrhyw yn y gwregys llosg, ac yn llawer mwy gwresog nag hinsoddau Congo ac Angola. Yr oedd Loango gynt yn rhan o deyrnas Congo.

CONGO.] Gelwir y wlad hon weithian Guni isaf, gan ei bod yn cynnwys yr holl arfordir gorllewin o'r Cyhydedd i 18° o ledred deheuol, sef Loango, Congo, Angola, a Bengeula. Ond ei maint heb y lleill ydyw 150 milltir o hyd, a'i lled i'r tir i'w therfynau anhysbys sydd yn llawer ychwaneg. Mae hinsoddau Congo yn dra mwll yr haf, ond yn lled gymhedrol y gauaf. Yn mhlith ei hymlusgiaid, mae nadroedd o faint aruthrol, hefyd math o forgrug, y rhai ar brydiau fyddent yn finteioedd mor liosog ac yr ymosodent ar ddyn neu anifail a ddigwyddai ddyfod i'w harfod, gan eu difa yn llwyr hyd yr esgyrn mewn ychydig amser.

ANGOLA, &c.] I'r de o Congo mae Angola, yr hon sy gwedi ei rhanu rhwng amryw o fân dywysogion. Rhwng Angola a gwlad yr Hottentotiaid mae Benguela a Mataman, gwledydd y sydd a'u hansawdd hyd yn hyn yn anhysbys i Ewropiaid. Benguela, Angola, Congo, a Loango ydynt a'u hamrywiol dywysogion duon tan rwysg y Portugiaid. A chan mai Congo yw y gyfran fwyaf, rhoddir yma ychydig o hanes ychwanegol am dani.

Congo sydd a'i sefyllfa o fewn ychydig i'r Cyhydedd, er hyny yn mwynhau hinsoddau lled gymhedrol, gan y gwlaw parhaus sydd yn disgyn arni agos trwy ystod ei gauaf. Ei thrigolion ydynt dduon ac anfoddgar, ond nid yw eu trwynau yn grwm, na'u gweflau yn dewion fal y Negroaid cyfagos iddynt. Dynodir hwynt yn gymdeithasgar a mwyn, yn gyflym o ddeall, ond yn sarug a dialgar pan ddigier hwynt. Eu hymborth cyffredinol cyn dyfodiad y Portugiaid i'w plith oedd ffrwythydd coed, ond y pryd hwn maent yn ymborthi ar rawn, &c, ac yn ymagweddu yn lled debyg i'r genedl hono. Ond y maent yn annysgedig hollol, heb fedru darllen nag ysgrifenu: cyfrifent eu blynyddoedd wrth rif y tymhorau, eu misoedd wrth y llawn lloaid, eu dyddiau wrth godiad a machludiad yr haul, ond am oriau ag adraniadau ereill amser ni wyddent mwy nag am frût eu hynafiaid.

Eulunaddoliaeth yw y grefydd wladol, ond y mae y Portugiaid yn dra llafurus yn plannu Cristionogrwydd ynddi yn ol cynlluniau Rhufain. Addef y Paganiaid o honynt fod Bod mawr yn rheoli y greadigaeth, ond fod y goruchwylion perthynol iddi ar gynifer o is-ysprydion, y rhai ydynt yn rhoddi rhan o'r pwys ar yr offeiriaid dewinol, y sydd yn eu plith. Shalome y galwent y prif beniaeth ysprydol: y grediniaeth am hwn yw, y terfynai y greadigaeth pe digwyddai iddo farw, felly pan glefycho, rhaid i'r peniaeth nesaf mewn grâdd ato

ei lâdd, fal y llanwo ei le gorachel peryglus. Yr unig gyfarfodydd a alwent yn grefyddol sydd ar y newydd loerau, a dawns a cherddoriaeth sydd yn terfynu y cyfarfod.

Pan chwennycho unrhyw o'r Congoaid briodi, denfyn roddion a chostrelaid o win palmwydd i geraint nesaf y fenyw, ac os bydd iddynt ei yfed, bydd hyny yn arwydd o'u cydsynied: yna â i'w nhol i'w babell, ond ni sicrhâ y briodas am amryw ddyddiau gwedi, sef hyd oni chaffo fodlonrwydd o'i diwidrwydd, nawseiddrwydd, a rhinweddau ereill perthynol i wraig. Os digwydd iddi droi allan yn sarug, neu ddiog, denfyn hi yn ol i'w chyfeillion, ac â i chwilio am un a'i boddiai yn well.

Pan fyddo marw unrhyw o fawrion Loango, dodant y corff yn ei wisgoedd goreu ar ei eistedd ar adeilad cyngrwn, a chyneuant dan o'i amgylch hyd oni ddarn losgir ef, yna claddant ef gyd â gorwychder mawr. Pan ddigwyddo y brenin farw, heb onid merch ganddo, cyhoeddir hi yn ddiatreg yn beniaeth y deyrnas, ac os bydd mewn oed priodi, dyry dro trwy ei hardaloedd, a gorchymyn yn mhob tref i'r holl feibion ieuanc cywrain ddyfod i'w gwyddfod, a gwedi sylwi ar ryw un yn rhagori ar y lleill, gelwir ef i'r llŷs i'w phriodi, ac yna mae ei holl rwysg hi yn terfynu, ac yn dyfod i ran y gwr, yr hwn yn ddioed a gyhoeddir yn frenin.

# PARTHAU TUFEWNOL AFFRICA.

LLUNIWYD Cymdeithas yn Llundain yn 1788 o fwriad i ddwyn yn mlaen y gais o olrhain broydd tufewnol Affrica. Ac o 95 o aelodau oedd yn perthyn iddi, dewiswyd pump o wyr dysgedig* o honynt yn ddirprwywyr i gymerwyd gofal o'r eiddo, i ddewis ymdeithwyr, ac i ymgyfrinachu â nhwy. Y ddau gyntaf a ymgynygiasant i'r gorchwyl oeddynt wyr o enw Ledyard a Lucas. Dewisodd y blaenaf dramwy o ddwyrain i orllewin yn ei lle lletaf, sef yn y lledred y meddyliai bod afon Niger ynddo, ac felly gadawodd ei wlad ac anturiodd i Cairo yn Awst 1788. Oddiyno danfonodd i'r gymdeithas gymmaint o wybodaeth ac a gawsai gan y trefnidwyr o Abyssinia, ac ereill o barthau tufewnol Affrica, gan addo rhoddi hanes mwy manwl mor fuan ag y cyrhaeddai Sennaar, gwlad y sydd 600 milltir i'r de o Cairo, ond yn fuan gwedi iddo gychwyn, clefychodd a bu farw. Aeth Lucas i Tripoli yn Hydref 1788 gyd â chyfarwyddid i fyned tros anialwch Saara i Fezzan, ac i ddanfon oddiyno gyd a'r Mooriaid trefnidiol bob hanes am barthau tufewnol y wlad ag a fedrai roddi, ac yna i ddychwel oddiyno i Gambia neu i ryw barthau o arfordir Guni. Yr oedd llwyddiant yn tebygu o ddyfod i'w ran yn nechreu ei daith, gan iddo gael rhai o swyddogion y Mooriaid, trwy ganiatâd y *Bey* i gydfyned ag ef i Fezzan, ond yn Mesurata yn mhen y wythnos clefychodd a bu farw, a'i gyd ymdeithwyr a ddanfonasant ei ddydd-lyfr a'i hanes i'r gymdeithas.

Yr oedd Lucas cyn cychwyn o Tripoli gwedi cyfarfod â swyddog o enw Imhammed, yr hwn a roddasai iddo yr hanes a ganlyn am Fezzan, a'r parthau oedd yn terfynu arni. Dywedai hwn nad oedd teyr-

* Arglwydd Rawdon, Dr. Watson, esgob Llandaf, Syr Joseph Bankes, H. Beaufoy, Yaw. a Mr. Stuart.

nas Fezzan ond gwlad fechan, yn gylchynedig gan anial-leoedd diffaeth, a bod ynddi o ddeutu cant o drefydd, a Moursook, yn brif ddinas.

Dywedai yr un hanesydd bod o ddeutu 150 o filltiroedd i'r de ddwyrain o Moursook, anialwch 200 milltir o led, yn cynnwys ynddo amryw lwythi o ddynion gwylltion. Bod y parthau deheuol oedd yn terfynu arno yn fynyddig, ond bod y nentydd rhyngddynt drwy gael eu dyfrio gan liaws o ffrydian yn dra ffrwythlon mewn ŷd, gwair, a ffrwythydd.

Nid yw y deyrnas hon ond bechan wrth ei chymharu hi a theyrnasoedd Bournou, a Cashna, y rhai ydynt i'r de iddi. Dywedir bod yn Cashna fil o drefydd a phentrefi; a bod yn Bournou 30 o amrywiol ieithoedd yn cael eu siared. Mae y gwledydd hyn yn cynnyrchu ŷd a ffrwythydd yn doreithiol, ac y maent yn dra phoblog Ali y gelwir Sultan Bournou: mae hwn yn ddynyn dystadl yr olwg arno, heb onid math o grys sidan neu gotwm yn wisg freninol, ond y mae ei ordderchadon yn 500 o rifedi, a'r harddaf o'r meibion a enir o unrhyw o honynt sydd yn gyffredin yn cael ei ddyrchafu i'r orsedd.

I'r de ddwyrain o Bournou mae gwlad eang arall o enw Bengarmee, ac ychydig ar y tu draw iddi, mae ardal ëang yn cael ei chyfanneddu gan lwythi o ddynion agos mor anifeilaidd â gwylltfil yr anialwch: byddent yn fynych yn rhuthro i Bengarmee i gludo oddiyno unrhyw ddynion a gyfarfyddont i ymborthi arnynt yn eu gwleddoedd cyhoedd.

Llawer o hanesion ereill a ddyry Imhammed am y parthau hyn, ond gan i'r teithiwr Horneman ymweled drachefn a'r wlad, gwneir mwy o sylw yn ganlynol arnynt o eiriau y gwr hwnw.

Yr anturiwr nesaf oedd Mungo Park, ac ei genadwri ef oedd i geisio olrhain blaenau a diweddiad y Niger, ac i ymegnio i ymweled â'r dinasoedd y sydd ar ei glenydd, yn enwedig Tombuctoo a Haoussa.

Cychwynodd y teithiwr enwog hwn o bentref ar lenydd y Gambia o enw Pisania ar yr 2 o Rhagfyr 1795, a threiddiodd yn lled lwyddiannus trwy deyrnasoedd Woolli, Boundou, Kaydaga, Kasson, Kaarta, a Ludamar i Bambara. Dywed bod Woolli yn wlad wastad ffrwythlon, yn cynyrchu ŷd, cotwm a ffrwythydd; a bod Medina y brif ddinas yn cynnwys o wyth gant i fil o dai. Boundou sy led debyg i Woolli, ond ei bod yn fwy coediog. Y trigolion ydynt felyn-ddu, ac enw y y brif ddinas yw Fatteconda. Kaydaga sydd a'i hinsoddau yn fwy tymherus nag unrhyw o'r gwledydd sydd yn terfynu at arfordir Guni: mae afon Senegal yn troelli trwy nentydd ffrwythlon y wlad hon, ac yn rhoddi golwg hardd arni. Y trigolion ydynt gyflawn dduon. ac y mae rhwysg y peniaeth gwladol ar ei ddeiliaid yn ddiderfyn. O ben mynydd uchel yn Kasson y canfu ein teithiwr yr olwg harddaf o unrhyw a welsai yn Affrica: yr oedd yma yn ymddangos iddo liaws o drefydd a gwastadoedd ëang breision, ac arnynt ddiadelloedd lliosog. Gellir bwrw traws-amcan ar rifedi y trigolion wrth fod y brenin yn gallu casglu 4,000 o wyr arfog yn ddiatreg wrth sain ei dabwrdd rhyfel. Yn Kemmoo, prif ddinas Kaarta y cafodd ein teithiwr fyned i wyddfod y brenin, yr hwn a'i hannogodd i ddychwel yn ol i Kasson, gan ychwanegu nad allai ei gynnorthwyo yn ei anturiaeth oherwydd bod rhyfel er ys tro rhyngddo â brenin Bambara. Ond er hyn yn mlaen yr aeth, a chyrhaeddodd Jarra, tref yn nheyrnas Ludamar, o'r

lle y danfonodd roddion i Ali y peniaeth, yr hwn oedd yn gwersylla mewn lle rai milltiroedd oddiyno, gan ddeisyf cenad i dramwy trwy ei wlad. Dychwelodd y genad gyd â gwyr arfog, y rhai a gludasant Park at Ali, yr hwn a'i rhoddes yn ngharchar yn ddiatreg Ond yn mhen y 3 mis tra yr oedd milwyr Ali yn ymorfoleddu am orachafiaeth ar eu gelynion, cafodd Park ffael i ddianc, a thrwy ddiffaethfaoedd tywodlyd poethion, lle y dyoddefodd newyn a syched hyd oni lewygodd yn fynych, daeth o'r diwedd i gyffiniau Bambara, ac i olwg gwrthrych penaf ei anturiaeth, sef afon Niger.

Mae yr hanes a roddodd y teithiwr enwog hwn o dro i dro i'r gymdeithas yn dra helaeth: dywed bod trigolion y parthau tufewnol yn dri thylwyth gwahanol, sef y Negroaid, Ethiopiaid, a Mooriaid: y ddau dylwyth blaenaf ydynt yn Baganiaid eulunaddolgar, sarug, ac anwybodus, ac yr olaf ydynt Fahometaniaid haerllug fal eu hynafiaid yr Arabiaid. Ond nid oedd y gwledydd a grybwyllwyd yr aethai trwyddynt mor liosog o drigolion ag a ddisgwyliai oddiwrth fraster y tir, yr hwn oedd yn cynnyrchu digonedd o ffrwythydd peraidd heb unrhyw drinfa arno. Gwelodd rai ardaloedd hyfryd heb unrhyw annedd o fewn milltiroedd iddynt, ac felly yr oedd terfynau yr amrywiol deyrnasoedd am filltiroedd meithion. Dyry gyffelyb hanes am lenydd hyfryd afonydd Senegal a'r Gambia, ac ereill oeddynt yn agos i'r arfordir gorllewin. Ond deallodd mai y drefnidiaeth anynol mewn caethion a barasai y cyfryw anghyfanedd-dra yn yr anneddau hyfryd hyny

Pan ddaeth Park fal hyn trwy y fath gynifer o beryglon i olwg y Niger, yr oedd ei lawenydd megys yn gyflawn, "Gwelwn" meddai, "gyd â phleser annrhaethadwy wrthrych fy nghenadwri, sef y Niger yn gyfled ag yw afon Thame wrth Westminster yn gorllifo rhyngddi a chodiad haul. Prysurais i'w glenydd, a gwedi drachtio o'i dyfroedd, diolchais mewn gweddi i Lywodraethwr pob-peth am y cyfryw lwyddiant ar fy anturiaeth."

Oddiyma aeth ein teithiwr i Sego, prif ddinas Bambara, yr hon medd ef sy bedair rhan: dwy ar un tu i'r Niger, a dwy ar y tu arall. Y tai ydynt o glai, a nenau gwastad arnynt, ac y mae rhai o honynt gwedi eu gwyn-galchu: ond culion yw yr heolydd. Mae amryw demlau Mahometanaidd ynddi, a mur cadarn o'i hamgylch, a barnai bod ynddi o ddeutu 30,000 o drigolion, "Yr oedd yr olwg," meddai "ar y ddinas, ar y mân lestri oedd yn nofio ar hyd yr afon, yn nghyd â ffrwythlondeb y tir, yn erddi, perlleni a maesydd hardd, yn beth na ddisgwiliais yn y modd lleiaf ei weled yn mharthau tufewnol Affrica." Mae y ddinas hon yn sefyll yn lledred 14° 10' G. a hydred 2° 26' G.

Oddiyma aeth Park ar hyd lenydd yr afon i Silla, tref fawr o ddeutu 80 milltir i'r dwyrain o Sego, ond yma daeth y gwlawogydd cyhydeddol i'w rwystro i fyned rhagddo, ac ar iddo geisio myned mewn cwch tros yr afon, ni oddefai peniaeth y lle iddo fyned, eithr danfonodd ef i olwg pentref pell i ymofyn lletty. Erbyn cyrhaedd yno yn flinedig ac mewn eisiau lluniaeth, nid oedd neb yn barod i'w dderbyn i dy, ac er taer erfyn am ryw gysgod i ochel y dymhestl o wynt a gwlaw oedd yn digwyddo bod y pryd hwnw, ni wrandawai neb arno: felly o dan bren brigog yr arhosodd hyd oni thosturiodd gwraig oedd yn dychwel oddiwrth ei goruchwylion yn y maes wrtho, a'i ar-

wain i'w thy, lle y cafodd bob ymgeledd. "Gwnaeth merched y ty," meddai "fy nyddanu â chaniadau, a myfi oedd testyn un o honynt, a thyma gyfieithad o'r geiriau." Y gwynt mawr oedd yn chwythu a'r gwlaw yn llifeirio, y dynyn gwyn tlawd, yn flinedig ac mewn eisiau a ddaeth i orphwys tan ddail ein pren. Nid oes ganddo fam i gludo iddo laeth, na gwraig i falu ei ŷd, &c. Boed ini resynu dros y truan gwyn, nid oes ganddo fam, &c.'*

Yr oedd y trigolion hyn yn dra un a chyfun a'u gilydd, ond ychydig o gynnydd oedd ar wybodaeth yn eu plith. Yr oeddynt yn addef nad oedd ganddynt unrhyw amgyffred am drefn y cyrff nefol: ond am y ddaear honnant mai maes ĕang gwastad ydoedd, a bod afon o ddwfr hallt yn terfynu ar ei pharthau pellaf, tros yr hon yr oedd dwy wlad o

---

* Cyfansoddodd y *Duchess of Devonshire* benillion cerdugar seisnig oddiwrth y geiriau hyn, a thyma ymhelaethiad arnynt ar fesur cerdd gymreig o waith Mr. Dafydd Thomas, o'r Waun fawr.

I.

Ymdeithydd unig, llawn o fraw,
Dan wynt a gwlaw ystormus,
Heb letty cynnes yn ei ran
Gul enaid, gwan—galonus;
Dan gysgod pren, ar fin yr hwyr
Eisteddai'n llwyr alarus!

*Cydgerdd* II.

Tosturiwn wrth y truan gwyn
Sy'n awr mewn tyn galedi,
Ni fedd ef fam,—ni fedd ef wraig,
I beri i'w saig wresogi;
Ni fedd yn awr, mewn isel fyd
Ddim llaeth nag ŷd i'w godi.

III.

Y merched duon gwelsont ef
Ymhell o'i gartref parchus,
Ac, meddynt hwy,—mae'r truan gwŷn
Mewn cyflwr syn gresynus;
Dangoswn iddo' wyllus da,
Amserol a chysurus.
Tosturiwn, &c.

IV.

Cynnyrfus ydyw'r wybren fry,
A'r dyfroedd sy'n llifeirio;
Y truan gwyn, sy'n flin a thlawd,
Na wnawn mor gwawd o hono:
Ond rhoddwn iddo heno ran
O'n bwth,—heb anobeithio.

V.

I'n mysg daeth gwynddyn, ar ei daith,
Ar adeg laith i rodio,
A chan ei fod yn mhell o'i wlad,
Danghoswn gariad iddo;
Ni chaiff colledion, tywydd llaith,
Na newyn chwaith ei flino.

*Cydgerdd.* VI.

Bydd wych,—y gwynddyn, dos ith daith,
Aeth heibio'r maith galedi,
Wel, cofia'r merched du ei gwedd
A wnaeth ymgeledd iti;
A chrêd fod ynddynt 'wyllys da,
Ystyriaeth, a thosturi.

enwau *Toubau doo,* a *Jong sarg doo,* " un yn wlad y bobl wynion, ac y llall yn fangre y dëolir caethion iddi " Y canlynol ydyw yr hanes a gasglodd Park yn Sego am Tombuctoo a Haoussa.

TOMBUCTOO.] I'r gogledd ddwyrain o Masina (gwlad yn terfynu ar du gogleddol y Niger) mae teyrnas Tombuctoo, yr hon sydd â phrif ddinas o'r un enw, ac yn dra lliosog o drigolion. Y wlad hon yn ganol-bwnc trefnidiaeth Affrica, daeth iddi o dro i dro liaws o Fooriaid, rhai o awydd i ymgyfoethogi, ac ereill o fwriad i daenu eu hegwyddorion gwyrgam, fal y daeth y trigolion yn frenin a deiliaid o'r diwedd i gofleidio Mahometaniaeth, a dywedir eu bod yn fwy llym yn erbyn crefyddwyr ereill nag unrhyw o'r Mooriaid yn Barbari. Gwelodd Park wr oedranus a fuasai yn Tombuctoo: yr hwn a adroddodd y buasai gwedi ei werthu i fintai o grwydraid yn ddiatreg oni buasai iddo gofleidio Mahometaniaeth. Aba Abrahima y gelwir y brenin y sydd y pryd hwn ar orsedd Tombuctoo: mae hwn yn meddiannu cyfoeth lawer, a chanddo liaws o ordderchadon, y rhai gyd a'i brif weinidogion ydynt mewn gwisgoedd sidan. Rhaid yw i bob trefnidiaeth a elo i'r ddinas dalu tóll i'r trysordy breninol, a thyna ydyw prif gyfoeth y llŷs.

HAOUSSA.] Haoussa, prif ddinas teyrnas fawr i'r dwyrain o Tombuctoo sydd gynniweirfa ëang arall i'r Mooriaid trefnidiol ddyfod iddi. Mae hon yn hytrach mwy poblog na Thombuctoo, ac yn cael ei llywodraethu gan gyfreithiau cyffelyb.

Yn mhen rhai blynyddau gwedi dychweliad Mungo Park ar ol bod oddicartref 2 flynedd a 7 mis, y bu i'r llywodraeth fwriadu ei ddanfon i roddi ail gynyg i olrhain afon Niger, a'r dinasoedd poblog y sydd ar ei glenydd. Cychwynodd o Loegr Ionawr 30, 1805, a chyrhaeddodd ynys Goree yn niwedd y Mawrth canlynol, ac oddiyno gyd â dau gyfaill o enw Alexander, a Scott, a 35 o filwyr Lloegr o ynys Goree, aeth rhagddo i afon Gambia, ac wedi tirio yn Kayee, y lle y llogodd offeiriad Mahometanaidd o enw Isaaco i fod yn arweinydd iddo yn ei daith hyd oni ddeuai i afon Niger, aeth rhagddo i Pisania, o'r lle y cychwynasai ddeng mlynedd yn ol i olrhain parthau tufewnol Affrica. Yn fuan gwedi cychwyn dechreuodd y tymhor gwlyb, yr hwn a barodd i'r rhan fwyaf o'i wyr glefychu, a chyn iddynt gyrhaedd Bambakoo ar lenydd y Niger, y lle y mae'r afon yn dechreu bod yn ddigon dofn i fod yn fordwyol yr oedd 27 gwedi trengu. Oddiyma danfonodd Park Isaaco at Mansong, brenin Bambara, i ofyn ei genad o dramwy trwy ei wlad, a chan bod y rhoddion yn boddio Mansong, rhoddes ganiatad iddo. Yna aeth trwy beryglon dirfawr gan wylltfilod a chan y trigolion eiddugeddus i dref Sansanding, yr hon sydd yn cynnwys ynddi o ddeutu 10,000 o drigolion, y lle yr arbosodd am ddau fis i adeiladu cwch i'w gludo yn mlaen, ond erbyn cychwyn (Tach. 16) nid oedd ond tri o'i wyr yn fyw, ac oddiyma y danfonodd ei ddydd-lyfr gyd ag Isaaco yn ol i Gambia, a thyna'r hanes olaf o'i waith ei hun a dderbyniwyd.

Gwedi blwyddyn lawn fyned heibio, a dim sôn am Park yn dychwel, danfonodd prif weinidog Prydain orchymyn i lywydd Senegal i logi dyn addas i fyned i lenydd y Niger i ymofyn ei hanes. Ar i'r llywydd fyned i annedd Isaaco, cafodd ganddo gymeryd arno y gorchwyl: felly gadawodd Senegal yn Ion. 1810, a dychwelodd gwedi bod agos ddwy flynedd ar y daith â chenadwri fod Park gwedi

ei ladd yn mhen y pedwar mis gwedi iddo adael Sansanding, mewn bicre â'r trigolion ar y Niger, ar gyfer tref o enw Boussa rhwng Tombuctoo ac Haoussa. Cyfarfu Isaaco yn Sansanding â dyn du o enw Amadi Fatouma, yr hwn a fuasai arweinydd i Park o'r dref honno gwedi gadaw o Isaaco ef hyd o fewn terfynu teyrnas Haoussa. Dywedodd hwn i Park logi pump ereill o Negröaid i'w gynnorthwyo i hwylio ei gwch, ac i liaws o fân lestri o borthladd Tombuctoo a manau ereill ymosod arnynt yn barhaus wrth fyned heibio, ond gan nad oedd ganddynt arfau tân, i Park a'i wŷr eu trechu yn wastadol, hyd oni ddaeth ar gyfer Boussa, y lle yr oedd creigiau yn estyn ar draws yr afon megys pont, ac iddynt yno gyd â saethau â cheryg ddifetha'r cwch, a thaflu'r teithiwr enwog i'r dyfnder.*

Fezzan.] Ar y 6 o Medi 1798, anturiodd ymdeithydd o enw Horneman o Cairo gyd a caravan Fezzan i'r dyben o olrhain parthau tufewnol Affrica. Aeth y caravan rhagddo heibio i Ummesogier, pentref bychan i Oasis Siwah, ac oddiyno trwy anial leoedd disathr i Moursook y brif ddinas, erbyn Hydr. 17. Dywed y teithiwr hwn bod Fezzan yn wlad fras, ac yn cael ei chylchynu ar y tu gogledd gan fynydd-dir, yr hwn sydd yn cael ei gyfanneddu gan Arabiaid teyrngedawl i Tripoli. Ar y tu dwyrain mae mynyddoedd Harutsch a diffaethfaoedd tywodlyd ëang yn terfynu arni. Ar y tu de mae gwlad y Tibboaid, ac ar y tu gorllewin mae cenedl grwydrol a elwir Tuariciaid yn preswylio. Nid yw ei hinsoddau ar na haf na gauaf yn gymhedrol: bydd y gwrês y sydd yn dilyn deheu-wynt amser hâf agos yn anoddefol; ac yna trwy ystod y gauaf bydd awel lem ac weithiau tymhestloedd trymion o'r gogledd yn peri oerni tra gwenwynllyd. Arabiaid sydd yn cludo i'r deyrnas hon o barthau gogleddol Affrica agos yr holl ŷd y sydd yn cael ei ddifa ynddi: mae rhwysg gormesol y pennaethiaid, yn nghyd ag anwybodaeth y trigolion yn peri i amaethyddiaeth fod hyd yn hyn yn ddyeithr yn eu hardaloedd.

Trigolion y deyrnas hon ydynt o ddeutu 75,000. Mae ynddi 101 o drefydd a phentrefi, ac enw y rhai y sydd yn nesaf mewn maint i Moursook y brif ddinas yw Sockna, Sibba, Hun, Wadon, Gatron, Yerma, a Zuila.

Y trigolion hyn ydynt o faint canolig, gwineu tywyll o liw, ac yn tebygu yn eu gosgedd gyffredinol i'r Negröaid. Mae y mawrion o honynt yn enwedig y merched yn ymlwytho â gemau, yn glychau, modrwyau a'r cyffelyb, ac y wisg wladol yw mantell laes o gotwm a gludir o Cairo yno, neu o frethyn garw a wneir yn y wlad.

Mae Fezzan yn cael ei llywodraethu gan Sultan, yr hwn sydd a'i rwysg ar ei ddeiliaid yn ddiderfyn, ond y mae yn deyrngedawl i Tripoli, ac yn talu i beniaeth y wlad hono yn aur, senna, a chaethion,

* Ganwyd Mungo Park mewn pentref yn agos i Selkirk yn Ysgotland, ar y 10 o Medi 1771. Gwedi arddangos cryn gynydd mewn dysgeidiaeth yn y dref honno, rhoddwyd ef at feddyg, a gwedi dyfod o'i amser, aeth yn feddyg cynnorthwyol i long oedd yn hwylio i'r India ddwyreiniol. Ar ei ddychweliad clywodd am y gymdeithas a grybwyllwyd uchod, felly ni orphwysodd hyd oni chafodd ei bennu ganddi i olrhain anial-leoedd Affrica. Gwedi dychwel yn ol, a chael elw mawr oddiwrth argraffiad o hanes ei daith, aeth i'w dref enedigol, ac ymbriododd â merch hen gyfaill iddo o enw Anderson, a dilynodd am dro alwedigaeth meddyg. Ond yn nechreu 1801, cynygiodd y llywodraeth iddo yn dra haelionus os anturiai eilwaith i olrhain y Niger yn mhellach, ac felly cydsyniodd, a bu terfyn ar ei yrfa, gan adael gwraig a thri mab ac un ferch ar ei ol.

werth o ddeutu mil o bunau Lloegr yn flynyddol. Mae y goron yn etifeddol yn yr un teulu, ond nid y mab hynaf bob amser sydd yn cael ei dderchafu i'r orsedd, a phan na ddigwyddo hyny bydd cryn dywallt gwaed cyn adferiad trefn yn y wladwriaeth. Mae y Sultan yn byw yn wastadol mewn castell cadarn, heb neb gyd ag ef onid ychydig o eunuchiaid gwarcheidiol: ei ordderchadon ydynt tan ofal ei wraig mewn llŷs cyfagos, ac nid oes yr un o honynt i ddyfod i'w wyddfod heb wahoddiad penigol. Mahometaniaeth yw y grefydd wladol.

Mae cryn drefnidiaeth yn cael ei wneyd rhwng y wlad hon a'r gwledydd oddiamgylch: cludir iddi o Cairo sidanau a brethynau; o Bournou efydd; o'r gwledydd sydd yn terfynu i'r de iddi, gaethion a phlû estrys; ac o Tripoli beirianau rhyfel, cyllyll, &c. Y dâoedd a drosglwyddir o Fezzan ydynt llwch aur, crwyn panflew, a'r cyffelyb.

Dar Fur.] Mae y wlad hon yn sefyll i'r de o wlad yr Aipht, ac i'r gorllewin o Abyssinia, yn darran fynyddig ond yn cynnwys ynddi rai meusydd ëang tra ffrwythlon, ac y mae ei gwylltfilod ac anifeiliaid ereill yn dra lliosog. Ei hinsoddau ydynt afiach gan rym y gwres, a chan y tarth y sydd yn esgyn yn wastadol o'i neutydd. Y trigolion yn ol y traws amcan a roddes Mr. Browne arnynt ydynt o ddeutu 200,000. Cobbe, y brif ddinas sydd yn cynnwys ynddi o ddeutu 6,000: mae hon yn ddwy filltir o hyd, ond yn gul, a chlai gan mwyaf yw defnydd y tai. Mae trigolion y wlad hon o gynneddfau bywiog, yn ymhoffi mewn dawns a champau oferwag ereill, ac yn gyffredinol yn lladron hyfion, a thwyllodrus yn eu cyfnewidiaeth, &c. Y grefydd wladol yw Mahometaniaeth, ond nid ydyw y trigolion yn fanwl yn cyflawni gorchymynion y Coran, eithr yn yfed gwin i feddwdod, ac arferion ereill y sydd yn diarddel pwy bynag a fyddo yn euog o honynt yn y gwledydd y mae moesau y trigolion gwedi eu nawseiddio. Mae pob gallu llawnrhwysg yn y brenin, sïeryd am holl ddaöedd y wladwriaeth fal ei eiddo, ac am ei holl ddeiliaid fal cynifer o gaethion. Enw y sultan oedd yn rheoli pan oedd y teithiwr Browne yn y wlad hon oedd Abd-el-rachman: cafodd Browne genad i fyned i'w lŷs, pan oedd tros fil o bobl wedi ymgyfarfod. Yr oedd y sultan yn eistedd ar orsedd wŷch yn nghanol ei warcheidwaid, ac yr oedd areithiwr cyflogedig ar ei du aswy yn crôch-weiddi a'i holl egni tra bu y cyfarfod, "Gwelwch y Bual, hiliogaeth bual, tarw y teirw, elephant o rym rhagorol, y Sultan galluog Abd-el-rachman-el-rashid!—Bydded i Dduw estyn dy oes—O Feistr cynnorthwyer di i gael buddugoliaeth ar dy holl elynion, &c." Dygodd y Sultan hwn y goron oddiar ei nai yn 1787, gwedi iddo ei drechu ar faes brwydr.

Bu yr ymdeithydd Browne rai blynyddau yn tramwy o'r Aipht a Senaar i Dar-fûr a Soudan fal trefnidiwr, felly cafodd gyfle têg o weled agwedd y trigolion Er bod peth trefn ar y cyfreithiau gwladol, a bod adeiladau y prif drefydd yn arddangos cryn gywreinrwydd, eto gwelai bod y trigolion yn y râdd isaf o eulun-addoliaeth. Braidd bod prïodas yn sefydliad wladol yn yr ardaloedd poblog hyn, ac felly nid oes unrhyw ddirmyg yn dilyn, i'r ceraint nesaf ymgymysgu a'u gilydd fal anifeiliaid direswm.* Wrth olrhain y gwledydd y sydd yn terfynu ar Dar-fûr y collodd y teithiwr enwog hwn ei einioes.

Trefnidiaeth Carthion.] Cyn ymado â chyfandir Affrica, nid

* Browne's travels in Africa.

anaddas fyddai rhoddi ychydig ddysgrifiad o'r drefnidiaeth anynol mewn caethion, sef yn (1.) y dull o ddal y caethion yn Affrica, (2.) yr arweddiad greulon arnynt ar y daith o Affrica i'r India orllewin; ac yn (3.) eu gwasanaeth caled i'w penaethiaid Ewropaidd yn yr India orllewin ac America.

Y dull o ddal y caethion sy fal y canlyn :—Pan ddelo llong a fyddo yn trefnidio mewn caethion i lenydd Affrica, mae y cadpen yn danfon cenadwri at beniaeth yr ardal nesaf, yr hwn yn ddïatreg a wna ryfel ar ei gymydog gwanaf, i'r dyben o gael carcharorion i'w gwerthu. Dyry ei filwyr yn oriau y nos y pentrefi oddiamgylch ar dân, a bydd ereill mewn cynllwynfaoedd dirgel yn barod i ddal y truain yn eu cais o ddianc. Weithiau danfonir mintai o filwyr 3 neu 4 cant milltir i'r tir, gan ladrata cymmaint a gyfarfyddont o wyr, gwragedd a phlant, a'u gyru yn gwplwsedig fal cynifer o fytheiaid i lenydd y mor i'w gwerthu.

Y caethion fal hyn gwedi eu dal, a'u gwerthu i'r Trefnidiwr, y peth nesaf ydyw cyfleu cymmaint ag a allo gynnwys, neu yr hyn a ganiatäo y gyfraith iddo yn ei long. Y lle y sydd i bob caethwas yw 6 throedfedd o hyd ac 16 modfedd o led, ond y mae lle y benywod a'u plant yn bytrach llai. Porthir hwynt ddwywaith yn y dydd â rice a ffâ mân, ac weithiau rhoddir iddynt ychydig o gig a bara. Gwedi pob pryd rhoir iddynt hanner pint o ddwfr, ac yna er mwyn cadw iechyd ynddynt, gorfydd arnynt yn eu heiyrn trymion ar wastad eu cefnau ymlamu am yspaid amser, yr hyn a eilw Trefnidwyr mewn caethion, "gwneyd iddynt ddawnsio." Maent fal hyn yn gorlenwi y llong, fal braidd y gellir cerdded ei bwrdd isaf heb eu sathru Nid oes ganddynt fwy o le na chan ddyn yn ei arch, felly bydd lliaws yn meirw o ddiffyg anadl, &c. cyn terfyn y fordaith ddychrynllyd.

Pan gyrhaeddo caeth-long yr India orllewinol, danfonir y Negröaid annedwydd i'r farchnadfa, a bydd yr olwg arnynt gwedi curio gan y gofidion, a gwall ymgeledd ar y daith yn dra thruenus, er hyny dodir hwynt ar fwrdd, y naill ar ol y llall i'w gwerthu am yr uchaf geiniog. Weithiau bydd y tad yn cael ei brynu gan un trefnidiwr, y fam gan arall, ac y baban bach gan drydydd, a phethau cyffelyb rhy anhawdd ymatal oddiwrth ofidion blin wrth yr adroddiad unigol o honynt.

Mae y caethion y sydd yn trin y tir yn dechreu ar eu gorchwyl caled tan flangellau meistri creulon gyd a'r wawrddydd, ac yn parhau hyd fachlud haul, oddigerth dwy-awr ganol dydd a hanner awr gwedi y boreu-bryd. Y dogn dyddiol i bob un o fwyd yw pint o rice a hanner penog. Pan fyddis yn flangellu unrhyw o honynt, hongir yr adyn truan wrth ei freichiau a dodir pwysau trymion wrth ei draed, ac yna gosodir arno gan ddyn yn ymgyfenwi ar enw Cristion, hyd oni chaffo ei ddigter annynol ei leddfu. Ni fernir yn euog, a laddo Negro, ac am drosedd tra bychan weithiau, arteithir hwynt yn echrydus, megys archolli, tori aelod ymaith, a'r cyffelyb.

Dywedodd y seneddwr enwog Pitt yn senedd-dy Prydain ar iddo flaen-ganfod terfyn y drefnidiaeth caethion fal hyn, "Yr ydwyf yn hydeiu bod y drefnidiaeth hon gwedi derbyn ei chollfarn, a bod ei dedryd gwedi ei sicrhau; bod y cyfryw felldith ddynol, y gwarthnod duaf a fu erioed ar ein henw gwladol o gylch cael ei symud ymaith, a bod dynol ryw yn debyg o gael eu gwared oddiwrth y drwg

mwyaf ofnadwy a flinodd epil Adda erioed:—oddiwrth y trueni mwyaf trychinebus a grybwyllwyd erioed yn hanesyddiaeth y ddaear. Ni chynnwysai ll. frau mawrion hanes yr arweddiad greulon ac anynol a arferir yn y drefnidiaeth hon yn yr India orllewinol, America ddeheuol a'r Taleithiau cyfunol."*

> We have no slaves at home—then why abroad?
> And they themselves, once ferried o'er the wave
> That parts us, are emancipate and loosed!
> They touch our country, and then their shackles fall;
> That's noble, and bespeaks a nation proud
> And jealous of the blessing. Spread it then,
> And let it circulate through ev'ry vein
> Of all your empire—that where Britain's power
> Is felt, mankind may feel her mercy too!
>
> COWPER.

# YNYSOEDD AFFRICA.

AR du dwyrain Affrica, sef yn mor yr India y cyfarfyddir â'r ynysoedd a elwir Socotra, Babelmandel, Madagascar, Comoro, Bourbon, a Mauritius, y rhai a olrheinir yn gyntaf; ac yna ar y tu gorllewin sef yn y môr Werydd mae St. Helena, Dercbafael, St. Mathew, St. Thomas, Goree, Verd, Canari, Madeira, &c.

Socotra, yn lledred 12° G. a hydred 55° D. ac o ddeutu 90 milltir i'r dwyrain o benrhyn Guardafui, sydd o ddeutu 80 milltir o hyd a 54 o led. Mae hon yn ynys dra ffrwythlon mewn per-lysieu, cyffuriau meddygol, a'r cyffelyb; ac yn lliosog o drigolion, y rhai ydynt Fahometaniaid teyrngedawl i Arabia.

Babelmandel, yn lledred 12° G. a hydred 44½° D. yn sefyll yn agored culfor o'r un enw, ac o ddeutu 4 milltir oddiwrth lenydd Arabia ac Abyssinia, sydd ynys fechan noethlom, o ddeutu 5 milltir o amgylchiad, hynod gynt am fod yn achos o ryfeloedd gwaedlyd rhwng yr Arabiaid a'r Abyssiniaid, gan iddi oherwydd ei sefyllfa agos i'r ddeu-dir fod megys agored i'r môr côch. Trwy y Cyfyngfor hwn y cludid gynt yr holl ddaöedd o India i wledydd Ewrop, ond gwedi darganfod y Penrhyn gobaith, nid llawer o drefnidiaeth a wneir trwy y mor hwnw.

Ynysoedd Comora, ydynt bump o rifedi, sef Joanna, Mayotta, Mohilla, Angazei, a Comora: maent yn gorwedd rhwng lledred 10 a 14° D. a rhwng hydred 41 a 46° D. sef o ddeutu hanner y ffordd rhwng Madagascar a'r lan. Joanna, y benaf, yr hon yn mynu teyrnged gan y leill, sydd o ddeutu 30 milltir o hyd a 15 milltir o led. Mae yn yr ynysoedd hyn helaethrwydd o bob ffrwythydd y sydd rhwng y Trofeydd, a bydd llongau Lloegr y sydd yn perthyn i'r India ddwyreiniol a fyddo yn rhwym i Bombay weithiau yn troi i'w phorthleoedd am angenrheidiau. Y trigolion ydynt Negroaid yn addef cred i Fahometaniaeth, ond yn ddynion gwaraidd yn eu hymddygiad tu ag at ein morwyr.

* Mae Lloegr gwedi dileu y gyfraith oedd yn cefnogi y drefnidiaeth hon, ac yr ydys yn disgwyl gwedi terfyn cyfarfod galluoedd Cred yn Vienna; na oddefir i unrhyw genedl arall fyned a'r fath orchwyl gelynol i ddynoliaeth yn mlaen.

Madagascar, y fwyaf o ynysoedd Affrica, yn sefyll o ddeutu 300 milltir oddiwrth gyfandir Affrica, rhwng lledred 12 a 26° yn ddeheuol a rhwng hydred 43 a 51° yn ddwyreiniol, sy 1,000 o filltiroedd o hyd ac o ddau i 300 o led. Mae yr ynys hon yn dra-llawn o ŷd a ffrwythydd, sef conynau sygr, gwinrawn, cyffuriau meddygol, &c; hefyd amryw anifeiliaid, ac ehediaid, ac y mae ei hamrywiol afonydd yn heigio pysgod. Haiarn, efydd, a meini gwerthfawr, sy hefyd yn ei mwngloddiau, ac y mae ei hin yn gymhedrol ac yn iachus er i'w sefyllfa fod mewn hinsoddau poethion. Y trigolion ydynt o wahanol liw, ac o wahanol ddaliadau crefyddol; rhai gwynion, rhai Negroaid; rhai Mahometaniaid, rhai Paganiaid. Y gwynion, y rhai yn tueddu i fod yn felyn lled dywyll ydynt yn cyfanneddu yr arfordiroedd, ag ydynt fal y mae'n amlwg oddiwrth eu hiaith a'u defodau crefyddol, yn deillio oddiwrth yr Arabiaid; ond nid oes ganddynt na themlau, nag unrhyw gyfarfodydd crefyddol, oddigerth ar ddyddiau aberthiad rhai o'u hanifeiliaid ar achosion penigol; megys mewn selni, pan heuont eu tir, enwaedu ar eu plant, cyhoeddi rhyfel, myned i breswylio annedd newydd, neu gladdu eu meirw. Rhaid oddiwrth y cyfryw ddefodau i Iuddewon breswylio ynddi gynt, ond ni wyddis yn mha oesoedd. Y Portugiaid a ddarganfu yr ynys hon gyntaf: meddiannwyd hi gan y Ffrancod y 1641, ond y trigolion yn methu cydweled â nhwy yn eu dull o lywodraethu, dëolwyd hwynt ymaith yn 1652, ac o'r pryd hwnw hyd heddyw, tywysogion o'u plith eu hunain ydynt yma ac acw ar hyd-ddi yn ei llywodraethu: bydd weithiau ymladdfeydd dychrynllyd rhyngddynt a'u gilydd er mwyn anrhaith, neu er mwyn ennill caethion i'w caled-waith.

Mauritius, neu ynys Maurice, enwad a roddes yr Ellmyn arni pan y gwelsont hi gyntaf yn 1598, o barch i'w tywysog Maurice, sydd yn gorwedd rhwng lledred 20° D. a hydred 56° D. sef o ddeutu 400 milltir i'r dwyrain o Madagascar. Mae hon ar ddull hirgrwn, o ddeutu 150 o filltiroedd o amgylchiad, ac y mae ynddi borthladd gyfleus, digon ëang i gadw yn ddiogel rhag unrhyw wynt 50 o longau mawrion. Ei hinsoddau ydynt iach a hyfryd, ac er nad yw y tir ond teneu, mae ynddi doreth o rice, ffrwythydd, tobacco, &c yn tyfu: ac y mae ei phorfeydd yn cynnal lliaws o wartheg, defaid, ceirw, a geifr. Nen y mynyddau uchel ydynt tan eira trwy y gauaf, ond y mae eu llethrau yn cynnyrchu y pren a elwir eboni ac ereill yn helaeth. Bu hon ym meddiant yr Ellmyn, ac hefyd hyd y rhyfel ddiweddar yn meddiant y Ffrancod, ond y Saeson sy weithian yn cadw meddiant o honi, hyd oni chyfan drefnir yr heddwch rhwng Lloegr â Ffrainc.

Bourbon, yn lledred 21° D. a hydred 54 D. ac o ddeutu 300 milltir i'r dwyrain o Madagascar sydd o ddeutu 20 milltir o amgylchiad. Nid oes yn yr ynys hon unrhyw borthladd cyfleus i longau mawrion, nag unrhyw angorfeydd i ochel y tymhestloedd cyhydeddol, gan liosogrwydd y mân greigiau y sydd yn ei chyfan gylchynu. Mae ar benrhyn yn ei pharthau deheuol foel danllyd yn bwrw tân â mwg gyd â thwrf dychrynllyd yn wastadol. Ei hinsoddau poethion ydynt yn cael eu llareiddio gan awel lém oddiar y môr foreu a nawn. Mae yr ynys hon mor ffrwythlon ag yw Madagascar, a'i hanifeiliaid yn ol eu maint yn llawn mor lliosog, ac y mae yr afonydd yn heigio pysgod yn ehelaeth. Y cregin-grainc a elwir Tortoise a Turtle ydynt yma yn lliosog, ac y mae y coedydd yn dadsain gan lais y durtur, y parot, ac

amryw ereill. Ymsefydlodd y Ffrancod ynddi yn y flwyddyn 1672, gwedi eu deoliad o Madagascar, ac adeiladasant rai trefydd hardd ynddi. Cyfnewidiwyd eu henw i Reunion gwedi dechreu y dadymchweliad Ffrengig. Mae'r ynys y pryd hwn fal Mauritius yn meddiant y Saeson.

St. Helena, yr ynys gyntaf a gyfarfyddir â hi ar y tu yma i Benrhyn gobaith sydd yn sefyll yn lledred 15° 55′ D. a hydred 5° 49′ G. sef o ddeutu 1,200 milltir i'r gorllewin o Affrica, ac o ddeutu 1,800 i'r dwyrain o America ddeheuol. Craig uchel serth o ddeutu 21 milltir o amgylchiad yw yr holl ynys, heb onid un man yn unig y gellir tirio ynddi, ac anaml y gellir yno gan gynnwrf y tonnau. Yr unig angorfa yn perthyn iddi yw cilfach nantle'r capel. Mae sentydd yr ynys hon yn cynnyrchu llyriaid, cloron, ffigys, gwinrawn, rice, &c. ond y mae yr olaf yn cael ei ddystrywio gan y llygod Ffrengig, y rhai y sydd yn dra-llawn yn yr ynys, ac heb unrhyw ddyfais gan y miloedd noddfeydd y sy ganddynt yn y creigiau i'w dystrywio. O Frydain mae y gwenith y sydd yn cael ei dreulio ynddi yn cael ei gludo, a phan ddigwyddo i'r llongau fethu canfod yr ynys yn eu taith i'r India, rhaid weithiau iddynt fwy am yspaid amser ar gloron ac yams yn lle bara. Mae ynddi wartheg, moch, defaid, a phob adar dôf, y rhai a gyfnewidiant â'r morwyr am liain, brethynau, sidan, gwin, ac angenrheidiau ereill.

Dywedir mai y Portugiaid a ddarganfu yr ynys hon gyntaf, yn 1512, ar ddygwyl yr ymerodres Helena, mam Cwstenyn fawr, ond nid yw yn ymddangos iddynt ymsefydlu ynddi. Daeth y Saeson i feddiant o honi yn 1600, ac a'i cadwasant heb unrhyw daro arni hyd 1673, pan y rhuthrodd yr Ellmyn iddi yn ddirgelaidd a'i chymeryd. Ond yn y flwyddyn ganlynol danfonwyd llongau tan arweiniad llywydd o enw Munden, ac ad-gymerwyd hi, yn nghyd â thair o'u llongau mawrion oedd yn yr angorfa. Mae o ddeutu 200 o deuluoedd yn cyfanneddu yr ynys, y rhai gan mwyaf ydynt yn deillio o rieni seisnig. Bydd llongau yr India wrth ddychwel adref yn troi iddi am ddwfr ac angenrheidiau ereill, ond y mae yr ynys mor fechan, a gwynt croes yn chwythu yn wastadol yn peri na chaffo braidd yr un o honynt olwg arni yn eu taith i'r India. Mae gan y gymdeithas drefnidiol a'r India lywydd a dau swyddog is ar yr ynys hon.

Ynys Derchafael, yn sefyll yn lledred 8° D. a hydred 14° G. sydd 600 milltir i'r gogledd orllewin o St. Helena: daeth yr enw y sydd arni iddi ar i'r Portugiaid ei darganfod ar iau derchafael. Craig noethlom 20 milltir o amgylchiad ydyw, ac nid oes ynddi drigolion; ond y mae ynddi borthladd cyfleus i longau droi iddi i gael dwfr ac i ddal y cregin-grainc a grybwyllwyd. Yn y nos y bydd y morwyr yn tirio i ddal y rhai hyn, tra y byddont yn cysgu ar y tu uchaf i nod gorllanw. Bydd rhai yn 100 pwys llawn, ac y dull o'u dal yw troi cynifer a fynir ar eu cefnau, ac yna dyfod a'r cwch yn agos atynt i'w nhol. Dywedir bod rhai morwyr dideimlad yn troi amryw i fynu na bydd arnynt eu heisiau, ac felly yn eu gadael i drengu.

St. Mathew, ynys fechan yn sefyll yn lledred 1½ D. ac hydred 6° G. sydd 300 milltir i'r gogledd ddwyrain o ynys Derchafael. Y Portugiaid a ddarganfu hon, ac a ymsefydlasant am dro ynddi, ond am fod y tir mor wael ymddëolasant o honi, ac felly anghyfanedd yw y pryd hwn. Mae ynddi lyn o ddwfr croyw, a thyna yr unig fantais y sydd ynddi i unrhyw genedl a chwenychai ei chyfanneddu.

St. Thomas, Anabo, Tywysog, a Fernandopo ydynt bedair ynys gyfanneddol, yn sefyll yn nghulfor Guni, rhwng Congo a Benin. Y Portugiaid a'u canfu gyntaf, â uhwy hyd yn hyn sydd yn eu meddiannu. Mae llongau yn cael ynddynt ddwfr ac angenrheidiau ereill yn eu taith i'r India, &c.

Ynysoedd penrhyn Verd, ydynt 300 milltir i'r gorllewin o'r penrhyn y sydd yn rhoddi yr enw arnynt, sef rhwng lledred 14 a 18° G. a rhwng hydred 23 a 26° G. Maent yn 20 o rifedi, a'r Portugiaid a'u canfu gyntaf yn 1460, ond nid yw rhai o honynt ond creigiau llwm anghyfanedd. St. Iago, Brava, Fozo, Mayo, Bonavista, Sal, St. Nicholas, St. Lucia, St. Vincent, Santa Cruz, a St Antonio ydynt y rhai mwyaf, ac yn perthyn i Portugal. Mae'r hin ynddynt yn boeth ac yn afiach, er hyny mae lliaws o drigolion gwedi deillio o'r Portugiaid a'r Negroaid yn eu cyfanneddu.

St. Iago, preswylfa y prif lywydd yw y ffrwythlonaf a lliosocaf ei phobl o unrhyw o'r lleill: mae hon yn 150 milltir o amgylchiad, ac yn fynyddig, ond yn ffrwythlon o lysieu, sygr, gwin, a ffrwythau cyhydeddol ereill. Yn mhlith ei chreaduriaid mae yr âb gwyrdd a gwyneb du iddo, yr harddaf o'r rhyw, yn finteioedd lliosog. Y prif borthladd ynddi yw Baya, yr hon sydd agos yn wastadol yn llawn o longau yn troi i'r ynys am angenrheidiau.

Ynys Mayo, sydd hynod am y cyflawnder o halen y sydd ynddi: gwres yr haul ar y mor y sydd ar y gorllanw yn llenwi nant-le 2 neu 3 milltir o hyd ar ymyl yr arfordir sydd yn ei wneyd. Mae gan y Saeson long rhyfel yn gwarchod hwn yn wastadol, a bydd 100 neu ychwaneg o lwythi llongau yn cael ei gludo o hono yn flynyddol. Y trigolion yn llywydd, offeiriaid, a gwerin ydynt Negröaid, ond yn siared iaith Portugal. Bydd y llywydd yn disgwyl rhyw anrheg gan bob llong a lwytho halen, ac hefyd o gael ei wahodd iddynt.

Ynys Fozo, sy hynod hefyd am fod moel danllyd arni, yr hon fydd weithiau yn bwrw elfenau tanllyd gyd â thwrf dychrynllyd.

Goree, sydd o fewn ychydig i benrhyn Verd, yn ngorllewin-barth Affrica. Yr Ellmyn a roddes yr enw arni oddiwrth ynys a thref yn Holland. Lle bychan llai na dwy filltir o amgylchiad ydyw: ond y mae ei hagosrwydd i'r penrhyn yn peri iddi fod o gryn sylw gan drefnidwyr, ac felly mae cryn ymddadleu o dro i dro rhwng galluoedd Ewrop gwedi digwyddo am dani. Bu yn olynol yn meddiant yr Ellmyn, Ffrancod a'r Saeson, a'r olaf y sydd yn ei meddiannu y pryd hwn.

Ynysoedd Canari, ydynt saith o rifedi, ac yn sefyll o ddeutu 150 milltir i'r de orllewin o Morocco rhwng lledred 27a 30° G. a hydred 12 a 19° G. Eu henwau yw Palma, Hiero, Gomera, Teneriffe, Canari, Fuerteventura a Langarote. Mae awyr iachus yn y rhai hyn, ac y maent yn cnydio pob ffrwythydd yn enwedig gwinrawn yn doreithiol. Oddiyma hefyd y trosglwyddwyd gyntaf yr adar melynion sydd ag enw Canari arnynt, ag ydynt hynod am eu llais soniarus.

Canari, yr hon sydd yn rhoddi enw i'r cyfan ereill sydd 150 milltir o amgylchiad, ac mor ffrwythlon a bod dau ganhauaf yn flynyddol ynddi. Teneriffe y nesaf mewn maint sydd 120 milltir o amgylchiad ac yn fynyddig, ond yn dra ffrwythlon mewn ŷd, gwin, ac olew. Mae yn hon fynydd o'r un enw mor uchel ac y canfyddir ef ar hin eglur tros 120 milltir oddiwrtho: ei fôn sy 15 milltir o amgylchiad, ac yna

T T


yn myned lei-lai hyd, onid yw yn terfynu yn bigfain yn llawn 3 milltir ..yth. Moel danllyd ydyw, a bydd weithiau ddefnyddiau toddedig yn ymfwrw o hono, a thoreth o farwor yn troi y tiroedd brasaf mewn ychydig oriau fel carnedd anial.

Y Carthaginiaid a ddarganfuasant yr ynysoedd hyn gyntaf, ac a ymsefydlasant ynddynt: ond y Rhufeiniaid yn rhoddi terfyn ar yr ymerodraeth hono, ataliwyd olrhain arfordir gorllewinol Affrica, felly bu yr ynysoedd drachefn am oesodd lawer yn llwyr anhysbys, hyd oni anturiodd yr Yspaeniaid iddynt yn 1405, a nhwy hyd heddyw sydd yn eu meddiannu. Yr oedd y trigolion ar ddyfodiad yr Yspaeniaid yn tebygu mewn agwedd gorfforol i drigolion Affrica, ond yr oedd eu hiaith yn amrywio; nid oeddynt ychwaith yn arfer yr un defodau, ac ni wyddent am unrhyw gainc o ddysgeidiaeth, nag ychwaith bod unrhyw wlad ar wyneb daear ond yr ynysoedd a breswylynt.

Ynysoedd Madeira ydynt dair o rifedi, yn sefyll o ddeutu 100 milltir i'r gogledd o ynysoedd Canari, ac o ddeutu cymmaint yn orllewinol o Sallee yn Morocco, sef yn lledred 32° 27' G. ac o hydred 18½° i 19½° G. Mae y fwyaf, yr hon elwir Madeira yn 75 milltir o hyd, a 60 o led, ac yn dir uchel fal trum ar ei hyd: yr holl lethr sydd yn gogwyddo i'r de sy ddarfrithedig o erddi, perlleni, gwinllanoedd, gwydd-lwyni a llysoedd haf y trefnidwyr, ac yn gwneyd y cyfan yn olygfa ddymunol. Funchal yw yr unig dref sydd ynddi, a'i phorthladd yw yr unig le y gellir tirio i'r ynys: mae y dref hon yn gadarn gan amddiffynfeydd. Er bod yr ynys hon yn hysbys i'n hynafiaid, bu oesoedd meithion drachefn heb son am dani, hyd oni ddaeth y Portugiaid yn 1519 i hyd iddi; a'u hepil y sydd hyd heddyw yn ei phreswylio.

Yr oedd yr ynys y pryd hwnw yn llawn o goed, ac felly gwedi iddynt eu llosgi a gwrteithio y tir, daeth yn darran ffrwythlon, i gynnyrchu pob ffrwythydd yn win, sygr, olew, orein, yd, cyffuriau meddygol, &c. yn doreithiol. Danfonir oddiyma win i Ewrop ac America, a dywedir nad oes unrhyw am gadw ei flâs yn mhob hinsoddau yn well. Y ddwy ynys arall ydynt Porto Sancto, 8 milltir o amgylchiaid, yr hon sy ffrwythlon, a chanddi borthladd cyfleus y sydd yn noddfa yn fynych i'n llongau o India. Y llall sy graig anghyfanedd.

Ynysoedd Azores ydynt naw o rifedi, sef Santa Maria, St. Michael, Tercera, St. George, Graciosa, Fayal, Pico, Flores, a Corvo, ac yn gorwedd rhwng lledred 37° a 40° G. a rhwng hydred 25° a 32° G; yn 900 milltir i'r gorllewin o Portugal, ac o ddeutu yr un faint i'r de ddwyrain o Newfoundland. Darganfuwyd hwynt yn nghanol y 15 ganrif gan Joshua Vander Berg, trefnidiwr o Flandrys, yr hwn yn ei fordaith i Lisbon a yrwyd gan dymhestl iddynt. Gwedi iddo ddychwel yn ol, ac adrodd yr hanes yn Lisbon aeth y Portugiaid iddynt ac a'u meddianasant, a nhwy a'u piau hyd heddyw. Mae hinsoddau yr ynysoedd hyn yn iachus, ond y mae daear gryndau mynych ynddynt, a bydd y mor weithiau yn gorlenwi i'r tir, ac yn ei ddrygu yn ddirfawr. Er hyny mae yr ynysoedd hyn yn gyffredinol yn cnydio yd a gwin yn helaeth, ac nid oes unrhyw greadur gwenwynig yn yr un o honynt. St. Michael y fwyaf o honynt sy 100 milltir o amgylchiad, ac yn cynnwys ynddi o ddeutu 50,000 o eneidiau: bu y Saeson mewn meddiant o hon yn nyddiau Elizabeth. Tercera sydd yn cynnwys ynddi y borthladd mwyaf cyfleus. Angra yw y brif ddinas, ac ynddi mae llywydd yr ynysoedd yn preswylio.



GWERDDON OGLEDD
NEU GREENLAND
Culfor Bristol
C. Chidley
Hudson
Ang. Byron
Ang. Sandwich
Cyf. Belisle
St. Johns
Newfoundland
M
Quebec
Boston
C. Cod
Ang. Delaware
Ang. Chesapeak
M O R
T
A
Wilmington
Charlestown
St. Mary
Augustine
W E R Y D D
YNYSOEDD
BAHAMA
Caycos
C. de Cruz
JAMAICA
Kingston
Domingo
Guadeloupe
Martinico
St. Lucia
MOR CARIBBEE
St. Martha
Carthagena
Porto Bello
DEHEU-BARTH AMERICA
GOGL
A

# AMERICA.

## DOSBARTH I.

*Ansawdd America yn gyffredinol, ei goresgyniad, &c.*

WRTH olrhain y gyfran eang hon o'r ddaear, rhaid gwyro ychydig oddiwrth y drefn ragflaenol, gan bod yr hanes a ganlyn am y modd y canfuwyd hi gyntaf, a'r dull o'i goresgyn, &c. yn gyffredinol i'w holl ardaloedd.

Yn niwedd y 15 ganrif, nid oedd unrhyw o alluoedd Cred onid Venice a Genoa yn ymgyfoethogi nemawr trwy unrhyw drefnidiaeth: y dinasoedd hyny yn unig oeddynt y marchnadoedd y cludid iddynt trwy Arabia neu y Mor coch, ddaoedd yr India. A chan bod amrafaelion rhwng y galluoedd ereill am ran o'r cyfryw fanteision, cynnygiodd Christopher Columbus, morwr o Genoa, yr hwn oedd yn deall dull a threfn y ddaear, yr agorai ef ddrws digon eang i holl Ewrop drefnidio, os cafai ei gynnorthwyo yn ei amcanion. Ond erbyn iddo egluro i fawrion ei wlad ei gynlluniau, sef o dreiddio i'r gorllewin i chwilio am yr India, cyhuddwyd ef o wallgofrwydd, a barnasant hefyd yn wyrgam ei egwyddorion am ddull y ddaear, &c. Gwedi i siomedigaeth fal hyn gyfarfod â Cholumbus yn nechreu ei anturiaeth, ymadawodd mewn diglionedd a'i wlad, ac aeth i ymofyn gwell llwyddiant yn llys Ffrainc, ond chwarddwyd yno ar ei adroddiad o'r fath gynlluniau ynfyd: gwedi hyn danfonodd at Harri VII o Loegr, yr hwn a ganmolodd y cynllun, ond ni lyfasai roddi ei arian ar y cyfryw anturiaeth; ac yna fal y soniwyd yn hanes Yspaen aeth i Portugal, i edrych pa lwyddiant a gatai yno, ond gwell oedd gan fawrion y llys hwnw gefnogi eu morwyr eu hunain, y rhai oeddynt bob tymhor yn darganfod rhyw benrhyn newydd neu gilydd yn arfordir Affrica, nag anturio llongau y deyrnas tros y dyfnder dieithr a pheryglus i olrhain broydd hollol anhysbys. Ond o'r diwedd llongau a gafodd Columbus, a thrwy beryglon mawrion, cyrhaeddodd America, a dychwelodd adref yn llwythog o frasder y wlad.

Yr oedd erbyn i Columbus ddychwel o'i drydedd fordaith, ac iddo yn wobr fal y soniwyd gael gwg y llys, amryw anturwyr gwedi cychwyn i olrhain broydd y gorllewin-fyd. Y Portugiaid a ddychwelasant gwedi darganfod Brazil, yr hon heddyw sydd yn llunio y rhan fwyaf o'u cyfoeth; yna Cabot o olrhain y rhanau hyny o ogledd-barth America y sydd yn perthyn i Frydain; drachefn dychwelodd trefnidiwr o Fflorence, a elwid Americo Vespusio, gwedi darganfod parthau i'r de o Brazil yn America ddeheuol, yr hwn yn ddyn ffraeth a doniol a fedrodd roddi ei enw i gyfran yn gyfartal i hanner y ddaear.

Gwedi marw Columbus, danfonodd llys Yspaen swyddogion newydd i'r ardaloedd oeddynt drwy lafur Columbus gwedi dyfod i'w meddiant, y rhai a ddechreuasant gigyddio y trigolion heb ymarbed; am na ddangosent iddynt y cloddfeydd aur ac arian oedd yn eu hardaloedd: yr oedd eu trachwant am olud mor anifwall nad oeddynt yn defnyddio unrhyw foddion dengar i'w hannog i ddangos y trysorau, ond ymroddasant i ddistrywio y trigolion heb ymarbed: dibologwyd Hispaniola ganddynt mewn ychydig flynyddau, yr hon oedd yn cynnwys 3,000,000 o eneidiau; a lladdwyd tros 600,000 o drigolion Cuba.

Dywed Bartholomew de las Casas, yr hwn oedd dyst o rai o'r troion dychrynllyd, bod yr Yspaeniaid yn myned a chŵn yn feunyddiol i'w hela, a bod y truain annedwydd yn noethion ac yn ddiarfog yn cael eu rhwygo ganddynt: ereill fyddent yn cael eu saethu gan yr helwyr creulon, neu yn cael eu llosgi ganddynt yn eu hanneddau, &c.

Yr oedd yr Yspaeniaid erbyn hyn yn chwennych tirio yn nghyfandir America, canys deallasant bod yno deyrnasoedd mwy cyfoethog na'r rhai oeddynt wedi eu darostwng, felly danfonodd llywydd Cuba, Ffernando Cortes gyd â 600 o filwyr, 18 march, ac ychydig o ddrylliau tan mawrion i oresgyn Mexico, yr hon oedd yr ymerodraeth gadarnaf a chyfoethocaf yn America. Yr oedd yn hon filiwnau o drigolion, y rhai yn deall defodau rhyfel yn dda, oeddynt er ys oesoedd lawer yn ddychryn i'r gwledydd oddiamgylch, ac yn hytrach mwy y pryd hwn gan bod milwr dewr o enw Montezuma ar orsedd yr ymerodraeth. Yr oedd egwyddorion gwybodaeth yn cael eu coleddu ganddynt, y cyfreithiau yn rheolaidd, cyfiawnder yn cael dosbarthiad mwy teg yn eu llysoedd nag yn unrhyw o wledydd ereill America; ac yr oedd dinas Mexico yn sefyll yn nghanol llyn ëang, a sarnau o honi i'r glenydd cylchynol; ei hadeiladau o geryg nadd, ei threfnid-dai drudfawr lliosog yn dysgleirio o aur, arian, a meini gwerthfawr, ac yr oedd rhai o lysoedd Montezuma gwedi eu seilio ar golofnau Jasper, a phethau cyffelyb. Ond er yr holl wychder, a dewrder y milwyr, a'u medrusrwydd i drin y bwâ a'r waywffon, nid oeddynt yn ddigon galluog i wrthsefyll rhwysg yr Yspaeniaid. Pan diriodd Cortes a gosod ei fyddin mewn trefn, syrthiodd arswyd ar yr holl drigolion, a chan dwrf y drylliau tân, barnasant mae duwiau oeddynt yn gallu taranu y pryd y mynont, ac nad oedd wiw codi arfau i'w herbyn. A chan nad oeddynt yn arbed na hen nag ieuanc, na llen na llug, ymrodd trigolion Tlascala o ymuno â nhwy i fyned yn erbyn ymerodraeth Mexico. Ar y daith canfu Cortes foel daullyd, o'r hon y cafodd ddefnyddiau addas i wneyd powdr. Yr oedd y newydd gwedi cyrhaedd Montezuma bod yr Yspaeniaid yn amcanu dyfod atynt, ac er bod ganddo 30 o dywysogion teyrngedawl, a phob un yn alluog i ddyfod â 100,000 o ymladdwyr i'r maes, ni anturiodd gan arswyd y peiriannau tân o gynyg eu gwrthwynebu.

Gwedi i fintai Cortes gyrhaedd terfynau ymerodraeth Mexico, daeth cenadon o lys Montezuma â rhoddion gwerthfawr oddiwrth eu harglwydd iddynt, ac i ddeisyf arnynt ddychwel yn ol i'w gwlad eu hunain, ond Cortes ni wrandawai arnynt gan honni bod ganddo genadwri benigol a phwysfawr oddiwrth ei arglwydd Don Carlos o Austria, brenin Castîl, gor-lywydd y dwyrain i adrodd i'w hymerawdr yn bersonol. Tra yr oeddynt fal hyn yn ymresymu, yr oedd darluniedyddion oedd yn dilyn y cenhadon yn tynu lluniau y llongau, meirch, drylliau tân, &c. A phan ddeallodd Cortes mai trwy orchymyn Montezuma yr oedd hyn, parodd seinio yr udgorn i'r llu fod mewn agwedd ymladdgar: taniodd hefyd y drylliau tân mawrion ar goedwig gyfagos hyd onid oedd distryw diatreg arni. Yr oedd twrf yr ergyddion yn peri i rai syrthio i lewyg, ereill i ddianc, a'r lleill i adrodd mewn syndod difrif-ddwys bod y duwiau gwedi dyfod atynt. Gwedi cludo y lluniau i'r llys, dychwelwyd yn ddiatreg gyd â rhoddion ychwanegol, â gorchymyn penigol yr ymerawdr y byddai yn rhaid i'r dyeithraid ddychwel yn ol: ar hyn ffugiodd Cortes i'r cenhadon nad

rhai yn mhellach, felly dychwelodd yn rheolaidd i lan y môr, a thyna y pryd y seiliodd ddinas ac amddiffynfa Vera Cruz, yn noddfa os na ddigwyddai iddo lwyddo yn ei gynlluniau.

Gwedi hyn ymroddodd Cortes o fyned rhagddo, a chafodd yn gynnorthwy dywysog talaeth a elwid Zempoola, yr hwn oedd yn cael ei drin yn dôst fal y Tlascaliaid gan Montezuma, sef lladrata pan y mynai brif fechgyn a genethod ei ardal i'w haberthu i'w dduwiau, &c. Gwedi cychwyn danfonodd bedwar o honynt i lys Tlascala i ofyn eilwaith eu cynnorthwy yn erbyn eu gelynion yn Mexico, a chan i'r henuriaid adgofio hen draddodiaddau y deuai cenedl anorchfygol i'w plith, a bod y rhai hyn yn eu llywodraeth ar yr elfenau yn tebygu iddynt, gwedi peth anghydfod o herwydd iddynt ymheddychu â'r Mexicoaid gwedi yr ymroddiad cyntaf, cydsyniasant. Gwedi hyn danfonodd Montezuma genhadon i adrodd i Cortes yr ymgyfarfyddai ag ef yn Cholula, dinas sanctaidd oedd yn brif annedd i'w dduwiau ac o fewn rhai milltiroedd i Mexico, ond ar iddo ddyfod yno a chael y parch arddangosol mwyaf, a deisyf arno fod yn amyneddgar hyd ddyfodiad yr ymerawdr, clywai gan ddau o'r Tlascaliaid a ddaethai yn ddirgelaidd ato, bod cynllun ar droed o ddifetha yr holl Yspaeniaid yn nghorff y nos ganlynol. Ar hyn rhuthrodd Cortes i'r dinasyddion a lladdodd 6.000 o honynt, heb golli yr un o'i wyr. Oddyma aeth rhagddo tua'r brif ddinas, a phan oedd o fewn milltir i'r llyn y safai Mexico arno, daeth mil o fawrion y deyrnas i dalu ufudd-dod iddo, ac ar eu hol yn nghanol mintai o warcheidwaid daeth Montezuma, yr hwn a'u gwahoddodd gyd â pharch arddangosol i annedd a baratoisai iddo yn gyfagos i'w brif-lys ymherodrol.

Erbyn i'r Yspaeniaid gyrhaedd muriau y brif ddinas, agorwyd y pyrth iddynt yn ddiatreg, a chludwyd aur a meini gwerthfawr yn bentyrau iddynt, ac ymddygwyd tu ag atynt gan yr holl ddinasyddion fal penaethiaid y byd newydd. Ond Cortes yn ofni mae ffugiol oedd y caredigrwydd, mynodd blannu ei ddrylliau tân o gylch ei lys i'w amddiffyn hyd oni chafai esgus i ddechreu ar y gorchwyl o ymosod ar y ddinas. O'r diwedd cafodd achlysyr i ddilennai ei amcanion. I'r dyben o sicrhau meddiant o'r dref a'r borthladd a seiliasai ac a elwid Vera Cruz, yr oedd gwedi gadael ychydig o filwyr i'w gwarchod, ond dëallodd i'r trigolion cymydogaethol ruthro arni a lladd un o'r milwyr; ac ar i'r newydd gyrhaedd Montezuma, iddo orchymyn cludo pen yr Yspaeniad trwy ei ymerodraeth i wrth-brofi y dyb oedd ar droed o fod y dyeithraid yn anfarwol; a gwahodd ei filwyr dewraf o bob-parth i'r brif ddinas yn ddirgelaidd i ruthro iddynt yno Gwedi derbyn yr hanes hyn aeth Cortes gyd ag ychydig o'i brif swyddogion i lys Montezuma i gael eglurhâd o'r cyfryw orchwyl. Montezuma yn dadleu diniweidrwydd, ffugiodd Cortez nad oedd yn ei ammheu, ond ar yr un pryd dangosodd iddo nad allai wneyd i'w filwyr gredu heb iddo ddyfod atynt i egluro y peth ger eu bron. Felly ar iddo gyrhaedd eu hannedd gwnaeth ef yn garcharor, ond rhoddes iddo bob parch a phob-peth a chwennychai onid ei ryddid yn unig. Ac felly trwy fod y Mexicoaid yn arddangos y parch a'r ufudd-dod mwyaf i'w peniaeth, ac ynteu yn gorfod gwrando ar gynlluniau dengar Cortes, ewyllys yr Yspaeniaid oedd yn llywodraethu y ddinas fawr. Pan ddigwyddai unrhyw gynnwrf yn y ddinas oherwydd trais gormesol yr Yspaeniaid, nid oedd yn rhaid i Montezuma ond ymddangos ar fûr ei

garchar, na byddai dystawrwydd diatreg. Beth bynag a chwenychai yr Yspaeniaid o ardaloedd pellaf yr ymerodraeth, nid oedd raid ond galw Montezuma i selio'r genadwri na byddai ufudd-dod yn ddigyfrwng, felly yr oedd aur ac arian fal cenllif yn dyfod i'r gwersyll. Gwnaethant iddo hefyd ddanfon miloedd o'r trigolion i Vera Cruz i gludo defnyddiau addas i wneyd dwy long i fod yn noddfa iddynt os byddai achos ar y llyn, a phan oeddynt yn barod, gwahoddwyd Montezuma iddynt yn fynych i ymbleseru; ac o'r diwedd gwnaethant iddo alw cyfarfod o holl fawrion ei ymerodraeth i'w addef ei hun a'i ddeiliaid yn deyrngedawl i lys Yspaen.

Mynai Cortes gwedi'r addefiad uchod beri i babyddiaeth fod yn grefydd wladol, ac ar iddo ddryllio un o'r duwiau aur oedd yn y brif deml, a dodi yn ei le ddelw y Forwyn Mair, cythruddodd yr offeiriaid a'r werin cymmaint, ac yr ymroddasant o'r pryd hyny allan o ymddyfeisio rhyw foddion i'w deol ymaith. Cortes yn deall bod dewrder y trigolion yn cynnyddu er holl ddistryw ei beiriannau, a ffugiodd o'r diwedd yr ymadawai a'r wlad mor fuan y gallai adeiladu llongau i'w gludo ymaith: felly danfonwyd lluoedd o'r Mexicoaid i Vera Cruz i dori coed, &c. ond tra yr oedd y gorchwyl yn myned rhagddo, clywai Cortes bod llywydd Cuba gwedi danfon llu o Yspaeniaid tan arweiniad Narvaez i'w ddifreinio o fod yn flaenor y lluoedd oedd i oresgyn y byd newydd. Ar hyn aeth Cortes i'w cyfarfod gyd ag o ddeutu hanner ei wyr, gan ado y gweddill i warchod y brif ddinas, a gwedi brwydr dost, cymerodd Narvaez yn garcharor, a'r milwyr a flaenorasai gwedi ei ddihenyddiad a ddaethant yn ddiatreg at luman Cortes.

Ar ddychweliad Cortes i'r ddinas, gwelai bod y Mexicoaid yn gwarchae ar wersyll yr Yspaeniaid, felly gorfu arno rwygo miloedd o honynt cyn gallael ymuno â hwynt; ac yn y frwydr tra yr oedd yr ymerawdr oddiar y mur yn amneidio ar ei ddeiliaid i'w tawelu y cafodd archoll farwol, a thywysog dewr o enw Guatimozin a gyhoeddwyd yn ddiatreg yn ymerawdr. Ar hyn ymadnewyddodd yr ymladdfa, a daeth y Mexicoaid yn filoedd hyd at safnau y drylliau tân; ond er eu holl ddewrder, llwyddodd yr Yspaeniaid i'w herlid oddiwrth y gwersyll. Erbyn hyn yr oedd Cortes yn ofni na lwyddai yn ei amcanion o feddiannu y brif ddinas hyd oni chafai fwy o gynnorthwy, felly ymbaratoes i adael Mexico yn ddiatreg, i wersyllu am dro yn Tlascala, ond ar ei ymadawiad y nos ganlynol, dilynwyd ef gan y dinasyddion, y rhai oeddynt yn ystod y frwydr gwedi dryllio yr argâu a llosgi y llongau. Cortes yn gweled ei gyfyngder yn mwyhau annogodd ei wyr i fod yn wrol: gosododd un rhan i gyweirio yr argâu, ac y lleill i danio ar y dinasyddion, ond er ymladd yn enwog, collodd Cortes fwy na hanner ei wyr, a thros 2,000 o Dlascaliaid ac amryw o'i beiriannau rhyfel yn y tro. Erbyn cyrhaedd y lan gwersyllodd Cortes a'i fintai luddiedig ar fryn cyfagos fal yr adnewyddent eu grym, ond cylchynwyd hwynt yno gan filoedd, a gorfu arnynt cyn gorphwyso adnewyddu yr ymladdfa. Yr oedd prif faner y deyrnas yn ngwersyll y Mexicoaid yn peri i'r fintai unwar floeddio yn orfoleddus a nesu yn eon at yr Yspaeniaid, felly cofiodd Cortes iddo glywed bod llwyddiant brwydr yn ymddibynu ar honno, a rhuthrodd mintai o'i wyr trwy'r fyddin gan ladd yn eu harfod nes y meddianasont y faner: ar hyn dyrysodd lluoedd yr Indi-

aid a ffoesant i'r mynyddoedd, gan adael yr Yspaeniaid mewn meddiant o'r holl yspail. Gwedi cyrhaedd Tlascala, clywai Cortes fod byddin o Yspaeniaid a pheiriannau, &c. gwedi tirio yn Vera Cruz, ac ar iddo trwy genhadon gael ganddynt ddyfod i Tlascala i ymuno a'i fyddin, cychwynodd drachefn i warchae ar Mexico. Gwedi meddiannu tref fawr ar fin y llyn, adeiladodd ychydig o longau, a gosododd ei ddrylliau mwyaf ynddynt ac aeth at furiau y brif ddinas, ond gwedi tirio ynddi gwelai nad allai anturio yn mlaen gan liosogrwydd y Mexicoaid. Collodd Cortes yn yr ymosodiad hwn 60 o wŷr, y rhai a gymerwyd agos oll yn fyw, i'w haberthu yn ol y ddefod wladol y nos ganlynol yn mhrif deml eu duwiau. Yr oedd yr Yspaeniaid yn eu canfod o'r llongau yn gorfod dawnsio yn noethion o flaen duw rhyfel, ac yna gwelynt yr Offeiriaid yn rhwygo calon pob un oddiwrtho i'w llosgi ar yr allor. Yr oedd Cortes hyd yn hyn yn chwennych arbed adeiladau têg y ddinas, ond y boreu drannoeth dechreuodd eu difrodi: anelodd ei ddrylliau ar y temlau a'r prif adeiladau a drylliodd hwynt yn ddïatreg; gosododd dân yma ac acw yn y ddinas, danfonodd hefyd yn fynych at Guatimozin i edrych a ymheddychai, ond ni wnae: o'r diwedd pan oedd tros hanner y ddinas gwedi ei dyfetha, cymerasant ef yn garcharor, ac a'i harteithiasant ef yn nghyd a'i brif weinidog yn echrydus, fal y cyfaddefent pa beth a wnaethant â'r cyfoeth oedd yn perthyn i'r llys: ond er yr artaith buont feirw heb gyfaddef Gwedi hyn addefodd holl dywysogion y taleithiau ufudd-dod i lŷs Yspaen, ac o'r pryd hwnw hyd y pryd hyn, y mhwy sydd mewn meddiant o'r wlad. Fel hyn y daeth Mexico, Castil, Darien, a thaleithiau mawrion ereill yn olynol i feddiant yr Yspaeniaid.

Cortes gwedi darostwng y gwledydd hyn, clywodd bod ymerodraeth fawr arall yn nghyffiniau y cyhydedd, a bod ei chyfoeth yn fwy na chyfoeth yr hon oedd newydd ei hennill. Hon oedd ymerodraeth Peru, a diau ei bod yn fwy ardderchog yn mhob ystyriaeth nag unrhyw arall yn America: ond cyn cychwyn iddi danfonodd filwr o enw Francis Pizarro i Yspaen i adrodd y llwyddiant a ddaethai i'w ran, ac i fynegi i'r llŷs ei fod yn amcanu ei goresgyn mor fuan ac y cafai ychydig o filwyr i'w gynnorthwyo yn y gorchwyl. Y llŷs yn dewis iddo gadw meddiant o'r wlad a ennillasai, danfonwyd 250 o filwyr, 60 march, a 12 dryll tân mawrion tan arweiniad Pizarro, i lywydd Panama, yr hwn a'u rhanodd yn dair rhan rhwng Pizarro, Almagro, ac offeiriad o enw Lugnes. Pizarro gwedi mordaith beryglus oedd y cyntaf a diriodd yn Peru. A chan bod y trigolion fal y Mexicoaid yn ofni twrf taranllyd ac arteithiau eu drylliau tân, cawsant oruchafiaeth agos mor ebrwydd arnynt ac ar y Mexicoaid, yn enwedig gan i gynnorthwy ddyfod i'w rhan mewn dull na ddisgwylid; ac i'r dyben o ddangos trafod y byd yn ei droion dyrys crybwyllir ychydig yn ganlynol am ansawdd y tro.

Seiliwr ymerodraeth Peru oedd Mango Capac, yr hwn yn sychedig am fawredd ac yn gweled cyfle têg i ddefnyddio ei ddoniau, a roddes ar waith ei holl ddyfais i gael cyflawniad o'i ddymuniad. Gwelai fod pobl Peru yn dra ofergoelus ac anwybodus, ac yn addoli yr haul fal creawdydd y greadigaeth a phethau cyffelyb, am hyny ffuantodd ei fod gwedi deillio oddiwrth y goleuad hwnw, ac mae ei genadwri i'r ddaear oedd i sefydlu yr iawn ddull o'i addoli. A chan fod ganddo ddawn i arddangos ei dwyll fal yn beth rhesymol credwyd ei genadwri

yn ddïatreg, â chafodd yn raddol i'w feddiant daleithiau a gwledydd ëang, naill a'i trwy ei ddawn yn gosod allan ddaioni y gorchwyl oedd mewn llaw, neu trwy rym cleddyf ei ddilynwyr lliosog. Gwedi iddo fal hyn lwyddo i uno yr holl lwythi oedd yn terfynu ar Peru yn nghyd, a rhoddi iddynt ddeddfau gwladol ac eglwysig daionus, a'u hannog i ymnawseiddio yn eu moesau, i drin y tir ac i adeiladu dinasoedd, &c. daeth Peru yn ymerodraeth gadarnaf o unrhyw yn America. Parchwyd holl ddilynïedyddion Mango yn yr un modd fal rhai yn deillio o'r haul, a'r deuddegfed o honynt o enw Atabalipa oedd ar yr orsedd y pryd y daeth Pizarro i Peru. Yr oedd Guiana Capac tad Atabalipa gwedi goresgyn talaeth Quito a'i huno at ei ymerodraeth, ac i'r dyben o'i sicrhau, gwedi prïodi merch tywysog y wlad honno, yr hon oedd fam i Atabalipa. Ar farwolaeth Guiana honnodd Huescar brawd hynaf Atabalipa o fam arall ei hawl i orsedd Peru, ac hefyd i orsedd Quito, a chan fod hawl Atabalipa i'r olaf yn ymddangos yn fwy cyfiawn, ennynodd gwrthryfel dychrynllyd rhwng pleidiau y ddeu-frawd, a lladdwyd miloedd o hob-tu hyd onid oedd y sarhâd yn ddirfawr, ac nid oedd y derfysg gwedi dystewi pan ddaeth yr Yspaeniaid i'r wlad. Yr oedd y sôn am oresgyniad Mexico gwedi rhagflaenu dyfodiad yr Yspaeniaid i Peru, felly yr oedd dychryn yn ymdaenu oddiamgylch; ac nid oedd arf yn cael ei godi i'w herbyn, ond pawb yn cludo iddynt aur, arian, meini gwerthfawr, ac ymborth yn dorcithiol, felly cyrhaeddasant un o'r llysoedd ymherodrol, ac a'i meddianasant. Gwedi i Pizarro ddeall bod yr ymerawdr yn bwriadu dyfod drannoeth i ymddiddan ag ef, rhoddes ei wyr mewn parodrwydd i ddechreu ar y gorchwyl anghenfilaidd oedd yn ei fwriad o larpio y trigolion: gosododd y drylliau tân mewn lle dirgel yn nghwr y betrual y cyfarfyddent ynddo. Trannoeth daeth Atabalipa heb ddirnad niweid, yn ol ei addewid i'r lle: yr oedd yn cael ei gludo ar orsedd o aur, ac yr oedd o ddeutu 15,000 o fawrion y deyrnas yn ei ddilyn. Cyn dyfod i'r llys aeth mynach o enw Vincent a chroes yn un llaw, ac offeren-lyfr yn y llall i gyfarfod yr ymerawdr, a thrwy ddeonglydd a eglurodd iddo y grefydd Gristionogol, gan ei annog i'w chofleidio, ac o ymostwng i frenin Yspaen, i'r hwn y rhoddasai ei sancteiddrwydd y pab holl ardaloedd Peru.

Yr ymerawdr gwedi rhoddi gwrandawiad astud arno, a atebodd, *Yr ydwyf yn dra pharod i fod yn gyfeillgar â brenin Yspaen, ond nid yn deyrngedawl iddo. Rhaid mai dyn go hyf yw y pab, pan y rhoddai mor haelionus yr hyn nad yw yn perthyn iddo. Ni newidiaf fy nghrefydd am unrhyw arall; ac os yw Cristionogion yn addoli Duw a fu farw ar groes, yr wyf fi yn addoli yr haul, yr hwn nid yw byth yn marw.** Yna gofynodd i Vincent, pa le y cawsai y fath wybodaeth am Dduw a'r greadigaeth. *Yn y llyfr hwn,* atebai'r mynach, gan ei roddi iddo. Gwedi i Atabalipa ei chwilio o fewn ac allan, taflodd ef tan wenu a dywedyd, *Ni ddywaid ddim wrthyf fi.* Yna troes Vincent at yr Yspaeniaid a dolefodd, *dial fy nghyfeillion, dial! Gristionogion, gwelwch y modd y mae'n dirmygu yr efengyl. Lleddwch y cwn digred y sydd yn sarnu cyfreithiau 'r nef dan draed.* Ar

* Anhawdd yw dirnad pwy oedd yn y gaddug fwyaf o dywyllwch, y mynach anianol yn ei ddull o geisio dysgrifio Cristionogrwydd, ai yntau y pagan tywyll yn derbyn y genadwri.

hyn gorchymynodd Pizarro i'r fintai ruthro i warcheidwaid Atabalipa a chigyddiwyd 5,000 o honynt yn ddiatreg, ac Atabalipa a gludwyd yn garcharor i'w gwersyll. Erbyn hyn yr oedd Pizarro fal yn ben:aeth Peru, trwy fod yr ymerawdr yn ei feddiant, gan bod y deiliaid fal y Mexicoaid yn rhoddi parch addolus iddo. Ni bu Atabalipa yn hir yn meddiant ei elynion heb i'w fawrion chwennych prynu ei ryddhâd: yna cludwyd i'r gwersyll yr holl fanieri breninol oeddynt er ys oesoedd gwedi eu casglu gan frenhinoedd enwog; ac ni arbedwyd llestri drudfawr eu temlau, i edrych a allent brynu yr hwn oedd yn gynhaliwr eu gwlad a'u crefydd. A thra yr oeddynt fal hyn yn methu digoni eu gwanc, er cludo yr holl gyfoeth gwladol, daeth Almagro a'i fintai o olrhain ardaloedd breision oedd yn terfynu ar Peru i'r gwersyll. Mynai hwn ran gyfartal â Pizarro o'r cyfoeth, a bu agos i filwyr y naill a'r llall ymladd oherwydd hyny, ond rhag i derfysg godi, caniatâodd Pizarro iddo ei ddymuniad. Yr oedd yr elw a ddaeth fal hyn yn iawn am ryddhad yr ymerawdr o gymmaint swm, a bod dwy fil o bunau yn dyfod i ran pob milwr, gwedi tynu yn gyntaf y bumed ran allan i frenin Yspaen a rhanau cyfatebol i Pizarro a'i swyddogion, ond er hyn oll nid oedd diwallu ar eu gwanc. Gwedi hyn chwenychodd rhai o'r milwyr ddychwel i'w gwlad i fwynhau ffrwyth eu llafur, a chan i Pizarro weled mai da oedd y peth, gollyngodd hwynt ymaith; ac ar iddynt gyrhaedd y cartref, a dangos y cyfoeth, daeth lluoedd yn ddiatreg tros y dyfnder i ymuno a'u cydwladwyr yn y gorchwyl o larpio y Peruiaid diniwed ac o annrheithio eu gwlad.

Nid hir gwedi derbyn yr eiddo y bu yr Yspaeniaid heb ail garcharu Atabalipa, gan ddisgwyl iawn gyffelyb i'r llall, ond gan nad oedd parodrwydd yn y deiliaid i ddyfod yn mlaen, blinodd Pizarro gadw gwarcheidwaid arno; neu yr oedd casineb tu ag ato gwedi ennyn oherwydd iddo ganfod peth medrusrwydd ynddo a allai fod yn ddrwg i'w gynlluniau: Atabalipa pa fodd bynag, a gafwyd gwedi ei lindagu, ac y mae'n amlwg mai trwy orchymyn Pizarro y trengodd. Y ffugesgus a roddwyd i fawrion Peru am y fath weithred oedd, bod eu hymerawdr yn euog o eulunaddoliaeth, ac hefyd o odineb, oherwydd bod ganddo ordderchadon, a phethau haerllug ereill. Yr unig gyhuddiad a allesid roddi i'w erbyn oedd ei fod gwedi gorchymyn dibenyddio ei frawd Huescar am iddo frâd-fwriadu yn erbyn ei einioes. Gwedi hyn honnodd amryw eu hawl i'r goron: cyhoeddodd y mawrion frawd Huescar; ond mynai Pizarro mai mab i Atabalipa a dderchefid i'r orsedd. Yr oedd dau lywydd ereill yn honni eu bod yn deilwng o'r fraint, felly ail ennynodd gwrthryfel trwy yr ymerodraeth, yr hyn mewn amseroedd ereill a fuasai o'r niweid mwyaf i'r wladwriaeth, ond oedd y pryd hyn yn achlysur o beth anfantais i'r Yspaeniaid. Yr oedd y Peruiaid er ys oesoedd bellach, sef, er pan ddaethai Mango Capac i'r orsedd heb ymarfer nemawr â defodau rhyfel, ond ar i'r gwrthryfeloedd oedd ar droed ennyn, ad-ddychwelodd eu dewrder, ac ymbaratoisant gwedi i'r derfysg mewn rhan ostegu o geisio ymarfogi yn erbyn yr Yspaeniaid, gan mai hwy oedd yr holl achos o'r cynnwrf oedd yn eu gwlad. Yn y frwydr gyntaf a fu rhyngddynt drylliodd peiriannau yr Yspaeniaid filoedd o'r Indiaid, ond lladdwyd dau neu dri o honynt hwythau, yr hyn a frawychodd Pizarro yn ddirfawr rhag i'r dyb gyffredin am eu hanorfodedigrwydd

leihau. Ar hyn ymheddychodd Pizarro â hwy, a thra y bu heddwch rhyngddynt, gosododd Pizarro sail dinas Lima: a gwedi adeiladu amddiffynfa gref iddi, cyhoeddodd ryfel eilwaith, ac aeth rhagddo trwy rym ei beiriannau distrywgar, gan ladd yn ei arfod hyd oni feddiannodd Cusco y brif ddinas. Tra yr oedd llwyddiant fel hyn ar rwysg ei arfau, tiriodd milwyr a pheiriannau ychwanegol o Yspaen, a chafodd gynnorthwy i estyn ei oruchafiaethau tros amryw wledydd ëang. Yr oedd yn ol breinlen y brenin 600 milltir o arfordir gwedi ei drefnu yn y llys i Pizarro, a 600 milltir i'r de o hyny ar ran Almagro, ond yr oedd y naill a'r llall yn honni hawl yn Cusco i fod yn brif ddinas i'w taleithiau ëang, a bu cryn ddadleu rhyngddynt hyd oni ddeallodd Almagro bod dinas enwog yn ei darran yntef, ac ar i Pizarro addaw ei gynnorthwyo i'w meddiannu ymheddychasant.

Almagro yn chwennych yr anrhydedd o oresgyn y fath wlad ëang ei hunan, a groesawodd y cynnyg yn ebrwydd, a chymerodd gymmaint ag a allai Pizarro hebgor o'i filwyr at ei fintai, ac yna tros fynyddoedd uchel gorchuddiedig gan eira, lle y collodd rai o'i wyr, cyrhaeddodd Chili, a darostyngodd yn ddiatreg ran fawr o honi. Yr oedd y Peruiaid erbyn hyn yn dëall defodau rhyfel yn rhy ddâ i beidio detnyddio y cyfle o ymosod ar yr Yspaeniaid, yn enwedig gwedi iddynt ranu y fyddin yn ddwy ran. Felly ymosodasant ar y brif ddinas, a chan bod Pizarro yn lled-glaf, ac Almagro yn mhell o'r cyffiniau, buont agos yn llwyddiannus i'w had-ennill. Almagro yn clywed bod y Peruiaid yn gwarchae ar Pizarro, gadawodd y wlad a ennillasai a daeth yn ddisymwth ar y Peruiaid, a drylliodd hwynt yn chwilfriw: yna honnodd hawl yn y ddinas, ond Pizarro erbyn hyn gwedi gwellhau o'i afiechyd, ni roddai feddiant iddo, felly daeth y ddwy fintai i'r maes, a bu brwydr waedlyd rhyngddynt, ac Almagro ac amryw o filwyr y ddwyblaid a laddwyd yn y tro. Yr oedd amryw o'r Peruiaid gwedi dyfod yn wirfoddol i fyddin Almagro, ac wedi dysgu defodau rhyfel yn gystal a'r Yspaeniaid: ond o'r diwedd gwelsont eu hynfydrwydd o geisio ymheddychu a'r fath ddynion, y rhai nad oedd unrhyw debygolrwydd y bodlonid byth y blys gwancus oedd ynddynt am olud, am hyny ymroddasant yn unfryd o ymadael a'r brif ddinas a phreswylio y mynydd-dir, gan obeithio y byddai hyny yn foddion i beri i'r Yspaeniaid ddifa eu gilydd wrth ranu'r yspail: ond yn lle hyny dilynodd y fintai gigyddlyd hwynt yno, a bu arteithiau dychrynllyd yn cael ei harfer i'w cymhell i ddangos y lleoedd y cuddient eu harian ynddynt, a chan nad oedd bodloni arnynt, yr oedd y gorchwyl o ddifrodi y trigolion diniwed yn parhau hyd oni ddi-boblogwyd ardaloedd cyfan yn llwyr.

Yr oedd Pizarro erbyn hyn yn beniaeth ar un o'r ymerodraethau cyfoethocaf ar wyneb daear, ond yr oedd ei awydd am ehengu ei dertynau mor awchus, ac yr ymroddodd i olrhain y parthau y danfonasai Almagro iddynt. Clywsai am gloddfeydd gwerthfawr mynydd Potosi, ac am gyfoeth dinasyddion Chili, felly anturiodd yn mlaen a goresgynodd darran fawr o'r wlad honno yn ddiatreg. Oddiyno danfonodd swyddog o enw Orellana tros fynyddoedd Andes i edrych ansawdd y gwledydd oedd yn terfynu ar afon fawr Amazonia, yr hwn gwedi eu holrhain a ddanfonodd genad i fynegi i'w arglwydd iddo weled gwledydd breision yn llawn o bob trugareddau i gynnal dyn, ond na ddeallodd bod unrhyw gloddfeydd o arian neu aur yn yr holl gyffiniau, a

chan na ddaeth Orellana yn ol, ond adeiladu llong i'w gludo i lawr i'r afon i fyned i Yspaen, nid aeth Pizarro i'r drafferth o ymweled â hwynt, ac nid hoff gan yr Yspaeniaid hyd heddyw eu preswylio. Pizarro fal hyn gwedi llwyddo i ddyfod i feddiant o gyflawnder o gyfoeth, dechreuodd lunio cyfreithiau i'w filwyr, er mwyn cael cyfle o ddangos gŵg i'r rhai oedd gwedi gwrthwynebu ei gynlluniau, a chan bod ei arweddiad yn dra llymdost arnynt, a'i rwysg tra arglwyddiaethol yn cynyddu, gwrth-gynyrfodd ei wersyll, a'r terfyn gwedi ymladdfeydd echrys fu lladd Pizarro yn ei lŷs ardderchog yn ninas Lima, yr hon a seiliasai ychydig amser o'r blaen. Ar hyn daeth pleidwyr yr hen Almagro yn mlaen, a chyhoeddasant ei fab yr hwn oedd o'r un enw yn brif beniaeth, ond ni chydsyniai y rhan fwyaf o swyddogion yr Yspaeniaid a'r cyfryw drefn hyd oni ddeuai cenadwri o berthynas i hyny o lŷs Yspaen. Erbyn i'r newydd hyn gyrhaedd Charles V. brenin Yspaen, danfonodd yn ddiatreg Vasa di Castro i fod yn llywydd y wlad: yr oedd hwn trwy ei dynerwch a'i addfwynder, yn dra addas i lenwi y swydd oruchel oedd gwedi ei ddewis iddi: trwy ddoethineb hwn y trefnwyd i gloddfeydd la Plata a Potosi, y rhai o'r blaen oeddynt yn rhydd i'r neb a fynai eu hyspeilio, i berthynu i goron Yspaen; adferodd heddwch yn yr holl wledydd oddiamgylch, ond nid cyn gorfod arno ddibenyddio Almagro am ei ystyfnigrwydd yn gwrthod cydsynio â chynlluniau y llŷs. Ond er ei holl ddoethineb, nid oedd ganddo fedrusrwydd i foddio mawrion llys Yspaen, trwy na dobr nag anrheg, yr hyn a ddisgwilient oddiwrth lywydd gwlad oedd mor dra-llawn o gyfoeth: felly annogasant y brenin i lunio cynghorfa i rëoli cynlluniau Castro, yr hyn a barodd y derfysg ail ennyn rhwng pleidwyr y cynghorwyr â phleidwyr y llywydd: ond y blaenaf oeddynt drechaf, yn mhlith y rhai yr oedd Gonzalo brawd yr hen Pizarro, yr hwn gan lwyddiant ei arfau a honnodd ei hawl i fod yn llywydd, a chan na addefai llŷs Yspaen ef felly, ymgeisiodd a'i holl egni o wneyd yr ardaloedd oedd yn ei feddiant yn anymddibynol: dibenyddiodd y llywydd a ddanfonwyd i gymeryd ei le, a chafodd gan lyngesydd llynges Yspaen am dro rwystro i'r milwyr oedd ganddo dirio, sef hyd oni allai gasglu digon i'w gwrthwynebu, os byddai achos.

Yr oedd mawrion llŷs Yspaen erbyn hyn yn gweled eu hynfydrwydd yn danfon dynion egwan, a chan mwyaf o duedd sarug ac anhynaws i lywyddu y wlad, felly danfonasant Pedr Gasga, gwr o agwedd gyffelyb i Castro, ond ei fod yn fwy hyddysg mewn defodau rhyfel, i fod yn llywydd ar y wlad: yr oedd yn ei ddilyn lû mawr o filwyr, felly cafodd dirio yn rhwydd, ond er cynyg pob tegwch i Gonzala ni wrandawai arno, felly brwydr dôst a ddilynodd, yn yr hon y cymerwyd Gonzala yn garcharor. Dibenyddiwyd ef yn fuan gwedi, a Gasa a ddechreuodd ei oruchwyliaeth.

Fal hyn y goresgynwyd ymerodraethau Mexico â Pheru, gan arfau yr Yspaeniaid, a hwy sy mewn meddiant o honynt hyd heddyw. Yr hyn a berthyn i oresgyniad y lleill a grybwyllir yn hanes y gwledydd hyny: felly traethir yn mlaen ar foesau, arferion, crefydd, a phethau ereill perthynol i drigolion America yn gyffredinol, yn enwedig gan bod y cyfryw yn gyffredin yn dra thebyg tros yr holl gyfran hon o'r ddaear; ac ychwanegir ychydig wrth ddysgrifio eu hamrywiol ranau yn y dosbyrth a ganlyn.

## DOSBARTH II.

### *Am Gyn-drigolion America.*

YCHYDIG o drefnidiaeth a wnelid yn y byd cyn darganfod America. Nid oedd cyn hyny fal y soniwyd ond ychydig yn cael ei wneyd rhwng rhai o wledydd Ewrop a rhyw barthau o Indostan, ond gwedi tirio o Columbus yn y gorllewin-fyd, daeth y maes yn raddol yn dra ëang, ac nid yn unig yr oedd cyfoeth yn chwanegu, eithr agorwyd drws ëang i'r anianydd i ganfod yn agweddau y trigolion, amrywiaethau mwy am yr anian ddynol nag a wyddid o'r blaen. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng trigolion Ewrop ag America cymmaint ag yr honnai rhai nad oedd y naill a'r llall gwedi tarddu o'r un gwreiddyn. Ond rhaid bod y cyfryw adroddiad heb unrhyw sail iddo. Mae yr amrywiaethau y sydd yn perthyn i'r anian ddynol yn ddi-rifedi, naill a'i oddiwrth y dull o gaffael eu cynnaliaeth, neu oddiwrth rym greddfol eu moesau, a lliosogrwydd o helyntion ereill rhy fath i'w crybwyll a'u holrhain yn y lle hwn. Mae'n ddiamheu bod brasluniad dynoliaeth yn amlwg yn mhlith holl genhedloedd y ddaear, er maint yw y gwahaniaeth mewn lliw a llun y sydd yn dynodi y naill genedl oddiwrth y llall.

Pan ddarfu i dwyll cyfoeth arwain Ewropiaid gyntaf tros y mor Werydd, hwy a gawsant drigolion y byd newydd mewn caddug o anwybodaeth ac oddieithr trigolion Mexico a Pheru, y rhai oeddynt mewn rhan gwedi ymwareiddio, nid oedd na threfn na gwybodaeth yn sefydledig yn eu plith. Braidd y gwyddent ddim am drin tir: wrth hela y gwylltfilod y rhai oeddynt liosog yn eu mynyddoedd, maesydd, coedydd, &c. yr oeddynt yn cael eu prif gynnaliaeth, yr hyn arferiad oedd yn rhoddi y cyfryw rym â bywiogrwydd i'w cyrff, ag y sydd anhysbys braidd mewn unrhyw wledydd ereill. Mae y trigolion hyn hyd heddyw yn arfer y cyffelyb foesau ac arferion ag a arferai eu hynafiaid: maent oherwydd bod mewn peryglon dirfawr wrth hela, a bod agos yn wastadol mewn rhyfel a'u gilydd yn drymluog a difrifddwys o gynneddfau, ac heb unrhyw fywiogrwydd ynfyd ar un amser yn cael ei arddangos ganddynt. Mae ymarweddiad y naill at y llall a fyddo yn perthyn i'r un llwyth yn dra syml, parchus a gostyngedig: eu geiriau ydynt anaml, ac y mae agos bob ystum a fyddo arnynt yn mynegi agwedd eu meddyliau. Eu bywoliaeth sydd yn ymddibynu yn llwyr ar eu medrusrwydd mewn helwriaeth, a chan nad oes ganddynt ddinasoedd, na thuedd at unrhyw ardal mwy na'i gilydd, maent yn ymsymud o'r naill darran i'r llall, yn ol y byddo angenrheidrwydd am gynnaliaeth yn gofyn; ac yn ymluestu felly mewn diffaethfaoedd anial mynyddig, yn guddiedig gan ddyrys-leoedd coediog anhawdd treiddio iddynt.

Mae pob arferion y sydd yn mhlith Indiaid cyfandir America, yn nddull o lywodraethu a phethau cyffelyb, yn lled debyg tros yr holl gyfran yn gyffredinol. Heb na chelfyddydau na chyfoeth, prif offerynau bonedd mewn gwledydd moesol, nid oes gan Indiaid America unrhyw foddion i arddangos eu henwogrwydd ond yn unig mewn agwedd gorfforol, neu rymusder meddwl. Rhyddid gan hyny ydyw eu prif gynefod: parchant eu pennaethiaid fal tadau, ond nid ofnant hwy fal rhai tra-arglwyddiaethol: felly nid oes gan y cyfryw na gwarcheidwaid, carcharau, yngnaid hedd, nag unrhyw swyddogion awdurdodol ereill

yn perthyn i'w llysoedd gwladol, ac y mae sefyllfa unrhyw beniaeth mor beryglus, ag y byddai i un troseddiad amlwg o'r rheolau gosodedig ei lwyr ddifreinio yn ddiatreg o rwysg y llywodraeth. Mae pob henafgwr a ymarweddo yn dda yn cael eu barchu yn fawr, y rhai hyn sydd yn dad-ddrysu unrhyw anghydfod a ddigwyddo yn mblith y deiliaid, a nhwy yn eu cyfarfodydd gwladol ydynt yn pennu blaenoriaid y milwyr, y rhai mor ebrwydd ag yr enwir hwynt, ydynt yn cael cyflawn ufudd-dod gan y rhai y fyddo yn perthyn i'w banieri.

Yr achosion o'r rhyfeloedd gwastadol y sydd yn eu plith ydynt naill a'i anghydfod oherwydd troseddu deddfau helwriaeth, neu unrhyw ymgecru a ddigwyddo rhwng y llwythi pan ddigwyddont ymgyfarfod wrth ymsymud o'r naill fangre i'r llall. Weithiau â mintai o honynt i olrhain y diffaethfaoedd am garcharorion i'w cynnorthwyo yn eu helwriaethau, &c. Mabwysir y rhai hyn yn ddiatreg i fod yn ddinasyddion, ac felly bydd ganddynt hawl gyffredin yn mhob rhagorfaint a berthynai i'r llwyth. Pan ddigwyddo bod rhyfel gyffredinol rhwng y naill lwyth a'r llall, mae y peniaeth yn danfon cyhoeddiad i'r holl bentrefi i ddatgan ei fwriad o oresgyn bröydd ei elynion, ac yn annog y nifer a fynno o'r meibion i'w ddilyn yn yr anturiaeth. Gwedi i'r milwyr gwirfoddol hyn ymgasglu, mae'r blaenor yn myned o'r neilldu am rai dyddiau i ymprydio, ac ni oddef i neb ddyfod i'w fwth ar unrhyw achos hyd oni byddo gwedi llwyr barotoi. Gwedi hyn mae y dewiniaid yn drwyadl yn dëongli breuddwydion, ac yn ymswyno llwyddiant i goroni y gorchwyl, yna mae y crochan brwydr yn cael ei ddodi ar y tân yn arwydd o'u bod yn myned i ddifa cnawd eu gelynion; a chragen fawr yn cael ei danfon i beniaeth eu cynghreiriaid i'w wahodd yntau i ddyfod i gyd-ddrachtio eu gwaed, gwedi hyn mae yr holl fyddin yn pardduo eu gwynebau blith dra phlith â rhestrau o liw coch, yr hyn sydd yn gwneyd yr olwg arnynt yn ddrychynllyd, ac wrth gychwyn maent yn newid eu gwisgoedd goreu am rai gwaelach, ac yn dodi i'r gwragedd y tlysau gwerthfawr a fyddo ganddynt, y rhai ydynt yn eu hebrwng enyd o ffordd i dderbyn y cyfryw yn arwyddion o gyfeillgarwch diffuant.

Mae yr Indiaid hyn o herwydd ymgynnefino a chrwydro yr anialwch yn neillduol o graff, ac yn fwy trwyadl nag unrhyw genhedloedd ereill yn rhoddi neu yn gochel unrhyw rythr: olrheiniant sefyllfa eu gelynion o bellder mawr, naill ai wrth arogl mŵg eu tanau, neu oddiwrth ol eu traed ar wyneb y maes, yr hyn ni allai Ewropiad gyd â na gwydrau nag unrhyw ddrychau ganfod. Ond nid yw hyn o fawr les iddynt gan fod eu gelynion yn meddu y cyffelyb fedrusrwydd. Pan y byddo y minteioedd ymladdgar ar eu taith, maent yn ofalus yn gochel pob ymarferiad a ddangosai eu sefyllfa i'w gelynion: anfynych y goleuant dân i ymdwymo wrtho, neu i drin eu bwyd: gorweddant y dydd a thramwyant y nos, ac y mae'r olaf yn y rhestr yn dileu yr ol traed trwy eu cuddio â dail, &c. Pan y gorphwysont, mae mintai o honynt yn myned allan o'r ddeutu i olrhain pob llwyni ac ogofeydd y meddylient bod gelynion ynddynt. Fel hyn y byddent weithiau yn dyfod yn ddisymwth ar bentrefi pan y byddo y gwyr allan yn hela ac yn lladd y gwragedd, plant, a'r henafgwyr, neu wneyd carcharorion o'r cyfryw o honynt a wnelai lês i'w llwyth Ar ddychweliad y pentrefigion mae y frwydr yn gyffredinol, bydd y bwledi a'r saethau blithdra-phlith yn rhwygo y ddwy-blaid, hyd oni roddo un o'r ddwy y

gorchwyl i fynu. Ond os bydd y nerth o'r ddeutu yn lled gyfartal mae y cynddeiriogrwydd mor danbaid ac y rhuthront ar eu gilydd â bwyill, picellau, a chnwpâu, gan wneyd oernadau echrys, ac yna bydd y dinystr yn ofnadwy o ddychrynllyd: bydd rhai yn sathru y clwyfus ac yn eu rhegu trwy eu duwiau, ereill yn eu dirdynu yn y modd mwyaf arteithiol, y lleill yn sugno gwaed y rhai mwyaf gelynol, a rhai yn bwyta cnawd y rhai fyddo yn trengu, a phethau ereill y byddai i'r olwg arnynt lesmeirio grym Ewropiaid, ond y sydd yn cynyddu cynddeiriogrwydd tanbaid yr Indiaid. Gwedi i'r blaid gryfaf drechu a sicrhau y carcharorion annedwydd, mae oernadau echrydus i alaru am y cyfeillion a drengasant yn gyffredinol, ac wrth ddynesu i'r pentref mae y merched yn dyfod i'w cyfarfod dan udo yn alarus am eu gwyr neu eu meibion a syrthiasant yn y frwydr, ac wrth i'r peniaeth eu bcnwi mae y galar yn adnewyddu, ond pan gyhoeddir goruchafiaeth mae pob tristwch yn ddiatreg yn troi yn llawenydd: ac yna gwedi rhanu yr yspail mae'n canlyn y driniaeth ysgeler a wneir ar y carcharorion.

Mae'r elyniaeth rhwng yr Indiaid rhyfelgar a'u gilydd mor reddfol nad oes gradd o dosturi yn cael ei arddangos tu ag at y rhai a orchfygir, ac y maent hwythau hefyd mor ystyfnig a chaled, ag y goddefont yr arteithiau mwyaf echrys yn hytrach nag ymostwng yn y gradd lleiaf. Digwydd weithiau i garcharor gael ei dderbyn i deulu i lenwi lle gwr neu fab a ddigwyddasai farw mewn rhyfel, neu mewn rhyw ddull disyfed arall, ac yna wrth fraint a defod bydd o hyny allan yn un o honynt. Ond pan na byddo eisiau y cyfryw, dyfarnir ef i farw: yna ymgasgl yr holl genedl i'r dihenydd-le, a rhwymir y carcharor neu garcharorion wrth y cyff, a gwedi iddynt ganu eu marwnad eu hunain maent yn ymarfogi yn öon i arddangos y dewrder mwyaf. Eu poenydwyr ar y tu arall ydynt yn ymroddi i'w profi trwy yr arteithiau mwyaf poenus. Dechreuant ar y dwylaw neu'r traed trwy ddiwreiddio y gwinedd y naill ar ol y llall: dyry un fŷs yn ei safn i rwygo y cnawd oddiarno, arall yn ei ddodi yn ddiatreg gwedi mewn pibell yn wirias wen i'w chwiffio fal tobacco, ac yna y trydydd yn ei falurio rhwng deu-faeu, tra y byddo ereill yn tynu cig y dannedd yn gareiau, ac yn archolli hyd yr esgyrn yr holl aelodau, gan serio yr archollion â haiarn poeth, ac yna rhwygo ymaith y darnau seriedig i'w bwyta gan ymiro a'r gwaed mewn gorawydd cynddeiriog angherddol. Mae'r arteithiau hyn weithiau yn parhau am lawer o oriau ac weithiau am rai dyddiau. Gollyngent yr adyn ambell waith yn rhydd i gael iddynt amser i ddyfeisio arteithiau mwy poenus, ac yn gyffredin tra y cyfryw hamdden, mae yr adyn tlawd yn syrthio i drwmgwsg, yna rhwymir ef eilwaith a dodir tân yn ei archollion i'w ddeffro, ac ail-ddechreuir yr arteithiau trwy ei bigo â nodwyddau troedo, tynu ei ddannedd â gefail, a'i lygaid â haiarn poeth; blingo y coryn a rhoddi coron o farwor tanllyd ar y cignoeth, ac yna gwedi blino yn arteithio mae y peniaeth a'i gnwpa o'r diwedd yn ei orphen: gwedi hyny dodir y corff mewn crochan i'w ferwi, a gwleddant arno yn orfoleddus.

Y gwragedd gwedi ymnewid o'r anian ddynol i fod yn waeth nag ellyllon diefiig, ydynt y mwyaf trwyadl yn y gorchwyl creulon hwn. Bydd y rhan fwyaf o'r gwyr yn eistedd o amgylch y cyff i chwiffio tobacco, ac megys yn llwyr ddifater o'r gorchwyl a fyddo ar droed. A pheth sy ryfedd, bydd yr adyn truan hefyd a fyddo yn goddef, pan gaffo yr hamdden leiaf, yn chwiffio, ac yn siared yn ysmala a'i boen-

ydwyr fal pe bai ymdrech tra ystod y dibenyddiad, pa blaid a ragorai, y poenwyr yn arteithio neu y dyoddefwr yn goddef: ni chlywir ganddo gymmaint ag ochenaid, ac ni bydd un camystym yn ei wynebpryd, tra y byddo dan yr arteithiau. Bydd trwy ystod yr amser yn adrodd y gorchestion a wnaethai, ac y modd y trinodd yn ysgeler rai o frodyr a cheraint ei boenydwyr yn maes brwydr; neu yn bygwth dialedd i ddyfod i ran y fintai feildigawl am ei angau; ac er i'r cyfryw ddywediadau eu cythruddo i fod fal ellyllon cyflawn gynddeiriog, mae'n parhau tan y loesion trymaf o'u cyhuddo o anwybodaeth yn y gorchwyl o boenydio, gan eu dysgu yn amyneddgar, pa arteithiau a fyddai debycaf o chwanegu ei boen, &c." Yr wyf yn enwog ac yn ddewr "adroddai," yn ngwyneb ei boenwyr. Nid oes arswyd marw arnaf, nag unrhyw arteithiau; digalon yw'r sawl a'u hofnant: maent yn fwy egwan na merched; ni faeliau dewr mewn einioes; gwaradwydder holl gynlluniau fy ngelynion! Oh! na allwn eu difa ac yfed pob dafn o'u gwaed, &c."

Nid oes dim yn hanesyddiaeth dynol-ryw yn fwy hynod nag ymddygiad yr anwariaid hyn tu ag at eu gilydd: os gelynion, maent yn dangos y creulondeb mwyaf, ac os cyfeillion, mae eu caredigrwydd yn llawn mor amlwg. Os digwydd i unrhyw o honynt fod yn aflwyddiannus mewn helwriaeth, neu os digwydd i'w gynhauaf fethu, neu ei dŷ fyned ar dân, a phethau cyffelyb, nid oes unrhyw effaith yn dilyn, ond yr hyn ag sydd yn rhoddi iddo gyfle o weled tynerwch ei gyddinasyddion yn gwneyd y rhwyg i fynu, trwy roddi iddo yn helaeth o'u haelioni. Ond i elynion ei wlad, neu i unrhyw a'i digiai, nid oes gelyn mwy anghymodlawn na'r Americaniad. Cuddiai ei fwriadau ac ymddengys yn gyfeillgar, hyd oni chaffo gyfle têg i ymddial. Nid ydyw ystod hir amser yn tawelu ei ddigter; nid yw meithder ffordd yn unrhyw rwystr: mae'n teithio ar draws mynyddoedd serth, corsydd dyfnion, anial-leoedd coediog am gantoedd o filltiroedd, gan oddef eisiau a pheryglon oddiwrth wylltfilod a'r cyffelyb, hyd oni ddelo yn ddisymwth ar ei elyn, ac yna gwedi ei ladd, mae yr elyniaeth mor reddfol ynddo, nad yw yn ymadaw a'r corff nes iddo ei lwyr fwyta! I'r cyfryw eithafnod mae'r Indiaid hyn yn arddangos eu casineb, a diau fod greddf led gyffelyb yn mhob dynion y sydd heb ymwareiddio trwy rym dysgeidiaeth, a thraddodiadau buddiol ereill.

Mae cyfeillgarwch yr Indiaid hyn yn ymddangos yn dra hynod yn eu serch tu ag at y rhai a hunasant. Pan y byddo i unrhyw o'r llwyth farw mae yr holl genedl trwy ddefodau lliosog yn galaru am ddyddiau lawer ar ei ol. Mae uchel-wyl hefyd yn cael ei chynnal bob wyth mlynedd er parchu coffa am y meirw. Bydd yr holl gyrff a gleddir mewn wyth mlynedd fal hyn yn cael eu hadgyfodi, ac yn cael eu dwyn yn y cyflwr y byddont ynddo i anneddau eu perthynasau i'w parotoi i'w claddu yn nghyd mewn un angladd-le eang. Nid yw meithder ffordd yn unrhyw rwystr i'r naill gludo corff y llall, ac nid yw y cyflwr llygredig y byddo ynddo pa un bynag a'i yn llwch, neu yn llawn pryfed, neu ynteu yn y radd mwyaf o ddrewdod yn unrhyw rwystr iddynt gyflawni eu hamcan. Ac er y bydd y daith weithiau yn parhau amryw ddyddiau, maent yn goddef eisiau ag anwyd o dan y baich drewedig gyd â'r sirioldeb mwyaf. Gwedi cyrhaedd eu cartrefi mae y teulu yn parotoi gwledd o anrhydedd i'r marw, ac yna mae'n canlyn adroddiadau am ddewrder eu hynafiaid, blith-dra-phlith ag oerleisiau galarus, hyd yr amser y noda penaeth y llwyth i'r gladdfa gyffredinol gael ei gwneuthur. Gwedi hyn

bydd yr holl lwyth yn dilyn yn ddifrif-ddwys y cyrff at y bedd, a gwedi eu dodi oll ynddo a'u claddu â choed, ceryg a phridd, &c. maent oll yn sychu ymaith y dagrau, ac yn dychwel bawb i'w babell i orphen yr wyl trwy lawenydd.

Mae gan yr anwariaid hyn ryw amgyffred am anfarwoldeb yr enaid, oddiwrth eu bod yn dodi y trysorau mwyaf gwerthfawr a fyddo ganddynt yn y bedd gyd a'u cyfeillion, gan addef bod y cyfryw yn llesol iddynt yn myd yr ysprydion. Ond nid ydynt yn ymarfer ag unrhyw ffurf o addoli ond yn unig ar yr amser y byddont am wynebu eu gelynion ar faes brwydr, yna bydd un llwyth yn ymbil â'r haul, y llall a'r lleuad, y trydydd ar dduw teuluol &c. byd oni foddlonir yr offeiriaid bod caniatâd iddynt i antuiio at y gorchwyl.

Addas yw crybwyll yma bod yr hyn a grybwyllwyd am yr Indiaid anwar hyn yn fwy priodol i'r gyfran ogleddol nag i'r llall: mae trigolion America ddeheuol yn fwy swrth a dioglyd, ac felly yn llai dewr na'r rhai hyn, fal y crybwyllir yn nysgrifiad y gyfran honno o'r ddaear.

## DOSBARTH III.

*Dysgrifiad cyffredinol o America.*

MAE y gyfran ëang hon o'r ddaear a elwir yn fynych y gorllewinfyd yn cyrhaedd o ledred 80° yn ogleddol i 56° yn ddeheuol, ac yn cyrhaedd yn y manau y mae ei lled yn hysbys o hydred 35° i 136° yn orllewinol o Lundain; ac felly o 8 i 9,000 o filltiroedd o hyd, ac yn ei lle lletaf yn llawn 4,000. Mae y gyfran hon yn gorwedd mewn dwy arddrych a chanddi ddau hâf a dau auaf bob blwyddyn, ac y mae yr holl hingylchoedd y sydd mewn bod yn myned ar ei thraws. Ei glenydd dwyreiniol ydynt yn cael eu golchi ar eu hyd gan y môr Werydd, yr hwn sydd yn ei gwahanu oddiwrth Ewrop ac Affrica, a'i glenydd gorllewinol ydynt a Môr mawr y de yn terfynu arnynt, ac yn eu gwahanu oddiwrth Asia. Rheuir hi yn ddau gyfandir eang, un yn ogleddol a'r llall yn ddeheuol; a'r cyfyngdir sydd yn eu cydio yw teyrnas Mexico, yr hon sydd 1,500 milltir o hyd, ond yn y man y mae ei lled leiaf, nid yw oddiar 60 milltir. Yn y culfor sydd yn cael ei lunio gan y cyfyngdir hwn a'r gyfran ogleddol a deheuol, mae lliaws o ynysoedd ffrwythlon a elwir India orllewin, mewn cyferbyniad i'r India ddwyreiniol, enw sydd ar yr ynysoedd y sydd y tu hwynt i Benrhyn gobaith.

Cyn dysgrifio amrywiol wledydd y gyfran ëang hon, addas yw crybwyll am y prif fynyddoedd, y rhai ydynt rhy fawrion i'w crynhoi yn nysgrifiad unrhyw dalaeth benigol, gan eu bod yn ymestyn agos tros yr holl gyfandir. Er na chyfrifir America yn wlad fynyddig, eto ynddi mae y mynyddoedd mwyaf ar wyneb daear, megys mynyddoedd Andes, neu y Cordilleras, y rhai ydynt yn ymestyn ar hyd America ddeheuol o gyfyngdir Darien i gyfyngfor Magellan, sef 4,300 o filltiroedd. Mae eu huchder mor hynod ag yw eu hyd: canys er iddynt mewn rhan fod yn y gwregys llosg, mae tô o eira oesol yn gorchuddio eu penau. Chimborazo yr uchaf o honynt sydd 20,608 troedfedd, ac o'i ben i wared mae 2,400 troedfedd tan eira yn wastadol. Cotopaxi sy 19,000 troedfedd o uchder, ond yr uchaf y gallodd dyn erioed ei

lwyr esgyn yw mynydd Carazon yr hwn sy 15,800 troedfedd o uchder. Y mynyddoedd hynotaf yn America ogleddol yw y rhai sydd yn terfynu ar y broydd cyfogledd anadnabyddus, a'r drum a elwir mynyddoedd Apalachian neu Allegani, y sydd yn derfyn gorllewin i'r Taleithiau cyfunawl, ac yn eu dosbarthu oddiwrth Canada a Louisiana.

Nid oes unrhyw wlad yn cael ei dyfrhau gan lynau ac afonydd yn fwy nag America. Llynau Canada yn y gyfran ogleddol ydynt fal moroedd o faintioli, ac yn ymarllwys eu dyfroedd trwy afonydd mawrion megys y Mississippi, yr hon sydd a'i rhedfa o ogledd i ddeheu, gan droelli am 3,000 o filltiroedd hyd ei haber yn môr Mexico: ceinciau o hon yw yr Illinois, y Missouri, yr Ohio, ac afonydd mawrion ereill agos mor enwog mewn maintioli ag yw y Rhin a'r Danub yn Ewrop. Y St. Lawrence sydd a'i rhedfa o dde i ogledd yn ngwrthwyneb i'r Mississippi hyd ei harllwysiad i'r môr Werydd, ar gyfer Newfoundland. Mae y rhai hyn a'u ceinciau ëang yn fordwyol agos ar eu hyd, a byddant o'r lles mwyaf i drefnidiaeth mor fuan ag y llawn boblogir yr ardaloedd cylchynol gan drigolion gwaraidd. Ar du dwyrain gogledd-barth America y cyfarfyddir ag afonydd Hudson, Delaware, Susquehana, Patowmak ac ereill, aberoedd y rhai ydynt yn llunio porthladdoedd cyfleus.

Yn America ddeheuol mae y ddwy afon fwyaf ar wyneb daear, sef yr Amazonia neu Maranon, a'r la Plata. Y flaenaf sydd yn codi o fynyddoedd Peru yn lled agos i'r mor Tawel, a gwedi llifo 2,500 o filltiroedd yn ddwyreiniol, sydd yn ymuno a'r mor Werydd rhwng Guiana a Brazil, gwedi derbyn iddi liaws o geinciau mordwyol. Y la Plata sydd a'i blaenau mewn mynydd-dir yn nghanol y wlad, a gwedi derbyn ffrydiau afonydd mawrion o'i deutu, mae hi yn ymarllwys gyd a'r fath gyflymder i'r mor, a bod y dyfroedd yn lled groyw am rai milltiroedd oddiwrth y lan. Y nesaf mewn maint yn America ddeheuol yw Oronoko, yr hon gyd ag amryw ereill a grybwyllir am danynt yn mlaen.

Rhaid yw i'r fath gyfran ëang y sydd yn ymestyn o ddeutu y Cyhydedd, amrywio cymmaint yn ansawdd ei thiroedd ag yw o ran ei hinsoddau. Ond wrth fwrw golwg gyffredinol drosti, gwlad gyfoethog o bob daioedd yw America. Ei mwngloddiau ydynt yn cynnwys aur, arian a phob meini gwerthfawr, adnabyddus yn Ewrop; ac y mae ei thiroedd breision yn cynnyrchu digonedd o rawn a ffrwythydd, yn nghyd a chyffeiriau meddygol o amryw rywogaethau. Ond nid yw ei hanifeiliaid yn gyffredinol o ddwf cymmaint ag yw y rhai o'r un rhyw yn y dosbyrth ereill o'r ddaear.

Er bod amryw lwythi o Indiaid y pryd hwn yn preswylio yn dawel ardaloedd ëang yn America, eto mae holl barthau adnabyddus y gyfran ëang hon yn cael eu meddiannu gan dair cenedl o Ewrop, sef yr Yspaeniaid, y Saeson, a'r Portugiaid. Yr Yspaeniaid gan mai hwy a'i darganfu gyntaf, ydynt yn meddu yr ardaloedd brasaf a chyfoethocaf o honi, sef yr holl wledydd y sydd yn cyrhaedd o Mexico newydd a Louisiana yn ngogledd-barth America i gyfyngfor Magellan yn y penrhyn de, oddigerth talaeth fawr Brazil, yr hon sydd yn perthyn i Portugal. Nid yw yr ychydig amddiffynfeydd sydd gan y Ffrancod a'r Ellmyn yn Surinam a Guiana ond lleoedd bychain y sydd yn noddfeydd i'w llongau yn amser rhyfel.

Prydain fawr, yn nesaf i Yspaen oedd a'r meddiant mwyaf yn per-

rhyn iddi yn America ogleddol, er y pryd y darfu i Sebastian Cabot feddiannu parthau o honi yn enw Harri VIII. yn 1497, sef yn mhen y chwe' blynedd gwedi i Columbus yn enw brenin Yspaen feddiannu America ddeheuol Galwai y Saeson eu cyfran hwy wrth yr enw Newfoundland, enw y sydd y pryd hwn yn perthyn yn unig i ynys y sydd ar du dwyrain y wlad. Syr Walter Raleigh ac ereill oedd y trefedigion cyntaf a ddaearasant ynddi, ac yna dilynwyd y cynllun yn raddol gan ereill fal y gwelir isod.*

| TALEITHIAU GOGLEDD-BARTH AMERICA. | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Gwledydd.* | *Hyd* | *Lled* | *Prif ddinas.* | *Lledred* | *Hydred o Greenwich* Yn radd. | *Hydred o Greenwich* Yn amser |
| | | | | ° ' | ° ' | a. m. |
| Prydain newydd | 850 | 750 | | | | |
| Canada ······· | 1400 | 400 | Quebec ······· | 46 55G. | 69 53G. | 4 39½ ol |
| Ysgotland newydd | 350 | 250 | Halifax ······ | 44 45G. | 64 30G. | 4 18 ol |
| Brunswic newydd | 350 | 250 | Shelburne ······ | 43 46G. | 65 0G. | 4 20 ol |
| Lloegr newydd ·· | 550 | 200 | Boston ········ | 42 22G. | 70 55G. | 4 43 ol |
| York newydd ··· | 350 | 300 | York newydd ···· | 40 40G. | 74 11G. | 4 56 ol |
| Jersey newydd ·· | 160 | 52 | Perth, Amboy ···· | 40 35G. | 75 0G. | 4 58 ol |
| Pennsylvania ···· | 288 | 156 | Philadelphia ···· | 39 57G. | 75 8G. | 5 0 ol |
| Maryland ······ | 134 | 110 | Annapolis ····· | | | |
| Virginia ······· | 446 | 224 | Williamsburg ·· | 37 10G. | 77 2G. | 5 8 ol |
| Carolina ogledd · | 450 | 180 | Edenton ······· | 35 58G. | 77 5G. | 5 8 ol |
| Carolina dde ···· | 200 | 125 | Charles Town ·· | 32 42G. | 80 0G. | 5 20 ol |
| Georgia ······· | 600 | 250 | Savannah ······ | 31 57G. | 80 57G. | 5 23 ol |
| Fflorida ddwyrain | 600 | 400 | St. Augustine ···· | 30 8G. | 81 10G. | 5 25 ol |
| Fflorida orllewin | 600 | 400 | Pensacola ····· | 30 32G. | 87 20G. | 5 49 ol |
| Louisiana ······ | 1200 | 640 | Orleans newydd ·· | 30 0G. | 87 5G. | 5 48 ol |
| Mexico newydd a California·· | 2000 | 1400 | Santa Fê ···· St. Juan ···· | 35 32G. | 105 0G. | 7 0 ol |
| Mexico ······· | 2000 | 600 | Mexico ······· | 19 54G. | 100 5G. | 6 40 ol |
| **TALEITHIAU DEHEU-BARTH AMERICA.** | | | | | | |
| Terra Firma ···· | 1400 | 700 | Panama ······· | 8 48G. | 80 28G. | 5 22 ol |
| Peru ········· | 1800 | 500 | Lima ········· | 12 1D. | 76 49G. | 5 7 ol |
| Amazonia ······ | 1200 | 260 | | | | |
| Guiana ········ | 780 | 480 | Surinam<br>Cayenne ······ | 6 0G.<br>4 56G. | 55 30G.<br>52 15G. | 3 42 ol<br>3 29 ol |
| Brazil ········· | 2500 | 700 | St. Sebastian ···· | 22 54D. | 42 44G. | 2 56 ol |
| Paraguay, neu La Plata ··· | 1500 | 1000 | Buenos Ayres ·· | 34 35D. | 58 31G. | 3 54 ol |
| Chili ········· | 1260 | 580 | St. Jago ······· | 34 10D. | 71 45G. | 4 47 ol |
| Patagonia ······ | 1100 | 300 | | | | |

* Trefedigion cyntaf Gogledd-barth America oeddynt y canlynol,

| *Enwau lleoedd.* | *Sefydliad.* |
|---|---|
| Quebec······················ | 1608..Gan y Ffrancod. |
| Newfoundland ················ | 1610..Gan y llywydd John Grey. |
| Virginia ···················· | 1609..Gan arglwydd Delawar. |
| York newydd ················ Jersey newydd ·············· | 1614 Gan yr Ellmyn. |
| Plymouth ··················· | 1620..Gan ran o gynnulleidfa Mr. Robinson. |
| Hampshire newydd ··········· | 1623 Gan drefedigion Saesonig yn agos i aber afon Piscataqua. |
| Delawar ···················· | 1627..Gan y Swediaid a'r Ffinlandiaid. |
| Massachusets ················ | 1628 ··Gan Cadpen John Edicot ac ereill. |
| Maryland···················· | 1633 Gan arglwydd Baltimore a mintai o Babyddiaid. |
| Connecticut ················· | 1635··Gan Mr. Fenwic. |
| Ynys Rhode ················· | 1635··Gan Mr. Roger Williams ac ereill. |

Yr oedd y Ffrancod er dyddiau Elizabeth hyd yr heddwch a wnaed yn 1763 yn honni hawl yn Canada a Louisiana, sef yr holl ardaloedd oedd yn ymestyn o fur Hudson yn y gogledd i for Mexico yn y parthau deheuol.

Am yr ynysoedd lliosog y sydd yn gorwedd rhwng y ddau gyfandir, ac oeddynt yn ddiweddar yn meddiant y Saeson, Ffrancod, Ellmyn ac ereill, rhoddir hanes mor helaeth am danynt ag y goddef y gwaith hwn yn eu lle priodol.

# GWERDDON OGLEDD.

## NEU GREENLAND.

*Sefyllfa.. Hinsoddau.. Trigolion.. Anifeiliaid.. Hanes.*

MAE y wlad noethlom hon yn sefyll yn ngogledd-barth America: môr Baffin, a chyfyngfor Davis yn terfynu ar ei pharthau gorllewinol, y môr Werydd ar ei phenryn deau, y môr cyfogledd ar hyd ei pharthau dwyreiniol, a moroedd neu diroedd anadnabyddus ar ei holl ranau gogleddol.

HINSODDAU.] Mae y wlad ëang hon yn lled debyg i'r dysgrifiad a roddir am Lapland, sef ei holl barthau gogleddol tan eira oesol, ac felly yn anneddau anaddas i ddyn breswylio ynddynt; ond ei pharthau deheuol ydynt er ys rhai oesoedd weithian yn cael eu cyfannedda, ac y mae y tymhor hâf am drimis yn lled dymherus ac yn peri tŵf prysur ar goed meryw, helig, bedw, a'r cyffelyb; hefyd glaswellt, berw, suran, &c. ond er hau haidd a cheirch yn fynych, ac iddynt dyfu i dal-dra addas, mae'r oerni yn rhy rymus i'w goddef i dywysenu.

TRIGOLION.] Y llwythi sydd yn cyfanneddu y parthau gorllewinol, ydynt yn ol pob hanes gwedi deillio oddiwrth Indiaid o Labrador, ond trigolion y parthau dwyreiniol ydynt yn deillio oddiwrth drefedigion o Norway, y rhai a gawsont eu gyru gan dymhestl wrth geisio tirio yn ynys yr iâ, a hyny oesoedd lawer cyn geni Madawg, Columbus, na Vespusius, y rhai bob un fal y soniwyd ydynt gan amrywiol hanesyddion yn cael yr anrhydedd o ddarganfod America. Mae y trigolion hyn fal y Laplandiaid yn pabellu yr hâf, ond yn gosod preswylio daeardai y gauaf, gan fyw yn wastadol ar bysgod, moelrhoen, adar môr, ac ar ambell garw neu ysgyfarnog a ddigwyddont ddal: maent hefyd yn tebygu yn eu gosgedd i'r genedl hono sef yn fyrion o gorffolaeth, yn siriol a bywiog o gynneddfau, ac hefyd o ymwisgo mewn crwyn, a phethau cyffelyb. Iaith Norway sydd yn cael ei harfer gan y tri-

| | | |
|---|---|---|
| Jersey newydd ................ | 1664 | Gan y Saeson, ond rhoddwyd hi yn fuan gwedi i'r dug o York gan Charles II. |
| Carolina deheuol .............. | 1669.. | Gan y llywydd Sále. |
| Pennsylvania ..................... | 1682.. | Gan Wm. Penn a mintai o grynwyr. |
| Carolina ogleddol ............... | 1728.. | Gan ymgilwyr o blith y Saeson. |
| Georgia .......................... | 1732.. | Gan y llywydd Oglethorpe. |
| Kentucky ........................ | 1774.. | Gan y milwr Daniel Boon. |
| Vermont .......................... | 1777 | Gan ymgilwyr o Connecticut a rhanau ereill o Loegr newydd. |
| Ardaloedd i'r G. O. o afon Ohio | 1787.. | Gan drefnidwyr o Ohio ag ereill. |

golion, a llywydd o'r wlad hono sydd yn ei llywodraethu. Bernir bod ynddi o ddeutu 10,000o eneidiau.

Anifeiliaid.] Mae eirth, llwynogod, ceirw, ysgyfarnogod, a chwn tebyg o ddull i fleiddiaid yn lliosog yn y wlad hon. Y glenydd môr ydynt ac amryw fath o foelrhoen ynddynt, ac y mae y rhyw asgellog yn y tymbor hâf yn heidiau diamgyffred agos yn eu gorchuddio Mae yn moroedd y wlad hon hefyd amryw fath o forfilod, rhai yn lled wynion o liw, ac ereill yn fwy tywyll, y rhai yn y moroedd hyn ydynt y brasaf, ac y mae llongau o Brydain a manau ereill yn olrhain y moroedd cyfogledd pob haf i'w pysgota.

Y morfil sydd o 60 i 80 troedfedd o hyd, ei dafod o ddeutu 18 troedfedd gwedi ei amdoi âg o ddeutu 500 o asgellau blewog a elwir yn gyffredin *whalebone*: ei esgyrn ydynt mor galed ag esgyrn unrhyw anifail, ond nid ydynt o unrhyw werth Pan ganfyddir un o honynt yn lled agos i'r llongau, mae 3 neu 4 o gychod o bob un yn myned am dano, ac o'r cyntaf a'i cyrhaeddo mae tryfer yn cael ei thaflu iddo, yna mae y creadur yn ymsoddi yn gyflym i'r dyfnder, a'r tryfer yn nglyn ynddo, a rhaff fain o hono yn cyrhaedd i'r cwch: mae dau ddyn yn mlaen y cwch yn dra thrwyadl tra y byddo y morfil yn y gwaelod, un yn dyfrio y rhaff rhag i'w rhygniad yn y coed beri iddynt danio, ac y llall â bwyall yn barod i'w thori os digwyddai ddyrysu. Gwedi i'r creadur fal hyn ffoi am rai cantoedd o latheni, mae'n gorfod arno ddyfod i'r wyneb i anadlu, ac wrth hyn mae'n pistillio y dwfr gyd â thwrf cyffelyb i ergyd tân-ddrull mawr: yna dyry y cwch nesaf ato dryfer arall ynddo, yr hyn a bâr iddo ymsoddi eilwaith, a phan adgyfyd gwedi hyn, mae mor wan trwy golliad gwaed, ac y goddef i'r cychod nesu ato i'w bwyo â phicellau hyd oni threngo. Rhaid weithiau ei ddilyn tan bwyo am filltiroedd cyn y cwbl leddir ef: yna llusgir ef i'r lan os bydd yn agos fal y gwasgont yr olew o hono; neu oni bydd yn gyfleus, llusgant ef at y llongau i'w dori yn ddarnau i'w dodi mewn llestri i'w cludo adref. Mae yn mhob morfil a fyddo yn llawn maint o 60 i 100 o farilau o olew, o werth 3 neu 4 punt bob baril.

Mae yn y moroedd hyn faesydd o rew gwedi ymollwng o dueddau y pwne: rhai yn ugeiniau o filltiroedd o hyd a lled, ac arnynt gladeiriau fal mynyddau, cestyll, tyrau, eglwysi, pontydd a'r cyffelyb, ac yn arddangos pob lliwiau, pan y byddo'r haul yn pelydru arnynt. Pan y cyfarfyddo y naill faes a'r llall, bydd y llethiad yn peri twrf fal taranau, ac os digwydd bod llongau yn eu harfod mae dinystr disymwth yn dyfod i'w rhan. Dyfethwyd 13 o longau yr Ellmyn fal hyn mewn un tymbor, ac yn y flwyddyn 1553, rhewodd Syr Hugh Willoughby a'i forwyr i farwolaeth pan y carcharwyd ef ganddynt. Bu agos i ddwy long tan arweiniad arglwydd Mulgrave yn 1773 gael eu dyfetha: buont yn nglŷ-am ddyddiau lawer, ac yn myned yn ol ac yn mlaen yn ol y byddai symudiad y maesydd ëang oedd yn eu cloi: o'r diwedd daeth tymhestl ac a'u holltodd, ac felly mewn dull agos yn wyrthiol y cawsont ddyfod o'u gafael.

Hanes.] Darganfuwyd y wlad hon yn y nawfed ganrif gan Norweaid oeddynt am dirio fal y seniwyd yn ynys yr iâ, y rhai ar eu dychweliad i Norway a roddasant y fath glod iddi, ac yr ymroddodd amryw o'r Llychlynigion fyned yno i'w chyfanneddu. Danfonodd Olaf, brenin Cristionogol cyntaf Norway genadon iddi i ddysgu y trigolion yn egwyddorion Cristionogaeth, a hyny yn ngorff y un

flwyddyn ag y daethai'r efengyl i Norway, a bu llwyddiant ar y drefedigaeth hyd y 14 ganrif, pan y parodd y terfysgoedd oedd ar droed yn ngogledd-barth Ewrop iddynt eu llwyr anghofio. Yn 1720 cafodd gweinidog enwog o enw Hans Egede ganiatad o fyned i olrhain y wlad hon am epil y trefedigion, a chafodd hwynt gwedi adeiladu trefydd ac eglwysi, ac yn arddel y grefydd Gristionogol Arhosodd y cenadwr enwog hwn 15 mlynedd yn eu plith, ac yna daeth y Moraviaid atynt, ac yn ganlynol danfonodd y gymdeithas genhadol amryw o'i gweinidogion, fal y mae y wlad y pryd hwn ar gynnydd mewn pob gwybodaeth fuddiol. Mae llongau o Copenhagen y pryd hwn yn tramwyo iddi yn flynyddol.

Spitzbergen neu Gwerddon ddwyrain a fernid gynt yn rhan o'r wlad hon, gwyddis y pryd hwn mae cynifer o fân ynysoedd creiglyd a serth ydynt, ond yn nglyn a'u gilydd agos yn barhaus gan gludeiriau a maesydd rhew. Mae y Russiaid yn cadw meddiant yuddynt trwy ddanfon trefedigion o Archangel iddynt am y tymhor haf, ond y mae'r oerni yn rhy dost i'r anian ddynol ei goddef trwy ystod y flwyddyn.

# PRYDAIN NEWYDD, CANADA, &c.

Y Taleithiau sydd yn perthyn i Prydain fawr yn America ydynt bedair o rifedi, sef 1. Canada uchaf, 2. Canada isaf; i'r hon y perthyn Prydain newydd, sef yr holl wlad o amgylch môr Hudson; 3. Brunswic newydd, yr hon gynt oedd ran o Nova Scotia, neu Ysgotland newydd; ac yn 4. Nova Scotia.

Y taleithiau hyn ydynt yn gorwedd rhwng lledred 42 a 70 o raddau gogleddol, a rhwng hydred 50° a 96 yn orllewinol: y Taleithiau cufunawl a'r mor Werydd ar y tu de iddynt; yr un môr a chyfyngfor Davis, y cyfwng rhyngddynt â Gwerddon ogledd ar y tu dwyrain, â thiroedd anadnabyddus a moroedd rhewlyd, ar dueddau y gorllewin a gogledd.

Mae llywodraeth y taleithiau hyn tan olygiad swyddog milwraidd o Frydain, yr hwn hefyd sy brif flaenor holl filwyr y pedair talaeth a'r ardaloedd y sydd yn perthyn iddynt. Mae is-swyddog hefyd ar bob talaeth. Y trigolion oll ydynt o ddeutu 183,000.

PRYDAIN NEWYDD] Prydain newydd, neu y wlad sydd yn cylchynu môr Hudson ac a elwir yn gyffredin gwlad Esquimaux, yn cynnwys Labrador, a Gwynedd a deheubarth Cymru newydd sydd yn gylchynedig gan diroedd anadnabyddus a moroedd rhewlyd ar dueddau y pwnc ar y tu gogledd, gan y môr Werydd ar y tu dwyrain; gan afon St. Lawrence a Chanada ar y tu de, a chan ardaloedd anolrheinadwy ar y tu gorllewin. Y moroedd, porthladdoedd, penrhynau, &c. ydynt liosog, ac yn cael eu galw yn ol enwau y mordwywyr a'u darganfuasant, megys môr Hudson, cyfyng-foroedd Davis, Belleisle, &c. Mae mynyddoedd parthau gogleddol y wlad hon yn dra uchel, ac yn cael eu toi ag eira oesol; a chan fod y gwynt yn chwythu oddiarnynt am 9 mis o'r flwyddyn yn wastadol, mae'r oerni yn fwy angherddol tros yr holl wlad hon nag unrhyw arall y sydd o dan yr un hingylch.

Y prif afonydd ydynt yn dyfod o'r de a'r gorllewin, ac yn ymarllwys i foroedd Hudson ac Iago. Mae eu haberoedd yn fâs oddigerth yr

un a elwir Churchill, yr hon am 10 milltir o'i haber sy ddigon dofn i nofio llongau mawr arni. Yn uwch na hyn o'u haberoedd mae rhaiadrau ar afonydd Prydain newydd yn gyffredinol.

Mynyddoedd Labrador ydynt dra-llawn o fwn haiarn, ac y mae amryw feini gwerthfawr yn cael eu cludo o honynt, ond gwlad lom o goed, a braidd unrhyw lysieu ydyw oddiwrth oerder ei hinsoddau, er nad yw ei lledred onid yr un gradd â lledred dymherus swydd Meirion yn Ngwynedd. Mae pob anifail yma yn cael ei wisgo â phanfiew tew erbyn yr oerni: maent yn dryfrith o liwiau yn yr hâf, ond pan ddêl y gauaf maent yn ymnewid i liw yr eira, a pheth sy ryfedd mae y cŵn a'r cathod a gludir o Loegr iddi yn newid eu gwisgoedd fal hwythau.

Gelwir yr Indiaid y sydd yn cyfanneddu y wlad hon wrth yr enw Esquimaux. Maent yn ymddangos o fod yn genedl wahanol oddiwrth Indiaid America yn gyffredinol, ac yn tebygu yn fwy i'r Laplandiaid a'r Samoediaid yn ngogledd Ewrop. Eu llygaid ydynt fychain, eu gwallt yn arw ac yn ddu, ac y maent yn ddanheddog. Eu gwisg yw crwyn eirth a gwylltfilod ereill. A dynodir hwynt yn gyffredinol yn ddynion o duedd addfwyn ac hynaws.

Yr achlysur o olrhain y moroedd a'r gwledydd hyn a darddodd oddiar gynllun oedd ar droed mor foreu a'r flwyddyn 1576, o geisio darganfod ffordd trwyddynt i China a'r India ddwyreiniol. Frobisher a ddarganfu Prydain newydd, yr hon a alwodd Labrador, ac hefyd y cyfyngfor y sydd a'i enw arno. Yn 1585 cychwynodd Ioan Davis o Portsmouth i olrhain y parthau hyn, ond er myned yn mhellach na Frobisher ni allodd gyrhaedd onid y cyfyngfor y sydd a'i enw arno. Gwnaeth Ellmon o enw Hudson dair mordaith iddynt, ac yn 1610 anturiodd mor bell i'r mor cyfogledd a lledred 80½, lle yr arhosodd trwy ystod y gauaf maith canlynol, fal yr anturiai yn mlaen pan ddelai y gwanwyn, ond ei forwyr gwedi dyoddef caledi tôst gan yr oerni a godasant i'w erbyn, ac a'i traddodasant ef yn nghyd â saith o'i gyfeillion penaf mewn cwch bach i drugaredd y môr rhewlyd. Hudson a'i gyfeillion a lyncwyd gan y tonau, neu gwedi tirio a larpiwyd gan fwystfilod, ond daeth y llong a'r gweddill o'r morwyr yn ddiangol adref. Mae yr holl wledydd sydd yn terfynu ar fôr Hudson yn dra-llawn o anifeiliaid, y sydd a'u crwyn a'u blew yn dra gwerthfawr. Felly yn 1670 rhoddodd y llywodraeth freinlen i gymdeithas o drefnidwyr, y rhai ydynt yn cadw pedair llong a 130 o forwyr i gludo y crwyn i Frydain. Mae ganddynt amddiffynfeydd hefyd yma ac acw ar y glenydd sydd yn terfynu ar fôr Hudson, a 186 o wŷr yn eu cadw.

CANADA.] Canada sydd a Phrydain newydd a mor Hudson yn terfynu ar ei pharthau gogleddol; Nova Scotia, Lloegr newydd, a York newydd ar y tu de; ac ardaloedd anadnabyddus ar y tu gorllewin. Rhenir hi yn ddwy dalaeth sef yr uchaf a'r isaf. Y gyntaf sydd yn gorwedd i'r gogledd o'r llynau mawrion, ac yn cael ei gwahanu oddiwrth York newydd gan afon St. Lawrence, a llynau Ontario ac Erie. Canada isaf sydd yn gorwedd o ddeutu afon St. Lawrence, ac yn cael ei chylchynu o du y de gan Brunswic newydd, Lloegr newydd, a York newydd; ac ar y tu gorllewin gan Canada uchaf. Mae rhai mynyddoedd lled uchel ar du gogledd y wlad hon, ac ereill llai rhwng Quebec a'r môr. Yr afonydd ydynt liosog, a rhai o honynt yn fawrion megys y St. Lawrence, yr hon sydd yn codi o lyn Ontario, ac yn

ymgyfeirio i'r gogledd ddwyrain heibio Montreal, lle mae hi yn ymuno a'r Outtauais: mae hon yn cyfarfod y llanw 400 milltir oddiwrth y mor, ac felly yn fordwyol i lestri mawrion nofio arni. Ei haber yn nghulfor St Lawrence, y tu cefn i Newfoundland sy 90 milltir o led. Mae yn Canada bump o lynau mawrion, ac y mae y lleiaf o honynt yn fwy nag unrhyw arall o ddwfr croyw ar wyneb daear: hwn yw llyn Ontario, yr hwn y dywedir ei fod yn 600 milltir o amgylchiad. Llyn Erie sydd hwy ond nid yw mor llydan. Llyn Huron sydd 900 milltir o amgylchiad. Llyn Michigan sydd o ddeutu yr un maintioli ag Erie, ond llyn Superior sydd yn cynnwys ynddo amryw ynysoedd ffrwythlon, ac y mae yn llawn 1,500 milltir o amgylchiad. Mae yr holl lynau hyn yn fordwyol ac yn cydio a'u gilydd, ond fod rhaiadr Niagara rhwng Erie ac Ontario yn rhwystro tramwyo rhwng y ddau hyny a'u gilydd. Bu llynau Erie ac Ontario, a llyn arall cyfagos o enw Champlain yn ddrych o ymladdfeydd gwaedlyd rhwng llongau Lloegr ac America yn y rhyfel sy newydd derfynu rhwng Prydain fawr a'r wlad hono.

Mae y tymhor gauaf yn y wlad hon mor llym a bod yr afonydd a'r llynau mwyaf o Ragfyr i Ebrill yn nghlô gan rew, a bydd trwch o eira o bedair i chwe throedfedd o dew trosdi yn gyffredinol trwy ystod y misoedd cyfrwng, ond y mae yr hin yn iachusol haf a gauaf. Y gwanwyn sydd yn dyfod ar unwaith, ac yn peri cynnydd diatreg ar bob twf daear yn wenith, haidd, rhŷg a grawn ereill; ffrwythydd o amryw fath, a thobacco sy hefyd yn doreithiol ynddi.

Anghyfanedd-leoedd America ydynt yn llawn coed o amryw rywogaethau, ac yn ymddangos o fod felly o oesoedd boreuaf y byd. Anhawdd yw i unrhyw ymdeithydd ohrhain ei daith trwyddynt gan y trwch o honynt, a chan eu brigau uchel cysgodfawr yn lluddias i belydrau y goleuni dreiddio trwyddynt. Mae yn nghoed-diroedd Canada liaws o fwystfilod yn anneddu, megys ceirw, hyddod, eirth, llwynogod, cathod, gwiweir, ysgyfarnogod a chwningod; hefyd yr elk, y bele, y ffured, y fronwen, &c. Llostlydan America sy led debyg i rai Ewrop, ond ni all aros cyhyd ar unwaith yn ac o'r dwfr â hwynt: mae y mwsg y sydd mewn mân godau tan fol hwn o werth mawr. Mae yma hefyd lygoden ar ddull llostlydan o faint câth ganolig yn rhoddi mwsg agos mor werthfawr a'r llall Yr elk sydd o faint march o liw llwyd-goch yn byw ar laswellt yr hâf, ac ar risg pren y gauaf: ymesyd yr anifail hwn ar ddyn, ond boddlona falurio y dilledyn a fwrir iddo, hyd oni chaffo yr ymdeithydd naill a'i cyfle i ddianc neu i anelu ei ddrull i'w ladd.

Y rhyw asgellog ydynt eryrod, gweilch, petris, hefyd y cudull, y gyffylog, &c. Ond yr hynotaf o bob adar yw math o aderyn y bwm, yr hwn sy gan lleied a chacwn, ond eto yn dra hardd gan dryfrithder o amryw liwiau.

Yn mhlith yr ymlusgiaid mae y neidr gynffon-drwst, yr hon weithiau sy gan furfed â choes dyn, ac o hyd cyfartal: mae ei chynffon yn llurigog oddiamgylch, a nifer y modrwyau yw blynyddoedd ei bod. Mae brathiad hon yn angau diatreg, oddigerth bod cyffuriau addas gerllaw i'w cymhwyso i sugno y gwenwyn: ni ymesyd ar ddyn nag anifail heb drystio a'i chynffon, yr hyn sy rybydd digonol i ffoi oddiwrthi. Pan fyddis yn ei herlid, mae ar yr hamdden leiaf yn dyblygu gan osod ei phen yn y canol, ac yna yn ymsaethu yn chwyrn yn erbyn ei hymlidwyr: maeyr Indiaid yn ei hela i ymborthi arni.

Mae pob pysgod y sydd gyffredin yn y gwledydd gogleddol yn lliosog yn Canada: barnai rhai y deuai mwy o elw i Frydain wrth drefnidio ynddynt nag y sydd yn dyfod iddi oddiwrth y crwyn a phan-flew a gludir o honi. Mae yma greadur anferth yn byw yn y dwfr a'r tir ac a elwir oddiwrth ei udiad mor-flaidd: ei gig sy fwytadwy, ond yr olew a ddeilliai o hono, a'i groen yw ei ranau gwerthfawrocaf.

Yn mhlith pethau hynod y wlad hon mae rhaiadr Niagara, yr hwn sydd 50 llath o uchder ac yn llawn hanner milltir o led: mae y fath gorff o ddwfr yn disgyn a bod y twrf i'w glywed 15 milltir o ffordd, ac y mae y tarth oddiwrth ewyniad y dyfroedd fal cwmwl oesol uwch y lle, ac ar dywyniad yr haul yn dangos ynddo enfys yn wastadol.

Bernid bod yn Labrador a Chanada yn 1783 o ddeutu 130,000 o drigolion, ond y mae eu rhif yn enwedig yr Indiaid y pryd hwn yn lawer llai, oddiwrth wanc gyffredin yr anwariaid hyny am frandi a dyfroedd poethion ereill.

Quebec, prif ddinas Canada isaf, ag hefyd holl ardaloedd Prydain yn America sydd yn sefyll ar gydlifiad afonydd St. Lawrence a St. Charles, o ddeutu 320 milltir oddiwrth y môr: mae ar graig gyfagos iddi amddiffynfa gadarn, ac ynddi mae annedd llywydd y wlad. Y trigolion ydynt o 12 i 15,000 Mae yr afon o'r mor hyd Quebec yn 12 neu 15 milltir o led, ond mae hi yma yn culhau ar unwaith i ychydig mwy na milltir

O ddeutu 170 milltir yn uwch ar yr afon y cyfarfyddir â thref Montreal, yr hon sydd yn sefyll ar lethr ynys yn nghanol yr afon. Mae hon er pan y meddiannodd y Saeson hi yn dref hardd ac ynddi amryw adeiladau gwerthfawr. Rhwng Quebec â hon, ac o ddeutu canol y ffordd mae y dref a elwir *Trois Rivieres* neu y tair afon, yn sefyll ar gydiad tair o geinciau St. Lawrence. Hon yw prif gynniweirfa yr Indiaid trefnidiol i ddyfod â chrwyn a phan-flew i farchnad. Mae glenydd afon St. Lawrence yn dra hardd gan anneddau trefnidwyr, coedydd brigog, a'r cyffelyb.

Mae y rhan fwyaf o drigolion y taleithiau hyn yn addef crêd i Babyddiaeth, er mai y grefydd ragdystiol fal yn y fam-wlad sydd yn eglwys wladol. Yr iaith Ffrengig sydd yn cael ei siared fwyaf ynddynt, gan fod epil y Ffrancod, y rhai gynt oeddynt yn ei meddiannu yn fwy lliosog, nag epil y Saeson.

Darganfuwyd y wlad hon gan y Saeson mor foreu a'r flwyddyn 1497, ond ei threfedigion cyntaf oeddynt y Ffrancod fal y soniwyd, y rhai a gadwasant feddiant ynddi o'r flwyddyn 1608 hyd 1760, pan yr ad-feddianwyd hi gan y Saeson, ac yn eu meddiant hwy y mae'r ardaloedd ëang hyn hyd heddyw. Digwyddodd un o'r troion hynotaf yn hanesyddiaeth yr oesoedd diweddaraf yn y wlad hon, sef i drum fynyddig o ryd-faen tros 300 milltir o hyd gael ei chwalu yn y flwyddyn 1665 yn llawr gwastad gan ddaear gryn.*

NOVA SCOTIA A BRUNSWIC NEWYDD.] Nova Scotia neu Ysgotland newydd, sydd ag afon St Lawrence a'r môr Werydd ar y tu dwyrain; yr un môr ar y tu de, a Chanada a Lloegr newydd ar y tu gorllewin. Rhanwyd y wlad hon yn 1784 yn ddwy dalaeth, sef Nova Scotia a Brunswic newydd: y flaenaf sydd agos yn gylchynedig gan for, sef cyfyngfor Canso, yr hwn sydd yn ei doebarthu oddiwrth ynys

* Encyclopedia Londiniensis v. 1, p. 420.

Breton i'r gogledd ddwyrain; cul-for St. Lawrence a chyfyng-for Northumberland, y terfyn rhyngddi ag ynys Ioan ar y tu gogledd, Brunswic newydd a môr Fundy ar y tu gorllewin, a'r môr Werydd ar y tu de ddwyrain. Ei hyd o benrhyn Sable yn y de orllewin i benrhyn Canso yn y gogledd ddwyrain sy 235 milltir, a'i lled mwyaf sy 88 milltir.

Brunswic newydd sydd yn derfynedig ar y tu gorllewin gan afon *St. Croix*, yr hon sydd yn derfyn rhwng y dalaeth a rhaglawiaeth y Maine, yr hon sydd yn perthyn i'r Taleithiau cyfunawl Afon Annapolis yn Nova Scotia sy fordwyol am 15 milltir i longau 100 tunnell.

Mae hinsoddau y wlad hon er ei bod yn y cylch cymhedrol yn anfanteisiol i Ewropiaid: yr haf sydd afiach gan darth a niwl yn gorlenwi bryn a phant, ac y mae oerni y gauaf agos yn annoddefol i ddyn am bedwar mis neu bump. Yr oedd Nova Scotia hyd yn ddiweddar mor llawn o goed nad oedd hanner digon o dir llafur i gynnal y trigolion, ond y mae amaethyddiaeth y pryd hwn ar gynnydd ynddi. Y coed gan mwyaf ydynt ffawydd, y rhai gan eu taldra ydynt yn cael eu cludo i Ewrop i wneyd hwylbreni a'r cyffelyb, tar a phyg sy hefyd yn helaeth ynddi. Trigolion y parthau hyn a'r ynysoedd cyfagos ydynt o ddeutu 50,000.

Prif ddinas Nova Scotia yw Halifax, yr hon sydd a'i sefyllfa yn dra manteisiol i'r pysgota blynyddol y sydd yn y moroedd cyfagos. Ei phortbladd sy gyfleus, ac yn cynnwys ynddi bob gauaf nifer o longau rhyfel y sydd yn y tymhor haf yn gwarchod y llongau a fyddo yn pysgota. Tref arall yn y dalaeth hon yw Annapolis, yn sefyll ar du dwyrain cilfach Fundy, yr hon oedd gynt yn brif dref y dalaeth. Gan hon y mae y borthladd mwyaf cyfleus yn America; dywedir ei bod yn ddigon ëang i fil o longau fod yn angor ynddi ar unwaith. Y trefydd ereill ydynt Windsor, Norton, a Cornwallis y rhai ydynt rhwng Halifax ag Annapolis; hefyd y rhai a adeiladwyd yn yr oes ddiweddaf gan ymgilwyr o'r Taleithiau cyfunawl, ag a elwir Shelburn, Bortown, Dig y, ac Edinburg newydd. Prif drefydd Brunswic newydd ydynt St. Ioan, y benaf, Frederickstown, St. Andrew a St. Ann, yr hon yw gorsaf y llywodraeth. Cludir coed a physgod o'r gwledydd hyn i Frydain werth o ddeutu 36,000 o bunnoedd yn flynyddol.

Er mor anfanteisiol i drefnidiaeth y golygid y wlad hon ar y dechreu, eto hi oedd cartref le Ewropiaid yn ngogledd-barth America gyntaf. Y rhoddiad cyntaf o honi oedd gan Iago I i'w ysgrifenydd Syr William Alexander, yr hwn a'i galwodd Ysgotland newydd. Gwedi hyn hi newidiodd ei pherchenogion yn fynych, ac yn ddiweddaf yn ol heddwch Utrecht, hi ddaeth o feddiant y Ffrancod i'r Saeson, pan y danfonwyd 3,000 o deuluoedd o Loegr i'w chyfaneddu y rhai a seiliasant ddinas gan ei galw Halifax, oddiwrth iarll o'r enw hyny a aethai yno gyd a hwynt.

Ynysoedd Prydain newydd, &c.] Yr ynysoedd y sydd yn perthyn i Brydain fawr yn America ydynt Newfoundland, Breton, St. Ioan, ac yr ynysoedd a elwir Bermudas neu Summer. Newfoundland sydd yn sefyll ar du dwyrain culfor St Lawrence, rhwng lledred 46° a 52° yn ogleddol, a rhwng hydred 53° a 59 yn orllewinol, yn llawn 350 milltir o hyd a 200 o led, Gwahenir hi oddiwrth Labrador neu Prydain newydd gan gyfyngfor Belleisle, ac o Canada gan gainc o

gulfor St. Lawrence; Mae ei gwyneb yn lled anwastad gan lioeog-rwydd o fryniau, a thrwy ei nentydd mae'n llifo amryw o afonydd a ffrydiau. Mae y pysgota a wnelir yn y traethelli sydd i'r dwyrain o Newfoundland yn dwyn elw mawr i liaws o drefuidwyr. Mae tros dair mil o longau rhwng Lloegr a'r Taleithiau cyfunawl ar waith yn wastadol tra y parhao y tymhor, ac y mae yn perthyn iddynt rhwng morwyr a rhai yn yr ynys yn halltu tros gan mil o ddynion. Derbynir yn flynyddol o wledydd pabaidd tros £300,000, am y pysgod a gludir oddiyma iddynt. Y prif drefydd ynddi ydynt Placentia, Bonavista a St. Ioan: nid oes oddiar fil o deuluoedd yn preswylio yr ynys yn y gauaf gan rym yr oerni.

Sebastian Cabot yn 1496 a ddarganfu Newfoundland, ond ni chyfaneddwyd hi am oesoedd lawer gwedi, ac yna daeth y Saeson a'r Ffrancod agos ar yr un pryd i'w phreswylio, a bu ymgecru parhaus rhyngddynt hyd oni roddwyd hi oll i'r Saeson yn heddwch Utrecht yn 1713. Caniatawyd gwedi hyn i'r Ffrancod daenu eu rhwydi ar lenydd gogleddol yr ynys, ac yn 1763 caniatawyd iddynt bysgota yn nghulfor St. Lawrence, ond y byddai yn rhaid iddynt fod naw milltir oddiwrth unrhyw o lenydd y tiroedd a berthynai i Prydain fawr.

Ynys penrhyn Breton sydd gynnwysedig o amryw ynysoedd, ond oll mor agos i'w gilydd ag y gelwir hwynt megys un ynys. Mae hon yn gorwedd rhwng lledred 45° a 47° yn ogleddol a rhwng hydred 59° a 60° yn orllewinol, yn 100 milltir o hyd a 50 o led, ac yn cael ei gwahanu oddiwrth Nova Scotia gan gulfor Canso, yr hwn sydd yn cydio culfor St. Lawrence a'r mor Werydd. Y tir sy deneu a gwael, ond y mae ynddi borthladdoedd tra chyfleus, yn enwedig yr un a elwir Louisburg, yr hon sy 12 milltir o amgylchiad, ac yn ddigon dofn i longau mawrion angori ynddi.

Daeth y Ffrancod i gyfanneddu yr ynys hon yn 1714, ac a adeilasant amddiffynfa arni: ond dëolwyd hwynt ymaith yn 1745, trwy ddewrder trigolion Lloegr newydd, a pheth cynnorthwy o Frydain, ond yn heddwch *Aix la chapelle* rhoddwyd hi eilwaith i'r Ffrancod, y rhai yn ddioed a ddechreuasant gadarnhau ei hamddiffynfeydd. Er hyny yn 1758 gwarchäodd y llyngeswr Boscawen arni a chymerwyd meddiant o honi a'r holl beiriannau rhyfel oedd ynddi, ac yn 1763, trefnwyd iddi fod yn eiddo Prydain: gwedi hyny dystrywiwyd yr amddiffynfeydd a digaerwyd Louisburg.

Ynys St Ioan sydd yn sefyll yn nghulfor St. Lawrence, yn 60 milltir o hyd, ac o 30 i 40 o led. Mae yn hon dir da, yr hwn sydd yn cael ei ddyfrio gan amryw ffrydiau troellog Yr oedd hon yn meddiant Ffrainc hyd oni ddaeth ynys Breton i feddiant y Saeson, pan y darfu i'r llywydd Ffrengig ymostwng i iau Prydain. Charlotte, y gelwir y brif dref, ac ynddi mae y llywydd yn preswylio. Y trigolion ydynt o ddeutu 5,000.

Ynysoedd Bermudas a elwir felly oddiwrth Yspaeniad o enw Ioan Bermudas, yr hwn a i darganfu; ac weithiau gelwir hwynt ynysoedd Summer, oddiwrth Sais o'r enw a long-ddrylliodd arnynt yn 1609, yn ei daith i Virginia. Maent yn sefyll yn lledred 32°G. a hydred 65°G. sef o ddeutu 4,500 o filltiroedd o Loegr, 1,200 o ynysoedd Madeira, a 300 o Carolina. Nid yw eu holl wyneb yn mesur oddiar 20,000 o erwau: er hyny mae cryn lawer o yd, gwinrawn, a ffrwythydd ereill yn tyfu arnynt. Eu glenydd ydynt serth ac uchel, ac yn anhawdd tirio ynddynt.

# TALEITHIAU CYFUNAWL AMERICA.

BYDDAI olrheiniad manwl am ddechreu, cynydd, a throion hynod y rhyfel hwnno rhwng Prydain a'i thaleithiau yn America, yr hon a derfynodd yn annibyniaeth yr ardaloedd hyny yn rhy faith yn y lle hwn. Ar y pedwerydd o Gorphenaf 1776, rhoddes cynadledd America allan gyhoeddiad, yn cynnwys rhesymau dwys, ac ymröad penderfynol i ymneillduo o fod tan iau Prydain fawr. Yn enw a thrwy awdurdod trigolion taleithiau cyfunawl Hampshire newydd, Massachusetts, ynys Rhode, Connecticut, York newydd, Jersey newydd, Pennsylvania, Delawar, Maryland, Virginia, y ddwy Carolina, a Georgia, hwy a gyhoeddasant eu bod, ac y dylent fod, yn rhydd ac yn annibynol; ac felly bod ganddynt gyflawn ryddid i gyhoeddi rhyfel, gwneyd heddwch, ymgyfathrachu â galluoedd cyfeillgar, sefydlu trefnidiaeth, a phob-peth arall sydd yn freintiol i unrhyw daleithiau neu wledydd annibynol ereill i'w gwneuthur. Cyhoeddasant hefyd erthyclau cyfamod cyffredinol rhwng y taleithiau a'u gilydd gan roddi yr enw arnynt "TALEITHIAU CYFUNAWL AMERICA," trwy yr hwn yr oedd pob talaeth yn annibynol o berthynas i'w priodol lywodraethau, cyfreithiau gwladol ag eglwysig, a phethau amrywiol ereill nad oeddynt yn erthyclau y cyfamod cyffredinol. Ac i'r dyben o fod yn fwy unol, trefnwyd i bennu yn flynyddol raglawiaid o bob talaeth i gyd gyfarfod yn y gynadledd gyffredinol ar y llun cyntaf yn mis Tachwedd bob blwyddyn, gan adael rhwysg i bob talaeth alw yn ol pan y mynai unrhyw raglaw, a danfon arall i'w le i orphen y flwyddyn.

Yr oedd i bob talaeth fod yn rhwym i sefyll at erthyclau'r cyfamod cyffredinol yn annhoradwy er cadw undeb parhaol, ac nid oedd unrhyw gyfnewidiad i'w wneyd ynddynt rhagllaw, heb gydsynied y rhan fwyaf o aelodau y gynadledd. Ar y 30 o Ionawr 1778, amododd brenin Ffrainc â hwynt fal taleithiau rhyddion, yna Holland yn Ebrill 1782; ac ar y 30 o Tachwedd 1782, gwedi pump mlynedd o ymladd gwnaed cydundeb yn Paris rhwng cenhadon Lloegr ac America, yn yr hwn y darfu i'w fawrhydi addef y 13 talaeth yn rhydd ac yn annibynol, a chymeradwyo hyny drachefn mewn cyfamod penigol.

Y taleithiau cyfunawl ydynt 1,250 milltir o hyd 1,040 o led, ac yn gorwedd rhwng lledred 34° a 46° yn ogleddol, a rhwng hydred 64° a 96° yn orllewinol. Maent yn bresenol yn 16 o daleithiau annibynol, a chanddynt bob un eu priodol swyddogion, cyfreithiau, a'r cyffelyb, ond mewn undeb a'u gilydd yn ol erthyclau y cyfamod cyffredinol, trwy ddosbarthiad peniaeth etholedig a rhifedi addas o gynnrychiolwyr o blith trigolion pob talaeth. Dosberthir y taleithiau yn dair rhan fal y canlyn.

1. Y taleithiau gogleddol ac a elwir Lloegr newydd, ydynt Vermont, Hampshire newydd, Massachussets (yn cynnwys rhaglawiaeth y Maine) Ynys Rhode, a Connecticut.

2. Y taleithiau canol ydynt York newydd, Jersey newydd, Pensylvania, a Delaware.

3. Y taleithiau deheuol, ydynt Maryland, Virginia, Kentucky, Carolina ogleddol, Carolina ddeheuol, Georgia a Tennessee.

Heblaw y rhai hyn, mae ardaloedd ëang y gogledp orllewin, y rhai mor fuan ag y llwyr gyfanneddir hwynt, ydynt i'w dosbarthu yn daleithau newyddion.

Yn ol y cyfrif diweddaraf yr oedd yn y Taleithiau cyfunawl o ddeutu 5,000.000 o eneidiau, ac o saith i wyth gan mil o gaethion. Y milwyr ydynt 900,000, ac y mae y morwyr er dechreu y rhyfel ddiweddaf yn fwy lliosog nag erioed. Bu ei llongau rhyfel y rhai nid ydynt ond mân pan y cymharir hwynt â llongau Prydain, yn fflangell chwerw i lestri trefnidiol a rhai llestri rhyfel y wlad hon trwy ystod y rhyfel ddiweddar.

Mae llywydd yn cael ei ddewis bob 4 blynedd ar yr ardaloedd cyfunawl. Y senedd wladol sydd yn cynnwys dau seneddwr o bob talaeth; a llys y cynddrychiolwyr sydd gynnwysedig o un aelod am bob 33,000 o drigolion o bob talaeth. Gorsaf y llywodraeth er y flwyddyn 1800 yw dinas Washington, yr hon sydd yn sefyll ar gydlifiad dwy o geinciau afon Patowmac, mewn ardal oedd gynt yn rhanau o Virginia a Maryland, ond y sydd weithian yn raglawiaeth annibynol, ac yn cael ei galw tir Columbia. Mae heolydd hon yn llydain ac yn drefnus o osodiad. Y brein lys tra gwych oedd ar fryn cyfagos i'r dref, yr hwn gyd ag amryw adeiladau gwladol ereill a ddystrywiwyd yn y rhyfel ddiweddar gan arfau Prydain. Trigolion y ddinas newydd hon yn 1801 oeddynt 32.0; ag o holl dir Columbia 8144. Mae Washington yn sefyll 42 milltir i'r de orllewin o Baltimore, ac 144 milltir yn yr un gyfeiriad o Philadelphia, yr hon gynt oedd brif ddinas y Taleithiau cyfunawl. Lledred Washington yw 28° 53'G. hydred 77°.43'G.

Lloegr newydd] Sydd yn gylchynedig ar y tu gogledd gan Canada isaf, ar y tu dwyrain gan Brunswic newydd a'r môr Werydd, ar y tu de gan yr un mor a chulfor yr ynys hir, ac ar y tu gorllewin gan York newydd. Ei sefyllfa sy rhwng lledred 41° a 48 yn ogleddol a rhwng hydred 65° a 74 yn orllewinol, yn 350 milltir o hyd a 140 o led: Mae Lloegr newydd yn cynnwys taleithiau Vermont, Hampshire newydd, Massachussetts, Ynys Rhode, a Connecticut.

Mae gwyneb y wlad hon yn anwastad gan rai trumau o fryndir, ac mewn rhai manau mae hi yn lled fynyddig. Y nentydd a'r gwastadoedd ydynt lawn o goed uchel-frig, ac mae amryw o afonydd troellog ynddi yn estyn eu ceinciau lliosog i bob ardal o honi. Enwau y prif afonydd ydynt Connecticut, Thame, Patuxent, Merrimac, Piscataway, Saco, Casco, Kennebeque a'r Penobscot.

Ei hinsoddau ydynt yn amrywio mwy mewn gwres ag oerni nag yn Mhrydain: y gauaf sydd yn dechreu yn Hydref, ac yn parhau hyd Ebrill, a bydd yr oerni yn dra gerwin gan wyntoedd oddiar y llynau eang y sydd a'r du gogledd gorllewin y wlad yn gloedig tra y tymhor gauaf gan rew. Yr haf sy dra gwresog, ac yn peri twf prysur ar bob coed, yn dderw, ffawydd, onen, cedrwydd, &c.; hefyd gwenith, ceirch, haidd, a grawn India, yr hwn yw y mwyaf toreithiol, ac y sydd o bob grawn yn ateb oreu i ansawdd y tir a'i hinsoddau. Mae ynddi lin a chywarch yn doreithiol, ac hefyd amryw ffrwythydd.

Mae pob anifeiliaid a gludir i'r wlad hon o Ewrop yn epilio yn dra lliosog: y march sy fwy caled a mwy bywiog na rhai Prydain: y defaid ydynt a gwlân lled arw arnynt. Yn mhlith ei gwylltfilod amrywiol mae mâth o garw a elwir Moose, yr hwn sydd a'i gyrn yn ganghenog o 4 i 5 troedfedd o hyd, ac yn eu bwrw bob blwyddyn. Pob adar gwyllt a dôf, cyffredin yn y gwledydd oerion ydynt liosog yn y wlad hon, ac hefyd ymlusgiaid, yn nadroedd, llyffaint, a'r cyffelyb. Y moroedd cyfagos ydynt yn heigio pysgod, o'r morfil hyd y rhai mwyaf

cyffredin yn moroedd Prydain: mae y rhai hyn yn llunio rhan fawr o drefnidiaeth y wlad hon. Y pysgodyn hynotaf yn eu plith yw y morfil-leiddiad, yr hwn sydd o ddeutu 10 llath o hyd: mae hwn mewn brwydr barhaus â'r morfilod ieuanc, a phan y byddo dau neu dri o honynt yn ymosod ar y morfil mwyaf, maent yn gyffredin yn ei orchfygu.

Trigolion y wlad hon ydynt bardd o gorffolaeth, cryfion a bywiog, ac yn ymogoneddu yn y mwynhâd o'r un egwyddorion rhyddid ac a dueddodd eu hynafiaid i ymadael â gwlad eu genedigaeth, ac anturio tros y dyfnder i breswylio anial-le gwyllt. Ychydig yw y gwahaniaeth rhwng moesau ac arferion y trigolion hyn â thrigolion Prydain. Mae rhyddid yma i bob enwau crefyddol i arfer y dull a fynont o addoli, ac nid oes yr un mwy na'u gilydd yn fwy breintiol yn y wladwriaeth * Mae yr holl enwau hyn yn ymuno i gadw dydd o ympryd a gweddi cyn hau eu tir, a dydd o ddiolchgarwch difrif-ddwys gwedi cael y cynhauaf i'r ardd: dyna yr arferiad y sydd yno mewn cyferbyniad i'r arferiad sydd yn gyffredin yn y fam-wlad o ddawns a llawenydd am drugareddau rhagluniaeth.

*Hanes.*] Yn y flwyddyn 1606, lluniodd Iago I. brenin Prydain ddwy gymdeithas. i'r rhai y roddes frein-lenni i ddanfon preswylwyr i gyfanneddu yr ardaloedd hyn, fal y rhwyddid trefnidiaeth y deyrnas. Ond ni ddanfonwyd trefedigion iddi gan i'r cymdeithasoedd ymfoddloni ar bysgota yn ei moroedd, a chyfnewid eu daoedd am grwyn a phan-flew â'r Indiaid, hyd y flwyddyn 1620, pan y bu i'r erledigaeth yn Mhrydain tan archesgob Laud yn erbyn yr anghydffurfwyr beri i filoedd yn olynol ymofyn noddfa yn yr ardaloedd hyn, y rhai oeddynt adnabyddus y pryd hyny wrth yr enw Virginia. Y rhai cyntaf a diriodd i ymsefydlu ynddi oeddynt 150 o wyr urddasol gan mwyaf, y rhai a adeilasant dref gan ei galw Plymouth, gan mai o'r borthladd honno yn Mhrydain y cychwynasont. A gwedi iddynt ddechreu trin y tir, a chael prawf o fod hinsoddau y lle yn dygymod â hwy, daeth lliaws tros y dyfnder atynt, ac erbyn 1630, yr oeddynt gwedi adeiladu pedair tref ereill, sef Salem, Dorchester, Charlestown a Boston, yr hon a ddaeth yn fuan gwedi yn brif ddinas y dalaeth.

Gwedi i'r dinasoedd a chryn lawer o'r wlad oddiamgylch fal hyn gael eu poblogi, a dechreu sefydlu cyfreithiau a'r cyffelyb, mynai rhai mai y naill enw crefyddol, a'r lleill enw arall a fyddai yn grefydd wladol, a chan iddynt fethu cydweled, daeth y naill i erlid y llall yn llawn mor greulon a'r erledigaeth a fuasai yn achlysur o'u dëoliad o'u gwlad anedigol: felly ymddëolodd amryw oddiwrthynt, ac ymsefydlasant mewn ardaloedd cyfagos ereill, sef rhai yn Hampshire newydd, yr hon hyd heddyw sy raglawiaeth annibynol, ereill yn nhalaeth ynys Rhode, a'r lleill yn Connecticut, yr hon yn fuan a ddaeth yn dalaeth flodeuog.

America erbyn hyn oedd noddfa pob diriad, a chan y miloedd oedd yn ymddëol iddi, gorfu ar y llywodraeth o'r diwedd roddi gorchymyn nad elai neb mwy er perygl cosp tros y dyfnder heb genad pengol oddiwrth y goron.

* Yn ol hanes diweddar, yr oedd yn y dalaeth hon 400 o eglwysi yn perthyn i'r Presbyteriaid a'r Annibyniaid, 84 i'r Bedyddwyr, ac 31 i enwau amrywiol ereill,

Yr oedd y pedair talaeth hyn, er iddynt fod yn wastadol mewn cyd-gyngbrair er amddiffyniad cyffredinol, o'r dechreu ac felly yn parhau yn rhaglawiaethau annibynnol. Yr oeddynt oll wrth eu hamrywiol frein-lenni yn rhydd, ac heb ymddibynu ar Prydain fawr: y trigolion oeddynt yn dewis eu llywydd, swyddogion, a chynnrychiolwyr y gymdeithas wladol, y rhai oeddynt yn llunio unrhyw gyfreithiau a fynent nad oeddynt yn groes i gyfreithiau Prydain. Ond o ddyddiau Charles II, yr hwn a fynai ddystrywio pob brein-len, bu y taleithiau hyn heb unrhyw, hyd y dadymchweliad a ddaeth ag ardaloedd cyfunawl America yn llwyr rydd o ymddibynnu ar Prydain fawr.

Bellach rhoddir ychydig ddysgrifiad o bob talaeth yn benigol y sydd o fewn terfynau Lloegr newydd.

Vermont] Mae y dalaeth hon yn gorwedd rhwng lledred 42° a 45°G. a rhwng hydred 72° a 73°½G. yn 157 milltir o hyd a 65 o led, ac yn cynnwys 10,000 o filltiroedd arwynebol. Ei therfynau ydynt Canada isaf ar y tu gogledd; afon Connecticut, yr hon sydd yn ei gwahanu oddiwrth Hampshire newydd ar y tu dwyrain; Massachusetts ar y tu de, a York newydd ar y tu gorllewin. Mae trum o enw mynyddoedd gwyrdd yn ei dosbarthu ar ei hyd yn ddwy ran lled gyfartal. Ar du gorllewin y drum mae y swyddi a elwir Bennington, Rutland, Addison, Chiltendon, Franklin, Orleans; ac ar y tu dwyrain mae Orange, Windsor, Windham, Caledonia, ac Essex.

Mae Vermont yn lled anwastad ei gwyneb, ond nid yw yn fynyddig: y cynnyrch sy gyffelyb i'r dysgrifiad a roddir am Prydain newydd, sef grawn, amryw rywogaethau o goed, cywarch, llin, gweiriau, &c. Y prif afonydd ydynt Michiscoui, Lamoille, Onion, a ffrydiau cilfach y dyfrgi, y rhai ydynt a'i llifiant o ddwyrain i orllewin i lyn Champlain, y Sexton, Quechee, Ompompanoosuck, Weld, Wait. Passaunsick, y wen, a'r orllewinol, y rhai ydynt yn rhedeg o orllewin i ddwyrain i afon Connecticut. Mae cilfach y dyfrgi yn fordwyol i lestri lled fawrion am 50 milltir o'i haber. Y llyn mwyaf yn Vermont yw Memphremagog, yr hwn sydd yn derbyn ffrydiau amryw o afonydd mân.

Yr oedd trigolion y dalaeth hon yn 1801 yn 154,465, ond y maent y pryd hwn yn llawer mwy lliosog. Y daoedd trefnidiol yw sygr, ymenyn, caws, cig, anifeiliaid, a'r cyffelyb, y rhai a ddanfonir i'r taleithiau cylchynol yn gyfnewid am ddäoedd addas.

Mae llywodraeth y dalaeth hon ar lywydd, yr hwn a ddewisir yn flynyddol; llys o gynnrychiolwyr, a chymdeithas o ddeuddeg: mae gan bob mab 21 mlwydd oed, os bydd o ymddygiad foesol hawl i roddi llais yn newisiad llywydd. Y llys a'r gymdeithas ydynt yn cyd-ddewis yr yngnaid a'r swyddogion gwladol ereill.

Bennington yn cynnwys 2,400 o drigolion yw y dref fwyaf sydd yn perthyn i Vermont; ond Windsor a Rutland, y flaenaf yn cynnwys 1600 o drigolion a'r llall 1400, ydynt bob yn ail wyth mlynedd yn orsaf y llywodraeth.

*Hanes.*] Yr oedd Vermont cyn y rhyfel gyntaf rhwng Prydain ac America yn achlysur o gryn gynnwrf rhwng York newydd a Hampshire newydd, gan bod y ddwy dalaeth hyny yn cyd honni hawl ynddi. Felly pan ennynodd y rhyfel, ac i'r taleithiau ereill ymgyfuno, ymluniodd hon yn dalaeth annibynol, ac felly y parhäodd hyd 1791,

pan o angenrheidrwydd yr ymunasant i lunio y bedwerydd ar ddeg o'r Taleithiau cyfunawl.

HAMPSHIRE NEWYDD] Mae'r dalaeth hon yn gorwedd rhwng lledred 42°.41' a 45° 11'G. a rhwng hydred 70°.41' a 72° 28'G yn 168 milltir o hyd ac o 20 i 90 o led; yn gylchynedig gan Canada isaf ar y tu gogledd, rhaglawiaeth y Maine ar y tu dwyrain, Massachusetts ar y tu de, a chan afon Connecticut, y terfyn rhyngddi a Vermont ar y tu gorllewin. Mae hon gwedi ei rhanu yn bump swydd sef, Rockingham, Stafford, Caer, Hillsborough a Grafton.

Mae amryw drumau mynyddig yn ymestyn ar draws hon, ac ynddynt rai cloddfeydd o efydd, haiarn a phlwm, ond y drum uchaf ynddi ydynt y mynyddoedd gwyn, ac a elwir felly oddiwrth eu bod tan orchudd o eira oesol: gelwir yr uchaf o honynt mynydd Washington. Y gauaf sy faith a llym, ac yr haf yn fyr, ond yn dra mwll, a gwresog. Mae yma doreth o wenith, haidd, grawn India, hoppys, llin, cywarch, &c.: ond nid yw ffrwythydd yn cynyrchu nemawr ynddi gan fyrder yr haf.

Yr afonydd mwyaf ynddi ydynt y Connecticut, Merrimac. Piscatawa, Saco, Androscoggeu; y ddwy Amonoosuck, a lliaws o rai llai, a'r prif lynau ydynt y Winnipiscogee, Umbagog, Sunopee, Squam, ac Ossipee.

Nid oedd trigolion y dalaeth hon yn 1767 ond 52,700: yn 1790 yr oeddynt yn 141,885, ac yn ol y cyfrif fu arnynt yn 1800 yr oeddynt gwedi ychwanegu i 183,858.

Y däoedd a ddanfonir oddiyma yn fwyaf ydynt coed, olew, pysgod, had llin, grawn, gwartheg a môch · mae ynddi hefyd lawer o longau trefnidiol yn cael eu hadeiladu i'w gwerthu.

Y llywodraeth fal y lleill sy gyflëuedig mewn llywydd a chymdeithas o bump, â llŷs y cynnrychiolwyr: mae ysgol ar draul y llywodraeth yn cael ei chynnal yn Hanover yn ol cynllun prif ysgolion Rhydychain a Chaergaint.

Portsmouth, prif dref y dalaeth hon, sydd a'i hadeiladau yn hardd: i hon y perthyn y borthladd mwyaf cyfleus o unrhyw yn y Taleithiau cyfunawl, gan bod digon o ddyfnder ynddi i'r llongau mwyaf, mae hi yn cael ei chylchynu gan dir uchel oddigerth ei haber yr hon sydd yn ei gwneyd yn noddfa ar bob tywydd Concord sy dref fechan hardd yn sefyll ar lenydd y Merrimac: yn hon yn ddiweddar mae y swyddogion gwladol yn cynnal eu heisteddfäoedd, a thebyg mae hi yn bur fuan fydd y brif ddinas, oherwydd bod ei sefyllfa yn nghanol y dalaeth, ac yn gyfagos i'r tir brasaf y sydd yn perthyn iddi.

*Hanes.*] O ddeutu yr flwyddyn 1629 yr ymsefydlwyd gyntaf yn y dalaeth hon, ond nis gwnaed hi yn annibynol hyd 1679, ac yr oedd hi y pryd hwnw mewn math o gynghrair â Massachusetts; ond yn 1740 cafodd frein-len oddiwrth y brenin i ddewis ei swyddogion ei hunan, ac i fod yn rhydd.

MASSACHUSETTS.] Massachusetts yn cynnwys rhaglawiaeth y Maine, sydd yn gorwedd rhwng lledred 41° 13' a 48° 15'G. a rhwng hydred 64° 57' a 73° 38'G. yn 150 milltir o hyd a 60 o led: ac yn gylchynedig ar y tu gogledd gan Vermont a Hampshire newydd, ar y tu dwyrain gan y môr Werydd; ar y tu de gan yr un mor, ynys Rhode, a Connecticut; ac ar y tu gorllewin gan York newydd.

Mae yn perthyn i'r dalaeth hon y swyddi canlynol, sef Suffolk,

Norfolk, Essex, Middlesex, Hamp, Worcester, Plymouth, Barnstaple, Duke, Nantucket, Bristol a Berk; ac i raglawiaeth y Maine mae'n perthyn York, Cumberland, Lincoln, Hancock, a Washington

Yr hinsoddau yma ydynt led gyffelyb i'r taleithiau gogleddol ereill, sef yr haf yn fyr ac yn wresog, a'r gauaf yn faith ac yn oer. Mae yn Massachusetts amryw fath o dir, peth yn wych a pheth yn wael, ond yn gyffredin yn cnydio grawn India ac ereill yn doreithiol, yn nghyd a llin, cywarch, hoppys, pytatw, ffâ, pys, â ffrwythydd cyffredinol y gwledydd gogleddol.

Mae yn y wlad hon liaws o fan afonydd â ffrydiau: y ddwy hynotaf ydynt y Mystic ac afon Charles. Y prif aberoedd ydynt y Massachusetts, Ipswich, Boston, Plymouth a Barnstaple. Y prif benrhynau ydynt Ann, Cod, Malabar, Pope, a Gay.

Trigolion Massachusetts yn 1790 oeddynt 378,787; ond yn 1800 yr oeddynt gwedi chwanegu i 422,845, heblaw 151,719 yn rhaglawiaeth y Maine. Dyddymwyd y drefnidiaeth anynol mewn caethion yn y dalaeth hon er ys rhai blynyddau yn ol.

Boston, prif ddinas y dalaeth hon yw y fwyaf yn Lloegr newydd a'r drydedd mewn maint yn y Taleithiau cyfunawl. Mae hon yn sefyll ar lenydd aber Massachusetts, yn ddwy filltir o hyd, ond o led yn anghyfartal. Yr oedd ynddi yn 1790, 2376 o dai a 18,038 o drigolion ond y mae ynddi y pryd hwn lawer mwy. Mae ynddi 19 o dai addoliad, sef naw yn perthyn i'r Presbyteriaid, tair o eglwysi Lloegr, dau i'r bedyddwyr; ac i'r crynwyr, pabyddiaid, methodistiaid, sandemaniaid a chyffredinolion mae un bob un. Ei phorthladd sy ddigon eang i gynnwys 500 o longau ar unwaith, a chan nad yw ei hagoriad ond ychydig o latheni o led, ni all unrhyw ddryghin eu niweidio ynddi: mae ceiau hardd ac anneddau trefnidiol ar hyd ei hymylau, ac y mae pontydd tra-gwych tros afonydd Charles a Mystic, y rhai yn cydio yn y dref, ydynt yn rhoddi ar y cyfan olygfa wych wrth ddynesu ati o'r mor. Mae 9 swyddog o ddewisiad blynyddol y dinasyddion yn llywodraethu y dref, heblaw is-swyddogion, &c.

Salem y nesaf mewn maint yn y dalaeth hon sy dref hardd yn cynnwys 928 o dai a 7921 o drigolion. Mae cryn drefnidiaeth yn cael ei wneyd yn hon, ac mae yn ei hamddiffyn gastell cadarn.

Plymouth oedd y gyntaf a seiliwyd yn Lloegr newydd, ac epil y trefedigion cyntaf gan mwyaf sydd yn ei chyfanneddu. Cludwyd trwy draul fawr yn 1774, y graig y tiriodd y trefedigion cyntaf arni, i betrual yn nghanol y ddinas i fod yno yn gludeirfa goffaol o'u dyfodiad i breswylio y gorllewin-fyd. Mae hon yn dref hardd a chryn drefnidiaeth yn cael eu wneyd ynddi.

Portland, prif dref rhaglawiaeth y Maine, sydd a phorthladd cyfleus yn perthyn iddi, ac y mae ei hadeiladau a'i threfnidiaeth ar gynydd. Mae amddiffynfeydd cadarn yn gyfagos i hon.

Mae mwy o drefnidiaeth yn Massachusetts a rhaglawiaeth y Maine nag yn unrhyw arall o'r Taleithiau cyfunawl. Mae rhai cantoedd o longau yn perthyn i'r pysgota sydd yn y moroedd sydd yn terfynu arni: a chantodd ereill yn cludo ei daoedd i wledydd tramor. Had llin, cord, cwyr gwyn, defnydd Sebon, a'r cyffelyb ydynt yn cael eu cludo i Prydain yn gyfnewid am frethynau, &c; hwyl-breni i'r India dwyreiniol: cig, pysgod, olew, canhwyllau, a'r cyffelyb i'r India orllew-

fnol; hefyd olew a physgod i wledydd gorllewinol Ewrop; ffrwythydd a llysieu i Nova Scotia a Brunswic newydd; yn nghyd a lledr, esgidiau, hoelion, grawn, ymenyn, a chaws i'r Taleithiau deheuol. Mae yma weithfaoedd ëang mewn haiarn, hefyd melinau papur, powdr, trewlwch, chocolate, olew, ac ereill at bob angenrheidiau y sydd yn gyffredinol yn gweinyddu cysuron addas i gynnal bywyd.

Mae seneddwyr, cynnrychiolwyr, a llywydd Massachusetts yn cael eu dewis yn flynyddol: rhaid i bob etholwr fod yn 21 oed, ac yn feddiannwr ar dai neu dir o werth tair punt yn y flwyddyn, neu fod ganddo eiddo o werth tri-ugain punt: rhaid hefyd i'r llywydd fod gwedi cartrefu saith mlynedd yn y dalaeth, a meddiannu tai neu dir o werth mil o bunau yn flynyddol, cyn y gallo gael ei ddewis i'r swydd; rhaid i'r seneddwyr fod gwedi cartrefu bum' mlynedd yn y dalaeth a meddiannu tir o werth 300l. neu dda arall o werth 600l. cyn y gallo wasanaethu. Rhaid i bob cynnrychiolwr fod gwedi byw flwyddyn yn y dref y dewisif ef i weinyddu trosdi, a bod yn uchelwr o werth 100l neu yn meddu dâ trefnidiol o werth 200l. Y swyddogion gwladol ereill ydynt o ddewisiad y llywydd a'r rhan fwyaf o'r seneddwyr.

*Hanes.*] Rhoddwyd ychydig o hanes am drefedigion y dalaeth hon yn nysgrifiad cyffredinol Lloegr newydd. Yn mhrif ddinas talaeth Massachusetts y lluniwyd ac y darllenwyd gyntaf y cyhoeddiad oedd yn rhyddhau y Taleithiau cyfunawl o fod yn deyrngedawl i Prydain, ac yn eu gwneyd yn annibynol, yr hyn oedd yr achos fal y soniwyd, o'r rhyfel ddychrynllyd a fu ar droed rhwng Prydain a'r Taleithiau cyfunawl.

Ynys Rhode.] Mae y dalaeth hon yn gorwedd rhwng lledred 41° 26' a 42° 10'G. a rhwng hydred 71° 17' a 71° 40'G. yn 47 milltir o hyd a 37 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 1,300 o filltiroedd arwynebol. Talaeth Rhode a'r ardaloedd sydd yn terfynu arni sydd yn llunio y leiaf o'r Taleithiau cyfunawl: mae Massachusetts yn terfynu ar y tu gogledd a dwyrain, y mor Werydd ar y tu de, a Connecticut ar y tu gorllewin. Rhenir hi yn bump o swyddi, sef Newport, Providence, Washington, Bristol a Kent.

Mae y dalaeth hon mor iachus o ran ei hinsoddau ag unrhyw yn America, gan bod oerni y gauaf a gwres tanbaid yr haf yn cael eu llareiddio gan awelon oddiar y môr, ac felly yn gwneyd yr hin yn fwy cymhedrol nag yn y taleithiau sydd yn mhell oddiwrtho: mae yma wenith, haidd, a grawn ereill yn doreithiol, yn nghyd ag amrywiol ffrwythydd.

Trigolion talaeth Rhode yn 1790 oeddynt 68.825, o ba rai yr oedd 948 yn gaethion, ond yn 1801 yr oeddynt yn 69,122, a rhifedi y caethion gwedi lleihau i 380.

Y prif drefydd ydynt Providence a Newport. Y flaenaf yn sefyll o ddeutu gleuydd afon Providence, tros yr hon mae pont 160 troedfedd o hyd a 22 o led, sydd yn cynnwys amryw adeiladau hardd, ac o ddeutu 6.400 o drigolion. Newport ar derfynau de orllewin ynys Rhode sydd a phorthladd ëang cyfleus yn perthyn iddi: mae yn hon o ddeutu mil o dai. Y prif afonydd ydynt y Providence a'r Taunton.

Mae trefnidiaeth y dalaeth hon â gwledydd tramor fal y ddiweddaf a grybwyllwyd ar gyfrnydd, ac y mae yuddi amryw weithfaoedd brethynau, cotwm, llieiniau a'r cyffelyb, hefyd pob haiarn-waith, yn beiriannau o bob math, &c. yn dra lliosog.

Y llywodraeth wladol sydd y pryd hwn yn ol rheolau y freinlen a roddwyd i'r dalaeth hon gan Charles II, ac ni pharodd y dadymchweliad a ryddhaes y Taleithiau cyfunawl oddiwrth Frydain unrhyw gyfnewidiad hanfodol ynddi. Y seneddwyr, cynnrychiolwyr, a llywydd ydynt yma yn cael eu dewis yn flynyddol, ac weithiau yn ol y byddo achosion yn gofyn yn amlach.

Mae rhyddid cydwybod gwedi cael y fath amddiffyniad annidcymadwy yn y dalaeth hon o'i sefydliad cyntaf, nad oes gan y wladwriaeth hawl i ymyryd mewn unrhyw fodd â breintiau crefyddol, ond gadael cyflawn ryddid i'r holl enwau y sydd yno i addoli y pryd a phan y mynont, neu i fyw yn hollol benrydd os byddent yn dewis hyny heb ymyryd ag unrhyw

*Hanes*.] Y cyntaf a ddaeth i sefydlu yn nhalaeth Rhode, oedd gweinidog yr efengyl o enw Roger Williams, yr hwn a gyhuddwyd o gofleidio egwyddorion croes i egwyddorion ei ymlidwyr yn Massachusetts, ac am hyny deolwyd ef oddiwrth ei wraig a'i blant, ei gyfeillion a'i feddiannau yn nhrymder gauaf i chwilio am annedd o'r tu allan i gyffiniau Massachusetts. Annogodd y llywydd Winthrop gwedi y ddedfryd, iddo ymgyfeirio rhyngo â Nehiganeef, ac felly y gwnaeth; ond gwedi iddo gael cartref dehygai yn Seekhonk weithian Rehoboth, danfonwyd ato genadwri nad allai aros yno, gan fod y lle o fewn bro drefianol Plymouth, felly annogodd y llywydd Winslow iddo fyned o'r tu arall i'r afon ac ymsefydlu ar ei glenydd, nad oedd y tiroedd hyny o fewn unrhyw frein-len. Felly yn 1636, aeth Roger Williams a phedwar ereill tros yr afon i blith yr Indiaid, y rhai a'u derbyniasant yn groesawgar, ac a'u cynorthwyasant i adeiladu tref, yr hon o brawf diffuant o ddaioni rhagluniaethol yr hwn a'u cadwasai yn mhob perygl a alwasant *Providence* Daeth cantoedd atynt yn mhen ychydig amser, ac adeilasant drefydd ereill, a chyfaneddwyd yn ganlynol yr holl wlad, ond Providence sydd yn parhau yn benaf yn y dalaeth hyd y pryd hwn.

CONNECTICUT.] Mae y dalaeth hon yn sefyll rhwng lledred 41° 20' a 43° 15'G.; yn 100 milltir o hyd a 72 o led; ac yn gylchynedig ar y tu gogledd gan Massachusetts, ar y tu dwyrain gan ynys Rhode, ar y tu de gan y môr sy rhyngddi a'r ynys hir, ac ar y tu gorllewin gan York newydd. Ei milltiroedd arwynebol ydynt 4,674. Mae ynddi wyth o swyddi, sef, Fairfield, Newhaven, Middlesex, Llundain newydd, Litchfield, Hartford, Polland, a Windham.

Er bod y dalaeth hon yn ddarostyngedig i eithafnod gwres ac oerni yn eu tymhorau, ac i drawsfudiadau ebrwydd yn ei hinsoddau, eto tarian iach ydyw. Ei gwyneb sydd anwastad, ond gan y cynifer o afonydd a ffrydiau, mae y tir yn gyffredin yn dra ffrwythlon: y prif gynnyrch ydynt grawn India, gwenith, rhûg, haidd, a cheirch, yn nghyd â llin, cywarch, &c. Y prif afonydd ydynt y Connecticut, Housatonic, Tame, a'u ceinciau lliosog: mae eu haberoedd yn borthladdoedd ëang, ac yn gyfleus i longau mawrion angori ynddynt.

Trigolion y dalaeth hon yn 1790 oeddynt 237,946 o ba rai yr oedd 2,764 yn gaethion, ond yn 1801 yr oeddynt yn 251,002, ac o honynt 951 yn gaethion: epil saeson yw y deiliaid rhydd yn gyffredinol.

Mae amryw o drefydd hardd yn Connecticut. Hartford a Newhaven y ddwy benaf, ydynt yn orsafoedd llywodraeth y dalaeth bob yn ail: mae heolydd y flaenaf yn ëang, ac yn hardd o osodiad. Y rhai nesaf

mewn maint a harddwch i'r rhai hyn ydynt Llundain newydd, Norwich, a Middleton.

Y llywodraeth wladol sy led debyg i'r dysgrifiad a roddwyd i'r taleithiau fu dan sylw, sef bod llywydd blynyddol a dau lys o seneddwyr a chynnrychiolwyr yn rheoli. Crefydd hefyd sydd yma yn cael pob rhyddid: Y presbyteriaid ydynt y lliosocaf, ac yna eglwys Loegr a bedyddwyr: mae rhai ysgolion urddasol ynddi yn parhau yn enwog o'u sefydliad cyntaf yn nechreu y gaurif ddiweddaf.

*Hanes*] Y rhoddiad cyntaf o'r dalaeth hon oedd i iarll Warwic yn 1630 gan eisteddfod Plymouth. Ac yn y flwyddyn ganlynol rhoddes yr iarll ei hawl o honi i arglwydd Say a Brook a naw ereill; y rhai a adeiladsant dref ac a'i hamddiffynasant rhag rhuthr yr Indiaid arni. Yn 1644, prynodd anturwyr o Connecticut gan Fenwic goruchwyliwr say a Brook eu meddiant o'r drefedigaeth am 1600l. a bu Connecticut a Newhaven yn ddwy raglawiaeth annibynol am amryw flynyddau. O'r diwedd anogwyd Winthrope, llywydd Connecticut i ymofyn am frein-len, ac felly yn 1662, caniatäodd Charles II iddynt eu dymuniad, er na sefydlwyd y drefn o lywodraethu hyd 1665.

YORK NEWYDD.] Mae'r dalaeth fawr hon yn gorwedd rhwng lledred 40° a 48'G. a rhwng hydred 73° a 80'G. yn 350 milltir o hyd, a 300 o led, ac yn 24,000 o filltiroedd arwynebol. Cylchynir hi ar y tu de a de orllewin gan afonydd Hudson a Delawar, y rhai sydd yn ei dosbarthu oddiwrth Jersey newydd a Phennsylvania; ar y tu dwyrain a gogledd ddwyrain gan Loegr newydd a'r môr Werydd; ac ar y tu gogledd orllewin gan Canada. Rhenir hi yn 21 o swyddi, sef York newydd, Albany, Ulster, Duchess, Orange, Caer orllewin, Suffolk, Richmond, Washington, Columbia, Clinton, Montgomery, Ransalaer, Ontario, Herkemer, Otsego, Tioga, Saratoga, Onondago, a dwy o enw brenines.

Y prif afonydd ydynt yr Hudson, y Mohawk, ac ereill. Y rhai sydd a'u haberoedd yn borthladdoedd ëang.

Mae'r dalaeth hon yn gorwedd i'r de o Loegr newydd, ac yn mwynhau hinsoddau cymhedrol: ei hawyr hefyd sydd iachus yn gyffredinol. Y tir sydd isel a gwastad, ac mewn amryw fanau yn agos i'r môr yn gorsog, ond wrth fal yr elir i'r tir, mae yn dyfod yn uwch hyd onid ydyw mor ffrwythlon o rawn, ffrwythydd, &c. ac unrhyw o'r Taleithiau ereill

Mae'r trigolion gwedi lliosogi o 340,320 yn cynnwys 11,324 o gaethion yn 1790 i 586,203 yn cynnwys 20,613 o gaethion yn 1800.

Y brif ddinas yw York newydd, yr hon sydd yn sefyll ar aber afon Hudson, sef ar ynys o'r un enw y sydd yn 12 milltir o hyd a 3 o led: mae sefyllfa hon yn dra manteisiol i drefnidiaeth ag Albany a threfydd poblog ereill sydd ar yr afon rhwng hyny â llynau mawrion Canada. Mae y ddinas hon yn ddwy filltir o hyd ac o ddeutu un o led, a chaerau amddiffyn cedyrn o'i deutu. Llosgwyd y bedwerydd ran o'r ddinas hon yn 1776 gan derfysgwyr, ar i lawrdd y brenin ei meddiannu.

Albany, y nesaf mewn maint, sy ddinas hardd 600 milltir yn uwch ar yr afon oddiwrth York newydd, ac ynddi o ddeutu 6,000 o drigolion: mae hon yn ddinas flodeuog, ac yn dramanteisiol i drefnidiaeth, gan ei hagosrwydd i'r llynau, a chan bod y llanw yn dyfod â llestri go fawrion hyd at ei chaerau.

Y ddinas a elwir Hudson sy hefyd yn myned fwy-fwy yn flynyddol: yn 1786 y seiliwyd hi. Ei phellder o York newydd yw 130 milltir.

Mae mwy o drefnidiaeth yn cael ei wneyd yn y dalaeth hon nag yn unrhyw o'r Taleithiau cyfunawl: ei gweithfaoedd ydynt liosog ac ar gynydd.

Mae dwy senedd yn perthyn i York newydd, un yn llywodraethu y brif ddinas, a'r llall yn rheoli y dalaeth. y gyntaf sydd yn cynnwys 70 o aelodau, y rhai ydynt yn cael eu dewis wrth goelbren gan y dinasyddion yn flynyddol; y llall sy'n cynnwys 24, y rhai ydynt yn cael eu dewis bob pedair blynedd. Y llywydd yw peniaeth y ddwy: wrth goelbren mae y llysoedd hyn yn dewis cynnrychiolwyr i'r gynadledd wladol.

Trefnwyd yn y dalaeth hon er ys amryw flynyddau, fod i bob enw crefyddol gael pob rhyddid a ddymunent, ac nad oedd o hyny allan byth i unrhyw fod yn fwy eu brî na'i gilydd yn y wladwriaeth.

*Hanes.*]-Y Swediaid a'r Ellmyn oeddynt y cyntaf a gyfanneddasant y parthau hyn o America, sef o ledred 38° i 41° tan yr enw Iseldir newydd. Bu yn eu meddiant hyd 1664, pan y bu i Charles II. trwy lwyddiant ei arfau eu dëol ymaith. Rhanwyd hwynt yn fuan gwedi hyn yn amryw o daleithiau. York newydd a gymerodd yr enw hyny arni oddiwrth frawd y brenin Iago, dug York, i'r hwn y rhoddodd y brenin hi, gyd â phob rhwysg i'w llywodraethu. Felly ar ddyfodiad Iago i'r goron, daeth York newydd i gael ei chyfreithiau a'i swyddogion, &c. yn ol y cynllun a welai seneddwyr Prydain yn dda, ac felly mewn rhan y parhâodd hyd y dadymchweliad a'i rhyddhad oddiwrth Frydain.

Jersey newydd.] Y dalaeth hon sydd yn gorwedd rhwng lledred 39° a 41° 24'G, a rhwng hydred 74° 44' a 75° 33G. yn 160 milltir o hyd a 50 o led, ac yn 8,320 o filltiroedd arwynebol. Y terfynau gorllewin a'r de orllewin ydynt gulfor ac afon Delawar, y rhai sydd yn ei gwahanu oddiwrth daleithiau Pennsylvania a Delawar: y terfynau de ddwyrain a dwyrain ydynt y môr Werydd, y culfor sydd yn gwahanu ynys Staten oddiwrth y cyfandir, ac afon Hudson; a'r terfyn gogledd ydyw llinell o aber afon Mahakkamak i gyinc o afon Hudson. Mae y dalaeth hon yn 13 o swyddi sef Middlesex, Monmouth, Essex, Somerset, Bergen, Burlington, Cloucester, Salem, Cumberland, penrhyn May, Hunterdon, Morris, a Sussex.

Y prif afonydd ydynt y Delawar, Raritan a Passaiak, ar yr hon y mae rhaiadr 70 troedfedd o uchder ac yn llawn 213 o led.

Mae hinsoddau hon yn lled debyg i York newydd, a'r tir yn isel ac yn dywodlyd, ond eto yn ffrwythlon mewn coed, grawn a ffrwythydd: mae yno hefyd rai cloddfeydd gwerthfawr o efydd a haiarn yn cael eu gweithio er ys blynyddau lawer. Y trigolion yn 1801 oeddynt 211,149 o ba rai yr oedd 12,422 o gaethion.

Trenton yw y dref fwyaf yn y dalaeth hon: dyma yw gorsaf y llywodraeth er nad oes ynddi oddiar 300 o dai a 2,000 o drigolion. Perth, Amboy a Burlington fuont gynt yn orsafoedd y llywodraeth, ond yr olaf yn sefyll ar afon Delawar, 20 milltir oddiwrth Philadelphia yn gyffredinol oedd prif annedd y llywydd.

Rhaid i lywydd Jersey newydd fod yn werth mil o bunau cyn y gallo wasanaethu, a rhaid i etholwyr aelodau y senedd a'r gymanfa

gyffredinol fod yn werth 50l. cyn y gallont roddi llais o du neb mwy na'i gilydd. Ynguaid y prif lys cyfraith ydynt yn gwasanaethu am saith mlynedd a'r llywydd a'r seneddwyr bump.

Mae amryw o enwau crefydol yn y dalaeth hon, ond nid oes yr un yn fwy breintiol na'i gilydd, ac ni rhaid i uarbyw trwy na degwm nag aerdreth gynnal y gweinidogion a fyddont o wahanol farn ond fod pob un yn gyfartal mewn parch yn y wladwriaeth i'w gilydd. Mae yma rai urdd ysgolion yn cynnysgaeddu yr ysgolheigion â graddau cyffelyb i Gaergaint a Rhydychain.

*Hanes.*] Jersey newydd sy ran o'r ardaloedd eang a grybwyllwyd am danynt eisus a roddwyd gan Charles II i'w frawd Iago, dug York, yr hwn drachefn a'u gwerthodd yn ddrud i arglwydd Berkeley, a Syr George Carteret, yr hwn yn meddu tir yn Jersey a fynodd alw y dalaeth yn Jersey newydd. Gwerthwyd hi drachefn i ereill, y rhai yn 1702 a roddasant rwysg ei llywodraeth i'r frenines Anne, ac yna daeth yn dalaeth freninol.

PENNSYLVANIA.] Mae y dalaeth fawr hon yn gorwedd rhwng lledred 39° a 42°G. a rhwng hydred 74° a 80°G; yn 290 milltir o hyd a 156 o led, ac yn cynnwys 45,000 o filltiroedd arwyneb ol. Cylchynir hon ar y tu gogledd gan York newydd a llyn Erie; ar y tu dwyrain gan afon Delawar, ac ar y tu gorllewin gan ran o Virginia a'r ardaloedd gogledd orllewin. Mae Pennsylvania gwedi ei rhanu yn 23 o swyddi, sef Philadelphia, Caer, Bucks, Berk, Northampton, Lancaster, York, Cumberland, Montgomery, Dauphin, Lucern, Northumberland, Franklin, Huntingdon, Westmorland, Fayette, Washington, Allegani, Delawar, Mufflin, Bedford, Somerset, a Lycoming.

Y prif afonydd ydynt y Delawar, yr hon sy fordwyol am 200 milltir ar y tu uchaf i Philadelphia; y Susquehanna a'r Schuylkill, y rhai hefyd am gryn ffordd ydynt fordwyol.

Ychydig wahaniaeth sy rhwng gwyneb y wlad hon a'i hinsoddau a'r hyn a grybwyllwyd am y cyfryw yn York newydd. Mae oerder y gauaf mor dra-llym â bod yr afonydd a'r llynau mwyaf yn nghlô gan rew o Ragfyr i Mawrth; ac yn nghyfer hyny bydd gwres yr haf am fisoedd Gorphenaf, Awst, a Medi agos yn anoddefol. Mae pob grawn y sydd yn y taleithiau cymydogaethol yn helaeth yn Pennsylvania, ond gwenith sy fwyaf toreithiol. Gwneir yma hefyd win lled beraidd oddiwrth ei gwinrawn: mae grawn gwylltion tros yr holl daleithiau deheuol, ac er nad ydynt yn dyfod i'r cyfryw berffeithrwydd â'r rhai sydd yn tyfu mewn gwinllanoedd, eto mae yr Indiaid yn gwneyd math o win o honynt. Pob coed yn enwedig ffawydd ydynt yma yn lliosog. Gellir crybwyll yn y lle hwn nad yw coed y taleithiau deheuol mor fuddiol i adeiladu â choed y taleithiau gogledd, gan eu bod yn llai durfing, ac yn fwy tueddol i hollti. Mae yn y dalaeth hon fwngloddiau haiarn, efydd, a phlwm: ceryg calch ydynt gyffredin, hefyd amryw fath o farmor, ac yn ei pharthau canol a gorllewinol mae digonedd o lô.

Y llywodraeth wladol sydd yma yn cael ei gweinyddu gan lywydd, seneddwyr a chynnrychiolwyr: y llywydd sydd yn cael ei ddewis bob tair blynedd a'r lleill bob blwyddyn. Rhaid i'r cynnrychiolwyr fod gwedi trigfanu yn y dalaeth dair blynedd a'r flwyddyn cyn eu dewisiad, yn y swydd y gweinyddont drosti Rhaid i seneddwr fod yn 25 oed, a gwedi treulio pedair blynedd yn y dalaeth cyn y gallo wasanaethu.

Mae trefnidiaeth y dalaeth hon yn dra blodeuog: danfonir o Philadelphia longau i brif borthladdoedd y byd, ac y mae y daöedd a ddanfonir o honi yn heieirn, efydd, coed, tobacco, lledr, cotwm, powdr, &c. yn dwyn elw mawr i'r dalaeth

Trigolion Pennsylvania ydynt gan mwyaf yn deillio oddiwrth y Saeson; Gwyddelod a'r Ellmyn, heblaw rhai Swediaid, Ysgotiaid a Chymry. Yr Esgobaliaid a'r Crynwyr ydynt gan mwyaf yn deillio oddiwrth rïeni saesonig, ac yn llunio o ddeutu y drydedd ran o'r trigolion. Y Gwyddelod ydynt Bresbyteriaid, a rhai yn Babyddiaid. Yr Ellmyn ydynt Lutheriaid, Calviniaid, Moraviaid, Crynwyr, Pabyddiaid, Cyffredinolion,* &c. ac ydynt yr dra lliosog, a'r Cymry ydynt gan mwyaf, yn Fedyddwyr. Felly rhaid i gasgliad cyfartal o'r amrywiol agweddau gwladol, ddynodi moesau, arferion, ac egwyddorion y Pennsylvaniaid. Rhifedi y trigolion yn 1790, oeddynt 434,373 yn cynnwys 3,737 o gaethion; ac yn 1800, yr oeddynt yn 602,365 yn cynnwys 1,706 o gaethion.

Mae mwy o urdd ysgolion yn y dalaeth hon nag yn unrhyw o'r lleill: y rhai y sydd yn perthyn i'r Moraviaid ydynt y lliosocaf, ond nid oes unrhyw o uwch brî na'i gilydd, gan fod rhyddid crefyddol i'r halaethder mwyaf yn y dalaeth hon o'i sefydliad cyntaf.

Y prif drefydd ydynt Philadelphia, Lancaster, Carlilse a Pittsburg. Philadelphia yw yr ardderchocaf o unrhyw yn America, ac yn nhrefnusrwydd gosodiad ei heolydd yn rhagori ar unrhyw yn Ewrop. William Penn deddf-roddwr y dalaeth hon a'i seiliodd. Ei sefyllfa sydd yn y cyfyng-dir a lunir gan afonydd Delawar a Schuylkill, o ddeutu pum milltir y tu uchaf i'w cyd-lifiad, y lle mae y Delawar yn filltir llawn o led. Mae y ddinas hon ar ddull petrual hir, dwy filltir un ffordd a milltir y ffordd arall, a'r holl heolydd wrth groesi eu gilydd yn llunio onglau cywir, rhai yn 30 llath o led a'r lleill yn gyffredin o ddeutu 18. Cyfrifid ynddi yn 1794 o ddeutu 9,000 o dai, ac o ddeutu 70,000 o drigolion. Mae yma 27 o dai addoliad yn perthyn i'r amrywiol enwau crefyddol. Y senedd-dy sydd adeilad gwych, hefyd y dremynfa a'r prif-lys cyfiawnder, &c. Bu llycheden ddinystriol yma yn 1793, yr hon mewn pedwar mis a gludodd ymaith tros 4,000 o'r dinasyddion, a bu i'r ad-ddychweliad blynyddol o honi am flynyddau lawer gwedi, beri sarhâd dirfawr ar y trigolion.

Lancaster y dref ganol-wlad fwyaf yn y Taleithiau cyfunawl sydd â 7 neu 800 o dai, ac o ddeutu 5,000 o drigolion ynddi. Carlisle sydd yn cynnwys o ddeutu 400 o dai a 1,500 o drigolion.

*Hanes*] Yr oedd y wlad hon tan yr enw Iseldir newydd yn cael ei meddiannu gynt gan y Swediaid a'r Ellmyn. Ond pan ddëolwyd ymaith y cenhedloedd hyny o York newydd gan y llyngesydd Penn, yr hwn mewn cyssylltiad a'r llyngesydd Venables oedd (tan oruchwyliaeth Cromwell) gwedi goresgyn ynys Jamaica, ac weithian mewn

* Y Cyffredinolion ydynt yn credu fod Duw, yr hwn sy gyflawn o drugaredd a thostur' gwedi ethol holl ddynol-ryw i fod yn gadwedig; bod hyd yn nod y cythreuliaid yn *garcharorion gobeithiol*, ac yr adferir hwynt gyd a'r damnedigion. Y gwahaniaeth rhwng y rhai a wnelynt dda a'r rhai a wnelynt ddrwg, yw, y bydd i'r cyntaf gael rhan yn yr adgyfodiad cyntaf yn unol â Datg. xx. 6, 7.; ond y bydd i'r olaf gael eu cadw yn uffern hyd yr adgyfodiad diweddaf, ac yna y difodir y llynclyn anobaith, ac yr adferir yr holl breswylwyr i fwynhau gwynfyd tragwyddol!—*Bellamy.*

brî gan Charles II am oruchwylion ysplenydd ereill, a gafodd addewid o frein-len ganddo i feddiannu'r wlad. Penn yn marw yn mhen ychydig gwedi hyn, cafodd ei fab, y crynwr enwog y frein-len i'w feddiant, ac yna tros y dyfnder tiriodd yn America. Yr oedd trem yr amseroedd yn peri i liaws o ganlynwyr o amryw enwau oedd yn goddef erledigaeth ei ddilyn i'r annedd-le newydd, ac felly poblogwyd y wlad yn ddiatreg. Gwedi trefnu anneddau addas i dderbyn y trefedigion, lluniodd Penn gyfreithiau doeth a chywir, ar seiliau union a theg, a chan iddynt gael eu barnu yn decaf at eu gilydd o unrhyw ar wyneb daear, ni bu unrhyw newidiad arnynt hyd y pryd hwn. Rhyddid, yn yr eangder mwyaf a drefnwyd gan y dyn enwog hwn i fod yn sail i'w holl osodedigaethau, pa bynag ai gwladol ai crefyddol a fyddent. Yr oedd pob enwau crefyddol i gael cyflawn ryddid ac i fod yn eu tro yn swyddogion yn y wladwriaeth: ni wnelid unrhyw gyfraith wladol heb gydsyniad y trigolion. Yr oedd lliaws o swyddogion i ofalu yn achos y tlawd a'r anghenus: os byddai unrhyw ddadl rhwng cymydogion a'u gilydd o berthynas i feddiannau neu unrhyw beth arall, nid oedd raid ymdrafferthu â throion dyrys cyfraith, ond dodi y ddadl i ystyriaeth y nifer a fynai y pleidwyr o wyr cymeradwy yr ardal i'w phenderfynu. Yr oedd ei garedigrwydd a'i haelioni yn cael eu hestyn i'r Indiaid anwar; yn lle defnyddio yr hawl oedd ganddo trwy ei frein-len o feddiannu eu tir, prynodd ganddynt am y llawn werth ardaloedd eang, gan addef cyfiawnder y peth, am mai hwy yn mhob ystyriaeth oeddynt y gwir berchenogion. Mewn gair, yr oedd ei holl ddeddfau ar sail gywir, ac y mae y parhâd o honynt felly yn peri i'r dalaeth hon fod yn uwch mewn brî a pharch nag unrhyw arall yn America. Mae enw Penn fal deddf-roddwr yn barchus gan holl genhedloedd cred: pe buasai gwedi hanu o'r Groegiaid buasai ei gerf-lun yn nesaf i Solon a Lycurgus.*

Yn Philadelphia yr oedd cynadledd gyffredinol y Taleithiau cyfunawl yn ymgyfarfod yn Medi 1774, ac yno y cynhelid drachefn eu cyfarfodydd y rhan amlaf hyd 1777, pan y meddiannodd milwyr y brenin y dref. Ond ar iddynt encilio i York newydd, daeth Philadelphia eilwaith yn orsaf y llywodraeth, ac felly y parhäodd hyd oni ddaeth Washington yn brif ddinas.

Delawar.] Y dalaeth hon sydd yn sefyll rhwng lledred 38° 29' a 39° 54'G. a rhwng hydred 75° 2' a 75° 48'G.; yn 92 milltir o hyd a 24 o led; ac yn gylchynedig ar y tu dwyrain gan afon a chulfor o'r un enw, a'r môr Werydd; ar y tu gogledd gan Pensylvania; ac ar y tu de a'r de orllewin gan Maryland. Nid oes ynddi onid tair swydd, sef, Newcastle, Kent, a Sussex.

Yn mharthau deheuol a gorllewinol y dalaeth hon mae blaenau yr afonydd a elwir Pocomoke, Wicomico, Nanticoke, Choptank, Caer, Sassafras, a Bohomia, y rhai ydynt oll yn ymarllwys i gulfor Chesapeak. Mae rhai o honynt yn fordwyol i lestri 60 tunell am 30 milltir o'u haberoedd.

Mae hinsoddau y dalaeth hon yn iachus, ac y mae y tir yn ffrwythlon yn gyffredinol. Ei gwyneb sy led wastad, ac mewn rhai manau

* Dau ddeddf-roddwr enwog: y cyntaf a anwyd yn Athens, ac a ddaeth trwy ei ddewrder a'i wybodaeth yn rheolwr ar wlad Groeg; yr olaf oedd benaeth ar Sparta o ddeutu 870 mlynedd cyn Crêd.

mae corsydd dyfrllyd yn gorchuddio parthau ëang. Y tir er iddo fod yn gleiog sy frâs, a dywedir bod y gwenith sydd yn tyfu arno yn rhagori braidd ar unrhyw arall. Grawn India, a chynyrch cyffredin y taleithiau cyfagos sydd yma yn helaeth.

Prif dda trefnidiol y dalaeth hon yw gwenith, yr hwn gwedi ei falu a ddanfonir i wledydd tramor, ac hefyd i'r ardaloedd cyfagos: y daoedd ereill ydynt haiarn, coed a'r cyffelyb.

Yn ystod y dadymcheliad y lluniwyd tair swydd Delawar yn dalaeth, a threfnwyd iddynt i gael eu llywodraethu gan lywydd, seneddwyr, a chynnrychiolwyr. Y seneddwyr ydynt naw o rifedi, sef tri o bob swydd, a'r cynnrychiolwyr ydynt 27. Rhaid i'r blaenaf fod yn 27 oed, a'r olaf yn 24, a'u dewis yn flynyddol, ond y mae rheolaeth y llywydd yn parhau dair blynedd. Mae cyfreithiau ereill y dalaeth hon yn lled debyg i ddeddfau hynaws Pennsylvania.

Yr enwau crefyddol y sydd yma ydynt Presbyteriaid, Esgobaliaid, Bedyddwyr, Methodistiaid ac ereill: ond yr adeilad crefyddol hynaf ynddi, ac yn yr holl Daleithiau cyfunawl yw ty addoliad yn perthyn i'r Swediaid. Trigolion Delawar yn 1790 oeddynt 59,094, o ba rai yr oedd 887 yn gaethion: ac yn 1801 yr oeddynt yn 64,273 o ba rai yr oedd 6,153 yn gaethion.

Y prif drefydd ydynt Dover a Wilmington: y flaenaf er nad oes ynddi oddiar gant o dai ydyw gorsaf y llywodraeth, ond y llall sydd ar ddull Philadelphia yn ngosodiad ei heolydd, ac yn cynnwys 600 o dai a 3,000 o drigolion.

*Hanes*] Cartrefodd rhai Ellmyn yma yn 1623, ac yn mhen y pedair blynedd daeth mintai o Swediaid iddi. Yr oedd gan y rhai hyn hawl i gartrefu yn yr ardaloedd hyn trwy rinwedd brein-len y dug o York, hyd oni unodd Penn hwynt trwy bryniad at Pennsylvania. Dosbarthwyd hwynt gwedi hyn mewn rhan oddiwrth Pennsylvania, a threfnwyd swyddogion i'w rhëoli, er mai llywydd Pennsylvania oedd i gadarnhau unrhyw gyfreithiau a lunient.

Maryland.] Mae y dalaeth hon yn gorwedd rhwng lledred 38° a 40°G. a rhwng hydred 75° a 80°G, yn 134 milltir o hyd a 110 o led; ac yn gylchynedig gan Pennsylvania ar y tu gogledd; gan dalaeth Delawar a'r môr Werydd ar y tu dwyrain; gan Virginia ar y tu de, a chan fynyddoedd Apalachian ar y tu gorllewin.

Mae culfor Chesapeak yn dosbarthu y dalaeth hon yn ddwy ran: y ddosbarth ddwyreiniol sydd yn cynnwys 8 o swyddi, sef Worcester, Somerset, Dorset, Talbot, y frenines Ann, Kent, a Caroline; y ddosbarth orllewinol sydd yn cynnwys 11, sef St. Mary, Charles, George, Calvert, Ann Arundel, Baltimore, Ffrederic, Washington, Montgomery, Hartford, ac Allegani.

Hinsoddau y dalaeth hon ydynt dyner oddigerth yn nhrymder gauaf, ac yn dra thymherus i ffrwythydd dyfu yn doreithiol. Mae gwyneb y wlad yn gyffredinol yn fryniog, ond nid yn fynyddig, ac felly yn iachus i'r trigolion hyd oni ddelir i'r parthau corsog o honi, y lle y mae y tawch y sydd yn esgyn i fynu yn y tymhor hâf yn peri i'r cryd ac amryw afiechyd i flino y preswylwyr cyfagos. Mae y lliosogrwydd o afonydd y sydd yn y dalaeth hon yn addasu y tir i gnydio tobacco yn hytrach mwy toreithiol nag yn unrhyw o'r lleill. Grawn India, rice, ac ereill sydd yma hefyd yn ehelaeth.

Y prif afonydd ydynt Patowmac, Pocomoke, Patuxent, Choptank, Hafren, a Sassafras.

Mae cryn drefnidiaeth yn cael ei wneyd rhwng y dalaeth hon ag ynysoedd yr India orllewinol, ac ag amryw o wledydd Ewrop: danfonir yn flynyddol o Baltimore i'r lleoedd hyn filoedd o dunelli o dobacco, yn nghyd â gwenith, peilliad, ffâ, had llîn, cig moch, coed, heiyrn a'r cyffelyb, a chludir yn ol wisgoedd, a däoedd yr India orllewinol, yn win, nwyfau, sygr, a phethau angenrheidiol ereill.

Y llywodraeth wladol sydd ar lywydd, senedd o 15, a llys o raglawiaid, y rhai oll ydynt yn cael eu dewis yn flynyddol. Y llywydd sydd yn cael ei ddewis wrth goelbren gan y seneddwyr a'r rhaglawiaid, ac ni ellir ei ddewis am fwy na thair blynedd yn olynol Y lleill ydynt yn cael eu dewis gan y deiliaid a fyddo yn 21 oed, ac yn uchelwyr yn meddu 50 erw o dir, neu unrhyw ddäoedd ereill o werth 30l. Rhaid i bob swyddog cyn y gallo wasanaethu addef cred gyhoedd i'r grefydd Gristionogol.

Y pabyddiaid y rhai oeddynt y trefedigion cyntaf yn Maryland ydynt y lliosocaf yn y dalaeth hon: y gweddill ydynt yn Bresbyteriaid, crynwyr, Calviniaid, Lutheriaid, Bedyddwyr, Wesleyaid, &c. Mae yn Maryland liaws o urdd ysgolion yn perthyn i'r enwau a gryhwyllwyd, ac yn addysgu y dysgedigion yn mhob cangen fuddiol o wybodaeth, fal yn urdd-ysgolion Prydain.

Y trigolion yn 1790 oeddynt 319,728 o ba rai yr oedd 103,036 yn gaethion, ond yn 1801 yr oeddynt yn 349,692 o ba rai yr oedd 107,707 yn gaethion.

Annapolis, prif ddinas Maryland, sydd yn sefyll ar lenydd afon Patuxent · gelwid hi gynt Hafren, yr hwn a gyfnewidiwyd yn 1694 trwy gydsyniad y llywodraeth i Annapolis. Mae heolydd hon er ma bechan yw yn arddangos cryn ardderchowgrwydd yn ngwychder ei hadeiladau.

Baltimore, y dref fwyaf yn Maryland, sydd yn sefyll ar lenydd gogleddol afon Patapsco, yn agos i'w haber yn nghulfor Chesapeak: mae porthladd ëang cyfleus yn perthyn i hon, ac y mae'r dref agos yn ei chyfan gylchynu: mae yn Baltimore o ddeutu 15,000 o drigolion.

*Hanes.*] Fal ag y bu i erledigaeth ar y rhagdystiaid beri poblogi amryw o daleithiau ereill America, felly erledigaeth ar y pabyddiaid yn niwedd rheolaeth Charles I, a barodd i gynifer o honynt hwythau ymofyn noddfa yn y dalaeth hon Yr oedd y llys yn ymddangos yn fwy pleidgar i'r pabyddiaid nag y medrai y genedl yn gyffredinol ei oddef, felly rhag mwyáu y derfysg, däolwyd amryw o honynt o'r llys, a lluniwyd cyfreithiau i gyfyngu ar eu rhyddid Ar hyn cafodd arglwydd Baltimore, yr hwn oedd babydd, ac o frî mawr yn y llys, freinlen i ymsefydlu yn y dalaeth hon, yr hon o'r blaen oedd yn cael ei hystyried yn rhan o Virginia, ond y pryd hwn oedd yn cael ei chyfenwi Maryland, o barch i'r frenines Henrietta Maria, merch Harri IV o Ffrainc, a gwraig y brenin Charles Y flwyddyn ganlynol aeth 200 teulu o fawrion y deyrnas oeddynt yn babyddiaid, gyd ag arglwydd Baltimore i feddiannu y drefedigaeth newydd · y rhai hyn yn ddynion dysgedig ac o ddygiad da i fynu, yr hyn sydd yn dynodi y cyfryw, pa grefydd bynag a addefont, a ddaethont yn fuan ar dilerau heddychol a'r Indiaid oedd yn lliosog yn Maryland, a buont yn cyd gyfaneddu â hwynt yn dawel hyd oni eiddugeddodd rhai o drefedigion Virginia wrth lwyddiant y pabyddiaid, ac annog yr Indiaid (y rhai oeddynt o anian yn barod) i godi i'w herbyn. Ar i'r newydd gyrhaedd Prydain fod

y fath fråd diriad gwedi aflwyddo, daeth miloedd yn ychwaneg i ymsefydlu yn Maryland. Ond yn nyddiau Cromwell, dyryswyd ei llywodraeth yn llwyr: difreiniwyd Baltimore o'i frein-len, a danfonwyd arall i fod yn llywydd yn ei le, ac felly y bu hyd farwolaeth Cromwell, pan yr adferwyd i Baltimore ei frein-len, a'i rwysg yn y dalaeth Gwedi hyn trefnodd Baltimore y byddai cyflawn ryddid i bob enw o Gristionogion yn ei dalaeth rhaglaw: a chan bod y drefedigaeth yn dra llwyddiannus, daeth miloedd ychwanegol iddi o'r amrywiol enwau crefyddol oedd yn cael eu haflonyddu yn dôst gan y duedd erlidgar oedd yn Mhrydain yr amseroedd hyny.

Difreiniwyd y teulu enwog hyn eilwaith gan Iago II, ond ar i'r brenin hwnw golli meddiant o'i goron, adferwyd Baltimore drachefn i'w feddiannau, ond nid i fod yn llywydd, gan fod cyfreithiau y deyrnas erbyn hyn yn gwahardd unrhyw le yn y llywodraeth i babyddiaid. Ond gwedi i'r teulu hyn newid eu crefydd, daethant drachefn i rwysg yr awdurdod wladol. Yr oedd llywodraeth Maryland yn lled debyg i lywodraeth Virginia, sef bod y meddiannwr i ddewis y llywydd a fynai, ond iddo gael cydsynied y goron.

VIRGINIA.] Mae y dalaeth hon yn sefyll rhwng lledred 36° a 40°G. a rhwng hydred 76° a 83°G. yn 446 milltir o hyd a 224 o led, ac yn 70,000 o filltiroedd arwynebol. Ei therfynau ydynt Maryland, rhan o Pennsylvania, ac afon Ohio ar y tu gogledd, y mor Werydd ar y tu dwyrain, Carolina ogleddol ar y tu de, a Kentucky ar y tu gorllewin.

Mae Virginia gwedi ei rhanu yn 82 o swyddi fal y canlyn.

Y swyddi sydd ar du gorllewin y drum lâs, ydynt yr Ohio, Monongalia, Washington, Montgomery, Wythe, Botetourt, Green-briar, Kanawa, Hampshire, Berkley, Frederick, Shenandoah, Rockingham, Augusta, a Rockbridge.

Y swyddi sy rhwng y drum lâs ac aberoedd culfor Chesapeak, ydynt Loudoun, Fauquier, Culpepper, Spotsylvania, Orange, Louisa, Goochland, Flavinia, Albermarle, Amherst, Buckingham, Bedford, Henry, Pittsylvania, Halifax, Charlotte, tywysog Edward, Cumberland, Powhatan, Amelia, Nottaway, Lunenburg, Mecklenburg a Brunswick.

Y swyddi sy rhwng afon Iago a Carolina, ydynt Greensville, Dinwiddie, Chesterfield, tywysog George, Surry, Sussex, Southampton, ynys Wyth, Nansemond, Norfolk, a'r dywysoges Ann.

Y swyddi sy rhwng afonydd Iago ag York, ydynt Henrico, Hanover, Kent newydd, dinas Charles, dinas Iago, Williamsburg, York, Warwick, a dinas Elizabeth.

Y swyddi sy rhwng afonydd York a Rappahanoc ydynt Caroline, brenin William, Brenin a brenines, Essex, Middlesex, Gloucester, a Fairfax.

Y swyddi sy rhwng afonydd Rappahanoc a Patowmac ydynt, tywysog William, Stafford, tywysog George, Richmond, Westmoreland, Northumberland, a Lancaster.

Ar yr arfordir dwyreiniol mae swyddi Accomac a Northampton; a'r saith swydd newydd ydynt, Campbell, Franklin, Harrison, Randolph, Hardy, Pendleton, a Russel.

Gwlad isel yw Virginia, heb na mynydd na bryn ond coed uchelfrig yn ei dynodi wrth ddynesu ati o'r môr: ac er teithio can' milltir i'r tir ni chyfarfyddir â braidd unrhyw anwastadrwydd. Er hyny gwlad frâs ydyw yn cnydio coed mawrion, grawn, tobacco, llin, a'r cyffelyb yn helaeth.

Mae gwres yr hâf yn dra mwll: byddai agos yn anoddefol ond fal y mae yr awel oddiar y môr yn ei leddfu. Y gauaf sydd yn dyfod ar unwaith heb y rhybydd lleiaf: bydd weithiau yn Hydref ddydd tesog a mwll, ac yn y nôs ganlynol bydd yr oerni mor llym a rhewi y llynau a'r afonydd mwyaf trostynt. Bydd y gwlawogydd trymion parhaus yn niwedd y flwyddyn, yn peri i'r cryd, ac afiechyd ereill sydd yn deillio oddiwrth oerni a lleithder ffino y trigolion yn dost. Mellt a tharanau ydynt yma yn ddychrynllyd agos trwy ystod yr hâf.

Mae culfor Chesapeak yn derbyn iddo amrywiol o afonydd. O Virginia mae yn ymarllwys iddo afonydd Iago, York, Rappahannoc, Patowmac, ac ereill, y rhai ydynt fordwyol am filltiroedd lawer o'u baberoedd; ac y mae eu ceinciau mor lliosog a bod ffrydiau amrywiol yn ymdaenu tros yr holl wlad. Mae culfor Chesapeak yn 300 milltir o hyd, a 18 o led, ac nid yw ei agored rhwng penrhynau Virginia ond cul, yr hyn sydd yn gwneyd amrywiol barthau o hono yn angorfeydd mwyaf diogel o unrhyw yn y byd

Trigolion Virginia yn 1790 oeddynt 747,610, o ba rai yr oedd 292.627 yn negroaid; ac yn 1801 yr oeddynt yn 886,149 rhwng 346,968 o gaethion. Dynion o'r dalaeth hon oedd y rhai mwyaf bywiog yn y gorchwyl o ddwyn yn mlaen y dadymchweliad a ryddhaes y taleithiau o fod tan rwysg Prydain fawr: felly bydd hanesyddiaeth y dalaeth hon yn hynod yn oesoedd y ddaear. Mae y trigolion y pryd hwn gwedi ymddirywio i'r cyfryw raddau nad oes unrhyw ardal heb fod campau oferwag yn cael eu cynnal ynddynt yn gyffredinol; sef ymladd ceiliogod, rhedeg meirch, gwyll-chwareu a'r cyffelyb, a braidd nad yw doniau y mwyaf enwog ynddynt yn cael eu cyfrif yn fwy ysplenydd na doniau y dysgedigion enwocaf. Y caethion druain sydd yn gorfod gwneyd pob caled-waith, fal y gallo eu barglwyddi dideimlad ac anynol fyw yn foethus a segurllyd ar ffrwyth eu lludded.

Mae y llywydd a'i gyfrin-gyngor o wyth aelod, seneddwyr, a chynnrychiolwyr y dalaeth hon yn cael eu dewis bob blwyddyn: y llywydd a'r cynghorwyr wrth goelbren gan y seneddwyr a chynnrychiolwyr yn nghyd, a uhwythau hefyd gan uchelwyr y dalaeth.

Y dâoedd trefnidiol ydynt tabacco, coed, grawn, &c; y rhai a ddanfonir i'r India orllewin a'r taleithiau cyfagos am ddâoedd addas ereill.

Y brif urdd ysgol sydd yn Williamsburg, o seiliad y brenin William, ac a elwir coleg William a Mary. Rhoddes y brenin hwnw ddwy fil o bunau tu ag at ei adeiladu, heblaw ardreth 20,000 o erwau o dir, a cheiniog ar bob pwys o dobacco a ddanfonid o'r dalaeth, tu ag at ei gynnal. Yr enw sy fwyaf lliosog yma ydyw y Presbyteriaid: mae yma hefyd amryw Esgobaliaid a Methodistiaid Calvin a Wesley.

Y prif drefydd ydynt Richmond, y benaf, Williamsburg a Norfolk. Richmond sydd yn cynnwys o ddeutu 500 o dai a 4,000 o drigolion: yr adeilad hynotaf ynddi ydyw y senedd-dy, yr hwn sy fwy hynod mewn anfertbwch na harddwch. Williamsburg oedd gorsaf y llywodraeth hyd 1780: mae yn hon rai adeiladau gwych. Y trigolion ydynt 1,400. Norfolk yw y fwyaf ei threfnidiaeth o unrhyw yn Virginia: mae porthladd hon yn ddigon ëang i gynnwys 300 o longau ar unwaith. Yr oedd ei thrigolion yn 2,959 yn y flwyddyn 1790, ond bod o hyny 1,294 yn gaethion.

Addas yw crybwyll yma nad oedd na cheffylau, gwartheg, defaid,

na moch yn America cyn eu eludo yno gan Ewropiaid, ond weithiau y maent mor lliosog, a'u bod yn wylltion ar hyd ei hanial-leoedd, yn enwedig yn Virginia a'r taleithiau deheuol. Y creaduriaid ereill ydynt amryw fath o geirw, eirth, bleiddiaid, llwynogod; y tiger, racoon, ac ereill Yr hynotaf yn ei plith yw yr Opossum, creadur o faint câth a choden o dan ei fol ar ei hyd, yn yr hon y bydd y rhai bâch ar dethau y bol yn cael eu hymddwyn, ac yno fal ffrwythydd ar bren y glynont hyd oni hyddont yn addfed i syrthio i'r goden, ac yna ânt allan ac i fewn yn ol y byddo perygl arnynt, hyd oni byddont yn ddigon cryf i wneyd trostynt eu hunain.

*Hines.*] Hon yw y wlad gyntaf yr ymsefydlodd y saeson ynddi yn America. Yr ydys gwedi crybwyll eisus mai Sebastian Cabot yn nyddiau Harri VII yn 1497, a ddarganfu ardaloedd gogleddol America. ond ni ddanfonwyd trefedigion iddynt hyd ddyddiau Elizabeth, pan y llwyddodd Syr Walter Raleigh i gael cenad y llys, i lunio cymdeithas o drefuidwyr, i feddiannu y wlad, yr hon a alwasant Virginia o barch i'w harglwyddes y frenines. Buwyd rai blynyddau gwedi hyn cyn ymsefydlu ynddi: y tair mintai gyntaf a ddanfonwyd yno a fuont feirw o newyn, neu a laddwyd gan yr Indiaid, ac yr oedd y bedwaredd gwedi llwyr ymddihoeni, a'r gweddill o honynt gwedi cychwyn yn ol mewn anobaith na allent aros mwy yn y fath anial-le yn mysg anwariaid creulon, pan y cyfarfyddodd arglwydd Delawar â hwy yn ngenau culfor Chesapeak, a'u hanog i ddychwel yn ol, ac y cafent bob angenrheidiau a chynnorthwy oedd yn eisieu arnynt. Felly ar iddo daer erfyn arnynt, ac arddangos llawer o addfwynder a medrusrwydd, cydsyniasant; ac yna gwedi adeiladu amddiffynfeydd, dinasoedd, &c. ymheddychodd yr Indiaid â hwynt, a daeth llwyddiant ar y drefedigaeth. Yr oedd y gwr bonheddig hwn gwedi gorfod ymadael ag America, o herwydd ei afiechyd, a dyfod i Frydain, ac wedi gadael ei fab tan olygiad tri o farchogion i fod yn llywydd yn ei le. Y rhai hyn ei adeilasant Jamestown, yr hon oedd y dref gyntaf a sefydlwyd gan y saeson yn y byd newydd. Bu llwyddiant ar y drefedigaeth hon am flynyddau lawer, ac ni wnaeth y terfysgoedd oedd ar droed yn Mhrydain yn y rhyfel gartrefol dan Charles I, nag yn nymchweliad Iago II unrhyw ddyrysni ynddi.

Y brenin oedd hyd yn hyn yn dewis y llywydd a'r seneddwyr, ac nid oedd gan y trefedigion er lliosoced oeddynt unrhyw lais yn newisiad unrhyw swyddogion gwladol, ac ar iddynt ddangos anfodlonrwydd o herwydd hyny, trefnwyd o'r diwedd iddynt ddewis eu seneddwyr, a'u cynnrychiolwyr eu hunain, ond y brenin oedd i ddewis y llywydd. Fal hyn, yr oedd y seneddwyr megys yn gyfrin-gyngor i'r llywydd, a'r cynnrychiolwyr yn gwilied tros ryddid y deiliaid.

KENTUCKY.] Mae y dalaeth hon yn sefyll rhwng lledred 31½° a 39°G, a rhwng hydred 81° ac 89°G, yn 250 milltir o hyd a 200 o led, ac yn cynnwys 50,000 o filltiroedd arwynebol. Mae hon yn cael ei therfynu ar y tu gogledd orllewin gan afon Ohio; ar y tu dwyrain gan yr afon dywodlyd, a chan linell ddychymygol o'i blaenau yn ddeheuol hyd derfyn gogleddol Carolina.

Rhenid hon gynt yn ddwy swydd, sef Lincoln a Jefferson: ond weithian mae hi yn bedair-ar-ddeg, sef Jefferson yn gyfagos i raiadr yr Ohio, Fayette, Bourbon. Mercer, Nelson, Maddison, Lincoln, Woodford, Mason, Washington, Clark, Scott, Logan a Franklin.

Hinsoddau Kentucky ydynt iachus a hyfryd, oddigerth yn y parthau sydd yn terfynu ar gorsydd neu ddyfroedd safadwy. Nid ydyw gwres yr hâf nag oerni y gauaf yma o unrhyw flinder. Y tir sy frâs, ac yn cnydio pob grawn, a llysieu adnabyddus yn ngogledd-barth America.

Mae y dalaeth hon yn cael ei dyfrio gan geinciau amrywiol yr afon Ohio, yr hon sydd yn derfyn i'w pharthau gogledd orllewin: eu henwau ydynt y Sandy, Licking, Kentucky, Salt, Gwerdd, a Cumberland. Mae yn ngleuydd y Kentucky ogofeydd rai cantoedd o latheni o hyd, trwy greigiau o farmor, a thebygid wrth yr esgyrn a geir mewn rhai o honynt eu bod gynt yn angladd-leoedd. Cyfarfyddir yn mawndiroedd Kentucky ag esgyrn anifail mwy aruthrol o faintioli nag unrhyw a wyddis am dano yn yr oesoedd hyn: mae asgwrn y pen yn llawn llathen o hyd a'r lleill oll o faintioli cyfartal. Mae anianyddion gwedi cludo esgyrn-glwm y bwystfil hwn i Frydain ac ereill o wledydd Ewrop: dywed y Dr. Hunter nad all fod yn esgyrn elephant oddiwrth ei faint aruthr, ac yn fwyaf oddiwrth ddull ei ddannedd, ond ei fod yn perthyn i rywogaeth o fwystfilod y sydd y pryd hwn gwedi llwyr ddarfod.

Y llywodraeth wladol sydd yma yn lled debyg i'r dysgrifiad a roddir am y cyfryw yn y taleithiau ereill; ac felly y drefnidiaeth, ond fod y brif farchnadfa yn Lexington.

Y bedyddwyr ydynt yr enw lliosocaf yn Kentucky: ond y mae yno amryw gynulleidfaoedd o bresbyteriaid, a rhai enwau ereill.

Nid oes eto yn Kentucky onid ychydig o drefydd: y rhai mwyaf ydynt Lexington, Louisville, Washington, a Ffrankffort. Lexington sydd yn cynnwys o ddeutu 3,000 o drigolion. Ffrankffort, gorsaf y llywodraeth sydd yn llai poblog.

*Hanes*] Yr oeddyd yn cyfrif y wlad hon cyn olrhain ei therfynau yn rhan o Virginia: helwyr oddiyno yn 1770 oedd ei holrheinwyr cyntaf, y rhai yn rhoddi hanes brydlawn am ei hansawdd a annogodd y llywydd i'w llunio yn dalaeth, ac yn ganlynol i ddanfon trefedigion i'w chyfanneddu. Nid oedd unrhyw o lwythi yr Indiaid y pryd hyny yn cyfanneddu y wlad hon, ond yr oeddynt yn dyfod yno yn eu tro i hela, ac felly er cadw meddiant, yr oeddynt gwedi penderfynu o ymuno i rwystro i unrhyw genedl o'r dynion gwynion i ddyfod i'w phreswylio, ac ar i ymladdfeydd echrys ddigwyddo rhyngddynt, a rheiny yn fuddugoliaethus o'r diwedd i'r trefedigion newydd, galwodd yr anwariaid y lle yn *Kentucky*, gair yn eu hiaith yn arwyddocau y fro waedlyd. Bu mynych ruthrau gwedi hyn gan yr anwariaid ar y trefedigion, ac yr oedd y carcharorion a wnelynt yn cael y drinfa ysgeler wrth eu marwolaethu ag a grybwyllwyd yn nechreu hanes America, ond o'r diwedd daeth y trefedigion mor lliosog, ag y gorfu arnynt beidio ag ymosod mwy. Gwedi hyn agorwyd ffyrdd mawrion, ag anturiodd miloedd o'r Taleithiau cyfunawl i'w phreswylio.

Carolina Ogleddol.] Mae y dalaeth hon yn gorwedd rhwng lledred 34° a 37°G, a rhwng hydred 76° a 83°G, yn 450 milltir o hyd a 180 o led, ac yn cynnwys 34,000 o filltiroedd arwynebol. Mae Virginia yn terfynu ar y tu gogledd iddi; y mor Werydd ar y tu dwyrain, Carolina ddeheuol ar y tu de, a thalaeth Tennessee ar y tu gorllewin.

Mae y dalaeth hon gwedi ei dosbarthu yn wyth rhaglawiaeth, y rhai ydynt gwedi eu had-ranu yn 58 o swyddi fal y canlyn.

1. Edenton, yn cynnwys swyddi Chowan, Currituck, Cambden, Pasquotank, Perquimins, Gates, Hertfford, Bertie, a Tyrrel.

2. Wilmington, yn cynnwys swyddi Hanover newydd, Brunswick, Duplin, Bladen, ac Onslow.

3. Newbern, yn cynnwys swyddi, Craven, Beaufort, Carteret, Johnson, Pitt, Glasgow, Lenoir, Wayne, Hydes, a Jones.

4 Halifax, yn cynnwys swyddi Halifax, Northampton, Martin, Edgecomb, Warren, Franklin, a Nash.

5. Hillsborough, yn cynnwys swyddi Orange, Chatham, Granville, Pierson, Caswell, Wake, a Randolph.

6. Salisbury, yn cynnwys swyddi Rowan, Cabaras, Mecklenburgh, Rockingham, Iredell, Surry, Montgomery, Stokes, a Guildford.

7. Morgan, yn cynnwys swyddi Burke, Rutherford, Lincoln, Wilkes, a Buncomb.

8. Fayette, yn cynnwys swyddi Cumberland, Moore, Richmond, Robinson, Sampson, ac Anson

Y tair raglawiaeth flaenaf ydynt yn terfynu ar y môr, ac a elwir y rhaglawiaethau dwyreiniol: Fayette, Hillsborough a Halifax ydynt y rhai canol, a Salisbury a Morgan y rhai gorllewin.

Mae parthau gorllewin Carolina mor iachus ag unrhyw ran o America, ond y mae y trigolion y sydd yn cyfanneddu y tir isel ar hyd ei harfordir yn cael eu blino yn y tymhor llaith gan y cryd ac afiechyd amrywiol ereill. Yr hâf sy dra mwll, oddigerth yn yr ardaloedd sydd yn terfynu ar ei mynydd dir gorllewin: bydd awelon oddiar yr iâ sydd yn gyffredin yn toi y rhai hyny yn ardymheru y gwres. Mae cynnyrch cyffredin y Taleithiau cylchynol yn ebelaeth yn hon.

Y prif afonydd ydynt y Chowan a'i cheinciau, Roanoke, Tar, Neus, a'r Clarendon: mae traethelli peryglus yn rhwystro i aberoedd y rhai hyn fod yn borthladdoedd.

Y trigolion yn 1790 oeddynt 393,751 o ba rai yr oedd 100,571 yn gaethion, ac yn 1801 yr oeddynt yn 478,103, ac o hyny 133,296 yn gaethion. Lled debyg yw agweddau y trigolion hyn i'r Virginiaid, sef eu bod yn ymroddi mewn chwareuyddiaethau ofer wag, a byw yn segurllyd ar lafur y truain annedwydd y sydd yn gaethion ganddynt. Maent ar ol y dadymchweliaid gwedi ymwareiddio llawer: cyn hyny yr oedd eu moesau gwladol yn druenus ac heb fawr wahaniaeth rhyngddynt a'r Indiaid gwylltion.

Mae y dalaeth hon yn danfon ei düoedd trefnidiol, yn goed, gwenith, grawn, pyg, ystor, tobacco a'r cyffelyb i'r India orllewin, ac i'r taleithiau y sydd yn terfynu arni.

Y llywodraeth wladol sydd ar gymdeithas gyffredinol, a lunir o seneddwyr a chynnrychiolwyr, y rhai oll ydynt yn cael eu dewis yn flynyddol wrth goelbren: un seneddwr a dau gynnrychiolwr o bob swydd, heblaw cynnrychiolwr dros bob un o'r trefydd.

Mae cryn lwyddiant ar grefydd yn y dalaeth hon er y dadymchweliad. Yr enwau lliosocaf ynddi ydynt y Methodistiaid a'r Bedyddwyr: y Moraviaid ydynt liosog, ac y mae gan y Crynwyr a'r Presbyteriaid gynulleidfaoedd ar gynydd y ma ac acw tros yr holl dalaeth.

*Hanes.*] Mae hanesyddiaeth Carolina ogleddol yn fwy anhysbys nag unrhyw o'r taleithiau ereill. Y trefedigion sefydlog cyntaf ynddi oeddynt fintai o ardalyddion o Germani, y rhai gwedi eu tlodi gan ryfeloedd trychinebus a orfu arnynt chwilio am gartref yn y byd newydd, a thyma'r wlad y tiriasant ynddi yn nechreu y flwyddyn 1710. Gwedi bod agos ugain mlynedd yn dra diwyd yn adeiladu tre-

fydd, trin tir, &c, danfonasant eu cwyn at George II, a chawsant freinlen yn ddiatreg i lunio eu gwlad yn dalaeth tan yr enw Carolina ogleddol.

CAROLINA DDEHEUOL.] Sydd yn gorwedd rhwng lledred 33° a 35°G, a rhwng hydred 78° a 81°G., yn 200 milltir o hyd a 125 o led, ac yn cynnwys 20,000 o filltiroedd arwynebol. Ei therfyn gogleddol ydyw Carolina ogleddol; y môr Werydd ar y tu dwyrain; ac ar y tu de a de orllewin iddi mae afonydd Savannah a Tugulo, y terfyn rhyngddi a Georgia.

Mae y dalaeth hon gwedi ei rhanu yn naw o raglawiaethau a 38 o swyddi fal y canlyn.

1. Beauffort, yn cynnwys swyddi Hilton, Lincoln, Granville ac Amwythig.

2. Charles-town, yn cynnwys swyddi Charles-town Washington, Marion, Berkeley, Colleton a Bartholomew

3. George-town, yn cynnwys swyddi Winyah, Williamsburgh, Kingston a Liberty

4 Orange, yn cynnwys swyddi Lewisburgh, Orange, Lexington, Washington a Winton.

5 Cambden, yn cynnwys swyddi Clarendon, Richland, Fairfield, Cleremont, Lancaster, Kershaw, a Salem.

6. Cambridge, yn cynnwys swyddi Abbeville, Edgefield, Newbury, a Laurens.

7. Pinkney, yn cynnwys swyddi York, Chester, Union, a Spartenburgh.

8. Cheraws, yn cynnwys swyddi Marlborough, Chesterfield, a Darlington.

9. Washington, yn cynnwys swyddi Pendleton a Greenville.

Mae rhai mynyddoedd lled uchel yn y dalaeth hon, ond gwyneb gwastad sy ganddi yn gyffredinol, yn enwedig am 80 neu 100 milltir oddiwrth y môr. Ei hinsoddau ydynt gymhedrol, ond bod y trawsfudiad chwyrn o oerni i wres ac o wres i oerni fal yn yr holl daleithiau deheuol yn dra niweidiol i'w thrigolion, ac yn peri clefydon blin agos bob haf. Nid yw oerni y gauaf yn ddigon llym i beri i'r afonydd rewi oddigerth caenen weithiau o las rew yn nghorff y nos, felly mae rhai planhigion tyner na thyfant i berffeithrwydd yn Virginia a thaleithiau mwy gogleddol America yn dyfod rhagddynt yma yn rhagorol. Gellir at gynnyrch cyffredin y taleithiau cyfagos yn bob math o rawn, tobacco, &c, enwi y ffrwythydd mwyaf tyner y sydd yn tyfu yn neheubarth Ewrop. Mae yma goed cysgodfawr a'u paladr yn 20 neu 25 llath o hyd, a'u hamgylchiad o 10 i 12: gwneir o'r rhai hyn gychod un-pren i gludo rhai tunelli ar hyd yr afonydd.

Y prif afonydd ydynt y Savannah, Edisto, Santee, Pedee, a'u cangciau: y Santee yw y fwyaf yn y dalaeth. Y rhai lleiaf ydynt y Ddu, Wakkamaw, Cooper, Ashepoo a Combahee. Mae camlas yn cydio y Cooper ag afon Santee.

Y daoedd trefnidiol ydynt coed, poh math o rawn, ffrwythydd, Indigo, cyffuriau meddygol, &c; a'r llywodraeth wladol sy gyflenwedig mewn llywydd, senedd o 37, a 124 o gynnrychiolwyr.

Nid oedd yma hollol ryddid i bob enwau crefyddol i freintiau y llywodraeth hyd y dadymchweliad, ond gwedi hyny trefnwyd na byddai i unrhyw fod yn uwch eu bri na'u gilydd, ac na byddai cyfyngu ar

ryddid unrhyw arall (ond iddynt addef Cristionogaeth) a ddeuai i'r unrhyw amserau i ymsefydlu yn eu plith. Mae yma lia‵s o Bresbyteriaid, Bedyddwyr, Calviniaid, Wesleyaid, a Chrynwyr. Bu yr esgobaliaid yn fwy lliosog ynddi gynt.

Y trigolion yn 1790 oeddynt 249,073 o ba rai yr oedd 107,094 yn gaethion. Yn 1801 yr oeddynt yn 345,591, o ba rai yr oedd 146,152 yn gaethion.

Prif drefydd Carolina ddeheuol ydynt Charles-town, Columbia, a Camden, Mae Charles-town yn sefyll ar gydlifiad dwy afon fordwyol. a chanddi borthladd cyfleus i lestri a fyddo tan 200 tunell: ni all rhai mwy ddyfod tros y draethell sydd ar enau y borthladd Ei heolydd ydynt lydain a hardd, ac yn eu gosodiad yn tebygu i heolydd Philadelphia. Dyfethwyd y rhan fwyaf o honi gan dân yn Mehefin 1796: yr oedd y trigolion cyn hyny o ddeutu 10,000 o rifedi, heblaw 7,000 o gaethion.

Columbia sy dref fechan ar du dwyrain afon Congaree, ychydig y tu isaf i gydlifiad yr afon lydan ac afon Saluda: hon yn bresenol yw gorsaf y llywodraeth.

*Hanes* ] Ni bu nemawr o lwyddiant ar y trefedigion cyntaf a ddaethant i Carolina, hyd oni anturiodd amryw o wyr mawrion iddi yn 1663, y rhai oeddynt gwedi cael breinlen i'w meddiannu gan Charles II. Gwedi tirio yno, y peth cyntaf a wnaethant oedd gosod sail tref, yr hon a alwasant o barch i'r brenin, Charles-town. Yr oedd yr enwog Locke ar archiad y prif bennaethiaid gwedi ysgrifenu deddfau i'r dalaeth, ond ni adawent iddo roddi rhyddid cydwybod, eithr enwi eglwys Loegr yn freintiol yn unig: felly cyn ychydig flynyddau cyfododd terfysg trwy yr holl dalaeth o wall nad oedd yr un rhyddid yn Carolina ac yn y taleithiau ereill: a chan i'r Indiaid yn y cythryfwl ruthro i mewn, a sarhau y drefedigaeth, gorfu ar y meddiannwyr werthu eu hawl o honi i'r goron, ac yna swyddogion a milwyr o Frydain a ddanfonwyd i'w rhëoli, a'r canlyniad fu i drefn gael ei adferyd, ond ni chaniatawyd cyflawn ryddid i'r amrywiol enwau crefyddol hyd oni ddaeth y dadymchweliad.

GEORGIA ] Sydd yn sefyll rhwng lledred 30° a 35°G. a rhwng hydred 80° a 91°G. yn 600 milltir o hyd a 230 o led, ac yn cynnwys 60,000 o filltiroedd arwynebol. Y terfynau ydynt Carolina ddeheuol, a Tennessee ar y tu gogledd a gogledd ddwyrain; y môr Werydd ar y tu dwyrain; Fflorida ar y tu de, ac afon Mississippi ar y tu gorllewin.

Rhenir hon yn ddwy raglawiaeth, sef uchaf ac isaf, y rhai hefyd a ad-renir yn 24 swydd fal y canlyn: y raglawiaeth isaf sydd yn cynnwys swyddi Camden, Glyn, Rhyddid, Chatham, Burke, Effingham, M'Intosh, Scriven a Bryan; swyddi y llall ydynt Richmond, Washington, Wilkes, Greene, Ffranklin, Montgomery, Handcock, Oglethorp, Elbert, Lincoln, Warren, Jefferson, Bulloch a Columbia.

Mae hinsoddau Georgia yn dra thymherus: braidd y gwelir na rhew nag eira ar un amser ynddi, ac y mae yr awel oddiar y môr yn lleddfu gwres yr hâf. Mae'r holl arfordir yn wastadedd isel, ac yn cyrhaedd i'r tir o 50 milltir i 80, ac yna mae mynyddoedd Apalachian yn dyfod i'r golwg. Y tir sydd yn cnydio yn doreithiol bob math o rawn. ffrwythydd, cyffuriau meddygol, &c. a grybwyllwyd am danynt wrth ddysgrifio y taleithiau mwyaf tymherus ereill.

Y prif afonydd ydynt y Savannah, y terfyn rhwng Georgia a Caro-

lina ddeheuol, yr Ogeechee, Alatamaha, Turtle, y ddwy Sitilla, St. Mary, ac Apalichiacola: mae yr holl arfordir yn dra-llawn o gilfachau, aberoedd, ac ynysoedd.

Y daoedd a ddanfonir oddiyma i'r India orllewin ac i'r taleithiau cyfagos, ydynt rice, tobacco, coed, crwyn, indigo, anifeiliaid, cyffuriau meddygol, &c. Y llywodraeth sydd yn cael dosbarthiad gan lywydd, cynghorfa o ddeuddeg, a 72 o gynnrychiolwyr. Yr enwau crefyddol ynddi ydynt eglwys Loegr, Presbyteriaid, Bedyddwyr a Methodistiaid Calvin a Wesley.

Mae y brif urdd ysgol yn Georgia â 50,000 o erwau o dir yn perthyn iddi, heblaw llôg 6,000l. ac y mae gan bob swydd athrofa yn cael ei chynnal yn yr un dull

Adeiladodd y parchedig George Whitfield yn Savannah annedd ddrudfawr ar ei draul ei hun i blant amddifaid, yr hwn gwedi ei farwolaeth a drôwyd yn wrdd-ysgol i ddwyn i fynu weinidogion yr efengyl; ac ar farwolaeth arglwyddes Huntingdon, i'r hon y rhoddasai Whitfield yr adeilad fal ymddiriedydd, lluniodd y deyrnas gyfraith i ddwyn amcanion Whitfield i ben, ac er côf am yr ymddiriedydd, gelwir yr adeilad hyd heddyw coleg Huntingdon.

Trigolion Georgia yn 1790 oeddynt 82,548 o ba rai yr oedd 29,264 yn gaethion: ond yn 1801 yr oeddynt gwedi ychwanegu i 162,684 ac o hyny 59,404 yn gaethion.

Y prif drefydd yn Georgia ydynt Savannah, Augusta a Louisville. Savannah gynt y brif dref sydd yn sefyll ar afon o'r un enw, o ddeutu 17 milltir y tu uchaf i'w haber: mae llongau 300 tunell yn gallu dyfod ati. Adeiladau ei heolydd ydynt hardd. Difäodd tân y rhan fwyaf o honi yn 1796

Augusta sy dref fechan hardd ar lenydd yr un afon: bu hon hefyd am ychydig amser yn orsaf y llywodraeth.

Louisville y brif dref y pryd hwn, sydd yn sefyll ar afon Ogeechee 70 milltir oddiwrth ei haber. Yn 1795 y trefnwyd i hon fod o hyny allan yn orsaf y llywodraeth.

*Hanes.*] Yn 1732 y rhoddwyd allan y cynllun cyntaf o berthynas i drefedigion sefydlu yn Georgia. Yr oedd lliaws o dlodion y pryd hwnw trwy yr holl deyrnas mewn cryn gyfyngder: a chan nad oedd goruchwylion iddynt, lluniodd rhai o fawrion y deyrnas drysorfa, at yr hon y chwanegwyd 10,000l. gan y llywodraeth i gynnal y sawl a chwennychai anturio i'r drefedigaeth newydd: ac felly aeth lluoedd dros y dyfnder i Georgia yn ddioed i ymsefydlu ynddi. Yn 1752 gorfu ar lywodraeth Prydain roi y dalaeth hon, oherwydd anghydfod oedd yn debyg o ennyn rhwng y deiliaid a'r swyddogion gwladol o wall anghysondeb gorthrymus rhai o gyfreithiau y dalaeth.

TENNESSEE.] Mae y dalaeth hon yn gorwedd rhwng lledred 35° a 36½°G. a rhwng hydred 81° a 91°G; yn 360 milltir o hyd a 105 o led; ac yn gylchynedig ar y tu gogledd gan Kentucky a rhan o Virginia; ar y tu dwyrain gan y mynyddoedd cerygog, y terfyn rhyngddi a Carolina ogleddol; ar y tu de gan Carolina ddeheuol a Georgia; ac ar y tu gorllewin gan afon Mississippi.

Mae hon gwedi ei rhanu yn dair rhaglawiaeth, sef yn 1. Washington, yr hon sydd yn cynnwys y swyddi a elwir Washington, Sullivan, Greene, Carter, a Hawkins. 2. Hamilton, yn cynnwys swyddi Knox,

Jefferson, Sevier, Blount, a Grainger. Ac yn 3. Mero, yn cynnwys Davidson Sumner, Robertson, a Montgomery.

Gwyneb y dalaeth hon sy led wastad hyd oni ddeuir yn gyfagos i'r terfyn mynyddig sy rhyngddi a Carolina, a'i chynnyrch sydd yn llawn mor helaeth ac yn y taleithiau sy newydd fod tan sylw. Mae ar nen trum Cumberland gefnen o greigiau unionsyth, yn 30 milltir o hyd a 70 llath o dew, ac yn ymddangos fal amddiffynfa o'r gwneuthuriad mwyaf rhëolaidd. Mynydd hynod arall sydd o fewn 2 filltir i Brasstown ag a elwir y mynydd dewinol: mae ar greigiau hwn ol traed dynion ac anifeiliaid; a rhai o honynt yn aruthr o faint, a gwedi eu llunio mae'n debyg i goffau brwydr a fu yn gyfagos iddo. Dywaid y Cherokeeaid y bydd gwlaw yn defnynu bob amser y cyffyrddo unrhyw ddyn â'r mynydd; fal y pe byddai anian yn galaru wrth feddwl am y tro dychrynllyd mae'r lluniau yn amcanu ei goffau.

Yr hinsoddau ydynt dymherus, yn enwedig yn gyfagos i'r mynyddoedd y sydd yn terfynu ar y wlad: ond y mae yr hin yn y gwastadoedd a'r dyffryn-dir yn fwll ac yn afiach.

Yr afon fwyaf yw y Tennesee neu y Cherokee, yr hon yw y gainc fwyaf y sydd yn perthyn i'r Ohio: mae blaenau hon yn mynyddoedd Virginia, a gwedi llifo am fil o filltiroedd mae hi yn ymuno a'r Ohio o ddeutu 60 milltir oddiwrth ei haber. Y lleill ydynt y Cumberland, yr Holston, a'r Clinch.

Ychydig o drefnidiaeth sydd yn cael ei gwneyd yn Tennessee er bod ynddi ddäoedd tra addas, sef anifeiliaid, grawn, coed, cotwm, cywarch, llîn, &c. Yr achos yw, bod y môr yn mhell oddiwrthi, a bod aberoedd y Mississippi yn wastadol mewn meddiant gan alluoedd ereill.

Yn 1785, cyfarfyddodd trefedigion yr ardal hon yn nghyd i lunio cyfreithiau. fal y gelwid hi yn dalaeth Ffrankland, a gwedi cryn derfysg a cholli peth gwaed oherwydd methu cyd-weled o berthynas i'r cyfreithiau, &c, rhoddwyd y cynllun oedd ar droed heibio hyd 1791, pan y cydunodd y trigolion i'w galw Tennessee, ac i'r llywodraeth fod ar lywydd a seneddwyr fal y taleithiau ereill.

Mae cyflawn ryddid cydwybod yn y dalaeth hon: y presbyteriaid ydynt y lliosocaf o unrhyw. Mae yma amryw urdd ysgolion eisus gwedi ei hadeiladau, ac un gymdeithas er rhwyddo pob gwybodaeth fuddiol.

Y Trigolion yn 1795 oeddynt 77,262; ond yn 1801 yr oeddynt yn 185,602, o ba rai yr oedd 13,584 yn gaethion

Knoxville yw gorsaf y llywodraeth: mae hon yn cynnwys o ddeutu 250 o dai. Y trefydd mwyaf ereill ydynt Nashville a Jonesborough.

*Hanes*] Y rhai cyntaf a olrheiniasant yr ardaloedd hyn oeddynt fintai o drefnidwyr ag ychydig o filwyr gwarcheidiol o ddeutu y flwyddyn 1740. Buwyd hymtheng mlynedd gwedi hyn cyn i unrhyw drefedigion anturio ei phreswylio, ac ni chafodd y rhai hyny nemawr o lwyddiant gan ruthrau niweidiol arnynt gan yr Indiaid, y rhai o'r diwedd a'u gyrasant oll ar ffô. Bu y dalaeth ddeng mlynedd gwedi hyn heb i unrhyw drefedigion newydd anturio iddi, ac yna ymroddwyd eilwaith i'w chyfaneddu, trwy ddanfon milwyr i amddiffyn y teuluoedd lliosog oedd yn barod i anturio yn mlaen. Yn 1780 sediwyd Nashville, ac yn fuan gwedi penodwyd llywydd â swyddogion ereill i'w llywodraethu.

ARDAL I'R GOGLEDD ORLLEWIN O OHIO.] Mae y wlad ëang hon

yn gorwedd rhwng lledred 37° a 50°G. a rhwng hydred 80° a 98°G.; yn 600 milltir o hyd a 700 o led, ac yn 411,000 o filltiroedd arwynebol. Yn derfynedig ar du y gogledd gan ran o'r llinell sydd yn derfyn gogleddol i'r Taleithiau cyfunawl; ar du y dwyrain gan y llynau a Phensylvania; ar y tu de gan afon Ohio, ac ar du y gorllewin gan afon Mississippi. Ei swyddi ydynt bump o rifedi, sef Washington, Hamilton, St Clair, Knox a Wayne: mae amryw ereill i gael eu llunio mor fuan ag y byddo eu trigolion gwaraidd yn ddigon lliosog.

Y prif afonydd ydynt y Muskingum, yr hon sydd a'i glenydd yn serth, ac yn 250 llath o led yn ei chydiad a'r Ohio; Hockhocking, y Scioto, a'r Illinois, yr hon yn ei chydiad a'r Mississippi sy 400 llath o led.

Mae cymmaint ag a olrheiniwyd o'r ardaloedd hyn yn arddangos eu bod yn addas i ddyn gyfanneddu ynddynt: y tir sy frâs, ac yn cael ei ddyfrio gan afonydd a llynau amrywiol, y rhai ydynt yn llawn o bysgod, fal y mae yr anial-leoedd, coediog yn llawn o anifeiliaid a gwylltfilod. Yr hinsoddau ydynt led debyg i'r hanes a roddir am y taleithiau sydd yn gorwedd tan yr un hingylch.

Yr oedd trigolion yr ardaloedd hyn yn nghyd yn 1800 yn 60,000: ond y maent y pryd hwn gwedi cynyddu i rai miloedd yn ychwaneg.

Y trefydd ydynt y Marietta, Chillicothe, a Gallipoli. Mae Marietta yn cynnwys tros 200 o dai. Chillicothe sy lai tref ond yn orsaf y llywodraeth, a Gallipoli yw y leiaf: mae hon yn cael ei chyfanneddu agos oll gan Ffrancod.

Trefnwyd yn 1787 gan gynadledd y Taleithiau cyfunawl i'r ardaloedd hyn gael eu rhanu yn bump o daleithiau, mor fuan ag y byddai y trigolion yn ddigon lliosog, sef 60,000 i bob un; yr hyn mae'n debyg a fydd yn dra buan, gan i derfyn ddyfod ar y rhyfel echrys a fu am flynyddau lawer rhyngddynt â'r Indiaid cymmydogaethol. Mae yn yr ardaloedd hyn liaws o amddiffynfeydd yma ac acw ar fin afonydd neu ar lethrau mynyddoedd, ond ni wyddis yn mha oesoedd yr adeiladwyd hwynt, na chan bwy genedl: mae yn rhaid eu bod o oesoedd boreu, gan nad oes gwahaniaeth rhwng y coed cysgod-fawr y sydd yn tyfu ynddynt a'r rhai y sydd o'r tu allan iddynt.

Louisiana.] Mae'r wlad hon yn 1200 milltir o hyd, 640 o led, ac yn gylchynedig ar y tu dwyrain gan y Mississippi; ar y tu de gan gulfor Mexico; ar y tu gorllewin gan Mexico newydd, ac ar y tu gogledd gan diroedd anolrheiniedig.

Gyd a'r Mississippi, y terfyn dwyreiniol, mae'r wlad hon yn cael ei dyfrio gan amryw o afonydd mawrion, sef y Missouri, St. Ffrancis, Natchitoches, Mexicano, y gôch a'r ddu, ac amryw o rai ereill.

Mae hinsoddau Louisiana yn lled gymhedrol: gwres yr haf sy dra llym yn y parthau gogleddol o honi, ond wrth fal y nesâir i'r de, mae yr awel oddiar y mor yn ei leddfu. Y tir sy frâs, ac yn cynnyrchu grawn, tobacco, llin, cotwm, coed o amryw rywogaethau, ffrwythydd, cyffuriau meddygol, &c, yn helaeth.

Y brif ddinas yw Orleans newydd, yr hon a adeiladwyd gan y Ffrancod yn 1720: mae hon yn sefyll ar lenydd dwyreiniol y Mississippi o fewn 150 milltir i'w haber. Yn nechreu 1788, yr oedd ynddi 1,100 o dai, ond yn y gwanwyn canlynol difäwyd tros 900 o honynt gan dân.

Madrid newydd, ar lenydd y Mississippi, o ddeutu 45 milltir y tu

isaf i aber yr Ohio sy gwedi ei seilio er ys blynyddau lawer, ond eto heb fawr gynydd arni.

*Hanes.*] Y cyntaf a ddarganfu y Mississippi oedd Yspaeniad o enw Fferdinand de Soto yn 1541, ond ni ddanfonwyd trefedigion yno hyd oni theithiodd un o'r Ffrancod am filltiroedd ar hyd ei glenydd, yr hwn ar ei ddychweliad yn ol, a roddes y fath hanes deg o ansawdd y wlad oddiamgylch, ac y cymhellwyd Louis XIV i ddanfon teuluoedd i'w chyfaneddu. Ond ni bu nemawr o lwyddiant ar y gorchwyl y pryd hwnw. Rhoddwyd Louisiana yn 1763 i Yspaen, ac yn yr heddwch canlynol, daeth eilwaith i feddiant Ffrainc, yr hon drachefn a'i gwerthodd i'r Taleithiau cyfunawl.

# GWLEDYDD YN PERTHYN I YSPAEN YN NGOGLEDD BARTH AMERICA.

MAE yn perthyn i Yspaen yn ngogledd-barth America wledydd tra eang, sef y ddwy Fflorida, Mexico, neu Yspaen newydd, a Mexico newydd. Mae yr Yspaeniaid hefyd yn honni hawl yn holl ardaloedd gogledd orllewin America tan yr enw Califfornia newydd. Ond yn ol y darluniau Saesonig, nid yw y terfyn gogledd yn estyn yn mhellach na llyn Turtle, o'r hwn mae yn tarddu un o flaenau y Mississippi. Y terfyn gorllewin ydyw holl arfordir y mor Tawel o borthladd Syr Ffrancis Drake hyd at y cyfyng-dir sydd yn cydio gogledd-barth a deheu-barth America yn nghyd: ei hyd sydd o ddeutu 2,000 o filltiroedd, a'i lled sydd yn lleihau o 7 neu 800 milltir rhwng Califfornia a Fflorida, hyd onid ydyw yn 25 milltir yn nghyfyng-dir Panama.

Bellach rhoddir ychydig ddysgrifiad o bob un o'r gwledydd hyn yn benigol.

## FFLORIDA.

*Sefyllfa. Cylchynoedd. Maintioli.. Gwyneb y wlad. Hinsoddau.. Afonydd.. Anifeiliaid.. Trefydd.. Llywodraeth.. Hanes.*

MAE y wlad hon tan yr enw y ddwy Fflorida, yn gorwedd rhwng lledred 25° a 32°G.; a rhwng hydred 80° a 91°G.; yn 600 milltir o hyd a 400 o led, ac yn cynnwys 60,000 o filltiroedd arwynebol. Ei therfynau ydynt Georgia ar y tu gogledd, afon Mississippi ar y tu gorllewin; culfor Mexico ar y tu de; a chyfyng-for Bahama ar y tu dwyrain.

GWYNEB Y WLAD. HINSODDAU.] Mae gwyneb y wlad hon yn wastad yn gyffredinol: yr holl arfordiroedd am 40 milltir oddiwrth y mor sy dir tywodlyd, ond yn cynyrchu cnydiau toreithiol o rawn a ffrwythydd. Ei mynydd-dir sydd yn dra-llawn o goed mahogani, ffawydd, cyffuriau meddygol, a llysiau amrywiol ereill. Mae hinsoddau Fflorida yn lled debyg i hinsoddau Georgia, sef bod gwres anaele yr hâf yn cael ei leddfu gan awelon oddiar y môr, a bod y gauaf yn ddigon tymherus i blanhigion tyner dyfu ynddi trwy ystod y tymhor hwnw.

AFONYDD.] Y brif afon y sydd yn perthyn i'r wlad hon yw y Mississippi, yr hon sydd yn cael ei chyfrif yn un o'r afonydd mwyaf ar y

ddaear, canys wrth ddilyn ei hymylau troellog, mae ei hyd yn llawn 3,000 o filltiroedd. Y Mobile, yr Apalachicola, a'r St. Joan ydynt hefyd yn afonydd mawrion.

Anifeiliaid.] Mae yma liosogrwydd o feirch, gwartheg, defaid, a moch fal yn y taleithiau cyfagos. Yn mhlith ei gwylltfilod mae y bual, y panther, y gath wyllt, y dyfrgi, y racoon, y wiwair hedegog, yr opposum, yr armadillo, ac amrywiol rywogaethau o seirph. Adar gwyllt a dof ydynt hefyd yn dra lliosog, ac y mae yr afonydd yn dra helaeth eu pysgod.

Trefydd.] Pensacola, prif dref Fflorida orllewinol, sydd yn sefyll yn min culfor o'r un enw: tref fechan yw hon, er hyny mae ynddi rai adeiladau lled hardd. Ei phorthladd sydd anghyfleus gan y traethelli cyfagos, i longau lled fawrion ddyfod iddi

St. Augustine, prif dref y gyfran arall sydd a'i hadeiladau yn fwy trefnus o osodiad na'r llall, ond nid mor lliosog o drigolion: mae yn gyfagos i hon ddwy amddiffynfa gadarn, ac y mae ei phorthladd yn eang a chyfleus.

Llywodraeth.] Llys Yspaen sydd yn danfon llywyddion i lywodraethu ei holl ardaloedd tramor, y rhai fal eu harglwyddi ydynt a'u rhwysg am fawredd yn ddiderfyn. A chan nad oes rhyddid ynddynt i unrhyw enw crefyddol onid pabyddiaeth yn unig, mae arweddiad dra anynol a llym ar bawb na's addefont hi yn benaf o unrhyw arall. Y dull o ddosbarthu cyfiawnder sydd yma yn lled debyg i'r dysgrifiad am Yspaen.

*Hanes.*] Darganfuwyd y wlad hon gan Sebastian Cabot yn 1497. Bu yn olynol yn meddiant y Ffrancod a'r Yspaeniaid. Y Ffrancod yn 1564 oeddynt y cyntaf a ddaethant yn drefedigion i'w phreswylio, ond daeth mintai fwy o Yspaen y flwyddyn ganlynol, ac a'u herlidiasant ymaith, ac yna daeth lluoedd ychwanegol o Yspaen atynt. Yn yr heddwch a wnaed yn 1763, rhoddodd Yspaen feddiant o Fflorida i Loegr yn lle Havannah, yr hon oedd yn y rhyfel rhwng y galluoedd hyny, gwedi ei goresgyn gan luoedd Prydain. Tra y bu Fflorida yn meddiant y Saeson y rhanwyd hi yn ddwy gyfran, ac afon Apalachicola oedd y terfyn rhyngddynt. Yn y rhyfel gyntaf ag America yn 1781, gorthrechodd lluoedd Yspaen y trefedigion Saesonig oedd yn ei meddiannu, a nhwy o'r pryd hyny hyd y pryd hwn sy mewn meddiant o rwysg y wlad.

# MEXICO,

## NEU YSPAEN NEWYDD.

### DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Cylchynoedd.. Maintioli...Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir. Hin a thymhorau.. Afonydd. Llynau.. Mwngloddiau.. Dinasoedd a threfydd.. Anifeiliaid.*

MAE y wlad hon yn gorwedd yn nghwr isaf gogledd-barth America, sef rhwng lledred 8º a 30ºG. a rhwng hydred 96º a 110ºG. yn 1,000 o filltiroedd o hyd a 500 o led; ac yn cynnwys 318,000 o filltiroedd arwynebol. Ei therfynau ydynt Mexico newydd ar y tu gogledd; culfor Mexico ar y tu dwyrain; a môr mawr y de ar y tu deheuol a gorllewinol.

RHANIADAU.] Rhenir Mexico yn dair talaeth fal y canlyn, sef,

| *Dosbyrth.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|
| 1. Galitia, neu Guadalajarra | Guadalajarra. Mexico. |
| 2. Mexico | Acapulco. Vera Cruz. |
| 3. Guatimala | Guatimala. |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Mexico sy wlad isel yn gyffredinol, hyd onid elir i'w pharthau gorllewinol y sydd yn terfynu ar for mawr y de, lle y mae y tir yn codi yn raddol hyd onid yw yn terfynu yn drumau mynyddig uchel. Bydd yr holl ardaloedd sydd yn terfynu ar y mor dwyreiniol o dan ddwfr tra ystod y tymhor gwlawog; yr hyn sydd yn ei wrteithio yn rhagorol erbyn sychder hâf. Mae yma hob ffrwythydd sydd yn ngwledydd ffrwythlonaf Ewrop yn dra helaeth, sef, pomgranadau, afalau, orein, lemonau, ffigys, cnau, cyffuriau meddygol, &c. Melinau sygr sy hefyd yn aml tros y wlad hon. Ond y cynnyrch gwerthfawrocaf ynddi, yn nesaf i aur ac arian ei chloddfeydd yw y cochineal a'r cocoa: y cyntaf ydynt fath o bryfaid, y rhai yn nglyn wrth y llysieuyn a elwir *Opuntia*, ydynt yn cael eu cynnaliaeth wrth sugno ei ffrwyth, ac yna yn dyfod yn addas i liwio porphor ac ysgarlet, ac hefyd o wneyd meddyglyn addas i beri chwys: dywedir bod tros 400 tunell o'r pryfaid hyn yn cael eu danfon yn flynyddol oddiyma yn gyffuriau meddygol a thu ag at liwio. Y cocoa, o'r hwn y gwneir chocolate sydd yn tyfu ar bren o faint canolig, ac mewn codenau arno fal ar gallod ffâ mae y cocoa: danfonir hefyd o'r ffrwyth maethgar hwn gantoedd o dunelli yn flynyddol i wledydd tramor.

HIN A THYMHORAU.] Gan bod y wlad hon yn gorwedd agos oll o fewn y gwregys llosg, mae yn rhaid i'w hinsoddau fod yn boethion, er hyny mae agosrwydd y môr i'w holl ranau oddigerth y broydd gogleddol yn lleddfu ei awchlymder i gryn raddau. Bydd y gwlawogydd sydd agos trwy ystod y gauaf yn gorllifo yr holl diroedd isel, ac yna wrth iddynt sychu mae y tawch sydd yn esgyn i fynu yn dra niweidiol i iechyd y trigolion. Bydd hefyd rai tymhestloedd trymion yn gyffredin o'r gogledd trwy ystod y tymhor hwn; ac weithiau yn niweidio y gwinllanoedd a'r cyffelyb yn ddirfawr.

AFONYDD. LLYNAU.] Mae yn y wlad hon liaws o afonydd, rhai a'u haberoedd yn nghulfor Mexico, a'r lleill yn ymarllwys i fôr mawr y de. Yn mhlith y blaenaf mae yr Alvarado, y Coatzalualco a'r Tabasco; ac yr hynotaf yn mhlith y lleill yw y Guadalaxara, neu yr afon fawr. Y prif lynau ydynt yn Nicaragua, Chappalan a Pazaquaro: llynau Tetzuco a Chalco, ydynt yn llenwi rhan fawr o ddyffryn Mexico, yr ardal brydferthaf o unrhyw yn y wlad hon: yr oedd y blaenaf o'r llynau hyn gynt yn 20 milltir o hyd a 17 o led, ond y mae y pryd hwn yn llawer llai: ar ynys yn y llyn hwn mae dinas Mexico yn sefyll.

MWNGLODDIAU.] Dyma y wlad liosocaf ei chloddfeydd o aur ac arian o unrhyw yn ngogledd-barth America: mae tros fil o gloddfeydd arian ynddi, a'r rhan fwyaf o honynt yn nhalaeth Mexico, ac y mae gronynau aur yn nhywod ei hafonydd a'i ffrydiau, heblaw y sydd yn nghloddfeydd gwerthfawr Veragua a Granada newydd, ar derfyn Darien a Terra firma. Gwedi cloddio allan y mŵn blith-dra-phlith a'i sorod, a defnyddiau brithliw ereill, mae yn cael ei roddi mewn melin i'w fras-falu, fal y byddo

rhwyddineb i'w olchi oddiwrth yr amburedd mwyaf, ac yna cymysgir y mwn ag arian byw, yr hwn sydd yn ei ddidoli oddiwrth ei holl sorod, ac yn olaf trwy ddyhidliad ac effeithiau myg-darthiad, gwahenir yr arian byw yn llwyr oddiwrth y defnydd pur. Dywedir bod aur ac arian yn gyfartal i 24 miliwn o bunnoedd yn cael eu danfon yn flynyddol o'r wlad hon a thaleithiau ereill y sydd yn perthyn i Yspaen yn y gorllewin-fyd, i amrywiol wledydd y ddaear. Mae yn Mexico hefyd gloddfeydd gwerthfawr o efydd, haiarn, a phlwm; ac, y mae yn ei mynydd-dir feini gwerthfawr a elwir yr emerallt, turquoise, amethyst, diemwnt, ac amryw ereill.

DINASOEDD.] Prif ddinas y wlad hon yw Mexico, yr hon sydd yn sefyll ar lyn Tetzuco, mewn dyffryn cylchynedig gan fynyddoedd. Mae yr ynys a gynnwysai yr hen ddinas gynt, weithian yn rhy fechan, felly gorfuwyd seilio rhai o'i hëolydd ar golofnau yn y llyn. Nid oedd gynt onid sarnau yn ei chydio a'r lan, ond y mae y pryd hwn forfeydd ëang yn terfynu ar du gorllewin y ddinas, ac wrth hyny rhaid bod dyfroedd y llyn yn lleihau.* Mae yr heolydd yn llydain a'r tai fal yn ninasoedd Yspaen yn lled hardd o wneuthuriad. Y prif adeilad ynddi yw llys y llywydd, yr hwn sy mewn petrual fawr yn nghanol y ddinas, a'r brif eglwys ar un tu iddi, a'r bâthdy yr hwn sydd â 100,000 o ddynion ar waith yn wastadol ar y tu arall. Y lleill ydynt yr eglwysi, capeli a mynachdai lliosog, hynod am yr aur, arian a meini gwerthfawr y sydd yn eu goreuro. Mae canllaw allor fawr y brif eglwys o arian cyfan-gorff, ac felly y lamp berthynol iddi, yr hon sy ddigon ëang i gynnwys tri o ddynion ar unwaith i'w glanhau. Delw y forwyn Mair a phrif seintiau ereill ydynt o arian cyfan-gorff neu gwedi eu gwisgo ag aur coeth neu feini gwerthfawr. Ar fin y dref mae y chwil-lys, ac yn agos iddo mae petrual a elwir *Quemadero*, yr hon sy lawn o ffwrn dai i fwrw iddynt Iuddewon neu unrhyw na addefont rwysg yr eglwys babaidd, i'w llosgi yn fyw. Y trigolion rhwng Yspaeniaid, ac epil yr Indiaid y rhai a'i meddiannai gynt, ydynt o ddeutu 200,000

Vera Cruz, yn sefyll ar fin culfor Mexico yw y ddinas fwyaf ei threfnidiaeth o unrhyw yn America: o borthladd ëang hon y diwellir yr holl fyd ag aur ac arian taleithiau Yspaen yn America: ynddi mae y rhan fwyaf o ddaoedd Ewrop y sydd yn cael eu danfon i'r ardaloedd hyn yn tirio gyntaf. Mae yn idi rai adeiladau gwych, ond nid yw ei hinsoddau yn iachus gan y tawch y sydd yn esgyn o'r corsydd cyfagos. Y trigolion ydynt o ddeutu 4,000.

Acapulco sydd yn sefyll ar du gorllewin y wlad hon, sef ar fin Mor mawr y de: mae ei phorthladd yn ddigon ëang i gynnwys rhai cantoedd o longau ar unwaith, ac y mae rhai amddiffynfeydd cedyrn yn gyfagos iddi. Hon sydd hynod am y drefnidiaeth a wneir ynddi yn flynyddol ag ynysoedd Manilla.

Guatimala oedd dref hardd hyd y difrod y ddaeth arni y seithfed o Mehefin 1773 gan ddaear-gryn, yr hon a'i llyncodd agos oll, a thros

* Mae yn debyg mai gwedi y flwyddyn 1629 y daeth y morfeydd i'r golwg, pan y gorllifodd llynoedd y dyffryn hwn eu ceulenydd, ac y bu raid tori camlas trwy fynydd i'w ddyhysbyddu. Mae yn sicr mae ar sail yr hen ddinas y mae y newydd yn sefyll arno, ac mai yn y man yr oedd llys Montezuma yr adeiladodd Cortes lys arall, yr hwn fu am flynyddau lawer yn annedd am ardreth i epil Cortes, ac sy weithian yn llys llywydd Mexico. *La croix*. ii. 381.

wyth mil o deuluoedd. Adeiladwyd tref newydd yn gyfagos iddi o'r un enw, sydd y pryd hwn yn dra phoblog. Mae amryw ddinasoedd ereill yn y wlad hon, sef St Iago, Carthago, San Salvador, Sant Antonio, Santa Fê, a lliaws ereill, y rhai ni oddef cylch y gwaith hyn eu holrhain.

ANIFEILIAID] Trosglwyddwyd gyd a'r trefedigion cyntaf o Ewrop a lleoedd ereill i'r gwledydd hyn feirch, gwartheg, defaid, môch ac ereill, ac y maent y pryd hwn mor lliosog a bod anial-leoedd y wlad yn llawn o honynt, a miloedd o honynt yn enwedig y gwartheg a'r meirch yn cael eu hela er mwyn eu crwyn yn unig. Yr anifeiliaid oeddynt yma cyn trosglwyddiad y lleill i'r wlad ydynt y puma a'r jaquar, y rhai ydynt y llew a thiger America; cwn Mexico ydynt fath o ballasg: cathod gwylltion, llwynogod, gwiweir ac yr armadillo ydynt yma yn lliosog. Mae yma hefyd amrywiaeth o adar, ac weithiau byddent yn beidiau diamgyffred, fal y crybwyllwyd am y cyfryw yn hanes Abyssinia.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Priodi a chladdu.. Llywodraeth.. Crefydd.. Trefnidiaeth.*

DYWEDIR bod yn Mexico 500,000 o Yspaeniaid, miliwn o negroaid a dynion melyn, ac o ddeutu dwy filiwn o epil yr Indiaid cyntaf. Y trigolion yn holl daleithiau Yspaen yn ngogledd-barth America ydynt o ddeutu 7 miliwn; sef un miliwn o Yspaeniaid, pedair o Indiaid a dwy o drigolion cymmysg-liw.

MOESAU AC ARFERION] Ychydig o wahaniaeth sy rhwng arferion yr Yspaeniaid yn y gorllewin-fyd ag yn y fam-wlad, oddigerth eu bod yn hytrach yn fwy coel-grefyddol Maent yn ymwisgo yn gyffredin mewn sidanau, ac y mae eu capeni gwedi eu goreuro ag ysnodenau o aur a meini gwerthfawr: mae hyd yn nod eu caethion yn gwisgo breichledau a chadwynau o aur neu emmau. Y benywod ydynt led brydferth ond hynod am eu llygriad mewn nwyfiant anfanol.

Y Mexicoaid, sef epil y cyntefigion ydynt o faintioli canolig, hardd o gorffolaeth ac yn wineuddu o liw: eu talceni ydynt gulion, llygaid duon, dannedd claer wynion ac o yn rheolaidd osodiad, a'u gwallt sy ddu ac yn ddysglaer. Nid ydys yn eu golygu yn gyffredinol yn hardd nag yn anhardd ond megys yn ganolig, er hyny mae rhai o'u merched y sydd yn ymgadw yn wastadol o dan dô, yn odiaeth o deg a phrydferth.

Mae y Mexicoaid yn dra chymhedrol yn eu hymborth, ond er pan ddyddymwyd y gyfraith oedd yn gwahardd meddwdod, maent yn ymroddi i yfed dyfroedd poethion hyd onid ydyw y naill hanner o'r genedl gwedi ymddirywio i syrthni, a diogi; ac i fod yn fwy pŵl mewn crefft a chelfyddyd: cyn hyny yr oedd rhai o'r Mexicoaid gwedi eu haddysgu gan Ewropiaid yn arddangos medrusrwydd mewn celfyddydau rhif a mesur, a'r cyffelyb.

PRIODI A CHLADDU.] Pan fyddo unrhyw fab o'r Mexicoaid gwedi dyfod i oedran addas i briodi, mae ei gyfeillion yn pennu gwraig iddo, ond cyn yr unir hwy yn nghyd, mae yn rhaid ymofyn â dewiniaid, ac yn ol y dywedont hwy y bydd naill a'i undeb dïatreg, neu oediad hyd

amser addas. Os swynant ddaioni a llwyddiant i'r ddeu-ddyn, mae hen wrageddos addas i'r gorchwyl yn cael eu danfon i annedd y ferch ar ganol nos i'w gofyn i'w rhieni, i ddyfod i gyflwr priodasol. Gwrthodiad yn cael ei roddi yn wastadol i'r gofyniad cyntaf, maent yn myned y nos ganlynol, ac yn adrodd yn helaethach am fonedd a pharch y gwr ieuanc, ac yna mae rhieni y fenyw yn rhoddi ateb mwy tyner nag o'r blaen, ac o'r diwedd maent yn cydsynied. Gwedi penu dydd addas i uno y ddeu-ddyn yn nghyd, mae y ferch ieuanc gwedi cael cynghorion dwys gan ei rhieni i ymfucheddu fal y dylai, yn cael ei harwain i annedd ei darpar-wr, yr hwn gyd â phedair o ferched â thorchau tanllyd yn eu dwylaw sydd yn dyfod ychydig oddiwrth ei dy i'w derbyn. Pan ymgyfarfyddont bydd y naill â'r llall yn arogl-darthu i'w gilydd. Gwedi hyn arweinir y ddau i'r tŷ, a gosodir hwynt i eistedd ar lawr-len wych, ac yna rhwyma offeiriad arwisg y naill wrth y llall, a chyhoeddir hwynt yn wr a gwraig. Ar ol hyn gwneir aberthiad o anifeiliaid i'w duwiau, a bydd dawns a cherddoriaeth yn dilyn am bedwar diwrnod gan y gwahoddedigon ond tra byddo hyn ar droed mae y ddeu-ddyn ieuanc mewn céll glöedig yn treulio yr holl amser mewn ympryd a gweddi. A phan ddarfyddo hyny maent hwythau am bedwar diwrnod ereill yn cyd lawenhau â hwynt, a gwedi rhoddi anrhegion i'w ceraint a'u cyfeillion penaf, maent yn cludo eu hoffrwm o ymborth a gwisgoedd i deml eu duwiau, a yna bydd y ddefod drosodd.

Mor fuan ag y byddo angau gwedi gwneyd ei waith, mae hen wyr addas yn cael eu gwahodd i mewn i barotoi y corff. Y peth cyntaf a wnelynt yw darnio llen o bapur a'i thaenu tros yr holl gorff, a thaenellu ychydig o ddwfr tros y pen, gan adrodd, "dyma oedd y dwfr a arferyd yn amser bywyd" Yna gwisgant y corff mewn gwisg addas i'w sefyllfa yn y byd. Os buasai ryfelwr, rhoddir gwisg rhyfelwr am dano; os trefnidiwr neu grefftwr, rhoddir am dano wisg eulun cynnorthwyol y gelfyddyd ac os meddwyn, amdöir ef yn ngwisg duw y gwin.

Gyd a'r wisg, rhoddant i'r marw lestraid o ddwfr, a darnau o bapur fal tocynau. Wrth roddi y tocyn cyntaf arno, dywedant, "Trwy rinwedd hwn ti a ei yn ddiangol heibio y ddau fynydd y sydd yn ymladd yn erbyn eu gilydd." Gyd a'r ail dywedant, "yr â yn ddiangol ar hyd y ffordd y sydd yn cael ei hamddiffyn gan y sarph fawr," ac adroddiadau cyffelyb ar roddiad y lleill.

Gwedi hyn mae y corff yn cael ei gludo gan yr hen wyr i fryn cyfagos i'w losgi; a bydd ef yn cael ei losgi gyd ag ef i fod yn gydymaith iddo tra y byddo ar y daith i'r byd arall. Tra y byddo y tân yn cyneu, mae yr offeiriaid yn canu yn gwynfanus hyd oni ddarfyddo y ddefod. Gwedi hyn dodir lludw y corff mewn celwrn, a dodant ynddo ddarn o aur neu em gwerthfawr, yr hwn a haerant a gyfnewidir yn galon newydd i'r marw yn y byd arall, ac yn mhen y pedwar ugain niwrnod ânt yno i offrymu iddo fara a gwin.

Pan fyddo tywysog farw, lleddir yn ddiatreg ugeiniau o'r negroaid neu unrhyw gaethion a fyddo ganddynt i weinyddu iddo yn mro anfarwoldeb.

Llywodraeth.] Yr oedd pob gallu llawnrhwysg yn gyfleuedig yn ymerawdr Mexico cyn y goresgyniad gan yr Yspaeniaid, ac yr oedd tywysogion ar yr amrywiol daleithiau yn meddu y cyffelyb rwysg ar eu deiliaid hwythau, ond yn atebol am eu goruchwyliaeth i'r ym-

erawdr: a chan na wyddent am ysgrifenu, nid oedd ganddynt ddeddflyfr: arferion eu hynafiaid yn unig oeddynt y cyfreithiau gwladol.

Mae y llywodraeth wladol y pryd hwn fal y soniwyd ar lywydd o Yspaen, yr hwn sydd a'i rwysg yn llawer mwy nag unrhyw ereill o lywyddion Yspaen yn y gorllewin-fyd: mae yn perthyn iddo warcheidwaid o wyr meirch a gwyr traed, yn llawn mor lliosog ag y sydd yn perthyn i unrhyw o frenhinoedd Ewrop.

CREFYDD.] Pabyddiaeth sydd yma yn grefydd wladol; ac nid oes rhyddid i unrhyw arall, ond bwrw i'r ffwrndai cynifer na'i haddefo: rhoddir rhyw fath o ryddid i'r Mexicoaid i ymrithio weithiau yn nhemlau eu duwiau, yn nghysgod bod yn bleidgar i ddeiliaid Babel.

Ymddengys bod crefydd yr hen Mexicoaid gwedi ei seilio ar ofn, oherwydd bod muriau eu temlau yn llawn o luniau bwystfilod dinystriol, a bod penyd, ymprydiau, ymarcholli, ac arteithiau yn llunio prif hanfod eu defodau crefyddol. Dynion a gyfrifent yn aberthau mwyaf cymeradwy, ac felly byddai artaith echrys ar y carcharorion anneddwydd a wnelynt mewn rhyfel.

TREFNIDIAETH.] Danfonir oddiyma fal y soniwyd aur, arian, a meini gwerthfawr i amrywiol wledydd yr hen fyd, ac y mae cryn gyfnewid ar ddäoedd rhyngddi â Pheru ac ag amryw o ynysoedd Môr mawr y de: dywedir bod y bumed ran o drysorfa ei chloddfeydd yn unig yn rhoddi dwy filiwn o bunnoedd yn flynyddol i frenin Yspaen.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Mexico.*

YCHYDIG a wyddid am gyn-drigolion y wlad hon cyn ei goresgyniad gan Cortes: yn ol y traddodiadau oedd ar droed y pryd hwnw, dywedai y Mexicoaid mai amrywiol dylwythau o anwariaid oedd eu hynafiaid, y rhai o ddeutu y ddegfed ganrif oeddynt gwedi dyfod o ardaloedd oedd i'r gogledd orllewin, a daearu yn y gwastadedd oedd yn terfynu ar y llyn mawr oedd yn nghanol y wlad. Yr oeddynt ar y cyntaf yn cael eu llywodraethu gan swyddogion gwladol, ond pan ddaeth eu hardaloedd yn fwy eang, penodwyd un o honynt i fod yn brif beniaeth. Ac o'r hanes mwyaf cywir a ellid gasglu, yr oedd 197 o frenhinoedd er pan y rheolasai Acamapitzin yr ymerawdr cyntaf, hyd derfyn rhwysg Guatimozin gan arfau yr Yspaeniaid.

Gresynus yw bod meddianwyr y wlad fràs hon mor ofergoelus a'u bod yn ymroddi a'u holl egni i rwystro egwyddorion gwybodaeth a dysg i dreiddio iddi. Rhaid o'r diwedd gan liosogrwydd eu hoffeiriaid, mynachod, lleianod, ac urddolion ereill yn tarfu pob daioni, i ddewrder y trigolion farweiddio cymmaint, fal nas gallont rwystro i'w hardaloedd ddyfod yn ysglyfaeth i'w cymydogion bywiog a medrus sydd yn preswylio ardaloedd de ddwyreiniol y wlad.

# MEXICO NEWYDD.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Taleithiau.. Gwyneb y wlad.. Hin a thymhorau.. Trigolion.. Hanes.*

MAE y wlad hon yn gorwedd rhwng lledred 23° a 43°G. a rhwng hydred 90° a 126°G. yn 2,000 o filltiroedd o hyd, 1,400 o led, ac yn 600,000 o filltiroedd arwynebol. Mae Louisiana yn terfynu ar y tu gorllewin, a thiroedd anolrheiniedig ar y tu gogledd.

RHANIADAU.] Taleithiau Mexico newydd ydynt bedair o rifedi, fal y canlyn.

| *Taleithiau.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|
| Mexico | Santa Fe. |
| Apacheira | St. Antonia. |
| Sonora | Tuape. |
| California | S. Juan. |

GWYNEB Y WLAD.] Ychydig iawn a wyddis am ansawdd y wlad hon: braidd y gwyr yr Yspaeniaid y sydd yn ei meddiannu nemawr am dani, ac os gwyddont nid ydynt yn chwennych i neb arall wybod. Mae rhai ymdeithwyr gwedi treiddio ychydig iddi yn ei dysgrifio yn wlad dra ffrwythlawn: bod afonydd mawrion yn troelli trwy ei dyffrynoedd a'i gwastadoedd ëang; a bod coed ynddi yn llawn mor lliosog ac yn y Taleithiau cyfunawl y sydd yn yr un lledred. Mae yn ymddangos oddiwrth y cyflawnder o aur a ddanfonir o'r wlad hon i Mexico, bod ei chloddfeydd yn dra gwerthfawr. California sy led fynyddig, ond eto yn ffrwythlawn mewn coed, llysieu, grawn a ffrwythydd: mae yma wastadoedd ëang yn llawn o halen, yr hyn gyd a'r cyflawnder o bysgod sydd yn y moroedd cyfagos a'i gwna yn werth i unrhyw drefedigion rhydd heb fod yn ofergoelus fal Yspaeniaid i'w phreswylio.

HIN A THYMHORAU.] Mae hinsoddau y wlad hon yn dra hyfryd, heb fod oerni y gauaf na gwres yr haf yn unrhyw flinder. Ond mae agosrwydd Califfornia i'r de yn peri i'r tymhor haf fod yn dra mwll ynddi, ac yn gyffredin yn lled afiach.

TRIGOLION.] Mae yr ychydig Yspaeniaid y sydd yn cyfanneddu y wlad hon yn dra gwasgarog, ond y maent yn cynyddu wrth fal y darganfyddir mwngloddiau newydd. Mae y rhan fwyaf o'r Indiaid y sydd ynddi gwedi cofleidio Cristionogaeth yn ol defodau Rhufain, ac felly gwedi ymwareiddio i raddau mawr, yr hyn a ymddengys wrth eu bod yn trin y tir, ac yn cludo grawn a gwin i farchnadoedd Mexico. Cenhadon o Yspaen sydd yn dra thrwyadl wrth y gorchwyl o argyhoeddi yr anwariaid hyn i ddyfod o faglau anwybodaeth i'r iawn. Y llywodraeth wladol sydd ar lywydd o Yspaen, yr hwn sydd yn trigfannu yn Santa Fe.

*Hanes.*] Y parthau a ddarganfuwyd gyntaf o'r wlad hon gan Cortes, goresgynydd Mexico, oedd Califfornia, ond gan na chafwyd unrhyw gloddfeydd yn agos i'w harfordiroedd ni wnaed braidd unrhyw sylw o honi am flynyddau lawer gwedi. Yn 1578, tiriodd y llyngeswr Syr Francis Drake ynddi, ac a'i meddiannodd yn enw pen coronog Prydain fawr, ond ni ddanfonwyd trefedigion iddi, ac felly gollyngodd Prydain ei hawl o honi, ac yr Yspaeniaid y sydd y pryd hwn yn ei meddiannu.

# CALIFFORNIA NEWYDD.

## YN CYNNWYS HOLL ARDALOEDD GOGLEDD ORLLEWIN GOGLEDD-BARTH AMERICA.

MAE yr ardaloedd tra anhysbys hyn yn terfynu ar Wynedd a Deheubarth newydd yn nhueddau môr Hudson, ardaloedd sydd ar du gorllewinol llynau Canada, ac ardaloedd perthynol i'r Taleithiau cytunawl ar du y dwyrain; Louisiana, Mexico newydd, a gogledd-barth Califfornia ar y tu de; Mor mawr y de ar y tu gorllewin; a'r môr cyfogledd a thiroedd anhysbys ar y tu gogledd.

Ychydig a wyddid am yr ardaloedd hyn hyd oni theithiodd Mr. Hearne trwyddynt yn 1771, a Syr Arthur Mackenzie yn 1789 a 1793. Ni wyddid cyn hyny am ei hansawdd yn mhellach na llynoedd Canada ar un tu, ac yr arfordiroedd gorllewinol ar y tu arall.

Cychwynodd Hearne yn 1769 o gastell Churchill ar lenydd gorllewin môr Hudson, ac ymgyfeiriodd rhyngddo a'r gogledd, a chyn cyrhaedd cilfach Chesterfield ar lenydd yr un mor, olrheiniodd lynau Doobant, ac ychydig i'r gorllewin oddiyno darganfu lyn mawr Athapescow, yr hwn sydd a'i ganol yn lledred 62° a hydred 125°. Oddiyno aeth rhagddo tu a'r gogledd hyd oni ddaeth i lenydd afon efydd, yr hon a ddilynodd hyd ei chydiad a'r mor cyfogledd, a chan nad oedd yno ond rhew oesol yn toi holl wyneb y mor, profwyd yn eglur nad oedd agored i longau rhwng America a'r gogledd, i barthau cyfogledd Asia ac Ewrop. Yn ei daith canfu finteioedd lliosog o fwsg-geirw ac eirth cyfogledd. Gwedi dyfod fal hyn i olwg y môr yn lledred 70°, "Mi ymroddais" meddai, "i olrhain yr aber yn fanwl, ond erbyn nesau ato, gwelwn bod yno draethelli a rheiadrau nad oedd modd mordwyo yr afon hyd ato. Yr oedd y môr gwedi treio y pryd yr oeddwn yno, ond yr oedd nôd gorllanw yn amlwg ar y clogwyni rhew yn dangos bod y llanw yn codi o 12 i 15 troedfedd, er hyny yr oedd y rheieidr yn rhwystro imi gyrhaedd onid ychydig y tu uchaf i aber yr afon. Mae yn sier genyf mai y môr ydoedd, ac nid llyn mawr o ddwfr croyw: yr oedd y lliosogrwydd o esgyrn morfilod, a chrwyn molrhoen oedd yn anneddau yr Indiaid a elwir Iskimo oedd yn preswylio yn gyfagos, ac hefyd y lluoedd o folrhoen oedd ar y cludeiriau rhew yn profi hyny. Yr oedd lliaws o ynysoedd yn ymestyn ar draws yr aber, ac yr oedd y rhew am hanner milltir oddiwrth y lan gwedi ymdori, a pheth arwydd dadmar arno." Ar ei ddychweliad, olrheiniodd y teithiwr hwn lenydd llyn mawr Athapescow, yr hwn yn ol dywediad yr Indiad sy 360 milltir o hyd a 60 o led: mae yn hwn liaws o ynysoedd yn llawn coed, ac y mae ei ddyfroedd yn heigio pysgod. Oddiyno aeth rhagddo ar draws y wlad a chyrhaeddodd gastell Churchill yn 1772, o'r lle y cychwynasai, gwedi bod dair blynedd ar ei daith.

Cychwynodd Syr Arthur Mackenzie mewn cwch o gastell Chepiwya, ar du de llyn y bryniau yn Meh. 1789, ac aeth rhagddo ar hyd yr afon gaeth i'r llyn Caeth, o'r lle y mordwyodd afon y sydd a'i enw arni, hyd oni chyrhaeddodd y môr cyfogledd. Dywed y teithiwr hwn bod yr afon gaeth yn llydan a dofn, ac mai oherwydd anwareidd-dra ystyfnig yr Indiaid cymydogaethol y rhoddir y cyfryw enw ar yr afon a'r llyn. Yr oedd caenen o rew tros y llyn hwn ar y dydd hwyaf,

ac eto yr oedd ei lenydd yn llawn o goed ffawydd, poplys, a bedw. Yr oedd yr afon y sydd a'i enw arni mewn rhai manau yn 40 llath o ddyfnder, a'i lled cyffredin yn 300. Ar yr 11 o Gorphenaf, gwelai yr haul yn gryn uchel goruwch y Terfyngylch ar ganol nos, ac yn fuan gwedi daeth i aber yr afon, o'r lle y gwelai y môr yn llawn o faesydd a chludeiriau rhew, a lliaws o forfilod yn nofio rhyngddynt. Dychwelodd y teithiwr hwn o'i daith gyntaf gwedi bod 102 o ddyddiau o gastell Chepiwya, â phrawf ychwanegol nad oedd mòdd morddwyo yn nhueddau y gogledd, o'r môr Werydd i Fôr mawr y de, ac os oeddynt yn ymgydio, yr oedd yn rhaid mai yn agos i'r pegwn yr oeddynt, sef mewn lle y sydd â rhew oesol yn ymbentyru o oesoedd cyntaf y byd.

Aeth y teithiwr enwog hwn eilwaith yn 1792 o'r un lle i olrhain yr ardaloedd gorllewinol: cychwynodd ei daith ar afon Unjiga hyd oni chyrhaeddodd y mynyddoedd cerygog, a gwedi trosglwyddo eu cwch bach trostynt cawsont flaenau afon Oregan, yr hon hefyd a elwir afon fawr y gorllewin, ac afon Columbia. Gwedi hwylio am rai dyddiau ar hon, trwy wledydd coediog anial yn llawn o eirth, ceirw, ac anifeiliaid ereill, aeth Mackenzie rhagddo ar y tir gan gyfeirio i'r gorllewin, hyd oni ddaeth i lenydd y môr Tawel gogleddol, yn lledred 52° 20'G. Dychwelodd Mackenzie yn ol ar afonydd cyfagos i'r lleill gwedi bod blwyddyn lawn ar ei daith.

Y Russiaid oeddynt y cyntaf a ddarganfuasant yr arfordiroedd gorllewin o Albion newydd hyd ynysoedd terfyn deheuol cyfyngfor Bhering: rhoddir hanes am yr ynysoedd cyfagos wrth olrhain ynysoedd môr mawr y dê.

Bellach rhoddir ychydig hanes am foesau ac arferion yr amrywiol lwythi o Indiaid y sydd yn cyfanneddu ardaloedd gogledd-orllewin gogledd-barth America.

## *INDIAID CANADA.*

MAE yr Indiaid hyn yn bump cenedl amrywiol mewn cyfundeb gwastadol a'u gilydd, ac heb y naill o amseroedd anhysbys yn trawsarglwyddiaethu ar y llall. Yr enw a ddyry y Saeson arnynt ydynt Mohawks, Oneydos, Onondagos, Cayogas o Sennekas.

Mae pob un o'r cenhedloedd hyn yn cael eu llywodraethu gan flaenoriaid a alwant *Sachem*, y rhai ydynt yn cael eu dyrchafu i'r cyfryw anrhydedd o fysg y dewrion godidocaf. Yr oeddynt cyn i Ewropiaid gyfanneddu glenydd America yn honi eu bod yn rhagori ar y gweddill o ddynol ryw mewn gwybodaeth a dewrder, ac felly yr oeddynt gwedi dwyn yr holl Indiaid oedd mewn cyrhaedd iddynt yn deyrngedawl i'w gwlad: mae hyd yn nod y pryd hwn eu harswyd ar Indiaid y gogledd, y rhai ydynt yn ymostwng iddynt ac yn talu toll o wampum* i'r ddau *Sachem* hynaf yn flynyddol, y rhai gyd a swyddogion addas ydynt yn myned oddiamgylch i'w casglu, ac yna yn dyfod i'w rhanu yn ngwydd holl bennaethiaid y llwythi, mewn tref sydd yn sefyll agos yn nghanol y wlad. Pan y byddo ganddynt unrhyw neges a'r Prydeiniaid, Albany yw y lle y bydd swyddogion y naill a'r llall yn ymgyfarfod.

*Math o gregin gwedi cerfio arnynt, mwclys, a phethau cyffelyb.

Mae lliaws o'r Indiaid hyn yn cludo crwyn a phan-flew i farchnadodd Prydain newydd, ac wedi dysgu yr iaith Saesoneg a'r Ffrengig yn lled hyawdl, a thrwy y cyfryw gyfrinach rhyngddynt y daethwyd i wybodaeth o ansawdd eu moesau a'u harferion, yr hyn a grybwyllwyd yn lled helaeth am Indiaid America yn gyffredinol, ond yn benaf am y rhai hyn yn nechreu hanes y gorllewin-fyd.

Yn eu moesau cyffredinol tu ag at eu gilydd, mae yr Indiaid hyn yn rhagori braidd ar unrhyw yn mharthau gogleddol America: maent yn preswylio pebyll yr haf, ac mewn daeardai y gauaf: eu holl ddodrefn ydyw crochan, a thaclau hela a physgota. Y dull sy gan y rhai na allont brynu crochan yw rhoddi eu cig mewn llestr pren a dodi ceryg yn eirias wynion yn y dwfr hyd oni ferwo; ac ereill na allent hyn ydynt yn ei fwyta yn ammrwd.

Dysglaid flasus gan Indiaid America yn gyffredinol ydyw gwaed gwedi ei gymysgu a'r ymborth hanner traul a geffir yn nghylla y carw, yr hwn gyd ag ychydig o frasder yr anifail a ferwant hyd oni byddo yn drwyth gyd-dew: berwant hefyd erthylau eu gwartheg, byddod, afainc, &c. Dodwyd dysglau o'r rhai hyn o flaen Hearne a'i ganlynwyr, y rhai a'u haddefasant yn fwyd tra blasus. Oddiwrth y cyfryw ddysglau yr hanodd y ddiareb sydd yn cael ei harfer gan y trefedigion gogleddol, sef "Rhaid i'r neb a chwennycho wybod beth sy dda, fyw gyd a'r Indiaid."

## YR INDIAID GOGLEDDOL.

YR Indiaid gogleddol y sydd yn terfynu ar y llyn caeth, ac o ddeutu afonydd Mackenzie a'r afanc ydynt fyrion o gorffolaeth, ac fal y Laplandiaid yn anhardd eu gosgedd. Mae y rhai hyn gan rym yr oerni yn gorfod bod bedwar mis o'r flwyddyn mewn daeardai, ac y mae yr oerni weithiau yn dra blin am gryn ran o'r wyth ereill.

Mae holl feibion yr anwariaid hyn yn nodi eu bochgernau â llinelli o liw coch neu ddu, ac y mae ganddynt bluan gref neu bren main trwy ddeisban y ddwy-ffroen. Y gwisgoedd sy gan y meibion a'r merched yw crwyn ceirw.

Eu haneddau haf ydynt ychydig o bolion gwedi eu pwyo i'r ddaear, ac yn ymgyfarfod yn nen y babell, gan adael y ceinciau isaf i lunio meinciau, neu welyau, a thoi y cyfan â rhisg coed: gwneir dwy babell yn gyffredin fal yn nglyn a'u gilydd, fal y byddo tân yn y cyfwng rhyngddynt i weinyddu y ddau deulu. Yr holl ddodrefn ydynt llawrlen o risg i orwedd arni, crochan, ac offerynau hela a physgota; ac ar y tu allan bydd y cwch un-pren, yr hwn er iddo gludo ei feddianydd tros fôr tonog i godi ei rwydi, sy ddigon ysgafn i'w gludo adref tros nentydd a mynyddoedd uchel.

Pan y byddo unrhyw hen teulu yn cychwyn i daith i aros oddi cartref tros nos neu ychwaneg, mae yn tori cudun o'i wallt, ac yn ei rannu yn amrywiol ranau: un rhan a glyma wrth wallt coryn ei wraig, gan chwythu arno gyd a'i holl egni, ac adrodd swrn o eiriau, a'r lleill ydynt yn cael eu rhwymo ganddo wrth wallt ei blant, gan arfer y gyffelyb ddefod.

Nid oes unrhyw gyfarfodydd crefyddol gan yr anwariaid hyn, ac ni allai y teithiwr a fu yn eu plith ddeall bod ganddynt yr amgyffred

lleiaf am bethau ysprydol. Pa gyfarfodydd bynag a ddigwyddo fod ganddynt, yn briodi, claddu, neu'r cyffelyb, dawns a llawenydd dau grugleisio i ddynwared brefiad anifeiliaid, sydd yn wastadol yn deifyn y cyfarfod.

Os byddent yn anewyllysgar i wneyd unrhyw orchwyl, cymerant arnynt oll yn un a chyfan fod yn seilion, ac onid i ereill eu caffael yn barod i'w wneyd yn eu lle, byddant yn ddïatreg yn holliach. Digwyddodd i Syr A. Mackenzie saethu cî ffyrnig i'w amddiffyn ei hun, pan oedd yn mhlith yr Indiaid hyn: pan daniwyd y drull, ymdaenodd dychryn oddiamgylch: cludodd rhai eu plant, a dïangasant i'r coed, ond y wraig y bïodd y cî, ni symudai ond ymsoddi yn y galar mwyaf gan adrodd nad oedd colli pump plentyn yn nghorff y gauaf rhagflaenol yn destyn o'r fath alar iddi, ag a gafai am ei chî. Ond gwedi cael ychydig o deganau, hi newidiodd ei gwedd, ag a ddaeth mor siriol ag erioed. Crybwyllir hyn i ddangos y gall yr anwariaid hyn a'r lleill yn gyffredinol, ffuantu galar neu sirioldeb y pryd y mynont: os bydd eisieu cardod arnynt, galarant hyd oni orfyddo ar y rhoddwr dosturio: os bydd eisieu eu gwasanaeth, ânt yn ddïatreg fal y soniwyd i ffugglefyd, ac os bydd anrhegion a'u boddiauyn cael eu rhoddi o try y galar a'r afiechyd yn llawenydd dïatreg, pa flinder bynag a'u blina.

Mae yr anwariaid hyn yn gyffredin yn byw hyd henaint teg: ychydig o glefydau y sydd yn eu plith. Y feddyginiaeth sy ganddynt at bob afiechyd ydyw rhwymo y pen, a pheri i'r claf chwysu, ac yna cael hen wyr i chwythu arno a chydseinio mewn can ddolefus i erlid ymaith y drwg yspryd a fyddo yn ei flino. Pan ymaflo angau yn unrhyw o honynt, mae ei dda yn cael ei ddifa, ac y mae y galar ar ei ol yn gyffredinol gan yr holl lwyth. Y ceraint nesaf fyddent yn pardduo eu hwynebau, eillio eu gwallt, ac yn archolli eu breichiau â chyllill ar yr achlysur: ond y benywod i'r dyben o ddangos galar mwy, fyddent yn bwyllog yn codi yr ewin yn llwyr oddiwrth eu bys gyd ag erfyn miniog, ac yn dirisgo y cnawd hyd y cymal cyntaf, ac yna yn ei dori ymaith. Ond nid yw hyn yn arferedig ond pan y byddo tad, gwr, neu blentyn anwylaf gwedi marw. Mae llawer o hen wragedd gwedi arfer y ddefod ynfyd hon mor fynych, nad oes ganddynt gymmaint a bys cyflawn ar un o'u dwylaw. Bydd galar y gwragedd yn cael ei adnewyddu wrth feddrodau eu cyfeillion am flynyddau lawer.

Dyry Syr A. Makenzie hanes hynod am letteugarwch rhai o'r Indiaid hyn. Yr oedd fy nynion "meddai" gwedi taith dra blin yn chwennych aros y noson i orphwyso, ond yr oedd fy awydd cymmaint i ddyfod i olwg y môr na chaniatawn eu dymuniad, ac felly o'u hanfodd mi aethym yn mlaen, hyd oni ddaethym yn annysgwiliadwy i bentref bychan. Gwedi myned i'r babell nesaf ataf a bwrw fy maich i lawr, mi ysgydwais law â phob un o'r teulu difraw, ac a eisteddais arno, a phan ddaeth fy nynion i mewn ac ymarweddu yn yr un dull, hwy a amneidiasant arnom i fyned i dy y peniaeth oedd yn gyfagos. Gwedi myned yno, aethom heibio i dri thân, cyn cyrhaedd cell ëang oedd yn y pen draw iddo, lle yr oedd y teulu yn rhostio pysgod i'w swper, yna gwedi gwneyd amnaid o gyfarch gwell iddynt, eisteddais wrth ochr yr hynaf o honynt, yr hwn a ddaeth â physgodyn wedi ei drin ger fy mron, ac wedi bwyta, annogodd ni oll i orphwys yn y gell, ond gan ini ofni nad oeddym yn ei iawn ddeall, nyni a aethom allan o'r tŷ, ac a gyneuasom dân ar faes cyfagos, fal y cysgem wrtho hyd y

boreu. Pan welodd yr Indiaid ein bwriad, hwy a ddaethant â byrddau ini orwedd arnynt, ac yn fuan gwedi, daethant â dysglaid o bysgod i'r dynion oedd yn fy nghanlyn, ac yna ni a gysgasom yn dawel hyd y boreu, ac wedi amneidio diolchgarwch, a rhoddi ychydig o deganau i'r pentrefigion, ni a aethom rhagom."

Nid yw yr Indiaid hyn yn ymborthi ar unrhyw gigfwyd, ond pysgod yn unig, ac ni oddefent hyd yn nod i'w cŵn larpio unrhyw ysglyfaeth heb oddef fflangelliad greulawn. Barnent yn halogedig a gyffyrddo ag unrhyw ran o ysgerbwd anifail. Bwriodd un o ddynion Mackenzie asgwrn gwedi ei grafu i'r afon, ac ar i un o'r anwariaid ei ganfod, efe a ymsoddodd ar ei ol, a gwedi ei gaffael a'i bwriodd i'r tân, ac yna golchodd ei ddwylaw a farnai yn halogedig o wall cyffwrdd ag ef.

O berthynas i'w dull yn meddyginiaethu eu cleifion, dywed Mackenzie yr hanes ganlynol, "Yn foreu y dydd canlynol fe ddaeth y peniaeth a'i fab ataf, yr hwn oedd yn cwyno fod poen yn ei ddwyfron, ac wedi imi roddi dyferyn o ddwfr meddyginiaethol iddo ar sygr, yr hwn a leddfodd y boen, fe archodd arnaf ei ddilyn i babell gyfagos, y lle yr oedd mab arall iddo ar drancedigaeth, trwy fod anafadau dyfnion ar ei gefn a'i gliniau. Gwedi erfyn yn daer arnaf gan y peniaeth a'r lliaws oedd yn gweinyddu i'r clâf o gyffwrdd ag ef, mi roddais iddo ddefnyn o'r un cyffuriau ac i'r llall, ac a aethum allan, ond yn ddiatreg daeth y gwragedd dan lefain ar fy ol, i erfyn arnaf ddychwel, ac felly rhag rhoddi tramgwydd mi ufuddhaes. Erbyn cyrhaedd yno yr oedd y meddygon yn ymdrechu ei wellhau trwy anadlu arno, chwystrellu dwfr i'w wyneb, pwys eu bysedd ar ei ddwyfron, chwibiann âr cyffelyb. Gwedi hyn, rhyddwyd croen lynx am y claf, a dodwyd ef ar ystyllen i'w gludo allan o'i babell gan chwech o ddynion, ac amneidiwyd arnaf i'w ddilyn. Ni allwn ddirnad beth fyddai terfyn y ddefod hon, yn enwedig gan fod un o'r dilynwyr yn cludo tân, y llall fwyall a'r trydyd goed crin: meddylias erbyn hyn eu bod yn arfer blasgi eu marw, ac eu bod am wneyd y cyfryw gymwynas a'r claf i'w symud o'i boen. Pan aethant ychydig yn mlaen i'r coed, hwy a ddodasant y clâf i lawr ar le têg, ag a gynneuasant dân o'i amgylch mor agos ag y gallai oddef, ac yna ffleimiodd y meddygon ei friwiau ag arfau pŵl, ond er iddo oddef yr arteithiau yn lled ddewr, bu farw tan eu dwylaw."

## *INDIAID KNISTENEAUX.*

MAE yr Indiaid hyn yn cyfanneddu ardaloedd eang o ogledd-barth America: y maent yn gryfion a bywiog ac o faintioli Indiaid Canada, ac nid anhebig yw eu hiaith. Eu gwisgoedd yw crwyn bwystfilod, y rhai a oreurant â phlyf tryfrith o liwiau, cregin, a'r cyffelyb: dodant hefyd blyf eryrod yn eu capeni, a lliwiant eu crwyn ag amryw liwiau, ond yn fwyaf â choch, a'r brithaf o honynt fydd y mwyaf cymeradwy.

Pan y byddo i wr ieuanc brïodi, mae yn myned yn ddïoed i gyfanneddu gyd a'i deulu yn ngyfraith, y rhai ydynt yn ymddwyn tu ag ato fal estron hyd oni enir iddo blentyn, yna mae yn cael ei fabwysiadu yn un o'r teulu, ac ni elwir ef mwy gan ei wraig ond wrth yr enw tad ei phlentyn.

Defodau angladd ydynt yn dechreu trwy chwiffio tobacco ac yn terfynu yn wledd a llawenydd. Gwisgir y corff yn ei wisg oreu a dodir ef mewn bedd, yr hwn a lanwant â brigau coed, ceryg, a chaenen o bridd ar y wyneb. A thra mae hyn yn cael ei wneyd mae ceraint y marw yn dangos arwyddion galar trwy dynu eu gwallt, archolli eu cyrff, parddu eu wynebau, a gwneyd oer-nadau dolefus. Yna difrodant beirianau hela a physgota y marw, a llosgant ei ddillad ac ânt i'w babell i ymfoddi mewn llawenydd a gloddest. Dodir careg ar feddau y rhai enwocaf, ac arnynt luniau anifeiliaid a'r cyffelyb i ddynodi i ba lwyth y perthynent.

Pan y byddo yr Indiaid hyn yn amcanu cyhoeddi rhyfel yn erbyn unrhyw elynion, mae gwahoddiad cyffredinol gan y peniaeth, i holl feibion y llwyth a fyddo yn alluog i ymladd; i ddyfod i'w babell i chwiffio tobacco o'r cyff sanctaidd, a gwedi iddo areithio cyfiawnder yr anturiaeth, mae cymmaint ag a chwiffio o'r cyff yn ymroddi i'w ddilyn heb ychwaneg o ddefod: gwneir aberthiad yn gyffredinol ar yr uchelfeydd amlycaf o gynifer o gŵn cyn cychwyn. Dewisant leoedd amlwg, fal y gallo unrhyw ymdeithwyr a welo fŵg eu haberth, ymuno â nhwy mewn erfyniadau at yr Yspryd mawr. Y mae y rhai hyn yn dal allan rhai egwyddorion tra hynod am y greadigaeth. Credent fod y ddaear ar y dechreu yn orchuddiedig â dwfr, ac heb unrhyw greadur yn ei chyfanneddu, ond rhyw aderyn galluog, yr hwn oedd a'i lygaid yn tremio tân, ac esgydwad ei esgyll daranau; ac ar ei ddisgyniad ar y dyfroedd, i'r tir sych yn ebrwydd ymddangos fal y mae yn bresenol. Gwedi hyn i'r aderyn alw y creaduriaid wrth eu henwau, y rhai a ddaethant oll i fod yn ddiatreg oddigerth cenedl y Chepewyiaid, y rhai a hanasant drachefn o gî, yr hyn sydd achlysur iddynt gasau ymborthi ar y cyfryw anifail fal yr arferiad yn mhlith eu cymydogion.

Mae y draddodiad yn myned rhagddi i fynegi fod yr aderyn ar ol gorphen ei waith, gwedi llunio saeth, yr hon oedd i'w chadw yn ofalus, ac na chyffyrddai neb byth â hi: ond y Chepewyiaid yn amryfus a'i cludasant ymaith, ac o hyny allan ni welwyd ac ni chlywyd mwy am yr aderyn.

Yn ol traddodiad arall, hwy a ddaethant ar y cyntaf o wlad bell, yr hon oedd yn cael ei phreswylio gan ddynion tra drygionus, ac iddynt yn eu taith oddiyno oddef oerni eithaf gauaf parhaus; ac mae ychydig oesoedd cyn hyny yr oedd y diluw cyffredinol tros yr holl ddaear, oddigerth nenau rhai o'r mynyddoedd uchaf, ar y rhai y cadwodd rhai o'u hynafiaid eu heinioes.

Y maent yn credu yr ânt y funud y byddent feirw i lenydd afon fawr, ac oddiyno mewn cwch careg gyd a'r llif i lyn eang, yn nghanol yr hwn mae ynys o'r brydferthaf, ac yn ei golwg y bydd chwiliad manwl o berthynas i'w buchedd tra yn y byd, yr hyn sydd i derfynu eu dedwyddwch neu eu gwae rhagllaw. Os ymddengys bod eu gweithredoedd dâ yn fwy lliosog na'r rhai drwg, hwy gânt dirio i'r ynys i fwynhau hedd diderfyn; ond os try y fantol y ffordd arall, mae y cwch careg yn ymsoddi i'r gwaelod, a nhwythau yn cael eu gadael hyd yr ên ar y dwfr i ganfod dedwyddwch y rhai dâ, ac i fod mewn ymdrech diderfyn o gael glan, ond heb allu byth ei gyrhaedd.

Mae y frechwen weithiau yn gwneyd y difrod mwyaf yn mhlith amryw o dylwythau yr anwariaid hyn. Dyry Mackenzie ddarluniad dychrynllyd o'i heffeithiau, pan y mae yn crybwyll am y cynlluniau

oedd ar droed gan rai tylwythi o Indiaid ar y dechreu o lwyr ddynistrio y trefedigion: y dysgrifiad a ddyry sy fal y canlyn.

"Nid dim ond yr helbul mwyaf a allai ddyfod i ran yr anwariaid a achubodd y trefedigion cyntaf o ddistryw, hyny oedd y frech wen, yr hon oedd yn lledanu ei rhwysg dystrywgar oddiamgylch fal tân yn ysu mewn sofl sych. Yr oedd y clwyf anaele hwn yn ymdaenu yn y blynyddoedd hyny mor ebrwydd, nad oedd unrhyw ddiangfa rhagddo, nag un ymwared rhag ei effeithiau angeuol; ac yr oedd yr olygfa drychinebus i'r rhai oedd mor annedwydd a bod yn dystion, o liaws yn meirw, ereill yn trengu, a'r lleill yn ymbaratoi rhag goddef y cyfryw arteithiau o fod yn hunan-leiddiaid, yn eu gorleuwi a braw nas gellir dychymygu am dano."

"Yr oedd yn rhaid i agweddau cyffredin y bobl hyn yn pallu heddyw i ofalu dros y foru, fwyhau poenau y cyfryw brofedigaethau dychrynllyd, a'u gadael heb ddisgwyliad o unrhyw nawdd na chynnorthwy i ddyfod i'w rhan. Felly dim nid oedd iddynt yn eu hadfyd mwyaf ond ymostwng i'w cyfyngder anobeithiol heb ddisgwyl unrhyw nodded."

"I adgyffroi y darllenydd, gellid ychwanegu trwy grybwyll fod y cyrff llygredig yn gyffredin yn cael eu hysglyfio gan y bleiddiaid allan o'r bythau, neu yn cael eu llarpio o'r tu fewn iddynt gan y cŵn. Ac nid anfynych fyddai i benteulu cyn dyfod o'r clwyf i'w fwth, alw ei deulu yn nghyd, i arddangos iddynt ddyoddefiadau echrys ac aflwydd erchyll eu ceraint a'u cymydogion, oddiwrth effaith gynyrfol rhyw ddrwg yspryd oedd yn amcanu difodi eu llwyth wreiddyn a changen; ac yna eu hannog i siomi angau gyd a'i holl fraw dychrynllyd, trwy syrthio ar eu saethau: gan ychwanegu, os na allant fod yn ddigon dewr i wneyd hyny, ei fod ef yn barod i gyflawni y cyfryw gymwynas a'i law ei hun, ac yna yn ddiatreg eu dilyn yn yr un dull i'r noddfa gyffredin rhag pob gwae daearol."

Mae ardaloedd yr Indiaid hyn yn terfynu ar For mawr y de, sef o ogledd-barth Albion newydd i ynysoedd cyfyngfor Bhering, ac fal y soniwyd y maent yn perthyn i ymerodraeth Russia. Dynodir y trigolion hyn yn dawel a diniwed, ac o ran uniondeb yn eu cyfnewidiaeth a'u gilydd ac ag ereill, hwy a allent fod yn gynllun i'r rhan fwyaf o'r cenhedloedd gwaraidd.

Eu tai ydynt yn y ddaear, a'u nen gwedi eu toi â choed â thywyrch yn gyd-wastad a'r llawr: bydd yn mhob ty amryw deuluoedd yn anheddu Mae twll yn mhob pen i'r tŷ, un i roddi goleuni ac i dderbyn y mŵg, a'r llall i'r teulu esgyn ar bolyn enyciog fal ar ysgol.

Nid yw y trigolion hyn yn ymddangos o fod yn hir hoedlog, gan na chyfarfu y teithwyr a fu yno, ag unrhyw a farnent yn 60 mlwydd oed. Nid ydys yn gwybod o ba duedd grefyddol ydynt. neu a oes ganddynt unrhyw amgyffred am fyd arall Maent yn claddu eu meirw ar yr uchelfeydd, ac yn dodi carnedd arnynt, yr hon sydd yn cael ei mwyau bob tro yr elo ceraint y marw i ymweled a'r beddrod

Trigolion Nootka ydynt o duedd mwy tawel a dystaw na'u cymydogion, ond pan ddigwyddont gael eu hanfoddio, ni feddant nag iaith nag ymystum digonol i arddangos eu digter. Oddiwrth eu bod yn gwerthu penglogau ac esgyrn dynion, mae yn rhaid eu bod yn ymarweddu yn greulon tu ag at eu gelynion; ond i Ewropiaid maent yn ymddangos yn addfwyn a thyner; yn hawdd ganddynt ddigio, at yn hawdd ganddynt gymodi. Braidd y gwnaethant y sylw lleiaf ar

unrhyw gywreiu-beth oedd gan y teithwyr, ond bod yn dra boddlon ar eu peiriannau hela a physgota, ac heb chwennych ychwaneg.

Mae yma ddau bentref eang yn cynnwys o ddeutu mil o drigolion bob un. yr anneddau ydynt yn lled debyg i ddaeardai yr Oonalashkiaid ond fod y nenau ychydig goruwch gwyneb y maes.

Gorchwyl y gwyr yw hela a physgota, a'r gwragedd ydynt yn gwneyd gwisgoedd, yn halltu y pysgod, a chaled-waith ereill. Bydd y meibion trwy ystod yr hâf yn noethion, ond bydd y merched oll yn gwisgo crwyn teneuon tra gweddus.

# Y MADAWGWYS.

BELLACH crybwyllir ychydig am dylwyth o epil Gomer y sydd yn ol barn hanesyddion yn cyfanneddu ardaloedd breision o fewn terfynau y darran eang a elwir Califfornia newydd, sef y wlad y sydd rhwng lledred 40° a 44° yn ogleddol, a rhwng hydred 105° a 110° yn orllewinol.

Mae tri o wyr enwog wedi crybwyll mynediad Madog o Gymru, y rhai oeddynt gyfoedion iddo; sef Cynddelw, Llywarch Prydydd y moch, a Gwalchmai. Mae Triodd ynys Prydain yn dwyn ar ddeall i ni fal hyn: Tri diyancoll y Cymry. 1, Gafran ab Aeddan a'i wyr, a aethant i'r môr yn nghyrch y Gwerddonau Llion, ac ni chlywyd mwyach am danynt; 2, Merddin, bardd Emrys Wledig, a'i naw beirdd cylfeirdd, a aethant i'r môr yn y ty gwydrin, ac ni bu sôn i ba le yr aethant; 3, Madog ab Owain Gwynedd, a aeth i'r mor â 300 o wyr gyd ag ef mewn deg llong, ac ni wyddis i ba le yr aethant. Mae swrn o hanesion ereill yn cynnwys yr un peth; sef nodau ar hanes y cymry, gwaith Caradog o Lancarfan, gan y Dr. Dafydd Powel; lle y dywedir i Fadog fyned eilwaith gyda deg o longau, ac iddo hwylio heibio i'r Iwerddon, a'i gadael rhyngddo a'r gogledd, a myned rhag blaen nes cael tir pell yn y gorllewin Dywedodd Meredydd ab Rhys, mewn cywydd a wnaeth i ddiolch am rwyd bysgota fal hyn, a hyny o gylch 15 mlynedd cyn bod son am Golumbus:

"Helied llan, hael dyfiad,
Ar y tir teg, wedi'r tâd;
Mawn awr dda, minnau ar ddwfr,
O fodd hael a fydd heliwr—
Madog wych, mwyedig wedd,
Iawn genau Owen Gwynedd;
Ni fynai dir, f'enaid oedd,
Na da mawr, ond y moroedd."

Yn mhlith amryw hanesyddiaethau diweddar ereill, mae yr hanes a ddyry llythyr* Mr. Toulmin o Exeter, yr hwn a aeth i'r America o

* Morys Gruffydd, o enedigaeth o Gymru, pa wlad a adawodd pan oedd o gylch un ar bymtheg oed, a gymerwyd yn garcharor gan nifer o'r Shawenwys o gylch 40 mlynedd yn ol, yn agos i gaer Fosses wrth lan afon y Roanoc yn Virginia, ac a ddygwyd i wlad y Shawenwys. Ar ol aros yno agos ddwy flynedd a haner, ef a wybu fod pump o wyr ieuanc o'r genedlaeth hono yn delsyfu yn fawr chwilio allan flaenau y Missouri. Efe a erfyniodd ac a gafodd ganddynt ei adael i fod yn un o'u cymdeithas.

Hwy oll a gychwynasant gyda chwech o rych-ddrylliau da, a chwe phwys o bowdr bob un, o'r hyn yr oeddynt yn ddiammeu yn bur ofalus.

ddeutu 20 mlynedd yn ol, yn gwirio bod llwyth o bobl wynion yn cyfanneddu y wlad sydd o gylch blaenau afon Missouri. Mae y nod isod

---

Ar gyrhaedd aber afon y Missouri, hwy a synasant wrth ganfod y fath odidog ymddangosiadau anghyffredin, drwy gyd-gymmysgiad dwfr llwyd y Missouri a thradysglaer elfen y Mississippi.

Hwy a arosasant ddeu-ddydd neu dri gan ddifyru eu hunain gyda'r fath (iddynt hwy) newydd ymddangosiad.

Hwy y pryd hyny a benderfynasant eu gyrfa, ac a gymerasant yr hon a ddegwyddodd fod agosed i rediad yr afon nes oeddynt yn fynych yn dyfod i'w golwg hi, wrth fyned ymlaen ar eu taith.

Ar ol teithio o gylch deg diwrnod ar ugain, trwy dir teg amaethyddol, coediog, daethant i weunydd prydferth agored, ar ba rai ni thyfai ond digonedd o laswellt hir.

Yr oeddynt ol yn ol yn rhagori yn eu maintioli, rhai yn wyth neu ddeg milltir drosodd, ond yr oedd un o honynt cyhyd ag y buont dri diwrnod yn eu cherdded drwyddi. Wrth fyned drwy y waen fawr yma, bu yn gyfyng iawn arnynt, o fan eisiau bwyd a dwfr, gan na welsant aderyn nag anifail; ac er bod ynddi ddigonedd o ffynnonydd heilltion, yr oedd y dwfr croew yn brin iawn.

Yn un o'r gweunydd hyn, yr oedd goferau y ffynnonau heilltion yn rhedeg i hyllau hychain, pa rai fal yr oedd boeth y tywydd, yr oedd y dwfr gwedi rhyw gryn sychu, a gadael eu hymylau yn orchuddiedig gan halen, fal yr oeddynt yn cael eu gwala, a gallynt yn hawdd gasglu teleidiau o hono.

Wrth deithio drwy y gweunydd, buont hefyd mor lwyddiannus a lladd anifail, yr hwn oedd naw neu ddeg troedfedd o uchder, ac o gorffolaeth cyfatebol.

Gwelsynt ddau o'r un rywogaeth o'r blaen, a phedwar o honynt wedi hyny. Yr oeddynt yn gyflym o draed, ac nid oedd ganddynt ysgithredd na chyrn.

Ar ol myned drwy y waen hir, peidiasant a myned i un o honynt, ond a allynt weled dano, heb ddiwallu eu hunain a digon o hyddgig i barhau rai dyddiau.

Ar ol ymdeithio twysgen o amser drwy y gweunydd, daethant at gloddfa pur helaeth o fwn plwm, lle y toddasant y mwn, ac a gymerasant gymmaint ag oedd arnynt ei eisiau o hono.

Ar ol hyny daethant at ddwy gloddfa efydd, un o honynt oedd dair mil tir drwodd, ac mewn amrywiol fanau cyfarfuant a chreiglau o fwn efydd cymmaint a thai. Pan o gylch taith pymtheg niwrnod oddiwrth yr ail gloddfa efydd, gwelynt fynyddoedd gwynion, er ei bod hefyd yn ngwres haf, ymddangosynt tan gaenen o eira.

Y golygiad hwn gellir meddwl a wnaeth iddynt ryfeddu yn ddirfawr, ond ar au dyfodiad yn nes i'r mynyddoedd, canfuasant mai yn lle eira eu bod gwedi eu gorchuddio gan dywod gwyn. Yr oeddynt yn y cyfamser gwedi tramwy trwy o gylch deg cenedl o Indiaid, oddiwrth bu rai y derbyniasant lawer o gyfeillgarwch.

Arfer y cydymdeithion oedd siarad ol yn ol pob un yn ei dro, a phan fyddai iaith un genedl yn anwybod iddynt, dyledswydd y siaredydd oedd dwyn ar ddeall eu meddyliau gyd ag arwyddion cymmwys; dyledswydd na byddai y lleill yn ymyru a hi.

Dirfawr eu blinder yn cerdded drwy dywod dwfn y mynyddoedd, ond o'r diwedd esmwythasant eu hunain oddiwrth y trallod hyn, gan ganlyn rhediad rhyw afon fas a gwaelod gwastad, gwnaethant eu ffordd i ben y mynydd yn lled gyfleus.

Ar ol myned heibio y mynyddoedd, daethant i randir godidog, trwy ba un y teithiasant amryw ddyddiau, hwy yn ddamweiniol a gyfarfuasant a thri o bobl wynion o rith Indiaid.

Morys Gruffydd yn union a ddeallodd eu hiaith, canys yr oedd yn Gymraeg digymmysg, er eu bod weithiau yn gwneyd defnydd o rai geiriau nad oedd gyd nabyddus; beth bynag, gan ddygwydd mai tra un o'i gyfeillion y Shawenwys oedd i wasanaethu yn siaradwr, neu yn hytrach ddeonglydd; efe a gadwodd ei hun yn bur ddystaw, ac ni roes iddynt un amnaid ei fod yn deall iaith eu cymdeithion newyddion.

Ar ol myned gyda nhwy daith pedwar neu bump niwrnod, daethant i dref y bobl wynion hyn, lle y gwybuant fod yr holl genedl o'r un pryd, ac oll o wedd Ewropiaid.

Y tri dyn a'u cymerasant drwy y dref o gylch pymtheg milltir, nes y daethant

yn gyfieithad o'r llythyr, yr hwn a ddanfonwyd gan Mr. Roberts o Lwynrhudol i'r Greal yn alban Hefin 1805. Bu yr un nod hefyd

---

hyd at eu cynghordy, yn mha un y cynnaliwyd cyfarfod o'r brenin a phendefigion y deyrnas yn unnol. Parhaodd y gymanfa dri diwrnod, ac yn gymmaint nad oeddynt yn tybied bod y dyeithriaid yn gydnabyddus a'u hiaith, goddefasant iddynt fod yn eu plith ar eu cynghoriadau.

Y pwnc mwyaf o flaen y gynnulleidfa, oedd, pa ymddygiad a ddylai fod tuag at y dyeithriaid; oddiwrth eu harfau tân, eu cyllyll, a'u bwyeill, barnwyd eu bod yn bobl ryfelgar ar olwg; yr oeddynt yn tybied eu bod wedi eu hanfon i edrych allan am wlad i'w cenedl, ac os goddefynt iddynt dychwelyd, y gallid disgwyl lliaws o oresgynwyr galluog; ond, os rhoddir y chwe dyn hyn i farwolaeth, ni byddai dim gwybodaeth am eu gwlad hwy, ac y caent hefyd fwynhau eu meddiannau mewn diogelwch. Yn y diwedd barnasant eu rhoddi i farwolaeth. Morys Gruffydd y pryd hyny a feddyliodd fod yn amser iddo siared. Cyfeiriodd ei ymadrodd at y gymmanfa yn yr iaith Gymraeg. Hysbysodd iddynt nad oeddynt wedi eu hanfon gan un genedl, ond eu bod gwedi eu hannog yn unig gan eu hanian ymofyngar eu hunain, ac nad oedd ganddynt ddim meddyliau gelyniaethol: Mae eu bwriad oedd olrhain y Missouri i'w dechreuad, ac y dychwelynt i'w gwlad yn foddlon gyda'r cyfarwyddyd y gawsont, heb fath o dueddiad i aflonyddu esmwythder eu cydnabyddiaeth newydd.

Syndod disymmwth a ymddangosodd yn ngwedd, nid yn unig y gynnulleidfa yn gyffredinol, ond hefyd yn ngwedd ei gyfeillion y Shawenwys, pa rai yn eglur a ganfuasant bod ei iaith ef yn ddealladwy i bobl y wlad:—Cyflawn hyder a roddasant ar unwaith i'w draethiadau. Y brenin a aeth yn mlaen, ac a ysgydwodd law ag ef.

Gadawsant heibio eu bwriad o'i roddi ef a'i gyfeillion i farwolaeth, ac o'r amser hyny ymddangosasant tu ag atynt yn y modd mwyaf cyfeillgar

Morys Gruffydd a'r Shawenwys a arosasant wyth mis yn y wlad: Ond hwy a ddigalonwyd yn eu amcanion o ddilyn y Missouri hyd ei dechreuad, gan gynghorion gwyr y wlad, pa rai a hysbysasant eu bod hwy wedi myned daith blwyddyn i fynu yr afon, ond ei bod cymmaint yno ag yn eu gwlad eu hunain.

Am hanes y bobl yma, ni fedra ef gael bodlondeb, yr unig hanes a fedrynt roddi, oedd, bod eu hynafiaid wedi dyfod i fynu yr afon o wlad bur bell.

Nid oedd ganddynt (am a wyddai ef) lyfrau, cofrestrau, nag ysgrifeniadau. Nid oeddynt yn cydgymmysgu gydag un genedl arall trwy briodi; nid oedd un dyn melyn-ddu yn eu gwlad; eu rhifedi oedd ddirfawr; yr oedd sefyllfeydd yn cyrhaedd hyd yr afon dros ddeg milltir a deugain, ac yr oedd o fewn hyny o le dri o aberoedd anferthol eu maintioli; pa rai a redant i'r Missouri; ar lanau y rhai hyny yr oeddynt gwedi sefydlu. Yr oedd ef yn tybied bod o gylch 50,000 o wyr galluog i gynnal arfau yn y wlad. Eu gwisgiadau oedd o grwyn gwedi eu trin yn dda. Eu tai oedd gwedi eu hadeiliadu â physt sythion, a rhisg coed. Yr unig erfyn oedd ganddynt i'w tori oedd bwyill o geryg.

Yr oeddynt yn byw wrth hela. Ni chrybwyllodd un gair yn eu crefydd.

Yr oedd gan M. Gruffydd a'i gyfeillion fwyill heiyrn mawrion gyda hwynt, gyda'r rhai y torasant goedan i wneyd cwch i ddychwelyd yn ol ynddo.

Ond yr oedd eu hwyill mor werthfawr, a dynion y wlad yn awyddus i'w trin, fal na buont ond ychydig iawn o amser yn ei adeiladu. Pan orphenwyd y gwaith yma, bwriadasant ymadael a'u cyfeillion newyddion. M. Gruffydd, heth bynag, a addawodd yr ymwelai ef â hwy gwedi hyny. Dychwelasant i lawr yr afon yn hur chwimwth, ond yn fynych mewn enhydrwydd erchyll o achos gwyllt rediad yr afon, yn enwedig pan oeddynt yn myned heibio y mynyddoedd gwynion. Pan gyrhaeddasant wlad a Shawenwys, yr oeddynt wedi bod oddiyno ddwy flynedd a haner. Yr oedd M. Gruffydd yn dywedyd eu bod yn myned o ddeutu 15 milltir bob dydd.

Ni arhosodd ond ychydig o fisoedd gyda yr Indiaid ar ol ei ddychweliad, gan i gyfleusdra gynnyg iddo i gyrhaedd ei gyfeillion yn Virginia. Daeth gyda helwyr, pa rai oeddynt Indiaid i flaen dyfroedd afon y Glô, sydd yn rhedeg i'r afon newydd, nid pell tu uchaf y Rhaiadrau: Yno y gadawodd ef y Shawanwys, ac a gyrhaeddodd yn esmwyth y sefydlfeydd ar y Roanôc.

Yr oedd Mr. Childs yn ei adnabod cyn iddo gael ei gymeryd yn garcharor, ac ef a'i gwelodd ychydig o ddyddiau ar ol ei ddychweliad, pryd y rhoes yr hanes rhagflaenol.—Yr oedd M. Gruffydd yn cael ei gyfrif yn gyffredinol yn ddyn diys-

yn argraffedig yn 1804 a 1805 mewn dau bapur newydd yn America a elwid *Kentucky Palladium* a'r *Eastern Argus*, a thrachefn yn Llundain yn y *Volunteer*, Ebrill 28, 1815.

Yr oeddyd yn disgwyl y buasai rhyw hanes mwy cywir nag unrhyw arall yn deillio oddiwrth daith Lewis a Clark (a grybwyllir yn y nod isod) i olrhain blaenau y Missouri, ond erbyn i ansawdd eu taith gael ei gyhoeddi yn 1809, gwelwyd mai ceinciau ereill o'r Missouri a olrheiniasant, ac nid y gainc y sydd yn ymestyn i'r ardal y dywedir bod epil Madawg ynddi. Rhoddasant hanes led helaeth am amryw dylwythau o Indiaid y sydd yn cyfanneddu y gwledydd sydd o ddeutu y Missouri, a chan na chrybwyllwyd am danynt o'r blaen rhoddir yn ganlynol ychydig o hanes o honynt.

Yr *Osagiaid* ydynt yn cyfanneddu gwlad ffrwythlawn ar du de y Missouri o ddeutu blaenau afon Akansas, yr hon sy gainc o afon Mississippi. Mae hinsoddau yr ardaloedd hyn yn dra thymherus; gwyneb y wlad yn wastad ac yn llawn coed, ac mae ynddi rai trefydd caerog lled boblog.

Mae yr anwariaid hyn yn cludo crwyn anifeiliaid i Louisiana, yr hon sydd yn terfynu ar barthau deheuol eu gwlad, ac yn cael yn gyfnewid beiriannau i drin tir, fal ag a maent weithiau yn codi grawn, pys, ffâ, a'r cyffelyb.

Y *Kanzas* ydynt yn terfynu ar afon Missouri: dynion sarug yw y rhai hyn, yn byw wrth yspeilio tylwythi mwy egwan, neu unrhyw deithwyr a fyddo yn mordwyo y Missouri. Y maent yn genedl liosog, yn helwyr enwog, ac yn ddiweddar y maent yn trin y tir i gnydio grawn yn lled helaeth.

Yr *Ottoes* ydynt genedl grwydrol heb honni hawl mewn unrhyw ardal mwy na'i gilydd. Dynodir hwynt yn ddynion addfwyn, ac yn ymddwyn yn dyner tu ag at ddyeithraid. Maent yn byw yn hollol ar helwriaeth.

Y *Missouri* ydynt weddillion cenedl liosog o'r enw hyny oedd yn cyfaneddu glenydd y Missouri pan feddianwyd Louisiana a'r ardaloedd sydd yn terfynu ar eu cyffiniau gan Ewropiaid. Maent yn bresenol gan ryfeloedd trychinebus rhyngddynt a'r *Saukees* a'r *Renars*, a chan y difrod dystrywgar a wnaeth y frechwen yn eu mysg, gwedi lleihau hyd oni orfu arnynt ymroddi i ymddibynu ar yr *Ottoes*, yn mhlith y rhai y maent y pryd hwn yn cyfanneddu.

Y *Panias* ydynt genedl gadarn yn byw wrth hela o ddeutu blaenau afonydd Kanzas a Plate, lle mae gwastadoedd ëang ffrwythlawn. Nid ydynt yn honni hawl mewn unrhyw ardaloedd penigol, ond yn ymsymud yn finteioedd lliosog o'r naill fangre i'r llall, yn ol y byddo eu hangenrheidrwydd yn gofyn. Maent yn cyfnewid crwyn anifeiliaid gwyllt a gwâr ag Ewropiaid, am rawn, dillad a'r cyffelyb; ac y maent yn ymddwyn yn dyner tu ag at ddyeithraid, yn enwedig dynion gwynion o ba genedl bynag y byddont.

---

gog, a gelwir. Hyddai Mr. Childs bod amser yn rhoddi llawn hyder a chrêd yn ei hanesion am dano ei hun a'i deithiau; ac nid oe..d yn ammeu am y gwirionedd o'r hyn a ddywedodd, mwy na pha buasai gwedi gweled y cwbl ei hun. Pa un a'i bod M. Gruffydd yn fyw yn awr, ni wyr ef ddim.

Pa un a'i bod ei amcanion ef yn gywir a'i nad ydynt, ni a gawn well cyfleusdra i farnu ar ddychweliad y Cadben Lewis a'r Cadben Clarke, y rhai, er fe allai ddygwydd na bydd iddynt dreiddio cyn belled ag y dywedodd M. Gruffydd y bu ef, gallant mae yn debyg i ddeall digon am y wlad, fal y bo i ni farnu, pa un ydyw yr hanes a roddwyd gan M. Gruffydd yn wir a'i ynte yn anwir."

Y *Mahas* oeddynt yn byw mewn gwlad frâs ar lenydd gorllewin y Missouri: yr oedd ganddynt dref led fawr ar fin yr afon, yr hon yn 1802 a losgasant i geisio tarfu rhwysg y frechwen oedd newydd glude ymaith tros hanner y trigolion. Y mae y gweddill o honynt y pryd hwn yn grwydraid yn byw wrth hela. Dynodir y rhai hyn hefyd yn dyner yn eu hymddygiad tu ag at ddynion gwynion.

Y *Poncars*, gweddillion cenedl fu yn lliosog gynt, oeddynt yn cyfanneddu ardaloedd o ddeutu yr afon goch ar gyfer llyn Winnipeg, ond gan i'r *Sioux*, cenedl gadarn gyfagos eu gorthrechu, ymddeolasant i gartrefu yn nglenydd y Missouri, lle yr ymunasant a'r *Mahas*, iaith y rhai sydd yn cael eu siared ganddynt yn bresenol.

Y *Ricaras* ydynt weddillion deg o lwythi mawrion o'r *Panius*, y rhai ydynt gwedi eu hiselu gan y frechwen a chan ryfeloedd â'r *Sioux*. Mae y rhai hyn yn cyfaneddu trefydd caerog, yn dyner o ymddygiad, ac yn trin tir, &c. Nid ydynt yn honni hawl yn y wlad oddiamgylch eu trefydd, oddigerth y maesydd cyfagos: addefant y *Tetons* yn feddianwyr cyfreithlon, y rhai yn gyffredin ydynt yn eu sarhau yn ddirfawr. Mae ychydig gyfnewidiaeth rhyngddynt a'u gorthrymwyr mewn meirch, asynod, grawn, ffa, a math o dobacco a feithrinir ganddynt, yn lle y rhai y maent hwythau yn derbyn drylliau tan, bwyill, crochanau, ac ereill ddaoedd a gaffent yn eu trefnidiaeth â *Yanktons* y gogledd, y rhai ydynt yn trefnidio ag Ewropiaid.

Y *Mandans* ydynt yn cyfanneddu glenydd y Missouri o'i deutu: yr oedd y rhai hyn yn lliosog, hyd oni ddaeth y frechwen i wneyd difrod angeuol arnynt. Maent yn deyrngedawl i'r *Sioux*, y rhai sydd yn meddiannu yr holl wlad oddigerth y trefydd caerog y preswylient ynddynt. Gelwir rhai llwythi o honynt *Ahwahhaway* a *Minetares*.

Y *Saukies* ydynt genedl gref, yn cyfanneddu glenydd y Mississippi: mae y rhai hyn mewn rhyfel yn wastadol a'r *Sioux*, y rhai ydynt yn preswylio y wlad sydd i'r gogledd a'r gogledd orllewin oddiwrthynt. Dynodir hwynt yn ddynion hynaws, yn gyfeillgar a'r trefnidwyr gwynion, ond yn arweddu yn dost tu ag at eu gelynion.

Y *Tetons* ydynt yn honni hawl mewn ardaloedd eang o ddeutu y Missouri: y rhai hyn yw y mwyaf anwar o holl Indiaid y Missouri: maent yn byw ar yr yspail a wnelynt yn mhlith eu cymydogion, ac nid ydynt yn arbed daoedd y trefnidwyr gwynion a ddelo i'w harfod. Ni all Ewropiaid heb nerth grymus olrhain y Missouri hyd oni wastredir y rhai hyn. Tylwythi o honynt yw y *Chyennes*, y *Wetepahatoes*, a'r *Dotame*.

Yr *Aliatans* ydynt yn cyfanneddu ardaloedd eang o ddeutu blaenau afon Arkansas: mae y rhai hyn yn lled heddychol a'r Yspaeniaid y sydd yn ngogledd-barth Mexico newydd, ac yn trefnidio â hwynt. Meirch a chrwyn gwylltfilod yw eu prif ddaoedd.

Amrywiol ereill o dylwythi sydd yn cyfanneddu blaenau ceinciau gorllewinol y Mississippi, ond gan bod eu hagweddau cyffredinol yn lled debyg i'r dysgrifiad a roddwyd am y rhai uchod, afreidiol fyddai y crybwylliad o honynt yn y lle hwn. Mae rhwng bod yr anwariaid hyn yn ben-ben yn feunyddiol a'u gilydd; ac eiddigedd daeogaidd yr Yspaeniaid ofergoelus yn atal tramwy trwy Mexico newydd, yn rhwystr hyd yn hyn i unrhyw Gymry athrylith ymweled â gwlad y Madawgwys. Gwych pe cafai mintai o epil Gomer, am oruchwylion ysplenydd Prydain tan Wellington ac ereill yn achub Yspaen o dranc distryw, genad

y llys i dreiddio trwy Mexico newydd i Califfornia, ac yna nid hir y byddai y ddadl heb ei thori o berthynas i wirionedd yr hanes am epil Madawg ap Owain Gwynedd.

# INDIA ORLLEWIN.

YR ydys gwedi crybwyll eisus bod lliaws o ynysoedd yn gorwedd rhwng dau gyfandir America, a'u bod yn adnabyddus wrth yr enw India orllewin, y rhai oll, sef cymmaint ag sydd addas i'w llafurio oeddynt ar ddechreu y rhyfel ddiweddaf yn perthyn i bump o alluoedd Ewrop, sef Prydain fawr, Yspaen, Ffrainc, Holland, a Denmark, ond y sydd y pryd hwn hyd oni threfnir heddwch cyffredinol, oddigerth y ddwy ynys fwyaf oll dan nawdd Lloegr. Gan fod hin a thymhorau yr ynysoedd hyn yn amrywio oddiwrth y cyfryw gyd â ni, rhoddir ychydig ddysgrifiad o'u hansawdd yn gyffredinol cyn rhoddi crybwylliad penigol arnynt.

Mae hinsoddau yr holl wledydd hyn yn lled gyffelyb oddigerth yr ychydig amrywiad sy rhwng y cyfryw mewn ynysoedd mynyddig, a rhai isel, a'r cyffelyb. Gan eu bod yn sefyll rhwng trofeydd y cranc a'r afr, a'r haul yn myned yn union-syth trostynt rhyngddo a'r gogledd, mae yn rhaid eu bod yn barhaus yn ddarostyngedig i eithafnod gwres, yr hwn fyddai yn anoddefol oni byddai bod awel lem yn ymgasglu wrth fal y byddo gwres y boreu yn cryfhau, ac yn lleddfu awchlymder y gwres i'r fath raddau ag y gallo y llafurwr ddilyn ei orchwyl, hyd yn nod dan belydrau union-syth yr haul. Ar y llaw arall, mae awel lem yn chwythu wrth fal y nesäo y nos megys o ganol y tir i'r mor o amgylch, yn gwneyd min yr awyr yn dra hyfryd.

Yn yr un modd, pan y byddo yr haul yn nesu rhyngddo â throfeydd y cranc, ac yn dyfod yn uniunsyth, mae yn tynu ato y fath drwch o gymylau, ag y gorchuddier ei wyneb yn llwyr; y rhai hyn yn ymdoddi i wlaw, ydynt yn oeri yr awyr ac yn adfywio y wlad gwedi sychder anaele, yr hwn yn gyffredin sydd yn bod o ddechreu Ionawr i ddiwedd Mai.

Mae y gwlawogydd tra ystod eu tymhor yn yr ardaloedd hyn yn ymdywallt fal cenllif lifeiriol: nid yw ein gwlawogydd trymaf ni i'w cymharu iddynt ond megys gwlith. Maent fal diluw annorchfygol yn creu mewn ychydig oriau afonydd a llynau newyddion trwy orlifiad y lleill, hyd onid ydyw yr holl wastadoedd yn ymddangos fal môr mawr. Y cyfryw wlawogydd trymion yn digwyddo fal hyn yn y gwregys llosg yn gyffredinol, yw'r achos o fod afonydd mawrion megys y Nile, yr Amazonia, ac ereill yn gorllifo eu ceulenydd yn eu tymhorau priodol.

Nid oes yma ond dau dymhor trwy ystod y flwyddyn, sef y tymhor gwlyb a'r tymhor sych: mae pob coed yn llawn dail yn gyfanedd, ac nid yw rhew nag eira yn adnabyddus yndynt. Ond bydd weithiau genllysg trymion pan y byddo y corwyntoedd tymhestlog yn digwyddo.

Yn y tymhor gwlawog (gan mwyaf yn mis Awst, ond weithiau yn Gorphenaf a Medi) mae y tymhestloedd yn digwyddo, yr hyn yw y drychineb fwyaf aruthr y mae eu hingylchoedd yn ddarostyngedig iddynt: bydd y rhai hyn weithiau yn distrywio goruchwylion y

llafurwr am flynyddau lawer, ac yn dyddymu gobaith y gwinllanydd pan y disgwyliai fod ei dda o fewn cyrhaedd ei gadwraeth. Mae yn canlyn y tymhestloedd hyn fellt a tharanau, ceullysg a daear grynfâu a gwlawogydd trymion, fal y crybwyllwyd, yn nghyd â chryn ymchwyddiad gan y môr, yr hwn ar y cyfryw amserau fydd yn gorllifo yr holl diroedd isel; mewn gair bydd pob 'amgylchiad a all yr elfenau ymgasglu sydd yn ddychrynllyd a dystrywgar yn rheoli trwy ystod y dymhestl. Gwelynt yn gyntaf megys rhaglith y dinystr sydd ar ddyfod, gynnyrch maesydd eang o gonynau sygr yn cael eu troelli rhyngddynt a'r cymylau, ac yn ymdaenu tros wyneb y wlad oddiamgylch; coed mwyaf y goedwig fyddent yn cael eu diwreiddio, ac yn cael eu gwasgaru fal soff, eu melinau ydynt yn cael eu hysgubo ymaith mewn munud; eu peiriannau efydd trymion i drin eu sygr, rum, &c. ydynt yn cael eu dirdroi o'u lleoedd, a'u malurio yn chwilfriw; nid yw eu hanneddau yn unrhyw nodded: bydd y tô yn cael ei ddiosg oddiarnynt gyd a'r chwythiad cyntaf, tra bydd y gwlaw, yr hwn fydd yn codi yn ol 5 troedfedd mewn awr yn dyfod arnynt yn ruthr annorchfygol.

Y prif dda penigol y sydd yn perthyn i'r ynysoedd hyn yw sygr: ni wyddai y Groegiaid na'r Rhufeiniaid gynt am y cyffyr hwn, er iddo gael ei drin mewn amseroedd tra boreu yn China, o'r lle y cawsom yr hanes gyntaf am dano. Y Portugiaid oeddynt y cyntaf a'i trinodd yn America, a hwy oeddynt y cyntaf a ddaethant ag ef i gymeriad yn marchnadoedd Ewrop. Mae'r nôdd melus sydd yn y conynau sygr yn dra pheraidd ac yn fagwriaethol: o hwn y gwneir sygr, triagl a gwirod a elwir rum: danfonir y daoedd hyn fal y soniwyd i farchnadoedd Ewrop ac America yn gyfnewid am angenrheidiau ereill.

Gelwir y rhandiroedd y gwneir y daoedd hyn ynddynt yn blanfeydd, y rhai fal y soniwyd ydynt yn cael eu llafurio gan gaethion o Affrica. Mae y planwr yn cadw goruchwyliwr ar y blanfa, ac yn rhoddi iddo o 100 i 150 o bunoedd yn flynyddol: mae ganddo is-reolwr i bob 40 o negroaid am o ddeutu 40 punt bob un. Mae meddyg hefyd yn gyflogedig i ofalu tros iechyd y Negroaid yn mhob un o'r planfeydd.

Y caethion truain yn gweithio yn galed i'w harglwyddi dideimlad fal y crybwyllwyd trwy ystod eu hoes, ydynt yn gyffredinol yn gorfod ymborthi ar rawn India, penwaig heilltion, a dwfr: mae rhai o honynt a farnont yn ddynion lled gelfydd, yn cael ychydig dir i'w meddiant i'w drin ar y sabbath a dyddiau gwylion tu ag at gael ychydig ychwaneg i'w cynnal!

Afreidiol fyddai enwi y daoedd trefnidiol a gludir o Ewrop i'r ynysoedd hyn, gan y cynnwysai hyny yr holl restr o angenrheidiau bywyd: nid oes ganddynt hwy o ddaoedd cyfnewid ond cotwm, coffee, ffrwythydd cyhydeddol, a'r pethau a enwyd eisus.

Mae trefnidwyr yn gwneyd elw mawr o'r daoedd a gludir i'r ynysoedd hyn, ond bydd weithiau y fath gyflawnder yn cael ei drosglwyddo iddynt, ac y bydd yn gorfod ar y trefnidiwr naill a'i gwerthu ei dda dan bris, neu ei roddi mewn ystordy hyd oni ddaw galwad am dano.

Yr ydys yn barnu bod trigolion yr ynysoedd y sydd yn perthyn i Brydain yn 65,000 o ddynion gwynion, a 455,000 o ddynion duon. Mae y trigolion hyn yn cael eu dosbarthu yn bedwar grâdd, sef, 1. Ewropiaid. 2. Creoliaid gwynion neu rai gwedi hanu oddiwrth Ewropiaid. 3. Creoliaid cymysg, sef epil dynion gwynion a duon rhydd. 4. Negroaid mewn caethiwed.

Y brif gynnefod sydd yn dynodi dynion gwynion yr India orllewin yw yspryd rhydd, annibynol, gyd ag arddangosiad o gyd raddoldeb yn mysg pob graddau o honynt. Mae y dynyn gwyn tylotaf yn ymddangos fal ped ystyriau ei hun yn gydradd a'r cyfoethocaf, ac felly pan gyfarfyddo ei arglwydd, mae yn estyn ei law allan gyd â hyfder y sydd yn llwyr anadnabyddus yn ngwledydd Ewrop. Mae hyn yn tarddu oddiar y rhagorfraint y sydd o angenrheidrwydd yn ymlynu hyd yn nod wrth wynebpryd dyn gwyn, mewn gwlad lle mae y cyfryw amgylchiad, a dywedyd yn gyffredinol, yn dosbarthu rhyddid oddiwrth gaethiwed.

Mae bod mwy o rifedi o ddynion duon na gwynion yn y gwledydd hyn, yn peri undeb mwy aunhoredig er hunan amddiffyniad yn mhlith yr olaf nag y sydd yn gyffredinol yn mhlith dynion o sefyllfaoedd gwahanol mewn gwledydd rhydd: mae y cyfryw amgylchiad yn greddfu ynddynt barch y naill tu ag at y llall, pa sefyllfaoedd bynag y byddont ynddo. "Yn mha fan bynag o'r byd y byddo caethiwed gwedi ei sefydlu, y dynion rhydd yw y mwyaf balch ac eiddugus o'u braint. Mae rhyddid iddynt hwy nid yn unig yn fwynhâd, ond yn fath o ragorfraint urddasol. Heb ddirnad y gall rhyddid fal mewn gwledydd ereill, lle y mae yn fendith gyffredinol, fod un amser yn rhwym wrth unrhyw oruchwylion, mae rhyddid yn ymddangos iddynt hwy fal peth mwy ardderchog a gogoneddus."

Mae rhai yn haeru bod hinsoddau y lle yn effeithio ar dymherau y dynion gwynion i beri iddynt fal hyn ymchwyddo mewn bonedd a rhwysg tra-arglwyddiaethol. Ond beth bynag sydd yn achos o'r cyfryw duedd ynddynt, mae mwy o frawdgarwch, caredigrwydd, a haelioni yn cael ei arddangos yn mhlith dynion gwynion y gwledydd hyn nag yn unrhyw barth arall o'r byd. Nid yw lletengarwch yn un man yn fwy hynod nag yn ynysoedd Prydain yn yr India orllewin: mae dorau y planydd yn agored yn wastadol i'r dyeithr-ddyn gwyn, a goreu fydd y parch po dyeithraf y byddo.

Y Creoliaid ydynt yn fwy tal yn gyffredinol nag Ewropiaid, ond nid ydynt mor gryfion. Maent yn hynod am ystwythder eu cymalau, eu sirioldeb gwastadol, ac yn eu hymataliad oddiwrth lythineb a meddwdod. Maent hefyd yn fwy cyflym yn blant nag Ewropiaid, ond y maent yn pwlu yn nghynt, ac yn arddangos henaint cyn cyrhaedd blynyddoedd canol oed gyd â ni.

Y Caribeaid, sef y cyn drigolion ydynt yn parhau yn lliosog yn ynysoedd India orllewin. Y maent er dyfodiad Ewropiaid i'w plith, gwedi ymnewid cryn lawer mewn moesau ag agweddau; mewn rhai pethau maent gwedi gwellhau, ond mewn pethau ereill maent gwedi ymddirywio. Yr oedd hen wr o honynt yn ddiweddar yn cyfarch un o'n planwyr fal hyn. "Mae'n pobl ni weithian gwedi dyfod agos gan waethed a'ch cenedl chwi. Yr ydym gwedi newid cymmaint er pan y daethoch chwi i'n plith, fal braidd yr adwaenom ein hunain, ac yr ydym yn meddwl mai achlysyr y cyfryw dro alaethus yw bod tymhestloedd trymion, daear-grynfau, a'r cyffelyb yn ymweled â ni yn fwy mynych nag yn y dyddiau gynt. Rhyw yspryd drygionus â wnaeth hyn oll â ni, yr hwn a ddygodd ein tiroedd goreu oddiarnom, ac a'n rhoddes i fynu i rwysg gormesol y Cristionogion.*

* Goldsmith's Geography, p. 507.

I dynu y bwa gyd â medrusrwydd celfydd, i drin y ewwpa gyd â deheuder a grym, i nofio gyd â chyflymder a gwroldeb, i ddal pysgod, ac i adeiladu annedd, ydynt oruchwylion angenrheidiol anhepgorol i'r Caribeaid i'w medru. Maent yn addysgu eu plant yn y pethau hyn, ac yn eu hanog i fod yn ddewr yn ngwyneb pob profedigaethau a'u cyfarfyddent. Dodant ymborth y bechgyn i hongian ar bren, a rhaid iddynt yn feunyddiol ei anelu gyd a'r saeth cyn y cafent ymborthi arno.

Mae pob plentyn gwryw newydd eni yn cael ei daenellu, ag ychydig o waed ei dad, fal y byddo iddo gyd gyfranogi o'r un dewrder, ac er i'r ddefod fod yn dra phoenus i'r rhïeni, eto ni wiw iddo gwyno yn y grâdd leiaf rhag drygu dewrder ei fab. Fal ag y mae y plentyn yn cynyddu, maent yn greddfu ynddo yr arferion anwar y sydd yn eu plith, sef, o fwyta cnawd eu gelynion a laddont, o ymiro a'u bloneg, a phethau anfoes cyffelyb; ac yna pan ddelont i oedran addas, mae y tad yn arteithio ei fab trwy fflangelliad i brofi ei ddewrder, ac os digwydd iddo ddal heb gwyno, hyd oni liwio ei waed y llawr oddiamgylch, mae yn cael enw mwy gwrol nag o'r blaen, ac yn cael ei gyfrif yn un o amddiffynwyr ei wlad. Os digwyddai iddo fethu goddef y fflangell, mae fal bechgyn Sparta gynt, y rhai a fflangellid wrth allor Diana, yn cael ei ddëol oddiwrth ei rieni i fod yn gaethwas am y gweddill o'i oes i swyddogion milwraidd y wlad.

Penyd mwy tost, ac arteithiau mwy poenus, trwy dân, dirdyniad, fflangelliad, a'r cyffelyb, ydynt brawf-foddion y sawl a fyddo yn ymgeisio yr anrhydedd o fod yn arweinydd i'w gydwladwyr i faes rhyfel. Nid oes gan y Caribeaid yn amser heddwch unrhyw beniaeth na swyddog gwladol, ond pawb yn gwneyd a fynno: er hyny yn amser rhyfel, mae yr ufudd-dod mwyaf dwys yn cael ei arddangos i'r pennaethiaid milwraidd, o'r funud y dewisir hwynt, hyd adferiad heddwch, pan y mae eu hawdurdod rhwysgol yn terfynu.

Ynysoedd India orllewin ydynt yn gorwedd ar ddull bwâ, ac yn cyrhaedd o yn agos i arfordiroedd Fflorida yn y gogledd, i afon Oronoko yn nghyfandir deheubarth America. Mae rhai daearyddion yn eu galw ynysoedd Caribee, oddiwrth enwad y sydd ar y cyn drigolion, ond yn gyffredin nid yw yr enw hwn weithian yn cael ei roddi ond i'r y rhai mwyaf dwyreiniol o honynt. Enw arall sydd arnynt yw Antilles mawr am y rhai gorllewinol, a'r Antilles mân am y rhai dwyreiniol.

Yn ganlynol rhoddir ychydig o ddysgrifiad o'r ynysoedd hyn, gan ddechreu yn y rhai sydd yn perthyn er ys oesoedd lawer i goron Prydain fawr, ac yna eir yn mlaen i ddysgrifio y lleill.

---

## JAMAICA.

YR ynys hon, y fwyaf y sydd yn perthyn i Prydain yn yr India orllewin, sydd yn gorwedd rhwng lledred 17° a 18° yn ogleddol, a rhwng hydred 76° a 79° yn orllewinol. Ei hyd o ddwyrain i orllewin sydd 140 milltir, a'i lled yn y canol sydd o ddeutu 60, ac yna yn culhau hyd onid yw y ddeuben yn terfynu yn bigfain.

Mae yn estyn ar draws yr ynys hon, drum o greigydd serth, gwedi eu pentyru y naill ar y llall gan ddaear grynfau mynych; ac o'r cilfechydd rhyngddynt mae yn tyfu goed a phlanhigion yn ehelaeth, ac mae

yn deillio o honynt ffrydiau troellog, y rhai yn llunio man reiadrau ydynt rhwng dysgleirder y dyfroedd a gwyrddlesni y coed, yn rhoddi ar y cyfan olygfa hardd. O ddeutu y drum fawr, mae mân drumau yn myned lei-lai wrth fal y pellhaont oddiwrthi: mae ar y rhain goffee yn tyfu yn doreithiol. Y gwastadoedd ydynt dra ffrwythlon o goed, ffrwythydd cyhydeddol a'r cyffelyb.

Y dydd hwyaf yn yr haf sydd o ddeutu 13 awr o hyd, a'r byraf yn y gauaf o ddeutu 11, ond adraniad cyffredin ar y tymhorau yn yr India orllewin yw y tymhor gwlyb a'r tymhor sych. Mae hinsoddau yr ynys hon yn gyffredinol yn dra phoeth ac afiach; er hyny mae yr awel lem sydd yn chwythu o'r môr bob boreu o ddeutu 10 o'r gloch, yn lleddfu peth ar awchlymder y gwres; ac y mae awyr y mynydd-dir yn dymherus a chymhedrol. Mae yma fellt a tharanau agos yn gyfanedd: bydd y taranau sydd yn dilyn gwlawogydd trymion Mai a Hydref yn arswydus o ddychrynllyd, a bydd y mellt y pryd hyny yn fynych yn gwneyd difrod aruthr ar goed, anneddau a'r cyffelyb, ac yn parhau yn dymhestl ddi-dor, weithiau am bythefnos gyflawn. Mae yn agos i Spanish Town, ffynon o ddwfr meddygol, yn gwellhau y cryd melyn, y colic, a chlwyf y geri, y rhai ydynt y clefydon gwladol mwyaf distrywgar yn Jamaica.

Y cynnyrch mwyaf cyffredin a'r mwyaf gwerthfawr yn yr ynys hon yw sygr. Yr oedd cocoa yn cael ei feithryn yn ehelaeth ynddi gynt. Mae yma hefyd yn tyfu ginger a phupur; pren cinnamon, yr hwn sydd a'i risg yn feddyginiaethol; y manchineel, ffrwyth yr hwn sy'n deg odiaeth i'r llygad ond eto yn cynnwys ynddo wenwyn angeuol; mahogani, cedrwydd, a phren bresych, yr hwn pan sycho sydd anllygredig: braidd y gall unrhyw erfyn dreiddio iddo; y palma yn rhoddi olew llesol i'r trigolion sydd yn fwyd a meddyginiaeth; pren sebon, ffrwyth yr hwn sydd werthfawr gan olchyddion, hefyd amryw goed y sydd a'u rhisg yn gwneyd lliwiau. Nid oes yr un o'n hydau ni yn tyfu yno, ond y mae helaethrwydd o rawn India a Gini, a math o bys, ac amryw wraidd-lysieu. Ffrwythydd cyhydeddol yn orein, lemonau, pomgranadau, pompionau, afalau, gellyg, gaiacum, sarsaparilla, chinian, cassia, tamarinds a chyffuriau meddygol ereill, sydd yma yn doreithiol. Y gwartheg ydynt deneuon ac anaml, a'u cig sydd wydn. Y defaid ydynt led liosog, ond y moch yw y lliosocaf ynddi a'u cig sydd yn cael ei gyfrif yn fwyaf blasus. Y meirch ydynt fychain a bywiog, ond yn gryfion. Mae yma agos bob adar gwyllt a dof, ac y mae'r afonydd a'r mor oddiamgylch yn heigio digonedd o bysgod. Yn mhlith yr ymlysgiaid amrywiol y sydd yma, mae y *ciror* neu'r *chegoe*, yr hwn sydd yn blino y Negroaid, ac weithiau y dynion gwynion yn dôst: mae y pryf hwn yn ymwthio drwy'r croen i'r cnawd i osod ei wyau, y rhai ydynt yn dëor yn mhen ychydig ddyddiau ar lû na orphwysont hyd oni fwytânt y cnawd hyd yr esgyrn. Ni wyddis bod unrhyw wall hyd pen wythnos gwedi y dodwad: y gorchwyl drachefn yw pigo y wyau allan â nodwydd yn ofalus, a distrywio y goden a u fyddo am danynt, rhag bod cymmaint ag un yn cael unrhyw lochesi.

Yr oedd yr ynys hon gynt yn rhan o ymerodraeth Yspaen yn America: ymosododd y Saeson arni yn fynych cyn y flwyddyn 1659, pan y daeth megis yn annysgwiliadwy i'w meddiant. Yr oedd Oliver Cromwell gwedi danfon llynges dan arweiniad Penn a Venables i oresgyn ynys Hispaniola, yr hon oedd yn meddiant yr Yspaeniaid, a

chan iddynt fethu cyflawni y bwriad, hwy a ymroddasant i geisio iawn am y golled a gawsont yn yr anturiaeth, trwy ymosod ar Jamaica, a gwedi iddynt feddiannu St. Iago, y brif ddinas, daeth yr holl ynys yn ddiatreg i'w meddiant, a Lloegr o'r pryd hwnw hyd y pryd hwn sydd yn ei rheoli. Llywyddiaeth hon sy'n nesaf i lywyddiaeth yr Ywerddon mewn elw a pharch o dan y goron.

Yr ydys gwedi crybwyll eisus mae yr un drefn o lywodraeth ag sydd yn Mhrydain sydd yn yr holl ynysoedd ar dueddau America y sydd yn perthyn i'r goron. Y grefydd wladol yn gyffredinol yw eglwys Loegr, ond nid oes ganddynt esgob, goruchwyliwr dan esgob Llundain yw y prif swyddog eglwysig y sydd yn eu plith.

Mae Jamaica gwedi ei rhanu yn dair swydd, sef, Middlesex, Surry, a Chernyw, y rhai cyd-rhyngddynt ydynt yn cynnwys ugain o blwyfydd. Tref Port Royal, yr hon sy weithiau heb gynnwys ynddi tros 200 o dai, oedd gynt y brif dref. Yr oedd hon yn sefyll ar fin cyfyngdir, yr hwn oedd yn terfynu ar angorfa neu bortbladd gyfleus o'r un enw, ac a oedd yn ddigon eang i gynnwys mil o longau mawrion ar unwaith. Y cyfryw fantais, yn nghyd a bod digon o ddyfnder ynddi i'r llongau mwyaf i lwytho a dadlwytho, a annogodd y trigolion i'w hadeiladu yn y fan hono. Ac er nad oedd o'i hamgylch ond tir tywodlyd anial, heb na llysieu na ffynonydd dyfroedd, daeth mewn ychydig amser yn lle o gryn sylw. Yma yr oedd y rhan fwyaf o'r morladron oedd yn lliosog gynt yn moroedd yr India orllewin, yn dyfod i ranu yr yspail, ac i orphen eu hoes mewn afradlonrwydd trahaus, gwedi lladrata en gwala. Yn nechreu y flwyddyn 1692, nid oedd un dref o'i maint mor hynod a hon mewn cyfoeth, trefsidiaeth, a moesau llygredig. Yn mis Mehefin y flwyddyn hono, digwyddodd daear-gryn ddychrynllyd, yr hon gyd a siglo seiliau yr holl ynys, a ddadymchwelodd y ddinas agos yn llwyr, heb adael yn y rhan fwyaf o'r lle y safai arno y difyn lleiaf o'i hol. Yn fuan gwedi dechreu y rhyferthwy dychrynllyd hwn, agorodd y ddaear a llyncodd naw rhan o ddeg o'r holl ddinas, yn nghyd ag o ddeutu dwy fil o'r dinasyddion. Yr oedd dyfroedd y dyfnder mawr ychydig cyn y llynciad cyffredinol yn ymruthro drwy yr agenau holltedig gyd â gryni annorchfygol, yn difrodi yn ei arfod, ac yn pentyru adeiladau y ddinas yn garneddi y naill ar y llall. Drylliodd hefyd lawer o longau mawrion oedd yn yr angorfa, a chludwyd yn ddiangol y frein-long a elwid y Swan, (yr hon oedd mewn gorsaf yn cael ei glanhau) dros nenau y tai oedd yn soddi, ac achubodd rhai cantoedd o ddynion eu bywydau oddiar goed y tai drylliog trwy gael eu cludo i'w bwrdd. Yr oedd swyddog milwraidd oedd yn sefyll yn y parth o honi a safodd, yn dywedyd iddo weled y ddaear yma ac acw yn ymagor, ac yn ymgau megys bob un ail, a bod dynion yn syrthio, rhai hyd y canol, rhai hyd yr ysgwydd ac ereill yn is i'r agenau, ac felly yn cael eu gwasgu i farwolaeth. Yn nghymydogaeth Savanna, soddodd o ddeutu mil o erwau o dir, yn nghyd a'r holl dai a'r trigolion oedd ynddynt, a daeth y lle am ychydig yn llyn dwfr, ond ar iddo sychu i fynu yn nantle eang, ni welwyd byth ddifyn o unrhyw annedd. Mewn rhai parthau o'r ynys, yr oedd y mynyddoedd yn hollti: cludwyd hefyd un blanfa ëang filltir lawn o'i lle.—Adeiladwyd y ddinas hon eilwaith, ond yn mhen y deng mlynedd, daeth tân aruthr yn ddamweiniol ac a'i difrododd yn llwyr. Yr oedd y borthladd oedd yn perthyn i hon môr neillduol o gyfleus, fal yr annogwyd y trigolion i'w hadeiladu y drydedd

waith, ond yn 1722, daeth y corwynt tymhestlog mwyaf arutlır y sydd yn nghof-nodau hanesyddiaeth arni, a gwnaed hi yn garnedd anghyfanedd. Yr oedd y cyfryw helbulon trychinebus drachefn a thrachefn megys yn dynodi y lle yn ddiofrydedig; felly ymroddodd y dinasyddion i ymadael oddiyno am byth, a myned i anneddu ar du arall yr angorfa, y lle yr adeilasant Kingston, yr hon weithian yw prif ddinas yr ynys. Mae yn hon 1,600 o dai, a rhai o honynt yn dra hardd, ond nid yn cynnwys mwy nag un uchder llofft, rhag cael eu niweidio gan y mynych ddryghinoedd tymhestlog y sydd yn digwyddo yno. Mae yn hon o 26 i 27,000 o drigolion. Ychydig oddiwrth Kingston mae St. Iago neu Spanish town, yr hon oedd gynt yn brif ddinas, ac sydd weithian yn brif orsaf y llywodraeth. Ei thrigolion ydynt o ddeutu 3,000.

Bu dymhestl o wynt mawr yn yr ynys hon ar y 30 o Hydref 1780, yr hon a ddistrywiodd y dref a elwid Savanna-le-mar, ac a wnaeth ddifrod hefyd ar blanfeydd, ac anneddau mewn amryw barthau o'r ynys, a chollodd amryw o ddynion eu bywydau.

Yr oedd yn yr ynys hon yn 1787 o ddeutu 30,000 o ddynion gwynion, 11,000 o Negroaid rhydd a 250,000 o Negroaid caeth. Gellir olrhain gwerth yr ynys hon fal y canlyn, 250,000 o Negroaid yn 50*l.* bob un, deuddeg miliwn a hanner; y planfeydd a'r adeiladau arnynt, 25 miliwn yn ychwaneg; adeiladau y trefydd a'r llongau trefnidiol, un miliwn a hanner; y cyfan yn 39 miliwn. Danfonwyd daoedd o Jamaica yn nghorff 1787 i Ewrop ac America werth yn agos i dair miliwn o arian.

Gellir dosbarthu cynnyrch yr ynys hon yn dair rhan. Yn gyntaf, Sygrau, o'r hwn y danfonwyd i Brydain yn 1787 o ddeutu 42,000 tunnell, ac yn 1800 danfonwyd oddiyno 60,000 o dunnelli. Mae y rhan fwyaf o hwn yn cael ei ddanfon i Lundain, Bristo', a Glasgow; a'r gweddill i ogledd-barth America yn gyfnewid am gig, caws, grawn, pys, estyll, byrddau, pyg, a'r cyffelyb. Yn ail; Rum, o'r hwn y maent yn danfon allan o ddeutu 340,000 o alwyni yn flynyddol. Rum yr ynys hon a fernir yn oreu o unrhyw, a hwn sydd yn cael ei arfer fwyaf yn Mhrydain fawr. Yn drydydd, Triagl, yr hwn a gyfnewidiant am ddaoedd o Loegr newydd, &c. Mae yr holl ddaoedd hyn yn deillio o'r conynau sygr: dywedir bod cymmaint ag sydd yn llenwi 20,000 o erwau o dir yn cael eu tori yn flynyddol o'r conynau, a bod yn deillio o honynt o 68 i 70,000 tunnell o sygr, a 4,200,000 o alwyni o rum. Yn bedwerydd, Cotwm, o'r hwn y danfonent allan o ddeutu dwy fil o gantoedd o bwysi yn flynyddol. Y lleill ydynt y daoedd a enwyd, sef, indigo, cocoa, coffee, pupur, mahogani, cyffuriau meddygol, &c. Mae oddiyma hefyd gryn lawer o ddaoedd Ewrop, a Negroaid yn cael eu danfon i ardaloedd gogleddol cyfandir dehcubarth America yn gyfnewid am angenrheidiau addas.

## BARBADOES.

YR ynys hon, y fwyaf dwyreiniol o ynysoedd Caribbee, sydd yn gorwedd yn lledred 13° yn ogleddol, a hydred 59° yn orllewinol; yn 21 milltir o hyd a 14 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 106,470 o erwau o dir. Rhenir yr ynys hon yn bump rhandir, ac un-ar-ddeg o blwyfydd; ac mae ynddi bedair o drefydd a elwir Bridgetown, y benaf, cartrefle y llywydd; Ostens, neu Charlestown; St. James, a Spaightstown.

Pan y tiriodd y Saeson gyntaf yn yr ynys hon, sef, yn mhen ychydig gwedi y flwyddyn 1625, bwy a'i cawsant yn anial-le dyrys, heb na dyn na bwystfil gwyllt na gwâr yn ei phreswylio, nag ychwaith yr arwydd lleiaf o'i bod erioed gwedi cael ei chyfanneddu gan unrhyw o epil Adda. Nid oedd ynddi na ffrwythydd na llysieu addas i gynnal dyn, ond ei holl wyneb yn orchuddiedig gan goed mawrion, heb fodd i ceiddio trwyddynt heb lafur mawr gan eu lliosogrwydd diamgyffred.

Gan bod hinsoddau Barbadoes yn dymherus, a'r tir yn ymddangos yn dda, anturiodd rhai teuluoedd o Frydain i'w chyfanneddu, y rhai gwedi ymorchestu i dori'r coed a glanhau ychydig o'r tir, a'i cawsont yn dir brâs a ffrwythlon i gynyrchu grawn, cotwn, indigo, tobacco, a'r cyffelyb. Y sôn am hyn yn ymdaenu tros Prydain, yr hon oedd y pryd hwn yn dechreu bod yn derfysglyd oherwydd yr ymgecru oedd rhwng Charles a'i seneddwyr, daeth cantoedd tros y dyfnder i ymsefydlu ynddi, ac yn ganlynol trowyd ei hanialwch dyrys yn dir amaethyddol teg. Yn mhen y 25 mlynedd gwedi y sefydliad cyntaf, yr oedd ynddi 50,000 o ddynion gwynion a rhifedi mwy o Negroaid ac Indiaid: yr olaf, er cywilydd i'r trefedigion a ladratawyd heb na gwerth na gwobr o'r ynysoedd cyfagos, yr hyn sydd hyd heddyw yn gilwg reddfol yn mynwes y Caribeaid yn erbyn y Cristionogion.

Yn 1676, yr oedd sygr yn dechreu cael ei drin yn yr ynys, ac yr oedd ei thrigolion yn rhyddion a chaethion erbyn hyn gwedi cynyddu i 150,000, yr hyn oedd yn ei gwneyd yn fwy poblog yn ol ei maintioli, nag ardaloedd cymmaint yn China neu Holland, y rhai yn mhob oes ydynt wledydd hynod am liosogrwydd eu trigolion. Yr oedd y pryd hwnw 400 o longau trefnidiol yn perthyn i'r ynys: ond o hyny hyd y pryd hwn, mae ei threfnidiaeth a'i thrigolion yn lleihau, nid o ran bod y tir yn blino ffrwytho, ond oherwydd bod yr ynysoedd cyfagos yn cael eu poblogi, a'u tir yn ffrwytho mor doreithiol. Y trigolion yn 1786 oeddynt 16,176 o ddynion gwynion, 838 o ddynion duon rhydd, a 62,115 o Negroaid. Danfonir oddiyma yn flynyddol i Loegr ac America sygrau, rum, ginger, cotwm a chyffuriau meddygol yn lled helaeth am ddaoedd addas ereill.

Mae yma urdd usgol, yr hon yw yr unig un yn yr India orllewin: y swyddog milwraidd Codrington o enedigaeth yn yr ynys, a'i hadeiladodd, ac a'i cynysgaeddodd â thiroedd a meddiannau gwerthfawr. Mae Barbadoes fal Jamaica gwedi goddef arteithiau blin gan dymhestloedd, tân, a'r plâ. Bu ar y 10 o Hydref 1780 dymhestl ddychrynllyd, yr hon a wnaeth ddifrod arswydus ar Barbadoes; distrywiwyd y brif ddinas, yr hon oedd newydd gael ei hail adeiladau gwedi difrod dychrynllyd arni gan dân, yn nghyd a llawer o anneddau ardderchog, a drygwyd pob ty ac adeilad oedd yn yr holl ynys: claddwyd llawer o ddynion yn y carneddi syrthiedig, a chwythwyd amryw tros y dibyn i'r mor. Collodd felly yn ystod y dymhestl hon 4,326 o'r trigolion (yn wynion a duon) ac yr oedd y golled ar ddaoedd yn cael ei chyfrif yn 1,220,564 o bunnoedd.

waith, ond yn 1722, daeth y corwynt tymhestlog mwyaf aruthr y sydd yn nghof-nodau hanesyddiaeth arni, a gwnaed hi yn garnedd anghyfanedd. Yr oedd y cyfryw helbulon trychinebus drachefn a thrachefn megys yn dynodi y lle yn ddiofrydedig; felly ymroddodd y dinasyddion o ymadael oddiyno am byth, a myned i anneddu ar du arall yr angorfa, y lle yr adeilasant Kingston, yr hon weithiau yw prif ddinas yr ynys. Mae yn hon 1,600 o dai, a rhai o honynt yn dra hardd, ond nid yn cynnwys mwy nag un uchder llofft, rhag cael eu niweidio gan y mynych ddryghinoedd tymhestlog y sydd yn digwyddo yno. Mae yn hon o 26 i 27,000 o drigolion. Ychydig oddiwrth Kingston mae St. Iago neu Spanish town, yr hon oedd gynt yn brif ddinas, ac sydd weithiau yn brif orsaf y llywodraeth. Ei thrigolion ydynt o ddeutu 3,000.

Bu dymhestl o wynt mawr yn yr ynys hon ar y 30 o Hydref 1780, yr hon a ddistrywiodd y dref a elwid Savanna-le-mar, ac a wnaeth ddifrod hefyd ar blanfeydd, ac anneddau mewn amryw barthau o'r ynys, a chollodd amryw o ddynion eu bywydau.

Yr oedd yn yr ynys hon yn 1787 o ddeutu 30,000 o ddynion gwynion, 11,000 o Negroaid rhydd a 250,000 o Negroaid caeth. Gellir olrhain gwerth yr ynys hon fal y canlyn, 250,000 o Negroaid yn 50*l.* bob un, deuddeg miliwn a hanner; y planfeydd a'r adeiladau arnynt, 25 miliwn yn ychwaneg; adeiladau y trefydd a'r llongau trefnidiol, un miliwn a hanner; y cyfan yn 39 miliwn. Danfonwyd daoedd o Jamaica yn nghorff 1787 i Ewrop ac America werth yn agos i dair miliwn o arian.

Gellir dosbarthu cynnyrch yr ynys hon yn dair rhan. Yn gyntaf, Sygrau, o'r hwn y danfonwyd i Brydain yn 1787 o ddeutu 42,000 tunnell, ac yn 1800 danfonwyd oddiyno 60,000 o dunnelli. Mae y rhan fwyaf o hwn yn cael ei ddanfon i Lundain, Bristo', a Glasgow; a'r gweddill i ogledd-barth America yn gyfnewid am gig, caws, grawn, pys, estyll, byrddau, pyg, a'r cyffelyb. Yn ail; Rum, o'r hwn y maent yn danfon allan o ddeutu 340,000 o alwyni yn flynyddol. Rum yr ynys hon a fernir yn oreu o unrhyw, a hwn sydd yn cael ei arfer fwyaf yn Mhrydain fawr. Yn drydydd, Triagl, yr hwn a gyfnewidiant am ddaoedd o Loegr newydd, &c. Mae yr holl ddaoedd hyn yn deillio o'r conynau sygr: dywedir bod cymmaint ag sydd yn llenwi 20,000 o erwau o dir yn cael eu tori yn flynyddol o'r conynau, a bod yn deillio o honynt o 68 i 70,000 tunnell o sygr, a 4,200,000 o alwyni o rum. Yn bedwerydd, Cotwm, o'r hwn y danfonent allan o ddeutu dwy fil o gantoedd o bwysi yn flynyddol. Y lleill ydynt y daoedd a enwyd, sef, indigo, cocoa, coffee, pupur, mahogani, cyffuriau meddygol, &c. Mae oddiyma hefyd gryn lawer o ddaoedd Ewrop, a Negroaid yn cael eu danfon i ardaloedd gogleddol cyfandir deheubarth America yn gyfnewid am angenrheidiau addas.

## BARBADOES.

YR ynys hon, y fwyaf dwyreiniol o ynysoedd Caribbee, sydd yn gorwedd yn lledred 13° yn ogleddol, a hydred 59° yn orllewinol; yn 21 milltir o hyd a 14 o led, ac yn cynnwys o ddeutu 106,470 o erwau o dir. Rhenir yr ynys hon yn bump rhandir, ac un-ar-ddeg o blwyfydd; ac mae ynddi bedair o drefydd a elwir Bridgetown, y benaf, cartrefle y llywydd; Ostens, neu Charlestown; St. James, a Spaightstown.

Pan y tiriodd y Saeson gyntaf yn yr ynys hon, sef, yn mhen ychydig gwedi y flwyddyn 1625, bwy a'i cawsant yn anial-le dyrys, heb na dyn na bwystfil gwyllt na gwâr yn ei phreswylio, nag ychwaith yr arwydd lleiaf o'i bod erioed gwedi cael ei chyfanneddu gan unrhyw o epil Adda. Nid oedd ynddi na ffrwythydd na llysieu addas i gynnal dyn, ond ei holl wyneb yn orchuddiedig gan goed mawrion, heb fodd treiddio trwyddynt heb lafur mawr gan eu lliosogrwydd diamgyffred.

Gan bod hinsoddau Barbadoes yn dymherus, a'r tir yn ymddangos yn dda, anturiodd rhai teuluoedd o Frydain i'w chyfanneddu, y rhai gwedi ymorchestu i dori'r coed a glanhau ychydig o'r tir, a'i cawsont yn dir brâs a ffrwythlon i gynyrchu grawn, cotwn, indigo, tobacco, a'r cyffelyb. Y sôn am hyn yn ymdaenu tros Prydain, yr hon oedd y pryd hwn yn dechreu bod yn derfysglyd oherwydd yr ymgecru oedd rhwng Charles a'i seneddwyr, daeth cantoedd tros y dyfnder i ymsefydlu ynddi, ac yn ganlynol trowyd ei hanialwch dyrys yn dir amaethyddol teg. Yn mhen y 25 mlynedd gwedi y sefydliad cyntaf, yr oedd ynddi 50,000 o ddynion gwynion a rhifedi mwy o Negroaid ac Indiaid: yr olaf, er cywilydd i'r trefedigion a ladratawyd heb na gwerth na gwobr o'r ynysoedd cyfagos, yr hyn sydd hyd heddyw yn gilwg reddfol yn mynwes y Caribeaid yn erbyn y Cristionogion.

Yn 1676, yr oedd sygr yn dechreu cael ei drin yn yr ynys, ac yr oedd ei thrigolion yn rhyddion a chaethion erbyn hyn gwedi cynyddu i 150,000, yr hyn oedd yn ei gwneyd yn fwy poblog yn ol ei maintioli, nag ardaloedd cymmaint yn China neu Holland, y rhai yn mhob oes ydynt wledydd hynod am liosogrwydd eu trigolion. Yr oedd y pryd hwnw 400 o longau trefnidiol yn perthyn i'r ynys: ond o hyny hyd y pryd hwn, mae ei threfnidiaeth a'i thrigolion yn lleihau, nid o ran bod y tir yn blino ffrwytho, ond oherwydd bod yr ynysoedd cyfagos yn cael eu poblogi, a'u tir yn ffrwytho mor doreithiol. Y trigolion yn 1786 oeddynt 16,176 o ddynion gwynion, 838 o ddynion duon rhydd, a 62,115 o Negroaid. Danfonir oddiyma yn flynyddol i Loegr ac America sygrau, rum, ginger, cotwm a chyffuriau meddygol yn lled helaeth am ddaoedd addas ereill.

Mae yma urdd usgol, yr hon yw yr unig un yn yr India orllewin: y swyddog milwraidd Codrington o enedigaeth yn yr ynys, a'i hadeiladodd, ac a'i cynysgaeddodd â thiroedd a meddiannau gwerthfawr. Mae Barbadoes fal Jamaica gwedi goddef arteithiau blin gan dymhestloedd, tân, a'r plâ. Bu ar y 10 o Hydref 1780 dymhestl ddychrynllyd, yr hon a wnaeth ddifrod arswydus ar Barbadoes; distrywiwyd y brif ddinas, yr hon oedd newydd gael ei hail adeiladau gwedi difrod dychrynllyd arni gan dân, yn nghyd a llawer o anneddau ardderchog, a drygwyd pob tŷ ac adeilad oedd yn yr holl ynys: claddwyd llawer o ddynion yn y carneddi syrthiedig, a chwythwyd amryw tros y dibyn i'r mor. Collodd felly yn ystod y dymhestl hon 4,326 o'r trigolion (yn wynion a duon) ac yr oedd y golled ar ddaoedd yn cael ei chyfrif yn 1,220,564 o bunnoedd.

## ST. CHRISTOPHER.

YR ynys hon a eilw morwyr yn gyffredin St. Kitts, sydd yn gorwedd yn lledred 17° yn ogleddol, a hydred 62° yn orllewinol; yn 20 milltir o hyd a 7 o led. Mae hon yn cael ei henw oddiwrth Christopher Columbus, yr hwn a'i darganfu i'r Yspaeniaid, y rhai gwedi tirio ynddi a'i gweled yn llawn coed a dyrysni, a'i gadawsant fal annedd ddiwerth ganddynt. Yn 1626, cyd-feddianwyd hi gan y Ffrancod a'r Saeson, ond yn heddwch Utrecht, daeth yn gyfan i feddiant yr olaf, a nhwy hyd yn hyn sydd yn ei phreswylio. Danfonwyd oddiyma yn 1770 o sugr, rum, triagl, cotwm, ffrwythydd cyhydeddol, a chyffuriau meddygol, werth o ddeutu 500,000 o bunnoedd. Ei thrigolion ydynt 6,000 o ddynion gwynion a 36,000 o Negroaid. Cymerodd y Ffrancod yr ynys hon yn 1782, ond adferwyd hi yn ol i Frydain yn heddwch 1783. Enw y brif ddinas y Basseterre.

## ANTIGUA.

MAE hon o fewn 42 milltir i St. Christopher, yn gorwedd yn lledred 17°G. a hydred 61°G. ac o ddeutu 20 milltir o hyd a lled. Yr ynys hon a fernid gynt yn ddiddefnydd gan ei gwyneb garw anial, ac heb na ffrwd na ffynon o fewn ei holl derfynau, sy weithian yn cael ei dewis o flaen unrhyw arall o'i maint yn yr India orllewin, er mwyn ei hangorfeydd a'i gorsafoedd cyfleus i drin ac i adeiladu llongau mawrion. St. Johns yw y brif dref: yr hon cyn y difrod a wnaed arni gan dân yn 1769, oedd yn dref fawr, ond nid yw weithian ond o ddeutu hanner ei maintioli y pryd hwnw. Yma mae llywydd ynysoedd Caribee yn preswylio. Yr oedd trigolion gwynion yr ynys hon yn 1774 yn 2,500 a'r trigolion duon yn 37,808.

## NEVIS A MONTSERAT.

DWY ynys fechan yw y rhai hyn, heb fod oddiar 18 milltir bob un a amgylchiad, yn gorwedd rhwng St. Christopher ac Antigua. Nid oes yn y flaenaf oddiar 600 o ddynion gwynion, tra y mae y Negroaid yn 10,000, anghyfartaledd y sydd o angenrheidrwydd yn peri bod pob mab o'r dynion gwynion y sydd o oedran addas yn filwr: mae gan y rhai hyn 50 o feirch yn wastadol mewn agwedd barod i ymosod pe ymderfysgai y Negroaid.

Trigolion Montserat ydynt o ddeutu 1,300 o ddynion gwynion, ac o ddeutu 10,000 o Negroaid. Mae tiroedd y ddwy ynys yn ysgafn a thywodlyd, ond yn dra ffrwythlon yn nghynyrch cyffredin yr India orllewin. Cymerwyd y ddwy ynys gan y Ffrancod yn 1782, ond adferwyd hwynt yn ol yn yr heddwch a ddigwyddodd yn y flwyddyn ganlynol.

## BARBUDA.

YR ynys hon yn gorwedd 35 milltir i'r gogledd o Antigua sydd yn sefyll yn lledred 18°G, a hydred 62°G, yn 50 milltir o hyd a 12 o led. Mae hon yn ffrwythlon, ond nid oes borthladd cyfleus yn perthyn iddi, ac nid oes unrhyw drafnidiaeth rhyngddi â Phrydain. Y trigolion ydynt yn cyfnewid ei chynnyrch yn rawn, ffrwythydd, &c. a'r ynysoedd cyfagos. Mae hon yn perthyn i deulu Codrington: y trigolion ydynt o ddeutu 1,500.

## ANGUILLA.

YNYS yn sefyll o ddeutu 60 milltir i'r gogledd orllewin o St. Christopher sydd yn gorwedd yn lledred 19° yn ogleddol, ac yn 30 milltir o hyd ac o ddeutu 10 o led. Darganfuwyd hon gan y Saeson yn 1650, ond buwyd rai blynyddau heb ymsefydlu ynddi gan liosogrwydd yr ymlusgiaid gwenwynig oedd ynddi. Mae ei gwyneb yn dra gwastad, a'i hinsoddau yn dymherus, fal y crybwylliad am Jamaica. Nid yw ei thrigolion yn lliosog: eu goruchwylion yw trin tir, a meithrin anifeiliaid i farchnadoedd yr ynysoedd cyfagos.

## DOMINICA.

MAE Dominica yn gorwedd rhwng o ddeutu hanner y ffordd rhwng Guadaloupe a Martinico, sef yn lledred 16°G, a hydred 62°G. yn 28 milltir o hyd ac 16 o led. Columbus am iddo ei darganfod ar ddydd sul* a roddes yr enw iddi. Mae tir yr ynys hon yn deneu, ac felly yn fwy addas i feithrin coffee na sygr, ond y mae ar lethrau ei mynydd-dir, goed mwy ardderchog nag yn unrhyw o ynysoedd India orllewin, ac y mae rhai o'i nentydd, trwy y rhai mae afonydd a ffrydiau yn troelli yn dra-llawn o bob ffrwythydd cyhydeddol

Mae yr ynys hon gwedi bod er ys oesoedd yn achlysur o gryn ymgecru rhwng y Saeson a'r Ffrancod: yr olaf yn ofni colli meddiant o honi o herwydd drygu y rhydd-dramwy rhwng Guadaloupe a Martinico yn amser rhyfel; a'r blaenaf yn ymroddi i'w meddiannu gan iddi fod yn agos i rai o'i hynysoedd ereill. O'r diwedd trefnwyd yn heddwch 1763, mai y Saeson a'i meddiannai rhagllaw. Goresgynwyd hi drachefn gan y Ffrancod yn y rhyfel gyntaf fu rhyngom ag America, ond adferwyd hi yn ol i Loegr yn heddwch 1783.

## ST. VINCENT.

MAE'R ynys hon yn sefyll yn lledred 15°G. a hydred 61°G. yn gorwedd 50 milltir i'r gogledd orllewin o Barbadoes, a 30 i'r de o St. Lucia; yn 17 milltir o hyd a 10 o led. Mae hon yn dra ffrwythlon yn nghynyrch cyffredin yr India orllewin, yn enwedig sygr. Buwyd yn meithrin Indigo yn helaeth ynddi gynt; ond mae y cyffyr hwn yn lleihau yn yr holl ynysoedd hyn, wrth fal y mae y planfeydd sygr yn

* Dominicalis yw'r gair lladin am lythyren sul.

cynyddu. Mae yma liaws o'r Caribeaid yn preswylio: bu arweddiad lymdost y Saeson ar yr anwariaid hyn gwedi i'r ynys ddyfod i'w meddiant yn heddwch 1763, yn achlysur iddynt ochri gyd a'r Ffrancod yn 1779; y rhai yn hysbys o'r cyfryw ymroddiad a ymosodasant yn llwyddiannus arni, . Adferwyd St. Vincent yn ol i Frydain yn 1783.

## GRANADA.

GRANADA sydd yn gorwedd o ddeutu 90 milltir i'r de orllewin o Barbadoes, ac agos yr un bellder oddiwrth Andalusia newydd yn neheubarth America, yn sefyll yn lledred 12°G; yn 28 milltir o hyd a 13 o led. Mae hon yn ynys dra ffrwythlon mewn sygr, coffee, tobacco, indigo a'r cyffelyb, a gellir ei barnu mor llwyddiannus yn helaethder ei chynnyrch a'i threfnidiaeth ag unrhyw o'i maint yn yr India orllewin Mae llyn ar nen bryn yn ei chanol yn rhoddi cyflawnder o ddwfr i'w ffrydiau lliosog, yr hyn sydd yn ei gwneyd mor hynod o ffrwythlon. Mae amryw aberoedd ac angorfeydd yn cylchynu hon, a rhai o honynt megys y St. George ac ereill yn ddigon eang i gynnwys ugeiniau o longau ynddynt ar unwaith; ond yr hyn sydd yn ei gwneyd yn fwyaf cyfleus i longwriaeth, yw, nad oes tymhestloedd yn digwydd ynddi ond yn dra anfynych. Cymerwyd Granada oddiar y Ffrancod yn 1762, a sefydlwyd iddi berthyn i'r Saeson yn 1763; adgymerwyd hi gan y Ffrancod yn 1779, ond adferwyd hi yn ol i'r *Saeson* yn 178[illegible]. Tiriodd y Ffrancod ynddi yn 1795, ond ni bu llwyddiant ar eu cais o'i goresgyn y pryd hwnw, a Lloegr y pryd hwn sy mewn meddiant o honi.

## TRINIDAD.

TRINADAD yn sefyll yn lledred 10°G. a rhwng hydred 59° a 62°G. sydd yn gorwedd rhwng ynys Tobago a Deheu-barth America, oddiwrth yr hon mae cyfyngfor Paria yn ei gwahanu. Mae hon yn ynys fawr, sef yn 90 milltir o hyd a 60 o led, ond nid yw ei hinsoddau mor iachus ag yw hinsoddau y rhai sy newydd fod dan sylw. Mae y tir yn cnydio grawn India yn doreithiol, hefyd sygr, tobacco, indigo, ginger, cotwm, a phob ffrwythydd cyhydeddol. Cymerwyd hon gan Syr Walter Raleigh yn 1595, a chan y Ffrancod yn 1676, y rhai a ymddygasant yn dra chreulon tu ag at y trigolion. Meddiannwyd yr ynys hon gan luoedd Prydain yn Chwefror 1797, a phenderfynwyd yn heddwch Amiens yn 1802, mai hi a'i meddiannai rhagllaw.

## YNYSOEDD GWYRYF.

YNYSOEDD gwyryf ydynt liaws o ynysoedd mân yn gorwedd rhwng Porto Rico ac ynysoedd Caribee: yn sefyll yn o ddeutu 18° o ledred gogleddol. Yr Yspaeniaid a roddes yr enw hwn arnynt o barch i'r 11,000 o wyryfon y llith-lyfr pabyddol. Maent yn perthyn gan mwyaf i'r Saeson a'r Daniaid, ac y mae yr Yspaeniaid yn honni hawl mewn ychydig o rai mân o honynt sydd yn agos i Porto Rico. Tortola y fwyaf o'r rhai sydd yn perthyn i'r Saeson sy 18 milltir o hyd a 7 o led: mae hon yn dra ffrwythlon mewn cotwn, sygr, a rum. Gorda, un arall o honynt yn perthyn i'r Saeson sydd o gylch yr un maintioli.

ond nid yn llawn mor ffrwythlon. Ynysoedd St. Thomas, St. John, a St. Croix, y rhai ydynt yn rhan o ynysoedd gwyryf, oeddynt ar ddechreu y rhyfel ddiweddaf yn perthyn i'r Daniaid.

## YNYSOEDD BAHAMA.

YNYSOEDD Bahama neu Lucayos ydynt yn sefyll i'r de o Carolina, rhwng lledred 12 a 27° yn ogleddol, a hydred 73 ac 81° yn orllewinol. Maent yn cyrhaedd ar hyd arfordiroedd Fflorida, hyd o fewn ychydig i ynys Cuba: a dywedir eu bod yn 500 o rifedi, er nad yw rhai o honynt ond creigiau anial noethion. Mae yn eu plith 12 o ynysoedd lled fawrion, y rhai ydynt yn cynnyrchu grawn India a ffrwythydd yn doreithiol, ond nid yw y trigolion yn lliosog. Providence, yr hon sy'n gorwedd o ddeutu 200 milltir i'r dwyrain o Fflorida, yw y liosocaf ei thrigolion, ond nid y fwyaf ei maintioli. Yr ynysoedd hyn oeddynt y rhai cyntaf a ddarganfu Columbus. Nid oeddynt yn adnabyddus i'r Saeson hyd y flwyddyn 1667, pan y gyrodd tymhestl sais o enw Seyle, yr hwn oedd ar fordaith i Carolina i'w plith. Rhoddes hwn ei enw i un o honynt, ac ar iddo yn y flwyddyn ganlynol gael ei ymlid i'r un ynys, cyfnewidiodd ei henw i Providence. Y Saeson yn gweled bod yr ynysoedd hyn yn sefyllfa fanteisiol iddynt i atal rhwysg y Ffrancod a'r Yspaeniaid, a ymroddasant i geisio ymsefydlu ynddynt, ond fe ddaeth rhyw rwystrau i luddias cyflawni y cynllun, a Providence yn ganlynol a ddaeth yn noddfa i fintai o for-ladron, y rhai am flynyddau lawer a fuant yn ormes ar longau trefnidiol oedd yn mordwyo ar dueddau America. O'r diwedd, ymroddodd y llywodraeth i roddi cais eilwaith o ymsefydlu ynddynt, felly yn 1718, danfonwyd llynges gref dan arweiniad y cadpen Woodes Rogers, yr hwn gwedi cyrhaedd Providence, a darfodd rwysg y mor-ladron, ac a'u cymerodd hwy a'u llongau i'w feddiant. Adeiladwyd gwedi hyn amddiffynfeydd ar y rhai mwyaf o honynt, a danfonwyd trefedigion i'w cyfanneddu. Cymerodd yr Yspaeniaid yr ynysoedd hyn yn nechreu y rhyfel gyntaf fu rhyngom ag America, ond cymerwyd hwynt yn ol gan y Saeson gwedi ymladdfa dost ar y 7 o Ebrill 1783.

Mae lliaws ereill o ynysoedd ffrwythlon yn yr India orllewin yn perthyn er ys blynyddau lawer i Frydain, y rhai ni oddef cylch y gwaith hwn eu holrhain yn fanwl: y rhai a grybwyllwyd yw y rhai mwyaf eu maint, y lliosocaf eu trigolion, ac felly yn fwyaf enwog mewn trefnidiaeth, &c.

Yn ganlynol rhoddir ychydig ddysgrifiad o ynysoedd yr India orllewin y sydd yn perthyn i goron Yspaen.

## CUBA.

YNYS Cuba sydd yn gorwedd rhwng lledred 20 a 25°G a rhwng hydred 74 a 85°G sef o ddeutu 100 milltir i'r de o benrhyn Fflorida a 75 i'r gogledd o Jamaica; ac yn 700 milltir o hyd ac o ddeutu 70 o led. Mae trum fynyddig yn estyn o'r naill ben i'r ynys i'r llall, ond y mae y tir o'i deutu hyd at lenydd y môr yn wastadoedd ffrwythlon, ond yn cael eu gorllifo yn y tymhor gwlyb, pan y byddo yr haul yr syth goruwch yr ynys. Mae tir yr ynys hon yn cael ei gyfrif gyd a'r goreu o unrhyw yn America: mae cynnyrch cyffredinol yr India orllewin yn

ehelaeth ynddi, sef, sygr, tobacco, cotwm, pupur, cyffuriau meddygawl; derw, ffawydd, mahogani, palmwydd, eboni, ac amryw goed ereill. Cludwyd gwenyn iddi yn 1763 o Fflorida, y rhai a liosogasant yn ei cheubrenau a'i choed-diroedd amrywiol, fal y daeth digon o fêl i wasanaethu yr ynys; ac yn 1777, danfonasant o hono i farchnadoedd tramor o ddeutu 715,000 o bwysi.

Mae yn ei mynydd-dir liaws o gloddfeydd efydd, o'r rhai mae holl daleithiau Yspaen yn America yn cael eu diwallu, ac mae rhai gronynau aur ac arian yn cael eu casglu ar hyd lenydd y brif afon. Y gwartheg ydynt gwedi lliosogi cymmaint er eu cludiad o Ewrop iddi, a bod ei hanial-leoedd yn llawn o honynt, ac y mae cantoedd yn cael eu hela yn flynyddol er mwyn eu crwyn yn unig: moch gwylltion a dofion, cregin-grainc, a chreaduriaid ereill ydynt hefyd yn dra lliosog. Y prif adar ydynt petris, colomenod, paroquets, ac amryw o adar dwfr; ac mae y mor oddiamgylch yn heigio digonedd o bysgod.

Darganfuwyd yr ynys hon gan Columbus yn 1492, ond ni lwyr ddarostyngwyd hi i rwysg Yspaen hyd 1511.* Yn 1519 adeiladwyd dinas Havannah ar du gogledd yr ynys, oherwydd i lywydd llestr ganfod bod tramwyfa deg rhwng yr ynys a chyfandir gogleddol America i longau a fyddo yn morio rhwng Ewrop a Mexico. Daeth y ddinas yn ddiatreg yn dra chyfoethog, a daeth mor-ladron yn ganlynol i'w sarhau. Yn 1741, tiriodd y llyngeswr Vernon yn nglenydd deheuol yr ynys, ac adeiladodd amddiffynfa, yr hon a alwodd Cumberland, ond bu raid iddo yn mhen ychydig ei gadael gan afiechyd hinsoddau y lle. Yn 1761, cymerwyd Havannah gan y Saeson, a chafwyd ynddi drysorau gwerthfawr, eithr adferwyd hi yn ol yn yr heddwch a ganlynodd. Y prif drefydd ereill yw St. Jago, Principe, Trinidad, Batabano, Spiritu Sancto ac ereill, y rhai fal Havannah ydynt a phorthladdoedd eang yn perthyn iddynt.

## MARGARETTA.

MARGARETTA sydd yn sefyll yn lledred 11° 30G a hydred 64° G. ac yn 40 milltir o hyd a 24 o led. Mae hon yn cael ei gwahanu oddiwrth Andalusia newydd yn Terra Ffirma gan gyfyngfor o ddeutu 24 milltir o led. Y cynnyrch sy gyffelyb i'r ynysoedd cyfagos, ond mae ynddi brinder coed, a bu weithiau cyn diwedd y tymhor sych i'w holl ffrydiau a ffynonydd sychu. Bu hon yn enwog gynt am y lliosogrwydd o berlau a geffid yn y glenydd cylchynol.

* Y goresgynwyr cyntaf oeddynt fyddin o Yspaeniaid, o blith y rhai newydd oresgyn San Domingo, y rhai dan Nelaquez eu llywydd a ddechreuasant ddifrodi yn eu barfod, ond cawsant heth gwrthwyneb gan y cacique Hatuey, yr hwn a ffoisai o San Domingo i ochel creulonder yr Yspaeniaid. Gwedi gorthrechu yr Indiaid truain, daliasant Hatuey, a rhwymwyd ef wrth gyff i'w losgi yn fyw; a phan oeddynt ar danio y gludair, nesäodd mynach urddasol ato i ofyn a fynai ei fedyddio, fal yr elai i'r Nefoedd. Yna gofynodd y cacique iddo, A oes yn y lle dedwydd hwnw unrhyw Yspaeniaid? Oes, atebai y mynach. Wela os felly, nid af fi i le y byddwyf mewn perygl o gyfarfod ag unrhyw o honynt. Na flinwch mo honof mwy gyd a'ch crefydd, ond gadewch imi farw yn dawel.

## PORTO RICO.

MAE yr ynys hon yn gorwedd rhwng Hispaniola a St. Christopher, sef yn lledred 18°G. a rhwng hydred 64° a 67° yn orllewinol: yn 100 milltir o hyd ac o ddeutu 40 o led. Mae gwyneb hon yn lled wastad, y tir yn ffrwythlon o gynnyrch cyffredin yr India orllewin, a'i ffrydiau, a'i hafonydd yn dra lliosog. Ei hinsoddau tra ystod y tymhor gwlyb ydynt afiach, yr hyn gyd â bod y cloddfeydd aur ac arian gwedi treulio agos yn llwyr sydd achlysur i lawer o'i thrigolion fyned i gyfaneddu ynysoedd neu wledydd ereill y sydd yn perthyn i Yspaen yn America.

Columbus a ddarganfu yr ynys hon, ond ni sefydlwyd ynddi hyd 1509, pan y darfu i awydd am aur arwain llu o Yspaeniaid o St. Domingo dan lywydd o enw Ponce de Leon i'w goresgyn. Cawsant y trigolion yn ddynion dewr, rhydd a siriol, ac yn ufudd i'w rhwysg gormesol, gan iddynt eu golygu megys duwiau. Ond fal yr oedd yr Yspaeniaid yn eu gorthrymu yn dost, ymroddasant eu gwynebu mor fuan ag y cafent fodlonrwydd mai marwolion oeddynt. Yn fuan gwedi hyn, digwyddodd i Yspaeniad ieuanc ofyn i'r cacique am ychydig o'r Indiaid i'w arwain i un o'r cloddfeydd, yr hyn yn cael ei ganiatau, daethant i lenydd afon, tros yr hon y cludwyd yr Yspaeniad gan un, o'r Indiaid, yr hwn pan ddaeth i le digon dwfn, a'i bwriodd i lawr ac a'i cadwodd dan ddwfr hyd oni threngodd. Yna gwedi ei lusgo i'r lan, ac eto yn ammeu nad oedd yn ddarostyngedig i farw, gofynasant ei nawdd am y ddamwain a ddigwyddasai am dridiau a theirnos, sef, hyd oni ddechreuodd y corff lygru. Ar hyn cyfodasant megys un gwr, ac ymosodasant ar yr Yspaeniaid, a lladdwyd o ddeutu cant o honynt

Ponce de Leon gwedi casglu y gweddill o'i filwyr yn nghyd, rhuthrwyd i'r anwariaid, y rhai yn ffugio mai y rhai a laddasant gwedi adgyfodi oeddynt, a ymddarostyngasant eilwaith i'w rhwysg, ac felly gwedi eu dyfarnu i'r cloddfeydd, syrthiodd 500,000 o honynt, yn fethyron i'r cleddyf ac i arteithiau caethiwed.

Porto Rico y brif ddinas sydd yn sefyll ar ynys fechan ar du gogledd yr ynys, a sarn sydd yn ei chydio a'r lân. Mae hon yn dra chadarn gan amddiffynfeydd, ac y mae ei phorthladd cyfleus yn ddigon ëang i ddiogelu ugeiniau o longau mawrion ar unwaith. Cymerwyd y ddinas hon gan Syr Ffrancis Drake, a thrachefn gan iarll Cumberland. Mae Porto Rico yn fwy poblog na threfydd ereill Yspaenwyn y parthau hyn, oherwydd bod ei sefyllfa yn nghanol y drefoidiadth waharddedig y sydd trwy ystod y blynyddoedd, yn cael ei chole du gan y Saeson a'r Ffraucod â deiliaid brenin Yspaen. Trigolion yr ynys hon yn 1778 oeddynt 80,660, o ha rai yn oedd 6,530 yn gaethion.

Yr ynysoedd canlynol oeddynt yn perthyn i Ffrainc cyn dechreu y rhyfel a derfynodd yn nêoliad y gormesdeyrn Buonaparte i ynys Elba, a thrachefn gwedi buddugoliaeth orfoleddus Waterloo yn 1815 i St. Helena y rhai gyd a'r ynysoedd ereill yr yr India orllewin, oddigerth ynysoedd Yspaen a theyrnas annibynol Hayti a ddaethant oll fal y soniwyd i feddiant Prydain fawr.

## HISPANIOLA.

MAE Hispaniola, yr hon a elwir St. Domingo a Hayti yn gorwedd rhwng lledred 17° a 21°G. a rhwng hydred 67° a 74°G, yn 480 milltir o hyd a 150 o led. Darganfuwyd yr ynys hon gan Columbus yn 1491, yr hwn a'i galwodd Hispaniola neu Yspaen fechan o barch i'r wlad, yr hon oedd a'i pheniaeth yn ei gadw ar waith i olrhain y gorllewin-fyd; ond o roddi yr enw St Domingo i ddinas a adeiladwyd ganddo ef neu ei frawd Bartholomew yn 1494, galwyd yr holl ynys mewn yspaid amser wrth y cyfryw enw mor fynych ag Hispaniola. Hayti oedd yr enw arni cyn ei goresgyn gan Ewropiaid. Yr oedd y trigolion ar ddyfodiad yr Yspaeniaid iddi yn noethion, ond o duedd mwy addfwyn nag unrhyw o drigolion yr ynysoedd ereill, ac yr oedd yn eu llywodraethu saith beniaeth a elwid caziques.

Mae cyfyngfor o ddeutu 35 milltir o led, a elwir y *Windward passage* yn gwahanu yn ynys hon oddiwrth Cuba. Hon yw yr ynys fwyaf oddigerth Cuba yn yr India orllewin, ac y mae ei chynnyrch yn dra ehelaeth. Pan y daeth yr Yspaeniaid gyntaf iddi, hwy a gawsont dderbyniad croesawgar gan y trigolion, y rhai fal y soniwyd a lwyr ddystrywiasant. Hon yn digwyddo bod yn lle cyntaf a ddarganfu yr Yspaeniaid yn y gorllewin-fyd, daeth yn ganlynol yn gauol-bwnc trefnidiaeth, a bu llwyddiant ar y lle, hyd oni ddarganfuwyd Peru, pan yr esceuluswyd tramwy iddi. Yn nghanol y 17 ganrif y dechreuodd y Ffrancod dirio ynddi, ond yn fwy yn niwyg mor-ladron na threfedigion gonest; ac yn fuan gwedi daeth planwyr iddi. Yn heddwch 1697 rhoddes Yspaen y ddosbarth gogledd orllewin i Ffrainc, yr hon sydd yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf prydferth ar y ddaear.

Er bod hinsoddau Hispaniola yn boethion, eto cyfrifir hi yn wlad iachus, ac y mae ei holl wyneb yn dir amaethyddol bras, yn cnydio y coed, cotwm, a'r cyffelyb, a grybwyllwyd am danynt yn nysgrifiad yr ynysoedd ereill, yn nghyd â phob ffrwythydd cyhydeddol. Ei hanifeiliaid ydynt amrywiol, ac er bod y crocodil distrywgar yn nglenydd ei hafonydd a'i harfordiroedd, eto mae y cregin-granc yn llawer mwy lliosog. Yr oedd ynddi gynt gloddfeydd gwerthfawr o aur, y rhai a ddyhyspyddwyd gan yr Yspaeniaid trwy gymell y trigolion diniwed trwy y creulondeb mwyaf ysgeler i olrhain celloedd tywyll y ddaear am dano.

Yn fuan gwedi heddwch 1697, ymroddes y Ffrancod o adael heibio olrhain y cloddfeydd ac ymroddi i drin y tir, ac i lunio planfeydd tros holl wyneb y gyfran oedd ganddynt o'r ynys, ac fal yr oeddynt hwy yn llwyddo, yr oedd ymgais yr Yspaeniaid gyd a'u harteithiau dieflig yn sychedu am aur yn adfeilio. Yn 1702 yr oedd Port au Prince yn brif dref yr ardaloedd Ffrengig, o'r hon y danfonid i'r fam-wlad ddaoedd yn gyfartal i ddwy filiwn o arian yn flynyddol, a bu llwyddiant arni hyd y dadymchweliad Ffrengig yn 1789.

Yr oedd Yspaen yn fuan gwedi dechreu y dadymchweliad, gwedi gorfod rhoddi y rhan arall o'r ynys i'r Ffrancod, ac yr oedd yr un yspryd cynyrfus gwedi ennyn yno yn mhlith gwynion a duon fal yn y fam-wlad. Lladdwyd yn nghorff deu-fis 2,000 o bobl wynion; tylodwyd 1,200 o deuluoedd cyfoethog, a distrywiwyd 180 o blanfeydd sygr, 900 o blanfeydd coffee, cotwm, a'r cyffelyb. Ar hyn danfon-

odd Ffrainc y swyddogion Santhonax a Polverel i geisio tawelu y derfysg, ond er iddynt addaw cyflawn ryddid i'r duon, nid oedd y derfysg yn dystewi O'r diwedd danfonodd rhai o'r prif blanwyr at lywodraeth Prydain i ddeisyfu arni ddanfon ei lluoedd i oresgyn yr ynys a'i meddiannu. Felly danfonwyd byddin iddi a goresgynasant yn ddiatreg y prif drefydd, ond cyn cael yr holl ynys i'w meddiant, daeth y cryd melyn i wersyll y Saeson, a buont feirw agos oll.

Gwedi hyn dychwelodd y swyddogion Ffrengig i'w gwlad, a meddiannodd y duon tan arweiniad dyn du o enw Toussaint l 'Ouverture yr holl leoedd a ennillasai y Saeson. Yn 1746 danfonwyd 7,000 o filwyr Prydain i adennill yr ynys, ond cyn iddynt braidd dirio, daeth yr un clwyf angeuol ag o'r blaen i'w plith, a gorfuwyd rhoddi y cynllun heibio eilwaith. Y Ffrancod yn deall bod y Saeson yn ymroddi i oresgyn yr ynys, ymheddychasant â Toussaint, a gwnaethant ef yn llywydd yr ynys, gan addaw iddo ei rheoiaeth am ei oes. Felly dychwelodd llongau Prydain a'r gweddill filwyr i'w gwlad.

Yr oedd Toussaint erbyn hyn yn flaenor ar 40,000 o ddynion duon, ac erbyn 1800 yr oeddynt yn ddwy-waith y rhifedi, ac ar y cyntaf o Gorphenaf yn y flwyddyn hono, mynodd ei gyhoeddi ei hun yn ymerawdr Hispaniola. Ar hyn danfonodd Ffrainc 20,000 o wyr tan arweiniad le Clerc, brawd yn nghyfraith Buonaparte i oresgyn yr ynys, ond gwedi iddynt ddyfod i'r golwg taniwyd y brif ddinas cyn iddynt dirio. Bu brwydrau aruthr rhwng y ddwy-blaid am agos hanner blwyddyn, pan yr ymheddychasant. Ond y Ffrancod, er addo pob tegwch a aethant yn ddirgel i lys Toussaint a chludasant ef a'i wraig a'i blant i Paris, ac yno mewn carchar y buont feirw.

Y peniaeth nesaf oedd dyn dû o enw Dessalines, yr hwn yn gweled ei gyd-wladwyr yn cael ei hela a gwaed-gwn, ac ereill yn cael eu carcharu, &c., a ymroddodd i ddyfod i'r maes i ymladd, a gwedi i'r duon o bob cwr ymuno a'i luman, hwy a feddianasant y dinasoedd a'r amddiffynfeydd, ac erlidiasant y Ffrancod ymaith. Gwedi cyrhaedd y llongau, a gweled y perygl o gael eu soddi trwy beleni poeth oddiar yr amddiffynfeydd, rhoddasant eu hunain i amddiffyniad llynges Prydain oedd ar warthaf yr ynys, a chludwyd hwynt yn garcharorion i Jamaica.

Cyhoeddwyd Hispaniola ar y 29 o fis Tachwedd 1803 eilwaith yn annibynol, a galwyd ei henw Hayti, a chyhoeddwyd Dessalines yn ymerawdr tan enw Jacques I. Nid oedd oes hwn ond byr: syrthiodd trwy frâd rhai o Ffrancod ei lys, a dyn du o enw Christophe a enwyd yn ddilyniedydd, yr hwn ni fynai unrhyw ditl uwch na llywydd Hayti.

Yn fuan gwedi hyn daeth lluoedd ereill o Ffrancod i'r ynys, a bu brwydrau rhwng Petion eu peniaeth â Christophe, hyd oni orchfygwyd yr olaf yn llwyr. Yna tiriodd llynges o Frydain â byddin dan weiniad Carmichael, a meddiannwyd hi yn enw brenin Prydain fawr.

## GUADALOUPE.

MAE hon yn gorwedd yn lledred 16°G a 62°G, yn 45 milltir o hyd a 38 o led, ac yn sefyll o ddeutu 90 milltir i'r gogledd o Martinico, ac o ddeutu yr un bellder i'r de o Antigua. Mae yr ynys yn cael ei dosbarthu yn ddwy ran gan gulfor o hanner milltir i dair milltir o led,

yr hwn sydd a'i ddwy eithafnod yn borthladdoedd cyfleus, yr un ar y tu gogledd yn cael ei galw *Grand Cul de Sac*, a'r llall *Petit Cul de Sac*. Gelwir hefyd y darran ddwyreiniol *Grande Terre* a'r llall Guadaloupe, yr hon sydd â mynyddoedd uchel yn estyn trosdi, y rhai yn debyg eu dull i fynyddoedd talaeth o'r un enw yn Yspaen a barodd i Columbus roddi yr enw iddi Mae Grande Terre yn wlad wastad ac heb na ffrydiau na ffynonydd ynddi, ond yn y tymhor gwlyb; ond y mae y gyfran arall ga.. ei gwyneb garw a dyfroedd ynddi yn wastadol. Mae y culfor yn rhy fas i longau mawrion nofio arno.

Hinsoddau yr ynys hon ydynt iachus, ac heb fod mor boeth gan ei thrêm fynyddig a'r ynysoedd cyfagos. Y trefedigion cyntaf a ddanfonwyd iddi gan Ffrainc oedd yn 1632, yr oeddynt yn 500 o rifedi, ac ar iddynt dirio, cawsant y gwrthwynebiad mwyaf gan y trigolion, y rhai yn methu llwyddo i w hymlid ymaith a ymroddasant i annrheithio yr ynys, fal na chafent gynnaliaeth ond a oedd ganddynt yn eu llongau. Yn mhen y deu-fis darfu yr ymborth yn llwyr, felly bu newyn echrydus yn rheoli hyd oni ddigwyddodd i long oedd yn myned heibio droi iddi a chludo y genadwri i'r ynysoedd cyfagos. Gorfu arnynt godi eu meirw i ymborthi arnynt, a hela yr Indiaid i'w difa rhag newynu. Yn 1640, tiriodd ychwaneg o drefedigion, y rhai a gludasant ddigonedd o bob angenrheidiau, ac ymheddychasant a'r trigolion. Ond nid llawer o lwyddiant a fu arnynt hyd ddechreu y 18 ganrif, pan yr ymroddasant i lunio planfeydd rheolaidd, ac yr adeilasant *Basse-terre*, y brif ddinas, a thref *Point a Pierre*, ac amryw amddiffynfeydd cedeirn i ddiogelu trefnidiaeth yr ynys.

Pan diriodd Columbus gyntaf yn yr ynys hon, daeth mintai o fenywod â bwaâu a saethau i geisio ei rwystro, ac ni allodd eu hymlid ymaith, hyd oni laddodd rai o honynt. Cafodd eu hanneddau yn llawn cotwm, peth gwedi ei nyddu, peth gwedi ei weu, a'r gweddill yn barod i'w drin. Yn mhlith y coed amrywiol y sydd yn yr ynys hon, mae y pren corbari, yr hwn sydd yn rhoddi gum lled debyg i weir. hefyd y pren llaeth, yr hwn sydd a'i syg yn wyn ac yn beraidd, ac amryw ereill yn rhoddi cyffuriau meddygol. Y llysieu ereill ydynt coffee, cocoa, indigo, cotwm, &c. Yr adar ydynt liosog yn enwedig adar dwfr. Cymerwyd Guadaloupe gan y Saeson yn Ebrill 1719; ond adferwyd hi yn ol yn heddwch 1763. Cymerwyd hi eilwaith gan y Saeson yn Ebrill 1794, a gadawsant hi yn Chwefror 1796 Yn 1810 gwedi i'r Saeson ddwyn oddiar Ffrainc ei holl feddiannau yn yr India orllewin, oddigerth yr ynys hon, adgymerasant hi y drydedd waith. Syr George Beckwith oedd blaenor ymilwyr a'i goresgynodd, a'r llyngesydd Alexander Cochrane oedd a gofal y llynges arno.

Yn y drum uchel y sydd yn estyn ar draws yr ynys hon, mae y mynydd tanllyd a elwir Souffrier, yr hwn yn 1813 a fwriodd y fath drwch o ludw ac elfenau toddedig ac y meddyliwyd bod llwyr ddistryw gwedi dyfod i ran y trigolion.* Yr oedd y fath dywyllwch, rhwng y lludw a'r mwg tewglyd yn ynysoedd Guadaloupe a Martinico, na welai y trigolion lathen oddiwrthynt ar hanner dydd. Mae y mynydd hwn yn 2,000 o latheni o uchder, ac yn ei ystlys o fewn 300 llath i'w ben mae y safn danllyd, yr hon sydd yn llawn hanner milltir o amgylchiad.

---

* Yr oedd y mynydd tanllyd hwn gwedi bod yn lled lonydd am ganrif gyfan, ond ar hanner dydd Ebrill 27, 1813, digwyddodd twrf dychrynllyd ynddo.

## ST. LUCIA.

MAE hon yn gorwedd yn lledred 14°G. yn 27 milltir o hyd a 12 o led. Ei henw sydd yn deillio oddiwrth y wyryf Lucia, ar ddydd gwyl yr hon y darganfuwyd yr ynys. Mae trem yr ynys hon yn fynyddig, ond dau sydd yn hynod am eu huchder a'u bod gynt yn foelydd tanllyd. Y nentydd ydynt yn llawn o ffrwythydd cyffredinol yr India orllewin, ac y mae yr hinsoddau gan erwindeb ei gwyneb yn iachus a chymhedrol. Mae yma borthladdoedd ëang cyfleus, a rhai o honynt yn diogelu llongau yn mhob tymhestl. Mae ffordd fawr o amgylch yr ynys a dwy ereill yn estyn ar ei hyd a'i lled, ac felly yn gyfleus i'r planydd gludo ei drefnidiaeth i'r llongau.

Gwedi i'r Saeson sefydlu yn yr ynys hon yn y flwyddyn 1638, daeth y Ffrancod iddi, a gwedi denu y Caribeaid oedd yno i'w mintai, hwy a'u hymlidiasant oddiyno. Y peniaeth Rousselan yn priodi merch

---

yr hwn a barodd i'r holl ynys grynu, ac yn ganlynol daeth colofnau culion o fwg dudew o hono, hyd oni luniwyd cwmwl du echrydus yr olwg arno goruwch yr ynys, o'r hwn yr oedd yn syrthio drwch o ludw gwyn a marwor yn ddiorphwys. Ar yr 28, yr oedd y mwg yn ymdaflu yn uwch a mwy trwch yn syrthio, a'r twrf fal taranau pell yn cynyddu. Ar y 29, ymunodd yr holl golofnau a'u gilydd yn un golofn anferth, gan ymledu wrth ymdderchafu. Ond yn mhrydnawn y 30, daeth y twrf yn fwy grymus a'r ddaear i grynu yn ddiorphwys. Ar hyn diangodd y Caribeaid oedd yn preswylio tref wrth droed y mynydd, gan gludo gyd a hwynt eu hanifeiliaid, a phob daoedd a allent symud. Y Negroaid oeddynt yn y maesydd cyfagos, a adawsont eu goruchwylion, yn llawn dychryn o weled y mynydd yn crynu gan y twrf echrys oedd ynddo. Yr oedd yr adar erbyn hyn yn syrthio gan drwch y lludw oedd yn dyfod arnynt, a'r anifeiliaid yn newynu heb allu cael blewyn o las-wellt. Yr oedd y mor yn ymliwio, ac yn ymderfysgu. O'r diwedd tua 4 o'r gloch, daeth y twrf yn fwy dychrynllyd nag o'r blaen, ac yn ganlynol daeth colofn o dân, yr hon oedd a'i blaenau ysgwydedig yn cyrhaedd i'r entrych, ac yna yr oedd mellt yn goleuo oddiamgylch yn ddigyfrwng, a bolltau tân fal goruchion tra dysglaer yn ymdroelli trwy'r ffurfafen dywell yn mhob ystum. Tua 7 o'r prydnhawn, gwedi i'r twrf gynyddu hyd onid oeddid yn disgwyl y llyncid yr ynys, dechreuodd y ffrwd danllyd ymferwi allan, hyd oni lenwodd ceunant o'r elfen yn eirias doddedig, ac yna torodd y ffrwd danllyd dros yr ymyl yn afon lifeiriol yn dystrywio yn ei harfod oddiyno i'r môr. Tua hanner nos torrodd afon danllyd ar y tu arall allan, ac yna daeth y daear-grynfau yn fwy aml, a'r marwor i ymsaethu yn gyflymach, ac yn ganlynol daeth torchau tanllyd blith-dra-phlith â chenllysg tros yr hôll ynys. Erbyn hyn yr oedd anedd yma ac acw yn myned ar dan, a'r Negroaid yn eu dychryn yn ffoi o'u bythau yn cael eu lladd gan y cenllysg, neu eu llosgi gan y marwor. Parhaodd y gawod ddychrynllyd hon awr gyfan, ac yna daeth y ddaear i grynu yn ddibaid, yr hyn gyd a mellt a tharanau trymion a barhaodd hyd yr hwyr, pan y dechreuodd y derfysg ostegu. Parhaodd cryndod y mynydd hyd y seithfed dydd, ac yna ymdawelodd.

Erbyn i'r cwmwl dudew oedd yn toi y mynydd ddiflanu, gwelwyd bod nen bigfain y mynydd gwedi ei ddryllio, a bod nen cainc oedd ar ei ystlys gwedi ymsoddi, a llyn o gylch pedair erw o fesur o ddwfr berwedig yn ei le. Ar nos sul y 30 o Mehefin, dechreuodd y mynydd ail gynyrfu, a bwrw telpynau anferth o ddefnyddiau yn eirias wynion i'r llyn, yr hwn oedd erbyn hyn yn ferwedig a'i dwrf yn ddychrynllyd, a phan oedd ar dori tros ei geulenydd, daeth y fath ddyphwys o wlaw, ag y dylliodd y ceulenydd tanllyd a daeth y dwfr berwedig yn afon fawr trwy y dyffrynoedd cyfagos i'r mor, gan ddynistrio tai, perllenydd, &c, a llosgi amryw o Negroaid oedd yn ei arfod. Bu rai dyddiau gwedi hyn cyn i'r derfysg lwyr ostegu. Danfonodd Senedd Prydain fawr 50,000 o bunnoedd tu ag at wneyd y sarhad i fynu: a chludwyd hefyd ymborth ac angenrheidiau ereill o'r ynysoedd cyfagos i'r trigolion annedwydd.

peniaeth y Caribeaid, bu cyfundeb rhyngddynt a'r trigolion, hyd oni ddaeth llywydd mwy creulawn arnynt, pan y rhuthrodd y trigolion iddynt a'u lladd. Bu brwydrau aruthr rhwng y Ffrancod a'r Saeson am yr ynys hon a'r rhai cyfagos, ond o'r diwedd trefnwyd yn heddwch Aix la Chapelle yn 1748. y byddai i ynysoedd St. Vincent, Dominica, Tobago, a St. Lucia, fod yn anmhleidgar, ac yn rhydd i bawb a fynai dramwy iddynt. Y Saeson yn cwyno colli St. Lucia, yr oreu o'r cyfan, i'r hon yr oedd ganddynt ryw hawl er y flwyddyn 1664, pan y rhoddodd 600 o Garibeaid feddiant o honi i arglwydd Willoughby, trefnwyd yn 1763 i Frydain feddiannu y tair ereill ac i Ffrainc feddiannu St. Lucia. Ac o'r pryd hwnw dechreuwyd o ddifrif lunio planfeydd, a bu llwyddiant ar drefnidiaeth yr ynys. Yr oedd ynddi yn 1772, 2018 o ddynion gwynion, 663 o dduon rhydd, a 12,795 o Negroaid caeth. Cymerodd y Saeson yr ynys hon yn 1779, ond rhoddwyd hi yn ol yn heddwch 1783; adgymerodd y Saeson hi yn 1794, adferwyd hi yn ol yn 1795; cymerwyd hi drachefn yn 1796, ac adferwyd hi yn ol yn heddwch Amiens. Cymerwyd hi drachefn yn 1803, a chadarnhawyd hi i Frydain yn heddwch Paris yn 1814.

## ST. BARTHOLOMEW.

MAE hon yn sefyll o ddeutu 25 milltir i'r gogledd o St. Christopher, sef yn lledred 17° 46'G. a hydred 63° 40'G. ac yn 24 milltir o amgylchiad. Y Ffrancod oeddynt y cyntaf a ymsefydlodd yn yr ynys hon, ond gan nad oedd fawr lwyddiant arnynt ynddi, hwy a'i rhoddasant i'r Swediaid yn 1785. Mae ychydig o dir da yn yr ynys hon yn cnydio cyffuriau meddygol a rhai ffrwythydd cyhydeddol, ond y mae y rhan fwyaf o'i gwyneb yn fynyddig. Ei phrif borthladd sydd eang a chyfleus. Y Saeson er y flwyddyn 1801 sydd yn ei meddiannu.

## MARTINICO.

MARTINICO sydd yn sefyll rhwng lledred 14° a 15°G a hydred 61°G yn 60 milltir o hyd, ac o ddeutu 30 o led. Mae canol yr ynys hon yn fynyddig, o'r lle mae yn deillio ffrydiau troellog, y rhai ydynt yn dyfrhau ei nentydd a'i gwastadoedd ffrwythlawn. Y cynnyrch helaethaf ynddi ydynt sygr, cotwm, indigo a ginger: mae pob ffrwythydd hefyd y sydd yn gyffredinol yn yr ynysoedd cyfagos yn lled doreithiol ynddi. Ond sygr fal yn y lleill yw y prif dda trefnidiol. Yma yr oedd annedd prif lywydd ynysoedd Ffrainc yn y gorllewin-fyd cyn meddiannu yr ynysoedd gan Prydain fawr. Ei phorthladdoedd ydynt eang a chyfleus, ac yn gadarn gan amddiffynfeydd. Bu ymgais mynych gan longau Prydain i'w meddiannu, ond bob tro yn aflwyddiannus hyd y flwyddyn 1756, pan y darfu i rwysg ei harfau oedd y pryd hynny yn dra ysplenydd agos yn mhob-man, ennill yr ynys i'w meddiant; ond adferwyd hi yn ol yn yr heddwch canlynol. Cymerwyd hi eilwaith yn 1794, ac adferwyd hi yn heddwch Amiens. Daeth drachefn i feddiant Lloegr yn 1809, ac adferwyd hi drachefn yn heddwch Paris.

Pan gludwyd y newydd i'r ynys hon yn Mawrth 1815, fod Buonaparte gwedi dianc o Elba'a chyrhaedd Paris, rhoddodd Vaugirauds, llywydd yr ynys, 800 o rych-ddrylliau i filwyr cartrefol y lle, y rhai a wyddai oedd yn ffyddlon i'r brenin, a gosododd ereill o honynt ar yr amddiffynfeydd, ac yna galwodd i'r maes 400 milwr a ddanfonasid yn ddiweddar o Ffrainc, a darllenodd iddynt y newydd. Gwedi hyny gofynodd iddynt pa un a ddewisent ai aros yn yr ynys i'w hamddiffyn i'r brenin, ai ynteu hwylio i Ewrop i ymuno â lluman y gormeswr! Attebasant, fal y rhagwelsai gyd ag un bonllef. *Byw fyddo 'r ymerawdr.* "Hyn yntau," meddai'r llywydd yw eich penderfyniad. "Chwi gewch ei gyflawni yn ddiatreg: rhoddwch eich arfau i lawr, ac ewch i'r llong. Bydd gwrthwynebiad yn beth ofer. Yr ydych yn cael eich cylchynu gan filwyr arfog ffyddlon, ac y mae yr amddiffynfeydd yn eu meddiant yn barod!" Felly ufuddhau fu raid yn union-gyrchol, a thrwy hyny achubwyd yr ynys rhag i na therfysg na bradwriaeth ddilyn y cyfryw dro.

## DESEADA.

DESEADA, yr hon a elwir weithiau Desirada, neu Desiderada yw y gyntaf o ynysoedd Caribbee, ac sydd yn sefyll o ddeutu 12 milltir i'r dwyrain o Guadaloupe yn lledred 16° 38'G. a hydred 61° 15'G. Ei hyd yw 10 milltir, a'i lled yw ychydig llai na 5. Columbus a'i darganfu yn 1494. Mae yn nghanol hon dir da yn cynnyrchu ffrwythydd cyffredinol yr India orllewin, ond yr arfordiroedd o amgylch ydynt dywodlyd ac anffrwythlon.

## MARIAGALANTE.

YR ynys hon sydd yn gorwedd yn lledred 16°G. a hydred 61°G. yn 16 milltir o dde i ogledd o hyd, ac o ddeutu pedair o led. Mae holl arfordir dwyrain hon yn uchel a serth, ac y mae y rhan fwyaf o'i gwyneb yn anialwch mynyddig. Y dyffryn-dir sydd yn cynnyrchu tobacco, cotwm, coffee, sygr a'r cyffelyb. Y Ffrancod oedd yn ei meddiannu hyd 1808, pan y cymerwyd hi gan un o longau rhyfel Prydain fawr. Mae hon yn sefyll o ddeutu 30 milltir i'r gogledd o Dominica.

## TOBAGO.

MAE hon yn gorwedd i'r de o Barbadoes, sef, o ddeutu 120 milltir, a thu a'r un bellder oddiwrth gyfandir deheubarth America. Ei hyd yw 32 milltir, a'i lled yw naw. Nid yw hinsoddau yr ynys hon er ei hagosed i'r cyhydedd mor boeth ag hinsoddau rhai ynysoedd sydd i'r gogledd iddi; a dywedir nad yw yn gorwedd yn llwybr y tymhestloedd dychrynllyd, sydd yn gwneyd sarhad mor fynych yn ynysoedd ereill yr India orllewin. Mae hon yn cynnyrchu digonedd o sygr, a phob ffrwythydd cyffredinol yn yr ynysoedd ereill, ac mae ynddi ffynonydd a ffrydiau lliosog, ac angorfeydd eang cyfleus i ddiogelu llongau. Mae porthladdoedd yr ynys hon gwedi bod yn fynych yn noddfeydd i lynghesau y galluoedd o Ewrop y sydd er ys oesoedd yn meddiannu deheu-

barth-America. Yr Ellmyn sydd yn bonni yr hawl fwyaf ynddi, ac amddiffynasant hi yn dra gwrol yn erbyn y Saeson a'r Ffrancod. Yn heddwch Aix-la-Chapelle, cydunwyd i Tobago fod yn anmhleidgar; ond yn heddwch 1763, rhoddwyd hi i Prydain fawr. Yn 1781, cymerwyd hi gan y Ffrancod, a chydunwyd yn y flwyddyn ganlynol mai Ffrainç a'i meddiannai rhagllaw. Yn 1793, cymerwyd hi drachefn gan y Saeson, eithr adferwyd hi yn ol yn yr heddwch a ganlynodd. Gwedi dechreu y rhyfel ddiweddar yn 1803, daeth drachefn i feddiant Prydain fawr, a hi sydd hyd yn hyn yn ei meddiannu.

Yr ynysoedd sydd yn dyfod nesaf tan ein sylw, sef, St. Eustatia, Saba, a Curacoa, oeddynt cyn y rhyfel ddiweddaf yn perthyn i'r Ellmyn, a'r tair caulynol i'r Daniaid, y rhai oherwydd bod y gwledydd oedd yn eu meddiannu trwy ystryw gormesdeyrn Ffrainc mewn rhyfel a Lloegr, a ddaethant yn olynol i feddiant Prydain fawr.

## ST. EUSTATIA.

ST. Eustatia sy fynydd 29 milltir o amgylchiad, yn codi o'r môr fal peiramid. Mae hon yn sefyll yn lledred 17° 29G. sef, o ddeutu 9 milltir i'r gogledd orllewin o St. Christopher. Er bod hon yn fechan ac yn anghyfleus o ran ei gwyneb, eto mae diwidrwydd yr Ellmyn sydd yn ei chyfanneddu gwedi gwneyd llethrau y mynydd yn dir amaethyddol, i gnydio conynau sygr, tobacco, a'r cyffelyb. Nid oes ynddi na ffynonydd na ffrydiau, ac felly bydd prinder dwfr bob amser na byddo gwlaw yn disgyn. Yr Ellmyn oeddynt drefedigion cyntaf yr ynys hon: daethant iddi yn y flwyddyn 1635, a buont flynyddoedd lawer yn dal i fynu y drefnidiaeth waharddedig â'r Yspaeniaid yn neheubarth America. Y trigolion ydynt o ddeutu 5,000 o wynion, a 15,000 o dduon.

## SABA.

SABA sydd yn gorwedd yn lledred 17° 39'G. a hydred 68° 17'G. sef, o fewn ychydig filltiroedd i St. Christopher, a St. Eustatia. Craig uchel o ddeutu 12 milltir o amgylchiad yw yr holl ynys, ac er bod yr ychydig dir da yn deneu, eto gan y mynych wlawogydd, yr hwn nid yw yn aros nemawr gwedi disgyn, mae y ffrwythydd sydd yn tyfu ynddi yn fwy peraidd na ffrwythydd yr ynysoedd ereill. Mae o ddeutu tri-ugain a deuluoedd o Frydain, ac o ddeutu 200 o gaethion yn cyfanneddu hon. Y prif oruchwylion yw meithrin cotwm, ei nyddu, a'i weu ynsana i'w gwerthu i'r ynysoedd cyfagos. Mae hinsoddau Saba yn fwy iachus nag unrhyw yn yr India orllewin, ac felly mae gwedd y trigolion yn fwy gwridog a siriol. Tra mae Ewropiaid, trwy ystod yr oesoedd yn y moroedd hyn yn ymladd ac yn llarpio eu gilydd am olud a meddiannau yn barhaus; a thra mae planfeydd cyfoethog mewn ynysoedd ereill yn cael eu difrodi gan ruthrau tymhestlog, mae y trigolion diofal hyn, gyd a'u trysorau bychain, goruwch cyrhaedd yr ystorom, yn treulio eu hoes mewn dedwyddwch.

## CURACOA.

CURACOA sydd yn gorwedd yn lledred 12°G. a hydred 69G. yn 30 milltir o hyd, a 10 o led, ac yn sefyll o ddeutu 30 milltir i'r gogledd ddwyrain o benrhyn Roman yn Terra Firma. Mae gwyneb hon yn arw, a llawer o hono yn greiglyd ac anial, ac nid oes ynddi ddwfr croyw, ond a gronir yn y tymhor gwlawog. Ei phorthladd oedd y waelaf yn America, hyd oni bu i ddiwydrwydd yr Ellmyn am flynyddau lawer, trwy draul fawr ei wellau: adeiladasant dref hardd ac amddiffynfeydd yn gyfagos iddi, ac y mae ganddynt beiriannau digon cryfion i godi llongau i dir sych i'w glanhau a'u trwsio. Er bod y tir yn wael a theneu, eto mae diwidrwydd yr Ellmyn yn ei wrteithio, gwedi ei wneyd yn addas i gnydio sygr a tobacco yn ehelaeth. Mae yma gloddfeydd halen, y rhai ydynt yn diwallu yr holl ynysoedd a'r sefydlfeydd ereill y sydd yn perthyn i Frydain yn y gorllewin-fyd. Ond yr hyn sydd yn dwyn yr elw mwyaf iddi yw y drefnidiaeth waharddedig a wneir rhwng y trigolion a'r Yspaeniaid cyfagos, yr hyn a gynhelir yn amser rhyfel fal yn amser heddwch, gan bod y borthladd yn wastadol yn rhydd i longau pob cenedl droi iddi. Mae ei thai trefnidiol yn llawn o ddaoedd o Ewrop a'r India ddwyreiniol, yn frethynau, sidanau, lasiau, peiriannau efydd a haiarn, ac amryw ereill. Oddiyma mae Yspaeniaid deheu-barth America yn cludo Negroaid, ac yn talu am danynt hwy a'r daoedd dwyreiniol a gludant oddiyno, â llafnau aur, neu â daoedd y sydd yn helaeth yn eu gwlad hwy, megys cocoa, a chyffuriau meddygol, y rhai ydynt brin yn Curacoa. Yr oedd trefnidiaeth yr ynys hon yn rhoddi o leiaf £500,000 yn flynyddol i Holland yn amser heddwch, a llawer mwy yn amser rhyfel, gan bod ei phorthladd yn agored i longau y galluoedd oedd mewn rhyfel a'i gilydd, pennaethiaid y rhai fyddent weithiau yn ymgyfarfod yn yr un trefnid-dy i brynu powdr, bwledi, a pheiriannau i ddistrywio y naill y llall. Y Ffrancod ydynt yn cludo daoedd i hon yn gyfnewid am yd, anifeiliaid, ac angenrheidiau ereill.

Cymerodd yr Ellmyn yr ynys hon oddiar yr Yspaeniaid yn 1632, a chymerodd llong rhyfel o Frydain a elwid y Nereide feddiant o honi ar y 13 o Medi 1800, ond adferwyd hi yn ol i'r Ellmyn yn heddwch Amiens yn 1802. Ar y cyntaf o Ionawr 1807, aeth llynges fechan tan arweiniad cadpen Brisbane trwy orchymyn y llyngesydd Dacres i ymosod ar yr ynys; ac er bod agored y borthladd yn gul a dwy long rhyfel yn angor ar ei draws, anturiodd y llongau atynt a byrddiwyd hwynt, yna cymerwyd y brif amddiffynfa, a thrachefn y dref, ac yn ganlynol yr holl ynys, a'r golled o du Lloegr rhwng lladd a chlwyfo oedd 17 o ddynion.

Yr ynysoedd canlynol oeddynt yn perthyn i'r Daniaid cyn dechreu y rhyfel ddiweddaf, y rhai ydynt yr olaf o ynysoedd India orllewin a grybwyllir am danynt yn y gwaith hwn.

## ST. CROIX.

YNYS fechan afiach yw hon, yn gorwedd yn lledred 18°G. a hydred 64°G. yn 54 milltir o hyd, ac o 10 i 12 o led. Cyfanneddwyd hi yn 1545 gan Ellmyn a Saeson, y rhai yn fuan a ddaethant yn elynion i'w gilydd, a thra buont yn ymgecru, tiriodd 1,200 o Yspaeniaid iddi, ac a'i meddiannasant. Yn fuan gwedi hyn, cymerwyd yr ynys gan y Ffrancod, y rhai a ymroddasant i lunio planfeydd, ac i drin y tir, yr hwn hyd yn hyn oedd heb unrhyw drinfa arno. Pan ddigwyddodd y sych-wynt cyntaf, dodasant dân yn yr holl ddyffrynoedd a'r gwastadoedd coediog, ac aethant i'w llongau am rai misoedd nes y daeth yr holl anialwch dyrys oedd yn gorchuddio yr ynys yn garneddi o ludw, ac yna daeth holl wyneb yr ynys yn dir amaethyddol i gynyrchu cotwm, tobacco, indigo a phob ffrwythydd cyhydeddol.

Gwerthodd Ffrainc yr ynys hon yn 1783 i Denmarc, a danfonwyd trefedigion oddiyno i gyd-gyfanneddu gyd a'r lleill, y rhai yn mhen ychydig flynyddau yn ymgecru a'u gilydd a barodd iddi gael ei hadwerthu i'r Ellmyn. Cymerwyd hi gan Frydain yn 1801, ond adferwyd hi yn ol yn fuan gwedi. Ad-gymerwyd hi drachefn gan Frydain yn 1807, a hi sydd yn ei meddiannu.

## ST. THOMAS.

MAE hon yn gorwedd yn lledred 18° 22'G a hydred 65° 26'G. ac yn 15 milltir o amgylchiad. Mae ynddi un borthladd ëang a chyfleus, ac amddiffynfa gadarn yn perthyn iddi, ac yn amser heddwch mae cryn drefnidiaeth yn cael ei wneyd ynddi. Y Daniaid oedd yn ei meddiannu hyd 1807, pan y gorfu arni ymostwng i rwysg arfau Prydain fawr. Mae hon yn un o'r lliaws a elwir ynysoedd gwyryf.

## ST. JOHN.

ST. JOHN sydd un o ynysoedd gwyryf, yn 12 milltir o amgylchiad, ac yn gorwedd yn lledred 18° 10'G. a hydred 65° 10G. Mae gan hon borthladd tra ëang, ac yn gyffredin yn llawn o longau trefnidiol. Daeth hon i feddiant Prydain o ddeutu yr un amser ag y daeth St. Thomas i'w meddiant.

## TORTOLA.

TORTOLA, y fwyaf o ynysoedd gwyryf, sy fal y soniwyd yn 18 milltir o hyd ac o ddeutu 7 o led, ac yn gorwedd yn lledred 18° 33'G. a hydred 63°G. Y Daniaid oedd yn meddiannu hon gynt, ond hi ddaeth i feddiant Prydain yn 1666, ac o'r amser hwnw hyd y pryd hwn, Prydain sydd yn ei meddiannu. Yn nghwr dwyreiniol yr ynys, mae ei hunig borthladd, yr hon sydd eang a chyfleus, yr hon hefyd yn 1802 a wnaed yn rhydd-dramwyfa rhagllaw i bob cenedl, pa bynag a'i amser rhyfel neu heddwch a fyddai.

RHANIADAU ] Mae daearyddion Yspaen yn methu cyduno o berthynas i ad-raniadau y wlad hon: dywed rhai bod ynddi ugain o daleithiau, a dywed ereill bod ynddi ychwaneg, ond y canlynol ydynt y prif rai.

| | *Taleithiau.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|---|
| Terra Ffirma | Darien | Porto Bello. |
| | Panama neu Terra Ffirma | Panama. |
| | Santa Ffe | Santa Ffe de Bogota. |
| Llywodraeth y Caracas | Caracas | Leon de Caracas. |
| | Maracaibo | Maracaibo. |
| | Venezuela | |
| | Varinas | Varinas. |
| | Cumana | Cumana. |
| | Carthagena | Carthagena. |
| | Santa Martha | Santa Martha. |
| | Quito | Quito. |
| | Guayaquil | Guayaquil. |
| | Popayan | Popayan. |

DARIEN.] Y dalaeth hon sy gyfyngdir cûl, yn cydio Gogledd-barth a Deheu-barth America ynghyd, ac yn cael ei chylchynu ar y tu gogledd gan gulfor Mexico, ar y tu de gan y mor Tawel; ar y tu dwyrain gan gulfor Darien; ac ar y tu gorllewin gan ran o'r mor Tawel, a thalaeth Veragua. Mae hon yn gorwedd ar ddull bwa o gylch culfor Panama yn Mor mawr y de, ac yn 300 milltir o hyd. Ei lled cyffredinol o dde i ogledd yw o ddeutu 60 milltir; ond nid yw y lled o Porto Bello i Panama, (dwy brif dref y dalaeth, ag ydynt yn min y mor o ddeutu) oddi ar 37 milltir. Mae boll gyfoeth Peru yn cael ei gludo i'r dalaeth hon i'w drosglwyddo i Ewrop. Y môr o ddeutu sydd yn llawn o ynysoedd ffrwythlawn: y ddwy fwyaf a elwir ynys eurawg, ac ynys y pinwydd. Gelwir y lle culaf ar y dalaeth wrth yr enw cyfyngdir Panama, ac weithiau cyfyngdir Darien: mae yn estyn ar ei hyd drum uchel yr hon sydd yn atalfa anferth rhag cydiad y ddeu-for, y rhai o'i nen ydynt yn dra amlwg i lygad noeth. Er bod y mynydd-oeddd uchel hyn un rhwystr i lunio unrhyw amgyffred am gamlas, eto onid myned ychydig yn uwch, gellid trwy lunio camlas 30 milltir o hyd a chydio llyn Nicaragua â blaenau afon y sydd yn ymarllwys i Fôr y de uno y naill at y llall, ac felly gochel deng mil o filltiroedd o fordaith o gylch y perhyn deheuol. Beth fyddai canlyniad y cyfryw gydiad sydd anhawdd ini ei ddirnad, ond y mae yn debygol y byddai i nerth y llanw mewn yspaid amser ledu y gamlas yn gyfyngfor llydan a thrwy hyny rwyddo y fordaith o gylch y ddaear.

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Gwlad fynyddig a bwrw golwg cyffredinol arni yw Grenada newydd, ond y mae ynddi rai gwastadoedd eang tra ffrwythlawn ac ereill yn agos i lenydd y môr yn dywodlyd. Taleithiau Carthagena a St. Martha ydynt fynyddig, ac o honynt y mae y drum fawr a elwir Andes, megys yn deillio. Venezuela ac ardaloedd y Caracas ydynt hefyd yn cynnwys mynyddoedd uchel yn drumau yn croesi eu gilydd, a rhyngddynt mae nentydd tra ffrwythlawn Mae rhai moelydd tanllyd yn nhrumau uchel Popayan, ac y mae y dyffrynoedd cyfagos yn llawn lludw. Y glenydd gorllewinol ydynt isel ac yn cael eu gorllifo am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

HIN A THYMHORAU.] Gan bod yr holl wlad hon yn gorwedd agos yn nghanol y gwregys llosg, mae yn rhaid bod ei hinsoddau o ran gwres a mwllder yn lled gyffelyb i hinsoddau y gwledydd cyhydeddol ereill a fu dan sylw. Y tymhor gwlyb sydd yn dechreu yn y gwanwyn, ac yn parhau agos trwy yr haf: mae y fath gyflawnder o ddyfroedd trwy ystod y tymhor hwn, a bod yr holl afonydd yn gorllifo eu ceulenydd, ac yn gwneyd yr holl wastadoedd yn llynau mawrion. Y tymhor sych sydd yn dechreu yn mis Awst, ac yn parhau hyd ddechreu Mawrth.

AFONYDD. LLYNAU.] Prif afonydd Grenada newydd ydynt, 1. Y Darien, yr hon sydd yn dosbarthu talaith Darien oddiwrth Carthagena. 2. Y Chagtre, yr hon sydd yn ymarllwys i for Mexico, ychydig i'r de orllewin o Portobello: cymerodd y llyngesydd Vernon amddiffynfa oedd ar aber hon yn 1740. 3. Y Santa Maria, afon yn ymarllwys i gulfor St. Michael. 4. Y Conception yn ymarllwys i gulfor Mexico. 5. Y Magdalena, yr hon sydd a'i blaenau yn mynydd-dir gogleddol Quito, a gwedi cydio ag afon Cauca sydd yn ymarllwys y for Mexico rhwng Carthagena a St. Martha. 6. Y Maracaibo, afon yn ymarllwys i lyn o'r un enw; ac yn 7. Yr Oroonoko, yr hon sydd yn tarddu o lyn bychan a elwir Ipava, a gwedi derbyn iddi ffrydiau amryw o afonydd sydd yn ymarllwys trwy liaws o aberoedd i'r mor Werydd ar gyfer ynys Trinadad: mae hon yn 1,400 milltir o hyd, ac yn codi ac yn gostwng yn rheolaidd bob blwyddyn fal y Nile, ac afonydd cyhydeddol ereill.

Llyn Maracaibo yw y mwyaf yn y wlad hon: mae hwn ar ddull cylch, ac yn 90 milltir ar ei draws. Ei lenydd ydynt isel ac afiach, er hyny mae gan yr Indiaid liaws o bentrefydd ar hyd ei lenydd, y rhai gwedi eu hadeiladu ar goed gwedi eu pwyo i'r llaid rhag eu dinystrio gan lifiant y tymhor gwlyb, a barodd i'r Yspaeniaid roddi yr enw Venezuela neu Venice fechan i'r dalaith y sydd yn terfynu ar y llyn. Mae rhai llynau go fawrion ereill yn y wlad hon.

MYNYDDOEDD.] Yn neheu-barth America fal y crybwyllwyd mae y mynyddoedd uchaf ar wyneb daear. Mae trum yr Andes yn cyrhaedd o Darien trwy yr holl gyfandir i gyfyng-for Magellan, ac yn tueddu i'r arfordir gorllewin y sydd yn terfynu am bedair mil a thri chant o filltiroedd ar Fôr mawr y de. Mae nen y rhan fwyaf o'r mynyddoedd hyn dan eira oesol, ac yn ymgyraedd i'r entrych yn uwch na'r cymylau. Yr uchaf o honynt yw mynydd Chimborazzo, yr hwn sydd yn bedair mil a thri chant a phedwar ugain a chwech o latheni o uchder; yr hyn sydd 2,367 o latheni yn uwch nag unrhyw o fynyddoedd Ewrop, Asia ac Affrica: mae eira oesol yn toi hwn am 800 llath goris ei nen, yr hwn sydd derfyn nas gallodd dyn erioed ei gyrhaeddyd. Cotopaxi, yr ail mewn maint o fynyddoedd y ddaear sydd yn 6,252 o latheni o uchder.

Ni ellir amgyffred am ansawdd hinsoddau nenau y mynyddoedd hyn yn well, nag oddiwrth y sylw a wnaed ar nen Pichincha gan y seryddion Don George Juan, a Don Antonio de Ulloa, y rhai a dreuliasant yspaid amser yno i wneyd sylwiadau wybrenol o berthynas i wybod dull y ddaear. Ac oddiwrth y sylw a wnaethant hwy y gellir amgyffred ychydig am ansawdd y lleill, yn ol fal y mae eu hinsoddau priodol yn amrywio oherwydd y gwahaniaeth uchder.

Pichincha, er iddo fod yn is na Chimborazzo, o filltir a 690 o lathe-

ni, sydd yn cael ei gyfrif yn fynydd tra uchel. Teimlodd y seryddion a grybwyllwyd yr oerni ar nen hwn agos yn anoddefol er iddo fod yn sefyll yn nghanol y gwregys llosg. Yr oedd y gwynt mor nerthol a'r tawch mor dew ag iddynt am gryn amser gwedi cyrhaedd ei nen, ofni na allent ddychwel yn ol. O'r diwedd iselodd y dymhestl, a daeth yr awyr yn eglur, a'r ystorm yn dawel, ac ymddangosodd nenau y mynyddoedd cyfagos goruwch y cymylau fal cynifer o ynysoedd yn ymgodi o'r eigion. Ond yr oeddynt yn clywed twrf y dymhestl goris iddynt ar wastadoedd Quito: y mellt oeddynt yn goleuo oddi danynt yn ddigyfrwng, a'r taranau diorphwys oeddynt ddychrynllyd. Cyn terfyn y dymhestl, ail ymdderchafodd y cymylau, a daeth arnynt gawodydd trymion o eirwlaw, ac yn ganlynol daeth y gwynt mor dymhestlog ac iddynt ofni y chwythid eu bwth, yr hwn oedd ar ddibyn serth i'r ceunant ddychrynllyd oedd oddi danynt; neu y gorchuddid hwynt ag eira oedd yn ymhentyru o'u hamgylch: ac felly yr oeddynt mewn perygl gan dymhestloedd parhaus tra y buont yno. Er bod pob hollt neu dwll oedd yn eu bwth gwedi ei lenwi yn dyn, a thân yn cynneu yn yn wastadol ynddo, yr oedd awel lem anoddefol y nos yn treiddio atynt, ac yn chwyddo eu haelodau, fal y gorfu arnynt o'r diwedd ymadael a'r fangre anghysbell.

Mae yn perthyn i'r holl fynyddoedd hyn, medd Bouger, seryddwr arall oedd ar yr un anturiaeth, "derfyn penigol, goruwch yr hwn nid yw yr iâ byth yn dadmar: y terfyn hwn yn nghanol y gwregys llosg a fesurais yn 4,868 o latheni oddiar wyneb Mor mawr y de. Mae yr eira yn gorchuddio pathau îs, ond yn gyffredin yn toddi yn ngorff yr un dydd; tra goruwch hyny y mae yn ymhentyru o oesoedd boreuaf y byd, heb ddadmar byth."

Mwngloddiau.] Mae yn y wlad hon liaws o gloddfeydd o aur, ond y mae llawer o honynt gwedi cael eu dyhyspyddu agos yn llwyr. Mae yma hefyd amryw gloddfeydd o arian, haiarn, ac efydd yn cael eu gweithio; ac yn nhalaeth Tinga mae cloddfa werthfawr o emerald yn agored, er ys blynyddau llawer.

## DOSBARTH II.

*Trigolion. . Moesau ac arferion . Llywodraeth. Crefydd. . Dinasoedd a threfydd . Trafnidiaeth. . Anifeiliaid.*

Mae dau fath o Indiaid heblaw Yspaeniaid yn cyfanneddu y wlad hon. Y cyntaf a'r lliosocaf ydynt y rhai a fu yn gyffredinol dan sylw wrth ddechreu dysgrifio America, a'r lleill ydynt lwyth o rai mwy egwan a thecach o bryd a gwedd.

Moesau ac arferion.] Ychydig o wahaniaeth sy rhwng agweddau corfforol Indiaid Grenada newydd a'r Mexicoaid, y rhai sy gwedi bod dan sylw o'r blaen Mae yr Yspaeniaid trwy ymbriodi a'r Indiaid ac a'r Negroaid y sydd yn cyfanneddu y wlad hon, gwedi peri cryn amrywiaeth yn ei thrigolion. Y gwynion ydynt y mwyaf parchus, ac yna y lleill yn ol y graddau o wynder a fyddo yn eu lliw. Yr enwau a roddir i epil y Gwynion â'r Negroaid yw mulatto, ac o'r rhai hyn a'r gwynion mae'n deillio y Quateroniaid, y rhai er iddynt fod yn lled debyg i'r blaenaf, ydynt â pheth o liw y Negroaid arnynt. Ond epil

y Gwynion a'r Quateroniaid, y rhai a elwir y Quinteroniaid, ydynt yn anhawdd eu gwahaniaethu oddiwrth yr Yspaeniaid eu hunain.

Yr arferion gwladol ydynt led debyg i'r hyn a grybwyllwyd yn nysgrifiad Yspaen, sef bod y trigolion yn ymddigryfu yn y chwareuyddiaethau oferwag o redeg meirch, baeddu teirw, ymbleseru yn nawns a gorchestion anllad deiliaid y chwareudy, ac o dreulio y rhan fwyaf o'r gweddill o'u hamser mewn glythineb a diogi anianol, blith draphlith â rhestr o ddefodau pabyddol gwag ac ofergoelus.

Mae holl afonydd y wlad hon yn deillio o'r mynyddoedd uchel y sydd yn derfyn gorllewinol iddi, ac y mae arnynt bontydd anghyfiaidd o goed neu o raffau moras, tros y rhai y bydd yr Indiad a'i fol yn anturio yn eon. Y pontydd coed ydynt yn gyffredin yn gywnwysedig o dri phren gwedi eilio rhyngddynt â gwiail, a dau arall o bobtu yn ganllawiau, ond os bydd yr afon yn rhy lydan i goed, dodant raffau ffyrfion o'r moras o'r naill lan i'r llall, y rhai a eiliant ynddu yn llawr ac yn ganllawiau: ac er i'w phwysau ei gwneyd yn gafu rhoncog, ac i'w hesgydwad ar wynt mawr fod yn ddychrynllyd, eto mae yr Indiaid yn llwythog o glud eu mulod yn tramwy trostynt heb arddangos unrhyw arswyd. Rhaid dauton y mulod filltir neu ychwaneg yn uwch, fal y gallont gyrhaedd y lan arall trwy y llifiant chwyrn yn lled agos i'r bont.

Y ffyrdd tros fynyddoedd Andes ydynt yn gyffredin yn rhy gulion i ddau ful fyned heibio eu gilydd: mae rhai o honynt ar ymyl dibyn serth, heb ddim ond medrusrwydd yr anifail yn unig rhyngddynt a syrthio. Gwedi i'r ymdeithydd gyrhaedd y man uchaf o'r mynydd, mae ei ful yn chwythu yn ei ffroenau, ac yn syllu oddiamgylch megys ar y perygl y sydd o'i flaen, ac yna mae yn estyn ei bedwar-ber yn mlaen, fal pe byddai am orwedd, ac yn ymlithro ar hyd y goriwared dychrynllyd gyd a chyflymder chwyrn, gan ddilyn y troeadau yn ofalus, hyd oni ddelo i odreu y mynydd. Unig orchwyl y marchogwr yw cadw yn ddiysgog ar y cyfrwy, o wall hyny gallai yr ysgogiad lleiaf beri distryw diatreg y ddau.

Llywodraeth. Crefydd.] Yspaen y sydd yn llywodraethu Grenada newydd fal ei holl wledydd eang ereill yn y gorllewin-fyd, ond y mae y troion arswydus y sydd gwedi bod ar droed yn Ewrop tra ystod rhwysg Ffrainc, gwedi bod yn achlysur i wrthryfel ddigwyddo yn nhaleithiau Yspaen yn neheubarth America, yr hyn sydd yn debyg o derfynu yn annibyniaeth yr holl daleithiau oddiwrth rwysg gormesol y fam-wlad.

Y grefydd wladol yw pabyddiaeth yn ei diwyg mwyaf creulawn, a phwy bynag nas addefo ei huwchafiaeth, pa bynag ai iuddew ai cenedl ddyn a fyddo, sy ddarostyngedig i gael ei arteithio yn y modd mwyaf dychrynllyd. Ond gan mae llys Yspaen oedd yn cefnogi hyn, mae yn debyg os bydd i'r wlad fod mor llwyddiannus a bod yn annibynol, y gwarciddir y cyfryw ddefodau dieflig, ac y bydd i ryddid cydwybod gael ei sefydlu ynddi fal mewn amryw wledydd ereill a gafodd eu gwaredu o fod dan rwysg y bwystfil.

Dinasoedd a threfydd.] Panama, prif ddinas Terra Ffirma sydd yn sefyll ar fin culfor o'r un enw ar derfyn gorllewin cyfyngdir Darien. Gan i dân yn 1737 ddistrywio yr hen ddinas, yr hon oedd oll o goed, adeiladwyd y newydd â cheryg a phriddfeini, bedair milltir yn nes i'r dwyrain na'r llall. Mae ei heolydd yn llydain ond yr adeiladau

ydynt isel, ac y mae caerau uchel o'i hamgylch ac arnynt ddrylliau tân mawrion. I ystordai hon y cludir aur, arian, a daoedd gwerthfawr ereill o Peru a Chili, i'w trosglwyddo ar draws y cyfyngdir i Porto Bello, ac oddiyno i Ewrop. Mae hon yn ddinas esgobaethol, ac yn annedd llywydd y dalaith.

Porto Bello sydd yn sefyll ar fin y mor, ar lethr mynydd uchel, yr hwn sydd yn cylchynu ei phorthladd ëang a chyfleus oddiamgylch, oddigerth yr agored. Oddiwrth hwn y galwodd Columbus y dref Porto Bello, sef y porthladd cyfleus. Mae yr agored yn gul, ac y mae o'i deutu amddiffynfeydd cedeirn, ond er ei chryfed anturiodd y llyngesydd Vernon yn 1741 trwyddo, a meddiannodd y dref. Un heol sydd yn llunio y dref, yr hon sydd yn estyn agos o amgylch y borthladd: mae llechwedd y mynydd yn rhy agos i'w lledu. Ei hinsoddau ydynt mor afiach nad oes ond ychydig o drigolion yn anneddu ynddi, oddigerth yn wythnosau y ffair y sydd yn arferol o gael ei chynnal ar ddyfodiad llongau Ewrop iddi.

Carthagena, prif ddinas talaith o'r un enw, sydd a'i hamddiffynfeydd a'i hadeiladau cyffredin yn hardd o wneuthuriad: mae hon yn sefyll ar ynys, a'r mor sy rhyngddi a'r cyfandir yw ei phorthladd ëang. Mae cydiad rhyngddi â dwy ynys arall. Ei chaerau ydynt rudd-faen, a'r tai ydynt briddfeini neu geryg, ac y mae ei threfnidiaeth mewn aur, arian, gemau gwerthfawr, a'r cyffelyb, agos mor enwog a'r cyfryw yn Porto Bello,

Santa Ffe de Bogota, prif ddinas talaith Grenada newydd, sydd yn sefyll yn lledred 4°G a hydred 73½°G. Mae hon yn ddinas esgobaethol, ac ynddi mae prif athrofa yr holl daleithiau sydd yn myned dan yr enw Grenada newydd. Ei hadeiladau ydynt led debyg i adeiladau Yspaen, ond eu bod yn llawer îs, oherwydd y tymhestloedd y sydd yn digwyddo mor fynych oddiar fynyddoedd Peru.

Leon de Caraccas, prif ddinas taleithiau Caraccas, Venezuela, a Cumana, sy ddinas feehan hardd, yn sefyll ar wastadedd cylchynedig gan fynyddoedd, ddeuddeng milltir oddiwrth y môr: ei phorthladd yw Guayra. Mae y ddinas hon yn cynnwys o ddeutu 24,000 o drigolion.

Quito. prif ddinas talaith o'r un enw, sydd yn sefyll mewn nant hyfryd ar lethrau uchel mynyddoedd Andes. Mae rhai adeiladau hardd yn hon, sef y brif eglwys, a'r ddwy athrofa, y chwil-lys, y trefnid-dai, â'r cyffelyb. Mae sefyllfa hon yn 3,124 o latheni goruwch y môr; yr hyn sydd yn gwneyd ei hinsoddau er ei bod agos ar y cyhydedd yn dra thymherus trwy'r flwyddyn. Llyncwyd Quito gan ddaear-gryn yn 1755, ond adeiladwyd y ddinas eilwaith ar garneddi yr hen.*

Popayan, prif ddinas talaith o'r un enw, sydd yn cynnwys o ddeutu 25,000 o drigolion. Mae hon yn ddinas esgobaethol, ac yn sefyll ar wastadedd teg o ddeutu 230 milltir i'r de orllewin o Santa Ffe de Bogota.

Trefnidiaeth.] Prif ddaoedd y wlad hon ydynt aur, arian, efydd, perlau, meini gwerthfawr; yn nghyd â chyffuriau meddygol, ffrwythydd cyhydeddol, a'r daoedd a grybwyllwyd am danynt yn y gwledydd cyfagos, y rhai ydynt yn cael eu cyfnewid am angenrheidiau addas o Ewrop. Y dinasoedd uchod yw y prif farchnadoedd, lle mae trefnid_

* Yr oedd holl dalaith Quito yn cael ei chyfrif yn rhan o Peru hyd y ddeunawfed ganrif, pan y daeth dan lywyddiaeth Grenada newydd.

wyry wlad hon a Pheru yn cyfarfod y trefnldwyr o Ewrop, ac o ynysoedd yr India orllewin, a'r Taleithiau cyfunawl.

Anifeiliaid.] Mae meirch y wlad hon yn dra bywiog, ac y mae'r gwartheg a'r defaid yn lliosog: mae yma hefyd luoedd o fulod yn wylltion ar hyd y wlad, y rhai ydynt eiddo yr helwyr a'u daliont. Yr âb hefyd sy liosog: bydd minteiodd o honynt yn bygwth llarpio yr ymdeithydd unigol, ond pan fyddo dau neu dri yn nghyd, maent yn gyffredin gwedi bwrw atynt liaws o geryg, darnau coed, &c. yn gochel eu dilyn.

Y *Sloth*, a elwir mewn gwawd *Pedr gyflym*, yw y musgrellaf o'r holl greaduriaid pedwar carnol: mae hwn o ran dull a maint yn lled debyg i'r âb, ond fod ei groen crebychlyd yn gwneyd ei olwg yn fwy truenus. Nid rhaid wrth na charchar na chadwyn i'w gadw, gan nad yw byth yn ymsymud ond y pryd y bydd arno eisieu lluniaeth; a dywedir y bydd rai munudau yn symud un troed, ac ni wna gwialennodiau iddo fod yn fwy bywiog. Pan y byddo yn ymsymud mae gyd â phob cais yn gwneyd y fath lef ddolefus ag sydd ar unwaith yn peri tosturi ac atgasrwydd tu ag ato. Y cyfryw oernad yw unig amddiffyniad y creadur hwn, canys pan welo berygl mae yn llefain yn ddibaid, hyd onid yw ei ymlidydd yn dianc allan o glyw ei sŵn anhyfryd. Pan na chaffo y creadur hwn ffrwythydd ar wyneb y maes, mae yn syllu oddiamgylch ar goedan ffrwythlawn, ac yna mae yn ei dringo dan oernadu, ac arddangos yr anesmwythder mwyaf, a gwedi cyrhaedd y ffrwythydd, mae yn eu bwrw i lawr rhag y drafferth o ail esgyn, ac yna rhag ymflino trwy ddisgyn ar hyd yr un llwybr, mae yn ymsypio fal pelen, a chyd ag oernad ddolefus yn ymollwng i lawr.

Y *Coyba* sy bryf gwenwynig, tebyg o faint a dull i'r prif coppyn, ac fal y pryf hwnw yn ymlochesu mewn conglau, ac yn mhlith llysieu'r maes. Ei liw sy goch tanllyd, ac y mae ei wenwyn mor danbaid ag y byddai i'r nôdd a ddeilliai o'i wasgu a syrthiai ar groen dyn neu anifail beri angau agos yn ddiatreg. Mae yr Indiaid y sydd yn gweinyddu i'r ymdeithwyr a fyddo yn tramwyo trwy ddyffrynoedd deheubarth America, yn eu rhybuddio cyn cychwyn, na chyffyrddont a'u gwyneb neu eu gwddf, pan y byddo pryf neu wybedyn arnynt, rhag mai y Coya a fyddai, oherwydd ei fod yn ymdori ar y cyffyrddiad lleiaf ag ef; a chan nad oes perygl iddo fod ar y croen yn gyfa, mae yr ymdeithydd yn nodi y lle y byddo y gogles i ryw un o'r gymdeithas, yr hwn os coya a fydd, sydd yn ei chwythu ymaith. Mae anifeiliaid y wlad hon yn chwythu ar y gwelltglas cyn ei bori, a phan aroglent docyn y byddo y coya ynddo, y maent yn cilio yn ol yn llawn ffrwst a dychryn: ond weithiau bydd rhai, yn enwedig y mûl yn methu eu gochel, y canlyniad yw chwyddo i faintioli anferth hyd oni ymdorent ar eu traws.

Yn mhlith yr ehediaid, mae aderyn o rywogaeth yr eryr, a elwir y Gondar, yr hwn sy ddigon cryf i ysglyfio ŵyn, gan eu cludo yn ei fachau i nen y mynyddoedd i'w llarpio. Mae agos bob math o nadrodd yn y wlad hon, a rhai o honynt yn aruthr o faintioli. Ymlusgiaid o amryw rywogaethau ydynt trwy ystod y tymhor sych yn dra lliosog, ac yn flin wrth y trigolion, fal y mae yr heigiau llyffaint ac amryw bryfaid gwenwynig ereill yn ystod y tymhor gwlyb.

## DOSBARTH III.

*Hanes Darien neu Terra Ffirma.*

YR ydys gwedi crybwyll yn lled helaeth yn barod am oresgyniad y wlad hon gan yr Yspaeniaid tan lywyddiaeth Pizarro, ac am eu barweddliad greulawn tu ag at y trigolion, &c. Ond yma rhoddir ychydig o ansawdd ei hanes yn yr oesoedd diweddar.

Yn 1696, daeth rhan o Darien i feddiant yr Ysgotiaid, y rhai a ymgeisiasant lunio sefydliad ynddi, yr hon a fuasai o'r budd mwyaf, pe daethai llwyddiant ar y gorchwyl. Y cynllun ar droed oedd hyn, sef, agor ffyrdd cyfleus o'r naill fôr i'r llall; fal y rhwyddid danfoedd i China ac India ddwyreiniol, yn lle myned oddiamgylch Affrica a deheu-barth America. Y prif offeryn yn y gorchwyl hwn oedd ysgotiad o enw Paterson, yr hwn oedd a syched anaele ynddo am olrhain gwledydd tramor, ac felly trwy ei fod yn ddyn o ymarweddiad diargyhoedd, cafodd nawdd rhai o aelodau cymdeithas genhadawl Ysgotland i fyned yn genad i Darien, lle y chwennychai fyned o'r pryd y clywai gyntaf fod Ysgotiaid yn dwearu ynddi. Yn ei deithiau yno ac yn mhen, cyfarfu a Dampier ac a Wafer, dau o deithwyr enwog, y rhai a roddasant bob annogaeth iddo yn yr hyn oedd ganddo ar droed; ond ei brif gynnorthwywyr oeddynt y mor-ladron, y rhai oeddynt mewn henaint yn byw ar yr yspail a wnaethant yn nyddiau eu llwyddiant: adroddodd y rhai hyn iddo y rhwyddineb a gawsont yn fynych yn eu taith o'r naill fôr i'r llall, weithiau yn gantoedd o rifedi, heblaw lluoedd o fulod yn cludo y lladrad.

Yn fuan ar ol hyn, ymroddodd Paterson i olrhain allan ansawdd y wlad: gwelodd bod rhan fawr o Darien heb gael erioed ei goresgyn gan yr Yspaeniaid, a bod y trigolion yn parhau mewn gelyniaeth greddfol yn erbyn eu rhwysg; bod ynysoedd ffrwythlawn ar hyd yr arfordiroedd dwyreiniol, a chilfachau ëang ar hyd y glenydd oedd yn cael eu golchi gan Fôr mawr y de, ac felly y ddeu-tu yn cynnwys porthladdoedd tra ëang, ac yn gyfleus i ddiogelu llongau ar bob tywydd; bod dyffrynoedd heb droelli onid ychydig ar draws y wlad yn addas i lunio ffordd trwyddynt i fulod ac i gerbydau gludo unrhyw ddaoedd, ac amryw gyfleustra ereill, fal pe buasai anian gwedi dynodi y lle yn ganol-bwnc cyffredin trefnidiaeth y ddaear.

Gwyddai Paterson fod llongau yn hwylio mewn llin wastad o'r naill nôd i'r llall gyd a'r gwynt o'u hol, yn llai eu perygl ac yn gofyn llai o ddwylo i'w gweithio, na rhai yn amgylchynu penrhynau ac yn gofyn amrywiol fath o wynt. Gwyddai fod llongau Prydain pan elynt yn ddigon pell i'r de, yn dyfod i'r gwynt trefnidiol, yr hwn a'u cludai i Darien; a bod yr un gwynt yn cludo y llongau o Panama ar du arall y cyfyngdir tros For y de i'r India ddwyreiniol; hefyd bod y llongau wrth ddychwel o'r India ddwyreiniol i Panama mor fuan ag y delynt i ledred 40°G. yn cael y gorllewin-wynt i'w cludo i lwybr trefnid-longau Yspaen o Acapulco i lenydd Mexico, y lle mae y gogledd-wynt agos yn wastadol yn chwythu, ac felly yn deg i gyrhaedd pen y daith. Gwelodd Paterson fod aur yma ac acw yn mynydd-dir y wlad, ond ni olrheiniodd nemawr am dano, gan fod y cynllun oedd ar droed yn fwy y pryd hwnw ar ei feddwl, sef dynesu cenhedlaethau at eu gilydd, lleihau peryglon morwyr, ac achub daoedd trefnidiol a phethau cyffelyb.

Gwedi bwrw y drael yn y modd hwn, cynygiodd Paterson y cynllun o'i fwriad i rai o foneddigion Prydain, ond ni wnaed nemawr mwy o sylw arno na chanmol yr amcan, a thrwy daflu goleu bychan ychwanegol arno, cymeryd y glod eu hunain, ac esgeuluso y cynllunìwr. Yna cynygiodd ei gynllun i'r Ellmyn, ac i rai o dywysogion gogledd barth Germani, gan bod trefnidiaeth y Rhin a'r Elb y pryd hwnw yn dra blodeuog, ond er canmol y cynllun yno, ni chafodd ei gefnogi ganddynt i fyned yn mlaen.

Paterson ar ei ddychweliad i Lundain, a roddes ei gynllun o flaen gwr bonheddig o enw Fletcher, yr hwn yn deall y rhinwedd a allai ddeillio o hono, a gyflwynodd y cynlluniwr i ardalydd Tweedale, prif weinidog Ysgotland, yr hwn yn cydweled â Fletcher a gafodd ereill o fawrion y deyrnas i'w gefnogi, ac yn ganlynol caniataodd y senedd wladol i gymdeithas gael ei llunio i drefnidio ag Affrica, a'r byd gorllewinol, ag iddi gael cyflawn rwysg i lunio trefedigaethau, ac adeiladu amddiffynfeydd gyd â chydsynied y trigolion mewn unrhyw ardaloedd nad oeddynt yn cael eu perchenogi gan unrhyw o alluoedd Crêd.

Yr oedd Paterson erbyn hyn yn ystyried y cynllun fal gwedi ei lwyr sefydlu, felly amlygwyd ef mor gyhoeddus ag y gellyd, ac anturiodd miloedd eu harian i'r gymdeithas, fal y cafent fwy na'r llog cyffredin oddiwrthynt. Derbyniwyd o Ysgotland 400,000l. o Loegr 300,000l. ac o Holland a Hamburg 200,000l. yn ychwaneg.

Ond tra yr oedd y gorchwyl yn myned rhagddo yn fywiog yn Ysgotland, eiddugeddodd senedd Llundain wrth y cynllun, a daeth y ddau dy i benderfyniad ar y 13 o Ragfyr 1695, i gyfarch y brenin yn erbyn sefydliad cymdeithas Darien, yr hon a farnent yn wrthwynebol i fraint cymdeithas yr India ddwyreiniol, ac felly cadwodd y Saeson, yr Ellmyn, a'r Hamburgiaid eu cynnorthwyon heb eu cyflwyno i'r gymdeithas.

Yr Ysgotiaid yn lle digalonni ar dderbyniad y newydd, a ymroddasant i ganlyn ar y cynllun: adeilasant yn Holland chwech o longau yn cludo o 40 i 60 gwn, ac ammodasant â 1,200 o'u cyd-wladyddion, yn mhlith y rhai yr oedd meibion rhai o brif fawrion y deyrnas, heblaw 60 o swyddogion milwraidd enwog i'w dilyn yn yr anturiaeth. Danfonodd senedd Ysgotland hefyd gyfarchiad eilwaith at y brenin i ddeisyfu arno gefnogi cynlluniau y gymdeithas, ond gan nad oedd ond atebion gochelus yn cael eu rhoddi, ymroddasant o fyned rhagddynt i geisio cwblhau eu bwriad.

Ar y 26 o Gorphenaf 1698, daeth holl ddinasyddion Edinburgh i Leith i weled y trefedigion newydd yn ymadaw a'u gwlad yn mhlith gweddiau a gruddfanau eu cyd-wladwyr: anturiodd 1,200 o honynt mewn pump o longau i'r dyfnder, a chyrhaeddasent Darien yn mhen y ddeu-fis heb golli onid pymtheg o ddynion ar y daith. Gwedi tirio, prynasant dir gan y trigolion, a danfonasant lythyrau heddychol at swyddogion Yspaen oedd yn nesaf atynt, ac adeilasant gaer amddiffyn ar y borthladd mwyaf cyfleus a gyfarfuont, gan ei galw St. Andrew newydd: galwasant hefyd yr holl wlad yn lle Darien, wrth yr enw Caledonia newydd, ac yna trefnodd Paterson i ryddid cydwybod a rhyddid i drefnidio â phob cenedl fod yn freintiau annhoredig yn mhlith y trefedigion, pa lwyddiant bynag a'u cyfarfyddai.

Erbyn hyn yr oedd cymdeithas India ddwyreiniol yr Ellmyn gwedi cymhell y brenin mewn cydsynied â chais ei ddeiliaid seisnig i ddy-

ddymu sefydliad Darien, ac yr oedd gorchymyn gwedi ei ddanfon at lywyddion yr amrywiol drefedigaethau yn yr India orllewin ac America, na ddalient unrhyw gyfrinach â hwynt. A chan bod cyflawn ufudd-dod yn cael ei roddi, a'r Ysgotiaid heb gludo gyd â hwynt gyflawnder o angenrheidiau, daeth afiechyd ac eisiau i'w plith, a gwedi wyth mis o ddisgwyliad ofer am ymwared o'u gwlad, buont feirw agos oll. Paterson y cyntaf a aethai i'r llong yn Leith, oedd yr olaf a aeth i'w bwrdd yn Darien i dychwel yn ol.

Nid oedd Yspaen yn nghorff y ddwy flynedd y bu y gymdeithas yn cael ei llunio, gwedi crybwyll Prydain mewn un modd o berthynas iddi, ond yn fuan gwedi i'r trefedigion anturio i'r daith, cyflwynodd cenad Yspaen yn llys Prydain gŵyn yn erbyn cymdeithas Darien i'r brenin fal gormes yn erbyn breintiau ei arglwydd.

Yr Ysgotiaid yn anhysbys o aflwyddiant eu cyd-wladwyr, ond yn cael eu cyffroi wrth haerllugrwydd y cyfryw gŵyn, danfonasant 1,300 o ddynion ereill i fyned i gynnal trefedigaeth oedd erbyn hyn gwedi darfod am dani. Yr oedd y fintai hon gwedi bod yn fwy hyrbwyll na'r llall, a buont yn fwy aflwydiannus ar y daith: collodd un o'r llongau a'r holl ddynion oedd ynddi. Tiriodd y lleill ar amrywiol amserau yn flin gan y daith, yr hyn gyd a'r siomedigaeth am lwyddiant eu cyd-wladwyr a weithiodd angau yn y rhan fwyaf o honynt. Yr oedd gyd a'r ail fintai bedwar o weinidogion yr eglwys wladol, y rhai oeddynt i sefydlu yr un defodau eglwysig ag oedd yn y fam-wlad, ond gan nad oedd trefn ar anneddau na threfnid-dai, ni roddai y trefedigion y cyfryw ufudd-dod i'r gweinidogion ag a ddisgwilient ganddynt, felly chwerwasant wrthynt, a bu ymraniad yn eu plith, yr hyn gyd a'r anrhefn oedd eisus ar droed a barodd i aflywodraeth ac anrhefn reoli y drefedigaeth.

Y fintai olaf a diriodd yn Darien oedd dan arweiniad gwr o enw Campbell, yr hwn a wnaeth long ar ei draul ei hun i'r perwyl o'u cludo yno. Ar iddo gyrhaedd St. Andrew newydd, clywai bod byddin o 1,600 o Yspaen o arfordiroedd Mor mawr y de yn gwersyllu yn Tubucantee, ac yn amcanu rhuthro i'r trefedigion, mor fuan ag y deuai llynges o Yspaen oedd mewn dysgwiliad yno i'w cynnorthwyo i ymosod ar yr amddiffynfa. Campbell yn ofni y canlyniad o gydymosodiad gan luoedd Yspaen, dewisodd 200 o'i filwyr dewraf, ac anturiodd yn ngwersyll Tubucantee ar ganol nos, a bu brwydr aruthr rhyngddo a'r Yspaeniaid, y rhai a lwyr orthrechodd trwy ladd cantoedd o honynt a gyru y gweddill ar ffo: ond erbyn iddo ddychwel yn ol, gwelai y llynges gwedi dyfod, ac wrth y gorchwyl o ddilwytho ei byddin, ac ni chafodd ond braidd gyrhaedd yr amddiffynfa nad oeddynt oll mewn gwarchae. Gwedi chwech wythnos i ddyoddef eisieu mawr, ymroddasant i roddi y lle i fynu, a chafodd Campbell gyfle i ddianc mewn llong i New York, ac oddiyno cyrhaeddodd Ysgotland.

Y gweddill gwedi eu danfon i'w llong i ddychwel i'w gwlad yn ol y cydundeb wrth roddi y lle i fynu, oeddynt ry egwan i'w hwylio, ac ar gyfer Charlestown daeth llong ddrylliad arni, ac o'r cyfan o'r minteioedd ni ddychwelodd onid 30 yn yn ol i'w gwlad.

Yr oedd Paterson yn llwyr amhwyllog yn ngorff y daith gwedi y difrod cyntaf ar y drefedigaeth, ond ar iddo gyrhaedd ei hen gartref, daeth i'w bwyll, ac ymroddodd eilwaith i roddi y cynllun mewn agwedd arall ger bron y brenin, ond William yn rhy drafferthus gan oruchwylion ereill, ni roddai fawr o seibiant i'w ddymuniad. Felly

bu terfyn ar gymdeithas Darien, a Paterson a fu fyw flynyddau lawer, ac yn ei ddyddiau olaf mewn cryn dylodi, heb i'w wlad ei hun nag unrhyw arall ddangos unrhyw dosturi tu ag ato.*

# PERU.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynioedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y Wlad. Ansawdd y tir... Hin a thymhorau...Afonydd...Mynyddoedd.. Mwngloddiau.*

PERU sydd yn gorwedd rhwng y cyhydedd a lledred 25°D. a rhwng hydred 60°a 81°G. yn 1,800 milltir o hyd a 500 milltir o led, ac felly yn cynnwys o ddeutu 970,000 o filltiroedd arwynebol. Ei therfynau ydynt Granada newydd ar y tu gogledd; Amazonia a Paraguay ar y tu dwyrain; Chili ar y tu de; a Mor mawr y de ar y tu gorllewin.

RHANIADAU.] Trefnodd llys Yspaen yn nghorff y ganrif ddiweddaf i amryw o daleithiau Peru i gael ei gwahanu oddiwrthi. Yn 1718 trefnwyd i Quito a thaleithiau cyfagos gael eu cyssylltu at Granada newydd, ac o ddeutu yr un pryd, unwyd amryw o'r taleithiau cyfagos at Paraguay neu La Plata. Y maent eto yn 42 o rifedi, ond gan na wyddis nemawr am eu hansawdd, ni enwir yma ond ei phrif ad-raniadau, y rhai ydynt fal y canlyn.

| *Rhaniadau.* | *Ad-raniadau.* | *Prif ddinasoedd.* |
|---|---|---|
| Y ddosbarth ogleddol.... | Quito ............ | Quito.<br>Payta. |
| Y ddosbarth ganol...... | Lima neu Los Reys.. | Lima.<br>Cusco.<br>Calloa. |
| Y ddosbarth ddeheuol .. | Los Charcos ...... | Potosi.<br>Poreo. |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Mae y wlad hon yn dra mynyddig ac yn arw ei gwyneb yn gyffredinol: ond mae ei nentydd dyfnion a glenydd ei hafonydd yn dwyn toreth o ffrwythydd cyhydeddol, grawn, a'r cyffelyb. Y tir gan fwyaf yn dufewnol sy frâs, ond mae yr holl lenydd gorllewin ar dueddau Môr mawr y de yn dywodlyd ac yn anffrwythlon. Mae ffrwythydd yr amrywiol dymhorau i'w cantod ar yr un pryd yn y wlad hon: tra mae rhai o lysieu y maes yn gwywo mae ereill yn dyfod rhagddynt yn eu hardderchowgrwydd mwyaf ysplenydd; tra mae rhai blodau yn darfod eu tymhor, mae y lleill yn tori allan, a thra mae ffrwythydd yn dyfod yn gyflawn addfed a'r dail yn dechreu gwywo, mae dail a ffrwythydd ereill ar yr un pren yn dechreu tori allan ac yn ymlunio.

HIN A THYMHORAU.] Er bod Peru yn gorwedd yn y gwregys llosg, mae ei hinsoddau yn fwy tymherus na gwledydd cyhydeddol ereill, oherwydd bod Mor mawr y de yn gyfagos ar un tu, a thrumau uchel yr Andes ar y tu arall, ac hefyd oherwydd bod yr awyr yn gyffredin

* Sir John Dalrymple's Memoires of Great Britain and Ireland, vol. ii.

yn gymylog, ac felly yn tarfu awchlymder gwres yr haul. Ond [illegible] nad oes gwlaw ar unrhyw dymhor yn disgyn yn Mheru isaf, mae talaith Quito trwy ystod ei thymhor gwlyb yn ddarostyngedig i'r llifeiriant mwyaf, yn nghyd a mellt a tharanau aruthr o ddychrynllyd.

AFONYDD.] Prif afonydd Peru ydynt yr Amazonia, y Grenada neu Cagdalena, a'r Oronooko, yr hon fu dan sylw o'r blaen; heblaw ychydig o rai man y sydd yn ymuno â Mor mawr y de.

Yr Amazonia, yr hon hefyd a elwir Orellana, sydd a'i blaenau yn mynyddoedd Peru, a'i harllwysiad gwedi troelli o 4 i 5,000 o filltiroedd sy trwy 84 o aberoedd i'r mor Werydd: mae ei haber yn 160 milltir o led, ac y mae ei dyfnder fil o filltiroedd oddiwrtho yn 30 gwrhyd.

MYNYDDOEDD] Mae y drum uchaf yn y byd a elwir Andes, yr hon a fu eisus dan sylw yn derfyn rhwng y wlad hon ag Amazonia a Paraguay, ac y mae ceinciau tra uchel o honi yn estyn tros y wlad agos yn mhob cwr.

MWNGLODDIAU] Mae lliaws o fwngloddiau aur yn agored yn ng [illegible]ledd-barth Peru, yn lled agos i Lima. Cloddfeydd arian sy hefyd yn dra ehelaeth mewn amryw o'i thaleithiau; ond mae yr hen gloddfeydd yn adfeilio yn lled aml, ac ereill yn wastadol yn cael eu hagor. Mae tref yn cael ei hadeiladu yn gyfagos i bob cloddfa, a phan ddigwydd i unrhyw gloddfa adfeilio mae y dref yn cael ei gadael gan ei thrigolion. Yr oedd yn nhref Potosi tra yr oedd mwn arian yn hawdd ei gael o ddeutu 90,000 o drigolion, sef o ddeutu chwech o Indiaid am [illegible] Yspaeniad; ond gan bod y gloddfa weithian yn dra dofn, a [illegible] anhawsder i gael y defnydd, nid oes ynddi oddiar hanner y rhifedi uch[illegible] Peru hefyd yw yr unig wlad y sydd yn perthyn i Yspaen yn y gorllewin[illegible]fyd y sydd yn rhoddi y defnydd a elwir arian byw, yr hwn sydd yn [illegible] gwerthfawr tu ag at amrywiol bethau, yn enwedig i buro aur ac a[illegible] Y brif gloddfa o'r defnydd hynod hwn a ddarganfuwyd yn 1567 [illegible] yn Guancavelica, y lle mae y defnydd yn bentyrau lled-wyn lled deb[illegible] i galch, ond gwedi ei buro trwy dân y mae yn dyfod yn ddefnydd [illegible] a dysgleirwyn. Mae yn Peru hefyd gloddfeydd *Plutina*, defnydd [illegible] debyg ag agos mor werthfawr ag aur.

Y dull o ddarganfod trysor gwerthfawr Potosi oedd trwy y ddamwain ganlynol. Fal ag yr oedd Indiad o enw Hualpa yn ymlid [illegible] gwylltion i fynu i'r mynydd, daeth i le serth, ac wrth ei esgyn ymaflodd mewn prysgwydd, yr hwn yn ymroddi i'w bwysau a bar[illegible] ddyfod i'r goleu bentwr o fwn arian, ac yr oedd telpynau o hono yn nglyn wrth y gwreiddyn. Yr Indiad gwedi ymlwytho o'r da, a [illegible]urodd i'w gartref yn Porco i'w buro, a phan fyddai gwedi ymadael ag ef, nid oedd raid iddo ond dychwel i'r mynydd am ychwaneg. O'r diwedd bu i gyfaill o enw Guanca, trwy sylwi ar y cyfnewidiad oedd yn ei fywoliaeth, fod yn daer arno i fynegi iddo yr achos, a chan na adawai lonydd iddo, efe a ddatguddiodd iddo y gyfrinach. Felly aethont eu dau o hyny allan i'r annedd gyfoethog, ond Hualpa yn nacau dangos i'w gyfaill ei ddull o buro y defnydd, aeth Guanca at un o swyddogion Yspaen oedd yn Porco, ac y fynegodd y peth iddo, ac o hyny hyd heddyw Yspaen y sydd yn meddiannu y trysor a gloddir yn Potosi.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Dinasoedd. Trefnidiaeth.. Hanes.*

NID ydys yn hysbys o rifedi trigolion Peru, ond hernir bod yn y prif ddinasoedd o ddeutu 200,000 Yr Indiaid ydynt y lliosocaf, sef yn ol o ddeutu pump am bob un o'r Yspaeniaid.

MOESAU AC ARFERION.] Y Peruiaid fal y crybwyllwyd oeddynt y gwareiddiaf a gyfarfu yr Yspaeniaid â hwynt o holl Indiaid y gorllewin-fyd. Tra yr oedd y Mexiceaid yn ymddifyru mewn defodau creulon, trwy aberthu eu cyd-ddinasyddion, yr oedd y rhai hyn yn ymddwyn yn haelionus a charedig y naill tu ag at y llall; tra yr oeddynt hwy yn arteithio gyd a'r creulonder mwyaf y carcharorion a gymerent mewn rhyfel, yr oedd y Peruiaid yn egwyddori y cyfryw i ymarweddu fal dinasyddion, ac yn eu mabwysiadu yn ddeiliaid y deyrnas. Ond mae agwedd y Peruiaid y pryd hwn yn lled gyffelyb i'r dysgrifiad a roddir i'r Yspaeniaid yn gyffredinol, sef eu bod yn ofergoelus, ac yn elynol i bob agwedd na byddo delw y bwystfil arni.

Prif nwydau Yspaeniaid y gorllewin-fyd ydynt balchder, uchder a diogi fal yn y fam-wlad, ond eu bod yn hytrach gwedi ymddirywio i agwedd fwy anfoesol. Mae hyd yn nod y Creoliaid yn eu golygu eu hunain yn uwch yn ngraddau dynoliaeth nag unrhyw ereill o ddynolryw.

LLYWODRAETH.] Mae Peru yn cael ei llywodraethu gan lywydd o Yspaen, yr hwn sydd a'i rwysg a'i fawredd agos mor ddiderfyn a'i arglwydd. Yr oedd hwn yn llywodraethu tair talaith cyn uno Quito at Grenada newydd. Mae is lywyddion yn gweinyddu drosto yn ardaloedd pellaf y wlad, y rhai ydynt yn rhwym o ddanfon cyfrif teg o'u goruchwyliaeth i'w lys yn Lima, mor fynych ag y byddo yntau yn danfon ei hanes i lys Yspaen.

TREFNIDIAETH. DINASOEDD.] Prif ddaoedd trefnidiol y wlad hon ydynt aur, arian, a meini gwerthfawr, y rhai ydynt yn cael eu danfon o'r Dinasoedd yn unig i wledydd tramor. Mae y brif ddinas Lima yr hon a seiliwyd gan Pizzaro yn sefyll mewn dyffryn teg o ddeutu afon Rimac: ei phrif adeiladau yn enwedig yr eglwysydd ydynt dra hardd, ac wedi eu goreuro â thrysorau y gorllewin-fyd: y tai ydynt o goed, yn furiau ac yn hen, oherwydd bod cyfartalrwydd y tymhorau, ac nad yw gwlaw ar unrhyw amser yn digwyddo yno yn peri i adeiladu o geryg fod yn ddiangenrheidiol; ac hefyd bod y cyfryw yn dal yn well yn erbyn ymgyrch y daear-grynfâu y sydd mor fynych yn y wlad hon. Mae dinas Lima yn ddwy filltir o hyd, un o led, ac y mae ynddi o ddeutu 54,000 o drigolion, sef o ddeutu 9,000 o wynion a'r gweddill yn Indiaid a Negroaid. Ei sefyllfa sydd o ddeutu 6 milltir oddiwrth y môr, ond y mae ganddi dref-borth a elwir Callao yn cynnwys o ddeutu 3,000 ereill o drigolion. Dyfethwyd tair rhan o bedair o ddinas Lima a thre Callao yn llwyr yn 1747 gan ddaear-gryn. Ni bu erioed y fath ddystryw ag a ddaeth i ran yr olaf, canys o 3,000 o drigolion, ni achubwyd onid un dyn yn unig, a hwnw mewn modd agos yn wyrthiol. Yr oedd hwn yn digwyddo bod ar gaer amddiffyn ar goppa craig, ac ar funud clywai waedd echrys y trigolion, y rhai oeddynt yn lluoedd yn dianc o'u hanneddau, ac yna gwelai y mor (fal

arferol yn y cyfryw droion arswydus) yn cilio yn ol i gryn bel'd r, ac yn dychwel fal mynydd anferth, ac yn gorchuddio yr holl dref a'i thrigolion, hyd onid oedd pob peth yn dawel yn ddiatreg; ond daeth y dón a gladdodd y dref, â chwch bychan hyd at ymyl y gaer, i'r hwn y llammodd y dyn, ac y cafodd ei achub!

Cusco prif ddinas ymerodraeth Peru gynt, sy fal y soniwyd yn sefyll mewn mynydd-dir ac yn gryn bell oddiwrth y mor: mae hi hon yn lleihau wrth fal y mae cyfoeth a llwyddiant Lima yn cynyddu, ond eto mae ynddi o ddeutu 26,000 o drigolion, ac y mae ynddi weithfaoedd cotwm a brethynau. Quito yw y nesaf mewn maint i Lima, ond y mae hon fal Cusco yn sefyll ar fynydd-dir yn bell oddiwrth y mor, a chan nad oes eloddfeydd yn gyfagos iddi, sydd yn lliosog ei gweithfaoedd cotwm a'r cyffelyb.

Anifeiliaid.] Y creaduriaid hynotaf yn Peru ydynt y Lama, y Vicunna, a'r Guanco.

*Y Lama* sydd o ddeutu maint carw, ei ben sy fychan ac yn lled debyg i ben march a dafad ar yr un pryd. Mae agen yn ei wefus uchaf fal yr ysgyfarnog, trwy yr hwn y bydd yn poeri math o sug gwenwynig ar ei ymlidydd. Mae hwn yn anifail buddiol i gludo beichiau trymion tros y mynyddoedd, ac nid yw byth yn yfed: mae math o wlan bras arno, o'r hwn y gwneir math o frethyn cedenog, ac y mae ei gig yn fwytadwy.

*Y Vicunna* sy led debyg i'r Lama, ond ei fod yn llai, ac yn fwy cyflym o draed: mae gwlan hwn yn fwy llathraidd. O'r Vicunna y maent yn cael y *Bezoar*, sef math o gareg y sydd yn feddyginiaeth rhag gwenwyn.

*Y Guanco* sy led debyg i'r Lama, ond yn fwy o faintioli, ac y mae ei wlan yn fwy garw, a'i gig yn gryfach i'r archwaeth.

Hanes.] Nid oes nemawr ychwaneg am hanesyddiaeth Peru nag y grybwyllwyd yn y dysgrifiad cyffredinol am oresgyniad America gan u oedd Yspaen dan arweiniad Cortes a Pizarro.

# CHILI.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Afonydd. Llynau. Mynyddoedd.. Mwngloddiau.. Trefnidiaeth.. Anifeiliaid.. Trefydd.*

MAE y wlad fawr hon yn gorwedd rhwng lledred 25° a 44° yn ddeheuol a rhwng hydred 65° ac 85° yn orllewinol, yn 1,260 milltir o hyd a 580 o led; ac yn gylchynedig o du y gogledd gan Peru, o du y dwyrain gan Paraguay neu Le Plata; o du y de gan Patagonia, ac o du y gorllewin gan Fôr mawr y de.

Rhaniadau.] Prif daleithiau Chili ydynt gwedi eu rhannu fal y canlyn.

| *Rhaniadau.* | *Taleithau.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|---|
| Ar du gorllewin yr Andes | Chili orllewin | St. Iago.<br>Baldivia.<br>Imperial. |
| Ar du dwyrain yr Andes | Cayo neu<br>Chili ddwyrain | St. John de<br>Frontieera. |

Hin a thymhorau. Cynnyrch.] Mae hinsoddau y wlad hon yn dra hyfryd, heb fod gwres yr haf nag oerni y gauaf yn unrhyw flinder. Y tir sy hefyd yn frâs ac yn cynnyrchu ffrwythydd cyhydeddol, cyffuriau meddygol, &c. yn dra thoreithiol; heblaw cyflawnder o amrywiol fâth o rawn, yr hwn gyd â llin, cywarch, a'r cyffelyb sydd yn cael ei ddanfon i Peru â gwledydd ereill fal prif ddaoedd trefnidiol y wlad.

Afonydd. Llynau. Mynyddoedd.] Y prif afonydd ydynt y Salado neu yr afon hallt, y Guasco, Coquimbo, Chiapa, Bobio, a'r Baldivia y rhai oll sy heb fod yn fordwyol ond o fewn ychydig i'w haberoedd.

Y prif lynau ydynt y Tagatagua yr hwn sydd yn agos i dref St. Iago, a llyn Paren. Mae yn agos i'r arfordir gorllewin, liaws o lynau yn cael eu llunio gan mwyaf gan y môr ar y tymhestloedd gorllewinol: maent yn heigio pysgod o amryw fâth, a phan ddelo gwres yr haf i'w sychu, mae caenen droedfedd o dew o halen tros wyneb eu gwaelodion.

Mae trum fawr yr Andes yn estyn ar hyd y wlad hon, ac yn ei dosbarthu yn ddwy ran; ond nid yw clogwyni y drum mor uchel a'r rhai sydd yn nghymydogaeth Quito.

Mwngloddiau.] Mae yma gloddfeydd o aur, arian, efydd, tin, haiarn a phlwm, ac mae cryn doreth o ronynau aur, yn cael eu golchi i lawr gan y ffrydiau y sydd yn deillio o'r mynyddoedd, y rhai a gyfrifir at eu gilydd yn werth dwy filiwn o bunnoedd yn flynyddol.

Trefnidiaeth.] Danfonir o Chili i Peru grwyn, ffrwythydd cyffeithiol, cig hallt, cywarch, grawn a chyffylau yn gyfnewid am dobacco, sygr, cocoa, cynnyrch gweithfaoedd Quito, a daoedd amrywiol o Ewrop. Mae Paraguay yn derbyn o Chili win, brandi, olew, ac yn benaf aur, yn gyfnewid am fulod, cwyr, cotwm, Negroaid a'r cyffelyb. Mae y daoedd hyn yn cael eu cludo ar draws y wlad o St. Iago i Buenos Ayres, er bod y daith yn fil o filltiroedd, a 120 o hyny tros fynydd-dir anial yr Andes yr hwn sydd tan eira oesol.

Anifeiliaid.] Mae y creaduriaid a grybwyllwyd am danynt yn nysgrifiad Peru yn lliosog yn y wlad hon. Meirch Chili ydynt yn cael eu cyfrif yn fywiog ac yn hawdd eu trin. Gwartheg, defaid a geifr ydynt yn llenwi y dyffrynoedd breision, ac yn dyfod â chyfoeth mawr i'w perchenogion. Adar dofion a gwylltion ydynt hefyd yn heidiau diamgyffred, ac y mae y mor y sydd yn terfynu ar ei pharthau gorllewin yn heigio digonedd o bysgod.

Trefydd.] St. Iago, y brif dref, sydd yn sefyll mewn dyffryn teg ar lenydd afon Mapocho; mae adeiladau y dref hon yn dra hardd. Baldivia, sy dref hardd arall yn sefyll ar gyd-lifiad afonydd Callacalles a Portero o fewn ychydig i'w haber yn Mor mawr y de: mae yn perthyn i hon amddiffynfeydd cedeirn.

## DOSBARTH II.

*Trigolion.. Moesau ac arferion.. Llywodraeth.. Hanes.*

NID ydyw trigolion y wlad hon mor lliosog a thrigolion y parthau ereill o ddeheu-barth America y sydd gwedi bod dan sylw. Mae y rhan fwyaf o'r Indiaid crwydredig y sydd ynddi heb eu goresgyn gan rwysg yr Yspaeniaid, ac y mae gelyniaeth greddfol yn parhau yn-ddynt yn eu berbyn, ac felly yn eu sarhau bob tro y caffont gyfle. Nifer trigolion y wlad hon yn ol y daearyddion cywiraf o Yspaen ydyw o ddeutu 80,000 o wynion ac o ddeutu 240,000 rhwng Indiaid a Negroaid.

MOESAU AC ARFERION.] Mae moesau Indiaid Chili yn tebygu mwy i foesau anwariaid gogledd-barth America nag i'w cymydogion y Peruiaid. Pan elont allan i ryfel, nid ydynt yn cludo gyd â hwynt na chôd na chelfi, gan fod y coed y sydd yn rhoddi cynnaliaeth iddynt yn eu harfogi â gwaywffyn ac â saethau. A chan eu bod yn sicr o gael mewn un ardal y peth oedd ganddynt mewn ardal arall, maent yn ymadael yn ewyllysgar ag unrhyw wlad neu ardal nas gallent ei hamddiffyn. Mae yr anwariaid hyn yn dra dewr ar fines y gwaed, ac nid ydynt yn arddangos unrhyw ymroddiad hyd oni chylchynir hwynt. Mae pen un Yspaeniad yn ddigon o iawn ganddynt am fywyd cant o'u cyfeillion. Gwedi colli unrhyw frwydr, mae y gweddill a adawyd yn myned i anial-le dyrys, ac yna gwedi ymadnewyddu mewn nerth a lliosogrwydd, maent yn ymosod eilwaith ar eu gormeswyr, ac felly yn parhau hyd heddyw o ddyddiau cyntaf goresgyniad eu gwlad gan yr Yspaeniaid.

Mae y llwythi o'r Chileaid y sydd mewn heddwch a'r Yspaeniaid yn trefnidio yn rheolaidd â hwynt: yr oeddynt hyd y flwyddyn 1724 yn cludo eu haur, eu hanifeiliaid ac weithiau eu plant yn gyfnewid am frandi, a'r cyffelyb, ond gan y byddai i fintëioedd o'r rhai lled wtraidd o honynt gwedi meddwi ymosod ar eu harglwyddi a'u lladd, trefnwyd o hyny allan i'r drefnidiaeth hono gael ei rhoddi yn llwyr o'r neilldu, ac y mae effaith dda y cyfryw dro yn amlwg hyd heddyw yn eu plith.

LLYWODRAETH.] Mae llywydd o osodiad llys Yspaen yn llywodraethu Chili, yr hwn sy ddarostyngedig i lywydd Peru yn mhob achosion pwysig. oddigerth yn nosbarthiaid cyfiawnder, yn yr hyn mae ganddo hawl i wneyd a fynno tra y mawrygo gyfreithiau y fam-wlad. St Iago yw gorsaf y llywodraeth.

HANES.] Byddin o Yspaen tan arweiniad Don Diego d'Almagro yn 1535 oedd y cyntaf a orêsgynodd y wlad hon, gwedi i'r llywydd hwnw a Pizzaro ddarostwng Peru. Yr oedd gan Almagro filoedd o Indiaid yn filwyr cynnorthwyol, heblaw byddin fawr o Yspaeniaid Cawsont am 600 milltir o'u taith, bob cynnorthwy gan y trigolion, y rhai oeddynt gwedi bod yn deyrngedawl i *Incas* Peru: ond ar iddynt gyrhaedd y wlad noethlom fynyddig a elwid Charcas, y lle ni cheid unrhyw gêd ond trwy fin y cleddyf, digalonnodd y fyddin; yr hyn a barodd i Almagro ymroddi i fyned tros yr Andes, fal yr elai yn nghynt i Chili. Ond yn yr anturiaeth hon, collodd yn yr eira oedd ar yr Andes o ddeutu 10,000 o'i Indiaid noethion, heblaw 150 o Yspaeniaid Gwedi i'r gweddill gyrhaedd Chili, cawsont dderbyniad croesawgar [trig]olion, y rhai yn meddwl mai swyddogion oddiwrth eu [In]ca

*Virachoca* oedd yr Yspaeniaid, a wnaethant offrwm o aur ac arian iddynt yn gyfartal i gan mil o bunau.

Yr oedd y Chileaid hyn er ys tro yn deyrngadawl i Peru, ond gan nad oedd y prif daleithiau gwedi eu darostwng, aeth Almagro i'w gwynebu, a bu brwydrau aruthr rhyngddo â hwynt am 5 mis, pan y galwyd ef yn ol fal y soniwyd i gynnorthwyo Pizarro rhag ail ymgyrch y Peruiaid.

Yn 1540, Pizarro gwedi lladd Almagro mewn bicre a fu rhyngddynt, danfonodd Baldivia i orphen goresgyniad Chili, yr hwn gwedi darostwng y dalaith fwyaf poblog, a arteithiodd y trigolion yn dôst, trwy wneyd iddynt olrhain y cloddfeydd aur ac arian hyd oni syrthiodd miloedd o honynt yn aberth i'w wanc. Ac felly gan nad oedd boddloni arnynt ymroddodd y Chileaid o'r diwedd i geisio adenill eu rhyddid, a than arweiniad Indiad o enw Capaulican, ymosodasant ar ganol nos ar wersyll yr Yspaeniaid, a llosgasant eu holl ystor-dai ymborth yn llwyr, ac er i filoedd o Indiaid gael eu rhwygo gan eu tân-ddrylliau yn y tro, eto cwympodd rhai ugeiniau o'r Yspaeniaid. Capaulican yn gweled yr ynfydrwydd o beryglu yr holl fyddin ar unwaith i dân yr Yspaeniaid a'i rhanodd yn finteioedd o fil o wyr bob un, gan orchymyn i bob mintai ddal cyhyd ag y medrai ar faes brwydr, sef hyd oni ddeuai mintai arall yn gynnorthwy, ac felly parhausont am flynyddau lawer, weithiau yn fuddugoliaethus, a phryd arall yn colli'r maes. Mewn un frwydr orchafiaethus pan y dystrywiodd yr Indiaid ddinas *la Conception*, cymerasant Baldivia yn garcharor, a dywedir iddynt dywallt aur yn eirias doddedig i'w enau, a gwneyd pibau ac offerynau ereill o'i esgyrn, a gosod ei benglog yn mhrif deml eu duw yn goffadwriaeth am y fath oruchafiaeth ysplenydd.

Y nesaf a ddanfonwyd i ddarostwng y Chileaid oedd Garcia de Mendoza, yr hwn yn y frwydr gyntaf a gymerodd Capaulican yn garcharor, ac a'i rhoddes i farwolaeth, ond parhaes y rhyfel hon o hanner cant o flynyddoedd: ac y mae llwythi lliosog o'r Chileaid hyd heddyw heb eu llwyr ddarostwng i rwysg Yspaen.

---

## PARAGUAY NEU LA PLATA.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Afonydd. Llynau Hinsoddau.. Sefydliad cyntaf. Prif ddinas. Trefaidiaeth.*

PARAGUAY sydd yn gorwedd rhwng lledred 12° a 27° yn ddeheuol a rhwng 50° a 75° yn orllewinol, yn 1,500 o hyd a 1,000 o led; ac yn gylchynedig o du y gogledd gan Amazonia; ar y tu dwyrain gan Brazil; ar y tu de gan Patagonia; ac ar y tu gorllewin gan Peru a Chili.

RHANIADAU.] Mae y wlad hon gwedi ei rhanu yn chwech o daleithiau fal y canlyn.

| *Rhaniadau.* | *Taleithiau.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|---|
| Y ddosbarth ddwyrain.. | Paraguay........ | Assumption. |
| | Parana.......... | St. Anne. |
| | Guaira.......... | Ciudad Real. |
| | Uragua.......... | Los Reyes. |
| Y ddosbarth ddeheu.... | Tucuman........ | St. Iago. |
| | Rio de la Plata.. | Buenos Ayres. |

AFONYDD. LLYNAU.] Mae tair o brif afonydd heblaw lliaws o rai mân yn dyfrio y wlad hon, sef y Paraguay, Uragua, a'r Parana, y rhai ydynt o fewn ychydig i'r mor yn ymuno yn un, ac yna yn myned dan yr enw Rio de la Plata, sef yr afon arian. Mae y rhai hyn yn y tymhor gwlyb yn gorllifo eu ceulenydd, ac yn ymdaenu tros y wlad gan adael llaid a gwrtaith o'u hol y sydd yn dra buddiol i ffrwythloni y tir.

Y Rio de la Plata sydd a'i thaith o fynyddoedd Andes i'r mor yn 1,900 milltir, ond lled ei haber sydd yn ei gwneyd yn fwyaf hynod. Mae hon yn ymaillwys i'r mor Werydd rhwng y ddau bentir a elwir St. Anthony a St. Mary, y rhai ydynt 150 milltir y naill oddiwrth y llall, ac yn Monte Video, amddiffynfa y sydd 100 milltir oddiwrth y môr, mae ei lled gymmaint na wel dynion oddiar fwrdd llong a fyddo yn y canol unrhyw o'i glenydd.

Y llynau yn Paraguay ydynt amrywiol, un o honynt a elwir Cassacores sy tros 100 milltir o hyd.

HINSODDAU] Mae ardaloedd ëang o'r wlad hon heb eu goresgyn gan yr Yspaeniaid. Mae amryw o honynt yn hollol anhysbys iddynt hwy nag i unrhyw Ewropiad. Y dalaith y sydd ag hysbysrwydd deg yn ei chylch yw yr un sy dan yr enw Rio de la Plata: mae hon yn cynnwys ynddi wastadoedd eang tra ffrwythlon, a rhai o honynt yn rhai cantoedd o filltiroedd o hyd a lled Yr hin mewn rhai parthau sy boeth ond mewn parthau ereill yn dymherus, ac yn gyffredinol yn iachus. Mae y tir yn frâs ac yn cynyrchu cotwm yn doreithiol, tobacco, a llysieuyn lled debyg i dê a elwir Paraguay, heblaw ffrwythydd yn doreithiol, ac y mae porfeydd a gweiriau ei neutydd a'i gwastadoedd mor fras, a bod y gwartheg, meirch, defaid, ac anifeiliaid buddiol ereill o liosogrwydd yn ddiamgyffred. Mae miloedd o'r gwartheg yn cael eu hela yn flynyddol er mwyn eu crwyn yn unig.

SEFYDLIAD CYNTAF. PRIF DDINAS. HANES.] Yr Yspaeniaid yn 1515 wrth forio yn afon La Plata a ddarganfu y wlad hon gyntaf, y rhai yn fuan gwedi a osodasant sail dinas Buenos Ayres, a elwir felly oddiwrth bod ei hinsoddau yn hyfryd ac yn iachus: mae hon yn sefyll ar lenydd deheuol yr afon, o ddeutu 150 o filltiroedd oddiwrth ei haber, ac yn y man y mae yr afon yn 21 milltir o led. Mae hi hefyd yn un o'r dinasoedd mwyaf yn neheubarth America, yn cynnwys ynddi amryw adeiladau ardderchog, ac o ddeutu 30,000 o drigolion. Cyfarfyddir yma a thrafnidwyr o Ewrop ac o Peru yn cludo eu daoedd priodol iddi yn gyfnewid am aur, arian, sygr, crwyn, a'r cyffelyb.

Y peth hynotaf y sydd yn hanesyddiaeth y wlad hon yw ei sefydliad cyntaf gan urddolion o eglwys Rhufain a elwir Jesuitiaid, y rhai trwy eu llafur a'u diwydrwydd yn taenu eu hegwyddorion yn mhlith yr Indiaid a ddaethant a miloedd o honynt i ymarweddu yn wareiddl fal y crybwyllir yn mlaen.

O ddeutu canol y ganrif ddiweddaf, arddangosodd y tadau ysprydol hyn i lys Yspaen mai anfoesoldeb yr Yspaeniaid oedd yr achlysur o fod gan lleied o lwyddiant ar eu cenadwri yn mhlith Indiaid y gorllewin-fyd, a bod eu hymddygiad yn gyffrediuol yn mhob man yr elynt yn peri tramgwydd i'r rhai oedd o fewn ychydig gwedi eu hennill i'r ffydd. Ac oni buasai y cyfryw rwystrau, y gallai ymerodraeth yr efengyl trwy eu llafur, fod gwedi ymgyrhaedd tros amryw ardaloedd ëang anadnabyddus, y rhai gyd a'u trigolion a fuasant yn llunio rhan o ymerodraeth Yspaen, a hyny heb na thraul na chymhelliad

trwy rym arfau. Y cwyn hyn yn cael ei wrando gan y llys, dynodwyd terfynau eu cenadwri yn ddiatreg, a rhoddwyd pob gallu llawnrhwysg iddynt o fewn y cyfryw derfynau, ac nad oedd i lywyddion y taleithiau cyfagos ymyryd na goddef i unrhyw Yspaeniad ddyfod o fewn iddynt, heb genad benigol y tadau yn unig. Addunedasant hwythau ar eu rhan eu hunain o dalu y dreth bennol yn ol lliosogrwydd eu deiliaid eglwysig; ac hefyd o ddanfon rhif benigol o honynt i gloddfeydd y brenin, pan fyddai gorchymyn am danynt, mor fuan ag y byddai i lwyddiant goroni eu cenadwri.

Yr oedd y terfynau a nodwyd fal hyn i'r Jesuitiaid yn cynnwys y taleithiau ëang a elwir Paraguay a Santa Cruz, ag hefyd rhanau o Tucuman a Buenos Ayres. Y dull y dechreuasant eu cenadwri oedd casglu o ddeutu 50 o deuluoedd crwydredig ynghyd, a rhoddi iddynt ymborth a gwisgoedd, a bod yn dyner ac yn hynaws wrthynt, nes aeth y sôn ar led am rinwedd y tadau, ac y daeth minteioedd ereill yn olynol i breswylio yn eu plith. Yr oedd y Portugiaid ychydig cyn hyn gwedi sarhau llwyth o Indiaid a elwid Guaracaniaid oedd yn terfynu ar Brasil, a gwedi dwyn miloedd o honynt o dro i dro yn gaethion, gwedi peri ymroddiad yn y llwyth o ymadael a'u cyffiniau i fyned i ymluestu yn nghanol y wlad. Y rhai hyn (o ddeutu 12,000 o rifedi) yn clywed am hynawseiddrwydd y Jesuitiaid a ddaethant atynt, ac mor fuan y daeth y tadau i ddeall ychydig o u hiaith, hwy a wnaed yn aelodau o'r eglwys Gatholig, ac yn fuan gwedi daeth o ddeutu 20,000 o Indiaid Paraguay i gofleidio yr un egwyddorion. Erbyn hyn dechreuwyd seilio trefydd a llunio cyfreithiau gwladol ac eglwysig, ac erbyn 1754 yr oedd 32 o drefydd mawrion gwedi eu hadeiladu, ac yr oedd o ddeutu 30,000 o deuluoedd yn eu cyfanneddu.

Yr oedd yn sefydlog yn mhob tref dri o wyr eglwysig, a chwech o fechgyn yn cynnorthwyo gwasanaeth yr offeren, ac yr oeddynt ar bob amser na byddai addoliad yn myned oddiamgylch i ymweled a'r cleifion, ac i annog y rhai esceulus i ddyfod i'r offeren, &c. Yr oedd yr Ysgol-feistraid hefyd yn llafurus yn eu dysgu yn nysgeidiaeth Ewrop, ac yr oedd pob crefftwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y trefydd, a'r Indiaid mwyaf athrylith yn cael eu dysgu ynddynt.

Wrth fal yr oedd y gwaith yn llwyddo, adeiladwyd ychwaneg o drefydd, a goreurwyd yr eglwysydd â lluniau ac a delwau tra-gwych; ac yn ganlynol arweiniwyd defodau milwraidd i blith yr Indiaid, a gwnaed swyddogion o honynt hyd onid oedd yno filoedd o arfogion parod i rwystro unrhyw ymgyrch gan finteiodd y Portugiaid neu o'r llwythi crwydrol anwar neu unrhyw elynion ereill. Fal hyn y buont lwyddiannus trwy lafur dïorphwys i dyneru meddyliau y dynion mwyaf anwar, i sefydlu y rhai mwyaf crwydredig, ac i orchfygu y rhai oeddynt er ys hir amser gwedi dïystyru ymostwng i rwysg Yspaen a Phortugal. Cawsont hefyd filoedd o lwythi amrywiol gwasgarog ereill i gofleidio eu crefydd, ac i ddyfod yn olynol yn ddinasyddion gwaraidd.

Ni oddef cylch y gwaith hwn i olrhain yn fanwl am yr amrywiol ddulliau oedd yn cael eu harfer tu ag at gwblhau y fath oruchafiaeth hynod ar gyrff a meddyliau y fath gynifer o bobl. Ni adawsont ddim heb ei wneuthur a allai gadarnhau ymostyngiad yr anwariaid neu ychwanegu eu rhifedi; a dywedir bod mwy na 340,000 o deuluoedd n ddarostyngedig iddynt; yn byw mewn ufudd-dod ac mewn ofn

difrif-ddwys. Ond y mae rhai hanesyddion yn dynodi agwedd y Jesuitiaid hyn yn dra chreulawn, ac yn eu cyhuddo o falchder a haerllugrwydd, ac o ymarweddu mewn llawn-rhwysg tra-awdurdodol i'r fath raddau a pheri hyd yn nod i'r swyddogion a ddewisid o blith yr Indiaid gael eu ffrewyllu yn eu gwyddfod am y trosedd lleiaf; ac hefyd o oddef i bennaethiaid y llwythi i gusanu ymyl eu gwisg fal yr anrhydedd mwyaf.

Yr oedd cyfoeth yr Offeiriaid hyn yn cynyddu yn ol fal yr oedd y deiliaid yn lliosogi; nhwy oedd biau yr holl weithfaoedd, cynnyrch y tir, a'r trysorau a offrymid yn flynyddol i'r hynaf o honynt, yr hyn sydd yn dangos mai nid awydd am achub eneidiau yr anwariaid oedd eu prif ymgais. Nid oeddynt ychwaith tra ystod eu rhwysg yn goddef i drigolion Peru, pa bynag a'i Yspaeniaid a'i Indiaid a fyddent i ddyfod o fewn eu terfynau.

Yn 1757, pan y rhoddwyd rhan o'u cyffiniau gan lys Yspaen i lys Portugal yn gyfnewid am Santo Sacramento i wneyd afon Oragua yn derfyn i'w taleithiau, gwrthododd y Jesuitiaid gydsynied o'u trosglwyddo fal anifeiliaid yn ddiarwybod o'r naill fangre i'r llall, ac felly gorchymynasant i'r Indiaid baratoi erbyn dydd brwydr, yr hyn a ganlynodd er distryw miloedd o honynt. Ac yn 1767 deolwyd yr holl Jesuitiaid o America gan awdurdod freninol o lys Yspaen, a daeth eu deiliaid i fwynhâd o'r un rhyddid o dan y goron ag ereill o Indiaid Deheu-barth America.

# BRASIL.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Rhaniadau.. Gwyneb y wlad. Ansawdd y tir.. Hin a thymhorau.. Afonydd.. Mwngloddiau.*

BRASIL sydd yn gorwedd rhwng y cyhydedd a lledred 35° yn ddeheuol a rhwng hydred 35° a 60° yn orllewinol; yn 2,500 milltir o hyd a 700 o led; ac yn gylchynedig ar y tu y gogledd gan aber afon Amazonia a'r mor Werydd; ar y tu dwyrain gan yr un môr, ar du y de gan aber y Rio de la Plata, ac ar du y gorllewin gan drumau mynyddig y sydd yn ei dosbarthu oddiwrth Paraguay a gwlad Amazonia.

RHANIADAU.] Y canlynol ydynt daleithiau Brazil a'u prif drefydd.

| *Rhaniadau.* | *Taleithiau.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|---|
| Y ddosbarth ogleddol yn cynnwys .... | Para................ | Para neu Belim. |
| | Marignan............ | St. Lewis. |
| | Siara................ | Siara. |
| | Petagues ............ | St. Luc. |
| | Rio Grande.......... | Tignares. |
| | Payraba ............ | Payrata. |
| | Tamara ............ | Tamar. |
| | Pernambuco ........ | Olinda. |
| Y ddosbarth ganol yn cynnwys..... | Serigippa........... | Serigippe. |
| | Bahia .............. | St. Salvador. |
| | Ilheos .............. | Paya. |
| | Porto Seguro ........ | Porto Seguro. |
| | Spirito Santo ........ | Spirito Santo. |

| *Rhaniadau.* | *Taleithiau.* | *Prif drefydd.* |
|---|---|---|
| Y ddosbarth ddeheuol yn cynnwys . . | Rio Janeiro.......... | St. Sebastian. |
| | St. Vincent ........ | St. Vincent. |
| | Del Rey ........... | St. Salvador. |

GWYNEB Y WLAD. ANSAWDD Y TIR.] Mae yr enw sydd ar y wlad hon yn deillio oddiwrth bren llifo a elwir felly, ar hwn sydd yn dra llawn yn mhob cwr o honi. Ei gwyneb a bwrw golwg cyffredinol arni sy led isel a gwastad, yn enwedig o'i chanol-barthau i'w harfordiroedd. Ond oddiyno i'w therfynau gorllewin mae y tir yn codi hyd onid yw yn terfynu yn drumau anferth, o'r rhai mae ffrydiau troellog yn ymuno a'r ddwy afon fawr y sydd yn derfynau gogleddol a deheuol i'r wlad. Mae bod yr afonydd hyn yn gorllifo eu ceulenydd yn y tymhor gwlyb yn peri i'r tir gnydio yn doreithiol pan ddelo gwres a sychder.

HIN A THYMHORAU] Mae hinsoddau gogledd-barth Brasil oherwydd ei bod yn agos i'r cyhydedd yn boeth ac yn afiach, ac yn ddarostyngedig i wlawogydd trymion yn enwedig yn Mawrth a Medi, yn nghyd a thymhestloedd dychrynllyd. Ond mae yn y parthau deheuol awyr iach, a gwynt y mor ar un tu, a gwynt oddiar iâ y mynyddoedd ar y tu arall yn tarfu awchlymder y gwres, ac yn gwneyd yr hinsoddau yn dymherus ac yn hyfryd.

AFONYDD.] Afonydd Brasil ydynt liosog, ond ceinciau ydynt oll o'r Amazonia a'r La Plata. Ni olrheiniwyd hwynt hyd yn hyn gan unrhyw onid Yspaeniaid a Phortugiaid, ac felly mae eu hansawdd fal amryw bethau ereill y sydd yn nghlo gan gaddug ofergoelus yn hollawl anhysbys.

MWNGLODDIAU.] Mae yn Brasil gloddfeydd o aur, arian, a'r meini gwerthfawr a elwir diamond. Y gloddfa aur a ddarganfuwyd yn 1681, sydd yn rhoddi o ddeutu gwerth 5 miliwn o bunnoedd yn flynyddol, o'r hyn mae y bumed rhan yn perthyn i'r goron. Y gloddfa ddiamond sydd yn sefyll yn agos i afon fechan Milhoverde ar gyfer Villa Nova do Principe: nid yw y maen gwerthfawr hwn mor ddysglaer yma ac yn nghloddfeydd Hindostan, er hyny y mae yn dyfod â chyfoeth mawr i'r goron yn flynyddol.

## DOSBARTH II.

*Trigolion ...Moesau ac arferion....Llywodraeth....Crefydd....Trefnidiaeth....Prif drefydd....Anifeiliaid.*

YN ol cyfrif Syr George Staunton mae yn Brasil o ddeutu 200,000 o ddynion gwynion, 600,000 o Negroaid, ac o ddeutu 1,500,000 o Indiaid cartrefol.

MOESAU AC ARFERION.] Mae y darluniad a ddyry hanesyddion cywir am foesau ac arferion y Portugiaid yn America yn mhell o fod yn hynaws a thirion. Dysgrifir hwynt yn foethus ac yn fursenaidd yn eu hymarweddiad, ond eto yn ymddialgar i'r eithaf; o dymher yn rhagrithiol; yn ddau wynebog yn eu hymddiddanion; ac yn dwyllodrus yn eu trefnidiaeth; diog, balch, a chreulon; yn eu hymborth yn grintachlyd, gan ddewis eu goreuro eu hunain â gemau gwerthfawr ac a sidanau gwychion yn hytrach na mwynhau trugareddau bywyd yn gysurus. Ond pan arlwyont wledd, yr hyn sydd yn digwyddo yn

dra anfynych mae eu bwrdd yn llawn o bob seigiau drudfawr, fal ag y bydd yr arlwy weithiau i wyth neu ddeg yn werth ugeiniau o bunnau. Pan y chwennychont fyned ar led, maent yn mynnu eu cludo mewn math o wely gwedi rhwymo ei ddeu-ben wrth bawl hir ar ysgwyddau Negroaid. Mae rhai o'r gwelyau hyn gwedi eu goreuro ac eddi gwerthfawr, ac y mae yn perthyn iddynt glystog velvet a chysgodleni tra-gwych, y rhai ydynt yn cuddio yr ymdeithydd os bydd yn dewis. Pan y chwennycho ei ddangos ei hun, mae y llen yn cael ei symmud o'r neilldu, ac yna y mae yn cyfarch ei gyfeillion, ac yn ymddiddan weithiau â hwynt am oriau bywgilydd. Tra y byddo hyn ar droed mae Negroaid y ddau ymdeithydd yn rhoddi y pawl i orphwys ar bastwn dan pob pen hyd oni therfyno yr ymgyfarch. Braidd bod na mab na merch os bydd y moddion ganddynt nad ydynt yn arfer y dull diog hwn o deithio yr heolydd.

Llywodraeth] Mae Brasil gwedi ei rhanu yn naw o lywodraethau, a llywydd ar bob un, ond o'r cyfan llywydd Rio Janeirio yn unig sydd a'r enw îs-frenin yn perthyn iddo. Maent yn cael eu gosod yn eu swydd am dair blynedd, yr hyn a ellir ei estyn wrth bleser y pen coronog. Mae prif yngnaid hefyd yn mhob talaith, y rhai yn mhob achos dyrys ydynt rwym o gyrchu am gynnorthwy i uchel lysoedd Rio Janeiro neu Lisbon. Er pan y mae teulu breninol Portugal yn byw yn Rio Janeiro, mae is-frenin yn goruchwyliaethu Lisbon

Crefydd.] Pabyddiaeth yn unig sydd yma yn grefydd freintiol. Mae yr holl wlad gwedi ei rhanu yn chwech esgobaeth, y rhai yn nghyd ydynt yn llunio archesgobaeth St. Salvador, yr hon a sefydlwyd yn 1552.

Trefnidiaeth.] Mae trefnidiaeth y wlad hon yn cynyddu bob blwyddyn oherwydd y rhwyddineb sy gan y Portugiaid y pryd y mynont o gael Negroaid o'u sefydlfeydd yn Affrica Yr oeddynt yn cludo oddiyno o ddeutu 50,000 bob blwyddyn cyn y dadwrdd y sy ar led o lwyr lethu y drefnidiaeth mewn caethion. Yr ydys yn barnu bod y diamond a ddanfonir odiyma i Ewrop yn flynyddol yn werth o ddeutu 150,000l. Gall hyn yn nghyd a'r sygr, tobacco, crwyn a chyffuriau meddygol roddi ychydig amgyffred am ëangder ei threfnidiaeth nid yn unig â Phortugal, ond â holl alluoedd trefnidiol Ewrop.

Y prif ddaoedd a ddanfonir i Brasil ydynt brethynau a gwlaneni o bob math o Loegr, Ffrainc a Holland; lliain a lasiau o Holland, Ffrainc a Germani; sidanau o Ffrainc ac Itali; sidanau, sana, capeni, plwm, tin, haiarn, efydd a phob math o lestri a wneir o'r defnyddiau hyn o Loegr, yn gystal hefyd â physgod heilltion, grawn a chaws: olew hefyd sydd yn cael ei ddanfon iddi o Yspaen, a gwin a rhai ffrwythydd a'r cyffelyb o Portugal.

Prif drefydd.] Prif dref Brasil yw St. Salvador, yr hon hefyd a elwir Bahia, y lle mae llongau trefnidiol y wlad yn ymgyrchu ar eu dychweliad i Ewrop. Mae y dref hardd hon yn sefyll ar graig uchel, a'r mor ar un tu iddi a llyn ëang ar y tu arall, ac felly o ran agwedd ei sefyllfa agosyn anorfodadwy. Hon yw yr harddaf a'r fwyaf poblog yn Brasil.

St. Sebastian, a elwir amlaf Rio de Janeiro oddiwrth yr enw y sydd ar y dalaith, sydd â phorthladd cyfleus yn perthyn iddi, ac y mae ynddi o ddeutu 200,000 o drigolion Ar du de y dref mae annedd wych y llywydd, yr hwn weithiau sydd yn llys breninol. Mae yn hon rai adeiladau gwerthfawr, ac amddiffynfeydd cedeirn i'w chadw rhag unrhyw rythr.

ANIFEILIAID.] Mae pob anifeiliaid a grybwyllwyd am danynt yn nysgrifiad deheu-barth America yn lliosog yn y wlad hon: lleddir yma filoedd o wartheg yn flynyddol am eu crwyn yn unig: a dywedir bod o ddeutu 50,000 o'r cyfryw yn cael eu danfon i Ewrop bob blwyddyn.

## DOSBARTH III.

### *Hanes Brasil.*

DARGANFUWYD y wlad hon yn 1500 gan y Portugiaid, y rhai oeddynt ar eu taith i'r India ddwyreiniol. Pedr Alvarez Cabral oedd y llyngesydd, yr hwn yn gadael Lisbon yn Mawrth 1500, a anturiodd i'r de orllewin, i'r dyben o ochel arfordir Guni, ac yn mhen y chwech wythnos a ddarganfu gyfandir Deheubarth America, yr hwn a farnai ar y cyntaf yn ynys anferth yn gryn bell i'r gorllewin o Affrica. Gwedi hwylio ddiwrnod cyfan yn ngolwg y lan, anturiodd dirio, a synnodd wrth weled y fath wahaniaeth rhwng pryd a gwedd gyffredinol y trigolion a'r Affricaniaid. Yr oedd y trigolion hyn mor wylltion, nad oedd modd i'w denu i ddyfod yn agos am rai dyddiau, ond gwedi angori o honynt mewn porthladd a alwasent *Porto Seguro*, buont lwyddiannus i ddenu dau o honynt i un o'r llongau, y rhai gwedi eu dilladu, ac ymddwyn yn garedig tu ag atynt a ollyngwyd i'r lan i fyned i blith eu cenedl, ac yn ganlynol daeth lluoedd o honynt dan ganu a dawnsio hyd at y borthladd, ac yna gwedi gobrwyo y pennaethiaid â rhoddion, cymerodd Cabral feddiant o'r wlad yn enw ei arglwydd Emanuel brenin Portugal.

Yn fuan gwedi i'r newyddion hyn gyrhaedd Portugal, danfonodd y llys ddynion addas i olrhain y wlad, a chan na chyfarfuont ag unrhyw ddefnyddiau gwerthfawr, boddlonwyd i'r wlad fod rhag-llaw yn annedd drwg weithredwyr o Portugal. Dwy long yn unig a ddanfonid yno yn flynyddol, y rhai yn gyfnewid am eu llwyth oeddynt yn cludo pren llifo, yr hwn oedd yn dra helaeth ynddi, ac yn achlysur o'r enw a roddwyd i'r wlad; hefyd ginger, ac amryw fath o adar.

Yn 1548, deolwyd trwy orchymyn y chwil-lys yr holl Juddewon oedd yn Portugal i Brasil, y rhai yno yn mwynhau cyflawn ryddid cydwybod, a ymroddasant i drin y tir, ac i lunio gwinllanoedd, planfeydd sygr, a'r cyffelyb, hyd oni ddaeth Brasil yn mhen ychydig flynyddau yn annedd o gryn werth yn ngolwg y llys. Yn 1549, danfonwyd gwr o enw Thomas de Souza i fod yn llywydd y wlad, yr hwn gwedi cynnull y trefedigion gwasgarog yn nghyd, a adeiladodd San Salvador yn brif ddinas, ac yna luniodd gyfreithiau, a mynodd gymell rhai o'r Indiaid i'w cynnorthwyo yn ngoruchwylion y planfeydd, &c. yr hyn a barodd iddynt wrthryfela a lladd y Portugiaid bob tro y cafent gyfle. Ond trwy fod Souza yn ymarweddu mor dyner ag y goddefai ei swydd iddo, a thrwy fod y Jesuitiaid a ddaethai gyd ag ef i foesoli y trigolion yn ddiorphwys wrth eu gorchwyl, daeth y trigolion yn mhen ychydig flynyddoedd yn lled waraidd, ac yna olrheiniwyd y parthau tufewnol yn fwy manwl a chafwyd aur, arian, a meini gwerthfawr mewn amrywiol barthau o'r wlad.

Y sônam lwyddiant Brasil yn ymdaenu tros Ewrop, eiddugeddodd ei phrif alluoedd i'w herbyn, ond y tebycaf i'w lladrata yn llwyr oedd-

ynt yr Ellmyn. Daeth 46 o longau y genedl honno i'w glenydd, tan arweiniad Henry Lonk, a bu brwydrau aruthr rhyngddynt hyd oni 'feddiannodd Lonk saith o'i phrif daleithiau, ac yna daeth prif gyfoeth y wlad am rai blynyddau i Amsterdam yn lle i Lisbon. Ond tra yr oedd yr Ellmyn yn parotoi llynges gref arall i oresgyn y gweddill o ddeheu-barth America, tarfodd y dadymchweliad a ddeolodd Phylip IV. oddiar yr orsedd i roddi lle i'r duc o Braganza y cynllun yn llwyr, a'r Portugiaid yn ymadnewyddu mewn grym a nerth, a ddeolasant mewn ychydig amser yr Ellmyn oll o'r wlad, a nhwy hyd heddyw y sydd yn ei meddiannu.

Yn y flwyddyn 1807, pan oedd byddinoedd Ffrainc trwy orchymyn y gormesdeyrn Buonaparte gwedi goresgyn Yspaen a Phortugal, ymroddes teulu breninol Portugal o ymadaw o'u gwlad, a myned i anneddu yn Brasil; hyd oni sefydlid heddwch cyffredinol; felly paratowyd llynges o longau mawrion Portugal, danfonwyd gyd a hwynt bedair o brif longau Prydain, ac aethont yn nghyd ag amryw o fawrion y deyrnas tros y mor Werydd; a chyrhaeddasant Rio Janeiro ar yr 8 o Jonawr 1808, y lle y maent hyd heddyw yn aros.

## AMAZONIA.

AMAZONIA yw y rhan honno o ddeheu-barth America y sydd hyd heddyw yn meddiant y cyn-drigolion, ac felly heb ei holrhain gan unrhyw Ewropiad er pan y rhoddes Orellana un o swyddogion Pizarro yr enw arni, wrth fordwyo ei phrif afon fal y soniwyd o'r blaen.

Mae y wlad hon yn gorwedd rhwng y cyhydedd ac ugain gradd o ledred deheuol: ei hyd yn 1,400 o filltiroedd a'i lled yn 900, ac yn cael ei chylchynu o du y gogledd gan Terra Firma a Guiana, o du y dwyrain gan Brasil, o du y de gan Paraguay, ac o du y gorllewin gan Peru. Hinsoddau y parthau o honi a olrheiniwyd ydynt dymherus, er ei bod yn gorwedd yn y gwregys llosg. Mae hyn yn deillio oddiwrth bod yr holl wlad o dan ddwfr am agos hanner y flwyddyn; a bod yr awyr yn gymylog gan darth a niwl yn lled gyfanedd am yr hanner arall. Mellt a tharanau ydynt yn ddychrynllyd yn gyffredinol trwy ystod y tymhor gwlyb.

Mae pob ffrwythydd y sydd yn Brasil yn helaeth yn y wlad hon, ac y mae ei choed-diroedd amrywiol yn llawn o bob anifeiliaid cyffredin y sydd yn nhueddau y cyhydedd yn neheubarth America.

Y trigolion ydynt o faint canolig, ac yn lled hardd o bryd: maent yn fwy cywrain mewn amryw bethau na'u cymydogion, yn enwedig mewn arlunio a chrefftwaith. Gwnânt raffau cryfion o risg coed, a hwyliau eu cychod ydynt o gotwm; eu bwyill ydynt gwedi eu gwneyd o emau y cregin-grainc; y cŷn a'r lluniedydd ydynt naill ai cyrn neu ddannedd gwylltfilod. Eu harfau milwraidd ydynt y waywffon, y bwa a'r saeth, a'u hestyllch ydynt o gonynau plethiedig neu grwyn pysgod.

Y llywodraeth wladol sydd ar amrywiol o *caziques* neu bennaethiaid, y rhai i'w dynodi oddiwrth eu deiliaid ydynt yn gwisgo plyf yn eu capeni, a chleddyf pren wrth gadwyn o ddannedd tiger am y canol, a'r cyffelyb.

wyddis hyd yn hyn pa un ai bod y defnyddiau gwerthfawr y sydd

yn dynodi y gyfran hon o'r ddaear oddiwrth ranau ereill yn Amazonia ai nad ydynt, ond y grêd gyffredinol am dani yw, mae annedd go dlawd ydyw am y cyfryw drysorau, o wall hyny buasai Yspaen neu Portugal yn ddigon trwyadl er ys oesoedd yn danfon eu lluoedd i'w holrhain.

## CAYENNE.

YCHYDIG ydyw meddiannau Ffrainc yn nghyfandir America. Buont yn arglwyddi a'r Canada a Louisiana gynt, ond y maent weithian heb unrhyw annedd oddigerth yr hyn sydd dan sylw.

Mae Cayenne yn gorwedd rhwng y cyhydedd, a 5 gradd o ledred gogleddol, a rhwng hydred 50 a 55 yn orllewinol, ac felly yn 240 milltir un ffordd, ac o ddeutu 300 y ffordd arall. Ei therfynau ydynt Surinam ar y tu gogledd; y mor Werydd ar y tu dwyrain, Amazonia ar y tu de; a Guiana ar y tu gorllewin. Y brif dref yw Caen. Mae holl arfordiroedd y wlad fechan hon yn isel, ond pan elir ychydig i'r tir cyfarfyddir â bryndir ffrwythlon, o'r rhai y gellir llunio planfeydd eang: ond nid yw y Ffrancod hyd yn hyn yn gofalu am eu trin, am fod eu hynysoedd yn yr India orllewin hyd o fewn ychydig flynyddau yn ol, yn rhoddi iddynt gymmaint ag y allent hyfforddio o longau i gludo eu cynnyrch. Mae ynys 45 milltir o amgylchiad ar gyfer aber afon Cayenne yn perthyn hefyd i'r Ffrancod, yr hon sydd a'i hinsoddau yn afiach, ond eto yn werth sylw o herwydd ei phorthladdoedd cyfleus.

## SURINAM.

GWEDI i'r Portugiaid ddifeddiannu yr Ellmyn o Brasil yn y dull a grybwyllwyd, a bod gorfod arnynt ymddëol o ogledd-barth America, yr oeddynt yn rhwym o foddloni ar eu meddiannau gwerthfawr yn yr India ddwyreiniol, heb onid Surinam yn unig yn y gorllewin-fyd. Bu hon gynt yn eiddo Prydain, ond nid ydoedd o fawr werth tra yr oedd yn ei meddiant, ac o herwydd hyny y cafodd ei rhoddi yn nghyd â dwy neu dair o ynysoedd creiglyd anial cyfagos, i'r Ellmyn yn gyfnewid am York newydd.

Y wlad hon yn cael ei galw Guiana mor fynych a Surinam, sydd yn gorwedd rhwng pump a saith o raddau lledred gogleddol, ac yn cyrhaedd 1000 milltir ar hyd yr arfordir o aber afon Oronooko yn y gogledd i afon Maroni yn y de. Mae rhan fawr o'r wlad hon yn isel ac yn cael ei gorchuddio gan ddwfr am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, ac felly mae ei hinsoddau yn afiach. Y brif annedd yw Surinam, tref ar afon o'r un enw, ond y mae gan yr Ellmyn blanfeydd ar lenydd yr afon am gant o filltiroedd y tu uchaf i'w haber. Yr oedd y wlad hon gynt yn llunio un o'r trefedigaethau mwyaf gwerthfawr oedd yn meddiant y Taleithiau unawl, ond yn ddiweddar oherwydd esceuluso danfon trefedigion iddi, nid ydoedd ond lle o sylw bychan. Yr achos mwyaf o'i hymddirywiad oedd y rhyfeloedd parhaus oedd rhyngddynt a'r Negroaid crwydrol, y rhai oherwydd dyoddef yr arteithiau mwyaf anynnol tra yn eu gwasanaeth a ymroddasant i godi arfau i'w herbyn, ac y maent weithian gwedi ymliosogi hyd onid ydynt yn llunio math

o drefedigaeth yn y coed sydd agos yn annrheiddgar, ar hyd lennydd afonydd Surinam, Saramaca, a Copename, ac felly yn parhau yn elynion arswydus i'w harglwyddi gynt. O dan arweiniad blaenoriaid o'u mysg eu hunain y maent yn ymladd eu brwydrau, yn trin y tir tu ag at gael eu cynnaliaeth, ac hefyd yn yspeilio y planfeydd cyfagos, a phethau cyffelyb.

Prif ddaoedd trefnidiol Surinam ydynt sygr, cotwm, coffee, tobacco, cywarch, crwyn, pren llifo, ac amryw gyffuriau meddygol. Maent yn trefnidio â sefydlfeydd gogledd-barth America o'r lleoedd y danfonir lliaws o feirch, gwartheg, ac ymborth. Cymerwyd Surinam gan y Saeson yn Awst 1799, ond adferwyd hi yn ol yn heddwch Amiens. Yn 1804, cymerwyd hi gan Frydain eilwaith.

Yn gysylltiedig â Surinam, crybwyllir yma am ddwy o blanfeydd yr Ellmyn a elwir Demarara ac Issequibo, y rhai yn 1781 a ymostyngasant i rwysg arfau Prydain, ac a gyfrifwyd y pryd hwnw yn dra gwerthfawr. Ond gan iddynt gael eu gadael yn ddi-amddiffyn, adgymerwyd hwynt yn fuan gwedi gan long rytel Ffrengig. Yn y rhyfel ddiweddaf daethant eilwaith i feddiant Prydain, ond rhoddwyd hwynt i fynu yn heddwch Amiens; ac ar i'r rhyfel ymadnewyddu daethant y drydedd waith i feddiant Prydain fawr.

Mae bod y wlad hon yn isel, ac yn ddarostyngedig i wlawogydd trymion am y rhan fwyaf o'r flwyddyn yn nghyd â bod ei hinsoddau yn fwll ac yn glaiar, yn peri i'w llysieuaeth ragori ar unrhyw yn mharthau ereill y gorllewin-fyd. Gyd â bod pob ffrwythydd cyhydeddol ac amryw ereill yn dyfod i lawn maint ynddi, mae ei chyffuriau meddygol hefyd yn dra thoreithiol. Yma y cyfarfyddir a'r pren y sydd yn dwyn y cnau a elwir *recinus*, y rhai ydynt yn rhoddi y nôdd a elwir *Castor oil*. Quassia, olew palmwydd, y Cowage, balsam capivi, ipecacuanha a'r cyffelyb ydynt hefyd yn ehelaeth ynddi. Mae y balmwydden yn tyfu yma i 50 troedfedd o hyd, ac nid yw trwch y lle lletaf o'i boncyff oddiar naw modfedd. Ar y goedan fechan a elwir *earuna*, mae yn tyfu math o gnau blodeuog y sydd yn rhoddi gwenwyn i'r Indiaid i drochi blaenau eu saethau ynddynt: ond y llysieuyn a elwir *ticuna*, yr hwn nid yw mor helaeth a'r llall y sydd yn rhoddi y gwenwyn mwyaf marwol.

Mae yn Guiana liaws amrywiol o adar brithliw, y rhai ydynt yn cael eu gwerthu er cryn elw i Ewropiaid. Yma hefyd y cyfarfyddir a'r gyffelysowen, yr hon ond ei chyffwrdd â llaw neu â gwialen a dery agos mor effeithiol a dyrnod peiriant y tân-dyniad. Mae amrywiol fath o nadroedd yn y wlad hon: lladdwyd un yn ddiweddar yn mhlanfa Sais o enw Amyatt, yn un llath ar ddeg o hyd, ac yn llawn llathen o amgylchiad yn agos i'w chanol, sef y lle ffyrfaf. Yr oedd ganddi ben llydan, llygaid mawrion yn ysgwyddo allan, ac yn safnrwth ddychrynllyd a chanddi ddwy rês o ddannedd blaenllymion.

Mae yn mhrif ddinas y wlad hon o ddeutu 1,800 o ddynion gwynion, ac o 5 i 6,000 o Indiaid a Negroaid caeth. Yr Indiaid y sydd yma ydynt adnabyddus wrth yr enwau Caribeaid, hynod am fod gynt yn fwytawyr dynion, hefyd y *Worros*, cenedl tra anwar, a'r *Arrowaks*, yr harddaf o gorffolaeth a'r hynawseiddiaf o dymher o unrhyw o'r lleill

# PATAGONIA.

PATAGONIA, yr hon a elwir hefyd Terra Magellanica, sy wlad anolrheiniedig yn nghwr mwyaf deheuol cyfandir America. Rhaid bod hinsoddau y wlad hon oddiwrth hanes y mae mordwywyr yn ei roddi am dani yn dra oer, yn enwedig yn y tymhor gauaf.

Pan diriodd y mor-raglaw Byron yn nglenydd anial y wlad hon, rhoddes orchymyn i'w wyr i aros yn eu hunfan hyd oni roddai ef amnaid i'r swyddogion oedd yn eu gwarchod i ymsymud. "Yna" meddai "aethym fy hunan yn mlaen rhyngwyf â thyrfa o Indiaid oeddynt ar lethr bryn, ond wrth eu canfod yn cilio yn ol wrth fal yr oeddwn yn nesu atynt, gwnaethym arwydd i un o honynt ddynesu ataf, a daeth y penaf o honynt: yr oedd hwn fal cawr o faintioli, ac am dano groen gwylltfil: ei wyneb oedd wedi ei fritho ag amryw liwiau, ac yr oedd cylchoedd o ddu a gwyn o gylch pob llygad, yr hyn gyd â rhesi cochion ar draws ei fochgernau oedd yn rhoddi golwg tra anferth arno. Ni fesurais ei hyd, ond gwn wrth gymharu fy maint fy hunan, nad allai fod nemawr llai na saith troedfedd. Pan ddaeth y creadur cawraidd hwn ataf, ni a wneuthom amnaid y naill ar y llall mewn dull o gyfarch gwell i'n gilydd; yna aethym gyd ag ef at ei gyfeillion, yn mhlith y rhai yr oedd gwragedd o agos gymmaint taldra; ac ychydig oddiwrthynt canfum fintai o hen wyr yn canu math o dôn afreolaidd ddolefus, fal pe buasai ganddynt ryw fath o gyfarfod crefyddol. Yr oedd y rhai hyn hefyd gwedi eu gwisgo â chrwyn, ac wedi britho eu wynebau fal y lleill, ond nid oedd yr un o honynt yn arfer yr un lliw yn nghylchoedd y ddau lygad: os byddai un cylch yn ddu, byddai y llall yn wyn; os byddai arall yn goch, byddai y llall o liw arall, &c. Yr oedd eu dannedd gan wyned a'r ifori, ac yn hardd o osodiad, ond oddigerth y croen oedd am ysgwydd y rhan fwyaf o honynt, yr oedd y gweddill o'r corff yn noeth."

"Gwedi gwneyd sylw fal hyn o honynt gyd â chryn syndod, tynais allan ddyrnaid o fwclys, y rhai a ddosberthais yn eu plith, ac yna tynais ddarn o riban, a rhoddais un pen yn llaw y nesaf ataf, a pherais i'r nesaf gydio ynddo, ac felly yn mlaen cyn belled ag y cyrhaeddai, yna cymerais fy ngwelleifyn a thorais rhwng pob dau, gan adael o ddeutu llathen yn meddiant pob un o honynt, yr hwn a rwymais am eu penau, ac yr oeddynt yn arddangos cryn falchder am y fath roddion."

"Ond nid oedd yr Indiaid hyn yn llwyr ddyeithr i nwyfau Ewropiaid, canys wrth graffu, sylwais bod gan un wraig freichledau o brês neu aur llwydaidd am ei breichiau, a chadwyn o fwclys gwydr am ei gwddf. Dangosodd un o'r dynion bibell imi gwedi ei gwneyd o bridd coch, a deallais wrth ei agwedd nad oedd ganddynt dobacco yn eu plith: ar hyn amneidiais ar fy nynion, oedd eto yn aros ar fin y môr, a daeth tri neu bedwar ar rediad yn mlaen, gan feddwl bod arnaf eu heisiau. Yr Indiaid mor fuan ag y gwelsont y dynion yn nesu, a ddechreuasant ymderfysgu, a chyd-gyfodasant i'r dyben debygwn o ymarfogi; ond ar imi orchymyn na ddelai onid un o honynt atom, ac i hwnw gludo tobacco gyd ag ef, ymdawelasant ac eisteddasant oll fal o'r blaen, oddigerth un hen-wr, yr hwn a ddaeth ataf dan ganu math o gân aflafar, a chyn iddo ei gorphen yr oedd y swyddog Cumming gwedi dyfod i'r gymdeithas. Ni allwn lai na gwenu wrth ei

olwg sŷn, gan iddo er ei fod agos yn chwe' throedfedd o daldra, ymddangos megys bachgenyn yn mhlith y fath Anakiaid."

"Tra yr oeddym fal hyn yn ymystymio y naill ar y llall, gwelwn hen wr yn fynych yn dodi ei ben ar y ceryg, ac yn cau ei lygaid am o gylch hanner munud, ac yna yn cyfeirio ei fŷs at ei enau, a thrachefn at y mynyddoedd i arwyddo fal y tybiaswn, os arhoswn hyd y boreu, y deuai ef ag ymborth imi, ond bu raid imi amneidio wrtho nad allwn aros. Yr oedd gyd a hwynt gynifer o gŵn, â'r rhai yr oeddynt yn rhedeg i lawr anifeiliaid oedd yn ymborth iddynt. Eu meirch oeddynt fychain ond yn dra bywiog: eu cyfrwyau oeddynt led debyg i ystrodyr. Tebygwn eu bod yn feibion ac yn ferched yn farchogion, canys yr oeddynt yn campio ac yn gyru yn chwyrn ar draws y meini rhyddion a llithrig oedd ar lenydd yr arfordir fal pe buasent ar dir teg."

"Yr oedd gan bob un offeryn tafl yn nglyn wrth ei wregys. Yr oedd hwn yn cynnwys dwy gareg lefn o ddeutu pwys bob un o bwysau, ac wedi eu gwisgo â chroen tew, a llinyn o ddeutu wyth troedfedd o hyd yn cydio y ddwy a'u gilydd. Y maent wrth ddefnyddio yr erfyn hwn yn dal un gareg yn y llaw, ac yna yn troi y llall yn chwyrn o gylch y pen, hyd oni farnont bod y grym yn ddigonol, i'w saethu at y gwrthddrych. Y maent mor hylaw yn y gorchwyl hwn, ag y tarawont nôd gan leied a swllt â'r ddwy gareg, bymtheg llâth o ffordd. Maent fal hyn wrth hela y *Guanco*, sef math o garw, neu yr estrys, yn peri i'r llinyn eu maglu, ac felly yn peri iddynt syrthio i law yr heliwr heb ychwaneg o drafferth."

Y maent yn bwyta, cig yn ammrwd ac heb ofalu nemawr pa un ai glan ai aflan a fyddo. Pan gymerodd y cadpen Wallis amryw o honynt i mewn i'w long, nid oeddynt fal amryw anwariaid yn arddangos unrhyw syndod wrth edrych o amgylch ar y gwrthddrychau oedd ynddi.

"Mi a'i cymerais hwynt" meddai'r cadpen "i lawr, i'r caban, y lle yr edrychasant o amgylch gyd â difaterwch rhyfedd, hyd oni ddigwyddodd i un o honynt dremio ar ddrych, ac yna gwahoddasant y naill a'r llall i edrych ynddo, a buont yn chwareu ac yn ymystumio o'i flaen am gryn amser, gan chwerthin yn angbymedrol, a chleger gyd â phwys nid bychan tra y buont o'i flaen.

# TERRA DEL FUEGO.

YCHYDIG i'r de o Patagonia mae ynys Terra Del Fuego, yr hon a farnid yn rhan o gyfandir deheu-barth America, cyn i Magellan anturio trwy y cyfyngfor y sydd a'i enw arno, ag sydd yn gwahanu yr ynys oddiwrth benrhyn Pantagonia. Ystyr yr enw y sydd ar yr ynys hon yw gwlad y mŵg a'r tân, oddiwrth bod y cyfryw yn weledig ynddi, yn deillio o'i mynydd tanllyd i'r darganfuwyr cyntaf. Mae holl wyneb yr ynys yn arw mynyddig, ac yn orchuddiedig agos gan iâ gwastadol, yr hyn sydd peri nad oes braidd unrhyw anifeiliaid yn ei phreswylio; eto y mae dyn yn cael cynnaliaeth yn y fath durran lom ac anial. Mae yr ychydig drigolion y sydd yn ei phreswylio o ran gosgedd yn tebygu i'r Laplandiaid, sef yn fyrion o gorffolaeth, a

ëhanddynt wyneb llydan, bochgernau uchel a thrwynau crwm: crwyn molrhoen yw eu gwisgoedd, a physgod yw eu hymborth trwy ystod eu hoes.

Mae yr ynys hon er na ymwelir â hi ond yn yr haf, yn cael ei dysgrifio yn un o'r anneddau trigfanawl mwyaf anghyfanedd y sydd ar wyneb daear, a'i thrigolion hefyd yn fwyaf annedwydd a thruenus o'r holl epil ddynol. Mae yr hyn a ddyoddefodd Syr Joseph Banks, Dr. Solander a'u cymdeithion ar yr ynys hon, pan aethant allan gyd a'r morlywydd Cook yn yr Endeavor yn Ionawr 1768, yr hyn yw canol haf yn yr arddrych hono yn cyfateb i'n Gorphenaf ni, yn profi am gyfnewidioldeb chwyrn yr hin, ac hefyd am erwindeb yr oerni.

Syr Joseph Banks a Dr. Solander yn chwennych ymweled â gwlad na olrheiniwyd mo honi erioed gan unrhyw lysieuwyr, a aethont yn nghyd a deg ereill i'r lan, ar y boreu teg cyntaf a gawsont; yr hyn sydd yn dra anfynych yn yr hingylchoedd hyn, hyd yn nod yn nyddiau canol haf. Cyfarfuant gwedi tirio a chryn rwystrau, sef corsydd dyfnion, a manwydd dyryslyd, fal y buont hyd dri o'r prydnhawn yn esgyn y mynydd, pan yn ddiatreg y cyfnewidiodd y tywydd o fod yn hyfryd a thymherus i oerni anaele, ac yn ganlynol daeth dyphwys o eira arnynt: er hyny aethont rhagddynt mewn dsigwyliad o gyrhaedd llethr greiglyd nen y mynydd, yr hwn nid oedd nepell oddiwrthynt. Gwobrwywyd yr ymroddiad hyn yn dda, trwy iddynt ddarganfod amryw lysieu na wyddid am danynt o'r blaen. Yr oedd y dydd erbyn hyn gwedi darfod, a phob gobaith o gyrhaedd y llong gwedi diflanu, yr eira yn ymbentyru yn ddiorphwys, yr oerni yn dyfod yn fwy awchlym, a'r olygfa anial o amgylch yn llenwi y fintai â braw. Tra yr oeddynt yn myned rhagddynt i chwilio am y dyffryn agosaf, arddangosodd y Dr. Solander iddynt yr angenrheidrwydd o fod mewn agwedd ymsymudol, canys gwyddai yn dda am effeithiau oerni gwedi iddo fod gwedi croesi y mynyddoedd sydd yn dosbarthu Norway oddiwrth Sweden. Sicrhaodd iddynt y byddai i bwy bynag a eisteddai gysgu, a phwy bynnag a gysgai na ddeffroai mwy.

Nid oeddynt gwedi myned yn mhell cyn teimlo o honynt y cyfryw effeithiau, ac efe yr hwn a rybuddiodd ereill, oedd y cyntaf i ddatgan ei hun yn analluog i gadw y gorchymyn a roddasai; ac yn fuan er pob ymgais, syrthiodd mewn trwm-gwsg i'r eira. Richmond, dyn du oedd yn was i Syr Joseph oedd y nesaf a ymroddodd i gysgu. Yn y cyfryw gyfyngder, danfonwyd pump o'r fintai i chwilio am le addas i wneyd tân, ac yr oedd y gweddill yn aros gyd a'r Doctor a'r dyn du, ac yn arfer pob moddion i'w cadw yn effro. Yr oedd y Negro truan gwedi ymfiino cymmaint ag iddo ar iddynt arddangos y byddai farw oni ymsymudai, yn chwenych cael gorwedd yn dawel a marw. O'r diwedd diffygiodd eu cyfeillion yn ceisio eu cadw yn effro, ac nid oedd ganddynt nerth gan y blinder a gawsont i'w cludo oddiyno, felly gadawyd iddynt eistedd, ac yr oeddynt yn ddiatreg mewn trwm-gwsg. Yn fuan ar ol hyn daeth y newydd o fod tân gwedi ei gynneu o fewn chwarter milltir i'r lle yr oeddynt, yna trwy lafur caled, deffrowyd y Doctor, a braidd y gallai gerdded gan gyffni yn ei aelodau, ond yr oedd pob cais o ddeffro y dyn du yn aneffeithiol: gadawyd dau ddyn a fernid oedd gwedi dyoddef leiaf gan effeithiau yr oerni i'w warchod, ac yn fuan danfonwyd dau ereill yn eu lle: daeth un yn ol, ond yr oedd y llall gwedi ymroi fal y Negro i gysgu. Y ddau ereill yn ofni

na allent gadw yn effro, dodasant frigau coed o dan ac ar eu cyfeillion ac aethont at y lleill.

Treuliwyd y gweddill o'r nos o gylch y tân mewn cyflwr truenus, ac yn llawn dychryn rhag y byddai iddynt golli y ffordd wrth geisio dychwel yn ol trwy y fath anial-le ddisathr, ac nid oedd ganddynt unrhyw luniaeth onid fwltur a saethasant ar y daith. Ar doriad y dydd, gwelynt nad oedd onid eira yn ymdaenu oddiamgylch, ac yr oedd y fath drwch o gymylau na allent ddirnad pa le yr oedd yr haul am oriau gwedi. Yn llawn arswyd aethont ymaith i chwilio am y ddau ddyn, a chawsont hwynt gwedi cwbl farw: yr oedd ci a berthynai i un o honynt yn gorwedd wrth gorff ei feistr, a bu arnynt gryn drafferth gael ganddo ei adael i ddyfod i'r llong. Daeth y creadur hwn i Loegr, a gwelwyd ef yno yn mhen llawer o flynyddau gwedi.

Ychydig wedi naw o'r gloch, dechreuodd yr eira ddadmar, ac ymroddes y fintai o fyned rhagddynt i chwilio am y llong. Yr oeddynt erbyn hyn bron a newynu, felly blingwyd y fwltur, a rhanwyd hi rhyngddynt, gan adael i bob un o'r deg drin ei ran fal y mynai, ac ychydig wedi deg o'r gloch, gadawsant eu tân, ac yn mhen y teir-awr i'w llawenydd annirnadadwy, cyrhaeddasant lan y môr: gwelsont ar ad-olygfa eu bod yn lle esgyn y mynydd mewn llin wastad gwedi myned agos o amgylch.

---

# YNYSOEDD YN PERTHYN I DDEHEUBARTH AMERICA.

YNYSOEDD FALKLAND NEU MALOUIN.] Yr ynysoedd hyn yn sefyll rhwng lledred 51° a 53° yn ddeheuol, a rhwng hydred 57 a 62° yn orllewinol, a ddarganfuwyd gyntaf gan Syr Richard Hawkins yn 1594, yr hwn a enwodd y benaf yn *Hawkin's Maidenland* o barch i'r frenines Elizabeth. Yr enw Falkland a roddwyd iddynt yn 16[illegible] gan y cadpen Strong; ond y Ffrancod a'u galwasent ynysoedd Malouin, oddiwrth bobl St. Maloes, y rhai a heurant a'u darganfu gyntaf. Mae yr ynysoedd hyn gwedi bod yn achlysur o gryn ymgecru rhwng Yspaen â Phrydain fawr: ond gan y gwelwyd nad oeddynt o fawr werth i'r olaf, gadawyd hwynt yn 1774 i'r Yspaeniaid, a nhwy hyd heddyw sydd yn eu meddiannu.

CHILOE sydd yn 150 milltir o hyd ac 21 o led, yn gorwedd ychydig i'r gorllewin o Chili, rhwng lledred 42 a 40° yn ddeheuol, a rhwng hydred 75° a 76° yn orllewinol. Mae yn hon amryw borthladdoedd eang, ac un amddiffynfa gadarn, a llywydd o Yspaen sydd yn rheoli yr ynys. Er bod tir yr ynys hon yn ffrwythlon, eto mae y tymhorau trymion y sydd agos yn ddigyfrwng trwy ystod y gauaf, a gwlawogydd parhaus yr haf, yn peri iddi fod yn llom o gynnyrch. Nid ydynt yn gallu meithryn gwin ar unrhyw amser ynddi, ond y mae gwenith India weithiau yn dra-llawn. Coed cedrwydd hefyd y sydd liosog ynddi, ac y maent yn tyfu i daldra mawr.

JUAN FERNANDES sydd ynys anghyfaneddol yn gorwedd yn lledred 33° yn ddeheuol a hydred 83° yn orllewinol, sef o ddeutu 300 milltir i'r gorllewin o Chili. Mae porthladdoedd cyfleus yr ynys hon gwe

bod yn nodded mynych i longau o Ewrop i ochel tymhestloedd, ac hefyd yn gyfleus o gael eu diwallu â dwfr. Mae hon yn hynod am fod Ysgotyn o enw Alexander Selkirk gwedi byw ynddi am rai blynyddau, yr hwn am ryw ffug drosedd a fwriwyd iddi gan ei gadpen dideimlad. Woodes Rogers yn 1709 a'i cludodd oddiyno: yr oedd gwedi ymwisgo mewn crwyn geifr, a braidd y gellid ei ddeall yn siared. Yr ydoedd gwedi lladd tros 500 o eifr tu at ag ei gynnaliaeth tra y bu yn yr ynys, y rhai a ddaliai wrth eu rhedeg i lawr; ac yr ydoedd gwedi nodi o ddeutu yr un rhifedi yn eu clustiau. Daliwyd llawer o'r rhai hyn 30 mlynedd gwedi, gan forwyr Anson: yr oedd eu beirf lleision, yn nghyd a'r nôd ddywededig, yn eu harddangos yn oedrannus. Ar ddychweliad Selkirk i Frydain, annogwyd iddo gyhoeddi hanes ei fywyd yn ei deyrnas fechan, felly ysgrifenodd gryn draethawd fal y gallai, a rhoddwyd ef i'w ddiwygio i un Daniel Defoe, yr hwn yn gyflym o ddeall am ddychymygion, a gasglodd y traethawd enwog a elwir hanes bywyd Robinson Crusoe, ac a roddes yn ol i Selkirk ei ysgrif-lyfr fal cawsai.

Ynysoedd Gallipagos ydynt yn gorwedd dan y cyhydedd yn Mor mawr y de, o ddeutu hydred 85½° yn orllewinol. Yr Yspaeniaid a'u darganfu gyntaf, a nhwy sy mewn meddiant o honynt. Maent yn anghyfanneddol, ond eto mae y lliaws cregin-grainc a'r amrywiol math o adar y sydd ynddi, yn nghyd a bod ei ffynonydd yn beraidd yn peri i longau a fyddo yn morio yn gyfagos iddynt droi i mewn. Gelwir y fwyaf o honynt Albemarle.

Yr ynysoedd ereill ydynt, ynysoedd Perl, y rhai ydynt yn gyfagos i Panama, y rhai nid ydynt gan eu lleied yn werth sylw benigol. Staten, ynys fechan ar du dwyrain Terra del Fuego. Georgia yn sefyll i'r dwyrain o ynysoedd Falkland. Trininada, tair ynys fechan 600 milltir i'r dwyrain o Spiritu Santo yn Brasil, a'r rhestr liosog, rhai yn gyfanneddol, a'r lleill yn anghyfanedd yn ngogledd-barth Grenada newydd.

# HOLLAND NEWYDD.

## DOSBARTH I.

*Sefyllfa. Maintioli. Cylchynoedd.. Gwyneb y wlad.. Afonydd.. Hin a thymhorau.. Anifeiliaid.*

MAE yr ynys neu y cyfandir ëang hwn yn gorwedd yn neheubarth Asia, sef, rhwng 10° a 44° o raddau lledred deheuol, a rhwng 110° a 154° o raddau hydred dwyreiniol; yn 3,300 o filltiroedd o ogledd i dde o hyd, a 2,640 o orllewin i ddwyrain o led, ac felly yn 8 miliwn llawn o filltiroedd arwynebol.*

* Mae y wlad hon yn ganol-bwnc cyfrau o'r ddaear a eilw rhai Daearyddion wrth yr enw Australasia, yr hon sydd a'i therfynau yn estyn o ddeutu 20 o raddau hydred o'i deutu, ac felly yn cyunwys y gwledydd canlynol.

1. Cyfandir Holland newydd.
2. Papua, neu Guni newydd.
3. Prydain ac Ywerddon newydd, yn nghyd ag ynysoedd Solomon.
4. Caledonia newydd, ac Ynysoedd Hebrides newydd.
5. Zealand newydd.
6. Ynys Van Diemen, yr hon a ddarganfuwyd yn ddiweddar o fod yn cael ei gwahanu oddiwrth ddeheubarth Holland newydd gan gyfyngfor Bass.

GWYNEB Y WLAD.] Ychydig a wyddis am ansawdd parthau tufewnol y wlad hon, oddigerth am ychydig filltiroedd oddiwrth y sefydlfeydd y sydd gan Frydain yn ei pharthau dwyreiniol Mae trum o fynyddoedd uchel yn estyn o'i glenydd deheuol o ddeutu 60 milltir i'r gorllewin o Botany bay, gan belled ag y gall y golwg gyrhaedd. Mae gwyneb y wlad o ddeutu y sefydlfeydd yn dra hyfryd i'r golwg, gan nentydd troellog yn llawn coed, gwastadoedd teg, a bronydd ffrwythlawn yn dra-llawn o flodau hardd, y rhai ydynt yn pereiddio yr awyr oddiamgylch: ac y mae y tir er iddo yn gyffredin fod yn dywodlyd ac yn gleiog, yn dra addas pe cafai ei wrteithio i gnydio amrywiol math o rawn, a'r cyffelyb.

AFONYDD.] Yr oedd prinder dwfr yn y wlad ëang hon yn gwyn gyffredinol gan y darganfuwyr cyntaf. Nid oedd unrhyw o honynt er hwylio am gantoedd o filltiroedd ar hyd ranau ëang o'i harfordiroedd, gwedi cantod unrhyw aber y gallent droi iddo; ac nid oedd yn agos i'r sefydlfeydd cyntaf, ffrwd gymmaint ag a droe felin. Ond y llywydd Phillip yn 1789, wrth olrhain ychydig o'r wlad, a ganfu afon a alwodd Hawksbury, yr hon am gryn bellder oddiwrth ei haber sydd yn 220 llath o led. Chwe milltir i'r de o Port Jackson, mae afon arall a elwir Nepaan, yr hon gan belled ag yr olrheiniwyd hi, sydd o ddeutu can llath o led. Mae amryw ereill o rai llai gwedi eu darganfod yn ddiweddar, ond y rhai a enwyd yw y rhai mwyaf hynod.

HIN A THYMHORAU.] Mae hinsoddau y wlad hon yn dra hyfryd, heb fod gwres yr haf nag oerni y gauaf yn annhymerus. Mellt a tharanau fal yn mhob gwlad wresog arall ydynt yn ddiorphwys agos trwy ystod yr haf; ac y mae amryw yn haeru (er nad hysbys yn union ar ba sail) y byddai y cyfryw dymhestloedd yn llai mynych pe diwreiddid y parth mwyaf o'r coed cysgodfawr brigog y sydd yn lleni gwyneb y wlad. Nid ydys yn hysbys hyd yn hyn pa un ai bod moelydd tanllyd yn Holland newydd a'i peidio, ond y mae bod rhai daeargrynfâau gwedi digwyddo er pan y sefydlodd y Prydeiniaid ynddi, yn peri ychydig duedd i feddwl bod y cyfryw mewn rhyw ranau o honi.

ANIFEILIAID.] Ychydig o bedwar carnoliaid a ganfuwyd hyd yn hyn yn Holland newydd: y lliosocaf ydynt y Kangaroo, yr opposum, a math o gwn, lled debyg o lun ac o anian i fleiddiaid. Er i rai o honynt gael eu cludo i Frydain, ni effeithiodd y daitli na'r tynerwch tu ag atynt yn y mesur lleiaf i'w gwarteiddio. Mae yma liaws o adar hardd o liw a llun, yn mhlith y rhai mae yr estrys, yr alarch du, a'r casswary. Seirph ac ymlysgiaid ereill ydynt liosog. ac y mae y môr oddiamgylch yn heigio agos bob math o bysgod y sydd yn gyffredin yn moroedd Ewrop.

## DOSBARTH II.

*Moesau ac arferion. . Llywodraeth. . Mwngloddiau.*

MAE trigolion y wlad ëang hon yn cael eu dynodi gan bob hanesyddion yn anwariaid mwyaf truenus a diamddiffyn o unrhyw ereill o genhedloedd y ddaear. Nid ydynt yn gwisgo na chrwyn nag edefyn am danynt, ond yn myned oddiamgylch yn gyflawn noethion; eto

maent yn hoffi addurno neu yn hytrach anurddo eu cyrff â lluniau anghelfydd, y rhai ydynt yn greithiau gweflog yn deillio oddiwrth archollion dyfnion, a pho anferthaf a fyddont mwyaf a bonnant fydd yr anrhydedd. Mae gan y meibion yn gyffredin asgwrn main, dwy neu dair modfedd o hyd, gwedi ei bwyo trwy fadruddyn y ddwy-ffroen; a chregin ydynt y clust-dlysau cyffredinol. Dwy ereill o nodau anrhydedd yn eu plith ydyw, bod y meibion agos oll yn ol o'u dannedd blaen uchaf; ac y merched yn gyffredinol yn ol o ddau gymmal bysedd bach y ddwy-law, ond ni wyddis hyd yn hyd yr achlysur o'r cyfryw, mwy nag o amrywiol ddefodau gwyrgam ereill y sydd yn eu plith.

Mae trin tir yn beth hollawl ddyeithr yn mhlith y trigolion hyn, ac ni ellir cael ganddynt ar unrhyw amser fwyta bara nag ychwaith un math o gig gwedi ei drin: ffrwythydd yn eu tymhor yw eu hunig ymborth, a phan ballont, ânt yn lluoedd i lenydd y môr i fyw ar bysgod. Y maent yn lled fedrus yn y gorchwyl o bysgota: gwnant rwydi cryfion o risg coed, ac o fath o gregin y naddant fachau. Ond os digwydd i forfil neu ryw bysgodyn anferth arall gael ei fwrw i'w glenydd gan dymhestl, fal y digwydd yn gyffredin yn y wlad hon, mae lluoedd o'r trigolion yn anneddu o'i amgylch i ymuno mewn gwledd gyffredinol, hyd oni chrafont yr esgyrn yn llwyr Ond er iddynt ymborthi ar gig a physgod yn ammrwd, nid oes lle i feddwl bod unrhyw o'r llwythi y sydd yn gytagos i sefydlfeydd Prydain ar unrhyw amser yn fwytawyr dynion, fal y crybwyllwyd gan rai o'r mordwywyr cyntaf a fu yn olrhain arfordiroedd y wlad hon.

Mae anneddau yr anwariaid hyn yn cael eu gwneyd o risg coed ar ddull pobtu, heb ynddynt unrhyw gyfleusdra ond lle i gyneu tân: llen o risg ar y llawr yw gorwedd-le gyffredin y teulu, ac hefyd y dyeithraid a ddigwyddo droi i mewn: ond yr ogofeydd lliosog y sydd yn nghraigleoedd y wlad hon ydynt y prif noddfeydd rhag pob gelyn.

O ran agwedd gorfforol, mae y trigolion hyn yn fywiog ac yn gryfion, hefyd yn ddewr yn ngwyneb unrhyw perygl a gyfarfyddont. Ond y mae twrf ergyd tan-ddryll, yn gystal â dilledyn o liw coch yn gyru llû o honynt ar unwaith ar ffô. Nid ydynt hyd yn hyn gwedi arddangos unrhyw gasineb tu ag at y trefedigion newydd, pellach na'u gwatwar, trwy ddynwared eu cerddediad, eu dull wrth siared, a phethau cyffelyb, yn yr hyn y maent yn dra medrus. Sylwir hefyd ar luniau amrywiol lled gywrain o'r eiddynt gwedi eu naddu mewn creigiau, y rhai er bod yn wrthyn, ydynt oruchwylion hynod i genedl o anwariaid eu gwneuthur, y sydd heb fedru llunio aneddau addas i gyfanneddu ynddynt, nag ychwaith yn gwybod am fuddioldeb gwisg i'w cadw rhag noethni ac anwyd.

Mae pob cais hyd yn hyn o wareiddio trigolion Holland newydd gwedi aflwyddo: er eu cymeryd yn blant a'u dysgu yn yr iaith Saesoneg, a dangos pob tynerwch tu ag atynt, y maent pan gyffont gyfle yn ymddiosg o'u gwisgoedd, ac yn dianc at eu cyn-dadau i'r coed. Goddefir hefyd iddynt ddyfod yn finteioedd i'r trefydd a'r sefydlfeydd, lle y dangosir iddynt trwy awdurdod wladol bob hawddgarwch, ond er rhoddi ymborth a'r cyffelyb iddynt, nid oes dim yn tycio i beri iddynt ymwareiddio a dyfod i fwynhau breintiau dinasyddion rhydd.

LLYWODRAETH.] Gwedi tirio o'r rhaglaw Phillip a'r carcharorion oedd i lunio y sefydlfa, trefnwyd i holl arfordir dwyreiniol Holland newydd o'r cwr mwyaf deheuol i'r cwr mwyaf gogleddol a elwir de-

heubarth Cymru newydd, yn ngbyd a'r holl ynysoedd cyfagos fod tan awdurdodaeth lywodraethol y rhaglaw. Yr oeddyd gwedi trefnu cyn iddynt gychwyn o Loegr, i bob rhwysg fod yn gyfleuedig yn y rhaglaw, ac i saith o leiaf o swyddogion milwraidd fod megys yn gynghorwyr iddo, yn gystal a bod yn rheithwyr ar bob achosion dyfarnu.

Nid hir gwedi tirio y buwyd heb ymgyfarfod i weinyddu cyfiawnder. Y gorchwyl cyntaf ydoedd profi tri o'r carcharorion, un am daro milwr a nedda cylchwr, yr hwn a ddyfarnwyd i oddef 150 fflangell. Arall am ladrad a ddëolwyd i ynys fechan gyfagos, i fyw am wythnos ar fara a dwfr. Y trydydd am dwyll a ddyfarnwyd i oddef 50 fflangell, ond ar iddo arddangos edifeirwch, cafodd gan y rhaglaw faddeu ei drosedd iddo. Un gwedi ei farnu i'w grogi, a dderbyniodd faddeuant tra yr oedd y rhâff am ei wddf, ar yr ammodau y byddai iddo rhagllaw fod yn ddihenyddwr cyffredin. Fe groesawodd y cynnyg, ond nid heb ychydig funudau o fwrw'r draul.

Mae y sefydlfa y pryd hwn yn llwyddiannus: y trigolion gwedi treulio blynyddoedd eu carchariad ydynt gwedi ymroddi i drin y tir, ac yn ganlynol yn ymarweddu yn well na'r disgwyliad cyntaf am danynt.

MWNGLODDIAU.] Gan nad yw mynydd-dir y wlad hon gwedi eu holrhain, ni wyddis pa drysorau a all fod ynddynt. Yn 1797 collodd llong o Bengal ar ei glenydd deheuol, ac o ddau-ar-bymtheg o forwyr, tri gwedi 80 niwrnod o daith a gyrhaeddodd y sefydlfa: ar y daith canfuont lethrau ëang o lô, yr hyn a all fod yn llawer mwy gwerthfawr i'r wlad na chloddfa o aur.*

## DOSBARTH II.

*Hanes Holland newydd.*

MORDWYWYR o blith yr Ellmyn yn y flwyddyn 1616, oeddynt y cyntaf a ddarganfu y wlad hon: galwasant y parth y tiriasant ynddo tir *Eendraught*, yn ol enw y llong oedd yn ei cludo: Yn 1618 tiriodd Reachen mewn parth o honi oedd yn fwy deheuol, a galwodd y lle *Diemen*, er mai y penrhyn mwyaf deheuol, a gafodd y cyfryw enw gwedi hyn gan fordwywr o enw Tasman. Yn 1619, rhoddes Jan Van Edels ei enw i barth arall o ddeheubarth Holland newydd, ac yn ganlynol rhoddes De Wits, ac ellmon arall o enw Carpentaria eu henwau i barthau priodol o honi. Ond yr oedd yr holl barthau dwyreiniol hyd yn hyn heb eu holrhain, sef hyd oni ddaeth y morlywydd Cook yn ei fordeithiau diweddar o gylch y ddaear hyd atynt, yr hwn gwedi tirio mewn amrywiol ranau o'r wlad, a'i meddiannodd yn enw ei arglwydd Geo. III, brenin Prydain fawr, ac ar ei ddychweliad i Frydain a ddysgrifiodd y lle yn addas i lunio sefydlfa i alltudo dëoliaid iddi, yn ol y gorchymyn a gawsai gan y llywodraeth o chwilio am le addas i'r cyfryw orchwyl.

Yn 1779, trefnodd seneddwyr Prydain i barthau dwyreiniol y wlad hon lunio sefydlfa, sef annedd i ddrygweithredwyr a ddëolid o'r wlad, ond ni cyflawnwyd y bwriad hyd 1787, pan y gorchymynodd y llywodraeth barotoi i'r anturiaeth y llong ryfel Sirius, a dwy o rai llai, tair i gludo ymborth i barhau dwy flynedd; a chwech ereill i gludo y

* Collins i. 617.

dëoliad, y rhai oeddynt 558 o feibion a 220 o ferched. Y llynges hon yn ymadael â Phrydain, Mai 13, cyrhaeddasant Teneriffe heb unrhyw ddrwg ddigwyddiad, ar y 3 o Mehefin, lle yr arhosasant wythnos gyfan, fal y caffynt ychwaneg o angenrheidiau i'r fordaith beryglus a oedd o'u blaen.

Ar y 10 o Mehefin, gadawsant Teneriffe, a daethant pen wythnos i olwg ynysoedd penrhyn Verd, ond gan fod y gwynt yn wrthwynebus a'r rhaglaw Phillip yn ofni colli amser, ni thiriasant yn un-man, hyd oni ddaethant i Rio Janeiro yn arfordir Brasil. Y tawelwch sydd yn gyffredin yn arfordiroedd Affrica, a barodd iddynt hwylio fal hyn i'r gorllewin, fal y byddai iddynt wrth gyfeirio i'r de yn nglenydd Brasil, gyfarfod a'r trefnidwynt gorllewin, a bu iddynt yn ol eu disgwyliad. Cawsant yno ychwaneg o angheurheidiau i'w cludo yn mlaen, yn nghyd ag amrywiol blanhigion a hadau, a debygid oedd twyaf addas i ffrwythloni yn Holland newydd.

Gwedi ymadael â deheubarth America, cyrhaeddasant benrhyn de Affrica mewn 39 dydd, lle y cawsont ymborth ac anifeiliaid ychwanegol i'w cludo i'w cartref newydd. Ond pan oeddynt o ddeutu 240 milltir i'r dwyrain o'r penrhyn, daeth gwyntoedd gwrthwynebus parhaus i'w cyfarfod, a chan bod un o'r llongau bychain yn hwylio yn fwy cyflym na'r lleill, aeth Phillip iddi, fal yr elai yn mlaen i barotoi lle addas i'r lleill angori ynddo: felly ar yr 8 o Ionawr 1788, cyrhaeddodd Botany Bay. Gwedi cyfarfod yn dangnefeddus a'r trigolion, olrheiniodd y wlad oddiamgylch y borthladd, a gwelai nad oedd y lle i'w dyb ef yn addas i ymsefydlu ynddo: yr oedd y borthladd yn fâs ac yn greiglyd, ac yr oedd y tir oddiamgylch yn isel ac yn gorsog; felly ar i'r llynges yn mhen y deu-ddydd ar eu hol, gyrhaedd y lle, ymroddasant i fyned i Port Jackson, y lle a'u boddiodd yn fawr, gan bod y wlad oddiamgylch yn ffrwythlawn, a'r borthladd yn ddwfn ac yn ddigon ëang i ddiogelu mil o longau ynddo ar unwaith. Ar eu taith yno, cyfarfuont â dwy long o Ffrainc, yr *Astrolabe* a'r *Boussola*, y rhai oeddynt gwedi myned heibio i benrhyn dëau America, ac ar hyd yr arfordir gorllewin hyd Kamschatka, ac oddiyno heibio China hyd Holland newydd, yn eu taith o amgylchu y ddaear.

Gwedi cael y dëoliaid i'r lan, ymroddwyd o lunio anneddau addas yn rhaglawdy, ysbyty, carchardy, lluestai y milwyr, a'r cyffelyb; ac yn mhen ychydig wythnosau, yr oedd pob-peth yn myned rhag-ddynt yn llwyddiannus. Ond yr oedd cryn nifer o'r deoliaid yn gleifion o glwy'r gwaed, o herwydd meithder y daith, felly llanwyd yr ysbyty yn ddiatreg, a chan nad oedd yno lysieu addas i'r cyfryw glwyf, ofnwyd y byddai terfyn arnynt oll, hyd oni chafwyd meddyginiaeth annysgwiliadwy mewn *gum* coch, y sydd yn dra-llawn yn y wlad. Gwedi llunio cell yn llys cyfiawnder, galwodd y rhaglaw gymanfa gyffredinol o'r holl drefedigion, a dywedodd wrth y dëoliaid bod eu dedwyddwch rhagllaw yn ymddibynu yn llwyr ar eu hymddygiad yn unig: os gwnelynt yn dda, y caffent bob tynerwch a chefnogrwydd ganddo; ond os amgen, y deuai drwg diatreg i'w rhan. Crybwyllodd hefyd am y cyfeillgarwch anghyfreithlon rhwng y meibion a'r merched, megys yn ffynonell pob drygioni, ac yn gyffredin yn achlysur o bob annedwyddwch: yna annogodd iddynt ymbriodi, ac ymarweddu fal y dylent, &c. a bu llwyddiant mewn rhan ar ei annogaethau iddynt.

Yn ol hyn, olrheiniwyd y wlad am rai milltiroedd oddiwrth y borth

ladd, a dodwyd enwau i amrywiol drumau mynyddig, gwastadoedd. bryndir a'r cyffelyb; dechreuwyd hefyd lunio planfeydd, a dodwyd sail tref i lawr. Diangodd un o'r deoliaid oedd yn yr anturiaeth i'r coed o achos iddo fod yn euog o ladrad: bu yn mhlith y trigolion dair wythnos, a dychwelodd yn ol gwedi darn newynu, a gwedi ei brofi yn euog o'r lladrad, fe'i crogwyd: yn ol yr hanes a roddes hwn, yr oedd y trigolion yn y radd isaf o dlodi: gwelsai liaws yn marw o newyn, a braidd y cafodd gyfle i ddianc oddiar fintai oedd yn ymddangos o fod yn ymbarotoi i'w losgi yn fyw.

Yr oedd amrywiol farnau ar y dechreu o berthynas i ansawdd y sefydlfa hon; rhai yn dynodi y wlad yn fangre hollawl anaddas i drigolion gwaraidd anneddu ynddi, oherwydd nad ydoedd ond diffaethfäoedd coediog anial; ereill yn honni bod y pellder yn rhy faith i angenrheidiau o Frydain gael eu danfon mewn pryd iddi, &c. Ond mae pob dadwrdd weithiau gwedi dystewi, a llwyddiant y planfeydd. a phob gweithydd ereill yn myned rhagddynt yn llwyddiannus. Yr oedd anhawsderau i'w disgwyl ar y dechreu, oddiwrth sefydlfa a luniad o ddrygweithredwyr caled ac ystyfnig: ac y mae yn rhaid addef y gorfuwyd cospi amryw heb rith o drugaredd, oeddynt yn euog o droseddu y cyfreithiau gwladol. Mae weithiau rai miloedd o ddynion gwynion yn y sefydlfa hon, rhai gwedi gorphen blynyddoedd eu deoliad yn dewis aros ynddi; ereill o amrywiol wledydd Ewrop yn ymddëol yn wirfoddol i fyw mewn annedd dawel sy heb na rhyfel na son am ryfela yn yr holl-wlad: ac y mae rhai dëoliaid o ddynion lied hynaws am drosedd bychan weithiau yn digwyddo cael eu danfon iddi. ac felly trwy fod y goreuon yn dyfod yn fwy lliosog na'r cildynus, mae llwyddiant hyd yn hyn yn dyfod i'r sefydlfa.

# YNYSOEDD MOR MAWR Y DE.

Y Prif ynysoedd y sydd yn Mor mawr y de ydynt y canlynol, sef, Ynysoedd Bhering, Ynysoedd Sandwich, Ynysoedd Marquesas, Ynysoedd Cymdeithasgar, Ynysoedd Cyfeillgar, Ynysoedd y Mordwywyr. Hebrides newydd, Caledonia newydd, Zealand newydd, Papua neu Gini newydd, Ynysoedd Caroline, Prydain ac Ywerddon newydd, yn nghyd ag ynysoedd Solomon, Ynys Van Diemen, &c. y rhai a ddesgrifir yn ganlynol.

## YNYSOEDD BHERING.

Mae yr ynysoedd lliosog hyn yn gorwedd rhwng Kamschatka a gogledd-barth America, rhai o honynt yn gyfanneddol gan drigolion am y tymhor haf yn unig, ereill yn cael eu cyfanneddu yn wastad gan ychydig o drigolion; a'r lleill, sef y rhai mwyaf deheuol, yn anneddadwy i deuluoedd lliosog breswylio ynddynt yn wastadol.

Moesau ac arferion.] Y trigolion ydynt fyrion o gorffolaeth, ond yn gryfion ac yn fywiog. Maent yn gyffredin yn heddychol a'u gilydd, heb fod y naill na'r llall yn arddangos unrhyw eiddigedd am uwchafiaeth, ac felly nid oes na phen na blaenor arnynt; na deddfau na chosbedigaethau yn eu plith. Maent yn byw yn nghyd yn amrywiol o finteioedd teuluol, y rhai ydynt yn cynnorthwyo y naill y

yn ol y byddo eu hamgylchiadau priodol yn gofyn. Wrth hyn mae trigolion pob ynys yn eu cyfrif eu hunain fal brodyr gwedi deillio o'r un cyff, ac felly y naill fal y llall yn honni hawl gyfartal i wlad eu genedigaeth. Pan y byddo trigolion y naill ynys yn myned i ymweled a'r llall, y maent yn cael eu derbyn gyd â dawns a chaniadau, ac arwyddion ereill o gyfeillgarwch: yna mae gwleddoedd cyffredinol tra ystod yr ymweliad, ac ar eu mynediad oddiyno, mae yr un ddefod o ddawns a cherddoriaeth yn cael ei harfer hyd onid elo y clud-lestri bychain o'u clyw. Nid oes unrhyw drefnidiaeth yn cael ei gwneyd gan y trigolion hyn, oddigerth ychydig mewn pysgod, a llafur eu helwriaeth, ar yr hyn y mae eu bywoliaeth yn ymddibynu yn llwyr.

## YNYSOEDD SANDWICH.

YNYSOEDD Sandwich, yn 11 o rifedi, ydynt yn gorwedd rhwng lledred 18° 54' a 22° 15'G. a rhwng hydred 150° 54' a 160° 24'G. Gelwir hwynt gan y trigolion wrth yr enwau canlynol, Owhyhee,* Mowee, Ranai, Morotoi, Tahoorowa, Woakoo, Atooi, Necheeheow, Oreehoua, Moroctinne, a Tahoora, ac y maent oll yn gyfanneddol oddigerth y ddwy olaf. Ychydig o wahaniaeth y sydd rhwng hinsoddau yr ynysoedd hyn ag hinsoddau yr India orllewin, ond nad ydyw y tymhestloedd trymion y sydd yn ffangell flin weithiau i'r ynysoedd hyny, yn digwyddo yn y rhai hyn. Mae conyna sygr yn tyfu yma i faintioli mawr; ac y mae yma liaws o goed y sydd yn rhoddi ffrwyth tra thebyg ei flâs i fara. Ychydig o rywogaethau o greaduriaid a welwyd ynddynt: y cyfan meddai y trigolion ydynt môch, cŵn, a llygod; ychydig hefyd yw amrywiaeth y rhyw asgellog, ond nid mwy na'r lleill mewn helaethrwydd o rifedi.

MOESAU AC ARFERION] Mae agweddau cyffredinol y trigolion hyn yn eu dynodi fal yn un genedl ag amryw o ynysoedd ereill Mor mawr y de, sef, bod yr iaith o gyffelyb sain, a bod yr arferion gwladol yn y naill yn dra thebyg i'r cyfryw yn y llall. Y maent yn gyffredin o faint canolig, yn hardd o gorffolaeth, yn wineu-liw o bryd a gwedd, ac yn fywiog o dymherau. Eu haneddau ydynt ddystadl yr olwg arnynt, gwedi eu llunio yn anghelfydd o goed a cheryg: ond ogofeydd lliosog y mynydd-dir ydynt y prif anneddau, yn enwedig i'w diogelu rhag ymgyrch y gelyn. Pysgod a ffrwythydd coed ydynt brif ymborth y werin, ond y mae y rhai y sydd yn dychymygu eu bod o frî gwell na'u cymydogion, yn cael y cŵn a'r môch yn seigiau ychwanegol. Maent yn codi gyd a'r haul, ac y maent er profi budd awel hytryd yr hwyr yn aros o ddeutu awr gwedi ei fachludiad cyn myned i huno.

## YNYSOEDD MARQUESAS.

DARGANFUWYD yr ynysoedd hyn gan Mendana, yr hwn a'u cyfenwodd felly o barch i ardalydd Caniente, llywydd Peru. Y fwyaf adnabyddus i Ewropiaid o honynt yw Ohittahoo, yr hon sydd ychydig i'r de o'r fwyaf a elwir Ohevahoa.

Ymwelwyd a'r ynysoedd hyn yn 1774 gan y morlywydd Cook, ac

* Yn yr ynys hon mewn hicre a'r trigolion, y collodd y morlywydd enwog Cook ei fywyd, Chwefror 1779. Gwel derfyn hanes Ynysoedd Mor mawr y de.

yn 1789 gan y mordwywr ffrengig Marchand, ond yr hanes helaethaf am danynt a ysgrifenwyd gan y morlywydd Wilson, yr hwn yn niwedd y ganrif olaf a ddanfonwyd gan y gymdeithas genhadol i gludo gweinidogion yr efengyl i ynysoedd y deheu-for.

Mae y trigolion hyn yn hardd o gorffolaeth, ac oni byddai yr arferiad dra-hyll o ddyfritho eu cyrff â lliw tywyll, byddent yn lled deg o bryd. Mae rhai o'r merched gan wyned ag Ewropiaid, gan nad arferynt y cyfryw ddefod. Y gwisgoedd ydynt fath o fantell rydd, tebyg i len gwely, yr hon a dröant yn amryw blygion am danynt.

Mae yn mhob annedd yn yr ynysoedd hyn dduwiau teuluol, lled debyg ond nid yn llawn mor anghelfydd a'r cyfryw yn Lapland: a'r rhai hyn yr ymofynant, cyn myned i unrhyw anturiaeth, yn gystal a a chyn ufuddhau mewn achosion pwysig i orchymyn eu penaeth gwladol. Maent yn cerfio un o'r lluniau hyn ar flaen eu cwch unpren, gan ei alw ar enw yr eilun, yr hwn a ddychymygont sydd yn dyfod a'r pysgod at eu bachau, ac yn eu cadw rhag i'r tonnau eu dadymchwel.

Y creaduriaid yn yr ynysoedd hyn ydynt gyffelyb i'r rhai sydd yn ynysoedd Sandwich. Yr ynys fwyaf o ynysoedd Marquesas a elwir *Noabeva.*

## YR YNYSOEDD CYMDEITHASGAR.

MAE yr ynysoedd hyn yn 60 neu 70 o rifedi, eu canol yn gorwedd yn lledred 17° D. a hydred 150°G. Y fwyaf o honynt a elwir Otaheite, yr hon sydd o ddeutu 120 milltir o amgylchiad. Dau fryn, un yn uwch na'r llall sydd megys yn llunio yr ynys hon, a chyfyngdir o ddeutu 3 milltir o led sydd yn eu cydio yn nghyd. Mae y trigolion yn anneddu yn min y mor, yr hyn sy gyffredin yn ynysoedd Mor mawr y de, gan mai pysgod ydynt y prif ymborth.

MOESAU AC ARFERION.] Trigolion Otaheite ydynt gryfion, bywiog, ac o liw yn wineu-lwyd, eu gwallt a'u llygaid ydynt dduon, trwynau crwm, geneuau rhwth, a'u dannedd ydynt wynion a hardd. Mae y meibion yn eillio rhai cyrau o'u beirf, weithiau y wefus uchaf gan adael yr isaf, ac ereill yn arfer dull gwrthwyneb: mae y rhai a elwir yn fawrion o honynt yn gadael i'w gwinedd dyfu yn dra hirion i'r dyben o'u dynodi oddiwrth y rhai y sydd yn gorfod gweithio. Y merched ydynt yn oleuach o liw yn gyffredinol na'r meibion.

Mae pob graddau yn dyfritho eu cyrff yn rhesi llydain, yn enwedig o'r tu cefn o'r ysgwyddau i grothau'r goes. Y dull y gwnelynt hyn yw pwyo math o grib yn llawn pigau blaenllym ar hyd y cefn, a dodi yn yr archollion fath o lýd a wnelir o hiddigl ac olew, yr hwn sydd a'i ol yn annileadwy. Ni wneir y ddefod hon hyd oni chyrhaeddont tu a 12 mlwydd oed. Dywed Syr Joseph Banks, yr hwn a welodd y ddefod yn cael ei gwneuthur ar eneth 13 oed, fod cant o leiaf o archollion yn cael eu gwneyd arni bob munud. Fe oddefodd yr eneth yr artaith am o ddeutu chwarter awr yn dra dewr, ond yna daeth y gofid oddiwrth y fath gynifer o bigiadau yn anoddefol, fal y torodd i wylo yn resynus, gan ddymuno ar y gweithredydd ymatal. Ef, pa fodd bynag ni wrandawai, a phan ddechreuodd ymdrechu, ymaflodd dwy wraig ynddi, y rhai oeddynt weithiau yn ei dyddanu, a thro arall yn ei dwrdio, a phan elai yn dra afreolus, byddai bonclust yn ddiatreg yn cael ei roddi. O'r diwedd gwedi pedair awr o ddyoddef, cafodd afrydd.

Eu hanneddau ydynt ar ddull pedrogl hir, y tô sydd o goed a thywyrch, a cholofnau sydd yn ei gynnal, ac y maent mor isel, nad ellir myned iddynt heb wyro: Ar lawr yn nghanol y bwth mae gwr a gwraig y tŷ yn ymorphwys yn oriau y nos, ac mewn cylch o'u deutu, mae y rhai ereill a fyddo yn briod; yna y merched ieuanc, ac mewn cylch y tu allan i hyny mae y meibion ieuanc, ac yn nesaf allan mae y gwasanaethyddion. Nid ydynt yn cyfanneddu y bythau hyn onid yn y nos yn unig: mae hinsoddau y wlad yn ddigon tymherus i hebyll wneyd y y tro i drin eu bwyd ac i wneyd eu goruchwylion ereill trwy ystod y flwyddyn.

Llywodraeth.] Mae dau beniaeth yn llywodraethu Otaheite, ac y mae oddi danynt liaws o is-bennaethiaid, sef un ar bob cantred neu ardal o'r ynys. Y werin ydynt yn trin y tir, a chaethion a ddygont o'r ynysoedd cyfagos sydd yn gwneyd pob trym-waith. Mae plentyn yn y wlad hon yn dyfod i hawl o freintiau ei dad, mor fuan ag y ganer ef, fellypan gaffo brenin fab, mae ei frenhiniaeth yn ymadaw oddiwrtho, ac nid yw mwyach onid rhaglaw hyd oni ddelo y mab i'w oed, yna mae yn cael ei ddiosg o bob arwyddion breninol yn llwyr, ac yn cael ei gyfrif fal gwr cyffredin.

Crefydd.] Er bod gan yr Otaheitiaid liaws o dduwiau teuluol, eto y maent yn cymeryd arnynt addef un Bod mawr yn greawdr y bydoedd, yr hwn yn y diwedd a dderbyn ato holl ddynol ryw, gan eu gosod yn ol graddau haeddiant eu buchedd yn y byd, yn y nefolion leoedd. Maent hefyd yn aberthu dynion i'w duwiau, y rhai meddynt wrth y morlywydd Cook, ydynt ddrygweithredwyr gwedi eu dyfarnu am eu trosedd i'w llabyddio hyd angau, ac yna i offrwm eu cyrff i'w duwiau. Y canlynol sy grynodeb fer o hanes un o'r defodau hyn a wnaed yn ngwydd Cook pan oedd yn un o'i fordeithiau yn yr ynys hon.

Y morlywydd Cook ac ereill yn nesu at y *morai* neu deml, dymunwyd arnynt ddiosg eu capeni, yna aethont i mewn, lle y gwelsont bedwar o offeiriaid, a'r rhai oedd yn gweinyddu iddynt yn ymbarotoi i'r ddefod. Yr oedd y corff mewn cwch ar lan y môr ar gyfer *y morai.* Gwedi i un o weinyddion yr offeiriaid ddodi brigin coedan a thusw o blyf o flaen y brenin, gwnaeth un o'r offeiriaid araith o ddull gweddi, a gwedi darfod, aethont oll i fin y dwfr, lle wrth gludo y corff i dir, y gwnaeth arall o'r offeiriaid araith gyffelyb. Yna torwyd rhai cudunau o wallt y corff, a thynwyd ymaith y llygad chwith, a dodwyd y corff ar lawr o dan goedan, a chyd-weddiodd y pedwar offeiriaid am yspaid amser cyn ei symud i'r *morai.*

Gwedi cyrhaedd y deml, curwyd tabyrddau, tra y bu dau yn tori bedd o ddeutu dwy droedfedd o ddwfn, ac wedi un araith ychwanegol, taflwyd ef i mewn a bwriwyd pridd a cheryg arno. Yna aberthwyd cî, a thrachefn mochyn, yr hyn yn cael ei adnewyddu dranoeth ar gwn a moch ereill yn yr un fangre a orphenodd y ddefod.

Ynys Ulitea.] Hon yw y nesaf mewn maint o'r Ynysoedd Cymdeithasgar i Otaheite: mae yn hon liaws o drigolion, ac y mae y defodau gwladol yn lled gyffelyb i'r dysgrifiad a roddwyd am yr ynys hono.

Ynys Baso.] Y morlywyddion Cook o La Peyrouse oeddynt y cyntaf a dirlasant yn yr ynys hon, ond tebygid y gwelwyd hi gan Davis yn 1688. Mae dull yr ynys yn driongl, yr ystlys hwyaf yn 25 milltir o hyd. Tebygid wrth agwedd ei gwyneb garw, bod moelydd

tanllyd arni gynt. Mae yn hon liaws o drigolion hardd o gorffolaeth, ond yn y fath radd o anwareidd-dra a'u bod yn noethlymuniaid trwy ystod eu hoes. Mae gan y rhai hyn fath o demlau, ac ynddynt ddelwau tra anghelfydd o wneuthuriad; ond ni wyddis a oes ganddynt unrhyw amgyffred am Fod ysprydol.

Mae ganddynt yn gyffredin yn y claddfeydd, gerfyll aruthr megys *Sphinx* yr Aiphtiaid, y rhai ydynt luniau aruthr o geryg gwedi eu dodi y naill ar y llall, a'u naddu yn lled gywraint ar lun dynion: mae rhai o honynt yn bymtheg troedfedd o uchder.

OHETEROA ] Mae yr ynys hon yn gorwedd yn lledred 22° 27' yn ddeheuol, ac yn hydred 150° 47' yn orllewinol, ac yn llawn 13 milltir o amgylchiad. Mae ei holl wyneb yn wastad ac yn isel; ac felly nid ydyw mor ffrwythlon a rhai o'r ynysoedd cymydogaethol, ac nid yw ychwaith yn llawn mor boblog. Y trigolion ydynt gryfion, ac yn fedrus i drin y bwa a'r waywffon, ond y maent yn fwy tywyll o liw na'r Otaheitiaid.

## YNYSOEDD CYFEILLGAR.*

Y Morlywydd Cook yn y flwyddyn 1773, a roddes yr enw cyfeillgar i'r ynysoedd hyn, oherwydd y duedd addfwyn a charedig oedd yn ymddangos o fod rhwng y trigolion a'u gilydd; a rhyngddynt a'r dyeithraid oedd yn ymweled â hwynt. Ellmon enwog o enw Abel Jansen Tasman yn 1643, oedd y cyntaf a ddarganfu yr ynysoedd hyn, ac a roddes enwau i'r tair fwyaf o honynt, sef Amsterdam, Rotterdam, a Middleburg. Y flaenaf yw y fwyaf: mae hon yn 21 milltir o ddwyrain i orllewin o hyd, ac o ddeutu 13 o ogledd i dde o led. Olrheiniodd Cook yr holl ynysoedd hyn, a chafodd hwynt yn ychwaneg na thriugain o rifedi. Mae yr anwariaid y sydd yn eu preswylio yn trin y tir yn weddol o dda, ac y maent yn meithryn coed a phlanhigion amrywiol a adawyd iddynt gan amryw fordwywyr a diriodd o dro i dro ynddynt.

Y prif ynysoedd yn perthyn i'r rhai hyn, yw Tongataboo neu Amsterdam, Eaoowe neu Middleburg, Anamooka, neu Rotterdam, Hapace a Lefooga. Mae y flaenaf yn gorwedd yn lledred 21° 9' yn ddeheuol, ac yn hydred 170° 46' yn orllewinol. Mae yn hanes taith gweinidogion hedd i'r ynysoedd hyn yn 1797, ddarluniad hardd o Tongataboo, yn ei dynodi yn wlad wastad ffrwythlawn; a llafur yr anwariaid ar ei meusydd, ffyrdd, a'r cyffelyb, yn rhagori ar y cyfryw mewn rhai gwledydd yr honna eu trigolion eu bod yn waraidd. Eaoowe sydd yn fwy anwastad na'r hon a grybwyllwyd, ond yn llawn mor ffrwythlon o goed a llysieu priodol i'r ynysoedd hyn. Lled

---

* Cyfrifir yr ynysoedd hyn megys yn derfyn deheuol y ddosbarth a elwir rhai Daearyddion wrth yr enw POLYNESIA, yr hon a gynnwys yr ynysoedd canlynol.

1. Ynysoedd Pelew.
2. Ynysoedd Lladron, y rhai ydynt restr mynyddig yn ymgyfeirio i'r gogledd.
3. Ynysoedd Caroline, rhestr hir yn ymgyfeirio o ddwyrain i orllewin.
4. Ynysoedd Sandwich.
5. Ynysoedd Marquesas.
6. Ynysoedd Cymdeithasgar.
7. Ynysoedd Cyfeillgar.

debyg yw arferion gwladol y trigolion hyn i'r hanes a roddwyd eisus am drigolion ereill ynysoedd Mor mawr y de.

## YNYSOEDD Y MORDWYWYR.

DARGANFUWYD yr ynysoedd hyn gan M. de Bougainville, ac olrheiniwyd hwynt yn fwy manwl gan Peyrouse yn 1787. Y maent yn ddeg o rifedi, a gelwir hwynt gan y trigolion wrth yr enwau canlynol. Opoun, Leone, Fanfoue, Maouna, Oyolava, Calinasse, Pola, Shika, Ossamo, ac Ouera: Opoun, y fwyaf deheuol yn gystal a'r fwyaf dwyreiniol o'r ynysoedd hyn, sydd yn gorwedd yn lledred 14° 7' yn ddeheuol a hydred 169° 7' yn orllewinol. Danfonodd la Peyrouse, llywydd y llongau Ffrengig Astrolabe a Boussola, gwch a de Langle llywydd yr Astrolabe ac un ar ddeg o ddynion i'r lan i Maouna, a lladdwyd hwynt oll mewn bicre a'r trigolion.

Oyolava sydd ynys brydferth a ffwythlon, ac yn llawn gymmaint ag Otaheite: ychydig gyd ag ugain milltir yw lled y cul-for sydd yn ei gwahanu oddiwrth Maouna. Mae trigolion yr ynys hon yn rhagori ar y trigolion ereill mewn maintioli, ac hefyd mewn gwareidd-dra: golygid un o'u pen'refydd yn annedd hoblog, yn nghanol rhestr o berlleni a maesydd ffrwythlon, a'r borthladd gyfagos iddi yn llawn o gychod un-pren.

Yr ynysoedd ereill ydynt liosog eu trigolion, y rhai gyd a'r lleill a grybwyllwyd ydynt gan mwyaf yn byw ar bysgod a ffrwythydd. Mae anneddau yr holl drigolion ar fin y mor, a thrwy eu bod bob amser yn tramwy o'r naill bentref i'r llall yn eu cychod, y rhoddwyd yr enw mordwywyr i'r ynysoedd. Mae hinsoddau tymherus yr ynysoedd hyn yn eu gwneyd yn dra hyfryd, ac y mae y trigolion o herwydd hyny yn cymeryd y fantais o fod yn noethion: maent yn dal, ac yn hardd o gorffolaeth, ond yn dra anifeilaidd gan duedd anweddaidd ac anllad.

Ynysoedd Fejee, yn sefyll i'r de orllewin o'r ynysoedd hyn ydynt ffrwythlawn a phoblog, ac y maent yn ol yr hanes a ddyry y cenhadon a fu ynddynt, yn perthyn i Tongataboo.

## HEBRIDES NEWYDD.

YR enwad hwn a roddwyd gan y mor-llywydd Cook i liaws o ynysoedd a ddarganfuwyd mewn rhan yn 1606 gan Quiros, mor-lywydd o Yspaen yr hwn a alwodd y parth gogledd o honynt wrth yr enw *Terra del Espiritu Santo.* O'r pryd hwnw hyd fordaith Cook yn yr Endeavour yn y flwyddyn 1769, dychymgywyd mai rhan o gyfandir deheuol anferth oedd y tir hwn, a elwid yn gyffredinol *Terra Australis Incognita.* Ond gwedi i Cook hwylio oddiamgylch Zealand newydd, ac ar hyd lenydd Holland newydd, gwrthbrofwyd y cyfryw ddychymyg yn llwyr. Yn ei ail fordaith yn y Resolution, ymroddodd i olrhain y parthau hyn yn fanwl, ac felly yn 1774 gyd a gwirio sefyllfa a maintioli yr ynysoedd hyn, darganfu amryw ereill yn y lliaws na chrybwyllwyd am danynt gan unrhyw fordwywr o'r blaen.

Ynysoedd Hebrides newydd ydynt yn gorwedd rhwng lledred 14° 29' a 20° 4' yn ddeheuol, a rhwng hydred 166° 41' a 170° 21' yn ddwyreiniol. Maent yn cynnwys yr ynysoedd canlynol, sef rhai ag

enwau o roddiad Ewropiaid arnynt, a'r lleill yn enwau oedd arferedig gan y trigolion, sef *Terra del Espiritu Santo*, Mallicollo, St. Bartholomew, Lepers, Aurora, Sulgwyn, Ambrym, Immer, Appee, Tribryn Sandwich, Montague, Hinchinbrook, Shepherd, Erromanga, Irronnau, Annatom, a Tanna.

Mae trigolion yr ynysoedd hyn yn fwy tebyg i'r Hollandiaid newydd nag i unrhyw ereill o drigolion ynysoedd Mor mawr y de, sef yn dywyll o liw, ac yn gyffredin yn anolygus o lûn, yn enwedig trigolion yr ynys fwyaf gogleddol a elwir Mallicollo. Mae yn Tanna foel danllyd, ac y mae ei ffynonydd poethion yn dra lliosog.

## CALEDONIA NEWYDD.

YCHYDIG i'r de orllewin o Hebrides newydd, mae sefyllfa yr ynys hon. Darganfuwyd hi yn 1774 gan Cook, yr hwn a farnai wrth y sylw a wnaeth arni ei bod o ddeutu 260 milltir o hyd, ac o 20 i 30 o led. Y trigolion ydynt gryfion a chorfforol, ac yn wineu-dywyll o liw. Ni wyddis nemawr am barthau deheuol yr ynys hon, ond olrheiniodd Cook y parthau ereill yn ofalus. Gelwir y rhan ogleddol o honi wrth yr enw *Balade*. Yr enw *Tee*, yr hwn yn yr ynysoedd Cymdeithasgar sydd yn arwyddo angel gwarcheidiol, yw yr enw yma i beniaeth neu flaenor. Mae merched yr ynys hon yn arddangos mwy o ddiweirdeb na'u cymydogion a fu dan sylw. Yr anneddau ar lun cychod gwenyn ydynt led drefnus, ond yn wastad yn llawn o fwg: ac y mae rhai o ystlysbyst y drysau a cherfwaith lled gywrain arnynt. Maent yn gwisgo llen a wnelynt o risg coed am danynt, ac yn byw ar bysgod a ffrwythydd coed.

## ZEALAND NEWYDD.

Y Cyntaf a ganfu y wlad hon oedd ellmon o enw Tasman, yr hwn a roddes yr enw *Staten land* iddi. Oedodd am rai dyddiau ddanfon ei wyr i'r lan, rhag y digwyddai iddynt niwed, ac yn y cyfamser anturiodd amryw o'r trigolion yn eu cychod i'r long, a chan iddynt ymddangos yn fwy hynaws na'r disgwyliad am danynt, danfonwyd saith dyn yn ddiarfog i'r lan i geisio dwfr, ac ni chlywyd mwyach sôn am danynt.

Olrheiniodd ein morlywydd enwog Cook yn 1770 y wlad hon o'i hamgylch, a darganfu gyfyngfor y sydd weithiau ar ei enw yn dosbarthu y wlad yn ddwy ran led gyfartal. Galwai y trigolion y rhan ddeheuol wrth yr enw *Tavia Poenamoo*, yr hon sydd o ddeutu 600 milltir o hyd a, 150 o led; a galwent y rhan ogleddol wrth yr enw *Eaheianowmawe*.

Mae yr ynysoedd hyn yn ymddangos o fod yn dra ffrwythlon, y coed o dŵf mawr a phob llysieu ynddynt yn hardd yr olwg arnynt byd yn nod ar ganol gauaf. Barnai Syr Joseph Banks a Dr. Solander y tyfai pob planhigion Ewropaidd yn dorëithiol yn Zealand newydd, oherwydd bod ei hinsoddau haf a gauaf yn dra thymherus. Mae hon yn gorwedd dan yr un hingylch yn yr Arddrych ddeheuol ag yw Ffrainc yn yr Arddrych ogleddol.

MOESAU AC ARFERION.] Mae y trigolion hyn yn gryfion, yn dál o

gorffolaeth, ac yn felynion o liw: maent yn arfer dyfritho eu cyrff â fliwiau, ac y mae y prif deuluoedd o honynt yn archolli eu hwynebau a rhanau ereill o'u cyrff, y rhai ydynt yn cael eu lliosogi wrth fal yr heneiddiont, hyd onid ydyw yr olwg arnynt o'r diwedd yn ddychrynllyd o druenus. Cyn myned allan i frwydr, mae y ddwy-blaid yn ymgyfarfod yn eu mangreoedd priodol i gyflawni y ddefod a alwent y ddawns filwraidd, yn yr hon y canfyddir cantoedd yn cyd-ddechreu yr arferiad ddychrynllyd, trwy wneyd oernadau dolefus, estyn eu tafod allan, torwynu eu llygaid, ac ystymiau echrydus ereill Gwedi y ddawns y maent yn cyd ganu cân angau, gan guro eu saethau yn eu hestylch, ac ymystumio hyd oni byddo eu hawydd gynddeiriog yn eu barddangos fal cynifer o ellyllon: yna elynt at eu gilydd, a dechreuir ar y gorchwyl o gigyddio, hyd oni chyhoedder un o'r ddwy-blaid yn drechaf. Gwedi hyn hydd golygfa arswydus, anhawdd i ddynion gwaraidd amgyffred am dani, sef y fintai oruchafiaethus fal cwn gwaedlyd yn hytrach na dynion, yn cludo cyrff y meirwon gelynol a'r archolledig i wledd-le gyhoedd, ac yno gwedi gwahodd y gwragedd a'r plant, cyd rwygant a'u dannedd, gyrff eu cyd-genedl, a rhai o honynt ac arwyddion bywyd ynddynt, ac ni therfyna y wledd hyd oni ddiwaller eu gwanc ddieflig yn llwyr!

Maent yn claddu eu meirwon yn y lle mwyaf dirgel a gaffont, ac ni adawant unrhyw arwydd o fod yno gladdfa. Y grêd gyffredinol yw, bod calon y marw yn ymddëol oddiwrtho i'r uchelder at ryw yspryd mawr, y sydd yn gor-lywodraethu y byd. Ni chanfyddwyd unrhyw leoedd addoliad yn yr holl wlad, nag ychwaith unrhyw ddefodau yn peri y duedd leiaf o fod ganddynt unrhyw amgyffred am na chrefydd na dynoliaeth.

Y dull o gadw amser yn eu plith ydyw cyfrif cylchdröad y lleuad, hyd oni ddelo yn gant, yr hyn a alwent *Ta-iee Etow*, hyny yw cant lleuad, ac felly y maent yn cyfrif eu hoes, a phethau ereill a berthyn i gofnodau hanesyddiaeth.

## PAPUA, NEU GUNI NEWYDD.

DYWEDIR i'r wlad hon gael ei darganfod gan Yspaeniad o enw Saavedra yn 1528, yr hwn oedd un o swyddogion Cortes, ac y ddanfonwyd ganddo i olrhain ynysoedd y pêr-lysieu. Olrheiniwyd hi yn ganlynol gan Yspaeniaid ereill; ond ni wybuwyd am y cyfyngfor y sydd yn ei dosbarthu oddiwrth Holland newydd hyd oni olrheiniwyd hi gan Cook. Mae ardaloedd eang o'r wlad hon yn llwyr anhysbys i Ewropiaid hyd heddyw: dywedir ei bod o'r penrhyn gwyn yn y gogledd orllewin i benrhyn Rodney yn y de ddwyrain yn 1,200 milltir o hyd, a bod ei lled cyffredinol yn llawn 300, ac felly yn fwy o faintioli na Borneo, yr hon gynt a gyfrifid yn ynys fwyaf ar wyneb daear.

Mae agwedd trigolion yr ynys hon yn dra anolygus: y dynion ydynt gryfion o gyrff, eu crwyn yn ddysglaer-ddu, yn arw, ac yn llawn creithiau hyllion; eu llygaid ydynt fawr, eu trwynau yn grwm, a'u safnau anferth ydynt wefiog ac yn estyn agos o'r naill glust i'r llall; eu gwallt sy wlanog, ac yn gyffredin yn naill a'i yn ddysglaer-ddu neu yn fflamgoch. Mae rhai yn dodi yn eu gwallt blyf yr aderyn a elwir aderyn Paradwys, ereill er ychwanegu at eu gwrthuni ydynt yn llodi modrwyau, darnau esgyrn, neu gregin trwy fadruddyn y ddwyffroen a phethau cyffelyb. Y merched ydynt ychydig mwy tirion yr

olwg arnynt, gan nad ydynt yn eu dyfrithio eu hunain i'r un graddau o wrthuni a'r meibion.

Ychydig a wyddis am grefydd y trigolion hyn, oddigerth eu bod yn eulun-addolwyr: mae ganddynt angladd-leoedd ëang, a math o offeiriaid sydd yn gweinyddu ynddynt pan y byddo unrhyw yn cael ei gladdu. Y maent yn trefnidio a'r Chineaid, ac yn danfon iddynt adar, cregin-grainc, gwefr, ac weithiau caethion yn gyfnewid am arfau, dodrefn a'r cyffelyb.

Mae rhai o'r mân ynysoedd cyfagos yn fwy adnabyddus na chyfandir Papua. Yn y parth gogledd orllewin, mae ynysoedd Waijoo a Salwatti, y rhai ydynt hynod am eu ffrwythlondeb; ac felly yn nes i'r de, mae ynysoedd Arroo, a Timorlaut. Honna rhai bod Waijoo yn cynnwys 100,000 o eneidiau, a bod Salwatti yn cael ei llywodraethu gan beniaeth o enw Rajah, a bob peth trefn ar ei goruchwylion gwladol. Timorlaut sy hefyd yn boblog ac yn ymddangos o'r môr yn ffrwythlon, ond ychydig a wyddis am ei hansawdd yn gyffredinol.

Yn ynysoedd Arroo, y rhai ydynt bump neu chwech o rifedi, mae trigfa gyffredinol aderyn Paradwys, yr hwn gan harddwch ei blyf, a gyfrifir yn brydferthaf o'r holl ryw asgellog. Arferynt saethau pûl i'w ladd rhag niweidio ei blyf. yna gwedi tynu y coluddion, y maent yn eu sychu, ac yn eu danfon i China a lleoedd ereill yn gyfnewid am ddaoedd trefnidiol.

Ar du gogledd Papua mae ynysoedd Mysori a Jobi, y rhai ni wydd nemawr am danynt, oddigerth yr hanes am eu ffrwythlondeb a gasglai y mordwywyr wrth sylwi arnynt o'r môr.

## PRYDAIN AC YWERDDON NEWYDD, YN NGHYD AG YNYSOEDD SOLOMON.

Y Cyntaf a olrheiniodd Prydain newydd oedd Dampier, yr hwn a roddes yr enw arni, ag hefyd ei enw ei hun i'r cyfyngfor sydd yn gwahanu yr ynys oddiwrth Papua. Yn 1767 aeth y morlywydd Carteret trwy y cyfyngfor sydd rhwng Prydain newydd ac Ywerddon newydd, yr hon sydd ynys hir a chul, yn ymgyfeirio o ogledd orllewin i dde ddwyrain; ac ni wyddis eto nad yw Prydain newydd yn ddwy neu ychwaneg o ynysoedd. Tiriodd Dampier yn 1700 mewn porthladd o Brydain newydd a alwodd porthladd Montague, a chanfu y gwastadedd yn llawn o ber-gnau India, ginger, ac amrywiol ffrwythydd; ac yr oedd y môr a'r afonydd yn heigio digonedd o bysgod Mae rhai moelydd tanllyd yn y wlad hon.

Trigolion.] Dywed Carteret bod trigolion yr ynysoedd hyn yn dra sarug, ac yn elynol i'w gilydd, a bod blaenau eu gwaywffyn o geryg tân llymion. Yr oedd rhesi gwynion yn groes ymgroes ar hyd eu hwynebau, a llwch o'r un-lliw yn dyfritho eu pen. Y maent yn dduon, ac y mae eu gwallt yn wlanog, ond nid ydynt mor wefliog a'r negroaid. Yr oedd yn Ywerddon newydd gychod un-pren 90 troedfedd o hyd, ac yr oeddynt yn eu hwylio yn fedrus. Bu Bougainville yn yr ynysoedd hyn, a darganfu rai planhigion, adar, a'r cyffelyb na wyddid am danynt o'r blaen.

Mae ynysoedd Solomon yn rhestr lliosog yn cyrhaedd o ynys Anson, yr hon a elwir Bouka gan Bougainville yn y gogledd orllewin, i ynys elwir Egmont gan Carteret yn y de ddwyrain. Mae rhai o'r ynys-

oedd canol yn lled fawrion, yn enwedig mewn hyd. Os y rhai hyn yw ynysoedd Solomon yr Yspaeniaid, rhaid bod ynddynt rai cloddfeydd o aur, gan y gwelodd yr Yspaeniaid ynddynt rai cadwynau anghelfydd o'r defnydd hwnw. Galwai Bougainville yr ynysoedd hyn yn ol yr enw tir Arsacides.

## YNYS VAN DIEMEN.

Y Morlywydd Tasman a roddes yr enw Tir Van Diemen i'r ynys hon, o barch i lywydd oedd y pryd hwnw yn rheoli ar y rhan o India a berthynai i'r Ellmyn. Ond ni wyddid hyd yn ddiweddar nad oedd y wlad hon yn nglyn wrth Holland newydd. Yr ydys weithian yn gwybod mai ynys ydyw o ddeutu 160 milltir o hyd, 80 o led, a bod cytyngfor yn llawn o ynysoedd mân anial a elwir Bass, yr hwn sy 90 milltir ar ei draws yn ei gwahanu oddiwrth y lan. Tiriodd Cook yn yr ynys hon yn ei fordaith ddiweddaf, fal y cafai ddwfr a glaswellt i'r anifeiliaid oedd ganddo yn ei long. Cyfarfu â rhai o'r trigolion, y rhai oeddynt yn gyflawn noethion, ac mor dduon a Negroaid Affrica, ond yn fwy hardd o gorffolaeth. Yr oedd y rhai hyn fel anwariaid pob gwledydd poethion yn ymiro â brasder, ac â lliwiau tryfrith amrywiol.

Mae gwyneb y wlad hon yn lled wastad, ac yn uchel: tebygid wrth daldra a lliosgrwydd ei choed, ei bod yn wlad ffrwythlon. Ni chanfuwyd unrhyw anifeiliaid ynddi onid yr Opossum a'r Kangaroo, ac hefyd yr amrywiol fath o adar y sydd yn Holland newydd.

## YNYSOEDD CAROLINE.

YNYSOEDD Caroline ydynt y rhestr fwyaf lliosog o unrhyw yn Ynysoedd Mor mawr y de. Yr Yspaeniaid yn 1686 a'u darganfu gyntaf, ac a roddes yr enw arnynt o barch i'w brenin Charles II. Y maent o ddeutu deg ar hugain o rifedi, ac yn dra phoblog oll oddigerth tair. Y mae y trigolion yn dra thebyg mewn agwedd a moesau i drigolion yr ynysoedd cytagos a fu eisus dan sylw.

Nid oes yn yr ynysoedd hyn na themlau nag eilunod, nag un math o ymgynhulliad gan y trigolion yn arwyddo bod ganddynt unrhyw amgyffred am grefydd. Bwriant eu meirw yn gyffredin i'r mor, ond weithiau hyddant yn eu claddu ac yn dodi carnedd arnynt.

Mae peniaeth ar bob ynys, y rhai ydynt yn cael eu dewis gan beniaeth y brif ynys Hogolen: yr oedd gan hwn pan diriodd Ewropiaid gyntaf yn yr ynys hon naw o wragedd, a deallwyd bod y cyfreithiau gwladol yn caniatâu i bob gwr brïodi cynifer ag a allai gadw. Arhosodd 29 o Yspaeniaid yn un o'r ynysoedd hyn yn yr oes ddiweddaf, ac a ymbrïodasant a'r trigolion, ac y mae eu hepil yn lled liosog weithian mewn dwy neu dair o honynt.

Ynysoedd Ingraham, a ddarganfuwyd gan forlywydd o'r enw hyny o America. Ebr. 1791 Maent yn gorwedd ychydig i'r gogledd orllewin o ynysoedd Marquesas, ac y maent yn saith o rifedi. Amrywiol o restrau mân ereill yn Mor mawr y de a ellid eu henwi, pe goddefai cylch y gwaith.

### *Hanes ychwanegol am Ynysoedd Mor mawr y de, &c.*

Gallai mai buddiol fyddai crybwyll yn y lle hwn, mai o ddeutu canol y ganrif ddiweddaf yr ymroddodd llywodraeth Prydain fawr

gyntaf i olrhain moroedd yr Arddrych dde. Y ddau for-lywydd cyntaf a ddanfonwyd i chwilio ansawdd y mor hwnw yn fanwl, oeddynt Wallis a Carteret, y cyntaf yn beniaeth ar y llong a elwid y Dolphin, a'r llall ar y Swallow. Aethant o Frydain yn Awst 1766, a chydhwyliasant hyd oni ddaethont i olwg Mor mawr y de, ond yno collasant eu gilydd, ac nid ymgyfarfuant hyd oni ddaethont yn eu cyfeiriad priodol i Frydain.

Ar y 6 o Meh. 1767, darganfu Wallis ynys o ddeutu 4 milltir o hyd a 3 o led, yr hon a alwodd ynys Sulgwyn, am mai noswyl y Sulgwyn ydoedd yr amser hwnw. Ei lledred yw 19° 26'D. a hydred 137° 56'G. Y dydd canlynol canfu ynys arall, yr hon a alwodd ynys y frenines Charlotte: yr oedd trigolion hon o faint canolig, eu pryd yn dywyll, ac yr oeddynt yn gwisgo am eu canol fath o frethyn a wnelynt o risg coed. Yn fuan gwedi hyn canfu ynysoedd ereill, y rhai yn olynol a alwodd Egmont, Gloucester, Cumberland, Osnaburg, ac ynys y tywysog William Henry.

Ar y 19 o'r un mis, darganfu Otaheite, ac ar yr 28 o Gor. darganfu ynys arall o ddeutu chwe' milltir o hyd, yr hon a alwodd ynys Saunders; ac ar y 30, darganfu ynys o ddeutu deng milltir o hyd a phedair o led, yr hon a alwodd ynys Howe, yna gwedi darganfod amryw o rai mân, un o honynt a alwodd ynys Wallis, cyrhaeddodd Batavia ar y 30 o Dachwedd; a phenrhyn dëau Affrica Chwef. 4, 1768, a chartref yr 20 o Mai canlynol.

Carteret gwedi ymadawiad y ddwy long a aeth trwy gyfyngfor Bhering, ac a ddarganfu ar yr 2 o Gor. 1767, ynys o ddeutu 5 milltir o amgylchiad, yr hon a alwodd ynys Pitcairn, lledred 25° 2'D. a hydred 133° 21'G. Yn ganlynol canfu ynysoedd a alwodd ynys Osnaburg. ac ynys Gloucester, ac yn mhen ychydig gwedi, canfu liaws a alwodd ynysoedd y frenines Charlotte, yn nghyd â thair ereill, sef ynys Gower, ynys Simpson, ac ynys Carteret. Daeth y morlywydd hwn i'w wlad gwedi darganfod amryw o rai bychain ereill, heibio benrhyn dëau Affrica yn Mawrth 1769.

Yn nechreu y flwyddyn 1767, cyd-welodd y gymdeithas freninol am yr addasrwydd o ddanfon seryddion i ynysoedd Marquesas yn Mor mawr y de i ganfod trawsiad y blaned gwener tros wyneb yr haul, yr hyn yn ol casgliad Seryddion oedd i ddigwyddo yn 1769. Felly ar i'r peth gael ei grybwyll i'w fawrhydi Geo. III, gwelodd yn dda gefnogi yr amcan, trwy barotoi llestr i'r anturiaeth. Galwyd hon yr Endeavor, a phenodwyd James Cook yn llywydd arni, yr hwn gyd â gwr bonheddig o enw Green, a fuasai flynyddoedd yn gynnorthwywr i Dr. Bradley yn nhremynfa Greenwich. a nodwyd hefyd gan y gymdeithas i olygu y trawsiad. Ond tra yr oedd y llong yn paratoi, dychwelodd Wallis, yr hwn cyn cychwyn i amgylchu'r ddaear, oedd ar archiad rhai o fawrion y gymdeithas i edrych am le addas i olygu y trawsiad; ac ar iddo enwi ynys Otaheite yn lle mwyaf addas, penderfynwyd o fyned a'r Endeavor yno; ac felly hwyliwyd ar y 26 o Awst 1768. Aeth hefyd gyd â hwynt Syr Joseph Banks a Dr. Solander, gwyr enwog mewn gwybodaeth o anianyddiaeth. Cyrhaeddasant Otaheite gwedi darganfod rhai ynysoedd mân Ebr. 13, 1769, ac ar y 3 o Meh. digwyddodd i'r diwrnod fod yn deg, a chawsant olwg wrth eu bodd ar y trawsiad. Gwedi hyn darganfu Cook yr ynysoedd Cyfeillgar a Oheteroa, ac oddiyno cyfeiriodd i'r de hyd lledred 40° 12' a hydred 147° 29G. a gwnaeth sylw mwy manwl o arfordir Zealand

newydd nag a wnaethid o'r blaen. Yn mis Tachwedd darganfu restr o ynysoedd a alwodd ynysoedd Barrier: oddiyno aeth i Holland newydd, a thrachefn i Guni newydd, ac yn Medi 1770. cyrhaeddodd ynys Tavu, o'r lle yr hwyliodd i Batavia, ac oddiyno heibio i benrhyn deau Affrica i Frydain ar y 12 o Mehefin, 1771.

Yn fuan gwedi dychweliad Cook, penderfynwyd i ddanfon dwy long, y Resolution a'r Adventure i olrhain ychwaneg ar foroedd yr Arddrych dde, a rhoddwyd Cook yn llywydd ar y flaenaf, a Tobias Furneaux ar yr olaf. Cychwynasant o Plymouth y 13 o Gor. 1772. a chyrhaeddasant heibio benrhyn deau Affrica, Zealand newydd y Chwefror canlynol, gwedi chwilio yn ofer am gyfandir deheuol. Yn fuan gwedi ymadaw oddiyno, daeth niwl tywyll arnynt a chollasant eu gilydd am rai wythnosau. Gwedi cyd-ymgyfarfod fal hyn eilwaith, aethant i Otaheite, ac ar eu taith i'r ynysoedd Cyfeillgar, darganfuasant ynys Hervey, ac yna mewn tywydd tywyll, collasant eu gilydd drachefn, ac ni bu iddynt gyfarfod mwy. Cook yn penderfynu olrhain moroedd y cylch cyfddeau, aeth rhagddo hyd oni chyrhaeddodd ledred 71° 10' a hydred 100° 54'G. a chan nad oedd modd gan faesydd ëang o rew oesol ar ganol haf dreiddio yn mhellach, dychwelwyd yn ol. Oddiyno aeth Cook i ynys Basg, a thrachefn i ynysoedd Marquesas, a gwedi darganfod ynysoedd Paliser, aeth i Otaheite. Oddiyno cyrhaeddodd ynysoedd Hebrides newydd, ac wrth gyfeirio i'r de oddiyno darganfu Caledonia newydd. O Zealand newydd, i'r lle yr aethai Cook o Caledonia newydd er mwyn cael angenrheidiau i'w long. aeth rhagddo i'r dwyrain, hyd oni ddaeth ar gyfer cyfyngfor Magellan, heb ganfod dim hynod yn ystod y daith. Yn Ionawr 1775, darganfu ynys anghyfannedd a alwodd Georgia deheuol. Gwedi hyn canfu amryw ynysoedd anghyfanedd dan drwch o eira oesol, a galwodd y fwyaf deheuol o honynt y *Thule* ddeheuol, gan mai hwn oedd y tir nesaf i begwn y de a welsai yn ystod ei fordeithiau. Yn Chwefror darganfu dir Sandwich, ac amryw ynysoedd anghyfannedd ereill, ac yna cyfeiriodd am Frydain, y lle y tiriodd Gor. 30. 1775.

Yr oedd Furneaux gwedi cyrhaedd y cartref flwyddyn cyn hyn, heb nemawr o bethau hynod yn perthyn i'w daith. Danfonasai ddeg o'i ddynion i'r lan yn Zealand newydd i geisio dwfr, a daeth yr anwariaid arnynt ac a'u lladdasant, ac yna gwleddasant ar eu cyrff, gan adael yr esgyrn yn unig ar eu hol, yn brawf o'u gorchwyl dieflig, yr hyn a benderfynodd y chwedl oedd ar droed bod y cyfryw ddynion anifeilaidd mewn bod.

Ni chafodd Cook onid ychydig o seibiant gwedi ei ddychweliad, na bu raid iddo gychwyn i'w drydedd mordaith o amgylch y ddaear, ac yn hon y collodd ei fywyd. Gan na oddef cylch y gwaith i olrhain y daith hon hyd farwolaeth Cook, a thrachefn hyd farwolaeth Clerke, ac yna hyd ddychweliad y llong i Frydain, rhoddir yn ganlynol dalfyriad o hanes y dull y collodd y morlywydd enwog hwnw ei fywyd. Gwedi i Cook ddarganfod Owhyhee a chyfarfod a chryn garedigrwydd gan y trigolion yn 1778, daeth iddi eilwaith yn y flwyddyn ganlynol, a gwelai nad oedd y trigolion yn ymddangos mor hynaws ag o'r blaen. Pa fodd bynag gadawodd y lle yn dangnefeddus y 4 o Chwef. 1779, heb unrhyw derfysg, ond gan iddynt gyfarfod a thymhestlwynt, yr hon a ddrygodd un o'r hwylbreni, gorfuant ddychwel yn ol. Y trigolion yn tramwy yn ol ac yn mlaen i'r llong, daliwyd un ar y weithred

o ladrata gefail o'r arf-gell, yr hwn a ryddhawyd gwedi ffangelliad lei lym arno: yn mhen ychydig oriau cipiodd arall yr efail a chŷn, a neidiodd i'r mor, a nofiodd i'r lan. Ond danfonwyd hwynt yn ol gan benaeth o enw Pareah. Yr oedd cwch yn perthyn i'r lleidr ar y lan, yr hwn a fynai Cook ei gael fal iawn am y lladrad, ac ar i'w wyr ymaflyd ynddo, dywedodd Pareah na chafent ef, gan ychwanegu mai ei eiddo ef ydoedd. Ar hyn ennynodd terfysg, a dechreuodd yr anwariaid daflu ceryg at y morwyr, ac yna drylliasant ychydig ar gwch a berthynai i'r llong oedd ar y lan yn cael ei drwsio, ond cyn i'r morwyr gyrhaedd y llong gyd a'r llall, daeth Pareah mewn cwch un-pren atynt, â chapau swyddog a ddygasid oddiarno yn y bicre yn ol, a dychwelodd yn ddiatreg gwedi gobeithio na byddai Cook yn ddig wrtho am y tro a ddigwyddasai.

Drannoeth gwelwyd bod y cwch oedd yn cael ei drin ar y lan gwedi ei ladrata; ar hyn arfogwyd dau gwch mawr, un i aros yn ngenau y borthladd i gymeryd meddiant o'r cychod a ddeuai i mewn, ac i danio arnynt os byddai achos; ac yn y llall ymroddodd Cook o fyned i gludo y brenin i'r llong. Gwedi tirio gyd â deg o filwyr, daeth yr anwariaid o'i amgylch i ofyn ei nawdd yn ostyngedig am yr hyn a ddigwyddasai, a daeth meibion y brenin yn ddiatreg wrth orchymyn Cook, y rhai hefyd a ddangosasent iddo dŷ eu tâd, ac ar i Cook fyned yno a dywedyd wrtho fod yn rhaid iddo ddyfod i'r llong, cydsyniodd, ond yn y cyfamser gwelynt yr anwariaid yma ac acw yn ymarfogi â gwaywffyn, pastynau, ac a hesg-we; a daeth hen offeiriad dan ganu yn uchel at Cook gan ddal cneuan fawr yn ei law fal yn anrheg iddo, i'r unig ddyben o ddenu ei wyliadwriaeth oddiwrth y perygl oedd erbyn hyn yn dechreu. Ar hyn gorchymynodd Cook i'r milwyr nesu at y cwch, ac yntau gyd a'r brenin yn ei law, a'i wraig a'u dau fab a nesaodd hefyd. Gwedi dyfod yn agos at y cwch, aeth Keowa, mab ieuengaf y brenin iddo, ond pan oedd y brenin ar fyned i mewn, cofleidiodd y wraig ef, a chyd a chynnorthwy dau flaenor gwnaed iddo eistedd. Y morlywydd yn gweled na allai gael y brenin i mewn heb golli gwaed, rhoddodd orchymyn i'r milwyr fyned i'r cwch a gadael iddynt: ond gyd a'u bod am gychwyn, taflodd un o'r Indiaid gareg ato: ar hyn taniodd Cook ei ddryll, ond gan nad oedd ganddo onid haels, cadwodd yr hesg-we yr Indiad heb ei niweidio, a chan iddo drachefn ysgwyd ei waywffon at Cook, aeth ato a tharawodd ef i lawr a'i ddryll. Yr oedd mab y brenin y pryd hwn yn y cwch, a da fuasai pe cadwasid ef ynddo yn hwy, canys buasai hyny yn beth ataliad ar rwysg yr Indiaid, ond blaenor y cwch gwedi y taniad cyntaf a'i rhoddodd ar iddo erchi hyny ar y lan. Indiad arall yn ysgwyd ei waywffon ar y llywydd, taniodd arno yntau, ond yn lle ei ladd ef, lladdodd un arall oedd yn ei ymyl, ac yna cafodd un o'r milwyr orchymyn i danio arno, a lladdwyd ef yn ddiatreg. Yna rhoddes Cook orchymyn i'r cychod nesu i dderbyn y milwyr, ond penaeth un o honynt yn methu ei ddeall, ac yn cilio yn ol, a fu yn achlysur o'i angau: yna nesaodd Indiad ato a tharawodd ef gyd â chnwpa, fal y syrthiodd, a chyn iddo gyfawgodi, brathodd arall ef â dagr yr hwn a'i lladdodd.

Fal hyn y syrthiodd y morlywydd enwocaf a fu erioed ar y ddaear, a diau y bydd i'w enw fod yn barchus gan bob cenedl waraidd tra y byddo haul yn troi yn ffurfafen y nefoedd.

# COFNODAU AMSERYDDOL

## *Yn mynegi am y pethau mwyaf hynod*

A DDIGWYDDODD YN MHOB OES;

## SEF, CYNLLUN O HANESYDDIAETH Y BYD

O'R GREADIGAETH

## *HYD Y FLWYDDYN*, 1816.

---

*Cyn Cred.*

4004 *Creadigaeth y Byd* yn dechreu yn ol archesgob Usher, ar ddydd Sul Hydref 23, ac Adda ac Efa yn cael eu creu ar ddydd gwener, Hydref 28.

4003 Genedigaeth Cain, y cyntaf a aned o wraig. Abel yn cael ei eni yn fuan gwedi.

3875 Cain yn lladd ei frawd Abel

3874 Genedigaeth Seth, epil yr hwn ydynt yn cael eu galw yn blant Duw, i'w gwahaniaethu oddiwrth epil Cain, y rhai a elwir plant dynion.

3017 Enoc dduwiol yn cael ei gymeryd i'r Nefoedd.

2469 Noa yn dechreu pregethu am y diluw i drigolion yr hen fyd.

2349 Ar y degfed dydd o'r ail mis, yr hyn oedd ar ddydd Sul, Tachwedd 30, Duw yn gorchymyn i Noa a'i deulu i fyned i'r arch; ac ar ddydd Sul Rhagfyr, 7, dechreuodd wlawio am ddeugain niwrnod; a pharhaodd y diluw 150 o ddyddiau.

2348 Yr arch yn gorphwys ar fynydd Ararat ar ddydd Mercher, Mai 6; nenau y mynyddoedd yn dyfod yn weledig ar ddydd Sul, Gor. 19; ac ar ddydd Gwener, Rhagfyr 18, Noa a'r hyn oll oedd ganddo yn dyfod allan o'r arch; adeiladodd allor, ac aberthodd i Dduw ym yr ymwared.

2247 Adeiladu *Twr Babel* o gylch y pryd hwn gan hiliogaeth Noa, ar hyn mae Duw mewn dull gwyrthiol yn cymysgu eu hiaith, ac felly yn eu gwasgaru yn amrywiol genhedlaethau.

2234 Dechreu gwneyd sylwiadau seryddawl yn Babilon.

2188 *Teyrnas yr Aipht* yn dechreu dan reolaeth Misraim, mab Ham, yr hon a barhaodd 1663 o flynyddoedd, sef hyd ei goresgyniad gan Cambyses 525 mlynedd cyn cred.

2059 *Teyrnas Assyria* yn dechreu tan Ninus mab Belus.

1996 Genedigaeth Abram yn Ur y Caldeaid; yn marw 1821 ei oed yn 175 mlynedd.

1927 Sarah yn wraig i Abram: yn marw 1859, ei hoed 127.

1925 Cedorlaomer, brenin Elam, yn gorchfygu pump brenin Sodom, Gomorra, Adma, Seboim a Zoar.

1921 Y Cyfamod yn cael ei wneyd ag Abraham, pan y mae yn gadael Haran i fyned i gartrefu yn ngwlad Canaan.

1912 Cedorlaomer yn yspeilio Sodom, ac yn cludo Lot yn garcharor; Abram yn ei ymlid ac yn ei orchfygu, ac yn achub Lot; ac ar ei ddychweliad yn cael ei fendithio gan Melchisedec brenin Salem, offeiriad y Duw goruchaf.

1910 Genedigaeth Ismael mab Abram gan Agar; bu farw 1773, yn 137 mlwydd oed.

1897 Duw yn adnewyddu ei gyfamod ag Abram, pan y mae yr enwaediad yn cael ei sefydlu, a'i enw yn cael ei newid i Abraham; dinasoedd Sodom &c. yn cael eu distrywio gan dan o'r Nefoedd; Lot gyd a'i wraig a'i ddwy ferched gwedi eu rhybuddio, yn dianc cyn y distryw; ei wraig yn edrych drach ei chefn yn cael ei throi yn golofn halen.

1896 Genedigaeth Isaac gan Sarah yn 90 mlwydd oed; yn marw 1716, Oed 180.

1871 Ffydd Abraham yn cael ei phrofi yn nghynygiad aberthiad ei fab Isaac.

1856 *Teyrnas Argos* yn dechreu tan Inachus. Isaac yn 40 mlwydd oed yn priodi Rebecca merch Bethuel o Syria.

1836 Genedigaeth Esau a Jacob, plant Isaac a Rebecca, gwedi bod 19 mlynedd yn ddiepiledd.

1822 Memnon yr Aiphtiwr yn dyfeisio llythyrenau.

1796 Esau yn priodi dwy ferched Heth, yr hyn sydd yn rhoddi blinder mawr i Isaac a Rebecca.

1759 Jacob gwedi ei fenditbio gan ei dad yn myned i dy ei ewythr Laban i Haran, ac yn priodi ei ddwy ferched.

1739 Jacob yn dychwel i Canaan gwedi gwasanaethu Laban 20 mlynedd.

1728 Joseph yn cael ei werthu i'r Aipht gan ei frodyr.

1715 Joseph yn deongli breuddwydion Pharao, ac yn cael derchafiad. Saith mlynedd y llawnder yn dechreu.

1708 Saith mlynedd y newyn yn dechreu; a'r flwyddyn ganlynol, deg brodyr Joseph yn dyfod i'r Aipht i brynu yd.

1706 Joseph yn ei amlygu ei hun i'w frodyr; ac, ar archiad Pharao yn danfon i gyrchu Jacob a'i holl deulu i'r Aipht.

1689 Jacob ar ei glaf wely yn bendithio ei feibion, ac yn rhagddywedyd wrthynt am amrywiol bethau, yn enwedig am ddyfodiad y Messiah: bu farw yn 147 mlwydd oed, gwedi bod 17 mlynedd yn ngwlad yr Aipht.

1635 Joseph yn rhagddywedyd mynediad yr Israeliaid o'r Aipht, ac yn marw yn 110 mlwydd oed, gwedi bod 80 mlynedd yn rhaglaw yn yr Aipht. Ei farwolaeth sydd yn terfynu llyfr Genesis, yr hwn sydd yn cynnwys yspaid 2369 o flynyddoedd.

1615 Yr Ethiopiaid yn dyfod o lenydd afon Indus i sefydlu yn nghymydogaeth yr Aipht.

1574 Genedigaeth Aaron; a'r flwyddyn ganlynol Pharao yn rhoddi gorchymyn i fwrw holl blant Israel i'r afon.

1571 Genedigaeth Moses, ac yn mhen y tri mis gwedi, yn cael ei ddodi yn yr hesg ar fin yr afon, lle y cafwyd ef gan Thermutes

merch Pharao, yr hon sydd yn ei fabwysiadu, ac yn ei ddysgu yn holl ddysgeidiaeth yr Aipht.

1556 Cecrops yn arwain trefedigion o Saetiaid o'r Aipht i Attica, ac yn dechreu teyrnas Athens 780 mlynedd cyn yr Olympiad cyntaf.

1546 Scamanger yn dyfod o Crete i Phrygia, ac yn dechreu teyrnas Caerdroya.

1531 Moses yn 40 mlwydd oed yn ymweled a'i frodyr yr Israeliaid mewn caethiwed, yn lladd Aiphtiwr a welsai yn taro Hebread, ac yna yn ffoi i Midian, lle yr arhosodd 40 mlynedd, ac y priododd Sephora merch Jethro.

1503 Diluw Deucalion yn Thessaly.

1495 Y Chwareuyddiaethau a elwid Panathenæa, yn cael eu cynnal gyntaf yn Athens

1491 Duw yn ymddangos i Moses yn y berth, ac yn ei anfon i'r Aipht, y lle y mae yn gwneyd amryw wyrthiau, ac yn cospi Pharao a deg o blâau yn olynol, hyd onid yw yr Israeliaid yn 600,000 o rifedi, heblaw plant yn cael eu goddef i ymadael, sef ar ddydd Mawrth, Mai y 5, yr hyn sydd yn cyflawni y 430 *mlynedd y gorymdaith*; ac ar ddydd Llun Mai 11, Moses yn agor y mor côch, ac yn myned trwyddo, a'r Aiphtiaid wrth eu hymlid yn boddi ynddo. Yr Israeliaid ar y 22 o Mehefin yn dyfod i anialwch Sinai, yn agos i fynydd Horeb, y lle y maent yn aros agos flwyddyn o amser, ac yn cael y *deg gorchymyn* gan Dduw trwy Moses.

1485 Y llong gyntaf yn dyfod o'r Aipht i dir Groeg gan Danaus, drachefn brenin Argus.

1453 Chwareuyddiaethau Olympia yn cael eu cynnal gyntaf yn Elis.

1452 Pump llyfr Moses yn cael eu hysgrifenu yn ngwlad Moab, y lle yn y flwyddyn ganlynol y mae yn marw yn 110 mlwydd oed.

1451 Joshua yn arwain Israel trwy yr Iorddonen i wlad Canaan ar ddydd Gwener Ebrill 30, A gwedi darostwng y Canaaneaid yn ymsefydlu ynddi.

1426 Joshua yn marw yn Timnath-serah yn 110 mlwydd oed.

1413 Yr Israeliaid gwedi marwolaeth Joshua yn ymroddi i eulunaddoliaeth, ydynt mewn caethiwed dan Cushan brenin Mesopotamia, ac yn parhau felly am 8 mlynedd.

1405 Othniel, y cyntaf o'r barnwyr yn darostwng Cushan, ac yn adferyd rhyddid i Israel.

1390 Llwyth Benjamin yn cael agos ei lwyr ddistrywio gan yr un llwyth ar ddeg ereill, am eu hymddygiad greulawn tu ag at wraig o lwyth Levi.

1388 Ceres yn dyfod i Athens ac yn dysgu y trigolion i hau ŷd.

1343 Yr Israeliaid yn ad-gwympo i ddelw-addoliaeth ydynt yn gaethion i Eglon brenin Moab am 18 mlynedd.

1325 Ehwd y Benjaminiad yn lladd Eglon, ac yn fuan gwedi, Samgar yn lladd 600 o Philistiaid ac irai ychain.

1305 Yr Israeliaid ar farwolaeth Ehwd yn ymarweddu yn annuwiol ac yn cael eu rhoddi i ddwylaw Jabin brenin Canaan. Parhaodd y caethiwed hwn 40 mlynedd.

1285 Deborah a Barac yn gorthrechu y Canaaneaid wrth ddyfroedd

Megido: y frwydr hon oedd achlysur y gân ardderchog y sydd yn y Barnwyr, pen 5

1284 Y Siculiaid yn myned o Itali i Sicily, o ddeutu tair oes cyn rhyfel Caerdroya.

1263 Hynt-filwraidd Argonaut dan Jason a'i gymdeithion trwy y mor du i Colchis am y cnu euraid. Chwareuyddiaethau Pythia yn cael eu cynnal gyntaf gan Adrastus brenin Argus.

1252 Pedwerydd caethiwed yr Israeliaid dan y Midianiaid yn parhau 7 mlynedd.

1245 Gideon, pedwerydd barnwr Israel gyd â 300 o wyr yn gorchfygu y Midianiaid, ac yn rhyddhau Israel.

1236 Ar farwolaeth Gideon, Abimelec ei ordderch-fab yn lladd ei 70 brodyr ar un gareg, ac yn ei wneyd ei hun yn frenin Israel am dair blynedd.

1233 Tola yn bumed barnwr ar Israel am 23 mlynedd.

1222 Chwareuyddiaethau Olympia yn cael eu cynnal gan Hercules.

1210 Jair yn chweched barnwr ar Israel am 22 mlynedd.

1206 Yr Israeliaid yn ymroddi i fod yn eulun-addolgar, yn cael eu rhoddi i fynu gan Dduw i'r Philistiaid, a'r Ammoniaid. Hwn yw'r pumed caethiwed, ac yn parhau 18 mlynedd.

1193 Rhyfel Caerdroya yn dechreu, yr hon sydd yn parhau ddeng mlynedd.

1188 Jephtha yn seithfed barnwr ar Israel am chwe' blynedd; y mae yn gorchfygu yr Ammoniaid, ac yn fyrbwyll yn gwneyd adduned, yr hon sydd yn ei ddifeddiannu o'i unig ferch.

1184 Caerdroya yn cael ei chymeryd gan y Groegiaid.

1182 Ibsan yn wythfed barnwr ar Israel am saith mlynedd Teyrnas y Latiniaid yn dechreu gan Æneas, yr hwn sydd yn adeiladu Lavinium.

1175 Elon yn nawfed barnwr ar Israel am ddeng mlynedd.

1165 Abdon yn ddegfed barnwr ar Israel am wyth mlynedd.

1157 Eli yr archoffeiriad yn un-fed-ar-ddeg barnwr ar Israel am 40 mlynedd.

1156 Chweched caethiwed yr Israeliaid gan y Philistiaid yn parhau am 40 mlynedd.

1152 Dinas Alba-Long yn cael ei hadeiladu gan Ascanus brenin y Latiniaid.

1136 Samson yn lladd mil o Philistiaid â gên asyn.

1117 Samson yn colli ei grytder, ac yn cael ei roddi yn fradychus i'r Philistiaid Ar ei ddychweliad y mae yn tynu i lawr deml Dagon, ac wrth farw yn peri angau mwy o Philistiaid nag a laddasai yn ystod ei oes. Yr Israeliaid yn ymosod ar y Philistiaid, ond yn cael eu gorchfygu a cholli 4,000 o wyr ac hefyd yr arch. Eli wrth glywed y newydd yn syrthio ac yn marw.

1116 Samuel yn ddeuddegfed ac yn olaf o farnwyr Israel am 21 mlynedd. Y Philistiaid gwedi dodi yr arch yn nheml Dagon, ydynt yn cael eu taro â chlwyf y marchogion, ac yna gwedi 7 mis o gadwraeth yn danfon yr arch yn ol.

1096 Samuel yn gorchfygu y Philistiaid yn Ebenezer.

1095 Samuel yn enneinio Saul yn frenin ar Israel.

1093 Saul yn gorchfygu y Philistiaid. Duw yn ei wrthod am ei anufudd-dod tu ag at yr Amalekiaid; a Dafydd yn 22 oed yn cael ei enneinio gan Samuel i fod yn frenin ar ol Saul.

1055 Saul gwedi colli ei dri mab mewn brwydr â'r Philistiaid, yn ei ladd ei hun ar fynydd Gilboa.
1048 Dafydd yn cymeryd Caersalem oddiar y Jebusiaid ac yn ei gwneyd yn brif ddinas.
1034 Nathan yn argyhoeddi Dafydd am ei odineb, &c. ac yn edifarhau.
1023 Absalom yn gwrthryfela yn erbyn Dafydd, ac yn meddiannu Caersalem, ond yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Ioab.
1012 Solomon yn seilio y deml, ac yn mhen yr wyth mlynedd, ar ddydd gwener, Hydref 30 yn ei chysegru. Gorphen adeiladu ei lŷs breninol yn mhen 12 mlynedd gwedi.
986 Dinas Samos yn cael ei hadeiladu ar ynys o'r un enw.
975 Rhaniad teyrnas Juda ac Israel. Jeroboam yn gosod i fynu ddau lô aur, un yn Dan a'r llall yn Bethel i rwystro i'w ddeiliaid fyned i Gaersalem i addoli.
971 Sesac brenin yr Aipht yn cymeryd Caersalem, ac yn lladrata trysorau y deml o'r llŷs.
941 Zerah yr Ethiopiad gyda mil o filoedd o wyr yn cael ei lwyr orchfygu gan y brenin Asa yn nyffryn Zephatha.
940 Benhadad brenin Assyria yn ymosod ar Baasa brenin Israel, ac yn meddiannu amryw o'i ddinasoedd.
926 Genedigaeth Lycurgus ddeddf-wr Sparta.
924 Omri yn symud gorsaf llywodraeth Israel o Tirsa i Samaria.
907 Homer y bardd yn cyfansoddi ei awdlau.
897 Y Prophwyd Elias yn cael ei gymeryd i'r nefoedd.
878 Athalia brenines Juda yn cael ei rhoddi i farwolaeth trwy orchymyn Jehoiada yr arch-offeiriad.
869 Phidon brenin Argos yn dyfeisio pwysau a mesurau, ac yn bathu arian yn Ægina. Dinas Cartago neu Carthage yn cael ei hadeiladu gan y frenines Dido.
855 Alladius brenin y Latiniaid am geisio dynwared taranau yn gael ei ladd â mellten.
820 Ninefe yn cael ei chymeryd gwedi 3 blynedd o warchae gan Arbaces a Belesis.
814 Teyrnas Macedonia yn dechreu, yr hon a barhaodd 646 mlynedd, sef hyd frwydr Pydna.
807 Ahab yn cael ei ladd yn mrwydr Ramoth-Gilead yn ol prophwydoliaeth Micea.
800 Y prophwyd Jonah yn pregethu i'r Ninifeaid.
797 Teyrnas Lydia yn dechreu, ac yn parhau 249 mlynedd.
787 Amos yn prophwydo yn erbyn Jeroboam, ail frenin Israel.
785 Hosea yn prophwydo; yn marw yn 781.
770 Phul brenin Assyria yn goresgyn teyrnas Israel, ond trwy gael ei ddobru â mil o dalentau gan Menahem yn dychwel yn fuan oddiyno.
758 Nahum y prophwyd yn byw.
757 Isaiah yn dechreu ei brophwydoliaeth, ac yn ei pharhau am 60 mlynedd.
754 Micah y prophwyd yn byw.
753 Era *adeiladaeth Rhufain* yn dechreu.
747 Rhufeiniaid a'r Sabiniaid yn ymheddychu, ac yn uno eu taleithiau. Era Nabonassar yn dechreu Chwefror 26.

738 Romulus yn gorfoleddu ar y Cameriniaid, ac yn mhen y 5 mlynedd gwedi, ar y Vienteaid.
731 Habaccuc yn prophwydo o gylch y pryd hwn.
724 Y Messeniaid gwedi brwydr Ithome yn dyfod yn deyrngedawl i'r Lacedemoniaid.
721 Samaria yn cael ei chymeryd gwedi tair blynedd o warchae, a therfyn ar frenhiniaeth Israel gan Salmanasar, brenin Assyria. Y diffyg cyntaf ar y lleuad y sydd ar oorhyw gof-nod, yr hwn ar ol Ptolemy oedd ar Mawrth 19, 3 awr ac 20 munud cyn hanner nos
717 Tyre yn cael ei gwarchae yn ofer am 5 mlynedd gan Salmanasar brenin Assyria.
710 Byddin fawr Senacherib yn cynnwys 185,000 o wyr yn cael eu distrywio gan angel ar un noson.
696 Esaiah y prophwyd yn cael ei dori drwy ei hanner a llif gan Manasse.
685 Ail ryfel rhwng y Messeniaid a'r Lacedemoniaid yn parhau 14 mlynedd pan y maent yn dyfod eilwaith yn deyrngedawl iddynt
680 Essarhadon brenin Assyria yn meddiannu teyrnas Babilon. Dechreu gyrfaoedd cerbydau yn mynydd Olympia.
678 Dejoces yn estyn ymerodraeth Media i Halys.
677 Manasse brenin Juda yn cael ei gymeryd yn garcharor, ac yn cael ei gludo mewn heiyrn i Babilon.
677 Y rhyfel rhwng yr Horatiaid a'r Curiatiiaid
658 Dinas Byzantium yn cael ei hadeiladu gan yr Atheniaid, ac ereill.
651 Rhyfel am 5 mlynedd yn dechreu rhwng y Rhufeiniaid a'r Sabiniaid.
641 Amon brenin Juda yn cael ei ladd yn fradychus gan ei wasanaethyddion.
639 Politorium, un o ddinasoedd y Latiniaid yn cael ei distrywio gan y Rhufeiniaid.
627 Jeremiah a Zephaniah y prophwydi yn byw y pryd hwn.
624 Y Scythiaid yn goresgyn Media, Lydia, &c. ac yn cadw meddiant o amryw daleithiau am 28 mlynedd.
621 Rhyfel rhwng y Lydiaid a'r Melesiaid yn parhau 11 mlynedd.
616 Yr Apiolaniaid yn cael eu gorchfygu gan y Rhufeiniaid.
608 Josiah brenin Juda yn cael ei ladd yn mrwydr Megido gan Pharao Necho, brenin yr Aipht.
606 Distrywio Ninive gan luoedd Cyaxares a Nabopolassar.
604 Rhai Phœniciaid trwy orchymyn Necho yn hwylio o'r Môr coch o gylch Affrica, ac yn dychwelyd trwy Fôr y canoldir.
597 Jehoiacin brenin Juda yn cael ei gludo yn garcharor i Babilon gan Nebucodonosor.
594 Eseciel y prophwyd, Thales o Miletus, Solon, deddfwr Athens, Anacharsis o Scythia oll yn byw y pryd hwn.
587 Nebucodonosor yn cymeryd Caersalem gwedi 18 mis o warchae, Meh. 9.
586 Teml Caersalem yn cael ei llosgi ar y 7 dydd o'r pumed mis.
585 Diffyg cyflawn ar yr haul Mai 28, yn atal brwydr oedd newydd ddechreu rhwng lluoedd Cyaxere a Halyattes: y pleidiau yn ymheddychu.

572 Nebucodonosor yn cymeryd Tyre gwedi 13 blynedd o warchae.
571 Nebucodonosor yn diorseddu Apries Brenin yr Aipht.
558 Daniel y prophwyd yn byw y pryd hwn.
538 Terfyn ar frenhiniaeth Babilon, trwy i Cyrus ei chymeryd, a gosod Darius yn llywydd arni.
537 Pythagoras yn byw y pryd hwn.
536 Cyrus yn rhoddi gorchymyn i'r Iuddewon ddychwelyd i ail adeiladu y deml.
528 Haggai a Zechariah yn prophwydo o ddeutu yr amser yma.
525 Cambyses yn goresgynu yr Aipht.
520 Confucius, anianydd enwog o China yn byw.
515 Teml Caersalem yn cael ei gorphen Mai 10, a gwyl y Pasg yn cael ei chynnal ynddi, Ebrill 18.
509 Y llywodraeth uchel-faeronawl yn dechreu yn Rhufain. Deol Tarquin a'i deulu oddiyno.
504 Sardis yn cael ei llosgi gan yr Atheniaid, yr hyn a barodd i'r Persiaid oresgynu tir Groeg.
493 Swyddogion gwladol yn cael eu sefydlu gyntaf yn Rhufain.
490 Y Persiaid yn cael eu gorchfygu gan Miltiades yn mrwydr Marathon.
484 Xerxes yn adennill yr Aipht oddiar y Persiaid, ac yn rhoddi ei llywodraeth i'w frawd Achœmenes.
480 Y Persiaid yn cael eu gorchfygu mewn ymladdfa ar y môr gan lynges y Groegiaid.
477 Y 300 Rhufeiniaid o enw Fabius yn cael eu lladd gan Veientes yn agos i Cremora, Gor. 17.
471 Themistocles llywydd lluoedd Athens yn cael ei gyhuddo o gydfradfwriadu â Pausanias yn erbyn rhyddid y Groegiaid yn encilio i Asia at Xerxes.
470 Cimon yn dinystrio llynges Persia ar gyfer Cyprus. Anaxagoras yr anianydd yn blodeuo: bu farw 428, oedran 72.
466 Y Syracusiaid yn alltudo Thrasybulus eu brenin, ac yn adennill eu rhyddid, yr hwn sydd yn parhau 61 mlynedd, sef hyd ormeslywodraeth Dionysius.
465 Y drydedd rhyfel rhwng y Messeniaid a'r Lacedemoniaid, yn parhau 10 mlynedd.
463 Yr Aiphtiaid dan Inarus gyd â byddin gynnorthwyol o Atheniaid yn ymwrthod a iau y Persiaid.
462 Llynges y Persiaid yn cael ei dyfetha gan lynges Athens ar gyfer yr Aipht.
458 Ezra yn cael ei ddanfon o Babilon i Gaersalem gyd a'r gaethglud, a'r llestri aur, arian, &c. gan Artaxerxes yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, sef y 70 wythnos o flynyddoedd, neu 490 o flynyddoedd cyn croeshoeliad ein Hiachawdwr.
456 Yr Atheniaid yn ymheddychu a'r Persiaid, ac yn dychwelyd o'r Aipht.—Nehemiah y prophwyd yn byw.
454 Y Rhufeiniaid yn danfon i Athens am ddeddfau Solon.
451 Trefnu y dengwriaeth yn Rhufain, a sefydlu deddfau y 12 llech.
450 Y Persiaid dan Osiris yn cael eu gorchfygu gan yr Atheniaid dan Cimon mewn amryw frwydrau ar y môr.
448 Y rhyfel sanctaidd gyntaf o gylch teml Delphi: y Lacedemoniaid a'r Atheniaid o'r ddeutu yn cynnorthwyo.

444 Sefydlu swyddogion milwraidd a beirniaid yn Rhufain.
441 Pericles yn goresgyn Samos am ymneillduo oddiwrth yr Atheniaid. Artemones yn y rhyfel hon yn dyfeisio yr hwrdd-beirian, y testudo, a pheriannau rhyfel ereill.
436 Malachi y diweddaf o'r prophwydi yn byw.
431 Rhyfel Peloponnesia, yr hon a barhaodd 27 mlynedd, yn dechreu.
430 *Hanesyddiaeth yr Hen Destament yn darfod o gylch y pryd hwn.* Plâ yn Athens am 5 mlynedd.
429 Pericles, llywydd Athens trwy 40 mlynedd, yn marw.
420 Plâ eilwaith yn Athens. Socrates yr anianydd yn ei oroesi.
415 Delwau Merchyr yn cael eu bwrw i lawr yn Athens.
405 Llynges Athens yn cynnwys 180 hwyl yn cael eu llwyr orchfygu gan Lysander.
404 Lysander yn cymeryd Athens Ebr. 24, yr hyn sydd yn terfynu rhyfel Peloponnesia. Athens yn cael ei llywodraethu gan 30 o orthrymwyr.
401 Cyrus yn cael ei ladd mewn hynt-filwraidd yn erbyn ei frawd Artaxerxes. Enciliad y 10,000 Groegiaid. Thrasybulus yn dymaith y 30 gorthrymwyr o Athens.
400 Socrates yn cael ei roddi i farwolaeth gan yr Atheniaid.
395 Undeb yr Atheniaid, Thebiaid, Corinthiaid a'r Argives yn erbyn Lacedemonia, yr hyn sydd yn dechreu rhyfel Corinth.
390 Brwydr Allia Gor. 17, yn yr hon mae y Rhufeiniaid yn cael eu gorchfygu gan y Gauliaid. Rhufain yn cael ei hyspeilio a'i llosgi. Camillus yn ben rheolwr.
370 Y Messeniaid yn dychwelyd i Peloponnesia, gwedi deoliad a barhaodd 300 mlynedd.
368 Euxodus gwedi dysgu seryddiaeth yn yr Aipht, yn dysgu y gelfyddid yn Groeg.
365 Y Rhufeiniaid yn adferyd y ddefod o osod yr hoel gofrestrawl yn nheml Iou.
360 Brwydr oruchafiaethus Phillip ar yr Atheniaid yn Methone. A'r flwyddyn ganlynol ar yr Illyriaid.
357 Yr ail ryfel sanctaidd oherwydd i'r Phoceaid ymosod ar demlau Delphos.
351 Y Sidoniaid yn cael eu gwarchae gan y Persiaid, yn llosgi eu dinas a hwy eu hunain â thân.
348 Terfyn ar y rhyfel sanctaidd gan i Phillip brenin Macedonia feddiannu holl ddinasoedd y Phoceaid.
347 Dionysius yn gormes-lywodraethu Syracuse eilwaith, gwedi 4 blynedd o ddeoliad.
345 Aristotle yr anianydd yn byw: bu farw 322, yn 63 oed.
343 Rhyfel rhwng y Rhufeiniaid a'r Samniaid yn parhau 71 o flynyddoedd.
339 Xenocrates yr anianydd yn byw.
336 Phillip brenin Macedonia yn cael ei ladd gan Pausanias.
335 Alexander fawr yn goresgyn tir Groeg, ac yn gorchfygu yr Atheniaid.
334 Alexander yn ennill brwydr ar Darius yn Phrygia, Mai 22.
332 Alexander yn cymeryd Tyre gwedi 7 mis o warchae, Awst 20 Yn fuan gwedi yn meddiannu yr Aipht ac yn adeiladu Alexandria.

327 Alexander yn goresgynu yr holl wledydd dwyreiniol hyd at India. Yn marw yn 323, Ebrill 21: a'i ymerodraeth eang yn cael ei rhannu yn bedair breniniaeth.
322 Prif areithwyr Athens sef Demosthenes, Hyperides a Demades yn cael eu dihenyddio gan Antipater.
312 Y Rhufeiniaid yn dechreu rhyfel Etrusca. Seleucus yn cymeryd Babilon.
309 Agathocles yn ennill nifer frwydrau ar y Carthaginiaid yn Affrica.
306 Yr enw brenin yn cael ei arfer gyntaf gan ddilyniedyddion Alexander
300 Euclid o Alexandria, y daear-fesurydd yn byw.
296 Athens yn cael ei chymeryd gan Demetrius gwedi blwyddyn o warchae.
293 Y ddial haul gyntaf yn cael ei gosod ar deml Quirinus yn Rhufain.
286 Lysimachus yn goresgynu Macedonia.
285 Dionysius yn dechreu ei rifedi amser seryddawl Meh. 26 y cyntaf a wybu mai hyd blwyddyn yr haul yw 365 dydd, 5 awr a 49 munud.
284 Y cyfeithad o'r hen Destament a gyfenwir y Septuagint yn cael ei wneyd o ddeutu y pryd hwn. Adeiladu Pharos Alexandria
278 Byddin o Gauliaid yn cael eu llwyr orchfygu wrth deml Delphos.
272 Y Rhufeiniaid yn gorchfygu y Samniaid i'r Tarentiaid, yr hyn sydd yn terfynu dwy rytel; y gyntaf gwedi parhau 71 mlynedd, a'r ail ddeg.
269 Bathu arian gyntaf yn Rhufain.
268 Antigonus Gonatus yn cymeryd Athens ac yn ei llywodraethu 12 mlynedd.
264 Rhyfel gyntaf y Carthaginiaid yn erbyn y Rhufeiniaid, yn parhau 23 mlynedd.
261 Y Rhufeiniaid yn llunio llynges gyntaf. Hannibal yr hynaf, llywydd lluoedd y Carthaginiaid yn marw.
260 Llynges y Rhufeiniaid yn dyfetha llynges y Carthaginiaid.
256 Rhyddid Athens yn cael ei adferyd.
249 Llynges y Carthaginiaid yn dyfetha llynges y Rhufeiniaid.
242 Y Rhufeiniaid yn gorchfygu y Carthaginiaid, yr hyn sy'n terfynu y rhyfel gyntaf.
237 Y Carthaginiaid dan Amilcar yn goresgyn Yspaen.
228 Y Rhufeiniaid yn danfon cenhadon gyntaf i Athens, Corinth, &c.
224 Colossus Rhodes yn cael ei daflu i lawr gan ddaear-gryn.
218 Ail rhyfel y Carthaginiaid yn erbyn y Rhufeiniaid yn dechreu, ac yn parhau 17 mlynedd
217 Hannibal yn gorchfygu y Rhufeiniaid wrth lyn Thrasamene; a thrachefn yn Apulia yn y flwyddyn ganlynol.
212 Y Rhufeiniaid dan Marcelles yn meddiannu Syracuse.
207 Asdrubal gwedi tirio gyd â byddin fawr yn Itali i adnerthu Hannibal, yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Claudius Nero.
201 Y Rhufeiniaid yn gorchfygu y Carthaginiaid, a therfyn ar y ail ryfel rhyngddynt.
200 Y rhyfel gyntaf rhwng y Rhufeiniaid a'r Macedoniaid, yn parhau 4 blynedd.

195 Hannibal yn ymadael â llys Carthage, ac yn myned i lys Antiochus yr enwog, yr hwn y mae yn ei annog i ryfel yn erbyn y Rhufeiniaid.
192 Rhyfel rhwng Antiochus a'r Rhufeiniaid yn dechreu ac yn parhau 3 blynedd.
190 Anturiaeth gyntaf y Rhufeiniaid i Asia dan Scipio, y rhai ydynt yn llwyr orchfygu Antiochus yn mrwydr Magnesia yn Lydia
187 Antiochus yn cael ei orchfygu a'i ladd yn Media, gwedi yspeilio teml Belus yn Elymais.
180 Phillip brenin Macedonia yn dyfarnu ei fab Demetrius i farwolaeth am ryfela yn ei erbyn.
171 Ail rhyfel Macedonia yn dechreu.
170 Antiochus Epiphanes yn cymeryd Caersalem, ac yn mhen y ddwy flynedd yn halogi y deml ag aberthau o fôch, ac yn ei hyspeilio o 1,800 talent o aur. Menelaus a gyfenwid Onias IV yn archoffeiriad yr Iuddewon y pryd hyny.
168 Brwydr Pydna Meh 22, yn yr hon mae Perseus brenin Macedonia yn cael ei lwyr orchfygu gan y Rhufeiniaid, a rhwysg ei deyrnas yn terfynu.
163 Llywodraeth Judea gan y Macabeaid yn dechreu, ac yn parhau 126 mlynedd.
162 Hipparchus yn dechreu ei dremiadau seryddawl yn ynys Rhodes
159 Amser yn cael ei fesur wrth ddwfr yn Rhufain.
152 Andriscus yn ffugio bod yn fab i Perseus yn gormes-rhe[illegible] Macedonia.
149 Trydydd rhyfel y Carthaginiaid yn erbyn y Rhufeiniaid yn dechreu ac yn parhau dair blynedd.
146 Distryw Carthage a Chorinth gan y Rhufeiniaid.
144 Judas Maccabeus yn cael ei ladd trwy frâd gan Tryphon
135 Hanesyddiaeth yr Apocrypha yn terfynu.
123 Carthage yn cael ei hail adeiladu trwy orchymyn seneddwyr Rhufain.
118 Y Rhufeiniaid yn meddiannu rhan o Gaul.
116 Cleopatra yn frenines yr Aipht.
109 Y Teutoniaid a'r Cymbriaid yn dechreu eu hymosodiad ar ymerodraeth Rhufain, yr hyn sydd yn parhau 8 mlynedd.
107 Genedigaeth Cicero, areithydd ac anianydd.
106 Cleopatra yn dïorseddu Ptolomy.
105 Brwydr rhwng y Teutoniaid a'r Rhufeiniaid ar lenydd afon Rhone, yn yr hon y mae 80,000 o fyddin y Rhufeiniaid yn cael eu lladd.
102 Y Teutoniaid yn cael eu gorchfygu gan Marius, llywydd byddinoedd y Rhufeiniaid mewn dwy frwydr, yn y rhai y lladdwyd 200,000 o'r Teutoniaid a chymeryd 70,000 yn garcharorion
101 Marius a Catullus yn lladd 120,000 o'r Cymbriaid, ac yn cymeryd 60,000 yn garcharorion.
100 Genedigaeth Julius Cæsar.
99 Lusitania yn cael ei goresgyn gan y Rhufeiniaid dan Dollabel.
97 Ptolemy Appion brenin Cyrene yn marw, ac yn rhoddi ei deyrnas i'r Rhufeiniaid.
86 Sylla yn cymeryd Athens.
75 Nicomedes brenin Bithynia yn marw, ac yn rhoddi ei deyrnas i'r Rhufeiniaid.

69 Lucullus yn gorchfygu dau frenin Mithridates a Tigranes yn Armenia, ac yn yspeilio Tigranocrates o'i thrysorau breninol.
67 Brwydr Jerico, ac Hyrcanus yn cael ei orchfygu, ac yn fuan gwedi ei ddiorseddu.
66 Mithridates yn cael ei orchfygu gan Pompey mewn brwydr yn Armenia. Crete gwedi dwy flynedd o ryfel yn cael ei huno at ymerodraeth Rhufain.
65 Syria yn cael ei gwneyd yn dalaith Rhufain.
63 Pompey yn cymeryd Caersalem.
60 Pompey, Cæsar, a Crassus yn dri-wyriad cyntaf Rhufain. Cæsar yn dychwel o oresgyn Lusitania, ac yn cael ei addef yn ben llywydd Rhufain.
58 Cicero yn cael ei ddeol o Rhufain. Ei alw yn ol y flwyddyn ganlynol.
55 Cæsar yn goresgyn Germani, ac oddiyno yn dyfod a'i luoedd i oresgyn Brydain.
53 Crassus yn cael ei ladd, a'i fyddin yn cael ei dryllio gan y Parthiaid yn Mesopotamia.
50 Rhyfel gartrefol yn Rhufain rhwng byddinoedd Cæsar a Pompey. Julius Cæsar yn adeiladu castell Dover.
47 Julius Cæsar yn cymeryd Alexandria.
46 Cato yn ei ladd ei hun yn Affrica, am golli y frwydr yn erbyn y Carthaginiaid.
45 Brwydr Munda yn Yspaen rhwng Pompey a Cæsar; yr olaf yn ennill.
44 Cæsar yn cael ei ladd yn y senedd-dy.
43 Octavius, Antoni a Lepidus yn dri-wyriad Rhufain.—Dibenyddio Cicero.
40 Y Parthiaid yn gormes-reoli Caersalem.
37 Herod a Sosius yn ad-gymeryd Caersalem, ac yn dyfarnu Antigonus, blaenor y Parthiaid i farwolaeth.
32 Octavius ac Antoni yn gwrthryfela.
31 Brwydr Actium, yn yr hon y mae Antoni a Cleopatra yn cael eu gorchfygu. Rhufain yn cael ei galw yn ymerodraeth.
30 Octavius yn cymeryd Alexandria, ac Antoni a Cleopatra yn eu rhoddi eu hunain i farwolaeth, ac yna yr Aipht yn dyfod yn rhan o ymerodraeth Rhufain.
27 Octavius yn derbyn yr enw Augustus Cæsar, y cyntaf o ymerawdwyr Rhufain.
25 Cornelius Nepos yn marw. Yr Aiphtiaid yn derbyn blwyddyn Julius.
19 Marwolaeth Virgil y Bardd. Oedran 51.
12 Y Pannóniaid yn cael eu gorchfygu gan Tiberius.
8 Augustus yn diwygio y calendar. Y mis Sextilis yn cael ei newid i Augustus trwy orchymyn y Senedd.—Rhufain y pryd hyn yn 50 milltir o amgylchiad, ac yn cynnwys 463,000 o wyr arfog.
1 Teml Janus yn cael ei chau gan Augustus yn arwydd o heddwch cyffredinol.



* Bu gwall o roddi y rhifnod 5 yn lle 4 yn y 40 tu dalen diweddaf: dymunir ar y darllenydd ei ddiwygio.

*Gwedi Crêd.*

0 Genedigaeth ein Hiachawdwr, ar ddydd llun, Rhagfyr 25.
12 Ein Hiachawdwr yn holi yr Athrawon yn Nghaersalem.
14 Augustus Cæsar yn marw yn Nola yn Campania, Awst 19. Oed 76, a Tiberius Cæsar yn cael ei goroni.
17 Deuddeg dinas yn Asia yn cael eu dadymchwel gan ddaear-gryn.
19 Germanicus yn cael ei wenwyno gan Piso yn Antioch.
29 Ioan Fedyddiwr yn dechreu ei weinidogaeth.
30 Ein Hiachawdwr yn cael ei fedyddio gan Ioan yn nechreu y flwyddyn.
32 Marwolaeth Ioan Fedyddiwr.
33 Ein Hiachawdwr yn cael ei groeshoelio ar ddydd gwener, Ebrill 3, dri o'r gloch y prydnhawn. Ei adgyfodiad ar ddydd sul, Ebrill 5. Ei esgyniad ar ddydd iau, Mai y 14.
36 Tröedigaeth St. Paul.
37 Tiberius yn marw yn 78 mlwydd oed. Coroni Caligula.
39 St. Matthew yn ysgrifenu ei efengyl. Pilat yn ei ladd ei hun.
40 Yr enw Cristionogion yn cael ei roddi gyntaf i ddisgyblion yr Iesu yn Antioch.
41 Caligula mewn brâd yn cael ei ladd, a Claudius yn cael ei goroni.
43 Hynt-filwraidd Claudius i Brydain.
44 St. Marc yn ysgrifenu ei efengyl
47 Ostorius yn llywydd Rhufeinaidd yn Mhrydain. Caractacus yn frenin.
51 Caractacus yn cael ei gludo mewn heiyrn i Rufain.
52 Cynghorfa yr apostolion yn Nghaersalem.
54 Claudius yn marw, yn 63 oed, a Nero yn rheoli.
59 Nero yn dihenyddio ei fam Agrippina, ac yn dechreu ei ddrygfuchedd gyhoedd. Suetonius Paulinus yn goresgynu Môn, ac yn llosgi y Derwyddon.
61 Boadicea, brenines Prydain yn gorchfygu y Rhufeiniaid, ond yn cael ei gorchfygu ei hunan yn fuan gwedi gan y Suetoniaid.
62 St. Paul yn cael ei ddanfon yn rhwym i Rhufain mewn llong o Sidon yn nechreu y gauaf, yr hon sydd yn dryllio ar ynys Melita, neu Malta.
64 Rhufain yn cael ei dodi ar dân, ac yn llosgi tros 6 diwrnod, ar hyn dechreuodd yr erlidiad cyntaf yn erbyn y Cristionogion Quintus Curtius yr hanesyddwr yn byw y pryd hwn.
66 Rhufain yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Iuddewon.
67 St. Pedr a St. Paul yn cael eu rhoddi i farwolaeth.
68 Nero yn marw yn 32 oed, Galba yn rheoli.
69 Galba yn cael ei ladd, Ionawr 16. Otho yn cael ei orchfygu yn Bedriacum yn ei ladd ei hun, a Vespasian yn dyfod yn ymherawdwr Rhufain.
70 Titus Vespasian yn cymeryd Caersalem, dydd sadwrn Medi 8.
77 Julius Agricola yn llywydd Prydain.
79 Marwolaeth Vespasian. Dinasoedd Herculaneum a Pompeii yn cael eu claddu gan farwor â lludw o Vesuvius, Tachwedd 1. Marwolaeth Pliny yr hanesyddwr.
81 Titus yn marw, oedran 41, a Domitian yn cael ei goroni.
86 Rhyfel Dacia yn dechreu, ac yn parhau 15 mlynedd.

92 Cornelia Maximilla y lleian yn cael ei chladdu yn fyw am ei baniweirdeb.
95 Ail erlidiad y Cristionogion yn dechreu ac yn parhau hyd farwolaeth Domitian.
99 St. Ioan yn marw yn 92 mlwydd oed.
103 Trajan yn goresgynu Dacia ac yn ei huno at ymerodraeth Rhufain.
106 Hynt filwraidd Trajan i'r dwyrain yn erbyn y Parthiaid.
107 Y trydydd erlidiad yn erbyn y Cristionogion, ac yn mhen y 10 mlynedd y pedwerydd yn dechreu.
121 Adrian yn adeiladu y wâl fawr yn ngogledd Lloegr.
126 Adrian yn myned i Asia, a gwlad yr Aipht am saith mlynedd.
130 Adrian yn ail-adeiladu Caersalem, ac yn codi teml ynddi i Iou.
131 Yr Iuddewon yn gwrthryfela ac yn dechreu ail rhyfel.
135 Terfyn rhyfel yr Iuddewon, y rhai ydynt oll yn cael eu deol o Judea, a themlau i'r duwiau cenedlig yn cael eu seilio yn eu holl leoedd sanctaidd.
138 Adrian yn marw, oedran 72.
143 Appian yr hanesyddwr yn ysgrifenu o ddeutu y pryd hwn.
152 Antoninus yn atal yr erlidiad yn erbyn y Cristionogion.
154 Hygenus, esgob Rhufain, yn cymeryd gyntaf yr enw pâb.
161 Antoninus yn marw, oedran 75, a Marcus Aurelius yn cael ei goroni. Y rhyfel yn ail-ddechreu yn erbyn y Parthiaid.
162 Prydain yn ceisio ymwrthod â iau Rhufain.
174 Antonius yn terfynu y rhyfel yn erbyn y Vandaliaid, &c.
178 Lucius, brenin Prydain, yn danfon at y pab Elutherius am bregethwyr Cristionogol.
180 Marcus Aurelius yn marw yn Pannonia; Commodus yn rheoli.
181 Commodus yn ymheddychu â'r Germaniaid.
183 Y rhyfel flin yn Mhrydain yn cael ei gorphen gan Marcelles.
185 Lucilla am frad-fwriadu marwolaeth ei brawd Commodus yn cael ei lladd.
191 Commodus mewn brad yn cael ei ladd gan Martha a Lotus, Rhag 31. Pertinax yn cael ei ladd Mawrth 28: ar hyn mae pedwar tywysog yn cymeryd arnynt reoli yr ymerodraeth, sef Julianus, Niger, Severus ac Albinus; Niger yn cael ei orchfygu gan Severus yn mrwydr Issus, yr hwn sydd yn gwarchae ar Byzantium tros dair blynedd. Y dadleu cyntaf o berthynas i wir amser gosodiad y Pasg.
198 Albinus yn cael ei orchfygu yn Gaul ac yn cael ei ladd yn Lyons.
200 Severus yn myned i'r dwyrain, ac yn darostwng y Parthiaid, ac yn aros yno, ac yn yr Aipht dair blynedd.
202 Y pumed erlidiad yn erbyn y Cristionogion yn dechreu, ac yn parhau dwy flynedd.
203 Ysgotland yn derbyn y grefydd Gristionogol.
207 Severus yn myned i Brydain, ac yn aros yno hyd ei farwolaeth.
209 Gwâl Severus yn cael ei hadeiladu ar draws Prydain.
217 Cyfieithad y deg a thrugain o'r Ysgrythyrau a elwid y *Septuagint*, yn cael eu darganfod.
218 Maerinus yn cael ei ladd gan ei wyr, a Heliogabalus yn rheoli.
220 Julius Africanus y cofnodwr yn byw y pryd hwn.
222 Rhufain yn rhoddi teyrnged flynyddol i'r Gothiaid am beidio

sarhau yr ymerodraeth. Heliogabalus yn marw, ac Alexander Severus yn dyfod yn ymerawdwr.
228 Artaxerxes, brenin Persia yn darostwng Parthia.
234 Alexander yn myned i'r dwyrain ac yn gorchfygu y Persiaid.
235 Chweched erlidiad yn erbyn y Cristionogion ar farwolaeth Alexander, yr hwn sydd yn cael ei ladd yn Gaul.
237 Y ddau Gordian yn cael eu lladd yn Affrica gan Pupienus.
238 Balbinus a Pupienus yn cael eu lladd gan y milwyr. Gordian yr ieuengaf yn cael ei wneyd yn ymerawdwr.
242 Hynt-filwraidd Gordian yn erbyn y Persiaid.
244 Gordian yn cael ei ladd gan Phylip, yr hwn sydd yn gormes reoli yr ymerodraeth.
249 Phylip, a'i frawd yn cael eu lladd, a Decius yn ymerawdwr Rhufain.
250 Y seithfed erlidiad yn erbyn y Cristionogion.
251 St. Cyprian yn byw y pryd hwn.
252 Pla dychrynllyd tros holl ymerodraeth Rhufain.
257 Yr wythfed erlidiad yn erbyn y Cristionogion.
258 Yr ymerodraeth yn cael ei hanrheithio gan 30 o ormeswyr yn olynol.
269 Claudius yn gorchfygu y Gothiaid, ac yn lladd 300,000 o honynt.
272 Y nawfed erlidiad yn erbyn y Cristionogion.
280 Probus yn myned i'r dwyrain ac yn gorchfygu y Persiaid.
286 Y Llychlynigion yn ymosod ar yr ymerodraeth, a gormeswyr yn rheoli amryw o'i thaleithiau.
291 Y ddau ymerawdwyr, ac y ddau Cæsar yn myned i amddiffyn pedwar-ran yr ymerodraeth.
293 Carausius yn cael ei ladd gan Alectus gwedi gormesu 7 mlynedd ar Brydain.
295 Prydain yn cael ei hadferyd i'r ymerawdwr gwedi deng mlynedd o ormesiad.
303 Y degfed erlidiad yn erbyn y Cristionogion yn parhau ddeng mlynedd.
304 Dioclesian a Maximianus yn ymddiosg o fod yn ymerawdwyr.
306 Constantius yn marw, a Chwstenyn fawr yn dechreu rheoli.
308 Yr oedd pedwar o ymerawdwyr yn rheoli y pryd hyn.
310 Newyn yn Mhrydain yn peri angau tros 40,000 o'r trigolion.
323 Cwstenyn yn trefnu cyflawn ryddid i'r Cristionogion.
325 Cymanfa gyntaf Nicea yn cynnwys 318 o esgobion.
328 Gorsaf yr ymerodraeth yn cael eu symud o Rufain i Constantinople.
331 Cwstenyn yn gorchymyn distrywio y temlau eilun-addolgar. Dibenyddio 170 o wragedd Rhufain am wenwyno eu gwyr.
336 Marwolaeth Arius yr haeriedydd.
337 Cwstenyn fawr yn marw, Mai 22, oedran 66.
340 Cwstenyn ieuanc yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Constans.
343 Erlidiad ar y Cristionogion yn Persia gan Sapor.
350 Constans yn cael ei ladd yn yr Yspaen gan Magnentius.
358 Daear-gryn yn dadymchwel 150 o ddinasoedd yn ngwlad Groeg ac Asia.
364 Ymerodraeth Rhufain ar farwolaeth Jovian yn cael ei rhanu yn

ddwy ran: Valens yn ymerawdwr y dwyrain a Valentinian yn ymerawdwr y gorllewin.

367 Marwolaeth St. Hilary.
371 Marwolaeth St. Athanasius.
379 Theodosius yr enwog yn ymerawdr y dwyrain. Marw. St. Basil.
383 Gratian ymerawdwr y gorllewin yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Andragathuis.
390 Colofn o dân yn ymddangos yn yr awyr goruwch Rhufain am 30 niwrnod.
395 Theodosius yn marw: Arcadius yn rheoli.
400 Gwneyd clochau gyntaf.
404 Fergus, brenin cyntaf Prydyn neu Ysgotland y sydd yn nghofnodau hanesyddiaeth
407 Marwolaeth St. Chrysostom.
410 Rhufain yn cael ei hyspeilio gan Alaric brenin y Visigothiaid.
412 Y Vandaliaid yn dechreu teyrnas yn yr Yspaen tan Gundicar.
413 Teyrnas y Burgundiaid yn dechreu yn Alsace, tan Gundicar.
414 Y Visigothiaid yn dechreu eu teyrnas yn Toulouse tan Wallia.
420 Y Ffrancod yn dechreu eu teyrnas tan Pharamond.
423 Honorius, ymerawdwr y gorllewin yn marw: Castinus yn gormes reoli.
426 Y Rhufeiniaid yn llwyr ymadaw â Phrydain.
428 Y Ffrancod yn cael eu gorchfygu gan Aetius, yr hwn a gyfenwid amddiffynydd yr ymerodraeth.
430 Marwolaeth St. Awstyn, a Pelagius yr haeriedydd.
432 St. Padrig yn cael ei ddanfon o Frydain i bregethu yr efengyl yn Ywerddon
439 Genseric yn cymeryd Carthage ac yn dechreu teyrnas y Vandaliaid yn Affrica.
445 Gwrtheyrn yn frenin cyntaf Prydain gwedi ymadawiad y Rhufeiniaid.
446 Y Prydeiniaid yn gwneyd cwyn hynod i Aetius ac y Rhufeiniaid yn erbyn ymgyrch yr Ysgotiaid ac y Pictiaid
447 Attila gyd a'i Huniaid yn anrheithio holl Ewrop.
449 Y Saeson yn dyfod gyntaf i Brydain gwedi eu gwahodd gan Gwrtheyrn.
451 Attila yn cael ei orchfygu gan Aetius ar wastadedd Chalons.
455 Genseric yn cymeryd Rhufain. Teyrnas Caint yn dechreu.
457 Hengist yn gorchfygu Gwrthefyr mewn brwydr yn Nghaint.
475 Hengist mewn brâd yn lladd 300 o fawrion Prydain, Mai 1.
476 Ymerodraeth y gorllewin yn terfynu, a theyrnas Itali yn dechreu.
480 Daear-gryn yn dadymchwel rhan o Constantinople, ac yn parhau 40 niwrnod.
487 Ambrosius ac y tywysog Arthur yn cael buddugoliaeth ar Ella, ac y Saeson.
491 Ella yn ail seilio teyrnas y Saeson yn Mbrydain sef Sussex a Surry.
493 Yr Ostrogothiaid yn bennaethiaid ar Itali.
496 Clovius brenin Ffrainc yn cael ei fedyddio, ac ei deyrnas yn derbyn Cristionogaeth.
505 Celer yn gorchfygu Cabades, ac yn rhoddi terfyn i ryfel Persia.
508 Arthur ab Uthr Bendragon yn dechreu ei deyrnasiad.

510 Paris yn cael ei gwneyd yn brif ddinas Ffrainc.
511 Y tywysog Arthur yn gorchfygu y Saeson yn Nghaerbaddon.
514 Constantinople yn cael ei gwarchae gan Vitalianus, llynges yr hwn sydd yn cael ei llosgi gan ddrych prês o waith Proclus.
515 Cyfrif amser wrth y rhifedi amser Cristionogol yn dechreu.
519 Y tywysog Arthur yn cael ei orchfygu yn Charford gan Cerdic, yr hwn sydd yn seilio Wessex, trydedd deyrnas y Saeson yn Mhrydain.
521 Thrasamond, brenin y Vandaliaid yn cael ei orchfygu, ac ei ladd gan y Mooriaid.
526 Erchenwyn yn seilio Essex, pedwaredd deyrnas y Saeson yn Mrydain.
532 Gwrthryfel yn Constantinople, yn achlysur o angau 30,000 mewn un dydd.
534 Bellisarius yn terfynu teyrnas y Vandaliaid.
539 Theodebert brenin Metz yn goresgynu Itali, ac yn cymeryd gwersylloedd y Rhufeiniaid ac y Gothiaid mewn un diwrnod.
542 Y tywysogion Arthur a Modred yn syrthio yn yr un frwydr yn Nghernyw.
543 Pla mawr o Affrica yn anrheithio Asia ac Ewrop.
546 Rhufain yn cael ei hyspeilio gan Totilla.
547 Ida yn sefydlu teyrnas Northumberland, pumed teyrnas y Saeson yn Mhrydain.
551 Y dull o drin sidan yn dyfod gyntaf i Ewrop o'r India gan fynachod.
554 Terfyn ar rwysg yr Ostrogothiaid yn Itali gan Narses.
558 Pla dychrynllyd tros Ewrop, Asia, ac Affrica, yr hwn sydd yn parhau 50 mlynedd.
568 Y Lombardiaid gwedi eu gwahodd o Pannonia gan Narses, ydynt yn goresgynu Itali ac yn sefydlu teyrnas.
580 Mynachod Bangor yn cael eu lladd gan y Daniaid.
581 Yr iaith Lladin yn dechreu cael peidio ei harfer yn Itali.
582 Crida yn sefydlu teyrnas Mercia, seithfed deyrnas y Saeson yn Mhrydain
583 Y Sueviaid yn yr Yspaen yn cael eu gorchfygu gan y Visigothiaid, yr hyn sydd yn terfynu eu teyrnas.
589 Phillipicus yn cael goruchafiaeth ar y Persiaid.
597 Awstyn fynach yn dyfod i Brydain â 40 o'i frodyr urddasol.
606 Rhwysg y pab yn dechreu trwy oddefiad Phocas, ymerawdwr y dwyrain.
614 Y Persiaid yn cymeryd Caersalem, yn lladd 90,000, ac yn dwyn ymaith y groes sanctaidd.
617 Cosroes brenin Persia yn gwrthod ymheddychu ag Heraclius oni wadai Gristionogrwydd, ac addoli yr haul.
621 Heraclius yn dechreu gorchfygu y Persiaid, ac yn parhau felly hyd ddiwedd ei oes.
622 Hegira Mahomet yn dechreu Gor. 16.
632 Brwydr Merga, yn yr hon mae y Saraceniaid yn gorchfygu y Persiaid. Mahomet yn marw: oed 63.
633 Edwin brenin Northumberland yn cael ei ladd mewn brwydr â Penda brenin Mercia yn Hatfield.
637 Y Saraceniaid yn cymeryd Caersalem.

640 Y Saraceniaid yn cymeryd Alexandria, ac yn llosgi y llyfrgell fawr oedd ynddi.
644 Omar, caliph y Saraceniaid yn cael ei ladd yn nheml Caersalem, yr hon a wnaethai yn deml Mahomet, a elwir Mosque.
653 Y Saraceniaid yn cymeryd ynys Rhodes ac yn malurio y ddel w fawr bres a elwid y Colussus.
655 Brwydr Leeds, yn yr hon mae Penda brenin Mercia yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Oswy brenin Northumberland.
668 Melius yr Armeniad yn traws feddiannu ymerodraeth y dwyrain, ar i Constans gael ei ladd tra yr oedd yn ymdrochi yn Syracusa. Metius yn fuan yn cael ei orchfygu a'i ladd gan Cwstenyn V.
673 Y Saraceniaid yn gwarchae yn ofer ar Constantinople: eu llynges yn cael ei difrodi â thân.
675 Y Saraceniaid yn ceisio tirio yn yr Yspaen, ond yn cael eu gorchfygu.
683 Cadwaladr, brenin olaf y Cymry yn dechreu teyrnasu.
684 Egfrid brenin Northumberland yn danfon byddin i oresgyn Ywerddon, ond yn aflwyddiannus.
688 Malduin, brenin Ysgotland yn cael ei ladd gan ei wraig; a hithau am hyny yn cael ei llosgi yn fyw.
694 Justinian II yn cael ei ddiorseddu gan Leontius, yr hwn sydd yn cael tori ymaith ei drwyn.
697 Leontius yn cael ei ddiorseddu ac yn cael tori ymaith ei drwyn gan Absimarus.
713 Y Saraceniaid yn goresgynu yr Yspaen.
717 Y Saraceniaid yn gwarchae ar Constantinopl.
727 Ina brenin Wessex yn talu *ceiniog Pedr* gyntaf tu ag at gynnal urdd ysgol yn Rhufain.
732 Y Saraceniaid yn cael eu gorchfygu gan Martal, rhwng Tours a Poictiers.
736 Leo, ymerawdwr y dwyrain yn distrywio yr holl ddelwau yn ei ymerodraeth, ac yn erlid y mynachod.
739 Newyn trwm yn Mhrydain.
742 Distrywio 600 o drefydd gan ddaear-gryn.
746 Haint tros Ewrop ac Asia tros dair blynedd. Gorchymyn darllain yr Ysgrythyrau gyntaf yn mynachdai Prydain.
758 Claddu mewn monwentydd yn dechreu.
763 Rhew mawr tros 150 o ddyddiau yn dechreu, Hydref 1.
770 Cwstenyn yn diddymu mynachdai yn y dwyrain, ac yn gwneyd i'r mynachod ac y lleianod ymbriodi.
774 Charlemagne yn cymeryd Pavia, yr hyn sydd yn terfynu teyrnas y Lombardiaid, gwedi para o honi 206 mlynedd.
784 Charlemagne yn gorchfygu Witikind, ac y Saeson, mewn brwydr a barhaodd dridiau.
792 Ethelbert brenin Anglia yn cael ei ladd mewn brâd gan Offa brenin Mercia, yr hwn sydd yn traws-feddiannu ei deyrnas. Newyn yn Mhrydain.
794 Offa, i'r dyben o ddwyn ei benyd am ei ysgelerder yn dechreu casglu *ceiniog Pedr* yn Mercia.
795 Constantine yn cael ei ladd gan ei fam Irene.
800 Charlemagne yn ymerawdr cyntaf Germani, yr hwn o'r blaen, oedd frenin Ffrainc.

802 Yr ymerodres Irene yn cael ei dëol i Lesbos.
807 Y lleuad yn ddiffyg ar Iou, Ion. 31, deir-awr gwedi canol nos.
813 Michael, ymerawdr y dwyrain yn cael ei orchfygu gan Crannus, ac yn ymddëol i fynachdy. Crannus yn cymeryd Adrianopl.
816 Dysgeidiaeth yn dechreu bod mewn brî yn mhlith y Saraceniaid. Almamon yn canfod gogwyddiad mwyaf yr haul yn 23° 34'
819 Almamon yn gorchymyn i'w seryddion fesur gradd lledred ar wastadedd Singar ar gyfer Babilon, pan y cawsant ef yn 56⅔ o filltiroedd Arabia:
820 Leo V yn cael ei ladd ar ddydd nadolig yn nheml Constantinopl.
826 Harold V, brenin Denmarc yn cael ei ddiorseddu gan ei ddeiliaid am fod yn Gristion.
827 Rhew mawr yn Mhrydain am 9 wythnos.
828 Teyrnas Lloegr yn dechreu dan reolaeth Egbert.
832 Theophilus yn deol y darluniedyddion o ymerodraeth y dwyrain, oherwydd ei gasineb i ddelwau.
838 Y Pictiaid yn cael eu gorchfygu, a'u cenedl yn cael eu diddymu gan Kenneth, brenin yr Ysgotiaid.
843 Ffrainc yn cael ei dosbarthu yn dair breniniaeth.
853 Y Normaniaid yn goresgynu Ffrainc.
854 Swithin, esgob Caerwent yn marw.
855 Yr ymerawdr Lotharius yn blino ar drafferthion y byd, yn ymddëol i fynachdy, ac yno yn marw.
859 Mor Adria yn rhewi, a cherbydau yn tramwy drosto.
867 Y Daniaid tan Ivar yn tirio yn Mhrydain, ac yn goresgynu Northumberland.
872 Awrleisiau yn dyfod gyntaf i Constantinople o Venice.
878 Alffred brenin Lloegr yn gorchfygu y Daniaid yn Edington.
886 Seilio prif ysgol Rhydychain gan Alffred.
887 Y Normaniaid yn gwarchae ar Paris, yr hon sydd yn cael ei hamddiffyn yn ddewrwych gan Goslin, esgob Paris.
888 Charles brenin Ffrainc yn marw, ac ei deyrnas yn cael ei dosbarthu yn 5 rhan.
896 Arnolph, ymerawdr Germani yn gorchfygu 90,000 o Normaniaid rhwng afonydd Rhin a Meuse.
904 Yr Hungariaid yn goresgynu Itali.
910 Rhyfel yn Lloegr yn erbyn y Daniaid yn parhau 12 mlynedd
916 Ordonno II yn lladd 70,000 o Saraceniaid yn yr Yspaen.
923 Rodolph brenin Burgundi yn cael ei goroni yn frenin Ffrainc.
933 Rhew mawr tros 120 niwrnod yn dechreu yn niwedd y flwyddyn hon. Cwstenyn III. brenin Ysgotland yn ymddëol o'i orsedd, ac yn dyfod yn fynach.
936 Ymerodraeth y Saraceniad yn cael ei dosbarthu yn saith deyrnas.
942 Uno Naples at ymerodraeth y dwyrain. Y Daniaid yn goresgynu Ywerddon.
952 Amloff y Daniaid yn frenin Northumberland.
954 Plâ yn Ysgotland yn peri marwolaeth 40,000 o drigolion.
959 Rhwysg y mynachod yn fawr yn Mhrydain. St. Dunstan yn weinidog y deyrnas. Y Daniaid o'r Ywerddon yn llosgi Caergybi yn Môn.
964 Otho yn goresgynu Itali ac yn ei huno at Germania.
971 300,000 o Bulgariaid yn cael eu gorchfygu, ac eu teyrnas yn cael ei difodi gan Bardas.

974 Newyn tôst yn Mhrydain.
987 Teulu Capet yn dechreu rheoli Ffrainc. Rhew mawr yn Mhrydain am 120 o ddyddiau.
991 Nodau Rhifyddiaeth yn dyfod gyntaf i Ewrop o Arabia.
994 Brenhinoedd Denmarc a Norwey yn goresgynu Prydain.
999 Boleslaus yn frenin cyntaf Poland.
1002 Lladdiad cyffredinol ar y Daniaid yn Lloegr ar ddydd sul, Tach 13.
1005 Eglwysydd Prydain yn cael eu hail adeiladu o gylch y pryd hyn.
1006 Haint dychrynllyd yn ymdaenu tros Ewrop, tros dair blynedd.
1013 Y Daniaid dan Sweyn yn gorchfygu brenin Lloegr.
1016 Edmund II yn ymladd chwe' brwydr aflwyddianus yn Lloegr â Canut II brenin Denmarc.
1025 Plâ dinystriol yn Mhrydain.
1028 Cwstenyn yn marw, a Romanus yn ymlid y Saraceniaid o Syria.
1035 Teyrnasoedd Castil ac Arragon yn dechreu yn yr Yspaen.
1040 Godwin, iarll Caint yn weinidog teyrnas Lloegr.
1042 Y Twrciaid yn meddiannu Persia.
1052 Yr ymerodres Zeo, gwraig i dri ymerawdwr yn marw, Oedran 70.
1053 Y pab Leo IX yn cael ei orchfygu ac ei gymeryd yn garcharor yn Naples gan y Normaniaid.
1065 Y Twrciaid yn cymeryd Caersalem oddiar y Saraceniaid.
1066 William duc Normandi yn goresgyn Prydain, ac yn ei meddiannu gwedi brwydr Hastings, ar ddydd Sadwrn, Hydref 14
1071 Yr ymerawdwr Romanus yn cael ei orchfygu ac ei gymeryd yn garcharor, gan Azum llywydd y Twrciaid
1076 Yr ymerawdwr Harri IV a'r pab yn amrafaelio o berthynas i ddewisiad esgobion yn Germani
1077 Ymerawdwr Germani i ddwyn ei benyd yn myned yn droednoeth yn Ionawr, i annedd y pab yn Canusio.
1080 Y dedfryd-lyfr yn dechreu cael ei gasglu, yr hwn sydd yn cynnwys mesuriad holl diroedd Prydain
1083 Yr ymerawdr Harri IV yn cymeryd Rhufain.
1087 Bathu aur gyntaf yn Mhrydain.
1091 Y Saraceniaid yn Yspaen yn gwahodd Joseph brenin Morocco i ddyfod i'w rheoli, ac felly yn frenin ar y ddwy wlad.
1092 Pedr fynach yn dechreu pregethu am ryfel y groes
1096 Y pererindod cyntaf i geisio adennill y Tir Sanctaidd: Godfrey o Boulogne, Baldwin iarll Hainault. Hugh iarll Vermandois, Robert duc Normandi, Robert iarll Fflandrys. Ramond iarll Toulouse, a Bohemond tywysog Tarentum yn llywyddion.
1098 Y maent yn cymeryd Antioch gwedi wyth mis o warchae, a Chaersalem y flwyddyn ganlynol
1104 Baldwin brenin Caersalem yn gorchfygu y Saraceniaid ac yn cymeryd Ptolómaes.
1120 Y tywysog William ac amryw o fawrion Lloegr yn boddi yn eu taith o Normandi.
1135 Roger brenin Sicily yn gorchfygu byddin y pab.
1139 Alphonso yn gorchfygu pump o frenhinoedd y Saraceniaid, yn cymeryd Lisbon ac yn cael ei gyhoeddi yn frenin Portugal.
1140 Stephen brenin Lloegr yn garcharor yn mrwydr Lincoln, ond yn cael ei ryddhau am iarll Caerloyw y flwyddyn ganlynol.
1147 Yr ail ymgyrchfa i'r tir sanctaidd trwy bregethiad St. Bernard.

1153 1100 o Gestyll yn cael eu dinystrio yn Mhrydain.
1162 Yr ymerawdwr Ffrederic yn distrywio Milan.
1171 Dermot, brenin Leinster yn galw am y Saeson i'w gynorthwyo yn erbyn y brenhinoedd Gwyddelig ereill.
1172 Harri II br. Lloegr yn tirio yn Ywerddon ac yn ei meddiannu
1185 Alphonso brenin Portugal yn marw gwedi teyrnasu 73 mlynedd.
1186 Cyssylltiad mawr yr haul, a'r planedau, oll yn y Fantol Mai 16.
1187 Teyrnas Caersalem yn cael ei meddiannu gan Saladin.
1188 Y drydedd hynt-filwraidd i'r Tir sanctaidd.
1189 Brenhinoedd Lloegr a Ffrainc yn myned i'r Tir sanctaidd.
1192 Brwydr Ascalon, yn yr hon mae Richard brenin Lloegr yn gorchfygu Saladin.
1195 Y Saraceniaid o Affrica yn tirio yn yr Yspaen, ac yn lladd 50,000 o Yspaeniaid.
1198 Roderic O'Connor, brenin olaf yr Ywerddon yn marw.
1203 Y bedwaredd hynt-filwraid i'r Tir sanctaidd, o Venitia.
1204 Y Ffrancod a'r Venetiaid yn cymeryd Constantinopl.
1208 Yr esgobion yn cael eu deol o Loegr gan y brenin Ioan.
1209 Yr erlidiad yn erbyn yr Albigensiaid yn dechreu yn Ffrainc.
1212 Goruchafiaeth ar y Mooriaid yn Naves de Tolose: 200,000 o honynt yn cael eu lladd, Gorphenaf 12.
1215 Y *Magna Charta* yn cael ei sefydlu gan Ioan brenin Lloegr.
1217 Brwydr Lincoln, Mai 19, yn yr hon mae y Ffrancod yn cael eu gorchfygu gan iarll Penfro.
1227 Y Tartariaid tan Gingis-khan yn goresyn ymerodraeth y Saraceniaid.
1234 Y chwil-lys yn cael ei ymddiried i'r Dominiciaid.
1245 Cymanfa gyffredinol Lions i ganlyn ar y rhyfel sanctaidd.
1248 Y pumed hynt-filwraidd i'r Tir sanctaidd, dan Louis IX.
1250 Louis IX yn cael ei gymeryd yn garcharor yn yr Aipht.
1253 Dosbarthu yr Ysgrythyrau yn bennodau gyntaf.
1258 Ymerodraeth y Saraceniaid yn terfynu trwy i'r Tartariaid gymeryd Bagdad.
1261 Ymerawdwyr Groeg yn ad-gymeryd Constantinopl.
1264 Brwydr Lewes, Harri III yn cael ei gymeryd yn garcharor gan iarll Leicester. Senedd Lloegr yn cyfarfod gyntaf.
1273 Rodolph y cyntaf o deulu presenol Austria yn rheoli.
1278 Ottogar brenin Bohemia yn cael ei ladd mewn brwydr gan yr ymerawdwr Rodolph.
1282 Llywelyn, tywysog Cymru yn cael ei orchfygu ac ei ladd gan y Saeson yn mrwydr Llandewi, Rhagfyr 11.
1283 Edward I, yn goresgynu Cymru, ac yn ei huno at ei deyrnas.
1291 Y Sultan Lelac yn adgymeryd Ptolemais, yr hyn sydd yn terfynu y rhyfel sanctaidd.
1291 Ymerodraeth bresenol y Twrc yn dechreu yn Bithynia.
1302 Dyfeisio cwmpawd y morwyrgan Flavio.
1308 Y gadair babyddol yn cael ei symud o Rhufain i Avignon.
1318 Newyn mawr yn Mhrydain.
1326 Y frenines Isabella yn dyfod â byddin i Loegr yn erbyn ei phriod Edward II.
1313 Edward II yn cael ei ddiorseddu gan y senedd yn Ionawr
2740 Llynges Edward III, yn dyfetha llynges Ffrainc ar gyfer Helvoetsluys.

1312 Y Marchogion, ac y Bwrdeisiaid yn cyd eistedd gyntaf yn y senedd-dy.
1345 Andrew o Hungari, gwr Joan, brenines Naples, yn cael ei lindagu yn ei lŷs, trwy frâd ei wraig.
1346 Brwydr Cressy, Awst 26. yn yr hon mae drylliau tân yn cael eu harfer gyntaf.
1348 Plâ yn Ewrop yn cludo ymaith y bedwaredd o'r trigolion.
1352 Y Twrciaid yn dyfod gyntaf i Ewrop.
1356 Brwydr Poictiers, yn yr hon mae brenin Ffrainc yn cael ei gymeryd yn garcharor gan Edward y tywysog dû.
1369 Wickliffe yn dechreu pregethu
1377 Y pabyddion yn dychwelyd o Avignon i Rufain.
1378 Dau bâb yn rheoli am 78 mlynedd, hyd gymanfa Constance.
1388 Brwydr Atterburn, Gor. 31, rhwng Hotspur a iarll Douglas.
1395 Y Twrc Bajazet I. yn goresgynu Hungari.
1402 Brwydr Angoria yn yr hon mae Bajazet yn garcharor.
1403 Brwydr Amwythig: Hotspur yn syrthio.
1404 Plâ yn Llundain yn peri angau 30,000 o drigolion.
1411 John Huss a Jerome o Prague yn byw y pryd hwn.
1414 Cymanfa Constance yn terfynu iawn etholiad pabyddion.
1415 Brwydr Agincourt, Hydref 25.
1417 Uno Denmarc â Norway gan Edric IX.
1420 Y Portugiaid yn darganfod ynys Madeira.
1423 Brwydr Crevant yn cael ei hennill gan iarll Salisbury.
1428 Gwarchaed aflwyddiannus y Saeson ar Orleans.
1440 Marwolaeth Geoffrey Chauser y bardd
1446 Y môr yn gorllifo Dort: 100,000 o drigolion, yn boddi Ebr. 17.
1453 Y Twrciaid yn cymeryd Constantinople. Constantin Poligodas yn olaf o ymerawdwyr y dwyrain.—Brwydr Castellon yn terfynu rhwysg Lloegr â Ffrainc.
1462 Argraffu y llyfr cyntaf yn Lloegr, sef y Bibl yn ol cyfieithiad y pâb.
1469 Brwydrau Banbury a Stamford. Adferyd Harri VI, Hydref 6.
1471 Brwydr Barnet ar ddydd Pasg, Ebrill 14. Brwydr Tewksbury, Mai 4. Marwolaeth Thomas a Kempis.
1478 Uno Castîl ac Arragon dan Fferdinand V. brenin Castîl.
1485 Brwydr Bosworth, Awst 22.
1492 Columbus yn darganfod America.
1497 Y Portugiaid yn anturio gyntaf i'r India ddwyreiniol.
1499 Plâ yn Llundain yn cludo ymaith 30,000 o'r trigolion.
1503 Brwydr Cerignole: gwahanu Naples oddiwrth Ffrainc.
1507 Martin Luther yn dechreu y diwygiad.
1519 Charles I brenin Yspaen yn dyfod yn ymerawdr Germani tan enw Charles V. Yr enw amddiffynydd y ffydd yn cael ei roddi i Harri VIII. am gefnogi pabyddiaeth.
1525 Ffrancis I. yn cael ei wneyd yn garcharor yn mrwydr Pavia.
1527 Charles V. yn cymeryd ac yn yspeilio Rhufain, Mai 6.
1528 Plâ dinystriol yn Mhrydain.
1529 Yr enw Rhagdystiaid yn cael ei arfer gyntaf o gymanfa Spires.
1531 Harri VIII yn ben yr eglwys sefydledig.
1534 Y diwygiad Rhagdystiol yn dechreu yn Mhrydain.
1535 Hynt filwraidd Charles V. i Affrica.

1545 Cymanfa Trent yn dechreu, ac yn parhau 18 mlynedd.
1553 Edward VI, br. Lloegr yn marw, a Mary I yn dyfod i'r orsedd.
1558 Ffrainc yn ad-gymeryd Calais. Mary I yn marw, Tach 7.
1565 Cymanfa Trent yn terfynu.
1568 Mary o Ysgotland yn cael ei gorchfygu yn mrwydr Glasgow.
1571 Don John o Austria yn gorchfygu y Twrciaid yn Lepanto.
1573 Iarll Morton yn llywydd yr Ysgotiaid.
1582 Y pab Gregori yn sefydlu y cyfrif newydd. Hydref 5 yn cael ei alw y 15 fed.
1587 Mary, breninea yr Ysgotiaid yn cael ei dibenyddio trwy orchymyn y frenines Elizabeth.
1588 Distrywio llynges yr Yspaeniaid wrth geisio goresgynu Lloegr.
1589 Clement mewn brâd yn lladd Harri III, brenin Ffrainc. Syr Walter Raleigh yr hanesydd yn byw.
1594 Y Jesuitiaid yn cael eu dôol o Ffrainc.
1595 Shakspeare y bardd yn byw y pryd hyn.
1603 Y frenines Elizabeth yn marw Mawrth 24. Uno Prydyn, sef gwlad yr Ysgotiaid at Loegr.
1605 Brâd y Powdr gwn, Tach. 5.
1608 Galileo yn darganfod lleuadau y planedau gyntaf.
1610 Naw can mil o'r Mooriaid yn cael eu dëol o Yspaen.
1616 Y brenin James yn adferyd Fflushing, Brille, &c i'r Ellmyn.
1619 Harvey yn darganfod cylch-rediad y gwaed. Y rhyfel a barhaodd 50 mlynedd yn Germani yn dechreu.
1620 Brwydr Prague, yn yr hon mae yr etholydd ardalog yn colli ei dreftadaeth.
1625 James I. brenin Lloegr yn marw yn Theobald, Mawrth 27.
1631 Brwydr Leipsig, Awst 28. Plâ mawr yn Llundain
1632 Brwydr Lutzen, yn yr hon mae Gustavus Adolphus yn syrthio.
1635 Thomas Parr yn marw yn 152 mlwydd oed.
1640 Byddin o Ysgotiaid yn goresgynu gogledd-barth Lloegr, Awst 27 Portugal yn dyfod yn deyrnas annibynol, dan y duc o Braganza, Joan IV.
1642 Charles I yn carcharu pump seneddwr, yr hyn sydd yn dechreu y rhyfel cartrefol. Brwydr Edgehill, ar ddydd sul, Hydref 5.
1645 Bristol yn ymostwng i Rupert. Gwarchae ar Gaerloew.
1645 Brwydr Naseby.
1649 Dibenyddio Charles I, brenin Prydain, Ionawr 30.
1652 Y rhyfel gyntaf rhwng Prydain a Holland
1653 Oliver Cromwell yn ben amddiffynwr Prydain.
1654 Milton y bardd yn byw y pryd hwn
1655 Lloegr yn meddiannu Jamaica, Mai 7. Marwolaeth James Usher, archesgob Armagh
1658 Lloegr yn meddiannu Dunkirk gwedi brwydr waedlyd.
1660 Adferyd Charles II, Mai 29.
1661 Brenines Bohemia yn ymweled â Phrydain Mai 17, ac yn marw yno y Chwefror canlynol
1662 Y gymdeithas freninol yn Llundain yn cael ei sefydlu.
1665 Plâ dinystriol yn Llundain.
1666 Tân aruthr yn dinystrio rhan fawr o Lundain, Medi 2.
1668 Sefydlu heddwch Aix-la-Chapelle, Ebrill 22.
1669 Ynys Candia yn cael ei chymeryd gan y Twrciaid.

1672 Louis XIV. yn goresgynu Holland, ac yn cymeryd Utrecht.
1680 Seren wib fawr yn ymddangos o Dachwedd 3 i Mawrth 9
1683 Y Twrciaid yn gwarchae ar Vienna. Rhew mawr yn Mhrydain am 13 wythnos.
1685 Charles II yn marw. Dihenyddio duc Monmouth, Gor. 6.
1688 Iago II. yn ymddeol o'r orsedd i Ffrainc
1689 Cyhoeddi William tywysog Orange a Mary merch Iago II yn frenin a brenines Prydain, Chwef. 16.
1690 William III yn ymladd amryw frwydrau yn Ywerddon.
1700 Yr Elmyn a rhagdystiaid Germania yn derbyn y cyfrif newydd. Ffrederic I. yn frenin cyntaf Prussia.
1702 William III yn marw Mawrth 8. Cyhoeddi rhyfel rhwng Ffrainc ac Yspaen.
1704 Y llyngesydd Rook yn cymeryd Gibraltar, Gorphenaf 24.
1706 Brwydr Ramalies. Mai 12 Undeb Lloegr â Phrydyn neu Ysgotland yn cael ei sefydlu, Gor 22.
1709 Brwydr Pultowa, Meh 30 Brwydr Malplaquet, Medi 11.
1714 Y frenines Anne yn marw, a George etholydd Hanover yn cael ei gyhoeddi yn frenin Prydain.
1715 Gwrthryfel yn Mhrydain yn dechreu yn Medi.
1716 Rhew mawr: ffair ar afon Lundain.
1718 Y llyngesydd Byng yn dinystrio llynges Yspaen, Gor. 31.
1719 Esgob Rochester yn cael ei ddeol o'r deyrnas am frad-gyfrinach.
1727 Y brenin George I yn marw, Meh 11. Yr Yspaeniaid yn ymosod ar Gibraltar.
1733 Augustus I brenin Poland yn marw. Gwrthryfel yn Poland.
1739 Rhew mawr yn Mhrydain.
1743 Brwydr Dettingen, Meh 16.
1745 Brwydr Fontenoy, Ebr. 30. Ail wrthryfel yn Mhrydain.
1746 Brwydr Culloden yn cael ei hennill gan duc Cumberland, Ebr. 16.
1747 Anson yn dinystrio llynges Ffrainc.
1748 Heddwch Aix-la-Chapelle, Hydref 7.
1751 Ffrederic tywysog Cymru, tad George III yn marw, Mawrth 20.
1752 Prydain yn derbyn y cyfrif newydd.
1755 Daeargryn yn dinystrio Lisbon, Tach. 1.
1757 Cymeryd Chandernagore yn India, Mawrth 23. Brwydr Prague,
1758 Amryw ranau o Hindostan yn ymostwng i arfau Prydain.
1759 Brwydr Pondicherry, Medi 10. Brwydr Quebec, Medi 13.
1760 George II yn marw, Hydr. 25, oed 77.
1761 George III yn cael ei goroni, Meh. 8.
1762 Cyhoeddi rhyfel yn erbyn Yspaen. Lloegr yn cymeryd Martinico, Grenada, Havannah, &c.
1762 Gen. George Augustus Ffrederic, tywysog Cymru, Awst 12.
1763 Gorphen alltudiaeth y Jesuitiaid o Ffrainc.
1764 Dewis Stanislaus Poniatowski yn frenin Poland, Medi 6.
1766 Gwrthryfel yn Yspaen yn peri i'r brenin ddianc o Madrid. Brenin Denmarc yn priodi y dywysoges Caroline, chwaer ei fawrhydi George III.
1767 Alltudio y Jesuitiaid o Yspaen a Naples.
1768 Rhyfel rhwng y Russiaid ac y Twrciaid.
1770 Arglwydd North yn cael ei wneyd yn weinidog Prydain.
1771 Llynges Twrci yn cael ei llosgi gan lynges Russia, Gorphenaf 5.

1545 Cymanfa Trent yn dechreu, ac yn parhau 18 mlynedd.
1553 Edward VI, br. Lloegr yn marw, a Mary I yn dyfod i'r orsedd.
1558 Ffrainc yn ad-gymeryd Calais. Mary I yn marw, Tach 7.
1565 Cymanfa Trent yn terfynu.
1568 Mary o Ysgotland yn cael ei gorchfygu yn mrwydr Glasgow.
1571 Don John o Austria yn gorchfygu y Twrciaid yn Lepanto.
1573 Iarll Morton yn llywydd yr Ysgotiaid.
1582 Y pab Gregori yn sefydlu y cyfrif newydd. Hydref 5 yn cael ei alw y 15 fed.
1587 Mary, brenines yr Ysgotiaid yn cael ei dibenyddio trwy orchymyn y frenines Elizabeth.
1588 Distrywio llynges yr Ysparniaid wrth geisio goresgynu Lloegr.
1589 Clement mewn brâd yn lladd Harri III, brenin Ffrainc. Syr Walter Raleigh yr hanesydd yn byw.
1594 Y Jesuitiaid yn cael eu dëol o Ffrainc.
1595 Shakspeare y bardd yn byw y pryd hyn.
1603 Y frenines Elizabeth yn marw Mawrth 24. Uno Prydyn, sef gwlad yr Ysgotiaid at Loegr.
1605 Brâd y Powdr gwn, Tach. 5.
1608 Galileo yn darganfod lleuadau y planedau gyntaf.
1610 Naw can mil o'r Mooriaid yn cael eu dëol o Yspaen.
1616 Y brenin James yn adferyd Fflushing, Brille, &c i'r Ellmyn.
1619 Harvey yn darganfod cylch-rediad y gwaed. Y rhyfel a barhaodd 50 mlynedd yn Germani yn dechreu.
1620 Brwydr Prague, yn yr hon mae yr etholydd ardalog yn colli ei dreftadaeth.
1625 James I brenin Lloegr yn marw yn Theobald, Mawrth 27.
1631 Brwydr Leipsig, Awst 28. Plâ mawr yn Llundain
1632 Brwydr Lutzen, yn yr hon mae Gustavus Adolphus yn syrthio.
1635 Thomas Parr yn marw yn 152 mlwydd oed.
1640 Byddin o Ysgotiaid yn goresgynu gogledd-barth Lloegr, Awst 27. Portugal yn dyfod yn deyrnas annibynol, dan y duc o Braganza, Joan IV.
1642 Charles I yn carcharu pump seneddwr, yr hyn sydd yn dechreu y rhyfel cartrefol. Brwydr Edgehill, ar ddydd sul, Hydref 5.
1645 Bristol yn ymostwng i Rupert. Gwarchae ar Gaerloew.
1645 Brwydr Naseby.
1649 Dibenyddio Charles I, brenin Prydain, Ionawr 30.
1652 Y rhyfel gyntaf rhwng Prydain a Holland
1653 Oliver Cromwell yn ben amddiffynwr Prydain.
1654 Milton y bardd yn byw y pryd hwn
1655 Lloegr yn meddiannu Jamaica, Mai 7. Marwolaeth James Usher, archesgob Armagh.
1658 Lloegr yn meddiannu Dunkirk gwedi brwydr waedlyd.
1660 Adferyd Charles II, Mai 29.
1661 Brenines Bohemia yn ymweled â Phrydain Mai 17, ac yn marw yno y Chwefror canlynol
1662 Y gymdeithas freninol yn Llundain yn cael ei sefydlu.
1665 Plâ dinystriol yn Llundain.
1666 Tân aruthr yn dinystrio rhan fawr o Lundain, Medi 2.
1668 Sefydlu heddwch Aix-la-Chapelle, Ebrill 22.
1669 Ynys Candia yn cael ei chymeryd gan y Twrciaid.

Ancona; 12,000 o garcharorion, Chwef. 20. Iarll St. Vincent yn gorchfygu llynges Yspaen. 1,200 o Ffrancod yn tirio yn Nghymru, ac yn cael eu gwneyd yn garcharorion. Duncan yn difetha llynges yr Hollandiaid. Brenin Prussia yn marw Tach. 16. Saith-sylltau aur yn dyfod allan gyntaf, Tach. 29.

1798 Y pab Pius VI. yn cael ei ddiorseddu. Y Ffrancod yn goresgyn Switzerland. Brenin Poland yn marw. Malta yn cael ei chymeryd oddiar y Saeson. Buonaparte yn tirio yn yr Aipht. Nelson yn gorchfygu llynges Ffrainc allan i aber y Nile, Awst. 1 Warren yn gorchfygu y Ffrancod allan i'r Ywerddon.

1799 Cymeryd Seringapatam a lladd Tippoo Saib, Mai 4. Pab Pius yn marw yn Valence. Cymeryd Surinam oddiar yr Hollandiaid. Gwneyd Buonaparte yn brif o driwyriaid Ffrainc, Tach. 10. Marwolaeth y llywydd Washington, Tach. 15.

1800 Brwydr Marengo: lladd Kleber yn yr Aipht, Meh. 14. Malta yn cael ei chymeryd oddiar y Ffrancod, Medi 5. Uno Ywerddon at Loegr.

1801 Ffrainc a Germani yn ymheddychu. Dibenyddio Paul I ymerawdr Russia, Maw. 24, ac Alexander yn cael ei gyhoeddi. Nelson yn dyfetha llynges Denmarc wrth Copenhagen, Ebr. 2. Llunio cynlluniau heddwch rhwng Lloegr a Ffrainc, Hydref 1.

1802 Heddwch rhwng Lloegr, Ffrainc, Yspaen a Holland, Maw. 27.

1803 Y rhyfel rhwng Lloegr a Ffrainc yn ymadnewyddu, Mai 16. Cymeryd St. Lucia a Tobago. Arglwydd Kilwarden yn cael ei ladd mewn terfysg yn Dublin, Gor. 23. Y Ffrancod yn cymeryd Hanover.

1804 Buonaparte yn cael ei gyhoeddi yn ymerawdr Ffrainc, Mai 10. Y pab yn ei goroni yn Paris, Rhag. 2.

1805 Buonaparte yn frenin Itali, Mai 26. Daeargryn ddinystriol yn neheubarth Itali. Austria a Russia yn ymuno yn erbyn Ffrainc. Brwydr Trafalgar, yn yr hon y syrthiodd y llyngesydd Nelson, Hyd 21. Y Ffrancod yn meddiannu Vienna, Tach. 14. Brwydr Austerlitz, yn yr hon y mae byddinoedd Austria a Russia tan arweiniad y ddau ymerawdr yn cael eu gorchfygu gan Napoleon.

1806 Marwolaeth William Pitt prif weinidog Prydain Ion. 23. Prussia yn cyhoeddi yn erbyn Lloegr. Cyhoeddi Louis Buonaparte yn frenin Holland, Meh. 11. Y Saeson yn cymeryd Buenos Ayres. Marwolaeth Charles Fox, prif weinidog Prydain, Medi 13 Brwydr Jena, yn yr hon mae Ffrainc yn gwneyd 28,000 o Brussiaid yn garcharorion, Hyd 14.

1807 Gwrthryfel yn Twrci: yr ymerawdr Selim III yn cael ei ladd. Dantzic yn ymostwng i'r Ffrancod. Y Saeson yn gwarchae ar Copenhagen ac ei llynges yn cael ei harwain i Brydain. Russia yn cyhoeddi yn erbyn Lloegr. Teulu breninol Portugal yn dianc i Brasil ac y Ffrancod yn meddiannu Lisbon.

1808 Joseph Buonaparte yn cael ei gyhoeddi yn frenin Yspaen, Meh 6. Murat yn cael ei gyhoeddi yn frenin y ddwy Sicily. Syr Arthur Wellesley yn gorchfygu y Ffrancod yn Portugal, Awst. 21. Ymerawdwyr Ffrainc a Russia yn Erfurth, Medi 27.

1809 Brwydr Corunna, a'r llywydd Syr John Moore yn cael ei ladd. Y Saeson yn cymeryd Martinico. Brwydr Talavera, Gor. 21. Hynt filwraidd o 100,000 o wyr dan iarll Chatham yn hwylio i

1772 Gwrthryfel yn Denmarc: carcharu y frenines. Gwrthryfel yn Sweden yn terfynu yn anymddibyniaeth y brenin.
1773 Y pab yn difodi urdd y Jesuitiaid, Awst 17. Cynnwrf yn dechreu yn America trwy ddinystrio tê mewn tair llong yn Boston, Rhag 18.
1775 Brwydr gyntaf rhyfel America yn Lexington, Ebr. 19. Brwydr Bunker's hill. Meh. 17.
1776 America yn ei chyhoeddi ei hun yn wlad annibynol.
1778 Ffrainc yn ymheddychu ag America. Rhyfel rhwng Austria a Phrussia. Cymeryd Pondicherry, Hydr. 17.
1780 Y llyngesydd Rodney yn cymeryd 22 o longau rhyfel Yspaen. Cynnwrf yn Llundain Gorphenaf. Cyhoeddi rhyfel yn erbyn Holland, Rhag. 20.
1782 Rodney yn gorchfygu llynges Ffrainc, Ebr. 12. Lloegr yn addef America yn annibynol.
1784 Cyhoeddi heddwch ag America, Maw. 24; â Holland, Mai 24.
1787 Cynnen rhwng brenin Ffrainc ac ei senedd yn dechreu.
1788 Rhyfel rhwng Twrci, Germani, a Russia.
1789 Gwrthryfel yn Ffrainc: dinystrio y Bastîl, Gor. 20.
1790 Joseph II. ymerawdr Germani yn marw. Gor-enwau yn cael eu diddymu yn Ffrainc.
1791 Louis XVI ac ei deulu yn dianc o Ffrainc, ond yn cael eu dal yn Varennes.
1792 Aeth Ioan Evans o Arfon i America, er olrhain gwlad y Madawgwys; ac yn y ddwy flynedd ganlynol aeth 800 a 1,300 o filltiroedd i fynu hyd afon Missouri, ond gorfu iddo ddychwelyd heb gyrhaedd y wlad, a daeth i ddinas Orleans ar aber afon Mississippi, lle bu farw o glefyd yn y flwyddyn 1795.—Angau disyfed Leopold II ymerawdr Germani, Maw 1. Ankerstrom yn saethu Gustavus III brenin Sweden. Ffrainc yn cyhoeddi yn erbyn Germani. Carcharu breninol deulu Ffrainc. Dihenyddio y dywysoges Lamballe a mil o fawrion, offeiriaid, &c. Cyhoeddi Ffrainc yn werin-lywodraeth.
1793 Dihenyddio Louis XVI, Ion. 21. Ffrainc yn cyhoeddi yn erbyn Prydain, Holland, ac Yspaen. Dumourier yn ceisio adferyd y frenhiniaeth. Dihenyddio brenines Ffrainc, Hyd. 16. Dihenyddio duc Orleans.
1794 Dihenyddio Elizabeth chwaer brenin Ffrainc. Buddugoliaeth Howe ar lynges y Ffrancod, Meh. 1. Dihenyddio Robespierre ac ei fintai, liw nos.
1795 Gwrthryfel yn Holland: y Stadtholder yn dianc i Brydain. Tywysog Cymru yn priodi y dywysoges Charlotte o Brunswic, Ebr. 8. Ffrainc ac Yspaen yn ymheddychu. Cymeryd penrhyn deau Affrica oddiar yr Ellmyn. Stanislaus yn gorfod rhanu ei deyrnas rhwng y Russiaid, Austriaid, a'r Prussiaid, Tach. 22.
1796 Genedigaeth Charlotte tywysoges Cymru, Ion. 7. Yspaen yn cyhoeddi yn erbyn Prydain. Brenin Sardinia yn marw, Hyd. 17. Cathrine II. ymerodres Russia yn marw, Tach. 17. Byddin o Ffrancod yn tirio yn Ywerddon.
1797 Buonaparte yn gorchfygu yr Austriaid yn Verona, yn gwneyd 25,000 yn garcharorion, Ion. 14. Yn dinystrio byddin y pab yn

Ancona; 12,000 o garcharorion, Chwef. 20. Iarll St. Vincent yn gorchfygu llynges Yspaen. 1,200 o Ffrancod yn tirio yn Nghymru, ac yn cael eu gwneyd yn garcharorion. Duncan yn difetha llynges yr Hollandiaid. Brenin Prussia yn marw Tach. 16. Saith-sylltau aur yn dyfod allan gyntaf, Tach. 29.

1798 Y pab Pius VI. yn cael ei ddiorseddu. Y Ffrancod yn goresgyn Switzerland. Brenin Poland yn marw. Malta yn cael ei chymeryd oddiar y Saeson. Buonaparte yn tirio yn yr Aipht. Nelson yn gorchfygu llynges Ffrainc allan i aber y Nile, Awst. 1 Warren yn gorchfygu y Ffrancod allan i'r Ywerddon.

1799 Cymeryd Seringapatam a lladd Tippoo Saib, Mai 4. Pab Pius yn marw yn Valence. Cymeryd Surinam oddiar yr Hollandiaid. Gwneyd Buonaparte yn brif o driwyriaid Ffrainc, Tach. 10. Marwolaeth y llywydd Washington, Tach. 15.

1800 Brwydr Marengo: lladd Kleber yn yr Aipht, Meh. 14. Malta yn cael ei chymeryd oddiar y Ffrancod, Medi 5. Uno Ywerddon at Loegr.

1801 Ffrainc a Germani yn ymheddychu. Dibenyddio Paul I ymerawdr Russia, Maw. 24, ac Alexander yn cael ei gyhoeddi. Nelson yn dyfetha llynges Denmarc. wrth Copenhagen, Ebr. 2. Llunio cynlluniau heddwch rhwng Lloegr a Ffrainc, Hydref 1.

1802 Heddwch rhwng Lloegr, Ffrainc, Yspaen a Holland, Maw. 27.

1803 Y rhyfel rhwng Lloegr a Ffrainc yn ymadnewyddu, Mai 16. Cymeryd St. Lucia a Tobago. Arglwydd Kilwarden yn cael ei ladd mewn terfysg yn Dublin, Gor. 23. Y Ffrancod yn cymeryd Hanover.

1804 Buonaparte yn cael ei gyhoeddi yn ymerawdr Ffrainc, Mai 10. Y pab yn ei goroni yn Paris, Rhag. 2.

1805 Buonaparte yn frenin Itali, Mai 26. Daeargryn ddinystriol yn nebeubarth Itali. Austria a Russia yn ymuno yn erbyn Ffrainc. Brwydr Trafalgar, yn yr hon y syrthiodd y llyngesydd Nelson, Hyd 21. Y Ffrancod yn meddiannu Vienna, Tach. 14. Brwydr Austerlitz, yn yr hon y mae byddinoedd Austria a Russia tan arweiniad y ddau ymerawdr yn cael eu gorchfygu gan Napoleon.

1806 Marwolaeth William Pitt prif weinidog Prydain Ion. 23. Prussia yn cyhoeddi yn erbyn Lloegr. Cyhoeddi Louis Buonaparte yn frenin Holland, Meh. 11. Y Saeson yn cymeryd Buenos Ayres. Marwolaeth Charles Fox, prif weinidog Prydain, Medi 13 Brwydr Jena, yn yr hon mae Ffrainc yn gwneyd 28,000 o Brussiaid yn garcharorion, Hyd 14.

1807 Gwrthryfel yn Twrci: yr ymerawdr Selim III yn cael ei ladd. Dantzic yn ymostwng i'r Ffrancod. Y Saeson yn gwarchae ar Copenhagen ac ei llynges yn cael ei harwain i Brydain. Russia yn cyhoeddi yn erbyn Lloegr. Teulu breninol Portugal yn dianc i Brasil ac y Ffrancod yn meddiannu Lisbon.

1808 Joseph Buonaparte yn cael ei gyhoeddi yn frenin Yspaen, Meh 6. Murat yn cael ei gyhoeddi yn frenin y ddwy Sicily. Syr Arthur Wellesley yn gorchfygu y Ffrancod yn Portugal, Awst. 21. Ymerawdwyr Ffrainc a Russia yn Erfurth, Medi 27.

1809 Brwydr Corunna, a'r llywydd Syr John Moore yn cael ei ladd. Y Saeson yn cymeryd Martinico. Brwydr Talavera, Gor. 21. Hynt filwraidd o 100,000 o wyr dan iarll Chatham yn hwylio i

Holland. Jubilee ar y 50 flwyddyn o deyrnasiad George III yn cael yn ei chynnal Hydr 25 Lluoedd Lloegr yn dychwelyd o Holland heb gyflawni eu bwriad Rhag 13.

1810 Y Saeson yn cymeryd Guadaloupe. Buonaparte yn priodi Maria Louisa, archduges Austria. Bernadotte yn cael ei wneyd yn etifedd coron Sweden, Awst 21.

1811 Brwydr Barrosa, Maw. 5. Brwydr Albuera, Mai 16. Y Saeson yn cymeryd Batavia, Awst 8. Duc Wellington yn gorchfygu byddin Massena, Mai 5

1812 Duc Wellington yn cymeryd Cuidad Rodrigo, Ion. 12. a Badajoz, Mai 19. Heddwch rhwng Lloegr, Russia, a Sweden. Gor. 18. Wellington yn myned i Madrid Awst. 14 Brwydr Borodino yn Russia, Medi 11. Y Ffrancod yn Moscow, a llosgi y ddinas Hydr. 22. Buonaparte yn gadaw ei fyddin ac yn dychwelyd i Paris, Rhag. 5. Y Russiaid yn ymlid y Ffranciaid o Wilna, Rhag. 11. Buonaparte yn Paris Rhag. 18.

1813 Brwydr Lutzen, Mai 2. Y llong ryfel Shannon yn cymeryd y Chesapeake o America Meh. 1. Brwydr Vittoria, yn yr hon mae Wellington yn llwyr orchfygu Joseph Bonaparte, Meh. 31. Brwydr St. Sebastian, Awst 31.

1814 Buonaparte yn gadael Paris i ymuno a'i fyddinoedd yn erbyn y lluoedd cyngrheiriol, Chwef 23. Blucher yn gorchfygu Buonaparte wrth Laon, Maw. 9. Y Cyngrheirwyr yn myned i Paris, Maw. 31. Buonaparte yn ymddeol o orsedd Ffrainc, Ebr. 6. Louis XVIII yn cyrhaedd Paris, Mai 2. Heddwch cyffredinol yn cael ei gyhoeddi, Meh. 2. Ymerawdr Russia a brenin Prussia yn Llundain, Meh. 6; ac yn ei gadael, Meh. 27. Y Saeson yn cymeryd dinas Washington.

1815. Buonaparte yn tirio yn Ffrainc o Elba, Maw 3; yn cyrhaedd Paris Maw. 23. Brwydr Waterloo yn yr hon mae lluoedd Napoleon yn cael eu llwyr orthrechu gan duc Wellington ac y tywysog Blucher, Meh. 18. Y cyngrheirwyr yn Paris, Gor. 3 Buonaparte yn ei ymroddi ei hun i'r cadpen Maitland yn y Bellerophon wrth Rochfort, Gor. 15. Buonaparte yn cychwyn yn y Northumberland i St. Helena, Awst 7. Saethu Murat brenin Naples, Hydref 13. Buonaparte yn tirio yn St. Helena, Hydr. 13. Lavalette yn cael ei ddyfarnu i farwolaeth, Tach. 21. Heddwch cyffredinol yn cael ei gyhoeddi yn Paris, Tach. 29. Y llywydd Ney yn cael ei saethu, Rhag. 7. Lavalette yn dianc o'r carchar yn ngwisg ei wraig.

1816 Alexander o Russia yn deol ymaith y Jesuitiaid o'i ymerodraeth am fygwth dadymchwel crefydd y deyrnas Ion. 20. Pla dinistriol yn Venice, Chwefror. Y Caethion yn Barbadoes yn codi yn erbyn yr Ewropiaid, Ebrill 24. Priodas y dywysoges Charlotte o Gymru a thywysog Cobourg, Mai 2. Gwrthryfel yn Tunis: y Bey yn cael ei ladd, Mai 28. Llynges i fod tan arweiniad arglwydd Exmouth yn cael ei pharotoi i ymosod ar Morocco, i'r dyben o ryddhau y Cristionogion o gaethiwed.

# Cantrefydd a Phlwyfydd Gwynedd a Deheubarth, yn nghyd a rhifedi y Trigolion yn mhob plwyf, yn ol y cyfrifiad a wnaed trwy orchymyn y Llywodraeth yn y flwyddyn 1811.

P. *plwyf.* T. *treflan.* M. *maenor.* *P. *plwyf ychwanegol.* *Bwr.* *bwrdeisdref.*

## SWYDD BRYCHEINIOG.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion* | *Merched* |
|---|---|---|---|
| **BUALLT:** | | | |
| Yr Allt Fawr | P. | 18 | 14 |
| Clawdd Madog (*a*) | M. | 145 | 140 |
| Gwarafog (*b*) | M. | 33 | 28 |
| Llanafan Fawr (*c*) | P. | 300 | 357 |
| Llanafan Fach (*b*) | P. | 55 | 90 |
| Llanddewi Abergwesyn | P. | 54 | 71 |
| Llanddewi y Cwm | P. | 104 | 105 |
| Llandulas | P. | 70 | 83 |
| Llanfair | P. | 384 | 431 |
| Llanfihangel Abergwesyn | P. | 137 | 170 |
| Llanfihangel y Bryn (*d*) | P. | 89 | 118 |
| Llanganten | P. | 82 | 82 |
| Llangynog | P. | 28 | 36 |
| Llanlleon well (*b*) | P. | 74 | 85 |
| Llanwrthwl | P. | 221 | 254 |
| Llanynys | P. | 83 | 111 |
| Llechweddor (*d*) | M. | 111 | 131 |
| Llys Dinam (*c*) | M. | 90 | 101 |
| Maesmynys | P. | 146 | 147 |
| Penbuallt (*e*) | M. | 203 | 251 |
| Rhosfeirig (*d*) | M. | 50 | 51 |
| Treflys (*e*) | M. | 221 | 234 |
| | | 2,698 | 3,090 |
| **CRUG HYWEL:** | | | |
| Aberbaidan (*f*) | M. | 590 | 607 |
| Blaenau (*g*) | M. | 80 | 98 |
| Crug-hywel | P | 291 | 320 |
| Dyffryn (*h*) | M. | 343 | 300 |
| Cenol (*g*) | M. | 89 | 100 |
| Cilwig (*g*) | M. | 138 | 157 |
| Llanbedr (*i*) | P. | 156 | 163 |
| Llangenni | P. | 151 | 212 |
| Maesgwartha (*f*) | M. | 398 | 326 |
| Patrishow | P. | 45 | 45 |
| Penallt (*k*) | M. | 194 | 210 |
| Prysg a Cillau (*k*) | M. | 427 | 432 |
| Tretwr (*g*) | M. | 116 | 150 |
| Y Fro (*h*) | M. | 231 | 252 |
| | | 3,249 | 3,272 |
| **DYFYNOG:** | | | |
| Callwen (*m*) | M. | 45 | 29 |
| Crai (*m*) | M. | 232 | 277 |
| Dewi, St. (*n*) | P. | 79 | 97 |
| Glyn (*m*) | M. | 100 | 92 |
| Llanyspyddid (*o*) | P. | 87 | 99 |
| Maescar (*m*) | M | 314 | 351 |
| Modrydd (*o*) | M. | 66 | 73 |
| Penderyn | P. | 626 | 569 |
| Pen y Bont (*o*) | M. | 65 | 58 |
| Senni (*m*) | M. | 143 | 186 |
| Traian Glas (*p*) | M. | 306 | 364 |
| Traian Mawr (*p*) | M. | 248 | 295 |
| Ysglydach (*p*) | M. | 179 | 175 |
| Ystradvellty | P. | 572 | 669 |
| Ystradgynlais | P. | 349 | 364 |
| | | 3,406 | 3,638 |

(*a*) Clawdd Madog a Llechweddor ydynt blwyf Llanwrtyd.—(*b*) Gwarafog sy mewn rhan yn mhlwyf Llanafan Fechan, a Llanlleon well.—(*c*) Llys Dinam sydd yn mhlwyf Llanafan Fawr.—(*d*) Rhosfeirig sydd yn Llanfihangel bryn Pabjoan.—(*e*) Penbuallt a Threflys ydynt yn llunio plwyf Llangamarch.—(*f*) Aberbaidau a Maesgwartha ydynt blwyf Llanelli.—(*g*) Blaenau, Cenol, Cilwic, a Tretwr ydynt blwyf Llanfihangel neu Michael Cwm Du.—(*h*) Dyffryn ac y Fro ydynt blwyf Llangynidr.—(*i*) Rhwng Bysych a'r Graigwen.—(*k*) Penallt, Prysg a Ciliau ydynt blwyf Llangadog.—(*m*) Callwen-glyn tywl, Crai, Glyn, Maescar a Senni ydynt blwyf Dyfynog.—(*n*) Mae gweddill y plwyf hwn yn cael ei gyfrif gyd a thy Dewi yn niwedd y swydd.—(*o*) Modrydd a Phenybont ydynt yn mhlwyf Llanyspyddad.—(*p*) Traian glas, Traian mawr, ac Ysglydach ydynt blwyf Llywel—(*q*) Dyffryn Honddu, a'r ddwy Ysgyr

## SWYDD BRYCHEINIOG.—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **MERTHYR:** | | | |
| Aberyskip | P. | 64 | 69 |
| Battle | P. | 63 | 101 |
| Dyffryn Honddu (*q*) | M | 212 | 220 |
| Garth Bryngwy (*r*) | P. | 44 | 45 |
| Llandyvaelog fach (*t*) | P. | 84 | 101 |
| Llandeilo'r vanau | P. | 270 | 325 |
| Llanfihangel Nant Brân | P. | 228 | 271 |
| Llanfihangel Fechan (*t*) | M | 108 | 92 |
| Llanthew (rhan) (*s*) | P. | 71 | 90 |
| Trallwng (*u*) | P. | 155 | 158 |
| Gweni fach (*v*) | M. | 55 | 52 |
| Ysgyr fawr (*q*) | M. | 98 | 117 |
| Ysgyr fechan (*q*) | M. | 120 | 112 |
| | | 1,572 | 1,753 |
| **PENCELLI:** (*r*) | | | |
| Cantref (*x*) | P. | 66 | 75 |
| Dyffryn | M. | 85 | 108 |
| Llandyvaelog tre'r graig | P. | 25 | 23 |
| Llangasteu Talyllyn | P. | 79 | 77 |
| Llanhamlach (*a*) | P. | 82 | 67 |
| Llansanffraid | P. | 93 | 111 |
| Llanthew (rhan o) (*s*) | P. | 74 | 69 |
| Llanhilo | P. | 152 | 167 |
| Llanfeugant (*z*) | P. | 259 | 282 |
| Llanfrynach | P. | 137 | 151 |
| Llanywern | P. | 61 | 81 |
| Llechfaen (*a*) | M. | 70 | 63 |

| *Cantrefydd, Plwyfydd &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| Nantddu (*b*) | M. | 39 | 63 |
| Tylachdy | P. | 148 | 138 |
| Y Fainor | P. | 752 | 664 |
| Y Fro (*y*) | R. | 109 | 110 |
| | | 2,231 | 2,233 |
| **TALGARTH:** | | | |
| Aberllynvai (*c*) | M. | 49 | 45 |
| Bryn Llys | P. | 150 | 166 |
| Cathedine | P. | 86 | 98 |
| Cruc-cadarn | P. | 213 | 229 |
| Forest (*b*) | M. | 80 | 97 |
| Glasbury (rhan o) (*c*) | P. | 197 | 218 |
| Glynvach (*d*) | M. | 40 | 36 |
| Groyn Fawr (*b*) | M. | 17 | 18 |
| Groyn Fechan (*b*) | M. | 41 | 35 |
| Gwenddwfr | P. | 211 | 233 |
| Y Gelli (*e*) | Tr. | 524 | 575 |
| Y Gelli (*e*) | P. | 108 | 134 |
| Llandefalley | P. | 361 | 365 |
| Llanelieu | P. | 65 | 57 |
| Llanfihangel T. llyn / Llanygors | P. / P. | 80 | 89 |
| Llaneigon (*d*) | P. | 164 | 187 |
| Llys Wen | P. | 240 | 270 |
| Pwll y Wrach (*b*) | M. | 85 | 88 |
| Talgarth (*b*) | P. | 88 | 90 |
| Trevecca (*b*) | M. | 290 | 316 |
| | | 116 | 114 |
| | | 3,205 | 3,479 |
| BWRDEISDREF ABERHONDDU | | | |
| St. Dewi (*f*) | P. | 310 | 346 |
| St. Ioan (*g*) | P. | 538 | 674 |
| St. Mary | P. | 585 | 743 |
| | | 1,433 | 1,763 |

### CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai annedd.* | *Teuluoedd.* | *Tai gwag.* | *Meibion.* | *Merched.* | *Y cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BUALLT | 1,086 | 1,215 | 40 | 2,698 | 3,090 | 5,788 |
| CRUG HYWEL | 1,361 | 1,405 | 93 | 3,249 | 3,272 | 6,521 |
| DYFYNOG | 1,501 | 1,513 | 42 | 3,408 | 3,638 | 7,046 |
| MERTHYR | 641 | 668 | 33 | 1,572 | 1,753 | 3,325 |
| PENCELLI | 893 | 920 | 35 | 2,231 | 2,233 | 4,464 |
| TALGARTH | 1355 | 1,422 | 72 | 3,205 | 3,479 | 6,684 |
| BWRD. BRYCHEINIOG | 718 | 776 | 39 | 1,433 | 1,763 | 3,196 |
| Milwyr Cartrefol | | | | 711 | | 711 |
| Y cyfan. | 7,555 | 7,919 | 350 | 18,507 | 19,228 | 37,735 |

ydynt blwyf Merthyr Cynog.—(*r*) Garthbryngwy sy mewn rhan yn nghant. Pencelli; ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yn nghant. Merthyr.—(*s*) Llanthew sy mewn rhan yn nghant. Merthyr, ac mewn rhan yn Pencelli, ac felly yn cael ei gyfrif.—(*t*) Llanfihangel fechan sydd yn mhlwyf Llandyvaelog Fach. (*u*) Plwyf Trallwng sy mewn rhan yn nghant. Dyfynog, ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yma.—(*v*) Yn mhlwyf St. Joan yr Efangylwr yn Mrecheiniog. (*x*) Nantddu yw rhan uchaf plwyf Cantref.—(*y*) Dyffryn ac y Fro ydynt blwyf Llanthetty.—(*z*) Mae Llanveugant yn ddwy ran, ac yn cael eu galw weithiau Glyn Colwyn a Phencelli.—(*a*) Llechfaen yw rhan uchaf Llanhamlach.—

## SWYDD CAERFYRDDIN.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **CARNWYLLON:** | | | |
| Llanedi .......... | P. | 320 | 403 |
| Llanelli .......... | P. | 1,856 | 2,055 |
| Llangennach ..... | P. | 183 | 224 |
| Llan Nou ........ | P. | 556 | 643 |
| | | 2,915 | 3,305 |
| **CETHINOG:** | | | |
| Brechfa .......... | P. | 40 | 42 |
| Llanegwad (rhan o) (h) ........ | P. | 317 | 351 |
| Llangathen ...... | P | 468 | 549 |
| Llanllwyni ...... | P. | 320 | 346 |
| Llanfihangel Cilfargen ........ | P. | 26 | 28 |
| Llanfihangel .... Rhos y Corn .. | P. | 246 | 255 |
| Llanfihangel .... Yefroth ...... | P. | 813 | 840 |
| Llanybyddar ...... | P. | 380 | 442 |
| Llan y Crwys (a) .. | P | 72 | 74 |
| Llanfynydd ...... | P. | 546 | 645 |
| Pencarog ........ | P. | 442 | 454 |
| | | 3,670 | 4,026 |
| **CAEO:** | | | |
| Caeo ............ | P. | 793 | 903 |
| Cil-y-Cwm ...... | P. | 678 | 756 |
| Llandeveyson .... | P. | 125 | 143 |
| Llandeilo Fawr .. (rhan o) (aa) .. | P. | 526<br>410 | 577<br>439 |
| Llansawel ........ | P. | 234 | 260 |
| Llanwrda ........ | P. | 51 | 63 |
| Mynachdy (b) .... | M. | 424 | 456 |
| Talai ............ | P. | 93 | 81 |
| Ystrad (a) ...... | M. | | |
| | | 3,336 | 3,680 |
| **DERLLYS:** | | | |
| Clêre, St. ........ | P. | 335 | 411 |
| Eglwys Cymmun .. | P. | 138 | 129 |
| Egremont ........ | P. | 61 | 64 |
| Henllan Amgoed .. | P. | 211 | 255 |
| Cyffig ............ | P. | 203 | 251 |
| Cil Maenllwyd .... | P. | 220 | 231 |
| Larharn .......... | P. | 691 | 170 |
| Lanboidy regum .. | P. | 652 | 117 |
| Llandawke ...... | P. | 15 | 13 |
| Llandeilo Abercywyn .......... | P. | 31 | 28 |
| Llantysilio (rhan o) (c) ............ | P. | 211 | 251 |
| Llandyfrwr ...... | P. | 157 | 172 |
| Llangain ........ | P. | 122 | 179 |
| Llangan (rhan o) (c) .......... | P. | 222 | 304 |
| Llangynin ........ | P. | 133 | 161 |
| Llangludwen .... | P. | 88 | 114 |
| Llangynoch ...... | P. | 271 | 334 |
| Llansadyruyn .... | P. | 99 | 101 |
| Llanstephan ...... | P. | 431 | 566 |
| Llanfalteg, (rhan o) (c) .... ... | P. | 103 | 146 |
| Llanfihangel .... Abercywyn .... | P. | 290 | 367 |
| Llanwilio ........ | P. | 369 | 428 |
| Marrus .......... | P. | 84 | 110 |
| Meidrym ........ | P. | 390 | 466 |
| Pendine .......... | P. | 74 | 71 |
| | | 5,641 | 6,849 |
| **ELFED:** | | | |
| Abergwili ........ | P. | 833 | 956 |
| Abernant ........ | P. | 268 | 236 |
| Cynvyl Elfed .... | C. | 607 | 565 |
| Cenarth .......... | P. | 636 | 763 |

(*b*) Forest, y ddwy Groyn, Pwll y Wrach a Threvecca ydynt yn mhlwyf Talgarth.—(*c*) Aberllunvai sydd yn mhlwyf Glasbury, yr hwn sy mewn rhan yn nghant. Castell Paen (Maesyfed.)—(*d*) Glynfach sydd yn Llanelgon.—(*e*) Tref y Gelli sy mewn plwyf o'r un enw.—(*f*) A elwir weithiau Llanfaes. (*g*) Yn cynnwys maenor Efenni fach (gwel cantref Merthyr.)

(*a*) Mae Fforest, Tolyoh, ac Ystrad, gyd a thref Llanymddyfri (cant. Perfedd) yn llunio plwyf Llandingad.—(*aa*) Llandeilo-Fawr sy mewn rhan yn nghant. Perfedd, ac yn cael ei gyfrif yno.—(*b*) Mynachdy sydd yn mhlwyf Llan y Crwys.—(*c*) Mewn rhan yn nghantref Deugleddyf (Penfro) ac yn cael ei gyfrif yno.—(*d*) Mewn rhan yn nghant. Cilgeraint (Penfro) ac yn cael ei gyfrif yno.—(*e*) Gwel gant. Perfedd, nod.(*g*)—(*h*) Llanegwad sy mewn rhan yn Nghethinog, ac mewn rhan yn Elfed, ac felly yn cael ei gyfrif.—(*f*) Chwarter Mawr a Gwidre ydynt yn mhlwyf Llanddeusant.—(*g*) Glynaman, Bryn y Beirdd, Pentre Cwm, Trecastell a Phregib yn nghant. Iscennin; a Llandeilo villa, Maenorfabon, Taliaris, a Tir yr Esgob yn nghant. Perfedd, ydynt yn Llandeilo Fawr, (gwel cant. Caeo).—(*h*) Yn cynnwys Rhandir isaf, y ganol, a'r uchaf.—(*i*) Pentre'r cwm sydd yn nghant. Iscennin, ac yn cael ei gyfrif yno.

## SWYDD CAERFYRDDIN—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| Cilrhedyn (rhan o) (*d*) | P. | 249 | 284 |
| Llanegwad (rhan o) (*h*) | P. | 558 | 577 |
| Llangeler | P. | 661 | 716 |
| Llanllawddog | P. | 284 | 325 |
| Llanpumsaint | P. | 212 | 237 |
| Merthyr | P. | 103 | 120 |
| Newchurch | P. | 337 | 342 |
| Penboyr | P. | 384 | 456 |
| Trelech ar Bettws | P. | 540 | 591 |
| | | 5,562 | 6,178 |
| **ISCENNIN:** | | | |
| Bettws | P. | 267 | 341 |
| Glynaman (*e*) | M. | 93 | 105 |
| Llanarthneu | P. | 733 | 876 |
| Llanddarog | P. | 339 | 414 |
| Llandybiau | P. | 843 | 944 |
| Llandeilo Bryn y Beirdd (*e*) | M | 129 | 140 |
| Llandeilo Pentre'r Cwm (*e*) | M | 125 | 160 |
| Llandeilo Tref-Castell (*e*) | M | 91 | 105 |
| Llandeilo Tregib (*e*) | M | 150 | 160 |
| Llanfihangel Aberbyddych | P. | 334 | 384 |
| | | 3,1[illegible]4 | 3,629 |

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **CYDWELI:** | | | |
| Ismael, St. | P. | 268 | 373 |
| Cydweli | P. | 613 | 828 |
| Llandyfeilog | P. | 506 | 583 |
| Llangyndeyrn | P | 943 | 1,169 |
| Llangunog | P | 393 | 536 |
| Penpru | P. | 663 | 865 |
| | | 3,386 | 4,353 |
| **PERFEDD:** | | | |
| Chwarter mawr (*f*) | M. | 83 | 105 |
| Gwidre (*f*) | M. | 105 | 110 |
| Llandeilo villa (*g*) | M. | 359 | 417 |
| Llanymddyfri (*a*) | T. | 680 | 762 |
| Llanfair eunbryn (*h*) | P. | 660 | 823 |
| Llangadog | P. | 935 | 1,029 |
| Llansadwrn | P. | 461 | 494 |
| Llanddeusant (*f*) | P. | 188 | 216 |
| Maenorfabon (*g*) | M. | 175 | 201 |
| Myddfai | P. | 548 | 573 |
| Pentre Cwm (*i*) | M. | ..... | ..... |
| Rhandir Abbot (*h*) | M. | .... | ..... |
| Taliaris (*g*) | M. | 45 | 73 |
| Tir Esgob (*g*) | M. | 903 | 196 |
| | | 4,442 | 4,963 |
| SWYDD BWRDEISDREF CAERFYRDDIN, | P. | 3,121 | 4,154 |

### CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai anned* | *Teuluoedd* | *Tai gwag.* | *Meibion* | *Merched.* | *Y cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CARNWYLLON | 1,334 | 1,335 | 38 | 2,915 | 3,305 | 6,220 |
| CETHINOG | 1,537 | 1,614 | 44 | 3,670 | 4,026 | 7,696 |
| CAEO | 1,331 | 1,401 | 40 | 3,336 | 3,680 | 7,016 |
| DERLLYS | 2,493 | 2,476 | 41 | 5,641 | 6,849 | 12,490 |
| ELFED | 2,346 | 2,413 | 43 | 5,562 | 6,178 | 11,740 |
| ISCENNIN | 1,306 | 1,353 | 16 | 3,104 | 3,629 | 6,733 |
| CYDWELI | 1,509 | 1,619 | 30 | 3,386 | 4,353 | 7,739 |
| PERFEDD | 1,861 | 2,009 | 31 | 4,442 | 4,963 | 9,405 |
| BWRDEISDREF CAERFYRDDIN | 1,139 | 1,763 | 50 | 3 121 | 4,154 | 7,275 |
| Milwyr Cartrefol | | | | 903 | | 903 |
| Y cyfan. | 14,856 | 16,083 | 333 | 36,080 | 41,137 | 77,217 |

## SWYDD CAERNARVON.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **CWMWDMAEN:** | | | |
| Aberdaron | P. | 710 | 732 |
| Enlli | P. | 4[illegible] | 31 |
| Bodferin | P. | 41 | 46 |

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| Bryncroes (*a*) | P | 312 | 468 |
| Llandegwning | P | 88 | 85 |
| Llanengan (*a*) | P. | 415 | 497 |
| Llanfaelrhys | P. | 116 | 130 |

(*a*) Bryn Croes, Myllteyrn, Llanengan, Llaniestyn a Llannor ydynt mewn rhan yn nghantref Caffylogion.—(*b*) Eirias sydd yn mhlwyf Llandrillo (gwel gant. Isdulas, Dinbych.)—(*bb*) Tydweiliog sy mewn rhan yn nghant. Cwmwd-

## SWYDD CAERNARVON—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meib-ion.* | *Merch-ed.* |
|---|---|---|---|
| Llangwnadl | P. | 155 | 172 |
| Myllteyrn (*a*) | P | 116 | 135 |
| Penllech | P. | 124 | 131 |
| Rhiw | P. | 133 | 185 |
| | | 2,249 | 2,612 |
| **CREUDDYN:** | | | |
| Eglwys Rhos | P. | 197 | 185 |
| Eirias (*b*) | T. | 44 | 50 |
| Llandudno | P. | 248 | 204 |
| Llangystenyn | P. | 179 | 20[illegible] |
| Llysfaen | P. | 188 | 191 |
| | | 856 | 83[illegible] |
| **DINLLEYN:** | | | |
| Abererch | P. | 600 | 528 |
| Boduan | P. | 180 | 176 |
| Ceidio | P. | 71 | 66 |
| Edeyrn | P. | 198 | 217 |
| Llandudwen | P. | 52 | 46 |
| Llaniestyn (*a*) | P. | 434 | 451 |
| Llannor (*a*) | P. | 572 | 571 |
| Nefyn | P. | 470 | 707 |
| Pistyll | P. | 248 | 254 |
| Tydweiliog (*bb*) | P. | 193 | 195 |
| | | 3,018 | 3,211 |
| **EIFIONYDD:** | | | |
| Beddgelert (*c*) | P. | 356 | 391 |
| Cruccaith | P. | 214 | 235 |
| Dolbenmaen (*d*) | P. | 91 | 150 |
| Llanarmon | P. | 262 | 265 |
| Llanfihangel y Pennant | P. | 238 | 246 |
| Llangybi | P. | 292 | 318 |
| Llanystundwy | P. | 499 | 558 |
| Penmorfa (*d*) | P. | 458 | 516 |
| Treflys | P. | 51 | 3[illegible] |
| Ynys Cynhaiarn | P. | 449 | 44[illegible] |
| | | [illegible] | 3,19[illegible] |
| **CAFFYLOGION:** (*a*) | | | |
| Bottwnog | P. | 76 | 86 |
| Carnguwch | P. | 47 | 52 |
| Denio, a thref Pwllheli | P. | 59[illegible] | 790 |
| Llanbedrog | P. | 192 | 20[illegible] |
| Llanfihangel | P. | 152 | 161 |
| Llangian | P. | 507 | 524 |
| Penrhos | P. | 4[illegible] | 57 |
| | | 1,61[illegible] | 1,670 |
| **ISAF:** | | | |
| Caer Rhun | P. | 469 | 481 |
| Conwy | P. | 484 | 569 |
| Cyffin | P. | 235 | 277 |
| Llanbedr y Cenyn | P. | 220 | 257 |
| Llangelynin | P. | 111 | 131 |
| Maenan (*e*) | T. | 209 | 218 |
| | | 1,728 | 1,933 |
| **ISGWYRFAI:** | | | |
| Bettws Garmon | P. | 52 | 66 |
| Llanbeblig (*f*) | P | 1,982 | 2,618 |
| Llanberis | P. | 224 | 214 |
| Llanddeiniolen | P. | 608 | 645 |
| Llanfaglen | P. | 79 | 112 |
| Llanfair Is gaer | P. | 136 | 139 |
| Llanrug | P. | 319 | 363 |
| | | 3,400 | 4,152 |
| **NANT CONWY:** | | | |
| Bettws y Coed | P. | 158 | 192 |
| Dolwyddelau | P. | 182 | 327 |
| Eidda (*g*) | T. | ...... | ...... |
| Gwydir (*h*) | T. | 171 | 199 |
| Llanrhychwyn (*i*) | P. | 209 | 264 |
| Penmachno | P. | 428 | 465 |
| Trefriw | P. | 154 | 167 |
| | | 1,402 | 1,614 |
| **UCHAF:** | | | |
| Aber | P. | 268 | 266 |
| Dygyfylchi | P. | 124 | 142 |
| Llandegai (*i*) | P. | 925 | 845 |
| Llanfair Fechan | P. | 246 | 226 |
| Llanllechyd | P | 734 | 736 |
| | | 2,297 | 2,215 |
| **UWCHGWYRFAI:** | | | |
| Beddgelert (*k*) | P | ..... | ..... |
| Clynog | P. | 727 | 781 |
| Llandwrog | P. | 727 | 866 |
| Llanaelhaiarn | P. | 283 | 301 |
| Llanllyfni | P. | 538 | 590 |
| Llanwnda | P. | 534 | 489 |
| | | 2,809 | 3,030 |
| DINAS · | | | |
| **BANGOR** | P. | 1,094 | 1,[illegible]89 |

maen.—(*c*) Beddgelert sy mewn rhan yn nghant. Uwchgwyrfai, ond yn cael ei gyfrif yma.—(*d*) Dolbenmaen sydd yn cael ei uno at blwyf Penmorfa.—(*e*) Maenan sydd yn mhlwyf Eglwys Fach (cant. Isdulas.)—(*f*) Yn cynnwys hefyd y Bont Newydd a Threflan, a thref Gaernarvon.—(*g*) Eidda sydd yn mhlwyf Yspytty cant. Isaled, Dinbych.)—(*h*) Gwydir sydd yn mhlwyf Llanrwst (cant. Isdulas.)—(*i*) Capel Curig sydd yn mhlwyf Llandegai.—(*k*) Gan mwyaf yn nghant. Eifionydd, y lle y gwneid cyfrif o hono.

## CRYNODEB—CAERNARVON.

| Cantrefi. | Tai annedd. | Teuluoedd | Tai gwag | Meibion | Merched. | Y Cyfan. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CWMWDMAEN | 906 | 958 | 4 | 2,249 | 2,612 | 4,861 |
| CREUDDYN | 319 | 344 | 3 | 856 | 839 | 1,695 |
| DINLLEYN | 1,279 | 1,306 | 3 | 3,018 | 3,211 | 6,229 |
| EIFIONYDD | 1,199 | 1,272 | 18 | 2,914 | 3,192 | 6,106 |
| CYFFYLOGION | 712 | 733 | 10 | 1,612 | 1,870 | 3,482 |
| ISAF | 709 | 793 | 7 | 1,728 | 1,933 | 3,661 |
| ISGWYRFAI | 1,534 | 1,654 | 46 | 3,400 | 4,152 | 7,552 |
| NANT CONWY | 622 | 636 | 21 | 1,402 | 1,614 | 3,016 |
| UCHAF | 532 | 879 | 6 | 2,297 | 2,215 | 4,512 |
| UWCHGWYRFAI | 1,101 | 1,121 | 32 | 2,809 | 3,030 | 5,839 |
| DINAS BANGOR | 456 | 491 | 4 | 1,094 | 1,289 | 2,383 |
| Y cyfan. | 9,369 | 10,187 | 154 | 23,379 | 25,957 | 49,336 |

## SWYDD CAREDIGION.

| Cantrefydd, Plwyfydd, &c. | Meibion. | Merched. |
|---|---|---|
| **GENEU 'R GLYN:** | | |
| GENEU'R GLYN PLWYF: | | |
| Ceulan y maesmor, T. | 212 | 243 |
| Cyfoeth y Brenin, T. | 298 | 399 |
| Cynwyl Mawr .... T. | 235 | 252 |
| Henllys .......... T. | 163 | 176 |
| Ysgubor y Coed .. T. | 269 | 345 |
| Tir y Mynach .... T. | 124 | 125 |
| LLANBADARN FAWR, PLWYF: (a) | | |
| Aberystwyth ...... T. | 939 | 1,325 |
| Bron Castellan (a) T. | ...... | ...... |
| Clarach .......... T. | 158 | 162 |
| Cwmrheidiol .... T. | 243 | 240 |
| Eloirch .......... T. | 55 | 70 |
| Melindwr ........ T. | 204 | 202 |
| Parcel Canol .... T. | 181 | 204 |
| Trefeirig ........ T. | 206 | 210 |
| Ucha' yn dref .... T. | 83 | 138 |
| Maenor uchaf .... T. | 127 | 136 |
| Maenor isaf ...... T. | 66 | 59 |
| Ynydre isaf ...... T. | 132 | 122 |
| Llangynfelyn .... P. | 263 | 293 |
| | 3,955 | 4,671 |
| **ILAR ISAF:** | | |
| Cilcenyn .......... P | 247 | 299 |
| Amhiniog (b) .... T. | 264 | 311 |
| Hen Fynyw ...... P. | 221 | 237 |
| Ciliau Aeron ...... P. | 126 | 163 |
| Llanbadarn tr. egl. P. | 405 | 474 |
| Llandeiniol ...... P. | 122 | 128 |
| Llandewi Aberarth (e) .......... P. | 366 | 382 |
| Llansanffraid (d) .. P. | 473 | 543 |
| Llanychaiarn .... P. | 267 | 271 |
| Llan-y-gwerydddon P. | 256 | 283 |
| Myfenydd (b) .... T. | 285 | 370 |
| Trefilan (c) ...... P. | 100 | 114 |
| | 3,131 | 3,575 |
| **ILAR UCHAF: (f)** | | |
| Gwnws .... .... P. | 317 | 354 |
| Llanavan ........ P. | 129 | 151 |
| Llanbadarn Creuddyn (g) ...... T | 649 | 734 |
| Llanfihangel Creuddyn .......... P. | 741 | 971 |
| Llanilar .......... P. | 413 | 436 |
| Lledrod (h) ...... P. | 307 | 345 |
| Rhosty .......... P. | 66 | 60 |
| Yspytty Ystwyth.. P. | 142 | 162 |
| Yspytty Ystrad Meirig ........ P. | 70 | 61 |
| | 2,834 | 3,374 |
| **MOEDDYN: (i)** | | |
| Bettws Bledrys.... P. | 106 | 131 |
| Bettws Leiki .... P. | 137 | 146 |
| Dihewyd (k) .... P. | 177 | 199 |
| Cellan .......... P. | 192 | 217 |
| Llanpeter (l)... .. P. | 340 | 352 |
| Llanarth ........ P. | 927 | 1,070 |
| Llandysilio Gogo.. P. | 497 | 559 |
| Llandysul uch Cerdyn (m) .... P. | 593 | 702 |
| Llanerchaeron .... P. | 99 | 108 |
| Llanfihangel-Ytrad P. | 367 | 434 |
| Llanfair Clydogau P. | 171 | 169 |
| Llangaranog ...... P. | 266 | 285 |

(a) Mae rhan o blwyf Llanbadarn Fawr yn nghantref Ilar uchaf: Bron Castellan sydd yn cael ei gynnwys yn Tir y Mynach.—(b) Amhiniog a Myvenydd ydynt yn llunio plwyf Llanrhystyd.—(c) Yn cynnwys Aberaeron.—(d) Yn cynnwys Llannon.—(e) Yn cynnwys Tal y sarn.—(f) Mae rhan o

## SWYDD CAREDIGION—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | *Meibion.* | *Merched.* | *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|---|---|
| Llangybi ········ P. | 108 | 123 | Blaen Porth ······ P. | 235 | 313 |
| Llanina ·········· P. | 143 | 192 | Brongwyn ········ C. | 152 | 173 |
| Llanllwchaiarn ···· P. | 315 | 398 | Henllan ········· P. | 49 | 64 |
| Llanwenog ······ P. | 579 | 598 | Llandygwydd ···· P. | 379 | 498 |
| Llanwnen ········ P. | 129 | 146 | Llan-y-Friog ······ P | 316 | 387 |
| Silian ············ P. | 98 | 111 | Llandysul is Cerddin (*m*)······ P. | 453 | 530 |
| | 5,243 | 5,970 | Llanfair o'r Llwyn P | 171 | 190 |
| **PENARTH:** | | | Llanfair Trelygon P. | 35 | 39 |
| Blaen penal ······ P. | 199 | 204 | Llan Coetmor ···· P | 385 | 430 |
| Tregaron (*n*) ···· P. | 520 | 613 | Llangynllo········ P. | 238 | 268 |
| Llanbadarn Odyn·· P. | 209 | 192 | Llechryd ········ C. | 135 | 184 |
| Llanddewi Brevi (*i*) P. | 762 | 823 | Mount ·········· P. | 65 | 73 |
| Llangeitho ······ P. | 129 | 150 | Penbryn·········· P. | 616 | 775 |
| Nantcynllo ······ P. | 271 | 298 | Tref y coed (*o*) ·· M. | 31 | 27 |
| Uwch y Clawdd (*n*) T. | 362 | 279 | Tremain ········ P. | 95 | 139 |
| | | | Troed yr Aur ···· P. | 363 | 426 |
| | 2,452 | 2,559 | Y Ferwig ········ P. | 194 | 210 |
| **TROED YR AUR:** (*o*) | | | | | |
| Aberporth ······· P. | 209 | 230 | BWRDEIS-DREF | 4,375 | 5,212 |
| Bangor ·········· P. | 78 | 82 | ABERTEIFI. | | |
| Bettws Elan ······ P. | 179 | 174 | St. Mary ········ P. | 889 | 1,240 |

## CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai annedd.* | *Teuluoedd.* | *Tai gwag.* | *Meibion.* | *Merched.* | *Y cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GENEU Y GLYN ........ | 1,684 | 1,802 | 11 | 3,955 | 4,671 | 8,626 |
| ILAR ISAF .. ............ | 1,301 | 1,429 | 10 | 3,131 | 3,575 | 6,706 |
| ILAR UCHAF............ | 1,229 | 1,139 | 16 | 2,834 | 3,274 | 6,108 |
| MOEDDYN ............... | 2,330 | 3,363 | 62 | 5,243 | 5,970 | 11,213 |
| PENARTH ............... | 956 | 1,007 | 18 | 2,452 | 2,559 | 5,011 |
| TROED YR AUR ....... | 1,906 | 2,024 | 36 | 4,375 | 5,212 | 9,587 |
| BWRDEISDREF ABERTEIFI | 442 | 532 | 2 | 889 | 1,240 | 2,129 |
| Milwyr cartrefol ....... | ...... | ....... | ....... | 880 | ....... | 880 |
| Y cyfan ···· | 9,639 | 11,296 | 155 | 23,759 | 26,501 | 50,260 |

Ystrad Fflur Uwch, neu Strata Fflorida yn nghantref Ilar; ond cyfrifir ef yma yn gyfan yn nghantref Penarth.—(*g*) Creuddyn isaf ac uchaf ydynt yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, cantref Geneu y glyn.—(*h*) Neu Lanfihangel-lethr-Troed.—(*i*) Mae rhan o dreflan yn Llanddewi Brevi a elwir Gartheli yn nghantref Moeddyn.—(*k*) Mewn rhan yn nghantref Troed yr Aur ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yma.—(*l*) Neu Lanbedr-pont-Stephen: mae Tref y Coed rhan o'r plwyf hwn yn cael ei gyfrif yn nghantref Troed yr Aur.—(*m*) Mae rhan arall o blwyf Llandysul yn nghantref Troed yr Aur.—(*n*) Mae plwyf Tregaron yn cynnwys treflenydd Argoed ac Ystrad, Blaen Aeron, Blaen Caron, Caron, Croes a Benoyn, Trecefel, Tref Llyn; Uwch y Clawdd sy hefyd ynddo; er ei fod mewn rhan yn nghantref Ilar. (*o*) Mae rhan o Ddyhewyd yn y cantref hwn, ond yn Moeddyn mae y cyfrifiad yn cael ei roddi; Tref y Coed sydd yn Llanpeter, (Gwel gantref Moeddyn.)

## SWYDD DINBYCH.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **BROMFIELD:** (*z*) | | | |
| BANGOR, plwyf: (*aa*) | | | |
| Eytun | T. | 120 | 133 |
| Pickhill | T. | 80 | 101 |
| Royton | T. | 44 | 44 |
| Sesswick | T. | 75 | 69 |
| GRESFORD, plwyf: | | | |
| Abbenbury Fawr | T. | 75 | 83 |
| Allington | T. | 281 | 332 |
| Boras riffrey | T. | 10 | 7 |
| Earlas | T. | 39 | 38 |
| Erddig | T. | 34 | 47 |
| Gresford | T. | 165 | 198 |
| Gwersyllt | T. | 372 | 387 |
| Llai a Burton | T. | 404 | 413 |
| Marford a Horsley (*b*) | T. | 121 | 125 |
| HOLT, plwyf: | | | |
| Dutton Caca | T. | 44 | 45 |
| Dutton Diffaeth | T. | 86 | 101 |
| Dutton y Brain | T. | 19 | 24 |
| Holt a Ridley | T. | 13[illegible] | 141 |
| Sutton | T. | 105 | 118 |
| Marchwiail | P. | 236 | 224 |
| RHIWABON, plwyf: | | | |
| Dinhunlle | T. | 1,163 | 1,194 |
| Morton | T. | 677 | 672 |
| Rhiwabon | T. | 562 | 575 |
| WREXHAM, plwyf: | | | |
| Abbenbury Fechan (*bb*) | T | 67 | 66 |
| Acton | T. | 87 | 89 |
| Bersham | T. | 287 | 224 |
| Breston | T. | 29 | 34 |
| Broughton | T. | 459 | 499 |
| Boras bova | T. | 24 | 21 |
| Brymbo | T. | 536 | 500 |
| Esclusham | T. | 382 | 388 |
| Gourton | T. | 22 | 22 |
| Minera | T. | 276 | 270 |
| Stansty | T. | 96 | 73 |
| Wrexham Abbot | T | 688 | 830 |
| Wrexham Regis | T. | 1,329 | 1,677 |
| | | 9,410 | 10,085 |
| **TREF Y WAEN:** | | | |
| Careghwfa (*c*) | T. | 120 | 133 |
| Y Waen | P. | 561 | 561 |
| Llanarmon dyffryn Ceiriog | P | 124 | 101 |
| Llanarmon Mynydd mawr | P. | 55 | 64 |
| Llangadwaladr | P | 84 | 79 |
| Llangedwyn | P. | 138 | 133 |
| Llangollen | P. | 1,393 | 1,504 |
| Llanrhaiadr mochnant | P. | 947 | 1,0[illegible]7 |
| Llansantffraid Glyn Ceiriog | P. | 219 | 2.2 |
| Llansilin | P. | 796 | 551 |
| | | 4,437 | 4,385 |
| **ISALED:** | | | |
| Ceryg y Drudion | P. | 462 | 479 |
| Gwern Hywel | *P. | 46 | 51 |
| Gwytherin | P. | 197 | 198 |
| Henllan | P. | 1,048 | 1,164 |
| Llanfair Talhaiarn | P. | 494 | 500 |
| Llanfihangel (*cc*) | P. | 188 | 212 |
| Llangerniw | P. | 421 | 421 |
| Llangwm | P. | 466 | 468 |
| Llanrhaiadr yn y Cynmeirch | P. | 825 | 867 |
| Llansannan | P. | 582 | 639 |
| Llan Nefydd | P. | 441 | 469 |
| Nantglyn | P. | 170 | 179 |
| Pentre'r Voelas | P. | 247 | 253 |
| YSPYTTY, plwyf: | | | |
| Eidda (*d*) | T. | 146 | 173 |
| Prys uchaf | T. | 51 | 50 |
| Tir Efan | T. | 127 | 132 |
| | | 5,911 | 6,255 |
| **ISDULAS:** | | | |
| Abergele | P. | 926 | 1,018 |
| Bettws Abergele | P. | 391 | 414 |
| Eglwys Fach (*e*) | P. | 473 | 541 |
| St. George | P. | 152 | 178 |
| Llanddoged | P. | 126 | 142 |
| Llandrillo (*f*) | P. | 298 | 352 |
| Llanddulas | P. | 90 | 100 |
| Llanelian | P. | 277 | 277 |
| Llanrwst (*g*) | P. | 1,149 | 1,356 |
| Llansanffraid | P. | 408 | 466 |
| | | 4,290 | 4,5[illegible] |

(*z*) Mae Iscoed mewn rhan yn nghantref Bromfield, ond yn cael ei gyfrif yn nghantref Maelor (swydd Fflint.)—(*aa*) Yn cynnwys maenor Bangor (cantref Maelor, Fflint.)—(*b*) Marford a Horsely sydynt mewn rhan yn swydd Fflint, ond yn cael eu cyfrif yma.—(*bb*) Abbenbury fechan sydd yn nghantref Maelor (Fflint), ond yn cael ei gyfrif yma.—(*c*) Careghwfa sydd yn mhlwyf Llanymyneeb, yr hwn sy mewn rhan yn nghantref Y Waen, mewn rhan yn nghantref Deu-ddwfr (Trefaldwyn) ac mewn rhan yn nghantref Croesoswallt (Amwythig.)—(*cc*) Llanfihangel sy mewn rhan yn nghantref Edeyrnion (Meirion).—(*d*) Eidda sy mewn rhan yn Nghaernarvon (cantref Nant Conwy) ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yma.—(*e*) Mae Eglwys Fach yn cynnwys maenor Maenan yn Nghaernarvon (gwel cantref Isaf.) (*f*) Yn cynnwys treflan Eirias (gwel cantref Creuddyn Carnarvon.)—(*g*) Yn cynnwys trefan

## SWYDD DINBYCH.—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meib-ion.* | *Mer-ched.* | *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meib-ion.* | *Mer-ched.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| RHUTHYN : | | | | Llanynys ........ | P. | 385 | 385 |
| Clocaenog ........ | P. | 208 | 213 | Rhuthyn ........ | P. | 612 | 680 |
| Derwen .......... | P. | 255 | 279 | | | 4,234 | 4,439 |
| Cyffylliog ........ | P. | 286 | 266 | | | | |
| Efenechdid ...... | P. | 112 | 98 | IAL | | | |
| Llanbedr ........ | P. | 178 | 178 | Bryn Eglwys ........ | | 168 | 161 |
| Llandyrnog ...... | P. | 307 | 331 | Llanarmon .......... | | 696 | 701 |
| Llanelidan ....... | P. | 370 | 290 | Llandeglo ........ | | 144 | 146 |
| Llanfair Dyffryn Clwyd ........ | P. | 507 | 537 | Llanferas .......... | | 256 | 273 |
| | | | | Llantysilio .......... | | 355 | 345 |
| Llanfwrog ....... | P. | 493 | 540 | Meriadog a Wicwair (*h*) | | ...... | ...... |
| Llangwyfan ...... | P. | 73 | 97 | | | 1,619 | 1,626 |
| Llangynhafal ...... | P. | 182 | 196 | | | | |
| Llanrhudd ....... | P. | 213 | 285 | BWRDEISDREF | | | |
| Llanychain ...... | P | 54 | 54 | DINBYCH ........ | | 1,228 | 1,486 |

## CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai anned* | *Teuluoedd* | *Tai gwag.* | *Meib-ion.* | *Mer-ched.* | *Y cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| BROMFIELD .............. | 4,01[illegible] | 4,173 | 81 | 9,410 | 10,085 | 19,495 |
| Y WAEN .............. | 1,767 | 1,854 | 49 | 4,437 | 4,385 | 8,822 |
| ISALED .............. | 2,426 | 2,544 | 63 | 5,211 | 6,255 | 12,166 |
| ISDULAS .............. | 1,791 | 1,89[illegible] | 25 | 4,290 | 4,835 | 9,125 |
| RHUTHYN .............. | 1,872 | 1,979 | 30 | 4,234 | 4,439 | 8,673 |
| IAL .............. | 593 | 614 | 19 | 1,6[illegible]9 | 1,626 | 3,245 |
| TREF DINBYCH .............. | 617 | 648 | 11 | 1,228 | 1,486 | 2,714 |
| Y Cyfan ...... | 13,0[illegible] | 13,703 | 281 | 31,129 | 33,111 | 64,24[illegible] |

## SWYDD FFLINT.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meib-ion.* | *Mer-ched.* | *Cantrefydd, Plwyfydd &c.* | | *Meib-ion* | *Mer-ched.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| COLESHILL | | | | Bettesfield (*e*) .... | T | 10[illegible] | 180 |
| Cilcen .......... | P. | 536 | 767 | Bronington (*e*) .... | T | 277 | 306 |
| FFLINT Bwrdeis. a | P. | 711 | 722 | Erbistock (*f*) .... | P | 150 | 156 |
| Helygen .......... | P. | 768 | 740 | Halghton (*e*) .... | T. | 140 | 196 |
| Llaneurgain (*a*) .. | P. | 1,274 | 1,268 | Hanmer (*e*) ....... | P. | 192 | 295 |
| Whitford (*b*) ...... | P. | 1,688 | 1,246 | Hope (*g*) ......... | P | 1,105 | 1,145 |
| | | 4,457 | 4,743 | Iscoed (*h*) ......... | T | 199 | 234 |
| MAELOR | | | | Kinnerton (*g*) ... | T | 182 | 185 |
| Abbenbury Fechan (*c*) ........... | T | ..... | ..... | Overton .......... | P | 835 | 728 |
| | | | | Penley (*i*) ........ | C. | 199 | 261 |
| Bangor (*d*) ...... | T. | 231 | 263 | Threapwood ...... | P. | 192 | 207 |

Gwydir (gwel cantref Nant Conwy, Caernarvon.)--(*h*) Gwel gantref Rhuddlan Fflint) Nod (*o.*)

(*a*) Yn cynnwys adraniadau Caer-fallwch, Sychtyn, Wybre, a Golffitn.—(*b*) Yn cynnwys treflanau Bychton, Eden Owen Merton, Is glan, Metron, uwch glan, Mostyn, Tre lan, Tre'r abbot a Charn Whitfford.--(*c*) Mae Abbenbury fechan yn mhlwyf Wrexham (cant. Bromfield, Dinbych) ac yn cael ei gyfrif yno.—(*d*) Yn mhlwyf Bangor (cant. Bromfield).—(*e*) Bettisfield, Bronington, Halghton, Tybroughton, a Willington ydynt yn mhlwyf Hanmer.—(*f*) Erbistock sy mewn rhan yn nghant. Bromfield, ond oll yn cael ei gyfrif yma.—(*g*) Kinnerton sydd yn mhlwyf Hope.—(*h*) Iscoed, yn mhlwyf Malpas (swydd Gaerlleon) sy mewn rhan yn nghant. Bromfield, ond oll yn cael ei gyfrif yma.—(*i*) Penley sy gapelineth i viceriaeth Ellesmere (cant. Pimhill Amwythig).—(*k*) Horsley a Marfield ydynt yn mhlwyf Gresford (cant. Brom-

## SWYDD FFLINT—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| Tybroughton (*e*) .. | T. | 83 | 97 |
| Willington (*e*) .... | T. | 134 | 160 |
| Worthenbury .... | P. | 242 | 269 |
| | | 4,337 | 4,682 |
| **Y WYDDGRUG** | | | |
| Hawarden ..... | P. | 2,263 | 2,173 |
| Horsely, Marford (*k*) | T | ...... | ..... |
| Y Wyddgrug (*l*) .. | P. | 2,465 | 2,618 |
| Nerquis (*l*) ...... | T. | 197 | 225 |
| Treuddyn (*l*) .... | C. | 279 | 275 |
| | | 5,204 | 5,291 |
| **PRESTATYN** | | | |
| Dyserth .......... | P. | 235 | 251 |
| Gwaenesgar ...... | P. | 88 | 78 |
| Llanasaph ........ | P. | 781 | 786 |
| Meliden (*m*) ...... | T. | 133 | 121 |
| Newmarket ...... | P. | 235 | 234 |
| Prestatyn (*m*) .... | T. | 90 | 88 |
| Rhyl (*n*) .......... | T. | 133 | 119 |
| | | 1,695 | 1,677 |
| **RHUDDLAN** | | | |
| Llanelwy (*o*) ...... | P. | 681 | 839 |
| Bodfari (*p*) .... | P. | 408 | 469 |
| Caerwys .......... | P. | 416 | 447 |
| Cwm ........ .. | P. | 192 | 193 |
| Dinmeirchion (*q*) .. | P. | 292 | 330 |
| Maenol, Bodelwyddan a Phengwern (*o*) ...... | T | 236 | 257 |
| Nannerch (*p*) .... | P | 152 | 173 |
| Rhuddlan (*n*) .... | P. | 420 | 411 |
| Ysgeifiog ........ | P. | 822 | 846 |
| | | 3,619 | [illegible] |
| **TREFYNNON** ... .. | | 2,925 | 3,469 |

## CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai annedd* | *Teulu oedd.* | *Tai gwag.* | *Meibion* | *Merched.* | *Y cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| COLESHILL ................ | 1,711 | 2,120 | 61 | 4,457 | 4,744 | 9,201 |
| MAELOR .... ............ | 1,723 | 1,831 | 39 | 4,337 | 4,682 | 9,019 |
| Y WYDDGRUG ............ | 2,041 | 2,119 | 8 | 5,204 | 5,291 | 10,495 |
| PRESTATYN ............ | 647 | 681 | 8 | 1,695 | 1,677 | 3,372 |
| RHUDDLAN ............... | 1,380 | 1,448 | 10 | 3,619 | 3,944 | 7,563 |
| TREFFYNNON ............ | 1,313 | 1,541 | 29 | 2,925 | 3,469 | 6,394 |
| Milwyr cartrefol ...... | ...... | ...... | ...... | 475 | | 475 |
| Y Cyfan ...... | 8,816 | 9,740 | 155 | 22,712 | 23,806 | 46,5[illegible] |

## SWYDD MAESYFED.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **COLWYN:** | | | |
| Aberedw ........ | P. | 159 | 160 |
| Bettws Diserth .... | P. | 53 | 54 |
| Caregrina ........ | P. | 54 | 55 |
| Dyserth (*a*) ...... | P. | 126 | 134 |
| Drewern (*b*) ... | T. | 105 | 113 |
| Llanbadarn y Gareg | P. | 40 | 43 |
| Llanelfod ........ | P | 82 | 83 |
| Llansanffraid ...... | P. | 148 | 166 |
| Llanvared ....... | P. | 92 | 80 |
| Rhiwlen .......... | P. | 61 | 78 |
| Tref y Coed (*a*) .. | T. | 126 | 122 |
| Maenor glar (*b*) .. | T. | 146 | 158 |
| | | 1,192 | 1,246 |
| **CEFN LLYS:** | | | |
| Bleddfach ........ | P. | 99 | 95 |
| Cefn Pawl (*c*) .... | T. | 59 | 50 |
| Cefn Llys ....... | P. | 152 | 169 |

ffield) ac yn cael eu cyfrif yno —(*l*) Nerquis a Treuddyn ydynt yn mhlwyf y Wyddgrug.—(*m*) Meliden a Prestatyn ydynt yn llunio plwyf Meliden.—(*n*) Rhyl sydd yn mhlwyf Rhuddlan.—(*o*) Mae plwyf Llanelwy yn cynnwys treflanau Bodeugan, Bryn, Chichynan, Cilowen, Gwernglefryd, Gwerneigron, Polyn, Rhyllon a Talar; ac hefyd Maenol, Bodelwyddan a Phengwern.—(*p*) Bodfari (yn cynnwys treflan Aberchwiler) a Nannerch ydynt mewn rhan yn nghant. Rhuthyn, ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yma.—(*q*) Yn cynnwys treflanau Tre'r llan, Tre'r graig, Tref Bachegraig, Tref Main Ela, a Thref Bryngwyn.

(*a*) Mae Tref y Coed yn mhlwyf Dyserth.—(*b*) Drewern a Maenor Glar ydynt yn llunio plwyf Glar Cwm.—(*c*) Cefn Pawl sydd yn mhlwyf Llanbister

## SWYDD MAESYFED—*parhad.*

| Cantrefydd, Plwyfydd, &c. | | Meibion. | Merched. |
|---|---|---|---|
| Llanbadarn Fawr.. | P. | 157 | 173 |
| Llandegle ........ | P. | 154 | 167 |
| Llandrindod ...... | P. | 70 | 101 |
| Llanfihangel .... Rhydieithon ... | P. | 159 | 168 |
| Llangynllo ....... | T. | 185 | 219 |
| Moisdir. Rhoslowri (e) .. ........ | T | 146 | 160 |
| Pillith ............ | P. | 39 | 37 |
| Swydd y Graig ...... | | ..... | ..... |
| Treflan ............ | | ..... | ..... |
| Whitton .......... | P. | 50 | 63 |
| | | 1,270 | 1,4 4 |
| **TREF Y CLAWDD** | | | |
| Beguildy ........ | P. | 398 | 423 |
| Faringdon ..... a Chwmgila (f) | A. T. | 79 | 83 |
| Heyod ......... | P. | 77 | 89 |
| Tref y Clawdd (f) | P. | 439 | 513 |
| Llanano .......... | P. | 103 | 123 |
| Llanbadarn Fynydd | P. | 202 | 204 |
| Llanbister (g) .... | P. | 579 | 587 |
| Llanddewi ystrad-eni (e) ....... | P. | 95 | 96 |
| Stanage (h)........ | A. | 74 | 51 |
| | | 2,046 | 2,109 |
| **CASTELL PAEN** | | | |
| Bochryd ......... | P. | 152 | 150 |
| Bryn Gwyn ...... | P. | 144 | 156 |
| Clyro . ......... | P. | 245 | 316 |
| Clyro Bettws ..... | P. | 90 | 101 |
| Glasbury (rhan o) (i) | P. | 303 | 302 |
| Llanbedr .... ... | P. | 152 | 165 |
| Llandeilo Graban.. | P. | 161 | 172 |
| Llanddewi Fach .. | P. | 68 | 65 |
| Llanstephan ...... | P. | 118 | 125 |
| Llowis ........... | P. | 166 | 170 |
| Eglwys Michael .. | P. | 62 | 66 |
| Eglwys Newydd .. | P. | 60 | 55 |
| | | 1,711 | 1,836 |
| **MAESYFED** | | | |
| Colva ............ | P. | 99 | 91 |

| Cantrefydd, Plwyfydd &c. | | Meibion. | Merched. |
|---|---|---|---|
| Drysgoed (k) .... | T. | 53 | 44 |
| Gladestry ........ | P. | 163 | 178 |
| Norton .......... | P. | 110 | 106 |
| Llan Andras (k).... | P. | 526 | 588 |
| | | 931 | 1,007 |
| **RHAIADR:** | | | |
| Clascannon a .... Rhurworried (l) | T | 177 | 190 |
| Coed gloision (m).. | T. | 84 | 92 |
| Cwm deuddwfr (n) | P. | 170 | 199 |
| Dyffryn Elain (n).. | T. | 131 | 137 |
| Gwastadyn Fawr (m) | T | 161 | 185 |
| Llanarmon (l) .... | P. | ..... | ..... |
| Cennarth (l) ...... | T. | 177 | 180 |
| Cilgae (p) ........ | T. | 100 | 99 |
| Llanfihangel Helygen .......... | P. | 37 | 47 |
| Llaniar (p) ...... | P. | 285 | 293 |
| Maesgwyn (m) .... | T. | 155 | 166 |
| Nant Mel ........ | P. | ..... | ..... |
| Rhaiadr .......... | C. | 101 | 235 |
| Trawsgoed ...... | T. | 18 | 194 |
| Y Faenor ........ | T. | 127 | 125 |
| | | 1,990 | 2,151 |
| **BWRDEISDREF MAESYFED NEW.** | | | |
| Casoob, (rhan o) (q) | P. | 39 | 49 |
| Ednol (r) ........ | T. | 23 | 18 |
| Evenjobb a ...... Castell Newydd (r) | T | 149 | 141 |
| Harpton (r) ..... | T. | 58 | 62 |
| Kinnerton a ..... Badland (r).... | T | 98 | 102 |
| Llanfihangel .... Nant Melan (s) | P. | 103 | 85 |
| Maesyfed newydd (r) | P. | 191 | 189 |
| Maesyfed Hen (r) | T. | 158 | 169 |
| Trewern (s) .... . | T. | 64 | 60 |
| Walton a ....... Womaston (r).. | T | 81 | 78 |
| | | 964 | 963 |

(gwel cantref Knighton)—(*e*) Meisdir Rhos-lowri sydd yn mhlwyf Llanddewi ystradenni (cantref Tref y Clawdd.—(*f*) Faringdon a Chwmgilla ydynt yn mhlwyf Tref y Clawdd.—(*g*) Mae Llanbister yn cynnwys Cefn y Pawl (gwel cantref Cefn Llys.)—(*h*) Stanage sydd yn mhlwyf Brompton-Bryan (cant. Wigmore, Henffordd).—(*i*) Glasbury sy mewn rhan yn Brycheiniog (cant. Talgarth) ac yn cael ei gyfrif felly.—(*k*) Dyscoed a Llan Andras, (yr olaf mewn rhan yn nghant. Wigmore) ydynt yn llunio plwyf Llan Andras.—(*l*) Clascannon, Rhurworried a Cennarth ydynt blwyf Llanarmon.—(*m*) Coedgleision, Gwastedyn fawr, Maes gwyn, ac y Faenor ydynt blwyf Nant Mel.—(*n*) Yn Nghwm y deuddwfr mae treflan Dyffryn Elain.—(*p*) Cilgi a Thrawsgoed ydynt yn mhlwyf Llaniar.—(*q*) Mae rhan o blwyf Cascob yn nghant. Wigmore, ac yn cael ei gyfrif yno.—(*r*) Ednol, Evenjobb, a Chastell newydd, Harpton, Kinnerton a Badland, Maesyfed Hen, a Walton a Womaston ydynt yn llunio plwyf Maesyfed Newydd.—(*s*) Trewern sydd yn mhlwyf Llan fihangel Nant Melan.

## CRYNODEB—MAESYFED.

| Cantrefi. | Tai annedd. | Teuluoedd. | Tai gwag. | Meibion. | Merched. | Y cyfan. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| COLWYN | 451 | 480 | 25 | 1,192 | 1,246 | 2,438 |
| CEFN LLYS | 502 | 545 | 18 | 1,270 | 1,414 | 2,684 |
| TREF Y CLAWDD | 829 | 890 | 19 | 2,046 | 2,169 | 4,215 |
| CASTELL PAEN | 665 | 732 | 14 | 1,711 | 1,836 | 3,547 |
| MAESYFED | 387 | 428 | 9 | 951 | 1,007 | 1,958 |
| RHAIADR | 840 | 903 | 23 | 1,990 | 2,151 | 4,141 |
| TREF MAESYFED NEW | 372 | 390 | 11 | 964 | 953 | 1,917 |
| | 4,056 | 4,368 | 119 | 10,124 | 10,776 | 21,900 |

## SWYDD MEIRIONYDD.

| Cantrefydd, Plwyfydd, &c. | Meibion. | Merched. |
|---|---|---|
| **ARDUDWY: (a)** | | |
| Ffestiniog ........ P. | 464 | 497 |
| Llanaber (b) ...... P | 589 | 806 |
| Llanbedr ........ P. | 162 | 182 |
| Llandanwg ...... P. | 226 | 302 |
| Llanddwywau .... P. | 171 | 210 |
| Llandecwyn ...... P. | 176 | 211 |
| Llanelltyd ........ P. | 224 | 266 |
| Llanenddwyn .... P. | 305 | 349 |
| Llanfair .......... P. | 179 | 210 |
| Llanfihangel y Traethau .......... P. | 399 | 399 |
| Llanfrothen ...... P. | 310 | 336 |
| Maentwrog ...... P. | 334 | 367 |
| Trawsfynydd ...... P. | 727 | 754 |
| | 4,263 | 4,969 |
| **EDEYRNION: (c)** | | |
| Bettws Gwerfyl Goch .......... P. | 106 | 128 |
| Corwen (d) ...... P. | 668 | 749 |
| Gwyddelwern .... P. | 574 | 637 |
| Llandrillo ........ P. | 382 | 412 |
| Llangar .......... P. | 99 | 105 |
| Llansanffraid .. ... P | 47 | 54 |
| | 1,876 | 2,085 |
| **YSTUMANNER:** | | |
| Llanfihangel y Pennant (e) .. P. | 189 | 173 |
| Penal .......... P. | 280 | 299 |
| Tal y Llyn ........ P. | 290 | 306 |
| Towyn .......... P. | 883 | 1,057 |
| | 1,642 | 1,835 |
| **PENLLYN** | | |
| Llandderfel ..... P | 376 | 439 |
| Llanfor .......... P | 894 | 1,068 |
| Llangywar ........ P | 197 | 255 |
| Llanuwchllyn .... P. | 642 | 667 |
| Llanycil .......... P. | 1,109 | 1,256 |
| | 3,218 | 3,685 |
| **TALYBONT A MAWDDWY: (e)** | | |
| Llangelynin ...... P. | 414 | 450 |
| Llanegryn ........ P | 288 | 375 |
| Llanfachreth ...... P. | 420 | 527 |
| Llanymawddwy .. P. | 318 | 349 |
| Mallwyd (f) ...... P. | 524 | 540 |
| | 1,964 | 2,323 |
| TREF DOLGELLAU .. P. | 1,345 | 1,719 |

## CRYNODEB.

| Cantrefi. | Tai annedd | Teuluoedd. | Tai gwag. | Meibion | Merched. | Y Cyfan. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ARDUDWY | 1,546 | 1,853 | 28 | 4,263 | 4,969 | 9,232 |
| EDEYRNION | 807 | 885 | 17 | 1,876 | 2,085 | 3,961 |
| YSTUMANNER | 759 | 815 | 21 | 1,642 | 1,835 | 3,477 |
| PENLLYN | 1,530 | 1,582 | 19 | 3,218 | 3,685 | 6,903 |
| TALYBONT A MAWDDWY | 843 | 954 | 22 | 1,964 | 2,323 | 4,287 |
| TREF DOLGELLAU | 537 | 728 | 8 | 1,345 | 1,719 | 3,064 |
| | 6,022 | 6,817 | 115 | 14,308 | 16,616 | 30,924 |

(a) Mae Nantmor yn nghantref Ardudwy yn cael ei gyfrif gyd a Beddgelert (cant. Eifionydd, Caernarvon)—(b) Yn cynnwys Gwern Hywel.—(c) Mae Cefn y post (cant. Edeyrnion) yn cael ei gyfrif gyd a Llanfihangel (cant. Isaled, Dinbych.)—(d) Hwn sydd yn cynnwys trefllan Gwern Hywel (gwel cant. Isaled.)—(e) Llanfihangel y Pennant sy mewn rhan yn nghant. Talybont oll yn cael ei gyfrif yma: gwel hefyd gant. Ystumanner.—(f) Mewn rhan yn nghant. Machynllaith, Trefaldwyn.

## SWYDD MON.

| Cantrefydd, Plwyfydd &c. | | Meibion. | Merched. |
|---|---|---|---|
| **LLIFON.** | | | |
| Bodedeyrn (a) .... | P. | 361 | 365 |
| Bodwrog (a) ... | P. | 131 | 150 |
| Ceirchiog (b) .... | P | 76 | 88 |
| Gwindy (a) ...... | C. | 36 | 30 |
| Caergybi (a) ...... | P. | ...... | ...... |
| Llanbeulan (rhan o) (b) ......... | P. | 120 | 101 |
| Llandrygarn (a) .. | P | 186 | 207 |
| Llanfaelog (b) .... | P. | 194 | 233 |
| Lanfair yn neubwll (f) ........ | C. | 121 | 113 |
| Llanfihangel yn Nhowyn (f) .. | C. | 73 | 106 |
| Llanllibio (c) .... | C. | 48 | 42 |
| Llanynghenedl .... | P. | 188 | 190 |
| Llantrisant (c) .... | P | 254 | 266 |
| Llechgynfarwy..(c) | P. | 195 | 217 |
| Llechylched (h).... | P. | 139 | 141 |
| Trewalchmai (g) .. | P. | ...... | ...... |
| | | 2,122 | 2,242 |
| **MALLTRAETH;** | | | |
| Aberffraw (x) .... | P. | 479 | 875 |
| Ceryg Ceinwen.... | P. | 153 | 211 |
| Hen Eglwys (g) .. | P. | 158 | 166 |
| Llanbeulan (rhan o) (b) ........ | P. | 66 | 59 |
| Llangadwaladr .... | P. | 164 | 204 |
| Llangristiolus .... | P. | 335 | 393 |
| Llangwyfan (h).... | P. | 100 | 105 |
| Trefdraeth (h) .... | P. | 231 | 266 |
| Tregaian (m)........ | | ...... | ...... |
| Trewalchmai (g) .. | P. | 216 | 269 |
| | | 1,892 | 2,248 |
| **MENAI: (f) (x)** | | | |
| Llanddeiniolel (i) .. | P. | 191 | 223 |
| Llanedwen (i) .... | P. | 102 | 142 |
| Llanffinan (k).... | P. | 80 | 85 |
| Llanfair yn y Cwmwd (i)...... .. | C. | ...... | ..... |
| Llanfihangel Ysgeifiog (k) .... | P. | 193 | 179 |
| Llangaffo (l) ...... | P. | 87 | 77 |
| Llangefni (m) .... | P | 446 | 519 |
| Llangeinwen (l) .. | P. | 305 | 319 |
| Llangwyllog ...... | P. | 132 | 137 |
| Llanidan (i) ...... | P. | 451 | 514 |
| Newbwrch ...... | P. | 350 | 400 |
| Rhodwydd Geidio (c)............ | C. | 143 | 154 |
| Rhoscolyn (f) .... | P. | 260 | 244 |
| BWRDEISDREF ...... | | | |
| BEAUMARIS (w) | P. | 809 | 1,001 |

| Cantrefydd, Plwyfydd, &c. | | Meibion. | Merched |
|---|---|---|---|
| Tregaian (m) .... | P. | 89 | 91 |
| | | 2,829 | 3,084 |
| **TALYBOLION:** | | | |
| Caergybi (a)...... | P. | ...... | ...... |
| Llanbabo (n)...... | P. | 93 | 87 |
| Llanbadrig ...... | P. | 497 | 618 |
| Llanddeusant (n).. | P. | 186 | 200 |
| Llanfachreth (d) .. | P. | 143 | 147 |
| Llanfaethlu(*) .... | P. | 163 | 174 |
| Llanfair yn Nghornwy ... | C. | 153 | 154 |
| Llanfechell........ | P. | 361 | 434 |
| Llanfugail (d) .... | P. | 57 | 66 |
| Llanflewyn (o).... | P. | 62 | 63 |
| Llanfwrog (*) .... | P. | 120 | 123 |
| Llanrhwydrus (a).. | P. | 86 | 102 |
| Llanrhuddlad (o) .. | P. | 289 | 296 |
| | | 2,210 | 2,364 |
| **TWRCELYN:** | | | |
| Amlwch (s) ...... | P. | 1,959 | 2,231 |
| Bodewryd (p) .... | P. | 27 | 31 |
| Coedana (p) ...... | P. | 113 | 123 |
| Llanallgo (q)...... | C. | 99 | 108 |
| Llandyfrydog (r) .. | P. | 269 | 296 |
| Llanelian (p)...... | P. | 425 | 509 |
| Llaneigrad (q) .... | P. | 149 | 142 |
| Llanfihangel Tre'r Beirdd (r) .... | P. | 137 | 140 |
| Llanwenllwyfo ..(s) | P. | 207 | 212 |
| Penrhos llugwy.... | P. | 213 | 225 |
| | | 3,598 | 4,037 |
| **DINDAETHWY: (z)** | | | |
| Beaumaris (t) .... | P. | ...... | ...... |
| Llanbedr goch..(t) | P. | 165 | 172 |
| Llanddona ...... | P. | 158 | 179 |
| Llanddyfnan (t) .. | P. | 302 | 318 |
| Llandegfan ...... | P. | 250 | 272 |
| Llantysilio (u) .... | P. | 143 | 157 |
| Llanfaes ......... | P. | 90 | 125 |
| Llanfair-mathafarn Eithaf (t)...... | P. | 280 | 695 |
| Llanfair Pwll gwyngyll (u) .. | P. | 159 | 209 |
| Llanfihangel Din Sulwy (v) .... | P. | 38 | 34 |
| Llangoed (v)...... | P. | 196 | 231 |
| Llaniestyn (v) .... | P. | 118 | 96 |
| Llansadwrn ...... | P. | 155 | 152 |
| Penmon ......... | P. | 83 | 96 |
| Penmynydd ...... | P. | 237 | 255 |
| Pentraeth (t) ..... | P. | 298 | 347 |
| | | 2,667 | 2,937 |
| TREF | | | |
| CAERGYBI ..(x) | P. | 1,317 | 1,688 |

(a) Yr oeddyd gynt yn cyfrif plwyfydd Bededeyrn, Bodwrog, a Llandrygarn (gyd a Gwindy) megys yn un â plwyf Caergybi, yr hwn sy mewn rhan yn Llifon, ac mewn rhan yn Nhalybolion: cyfrifir ef yn niwedd y swydd;—(b) Ceir-

## CRYNODEB

| *Cantrefi.* | *Tai anneddol.* | *Teuluoedd* | *Tai gwag.* | *Meibion.* | *Merched* | *Y cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| LLIFON | 923 | 984 | 20 | 2,122 | 2,242 | 4,364 |
| MALLTRAETH | 741 | 747 | 5 | 1,892 | 2,248 | 4,140 |
| MENAI | 1,126 | 1,188 | 12 | 2,829 | 3,084 | 5,913 |
| TALYBOLION | 874 | 920 | 3 | 2,210 | 2,364 | 4,574 |
| TWRCELYN | 1,606 | 1,635 | 48 | 3,598 | 4,037 | 7,635 |
| DINDAETHWY | 1,079 | 1,187 | 13 | 2,667 | 2,937 | 5,604 |
| BWR. BEAUMARIS | 295 | 344 | 2 | 809 | 1,001 | 1,810 |
| TREF CAERGYBI | 539 | 701 | 5 | 1,317 | 1,688 | 3,005 |
| Y Cyfan.... | 7,183 | 7,706 | 108 | 17,444 | 19,601 | 37,045 |

## SWYDD MORGANWG.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | *Meibion.* | *Merched* | *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|---|---|
| CAERPHILI | | | PONT Y FON: | | |
| Bedwas (*a*)........ P. | 36 | 32 | Athan, St. ......... P. | 124 | 128 |
| Eglwys Ilan ...... P | 1,133 | 1,276 | Pont y Fôn........ P. | 425 | 435 |
| Y Gelligaer........ P. | 538 | 484 | Eglwysbowys .... P. | 13 | 14 |
| Llanvabon ........ P. | 307 | 296 | Trefflemіng ...... P. | 40 | 29 |
| Mechain .......... P. | 85 | 88 | Gileston.......... P. | 30 | 27 |
| Merthyr Tydfyl.... P. | 5,890 | 5,214 | Hilari, St. ........ P. | 74 | 78 |
| Llanfihangel Bedw (*a*) .......... P. | 133 | 152 | Llanblethian ...... P. | 229 | 234 |
| | | | Llanddoged........ P. | 49 | 53 |
| Rudry ............ P. | 144 | 137 | Llanharan ........ P. | 113 | 113 |
| Eglwys Wen ...... P. | 472 | 525 | Llanharri........... P. | 107 | 119 |
| | 8,738 | 8,095 | Llanilid .......... P. | 72 | 74 |

chiog, Llanfaelog a Llechylched yn mhlwyf Llanbeulan;—(*c*) Llanllibio, Llechgynfarwy, a Rhodwydd Geidio, (cantref Menai) yn mhlwyf Llantrisant; (*d*) Llanynghenedl a Llanfugail (cant. Talybolion) yn mhlwyf Llanfachreth; (*f*) Llanfair yn neubwll a Llanfihangel yn Nhowyn yn mhlwyf Rhoscolyn (gwel gant. Menai;) (*g*) Trewalchmai yn mhlwyf Heneglwys; (*h*) Llangwyfan yn mhlwyf Trefdraeth; (*i*) Llanddaniel, Llanedwen, a Llanfair-yn-y-cwmwd yn mhlwyf Llanidan;—(*k*) Llanffinnan yn mhlwyf Llanfihangel Ysgeifiog;—(*l*) Llangaffo yn mhlwyf Llangeinwen;—(*m*) a Thregaian yn mhlwyf Llangefni. (*b*) Llanbeulan sy mewn rhan yn nghant. Llifon, mewn rhan yn nghant. Malldraeth, ac yn cynnwys capeliaeth Llannerchymedd (cant. Talybolion.)—(*f*) Mewn rhan yn nghant. Menai, ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yn nghant. Llifon.—(*g*) Trewalchmai sy mewn rhan yn nghant. Llifon, mewn rhan yn nghant. Malldraeth; mae yr egwys yn nghant. Llifon.—(*x*) Mae Aberffraw mewn rhan yn nghant. Menai, ond y mae y cyfan yn cael ei gyfrif yn nghant. Malltraeth.—(*n*) Cyfrifid Llanbabo a Llanfairynghornwy gyda yn un â phlwyf Llanddeusant;—(*) Llanfwrog yn mhlwyf Llanfaethlu;—(*o*) Llanflewyn a Llanrhwydrus yn Llanrhuddlad;—(*p*) Bodewryd a Choedana yn Llanelian;—(*q*) Llanallgo yn Llaneigrad;—(*r*) Llanfihangel tre'r Beirdd, yn Llandyfrydog;—(*s*) Llanwenllwyfo, yn Amlwch;—(*t*) Beaumaris Llanbedrgoch, Llanfair Mathafarn eithaf, a Phentraeth, yn Llanddyfnan; (*u*) Llantysilio, yn Llanfair-pwll-gwyngyll; (*v*) Llanfihangel Dinsylwy a Llangoed, yn Llaniestyn.—(*i*) Llanfair yn y Cwmwd sydd yn cael ei gynnwys yn nghyfrifiad Llanidan.—(*m*) Tregaian sy mewn rhan yn nghant. Menai, mewn rhan yn nghant. Malltraeth, ac yn cynnwys Erddreiniog yn nghant. Dindaethwy.—(*p*) Yn cynnwys capeliaeth Rhosbeirio.

(*t*) Beaumaris sydd yn cael ei gyfrif yn niwedd y swydd.—(*u*) Yn nghant. Dindaethwy plwyf Llanddyfnan.—(*x*) Mewn rhan yn nghantrefydd Llifon a Thalybolion.—(*z*) Mae Erddreiniog, rhan o blwyf Tregaian, yn cael ei gyd gyfrif (cant. Menai.)

(*a*) Mae plwyf Bedwas, a phlwyf Llanfihangel y Bedw mewn rhan yn nghan-

## SWYDD MORGANWG—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* | *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion* | *Merched.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanmaes | P. | 92 | 90 | Llangyfelach | P. | 2,449 | 2,672 |
| Llanfihangel | P. | 25 | 33 | Llansamlet | P. | 1,136 | 1,171 |
| Llansannon | P | 91 | 101 | | | 4,091 | 4,397 |
| Lanelltyd Fawr | P. | 357 | 420 | **MEISGYN:** | | | |
| Lisworney | P. | 58 | 85 | Aberdâr | P | 1,426 | 1,358 |
| Eglwys Fair | P. | 66 | 73 | Cludach (*c*) | M. | 86 | 86 |
| Nash | *P. | 5 | 10 | Hafod Ddraeniog (*d*) | M | 158 | 150 |
| Pendaulin | P. | 162 | 159 | Llantrisaint | P. | 1,098 | 1,024 |
| St. Dunawd | P. | 101 | 132 | Llan Elltyd y Faer-dref | P. | 236 | 233 |
| Ystrad Owen | P. | 81 | 98 | Llanwonno (*d*) | P. | 229 | 233 |
| | | 2,396 | 2,591 | Pentyrch | P. | 243 | 232 |
| **DINAS POWYS:** | | | | Rhaiadr | P. | 61 | 45 |
| Andrew, St. | P. | 208 | 231 | Rhicos (*c*) | M. | 229 | 168 |
| Barry | P. | 30 | 32 | Ystrad Hafodwg (*c*) | M. | 197 | 207 |
| Bovilston | P | 110 | 101 | | | 3,963 | 3,739 |
| Brides, St. | P. | 56 | 46 | **CASTELL NEDD:** | | | |
| Cadoxton | P. | 109 | 126 | Aberafan | P. | 148 | 173 |
| Cogon | P. | 21 | 15 | Baglan | P. | 146 | 181 |
| Fagan, St. | P. | 202 | 195 | Blaen Gwrach (*e*). | M. | 87 | 77 |
| George, St. | P. | 75 | 93 | Blaen Honddan (*f*) | M. | 435 | 436 |
| Highlight | *P. | 13 | 6 | Briton ferry | P. | 145 | 199 |
| Lavernoc | P. | 33 | 36 | Clyn (*g*) | M. | 56 | 64 |
| Leckwith | P. | 43 | 48 | Coedfranc (*f*) | M. | 214 | 240 |
| Llanddoged | P. | 39 | 36 | Dyffryn Clydach (*f*) | M. | 313 | 330 |
| Llangarvan | P. | 280 | 318 | Diwlais (*f*) | M. | 317 | 320 |
| Llanilldeyrn | C. | 52 | 66 | Glyn Corwg (*e*) | P. | 58 | 58 |
| Llantreuddyd | P. | 88 | 111 | Cil y bebyll | P. | 130 | 149 |
| Lythan, St. | P. | 40 | 44 | Llanelltyd Isaf (*g*) | P. | 265 | 219 |
| Merthyr Dyvan | P. | 59 | 82 | Michaelston ar Afan | P. | 113 | 119 |
| Michaelston-le-pit | P. | 34 | 37 | Castell Nedd | P. | 1,212 | 1,498 |
| Michaelston ar Elai | P. | 23 | 20 | Cas. Nedd ganol, &c. (*f*) | M | 457 | 502 |
| Nicholas, St. | P. | 139 | 181 | Resolvend (*g*) | M | 106 | 127 |
| Penarth | P. | 35 | 40 | Ynysumond (*f*) | M. | 57 | 71 |
| Penmarc | P. | 204 | 229 | | | 4,289 | 4,837 |
| Peterston ar Elai | P. | 112 | 12[illegible] | **CASTELL NEW.** | | | |
| Porth Cerri | P. | 49 | 50 | Bettws | P. | 152 | 165 |
| Sully | P. | 69 | 68 | Bride, St. leiaf | P. | 137 | 162 |
| Wenvoe | P. | 191 | 182 | Coychurch (*h*) | P. | 257 | 289 |
| | | 2,314 | 2,50[illegible] | Coyty | P. | 565 | 631 |
| **CIBWR:** | | | | Cwm Du (*i*) | M. | 118 | 119 |
| Caerau | P. | 20 | 23 | Cynffig | P. | 119 | 123 |
| Llandaf | P. | 426 | 524 | Laleston | P. | 192 | 236 |
| Llanedeyrn | P. | 148 | 115 | Llangynwyd (*i*) | P | 290 | 317 |
| Llanishen | P. | 145 | 162 | Margam | P. | 876 | 927 |
| Lisvane | P. | 129 | 102 | Castell Newydd | P. | 294 | 346 |
| Roath | P. | 93 | 119 | Newton (*k*) | M. | 117 | 137 |
| | | 970 | 1,045 | Nottage (*k*) | M. | 107 | 110 |
| **LLANGYFELACH:** | | | | Pencoy (*h*) | M. | 128 | 172 |
| Allt y Grug (*b*) | M. | 296 | 315 | | | | |
| Blaenegal (*b*) | M. | 210 | 239 | | | | |

tref Gwentllwg (Mynwy) ac yn cael eu cyfrif yno.—(*b*) Allt y Grug, â mawr, a Blaenegal, â Raegurwen ydynt yn llunio plwyf Llanguwch.—(*c*) Cludach, Rhicos a'r ddwy Ystradhafodwg ydynt yn llunio plwyf o'r enw hyny.—(*d*) Hafod-ddraeniog sydd yn mhlwyf Llanwonno.—(*e*) Blaengwrach sydd yn mhlwyf Glyncorwg.—(*f*) Blaenhonddan, Coed ffranc, Dyffryn Clydach, Diwlais uchaf ac isaf, Nedd, ganol uchaf ac isaf, ac Ynysumond, ydynt yn llunio plwyf Cadoxton yn agos i Gastell Nedd.—(*g*) Clyn a Reolvend ydynt yn mhlwyf

## SWYDD MORGANWG—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* | *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Peterston y bryn(*h*) | M. | 70 | 65 | Llanddewi | P. | 88 | 84 |
| Pyle | P | 210 | 233 | Llangennydd | P. | 172 | 192 |
| Tythegston | P. | 162 | 162 | Llandeilo Tal y Bont (*e*) | P. | 250 | 349 |
| | | 3,812 | 4,194 | | | | |
| **OGWR:** | | | | Llanmadoc | P. | 63 | 111 |
| Andrew, St. leiaf | P | 4 | 4 | Llanridian (*m*) | P. | 567 | 736 |
| Bride, St. | P | 422 | 448 | Llychwr | Bwr. | 221 | 253 |
| Colwinstone | P. | 105 | 119 | Llychwr | P. | 131 | 160 |
| Dunawd, St. | P. | 87 | 104 | Nicholaston | P. | 70 | 55 |
| Ewenni | P. | 116 | 133 | Oxwic | P. | 106 | 130 |
| Llandow | P. | 53 | 52 | Oystermouth | P. | 321 | 441 |
| Llandyvodwg | P. | 99 | 117 | Penmaen | P. | 39 | 68 |
| Llangan | P. | 87 | 103 | Penardd | P. | 113 | 134 |
| Llangarnor | P. | 146 | 163 | Penrhys | P. | 161 | 192 |
| Marcross | P. | 40 | 31 | Portheinon | P. | 130 | 178 |
| Mary, St. | P. | 103 | 117 | Reynoldston | P. | 95 | 122 |
| Merthyr mawr | P. | 65 | 64 | Rossily | P. | 89 | 199 |
| Monk Nash | P. | 58 | 56 | Abertawe | P. | 331 | 436 |
| Penllin | P. | 133 | 147 | Tir y Brenken a Prys Cedwyn | M | 164 | 211 |
| Wic | P. | 133 | 146 | | | | |
| | | 1,651 | 1,803 | | | 3,630 | 4,627 |
| **ABERTAWE:** | | | | **CAERDYF:** | | | |
| Bishopston | P. | 128 | 175 | St. Ioan, a St. Mary | P. | 1,084 | 1,373 |
| Cheriton | P. | 111 | 138 | | | | |
| Ilston | P. | 105 | 140 | | | | |
| Iohn, St. | P. | 130 | 146 | TREF ABERTAWE | B. | 3,620 | 4,385 |
| Knelston | P. | 46 | 33 | St. Thomas (*n*) | M. | 84 | 107 |
| | | | | | | 3,701 | 4,492 |

### CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai anneddol.* | *Teuluoedd.* | *Tai gwag.* | *Meibion.* | *Merched.* | *Y Cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CAERPHILI | 3,434 | 3,505 | 221 | 8,738 | 8,095 | 16,833 |
| PONT Y FON | 978 | 1,048 | 32 | 2,316 | 2,591 | 4,907 |
| DINAS POWYS | 960 | 1,078 | 28 | 2,314 | 2,509 | 4,823 |
| CIBWR | 428 | 441 | 12 | 970 | 1,045 | 2,015 |
| LLANGYFELACH | 1,798 | 1,821 | 104 | 4,091 | 4,397 | 8,488 |
| MEISGYN | 1,337 | 2,250 | 39 | 3,963 | 3,739 | 7,702 |
| NEDD | 1,886 | 1,905 | 70 | 4,289 | 4,837 | 9,126 |
| CALTELL NEWYDD | 1,643 | 1,677 | 31 | 3,812 | 4,194 | 8,006 |
| OGWR | 673 | 713 | 19 | 1,651 | 1,803 | 3,454 |
| ABERTAWE | 1,817 | 1,900 | 67 | 3,630 | 4,627 | 8,257 |
| CAERDYF | 472 | 5 4 | 13 | 1,084 | 1,373 | 2,457 |
| TREF ABERTAWE | 1,591 | 1,843 | 104 | 3,704 | 4,492 | 8,196 |
| Milwyr cartrefol | | | | 803 | | 803 |
| | 17,017 | 18,695 | 741 | 41,365 | 43,702 | 85,067 |

Llan Elltyd isaf.—(*h*) Pencoy a Peterstone ydynt yn mhlwyf Coychurch.—(*i*) Cwmdu sydd yn Llangynwyd.—(*k*) Newton a Nottage ydynt yn lleoie yn plwyf a elwir felly.—(*l*) Mae Llandeilo Tal y Bont yn cynnwys Tir y Brenken a Pryscedwyn hefyd Glynllychwr, Gwenllais ac Ynys Lluhocwr.—(*m*) Yn cynnwys maenor Cellibion a Waltenston.—(*n*) Mae maenor St. Thomas yn mhlwyf St. Mary Abertawe, yr hwn sy mewn rhan yn cael ei gyfrif yn nghanol Abertawe.

## SWYDD PENFRO.

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **CASTELL MARTIN** | | | |
| Angle | P. | 160 | 193 |
| Bosheton | P. | 85 | 96 |
| Castell Martin | P. | 187 | 202 |
| Coshcton | P. | 185 | 219 |
| St. Fflorence | P. | 138 | 166 |
| Hodgeston | P. | 36 | 36 |
| Lamphey | P. | 109 | 135 |
| Maenorbyr | P. | 219 | 273 |
| Nash (*a*) | P. | 43 | 53 |
| Penally | P. | 137 | 157 |
| St. Petrox | P. | 36 | 35 |
| Pwllcrochan | P. | 75 | 96 |
| Rose Crowther | P. | 88 | 116 |
| Cheriton | P. | 131 | 154 |
| St. Twruells | P | 87 | 110 |
| Warren | P. | 65 | 80 |
| | | 1,779 | 2,124 |
| **TIR DEWI:** | | | |
| Brawdy | P. | 311 | 839 |
| Ty Dewi | P. | 803 | 1,013 |
| St. Dogvael | P. | 141 | 170 |
| St. Edrens | P. | 43 | 42 |
| St. Elvis | P | 14 | 18 |
| Granstone | P. | 75 | 76 |
| Castell Hui | P | 101 | 119 |
| Jordanston | P. | 49 | 66 |
| St. Lawrence | P. | 72 | 93 |
| Letterston | P. | 160 | 212 |
| Llandeilo | P. | 75 | 93 |
| Llanfair Nant y Gof | P. | 92 | 109 |
| Llanhywel | P. | 69 | 79 |
| Llanrian | P. | 257 | 312 |
| Llanrythan | P. | 70 | 96 |
| Llanstinan | P. | 55 | 46 |
| Llanwnda | P. | 275 | 390 |
| Maenorowen | P. | 64 | 79 |
| Mathri | P. | 359 | 402 |
| St. Nicholas | P | 71 | 139 |
| Eglwys Wen | P. | 311 | 478 |
| | | 3,473 | 4,370 |
| **DEUGLEDDYF:** | | | |
| Ambleston | P. | 2[illegible]2 | 260 |
| Bletherston | P. | 117 | 135 |
| Boulston | P. | 113 | 131 |
| Clarbeston | P. | 89 | 94 |
| Crinow | P. | 20 | 33 |
| Grondref (*a*) | P. | 16 | 22 |
| Henllan (*b*) | P | .... | ..... |
| Llantysilio (rhan) (*c*) | P. | 131 | 171 |
| Llanfallteg (rhan) (*c*) | P. | 28 | 33 |
| Llangan (rhan) (*c*) | P. | 8 | 14 |
| Llan y Cefn | P. | 171 | 191 |
| Llanbuadain | P. | 229 | 262 |
| Llys y Frân | P. | 76 | 83 |
| New Moat | P. | 140 | 163 |
| Prendregast | P. | 435 | 532 |
| Rudbaxton | P | 228 | 286 |
| Slebech | P. | 128 | 129 |
| Spittal | P. | 156 | 165 |
| Usmaston | P. | 213 | 240 |
| Walton | P. | 109 | 109 |
| Wiston | P. | 296 | 311 |
| | | 2,938 | 3,567 |
| **CEMMAES:** | | | |
| Bayvil | P. | 57 | 74 |
| Castell Beith | P. | 97 | 108 |
| Dinas | P. | 213 | 482 |
| St. Dogfael | P. | 838 | 782 |
| Eglwys Wrw | P | 217 | 246 |
| Abergwaen | P. | 633 | 939 |
| Henry's moat | P. | 124 | 161 |
| Llandeilo | P. | 24 | 33 |
| Llanfair Nantgwyn | P. | 84 | 106 |
| Llangolman | P. | 95 | 135 |
| Llanllawer | P. | 53 | 73 |
| Llanychare | P. | 64 | 77 |
| Llantirnach | P. | 270 | 316 |
| Llanychlwydog | P. | 82 | 101 |
| Maenclochog | P. | 107 | 142 |
| Melinau | P. | 186 | 226 |
| Monachlog-ddu | P. | 191 | 215 |
| Monington | P. | 43 | 46 |
| Mortil | P. | 65 | 73 |
| Moilgrove | P. | 174 | 196 |
| Nyver | P. | 609 | 704 |
| Castell Newydd | P. | 149 | 153 |
| Newport | P. | 535 | 893 |
| Pont faen | P. | 35 | 30 |
| Cas Mael | P. | 95 | 115 |
| Eglwys Wen | P. | 112 | 162 |
| | | 5,132 | 6,593 |
| **CILGERAINT:** | | | |
| Bridel | P. | 122 | 158 |
| Capel Colman | P. | 37 | 35 |
| Cludau | P. | 362 | 352 |
| Cilgeraint | P. | 391 | 378 |
| Cilrhedyn (rhan) (*d*) | P. | 91 | 116 |
| Llantood | P. | 124 | 131 |
| Llanfihangel Penbedw | P. | 92 | 148 |
| Maenordeivi | P. | 331 | 392 |
| Penrith, a Castell Ann | P. | 116 | 157 |
| | | 1,666 | 2,337 |

(*a*) Nae Nash yn cynnwys Upton (gwel gantref Arberth: mae Grondre yn mhlwyf Cil-y-maenllwyd (gwel gantref Derllys, Caerfyrddin.)—(*b*) Henllan sydd yn mhlwyf Llandewi Ufelfre (cantref Arberth) ac yn cael ei gyfrif ynddo. (*c*) Mewn rhan yn nghantref Derllys (Caerfyrddin) ac felly yn cael ei gyfrif.

## SWYDD PENFRO—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| **ARBERTH:** | | | |
| Ambroth | P. | 261 | 321 |
| Begelly (*e*) | P. | 181 | 188 |
| Carew (*f*) | P. | 414 | 497 |
| Coedcanlas | P. | 59 | 62 |
| Crunwear | P. | 102 | 96 |
| Gumfreston | P. | 71 | 73 |
| St. Issel | P. | 455 | 551 |
| Jeffreston | P. | 287 | 376 |
| Llanpeter Ufelfre | P. | 322 | 391 |
| Llandewi Ufelfro (*g*) | P. | 236 | 324 |
| Lawrenny | P. | 171 | 206 |
| Loveston | P. | 73 | 72 |
| Ludchurch | P. | 92 | 101 |
| Mertletwy | P. | 297 | 332 |
| Minewere | P. | 52 | 65 |
| Mounton | P. | 14 | 20 |
| Arberth | P. | 767 | 1,013 |
| Newton | P. | 37 | 45 |
| Redberth (*f*) | M. | 38 | 32 |
| Reynoldston | P. | 57 | 56 |
| Robeston Wathon | P. | 153 | 189 |
| Upton (*h*) | M. | 9 | 9 |
| Williamston (*e*) | M | 154 | 191 |
| Yerberston | P. | 66 | 69 |
| | | 4,384 | 5,296 |
| **ROOSE:** | | | |
| St. Bride | P. | 76 | 80 |
| Burton | P. | 102 | 159 |
| Camros | P. | 491 | 583 |
| Dale | P. | 140 | 190 |
| Freystrop | P. | 224 | 237 |
| Harbranston | P. | 77 | 92 |
| St. Haroldston, issels | P. | 90 | 90 |
| St. Haroldston, gorll | P. | 68 | 61 |

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c.* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| Hasguard | P. | 47 | 61 |
| Hubberston | P. | 369 | 447 |
| St. Ishmaels | P. | 206 | 223 |
| Johnston | P. | 77 | [illegible] |
| Lambston | P. | 95 | 102 |
| Llangwm | P | 257 | [illegible] |
| Llanstadwel | P. | 205 | 279 |
| Marloes | P. | 166 | 200 |
| Nolton | P. | 94 | 110 |
| North (*i*) | M. | 85 | 113 |
| Robeston | P. | 52 | 51 |
| Roch | P. | 259 | 319 |
| Rose market | P. | 109 | 161 |
| Steynton | P | 871 | 1,099 |
| Talbenni | P. | 91 | 75 |
| St. Thomas (*k*) | M. | 30 | 29 |
| Treefgarn | P. | 45 | 46 |
| Walton, orll. | P | 163 | 197 |
| Castell Walwin | P. | 140 | 134 |
| | | 4,5[illegible] | 5,4[illegible] |
| TREF **HWLFFORDD** | | | |
| St. Martin (*i*) | P. | 306 | 4[illegible] |
| St. Mary | P. | 578 | 985 |
| St. Thomas (*l*) | P | 313 | 512 |
| | | 1,257 | 1,836 |
| BWRDEISDREF: **PENFRO:** | | | |
| St. Mary | P | 414 | 607 |
| St. Michael | P | 291 | 333 |
| Moncton, neu St. Nicholas | P | 365 | 405 |
| | | 1,070 | 1,345 |
| TREF **DINBYCH:** | | | |
| St. Mary | P. | 474 | 702 |

## CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai annedd.* | *Teuluoedd.* | *Tai gwag.* | *Meibion.* | *Merched.* | *Y Cyfan* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CASTELL MARTIN | 753 | 764 | 38 | 1,779 | 2,121 | 3,900 |
| TIR DEWI | 1,736 | 1,748 | 48 | 4,370 | 4,37[illegible] | 7,843 |
| DEUGLEDDYF | 1,255 | 1,307 | 46 | 2,938 | 3,367 | 6,305 |
| CEMMAES | 2,559 | 2,675 | 76 | 5,152 | 6,523 | 11,745 |
| CILGERAINT | 759 | 760 | 17 | 1,666 | 2,037 | 3,703 |
| ARBERTH | 2,001 | 2,042 | 49 | 4,384 | 5,296 | 9,680 |
| ROOSE | 2,066 | 2,105 | 84 | 4,569 | 5,493 | 10,064 |
| TREF HWLFFORDD | 630 | 691 | 12 | 1,257 | 1,836 | 3,339 |
| TREF PENFRO | 481 | 557 | 12 | 1,070 | 1,345 | 2,415 |
| TREF DINBYCH | 234 | 287 | 21 | 474 | 702 | 1,176 |
| Milwyr cartrefol | ...... | ..... | ...... | 69[illegible] | ...... | 691 |
| Y Cyfan | 12,468 | 12,987 | 406 | 27,453 | 33,160 | [illegible] |

(*d*) Mewn rhan yn nghantref Elved (Caerfyrddin) ac felly yn cael ei gyfrif.—(*e*) Williamston sydd yn mhlwyf Begelly.—(*f*) Redberth sydd yn mhlwyf Carew.—(*g*) Yn cynnwys Henllan.—(*h*) Upton sydd yn mhlwyf Nash, cantref Castell Martin. Mae North Maenor (cantref Roose) yn mhlwyf St. Martin, Hwlffordd.—(*k*) Yn mhlwyf St. Thomas yn Hwlffordd ac yn cael ei gyfrif yn niwedd y swydd.—(*l*) Yn cynnwys Maenor St. Thomas, cantref Roose.

## SWYDD TREFALDWYN.

| Cantrefydd, Plwyfydd, &c. | | Meibion. | Merched |
|---|---|---|---|
| **CAWRSE:** | | | |
| Crugion (a) …… | T. | 91 | 99 |
| Cyfronydd (b) …. | T. | 35 | 36 |
| Morton …… | P. | 368 | 362 |
| Leighton (c) …… | T. | 52 | 49 |
| Middleton (a) …. | T. | 39 | 53 |
| Rhosgoch (d) …. | T. | 26 | 22 |
| Tref helig (b) …… | T. | 184 | 176 |
| Trefelystan (d) …. | T. | 47 | 45 |
| Uppington (a) …. | T. | 47 | 62 |
| Weston Madoc (e) | T. | 102 | 99 |
| | | 991 | 986 |
| **DEUDDWFR** | | | |
| Bauseley (a) …… | T. | 163 | 189 |
| Llantysilio …… | P. | 245 | 266 |
| Llandrinio …… | P. | 361 | 350 |
| Llansanffraid (rhan o) (f) …… | P. | 206 | 213 |
| Meifod (rhan o) (g) | P. | 299 | 312 |
| | | 1,274 | 1,330 |
| **LLANFYLLIN:** | | | |
| Hirnant …… | P. | 130 | 139 |
| Llanfihangel …… | P. | 407 | 411 |
| Llanfyllin …… | P. | 713 | 795 |
| Llangynog …… | P. | 181 | 201 |
| Llanwyddyn a Cowni (h) …. | P. | 241 | 221 |
| Meifod (rhan o) (g) | P. | 438 | 477 |
| Pennant …… | P. | 334 | 323 |
| | | 2,444 | 2,573 |
| **LLANIDLOES:** | | | |
| Bodfach, &c. (i) .. | T. | 407 | 458 |
| Carno …… | P. | 399 | 432 |
| Llanddinam …… | P. | 779 | 847 |
| Llangeryg …… | P. | 733 | 826 |
| Llanidloes …… | P. | 1,153 | 1,233 |
| Llanwnog …… | P. | 608 | 642 |
| Penystrywed …… | P. | 54 | 55 |
| Esgeiriaeth a Glyn Trefnant (i) …. | T. | 372 | 417 |
| | | 4,497 | 4,910 |

| Cantrefydd, Plwyfydd, &c. | | Meibion. | Merched. |
|---|---|---|---|
| **MACHYNLLAITH:** (ii) | | | |
| Brynycil a Tafolog (k) …… | T | 196 | 198 |
| Caerseddfan (l) .. | T. | 178 | 213 |
| Gwern y Bwlch (k) | T. | 185 | 231 |
| Is y Coed (m) …. | T. | 150 | 162 |
| Is y Gareg (n) …. | T. | 156 | 167 |
| Llanbrynmair …. | P. | 726 | 931 |
| Llanwrin …… | P. | 328 | 364 |
| Machynllaith (n) .. | P. | 557 | 695 |
| Noddfa (l) …… | T. | 176 | 207 |
| Uwch y Coed (m) | T. | 206 | 211 |
| Uwch y Gareg (n) .. | T. | 150 | 179 |
| | | 3,008 | 3,578 |
| **MATHRAFAL:** | | | |
| Caer (o) …… | T | 174 | 181 |
| Garthbeibio …… | P. | 151 | 160 |
| Llanerfyl …… | P. | 411 | 439 |
| Llanfair …… | P. | 883 | 972 |
| Llangadfan …… | P. | 459 | 497 |
| Llangyniw …… | P. | 266 | 293 |
| | | 2,344 | 2,542 |
| **TREFALDWYN:** | | | |
| Aston (p) …… | T. | 52 | 42 |
| Castlewright (q) .. | T. | 78 | 82 |
| Churchstoke (r) .. | P. | 503 | 356 |
| Hyssington (r) …. | P. | 91 | 84 |
| Cori …… | P. | 909 | 977 |
| Mochdref, ac Esgairluog …. | P. | 221 | 255 |
| Trefaldwyn …… | P. | 442 | 492 |
| Snead (r) …… | P. | 30 | 24 |
| | | 2,295 | 2,316 |
| **TREFNEWYDD:** | | | |
| Aberbechan a Gwestyd (s) .. | T. | 158 | 160 |
| Aberhavesp …… | P. | 246 | 281 |
| Beriw …… | P. | 990 | 1,140 |
| Bettws (t) …… | P. | …… | …… |

(a) Bausely, Crugion, Middleton, ac Uppington, ydynt yn mhlwyf Aberbury (cantref Ford, Amwythig.)—(b) Cyfronydd, Tref helig (rhwng Cwm a chastell, Sylvaen a Threfnant) ydynt yn mhlwyf Castell caereinion, rhan o'r hwn sydd yn nghantref Mathrafal.—(c) Leighton sydd yn mhlwyf Worthen, cantref Chirbury Amwythig.—(d) Rhosgoch a Threfelystan ydynt yn nghapeliaeth Woolston (plwy Worthen, cant. Chirbury Amwythig).—(e) Weston madog (yn cynnwys Bachelldrefa Hopton isaf) swydd yn mhlwyf Churchstoke (gwel cantref Trefaldwyn.)—(f) Llansaintffraid sy mewn rhan yn nghantref Pool, ac felly yn cael ei gyfrif.—(g) Plwyf Meifod sy mewn rhan yn nghantref Deuddwfr, ac mewn rhan yn nghantref Llanfyllin, ac felly yn cael ei gyfrif—(h) Plwyf Llanwyddyn sy nantle gul, yn cael ei dosbarthu gan fryn a elwir Cefnyspytty.—(i) Pentrefi Bodfach, Dolgwdden, Maestrefgomer, Esgeiriaeth a Glyntrefnaant ydynt yn llunio phwyf Trefeglwys.—(ii) Mae cant. Machynllaith yn cynnwys rhan o blwyf Mallwyd (gwel cant. Talybont, Meirion.)—(k) Trefannau Brynycil a Thafolog, a Gwernybwlch ydynt blwyf Cemmaes. (l) Caerseddfan a Noddfa ydynt blwyf Darowen.—(m) Is y Coed ac Uch y

## SWYDD TREFALDWYN—*parhad.*

| *Cantrefydd, Plwyfydd, &c* | | *Meibion.* | *Merched.* |
|---|---|---|---|
| Garthgillin a Glanieithon | T. | 137 | 118 |
| Hendidley a Cilcowen (*s*) | T. | 184 | 197 |
| Llandysul | P. | 357 | 401 |
| Llanllugan | P | 139 | 16[illegible] |
| Llanllwchaiarn (*s*) | P. | ...... | ...... |
| Llanmerwig | P. | 71 | 59 |
| Llanwyddelan | P. | 249 | 273 |
| Manafon | P. | 287 | 336 |
| Newton | P. | 898 | 1,127 |
| Trigynon | P. | 322 | 356 |
| Ucheldref, a Dôl y Forwyn (*t*) | T | 251 | 261 |
| | | 4,289 | 4,845 |
| **TRALLWNG** | | | |
| GUILDSFIELD, plwyf: | | | |
| Broniarth ucha' (*u*) | T. | ...... | ...... |
| Garth (*w*) | T. | 262 | [illegible] |
| Y Gyngrog fechan | T | 12 | 7 |
| Llanerchrochwell (*u*) | T. | 255 | 236 |
| Llanfechan | T. | 296 | [illegible] |
| Trelydan | T. | 47 | 34 |
| Tir y Mynach | T | 138 | 142 |
| Y Varchwel (*y*) | T. | 298 | [illegible] |
| Llansaintffraid (rhan o) (*x*) | P | 302 | 333 |
| | | 1,616 | 1,6[illegible] |
| **TREF Y TRALLWNG** | | | |
| Cletterwood (*z*) | T. | 107 | 98 |
| Hope (*z*) | T. | 64 | 6[illegible] |
| Trallwng | P | 1,318 | 1,[illegible] |
| Trewern (*z*) | T. | 160 | 163 |
| | | 1,649 | 1,791 |

## CRYNODEB.

| *Cantrefi.* | *Tai anedd* | *Teuluoedd.* | *Tai gwag.* | *Meibion.* | *Merched.* | *Y Cyfan.* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CAWRSE | 348 | 376 | 5 | 991 | 986 | 1,977 |
| DEUDDWFR | 477 | 538 | 8 | 1,274 | 1,330 | 2,604 |
| LLANFYLLIN | 970 | 1,033 | 34 | 2,494 | 2,573 | 5,067 |
| LLANIDLOES | 1,668 | 1,796 | 14 | 4,497 | 4,910 | 9,407 |
| MACHYNLLAITH | 1,190 | 1,377 | 16 | 3,004 | 3,578 | 6,589 |
| MATHRAFAL | 927 | 1,056 | 21 | 2,344 | 2,542 | 4,886 |
| TREFELDWYN | 818 | 924 | 17 | 2,295 | 2,316 | 4,611 |
| TREFNEWYDD | 1,674 | 1,854 | 33 | 4,289 | 4,845 | 9,134 |
| TRALLWNG | 583 | 639 | 14 | 1,616 | 1,687 | 3,303 |
| TREF Y TRALLWNG | 691 | 739 | 12 | 1,649 | 1,791 | 3,440 |
| Milwyr cartrefol | ...... | ...... | ...... | 966 | ...... | 966 |
| | 9,349 | 10,305 | 40 | 25,373 | 26,558 | 51,[illegible] |

Coed ydynt blwyf Penegos —(*n*) Is y gareg ac Uwch y gareg ydynt yn mhlwyf Machynllaith.—(*o*) Caer yn cynnwys Moydog, Hyden a Dôl, cant. Cawrse, Hyden uchaf, a Nantford (cant. Mathrafal) ydynt yn mhlwyf Castell caereinion (gwel cant. Cawrse.)—(*p*) Aston sydd yn mhlwyf Lydham (cant. Purslow) Amwythig).—(*q*) Castlewright sydd yn mhlwyf Mainstone (cant. Purslow.) (*r*) Plwyfydd Hyssington a Snead ydynt mewn rhan yn nghant. Chirbury (Amwythig) ond yma y rhoddir y cyfrif o honynt. Churchstoke sy mewn rhan yn nghant. Chirbury: ynddo y mae Weston Madoc, Bachelldref, a Hopton isaf (gwel cant. Cawrse) ac yn cynnwys Hurdley, Mellington, a Hopton uchaf, (cant. Trefaldwyn.)—(*s*) Aberbechan a Gwestyd, Hendidley a Cilcowen ydynt yn llunio plwyf Llanllwchaiarn.—(*t*) Garthgillin a Glanieithon, Ucheldrefa a Dôl y Forwyn ydynt blwyf Bettws.—(*u*) Broniarth uchaf sydd yn cael ei gyfrif yn Llanerchrochwell.—(*w*) Yn cynnwys Broniarth isaf, Hendref hen, a Llantrawsgoed.—(*x*) Llansaintffraid sy mewn rhan yn nghant. Deuddwfr, ac yn cael ei gyfrif felly.—(*y*) Yn cynnwys Burgeaing, Retesham a Tyddyn.—(*z*) Cletterwood, Hope, a Trewern ydynt yn llunio plwyf Buttington.

TU DALEN.

Buffalo ... 50
Bug, afon ... 47
Burgos ... 144
Burrampouter, afon ... 266

C

Cadiz ... 143
Caffa ... 40
Caffraria ... 338
Cagliari ... 108
Cairo ... 326
Calcutta ... 269
Caledonia newydd ... 488
Califfornia newydd ... 412
Cambodia ... 277
Camelopardalis ... 332
Camel ... 252
Camlesydd Ysgotland ... 211
Câ'n y merched duon ... 345
Canada, llynau ... 369
Canari, ynysoedd ... 353
Candia, ynys ... 93
Canton ... 286
Capri, ynys ... 113
Cara, afon ... 33
Carinthia ... 82
Carlwm ... 9
Carniola ... 82
Carolina ... 397
Ynys ... 491
Carlscrona ... 15
Carpathia, mynyddoedd ... 4, 70
Carthagena ... 141, 452
Carw Llychlyn ... 8
Casbin, llyn ... 34
Cashau ... 87
Cath Bali ... 9
Caucasus, mynydd ... 35, 258
Cayenne ... 471
Celebes, ynys ... 311
Cephalonia, ynys ... 93
Ceram, ynys ... 311
Cerigo, ynys ... 93
Ceylon, ynys ... 312
Chamois ... 123
Chanderagore ... 269
Cherson ... 40
Chili ... 460
Chiloe ynys ... 476
Chimborazo, y mynydd uchaf ... 449
China ... 279
Chinyang ... 294
Christiana ... 21
Christiansand ... 21
Christopher, St. ... 432
Chwareu-dy Vespasion ... 113
Ciadd-lysoedd yr Aipht ... 323
Cloch fawr Moscow ... 40
Cludeiriau rhew y Neva ... 38
Cniper ... 9
Cochin China ... 277
Cofnodau amseryddol ... 495
Coimbra ... 134

TU DALEN.

Colofn Pompey ... 324
Comora, ynysoedd ... 350
Constantinopl ... 98
Constant, llyn ... 69
Connecticut ... 386
Copenhagen ... 26
Cordova ... 144
Corfu, ynys ... 93
Corsica, ynys ... 113
Cortona ... 107
Cossaciaid ... 53
Coyba ... 458
Cracen ... 21
Cracow ... 49
Croatia ... 88
Crocodil ... 332
Croix, St. ... 446
Cronstadt ... 40
Ynys ... 36
Cuba ... 435
Curaçao ... 446
Curdistan ... 252
Curish haff, llyn ... 57
Cusco ... 460
Cyclads, ynysoedd ... 93
Cyffredinolion ... 390
Cylch deithiau barnwyr Prydain 175
Cymdeithas Affrica ... 342
Cymru ... 229
Cyn-drigolion America ... 364
Prydain ... 174
Cyprus, ynys ... 250

D

Daearyddiaeth ... 1
Daear, ei rhanau ... 12
Dago, ynys ... 13, 36
Dahl, afon ... 11
Dalmatia ... 88
Damascus ... 252
Dantzic ... 49
Danub, afon ... 4, 69
Daouria, trum ... 35
Dar Fur ... 348
Darien ... 448
Deheubarth Cymru ... 229
Delawar ... 391
Delhi ... 270
Denmarc ... 23
Dorchafael, ynys ... 359
Descada ... 443
Dinasoedd Lloegr ... 188
Ysgotland ... 215
Ywerddon ... 223
Dixan ... 331
Doffrafield, mynyddoedd ... 4
Dominica ... 433
Don, afon ... 4, 33
Douro, afon ... 132
Drame, afon ... 20
Drav, afon ... 69
Dresden ... 73
Dublin ... 223

# DANGOSEG

## I'R RHAN DDAEARYDDAWL.


A — YU DALEN.

Aar, afon .......... 120
Abyssinia .......... 330
Acapulco .......... 407
Adel .......... 335
Adig, Afon .......... 109
Adrianopl .......... 98
AFFRICA .......... 313
  arfordir gorllewin .......... 339
  parthau dwyrain .......... 335
  parthau tufewnol .......... 342
  lliw trigolion .......... 2
Afonydd Asia .......... 247
  Grenada newydd .......... 449
  Lloegr .......... 178
  Ysgotland .......... 210
  Ywerddon .......... 220
Aipht, gwlad yr .......... 322
Ajan .......... 336
Aland, ynys .......... 13
Alentia, ynysoedd .......... 36
Aleppo .......... 251
Alexandria .......... 346
Algiers .......... 316
ALMAEN .......... 64
Alp, mynyddoedd .......... 4, 69, 121
Altai, trum .......... 35
Altan, llyn .......... 34
Amazonia .......... 470
  afon .......... 369
Amboyna, ynys .......... 312
AMERICA .......... 353
  Deheubarth .......... 447
  Taleith. cyf. .......... 379
Amiens .......... 156
Amsterdam .......... 128
Amur, afon .......... 34, 292
Amu, afon .......... 300
Anadyr, afon .......... 34
Andaman, ynys .......... 312
Andes, mynyddoedd .......... 449
Andrenovia, ynysoedd .......... 36
Angladdau yn India .......... 268
Anguilla .......... 433
Antelop .......... 41
Antigua .......... 432
Antwerp .......... 128
Appenin, mynyddoedd .......... 4, 110
ARABIA .......... 254
Ararat, mynydd .......... 249
Archangel .......... 40
Ariaid, eu barn .......... 257
Arno, afon .......... 109
Armeniaid .......... 252
Arth .......... 9, 41
ASIA .......... 245

YU DALEN

Assam, Aracan .......... 276
Astracan .......... 308
Athos, mynydd .......... 92
Atlas, mynyddoedd .......... 316
Augsburg .......... 73
Australasia .......... 477
AUSTRIA .......... [illegible]
Auxum .......... 331
Azores, ynysoedd .......... 354

B

Babelmandol .......... 330
Bagdad .......... 252
Baikal, llyn .......... [illegible]
Balk, dinas .......... [illegible]
Banda, ynysoedd .......... 310
Banks a Solander yn Terra del Fuego .......... 475
Barbadoes .......... 439
Barbari .......... 316
Barbuda .......... 433
Barcelona .......... 144
Bartholomew, St. .......... 443
Basg, ynys .......... 485
Basil .......... 123
Bassorah .......... 252
Beilo, llyn .......... 34
Belgrad .......... 99
Bendigo dyfroedd y Neva .......... 38
Bengal .......... 269
Benin, Loango, &c. .......... 341
Bergen .......... 21
Berlin .......... 73, 56
Bermudas, ynys .......... 378
Bern .......... 123
Bhering, ynys .......... 36, 482
Bilboa .......... 144
Blaidd .......... 9
Bog, afon .......... 48
Bohac .......... 59
BOHEMIA .......... 62
Bombay .......... 270
Borneo, ynys .......... 311
Bornholm, ynys .......... 13, 25
Boston .......... 384
Bourbon, ynys .......... 351
Bourdeaux .......... 156
Brad y powdr gwn .......... 202
Braga .......... 133
Brandenburg .......... 58
Brasil .......... 466
Breslaw .......... 58
Breton, ynys .......... 374
Brussels .......... 128
Buckowina .......... [illegible]
Buda, dinas .......... 87

TU DALEN.
Jedo, dinas 305
Jersey newydd 388
ynys 192
Juan Fernandes 476

K.

Kamschatka, afon 34
mynyddoedd 35
Kentucky 396
Kianku, afon 280
Kolono 40
Koningsberg 58
Kolyma, afon 34
Kurile, ynysoedd 36

L.

La plata, afon 369
Labyrinth yr Aipht 324
Ladoga, llyn 35
camlas 41
Lama 460
Laos 277
Languedoc, camlas 154
Lapland 5
Lassa 298
Lausanne 123
Lawrence, St. afon 369
Lebanon, mynydd 249
Leipsig 73
Leon de Caracas 452
Lemming 22
Lemnos, ynys 93
Lena afon 34
Leyden 128
Lima 459
Limmatt, afon 120
Lipari, ynysoedd 113
Lisbon 134
Lladron, ynysoedd 310
Llew 262
Llewpard IB.
LLOEGR 173
newydd 380
Llostlydan 21
Llundain 188
Llŵ coroniad Prydain 182
Llychlyn 3
Llynau a ffynonydd Lloegr 179
Ywerddon 220
Japan 303
Llys arglwyddi Prydain 183
cyffredin IB.
cyfraith 184
Llythyr yn rhoddi hanes am y Madawgwys 419
Loom 9
Loire, afon 153
Loretto 108
Louisiana 403
Louven, afon 20
Lucia, St. 441
Lucknow 270
Luckow 49
Lugano, llyn 109

TU DALEN.
Lundy, ynys 192
Lymfford, aber 24
Lyons 156

M.

Mackenzie, ei daith 412
Madagascar 351
Madawgwys, eu hanes 419
Madeira, ynysoedd 353
Madras 271
Madrid 143
Magdeburg 58
Maggiore llyn 109
Mahometaniaeth 96
Malacca 144
Maldive, ynysoedd 313
Malta, ynys 113
Manaw 193
Mantua 105
Margaretta, ynys 436
Mariagalante 443
Maritz, afon 92
Marmot 123
Marquesas, ynysoedd 483
Martin Luther 71
Martinico 442
Marseilles 156
Marwolaeth Cook 494
Maryland 392
Massachusetts 383
Mathew, ynys 352
Mauritius, ynysoedd 351
Mayo, ynys 353
Mecca a Medina 256
Memel, afon 56
Mesen, afon 33
Meuse. afon 126
Mexico 405
newydd 411
ei goresgyniad 355
dinas 407
Mæandor, afon 249
Miaco, dinas 305
Middleburg 128
Milan 105
Miler, llyn 12
Minho, afon 132
Miors, llyn 20
Mississippi, afon 369
Mitau 49
Mitylene 250
Mocaranga 336
Molucca, ynysoedd 310
Montreal 376
Monserat, mynydd 139
Mor y canoldir 3
Mor-ddyn 21
Mor-forwyn IB.
Mor-neidr IB.
MORAVIA 82
Moraviaid 84
Moraw, afon 83
Morfil 372

TU DALEN.

Dwina, afon ........ 4, 33

E

Edinburg ........ 215
Eglwys Loegr ........ 185
Ysgotland ........ 214
Elb, afon ........ 4, 56
Elk ........ 21
Elsinoer ........ 27
Enghano, ynys ........ 312
Escura, llyn ........ 132
Eskar, afon ........ 92
Estrys ........ 253
Etna, mynydd ........ 4, 110
Evora, afon ........ 135
Euphrates, afon ........ 249
Eustatia, St. ........ 444
Ewrop ........ 3
trigolion cyntaf ........ 4
Eydor, afon ........ 24

F

Falkland, ynysoedd ........ 476
Faris, llyn ........ 20
Feomond, llyn ........ ib.
Fezzan ........ 346
Formosa, ynys ........ 309
Fozo, ynys ........ 353
Frechwen yn blâ yn mhlith yr Indiaid ........ 417
Fribourg ........ 123
Fruili ........ 82
Ffaroer, ynysoedd ........ 27
Ffrainc ........ 152
Ffrankfort ar Oder ........ 58
Main ........ 73
Ffredericstadt ........ 21
Ffrish haff, llyn ........ 57
Fflorida ........ 404

G

Gallipagos, ynysoedd ........ 477
Gambia, afon ........ 314
Ganga afon ........ 266
Garonne, afon ........ 153
Genoa ........ 106
Georgia ........ 400
Germani ........ 64
Gewai ........ 9
Ghent ........ 128
Gibraltar ........ 144
Gilolo, ynys ........ 311
Glommen, afon ........ 20
Goa ........ 270
Gondar ........ 331
Goree, ynys ........ 353
Gothaelf, afon ........ 12
Gothiaid ........ 4
Gothland, ynys ........ 13
Gottenburg ........ 15
Granada ........ 434
Greenland ........ 371
Grenada newydd ........ 447
Grodno ........ 49
Guadaloupe ........ 439

TU DALEN.

Guadalquiver, afon ........ 149
Guadiana, afon ........ 133
Guanco ........ 460
Guatimala ........ 407
Guernsey ........ 192
Gulla, afon ........ 20
Guni ........ 220
newydd, trigol. ........ 2
Gwal fawr China ........ 261
Gwlad y Pwyl ........ 47
Gwledydd Ewrop ........ 5
Gwybed Abyssinia ........ 333
Lapland ........ 9
Gwyneb y ddaear ........ 2

H

Haarlem ........ 128
Hagland, ynys ........ 13
Hague ........ 125
Halifax ........ 377
Halle ........ 58
Hamburg ........ 73
Hampshire newydd ........ 363
Hanover ........ 73
Haoussa ........ 346
Hearn, ei deithiau ........ 412
Hebrides newydd ........ 487
Hecla, mynydd ........ 4, 27
Helena St. ........ 353
Heligoland, ynys ........ 24
Hercynia, coedwig ........ 20
Hippopotamus ........ 332
Hispaniola ........ 438
Hoanho, afon ........ 240
Hottentotiaid, gwlad yr ........ 337
Holland ........ 125
Newydd ........ 477
Hungari ........ 85
Hyena ........ 332
Hynafiaethau Stonehenge ........ 167

I.

Ibex ........ 123
Ilmen, llyn ........ 34
Imandra, llyn ........ ib.
India orllewin ........ 424
Indiaid Canada ........ 413
Kinsteneaux ........ 416
California newydd ........ 422
Indighirka, afon ........ 34
Indostan ........ 264
Indus, afon ........ 258, 266
Iun, afon ........ 60
Ioan Calvin, hanes ........ 71
Ioan St. ynys ........ 378
Ioan St. ........ 446
Irkutsk ........ 309
Irtish, afon ........ 31
Ispahan ........ 261
Itali ........ 104
Jago, St. ynys ........ 353
Jamaica ........ 427
Japan ........ 303
Java, ynys ........ 312

TU DALEN.

Jedo, dinas 305
Jersey newydd 388
ynys 192
Juan Fernandes 476

K.

Kamschatka, afon 34
mynyddoedd 35
Kentucky 396
Kianku, afon 280
Kolono 40
Koningsberg 58
Kolyma, afon 34
Kurile, ynysoedd 36

L.

La plata, afon 369
Labyrinth yr Aipht 324
Ladoga, llyn 35
camlas 41
Lama 460
Laos 277
Languedoc, camlas 154
Lapland 5
Lassa 298
Lausanne 123
Lawrence, St. afon 369
Lebanon, mynydd 249
Leipsig 73
Leon de Caracas 452
Lemming 22
Lemnos, ynys 93
Lena afon 34
Leyden 128
Lima 459
Limmatt, afon 120
Lipari, ynysoedd 113
Lisbon 134
Lladron, ynysoedd 310
Llew 262
Llewpard IB.
LLOEGR 173
newydd 380
Lloslydan 21
Llundain 188
Llw coroniad Prydain 182
Llychlyn 3
Llynau a ffynonydd Lloegr 179
Ywerddon 220
Japan 303
Llys arglwyddi Prydain 183
cyffredin IB.
cyfraith 184
Llythyr yn rhoddi hanes am y Madawgwys 419
Loom 9
Loire, afon 153
Loretto 108
Louisiana 403
Louven, afon 20
Lucia, St. 441
Lucknow 270
Luckow 49
Lugano, llyn 109

TU DALEN.

Lundy, ynys 192
Lymfiord, aber 24
Lyons 156

M.

Mackenzie, ei daith 412
Madagascar 351
Madawgwys, eu hanes 419
Madeira, ynysoedd 353
Madras 271
Madrid 143
Magdeburg 58
Maggiore llyn 109
Mahometaniaeth 96
Malacca 144
Maldive, ynysoedd 313
Malta, ynys 113
Manaw 193
Mantua 105
Margaretta, ynys 436
Mariagalante 443
Maritz, afon 92
Marmot 123
Marquesas, ynysoedd 483
Martin Luther 71
Martinico 442
Marseilles 156
Marwolaeth Cook 494
Maryland 392
Massachusetts 383
Mathew, ynys 352
Mauritius, ynysoedd 351
Mayo, ynys 353
Mecca a Medina 256
Memel, afon 56
Mesen, afon 53
Meuse. afon 126
Mexico 405
newydd 411
ei goresgyniad 355
dinas 407
Mæandor, afon 249
Miaco, dinas 305
Middleburg 128
Milan 105
Miler, llyn 12
Minho, afon 132
Miols, llyn 20
Mississippi, afon 369
Mitau 49
Mitylene 250
Mocaranga 336
Molucca, ynysoedd 310
Montreal 376
Monserat, mynydd 139
Mor y canoldir 3
Mor-ddyn 21
Mor-forwyn IB.
Mor-neidr IB.
MORAVIA 82
Moraviaid 84
Moraw, afon 83
Morfil 372

| | TU DALEN. |
|---|---|
| Yr Iâ | 27 |
| Tywysog Cymru | 312 |
| Ynysoedd Bahama | 435 |
| Cyfeillgar | 486 |
| Cymdeithasgar | 484 |
| Gwyryf | 434 |
| Mordwywyr | 487 |
| Ysgotland | 212 |
| Ywerddon | 221 |
| Ymerodraeth Russia | 32 |
| nwahanwyr | 215 |

| | TU DALEN. |
|---|---|
| Ysglavoniaid | [illegible] |
| Ysglavonia | [illegible] |
| YSGOTLAND | [illegible] |
| YSPAEN | [illegible] |
| YWERDDON | [illegible] |

Z

| | |
|---|---|
| Zablonoi trum | [illegible] |
| Zanguebar | [illegible] |
| Zante, ynys | [illegible] |
| Zealand newydd | [illegible] |
| Zuric | [illegible] |


DIWEDD.

CAERLLEON,
ARGRAFFWYD GAN JOHN FLETCHER.